



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines


Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>





Let f be a function of two variables

$$P_{er} \quad 14198 \quad e \quad \frac{285}{1857} \quad e$$









Y

TRAETHODYDD.

AM Y FLWYDDYN 1859.

LLYFR V. O GYFRES NEWYDD, A LLYFR XV.
O'R DECHREUAD.

TREFFYNNON:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS.

MDCCLIX.



CYNNWYSLAD.

	Tu dal.
Aberconwy a'i Henafiaethau	160
Annogaethau a Chyfarwyddiadau i'r Dosbarth Gweithiol	
gasglu Gwybodaeth	411
Arddansoddiaeth Ferrier	310
Awdlau a Phryddestau Hen a Diweddar	389
Beumaris a'i Chyffiniau	469
Caethiwed a Chaethfasnach yn America	16
Cyfieithiadau o'r Sanscrit	424
Cyfrngau Addysg Lényddol a Moesol Cenedl y Cymry	55, 184
Deddfau Natur a Deddfau y Gair..	301
George Heycock a'i Amserau	34, 211, 343
Gwŷr Ieuainc Cymreig yn Lloegr	232
Gwŷr Ieuainc Llanllenorion	113, 142
Iwerddon	447
John Knox a'i Amserau	261
<i>Llényddiaeth Henafol yr Hindwaid</i>	320

	Tu dal.
Llyfrgelloedd	92
NODIADAU LLENYDDOL	128, 260, 385, 509
Nodweddau y Pedwar Efengylwr	428
Satan a'r Ddaear	495
TREM AR FYD AC EGLWYS	126, 255, 508
Tridiau yn Llandrindod eto	367
Y Dystiolaeth a'r Drugareddfa; neu Ddeddf a Gras... ..	5
Yr Amddiffynfa	487
Yr Eisteddfodau	133
Yr Esboniadau... ..	198
Yr Hindw a'r Celtiad	64
Yr India Ddwyreiniol	120

Y TRAETHODYDD.

Y DYSTIOLAETH A'R DRUGAREDDFA; NEU DDEDDF A GRAS.

Y MAE mawredd a gwerth anmhrisiadwy rhagorfreintiau "y dyddiau diweddfaf hyn" mewn cysylltiad â goruchwyliaeth yr efengyl yn ddiarnheuol, ac yn arddodi arnom ni, "ar y rhai y daeth terynau yr oesoedd," gyfrifoldeb uchel a phwysig. Dichon y buom weithiau, wrth ddarllen am yr ymweliadau a'r gweledigaethau nefol a dderbynid ar brydiau arbenig gan "y rhai gynt," ac am y gwyrthiau rhyfeddol a gyflawnid yn "mlyn-yddoedd yr hen oesoedd," ac am bethau gogoneddus eraill a fwynheid dan yr hen oruchwyliaeth, yn barod i genfigenu wrth freintiau neillduol y tadai Iuddewig, ac i ddychymygu mai yn y dyddiau hyn y'r oedd "yr oes aur-aidd." Eithr, erbyn cymharu yn deg, gwelir yn ebrwydd fod ein manteision crefyddol ni yn annhraethol amgenach ymhob modd na'u cyfeusderau hwy, a bod yr holl ogoniant oedd yn perthyn i oruchwyliaeth Moses yn diflanu o flaen "gogoniant tra rhagorol" yr efengyl. Y mae ein llygaid ni yn gweled, a'n clustiau ni yn clywed, yr hyn a chwennychodd llawer o brophwydi a breninoedd a rhai cyfiawn, oes ar ol oes, eu gweled a'u clywed, ac nis cawsant. Ond tra y dylem ddiolch yn wresog am ragoriaethau yr amseroedd efengylaidd, nid anhyfryd nac anfuddiol yw i ni, yn awr ac eil-waith, chwilio i'r "llawer modd" hyn drwy ba rai yr oedd Duw, "cyn dyfod ffydd," yn llefaru am Geidwad dyn. Yr oedd offeiriaid cysgodol yn gweinyddu, aberthau cysgodol yn gwaedu, iachawdwy'r cysgodol yn gwaredu yr Israel, a breninoedd cysgodol yn dal y deyrnwialen—oll yn cyfeirio ymlaen at Iesu, Messiah Duw; ac yn y cyfamser yr ydoedd hefyd liaus o brophwydi, dan gynhyrfaid ysbrydoliaeth, yn rhagddadgan yn fanwl-ddyfodiad a gwaith a theyrnasiad Crist yr Arglwydd. Pan ddaeth y Messiah, dyna nôd ac amcan yr oruchwyliaeth seremoniol wedi dyfod i ben, a hithau yn myned yn ffurf ddifywyd a diddefnydd. Ond er fod y drefn gysgodol wedi myned heibio, y mae ei choffadwriaeth eto yn barchus, a'i hanes gyda ni er ein haddysg a'n lles. Y mae genym yn awr bob mantais i fyned i weled ei dirgelion, gan fod yr allweddau priodol wedi eu doddi yn ein dwylaw. Pan yr elom o dan arweiniad "Ysbryd doethineb a dadguddiad" i edrych dodrefn yr hen gysegrfa, a phan y byddom yn ngoleuni yr efengyl yn syllu ar yr arwyddluniau yno, y cwbl yn ordeiniedig gan Dduw, ac yn gyflawnedig yn Nghrist, nid allwn lai na dywedyd, "Da yw i ni fod yma."

*Ymysg yr holl bethau cysgodol yn mhabell yr Arglwydd, fe dybygid
1859.—1*

mai y mwyaf arbenig a chysegredig a chynnwysfawr ydoedd, arch y cyfammod. Nid gormod yw dywedyd mai er ei mwyn hi y cyfodwyd y tabernacl sanctaidd, ac y neillduwyd y lle sancteiddiolaf o'i fewn. Prif ryfeddod yr adeiladaeth ryfeddaf ydoedd. Yr arch hon oedd gist neu goffor wedi ei gwneuthur o fyrddau o goed sittim, pren o natur dra pharháus oedd yn tyfu yn anialwch Sinai, ac wedi ei gwisgo oddimewn ac oddiallan á'r aur puraf. Yn y gist yma y cedwid dwy lech y gyfraith, yn cynnwys y deg gorchymyn yn ysgrifen y Duw mawr ei hun, a'r rhai a elwir "y dystiolaeth," am fod y ddeddf foisol yn dystiolaeth neillduol o natur sanctaidd Duw, ac o ddyledswydd rwymedig dyn, ynghydag o euogrwydd ac ysgelerder ei droseddau yn erbyn yr Arglwydd. Cauad yr arch ydoedd gyfanwaith o aur pur, ac o'r un hýd a lléd á'r arch, ac a elwir yn ein darlleniad awdurdodedig ni, "y drugareddfa." Mae y gair a arferir yn wreiddiol yn arwyddo "gorchudd;" eithr nid gorchudd yn gymaint yn yr ystyr o gadw yr hyn oedd yn yr arch allan o olwg, ond, fel y mae rhai wedi darllen, "gorchudd iawnol" neu "ddyhuddol," canys yr oedd gwaed ebyrth ar wyl y cymmod yn cael ei daenllu arno. Ar ddau ben y drugareddfa, ac megys yn codi o honi, yn rhan o'r un cyfanwaith aur, yr oedd dau gerub, gyda'u hadenydd estynedig yn cysgodi gwyneb y drugareddfa, ac yn ymogwyddo ati gydag ymddangosiad megys o syndod a pharchedigaeth sanctaidd. Oddirhwng edyn y cerubioid, fel yn eistedd ar orseddfa ddyrchafedig, yr oedd y Shecina, gogoniant yr Arglwydd, yr arwydd ofnadwy o bresennoldeb Duw Israel. Yr oedd rhyw addysg a meddwl neillduol, mae yn ddiau, ynglŷn á'r holl bethau hyn; mae yn hawdd gweled fod y naill gyda y llall o honynt yn cyfeirio yn uniongyrchol at natur, effeithiolrwydd, a chysylltiadau cyfryngdod yr Arglwydd Iesu.

Ond un peth yn unig sydd genym ni ar hyn o bryd i alw sylw y darllenydd ato oddiyma, a hwnw yw,—cyfarfyddiad neu undeb y dystiolaeth a'r drugareddfa, fel arwyddlun o'r cysylltiad rhwng deddf a gras yn nhrefn y prynedigaeth. Oddifeu i'r arch, ar yr hon yr oedd y drugareddfa, yr oedd y ddwy lech faen. Yn ac o dan yr arwyddluniau penaf a rhyfeddaf o ras Duw, yno yr oedd llechau y gyfraith yn nghadw. Nid oedd bosibl sefyll yn ymyl y drugareddfa heb fod ger bron y dystiolaeth yr un pryd. Fe ymddengys y priodoldeb mwyaf yn y cysylltiad arwyddocaol rhwng y llechau a'r drugareddfa, neu y cysylltiad rhwng deddf a gras—am fod yr anghenrheidrwydd am ras wedi cyfodi oddiwrth droseddiad y ddeddf—am fod holl dresn gras yn unol ág anrhydedd y ddeddf—ac am fod y gweinyddiad o ras yn adferu dyn i gydffurfiad á'r ddeddf.

Yr oedd yn briodol fod llechau y gyfraith yn yr arch, a chyd a drugareddfa, am mai y troseddiad o'r gyfraith a barodd fod ar ddyn eisieu gras—gras yn yr ystyr o drugaredd faddeuol. Oddiar y drugareddfa yr oedd y Jehofah yn cyfarfod yn faddeugar ág Israel, nid yn eu personau eu hunain, ond trwy gyfryngiad archoffeiriad. "Mi a gyfarfyddaf á thi yno, ac a lefaraf wrthyt." A pha fodd yr oedd yr archoffeiriad yn cyfarfod á Duw yn achos y bobl? Yn unig gyda gwaed, arwydd fod bywyd wedi ei gymeryd ymaith i wneuthur cymmod neu iawn am drosedd; ac yr oedd y gwaed hwnw yn cael ei daenllu ar ac o flaen y drugareddfa. Yr oedd hyn ynddo ei hunan yn dywedyd fod Israel yn euog yn ngwyneb cyfraith yr Arglwydd. Pe buasai pobpeth yn dda rhwng y bobl a'r gyfraith, ni buasai eisieu gorchudd iawnol i'w chadw yn dawel yn ei choffor yn yr ystafell

sancteiddiaf. Yr oeddynt hwy eu hunain yn methu sefyll yn ngwelediad ei mellt arswydlawn ac yn nghlyw ei tharanau dychrynilydd oddiar fynydd Sinai; ac nis gallai eu hachos hwy sefyll o flaen ei gwyneb noeth yn y lle sancteiddiolaf; yr oedd raid, o herwydd euogrwydd y bobl, cael mân trugaredd yn gysgod drosti. Yr ydym yn gweled, fel hyn, fod trefniadau gras yn cyhoeddi yn uchel fod cyfraith Duw wedi ei throseddu, ac mai o herwydd pechod a thrueni dyn yr oedd anghen am danynt.

Ar wawrddydd amser, am yr ychydig enyd y bu dyn yn ffyddlawn i'w Dduw, nid oedd arno eisieu yr un arch a thrugareddfa i fod rhyngddo â'r ddeddf; yr oedd iddo ddyfodfa rydd at yr Arglwydd Dduw, heb achos am neb i gyfryngu rhyngddynt. Ond nesâd trwy aberth a chyfryngwr yw nesâd dyn yn awr at Dduw; ac y mae holl drefn y nesâd hwn yn dangos ar unwaith raslonrwydd Duw ac euogrwydd dyn. Mae y sawl sydd yn ufudd i gyfraith ei wlad yn gallu aros mewn llonyddwch oddiwrth ofn drwg; nid oes arno ofn carchariad na chosb o un math oddiwrth y gyfraith. Nid oes un achos i'r deiliad da ac ufudd geisio am wŷr o ddylanwad i ddwyn deiseb at y Goron ar ei ran, i ymbil am arbediad ei fywyd; lle y gwneir hyny, mae yn rhaid fod trosedd marwol wedi ei gyflawni. Felly y mae trefn maddeuant trwy Grist, a'n gweddïau ninnau am faddeuant, yn cynnwys ac yn addef ein gwrthryfel a'n heuogrwydd ni. Yn unig yn ymyl y drugareddfa y gallwn ddyfod at y Presennoideb Dwyfol heb ein lladd; ac wele yr arch sydd yn dal y drugareddfa yn dal o'i mewn hefyd y ddeddf yn dystiolaeth i'n herbyn, fel nas gallwn ddyfod at y drugareddfa am rydd-lâd heb sefyll yr un pryd o flaen y ddeddf a'n rhoes yn rhwym.

Gwers ydyw hon y rhaid i ni fod yn gyfarwydd ynddi os mynem wneuthur defnydd o ffydd yr efengyl,—ein cyflwr euog a pheryglus yn ein perthynas â deddf y nefoedd; a dyma yn wir y wers gyntaf sydd i'w dysgu yn ysgol Cristionogaeth brofiadol. Wrth gymharu ein hunain â gorchymynion pur, äang, a manwl y gyfraith, nid oes genym ond gwaeddi yn ei gwyneb, Euog, euog! aflan, aflan! a phed anfonid ni gan Farnwr pawb, am ein troseddiadau aneirif, i uffern isod, o ba le na byddai gobaith dyfod allan byth, byddai raid i ni yno addef, "Arglwydd Dduw Hollalluog, cyflawn a chywir yw dy farnau di!" Heb deimlo y gwirionedd hwn yn argyhoeddiad bywiol yn y gydwybod, ni bydd iachawdwriaeth yr efengyl ond fel gwerth yn llaw y ffol. Pe medrem ennill dynion yn lluoedd i wneuthur profïes gyhoeddus o grefydd Crist, ac i siarad yn fynych ac yn rhwydd am drefn gras trwy Gyfryngwr, tra heb eu hargyhoeddi o'u cyflwr drwg fel troseddwy'r diesgus o ddeddf Duw, pa lesâd a fyddai hyny? ni wnaem ond eu helpio i fyned i ddystryw gan freuddwydio am y nefoedd. Duw a waredo brægethwyr, a swyddogion eglwysig yn gyffredinol, rhag iachâu yn ysgafn friwiau eneidiau! Os bydd y briw yn ddwfn, ofer fydd defnyddio eli i groenio yr wyneb; fe äi y clwyf yn fwy peryglus felly, gan yr ymdaenai yn gyflwmach oddifewn, nes cyrhaedd y rhanau bywydol a lladd yr holl gorff. Rhoddi eli ar wyneb yr archoll echrydus yw cymhwyso cysuron yr efengyl at bechadur heb ei anesmwytho am ei achos colledig. Ni welsid mo'r mab afradlawn yn dychwel at ei dad yn y fath agwedd ostyngedig a hywedd, pe na theimlassai ei hun yn marw o newyn. Ac ni ddaethai neb byth o deulu balch dynoliaeth gamweddus i syrthio mewn hunangondemiad a hunanffieiddiad wrth draed Iachawdwr y byd, pe na buasent yn cael eu gyru ymlaen gan gleddyf tanllyd y gyfraith. Rhaid ein parotî trwy wynt,

daeargryn, a than y ddeddf, i wrandaw ar lef ddstaw fain yr efengyl. Ar ol bod yn llewygu gan ofn mellt mynydd Sinai, melus fydd mwynhâu hindda a heulwen mynydd Sion. Mae yn wir y gall fod llawer o wahan-iaeth ymhlith y rhai a fyddant cadwedig gyda golwg ar ddull dechreuad ac ar raddau eu hargyhoeddiad; ond ni cheir neb yn eu mysg heb weled ysgelerder eu hanwireddau, ac heb ffoi at groes Crist fel unig obaith eu heneidiau. Nid oes un pechadur, cofier, na chaiff ei argyhoeddi yn drwy-adl rywbyrd am yr achos annedwydd sydd rhyngddo â chyfraith yr Arglwydd; ond gwae yr enaid y bydd y cyfryw argyhoeddiad yn ei gyrhaedd mewn adeg rhy ddiweddar i fyned ato Ef yr hwn a aeth yn "ddiwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un sydd yn credu!" Tydi, ddarllenwydd, ag sydd, fe allai, hyd yn hyn heb ddyfod adref at dy sefyllfa ysbrydol fel troseddwr deddf sauctaidd Duw, gwybydd y myn yr Arglwydd cyfiawn ddwyn dy fater i benderfyniad ar fyrder bellach. Dos i'r fan y mynot, ac at y gwrthdrysiau a ddewisot, fe fyn llywodraeth y Brenin tragywyddol dy osod mewn dalfa, a'th ddwyn o flaen llys barn. Mae'r warant eto, fe ddichon, heb ei gwasanaethu ar dy berson; ond hi a ddygir hyd atat yn sicr, a darllenir hi i'th gydwybod ddychrynedig; ac os yno heb Fachniydd i ateb drosot, ni bydd dim i'w wneyd â thi ond dy dafu yn enaid noeth at "ysbrydion yn ngharchar." Pwy na ddewisai, ynte, am i'r ddeddf ei ddal yn ei ddydd hwn—yn yr amser cymeradwy, tra mae yn bosibl derbyn maddeuant ar gyfrif gwaed y groes!

Yr oedd y cysylltiad rhwng y dystiolaeth a'r drugareddfa yn dra phriodol er mwyn dangos fod, y gweinyddiad o ras yr efengyl yn berffaith gyson âg anrhydedd y ddeddf. Yn yr un ystafell yr oedd y gyfraith bur yn cael ei chadw, a chenedl bechadurus yn cael estyniad bywyd. Gweinyddid maddeuant yn gyfreithlawn oddiar y drugareddfa, canys yno yr oedd yr holl gyfraith yn gorphwys yn dawel ac mewn mawrhâd yn ei gwely auraid. Yr oedd y caud aur yn orchudd dyhuddol uwch ben llechau y gyfraith, o herwydd y taenellid arno waed—gwaed creadur diniwed dros ac yn lle y troseddwr euog. Yn y sancteiddiolaf yr oedd llys Duw Israel, lle yr oedd efe yn eistedd yn Frenin ar ei orseddfainc; ac yr oedd ei gyfraith gydag ef yn wastad yn drigfa ei orseddfainc; o herwydd oddiar y drugareddfa a'r llechau yr oedd ei eisteddfa. Os felly, galleid dywedyd, y mae ei lygad sanctaidd yn edrych i lawr ar ei gyfraith lân, yr hon y mae Israel yn euog o'i throseddu beunydd, nes y mae yn penderfynu yn ei ddioglonrwydd ddyfetha y bobl.—O nac ydyw: syllu y mae ei lygad ar y gorchudd iawn-ol sydd rhyngddo â'r llechau, ar ba un y mae gwaed y cymmod wedi ei ddodi; ac yn ngwyneb y fath olwg, dywedyd y mae, "Nid oes lidiawgrwydd ynof; mi a faddeuais, nid anrheithiaf!" Mae'r gyfraith a'r drugareddfa yn yr un fan, yn arddangosiad fod y Duwdod mawr wedi cael ffordd i fod ar unwaith yn gyfiawn ato ei hun, ac yn raslawn at yr euog.

Pan y byddom yn edrych ar ddyn wedi troseddu y ddeddf Ddwyfol, nid oes un anhawsder i ni ddeall y gallasai Duw yn gyfiawn beidio maddeu yn dragywydd iddo. Ond pa fodd y gall Arglwydd y lluoedd fod yn gyfiawn fel Deddfroddwr a Barnwr, a maddeu i'r troseddwr hefyd?—ateb hyna yw yr anhawsder mawr. Nid oedd un rhwymau ar yr Anfeidrol F'od feddwl am fadden i ddyn pechadurus mwy nag i angel pechadurus; ond wedi iddo feddwl am hyny, yr oedd yn rhwymedig iddo ei hun i weinyddu y maddeuant mewn ffordd unol âg anrhydedd ei gyfraith. Meddyliar am lywodr-

aethwyr daearol; mae yn anheborol iddynt, er mwyn cynnal iawn drefn a dwyn ymlaen ddaioni gwladwriaethol, ddangos parch i'w cyfreithiau trwy gefnogi ufudd-dod ac anghefnogi gwrthryfel. Buan y syrthiai y wlad hòno i ddinistr, yn yr hon na wneid gwahaniaeth rhwng y deiliaid ffyddlawn a'r gwrthryfelwyr, ond y gadewid i bob un gadw neu dori y gyfraith fel y dewisai. A chan fod "yr Arglwydd, y Duw mawr," yn anfeidrol fwy na breninoedd daearol, a bod yn rhaid wrth seiliau diysgog i'r ymddiried llwyraf yn nghyfiawnder a sefydlogrwydd ei freniniaeth, nid yn unig er mwyn iawn drefn un wlad nac un byd, ond er daioni i bob man o'i lywodraeth, rhaid yw iddo amddiffyn ei gyfraith gyflawn yn ngwyneb ei bod wedi ei throseddu yn hollol ddiachos. Am ddeddfau natur, amlwg yw fod anufudd-dod iddynt hwy yn beth sydd, nid yn cael ei gosbi gan y Llywydd Dwyfol, ond yn cael ei rwystro ganddo. Y mae yn amhosibl troseddu yn erbyn gosodiadau anhyblyg naturiaeth. Ni waeth heb i neb geisio gwneyd i'r gareg sefyll i fyny yn yr awyr; mae hi, yn ol ei deddf, yn rhwym o syrthio i'r ddaear. Ond am ddeddf foesol Duw—deddf meddwl ac ymddygiad dyn fel créadur rhesymol a chyfrifol—mae y troseddiad o honi hi wedi ei gysylltu, nid ág amhosiblwrwydd, ond â chosbedigaeth. Y Duw sydd yn amddiffyn y naill ddeddf trwy rwystro ei throseddu, sydd yn amddiffyn y ddeddf arall trwy gosbi am ei throseddu. Rhoddwyd y ddeddf foesol i ddyn, a rhaid ufuddhâu iddi gan ddyn; troseddwyd y ddeddf gan ddyn, a rhaid gweini ei chosb ar ddyn. Mae pechod fel anghyfraith yn ddiystyrwch ar awurdod llywodraeth Duw, yn gystal ag fel halogrwydd meosol yn wrthwynebrwydd i sancteiddrwydd natur Duw; ac am hyny nid oes modd ei adael yn ddiagosb. Ond os gweinyddir melldith y ddeddf ar ddyn, fe fydd byth yn dyoddef, heb fod byth wedi gwneuthur iawn; ac o ba le gan hyny y gall maddeuant ddyfod iddo? Ond, i Dduw y byddo'r diolch! yma y mae yr efengyl yn dyfod ymlaen i ateb y gofyniad pwysig a chaled: "A hwy wedi eu cyfiawnhâu yn rhad trwy ei ras ef, trwy y pryndedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, yr hwn a osododd Duw yn iawn," neu, fel y gellir darllen, yn drugareddfa, "trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddyoddefgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn, fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhâu y neb sydd o ffydd Iesu."

Yr Iesu ei hunan yw sylwedd mawr y cyfan yn y cysegr sancteiddiolaf. Efe yw y wir arch â'r llechau o'i mewn. Yr oedd y byd trwy yr oesoedd yn tafu ymaith gyfraith Duw mewn dirmyg; ond, yn nghyfiawnder yr amser, dyma "ddyn a'r Duwdod ynddo yn trigo," wedi dyfod i roddi ei hunan yn gartref clyd iddi. Nid oedd eisieu doddi y gyfraith yn ei feddwl, a'i hysgrifenu yn ei galon ef, canys yno yr oedd hi. "A'th gyfraith sydd o fewn fy nghalon." Ni bu ei enaid fynydd erioed heb ei hargraff arno yn gyflawn. Mae y ddeddf wedi ymgawdoli ynddo ef; mae hi yma yn fyw; yn meddwl, yn siarad, yn gweithredu yn y dyn Crist Iesu. Yn mlynnydd-oedd mebyd ac ieuencyd, ac yn holl dymmorau ei oes, ni wnaeth efe ddim allan o'i le. Fe rodiodd yn uniawn ar hyd ffordd cyfiawnder, heb droi ar y llaw ddehau nac ar y llaw aswy. Yn ei holl gymeriad, yn gyhoeddus ac anghyhoedd, yr oedd yn sanctaidd, diddrwg, a dihalog. Gallai edrych oddiamgylch ar genedl o dystion, ac yn eu mysge ei elynion maleisus, y rhai y buasai yn dda ganddynt gael rhyw wall arno, a'u beiddio yn hyf, "Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?" Yn ofer yr oedd y diafol

yn ymosod arno â'i demtasiynau; nid oedd ynddo ef ddim ag y gallai temtasiwn weithredu arno. "Y mae tywysog y byd hwn yn dyfod, ond nid oes iddo ddim ynof fi:" gan ddeddf ei Dad yr oedd y cwbl ynddo ef. Os oedd ei gorchymyn hi yn dra èang, yr oedd ei ufudd-dod yntau yr un mor èang. Gallasai y gyfraith ddyweyd, Ni chefais neb o'r blaen ar y belen ddaearol i gerdded gam y'ng ham â mi, heb lithro na gwyro dim; dyma un sydd yn ateb i mi ddogyn dydd yn ei ddydd! Anrhydedd dynion ac angelion yw eu hufudd-dod hwy i'r ddeddf, ond anrhydedd y ddeddf yw ufudd-dod Crist iddi. Dyma yma fwy o anrhydedd iddi nag a allasai ufudd-dod holl ddnolryw ei roddi; i.e, mwy na'r dianrhydedd a roddir arni gan an-ufudd-dod holl droseddwr daear. Nid yw anufudd-dod dyn, er ei ddrygedd annhraethol, ond troseddiad créadur meidrol; yr oedd ufudd-dod Crist yn waith Person Anfeidrol. Pwy yw hwn a ddisgynodd hyd barthau isaf y ddaear i ddwyn iau y gyfraith arno? Efe yr hwn a fesurodd y nefoedd â'i rychwant, a daenodd y bydoedd uwch y gwagle aruthrol, ac sydd yn cynnal pob peth â gair ei nerth. Wele Arglwydd y ddeddf yn ymogwyddo o'r nefoedd i'r ddaear er mwyn dyfod yn ddeiliad ufudd a gostyngedig iddi! A chofiw'n yn wastad mai nid er ei fwyn ei hun, a throsto ei hun, y daeth efe i ufudd-hâu i'r gyfraith. Mae pob mynyd o fywyd sanctaidd a pherffaieth yr Hwn a anwyd yn mhreseb Bethlehem, yn rhyw edefyn yn y llian main gwyn a glân, yr hwn yw cyfiawnder y saint. Gwrthddadleuir gan rai, mae yn wir, yn erbyn y golygiad hwn; haerant fod Crist fel dyn o dan rwymau i gadw y ddeddf drosto ei hunan, ac am hyny nas gall ei ufudd-dod gael ei gyfrif er cyfiawnder i eraill. Ond pe caniatâem fod natur ddynol Crist dan rwymedigaeth i'r ddeddf ar ei rhan ei hun, ni byddai hyny yn dirymu dim ar drefn Duw i wneuthur llawer yn gyfiawn trwy ufudd-dod Crist. Yr oedd Adda, ni a wyddom, dan rwymau i ufuddhâu i'w Grëawdwr drosto ei hun; ond er hyny, pe cadwasai efe gyfammod ei Dduw, cyfrifasid hyny yn gyfiawnder i'w hiliogaeth. Eithr yr oedd dynoliaeth Crist yn wastad mewn undeb â'i Dduwdod yn ei berson; ac ni chafodd efe ei fôd fel dyn er ei fwyn ei hunan. Er mwyn eraill y cymerodd efe ddnoliaeth, ac nid i ufuddhâu nac i wneuthur dim ar ei ran ei hun. Yr oedd "ei wneuthur ef o dan y ddeddf," yn beth gwahanol oddiwrth "ei wneuthur o wraig;" nid fel dyn, eithr fel person cyhoeddus dros ddynion, yr aeth y Cyfryngwr yn rhwym i'r gyfraith.

Ond nid oedd bywyd o ufudd-dod i'r ddeddf onid un peth a ofynid mewn Cyfryngwr rhwng Duw a dynion; yr oedd raid iddo ef farw yn aberth i'w melldithion. "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." Yn y lle sancteiddiolaf, yr ydym yn gweled y ddeddf seremoniol yn dyfod gyda gwaed i'r ddeddf foesol; eithr nid oedd hyny ddim ond fel rhyw *note of hand* yn cydnabod y ddyled. 'Nid gwaed bustach neu fwch fel hyua a wna y tro i mi,' medd y ddeddf foesol; 'dyn yw fy nhroseddwr i, ac am ei waed ef yr wyf yn gofyn.' Gwir, medd y ddeddf seremoniol; ond aros am beth yspaid yn ychwaneg, a thi a gei ryw ddiwrnod waed gwir ddyn, a hwnw hefyd yn wir Dduw; ac yna o'r diwedd ti a waeddi, Digon! "Crist sydd bob peth." Efe yw sylwedd yr offeiriadaeth oedd yn offrymu, a sylwedd yr ebyrth a'r gwaed a offrymid, a sylwedd y drugareddfa lle y ceid maddeuant ar gyfrif y gwaed. Awn yn awr tu allan i borth Jerusalem i weled y "rhyfeddod mwyaf o bob oes." Dyma ddiwrnod penaf y gyfraith, y pryd y coronwyd hi âg urddas a mawrhydi digyffelyb. Diwrnod mawr iawn arni, yn ddia,

oedd dydd Sinai, pan y cafodd ei llefaru gan Dduw yn iaith dyn; ond diwrnod llawer mwy oedd dydd Calfaría, pan y cafodd iawn gan Dduw yn natur dyn. Y Person Dwyfol a ddisgynodd ar fynydd Sinai mewn gogoniant ofnadwy i gyhoeddi y gyfraith, hwnw a welir heddyw mewn agwedd gwas, â'i groes ar ei gefn, yn esgyn i fryn Golgotha i ateb i'r gyfraith. Yr Hwn â'i hysgrifennodd ar y llechau gynt â'i fys ei hun, Efe sydd yma yn ei boddloni â'i waed ei hun. Yr ydym yn y drych hwn yn canfod fod drwg mawr mewn pechod, ac mai peth pwysig oedd cael ffordd i achub pechadur. Wedi i Fab y Goruchaf fyned i ddeddfie yr enog, nid oedd gan Dduw bellach ddim i wneyd—gyda gwylder y dymunem ddywedyd hyn—ond naill ai dryllio ei ddeddf neu ddryllio ei Fab! Ac ni a wyddom pa un o'r ddau beth a wnaeth. "Yr Arglwydd a fynai ei ddryllio Ef." Paham? Er mwyn cadw ei ddeddf, a chadw pechadur hefyd. Mae yr Aberth yn ddi-niwed, eithr y mae ein hanwiredau ni wedi eu rhoddi arno; ac yn y fath sefyllfa, ni fynai y Tad ei arbed, ac ni fynai yntau gilio yn ol. Dyma Farnwr pawb yn dyosg ei fraich hollalluog, ac yn ymasfud yn ei gleddyf dysglaer, gan waeddi, "Deddfro, gleddyf, yn erbyn fy Mugail; taro y gŵr sydd gytaill i mi!" A chyda fod y gair wedi dyfod allan o enau y Barnwr, dyma ein Cyfryngwr ni wedi agor ei fynwes i dderbyn yr ergyd. O! pa iaith a all draethu, pa feddwl a all amgyffred, ing enaid y Dyoddefwr sanctaidd, pan y mae efe yn sefyll ei hunan yn yr adwy danllyd, heb fraich yn cynnorthwyo, heb lygad yn tosturio, ág efe yn berffaith deimladol o natur adgas pechod am yr hyn yr oedd yn dyoddef, ac o bwys y soriant Dwyfol oedd yn gwneuthur i'w galon doddi fel y cŵyr o flaen y tân! Dyna efe yn rhywle o'r golwg yn llefain ar ei Dad, "Gosodaist fi yn y pwll isaf, mewn tywyllwch yn y dyfnderau. Y mae dy ddigofaint yn pwysu arnaf, ac â'th holl donau y'm cystuddiaist." O awr yr holl oriau i ni! A oes rhyw debyg y daw yr Hwn a'i rhoddes ei hun drosom eto i'r lân? Oes! mae efe yn nerth bywyd annherfynol yn sefyll yn gadarn dan yr holl ryferthwy. Mewn un Cyfryngwr, wele natur ddydol yn ymgymeryd â meiddith y ddeddf, a natur Ddwyfol yn dal y ddyoliaeth i fyny rhag suddo dan y felldith; wele efe yn ei ddyndod yn dyoddef a marw, tra y mae ei Dduwdod yn rhoddi gwerth anfeidrol yn y dyoddefaint a'r angeu, fel y gellir ei osod mewn barn o du y penaf o bechaduriaid a ddêl i bwysu am ei fywyd arno. Efe a ddyhuddodd y dig, ac a waeddodd yn brydlawn, "Gorphenwyd!" 'Nid oes genyf mwyach ddim i'w wneuthur ond gogwyddo fy mhen i farw, ac mi a wnaíf hyn gan orfoleddu. Wele fi yn dyfod atat ti, fy Nhaf; mi a gwblhéais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur.' Bellach gall hen droseddwr ganu,

"Cyflawnwyd y gyfraith i gyd; fe ddofwyd ei llid heb fy lladd;
Cyflawnder wrth hir ofyn iawn, ei daliad yn gyflawn a gadd;
Cyflawnder a'r gyfraith sy'n awr, yn edrych i lawr yn ddi lid;
Mae'r priodolaethau mewn hedd, yn gwaeddi, Trugaredd, i gyd!"

Yn nyoddefiadau yr Iesu, mae y ddeddf yn gallu dywedyd yr hyn nad allodd erioed, ac nad all byth, ei ddywedyd yn nyoddefiadau neb eraill; a hyny ydyw, Mi a gefais iawn! Dacw hi yn y dechreuad yn alltudio tyrfa sawr o angelion gwrthryfelgar o drigfanau gwynfyd i gartrefle gwae; ond yno ni chafodd iawn. Nyni a'i gwelwn yn gynnar yn oes y ddaear yn ysgubo byd o rai anwir i ddinysir â'r dylif; ond yno ni chafodd iawn. Dacw

hi ryw ddiwrnod nodedig yn troi Sodom a Gomorrah yn lludw, gan ddamnio y preswylwyr â dymchweliad; ond yno ni chafodd iawn. Y mae hi trwy yr oesoedd yn gwlawio ar yr annwionion faglau, tân, a brwmstan, a phoethwynt ystormus; ond nid yw yn derbyn oddiwrthyn ddim iawn. Yn niwedd y byd, hi a gasgl ynghyd holl elynion Duw, ac a'u gyr oddiyno i gosbedigaeth dragwyddol; ond yno ni bydd yn cael iawn. Ond os yw yr holl ddyoddefiadau hyn yn ddirinwedd, y mae genym ddyoddefaint arall i droi ato: "Crist hefyd unwaith a ddyoddefodd dros bechodau, y Cyfiawn dros yr anghyfiawn," y Barnwr dros y troseddwr, Mab Duw dros elyn Duw; ac yma ni a glywn y ddeddf yn llawen waeddi, Iawn, iawn! mi a gefais iawn!

Gan mai fel hyn y mae, nid gweithrediad anghyhoedd tu cefn i'r gyfraith, ac nid tynerwch ar draul cyfiawnder, yw achub pechadur rhag digolaint. Ni raid i'r Brenin mawr guddio dim ar ei uniondeb a'i burdeb Ef, neu i'r troseddwr wadu rhywfaint o'i euogrydd a'i drueni yntau. Y gwaed, y gwaed! dyna anrhydedd i'r Deddfrodwr, a maddeuant i'r deddfdorwr; iawn i Dduw, a gras i bechadur! Pan ddelo enaid euog at Dduw trwy Grist, nid yn unig ni fwrir mo hono allan, ond fe'i derbynir gyda'r croesaw mwyaf. Bydd y Jehofah yn llawenyachu o'i blegid gan lawenydd, yn llonyddu yn ei gariad, ac yn ymddigrifo ynddo dan ganu. Arglwydd Dduw, mae hwna yn annheilwng. 'Gwir yw, ond mae fy Sanct Fab Iesu yn deilwng; ac mi a'i derbynias er ei fwyn ef.' Mae ei gymeriad wedi myned yn isel iawn. 'Ydyw, ond y mae cymeriad ei Fachniydd yn uchel iawn. Os yw ei garacter yn ddrwg ynddo ei hun, mi a'i gwnaethum yn gymeradwy yn yr Anwlyd. Mae efe wedi myned, trwy ffydd, yn ún â fy Mab, a chan hyny, beth bynag y mae fy Anwyl Fab yn ei haeddu, caiff hyny fod mewn cyfraith o'i blaid ef.' Nid ydym yn cael un achos rhyfeddod wrth feddwl am grëaduriaid sanctaidd y nef yn berffaith ddedwydd mewn cydffurfiad hollol â'r ddeddf, nac wrth feddwl am y gwrthryfelwyr yn uffern yn cael eu poeni dan fellidith y ddeddf; ond ar y ddaear hon y mae yr olwg ryfedd iawn: gweled troseddwr y ddeddf eto yn fyw; ie, rai o honynt mewn cyflwr na byddant feirw yn dragwydd; nid yn unig y mae mellidith y ddeddf hyd yn hyn heb ddisgyn arnynt, ond y maent dan gysgod mor ddiddos fel na ddisgyn dafn arnynt yn oes oesoedd. Er iddynt gyflawni beiau dirif, y mae Barnwr y byw a'r meirw yn meddwl am eu harbed rhag uffern megys pe nad anufuddhasent i'r ddeddf-erioed; ydyw! ac am eu gwobrwoyo â nefoedd, megys pe llanwasent y ddeddf ág ufudddod. Pa fodd y dichon hyn fod? Dyma yr esboniad: "Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel ein gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef." Mae y newidiad rhyfeddaf wedi cymerid lle rhwng Iesu â'r pechadur sydd o ffydd Iesu. Dacw Grist un prydawn yn ei gyflwyno ei hun i'r ddeddf yn lle pechadur, ac yr oedd yn anmhosibl ei arbed: dyma bechadur heddyw yn ei gyflwyno ei hun i'r ddeddf yn Nghrist, ac y mae yn anmhosibl ei ddamnio. O sanctaidd ddeddf y Goruchaf! a adewi di i hwnyna fyw ág yntau yn haeddu marw? 'Gwnâf; o herwydd yn swyddfa y drugareddfa, nid oes a fynwyf â haeddiant collfarnol y troseddwr ei hun; yr wyf fi yn cael fy llawn foddloni yn haeddiant cyfiawnhäol Oen Duw a'eth i'r lladdfa yn ei le.' Pa beth! onid wyt yn gorfod tyneru llawer ar dy fanylrydd er mwyn gollwng yn rhydd yr euog tlawd? 'Nac ydwyf ddim; mae efe wedi cael modd i'm cyfarfod ar y tir

cyfiawnaf a pherffeithiaf; mae yn dangos i mi iawn sydd yn llon'd fy holl ofynion.—Nis gallwn fyned ymlaen yma heb gyfeirio y fath wirionedd gogoneddus yn rhybudd difrifol atom ni. Gwylw'n gyfarfod â'r ddeddf yn un man allan o Grist! Mae'r dystiolaeth yn ddiiddig yn yr arch; y mae hi yn ddystaw yn nghoffor y drugareddfa; ond hi a darana ac a felltena yn farwol ymhob man arall. Arosed yr enaid yn ddiofal heb Grist, ac nid oes iddo ond rhyw ddysgwyl ofnadwy am angerdd tân y ddeddf i'w ddifa yn oes oesoedd. Ond dan ei gysgod hyfryd ef, bydd y ddeddf, yn lle ei ladd, yn warchodydd i gadw ei fywyd mwyach. Ai nid yw y darlennydd yn awyddus i weddio, "Ac y'm cair ynddo Ef! ynddo Ef, heb fy nghyfiawnder fy hun!"

Yr oedd llechau y gyfraith wedi eu gosod yn yr arch, a chyda y drugareddfa, i ddangos mai nòd mawr yr holl weinyddiad o ras Duw yw adferu dyn syrthiedig i gydfurfiad perffaith â'r ddeddf. Maddeuant yn ennill pechadur at y ddeddf, ac yn ei gadw gyda'r ddeddf, yw maddeuant y drugareddfa; fel y dywed y Salmydd, "Y mae gyda thi faddeuant fel y'th ofner." Maddeuant drwy waed aberth ydyw; ac y mae hyn yn tystiolaethu i'r hollfyd mai nid peth dibwys yw anuffudd-dod i gyfraith yr Arglwydd. O flaen y drugareddfa, yr hon sydd yn cysgodi rhag mellidith y ddeddf, yno, yn fwy nag ymhobman arall, y gwelir mawrhydi y ddeddf yn ymddangos yn fwyaf urddasol, ei gofynion yn fwyaf awdurdodol, a'r trosedd-iad o honi yn fwyaf ysgeler. Pan feddylier mai y Deddfwr a'r Barnwr ei hunan oedd yr hwn a drefnodd y fath aberth dros y troseddwr er maddeuant pechodau, fe welir nad oedd dim yn ormod gan yr Hollalluog ei wneuthur er dal i fyny a mawrhâu ei ddeddf; ni fynai ddangos ei fod yn caru pechadur heb ddangos ar yr un pryd ei fod yn gwrthwynebu ac yn ffeiddio pechod. Ac y mae crediniaeth yn y drefn hon—trefn sydd ar unwaith yn raslawn ac yn sanctaidd—yn peri nad all yr enaid fyned yn rhyfygus i droseddu y gyfraith drachefn. Ni chafwyd ond un peth trwy holl lywodraeth y Duw mawr yn alluog i ddyfetha anghyfraith; a pha beth yw hwnw ond maddeuant oddiar y drugareddfa! Mae doniau rhagluniaeth wedi methu difa pechod; mae arteithiau cystudd wedi methu dirymu pechod; mae gwaeau uffern wedi methu lladd pechod; ie, y mae perffeithrwydd nefoedd wedi methu attal pechod: y mae genym hanes fod pechod wedi dyfod i mewn unwaith i'r nefoedd, ac ni a wyddom nad â ese byth allan o uffern. Ond y mae dylanwad iawn y groes, ac effeithiolrwydd gras yr Ysbryd, yn ei orchfygu ac yn ei ddinystrio. Ni symudir y gollfarn oddiar y troseddwr yn nhrefn yr efengyl heb roddi y condemniad eithaf ar y trosedd. Cyfiawnhêir yr annuwiol trwy ffydd Crist, ond ni chyfiawnhêir dim ar annuwioldeb. Dygir y pechadur i rwym cyfammod hedd, ond ni wneir un cyfammod heddwch â phechod; allan y mae yn rhaid iddo fyned, yn awr o'i lywodraeth, ac y mân o'i drigfa yn llwyr. Erioed ni bu haerid mwy anwireddus na bod y ddeddf yn cael ei gwneuthur yn ddirym trwy ffydd; teulu'r ffydd yw yr unig rai ar y ddaear sydd yn eu teimladau a'u gweithrediadau yn cadarnhâu y ddeddf. Paham y maent yn ymwrthod â'u cyfiawnder eu hunain yn y pwnc o gymeradwyaeth ger bron Duw? Am eu bod yn ei weled yn nrych y ddeddf yn ddim. Paham y maent yn ymorfoleddu yn nghyfiawnder y Messiah? Am eu bod yn ei weled yn ngwynneb y ddeddf yn ddigon. Paham y maent yn fynych yn llwyr ffino ar y byd hwn? Am fod yma ddeddf pechod yn eu haelodau yn gwrthryfela yn erbyn deddf.

Duw sydd yn eu meddwl. Paham y maent yn hiraethu am y nefoedd? Am y cânt fod yno yn gydffurfiol gyfangwbl â deddf Duw, heb ynddynt un ddeddf arall yn wrthwyneb iddi.

Nid gwaith hawdd, fel y gellid meddwl, oedd dwyn hen wrthryfelwr greddfol i deimlo yn serchus at y ddeddf a droseddodd, a'r hon oedd yn cyhoeddi marwolaeth arno o herwydd ei droseddau. Ond maddeuant o lŷs pabell y cyfarfod a effeithiodd y cyfryw gyfnewidiad. Edrycher ar yr enaid oedd yn casáu y ddeddf â chás cyflawn, ac yn gwneyd a allai i'w diystyru, wedi ei ddal gan argyhoeddiad yr Ysbryd, ac yn cael ei arwain ymlaen i wynebu y gyfraith a ddirmygwyd ganddo. Mae yn ddigon tebyg nad oedd gan yr eug y pryd hwnw olwg ar ddim ond dialedd dwyfol i ddisgyn arno. Ond ymha le y cyfarfu efe â'r gyfraith? Yn ngharchar uffern? O nage! Yn nghanol mŵg a tharanau Sinai? Nage! Pa le ynte? Yn ystafell maddeuant; dan gysgod y drugareddfa a'r gwaed. A pha fodd y bu yno? Y dwthwn hwnw yr aeth pechadur a'r gyfraith yn gyfeillion; ac yn gyfeillion bellach y parhânt byth ac yn dragywydd. Y peth cyntaf y mae enaid gwir argyhoeddedig o bechod yn ei wneyd yw, mawrhâu uniondeb y ddeddf, trwy addef ei fod yn haeddu ei fwrw odditan ei melldith; yr ail beth a wna fydd, ymaflyd yn yr iawn mawr a'i boddlonodd; a'r peth nesaf fydd, rhodio llwybrau ei gorchymynion yn wastadol. Fel hyn y mae'r ddeddf a'r efengyl yn cydwasanaethu, y naill ar y llall, yn hynod a hyfryd iawn. Dyna ddychrynfeydd y ddeddf ymlaenaf yn gyru y pechadur at rás yr efengyl am fywyd, a dyma rás yr efengyl eilwaith yn ei anfon at sanct-eiddrwydd y ddeddf am reol i fyw. Wedi i fellldith y ddeddf hylldremu arno, fe redodd yn ddychrynedig at iachawdwriaeth yr efengyl; ac wedi cael rhyddhâd yn maddeuant yr efengyl, fe ddychwelodd yn siriol at lywodraeth y ddeddf. Pan y mae y Barnwr yn dywedyd yn rasol, "Nid wyf yn dy gondemnio di," y mae efe hefyd yn gorchymyn yn effeithiol, "Dos, ac na phecha mwyach."

Ymha gysylltiad bynag yr edrychwn ar drefn y cyfryngdod, ni chawn ynddi ddim a all ein harwain i feddwl yn galed neu yn fychan am ddeddf Duw, ond yr oll yn dangos ei hurddas, ei daioni, a'i phwysigrwydd. Yr oedd yr Iachawdwr, ar ddechre ei fywyd cyhoeddus, rhag i neb gamddeall dyben ei ddyfodiad, yn dywedyd yn benderfynol, "Na thybiwch fy nyfod i dori y gyfraith." "Mi a ddaethum i wneuthur pethau dycythr yn wir—mi a ddaethum i beri cyfnewidiadau mawrion—mi a ddaethum i fwrw tân ar y ddaear—ond ni ddaethum i dori y gyfraith. Mi a ddaethum i ennill maddeuant i droseddwy'r gyfraith—mi a ddaethum i waredu oddiwrth ei chosb; ond bydded hysbys i bawb na ddaethum i'w thori, ond i'w chyflawni. Beth bynag a wnâf, yr wyf am i ddeddf y nefoedd fod byth mewn anrhydedd." Nid oes dim yn athrawiaeth a chrefydd Crist yn gefnogaeth i benrhyddid. Darllenwn holl dystiolaethau dyddanus yr efengyl,—y pethau hyn a ysgrifenyd fel na phechom. "Crist a'n llwyrbynodd ni oddiwrth fellldith y ddeddf," ond nid oddiwrth y ddeddf ei hun. Os yw pechadur wedi cael ei ryddhâu ei berson oddiwrth gondemniad y ddeddf, mae ei galon wedi ei rhwymo wrth lywodraeth y ddeddf. Mae gras yn cyfodi yr enaid crediniol yn uchel, ond mae yn anhosibl ei godi i fod uwchlaw y ddeddf; nis gall byth fod yn rhydd oddiwrth awdurdod cyfraith Duw. Hawdd yw gweled fod natur y ddeddf ynddi ei hun yn profi ei bod *yn anghyfnewidiol* a thragywyddol, ac felly fod yn rhaid i grefydd dan-or-

uchwyliaeth yr efengyl, fel o dan oruchwyliaeth Moses, gyfateb iddi. Mae y deg gorchymyn, a gynnwysid ar y ddwy lech faen, yn cael ei symio i ddau orchymyn, a'r ddau hyny drachefn i un gair,—cariad. “Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, a'th gymydog fel ti dy hun.” Dyma ddeddf nad oes le i neb wrthddadleu yn ei herbyn; deddf sanctaidd, gyfiawn, a da; un nad oes eisieu ac nad ellir newid neu alw yn ol ei gofynion. Mae y ddeddf hon wedi ei seilio, nid ar ordeiniad penarglwyddiaethol Duw, ond ar briodoliaethau ei natur, ac ar y berthynas sydd rhyngddo o anghenrheidrwydd â phob créadur rhesymol, a rhyngddynt hwythau â'u gilydd. Mae y gorchymyn mawr yn cysylltu y créadur â'r Créawdwr, a'r ail yn ei gysylltu â'i gydgrëaduriaid; yr holl rwmiau yn rheffynau auraidd cariad i gadw dyn yn ei le, i'w ddysgu i fwynhâu nefoedd a daear mewn tangnefedd. “Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll;” ac ar y ddau hyn y saif holl rasau cristion ar y ddaear, a holl ogoniant sant mewn gwynfyd. Wedi i'r enaid duwiol gael mynedfa helaeth i mewn i dragywyddol deyrnas Iesu, lle y bydd ei alluoedd, meddyliol a moesol, yn éangu yn oes oesoedd,—yn y sefyllfa oruchel hono, ni bydd yr holl ddaioni a wneir ganddo byth, yr holl ogoniant a mawredd a rydd efe i'w Dduw, a'r holl anwylded a ddangosir ganddo at ei gydnefolion, yn ddim amgen nag adseiniâu y ddau orchymyn hyn. Tra y byddo Duw yn Dduw, a dyn yn ddyn, a gwirionedd yn wirionedd, rhaid yw i'r gyfraith hon fod yn gyfraith. Y ffolineb yn gystal â'r rhyfyg gwaethaf, gan hyny, yw meddwl, fel y gwna rhai, fod gras yn dirymu y ddeddf. Ymha le bynag y gwél yr enaid ras Duw, y mae yn rhaid iddo gyfarfod yno â chyfraith Duw. Yr hyn yw swm y gyfraith, hyny yw nôd pob cenadwri oddiwrth Ysbryd yr Arglwydd, amcan holl ordinhadau yr efengyl, canolbwynt holl ddymuniadau yr eglwys, a sylwedd tystiolaeth pob cydwybod dda. A phan y bydd y cristion yn ei gael ei hun o'r tu fewn i'r llen, y man yr aeth y Rhagflaenor drosto, sef Iesu, yno, yn y lle sancteiddiolaf oll, efe a fydd gyda'r ddeddf yn ei holl fawrhydi, ac wrth ei fodd am dragywyddoldeb yn ei charu a'i chadw yn ddifwlch.

Y mae deddfoldeb, ac y mae penrhyddid, y naill fel y llall, yn gwywo a marweiddio yn awyrgylch arch y dystiolaeth. Y gyfraith yn unig i mi, medd y Pharisead hunangyfiawn. Y drugareddfa yn unig i minnau, medd yr Antinomiad anfucheddol. Ond ymhell iawn oddiwrth gysegr Duw y mae pob un o honynt yn siarad felly. Nid oes dyn ar y ddaear a all sefyll yn fyw o flaen llechau y gyfraith heb eu gwisgo âg arch a thrugareddfa; ac ni ddychwelodd neb erioed oddiwrth y drugareddfa heb ei fod yn caru y gyfraith yn ddiffuant, ac yn awyddas i gydfurfio â'i rheol mewn meddwl, gair, a gweithred. Na feddylid neb ddywedyd ynddo ei hun ei fod yn credu yr efengyl os nad ydyw hefyd yn caru y ddeddf. Y mae profeswr ansanctaid ei fuchedd yn gabldraith ar efengyl Crist. Ai nid oes lle i ofni fod y Duw sanctaidd yn dywedyd yn y dydïau hyn wrth liaws sydd yn gwneuthur dadwrdd mawr yn nghylchoedd cyhoeddus crefydd,—‘Eich credo iach sydd ffiaidd genyf; nid allaf oddef eich caniadau a'ch gweddïau; eich defodau crefyddol a gasiodd fy enaid; y mae eich cyfarfodydd yn faich arnaf; o herwydd y mae eich bucheddau yn gwadu fy nghyfraith; nid oes ynoch un galon i garu fy ngorchymynion!’ Cymerwn hyn yn faen-prawf i farnu ein hunain wrtho; nid, A ydym gydag hyfrydwch yn gwrandaw yr efengyl? ond, A ydym gyda pharodrwydd yn ufuddhâu i'r gyfraith? Mae yn wir fod y

credadyn yn methu cadw yr un gorchymyn yn berffaith yn y fuchedd hon, ond fe fynai o ddyfuder ei ewyllys gyddfurfio yn hollol â phob un o honynt; ac ni cheir ef yn byw mewn un pechod gwybyddus iddo. Nid oes yr un o'r gorchymynion y dymunai fod yn rhydd oddiwrth ei awdurdod, nac un peth a ofynir ganddynt yn faich i'w ysbryd; canys fel yr oedd y deng air deddf wedi eu hysgrifenu ar y llechau oedd yn yr arch, y maent wedi eu hysgrifenu yn ysbrydol yn ei galon yntau. Dyma addewid y cyfammod newydd, "Myfi a ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrif-enaf hwynt." Cael y gyfraith yn ysgrifenedig yn y galon yw meddu egwyddor o gariad at Dduw a dynion; a chyflawnder y gyfraith yw cariad. Mae y cariad hwn yn yr enaid yn ffrwyth cariad Duw yn Nghrist. "Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." Cariad sydd yn cynnyrchu cariad. "Câr dithau yr Arglwydd dy Dduw," medd y ddeddf; eithr yr oedd ei gorchymyn yn syrthio yn ddirinwedd ar galon gareg pechadur; ond cariad yr efengyl a ddaeth ac a doddodd y galon nes iddi ffrydio mewn gwir serchogrwydd. Yn Eden llwyr ddiffoddwyd cariad Duw yn nghalon dyn; ond caed marwor tanllyd o allor Calfaria i ailennyn y tanwydd, ac y mae bellach yn llosgi yn fflam angerddol. Edrych â llygad fydd ar y gwaed ar y drugareddfa, a ddaw â'r enaid yn ddifêth i garu y gyfraith. Da y canodd Williams,—

"Gwaed 'sgrifenodd ar y croesbren
Gariad nerthol dwyfol rhad;
Ni 'sgrifenir ar fy nghalon
Fyth dy eiriau ond â gwaed:
Dyma 'sgrifen
A barhâ yn hŵy na'r byd."

CAETHIWED A CHAETHFASNACH YN AMERICA.

REHAID addef fod America yn barth tra hynod o'n byd ni. Gelwir ef yn "Fyd Newydd" ar gyfrif ei ddarganfyddiad diweddar; canys nid oes ond ychydig ganrifoedd er pan ei darganfyddwyd. Ni ddichon Prydeinwyr lai na theimlo dyddordeb yn yr hyn a berthyn i ddynoliaeth a'i hiawnderau, yn enwedig yn y parthau hyny o'r byd ag ydynt yn meddu rhyw gysylltiad â ni trwy waed, trefedigaeth, neu fasnach. Y mae Unol Daleithiau America yn perthyn yn agos i ni ar amryw gyfrifon. Gŵyr darllenwyr y TRAEHODYDD yn dda mai oddiyma yr aeth pobl allan i drefedigaethu eu parthau äang. Daeth y Taleithiau mewn amser yn annibynnol ar y famwlad. Oddiar hyny hyd yn awr y mae yno gynnydd rhyfedd wedi bod mewn poblogaeth, mewn trefi newyddion, mewn gweithiau o bob math, ac mewn sefydliadau i ddwyn ymlaen grefydd, dyngarwch, a gwybodaeth gyffredinol. Mae y Taleithiau yn llïosogi yn barhâus, ac y mae dynion yn fyw sydd yn cofio terfynau y llywodraeth yn ymëangu yn agos i ddyw

fil o filldroedd. Y mae arwyneb y wlad yn ddirfawr; ei thrysorau yn amrywiol, ei dyffrnoedd yn aruthrol, a rhai o honynt yn ddigon i dderbyn agos holl Ewrop i'w mynwes; y mae ei choedwigoedd bron yn ddiddiwedd, ei hafonydd yn ardderchog, ei mynyddoedd yn cyrhaedd y cymylau, ac y mae ei rhyfeddodau naturiol yn swynol ac yn anerif.

Ond er cymaint yw cynnydd tiriogaethol yr Undeb, eangder ei masnach, llwyddiant crefydd, a mawredd yr ymfudiaeth barháus a ddylifa yno, ac er fod yno filoedd o Gymry,—y mae y ffaith fod yno brynu a gwerthu dynion yn aros yn gwmwl du ar gymeriad cenedlaethol y wlad. Gan i Gymry fyned mor fore ag ymfudiaeth William Penn i'r America, a bod lliaws o waedoliaeth Gymreig wedi codi i gyfoeth ac i swyddau uchel yn y wladwr-iaeth, digon tebyg fod yno Gymry yn berchenogion caethion; oblegid os daw *elw* yn elfen profedigaeath, nid oes dim ond ymwadiad llwyr a all gadw dyn rhag *budr-elw*. *Gwyddom* fod cannoedd yn cymeryd arnynt fod yn grefyddol yn perchenogi caethion yno, naill ai trwy bryniad personol, neu trwy eu gadael iddynt yn ewyllys rhyw gyfaill neu berthynas. Y mae barn ambell i deithiwr lled ddeallus a duwiol yn newid am bethau gwladol a chymdeithasol wrth fod am ychydig fisoedd yn y Taleithiau; a gwelsom fod un o *maids of honour* ein breuines urddasol ni wedi ei dychwelyd i bleidio caethfasnach, pan y gwnaeth wibdaith yno. Ond pa fodd y gall dynion feddu cydwybod dda, a dwylaw glân, ac eto dal cysylltiad uniongyrchol â'r gaethfasnach, sydd ddirgelwch i ni. Gall Yankee ymffrostio mewn llawer o bethau a dybia efe yn rhagori ar drefnidaeth wladol Brydain, megys bod heb frenin, a chael y fraint o bleidleisio bob ychydig flynyddau yn etholiad prif ynad, &c., ond y mae *slavery, slavery*, yn disgyn ar ein clustiau fel taranau, er maint yr ymffrost. Rhag osn i ni roddi golwg dduach na'r gwirionedd ar y pwnc pruddaidd ac arswydawn hwn, dylid coffáu i'n darllenwyr fod llawer o berchenogion caethion yn y Taleithiau a ewyllysient ryddhâu eu caethion duon oll; ond y mae yr attafeydd ar y ffordd mor fawr a liosog, fel y mae bron yn anmhosibl eu gollwng ymaith heb iddynt syrthio i ddwylaw eraill a allent ymafnyd ynddynt, a'u drwg drin fel y mynont. Po bellaf o derynau Canada y byddont, mwyaf fyth yw yr anhawsderau i'w rhyddhâu. Y mae hanes ymrafaelion, ymgyrchion, bradwriaethau, a lladdfeydd Kansas, y dalaeth olaf a chwanegwyd at yr Unol Daleithiau, yn ddigon newydd ar gôf y darllenwyr. Caethiwed oedd asgwrn y gynhen yno, a thorodd y llywodraeth ei gair at ymsefydlwyr cyntaf y parth hwnw.

Dywedir fod tua chant a hanner o filoedd o blant Affrica yn cael eu cludo dros y Môr Werydd bob blwyddyn, er maint yr ymdrech a wnaed ac a wneir i ddiddymu caethfasnach. Mewn ysgrif flaenorol,* dywedasom fod cynnydd ar fasnach anghyfreithlawn caethfasnach, a rhoddasom fel un rheswm am hyny, fod Prydain wedi gorfod lleihâu ei gwiblongau yn Ngorllewin Affrica. Cludir yr Affricaniaid gorthrymedig i farchnadoedd caethol yn Brazil, Cuba, Texas, a rhai manau yn yr Unol Daleithiau. Y mae Brazil yn Neheubarth America, yn wlad agos gymaint â holl Ewrop. Hiliogaeth Portugaidd sydd yn cyfauneddu y wlad hon; a thrinir siwgr, coffi, cotwm, &c., yno. Nid yw y boblogaeth, cân belled ag y gwyddys, ya fwy na phum' miliwn, ac y mae mwy na dwy filiwn o'r pump yn gaeth-

* Caethfasnach : ei hanes a'i diddymiant : TRAEHODYDD am 1857, tu dal. 437.

ion. Pobl wynion yw y lleüll, ac eppil hynod o gymysgedig ydynt. Y mae cynnydd naturiol y bobl dduon a chaeth yn araf iawn oblegid eu marw-oldeb, yn cyfodi oddiar amryw achosion; a'r canlyniad yw, fod rhaid cael cyflenwad parhâus o honynt i gyfarfod â llafur yn y mwnoedd a'r plan-feydd mewn gwlad mor frâs. Rhaid cael llawer o Negröaid o Affrica bob blwyddyn. Cymerodd Brazil ran gyda gwledydd eraill yn nghyffro diddymiant y gaethfasnach yn 1831, a dadganodd hi yn anghyfreithlawn, a'i bod yn för-ladronaeth. Ond ni chadwodd ei chyfraith ei hun mewn un modd. Yr oedd y fasnach rhyngddi âg Affrica yn myned ymlaen fel cynt. Er ys tair blynedd yn ol, cyhoeddodd y llywodraeth fod ei chaethfasnach i derfynu yn ddioed,—nad oedd dim cludo mwy o Negröaid o un wlad yno i'w gwerthu; ond y mae cryn ammhenaeth genym o barthed i gywirdeb y cyhoeddiad hwnw; neu os ydoedd y llywodraeth yn gywir ar y pryd yn y dadganiad o'r cyfryw ddeddf, llythyren farw ydyw hyd y dydd hwn. Gwyddys yn dda mai rhagrithwyr hærilug yw y nifer mwyaf o genedlaethau ag sydd wedi rhoddi ar ddeall unwaith eu bod yn condemnio caethfasnach. Fe allai mai llywodraeth Prydain yw yr unig eithriad. Yn y flwyddyn 1829, trosglwyddwyd dros dri ugain a deg o filoedd o blant Affrica i Brazil. Hysbyswyd ein llywodraeth yn 1838 fod nifer y caethion a anfonid i Brazil yn lliosog iawn, a'u bod i'w cael yn rhatach na phan oedd y fasnach yn gyfreithlawn, gan nad oedd un dreth arnynt. Yr oedd nifer y llongau perthynol i borthladdoedd Brazil a ddefnyddid yn rheolaidd yn y fasnach, yn ddirfawr. Anfonid llongau arfog allan i gymeryd llongau caethol gwanach a diamddiffyn yn llawn caethion, ac felly arbedent y llafur a'r perygl o fyned i Affrica am lwyth. Yr oedd elw y fasnach tua thri chant y cant, neu dri swllt ar bob swllt. Hwyliai y llongau dan liwiau Portugalaidd, Brazilaidd, neu unrhyw liw ag a fyddai yn debyg o'u galluogi i osgoi cael eu dal gan y gwiblongau Prydeinig; ac wedi cyrhaedd Rio Janeiro, neu ryw borthladd arall yn Brazil, glanient eu llwyth ofnadwy. Yn aml, byddai dyoddefiadau a cholliadau y fordaith gymaint, fel mai dwy ran o dair o'r Negröaid a gyrhaeddent yn fyw. Cymerir hwy i ystorfaâu ar lânau y môr nes y cryfhäont ychydig; ac os na werthir hwy yno, gyrir hwy yn finteioedd i'r parthau mewnol. Ymhell o Rio Janeiro, gweithia y caethfasnachwr yn ddigêl; ond yn y dref a'i chyffiniau, cymerir mwy o ofal rhag ofn gorfod talu i hwn a'r llall am beidio eu cyhuddo, canys y mae tai yn y brif ddinas lle y mae dynion ar werth. Y mae tua dwy ran o dair o'r caethion a wasgerir fel hyn dros y wlad yn wrywaid; nid oes llawer o alw am fenywaid caethion; a cheir fod yn rhatach eu prynu na'u magu; nid yw magu caethion yn cael ei ddilyn fel galwedigaeth yma, fel y mae yn yr Unol Daleithiau. Pris Negro yn Rio Janeiro a amrywia o dringain a deg o bun- nau i chwech ugain punt; ac mor fawr yw yr alwad, fel y credir y gellid gwerthu deng mil o Affricaniaid yn y dalaeth hono bob mis.

A ganlyn sydd ddyfyniad o lythyr a ysgrifenyd o long Brydeinig, dyddiedig Ionawr 9fed, 1853. Dengys ymddygiad llywodraeth Brazil gyda golwg ar y gaethfasnach, a'r ffordd y gwneir â'r caethion ar eu glaniad yn Brazil:—“Cyrhaeddasom o flaen Santos, Tachwedd 12fed, a deallasom fod llong gaethol yn cael ei dysgwyl bob dydd o'r glân ddwyreiniol. Daeth y llong; ond wedi cael gwybodaeth gan y Portugaïd ar y traeth fod ein cychod ar wddwg yr afon, glaniodd ei llwyth ychydig filldiroedd yn is, ac felly diangodd rhag ei chipio. Ysgrifennodd llywydd y wiblong Brydeinig at ar-

lywydd Mozambique, yr hwn, gan nad oedd yn ffafriol i'r gaethfasnach, a ddirwyodd y llong yn llym am doriad deddfau y dreth. Hysbyswyd hyn i lywodraeth y Portugialid gartref; ac anfonwyd gorchymyn i'w ddiswyddo, gan iddo fod yn rhy lym, ac iddo mewn canlyniad dlodi y drysorfa drefedigol. Talwyd treth o saith dolar am bob caethddyn; a darfu i'r awdurdodau, yn lle llethu y fasnach ffaidd, ei chefnogi trwy bob moddion yn eu gallu. Hwylodd y llong hon o Quillimane ág wyth cant a hanner o gaethion, oll yn blant, a glaniodd chwe' chant ac ugain, wedi colli dau gant a deg ar hugain ar y fôrdaith. Tua phedair punt yr un oedd pris y caethion yn Quillimane, a'r pris a gafwyd ar eu glaniad, oedd triugain punt a phymtheg, arian parod, gan adael elw, ar ol tynu hyn a hyn am eu bywd ar y traeth cyn eu gwerthu, o agos i driugain punt a deg ar bob caethddyn i ddwyn traul y fôrwyd, ac i fyned i logall y dyhirod ffaidd a ddefnyddid yn y drasodaeth ysgeler, ac i'w galluogi hefyd i dalu y dirwy i'r awdurdodau, er mwyn eu dallu. Mewn ymddyddan a gefais â Mr. Whittaker, y trafno-ddwr Prydeinig, dywedodd fod yr awdurdodau oll yn penderfynu cefnogi y fasnach, gan haeru nad all un weithred ddyfod yn ddeddf yn ol cyfansoddiad y Portugialid, os na fydd yn llesol i'r wlad yn gyffredin; ac am fod derbynnyd Negrôaid yn llesol, ac yn beth a ddymunir gan fwyrif y bobl, nid yw y cyttundeb a wnâethpwyd â'r fam-wlad yn rhwym arnynt hwy." Y mae gan y cenedloedd hyn sydd â llaw yn ngwaed eu cyd-ddynion ffordd hawdd yn eu golwg eu hunain i ymgyfiawnhâu yn y mater.

Ymddengys fod y caethion yn mhlanfeydd Brazil yn cael gwell triniaeth na'u brodyr duon yn mhlanfeydd yr Unol Daleithiau. Y mae dydd Sul gan gaethion Brazil yn ddydd gorphwys, ac y mae tua phymtheg ar hugain o ddyddiau gwyl yn y flwyddyn yn ol yr amseroni. Gall y caethddyn brynu ei ryddhâd trwy dalu i'w feistr y pris a roddwyd am dano; a dywedir fod llawer yn ennill eu rhyddid. Y mae hefyd nawdd-dŷ, meddir, yn agos i Rio Janeiro, lle y derbynir babanod, gwŷn neu liwiedig, i fwynhâu holl freintiau pobl ryddion, heb unrhyw attalfa. Ond truenus iawn, yn gyffredin, yw cyflwr y caethion yn Brazil. "Os ydym ni yn drugarog," medd awdwr llyfryn Brazilaid ar gaethiwed, "beth raid fod y lleill? Ar y tiroedd siwgr eang yn ngogledd Brazil, dychrynid chwi pe gwelech drueni y caethion, cyrff pa rai a guddir â chlwyfau, yn ddigon i ddangos i ba driniaeth y darostyngir hwy yn barhâus." Mewn rhai taleithiau, megys Maranhã a Piauh, y mae fflangellu y caethion am naw diwrnod olynol yn gosb gyffredin. Derbyn y dyoddefydd ddau ueu dri chant o fflangellau, nes tori y cnawd, ac yna rhoddir *cayenne pepper* a halen ar y clwyfau, i attal cig marw a llygredigaeth, meddir! Weithiau gosodir y caethddyn a gosbir mewn sach yn yr haul poeth, nes ei boeni i farwolaeth. Y mae gwahanol offer poenydiant ar y planfeydd, megys haiarn i'r llaw a'r gwddwg, troell y fawd, llyftheiriau, *stocks*, &c. Clymir caethddyn weithiau wrth ystanc uwchben nyth morgryg, neu ar groes, i gael ei frathu gan *mosquitoes*. Defnyddir hwy weithiau i lofruddio y rhai a gasêir gan y meistriaid! Y mae y driniaeth arw a gânt yn eu gyru i ddyfeisio llawer modd i ymryddhâu. Ceir fod hunan-laddiad yn ddull cyffredin ymhlith y Negrôaid gorthrymedig yn Brazil. Dywed y Parch. Dr. Walsh fod hyn yn ddygwyddiad dyddiol yuo, ac iddo weled y môr yn tafu ar y traeth, dan ei ffenestr ef, Negrôaid yn ymdrybaeddu yn eu gwaed. Y maent yn arfer y dull hynod o dderfynu eu bywyd trwy gladdu eu tafodau yn eu llwnc, ac felly ymdagu. Clymwyd

a fflangellwyd Negro un tro yno, ac ar ol derbyn ychydig fflangellau, plygoedd ei ben megys un marw; a phan gymerwyd ef i lawr, yr oedd yn farw mewn gwirionedd, a'i dafod wedi ei wthio i gorn y gwddf. Gwyddys fod Negrõesau yn famau hoff iawn; ac y mae hyd yn nòd y serch hwn yn eu gyru i ladd eu babanod. Y mae llawer o honynt yn llochi casineb mawr yn erbyn cael plant, am y gwyddant mai caethion a fyddent. Os rhedant ymaith o rai o'r planfeydd yn y wlad hon, hysbysir hyny, a chynnygir gwobr am unrhyw wybodaeth am danynt, ac am eu dychweliad yn ol; bygythir hefyd y neb a roddo lety i gaethion ffœdig. A ganlyn sydd hysbysiad o gaethes ar werth mewn newyddiadur yn Rio Janeiro, yr 21ain o Orphenaf, 1840;—

“Ar werth, yn y Rua do Cano, Rhif. 119, gyda neu heb ei phlentyn o bedwar mis, caethes. Y mae ganddi laeth da, y mae yn iachus iawn, ac yn fwyn a thyner iawn at ei phlant. Nid oes yn perthyn iddi ddrygau na diffygion; gall wno, golchi, *starchio*, a chogydda, oll yn berffaith, yr hyn a sicrhœir gan y cyhoeddwr. Y rheswm am ei gwerthu yw ddarhod iddi fod yn anufudd i'w meist.”

Er hyny oll, y mae yn llai peryglus o lawer siarad yn erbyn y fasnach yn Brazil, nag ydyw ynganu gair yn ei herbryn yn yr Unol Daleithiau, sef yn y Taleithiau Deheuol. Y mae yn berygl bywyd mewn rhai manau yno ddywedyd un gair o blaid y Negro gorthrymedig. Yn wir y mae llywodraeth Brazil wedi arfer iaith o berthynas i gaethfasnach, na oddefid yn ngeuau neb mewn llawer o Daleithiau yr Undeb. Cyhoeddwyd pethau grymus iawn yn Brazil yn erbyn y fasnach gan un enwog am ei syniadau rhyddfrydol yno. Dengys fod cludo Negrôaid o Affrica yn attal diwydrwydd brodorol, heblaw y difrod a wneir arnynt wrth eu trosglwyddo. Y mae y dynion duon yn anghyfaddas i weithio yno mewn llaw-weithfeydd ac yn y celfyddydau. Y mae eu cludiad yno yn rhwystr i Ewropëaid anturus ddyfod i drin y tir, ac i wella y drefn o amaethu. Rhaid i foesololdeb y wlad fod yn isel iawn. Nid oes gan Brazil waeth gelynyion na'r caethfasnachwyr, y rhai trwy elw gwarthus a änt ymlaen i effeithio ei dnystr. Yn debyg i hyna yr ysgrifennodd Senhor Jose Bonifacio de Andrada e Silva.

Y mae Cuba yn ynys fawr—y fwyaf o ynysydd yr India Orllewinol. O dan lywodraeth Hispaen y mae. Siwgr, *rum*, coffi, tobacco, a phethau cyffelyb ydynt ei chynnyrchion. Dygir llawer o'i mŵn copr i Abertawe. Y mae ynddi weithiau arian cyfoethog iawn. Y mae Cuba yn saith cant o filldroedd o hŷd, a phedar ugain milldir o lèd. Havanna yw y brifddinas. Cawn fod nifer mawr o drigolion Cuba yn bobl dduon. Yn y flwyddyn 1827, yr oedd poblogaeth yr holl ynys yn 704,487: allan o ba nifer yr oedd 77,064 yn bobl wŷnion, yn eppil Hispaenaidd yn benaf; 57,514 yn bobl gymysgliw; 48,980 yn Negrôaid rhyddion; a 286,942 yn gaethion. Cludir tua phum' mil ar hugain o gaethion bob blwyddyn i Cuba, ond meddylir fod llawer o'r nifer uchod yn cael eu hanfon i'r marchnadoedd caethol i'r Unol Daleithiau. Dygir y fasnach ymlaen yn gyhoeddus a digêl yn Havanna, er fod yr awdurdodau Hispaenaidd wedi siarad yn fawr ac uchel yn erbyn y drafodaeth annaturiol. Y mae y llywodraeth hon dan rwyman moesol ac arianol i Brydain Fawr i ddiddymu y gaethfasnach o'i therfynau; ond y mae ei hanallu neu ei llygredd, neu y ddaun ynghyd, wedi ei darbwyllo hyd yn hyn i barhâu yn ei gwaith. Ond rhaid gadael Cuba yn awr, a myned i Unol Daleithiau America, lle y mae caethiwed a

chaethfasnach yn ffynu i raddau mor arswydus er cymaint yw dwndwr yr Yankee am ryddid, rhyddid!

Pan oedd y Taleithiau yn drefedigaeth Brydeinig, yr oedd caethiwed yn bod ynddynt fel sefydliad goddefol; ond pan ennillasant eu hannibyniaeth yn 1776, yr oedd y bobl yn eu hoffder brwdfrydig o ryddid, yn canfod fod caethiwed yn drosedd yn erbyn dynoldeb acegwyddorion rhyddid cyffredinol. Cafodd pwnc y caethion sylw y wlad i'r fath raddau, fel y darbyllwyd y llywodraeth ieuanc i ddadgan nad oedd chwaneg o gaethion i gael eu dwyn o wledydd tramor i un o'r Taleithiau. Yr oedd hyn yn addefiad mawr o blaid rhyddid. Oddiar hyny, y mae caethion rhyddedig yn y Gogledd, a'u heppil, wedi mwynhâu cryn raddau o ryddid, ac adnabyddir hwy wrth yr enw o bobl rydd gymysgliw. Yn y Dê y mae caethiwed a chaethfasnach yn dal i fyny yn eu holl angerddolrwydd gwreiddiol. Dau ddosbarth yw y trigolion yma,—y dynion gwyn rhyddion, y rhai ydynt arglwyddi y wlad, a'r Negrôaid, eu caethion etifeddol, y rhai na feddant iawnderau mwy na'r anifeiliaid ar y maesydd, nac un gwerth ond fel nwyddau marchnadol.

Trwy chwanegiad tir, y mae yr Unol Daleithiau yn éang iawn, a chawn fod y taleithiau rhydd a chaeth yn agos yn gyfartal mewn rhifedi. Y mae poblogaeth yr Unol Daleithiau yn fwy na dwy filiwn ar hugain, a dywedir fod un ran o saith o'r trigolion yn gaethion. Y mae gan hyny dros *dair miliwn o fodau dynol mewn caethiwed yn bresennol* dan lywodraeth yr Unol Daleithiau. Yn gymaint a bod caethfasnach, neu gludo caethion o wledydd eraill, yn cael ei gyfrif yn anghyfreithlawn, cêl-gludir o ddeg i un ar bymtheg o filoedd bob blwyddyn o Cuba, Texas, a manau eraill. Ond perthyna Texas ei hun yn awr i'r Taleithiau. Ceir fod y dull lladronaidd yma o ddwyn ymlaen y drafoadaeth yn hollol annigonol i gyfarfod â lleihâd parhâus y Negrôaid anfodus yn mhlenfeydd cotwm, siwgr, a *rice*, y Dê, neu i gadw rhywbeth fel cyfartalwch rhwng y bobl ddu a gwyn. Yn nhal-eithiau New Jersey, Delaware, a Maryland, y mae y Negrôaid yn lleihâu gyflymaf mewn cyferbyniad i'r dynion gwynion.

I gyfarfod â galwad am Negrôaid nad ellir ei gyflenwi trwy ddwyn rhai o wledydd eraill, y mae masnach o'r fath warthusaf wedi cyfodi yn mynwes yr Unol Daleithiau. Ymrodda rhai i fagu caethion i'r cyfryw a ddeuant i alw am danynt, fel y gwna yr amaethwr liosogi ei ddefaid, ei foch, a phob eiddo byw arall, er mwyn bywioliaeth. Y taleithiau ymha rai y megir caethion ydynt Delaware, Maryland, Virginia, North Carolina, Kentucky, Tennessee, Missouri, a Columbia; a gwerthir y rhai a fegir, yn gyffredin i South Carolina, Georgia, Alabama, Mississippi, Louisiana, ac Arkansas. Ond mae y taleithiau cyntaf yn magu caethion at eu gwaith eu hunain yn gystal ag i'w gwerthu i'r caethfasnachwyr o barthau pellaf y Dê. Ymddengys fod y tir yn gyffredin yn y cyfryw daleithiau wedi cael ei yru yn ormod trwy gnydau parhâus heb wrteithiad addas, ac y mae perchenogion tiroedd yn canfod mai gwell er mwyn elw yw magu caethion na gwella y ddaear. Dywedir fod llawer yn Virginia a ddymument roddi heibio fagu caethion, a dychwelyd at amaethyddiaeth onest a pharchus; ond y mae, meddir, anhawserau mawrion i hyny. Felly y mae y fasnach o fagu caethion yn aros yn brif drafoadaeth y dalaeth, a defnyddir pob moddion i'w gwneyd mor ennillfawr ag sydd bosibl. Cymer priodasau gorfodol le yn aml trwy drais y perchenogion; ac os na bydd canlyniad boddlonol i'r bri-

odas, ysgerir y pleidiau yn ddirugaredd, heb un parch i deimlad a gwedd-eidd-dra. Y mae rhoddi hanes yr holl drais a'r ffeidd-dra cysylltiol â dwyn i fyny gaethion, yn annichonadwy; digon yw dywedyd fod yr holl gyfundrefn yn gwarthruddo crefydd a moesau, ac yn diwreiddo seiliau cymdeithas. Yn yr holl ormes yma, nid yw y perchenogion gwynion a chreulawn yn alluog i gwbl ddileu y teimladau sydd yn reddfol mewn dynoliaeth; ac fel prawf o hyn, ceir fod dryllio teuluoedd trwy wasgariad neu arwerthiant yn cynnyrchu golygfeydd o'r fath fwyaf torcalonus. Y mae y Negroïd yn byw mewn ofn parhâus o'r anffawd sydd yn sicr o'u goddiweddyd mewn rhyw ddull neu gilydd. Gwna rhai meistriaid werthu eu caethion ar gylch; a phan y mae hyn yn bod, gall pob Negro ar y tir ddysgwyl cael ei werthu yn ei dro. Pan y mae y perchenog yn marw, y mae yr holl nifer yn agored i gael eu gwerthu gan etifeddion neu ofynwyr.

Gan ddosbarth neillduol o fasnachwyr y cymerir y caethion o'r taleithiau lle eu megir i'r taleithiau lle y mae planfeydd mawrion a lliosog. Y mae Washington, yn Columbia, yn ystorfa gyflêus i'r fath yma o draffod-aeth. Y mae ystorfa'u caethion yn lliosog yn y ddinas yno, ac yno dênir yr holl feddianwyr caethion ag sydd am werthu gan y fath hysbysiadau ag a ganlyn:—

"Arian am Negroïd. Gwnawn ni bob amser roddi y prisoedd uchaf mewn arian am Negroïd ieuaine prydfêrth o'r ddau ryw, o ddeg i ddeg ar hugain mlwydd oed.

"J. W. NEAL, A'I GWMNI, Washington."

Ymddengys fod tri dull o drosglwyddo y bobl dduon i'w lle bwriadol—gyda'r môr, dros yr afonydd Ohio a Mississippi, ac ar hyd y tir. Yn gyffredin arferir y dull cyntaf, am ei fod yn rhatach. Llwythir y llongau yn Richmond, Norfolk, a Baltimore, i'r dyben o gymeryd y Negroïd gyda'r môr i New Orleans, neu i borthladdoedd agosach. Y mae y dull yma yn beryglus yn fyny, am fod y dynion duon yn gwrthryfela, yn gorchfygu y meist, ac yn cymeryd y llong i borthladd Prydeinig, lle y byddant hwy yn bobl ryddion. Yn Kentucky, Tennessee, a gogledd orllewin Virginia, bydd y llongau caethol yn myned gyda glânau yr afonydd mawrion sydd yn rhedeg trwy ganolbarth y wlad. Hyd yn ddiweddar, cludid y Negroïd ar hyd yr afonydd Ohio a Mississippi mewn llongau trwsogl, wedi eu darparu yn unig i un daith; ond yn awr y mae agerlongau yn myned yn ol ac ymlaen yn barhâus gyda y gorchwyl erchyll. Y teithiwr am bleser a gafai ar amserau neillduol ar y Mississippi gwmi lliaws o Negroïd caeth ymhob agwedd ar hyd y llestr. Yn ystod y teithiau hyn, byddai y trueiniaid weithiau yn ymffwrw i'r dwfr, ac yn boddi, i osgoi myned dan awdurdod meist newydd. Cyflawnir y daith ar y tir yn wastad ar draed; cadwynir yr heidiau Negroïd ynghyd yn ddau neu dri chant o nifer, ac änt dan yr enw *coffles*; a gelwir y dyn gwyn a'u llywydda yn *yrwr eneidiau*. Rhoddai Mr. Featherstonhaugh yr hanes a ganlyn am *goffle* a gyfarfu efe yn un o'i wibiadau trwy y taleithiau caethol:—
*"Fel yr oeddem yn cyrhaedd y New River, gyda'r dydd, gwelsom olwg ryfedd—y fwyaf darawgar a welais erioed. Gwersyll gyrwyr Negroïd caethion ydoedd yn ymbarotî i gychwyn. Yr oedd ganddynt tua thri chant o gaethion gyda hwynt, y rhai a orweddasant mewn cadwynau y nos *benorol yn y coed*. Yr oeddynt yn eu cymeryd i Natchez, ar yr afon*

Mississippi, i weithio ar y planfeydd siwgr yn Louisiana. Yr oedd yn gyffelyb i un o'r heidiau hyny o gaethion y sonir am danynt gan Mungo Park, oddieithr fod ganddynt amryw gludfêni i'r dyben o gludo y dynion gwynion, a'r cyfryw o'r Negröaid a allent ymgloffi; ac yr oeddynt yn awr yn gosod y ceffylau i fyned rhagddynt. Eisteddai rhai o'r caethion menywaid ar gyffiau o goed, tra y safai eraill, ac ymdwymnai llawer iawn o'r plant duon bychain wrth y tânau yn y llety noswaith. O'u blaen oll, ac yn barod i'r daith, safai mewn rhesi dwbl tua dau gant o gaethion wedi eu llawgylmu a'u cadwyno ynghyd. Ni welsom erioed y fath olwg echryslawn o'r blaen. Gyrasom ymlaen, ac wedi rhydio afon mewn badau â gwaelodion gwastad, aethom i fyny i'r ffordd, lle y darbyyllais y gyrwr i aros nes y caem weled croesiad yr afon gan y '*gang*,' fel ei gelwid. Yr oedd yn olygfa ddyddorol, ond pruddaidd, i edrych arnynt yn croesi yr afon. Yn gyntaf gwnai dyn ar geffyl ddewis lle bäs yn y rhyd i'r caethion gwrywaidd; yna äi wagon â phedwar ceffyl gyda dyn arall ar geffyl. Cynnwysai y wageni eraill y plant, a rhai o'r cloffion, tra yr äi y menywod a rhai eraill drosodd yn y badau. Dangosid llawer o drefn a gwyliadwriaeth; canys hwn oedd un o'r manau lle y gwna y '*gangs*,' y rhai ydynt yn wastad yn wyliadwrs i gael eu rhyddid, yn aml ddangos tuedd i wrthryfela, gan wybod pe gallai un neu ddau o honynt ddirdroi ymaith eu llaw-lyfetheiriau, y gallent ryddhâu y lleill, ac yna naill ai ymwasgaru, neu orchfygu a lladd eu ceidwaid seilwon, a rhedeg i'r taleithiau rhydd. Gan fod y gyrwyr caethion yn gwybod am y duedd hon yn y caethion anfodus, ymdrechant leihâu eu hanfoddlonrwydd trwy eu porthi yn dda ar eu taith, ynghyda'u hannog hwy i ganu."

Wrth yru y caethion, y mae y dynion gwynion yn gyffredin ar geffylau, ac yn meddu eu llawdrylliau wrth eu hochr, fel y gallant ladd y Negro fföedig os nad ellir ei ddal yn fyw, canys gwell yw ei saethu yn farw na'i adael i ffoi, a bod trwy hyny yn ddynt rhydd. Y mae yn anmhosibl desgrifio yr holl drueni ag sydd yn cydfyned â gyru caethion o'r naill wlad i'r lall.

Wedi i'r Negröaid gyrhaedd pen eu taith yn y taleithiau lle y mae planfeydd, dosberthir hwy ymhlith y bobl a roisent archebion am danynt, neu ynte cedwir hwy mewn ystorfaau hyd nes y delo prynwyr. Hysbysir yn gyffredin ddyfodiad myntai o gaethion yn y papyrau. Rhed yr hysbysiad rywbeth fel hyn:—

"Newydd laniö, gan y tanysgrifwyr, llwyth mawr o Negröaid rhagorol o bob rhyw, y rhai a werthir am bris rhesymol, a'r rhai y gellir eu gwled yn y cyfamser yn ein sefydliad."

Ceir manau cyfleus lle y gall y prynwr fyned am y nifer y myno. Y mae trefn fasnachol yn cael ei dwyn ymlaen dan gwmmi priodol i'r pwrpas. Er anghraifft: bydd gan *firm* Jefferson a Whitlaw yn ystorfa yn Baltimore, lle y rhoddant arian am Negröaid, ac ystorfa arall yn New Orleans, lle y gwerthant gaethion; a bydd un o'r cwmmi yn byw yn Baltimore i ddwyn ymlaen y gangen o bwrcasu, tra y gwna y llall fyw yn New Orleans i ofalu am y gangen werthu o'r drafodaeth. Er fod caethion yn cael eu gwerthu i bwy bynag a rydd bris priodol am danynt, pa un ai y masnachwr a dalo am ei dri chant, neu ynte y person a bryno ddiun ond un, eto gwerthir lliaws trwy arwerthiant cyhoeddus. Y mae teithwyr yn dywedyd fod arwerthiant

caethion yn New Orleans a manau eraill, ymhlith y golygfeydd adgasaf a welsant erioed. Saif dau arwerthwr, yn gyffredin, ar fwrdd neu rywbeth cyffelyb—un i gynnyg dynion duon a defnyddio y morthwyl, a'r llall i ddangos y nwydd, ac i gyfrif y cynnygion. Wrth reswm, amrywia pris Negro yn ol ei oed a'i iechyd. Bydd y pris yn cyfodi a gostwng yn ol y galw fyddo am Negröaid, megys yr amrywia y pris am y dà, a'r defaid, a'r moch, yn ol y galw fyddo am danynt. Y mae prinder a llawnder pobpeth yn effeithio ar y pris. Mewn amser cyffredin, gall fod pris un Negro o iechyd a chymhwysder gweddol, o £125 i £170; ond weithiau bydd yn llawer uwch. Cyrhaedd Negröaid iachus a chryfion iawn o £200 i £250. Mae amryw bethau, meddir, yn peri y pris uchel, megys yr alwad am Negröaid i arloesi tyddynod newyddion yn Texas, yr alwad am gaethion i gyfodi cotwm yn Alabama, a siwgr yn Louisiana, a'r alwad am gaethion i weithio ar lawer o reilffyrdd newydd ag oeddynt yn cael eu gwneyd dros yr holl wlad.

Ond pa fodd yr ymddygir at y caethion yn y plañfeydd? Y mae y bobl ddu a gwyn yn agos yr un nifer yn y taleithiau planigawl. Yn Mississippi a South Carolina, y mae y Negröaid yn lliosocach o lawer na'r bobl wynnion. Yn nhaleithiau y plañfeydd, defnyddir agos yr holl gaethion i lafurio, a chedwir ychydig ar diroedd gwael i eppilio. Defnyddir y caethion mewn dau fath o lafur, un yn y llafur teuluaidd, a'r llall ar y maes. Yn y tŷ y maent yn gerbydwyr, yn weision traed, yn gogyddion, &c.; ac ar y maes trinant gotwm, siwgr, *rice*, &c. Caethiwd yn y plañfeydd yw gwreiddyn y drwg. Byddai yn hawdd diddymu caethiwd teuluaidd, ond y mae rhyw wreiddiau ofnadwy yn perthyn i'r llall.

Y mae plañfeydd siwgr a chotwm anferth yn y tiroedd da yn ogleddol i Gûlfôr Mexico. Cyfodir rhai eraill, ond y rhai hyn ydynt y prif nwyddau. Ceir fod ystâdau o wyth cant neu fil o erwau yn aml yn cael eu neillduo i'w diwylliant. Y peth cyntaf a wna plânwr fydd mynu nifer digonol o Negröaid i weithio ei dir; os bydd y tiroedd yn helaeth, bydd ganddo bump neu chwe' chant. Trwy lafur y caethion hyn yr ymgyfoethoga y plânwr; a pho galetaf y gall efe eu gwneyd i weithio, a pho leiaf a gyst eu cynnal-iaeth iddo, mwyaf fydd ei elw. Am hyny gwneir iddynt weithio yn galed, a chânt brinder dillad a bwyd. Mewn bwyd yn unig i'w gaethion, gall y perchenog arbed miloedd o bunnau yn y flwyddyn. Ond y mae yn bosibl cario y drefn lêm a chaled mor bell fel ag i fod yn golledus. Mae y perchenogion yn gwybod hyn yn dda; ac y maent hyd yn nôd wedi dadleu y pwnc pa un ai y drefn o galedwaith a drwgdriniaeth, gyda'i heffeithiau o fyrhâu bywyd y caethion, neu y drefn o waith cymedrol, a thriniaeth briodol, a'r canlyniad o hirhoedlled y caethion, sydd ar y cyfan yn fwyaf manteisiol. Dywed y Parch. Dr. Reed o Lundain, yr hwn a deithiodd yn Kentucky a Virginia yn 1834, oddiar awdurdod dda, am gyfarfod oedd newydd gael ei gynnal gan blânwyr Carolina Ddeheuol, i ystyried pa drefniant o'r rhai hyn oedd fwyaf ennillfawr—eu bod yno wedi penderfynuo o blaid y trefniant creulonaf! Ac am hyny, y drefn o galedwaith a drwgdriniaeth a fabwysiedir yn gyffredin. Cael llafur mawr mewn amser byr yw yr hyn yr edrychir am dano.

Trethir holl alluoedd y Negro yn y gwaith o dyfu cotwm a siwgr, a chredir ei fod yn un y gellir gwasgu fel y myner ar ei nerth a'i amynedd. Y mae tymmorau o'r flwyddyn wrth ddiwyllio y siwgr a'r cotwm a elwir

"amser prysur," pan y mae y llafur yn ddyblyg. Y mae tymmor berwi y siwgr yn parháu wyth neu ddeg wythnos, ac y mae yn un pwysig i'r plânwr. Wedi unwaith ddechreu ar y gwaith, rhaid gwasgu ymlaen ddydd a nos, fel y mae yn anghenrheidiol cael dau gyflawnrif o lafurwyr i ryddhâu eu gilydd, neu weithio un dosbarth i farwolaeth. Arferir y drefn olaf yn rhy aml. Yr amser prysur gyda'r cotwm yw y tymmor i'w gasglu, sef o Hydref i'r Nadolig. Y pryd hyn gofynir am bob Negro yn y blânfa, yn cynnwys yr hen a'r methedig, ac hyd yn nôd menywod beichiogion, a rhoddir dogn dirfawr i bob un i'w gasglu bob dydd; ac os syrth neb yn fyr o'i ddog, cosbir ef yn llym. Y mae yn rheol gyffredin i'r caethion fod ar y maes cyn ei bod yn ddigon goleu iddynt weithio, a chedwir hwy yno nes y byddo yn rhy dywyll iddynt weled. Gweithiant o bymtheg i un awr ar bymtheg bob dydd trwy y flwyddyn at eu gilydd. Gellir gwneyd rhyw waith heb oleuni y dydd, megys trin y cynydau,—i ba waith y cymerir "*gangs*" allan ymhell cyn toriad y dydd. "Yr wyf yn gweithio fy nghaethion," meddai un plânwr, "hyd un ar ddeg neu ddeuddeg o'r gloch o'r nos, ac yn eu cyfodi tua phedwar yn y bore." Nid oes na boreubryd nac awr giniaw i fyrhâu y diwrnod. Bwyteir y boreubryd ar y maes rhwng deg ac un ar ddeg, weithiau "trwy fwyta a gweithio," ac weithiau yn yr amser byr ô bymtheg neu ugain mynyd; ni chaniateir awr lawn un amser. Dim ond dau bryd yn y dydd a roddir iddynt; a chymerir yr olaf ar ol gadael y gwaith—rywbryd rhwng chwech a deg o'r gloch o'r nos. Ar ol gwaith rheolaidd y dydd, a chyn myned i orphwys, bydd gan y Negrôaid yn gyffredin waith awr neu ddwy dros ben; hwy sydd i redeg ar negeseuon, i hollti coed, i falu fôd, i olchi dillad, i ofalu am geffylau, gyda rhestr fawr o bethau i'w gosod yn eu lle, ac nid oes yr un o'r pethau hyn i gymeryd lle neu rwystro gwaith cyflawn y diwrnod. Tua phedair awr fel hyn y byddant yn gallu cysgu. Nid oes un gyfraith ond yn Louisiana i rwystro y meistr rhag gweithio ei gaethion nes y syrthiant yn feirw. Rhaid i'r caethddyn, yn ol deddf Louisiana, gael dwy awr a hanner o leiaf i orphwys o'r pedair awr ar hugain. Y mae hanner newynu y caethion yn beth sydd yn cael ei ddwyn ymlaen fel rheol gyson yn rhai o'r taleithiau lle y prynir hwy yn gyffredin. Y mae cnofeydd newyn yn gwasgu miloedd o honynt trwy ystod eu holl fywyd. Peth cyffredin yw i Negrôaid yn y plânféydd ar lánau yr afon Mississippi ymwrando yn y nos am longau yn hwylio i fyny ac i lawr yr afon, a phan y bydd y cyfryw yn sefyll, neidiant iddynt, gan grefu ar y tramwywyr er mwyn y Bôd mwyaf roddi rhywbeth iddynt i'w fwyta. Ymborth cyffredin y Negrôaid yw fôd, yr hwn na roddir iddynt yn gyffredin ond yn brin iawn. Cymysgir ef gyda *rice* neu gloron melus mewn rhai parthau. Caniateir ychydig halen gan y rhan fwyaf o feistriaid. Rhyw weddillion yw ymborth y Negrôaid ar y plânféydd fynychaf.

Nid yw yn rhyfedd fod dillad y caethion yn hynod brin; dau hilyn sydd am y dynion—llodrau a chrys neu siaced. Câ y menywod bais a gŵn byr o'r un defnydd â dilledyn y dynion. Cânt esgidiau weithiau; ond ni chânt hetiau na boneti byth. Y mae plant dan ddeuddeg oed yn noethlymyn. Math o wrthban yw unig ddilledyn gwely y Negro, ac y mae yn ei gwisgo yn y dydd ar dywydd oer. Cnôir traed llawer o honynt gan y rhew, ac y mae eu dyoddefiadau yn echrslawn yn y gauaf. Bythynod trwsagl yw eu hanneddau, o'u gwneuthuriad hwy eu hunain, heb un ffenestr, ac weithiau heb ddrysau. Y mae hen ac ieuanc o bob ystlen yn bendra-

mwnwgl yn yr un fan, lle nid oes na chadeiriau, na byrddau, na choed gwely. Cysgant yn gyffredin ar y llawr wedi ymdroi yn eu gwrthban, ond bydd rhai yn meddu pentwr o fratiau budron wedi eu casglu ganddynt i orwedd arnynt. Mae llawer o'r plânwyr mwyaf yn cyflogi meddyg i ymweled â'r Negrôaid pan fyddont seilion; ond gwell gan eraill golli ychydig o'u caethion yn flynyddol na thalu am feddyg. Ni bydd neb yn gyffredin gyda y caethion afiach yn ystod oriau gweithio. Mynych y bu gwraig yn gorfod gadael ei gŵr claf yn y bore yn gorwedd ar y llawr, ac yn ei gael ef bron yn farw pan ddychwelai yn yr hwyr. Cafwyd profion fod rhai hen Negrôaid, a rhai wedi eu llwyr weithio allan, wedi cael eu tafu gyda'r dwfr.

Gellir dywedyd fod y caethion yn byw dan lywodraeth o ddirboeniant. Ni waeth yn y byd beth fyddo nodweddiad y plânwr, pa un ai Legree greu-lawn, ai St. Clair gareddig a diofal fyddo; ni wna hyny nemawr wahaniaeth i'r caethion yn y blanja, canys y mae y perchenog yn rhoddi ei holl ofal i ddwyllaw goruchwylwyr; a chael cnwd mawr yw gofal yr *overseer* hwnw. Y dyn sydd yn gwybod y ffordd i wasgu mwyaf o waith o'r dynion duon yw y goruchwylwr ffyddlonaf a goreu. Tuag at hyny, rhaid iddo fod yn gyfarwydd yn y gwaith annaturiol o gosbi yn llym, ac o gadw yr holl ddynion dan ei ofal mewn ofn parhâus. Ni fu ystryw-wŷr ffyddlonaf y chwil-lys Pabaidd erioed yn fwy hyddysg mewn gweini cosbau llymion a mileinig nag yw llawer o arolygwyr y caethion yn ein hamser ni. Weithiau crogir y caethion wrth eu harddyrnau, a bysedd eu traed bron yn cyffwrdd â'r llawr; wedi cylymu eu fferau, gwthir pren trwm rhwng eu gliniau. Yn noethlymyn yn y modd yma, fflangellir hwy â chwip o groen eidion, wedi ei thori holl hŷd yr eidion, nes bydd y gwaed yn rhedeg yn frydiau o'u cnawd drylliedig. Weithiau estynir hwy hydgyhyd ar y ddaear, a'u hwynebau i lawr, a rhwymir eu harddyrnau a'u fferau wrth bôlion wedi eu sicrhâu yn y ddaear. Oblegid eu sefyllfa neillduol, nid allant sefain pan ddisgyn y fflangell drymaf arnynt i dori eu cnawd mor arswydus. Fflangellir hwy yn fynych ganuoedd o weithiau ar eu cefnau noethion! Yn aml, bydd raid i'r chwipiwr aros i'w fraich flinedig orphwys yn nghanol y gwaith o fflangellu; pryd y ceir y caethddyn truenus yn un pentwr o gnawd toredig a gwaed ceuledig. Bryd arall, perir i bedwar o Negrôaid cryfion ddal y dyn fyddo i fod yn wrthddrych poenydiad. Y personau a ddewisir ydynt weithiau berthynasau y dyoddefydd ei hun. Eto, cylymir y caethddyn wrth gyff, a fflangellir ef yn noeth â rhwyfau tyllod, y rhai a barant i chwysigen gyfodi bob ergyd; neu tynir cathod ffyrnig yn ol ar draws ei holl gefn o'i ysgwydd i ben ei forddwyd. Ac wedi dryllio y cnawd mor ddychrynllyd, defnyddir *spirits of turpentine*, neu lifnodd o halen, neu *cayenne pepper*, neu fwardd blodiog, i'w rwbio i'r clwyfau gwaedlyd, i fwyhâu ac estyn y boen! Weithiau cleddir caethion hyd eu gyddfau mewn daear laith, a'u breichiau wrth eu hochrau. Gosodir hwy mewn cyffion am amryw nosweithiau olynol, gan eu rhyddhâu yn ystod y dydd i weithio, neu ynte rhwymir hwy nos a dydd. Curir y caethion â ffyn trymion ar eu penau, eu breichiau, eu hysgwyddau, a'u cluniau. Mewn nwydau drwg, cymer y plânwr neu yr arolygwr unrhyw beth a ddaw gyntaf i'w law i ger-yddu y caethddyn, gan ei lorio yn fynych âg un ergyd, ac yna sengir arno. Ar y fath brydiau, drwgdrinir y Negrôaid yn ofnadwy. Torir aelodau, dadgymalir aelodau, briwir wynebau, tarewir llygaid a dannedd ymaith, torir gwefusau, archollir bochau, torir clustiau, neu holltir hwy yn agos i'r pen,

a thorir ymaith fysedd traed a dwylaw. Defnyddir heiyrn eirias i'w gwarth-nodi â llythrenau cyntaf enw y perchenog ar eu bochau, ar dewder y morddwydydd, y cluniau, a'r ysgwyddau. Gwneir i wragedd beichiogion lafurio ar y maes yn fynych hyd foment yr esgoriad, a fflangellir hwy os llaesant. Os goddiwedd rhywun a fyddo wedi ffoi, neu os ceir allan fod un yn bwriadu ffoi, saethir, cloffir, ac weithiau lleddir hwy. Erlynir hwy gan gŵn wedi eu haddysgu i'r pwrpas, y rhai a larpiant eu cnawd, ac a'u lladdant yn aml. Pan gymerir ffôadur, cylymir ef â chadwyn hir wrth gyfrwy ei feistr, a llusgir ef adref, tra y bydd dyn o'i ôl yn ei chwipio. Syrth y caethddyn yn farw ar y ffordd yn aml dan y fath driniaeth farbaraidd a melliagedig. Pwy ag a ddarllenodd "*Uncle Tom's Cabin*" all lai na meddwl am Eliza a'i phlentyn yn ffoi i Canada, pan yn darllen hanesion o'r fath hyn am gaethion ffôedig a'u herlynwyr creulawn! Nid yw pawb o honynt mor ffodus âg Eliza.

Yn aml ceir hysbysiadau am gaethion ffôedig yn newyddiaduron y caeth-daleithiau. Dyma esiamplau o honynt:—

"Ffôdd ymaith," medd Mr. Samuel Rawlins, o Georgia, "ddyn du a'i wraig, o'r enw Nat a Friscilla; y mae ganddo ef graith fechan ar ei foch ohwith, dau fys syth ar ei law dde, a ohlwyf rhedegog arnynt; y mae gan ei wraig graith ar ei braich ohwith, ac un dant uchaf wedi colli." "Ffôdd ymaith," medd Mr. J. Bishop, o South Carolina, "Negro o'r enw Arthur; y mae ganddo gryn graith ar draws ei fron a'i ddwy fraich, wedi eu gwneyd â chyllell; hoffa yn fawr siarad am ddaioni Duw."

Os drwgdrinir y caethddyn, ni wna y gyfraith ei amddiffyn mewn un modd. Nis gall wneyd dim fel aelod o gymdeithas, ond y mae i'w gyfrif yn gwbl ar yr un tir â dâ a defaid ei feistr. Y mae cyfraith yn Mrydain yn erbyn creulondeb i *anifeiliaid*, ond y mae caethion dynol America yn gwbl ddiarnydd. Os drygir y caethddyn, nid all erlyn ei feistr na neb arall am y niwed. Gall dyn dyeithr fflangellu neu guro caethddyn perthynol i arall yn ddigosb, oddieithr iddo ei analluogi i weithio. Os cyfarfyddir â mwy na saith o Negrôaid ynghyd ar y ffordd fawr, gall unrhyw ddyn gwyn yn Georgia a South Carolina roddi ugain fflangell yr un iddynt. Yn Georgia gall ynad yr heddwch derfynu cyfarfod crefyddol y caethion, a chosbi pob dyn du a fyddo wyddfodol yn y fath gyfarfod, heb un treial, â phum' fflangell ar hugain ar ei gefn noeth. Yn Ngogledd Carolina, mae y dyn gwyn a ddysgo Negro i ddarllen neu ysgrifenu, neu a roddo neu a wertho iddo Fibl, neu unrhyw lyfr arall, yn agored i ddirwy o ddau can' dolar, a'r Negro i fflangelliad. Y mae hyd yn nôd y gyfraith yn cael ei gwneyd i gynnorthwyo yn y gwaith anghyfiawn a chreulawn o orthrymu caethion!

Fel effaith naturiol y dyoddefiadau amrywiol i ba rai y darostyngir y caethion, y mae marwoldeb dychrynlyd o gyflym yn myned ymlaen yn eu plith. Gwyddys yn dda nad yw y boblogaeth Negrôaidd yn alluog i gadw eu nifer i fyny yn y taleithiau hyn. Dywedir fod y lleihâd yn ddau a hanner y cant yn y flwyddyn. Er enghraifft, pe byddai dau gant o Negrôaid yn y blanja eleni, a thybied na phrynrir neb yn chwanel yn ystod y flwyddyn, ni fyddai ond naw ugain a phymtheg yno y flwyddyn nesaf. Yn ystod y flwyddyn, byddai pum' mwy o farwolaethau nag o enedigaethau. Ond er hyn y mae *cynnydd* dirfawr yn nifer y Negrôaid yn ngwahanol daleithiau y Dê, yr hyn sydd brawf amlwg fod lliaws yn cael eu prynu yn barhâus, nid i gadw y nifer i fyny yn unig, ond i beri cynnydd mor hynod

yn y boblogaeth ddu. Yn ol cyfrifiaeth led fanwl sydd wedi cael ei gwneyd, ymddengys fod tair mil ar ddeg ar hugain o ddynion duon yn ofynol yn flynyddol i gyflenwi y *lleihâd*. I gyfarfod â'r alwad gynnyddol am lafurwyr, dygir deunaw mil ar hugain i mewn yn flynyddol. Felly rhoddir i ni gyfanrif o driugain ac un ar ddeg o filoedd yn cael eu cludo i mewn yn flynyddol. Meddylir y byddai i gyfrif cywirach a manylach chwyddo y nifer gryn lawer, ac y gwnai y gwir nifer fod tua *chan' mil*. Virginia a Maryland ydynt y taleithiau mwyaf echrus am ddifrodi caethion.

Huerir weithiau gan bleidwyr y fasnach felldigedig hon fod y caethion, er y cwbl, ar y cyfan yn ddedwydd eu sefyllfa. Dichon fod rhai o honynt yn mwynhâu eu bodolaeth anifeilaidd am eu bod mewn dygn anwybodaeth, a bod pob cynneddf a feddant wedi ei phylu; ond gallwn farnu, oddiwrt h y cynnygion mynych a wneir ganddynt i ffoi, eu bod ymhell o fod yn ddedwydd yn eu cyflwr caeth. Dywedir fod un ran o dair ar ddeg o'r holl gaethion yn y taleithiau mwyaf deheuol, a mwyaf anhawdd ffoi o honynt i dir rhydd, yu rhai a ymdrechasant i ffoi rywbyrd neu gilydd. I Canada yr ymdrechasant fyned; ac wedi unwaith groesi y terfyn rhwng y wlad hono a'r Unol Daleithiau, y maent yn bobl ryddion. Dengys y rhai a ffoant yn aml fedrusrwydd mawr yn eu gwaith yn ymdrechu dianc. Darfu i ddau gaethddyn yn Alabama goleddu dymuniad am ryddid yn fore, a lluniasant sfordd i ddianc ynghyd ar ol blynyddau o lafur. Caniatëid iddynt elw eu llafur dros ben oriau gweithio; a thrwy lafur caled ac ymdrech didòr, cuddiasant swm lled fawr o arian. Daeth yr amser iddynt osod eu bwriad mewn gweithrediad. Cyflogasant "ddyn gwyn gwael,"—un o'r rhai hyny a orfodir o herwydd colli eu cymeriad yn y wlad hono i weithio—ac ystyrir dyn gwyn yn gweithio yn beth gwael iawn yno,—i ymddangos fel gwr boneddig; prynasant iddo ddillad newydd, *portmanteau*, cerbyd a cheffylau, a gwisg addas iddynt eu hunain. Cychwynodd y tri un noswaith fel meist, cerbydwr, a throedwas, a theithiasant yn gyflym trwy yr holl wlad i Buffalo, heb ddim rhwystr. Gwerthodd y caethion eu cerbyd, eu cheffylau, a'u dillad gwychion, talasant ymaith eu dyn gwyn, a diangasant yn ddiogel i Canada. Yn ddiweddar, gwelsom hanes am gaethes ieuanc, ddim ond deuddeg mlwydd oed, wedi cyrhaedd Liverpool yn ddiogel o'r America; ymguddiasai ymlhith y nwyddau yn y llong, ac felly cyrhaeddodd dir rhyddid, heb fod mwyach un perygl i'w hen feistr gynt fod yn alluog i'w llusgo yn ol i'r blin gaethiwed.

I ryw fesur, caniatëir i gaethion brynu eu rhyddid. Ymddengys mai y caethion teuluaidd yn unig sydd yn cael y fraint o brynu eu gollyngdod, naill ai trwy weithio ar garedigrwydd eu meistriaid, neu trwy gynnilo o'u cyflogau bychain. Mewn rhai taleithiau ni chaniatâ y gyfraith i'r caethion *wneyd dim* a allo eu galluogi i ymryddhâu. Ni chânt weithio iddynt eu hunain mewn un modd. Y mae tuedd gref yn yr holl daleithiau i beidio helaethu ar nifer y caethion rhyddedig. Y mae hyd yn nôd hawl y meist i ryddhâu ei gaethion yn gyfyngedig trwy gyfraith. Yn aml, pan fyddo plâuwr cyfoethog ar wely cystudd, ac yn nesâu at angeu, teimla ingfeydd meddwl am y drwg o ddal ei gyd-ddynion mewn caethiwed, ac attal tâl priodol iddynt am eu llafur. I liniaru pigiadau ei gydwybod, gwna ewyllys yn rhoddi eu rhyddid i'w gaethion wedi ei farwolaeth, gan nas gallant fod o elw pellach iddo ef. Ond ni chaniatëir y dull hawdd hyn o olyngdod yn y taleithiau deheuol. Rhaid eu symud o'r dalaeth yn y cyfamser i wneyd eu rhyddhâd yn gyfreithlawn. I osgoi y gyfraith hon, cymun-

roddir hwy weithiau i ofal ewyllys-weinyddwr caredig, yr hwn a saif yn feistr mewn enw, gan ganiatáu i'r caethion weithio iddynt eu hunain, ac elwa trwy eu llafur. Ond cyhoeddwyd hyn eto yn anghyfreithlawn, a gall y *neb a fynd* ymaflyd yn y cyfryw gaethion rhyddedig, a'u gwneyd yn eiddo iddo ei hun! Y mae hyn bron yn anghredadwy; ond dyma y prawf:—

Rebecca Rhame yn erbyn James Ferguson a John Dangerfield: BUTLER, *Barnwr*.—Y mae ewyllys yn cymynroddi caethion i ewyllys-weinyddwr, mewn ymddiried, i ganiatáu iddynt gael eu hamser iddynt eu hunain, ac i lafurio er eu lles eu hunain, ac i lywodraethu eu hunain, fel cais i osgoi cyfraith y dalaeth yn erbyn gollyngdod caethion; os ymdrechir cario hyn i weithrediad gan yr ewyllys-weinyddwr, gwneir y caethion yn agored i'w cipio a'u meddu gan unrhyw un, dan gyfraith 1800. Gall ewyllys-weinyddwr y fath ewyllys feddiannu y caethion yn gyfreithlawn, i weinyddu yr eiddo; ond pa un a fyddo yr ymddiriedaeth yn ofer, neu a wna llŷs cyfiawnder ei gosod mewn grym (ymha achos y gallant fod yn sfforfiedig, megys yn nbreial Fable yn erbyn Brown), sydd bynciau i lŷs arall. O dan yr esboniad hwn o'r gyfraith, wedi i'r rheithwyr gael barn yn erbyn yr achwynwr, yr ysgafaelwr (*captor*) dadganol, gwrthodwyd caniatáu treial newydd.—Gwelir gan hyny fod anhawderau cyfreithiol ar y ffordd bron ymhob cyfeiriad, i ryddhâu y caethion yn y wlad y mae RHYDDID yn un o arwydeiriau cenedlaethol y bobl.

Os cymerir golwg drafnidol ac arianol ar gaethfasnach a chaethiwed yn America, ceir gweled fod mwy o golled ac afradaeth arian trwy ddarostwng dynion i wasanaeth gorfodol a threisiol, na phe defnyddid dynion rhyddion i wneyd yr un gwaith am gyflog teg. Os bydd unrhyw drefn yn ddrwg moesol ynddi ei hun, nis gall y cyfryw lai na bod yn niweidiol i gymdeithas, er y dichon iddi feddu rhyw fanteision byramserol. Rhaid i'r dyn a benderfynio gael caethion i wneyd ei waith, yn y lle cyntaf, *brynu* y dynion, ac yna fe ddisgyn y draul o'u cynnal arno. Y mae yn naturiol meddwl fod amrywiaeth mawr mewn cynnulliad o gant neu ddau o bobl a brynir gan blawr i drin ei diroedd; bydd rhai yn weithgar, eraill yn ddiog; rhai yn dda, eraill yn ddrwg eu tymherau a'u harferiadau; rhai o duedd iachus, ac eraill yn afiachus. Os cymharwn y drefn hon o gael gweithwyr â'r drefn o gyflogi dynion i wneyd y gwaith pan fyddo anghen, a'u talu i fwrdd pan na byddo eisieu eu llafur yn hwy, mae y gyntaf yn ymddangos yn wrthun, annhrefnus, a diennill. Gall amaethwr yn Nghymru gychwyn gyda'i dir heb ryw swm anferth i dalu gweithwyr; ond yn nghaeth-daleithiau America gwerir rhai miloedd i brynu gweithwyr i lanhâu ac i drin y tir; felly y mae yno ansantais a cholled wrth gychwyn. Y mae hyn hefyd yn afradaeth hynod ar arian, a cholledir y wlad trwy hyny. Y mae pob ymchwiliad teg yn profi fod llafur rhydd a gwirfoddol yn tra rhagori ar yr un gorfodol. Cymerwn y dyfyniad canlynol o waith ysgrifenydd athronyddol:—“Y mae caethiwed, yr hyn sydd greulondeb i'r caethddyn, yn gwbl niweidiol i'r meist. Profwyd y gwirionedd hwn yn dra boddhâol pan gyrhaeddodd gwladdeiddiant lânau yr afon Ohio, y ffrwd a alwyd gan yr Indiaid wrth yr enw Ohio, yr afon brydferth sydd yn dyfrhâu un o'r dyffynnoedd mwyaf godidog a wnaethpwyd erioed yn breswylfod dyn. Ymestyna tir twmpathog ar bob tu i'r afon Ohio, daear yr hwn a gynnyrcha drysorau anhyspyddadwy i'r llafurwr. Ar bob tu y mae yr awyr yn iachus, a'r hin yn hyfryd, ac y mae pob ochr yn ffurfio terfyn talaeth ddîrfawr. Y parth

a ddilyn ddolenau lliosog yr afon Ohio ar y llaw chwith a elwir Kentucky; a'r parth ar y llaw dde a elwir Ohio, ar ol enw yr afon. Mewn un peth yn unig y gwahaniaetha y ddwy dalaeth hon; ymgymerodd Kentucky â chaethwasanaeth, ond darfu i dalaeth Ohio wahardd caethwasanaeth o fewn ei thersynau. Felly y gellir dywedyd am y teithiwr a hwyliia i lawr ar yr afon Mississippi ei fod yn hwylio rhwng caethiwed a rhyddid; a gwna cipolwg ar y gwrthdrysau amgylchol ei argyhoeddi pa un o'r ddwy gyfundrefn sydd fwyaf ffafriol i lesiant dynolryw. Ar lán chwith yr afon, y mae y boblogaeth yn brin. O bryd i bryd gall un weled haid o gaethion yn segura ar y maesydd sydd bron yn anial. Gwelir y coedwigoedd cyntefig ar bob trofa. Y mae cyndeithas fel pe yn cysgu, dyn yn segur, a natur yn unig a ddengys olygfa o weithgarwch a bywyd. O'r lán dde, yn y gwrthwyneb, clywir twrf cymysgld, yn dynodi presennoldeb diwydrwydd. Gorchuddir y maesydd â chnydau helaeth; dangosa prydferthwch y tai chwaeth a gweithgarwch y gweithwyr, a gwelir dyn yn meddiannu y cyfoeth a'r boddlonrwydd hyny ag ydynt wobwr llafur."

Os edrychwn i amgylchiadau y planwr, yn gystal ag ardremio ar y wlad, ni a ddeuwn i'r un casgliad. Y mae yr hanes a ganlyn yn gosod y mater mewn llaw yn amlwg iawn. Mr. Buckingham sydd yn ei adrodd. Pan yn hwylio i fyny ar hyd yr afon Mississippi, cafodd ymddyddan âg amryw o'i gyd-dramwywyr o berthynas i gaethwasanaeth. Yn ystod yr ymddyddan, "cymerodd boneddwr o Kentucky,—yr hwn a dyfai yd ac a borai anifeiliaid, ac efe ei hun yn berchenog llawer o gaethion, ac yn ymuno yn yr holl fygythion ar y diddymwyr,—arno ei hun ddangos, wedi y cwbl, fod caethwasanaeth yn gymaint melldith i'r perchenogion ag ydoedd i'r caethion, yn gymaint ag y llyncai eu harian, y bwytaai eu helw, ac y profai yn rhwystr parhâus i'w llwyddiant cynnyddol. Dywedai ddarfod iddo nid yn unig wneyd y cyfrif, ond iddo hyd yn nôd wneyd y prawf o gymharu llafur y dyn gwyn âg eiddo y caethddyn du, ac iddo gael y diweddaf bob amser y mwyaf drud o'r ddau. Cymerai, er enghraifft, ddwy fil o ddoleri i brynu caethddyn da. Gan fod llôg arian yn Kentucky yn £10 y cant, yr oedd yma ddau gant o ddoleri yn flynyddol yn myned o draul; ond i sicrhâu ei fywyd, gofynai o leiaf £5 y cant chwanaeg, yr hyn a wna dri chant o ddoleri y flynyddyn. Chwaneger at hyn y draul anghenrheidiol am gynnalïaeth tra yn iach, ac am feddyg tra yn sâl, gyda chyfflogau i arwylwyr gwynion ar bob haid o ddynion i edrych eu bod yn gwneyd eu dyledswydd, a chostau achlysurol eraill, ni thylbiai y costiai caethddyn lai mewn llôg, diogel-dâl, bwyd, a gwyliad, na phump cant o ddoleri, neu £100 yn y flynyddyn; eto, ar ol y cyfan, ni wnaï fwy na hanner gwaith y dyn gwyn, yr hwn y gellid ei hurio am yr un bris heb roddi dim arian allan, na myned dan y baich o'i gynnal tra yn glaf, ac yr oedd gan hyny y llafurwr rhataf o'r ddau o lawer."

Y prif rai a wrthwynebant ddiddymiant y gaethfasnach ydynt y cyfryw ag sydd wedi suddo llawer o'u harian yn mbryniant caethion. Byddai yn hawdd cael dynion rhyddion i wneyd yr un gwaith â'r caethion, yn enwedig pan y mae ymfudiaeth yn myned rhagddo mor rhyfedd, yn Ewrop a China.

Yn fynych nacëir a gwedir hawliau gweddeidd-dra, dynoliaeth, a gwlad-siddiant i'r bobl rydd a chymysgliw, yn Unol Daleithiau yr America. Yr egwyddor ydyw i'r plant ddilyn yr un sefyllfa a'r fam, er fod lliw eu croen

agos yn wŷn, a'u tad yn ddyn gwŷn. Y mae y lliw Negrôaidd lleiaf mewn dynes yn ei hysgaru oddiwrth bob cydymdeimlad a gweddeidd-dra mewn cymdeithas, a threulia ei bywyd mewn caethwaith. Ffyna y rhagfarn hynod yma trwy yr holl Daleithiau. Trôir y Negrôaid ymaith o deithgerbydau, o agerlongau, oddiwrth ddrysau lleoedd o ddifyrwrch, ac o'u heisteddleoedd mewn addoldai, ac ni chânt eu claddu mewn mynwentydd gyda chyrff dynion gwŷnion. Y mae hyn bron yn anghredadwy, ond y mae tystiolaethau lliosog ar gael yn profi gwired a cwbl. Yn Philadelphia—dinas cariad brawdol, ceir fod y rhagfarn rhag-grybwylledig yn nerthol iawn. Pe cyfodai yr hen Gyfeillion da a seiliasant y ddinas, a gweled y fath bethau, cynhyrfid eu calonau ynddynt dros y dosbarth hwnw o hiliogaeth Duw a anmherchir mor fawr. Gwrthodwyd unwaith i foneddiges gymeryd merch â thipyn o liw Negrôaidd arni i ofalu am ei baban pan yn myned gyda theithgerbyd! Yr oedd dyn lliwiedig parchus yn nhref Massachusetts yn meddu hawlysgrif i eisteddle iddo ei hun a'i deulu mewn un addoldy. Yno gwthir y Negrôaid i ryw gonglau yn y capeli o'r golwg. Gofynwyd i'r dyn hwn roddi i fyny ei gôr, ond gwrthodai; yr oedd efe yn gallu talu am dano, ac yr oedd yn ddinesydd mewn gwlad rydd. Treiwyd ef mewn llawer sfordd gan swyddogion y capel i roddi i fyny ei le; ac ar un tro, dyfnodd yr henadur llywodraethol ysgrythyr, gan ymhoni ei bod yn profi ei bwnc—"Nid yw pob enawd unrhyw gnawd." Yr oedd am wneyd i hyny brofi fod y dyn du yn is yn ngraddeg bodolaeth na'r dyn gwŷn! Ni thyciodd yr ymesymiad campus, pa fodd bynag. Wele, gan hyny, crogwyd pridden o ddwfr budr uwchben côr y dyn yn y fath fodd fel ag i ymarllwys ei chynnwysiad ar y neb a äi i mewn. Ac o'r diwedd, torwyd y côr yn ddarnau. Rhoddwyd math o gôr amserol yno; ond dinystriwyd hwnw hefyd, a thyllwyd y lle fel y byddai raid i'r neb a ddeuai yno i wrando yr efengyl, fod hyd ei wddf mewn twll dwtu yn y ddaear. Goddefwyd yr holl sarhad gan y gŵr â'r lliw esgymun gyda gwroldeb crïstionogol.

Dylid sylwi fod y fath ragfarn ofnadwy yn erbyn pobl dduon yn agwedd ddiweddar mewn cymdeithas yn America. Yn amser y rhyfel dros annibyniaeth America, yr oedd y rhagfarn yma yn llai o lawer, os oedd yn bod o gwbl. -Oddiar ffurfiad y Weriniaeth, y mae y duedd i warthruddo y Negrôaid yn unig ar gyfrif *eu lliw* wedi cynnyddu yn rhyfedd; ac y mae yn awr yn un o'r elfenau amlycaf, annhecaf, a ffeiddiaf i ni o'r cymeriad gwladol. Yr oedd y cyffelyb ragfarn yn ffynu yn yr ynysoedd perthynol i Brydain yn yr India Orllewinol cyn diddymiant caethwasanaeth; ond oddiar y cyfnod dedwydd hwnw y mae yn diflanu, ac nid yw *lliw* yn cael effaith israddol ar y boblogaeth ddu, nac yn atalfa iddynt lanw y swyddau mwyaf anrhydeddus yn y llywodraeth gyda phob cymeradwyaeth.

Nid yw y Negrôaid heb wir gyfeillion yn America; ac y mae cydymdeimlad y cyfryw â'r Affricaniaid wedi dyfnhau yn fawr wrth weled llwyddiant Prydain yn diddymu caethfasnach a chaethwasanaeth yn ei holl feddiannau. Nid yw Crïstionogaeth yr Unol Daleithiau yn gyffredin wedi gwneyd nemawr dros y caethion. Fel yr oedd Crïstionogaeth yn myned rhagddi yn ei hoesoedd boreuol, yr oedd caethiwed yn syrthio o'i blaen, a deuid i addef cydraddoldeb dynion fel bodau rhesymol, moesol, a chyfrifol; ond ceir fod enwadau efengylaidd—Protestanaidd, yn America yn aml yn pleidio, ac yn ymdrechu cyfiawnhau yr anwiredd haerllug hwn. Nid oes un enwad crefyddol yno yn gwbl lân oddiwrth waed eu cyd-ddynion!

Cefnogant y fasnach; elwant trwyddi; gwneir crefydd yn offeryn i'w pharhâu; ac y mae miloedd o ddynion yn dawel eu cydwybodau fel aelodau eglwysig, a llawer fel gweinidogion yr efengyl, gan ddarbwylllo eu hunain i gredu nad oes dim anghyfiawnder yn y mater! Defnyddir pob math o au-resymau gan bennaethiaid eglwysi i gynnal y fasnach, ac i wrthwynebu y rhai a feiddiant ddywedyd yn ei herbyn. Y mae yn berygl eiddo a bywyd yn y Taleithiau Deheuol dywedyd dim yn erbyn y gaethfasnach. Y mae dysgu y deg gorchymyn i Negro yn drosedd yno a fygythir âg alltudiaeth, a marwolaeth yw y gosb os parhëir yn y gorchwyl ffaidd o addysgu dyn du yn ngair Duw! Cywilydd byth i gymdeithasau crïstionogol a bleidiant y fasnach sydd yn gorfodi gordderchadaeth, ac yn magu bodau dynol fel anifeiliaid i'r gigfa!

Y mae gan gyfeillion gwir ryddid dyn a hollol ddiddymiant y gaethfasnach yn ei holl agweddau, anhawsderau mawrion ar eu ffordd i lwyddo yn yr America; ond nid ydynt mewn un modd yn digaloni, er nad yw eu hymdrechiadau wedi eu coronï â'r llwyddiant yr amcenir ato. Fe allai fod y taleithiau rhydd, neu y rhai gogleddol, yn ofni ymfwrw yn wladyddol i'r pwnc, rhag i ymrafael dori allan rhyngddynt â'r taleithiau caethol neu ddeheuol. Y mae mantais hefyd gan gynnrychiolwyr o'r taleithiau deheuol ar eiddo y rhai gogleddol: wrth gyfrif y boblogaeth, cyfrifir *pump* o Negröaid yn gyfartal i *dri* o ddynion gwýnion. Felly y mae gan bob dyn gwýn yn y taleithiau caethol ychydig mwy o allu gwladyddol na dyn gwýn yn y taleithiau rhydd; ac y mae y taleithiau caethol ynghyd yn anfon cynnrychiolwyr ar gyfer y boblogaeth ddu yn y cyfartalwch a grybwyllwyd. Y mae hyn yn ddylanwad gwladyddol mawr a pheryglus. Eto y mae gan y taleithiau, bach a mawr, hawl i anfon dau aelod i'r Senedd neu y Tŷ uchaf; felly y mae y taleithiau caethol a rhydd â nifer cyfartal o gynnrychiolwyr. Yn apwyntiad y *President*, ac yn holl weithrediadau y *Congress*, y mae gan y *Slave States* awer mwy o ddylanwad nag a fuasant yn ei feddu pe y safon fyddai y boblogaeth rydd. Cymerwn fod aelodau dros y taleithiau rhydd yn bleidwyr caethwasanaeth, yna y mae yn amlwg y try y fantol o blaid parhâd y gyfundrefn erchyll. Y mae y *Congress* hefyd wedi gwrthod ymyraeth â'r pwnc o ddiddymiant y gaethwasanaeth, ac wedi nacâu derbyn deisebion o blaid hyny.

Nid yw pawb o'r un feddwl gyda golwg ar y ffordd oreu i roddi terfyn ar gaethiwed. Y mae rhai am ddiddymiant dioed, ac eraill am wneyd hyny yn raddol. Ceir fod un blaid yn dadleu dros hawl menywod i gymeryd rhan gyhoeddus yn y gwaith, a haera eraill yn erbyn hyny. Pleidia rhai y drefn o drefedigaethu, ac anfon caethion rhyddedig i fan penodol i gael eu dysgu mewn bywyd gwaraid. Cymerir Liberia, trefedigaeth werinol rydd yn ngorllewin Affrica, fel siampl. Nis gall neb wadu nad yw hon yn llwyddo dan lywyddiaeth alluog y *President Roberts*.

Crëodd *Uncle Tom's Cabin* adgasrwydd at gaethwasanaeth, a thosturi at y dyn du Americanaidd, trwy y Taleithiau Gogleddol, trwy Frydain Fawr, a llawer o wledydd Ewrop a'r byd. Llawnodwyd cofeb yn Mrydain gan ddeugain mil o fenywod, i'w hanfon at fenywod America, o blaid diddymiant y fasnach, a dygwyd y mater dan sylw cyhoeddus, a lled gyffredinol; eithr taffwyd ef i'r cysgod—ond nid o'r neilldu, gobeithiwn—gan doriad allan y rhyfel rhwng Rwsia a Phrydain ar y pryd.

Y mae yn resyn meddwl fod Mr. Pierce, llywydd diweddar yr holl

Unol Daleithiau, yn bleidiwr mor ymroddgar i gaethiwed a chaethfasnach; a bod Buchanan, y llywydd presennol, o'r un olwg ar y pwnc. Diau ei fod yn beth o'r pwys mwyaf i holl daleithiau America, ar i ryw ffordd esmwyth, gyfreithiol, a buan, gael ei chymeryd i ryddhâu eu holl gaethion. Nid peth anghyffredin yw gwrthryfel ymysg y Negrôaid; y mae nifer y caethion mor llïosog yn y Dê ag yw y dynion gwÿnion; y mae noddwyr i gaethion ffôedig mewn llawer man; y mae Canada yn wlad rydd; a phan y cymerir y pethau hyn i ystyriaeth, gall y gwladyddwr weled elfenau ar waith ag sydd yn debyg o ddryllio y taleithiau yn yfflon ryw ddydd, oddieithr eu rhagflaenu yn brydlawn ac effeithiol. Gellir yn rhesymol ddysgwyl i dynged y wlad fawr a chynnyddol hon fod yn wir adfydus, oddieithr iddi gymeryd mesurau buan i sychu ymaith y gwarth a'r anghyfiawnder sydd hyd heddyw yn ei darostwng o flaen Duw, pleidiwr y gorthrymedig, ac o flaen y rhan fwyaf o'r byd gwareiddiedig. O! nad ellid dywedyd am holl drigfanau trawsder y ddaear, "Ni chlywir mwy sôn am drais yn dy wlad, na dystryw na dinystr yn dy deryfynau: eithr ti a elwi dy fagwrydd yn lachawdwriaeth, a'th byrth yn Foliant."

Dichon y dylem ddywedyd fod y rhan fwyaf o'r erthygl hon ar gaethwasanaeth yr America yn ysgrifenedig genym er ys mwy na dwy flynedd bellach; ond nad oes, ysywaeth, ddim wedi dygwydd yn yr Unol Daleithiau yn y cyfamser sydd yn galw arnom i liniaru dim arni. Er y pryd hyny y mae y Llywydd Pierce, a'r Llywydd Buchanan ar ei ol, a'u pleidwyr, wedi ceisio â'u holl egni orfodi pobl talaeth newydd Kansas i dderbyn caethwasanaeth yn erbyn eu dymuniad. Bu yno dywallt gwaed yn y ffrwgwd rhwng cyfeillion rhyddid a phleidiwyr caethiwed. Ond hyd yn hyn, mae yr ymgais i wneyd Kansas yn dalaeth gaeth wedi bod yn aflwyddiannus. Bu cyffro mawr hefyd yn ddiweddar yn yr America, o herwydd eiddgedd y llywodraeth a'r bobl yno am fod gwiblongau rhyfel Lloegr yn nghulfor Mexico yn mynu chwilio llongau oedd yn hwylio dan y faner Americanaidd rhag eu bod yn cludo caethion o Affrica. Yn wir, y mae caethfasnach America nid yn anfynych yn achlysur, os nid yn achos, fod camddeall o natur beryglus yn cyfodi rhwng ein gwlad ni â hi. Mae yn amlwg nad yw cenadaeth Brydain yn achos dynoliaeth, ac yn enwedig ar ran y dosbarth llïosog o'r teulu dynol sydd â'u croen yn ddu,—wedi ei chyflawni. Y mae genym waith mawr o'n blaen, ond nid gorchwyl anmhosibl, gan fod Duw gyda ni, yr hwn "a wnaeth o un gwaed bob cenedl o ddynion, i breswyllo ar holl wyn-eb y ddaear, ac a benododd yr amseroedd rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt; fel y ceisient yr Arglwydd, os gallent ymbalfalu am dano ef, a'i gael, er nad yw efe yn ddiâu nebpell oddiwrth bob un o honom."

GEORGE HEYCOCK A'I AMSERAU.

Yn ein herthygl o'r blaen,* yr ydym yn cofio i ni adael George mewn anialwch mawr erchyll, a thywyllwch dudew, yn arwain yn y blaen fyddinoedd haerllug y pwll diwaelod; ar yr un pryd, awgrymasom fod dôrau y wawr fel pe byddent ar ymagor, a llewyrch Haul Cyfiawnder ar dywynu, ar y fro gaddugol lle yr ydoedd yn byw. Gallesid meddwl, pan ddarfu i ni ffariweliog âg ef o'r blaen, fod rhyw swm fel yr eiddo Duw Hollalluog yn symud yn rhywle, neu raiadr yn disgyn o rywle uwch na'r Niagara, neu ddaeargryn yn siglo y ddaear drwyddi, nes ysgwyd yr hen garcharau cedyrn, nes oedd rhwymau pawb yn rhyddion. Y mae cyfnewidiad mawr ar y drws.

Ond cyn myned at hyny yn bresennol, fe ddichon y bydd yn dra anghenrheidiol dyweyd gair neu ddau ynghylch ei fynediad i'r sefyllfa briodasol, yn gymaint ag y bydd yn rhaid i ni cyn y diwedd gyffwrdd âg enw y wraig; a rhywbeth digon chwithig fydd hyny, fel y gellid meddwl, heb ddywedyd yn gyntaf ei fod yn briod. Darfu iddo briodi cyn cael crefydd, ac wrth gwrs fe ddewisodd wraig oedd fel yntau yn ddigrefydd hefyd; felly yr oedd eu harchwaeth ill dau y pryd hwnw, fel nad oedd dim "ysbryd yn rhyfela yn erbyn y cnawd" mewn dim, ond pobpeth yn hwylus a rhwydd yn rhyddredeg yn ei drefn naturiol ei hun. Y mae yn wir fod ychydig o helynt wedi bod ynghylch y cysylltiad hwn; ond nid dim croes rhwng cnawd ac ysbryd, ond rhywbeth ynghylch y gwahaniaeth sydd rhwng dynion â'u gilydd yn y fuchedd hon. Yn awr, yr oedd Sophia yn lodes brydferth, lanwedd, hoewdeg, a gwych dros ben, blodeu ei dydd, a balchder ei rhieni; ac, yn ol barn ei pherthynasau, o uwch gwaedoliaeth na'r *bruiser*. Yr oedd y pethau hyn, fe welir, yn bethau y dylesid eu hystyried yn bwysig, fel na byddai anghyfatebolrwydd rhwng y pleidiau, a hyny yn rhwystr iddynt droi yn gysurus mewn cymdeithas. Heblaw hyny hefyd, yr oedd y dull o fywyd ag yr oedd George yn arwain yn ddigon i beri i unrhyw ddynion arswydo i'w merch fod mewn cysylltiad âg ef. Danfonwyd hi i ffordd i Loegr, lle y bu am amser maith—rai blynyddau, os ydym yn cofio yn dda—fel y tybiwyd yn gyffredinol fod pob cysylltiad wedi darfod, a chariad wedi diffodd yn y ddwy galon, a holl beryglon ieuad anghymharus wedi eu dileu am byth. Beth bynag, y mae y tymmor yn dyfod—ac yn wir, nid dysgwyliaid bychan oedd am dano—i Sophia ddyfod adref i ymweled â'i pherthynasau. Hi a ddaeth; ac er ei bod yn un o flodeu y dyffryn cyn ymadael, eto yr oedd y fath *improvements* yn rhywfodd neu gilydd wedi cymeryd lle ynddi yn Lloegr, fel yr oedd yn gorddysgleirio ymhlith y merched. Yr oedd yn gallu siarad Saesoneg mor bert, ac yn gallu plygu mor foneddigaidd, ac yn medru tafu golwg mor fenywaidd a *ladylike*, fel yr oedd rhai yn ei charu, a llawer iawn yn ei chenfigenu, ymhlith y rhywogaeth deg. Beth bynag, nid oedd dau feddwl yn y plwyf nad oedd pob cysylltiad rhwng y *bruiser* a hithau yn anmhosiibl mwy; canys os oedd rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn nhyb y bobl *cyn* y symudiad i Loegr, yr oedd yn awr yn ym-

* TRAEHODYDD, 1858, tu dal. 397.

ddangos yn aumhraethol, fel y buasai yn edrych fel ieuo ých ac asen, o bethau y byd. Ond y mae yn debyg mai rhywbeth rhyfedd yw cariad. Mae y bobl mwyaf dysgedig a doeth rywsut wedi methu ei ddeall i berffeithrwydd. Y mae dyfroedd lawer yn methu ei foddï, a hin oeraidd yn methu ei rewi. Y mae Llundain ardderchog a threfydd Lloegr yn methu ei ddilëu. Dyma y lodes wedi dychwelyd, er ei holl ddillynder, gyda'r hen wreichionen yn ei chalon, yn ôl i Gymru eto. Y mae cariad wedi methu cwympo ymaith er y cwbl; rhyfedd yw ei barhâd a'i rym; fflam angerddol sydd iddo, y mae yn debyg. Y mae ein harwr yn troi ei wyneb at Sophia eto, er syndod i hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog, gwreng a boneddig. "O'r ffloes," ebe Mary Smith, "y ferch ag sydd yn cael faint a fyno o gynnygion, yn siarad â'r hen — cloff yna." "O!" ebe hon, ac "O!" ebe'r nesaf; un yn rhoi ysgrech yma, a'r llall acw, a phawb o'r rhywogaeth yn cyttuno i gondemnio Sophia a'i hymddygiadau yn derbyn George i'w ffafir. "Os priodi George yr wyt ar fedr wneuthur," ebe Thomas y gôf, "mi ddywedaf gymaint â hyn wrthyt, byddai yr un peth i ti briodi y cythraul ar unwaith, a myned i uffern i fyw."

Y mae yn rhaid cyffesu fod y dywediadau hyn yn rhai heilltion ddigon, ac yn ddigon i beri i un fenyw ymron grynu yn ei chroen, a rhoi pob meddwl am briodi i fyny yn dragywydd; ond fel y dywedasom, rhywbeth cryf iawn yw cariad; y mae yn dal ei ffordd drwy ddŵr a thân, ac yn byw, rywfodd, y tu draw iddynt. Dywedent hwy a fynont, George oedd y dyn. Pan yr oedd Mary Jones wedi methu llwyddo i'w pherswadio drwy ddywedyd am oferedd, ymladdfeydd, a segurddod George, cyfeiriodd ei sylw at ei berson, a'i goes fêr a main, gan ddywedyd, "Pe bae y dyn goreu yn y plwyf, ni wn i ddim beth yr wyt yn ei weled arno; edrych ar y goes fach yna, ferch; gwêl y fath grëadur anosgeddig ydyw." "Y mae yn wir," ebe Sophia, "fod ychydig o anffawd yn y fan yna, ac eto, nid yw y man gwaethaf yn hagr iawn. Eithr edrych ar y goes arall; mi wnaf fy llw nad oes un bachgen yn mhlwyf Margam a all ddangos coes mor bert â hona." Yr oedd, y mae yn rhaid cyffesu, y goes arall yn lluniaidd a hardd iawn; gan hyny, pa bryd bynag y cyfeiriai rhywun sylw Sophia at y goes fach, byddai hithau yn ddioed yn galw ei sylw yntau at y goes fawr; canys os oedd dipyn o *drawback* mewn un, yr oedd mwy na *redeeming qualities* yn y llall. Y mae yn dyfod i'n cof am Byron, yr hwn, fel ein harwr, a fu mewn llawer profedigaeth oblegid un o'i goesau, canys yr oedd yntau wedi dygwyydd dyfod i'r byd âg un o'i aelodau yn anhardd. Ond y profedigaeth fwyaf tanllyd a gafodd erioed oddiwrthi, ebe efe, oedd sylw amharchus a wnaeth boneddiges ieuanc arni, ac yntau ar y pryd â lloned ei galon o gariad ati. Dygwyyddodd i'r *hen* Lord Byron fod mor anffortunos â lladd ei gymydog, Mr. Chaworth, wrth ymladd *duel*. Miss Chaworth, merch y boneddwr uchod, oedd y foneddiges yr ydym yn sôn am dani, yr hon oedd o gwmpas deunaw oed pan y daeth y bardd i gydnabyddiaeth gyntaf â hi, ac yntau yn rhywle o gwmpas un ar bymtheg ar y pryd. "*It is almost superfluous,*" medd yr hanesydd, "*to state that she was beautiful, fascinating, and amiable.*" Y mae yn debyg mai un o flodau Ysgotland, os nid y blodeuyn harddaf a ddarfu i'r tir hwnw gynnyrchu, oedd Miss Chaworth, ac yr oedd wedi suddo yn ddwfn iawn i galon Byron ieuanc. Yn chwanegol at y cariad ag oedd yn ei galon tuag ati, yr hyn a fuasai yn cynnyrchu cysur personol a theuluol, buasai eu hundeb, meddai efe, yn foddion i wellâu clwyfau, ac iachâu drwg-

deimladau, drwy ba rai y tywalltwyd gwaed gan ei hen-dad, yn uno tiroedd meithion ynghyd, ac yn sicr, wedi uno yn un galon, ddau o bersonau, y rhai nad oedd yn anghyfartal mewn dyddiau. Ond, ond, beth a fu y canlyniad? Yr ydoedd efe y pryd hyn yn anadnabyddus yn nheml gogoniant, yn gymaint a'i tod mor ieuanc, a dalenau ei enaid cyfoethog heb eu dadblygu eto. Yn ofer yr ymgeisiodd beri i'r ferch ardderchog feddwl yn ffafriol am dano yn ei chalon, ac yr oedd chwervedd yn cynnyddu fwyfwy yn ei ysbryd wrth feddwl fod ei droed anffortunos yn rhwystr anorfod ar ei ffordd i ymgystadlu â'r lliaws boneddigion ag oedd yn ymdrech am law Mary Chaworth. Yr oedd Miss Chaworth yn medru dawnsio yn bert, ond nis gallasai Byron ddawnsio o herwydd ei goes. Yr oedd hyn bron yn tori ei galon, canys yr oedd yn cael ei orfodi i eistedd i lawr yn ddystaw a diflas, tra y byddai rhyw ddyethrddyn yn cydio yn y llaw, ac yn arwain drwy y dawns, yr hon yr oedd ei galon yn garu, a'i lygaid yn ganlyn drwy ei holl symudiadau. Fel hyn yr oedd pethau yn bod, ac nid oedd dim i'w wneyd ond cario y groes, a dwyn y baich. Eto, er hyn oll, yr oedd y groes yn bren garw yn aml, a'r baich yn drwm annyoddefol yn fynych. Yr amgylchiad mwyaf teimladwy ac annyoddefol y bu Byron ynddo erioed o herwydd ei goes, oedd, pan y clywodd ei anwyl Mary Ann Chaworth yn dywedyd wrth rai yn y cwmpeini, gyda dirmyg ac ysgydwad pen tra arwyddocaol,—“*Do you think I could care anything for that lame boy?*” “Yr oedd yr araeth hon,” fel y mae efe yn ei galw, “fel ergyd o ddryll yn myned trwy fy nghalon.” Er ei bod yn hwyr, tarawodd i bant mewn mynydd o'r tŷ hwnw, ac heb fod yn gwybod yn iawn i ba le yr oedd yn myned, rhedodd yn ei hurtwch llwyr ei ben; ond fel y dygwyddodd, arweiniodd Rhagluniaeth ef i Newstead, ei artref ei hun, ac yno mewn gofid a theimladau tra cymysgedig y cuddiodd ei ben mewn dirgelwch a dystawrwydd. Gwelir mai nid yr unig un ag sydd wedi bod mewn profedigaethau oblegid ei goes yw ein harwr; y mae eraill, y mae yn debyg, wedi cyfranogi yn helaeth yn yr un profiadau, a than yr un amgylchiadau. Yr oedd llawer o bethau Byronaidd yn y *bruiser* mewn corff a meddwl; nid ydoedd yn ddyn ymhlith y cyffredin mewn dim, ond ymysg yr anghyffredin, neu yn rhywle—nid oes genym yn awr yr un enw ar y wlad—ar ei ben ei hun. Y mae yn ddigon tebyg fod ein gwron, fel Arglwydd Byron, wedi bod yn afwyddianus o herwydd ei goes lawer gwaith; ond beth bynag am hyny, yn awr George oedd y dyn er coesau a chwbl; a'r diwedd fu, gwnawd George a Sophia yn un mewn “glân briodas.” Trödd Sophia allan yn wraig dda, gystal a neb yn y plwyf i fyw yn y byd, fel y dywedir; ond y mae yn ddrwg genym ddyweyd mai nid mor amlwg ydoedd ei thuaddiadau crefyddol. Ond, pe buasai y cwbl i ddarfod gyda'r bywyd hwn, gallem ddyweyd ei bod hi yn werth deg o Siorsiaid.

Yn awr, wele efe yn berchen gwraig, ac ymhen ychydig o flynyddau y mae yn dad plant, ac felly yn benteulu. Hyd yn hyn, yr oedd yn dilyn yr hen arferion cân belled ag oedd yn bosibl, ond nid ydoedd wrth bob rheswm yn gallu eu cario â llaw mor uchel ag arferol; eto yr oedd o flaen pawb eraill o ddigon, dros amryw o flynyddau. Elai i'r cwrdd weithiau, yn bur anaml, pan y byddai rhyw swm mwy nag arferol am ryw bregethwr yn dysod drwy y wlad, neu ryw beth felly; ac yn sicr yr oedd hyny yn cael ei ystyr-ied yn beth mawr iddo ef. Eithr, fel y dywedasom o'r blaen, nid oedd neb yn meddwl byth i Dduw lwyddo yr efengyl i'w achub ef. Yr oedd pob go-

baith aim ei gadwedigaeth wedi ei ddwyn ymaith yn llwyr o bob meddwl, hyd yn nôd y saint, i.e. hen saint yr hen Ddyffryn. Y mae yn rhaid i chwi feddwl fod ein gwron Siôr wedi bod yn byw y tu hwnt i bob terfynau, cyn byth y byddai *hen* saint yr *hen* Ddyffryn yn teimlo fel yna; canys yr oeddynt, nid yn unig yn *hen* bobl *dda*, ond yn hen bobl gwell na'r cyffredin; ac hefyd yn iach yn y ffydd. Nid oeddynt yn rhoi pwys yn y byd ar allu dyn, a *moral persuasion*, a rhyw athrawiaethau penbleth fel yna, eithr hen Galfinistiaid trwyadl, deallwch, oedd hen dadau y Dyffryn, heb na blew na bloesgni yn eu crefydd. O ryfedd! pe buasai ryw goegyn yn cynnyg rhywbeth yn lle rhad ras i ein hewythr Siencyn Penhydd, Daniel o'r Constant, Wil y Gwehydd, a'r hybarch William Thomas o'r Pil, buasai yn cael ei guro â "deugain gwialenod ond un," o leiaf, a'i ymlid yn llwyr y tu hwnt i derfynau cred. Bu yr hen gyfeillion hyn yn cydoesi gyda'u gilydd, ac yn cydaddoli yn yr hen Ddyffryn bythgofiadwy. Y mae yn wir mai wrth eu hollynwyr hwynt y dygwyddodd George daro, ac o'r diwedd bwrw ei goelbren yn eu mysg, eto yr oeddynt hwythau wedi eu tymberu yn *dda iawn* â gras. Nid bwyd gwan a wnelai y tro iddynt hwy chwaith, canys yr oeddynt wedi eu harwain gan yr hen bobl grybwylledig ymbell iawn yn y blaen at "berffeithrwydd." Yr oeddynt fel hwythau yn eithaf Calfinistiaid, yn ymddiriedwyr cwbl mewn "maddeuant llwyr, maddeuant rhad." Ond hyn sydd yn rhyfedd, er yr holl ffydd hyn yn y gallu Dwyfol, a'r drugaredd anorchfygol, yr oeddynt yn rhy wan i allu meddwl am foment y gall-esid dofi y *bruiser*, a'i ddwyn i eistedd "yn ei ddillad a'i iawn bwyll." Mawr oedd eu ffydd mewn rhyw bethau hefyd; ond dyna, y mae'r cryfaf yn methu weithiau; canys er holl ffydd Abraham, yr oedd yn rhy wan i fyned drwy rai amgylchiadau.

Mewn rhyw oedfa, dyma saeth lem yn dyfod o rywle, ac yn myned drwy galon George Heycock. Anwyl bobl! dacw ffoedd, yn debyg i annaeacol, ac wele y *bruiser* yn syrthio. Tarawyd pawb â syndod; ac yn lle meddwl y goreu, darfu iddynt feddwl y gwaethaf, a phenderfynu i'r flain ddyfod i'r cwrdd yn feddw, neu ynte ei fod yn gwneyd rhyw ystranc fel arfer i dynu sylw, a chael rhywbeth yn ddaefnydd *sport* yn y dafarn y nosweithiau canlynol. Felly y meddyliwyd, ac felly y penderfynwyd, ac felly yr ymddygywyd ato, canys ni feddyliwyd erioed am ddim da i fod iddo ef. Beth bynag, saeth o'r netoedd, y mae yn fwy na thebyg, ydoedd; canys agorodd glwyf yn y galon y methwyd er pob peth ei feddyginiaethu, nes dyfod at glwyf arall a agorwyd yn ystlys Iesu ar bren y groes; ac wedi cael y ddau glwyf hyn at eu gilydd, y mae yn ymddangos fod y naill yn cyttuno â'r llall, ac y bydd iechyd perffaith o'r diwedd. Bu ein harwr, gyda'r clwyf hwn mewn llawer man, dealler, cyn dyfod at groes ein Harglwydd Iesu Grist. Do, fe dreiodd yr holl feddygon yn ngwlad Moab, fel yr arferai ddyweyd, a darfu iddynt gymhwyso llawer o lysiau y wlad hono at y clwyf. Eithr nid oedd dim yn tycio, ond yn hytrach myned yn waethwaeth. Methu byw heb Geidwad a ddaeth â'r ymladdwr mawr i ymosyn am dano; ac o herwydd iddo fethu cael un man i ddal ei bwys, yn nghanol ei gyfyngderau, y rhoddodd ei hun "iddo erbyn y dydd hwnw."

Yn gymaint a bod cryn hynodrwydd mewn cysylltiad â thrôedigaeth George, y mae yn anghenrheidiol i ni gymeryd pwyll ac arafwch, rhag i ni wneuthur cam â mater mor bwysig, ac i'n darllenwyr fod yn golledus hefyd. Gall'esid dysgwyl rhywbeth aughyffredin mewn argyhoeddiad a

thriniaethau ysbrydol, mewn cysylltiad â dychweliad afradlawn o'r fath hyn, ei adferiad i'w synwyrâu, a'i roi i eistedd ymhlith y plant. Y mae adnod fechan wedi myned fel bollt drwy ei galon; a bollt tanllyd a llosgedig ydoedd hefyd; tân yn parhâu i losgi ydoedd, tân anniffoddadwy, nes cael allan y dŵr a'r gwaed a ddylifodd ar ben Calfaria. Canys buwyd yn ceisio tafu dyfroedd pleserau i'w ddiffodd, ond cynneu y flam fwyfwy oedd y rhai hyn; ceisiwyd ei ddiffodd drwy dafu cwrw arno, ond yr oedd yn ffamio saith gwaeth wedi hyny. Yr adnod fechan y cyfeiriasom ati oedd yr un a ganlyn; "Ein Duw ni sydd dân ysol." Dyma'r tân yr oedd pawb yn methu ei ddiffodd. Yr oedd yn ffamio yn fwy o dan bleserau cnawd-ol, yn myned i losgi yn fwy gwyllt o dan dywalltiad holl ddioid y tafardai; ac y mae'r *bruiser* yn gweiddi allan, "Y mae yn anniffoddadwy. Pwy a all drigo gyda'r tân ysol, pwy a all breswyllo gyda y llosgfeydd tragywyddol? Pwy all oddef ysbryd cystuddiedig? Pwy a all ei godi i fyny?" Fel hyn yr oedd yn rhüo fel tarw gwyllt mewn magl, ac heb neb i wrando ei gwyn. Bu mewn profedigaeth ganwaith i felldithio Duw a marw; ond yr oedd yn gweled eilwaith pe buasai yn ei hadd ei hun na fuasai hyny ddim yn gwella y clwyf, a diffodd y tân, ond yn peri i'r clwyf fod yn waeth, a'r tân i losgi yn danbeidiach. Bu yn gwaeddi gyda'r Salmydd yn aml, "I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd? ac i ba le y fföaf o'th wydd? Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafodd y môr, yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddehenlaw. Pe dywedwn, Diau y tywyllwch a'm cuddia, rha y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti." Y mae ffoi o wydd ac o afael Duw tragywyddoldeb yn dyfod yn anobeithiol yn y teimlad, ac felly y mae'r cawr yn rhüo, ond yn methu ffoi. Y mae'r "tân ysol" fel pe bae yn nesu yn nês ato o hyd, fel nad oes dim yn y golwg ond gorfod "preswyllo gyda llosgfeydd tragywyddol" yn oes oes-odd. Pa ryfedd fod y llew yn rhüo, ac yn ysgwyd y cadwynau ag oedd yn ei ddal, yn yr olwg ar uffern yn agor ei safn yn anferth, ac yn myned i'w lynu yn fyw? Beth bynag, o dan yr holl amgylchiadau dychrynlyd hyn, nid yw yn teimlo yr un duedd i syrthio ar ei liniau ac ymbil am drugaredd ger bron y Bôd anfeidrol, yn erbyn yr hwn yr ydoedd wedi pechu, ac i'r hwn yr ydoedd yn rhwymedig. Y mae efe yn troi i geisio meddyginiaeth at ryw grâchfeddygon, y rhai, wrth drin ei glwyfan, a'u gwnaethant yn saith gwaeth; yr oedd y feddyginiaeth cynddrwg â'r clwyf. Y mae yn penderfynu gwneyd ei oreu i ymryddhâu rywfodd yn llwyr oddiwrth y gofidiau hyn am gyflwr a byd tragywyddol; ond er ymdrech a phob peth, yr oedd yr adnod fechan wedi glynu yn ei galon, fel yr oedd yn anhosiibl cael ganddi ollwng ei gafael. Yr oedd sŵn, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yn terfysgu y galon ddydd a nos, ac yn tafu yr holl dŷ i ddyrswch. Y mae tân wedi ei gynneu yn mynwes y pen-campwr; ac y mae yn awr yn cyhoeddi rhyfel yn erbyn Immanuel a'i deyrnas, ac yn dechreu symud ei holl fyddinoedd i ymladd yn erbyn Iachawdwr y byd. Ni fyn gael ei achub; y mae yn penderfynu dilëu holl argraffiadau y gwirionedd sanctaidd oddiar ei feddwl. Bu mewn ymladdfeydd caled â llawer o'i gydgrëaduriaid cyn hyn, eithr yn awr y mae yn penderfynu ymladd ornest âg Arglwydd nef a daear, ac alltudio pob meddwl am y cyfryw Fôd allan o'i enaid am byth. Y mae yn dechreu ymsymud eto o dafarn i dafarn, dan rwygo a rhegu; ac ym-

ddengys fel pe byddai saith cythraul ynddo, gwaeth na'r cyntaf. Tyngai yn fwy aml ac yn fwy haerllug; ymladdai yn fwy tebyg i gythraul wedi newydd ei ollwng yn rhydd oddiwrth y gadwyn uffernol, nag i ddyd. Er hyn oll, ac ar ol hyn oll, yr oedd yr adnod fechan, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yno o hyd, ac yn llosgi yn annyoddefol hefyd. Yr oedd rhywbeth arno, ond ni fynai gyffesu wrth neb, eithr ceisio ei feistrol, a dyfod allan o'r frwydr hon wedi gorchfygu Arglwydd y lluoedd.

Yr oedd y cymydogion yn gwybod o'r goreu fod rhywbeth arno nad oedd yn arferol o fod, neu ynto fwy o'r peth oedd yn arferol o fod—un o'r ddau. Y mae yn debygol nad oedd neb yn meddwl mai y Bibl oedd yn ei aflonyddu, ond yn hytrach ei fod wedi ei feddiannu gan yr ysbryd drwg yn fwy llwyr, neu fel y dywedent, "wedi ymwerthu yn llwyr i ddiabol." Yr oedd yn gweled, eb efe, "Ein Duw ni sydd dân ysol," mewn llythrenau mawrion tanlyd o flaen ei lygaid lle bynag yr elai. Nid yn unig ei bod yn deimlad ofnadwy yn y meddwl, "ond yr oeddwn," meddai, "yn eu gweled yn dân coch o flaen fy llygaid." Beth bynag am hyny, y mae yn ddigon amlwg ei fod yn ymylu ar wallgofrwydd anfeddyginiaethol, ac mewn perygl bob dydd oddiwrtho ei hun. Gan ei fod yn flin iawn, ac yn methu cysgu nemawr o ddim er ys wythnosau lawer, penderfynodd fyned i dref Castellnedd o bwrpas i geisio meddwi ei hun yn ddideimlad, i edrych a fyddai modd iddo gysgu wedi hyny. Yfodd lawer cyn hyn aml noson, ond yn rhywfodd nid oedd yn effeithio meddwdod fel arfer, am hyny gwriaeth ei feddwl i fyny i wneyd ymdrech i roi ei hun i gysgu yn dawel. Dacw efe yn ymafiyd yn ei fion—yr hen gefyl pren, fel y dywedai—yn taro i bant, ac yn cerdded tua saith milldir er mwyn meddwi i farwolaeth, os oedd bosibl. Nid ydym yn gwybod beth a allasai fod yr amcan wrth fyned mor bell, canys yr ydoedd yn myned heibio i ddigon o dafarndai, tybygem ni, cyn ei fod hanner y ffordd; ond beth bynag, dyna fel y bu. I Gastellnedd yr aeth, a dechreuodd ar y gorchwyl o yfed yn ddiarbed, ond yn methu meddwi. Syndod! ie, syndod, yn wir. Beth, cwrw ddim yn meddwi? Y mae hyn fel pe dywedech nad yw dwfr ddim yn boddi, neu dân ddim yn llosgi. Wel, yn wir y mae yn rhyfedd, ond fel hyn y bu; canys yfodd dair awr yn ddiarbed, yn wahanol i'r dull arferol o yfed, eto yr oedd meddwdod yn awr fel pe buasai yn cilio draw oddiwrth-yfed, neu fel pe na buasai yr un cysylltiad na pherthynas rhyngddynt. Yn lle gallu meddwi, dychrynfeydd sydd yn cynnyddu yn ei gydwobod; y mellit fel yn myned yn fwy tanbaid, llais yr udgorn fel pe buasai yn codi uwch, uwch, a'r holl fynydd yn ymddangos fel pe bae ar dân. Yr oedd "Ein Duw ni yn dân ysol," meddai, mewn llythrenau mawrion tanlyd bron wrth bwys ei wyneb, fel y bu agos a thynu ei gyllell am draws ei wddf. Ond, yn lle hyny, galwodd am lasiad o wirod. Penderfynodd, os darfu iddo fethu meddwi ar gwrw, y gwnai gwblhâu yr amcan drwy yfed *brandy*. Yfodd, ac yfodd eilwaith am oriau, nes yr yfodd gymaint ag oedd yn ddigon i feddwi saith neu wyth o ddigion cryfion; ond yn ddieffaieth—yr oedd meddwdod fel pe buasai yn cilio oddiwrtho, a dychrynfeydd cydwobod euog yn myned fwyfwy. Clywsom ef yn dywedyd mai un o'r pethau rhyfeddaf a deimlodd yn ei fywyd oedd methu meddwi er gwneyd pob ymdrech yn y byd i'w wneyd. Yn wir, yr oedd hyn yn rhyfedd, ac y mae yn anhawdd iawn cyfrif am y cyfryw beth, eto y mae yn wirionedd perffaith. Gorfod oedd arno ddychwelyd adref y noson hono eilwaith yn sobr, ac heb y teimlad lleiaf o gwsg, a Duw yn

"dân ysol," yn llosgi ac yn difa yn y meddwl. Ar y ffordd wrth dychwelyd, penderfynodd eilwaith droi i dafarn, yr hwn oedd wrth ochr y ffordd, i gwblhâu ei amcan, os oedd bosibl yn y byd, canys yr oedd wedi myned yn rhy ofnadwy a dychrynlyd i fyw yn hŵy yn y boen hyn. Gyda'r amcan yma, trôdd i mewn i'r dafarn grybwylledig; ond wedi iddo fyned i mewn drwy y drws, dychrynodd, methodd ddyweyd un gair, a gwelai y cwbl o fewn cân ddued â'r glöyn, yn dywyllwch eithaf, heb un llewyrch o oleuni yn tywynu. Meddyliodd ei fod yn teimlo ei goesau yn ei ollwng, a bod y ddaear yn agor ei safn yn anferth, fel y penderfynodd y byddai yn uffern cyn nemawr o fynyddau. Trôdd allan heb alw am ddim, ac adref yr aeth yn unionsyth, yn gruddfan mewn dychryn a braw. Hyd yn hyn, nid oedd wedi meddwl am weddio, a cheisio maddeuant, eithr rhyfela â Duw hyd yr eithaf.

Yr oedd y *cholera* cyntaf fu yn ein gwlad y pryd hyn yn gwneyd galan-
astra echrydus ar fywyddau, ac yr oedd pawb yn eu teimladau yr amser hwn, yn byw yn "mro marwolaeth a chysgod angeu." Wedi dychwelyd o George adref y noson hono, a myned i'r gwely, gan obeithio y cai gysgu bellach, a thrwy hyny gael ychydig o esmwythâd o'i boen, mor gynted ag y gorwedd-odd, tybiodd ei fod yn teimlo y *cholera* yn ymaflyd ynddo, a bod y cwbl drosodd am byth. Neidiodd o'r gwely, a gwaeddodd, "Sophi, y mae'r dolur angeul wedi ymaflyd ynof; mi fyddaf yn ddyr marw cyn nemawr o amser." Dyma y pryd y meddyliodd am weddio fel yr unig feddyginiaeth; syrthiodd ar ei ddeulin, a bloeddiodd allan gymaint byth ag y gallai am i Dduw gymeryd trugaredd arno, ac os oedd yn meddwl lladd ei gorff, am weled bod yn dda achub yr enaid i fywyd tragywyddol. Yr oedd Sophi erbyn hyn wedi codi yn ei heistedd yn y gwely mewn dychryn a braw, ac er na chafodd ar ei meddwl weddio ei hunan, yr oedd yn curo ei dwylaw pan oedd ei phriod wrthi, ac yn gwaeddi allan, "Stica, George; stica, George; gwna dy oreu." Y mae yn ddigon tebyg ei fod, druan, yn gwneyd goreu y gallai, canys yr oedd mewn helbul blin, ac yn teimlo yn wirionedd-ol yr anghen am drugaredd. Dyma y weddi gyntaf yn nhŷ George, a gweddi ryfodd ydoedd; ond nid hon oedd yr olaf, oblegid tŷ gweddi y gelwid y tŷ hwn mwyach.

Wedi rhyw gymaint o amser o dywydd blin, ymdrech i weddio, a cheisio esmwythâd i'w feddwl terfysglyd, ac yn methu mewn modd yn y byd ei gyrhaedd, ond yn hytrach yn myned waeth waeth, gwnaeth benderfyniad i droi ei wyneb at bobl yr Arglwydd oedd dan yr enw o Fethodistiaid Calfin-
aidd yn ymgynnull mewn capel cyfagos. Yno yr aeth fel dyn gwyllt, ac yn hanner gwallgof, heb wybod beth i'w wneyd, na pha beth i'w ddyweyd. Yn wir, nid oedd y bobl dda hyny nemawr yn gallach nag yntau; canys tarawyd hwynt oll â syndod pan y gwelsant ef, ac aethant mor hurt ac anifeiliaid direswm; nid oeddynt hwythau yn gwybod beth i'w ddyweyd, na pha beth i'w wneyd ychwaith. Yr oedd dyfodiad Siôr mor ddyeithr ac mor annysgwyliadwy iddynt â phe cyfodasai un oddiwrt y meirw, neu o drig-
fanau yr ysbyrdion arian. Pwy dan haul fuasai yn breuddwydio gweled George y *bruiser*, George y tyngwr, George y meddwyn, ie, George y blaidd, yn dyfod i ofyn am le ymhlith yr ŵyn? Yr ydoedd ei ymddangos-
iad yn eu plith fel ymddangosiad Saul yr erlidiwr ymysg y dysgyblion, ac yn cynnyrchu yr unrhyw effeithiau. "O Arglwydd," meddai pawb, "ni a *glywsom lawer am y gŵr hwn*, faint o ddrygau a wnaeth efe i'th saint di.

Ac yma y mae ganddo awdurdod oddiwrth yr archoffeiriaid i rywmo pawb sydd yn galw ar dy enw di." Felly y dywedodd Ananias, a rhywbeth cyffelyb yr oedd yr holl bobl yn meddwl am wrthddrych ein hanes pan y trôdd efe ei wyneb gyntaf atynt. Yr oedd yn yr hen Ddyffryn ddewrion yn y ffydd, y rhai, meddir, nad oeddynt yn prisio am wyneb un dyn, ac edrychid arnynt fel cewri yn y dyddiau hyny; eto yn rhywfodd, yr oeddynt oll yn ymddangos fel gwŷr cedyrn wedi colli eu nerth yn ngwyneb ymddangosiad Siôr yn eu plith. Ymysg y gwroniaid hyn, yr oedd un o'r enw William Rees, yn wron o hyd pan y byddai pawb ar lawr; eithr yn awr yr oedd efe wedi colli ei wrolder arferol, ac yn barod i encilio i'r cysgod pe medrai. Y mae William Rees, serch hyny, yn gryfach na'r lleill drwy y cwbl, ac o'r diwedd mae yn codi, yn ymysgwyd, yn cenglu ei hun, ac yn dywedyd, "Wel, fechgyn, y mae yn rhaid myned yn y blaen; nid gwiw i ni edrych ar ein gilydd, a myned yn bendrwm; codwn ac awn at y gwaith." Yr oedd George yn sefyll, dan bwysio ar ei sion yn debyg i ddyn wedi dianc oddiwrth y gwylliaid, ac ni wyddai, dybygem, ar y pryd, pa un ai sefyll ai eistedd yr ydoedd. "Och!" ebe pawb, "beth sydd i ni a wnelom â thi?" Beth bynag, y mae y gwron William Rees yn anturio o'r diwedd, ac yn tori ato, gan ddywedyd, "George, beth ddaeth â thi i'r fan hyn?" Edrychodd y *bruiser* yn wyllt iawn ar bawb o gwmpas y capel, a thrôdd y llawffon o gwmpas ei ben ddywyaith fel pe buasai wedi ei daro yn fud, ac heb allu siarad dim. Synodd pawb, fel nad allasant symud o'u lleoedd. Gyda hyn, dyma floedd annaeorol yn dyfod allan, nes yr oedd yr holl dŷ yn crynu; "William Rees, William Rees, y mae rhywbeth yn fy lladd; y mae rhywbeth yn fy lladd!" Och, dyma deimlad! anmhosibl yw ei ddesgrifio; yr oedd gwyneb pawb yn lāswyn, a bron yn llesmeirio. Dacw George yn edrych o gwmpas eto, yn troi y llawffon eilwaith o gwmpas ei ben, a'r floedd fawr yn dyfod allan fel taran drachefn, "William Rees, y mae rhywbeth yn fy lladd; y mae rhywbeth yn fy lladd!" Y mae y gwron William Rees yn colli ei nerth arferol; y mae y bloeddiadau dychrynlyd yn cynnyrchu rhyw efaithiau dyeithr, nes oedd blew ei gernau yn sefyll, a'i goesau fel yn ymollwg dano. Er hyn i gyd, y mae ein hewythr William yn gwneuthur ymosodiad, ac yn ceisio gwneyd ei oreu, ac yn llwyddo hefyd, yn weddol, o'r diwedd. Y mae yr hen frawd yn cael anadl ac adferiad nerth, ac yn gofyn yn araf deg, "George bach, fe allai y dywedi wrthym beth sydd yn dy ladd." "Beth sydd yn fy lladd?" ebe yntau; "William Rees, rhoch ryw help i fi; dyma fi bron yn uffern! y mae Satan yn fy lliadgu y foment hyn, y mae bron yn fy lladd; ac yr wyf finnau yn methu credu fod un Duw yn bod i fy helpu." Yr oedd pawb erbyn hyn yn argyhoeddedig fod rhywbeth ofnadwy am ei achos tragywyddol ar feddwl George, nes yr oedd cydymdeimlad âg ef wedi eu meddiannu oll yn llwyr. Yr oedd difrifoldeb yn ddarlennadwy yn ei holl agweddiad, ac yn deimladwy oddiwrth ei eiriau. Y mae y brawd ffyddlawn William Rees yn dechreu symud yn nês ato, a chan edrych yn ei wyneb yn siriol, dywedodd, "George, y mae Duw yn bod, fachgen, ac y mae yn yr ymyl, ac yn barod i dy helpu, fel na chaiff y cythraul er ei holl rym uffernol byth dy ladd!" Pryd hyn yr oedd yr hen Ddyffryn yn fyw i gyd, ac ambell i "Fendigedig" yn dyfod o ryw le yn nghyfeiriad y pulpud. "William Rees," ebe ein harwr, "yr y'ch chwi yn dyweyd fod Duw yn bresennol, a'i fod yn y fan yma yn awr; gwelwch yn dda, William, ei ddan-

gos ef i mi, ac yna credaf ynddo yn y fynyd; ie, cyn symud o'r fan hyn yn awr."

Tafwyd y cwbl i ddyryswch eto am dipyn, pawb yn methu deall pa fodd y gwnelsid i argyhoeddi Siôr fod Duw, a'i fod ef yn ei myml. Ond, y mae y brawd William Rees yn dyfod i'r maes eilwaith, ac yn gofyn "A fuost ti yn darllen y Bibl rywbryd? a wyddost ti beth y mae hwn yn dyweyd am Dduw, ac am ei hollbresenoldeb?" "Yr wyf wedi darllen peth ar y Bibl Saesoneg," medd George; "ond, a wyddoch chiwi, William, a oes rhai o Feiblau Peter i'w cael yn awr?" A chan daro ei law yn ei logell, a thynu dau benadur allan, y mae yn dywedyd, "Dyma ddau *sovereign*, y rhai a roddais heibio tuag at gael *clock*; mi a'u rhoddaf yn awr am un o Fiblau Peter." Wedi hir ymddyddan o'r natur hyn, ac heb ryw weledigaeth eglur, meddyliwyd mai y peth goreu fyddai ei adael i gael lle yn y tŷ ar brawf, i edrych both a wnai y Brenin Mawr âg ef; gan obeithio y delai mewn ychydig amser i well trefn, ac y rhoddai y Crëawdwr mawr ffurf gwell ar ei fedd-yliu.

Wedi i'r swm fyned allan fod y *bruiser* wedi myned yn grefyddwr, fel y galleid dysgwyl, y mae cawodydd o ddirmyg yn ymarllwys am ei ben; efe oedd testun y tafarndai a'r gŵylmabsantau drwy yr holl wlad. "Y mae George wedi myned yn grefyddwr," meddai un; tyngai y llall na fyddai efe ddim yn grefyddwr yn hir—mai gyda hwy y byddai efe eto cyn nemawr o wythnosau. "Pe baem yn gwybod pa bryd y byddai yn gweddïo, äem i'r cwrdd o bwrras i'w glywed," meddent. Pan y byddai yn myned heibio i ryw dŵr o fechgyn, yr oedd mewn profedigaeth dost yn gyffredin, canys yr oeddynt yn chwerrthiu, ac yn tafu pob math o ddirmyg ag oedd yn bosibl ar y crefyddwr newydd. Ebe rhyw fachgen, "Yr wyf yn methu deall pa fodd y gadawodd William Rees y— i fyned i mewn i'r *society*; y mae efe yn sicr o wneyd rhyw ddrwg yno cyn bo hir." Byddai George yn awr yn gweddïo yn ei dŷ, a rhyfedd yr helbul oedd arno gyda hyny, yn gymaint a bod yr holl gymydogeath yn ei gymeryd y fath syndod, a'i hen gyfeillion yn ymgrynhoi o amgylch y tŷ i'r dyben o'i glywed a'i wawdio. Os byddai rhyw lanciau gerllaw pan y byddai efe yn dechreu gweddïo, galwent ar y lleill i ddyfod yno, gynta' gallent, i glywed George yn gweddïo. "Dewch yma, hawyr," ebe'r bachgen gogyfer a'r ffenestr, "y mae Heycock yn gweddïo." Dyna lle y byddai un yn rhedeg ar ol y llall fel pe byddai y weledigaeth fwyaf erioed. Fe allai, gyda hyn, y byddai careg yn dyfod drwy y ffenestr at ei ben; ac un tro neu ddau, lluchiwyd cŵn a chathod i mewn ar yr awr weddi, nes dyrysu yr addoliad bron yn llwyr. Yr oedd yn dygwyydd un boreu, pan yr oedd George yn gweddïo, fod hwch a pherchyll wedi dyfod o rywle i gyfer y ffenestr, y rhai a luchiwyd i mewn drwy y ffenestr, porchellyn ar ol porchellyn, nes yr oedd y tŷ yn hanner llawn o berchyll, a'r hen hwch yn ddychrynllyd o sarug, yn agor ei phen, ac yn ymddangos yn benderfynol i lynu pawb i fyny yn fyw. Yr oedd y llanciau erbyn hyn wedi gwneyd y goreu o'u traed, a gadael George yn y brofedigaeth a'r helynt mwyaf rhyfedd a welsoch erioed yn nghanol y perchyll. Dinysriwyd y weddi wrth bob rheswm; ac nid yn unig hyny, yr oedd ein harwr mewn perygl mawr rhag i'r hen hwch dori i mewn i'r ystafell, a gwneyd difrod, y mae yn anhawdd gwybod pa faint, ac fe allai beryglu bywyd y teulu hefyd. Yr oedd yr olwg ar George yn brasgamu o un man i'r llall, gan geisio dal y perchyll yn ddigon rhyfedd; ond yr oedd hyny yn darfod

pan y meddylir bod eu hysgrechfeydd yn cynhyrfu yr hen hwch oddiallan fel nad oedd y teulu yn ddiberygl. Bu ein gwron bron a thyngu y pryd hwnw yn nghanol y môch bach; ond ymattaliodd, a chadwodd yn bur oddiwrth hyny. Wedi llwyddo i gael y perchyll allan, ac adferu heddwch drachefn, teimlai Siôr yn ei galon duedd gref i fyned allan a rhoi cosfa ddihafarch i'r cyfeillion hyny; ond daeth y gair fel taranfollt i'w feddwl, "Gwyn ei fyd y gwr sydd yn goddef profedigaeth: canys pan fyddo profedig, efe a dderbyn goron y bywyd, yr hon a addawodd yr Arglwydd i'r rhai a'i carant ef." Enciliodd i'r cysgod am ychydig nes i dân y brofedigaeth ddiiffodd, ac yna aeth yn y blaen gyda ei alwedigaeth fel arferol. Yr oedd amcan yn ddi-ammheu yn ei hen gyfoedion i'w dynu i brofedigaeth, oblegid yr oeddynt yn benderfynol yn eu meddyliau nad allasai byth oddef y pethau hyn, ac y caent wledd hyfryd yn ei gwmp. Eithr esylll a wnaeth er syndod i bawb. Er ys ychydig yn ol, y dyn diweddaf fyddai efe i neb gymeryd y fath ryddid gydag ef; nid oedd neb a fuasai yn anturio felly; ac os gwnai, byddai mor sicr o gael eithaf maethgen â'i fod ef yn fyw. Er y cwbl, o drugaredd, yn y blaen yr aeth ein gwron; er gwaethaf lluchio cŵn, a chathod, coed, ceryg, a pherchyll.

Yr oedd George yn awr yn grefyddwr diwyd a ffyddlawn, yn mynychu pob moddion o ras yn gysou a difwlch; eithr y mae yn rhaid cyffesu fod yr olwg arno yn ddigon chwethig, yn rhywbeth tebyg i ebol gwyllt heb ei docio erioedd, newydd ei gyrchu oddiar ben un o fynyddoedd uchaf y wlad, ac heb fod Rarey y dofwr wedi bod erioed uwch ei ben. Yr oedd hen gleimiau maswedd ac oferedd yn ddigon amlwg yn ei berson; hen ddulliau y dafarn heb eu dilên o'i gyfansoddiad; mewn gair, yr oedd fel y frân ddu ymhlith y colomenod. Ymhen ychydig o amser awd i ymddyddan âg lef eilwaith yn yr eglwys i edrych ar ba dir yr ydoedd, ac a oedd rhyw argoel ei fod yn dyfod i'r goleuni am bethau ysbrydol. Byddai y cyfeillion yn gobeithio yn gryf fod y Crëawdwr, yr hwn oedd wedi dwyn y dryblith i drefn a phrydferthwch yn y grëadigaeth gyntaf, erbyn hyn wedi gwneyd rhyw drefn ar feddwl cymysglyd yr hen ymladdwr. William Rees, yr hwn oedd fel orael y gymdeithas grefyddol yn yr amser hwnw, a gododd i fyny, ac wedi peth pesychu, ynghyda gwneyd ychydig o ragddarpariadau eraill, gofynodd i Heycock am ddyweyd ychydig o'i helynt yn bresennol. Nid rhyw oleuni mawr oedd ar y mater eto; lled gymysglyd oedd pethau yn mynwes ein harwr; yr unig beth oedd yn amlwg oedd ei fod yn teimlo ei hun yn golledig, a bod rhywbeth yn ei ladd o hyd, ond ni wyddai yn y byd pa fodd y gallesid ei gadw. Yr oedd yn foddlawn gwneyd poppeth oedd yn ei allu er mwyn bod yn gadwedig; a byddai yn ddiolchgar iawn iddynt am gyfarwyddyd pa fodd i wneyd. Wedi bwrw llawer o ymadroddion ato, y rhai nad oedd efe yn eu dirnad yn dda, cododd y brawd William Rees drachefn, a dywedodd, "Yn awr, George, ti wyddost pan y bydd rhywun yn *listio* yn filwr, ei fod yn dyosg yr hen ddillad, ac yn gwisgo y dillad cochion; ac y mae George Rex, fel y gwyddost, yn ysgrifenedig ar goler y *goat*. Yn awr, y mae yn rhaid, i tithau, cofia, ddyosg yr hen ddillad yr oeddit yn arfer eu gwisgo, a chael pâr o ddillad newydd, ac enw y Brenin yn ysgrifenedig arnynt." Edrychodd ein harwr yn hyll iawn; agorodd ei lygaid yn anferth, ac ymddangosai mewn teimladau syndedig a chymysglyd, fel pe buasai mewn dyryswech mawr ynghylch rhywbeth; ond yn y diwedd torodd allan a dywedodd, "William Rees, y mae yn ddrwg genyf ddyweyd ei hod yn hytrach yn gyfyng ar

fy amgylchiadau ar hyn o bryd, fel nad oes genyf arian i'w prynu; ond yr arian cyntaf a ddaw i'm llaw i, a gaiff fyned am danynt. Mi a'u mynaf, beth bynag yn y byd a gostiant." Gyda hyn y mae Thomas Robert yn neidio ar ei draed, i'r dyben o egluro y mater, canys yr oedd yn canfod fod y brawd William Rees yn siarad uwchlaw amgyffredion ei ddyagybl, ac o herwydd hyny ei fod o dan argraffiadau cyfeiliornus a pheryglus, gan ei fod yn cymeryd pobpeth yn naturiol a dynol, ac nid yn gyfriniol ac ysbrydol. "Nid felly, George," ebe ein hewythr Thomas; "nid dillad fel yna y mae'r brodyr yn feddwl, eithr dillad crefydd; buchedd newydd, byw yn y byd mor debyg âg y gallom i'n Harglwydd Iesu Grist, dilyn ei ôl ef, a bod enw Brenin Sion i'w weled yn amlwg yn ein holl ymarweddiad, fel y gallo y byd ddarllen yn eglur ein bod yn filwyr o dan faner y groes." "Ho, felly," ebe George; "o'r goreu Thomas Robert, mi wnâf fi fy eithaf i wneyd fel yna, chwi gewch weled." Yr oedd y cyfeillion yn bur dyner, ar y cyfan, a gobeithiant ar ol yr ymddyddanion hyn y delai yn fwy i'r goleu, ac yn gydnabyddus yn y man â'r brawddegau ac â'r cymhariaethau a ddefnyddid mewn *societies* er egluro pethau mawrion teyrnas nefeodd; canys yr oedd efe hyd yn hyn, fel y gellir gweled, yn bur anghyfein â'r ysbrydol oedd mewn pethau. Yr oedd efe yn gnawdol eto, ac yr oedd yn rhaid iddo wrth "laeth, ac nid bwyd cryf."

Yr oedd ei brofedigaethau yn aml, fel y crybwyllasom, a chryn beth oedd ei weled yn gallu sefyll yn eu gwyneb gystal; yr oedd hyny yn dangos ei fod o dan deimladau pwysig, ac wedi ffurfio penderfyniad cryf iawn i ymgais am fywyd tragydyddol. Y mae yn ddigon tebyg fod yr Arglwydd yn ei arwain drwy dywyllwch, a ffyrdd hollol anadnabyddus, i beri iddo ddeall, gan ei ddwyn drwy "dân a dwfr i le diwall." Meddyliwyd yn anghenrheidiol cymeryd Heycock mewn llaw eilwaith ryw *society*, i roddi ychydig o wersi newyddion iddo, a cheisio ei ffurfio i dipyn o drefn grefyddol; canys yr oedd pentyru gormod o bethau am draws eu gilydd yr un noson, yn hytrach yn anafateisiol i'w gof a'i amgyffredion, ac felly yn anhawdd iddo eu dwyn. Byddai yr hen gyfeillion anwyl yn bur ddoeth a threfnus yn y dull o ddwyn pethau yn y blaen; ac felly yr oeddent yn "rhoddi gorchymyn ar orchymyn, llin ar lin, ychydig yma, ac ychydig acw." Bu cryn ymddyddan y noson hon, ac ymgais nid bychan i godi y truan o'r pridd tew a'r clai tomlyd, canys yr oedd yn ymddangos ei fod yn ddwfn iawn yno. Yr ydoedd yn ymylu anobaith, bron yn myned i ddyweyd fod ei bechodau yn ormod i'w maddeu, ac mai dyn colledig ydoedd, heb obaith am Geidwad. Daeth y cyfeillion â llawer o ddawn a medrusrwydd i'r maes y noson hon i geisio dangos Ceidwad, fel y mae yn cael ei egluro yn yr efengyl, eithr wedi y cwbl methasant yn un wedd ei ddangos i feddwl terfysglyd a bron anobeithiol ein harwr. Cododd yr hen frawd, Thomas Robert, yr hwn oedd yn un o'r gwroniaid yn y ffydd, a gofynodd, "A wyt ti ddim yn teinlo dy hun yn well, ac yn fwy cysurus yn dy feddwl, wedi yr ymddyddanion sydd wedi bod gan y brodyr yma?" "O nag wyt," ebe yntau, "un tipyn erioed; yr wyt yn myned waethwaeth, yr wyt cyn dduded ag uffern; yr wyt yn ofni bod ymblith cythreuliaid cyn y boreu fory. Beth a wnâf?" "Wel, fy machgen i," ebe yr hen wr, "nid oes dim i'w wneyd ond ceisio myned i'r llwch, a gweddio am drugaredd. Trugarog a graislawn yw yr Arglwydd, fel yr ydym yn darllen yn ei air; ac os gelli di fyned i'r llwch, yr ydwyf yn sicr o'i gyfarfod yno, a bydd yn

ddiammheu gystal a'i air hefyd; canys ni fwriodd ymaith neb erioed a aeth â'i enau i'r llwch i edrych a oedd gobaith." A'r cyfryw ymadroddion y bu y cyfeillion caredig yn ceisio ei ddyddanu, hyd y gallai wrando, a gweddiwyd yn daer drosto gan y brawd oedd yn dybenu y cyfarfod.

Wrth fyned adref y noson hono, yr oedd George yn ymdrechu ei oreu i astudio y gwahanol ymadroddion a ddefnyddiwyd yn y gymdeithas greffydol; eithr yr oedd yn methu dyfalu beth oedd y gair "llwch" a ddefnyddiwyd, yr hyn oedd yn dra phwysig iddo ef, yn gymaint a bod yn rhaid iddo ef fyned a'i enau yno, fel y dywedai yr hen frawd, ac y byddai yno yn sicr o lwyddo i gael trugaredd. Nid oedd y gair "llwch" o arferiad cyffredin yn y cylch y bu efe yn troi, eithr rhyw lygriad o'r gair, ac felly yr oedd yn dygwydd bod yn anneallus iddo ef. Eithr, yn gymaint a bod y fath bwys yn y peth, penderfynodd fynu gwybod, drwy ryw foddion neu gilydd, beth oedd ystyr y gair "llwch." *Dictionary* oedd yn rhaid gael, a phenderfynodd fyned i Gastellnedd at lyfrwerthwr cyfrifol oedd mewn masnach yno i chwilio am Eiriadur Cymraeg a Saesoneg. Beth bynag, tra yn y cyfyngdra meddwl hwn ynghylch y gair "llwch," ac yn bwriadu myned i Gastellnedd mor gynted ag oedd yn bosibl, yn ddamweiniol ac annysgwiliadwy, cyfarfyddodd â Thomas y gôf, yr hwn oedd yn ddyn deallus iawn mewn pethau o'r fath, ac yn cael ei adael yn dipyn o brydydd, os nid *bardd* yn wir. Beth bynag am hyny, yr oedd yn ddyn o wybodaeth eang ynghylch tarddiad geiriau, a phethau o'r fath hyny. Byddid yn ei ystyried yn awdurdod ymhlith y Cymreigyddion, a braidd nad ystyrid ef gan y cyffredin yn eirlyfr perffaith ynddo ei hun. Felly yr oedd llawenydd Siôr yn annhraethol pan ddygwyddodd iddo gyfarfod â Thomas mor annysgwiliadwy, yn y dyryswech hwn. Agorodd ei lygaid yn lletach nag arferol, a dywedodd gyda nerth a bywiogrwydd, "Myn dyn, Thomas, ni bu erioed gystal genyf dy weled ag heddyw, canys yr oeddwn yn y drafferth fwyaf erioed o ran fy meddwl." "Beth yw'r mater, fachgen?" ebe'r llall. "Wel, a oeddit ti yn y *society* pwy noson yma, ac a glywaist ti nhw yn dywedyd fod yn rhaid i ddyn fyned i'r llwch? Yn awr, yr oeddwn yn meddwl myned i'r dre' heno, i brynu *Dictionary*, i edrych beth yw'r gair "llwch," canys yr wyf yn methu dyfalu beth ydyw. Ni ddaeth i fy nghof am danat ti, onidê buaswn wedi dyfod atat; mawr gystal sydd genyf dy gyfarfod! canys gwn y gelli di egluro y gair, a dywedyd wrthyf ei ystyr. Gair Cymraeg ydyw, onidê, Thomas?" Ymgrynhodd Thomas ei wefusau, chwyddodd allan, a lledodd ei ysgwyddau, a gosododd un troed o flaen y llall, ac ymddangosodd ymhob modd fel yn gwneyd rhagddarpariaeth i fyned ynghyd â gorchwyl pwysig. Wedi cael ei hun fel hyn i sturf ac agwedd weddus, a theilwng o ddyn mawr a gwybodus, y mae yn dechreu rhagymadroddi er gosod pethau mewn goleu priodol cyn myned i mewn i'r cwestiwn. Wedi gwneyd sylw manwl a dysgedig ar y gair "llwch" yn ei dadogaeth, a'i wahanol gysylltiadau, y mae yn dywedyd fod y Saeson yn ei gyfieithu yn "*dust*." Erbyn hyn yr oedd George yn y goleu yn berffaith, ac yn llamu ar un goes fel un wedi cael "ysglyfaeth lawer," gan ddywedyd, "Fachgen, ai yr un peth â *dust* ydyw? pw, pw, yr wyf yn gwybod beth ydyw yn awr yn burion." Wedi cael y gair Saesoneg unwaith, efe oedd ben, canys fel y dywedasom yn yr ysgrif o'r blaen, bwriadwyd ef i fod yn *d-doctor* yn moreu ei oes, ac felly codwyd ef mewn ysgol dda, fel yr ydoedd yn un o'r Saeson goreu yn yr ardal. "Dyna, dyna,

Thomas," ebe efe, "nid oes yn rhaid i ti gymeryd rhagor o drafferth, mi wn beth yr oeddynt yn feddwl yn berffaith yn awr." Er iddo ddeall y gair "llwch," y mae yn ymddangos wedi'r cwbl nad oedd wedi deall *ysbrydolrwydd* y gair, a'r synwyr ymha un y defnyddiwyd ef yn y gyfeillach eglwysig, gan yr hen frodyr crefyddol. Yr oedd yn anhawdd iawn ei gael ef i ddeall pethau ond yn eu hystyr naturiol; nid oedd yn gallu myned i mewn i'r dirgeledigaethau hyd yn hyn, a'u hysbrydoli hwynt. Y mae llawer yn medru ysbrydoli pob peth ag sydd yn y Bibl—y coed, y cer-yg, yr haiarn, y pres, y padellau, y rhawiau, yr hoelion, yr edau, y cnapiau, ac hyd yn nôd yn esgidiau a wisgai y brenin y Solomon; ond am George, druan, yr oedd efe yn methu ysbrydoli dim. Yr oedd hyn yn golled. Beth bynag, wedi dyfod o hyd i wir ystyr y gair "llwch," aeth ynghyd ag astudio y frawddeg, "myned i'r llwch, a rhoi y genau yn y llwch, ac oddi-yno weddio a cheisio maddeuant a heddwch y Goruchaf." Gwelai y peth erbyn hyn yn ddigon amlwg; nid oedd tywyllwch yn y byd mewn cysylltiad â'r mater mwyach, ac nid oedd dim i'w wneyd ond edrych allan am le cyfleus i wneyd hyn. Yr oedd yn dygwydd bod yn bur sych yn yr haf, fel yr oedd digon o "lwch" bron ymhob man, yn enwedig ar yr heolydd a'r tomenau lludw; ond nid oedd y lleoedd hyn yn gyfleus i gael llonydd i orwedd ynddo, oblegid byddai ceffylau a chlodau yn myned heibio ar hyd y ffordd, fel y byddai yn anghenrheidiol i ddyn godi yn aml, hyd yn nôd yn nghanol ei weddi, neu ynte fod yn ddibris o'i fywyd, yr hyn nad allesid gymeradwyo mewn modd yn y byd. Byddai y tomenau lludw hefyd yn bur anghyfleus, gan eu bod mor agos i'r tai, cymaint o dramwy yn ol ac yn y blaen gan y trigolion, ac yn wir, lliaws o fôch yn ymdreiglo yno. Yr oedd peth arall hefyd wedi taro i feddwl George, sef fod y "llwch" yn hytrach yn fach yn y lleoedd a nodwyd, i ymdreiglo ynddo yn ddihafarch; ac am hynny fod yn anghenrheidiol edrych allan am ryw le mwy cyfleus, gyda mwy o gyflawnder o lwch. Wedi ffurfio y penderfyniad hwn, aeth allan i wneyd ymchwiliad, a nodi allan fan priodol i gael cyflawni y ddyledswydd, grefyddol grybwylledig; canys yr oedd brys arno, o herwydd ei dywydd blin. Ac, yn gymaint a bod y brawd yn sicrhâu, ond iddo wneyd hyn, y byddai yn ddios yn cyfarfod â Duw mewn heddwch a maddeuant, nid oedd digon o frys i fod, i'r dyben o gyrhaedd y fath amcan goruchel, a chael mwynhâd o'r bendithion anmhrisiadwy, y rhai yn unig a allasai roi tawelwch a gorphwysfa i'w enaid cythryblus.

O dan y mynydd uchel, yr hwn sydd fel pinacl ardderchog, yn estyn ei wddf fe pe bae mewn cariad â'r sêr fry, ar ael y bryn, heb fod ymbell o'r Groeswen, y canfyddai gae llethrog, wedi ei aredig a'i fraenaru, ac yn lle cyfleus a phriodol ymhob ystyr i fyned drwy ei ddyledswyddau crefyddol er mwyn derbyn heddwch y Goruchaf. Dacw efe yn dringo i fyny, drwy nerth y llawfon, ac ymhên tipyn, wele ef yn cyrhaedd y tir dymunol. Nid oedd dim i'w derfysgu; yr oedd unigolrwydd yn teyrnasu yn ddystaw a phruddaidd ar y llethr, oddigerth ambell waith fod seiniau melusber yr uchedydd yn tori ar y dystawrwydd. Wel, dyna George wedi cael digon o lwch o'r diwedd; dyma lon'd cae o'i flaen, a thyma yntau yn ei ganol. Gorrweddodd yn y rhych, a'i wyneb i lawr, gosododd ei enau yn y llwch, fel y dywedai Thomas Robert; cododd y llwch ar ei ben, trôdd ar ei ochr, wedi hynny ar ei gefn, ac ymhob ffordd er mwyn ymdreiglo yn llwyr ynddo, gan waeddi nes yr oeddynt yn ei glywed o'r Pentre nesaf, "Arglwydd, trugar-

há wrthyf yn awr; dyro heddwch i mi yn awr; maddeu fy mbechodau mawrion yn awr; dyma fi yn ymdreiglo yn y llwch, ac yn gosod fy ngenau yn y llwch, fel y dywed Thomas Robert; dere ataf, a thrugarhá wrthyf. A gáf fi drugaredd yn awr, Arglwydd? Dywedodd Thomas Robert y buaset yn dyfod ataf i'r llwch, ond nid wyf yn dy weled; pa le yr ydwyf?" Fel hyn y bu y creadur gresynol yn ymdreiglo yn ol ac yn y blaen, a gwaeddi am drugaredd am amser hir, a chan ddysgwyl bob moment weled yr Arglwydd yn rhyw ffurf yn dyfod ato a siarad ág ef, canys felly y dallodd efe eiriau yr hen frawd. Eithr, er ei siomedigaeth dirfawr, nid oedd neb yn dyfod, na swn i'w glywed. Pruddhäodd, a meddyliodd fod y cwbl drosodd am byth gydag ef, ac mai ofer oedd ceisio gwneyd heddwch a'i Farnwr, enw yr hwn oedd eto yn llosgi yn ei fynwes fel "tân ysol." Yr oedd gwneyd iawn am bechod, ac ennill trugaredd a maddeuant pechodau, yn elfen yn y galon nad oedd wedi ei llwyr ddilëu. Y mae yr ymgais am wneyd heddwch â Duw trwy ryw weithredoedd o'i eiddo ei hun, yn egwyddor naturiol yn nghalon dyn; ac y mae yn rhaid, ei arwain o gam i gam gan Ysbryd Duw, drwy lawer o anialwch a thywydd garw, cyn dyfod ág ef i ddarfod yn llwyr ág ef ei hun, ac i orphwys ei enaid yn llwyr ar aberth y Cyfryngwr. Y mae George, chwi a welwch, yn ymdrechu hyd yr eithaf, ac nid oes yr un drafferth yn ormod i geisio gwneyd heddwch â'i Farnwr drwy ryw bethau o'i gyflawniad ei hun, ac nid derbyn y cymmod yn ngwyneb dadguddiad yr efengyl. Hyd yn hyn, beth bynag, yr oedd ei lygaid heb fod yn agored i drefn yr efengyl, eithr ymbalfalu yr oedd mewn tywyllwch, dan chwilio am y drws, ac heb fedru ei gael. Wedi bod yn ymdreiglo fel yma mewn llwch a lludw am gryn amser, nes oedd yr olwg fwyaf echrydus arno ag a welwyd erioed, canys yr oedd ei het, ei wyneb, a'i ddillad, oll yn gôch gan bridd, cafodd ychydig esmwythâd i'w feddwl helbulus yn y dybiaeth ei fod wedi cyflawni dyledswyddau crefyddol o bwys mawr, ac wedi ufuddhâu i orchymyn yr eglwys. Bu rai wythnosau yn ymroi yn yn y cyfiawnder hwn, a braidd wedi myned i orphwys ar ei ddigonoldeb.

Mewn cyfarfod eglwysig, ymhen ychydig wedi hyny, barnodd y cyfeillion y byddai yn dda siarad ychydig â George, er mwyn gwybod tipyn o'i helynt yn bresennol, a gweled ar ba dir yr ydoedd, yn ddymunol. Galwyd ef yn y blaen, ac ymddangosai yn fwy cysurus nag arferol o ran gwedd ei wynebpryd, fel pe buasai wedi dyfod i fwy o foddlonrwydd mewn perthynas i'w amgylchiadau ysbrydol a thragywyddol. Cododd y brawd William Rees, yr hwn bob amser oedd yn barod i siarad, canys yr ydoedd yn ddynd athrylithgar iawn yn ei ddydd; a gofynnodd yn lled apostolaidd, "Wel, George, pa fodd y mae yn awr? pa fodd yr wyt ti yn myned yn y blaen oddiar pan y buwyd yn ymddyddan â thi o'r blaen?" "Wel, William," ebe ei ddysgybl, "yr wyf fi wedi bod yn ceisio gwneyd fel y dywedodd yr hen frawd Thomas Robert wrthyf; ond nid wyf fi wedi gweled pobpeth yn dyfod i ben fel y dywedodd ef. Fe ddarfu iddo ef ddyweyd yn y *society* pan y buwyd yn siarad â fi ddiweddaf, os awn i'r llwch, a rhoi fy ngenau yn y llwch, y delai yr Arglwydd ataf, ac y byddwn yn sicr o gael trugaredd ganddo. Wel, mi wneuthum i hyny, ond welais i ddim o'r Arglwydd, a mi a wn na ddaeth efe ddim yno, onidê buaswn yn sicr o'i weled, canys yr oeddwn yn edrych am dano o hyd." "Iê, George bach," ebe William, "cofia mai trwy flydd y mae gweled Duw, ac nid â llygaid o gnawd; ei weled yn nadguddiad yr efengyl, fel Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd ág ef ei hun, heb gyfrif."

iddynt eu pechodau; ' a phe buasit ti yn myned i'r llwch yn wirioneddol, y mae yn ddigon sicr y buasit yn ei gyfarfod." Y mae George ar hyn yn sefyll i fyny ac yn ryw hanner troi ar naill goes, ac yn dywedyd, " William, a ydych yn meddwl na fum i yn gorwedd ac yn ymdreiglo yn wirioneddol yn y llwch? Gallwn enwi ugeiniau o dystion a ngweloddi yn dyfod i lawr o gae braener y Groeswen, y rhai oedd yn holi bob cam, B'le buost ti, George? beth yw'r drych yna sydd ar dy ddillad? Canys yr oedd y dillad, o fy mhen i fy nhraed, yn gôch wedi bod yn ymdreiglo yn y pridd am oriau. Ond ni welais i yr Arglwydd yno, fel y dywed Thomas Robert, ac nid wyf yn gwybod beth a wnaf, er mwyn ei gyfarfod i gael maddeuant o fy mbechodau mawrion, y rhai sydd bron yn fy lladd." Hawŷr anwyl! y mae pawb yn agor eu llygaid yn anferth! Y mae rhai yn agor eu genau hefyd, fel pe bae hyn yn gwneyd ryw help; ond' digon tebyg mai o dan effeithiau syndod y maent, ac felly yn anghydwylbodol o'u hagweddau. Yr oedd hyd yn nôd Thomas Robert wedi ei daro yn fud; a chan droi ei ol-ygon oddiamgylch, plethu ei ddwyllaw ynghyd, a chrymu tua'r llawr, yn ocheneidio, ac yn methu symud cam yn y blaen. Nid ydym yn rhyfeddu fod y bobl yn synu, ac wedi cael eu 'taro yn fud, canys y mae dynion wedi synu wrth lai o beth ganwaith. Nid ydym ni ond adrodd y ffeithiau yn syml fel yr oeddynt; yn unig dyweyd fel yr oedd pethau yn bod. Yr oedd hen long y Dyffryn, yn nghanol rhyw wynt dyeithr fel hyn yn methu hwylio, a'r hen lywyddion cyfarwydd wedi ymddyrysu, fel pe buasent yn nghanol yr *euroltydon*. A phan nad oedd na haul na sêr yn ymddangos ar y pryd, a thymhestl nid bechan yn pwyso arnynt, ac wedi bod hir ddirwest, y mae y brawd Thomas Robert yn neidio i'r bwrdd, ac yn rhoi cyfarwyddiadau i hwylio yn y blaen, a gwthio yr hen long i gysgod craig. Felly y bu; a daeth y cwbl eilwaith yn dawelwch mawr. Y mae yr hen frawd Roberts yn dechreu cymeryd George mewn llaw i'w egwyddori, a'i ddysgu yn fanylach, gan osod ger ei fron mewn trefn gynnwys a sylwedd, ynghyd ag ysbrydolrwydd yr ymadroddion a ddefnyddiodd ynghylch y "llwch a'r lludw" yn y *society* o'r blaen. Wedi gwneyd hyn gyda phwys a chryn fedrusrwydd, arweinwyd ein gwron i mewn i ddirgeledigaethau yr ymadroddion; a daeth i ddeall mai nid y llwch yn nghae y Groes a feddylid, ond ysbryd gostyngedig ger bron Duw mewn gweddi, fel y dywedai Thomas Robert.

Wedi y pethau hyn, colodd yr ychydig esmwythâd a deimlodd wedi bod yn ymdreiglo yn y "llwch a'r lludw;" meddyliodd nad oedd hyn ond esmwythder cnawdol, ac yn effaith syniad anghywir am grefydd. Y mae yr adnod fechan, "Ein Duw ni sydd dân ysol," yn dyfod eto i'r meddwl gyda nerth dauddyblyg, nes y mae'r cawr yn rhoi yn ddychrynllyd, a phawb—crefyddol a digrefydd—yn gwyllo ei symudiadau, yn gymaint a'u bod yn dysgwyl ei gael, mewn rhyw ddull neu gilydd, wedi gorphen ei yrfa ddaearol. Priodolid ei dywydd mawr, ynghyda'r hynodrwydd a gynnyrchai yn ei ymddangosiad a'i ymarweddiad, yn fwy i wallgofrwydd na dim arall, ac felly ofnid yn ddirfawr y ceid ef yn ngrôg ar bren, yn yr afon, neu wedi tori ei wddf. Y mae y tymmor hwn yn ei argyhoeddiad braidd yn fwy ofnadwy a dychrynllyd na dim a welwyd; canys yr oedd yn dychymygu ei fod yn gweled colofnau o dân o'i flaen yn nesu ato, nes y byddai y gwrs yn peri iddo waeddi fel dyn gwallgof, nes dychrynu pawb o'i gwmpas. Yr ydym wedi anturio dyweyd ei fod yn "*dychymygu*;" ond yr

un peth fyddai ceisio ei berswadio ef drwy ei oes mai dychymygu ydoedd â symud y mynydd i ganol y môr; yr ydoedd yn benderfynol mai sylweddol oedd y cwbl. Byddai llawer yn ceisio ymresymu âg ef, ac yn dyweyd mai y *nervous system* oedd wedi myned yn wan o dan effeithiau gofidiau a thywydd meddwl, ac felly ymfurfiad o bethau yn cymeryd lle yn y meddwl nes yr oeddynt yn ymddangos yn hollol fel sylweddau, ac hyd yn nôd yn twyllo y dyn ei hun. Ond, yr un peth oedd dywedyd na chododd haul erioed â chynnyg rhyw athrawiaeth fel yna iddo ef. Yr oedd mor benderfynol ei fod yn gweled, yn y tymmor hwn, golofnau o dân, ac yn teimlo eu gwrês bron yn ei losgi, âg iddo weled yr haul erioed. Clywsom ef yn dywedyd fel y canlyn: "Un noson wrth ddechrydwyd o'r Dyffryn, yn y tywydd mwyaf erioed, a'r adnod hono, 'Kin Duw ni sydd dân ysol,' yn llosgi ac yn rhwygo fy nghalon, gwelais golofn o dân o fy mlaen, gryn ffordd; yr ydoedd yn nesáu ataf, nes yr ofnais ac y dychrynais yn ddirfawr; ond nês nês yr oedd yn dyfod o hyd, fel yr oeddwn yn methu deall beth a wnawn; yr oeddwn bron yn wallgof, ac yn meddwl y buaswn yn yr eirias dragywyddol o'r noson hono allan; yr oedd 'Duw yn dân ysol' o fewn, ac yn awr yr oedd 'Duw yn dân ysol' oddiallan yn dyfod i fy nghyfarfod. Yr oeddwn yn methu gwneyd dim ond gwaeddi yn groch; mi feddyliais am syrthio ar fy ngliniau i weddio. Dyfod yn nês yr oedd y golofn danllyd, er pob peth, nes dyfod mor agos fel yr oeddwn yn teimlo gwrês dychrynlyd a llosgfa o gwmpas fy nghernau, y pryd y gwaeddais allan, 'Arglwydd, os tydi sydd yn fy nhrin fel hyn, gwneled dy ewyllys; eithr os y cythraul sydd yn fy nhrin, O Dduw, gwahardd iddo fy lladd; paid â'i adael i fy lladd yn farw.' Gyda hyn diflanodd y golofn; ac yr oedd yn noson mor dywyll ag oedd yn bosibl; a cherddais adre' yn y tywyllwch, gan gredu fod Duw yn dechreu gwranddo fy ngweddiau tlawd." Beth bynag am y pethau hyn fel sylweddau, nid ydym yn gwybod, ac nid ydym yn cymeryd arnom benderfynu ychwaith; ond y mae yn ymddangos fod pethau mwy rhyfedd ynglŷn âg argyhoeddiad y *bruiser* na nemawr neb a ddarfu i ni glywed am danynt. Y mae yn debygol fod eisien rhyw orchwyliaethau dychrynlyd i ddarostwng dyn fel efe, âg oedd wedi bod mor flaenllaw yn nheyrnas y tywyllwch. A pheth a wyddom ni nad oes gan ddiafol ryw lawer o awdurdod yn y byd hwn, ac heblaw ei ddyllanwad ysbrydol ar eneidiau dynion, ei fod yn gallu ymfurfio yn rhith llawer o bethau? Eithr yn gymaint a bod rhyw gwestiynau fel yna yn lled dywyllion, ac nad yw y celfyddydau a'r gwyddonau yn tasu ond ychydig o oleuni arnynt, fe allai y byddai yn gystal i ninnau, ar hyn o bryd, eu gadael yn y man y maent. Mewn gwirionedd, ni buasem ni yn cyffwrdd â'r dirgeledigaethau hyn o gwbl, oni buasai fod gwrthddrych ein hadroddiad wedi cael ei arwain trwy lawer o bethau o'r natur yma, a bod yn rhaid i ninnau wneyd ein goreu i'w ddilyn. Yr ydym yn ei golli, yn awr ac eilwaith, bellach, yn nghanol ysbrydion; canys pan y mae efe yno, y mae yn anhawdd iawn i ni ei ganlyn, ac yn anhosibl nodi allan ôl ei draed. Bydd yn rhaid i ni fyned yn awr ac eilwaith, a rhoi ein traed y tu draw i derfynau y byd hwn rai gweithiau, cyn y gallwn gadw ein golwg ar ein cyfaill Siôr bob amser. Nid ydym yn teimlo un hyfrydwch wrth deithio y tir hwn, deallier, eithr anghenrheidrwydd sydd yn peri i ni fyned ar hyd-ddo. Y mae llawer yn anfyddwyr yn ymddangosiad ysbrydion drwg mewn gwahanol ffurfiau er temtio neu boenydio dynion; eithr, fe allai, y byddai yn well peidio

myned i eithafion y naill ochr na'r llall, canys yr ydym yn byw yn nghanol dirgeledigaethau. Fe ddichon y byddai yn well peidio bod yn rhy benderfynol y naill ffordd na'r llall, er fod y tebygolrwydd yn gryf o blaid y dybiaeth fod ysbrydion drwg, a da hefyd, yn gwneyd eu hymddangosiadau i ddybenion neillduol. Yr ydym ni, gan hyny, ymhell o feddwl mai dychymygon yw'r cwbl yn ngweledigaethau Siôr; y mae yn ddigon tebyg fod sylweddau hefyd yn yr ymdrafodaeth. Bid a fyno, nid oes genym ddim ond adrodd yr amgylchiadau, yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, a gadael i'n darllenwyr dynu y casgliadau a welont yn dda oddiwrth y cwbl.

Heb fod ymhell o'r lle yr oedd ein harwr yn byw, yr oedd gallt o goed, a mynych yr ymgyrchai efe i'r fan hono i weddio. Byddai yn myned yno yn gyffredin pan y byddai rhyw dywydd garwach nag arferol ar ei feddyliau, i'r dyben, y mae yn debygol, o gael llonyddwch i arllwys ei deimladau ger bron gorsedd gras. Ond yn fynych, byddai yn methu cadw dystawrwydd ei hun, eithr torai allan i waeddi nes dadseinio yr holl gwm, a'r bobl yn methu deall beth a allasai fod nes iddynt gynefino â'r cyfryw bethau; ac wed'yn, pan y clywsid ryw fwstwr felly, nid oedd neb yn cyffro, ond yn unig gwneyd sylwadau dirmygus ar George a'i weddio. Byddai weithiau yn rhuo fel tarw gwyllt mewn magl, ac weithiau yn ochain yn drwmlywthog, a phrydiau eraill yn bloeddio allan, "Duw a drugarhâo wrthyf." Yn gymaint a bod y bobl, lawer o honynt, yn y dyddiau hyny, yn barnu fod unrhyw ymwneyd â chrefydd yn beryglus, a bod pawb agos ag oedd yn myned at grefydd yn colli eu synwyrâu, tybiwyd yn gyffredin mai edrych am le cyfiêus i ymgorgi yr oedd Siôr, ac y dylasai ei berthynasau edrych ato, ac ar ei ol. Ni buasai clywed ei fod wedi ei gael yn ngrôg ar bren yn un syndod i'r gymydogoeth, canys nid oedd nemawr yn dysgwyl dim arall. Tra yr oedd y bobl yn siarad fel hyn, ac fel arall, yn ngwyneb ei fod yn cadw y fath ddadwrdd yn y graig, gweddio yn y blaen yr oedd efe yn hollol anghydwibodol o'r holl helynt hyn. Clywsom ef yn dywedyd, yn ngwyneb ei fod mewn cyfyngder meddwl tu hwnt i ddysgrifiad, iddo un diwrnod ddringo yr allt, a myned i mewn i'r coed i weddio, pan y syrthiodd ar ei liniau o dan bren, yr hwn oedd wedi crino i fesur mawr; ni wnaeth sylw ei fod felly ychwaith nes yr oedd yn y weithred o syrthio ar ei liniau. Wrth ganfod ei frigau llwydion yn ymgorgi drosto, syrthiodd y meddwl fel taranfollt mai pren crin oedd yntau hefyd, ac y byddai yn y tân tragwyddol yn fuan iawn. Gyda hyny, dyma ef yn gwaeddi â'i holl nerth am drugaredd, nes oedd ei sŵn i'w glywed ymhell. "Os darfu i mi weddio erioed," meddai, "yr wyf yn meddwl fy mod yn gweddio y pryd hwnw; canys yr oeddwn yn y teimladau mwyaf dychrynlyd ag y bu dyn erioed ar y ddaear hon, yn sicr; yr oeddwn yn teimlo fel pe buasai fflamiau y pwl diwaelod yn dechreu cydio ynof eisoes." Eithr tra yn gweddio yn daer yn y teimladau a ddysgrifwyd, efe a glywai ryw fwstwr yn y coed, ac fel pe buasai rhywbeth lled drymaidd ei symudiadau yn nesu ato, ond nid agorodd ei lygaid. Cyn pen eiliaid, dyma rhywbeth yn troi o'i amgylch yn bur agos i'w gorff, gan ei daro â'i gynffon wrth ymdroi o'i ddeutu; rhoddodd dri thro gan ei daro â'i gynffon bob tro. Erbyn hyn, fel y mae yn naturiol meddwl, yr oedd ein cyfaill wedi tewi, ac yn chwysu gan ofn a brow; a phan yn agor ei lygaid, yr oedd rhywbeth yn debyg i gi yn edrych yn ei wyneb. "Ffurf ei ydoedd," meddai; "ci côch, â'i lygaid fel fflam dân yn ei ben, ond yr oedd yn fwy tebyg i lo blwydd o ran maint. Yr wyf wedi gwled llawer

o'r *Newfoundland dogs*, ond ni welais *Newfoundland* erioed ddim yn debyg mewn maint i hwnw." Nid "drychiolaeth oedd hwn o flaen ei lygaid," canys "adwasnai ei agwedd;" er hyny "gwnaeth i holl flew ei gnawd sefyll." "Fe allai," ebe cyfaill wrtho, "mai ci gwirioneddol ydoedd, serch hyny, er y mae yn bosibl y gallasai fod o dan ddylanwad yr ysbryd drwg, a'i fod yn ei ddefnyddio fel offeryn yn ei law i effeithio y brofedigaeth, a cheisio rhwystro eich gweddïau." Ymgynhyrfai Siôr bob tipyn wrth athrawiaeth fel hyn, ac edrychai ar y fath sothach gyda dirmyg. "Clywch, y dyn!" meddai, "yr oeddwn yn adnabod pob ci yn yr ardal hyn, a'r ardaloedd o gwmpas hefyd; nid oedd yma un creâdur cyffelyb gan neb; ac ni welais i gi o'i fath na ohynt na chwed'yn; a phe buasai yn perthyn i rywun yn y cwmpasoedd hyn, peth rhyfedd na fuaswn wedi dygwydd ei weled rywbryd? a pheth arall, ni bu ci erioed o faint hwnw. Nage, nid ci gwirioneddol ydoedd, fi wna'm llŵ, eithr cythraul gwirioneddol ydoedd yn ffurf ci. Gallwn feddwl fy mod yn teimlo ei gynffon fawr yn plethu am danaf y fynydd yma, ac y gwelaf ei ddau lygad fel tân yn edrych yn fy wyneb; mi gofiaf byth am yr amgylchiad. Safodd yn y dull hwnw am foment, fe allai, gan edrych fel pe buasai yn myned i fy llarpio, a minnau yn fod yn methu dyweyd dim; yr oedd fy ngenau wedi sychu i fyny, fy nhafod fel pe buasai wedi cydio wrth dafod fy ngenau; nid oedd mwy o rym yn fy aelodau na phlentyn wedi newydd ei eni." Y mae un peth yn ddigon eglur, beth bynag, fod ein gwron mewn teimladau dychrynlyd; canys yr oedd fel hyn ar ei liniau, a'i anadl megys yn ei ddwrn, yn edrych wyneb yn wyneb â'r bwystfil, heb allu dyweyd un gair, na rhoi un floedd nac ysgrech, na dim cyffelyb. Wrth fod y ci yn troi o'i amgylch, yn ymwasgu yn nês ato, a phob tro yn ei lachio am draws ei gefn â'i gynffon, teimlodd fel pe buasai y ddaear yn ymollwng o dano, yn agor ei safn, ac yn ei lynca yn fyw i uffern; penderfynodd, meddai, "ei bod *all over* am dano i dragywyâdeldeb." Gyda y cynhyrfaid hyn y mae ei dafod crasboethlyd yn ymryddhau, ac y mae yn gwaeddi yn ddychrynlyd; ac yn bloeddio allan fel dyn gwallgof, "O Arglwydd, O Arglwydd, myn chwareu teg i mi am fy mywyd! dyma'r cythraul am fy lladd; y mae yma yn awr yn fy ymyl, yn barod i fyned â mi i uffern. O! myn chwareu teg i mi am fy mywyd! paid a'i adael i gael ei wŷn arnaf, Arglwydd daionus!" Fel hyn y bu yn bloeddio nes oedd yr holl gwm mewn cyffro am amser lawer; y mae yn anhawdd gwybod pa faint, canys nid yw efe yn gwybod ei hunan. Beth bynag, tra yr ydoedd efe fel hyn yn gweddio, ac yn teimlo nerth yn dyfod gyda phob bloedd, ymadawodd y gŵr drwg, fel ei gelwir, ac ni welodd ef yn y ffurf hono mwyach. Y mae yn debyg mai ympryd a gweddi yw yr unig foddion i yru y rhywogaeth hyn ymaith hyd y dydd hwn. Bu ein harwr mewn llawer brwydr â diafol wedi hyn, fel y cawn adrodd eto, ond ei fod wedi ymgymeryd â gwahanol ffurfiau a dulliau, ac yn fwyaf cyffredin fel gelyn anweledig i lygaid o gnawd, fel "llew rhuadwy," yn ei ymosodladdau ysbrydol.

Ond y mae yn rhaid i ni gadw gwyliadwriaeth arnom ein hunain, rhag myned yn y blaen yn rhy fuan, ac felly gŵyro a cholli golwg ar ein hen gyfaill. Ni a welwn ei fod ef yn weddiwr bellach, ac yn weddiwr mawr iawn, ac yn gweddio yn aml, ac ymhob man; er hyny y mae yn ymddangos ei fod heb adnabod trefn yr efengyl eto. Buasai yr hen dduwinyddion yn sicr o'i gyfrestru gyda'r teulu ag oedd hyd yn hyn o dan y ddeddf.

canys rhyw ymbalfalu y mae mewn teimladau digon cymysglyd am y drws, ac yn rhywfodd yn methu cael gafael arno. Ond dyna, beth a wnawn yn ymdroi fel hyn? ein gwaith ni yn awr, pe baem yn gallu deall ein gwaith hefyd, yw adrodd y ffeithiau fel y maent, a gadael ein darllenwyr i wneyd y sylwadau a welont yn dda yn eu myfyrdodau; ond dyna fel y mae hi, fel y gwyddoch, y mae rhai pobl na fedrant yn eu byw adael pethau yn llonydd. Am beth yr oeddem yn son yn awr? O, yr ydym yn cofio, am George yn gweddio, a'i fod yn weddiwr mawr, ac yn gweddio ymhob man. Ie, dyna'r mater eto. Yr ydoedd yn gweddio, nid yn unig yn y coedydd, ac ar lân y môr, ond hefyd yn gweddio fel Cornelius yn ei dŷ. Yr ydym yn meddwl, os ydym yn cofio yn iawn, mai angel Duw a ddaeth at Cornelius pan oedd yn gweddio yn ei dŷ; eithr angel drwg a ddygwyddodd ddyfod at George, pan ydoedd yn gweddio yn ei dŷ y tro yr ydym ar fyned i adrodd yn ei gylch, beth bynag. Ffurf cath, y mae yn debyg, oedd y cythraul wedi ei gymeryd y tro hwn; neu yn hytrach myned i mewn i'r gath a wnaeth; canys cath ein harwr oedd y gath hon, yn ddiagon adnabyddus, ond iddi gael ei meddiannu gan yr ysbryd drwg, nes iddi fyned fel ellyll uffernol o dan y dylanwad hyny.

Yr oedd cryn gyfeillgarwch rhwng George a'r gath hon; byddai yn aml wrth y tân yn gorwedd rhwng ei draed, ac yn gwneyd rhywbeth tebyg i ganu, ac yn wir yn ymddangos fel pe buasai yr unig grëadur ar y ddaear hon oedd am esmwythâu ei fynwes drybylog. Ymddangosai yn un o'r cathod mwyaf hynaws, tyner, a chyflawn o natur dda yn yr holl wlad. Felly yr oedd y gath hon a'r brawd Siôr yn gyfeillion rhyfeddol—bron yn ormod o gyfeillgarwch i fod rhwng y rhesymol a'r afresymol. Dyna fel yr oedd, beth bynag. Y mae yn debygol ei fod yn teimlo yn fynych pan mewn adfyd nad oedd ganddo ffrynd yn y byd ond ei gath. Magodd hi pan yn fechan; bwydodd hi yn ofalus, nid allai gymeryd tamaid heb ranu â hi; "a hi a gynnyddasai gydag ef, a chyda'i blant; o'i damaid ef y bwyta'i hi, ac o'i gwpan ef yr yfai, ac yn ei fynwes ef y gorweddai hi, ac yr oedd hi iddo megys merch." Nid oedd ganddo gymaint o ffydd yn neb ag oedd ganddo yn ei gath. Yr ydoedd wedi gweled cymaint o dwyll mewn dynion—ie, mewn hen gyfeillion, nes yr oedd wedi colli ei ymddiried bron yn llwyr yn y byd rhesymol, a byddai o ganlyniad yn troi i'r byd arhesymol i chwilio am gyfeillion, y rhai a lŷnent wrtho yn nghanol ei brofedigaethau. Ac fel hyn tyfodd rhyw gyfeillgarwch rhyngddo â'r gath hon, nes yr ydoedd iddo "megys merch." Byddai hi, yn ei ffordd, yn dangos y parch mwyaf iddo; a phan y dychwelai adref, nid oedd neb yn ymddangos yn llawenhâu gymaint; nac yn teimlo y fath foddlonrwydd; fel yr ydoedd wedi meddwl mai y crëadur diweddaf oedd hon o fewn y grëadigaeth faith i droi yn elyn iddo, ac i ymladd yn ei erbyn, oddigerth Sophia, ei aŵyl wraig ei hun.

Ryw ddiwrnod, y mae George yn teimlo gofidiau mawr ynghylch bod yn gadwedig, ac yn methu deall i foddlonrwydd fod yr Arglwydd wedi gwrandao ei weddïau, eithr yn hytrach yn ofni ei fod yn wrthodedig, ac mai dyn colledig a fuasai yn sicr o fod, er pob peth. Yn ymylu fel hyn ar wallgorwyydd, fel y byddai yn aml yn y tymmor hwn, y mae yn methu dyfalu beth a wnai, ai myned i'r môr i foddï, neu ynte dreio gorsedd gras unwaith eto. Yr oedd y môr gerllaw y lle yr oedd yn byw, a chlywai ei dônau yn rhuo o'r man lle yr oedd, a gwnaeth benderfynu amryw droion fyned dros ei ben, a dybenu y mater yn fyr fel yna. Ond, wed'yn, yr oedd tragwyddoldeb yn

edrych yn ei wyneb, fel yr oedd yn gorfod meddwl na fuasai hyny ddim yn gwella'r clwyf, ond yn ei wneyd yn waeth; oblegid ni wnai wrth foddi ond gyru yr enaid yn gynt na phryd i'r tân tragywyddol. Trôdd y fantol, o ganlyniad, o blaid gweddio. Nid ydym yn cofio yn iawn pa bryd o'r dydd ydoedd, ond y mae genym ryw frith gôf mai codi yn foreu a wnaeth o flaen y teulu, a myned i ystafell wrtho ei hun ar y llawr. Beth bynag, nid oedd neb ond ei anwyl gath yn yr ystafell, pan aeth i lawr; ac fel arfer, dyma hi yn dangos y croesaw mwyaf iddo, fel pe buasai wedi bod o gartref am bythefnos. Wedi chwareu o'i gwmpas am ychydig amser, aeth i ben cist, neu *chest-of-drawers*, neu rywbeth cyffelyb; ac aeth George at y gorchwyl difrifol o weddio. Yn y tywydd mawr ac ystornus hwn, y mae yn naturiol meddwl ei fod yn gweddio gyda phwys a thaerineb anarferol. Nid gweddiau conglau yr heolydd, dan sefyll yn syth fel pyst, er mwyn cael eu gweled gan ddynion, oedd y gweddiau hyn; eithr gweddiau publican euog a thlawd, yn gweled ei sefyllfa, ac yn canfod peryglon tragygywyddol, yn ceisio troi ei wyneb at Waredwr y byd. Gweddiodd yn daer anghyffredin, a theimlai fwy o hapusrwydd, a llai o ddychrynfeydd, y tro hwn wrth geisio gweddio nag erioed o'r blaen; yr oedd y drysau fel yn ymagor yn naturiol o'i flaen; nid oedd yn orchest yn y byd cael geiriau; yr oeddynt fel pe buasant yn dyfod o rywle o honynt eu hunain, nes yr oedd hi bron a myned yn hwyl, y peth hyd yn hyn oedd heb ei deimlo ganddo ef. Gweddiai hefyd yn enw yr Iesu, canys yr oedd William Rees wedi bod yn ei gynghori yn y *society* yr wythnos cyn hyny am ddefnyddio yr enw hwnw yn ei weddiau, yr hyn a wnaeth, er nad oedd gydag ef nêmawr o ddirnadaeth hyd yn hyn am drefn yr efengyl. Tra yn y teimlad hapus hwn, a'r dwfr fel pe buasai yn codi fwyfwy, yn sydyn, fel taro dwylaw ynghyd, dyma'r brofedigaeth fwyaf erioed yn dygwydd. Ar yr amser pan yr oedd ei ysbryd yn codi i hwyl, ei lestr yn codi yn deg o'r "pridd tew, a'r clai tomlyd," a phob arwyddion fod y *Royal George* yn dyfod i fyny o'r dyfnder mawr, dyma fel pe buasai ddeng mil o gythraul-iaid yn myned i mewn i'r gath, fel yr ydoedd fel arthes wedi colli ei chenawon, yn ddireol ac yn ddiberswâd. Neidiodd fel taranfollt oddiar y gist, at ben ei chyfaill goreu, a sefydlodd ei hewinedd yn ei siol, gan ruo yn aethus a dychrynllyd. Yr oedd oernadau a swm y gath yn arswydus dros ben, a'i holl agweddiad fel pe buasai "wedi ei gosod yn fflam gan uffern;" ac o ddifrif, gallwn gasglu fod yn rhaid bod y loesion yn ddirfawr i'n cyfaill, yn gymaint a bod yr holl ewinedd wedi ymsefydlu yn ei ben, a bu gryn amser cyn gallu eu dadrys oddiyno.

Wedi ymryddhâu oddiwrthi yn y modd goreu y gallai, a thra yr oedd y clwyfau ar ei ben yn llosgi yn annyoddefol, a'i waed yn lifo i lawr yn frydiau, nes oedd ei wyneb yn goch, a'i ddillad fel pe buasant wedi ymdrochi ynddo, teimlai gynhyrriad yn ei galon, a bu bron a rhegi. Ymaflodd yn mhedair coes y gath, gwasgodd hwynt at eu gilydd, a dywedodd yn ei feddwl, "Myn —, mi darawaf dy ymenydd allan yn erbyn y wâl." Ond, deallwch, er dywedyd felly yn y meddwl, ni lefarodd hyny â'i dafod, eithr cyn i'r geiriau ddyfod allan o'i wefusau, efe a ystyriodd, i.e. cofiodd, a darostyngwyd ei galon. Er ei fod yn gwasgu traed y gath ynghyd, ac wedi codi ei fraich, ac yn y weithred o daro ei hymenydd allan yn erbyn y mur, eto yn ngwyneb rhyw feddyliau difrifol a ddaeth i mewn ar y pryd, tynodd ei fraich yn ôl, ac edrychodd yn llygaid y gath yn daer, a dywedodd,

"Wel, crëadur Duw ydwyf fel finnau, gan hyny mi a'th ollyngaf yn rhydd heb dy ladd; canys y mae y Crëawdwr mawr wedi fy arbed i ganwaith, er i mi bechu yn ei erbyn ef fil mwy nag yr wyt ti wedi pechu yn fy erbyn i." Felly efe a'i gollyngodd yn rhydd; ac er mor aſywodraethus ydoedd ysmeityn, yr oedd hi yn awr fel oen diniwed, fel pe buasai dim heb gymeryd lle. "Does dim dadl," meddai, "nad oedd llaw gan yr ysbyrd aſian yn hyn i rwystro fy ngweddi; oblegid, pa reswm yn y byd y gellir ei roi am y peth ond hyn? Y gath, oedd mor ſwyn, a diniwed, a chwareugar, y ſynyd cyn hyny, yn ymgynhyrfu mor ddychrynlyd nes oedd yn arswyd ar gnawd fod yn ei ſwn!" Wel, yn wir, y mae llawer peth yn ſwy annhebyg i ddiafol na hyn; yr oedd rhywbeth yn yr holl orchwyliaeth yn debyg iawn iddo ef ei hun. Cafodd ein harwr ben coch y tro hwn; yr oedd yn codi o'i weddi fel un yn dychwelyd o faes y gwaed, yn rhës y clwyfedigion; yn gymhwys i ddim ond yr ysbyttŷ. Er ei fod wedi dyoddef cur a phoen dirfawr dros dro oddiwrth ei glwyfau, eto trwy driniaeth fedrus a gofalus, efe a welläodd yn dda; ac nid ydym yn gwybod fod hyn wedi peri un anfantais parhäus, oddigerth fod y gwallt yn ſwy teneu ar ei gopa nag o'r blaen. "Y mae ôl ewinedd diafol ar fy mhen," meddai; "y mae wedi tynu peth o'r gwallt o'r gwreiddiau; a bum yn meddwl, os wyf yn blentyn i Dduw, pa fodd y caniatäodd i hyny fod, yn gymaint a'i fod yn dywedyd, 'Ni chyll blewyn o'ch pen;' ond fe ddarfu i mi ystyried y mater, a fi welais y bydd y cwbl yn cael ei adferyd yn adgyfodiad y rhai cyfiawn; fel ei gorff Ef yr adgyfodwn, heb frychau na chrychni, at ſesur oedran cyflawnder Crist."

Gellid meddwl fod uffern fel pe buasai mewn cynhwrf drwyddi wrth feddwl colli y gwron hwn, ac yn gwneyd rhyw ysgwydiadau gorchestol er mwyn ei adennill yn ôl. Yr oedd diafol fel pe buasai yn cymeryd meddiant o'r byd rhesymol, ac afresymol hefyd, i'r dyben o effeithioli ei brofedigaethau. Galleſid meddwl fod y dŷnion, y cwn, y moch, a'r cathod, wedi cyduno, ac ymarfogi yn ei erbyn, i'r dyben o'i ddinystrio byth. Y mae yn ddigon tebyg mai rhyw ddylanwad Satanaidd oedd ar y crëaduriaid; yn eu cynhyrfu a'u gyru i rywle ar encil, ac felly ar eu hynt yn taraw yn erbyn George, er rhwystro ei weddïau. Eithr, er pob peth, daliodd ati; ni lwfrhäodd, ac ni roddodd i ſyny yn ngwyneb profedigaethau, er yn agos i golli y dydd lawer gwaith. Bu bron tyngu, fel y dywedasom, yn amgylchiad y gath; ac er na thyngodd yn gyhoeddus, daeth y peth i wasgu yn drwm ar ei feddwl, ac achosodd hyny gryn ammhëuaeth ynghylch ei grefydd. Bu yn gruddſan yn drwmlythog oblegid hyny am amser hir, ac ni chafodd waredigaeth nes iddo ddyweyd wrth y cyfeillion pa fodd y bu arno. Yn ngwyneb clywed natur y profedigaeth danlyd, barnodd y brawd William Rees, a Thomas Robert hefyd, fod yn llawer mwy o syndod iddo ymattal rhag tyngu na phe buasai yn tyngu a tharo ymenydd y gath gyda llaw. "Yr oedd yn ddigon," ebe y brawd Thomas Robert, "i beri i hen sant dyngu, chwaithach George, yr hwn oedd wedi arfer tyngu dros ei holl fywyd hyd yn ddiweddar. Er hyny i gyd, George bach, y mae yn rhaid edifarhau am hob pechod; ond ni ddylit, serch hyny, feddwl fod pechodau a gyflawnir mewn profedigaethau mor ysgeler â phechodau a gyflawnir o frwriad." Bu yr ymddyddanion hyn a'r cyffelyb o les mawr iddo ar y pryd, ac yn esmwythäd dirfawr i'w feddwl cythryblus. Yr oedd eisieu ychydig o ſeibiant a thangnefedd arno yn ddiau, canys yr oedd y pen oll yn glwyfus, a'r

galon yn drist, braidd un man cyfan arno o fewn nac allan. Gan ein bod yn gweled fod ein hysgrif yn rhedeg i gryn feithder, a rhag rhoi ein darllenwyr hefyd mewn profedigaeth i regi o herwydd hyny, yr ydym yn meddwl mai gwell fyddai i ni ddybenu, heb fyned yn y blaen ymhellach. Rhaid i ni adael ein harwr yn rhywle yn "mhorth yr adenedigaeth, ac yn mwlich yr argyhoeddiad," ys dywed yr hen dduwinyddion; canys hyd yn hyn nid yw eie wedi ei oleuo yn drwyadl am drefn iachawdwriaeth, drwy y "prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Fe allai, yn ein herthygl nesaf, y daw y pwnc hwn yn fwy i'r goleu; ac felly ni a derfynwn yr ail lith yn y fan hyn.

CYFRYNGAU ADDYSG LENYDDOL A MOESOL CENEDL Y CYMRY.

ANFRI mwyaf ar ddydd fyddai bod yn anadnabyddus ág Hanesyddiaeth ei wlad a'i genedl. Mae gormod o ysgrifenu hanesyddiaeth wedi bod, yn sŵn cyrch arfau, gweryriad meirch, a thrabludd byddinoedd. Y mae cyfnod arall yn dyfod i mewn,—cyfnod ysgrifenu hanes blaguriad, cynrith, twf, mudiadau, dabblygiadau, gwrhydri penchwibandod, chwyldröadau—"*llanw a thrai*" y Meddwl Cenedlaethol. Ac i gael hyd i hwn,—a dyma wir hanes cenedl yn y diwedd—rhaid myned o faes y gad i faes yr aelwyd, y gampfa, a'r gwylmabsant; rhaid myned i gysgodion llwyni, ac i encilion ein cymydd. Dyma lle mae cael gafael ar nodweddion a chrebwyll a gwareiddiaeth "y Cymry fu." Mae rhywbeth yn ymylu ar fod yn ddirmygedig mewn bod yn anadnabyddus á gwrhydri ein cenedl ein hunain.

Pan ydoedd "Layard" y dydd arall yn dadgladdu o bentwr carneddi malurion cynoesol a chlasurol Ninife, y cerfddelwau aruthrol hyny ag oeddent wedi bod yn nghudd yn nghromgelloedd y carneddi hyn am oes—cerfddelwau ag yr ydoedd pob prydweddiad o'r eiddynt yn adlewyrchu bri anfarwol ar wareiddiaeth a chrebwyll ac uchelddysg y cyngenedlaethau a boblogasent lënydd y Tigris a'r Euphrates—y trigolion presennol ag oeddent yn llygad dyst o'r dadgladdiad, sef olafiaid y cyngenedloedd a nodwyd, pan welsant y cerfddelwau arswydus hyn yn cael eu dirwyn i fyny gan Sais—a hwy mor dywyll á'r wádd yn hanesyddiaeth eu cenedl—a risant eu gofal i'w carnau, gan wneyd gwawch,—"*Y diafol! y diafol! sy'n dod i fyny trwy gorn sinne Hades.*" Bydded y werin Gymreig—ein cyngenedl anwyl, yn ofalus rhag ymylon y fath anwybodaeth anwar, canys mae i niniau ein cofnodau gweddilliol cynoesol, yn aros fyth, y mae yn gywilydd genym addef, yn y cromgellau llawysgrifol; ond gobeithir yr ymddengys yn y man ryw Layard ar orwel ffurfafen lënyddol Cymru ág udgorn yr adgyfodiad yn ei law. Os felly, Gymro, paid rhedeg.

Mae llênnyddiaeth y gwahanol genedloedd yn bwnc ag sydd wedi gweithio ei hunan yn fwy i sylw y dysgedig yn ddiweddar nag ydoedd. Gellid nodi, er enghraifft, yr ymchwiliadau a wneir i gynlênnyddiaeth gwahanol lwythau India, ac eiddo "Ynysoedd Môr y Dê." Y mae dwy gyfrol dlos ger ein bron o lênnyddiaeth hen Scandinafiaid Iceland. Mae rhai o'r darnau daearyddol (*geographical*) hyn, yn profi fod America wedi ei darganfod oesoedd cyn amser Columbus; ac os deil yr adgyfodwyr llênnyddiaethol hyn ati i ddaigladdu, ni wyddis beth ddaw i'r golwg.

Mae cenedl y Cymry wedi bod yn y golwg ar y chwarenfwrdd er y cyn-oesoedd. Mae ôlion y genedl yn britho hanes foreuaf yr hil ddynol. Ceir ei chofion a'i gwrhydri yn britho hanesyddiaeth Groeg a Rhufain, a hi a roddodd enwau i brif afonydd a mynyddoedd Ewrop. Y ffrydlif Geltaidd ydoedd y ffrydlif gyntaf a ymdaenodd dros Ewrop; wedi hyn y ffrydlif Scythaid; wedi hyn y Sclavonaidd; wedi hyn y Teutonaidd;—y naill dôn genedlaethol ar sawdl y llall, a chan yru y llall i'r draethell, ac i'r craig;—fel tân ddylanwad disodlawl y tönau cenedlaethol hyn y mae y Celtiaid erbyn heddyw, heb ephod, heb frenin, heb deyrnedd, heb unbenaeth nac annibyniaeth. "Wele nyni heddyw a adawyd yn ychydig bobl, lle yr oeddem fel sêr y nefoedd o liosogrwydd."

"Yn nhröion amser, rhaid yw bwriad Duw."

Gellid meddwl fod cynlênnyddiaeth cenedl y Cymry yn haeddu mwy o sylw y dysgedig a'r gwladgar, canys ymddengys fod anffawd dyngedfenol y Cymry yn eu dilyn hefyd ar y pen hwn. Gwnaeth dadgladdiad llênnyddiaeth Iceland gyffro trwy y byd llênnyddol, ac nid cynt hyn nag y ffurfiwyd cymdeithas i ddwyn y gweddillion llênnyddol gwerthfawr hyn y wasg. Ond yr ydys yn caniatáu fod gan y Cymry llênnyddiaeth henach, a llawnach, a phurach, nag un genedl Ewropeaidd, heblaw Rhufain a Groeg; ond gadewir yn awr ei chynddysg i lwydo a phydru yn y cromgellau llawysgrifol! Pan y ceir y werin Gymreig yn ysgormael a baldorddi yn mhlaidd Eisteddfodau, gwladoldeb, a'r iaith Gymraeg, ceir y casgliadau llawysgrifol anmhrisiadwy o eiddo Edward Llwyd, Owen Jones (*Myfyr*), Iolo Morganwg, ac eraill—yn cynnwys gemau gwerthfawroch na'r aur coethadwy—yn aros yn nystawrwydd y bedd, o eisieu cefnogaeth i'w dwyn allan trwy y wasg. Gwell gan Shôn Llygad y Geiniog fyw ar fenthylg llyfrau, ac y mae Dic Shôn Dafydd yn cael mwy a gwell ystwff am ei geiniogau yn y farchnad Seisonig! a siarad am wladgarwch a'r bryntiaid hyn fyddai siarad. Ffrengaeg. Beth bynag, y mae cyfrolau llênnyddol o bwys wedi eu dwyn trwy y wasg Gymreig yn ddiweddar, megys y "Mabinogion," gan yr Arglwyddes Guest—Bardoniaeth "Lewis Glyn Cothi"—"Llyfr Teilo"—a'r "Iolo Manuscripts"—"Meddygon Myddfai," &c., &c., gan y *Welsh MSS. Society*.

Peth rhyfedd, oddiar amryw ystyriaethau, yw fod cymaint o gynlênnyddiaeth y Cymry wedi aros ar gael a chadw. Yn gyntaf, gwyddys fod y Derwyddon yn gwahardd gosod eu dysg ar lyfr, ond ar gof eu dysgyblion yn unig. Dywed Diodorus Siculus "fod y ddysg a gyfranai y Derwyddon i'w dysgyblion ar wahanol gangenau gwybodaeth yn gofyn ugain mil o linellau i'w throsglwyddo, ac ei bod yn cymeryd ugain mlynedd i'w throsglwyddo i'r cof." Gwelir oddiwrth hyn fod llênnyddiaeth ein henafiaid yn drysoredig nid mewn llyfrau ond cof; fel pan fu farw y Derwydd olaf, aeth â *swrn* o gynddysg a chyfrinion ei urdd ganddo i dragwyddoldeb.

Achos arall o ddiffrod ar gynlênnyddiaeth y Cymry ydoedd y gwahanol chwyldrôadau a dymchweliadau ag y bu y genedl hon, yn neillduol, yn ddarostyngedig iddynt. Mae tystiolaeth Iwl Caesar, Pliny, ac eraill, yn ddigonol i brofi fod gan y Cymry lythyrenau, ac yr arferent ysgrifenu er cyn cred. Mae yn beth naturiol i lawer o'r ysgrifau cynoesol hyny fyned ar goll yn ystod y rhyfeloedd a'r mudiadau yn y cyfnod Rhufeinaidd yn y wlad hon. Erbyn hyny, dyna y Saxoniaid yn gwneyd rhuthr ar ein gwlad a'n breiniau, a bu canrifoedd tywyll a blwng o ryfel rhwng y ddwy genedl, fel mai ychydig seibiant a ellid gael i achlesu llênnyddiaeth. Gwnaeth y Normaniaid gwedi hyny ymosodiad lladronig ar ein gwlad a'n cenedl, a llwyddasant yn fwy na neb o'r blaen i ddimchwelyd a gwasgar yr hen dylwythau Cymreig, ynghyd a'r hen balasau, a'r bangorau, a chastell-ydd, ag oeddent wedi bod trwy yr oesoedd yn gadwrffeydd i hen ysgrifau Cymreig. Y mae genym hanes am Athroffeydd enwog yn Nghymru mor fore â'r cheched canrif, megys Athrofa Llanilltyd-fawr, Llanacorfan, Bangor-is-y-coed, &c. Yr ydoedd yn ddiammheu Lyfrgelloedd mawrion yn yr Athroffeydd hyn; ond syrthiasant yn ysglyfaeth i ryfeloedd yr oesoedd, yn gystal ag i farwoldeb eneidol y canoloesoedd. Y Llyfrgell fwyaf bwysig ddiweddar ydoedd eiddo Castell Rhaglan, yr hwn gastell a syrthiodd yn ysglyfaeth i arfau a Vandalyddiaeth Oliver Cromwell. Wedi hyny dyna Wynnstay wedi myned yn weuflam! Ond er yr holl anfodion enbyd hyn, ac ychwaneg o lawer y galleisid coffa am danynt, y mae genym eto gannoedd o ysgrifau yn aros, yn ffrwyth athrylith a chrebwyll ein honafiaid trylen.

Gwedi gwneyd cymaint a hyn o ragsylwadau, rhoddwn rai o'r cyfryngau ag sydd wedi bod wrthi, ac eto wrthi, yn gweithio yn mhlaidd derchafu a choethi cenedl y Cymry mewn deall a moesau. Ac yn gyntaf, ni a nodwn

YR AREITHFA.

Mae yr Areithfa Gymreig yn ddiarebol am y peth a elwir bywyd, dawn, a dylanwad. Daeth y chwyldrôad crefyddol a dorodd allan tua chanol y ganrif ddiweddaraf â chyfnod newydd i fewn ar yr Areithfa Gymreig. Y mae math o gylch cometawl yn perthyn i furfafen y pulpud Cymreig, ac i'r cylch hwn y perthynai Griffith Jones, Jones Llangan, Rowlands Llan-geitho, a Howel Harris, y canrif diweddaraf; a Christmas Evans, John Elias, a Williams o'r Wern, y ganrif hon. Nid ellir rhoddi cyfrif am ymddangosiad y cometau hyn yn fwy na'r cometau wybrenol. Dyna hi, y seren gynffonog, yn ymddangos yn y gorwel dwyreiniol; bydd pob un yn rhedeg allan i sylldremu ar y "seren gynffonog,"—a dyna hi yn ymadael o'n hwybrenoedd ni, yn ngorwel y gorllewin. Felly y comedau areithfaol a wnaethant yn eu dydd gyffro cenedlaethol, gan godi cenedl i dir llênnyddol, yn gystal a chrefyddol, uwch. Dichon fod y cyfnod comedaidd wedi myned heibio yn Nghymru—mai math o *Special Trains* neu *Means* oeddent, os iawn y fath ffugr, i gwrdd â chyflwr moesol a neillduol eu hamseroedd, ag nad yw mwy. Beth bynag am hyny, mae hi yn ffaith hanesyddol mai y pulpud sydd wedi bod yn brif allu i ffurfio cymeriad moesol, syniadol, a dysegeidiethol y werin Gymreig, am, dywedwn, y ganrif ag sydd wedi myned heibio (o 1750 hyd 1850). Yn awr, gan fod y pulpud yn fath allu ar gasr yr eglwys, ac yn fath hwrddbeiriant ar faes llênnyddiaeth, dylid

gofalu i'r pulpud dderbyn pob meithrinfa ag y byddo bosibl. Y pulpud a fuffiodd ac a foldiodd yr oes sydd newydd fyned oddiar y chwareufwrdd—oddiwrth y pregethwr y derbynai hen ac ieuanc eu hysbrydoliaeth—y pulpud a roddodd osgedd i'r genedl—wrtho y cynneuai pob un ei ganwyll. Ond mae y pulpud yn Nghymru, yr ydys yn barnu, yn colli ei ddylanwad i ryw raddau; a phaham hyny? Nid yw areithyddiaeth yn llai poblogaidd, canys dyna hi wedi myned yn ysa areithyddol trwy Loegr. Dyna Thackeray, Dickens, ac eraill, yn myned oddiamgylch i adrodd ac i areithio eu llyfrau a'u darlithiau argraffedig eu hunain! a'r miloedd pobl yn cyrchu i'w gwranddo; canys y mae y wybodaeth a dderbynir trwy gyfrwng y llais a'r clybod yn effeithiolach na'r hyn a dderbynir trwy y gwelediad.

Cyn i'r wasg ddyfod i'r cae, cafodd y pulpud y maes Cymreig bron yn hollol iddo ei hun, a gwnaeth ddaioni anferth yn mhlaidd llényddiaeth a chrefydd. Ond bu iddo yntau ei anfodion, a methodd wneyd pob peth a ddysgwylid. Yn gyntaf, yn nyddgylch y pulpud yr aeth y Cymry yn ym-raniadau,—yn ben yn nghag eglwysig. Methwyd rywfodd gynnal undeb. Collwyd y *centre of gravity*. Awgrymir yn nesaf nad ydyw y pulpud Cymreig wedi bod mor feithrinol i wybodaeth ag y dylasai—na fu mor achlesol i lényddiaeth ag y dysgwyliesid—fod y genedl yn ei gysgod wedi myned yn fwy eiddil o ran gwir chwaeth feirniadol a dirodres—wedi myned yn fwy cul, mânaiidd, ac opiniwnog—fod y crefyddolion trymion a thalentog yr amser gynt yn myned yn anamlach—fod y tô hwnw yn darfod, ac fod yn dyfod yn eu lle ddynion mânach, a meinach, a gwamalach—mwy gwagsaw, arwynebol, a phengam. Darllenasom mewn rhagor na dau neu dri o'n Grealon mai pethau mân, lithrig, ac arwynebol—mai rhyw olehion a baldorodd sydd yn gwneyd i fyny "fwyd enaid" y mwyafrif o'r werin Gymreig—mai rhyw ysponc neu hollt sydd yn bachu yn y cof, ac yn gloewi y llygad. Os yw hyn yn ddarluniad cywir, mae diffyg mawr wedi bod yn rhywle; ac os y pulpud a foldiodd yr oes, mae y pulpud mewn rhan yn gyfrifol am y delweddau a gododd. Yn nesaf, byddir yn teimlo tuedd i ofyn ar y mater hwn, a ydyw y weinidogaeth Gymreig—pa un ai Eglwysig ai Ymneillduol—ddim wedi colli golwg i ryw raddau ar brif amcan pregethu, sef dysgu? A ydyw ddim wedi myned i wneyd rhy fâch o'r meddwl, a gormod o'r teimlad? Ai nid yn ngweithdŷ y teimlad, ac nid yn nheml y deall—yr *intellect*—yr ydys wrthi, neu wedi bod wrthi, eso y trosolion a'r gyrdd? Gwelsom ni, a gwelodd y byd Cristionogol, yn y rhuthr llwyddiannus a thrychinebus a wnaeth Mornnoniaeth ar grefyddolion Cymru, fod rhyw ddiffyg mawr yn ein cynlluniau addysgiadol, fod rhyw ysgriw yn llac; ac er ein holl ymfrost grefyddol, fod y werin eto heb eu gwreiddio yn y gwirionedd; fod eu gwybodaeth yn arwynebol, niwliog, ac annhrefnus; sef, mai wedi eu dirwyn—eu tanio—oeddid wedi wneyd i'r enwad hwn neu i'r enwad arall, ac nid eu gwreiddio a'u trwytho yn egwyddorion y Bibl, a'u hymresymu i Gristionogaeth. Y mae gofyniadau eraill yn ymgodi, canys yr ydys yn awyddus yn mhlaidd adferu yr hen allu llényddol hwn—yr "*Ewch a dysgwch*"—i'w effeithioldeb gwreiddiol. Ai y werin sydd wedi myned i arwain y pulpud yn Nghymru, neu ai y pulpud sydd yn arwain y werin? sef, Pa un ai y bobl sydd yn rhoddi gosgedd (*shape*) i'r weinidogaeth ai y weinidogaeth sydd yn rhoddi hyny i'r bobl? A oes dim mwy o awydd wedi myned i oglais y glust na goleuo y deall? ac yn bendisafdeu, i *sesteiddio* y bobl na'u cristioneiddio? Dywedai rhywun ddydd arall fod

y pulpud wedi myned yn dabwrdd sect, fod y pulpud yn gwastraffu ei nerth ar y manion,—ar y mintys a'r anis; sef ar bethau y clawdd ffin; *pynciau yr enwad*; y masgl; yr ūs; canys bydd y corff o Gristionogion yn cydwrdd yn y pethau pwysicaf.

Yr ydym ni wedi gwneyd yr awgrymiadau yma yn hollol amhleidiol-gan osod yr Eglwyswr a'r Ymneillduwr yn yr ua bwndel. Mae o'r pwys, mwyaf i grefydd i'r pulpud ddal ei asael a'i ddylanwad. Pan y gall fod swm a pharabl yn pwysu gormod yn nghlorian un blaid, dichon y ceir "y dawn" yna yn pwysu rhy fach yn mhulpud y blaid arall. Dyna, er enghraifft, fân fechgynys yn myned, dywedwch, i Goleg Dewi Sant, neu rhyw goleg Cymreig arall—Eglwysig neu Ymneillduol—ac yno yn ystwffio eu hymeniau esof y *classics* a'r *arts*; a phethau tra gwerthfawr ydynt hwy yn eu lleoedd. Ond dyna hwy yn dyfod allan yn dra amddifad, a moel, ac oerllwm, o'r teithi pregethwrol a bugeiliol—pulpudol ac isbulpudol; a dyna hwy yn ymsefydlu mewn plwyfydd neu gapelydd, heb feddu dim braidd o'r pethau a all y bobl eu gweld a'u teimlo. Byddant fel math o "*spas trees*," gan wneyd baldordd a chest parth eu *classics*; ond mor ddiffordd delff, a phendwpa, main, sych, a diafael, pan yn ceisio sefyll uwch ben tipyn o Gymry gwladaidd, neu mewn cyfeillach, neu gwrdd gweddi, neu wrth wely y clas, â chrwt o fugail yn ngwersi Euclid, neu Ianto'r Sgubell yn ymledu uwch ben y "*Principia*." Byddai y fath amryfusedd gwrthun ac annosbarthus yn ddigon i wneyd yn amhoblogaidd, ac i yru i'r clawdd, unrhyw gyfundrefn o wirionedd, ac unrhyw eglwys—cân nad pa mor ardderchog a phencelfydd y byddo.

Ni bu erioed beth dibarchusach a dirmygedicach na'r pregethwr pwt dysgedig—y pregethwr piff seithiaith. Dichon mai yr Eglwys Sefydl-edig sydd wedi gwyro fwyaf i'r eithafion Gilboäaidd hwn a enwyd. Ond dylid bod yn ochellog rhag yr eithafion gwrthgyferbyniol—pwl tro, trybest-awg, a thrwblog Charybdis; a'r Ymneillduwyr sydd mewn mwyaf o berygl y ffordd hon. Gocheled Ymneillduwyr esgeuluso dysgeidiaeth. Rhaid i weinidog yr oes hon feddu adnoddau bron yn ddihyspydd: nid rhyw *kurdy-gurdy* seith-tôn, seith-pregeth, a seith-pwnc, ond dyn yn gallu byw ar lŵg y *capital* sydd yn ei ben a'i galon. Byddai dda i'r Eglwys o honi hithau—yn ein barn ostyngedig ni—ddysgu i'w hymgeiswyr ieuainc am yr offeiriadaeth y rhan ymarferol—*practical points*—y weinidogaeth; canys pa les treulio blynyddoedd i hagi cryman, i'w grogi wrth fym tafnod am ei oes, ac yntau yr hurtyn yn gwagfrollo yn swrddanlyd am ei gryman, a neb yn gallu ei weled, gan ddwyn sarhâd arno ei hun, cadw y fedel yn ôl ddydd y cynauaf, a doddi ar ffô a gwasgar y medelwyr i gaeau eraill? Byddai yn dda i'r Eglwys yn neillduol pe syrthiai ar ryw gynllun i ddysgu medd; a goreu po gyntaf. Beth fyddai darpariaeth fel hyn?—sef yn gyntaf, boed pob ymgeisiwr am y weinidogaeth yn aelod o ryw eglwys. Yn nesaf, bod yn ofynol iddo yn ystod y gwyliau ymroddi ei hun dan arweiniad a gwasanaeth eglwysig offeiriad ei eglwys; a bydded iddo arfer ei ddawn yn y cymeriad, dywedwch, o athraw yr Ysgol Sul, neu "*Scripture-reader*," a rhodder iddo ffrwyth profiad a sylw ei offeiriad; neu lle ni byddo y fath offeiriad, boed yn ofynol iddo dreulio rhyw fisoedd dan aden offeiriad mewn cymydogathau poblogaidd, lle bydd digon o dir a gwaith; a bydded fod *tysteb* o dan law y fath offeiriad yn ofynol ar ddydd yr urddiad; boed i'r ymgeisydd gael arfer ei ddawn ac ymgyfuno i'r gwaith. *Diammheu gen-*

ym y gwnelai hyny ei ôl yn dra buan. Mae hi yn hen ddywediad fod arf bwt mewn llaw gelyydd yn well nag arf finlym mewn llaw bwt.

Mae y weinidogaeth Gymreig yn cael ei chyhuddo hefyd o orbwysiad tuag at y "grefydd athrawiaethol"—tuag at byncio, ar draul hawliau y grefydd ymarferol, a'r grefydd brofiadol; ac mai i hyn yr ydys i briodoli yn benaf yr holl ymbleidlo a'r cyndynddadleu—yr ymrwygo a'r hollti, gan wneyd sect ac offeiriadaeth i bob hollt; yr hyn ymraniadau sydd wedi gwneyd cymaint o niwed i'n cenedl ni. Pwnc, pwnc, hai ati! pan y bydd y moesau yn frwnt a'r profiad mor sych â Gilboa. Mae y cyndynddadleu hyn wedi gwneyd rhai broydd a blaenau yn Sir Aberteifi mor sych â cholwyn, a bron mor ddu. Pwnc fydd peth cyntaf pob cwmniaeth, gan ymledu, ymgrychneidlo, lluchio adnodau at eu gilydd, ymwylltio, a myned yn glampau o wrthgilwyr a chrachanfyddiaid. Un o niweidiau y fath weinidogaeth a enwyd fyddai rhoddi cyfeiriad anghywir i'r meddwl Cymreig; yna y llafur, a'r dalent, a'r amser, a ellid eu cymhwyso at bethau gwel, a wastreffir yn y peth a elwir esbonio—hollti blewyn yn saith—nyddu rholau am y meinaf—gan esgor ar yr hyn a adnabyddir gan ysgrifenywyr Seisonig y *Welsh Theology*, fel y ceir y Cymry anwyl, druain, fel rheol, wrthi yn y clawdd ac hefo y gaib—"Dadl Fedydd" yn un logell; "Almanac yr Enwad" yn y llogell arall; yn glampod mawr o dduwinyddion, dybiant hwy; a dyeithriaid—Saeson, Ysgotiaid, ie, Gwyddelod—yn myned heibio iddynt, gan feddiannu—tra bo y Cymro yn *settle* yr holltau—pob sefyllfa o barch ac elw, pa un ai lefel lô neu *station* cledrffordd; gan geisio bod hefyd yn aml gyda hyny yn glampod o Gristionogion difympwy a dirodres.*

Y cyfrwng nesaf ddaw dan sylw fydd,—

YR EISTEDDFOD.

Gelwid yr Eisteddfod gynt yn "Orsedd Beirdd," ac y mae yn sefydliad ag sydd wedi disgyn i lawr o'r oesoedd derwyddol. Tebyg ddigon nad oes yn Ewrop sefydliad llênnyddol henach. Dybenion gorsedd beirdd ydoedd cadw trefn a dosbarth ar gerdd dafod a thant, a rhoddi hyffordd i ddysgyblion, a graddoli ymgeiswyr teilwng; doddi cefnogaeth, a dysg, ac urddau, i wŷr wrth gerdd. Math o *universities* Celtaidd a chenedlaethol oeddent y gorseddau hyn yn yr hen oesoedd. Dyma lle y byddid yn graddoli gwŷr llên, ac yn rhoddi trwydded i'r clerwyr neu y beirdd teithiol. Gwelir ynte fod y gorseddau yn hen fagwrfeydd llênnyddol cenedl y Cymry. Fel y canlyn y dywed y Trioedd,—“Tri chynofydd cenedl y Cymry, cyntaf, Hu Gadarn a wnaeth glud a gosgordd gyntaf ar genedl y Cymry; yn ail, Dyfnwal Moelmud a wnaeth gyntaf ddosbarth ar gyfreithiau, breiniau, a defodau cenedl y Cymry; trydydd, Tydain Tad Awen a wnaeth drefn a dosbarth ar gerdd dafod a thant.”

Cedwid y gorseddau hyn tu fewn i'r "Maengylchoedd," a elwir yn gyffredin "Temlau Derwyddol;" ac ar y tymmorau pan fyddai yr haul yn un o'r Albanau, a'r bardd cadeiriog yn llywyddu; ac agorid yr orsedd trwy osod cleddyf noeth yn y wain ar y maen canol, a'r beirdd yn cynnorthwyo. Eis-

* Nid ydym yn tybied y caiff neb le i ddywedyd fod dim gogwydd egiwysyddol yn y swyddau blaenorol; ond os bernir gan rywun yn amgen, adddefir yn rhwydd mai llais o'r clochdy yw y traethawd hwn; a phwy o ddarllenwyr y TRAEHODYDD na chaniatâ fr *cleddyf ei lawl i'w farn a'i lafar yn gystal ag i'r ty cwrdd!*

teddid mewn barn ar y gystadleuaeth, a graddolid a rhoddid trwyddedigaeth i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Dyna hanes tarddiad ac amcan Eisteddfodau.

Ni pherthyn i ni yma roddi braslun o hanesyddiaeth Eisteddfodau o'r hen oesoedd hyd yn bresennol. Byddai yn bwnc dyddorol iawn i wneyd hyny, canys fe allai na cheffid drych gwell i ganfod cyflwr llényddol y Cymry ar y pryd nag ynglŷn â'r Eisteddfodau, ac ni bu yr Eisteddfodau mewn mwy o boblogrwydd erioed nag eu ceir y dydd heddyw. Pe byddid yn ymofyn am ganolbwynt y meddwl Cymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dywedwn mai yr Eglwys, y Capel, a'r Eisteddfod ydyw. Oddi-amgylch ogyrch i'r *central points* hyn mae y meddwl Cymreig yn troi, a dyma lle bydd rhaid i'r hanesydd ymofyn am nodweddiad meddyliol ein cenedl. Mewn crefyddoliaeth, mewn duwinyddiaeth, ac mewn cyfansoddiadau Eisteddfodol, y ceir yr amlygiadau cyflawnaf o ddysg a chrebwyll y werin bobl. Cyhoedder Eisteddfod, a dyna ferw a chyffro wedi ei wneyd trwy yr holl wersyll; bydd swyn Eisteddfod, mal y sylwai ysgrifenydd arall, yn galw allan egnïon y meddwl Cymreig, ac yn dihuo yr awen. Twymwelyau y talentau Cymreig ydyw yr Eisteddfod; udgorn yr adgyfodiad, yn swm swyngyfareddol pa un y dihunwyd llawer crebwyll ac awen ag a arosasent fyth, yn absenoldeb Eisteddfod, yn y masgl. Diammheu fod Eisteddfod wedi bod trwy yr oesau mor gynnyrchig â dim arall i ddwyn allan alluoedd eneidol cyffredinolion Cymry. Wrth edrych yn ôl ar hanesyddiaeth prif Eisteddfodau ein gwlad—dywedwn, o Eisteddfod fawr Caerfyrddin, O.C. 1450, hyd yn bresennol—ceir fod yr Eisteddfodau hyn fel cynifer o gydser yn awyrgylch Gwalia, yn dryfrith o feirdd ac enwogion, yn arllwys eu goleuni llachar arnom ni eu holafiaid hyd yn oes oesoedd.

Gyda golwg ar Eisteddfod, gellir chwaneu dywedyd,—Yn gyntaf, ei bod yn sefydliad hollol a gwahanredol Gymreig. Nid oes dim o'r fath sefydliad ymhlith un genedlaeth arall. Yn ail, mai sefydliad yw sydd yn tueddu yn ei natur i feithrin gwybodaeth a moesau da. Pan fydd gan y Saeson a chenedloedd eraill eu sefydliadau cystadleuol, gyrfeydd a chwaredyddiaethau fydd testunau eu cystadleuaeth hwy. Yn drydydd, mae yr Eisteddfodau hyn, yn ddiammheu, wedi rhoddi gosgedd neillduol i'r meddwl Cymreig; canys i'r Eisteddfod, fe allai, yn fwy nag i ddim arall, y mae i ni roddi cyfrif am nodweddiad awduriaethol y werin Gymreig. Y mae fod cyhoeddiadau misol yn cael eu porthi gan awduriaeth y bobl weithgar, yn amgylchiad perthynol i Gymru yn unig. Mantais ai fantais hyn a ddaw dan sylw eto. Hefyd mewn cysylltiad a than nawdd Eisteddfod y mae rhai o gynnyrchion llényddol mwyaf ardderchog Cymru wedi dyfod trwy y wasg. Gellid enwi yma er enghreifftiau—cynnyrchion Eisteddfod Caerfyrddin, 1450—Bardd Cadeiriog, Dafydd ap Edmwnd; Eisteddfod Caerwys, 1461—Bardd Cadeiriog, Tudur Aled; Eisteddfod Caerwys, 1565—Bardd Cadeiriog, Simwnt Fychan; Eisteddfod Bewpyr, 1681—Bardd Cadeiriog, Edward Dafydd; Eisteddfod Caerfyrddin, 1819—Bardd Cadeiriog, Iolo Morganwg. Dyna hwy, rai o honynt, math o ganolgyrch goleuni (*foci*) eu hoessau oeddent, ac ydynt, yr Eisteddfodau yma, dim ond eu cadw yn ddilwgr.

Beth bynag, y mae genym yn nesaf i achwyn fod cryn ddirywiad yn cymeryd lle yn mater yr Eisteddfod, fel y gwnelai un ysgrifenydd yn ddiweddar gwyn cyhoeddus, fod yn bryd gwneyd alarwm, a galw ar wŷr llen a beirdd ein gwlad i ymglyfryngu a chynnyg at adferu trefn. Mae yr Eisteddfodau yma yn myned yn rhy aml,—yn rhy fân,—yn rhy fain; maent

yn syrthio i ddwyllaw dynion dinod a difarf; ac yn waeth na'r cwbl, y mae yr hen sefydliadau cenedlaethol hyn yn cael eu benthycu a'u gŵyrdröi i droi melin Eglwys, i droi melin Sect, a melin Capel, a melin tŷ tafarn. Byddai yn well cyfryngu, neu fe ỳr y tafarnwr, a'r talcen slip, yr hen sefydliad cenedlaethol hwn i anfri ac i andras. "Pob peth ar ei waelod ei hun, fy mhlant i." Hefyd, fel y sylwa ysgrifenydd arall, y mae gormod o goeg chware, a gormod o lacrwydd, ynglyn â chyfranu graddoliant. Yr ydys yn tybied y derbynir llawer i fewn i'r urdd farddonol na feddant yr awen, ac na wyddont ar farddoni rheolaidd, ac fod yn Nghymru dderwyddfeirdd wedi derbyn graddau Eisteddfodol, os nid cadeiriog, na roisant erioed brawfion o'u medrusrwydd mewn rhanau is derwyddiaeth na barddas; dim ond eu bod yn cael eu graddoli mewn rhyw foesydnabyddiaeth am ryw ddoniau eraill o'r eiddynt. Os ydys am adferu urddas yr orsedd lenyddol, rhaid ymlynu yn ddiwrthgil wrth athrawiaeth yr hen eiriau cysswyn "Y gwir yn erbyn y byd," "Yn ngwyneb haul a llygad goleuni."

Nac anghofier hefyd yr arwyddair arall, "Da'r maen gyda'r efengyl," canys yn ddiweddar, ac mewn cysylltiad â gorsedd neu ddwy, y mae sarhâd wedi ei ddwyn ar yr orsedd gan ryw ymhoniaid o foesau llac, mympwyol, a chronfachlyd—chwydion pob cymdeithasau eraill; y rhai trwy eu cleber oferwag, eu meddwod, a'u hanffyddiaeth, sydd wedi peri i'r cristion, y llênor, a'r gŵr boneddig, ddrwgdybio, ymddeol, ac aros o bell. Cofier ynte, "Da'r maen gyda'r efengyl," "Gair Duw yn uchaf;" ynghyda chyrcheiriau tebyg o eiddo ein henafiaid trylen a duwiol nad yw yr eiddilod yswagrog a niwliog a enwyd deilwng o honynt. Clywch chwi, y mân anffyddwyr bloeddgar! ni bydd i ni Gymry ddim cyweithas â chwi, oddi rhwng yr hen feini oesol hyn, ond tra y cydnabyddir "Gair Duw yn uchaf," yn yr hwn air yr ymgongla ein hangor ni y Cymry, ac wrthi yr ymhongianwn ac yr ymddisgynwn yn anfrysaig a digynhwrf pan ddaw hi arnom yn hwyr brydnawn, dros y wâl ddiadlam, gan gyfnwied "Cylch Gwalia" am "Gylch Gwynfyd." Bydd i ni, fechgyn, ddal ein gafael yn ddiymollwng wrth yr angor hwn. O! gwnaeth, ni a wnawn hyn; a poed i chwithau druan tlodion bwyll ac ystyriaeth.

Mae anfri arall yn nghesail a chysgod gorsedd ag y dylid ymochel rhagddo, sef gochelyd ymbenfeddwi ac ymbendroni ar y peth a elwir Cymru a Chymraeg. Y mae "Young Wales," fel yr "Young England," yn enw yn gyffredin ar benboethiaid cyfundrefn. Bydd ymlyniad y dosbarth hwn o Gymry wrth eu cenedligrwydd, wedi eu cario, beth bynag yn marn y pwylllog, yn rhy bell a dwl. Yn lle ugain mlynedd o ddarllen pwylllog a chynnil yn henesyddiaeth ein gwlad, a chynnyrchion ein henafiaid, yn rhy ysgol un-nos y byddir wedi bod, ac eir yn ddioraeth, ac ymswrddanir ar Abacadabra—enwan Groeg diawdurdod a breuddwydiol, megys "Maen Ambawr," "Nôd Cyfrin," "Croth Ceridwen," "Pair Annwfn," "Cylch Abred," "Menw ap y Tair Gwaedd," "Coelbren y Beirdd," "Gomerick Era," "Trojan Era," "Corwgl Gwydrin," a rhyw rês eraill o Abacadabra, lol potes, yn peri i'r pwylllog encilio, ac i'r estron feddwl mai cenedl o humbygolion ydym.

Yr ydym ni yn ammheus a oes genym ni yn bresennol yn ffurfafen lenyddol Gwalia y fath drwp-sêr neu *constellation* trylachar ag sydd wedi eu cael bron ymhob oes o'n hanesyddiaeth. A oes genym y fath gydsêr a *wnai ffurfio*, dywedwn, y *Cymrodorion Society*, 1760, dan raglawiaeth

Richard Morris, neu wedi hyny cydser y "Gwyneddigion," Owen Myfyr, Siôn Ceiriog, Rhobin Ddu, Dr. Owen Pughe, John Jones, Glan-y-gors—pob seren yn Aldebaran. Ofnwn fod oesoedd y cewri wedi myned heibio—dynion deng mlynedd ar hugain o ddarllen—dynion wedi eu cymedroli a'u sobri gan bwyll ac addfedrwydd, ac nid dynion un-nos yn feddw' ar eiriau baglog a breuddwydiol; yn suro pob Cymro goleubwyll gan eu trybestawd anaddfed. Ni ddymunem roddi i fyny i neb yn ein cenedligrwydd, ond oferedd i ni faldorddi mai ni biau y byd mewn barddoniaeth a llényddiaeth. Gwell tynu hwyll neu ddwy i lawr. Pan yn cylchdremu yn yr "Amgueddfa Frytanaid," yr ystafelloedd eang yn orlawn o weddillion celfyddydol yr Aipht, Caldea, Etruria, Groeg, a Rhufain—yn nghanol yr adfeilion hyn o fawredd a choethder, ac athrylith yr hen oesoedd, bydd y Cymro anwyl a fagwyd yn swm tabwrdd yr ysgol wyllt, yn gofyn yn synedig,—“A chlywch ddy— a ble mae y gweddillion Celtaidd?” a'r adsain o geudawd y *Nimroud Obelisk* yn ateb—“A ble?” Pan ddarfu i Macpherson ddadgan y perthynai i'w genedl ef—y Gaeliaid—gynllényddiaeth o fri, a phan y gwasgwyd arno am yr “*ad demonstrandum*,” efe a allodd trwy rym athrylith wneyd llényddiaeth deilwng o “*Augustian Age*” Rhufain. Ond ni chododd un Macpherson yn ysgol yr “*Young Wales*.” Beth bynag, na chamddealller ni, ag ystyried ein rhif, a'r cornelyn bychan ag ydym wedi cael ein crytio iddo,—perthyn i ni, heb fyned i freuddwydio a fflughoni, llényddiaeth nad oes achos i ni blygu pen yn mhresenoldeb teyrnaesoedd amser; ond fod llényddiaeth y Cymry, mewn cymhariaeth i'r uchodion, yn llényddiaeth ddiweddar, beth bynag, hyd nes rhydd awdwr mympwyol a niwlo y “*Cambrian History*” i ni gynnyrchion y “*Gomeric a'r Trojan Eras*,” y rhai a ofnwn sydd wedi myned yn ngholl i Abred. Mae gan Gymry y canoloesoedd “chwedl-ddysg” enwog, yn ddigon ynddi ei hun i godi bri ein cenedl, a hi a roddodd gyffro ac adfywiad unwaith i llényddiaeth Ewrop; ond yn nwyllaw rhai ysgrifenyddwyr diweddar ysgol y Bendro, awd yn feddw ar y “chwedl-ddysg,” a rhoddwyd iddi nodweddiad hanesyddol, ac adeiladwyd melin ac eglwys ar y cynseiliau chwedleuol hyn. Aethpwyd dan seiliau tystiolaeth hanesyddiaeth—dygwyd y Cymry i anfri—a thybiodd estroniaid nad ydoedd gan y Cymry ddefnyddiau hanesyddiaeth anfreuddwydiol. Da genym weled gwawriad tymmor gwell. Mae y “Brutiau,” a'r “Trioedd,” a'r “Chwedl-ddysg,” yn cael eu gosod yn y nithraw feiriadol. Gwnaeth Carmhuanawc a'r Athraw Rees wasanaeth mawr. Nid coegddysgawdwy'r oeddent hwy; meddent adnabyddiaeth helaeth o henafion ein gwlad; yr oeddent yn wŷr llên o farn a phwyll, difympwy a dirodres, yn ddigon diragfarn i wrthod pob chwedl ddisail, ac yn ddigon gwrol i amddiffyn pob gwir. Y mae genym hefyd ymddiried fod Mr. Thomas Stephen, Merthyr, yn feddiannol ar y teithi hanesyddol hyn; a theimlwn yn ddiolchgar iddo am ei ymchwiliion craffus a phwylllog.

Wrth ddybenu siarad ar y gallu hwn ar gaer Llényddiaeth Cymru, sef yr Eisteddfod a Gorsedd Beirdd, ni a ddywedwn, os yw y peth a elwir “Gorsedd Beirdd” i ymbarhâu, bydded fod llais a graddiant Gorsedd yn sefyll am rywbedd. Poed ei graddiant yn rhoddi sicrwydd i'r wlad fod rhywbeth yn mhên y dyn—fod ganddo athrylith, fel y gall y wlad osod hyder yn urddiant yr orsedd, ac yn nghynnyrchion yr urddedig. Nid oes dim o'r fath beth a hyn yn bresennol. Nid yw graddiant gorsedd amgen na botwm plwm Titotalia; ac y mae gweled rhodrea a swagrt clampod mawr o

ddynion gyda y botwmau plwm hyn yn chwerthingar iawn iawn. Er derchafu ac adferu safon Gorsedd Beirdd, nid oes rhaid dim yn amgen na glŷnu yn ddiwrthgil wrth yr hen arholiadau. Cymerer yma fel enghraifft arholiad "Dysgybl Yspas," sef cyn i bethau fyned yn fain whiw-whaw-dinbenstrellach, ar ol i'r awen a llênnyddiaeth Gymreig fyned i ddwyllaw pobl annysgedig, anghlasurol; ac nid bai y dynion hyn a roisant nawdd i bethau Cymreig ydoedd i'r gwŷr llên a'r bendefigaeth droi eu cefn ar haul Gwalia, a hi, fel y tybient, yn myned i lawr. A ganlyn ydoedd anhebgorion "haw! Clera:"— "Dysgybl Yspas Cerdd Dafawd a ddylai wybod y Sillaffau, a phum' mesurau Englyn, nid amgen, 'Unodl Union,' 'Unodl Grwcca,' 'Unodl Gyrc,' 'Proest Gadwynawg,' 'Proest Cyfnewidiog,' a mesur ar 'Gywydd Dau Air Hirion;' a'u canu yn awenyddgar yn marn Pencerdd a ddywedo ar ei gydwybod a ellir Prydydd o hono." Yn awr, safai "Dysgybl Yspas" (*probationary*) wrth ffôn isaf yr ysgol; ac mor ofalus ydoedd ein henafiaid i osod ymhoiadaid a Bon-Cler yn y glorian! A phe adferid y gofalgarwch hon adferid arhydedd yr hen orsedd, a byddai graddiant yn drwydded i'r dyn ac i'w gynnyrchion.

Awn rhagom yn ein nesaf at gyfryngau eraill gwybodaeth y Cymry.

YR HINDW A'R CELTIAD.

GAN Y PARCH. W. PRYSE, SYLHET, INDIA.

ANHAWDD ydyw ysgrifenu dim a fyddai yn ddifyrus, a mwy anhawdd ysgrifenu dim a fyddai yn suddiol, ynghylch Hindwaidd y Dwyrain, i Gymry y Gorllewin. Nid oes fawr le i ammheu nad ydoedd yr hen genedl Geltaidd, o ba un nad yw y Cymry ond dryll bychan, càn hyned â'r cenedloedd Hindwaidd. Eithr nid oes yr un prawf nad ydyw y Cymro a'r Hindw gwedi bod yn berffaith ddyeithriaid i'w gilydd, o ddyddiau Peleg hyd y dyddiau diweddaff hyn. Cymerir yn ganiatäol yma, heb gynnyg profi, fod y Cymry yn cynnyrchioli yr hen Frytaniaid; a bod yr hen Frytaniaid yn ddryll o'r hen genedl Geltaidd, yr hon a ddisgynodd o Gomer fab Japheth, a Tarshish fab Jafan; y blaenaf yn gyndad Celtiaid Cyfandir Ewrop, yn gystal â'r Prydeiniaid, pa rai a ddaethant drosodd o Galia; a'r olaf yn gyndad y Tyriaid, y Carthaginaid, a'r Pheniciaid boreuol, pa rai a ymsefydlasant yn yr Iwerddon a dê-orllewin Ynys Prydain. Cyffyrddir â'r mater hyn eto ychydig ymlaen. Tebyg ddiigon ydyw i gyndadau y Cymro a'r Hindw fod yn frodyr yn sugno yr un bronau, ac yn chwareu oddiamgylch yr un bwthyn yn y byd cynddylifawl, ryw bedair mil a hanner o flynyddoedd yn ol. Myn y Cymro mai Japheth drwy Gomer ydoedd ei gyndad ef yn nechreuad y byd newydd ôl-ddylifawl. Pwy ydoedd cyndad

yr Hindw? Golyga llawer mai Japheth drwy Madai. Haera Michaelis fod yr enw Lud (Gen. x. 22) wedi ei lygru, ac mai Hud neu Hind a ddyllasai fod.

Anhawdd ydyw penderfynu pa le a pha bryd yr ymwahanodd yr Hindw a'r Celtiad. Y mae llawer o debygolrwydd rhwng eu trefniadau a'u hegwyddorion cymdeithasol a chrefyddol yn moreuddydd yr hil. Y Rishia Brahminaidd a debygent i'r Derwyddon Celtaidd; llwyni cysegredig nefoedd India a gyfatebent i eltydd derw y Celt; athrawiaeth drawseneidiol y naill ni wahaniaethai oddiwrth yr unrhyw yn nghredo y llall. Cyfaredd y Derwydd a *mantra* y Brahman; cyfrin y naill a *smriti* y llall; "Tricoedd" y naill a *sutra* y llall; iaith gysegredig a byr ddywediadau cyfriniol y naill, a *Deva Nagri* y llall, a debygolent i'w gilydd. Dysgyblïoff y Derwydd a'r Brahman mewn cyffelyb fodd a dderbynient eu haddysgwersi ynghylch y ffurfafen a'i harwyddion, ynghylch clefydau a chyfferi meddygol, ynghylch llywodraeth a gwladweiniaeth, ac yn neillduol ynghylch duwinyddiaeth a chrefydd, mewn synwyrwersi barddonol. Duw Celi y Celt a gyfetyb i Brahman neu *Om, Tat, Sat*, y Brahman; Duw Dofydd y blaenaf ydoedd gyffelyb i *Satya, Raja, Tamah*, yr olaf. Awdurdod a dylanwad y Brahman ar feddyliau ei gydgrefyddwyr ydynt gymaint hyd heddyw ag ydoedd yr eiddo Derwyddon Bangor yn nyddiau eu gogoniant.

Y mae lle cadarn i greu mai yr hen genedl Geltaidd ydoedd y don flaenaf o'r hil ddynol, pa un a ymwithodd o radd i radd tua'r gorllewin. Cryd yr hil ydoedd ucheldiroedd Elam a Media, neu Iran a Turan, fel y gelwir hwynt yn Asia; yn cyrhaeddyd o "Sephar mynydd Cedem," hyd Ararat. Tybir mai nid yr Hindwaid oeddynt breswylwyr cyntaf India; neu o leiaf, y cynnwys y gwahanol genedloedd, pa rai a elwir Hindwaid yn bresennol, amryw heidiau, pa rai a ymfudasant i India ar wahanol amserau, ac a ymgorfforasant yn raddol er ffurfio y gyfundraeth Hindwaid o grefydd a gwladweiniaeth. Yr haid olaf yn barhaus a honai eu rhagoriaeth ar y flaenorol. Yn y dull hyn o raddol ymfudiad, ffurfiwyd cymdeithas yn bedair hân, *jât*, neu caste, pa rai a elwir Brahman, Kshetriya, Vaisha, Sudra. Y dosbarth olaf a enwyd a gynnwysai yr haid gyntaf o ymfudwyr; y trydydd dosbarth yr ail ymfudiad; a'r ail a'r cyntaf mewn cyffelyb fodd a gynnwysent y trydydd a'r pedwerydd ymfudiad o ucheldiroedd Media ac Iran. Yn bresennol, cynnwysir rhai cannoedd o *Jâts* neu *Castes*, pa rai a ffurfiwyd trwy ymgymysgiadau priodasol. Fe allai y dylid sylwi yma, yr arwydda y gair Sanscrit, *Jât*, enedigaeth; ac y deillia y gair *Caste* o'r gair Portugaidd "Casta," yn arwyddo defodau a hawliau gwahanol ddosbarthiadau cymdeithas. Oddiwrthynt hwy, mabwysiadwyd y gair gan holl genedloedd Ewrop er dynodi dosbarthiadau cymdeithasol yr Hindwaid. Yr Hindwaid henafol ni ddefnyddient y gair "*jât*," eithr "*barna*"—lliw, neu ddosbarth. Dyfais ddiweddarach oedd priodoli y dosbarthiadau cymdeithasol hyn i enedigaeth.

Teg ydyw sylwi yma na chyduna y desgrifiad uchod o gynffurfiaid y pedair *Jât*, a'r golygiadau Hindwaid ar y mater. Dyma ddesgrifiad yr hen ddeddfroddwr Menu o'u tarddiad:—"Er mwyn cynnalïaeth y grëadigaeth, penodai y Goruchaf wahanol swyddau i'r rhai hyny a darddent o'i enau, ei fraich, ei forddwyd, a'i droed. I'r Brahman penodai y dyledswyddau o addysgu, darllen, aberthu, a chynnorthwyo at aberthau; ac o rodai a derbyn ÷usenau. Yr eiddo y Kshetriya, yu fyr, ydynt amddiffyn y bobl,

rhoddi elusenau, aberthu, darllen, a rhyddid oddiwrth chwantau cnawdol. Yr eiddo y Vaisha, gwarchod diadelloedd, rhoddi elusenau, aberthu, masnachu, rhoddi arian ar usuriaeth, a hwsmoniaeth. I'r Sudra penodai y Goruchaf un ddyledswydd yn unig, sef gwasanaethu y dosbarthiadau eraill yn ddirwgnach. O fodau crëedig, y rhagoraf ydynt y bywydol; o'r bywydol, y rhagoraf ydynt y rhesymol; o'r rhesymol, yr hil ddynol; o ddynolryw, y Brahman; o'r Brahmin, y dysgedig; o'r dysgedig, y rhai ydynt fedrus yn eu dyledswyddau; o'r medrus, y rhai a'u cyflawnant; ac o'r rhai a gyflawnant eu dyledswyddau, y rhai a gyndeithasant â'r Bôd Goruchaf." Felly y disgrifia Menu darddiad y pedair Jât.

Bellach dychwelwn tuag ucheldiroedd Turan a Sephar mynydd Cedem. Pe gallem gael hyd i hynafiaethau yr ucheldiroedd hyny, byddai yn llawer o gynnorthwy i ni er olrhain tarddiad llawer o ddefodau y Celtiaid yn gystal a'r Hindwaid. Yr ucheldiroedd rhwng dyffryn Cashmere â Môr Caspian a elwid gynt Airiana ymysg y Groegiaid. Dywed Herodotus* y gelwir y Mediaid, Airioi, gan yr henafiaid. Yn llyfrau y Zend, gelwir y tiriogaethau hyny Airyana Vaedesho neu Maedye Sho, sef y Canoldir. Ymysg y Persiaid, Iran, neu fel y seinir y gair yn Asia, Air-an, y gelwir, nid yn unig y wlad a elwir Persia yn bresennol, ond hefyd y taleithiau i'r gogledd-ddwyrain iddi. Yn moreuddydd hanesyddiaeth, yr enw Aria neu Airia a roddid i'r holl diriogaethau o'r tu dwyrain i anialwch y *Salino Nitrosus* a Môr Caspian; pa rai a gynnwysent Bactria, Sogd, Areia, Hyrcania Nisea, Drangia; ac yn ddiweddarach cynnwysid Media a thaleithiau eraill mwy gorllewinol o dan yr enw Aria. Ynghylch tymmor Zoroaster a'r prophwydi Iuddewig, y daeth yr enw Media i arferiad. Yn y Zend a'r Sanscrit gelwir y wlad hono Madhye—hyny yw, Canol, mewn cyfeiriad at ei sefyllfa ganolig rhwng ucheldiroedd y *Cadusii* a gwastadedd Mesopotamia. Dyma gryd a chartrefe cyntefig yr Hindwaid a'r iaith Sanscrit.

Yn amser Herodotus a'r brënoedd Persiaidd, cynnwysai ymherodraeth ëang Darius yr holl diriogaethau hyn. Herodotus† a ddywed fod yr Indiaid y genedl fwyaf lliosog ar y ddaear; yn gwneyd i fyny yr ugeinfed *satrapi* yn yr ymherodraeth. Y Persiaid henafol a alwent wlad yr Indiaid "Hidhu;" pa enw a ddefnyddir hefyd gan yr hanesydd Iuddewig. (Esther i. 1—Hëb.) Y mynydd-dir rhwng India a Cabool a elwid Gandarion gan y Groegiaid, a Gandharaneu Parvatya—hyny yw, mynydd-dir, gan yr Hindwaid henafol. Galwai yr Hindwaid y mynyddoedd hyny Par Npânishadha, o ba un y cafodd Pliny ei Paropamisus. Prifddinas yr *Highlands* hyny ydoedd Cabura, yn awr Cabool. Yr Ariaspi a breswylent lënydd yr Arachotôs, ac Etymandros, neu Arghaud a Helmund. Yn nê-ddwyrain Drangha y preswyliai y Saca neu y Scythiaid,‡ yn Sacasthan neu Seistan. Yn Gedrosia, yn awr Mëkrân, y preswyliai y Mykoi;|| a dyffryn firwythlawn afon Heri, Hariwa, neu Herat, ydoedd cartrefe yr Areias.§ O'r ucheldiroedd hyn, fel y tybir, dylifodd heidiau yn ol heidiau i lawr i ddyffryn y Sindhu neu yr Indus; pa rai a ymwasgarent yn raddol dros wastadedd y Panjab, nes o'r diwedd gyrhaedd gwastadedd ëangach y Yamuna a'r Ganga, a sefydlu teyrnas gadarn yn Oujadha neu Onde.

Gwahaniaetha ymfudiad yr hen genedl Geltaidd tua'r gorllewin, oddiwrth

* Llyfr VII., 62. † III., 94. ‡ Herod., VII., 64. || Herod., III., 93. § Herod., III., 117.

yr eiddo yr Hindwaid tua'r dwyrain, yn y pethau canlynol, ymysg eraill:—Y Celtiaid a wthiwyd yn raddol o gymydogoethau y Môr Du a thir Groeg ar draws Ewrop, hyd nes y cyrhaeddasant Gaul a Phrydain; yr Hindwaid o Bamean a Balkh a allasant gyrhaedd dyffryn yr Indus mewn ychydig wythnosau. Disgynai y Celt o hil Japheth yn benaf, yr hwn, fel y tybir, a ymsefydlodd yn Thessaly; disgynai yr Hindw o hil Shem, yn benaf, yr hwn, yn ol traddodiadau Asia, a ymsefydlodd fel prophwyd enwog yn mynydd-dir Bhami neu Bamean, rhwng Balkh a Cabool. Fe allai ei fod yn werth sylw y geill canlynwyr Buddha yn Nwyreindir Asia dref Bamean, *Shami*, hyd heddyw; a chyfrifant hi yn ffynonell purdeb a dwyfol wybodaeth. Yr Hindwaid yn wahanol heidiau, ac ar wahanol amserau, a ganlynasant yr un llwybr er cyrhaedd gwastad-diroedd Hindusthan; tra y poblogid Prydain trwy ddau lwybr hollol wahanol—y naill dros gyfandir Ewrop o ogledd Groeg, a'r llall o Phenicia dros Fôr y Canoldir. Yn hyn y mae tebygolrwydd rhwng y Celt a'r Groegiad, yr hwn a ymfrostia o'i berthynas â'r Dwyrain drwy Perseus yr Assyriad, ac â'r Aipht a Phenicia drwy Cecrops a Cadmus.

Tueddir ni i feddwl y poblogid Brydain o Groeg a Phenicia oddiwrth y pethau canlynol, ymysg eraill:—Yn gyntaf, Ysgrifenydd hynaf Groeg a broffesant gysylltiad eu cyndadau â'r Hyperboreoi, pa rai, yn ol traddodiad yr hen Roegiaid, a breswylent mewn rhyw ynys yn y môr gogleddol, y tu hwnt i darddiad yr Ister neu y Danube yn ngwlad y Celtæ. Y Celtæ hyn a addolent Apollo, ac a ddanfopent eu gwryfyon yn achlysurol at oraclau Delos, ac yn enwedig at y Zeus a breswyliai allt dderw Dodona. Ymysg y gwryfyon hyn enwa yr hen Roegiaid Opis, Arge, Hyperoche, Laodice, &c. Yn ail, Traddodiadau a arwyddant ymfudiad y Pelasgiaid tua'r gorllewin, pan yrwyd hwynt ymaith gan ogleddwyr Hellas; ac nid oes dim mewn unrhyw draddodiad, can belled ag y gwyddom ni, i ddangos na thramwyodd rhai o bonynt can belled â Gaul a Brydain.* Yn drydydd, Nid ydym yn sicr y dylid taflu ymaith yr oll a ddywedir gan Geoffrey o Fynwy fel dyfeisiau disail. Addefwn fod gwallau yn ei amseryddiaeth; eithr nid ydyw hyn yn un prawf nad allasai "Brut neu Brute frenin" fodoli ac ymsefydlu yn Brydain. Yn bedwerydd, Y "Trioedd" Cymreig a gyfeiriant at gymydogoethau y Môr Du, fel y tybir, o dan yr enw "Defrobani Gwlad yr Haf," fel cartrefe gyntefig y Prydeiniaid. Yn bummed, Gweddillion Deheudir Rwsia, gogledd-dir Groeg, ac amgylchoedd y Môr Du, ydynt o'r un natur, ac wedi eu hadeiladu, yn ol traddodiadau y gwledydd hyn, i'r un dyben â chromlechau Derwyddol gorllewin Ewrop.† Y rhesymau hyn a'u cyffelyb a'n tueddant i gredu yn ymfudiad y Celt dros Gyfandir Ewrop i Frydain. Dyma y gangen Omeraid.

Soniwyd uchod ynghylch trefedigaethau Tyriaidd neu Pheniciaidd, pa

* Gwel broffon o hyn, ac o amryw eraill o'r sylwadau uchod, gwedi eu caaglu a'u cyfleu gyda medrusrwydd a diwydrwydd mawr yn "Gomer," Vol. I. *Appendix*. Trueni na chafogasiad awdwr parchedig a galluog "Gomer," gan holl genedl y Cymry, i ddwyn allan hanes gyflawn a manwl o'r hen Frytaniaid, eu crefydd, deodau, a llenyddiaeth; can belled ag y gellir caaglu yr elfenau anghenrheidiol i'r perwyl hwnw o hen ysgrifenydd Groeg a Rhufein; o'r mân ddarnau o lenyddiaeth a hanes y Brytaniaid ar gael yn mhrif lyfrgeloedd Ewrop; o gromlechau, gweddillion Megalithic, a metelaidd Prydain a'r Cyfandir; o'r ychydig hen fathau (*coins*) ar gael; ac oddiwrth berthynasau geirymodol, iaithyddol, a thradodiadol, rhwng yr hen Brydeiniaid & thrigolion y Cyfandir—Italy, Groeg, a Deheudir Rwsia.

† Gwel Dr. E. D. Clarke's "Travels in Russia, Tartary, and Turkey, &c."

rai a ymfudasant ac a ymsefydlasant yn foreu yn y Cassiterides, Cornwall, yr Iwerddon, a rhanau eraill o orllewin Ynys Brydain. Gellid nodi y fath resymau a'r rhai canlynol dros gredu felly:—Yn gyntaf, Tarshish, mab Jafan, a ymsefydlodd yn ynysoedd yr Atlantic, ac at yr ynysoedd hyny y cyfeiria yr ysgrifenywyr Iuddewig, yn gyffredin, o dan yr enw Tarshish. Y mddengys i ran o hiliogaeth Tarshish ymsefydlu hefyd yn nê-ddwyrain Asia Leiaf ac yn Phenicia. Mewn cyfeiriad at hyn, dybygid, y geilw Esaiah Tyrus yn "ferch Tarshish." Nid annhebyg ydyw i'r Cushiaid, pa rai a breswyliant yn Sidon, gynnorthwo hil Tarshish i adeiladu Sor neu Tyrus ar y cyfan-dir, ac fe allai i'r ddwy gangen ymgymysgu. Pa fodd bynag, eglur yw fod undeb a chyfeillgarwch mawr rhwng Tyrus a Tarshish er yn foreu (Gwel Esa. xxiii.; Eze. xxvii.) Lowth a dybiai y gelwid Tyrus yn "ferch Tarshish," oblegid "gwedi cwmp Tyrus, Tarshish ydoedd y brif farchnadfa." Yn ol y golygiad hwn, galleid meddwl y buasai y gair "mam" yn fwy priodol na "merch." Eithr os Tarshish (Gen. x. 4) ydoedd cyndad trigolion Tyrus a Tarshish (neu Brydain), diflana yr anhawsdra i raddau mawr. Dywed Josephus y gelwid Cilicia yn y cynoesoedd, Tarshish. Eithr eglur yw na chyfateb Cilicia a deheudir Ysypaen i ddesgrifiadau y prophwydi a'r ysgrifenywyr Iuddewig o Tarshish. A chan fod y desgrifiadau hyny yn bwrpasol i Carthage a'r ynysoedd Prydeinaidd, dadleuir yma mai hwy a olygid o dan yr enw Tarshish. Yn ail, Prif hynodrydd Tarshish ydoedd ei llongau a'i masnach. (Gwel Psal. xlvi. 7; Esa. ii. 16; a xxiii. 1, 14; Eze. xxvii. 25.) Cysylltir Tarshish agos bob amser, gan ysgrifenywyr Iuddewig, gyda rhyw "ynysoedd pell." (Psal. lxxii. 10; Esa. xxiii. 6; a lx. 9; a lxvi. 19.) Tybiai Jonah Tarshish y lle diogelaf i ffoi iddo (pen. i. 3), yr hyn a rydd amnaid i ni ei fod ymhellach na Cilicia, fod rhyw gyfrinach yn ei hanes, a'i fod allan o gyrhaedd dylanwadau dynol a dwyfol gorllewin Asia. Yn drydydd, Rhoddir y lle blaenaf i Tarshish ymysg y galluoedd cynghreiriol er gwrthwynebu Gog a Magog yn eu hymdrech i attal dychweliad ac adsefydliad yr Iuddewon yn y dyddiau diweddfaf. Y pryd hyny bydd cangenau neu drefedigaethau Tarshish yn "llewod ienaic;" mewn cyfeiriad, fe allai, at arwydd fanerol Brydain a'i threfedigaethau. (Gwel Eze. xxxviii. 8—17.) Yn bedwerydd, Masnach ydoedd prif nodweddiad ac enwogrwydd Tarshish y prophwydi Iuddewig. Ei phrif nwyddau masnachol yn nyddiau Ezeziel oeddynt;—Ceseph, Barezal, Bedile, ac Ophereth; pa rai a elwir gan y LXX., *αργυριον, χρυσιον, σιδερον, a κασσιτερον*; a chenym ni, arian, haiarn, alcam, a phlwm (Eze. xxvii. 12; Jer. x. 9). Y syrnanu anferthol o arian, pres, a haiarn, a gasglwyd gan Dafydd frenin a'i fab Solomon tuag at adeiladu y deml, a gasglwyd trwy offerynliaeth Hiram a'i Dyriad (1 Chron. xxii. a 2 Chron. ii). O ba le y cafodd Hiram hyd i'r meteloedd hyn yn y fath gyflawnder? Etyb Ezeziel yr holiad: "o Tarshish."

Gwelir oddiwrth hyn fod Tarshish yn enwog mewn masnach er yn foreu iawn, ac mai meteloedd ac arfau oeddynt ei phrif nwyddau. Yn y cysylltiad hwn y mae cadwen o dystiolaethau lled eglur, yn ymestyn dros lawer o flynyddoedd. Y mae y gadwen yn ddwy gainc—yr Iuddewig a'r Roegaidd. Dafydd a Solomon 1000 cyn Crist; Homer, fe allai 100 yn ddiweddarach; Jonah 50 ar ol Homer; Esaiah 50 ar ol Jonah; Ezeziel 200 ar ol Esaiah; Herodotus 100 ar ol Ezeziel; ac Aristotle gynifer ar ol Herodotus. Yn iaith yr ysgrifenywyr Iuddewig a enwir yma, cawn ryw

wlad fasnachol o'r enw Tarshish, yn enwog am longau, ac yn dal cysylltiad agos â'r "ynysoedd pell;" yn un o brif farchnadoedd Tyrus; yn brif, os nid yn unig, farchnadfa y byd mewn arian, haiarn, tin, a phlwm. Y Groegwyr a enwyd, mewn cyffelyb fodd, a wyddent am ryw bobl yn dal perthynas â hwy a elwid "Hyperboreoi;" am ryw wledydd neu ynysoedd a elwid Cassiterides, o ba rai y cludid Cassiteron a Celticon; ac yn ddiweddarach a adwaenid o dan yr enwau Albion a Jerne. Er hyn oll, llwyddodd y Tyriaid mewn cadw eu masnach yn gyfrinachol.

Drachefn, y mae genym dystiolaeth Homer, y gwneid arfau rhyfel y Groegiaid o flaen Troia, o efydd ac arian.* Ajax a ymladdai mewn arfau pres, † a Patroclus ni ddefnyddiai ragorach metal. ‡ Arfau ac arfoegaeth milwyr cyffredin y Groegiaid oeddynt bres. || Y Groegiaid a bwrcaent eu harfau oddiwrth y Pheniciaid, pa rai a'u cludent mewn llongau ar draws Môr y Canoldir i borthladd Thoas. § Celfyddydwy Sidonaidd oeddynt lunwyr y *cretera* neu ystên arian.**

Nid oes fawr sail i amheuo na chynnwysid Cornwall yn Cassiterides Herodotus, †† er nas gwyddom yn sicr at ba afon y cyfeiriai o dan yr enw Eridanus, o ba le y dygid yr ambr. Dywed Strabo fod yr ynysoedd hynny yn ddeg mewn nifer, eu bod i'r gogledd o'r Ysypaen, a'u bod yn adnabyddus yn unig i'r Pheniciaid. Herodotus a ddywed fod cysylltiad agos rhwng y Pheniciaid a'r Groegiaid. †‡ Ei *epimisgomai* a allai gyfeirio at ymgymysgiad trwy fasnachu, neu trwy ymbriodi. Eithr y ffaith o ymadael â'r ddefod o enwaediad, yr hon ydoedd genedlaethol, fel efaith cysylltiad y ddwy genedl, a gyfeiria, fe allai, at ymgymysgiad cenedlaethol trwy ymbriodi, yn hytrach na thrwy fasnachu. Ac os felly, y mae hyn yn brawf ychwanegol o ymgymysgiad boreuol y Cushiaid â hiliogaeth Tarshish, fel yr amneidiwyd uchod.

Er profi mai yr ynysoedd Prydeinaidd oeddynt brif farchnadfa y byd henafol mewn pres, alcam, a phlwm; ac, fe allai, mewn arfau rhyfel, pa rai a wneid o'r meteloedd hynny,—rhoddir yma rai dyfyniadau o olygiadau awdwyr cyfrifol. "Y metal pa un a alwai y Groegiaid 'κασιτερος,' ac i ba un y rhoddai Aristotle yr enw 'κελτικον' neu Celtaidd, a arwydda yn eglur ddigon o ba wlad y dygid ef. Yn yr iaith Syriaidd, 'varatanac' neu 'baratanac,' a arwydda 'gwlad y tin,' oddiwrth ba air, tebygol, y deillia yr enw 'Brydain.'" || Drachefn, "Y mae yn rhyfedd, pan ystyrir y diffyg o fân-gloddian tin, yr arferai yr henafiaid galedu copr drwy ei gymysgu â chymaint cyfran o din ag ydoedd anghenrheidiol er gwneuthur llafnau cleddyfau, ac offerynau awchlym eraill. Gorfodid hwy i geisio cymaint o din ag a ddefnyddient o'r Cassiterides, yn bresennol Cornwall; y fasnach hono ydoedd yn gyfangwbl yn nwyllaw y Pheniciaid." §§ Dengys hyn fod lle i feddwl i'r Tyriaid ymsefydlu yn Cornwall er yn foreu.

Oddiwrth y rhesymau uchod, gwelir y credwn y cynnwysid yr Ynysoedd Prydeinaidd yn "Tarshish" yr ysgrifenywyr Iuddewig. Fe allai mai

* *Iliad*, Llyfr VI., 235—6. † *Iliad*, Llyfr XVI., 118. ‡ *Iliad*, Llyfr XVI., 80. § *Iliad*, Llyfr II., 163 a 187, &c. || *Iliad*, Llyfr XXIII., 741—5. ** Gwel hefyd ddyfyniad rhyw hen Scholiast o Ddaearyddiaeth Strabo. *Iliad*, XXIII., 741. *Clarke's Edition*. †† *Herodot.*, Llyfr III., pen. 115. †‡ *Herodot.*, Llyfr II., pen. 104. ||| *Dr. Reed's Cyclop.*: Art. "Tin." Dyfynedig yn "*The Kings of the East*," tu dal. 298. §§ *Klaproth's Magazine Encyclop.*: Mohofin 1800, tu dal. 293. Dyfynedig yn yr uwrrhyw, tu dal. 294.

y Carthaginiad yn benaf a ddygent ymlaen fasnach gyfriniol y Pheniciaid gyda'r "ynyoedd pell," ac y cynnwysid Carthage hefyd o dan yr enw "Tarshish." Os felly, nis gwyddom am unrhyw resymau cedyrn dros wrthod golygiad Mr. Murray yn ei *Encyclopædia of Geography*, tu dal. 4, 5. Tybiai y gŵr dysgedig hwnw y galwai yr ysgrifenywyr Iuddewig Gyfandir Affrica, "Tarshish," oddiwrth gysylltiad Carthage â'r cyfandir hwnw. Eglura hyn yr anhawsdra ynghylch y Tarshish y sonir am dani yn 1 Bren. x. 22, ac y gelwid Carthage ei hun, ynghyd â Brydain a lleoedd eraill gyda pha rai y masnachai, wrth yr enw hwn. Hwyrach mai dyma y golygiad cywir ar y mater.

Y mae rhesymau dros feddwl i feibion Noah gyda'u teuluoedd ymwahanu oddiwrth eu gilydd yn amser Peleg, ac i Japheth ymsefydlu yn rhywle o gwmpas y Môr Du, a Shem yn ne-orllewin Asia; ac i hiliogaeth Ham—y Cushiaid neu y Cuthiaid—wrthryfela yn erbyn trefniant yr hen batriarch, ymosod ar y Shemiaid yn ngwastad-diroedd Assyria, cyduno i adeiladu Tŵr y cymysgiad, er gwneyd "enw" iddynt eu hunain, ac er attal y gwsgariad a benderfynasid arno gan Noah. Tybia Bryant y cyfeiria "rhaniad y ddaear" yn nyddiau Peleg, a "gwsgariad Babel," at ddau amgylchiad hollol wahanol. Tybia ef y cyfeiria y blaenaf at Ddwylfol ordeiniad, a'r olaf at Ddwylfol farnedigaeth. Nid ydym yn sier nad yw y golygiad hwn yn gywir. Dysgwn oddiwrth Philo Judæus,* ac oddiwrth Josephus,† fod traddodiad i'r un perwyl ymysg yr Iuddewon. Ac fe allai y cyfeiria y chwedl Roegaidd ynghylch rhaniad y ddaear rhwng Jupiter, Pluto, a Neptune, at yr un amgylchiad.‡

Cyfeiria yr Ysgrhythrau, dybygid, at yr un amgylchiad. (Gwel Gen. x. 26; Deut. xxxii. 8; Act. xvii. 26). Yn ngeirian Moses rhoddir awgrymiad ynghylch nifer y dosranau yn nhrefniant Noah; yr oeddynt "yn ol rhifedi meibion—nid llwythau—Israel;" sef eu rhifedi pan aeth Jacob i waered i'r Aipht (Act. vii. 14), fel y deallwn ni y geirian. Dywed Stephan eu bod yn "bymtheg enaid a thriugain." A'r cyfrif hwn cyduna nifer dosranau y ddedd o Genesis.

Japheth ynghyda	14	o'i hiliogaeth	Oll yn	15
Shem	"	27	"	"	28
Ham	"	31	"	"	32
Y Cyfanrif yn					75

Felly "rhifedi meibion Israel," a rhifedi "rhanau y bobl," ydynt "bymtheg a thriugain." (Cymhara Deut. xxxii. 8, Act. vii. 14, & Gen. x.

Y rhesymau canlynol a'u cyffelyb a'n cymhellant i greu mai hiliogaeth Shem trwy Lud neu Arphaxad ydyw yr Hindwaid, yn hytrach na'r eiddo Japheth trwy Madai, fel y tybir yn gyffredin. Traddodiadau y Persiaid a'n dysgant i'w cyndaâu ddisgyn o ucheldiroedd Media, ac mai yr un genedl ydoedd yr Iraniaid neu Airaniaid â'r Elamiaid yn y dechreuad. Yr ieithoedd Zend, Sanscrit, a Chaldæaeg, a darddant o'r un wreiddiaeth. Dywed Syr W. Jones fod saith gair o bob deg yn y Zend yn Sanscrit perffaith; a bod y llythyrenau Sanscrit, gwedi eu dihatu o'u hychwanegiadau damweiniol, yr un â llythyrenau onlog yr hen Galdæaeg. Drachefn, cyf-

* *Llyfr X.* † *Ant. Jud.*, Llyfr I. ‡ *Iliad*, XV., *Plato's Critias*, &c.

eiria yr Hindwaid bob amser at yr uchelderoedd lle y preswyliai Shem fel cryd eu cyndadau. Yno yr ydoedd y *Satya Sringa*, lle yr enciliodd Pander a'i ddwy wraig Kunti a Madrai; yno y ganwyd cewri "Rhyfel Mawr y Kuru Kshetrya;" yno yr enciliodd Judisthir pan oedd y rhyfel drosodd. Xenophon yn ei *Cyropædia**—os ydyw yr ystori yn sylfaenedig ar feithiau, ac nid yn flugiol—a ddengys fod cysylltiad a chyfeillgarwch mawr rhwng y Chasdim a'r Judiaid. Cyduna tystiolaeth Herodotus â'r ffaith hon. Desgrifia yr Ysgrhythrau Hindwaidd y Rishis a'r Munis, pa rai a gasglasant y Veda, yn "ddynion gwynion," yr hyn a gyfeiria, dybygid, at liw eu crwyn a'u tarddiad gogleddol. Eu lle genedigol, medd Menu, ydoedd gwlad y "Darada," sef Dardæ Ptolemy, a Dawurd y Persiaid. Ysgrifenywyr Hindwaidd a gyfeiriant yn fynych at ryw hen genedl o ba un y deilliasant o dan yr enw Khasya—Chasdim yr Iuddewon—oddiwrth ba un y deilliodd Khasya-giri, neu Cashgar; Khasya-Meru, neu Cashmere; Koh neu Kaw-Khasya, y Caucasus; Hindw Khasya, sef y Khasya ar yr afon Sindhu neu Indus; yn awr Hindu Koosh y gelwir yr ucheldiroedd hyny. Gellid enwi hefyd, er mwyn ymchwiliad pellach, heb roddi fawr bwys ar yr amcaniaeth, fod un llwyth o'r 36 llwyth o Rajpoot yn myned o dan yr enw Daoodputra; hyny yw *Beni Daud*, neu hiliogaeth Dafydd; fod tiriogaeth fechan ar gyffiniau Cashmere, o'r enw Capatrya, yr un, fe allai, â Capthor a Pethor; a bod yr enw Palestine yn Sanscrit perffiaith, sef Pâl, diadelloedd neu gorlânau, a Sthân, lle neu diriogaeth. Ai trefedigaeth o Hindusthan ydoedd y Philistiaid? Yn olaf, y mae tebygolrwydd corfforol a naturiol yn yr Hindwaid i genedloedd Shemitaidd gorllewin Asia.

Yr unig resymau, hyd a wyddom ni, dros feddwl mai hiliogaeth Japheth ydyw yr Hindwaid, ydynt—eu tebygolrwydd anianyddol i'r Ewropëaid, cyffelybrwydd ieithyddol y Sanscrit a'r Groeg, &c., a tebygolrwydd sain yn enw Madai (Gen. x. 2) a Media, y wlad o ba un y tybir i'r Hindwaid ymfudo i India. Eithr dangoswyd yn barod y deillia yr enw *Media* o'r gair Zend a Sanscrit "Madhya," sef canol, mewn cyfeiriad at ei sefyllfa ganolig rhwng ucheldiroedd Turan a gwastadedd Airan. Ac os cymerir tebygolrwydd anianyddol ac ieithyddol yn brawf, y mae y tebygolrwydd hwn yn llawer mwy eglur a tharawiadol wrth gymharu y Persiaid a'r Hindwaid. Y golygiadau hyn a'u tueddant i gredu mai Shemitaidd ydyw yr Hindwaid.

Heblaw hyn, y mae yn ddigon tebyg mai ucheldiroedd Airan ydoedd lle genedigol Abraham. Dywed Josuah (pen. xxiv. 2.) iddo ddyfod o Aber-i-Naher; yr un, fe allai, â *transfluvianus* Origen a thadau Cristionogol eraill. Y Persiaid presennol a alwant y rhandir hono "Maver-i-Naher." Traddodiadau y Dwyrain a osodant le genedigol Abraham y tu hwnt i'r Jaxartes yn ngwlad Airya neu Ur, sef gwlad codiad haul. Felly mynant mai Aberiad neu Drosawr ydoedd. Os cywir hyn, *Aberiad* yn hytrach na "Hebrëad" a ddylasai gael ei alw mewn cyfeiriad at ei wlad, yn hytrach na'i gyndad. Ai afresymol a fyddai i ni feddwl y cyfeiria yr ysgrifenywyr Iuddewig at gyndadau cyntefig yr hil, o dan yr enw "Beni Cedem," yn hytrach nag at y *dwyrain*; ac y defnyddient y gair *Mezerech* i arwyddo yr olaf? Arwydda y gair "Cedem," dechreuad, prif, cyntefig, yn hytrach na'r parth dwyreiniol o'r ddaear. Y mae yn werth sylw y galwai trigolion

* Llyfr III.

glenydd yr Euphrates a'r Tigris, drigolion ucheldiroedd Media, "*Beni-Cedem*;" y gelwid y blaenaf Beni-Cedem gan y Syriaid a'r Arabiaid; ac y gelwid yr olaf wrth yr un enw gan Iuddewon Palestina.

Felly credwn mai hiliogaeth Shem ydoedd y cenedloedd Hindwaidd. Gosodwn ychydig o bwys ar y mater hwn, oblegid y ddau hen air canlynol; "Bendigedig a fyddo Arglwydd Dduw Shem." A "Duw a helaetha ar Japheth; ac efe a breswylia yn mhebyll Shem." Er cymaint ein parch i Michaelis, Boothroyd, a'r beirniaid, pa rai a ewyllysiant drosglwyddo hanner bendith Japheth, a'i rhoddi i Shem, fel hyn;—

"Bendigedig gan Jehova fy Nuw a fydd Shem;
Iê ymysg pebyll Shem y preswylia Efe,"

gan roddi i Japheth ond y rhan leiaf o'i fendith;—

"Duw a helaetha lawer ar Japheth,"

nis gallwn ddarbwyll o ein meddwl mai dyma ydoedd golygiad yr hen batriarch. Esboniad Rhagluniaeth yn y dyddiau diweddaf hyn, fel y deallwn ni, a gadarnhá y golygiad cyffredin, mai Japheth ac nid Jehova a breswylia yn mhebyll Shem, yn ol yr hen brophwydoliaeth. Diammheu fod y dyfodol yn ogoneddus i Japheth pan ddywedir am dano, *Japheth Elohim le-jepheth*—neu "yr Helaethwr Elohim a helaetha;" eithr ychwanegir gogoniant y dyfodol iddo i raddau anghyffredin pan ychwaneger, *Veishekon be-ahalei Shem*, "ac efe a breswylia yn mhebyll Shem." Preswylia yn ei bebyll, fel y deallwn ni y geiriau, a arwydda, yn gyntaf, cyfranogi o ragorfreintiau ei grefydd; ac yn ail, meddiannu ei diriogaethau a'i drysorau. Er prawf o'r blaenaf, gellid nodi Esa. liv. 2, Zech. xii. 7, Mal. ii. 12, Dad. xx. 9, Psalm lxxviii. 60, 1 Chron. xvi. 1. Er profi yr olaf, 1 Chron. iv. 41, a v. 8, Psalm lxix. 25, a lxxxiii. 6, a lxxviii. 55, a lxxxiv. 10, Jer. iv. 20, a xxx. 18, Zech. xiv. 15, a llawer o fanau eraill. Sefyllfa bresennol Ewrop-ëaid yn Asia a ddengys, fel y tybiwn, fod Rhagluniaeth yn prysuro i gyflawni y brophwydoliaeth.

IAITH.—Sanscrit gysegredig yr Hindw, a hen Gymraeg y Celtiad, a feddant rai teithi cyffelyb. Fe allai fod tuedd ymysg beirniaid i roddi gormod o bwys ar debygolrwydd ieithyddol, er profi cysylltiadau a pherthynasau cenedlaethol; eto, y mae yn ddiddadl fod pwys mewn tebygolrwydd geiryddol ac ieithyddol er dangos perthynasau cenedlaethol, ac yn enwedig er dangos y tardd holl genedloedd y byd o un gwreiddyn. Os ydyw yr hen famiaith Noachaid, o ba un y tarddodd holl dafodieithoedd y byd, ar gael yn bresennol, tybiem mai yr *hen* Galdeag ydyw; iaith hen Chasdim crwydraidd ucheldiroedd Airya. Nid y gangen hono o honi a gadwyd gan hád Abraham, uac ychwaith y gangen hono a arferid gan y Chasdim hyny a breswylient wastad-diroedd Babylonia, canys "Nid oedd y bobl hyny, nes i'r Assyriaid ei sylfaenu hi i drigolion yr anialwch." (Esa. xxiii. 13). Os cywir y golygiad hwn, dylid edrych am debygolrwydd mwy neu lai rhwng yr holl hen ieithoedd, pa rai oeddynt mewn arferiad yn y byd, ddwy neu dair mil o flynyddoedd yn ol. Traws-seiniau a thrawsffurfiadau yr ieithoedd diweddar ydynt ddiderfyn. Y trawsffurfiadau hyn a effeithiant hyd yn nôd y gwreiddeiriau.

Pa fodd bynag, ein gorchwyl ni yn bresennol sydd gyda thebygolrwydd

y Gymraeg a'r Sanscrit. Ceisir dangos fod graddau o debygolrwydd yn ffurfiau cyfansoddiad y ddwy iaith, a rhyw radd o debygolrwydd geiryddol. Gadawn i'r darlennydd dynu ei gasgliadau ei hun ynghylch hynafiaethau cenedlaethol oddiwrth yr esiamplau hyn o debygolrwydd.

Prif hynodrwydd y Sanscrit sydd gynnwysedig yn nghyfnewidiadau ei llythyrenau yn nghyfansoddiad geiriau ac ymadroddion. Yr unrhyw hefyd ydyw prif hynodrwydd y Gymraeg. Yn y flaenaf, y mae un-ar-bymtheg o lefariaid; cyfnewidiadau pa rai ydynt agos yn ddiderfyn. Y maent o ddau fath. Un math a elwir *goon*—sef cyfnewidiad yn y rhyw, pan osodir y naill lefariad yn lle y llall. Gelwir y llall *vridhi*—sef ychwanegiad yn nifer y llefariaid. Dengys yr esiamplau canlynol fod rhyw radd o debygolrwydd rhwng y ddwy iaith yn y ddau fath.

Cyfnewidiadau rhyw (*goon*), a nifer (*vridhi*) y llefariaid a, e, o, ac w, yn y Gymraeg :—

LLEFARIAD.	CYFNEWIDIAD RHYW.		CYFNEWIDIAD NIFER.		ESIAMPLAU.
	e	y	ai	ei	
a	e	y	ai	ei	{ Padell, pedyll; aberth, ebyrth. { Bychan, bychain; maroh, meiroh.
e	i	y	—	ei	{ Careg, ceryg; mantell, mentyll. { Serth, seirth; certh, ceirth.
o	w	y	—	—	Llom, llwm; ffordd, ffyrdd.
w	—	y	wy	ei	{ Hwrdd, hyrddod; trwst, trystau. { Gwr, gwyr; dwfr, deifr.

Tybiem fod cyfnewidiad y llefariad *i* yn *ci*, *cwn*, a'r cyffelyb, yn enghraifft o fyrhâd perseiniol (*euphonic*) yn unig, trwy newid *cion* i *cwn* er mwyn y seiniad.

Mewu cyffelyb fodd cyfnewidia y llefariaid yn Sanscrit; eithr nid oes unrhyw gyffelybrwydd yn nifer y cyfnewidiadau hyny. Yn y Sanscrit y mae 144 o gyfnewidiadau llefariaid, ac uwchlaw 150 o gyfnewidiadau cyd-seiniaid, tra na chynnwys y Gymraeg yn ei ffurf bresennol, hyd y gwyddom ni, uwchlaw 12 o'r blaenaf, a 18 o'r olaf. Dyma y rheol flaenaf ynghylch cyfnewidiadau llefariaid yn Sanscrit. "Pan gyferfydd dwy lefariad o gyffelyb sain, ymunant, er ffurfio un llefariad hirsain o'r un natur." Esiamplau ;—

a + a (y ddwy yn fyr) a wnant â, fel yn *Doitya* + *ari*=*Doityâri* : gelyn diafliaid.
a + â (byr a hir) a wnant â, megys *Râma* + *âgomon*=*Râmâgomon* : dyfodiad *Râm*.
â + â (y ddwy yn hir) " â, " *Râjâ* + *âgata*=*Râjâgata* : y brenin a ddaw.
i + i (byr a hir) " i, " *Giri* + *'ish*=*Girish* : arglwydd mynydd.
u + û (byr a hir) " û, " *Bau* + *ûdaya*=*Baûdaya* : codiad haul.

Nid gwaeth pa un a fydd y ddwy lefariad a gysylltir yn fyr neu yn hirsain, neu y naill yn fyr a'r llall yn hirsain, cynnwysir yr oll o dan y rheol hon. Darlener y dafsen fel hyn :—Pan gysylltir dau air, y naill yn diweddu, a'r llall yn dechreu, gydag *a*, neu *i*, neu *u*, fyr neu hirseiniol, unir y ddwy lefariad er ffurfio un llefariad hirseiniol o'r un natur. Megys, y gair *doitya* (cythraul) a derfyna gydag *a* fer, a'r gair *ari* (gelyn) a ddechreu gyda'r unrhyw; una y ddwy er ffurfio y gair *doityâri*, gydag un â hirsain. Ac felly an y llefariaid eraill.

Gellir canfod graddau o debygolrwydd eilwaith yn nghyfnewidiadau y

cydseiniad. Doethwyr India a alwant gyfnewidiadau llefariaid, *Swar sandhi*, neu gysylltiadau llefariaid; a'r eiddo cydseiniad, *Hal sandhi*, neu gysylltiadau cydseiniad. Yr egwyddorion seiniol ar ba rai y sylfeiniar y cyfnewidiadau hyn, ydynt dra chyffelyb yn y ddwy iaith. Pe treuliasai ein cyndadau hanner yr amser i goleddu a diwyllio yr hen Gymraeg oludog a barddonol, ag a dreuliodd Panini a'i gydwladwyr i wrteithio eu Sanscrit anghymharol, nid oes fawr o le i amheu nad allesid gwisgo y flaenaf yn "Nghoelbren y Beirdd," yn llawn mor brydferth, rheolaidd, a phêrseiniol, ag ydyw yr olaf yn bresennol yn odlau Kali Dâs. Fe allai yn fwy felly. Y mae graddau o blentynrwydd ynghylch *sandhi* yr Hindw, pa un, er gwaethaf canmoliaeth y beirniaid, a edy argraff o fychander meddyliol. Pwy bynag a ymglymer â'r gorchwyl o ddysgu y Sanscrit, rhaid iddo feistrolï holl reolau y cyfnewidiadau hyn, cyn y gallo goledd y gobaiith lleiaf o ddarllen a deall pedair llinell mewn unrhyw ysgrifenydd Hindwaidd a berthynai i oes auraidd llênnyddiaeth Sanscrit yn nyddiau Vikramāditya a Julius Cæsar. Cyfansoddiadau y pedair Veda, y Vedanga, a'r Upanishad, ydynt yn llawer mwy syml, naturiol, a hawdd.

Cymerer yr esiamplau canlynol o gyfnewidiadau cydseiniad:—Yn y Gymraeg, y pedair cydsain, m, p, ph, t, ydynt gyfnewidiol yn nechreud geiriau; b, c, d, g, ynt gyfnewidiol yn nechreu a diwedd geiriau; ac l yn niwedd geiriau. Eithr yn Sanscrit, yr holl lythyrenau yn yr egwyddor—sef 33 o gydseiniad, ac 16 lefariaid—ydynt gyfnewidiol. Yn hyn, ynghyda rheolau plentynnaidd ei gramadegwyr, y cynnwysir anhawsdra arbenig yr iaith. Y mae yn ddiddadl y gallai Cymro o athrylith cyffredin, yn feistr ar ramadeg ei iaith ei hun, ddysgu y Sanscrit mewn hanner yr amser anghenrheidiol i Sais o gyffelyb athrylith.

Yn y Gymraeg cyfnewidia *c* i *g*, *ng*, ac *ch*; megys yn dyn † car=dyn-gar; an † cymhwys=anghymhwys; gwair † clawdd=gweirglawdd; a † cwyn=achwyn, &c. Felly cyfnewidia *p* i *b*, *mh*, *ph*; megys yn cad † pen=cadben; an † parod=anmharod; gor † pwyll=gorphwyll, &c.

Mewn cyffelyb fodd yn Sanscrit, cyfnewidia *k* neu *kh*, i *g*, *gh*, *n*, neu *h*; megys yn bak † ishwar=bagishwar (dyn doniol); bak † byav=bagbyay (oferriarad); bak † may=bangmay (yn llawn geiriau); makh † bhabhi=magbhabhi (meddyliau teilwng). Felly hefyd cyfnewidia *p* neu *ph* i *b*, *bh*, *m*, neu *v*; a *t* neu *th* i *d*, *dh*, *n*, neu *l*. Gall y Cymro cyfarwydd gymharu y cyfnewidiadau hyn â'r eiddo ei "hen iaith ei hun."

Gellid casglu llawer o debygolrwydd geiryddol hefyd. Eithr canfyddir graddau o'r cyffelyb yn y rhan fwyaf o ieithoedd y byd. Cymerer yr esiamplau canlynol:—Geni a ddynodir yn Sanscrit trwy y gwreiddair *jan*. Ganwyd ef, *ajanistha*. Cwtau (byrhâu), Sanscrit, *kuta* (camu), cwtâodd ef, *chukuta*; cwtâ (dyfodol), *kutita*. Rhwygo, Sansc. *rug*; rhwyga ef, *rokta*. Rhwystro, Sansc. *rudh*; rhwystri di, *runtse*; rhwystra ef, *rotayate*. Dodi, Sansc. *dhâ*; dodwyf, dodwyt, dodyw, *dadhâmi*, *dadhâsi*, *dodhâti*. Elwyf, elwyt, elyw; elym, elych, elynt, a gyfatebant i *yâmi*, *yâsi*, *yati*; *yâmah*, *yâtha*, *yânti*. Gwreiddair o'r un ystyr yn union ydyw *i*, pa un a rydd yn yr amser presennol, *emi*, *eshi*, *eti*; *imah*, *itha*, *yanti*. O'r gwraidd *shi* (suo) daw *shaye*, *shoye*, *shote*, &c., suwyf, suwyt, suyw, &c. Difyrn, Sansc. *div*; difyfa ef, *devita*; difyrent, *divyet*. Y mae i'r gwraidd *div* ystyr ëang; megys, difyrn, chwaren, dysgleirio, canmawl, llawenhâu, caru, cysgu, myned, &c. Dryllio a ddynodir gan *dri*; mesur gan

má; mesura ef, *masyate*; mesured ef, *mamishá*. *Bru* a arwydda *llefaru*, mewn ystyr gyffelyb i'r ymadrodd "to brute abroad," pa un, fe allai, ydoedd ystyr gysefin "brythu, brytheirio." *Bruvate*, brythant, neu brytheiriant; *brutát*, brythed ef, &c. O'r gwraidd *sad* (suddo) daw, Sansc. *sidámi*, *sidási*, *sidáti*; *sidamah*, *sidátha*, *sidanti*; Cymraeg, suddwyf, suddwyt, suddyw; suddym, syddych, suddynt. O'r gwraidd *gai* (canu), modd annherfynol, *gatum*, daw Sansc. *gayame*, *gayasi*, *gayati*, &c.; Cymr. canwyf, canwyt, canyw, &c. Gwraidd *mri* (marw); modd annherfynol, *mortum*, yn marw. Gwraidd *hings* (anafu); os caniatá y Gymraeg wneyd y gair "ing" yn berwyddiad, bydd y tebygolrwydd yn darawiadol; *hinomi*, *hinassi*, *hinasti*; ing wyf fi, ing wyt ti, ing yw ef. Gwraidd *gya* (gwybod) a rydd y ffurfiau canlynol,—Sans. *jánami*, *jánasi*, *jánati*; *jánimah*, *jánitha*, *jánanti*; Cymr. gwn i, gwyddost ti, gwyr ef; gwyddom, gwyddoch, gwyddant; gorphenol, *ajánám*, *ajánah*, *ajándt*; *ajánima*, *ajánita*, *ajánan*; Cymr. gwyddwn, gwyddit, gwyddai; gwyddem, gwyddech, gwyddent. Canfyddir y deillia y sain feddal *j* o sain galed y *g* yn y gwreiddair; cedwir yr olaf yn y Gymraeg.

Y gwreiddair *Bhu* (bodoli) sydd air o ddirfawr bwys yn *mythoi* yr Hindwaid. Fe allai y boddlonid rhai drwy roddi y ferf yn ei gwahanol foddau ac amserau; yr hyn a wneir isod, fel y gallo y darlennydd gyfeirio ati, neu fyned heibio, fel yr ewyllysio. Gall y cyfarwydd gymharu y ffurfiau gyda'r ferf "bodoli," er gwneyd y tebygolrwydd yn fwy tarawiadol. Defnyddir y ferf "bod," yn ei ffurf afreolaidd isod, er mwyn bydrá.*

* *Bhu* (bod). Bhavitum, yn bod.

MODD MYNEGOL—*Amser Presennol.*

	Unig.		Deuaidd.		Llofog.	
Bhavámi,	Wyf,	Bhavávah,	Ym,	} gan } dan } ni	Bhavámah,	Ydym,
Bhavási,	Wyt,	Bhavathah,	Ych,		Bhavatha,	Ydyoh,
Bhaváti,	Yw.	Bhavatah,	Ynt,		Bhavanti,	Ydynt.

Amser Gorphenol.

Abhavam,	Bum,	Abhavavi,	Buom,	} dan	Abhaváma,	Buom,
Abhavah,	Buoct,	Abhavatam,	Buoch,		Abhavata,	Buoch,
Abhavat,	Bu.	Abhavatam,	Buont,		Abhavan,	Buont.

Amser Tragorphenol.

Babhuva,	Buaswn,	Babhuviva,		Babhuvima,	Buasem,
Babhuvítha,	Buasit,	Babhuvathuh,		Babhuva,	Buasech,
Babhuva,	Buasai.	Babhuvatuh.		Babhuvuh,	Buasent.

Amser Dyfodol.

Bhavítámi,	Byddaf,	Bhavításwah,		Bhavításmah,	Byddwn,
Bhavítási,	Byddi,	Bavitástah,		Bhavítástha,	Byddwch,
Bhavítá,	Bydd.	Bhavítárau.		Bhavitarah,	Byddant.

Amser Ail-Ddyfodol.

Bhavishyámi,	Byddof,	Bhavishyávah,		Bhavishyámah,	Byddom,
Bhavishyási,	Byddot,	Bhavishyathah,		Bhavishyathá,	Byddoch,
Bhavishyati,	Byddo.	Bhavishyata.		Bhavishyanti,	Byddot.

MODD GORCHYMNOL.

Bhaváni,	—	Bhaváva,		Bhaváma,	—
Bhava,	Bydd,	Bhavatam,		Bhavata,	Byddwch,
Bhavatu.	—	Bhavatám.		Bhavantu.	—

Fe allai y bydd hyn yn ddigon fel enghraifft. Y mae amryw foddau eraill yn y Sanscrit, eithr nis gwyddom am unrhyw ffurfiau yn cyfateb iddynt yn Gymraeg, gan hyny ni roddir hwynt. Ffurior mwy na hanner y berfau yn yr iaith Sanscrit yn ol y cynllun uchod. Seinia y brodorion y llythyren *a* fel *o* yn y gair gordd, ac *á* fel *a* yn gardd neu mab, ac *o* ar ddiwedd gair fel *og* yn gollwng, neu *a* derfynol yn y Ffrengaeg. Ni ffeidd y Gymraeg rif deuaidd; gan hyny ni roddir cyfeithiad o'r ffurf ddeuaidd uchod.

Heblaw berfau, cyfarfyddir â rhai esiamplau o sylweddeiriau yn meddu tebygolrwydd mewn sain a synwyr; megys y geiriau, Duw a ddynodir gan *Deo, deva*; gair gan *gir*; ci gan *khâ*; ieuanc gan *yuvan*; heddyw gan *odya*; boreu gan *bhure*; sarph gan *sarpa, &c.* Llauer o enwau gwrth-ddrychau cyffredin hefyd ydynt yn ddigon annhebyg, megys, daear a elwir *bhumi*; dyn, *manusha*; nefoedd, *swarga*; gwynt, *vayu* neu *vâtâsh*; afon, *nadi*; haul, *surja* neu *bhanu*; lloer, *chandra*; sêr, *nakatra*; llaw, *hâstra*; dwfr, *jal, &c, &c.*

Rhai o'r rhifnodau ydynt yr un fath yn union yn y Gymraeg a'r Sanscrit; megys, dwy, dau, a elwir *dwy, day*; a tri neu tair, a elwir *tri, troi*. Felly dwyfed (ail) *ditya*; trydydd, *tritya*. Nid ydyw y gwahaniaeth ond bychan mewn amryw o'r rhifnodau eraill, fel y gall y darlennydd weled wrth gydmharu y Gymraeg gyda hwy: *Ek; dwy; tri* neu *tru; chatur* neu *châr; panch* neu *panchan; shash* neu *chay; sapta* neu *sât; ashta* neu *âth; uavan* neu *nay; dashan* neu *das*. Nis gellir dywedyd bod llauer o debygolrwydd rhwng y rhagenwau personol, mi, ti, ef; ni, chwi, hwy; pa rai a gynnrychiolir gan *ahang, twang, sah* neu *sâ; vayang, yuayang, te*.

Gwreidddeiriau y ddwy iaith ydynt unsillol yn gyffredin. Ni chyfarfyddir âg ond ychydig o wreidddeiriau yn cyfateb mewn sain a synwyr. Cymerer y canlynol fel enghreifftiau:—

GWREIDDEIRIAU CYMRAEG.

<i>Gwraidd.</i>	<i>Ystyr.</i>	<i>Geiriau o'r Gwreidd- iau.</i>	<i>Gwraidd.</i>	<i>Ystyr.</i>	<i>Geiriau Tardol.</i>
Ap.....	mab.....	pab, &c.	Ib.....	rhedegydd ...	gwib, pib, &c.
Ob.....	codiad.....	pob, &c.	Yb	dros	gwlyb, tyb, &c.
Ad.....	ail	gwlad, gwâd, &c.	Ed	cymhwysder...	cred, lled, &c.
Af.....	mynediad ...	hâf, claf, &c.	Ef	efe.....	nef, llef, &c.
All	arall	call, pall, &c.	Oll	y cyfan	toll, eoll, &c.
Am	ogylch.....	mam, fflam, &c.	On	ëangiad.....	ffon, bron, &c.

Cyfarfyddir â llauer o'r gwreiddiau hyn yn y Sanscrit; eithr gwahaniaethant yn gyffredin mewn ystyr. Er enghraifft:—*ap* a arwydda caffael; *ad*, bwyta; *ag*, cerdded; *an*, anadlu; *anta*, diwedd; *artha*, erfyn; *Ir*, myned; *Ish*, arglwydd; *kat*, caled; *kan*, goleuni; *kâm*, ewyllysio; *dhan*, firwyth; *nam*, plygu; *pur*, llenwi; *râg*, goleuo; *ha*, gadael; *srij*, creu, cyfodi; *stu*, addoli, moli; *lish*, gwaghâu; *muha*, ynfyd; *mri*, lladd, dinystrio; *phel*, taflu, &c., &c.

Cyfundrefn anffodus y Derwyddon o ysgrifenu eu doethwersi ar brenau trïochrog, ac o warafun eu hysgrifenu ar femrwn na dail, a'n cauodd allan am byth oddiwrth yr hen Frythoneg a'r ddoethineb a gynnwysai. Rhaid i ni bellach foddloni gyda'r Gymraeg annelwig a drosglwyddwyd i ni drwy anwybodaeth, aufedrusrwydd, a ffyddlondeb y mynachod. Nid gwaeth beth a ddywedir am hynafiaeth Deddfau Hywel Dda, Llyfr Llandâf, a darnau barddonol Aneurin a Taliesin; ni fêdd y Cymro ddim yn cyfateb i Rig Veda Vyas, Dharma Shastra Menu, neu Ramayau Valmiki mewn henafiaeth. Ni adawodd Derwydddon Mona, pa rai y sonia C. Julius Cæsar am dauynt, ddigon o weddillion eu hiaith na'u doethineb i'n galluogi i wybod y naill na'r llall. Nid ydym yn ddigon cyfarwydd â llênnyddiaeth Gymraeg i'n galluogi i benderfynu pa un a ydyw Archddiacon parchus a dysgedig Aberteifi yu gwir ai peidio, pan ddywed mai llygriad o'r gair 'boutig' ydyw *beudy*; o 'bouli' ydyw *baily*; o 'bougardd' ydyw *buarth*;

o 'rit' neu 'rha,' ydynt *rhyd, rhod, rhedeg, rhedfa, rhydd, rhyddid, &c., &c.*; o 'nom' ydyw *neuadd*; o 'estid' yw *eisteddle, &c.* Digon tebyg fod yr hybarch ddysgawdwr yn gywir. Eithr cyfyd ymofyniad arall yma: A ydoedd gwahaniaeth rhwng Cymraeg Arthur Frenin, a'r beirdd Taliesin ac Aneurin, â'r eiddo Cassibellon a Bran ab Llur yn nyddiau y goresgyniad Rhufeinaidd? Ai yr un ydoedd Cymraeg Caradog â'r eiddo Ab Aris, dysgybl—neu Athraw—Pythagoras, neu Gwrgant Farfdrwch? Ai yr un ydoedd Cymraeg Gwrgant â'r eiddo yr Hyperboreoi cyntefig? Ai Derwyddiaeth ydoedd ffurf grefyddol a chymdeithasol pob rhan o Ynys Prydain yn ei dyddiau boreuol? Ai nid y Pheniciaid oeddynt breswylwyr cyntefig "Jerne," "Caledonia," a Corn Gwalia neu Cornwal?

Tybir yn gyffredin fod athrawiaethau Ormuzd ac Ahirman o darddiad Shemitaidd, ac y cyfyngid defodau Bel, Baal, a thânaddoliad i hiliogaeth Shem a'r Cuthiaid; eto tybiai Syr Walter Scott y deillia Beltane neu Baltein yr Ysgotiaid oddiwrth dânaddolwyr gorllewin Asia.* Y gwirionedd ydyw, difrodiadau amser a rhyfeloedd, anwybodaeth y werin, a deddfau caethion y Derwyddon er cadw cyfrinachau eu gellydd a'u crefydd, a'n torodd ymaith oddiwrth y ffeithiau anghurheidiol er ateb yn gyflawn yr holiadau uchod.

Tybiai Schlegel fod y cangenieithoedd Celtaidd yn "ddrylliau eraill o iaith," heb ddal un cysylltiad â'r cangenieithoedd Indo-Germanaidd, pa rai a rydd efe yn ail radd yn ei *pyramid* dychymybol o ieithoedd. Oddiwrth hyn gellid meddwl y tybiai y gŵr dysgedig hwnw nad oes unrhyw berthynas rhwng y Gymraeg â'r Lladin a'r Groeg. Os felly, tybiem nad anhawdd fyddai dangos fod y gŵr enwog yn cansynied yn fawr. Er arbed y drafferth o droi Geiriaduron, cymerwn yr esiamplau canlynol, ar antur, o "Gomer," er poff y gwrthwyneb:—

<i>Cymraeg.</i>	<i>Groeg.</i>	<i>Lladin.</i>
Oll.....	ολος.....	sollus.
Drych	δρεγμα	—
Ebol	ιππος	equus.
Elin	ωλενος.....	ulna.
Meidrol.....	μετρον.....	metior.
Mysgu	μξω	misceo.
Tynu	τεινω	tendo.
Awch	ακη.....	acies.
Galw	καλειω.....	calare.
Dwys	δασυς.....	densus.
Nawf.....	ναυς	navis.
Duw	Δεος	Deus.
Brefu	βρεμω.....	fremo.
Plygu	πλεκω.....	plico.
&c.	&c.	&c.

Ein barn ni ydyw i'r Gymraeg, Groeg, a Lladin, ddeillio o'r un hen famiaith Belasgaidd, a bod yr hen famiaith hono yn gyfoesol â Sanscrit y Veda Hindwaidd, ac yn dal perthynas agos â hi. Celtaidd ydoedd iaith y Pelasgiaid, fel y tybiwn. Yn Groeg, cymysgwyd hi gyda changen ddiweddarach yr Hellenes, ac yn Gaul a Brydain gydag ieithoedd Germany a gogledd Ewrop. Esgusodir ni am helaethu ychydig ar y mater hwn, pan-y

* *Letters on Demonology, Letter 3.*

gwedir tebygolrwydd y Gymraeg i hen ieithoedd deheudir Ewrop gan ddysgedigion mor enwog â Malte Brun, ac F. Schlegel ar y Cyfandir, a Colonel Kennedy, a Pinkerton yn Mhrydain. Diammheu mai eu hanwybodaeth o'r hen Omeraeg a'u harweiniodd i'r camsyniad. Crybwylla Cæsar y cewid cyfrifon yn Gaul mewn llythyrenau Groegaidd yn ei ddyddiau ef. Ar y cwbl, nis gwyddom am unrhyw resymau cedyrn dros gredu i holl ieithoedd Ewrop darddu o ddwy brif gangen henafol; y naill yn famiaith cenedloedd Scandinavia a Germany, a'r llall yn famiaith cenedloedd dé a gorllewin Ewrop.

Mewn cyffelyb fodd, ymddengys i ddwy hen famiaith deheudir Asia—y Sanscrit a'r Pracrit—darddu o hen famiaith Shemitaidd, pa un a aeth ar ddfancoll. Yr enw "Sanscrit" a ddeillia o'r ddau air "*sang*," gyda, a "*krita*," gwnethuredig neu berffeithiedig, tra yr arwydda y geiriau "*pra*," a "*krita*," naturiol, cyffredin, sâl. Rhaid addef fod y Sanscrit wedi ei pherffeithio i raddau anghyffredin. "Y mae y Sanscrit," medd Syr W. Jones, "o gyfansoddiad rhyfeddol; yn fwy perffaith na'r Groeg, yn fwy goludog na'r Lladin, ac yn fwy coethedig na'r ddwy." Gyda pharch dyldwy i'r ieithwr digymhar hwnw, tybiem na byddai yn anhawdd profi ei bod wedi ei choethi yn ormodol—wedi ei gorberffeithio hyd blentyrwydd. Yn y dull a gymerwyd i'w pherffeithio, saif yn unigol ymysg ieithoedd y byd. Nis gwyddom am un iaith gyffelyb iddi. Y Groeg ydyw y debycaf. Tybir fod naw gair o bob deg yn y Fengalaeg yn Sanscrit; er hyny cymer chwech neu wyth mlynedd i Fengaliad athrylithgar er dysgu y Sanscrit yn drwyadl yn y dull* brodorol. Doethwyr Hindwaidd a gyfrifant wreiddiau

* Heblaw anhawderau y Sandhi, pa rai y soniwyd am danynt yn barod, y dull celfyddydol o ysgrifenu a dysgu treigliadau sylweddeiriau a berfau gan y brodorion ydynt dra dyrys. Er engraifft, y mae i enw wyth treigliad, pa rai a ddynodir gan y terfyniadau celfyddydol a ganlyn; yn gyferbyniol i ba rai rhoddwn derfyniadau gwirioneddol y *cases* (kâraḥ) yn y rhifau unig, deuaidd, a lliosog:—

TERFYNIADAU CELFYDDYDOL.			TERFYNIADAU GWIRIONEDDOL.			
<i>Nom.</i>	si,	au,	<i>N.</i>	h,	au,	ah.
<i>Acc.</i>	am,	an,	<i>Ac.</i>	am,	an,	ah.
<i>Instr.</i>	ta,	bhyâm,	<i>I.</i>	â,	bhyâm,	bhih.
<i>Dat.</i>	ne,	bhyâm,	<i>D.</i>	e,	bhyâm,	bhyah.
<i>Abl.</i>	nasî,	bhyam,	<i>A.</i>	ah,	bhyâm,	bhyah.
<i>Gen.</i>	nas,	os,	<i>G.</i>	ah,	oh,	âm.
<i>Loc.</i>	ni	os,	<i>L.</i>	i,	oh,	su.
		sup.				

Gwahanol Amserau a Moddau berfau a ddynodir trwy y gyfundraeth ganlynol o sillau celfyddydol:—*Lat*, *lit*, *lut*, *let*, *lot*, *lang*, *ling*, *lung*, *lring*. Y llythyren *l* a ddynoda mewn modd cyffredinol derfyniadau yr amserau a'r moddau. Y llythyrenau eraill gydag *l* a ddynodant wahaniaeth y terfyniadau hyny. Felly *lat* a ddynoda yr amser presennol; *lang* y gorphenol; *lit* yr ail orphenol; *lung* y trydydd gorphenol; *lut* y dyfodol; *let* neu *lot* y modd gorchymynol; *ling* y modd galluogol; a *lring* y modd ammodol. Yr *l* a nodwyd uchod a gynnrchiolir gan ddeunaw o wahanol nodau, er dynodi terfyniadau personol berfau—personau *laf*, *zil*, a *3ydd*; yn y rhif unig, deuaidd, a lliosog; yn y moddau gweithredol a goddefol. Nis gallwn roddi yma ond yr amser presennol yn unig, yn y modd gweithredol a goddefol, fel esiampl.

Gweithredol—Presennol.			Goddefol—Presennol.		
Un.	Deuaidd.	Lliosog.	Un.	Deuaidd.	Lliosog.
1 Mip,	vas,	mas,	1 E,	vahe,	mahe,
2 Sip,	thas,	tha,	2 Se,	âthe,	dhwe,
3 Tip.	tas.	anti.	3 Te.	âte.	ante.

Mewn ffurf a gwisg Ewropäaidd, ymddengys y sillau celfyddydol hyn yn llawer gwell nag yn eu gwisg frodorol. Dyma fel yr ysgrifeniir hwy gan y brodorion:—*Mipvasmas siphastha tîptanjhi*; *Idvahimaking thasâthandhwang tâatanjha*. Saif *mipvasmas* yn lle y terfyn-

y Sanscrit yn 1754. Ein tyb ni ydyw fod y *dhatu* neu wreiddeiriau hyn yn gydoesol â'r gramadegau, ac nid â'r iaith; yn ddyfeisiau dychymygol, ac nid "gwreiddeiriau" gwirioneddol; yn gelfyddydol, ac nid naturiol. Un rheswm dros gredu felly ydyw, y tybiwn eu bod yn llawer rhy liosog i fod yn wir wreiddiau unrhyw iaith. Rheswm arall ydyw, fod rhai ugeiniau o honynt yn cynnwys yr un llythyrenau yn union, ac yn gwahaniaethu yn unig mewn acen llefariad, neu *aspirate* cydseiniad. Er enghraifft, *as* a arwydda "bodoli;" *âs*, "eistedd;" *ish* a arwydda "ewyllysio;" *ish*, "Arglwydd," &c. &c. Trydydd rheswm ydyw y rhoddir llawer o ystyron hollol wahanol ac amherthynasol i'r un gwreiddair; megys, y gwraidd *ish* a ddynoda, fel y dywedir, y drychfeddyliau canlynol,—ysgogiad, anaf, gweled, rhoddi. Y *dhatu ab* a ddynoda ddeunaw o wahanol ystyron, sef,—cadw, caru, ysgogi, gofyn, boddhâu, ymbil, clywed, coffeidio, caffael, bodoli, lladd, cymeryd, nerthu, gweithredu, dymuno, rhoddi gwybodaeth, cynnyddu, a gogoneddu. Y meddylddrych o "niweidio" a ddynodir gan uwchlaw deugain o wahanol *dhatu*, neu wreiddeiriau; yr un o "ladd" gan fwy na phedwar ugain; a'r un o "ysgogi" gan uwchlaw cant. Oddiwrth hyn meddyliwn mai celfyddydol ac nid naturiol ydyw y rhifres faith o *dhatu* a rodder yn rhigymanu yr *Aaiara Kosha*, ac yn *Sutra Panini*.

Anhawsderau y *false quantity* yn *a* ac *i* y Groeg, ac *a*, *i*, ac *o* y Lladin, ni fodolant yn Sanscrit. Ceir gwahanol arwyddnôd er dynodi gwir seiniad pob llythyren. Deddfau cyfnewidiadau y *sandhi* a warafunant uniad llefariad er ffurfio *dau* neu *driseiniaid*. Nis gallant todoli. Mewn gair, y mae egwyddor y Sanscrit agos yn berffaith.

Y ferf ydyw *gordian knot* y Sanscrit: rhifedi anferthol y gwreiddeiriau; cyfnewidiadau ei ffurf yn y gwahanol amserau a moddau; a chyfnewidiadau ei hystyr trwy gysylltu arddodiadau; ynghyd a'r dull mwysaidd o'i defnyddio mewn ysgrifeniadau heb derfyniadau modd ac amser. Ychwaneger. at hyn yr arferiad o gyfansoddi mewn barddoniaeth gaeth, gelfyddydol; a gellir yn hawdd canfod y rhaid fod yr anhawsderau yn fawr. Prif hynodion cyfansoddiadau yr iaith ydynt, chwyddiaith annaturiol ar y naill law, megys yn y cywyddau chwedleuol mawrion, a *laconism* tywyll ac anghydfynol ar y llaw arall, megys yn *Sutra* neu synwyrwersi y *Shad Durshan*, ac yn y *Vedanta Sâr*.

Bydd hyna yn ddigon ynghylch iaith. Ofnwn fod y darlennydd wedi blino ein canlyn er ys meityn. Trown bellach at hanes henafol yr Hindw a'r Celtiad gwedi eu sefydliad yn eu gwahanol wledydd. Y mae dirfawr wahaniaeth yn nifer a natur eu gweddillion henafiaethol. Yr Hindw a adawodd i ni gruglwythi anferthol o chwedlau ac ystoriau; y Celtiaid ni adawodd gymaint ag un tu dalen er ein galluogi i esgyn cân bellé â thymmor cludiad Caradog i Rufain. Y blaenaf a ysgrifennodd gyfrolau enbyd er egluro deddfau aneirif ffurfiad përseiniau iaith y nefolion; yr olaf ni wnaeth gymaint a'n hysbysu pa un ai yn llythyrenau onglog coelbren y beirdd, neu

idau *si—ah—mah*; a *riphastha* yn lle *si—thah—tha*. Felly o'r gwreiddair *ad* (bwyta), daw *admi*, *adwah*, *admah*; *atsi*, *atthah*, *attha*, &c. Gwasanaeth y sillau oelfyddydol ydyw fel *memoria technica*, er cynnorthwyo y cof; fel y defnyddir *Barbara*, *Celarent*, &c., neu *Qua? Ca. vel hyp. Qualis? Ne. vel Aff.*, &c., gan reymegwyr Ewrop. Eithr cyfrifa y brodorion eu hunain hwy yn faich yn hytrach na chynnorthwy. Gwir anhawsderan y Sanscrit nid ydynt fawr, os dim, yn fwy na'r eiddo y Groeg.

ynte yn llythyrenau hagr Groegiaid henafol Dewinfa Dodona, y rhoddai ei wersi i'w ddysgybllion ar brenau trioehrog. Brahman yr Hindw a lwyddodd mewn cswd ei gyfrin wersi rhag ywerin yn ddiogel ddigon, trwy greu anhawsderau yn ei iaith: Derwydd y Brython a gymerodd lwybr mwy anffodus i'w diogelu, trwy warafun eu hysgrifennu. Yr oedd y ddau yn hoff o gyfriniaeth, o ledrithio natur eu cysylltiad â'r Anweledig a'r Dwyfol, o sicrhau uwchafiaeth ac anrhydedd eu swyddau trwy hudo y werin i greu y cymdeithasent â'r Bod Goruchaf, ac mai hwy oeddent oraclau yr Anweledig ymysg yr hil ddynol. Y *Muni* Hindwaidd, tra yn ddiwyd gyda'i *Tapasya* yn mhellfanau annhramwyol coedwigoedd Brahma Verta, ni wahaniaethai ond ychydig oddiwrth y Derwydd cysegredig gyda'i aberthau asynnaidd ymysg cromlechau gellydd derw Mona neu Demet. Sanct-eiddrwydd lledrithiol a dwyfoliaeth dychymyngol y naill, a gyfatebent yn union i'r eiddo y llall.

Os, fel y sylwyd uchod, y dechreuodd yr hen Brydeiniaid wneyd eu hymddangosiad cyntaf o dywyllwch yr oesoedd cynhanesol yn nhraddodiad y Groegiaid ynghylch yr Hyperboreoi a'u cysylltiad gyda ffurfaddoliad Dodona, Delos, a Delphi, yn y gangen Omeraidd o honynt, ac yn mhres, efydd, a haiarn Moses yn yr anialwch, a Tarshish yr ysgrifenywyr Iuddewig, yn y gangen Pheniciaidd o honynt—yna tybiem na cholodd hiliogaeth Tarshish, pa rai a ymsefydasant ar arfordir Cilicia a Phenicia, eu gwybodaeth a'u gafael o'r gangen arall o'r un hiliogaeth, pa un a ymfudodd i Carthage, ac i'r "Ynysoedd pell" Prydeinig—hyd nes i lengoedd ac arfau Rhufain dasu y byd i gymysgfa diderfyn pan gymerasant feddiant o Fôr y Canoldir wedi dinystr Carthage. Digon tebyg hefyd i'r cwpan a yfwyd at Tyrus trwy law Nebuchodonosor effeithio ar Tarshish (Esa. xxiii.) Ymddengys i'r "phiol win digofaint" hono aflonyddu y byd, o'r "ynysoedd y rhai sydd dros y môr"—yn cynnwys yr Ynysoedd Prydeinig—yn y gorllewin, hyd "Elam, Media, holl freninoedd y gogledd agos a phell, a holl deyrnasoedd y byd, y rhai sydd ar wyneb y ddaear"—ymysg pa rai y cynnwysid gorllewin Hindusthan—yn y dwyrain (Jer. xxv. 15—26). Dadymchweliad Tyrus gan Alexander ddau ganrif yn ddiweddarach, a Carthage gan y Rhufeiniaid ganrif a hanner wedi hyny, a lwyd ddinystriodd fasnach Tarshish, a ddrylliodd y gadwen gymdeithasol a unai y dwyrain a'r gorllewin, ac a osododd derfyn ar unwaith ar fawredd, masnach, a gwareiddiad hen Tarshish yr Ysgrythyrau. Cynnydd poblogaethau anwaraidd Cyfandir Ewrop, ac yn enwedig yr eiddo Dyffryn yr Ister neu y Danube, a roddes derfyn yn foreuach ar yr "*hiera*" neu aberthau cysegredig, pa rai a ddanfoniad gan yr Hyperboreoi, yn gyntaf yn nwyllaw gwyrifon, ac yn ddiweddarach mewn ysugbau gwenith (*kalamee purôn*), er dal i fyny eu cysylltiad â'u brodyr Pelasgaidd.* Er na feddwn un linell o gyfansoddiad ein cyndadau yn yr oesoedd cynhanesol hyny i'n hysbysu ynghylch eu sefyllfa, eu defodau, eu doethineb, na'u ffoledd, eto ni adewir ni yn gwbl ddi-dyst. Os nad ysgrifenasant, gweithiasant. Tystia eu gwaith i'w diwydrwydd, eu gwybodaeth, a'u galluoedd dyfeisiol.

Hynafiaethau Prydeiniaid y cynoesoedd a ddarllenir, nid mewn llyfrau, eithr mewn math arall o gynnyrchion meddwl a dwylaw. Yn ngweddillion eu hiaith ardderchog, yn eu cromlechau a mŵngloddiau, eu *Celts*, eu

* *Herod.*, IV., 38.

cleddyfau ac offer awchlym, eu meteloedd caboledig, eu drychau, pa rai, hwyrach, a ddefnyddid gan y "gwragedd y rhai a ymgasglent yn finteioedd at ddrws papell y cyfarfod" (Exod. xxxviii. 8), yn y pres "pwys yr hwn ydoedd anfeidrol" (1 Chron. iv. 18, 1 Bren. vii, 47), pa un a ddygid trwy law Hiram a'i Dyriaid o Ynys Brydain. Gweddillion maesydd rhyfel Caunæ, Trebina, a Zama; dinasoedd claddedig Herculeaneum, &c., a dystiant i wybodaeth a medrusrwydd ein cyndadau. "Y cwmwl tywyll, pa un a symudwyd gan ddarganfyddiadau Pheniciaidd, ac a lwyr wasgarwyd gan arfau Cæsar, a sefydlodd drachefn ar draethau yr Atlantic; a thalaeth Rufeinig a gollwyd eto ymysg ynysoedd dychymyngol y cefnfor." Felly y tybiai Mr. Gibbon.†

Wrth ymchwilio i hynafiaethau Brydain, ahawdd ydyw hollol wrthod "*Historia Britonum*" Geoffrey o Fynwy. Ac eto nis gwyddom yn iawn pa le i'w roddi iddo fel hanes. Ai meibion un Brutus oedd Llocrin, Albanact, a Camber? Ai Brython ydoedd y Brân hwnw yr hwn a fu mor agos a dymchwelyd Rhufain? Ai Llund ab Heli a roddes ei enw i Gaerludd? A dardd enw dianrhydeddus Billingsgate oddiwrth Belinus? A ddarfau i Casibellon orchfygu Cæsar? Nis gwyddom pa gred a ddylid roddi i'r haeriadau hyn a'u cyffelyb, eithr gwyddom fod yn rhaid cael llawn gwell rhesymau dros eu gwrthod oll fel fflugchwedlau, nag a roddir gan Dr. Giles, a Saeson eraill. Y rhesymau cryfaf dros wrthod yr hen lyfr hwnw fel hanes, sydd o natur nacâol. Os gwir yr hanes, paham na choffeid rhai o'r dygwyddiadau a enwir ynddo yn y "Trioedd," ac yn nhraddodiadau Prydain a Dehudir Ewrop? Ychydig o ddyddiadau am-seryddol anghywir nid ydynt ddigonol er gwrthod yr oll. Pa fodd bynag, rhaid i ni addef fod rhywbeth yn ffurf a chyfansoddiad yr hen lyfr, ac yn holl ddystawrwydd traddodiadau henafol ynghylch yr ystoriau hynod a gynnwysir ynddo, yn peri i ni ommedd rhoddi ffydd ynddo. Gwell genym wrando ar sibrwd digysylltiad y traddodiadau am Gomer, a thystiolaeth mwy eglur y cleddyfau a'r *Celts*.

Nid ydym yn gwbl sicr fod yr oll a ddywedir gan Cæsar, Tacitus, a'i dad-yn-nghyfraith Agricola yn deilwng o grediniaeth ynghylch yr hen Brydeiniaid. Dywed Cæsar yr aberthid dynion gan Dderwyddon Gaul.* Dywed y mynach Richard o Cirencester y gwneid y cyffelyb gan y Prydeiniaid, heb gynnyg yr un prawf dros ei haeriad. Fe allai bod yr haeriad yn wirionedd; pe byddai felly, ni ddylesid ei wneyd heb ryw brawf. Fel tyb neu amcanciaeth, buasai yn ddigon teg, ond nid fel ffaith neu osodiad. Addefwn ein bod bob amser yn ammheu haeriad Cæsar ar y mater hwn, oddieithr y cyfeiria at garcharorion rhyfel. Y mae yn ddiddadl fod gwybodaeth Agricola ynghylch arferion a defodau cymdeithasol y Prydeiniaid yn llawer rhagorach a helaethach na'r eiddo Cæsar. A ddysgodd Cæsar yr iaith Geltaidd? Pa fodd y cafodd ef, mewn ychydig fisoedd, hyd i ddirgelion gelltydd derw y Derwyddon? Tra yr ydoedd y Prydeiniaid eu hunain yn cael eu cadw mewn anwybodaeth o ddirgelion cyfrinachol Derwyddiaeth, pa fodd y gallasai y dyeithriaid eu cael allan? Fe allai y dywedir yr ymresymir oddiwrth arferion Derwyddon Gaul, pa rai oeddynt fwy adnabyddus, at yr eiddo Brydain, gan yr addefai y blaenaf iddynt dderbyn eu deddfau a defodau oddiwrth yr olaf. Cyfyd dau wrthddadl

† *Rise and Fall, &c., chap. 38.* * *Comment., Lib. 6, c. 16.*

yma;—Pa brawf a ellir roddi fod neb o'r Rhufeiniaid yn gydnabyddus â ehyfrin ddefodau Derwyddon Gaul? a pha sicrwydd sydd fod eu defodau yr un â'r eiddo Brydain?

Er egluro y mater hwn, gallem gymeryd cymhariaeth. Yn y flwyddyn 1810, Sais dysgedig a deallus a gymerai ei daith mewn båd o Calcutta i Benares. Un dydd gwelai fam dyner-galon gydag ychydig o fenywaid, yn dwyn ei maban yn ei breichiau, a thra yr ymddangosai fel yn golchi ei maban, clywai y teithiwr lais gwanaidd y plentyn—ac mewn ychydig fynyddau gwelai ei fam yn ei ollwng yn esmwyth i'r afon, fel aberth i donau y Ganga gysegredig. Prydnawn drannoeth, dygid hen ŵr penllwyd, yn ei selni olaf, gan ei feibion a'i berthynasau, i lánau yr unrhyw afon; gosodent ef i lawr yn ofalus yn ymyl ei dyfroedd: clywai y claf yn gwaeddi â'i holl nerth, "Oh moribo na—Oh moribo na" (O ni fyddaf farw—O ni fyddaf farw), yr hyn a foddid gan grochffoeddiau y cwmpeini "Huri bol—Huri bol" (Galw ar Huri—galw ar Huri—Duw), tra y llenwid ei enau â llaid y dyfroedd sanctaidd. Trengai, ac mewn llai na hanner awr treiglai ei gorff i lawr yn nyfroedd y Ganga neu y Ganges. Y trydydd dydd, gwelai gruglwyth fawr o goed tanwydd yn ymyl yr afon, a dynes ieuanc yn cerdded yn gyflym seithwaith o gwmpas y gruglwyth, gan fwmial *mantra*, a gwag-syllu ar y llawr. Ar ddiwedd y seithfed tro, taflai ei hun ar y coed llosgedig ar gelain ei gŵr, ymysg bânllafau a thwrff dirfawr tabyrddau y werin. Pentyrid tanwydd o'i hamgylch; ac mewn yspaid dwy neu dair awr, bydd lludw y byw a'r marw yn gymysgedig yn cael ei gasglu a'i gludo yn ofalus, a'i dafu i ddyfroedd y Ganges.

A ydoedd yma aberthau dynol? Ai gelynyon neu gyfeillion a aberthid? A ydyw yr Hindwaid yn anwariaid gwylltion? A ysgrifennodd Cæsar neu rywun arall rywbeth ynghylch y Brythoniaid yn profi mwy o greulonder anwaraidd, barbaraidd, ac annaturiol, na'r ymddygiadau a enwyd? A feiddiai y Sais synwryol y soniwyd am dano ddychwelyd i Ewrop ar ol ei daith, ac ysgrifenu yn wyneb Ewropeaid ein pedwaredd canrif ar bymtheg hyn, heb gael ei hwito o gymdeithas dysgedigion;—"Natio est omnium (Indianorum) *admodum dedita religionibus; atque ob eam causam, qui sunt affecti gravioribus morbis, * * * aut pro victimis homines immolant, aut se immolaturos vovent, administrisque ad ea sacrificia (Brahminibus) utuntur, &c.*" Y fath olygfeydd a ddygwyddent agos yn ddyddiol—nid ymhellfanau cuddiedig coedwigoedd—eithr yn eithaf cyhoeddus ar lènydd y Ganges.

Er hyn oll y mae yr Hindwaid yn genedl fawr, wareiddiedig, liosog, a doeth; oblegid felly y dywed dysgedigion Ewrop. Dywed Cæsar hefyd fod poblogaeth Prydain pan laniodd ynddi yn hynod liosog (*infinita multitudo*), a'r anneddau yn dra aml (*creberrima edificia*).* O ba le y daeth y "tyrfaeodd aneirif" hyn? Haneswyr Seisonig yn gyffredin ni soniant am ddim amgen na heidiau o wyllt-ddynion barbaraidd ac anwar, yn trigiannu pellfanau coedwigoedd, i baentio eu cyrff, ymwisgo mewn crwyn bwystfilod, ac aberthu dynion. Felly y gellid tybied wrth ddarllen y mân hanesion Seisnigaidd, pa rai a roddid yn ein dwylaw yn nyddiau ein mabyd.

Pa fodd bynag, y mae bellach yn rhy eglur i wadu nad ydoedd yr hen Brydeiniaid yn genedl fawr a chorfforedig er yn fore iawn. Meddent

* *Lit.* 5, 12.

gyfundraethau äang o lënyddiaeth, gwladweiniaeth, a chrefydd. Yr oeddent mor hyddysg ä nemawr o genedloedd eraill y byd cynhanesol yn y celfyddydau a'r gwybodau a fodolent yn yr oesoedd hyny. Eu duwinyddiaeth a'u crefydd oeddynt yn fwy pur ac urddasol na'r eiddo Groegiaid a Rhufeiniaid hanesyddiaeth, gan mai llygriad o ffurfaddoliad Dodona a Delphi ydoedd crefydd Groeg, a chan mai y Celtiaid oeddent yr haen (*stratum*) gyntaf o genedloedd gorllewin Ewrop, ac felly gwedi derbyn eu crefydd yn fwy uniongyrchol o'r ffynnonell Noachaid.

Fë allai y ceir cyfleusdra rywbyrd eto i gymharu eu crefydd a'u gweddillion llënyddol gyda'r eiddo yr Hindwaid. Ymdrinir yma yn unig ä'u tarddiad a'u hynafiaethau cenedlaethol. Rhaid dychwelyd bellach at hanes foreuol yr Hindwaid.

Yr anhawsderau pa rai a amgylchynant ymchwiliwr i hanes henafol India, ydynt, hwyrach, yn anorod. Y maent o amryw fath. Adgyfyd y *Celts*, Prydeiniaid hynafol y Cassiterides o'n blaen. Yr hen Aiphitiaid a ddygir i oleuni gan uwchlaw deugain o Byramidiau bythbarhäol, a chan aneirif *sarcophagi*, *mummies*, cerfiadau, a delwau. Methodd amser, Islam, anwybodaeth, rhyfeloedd, ac elfenau, ag ysgubo ymaith yn llwyr gerfiadau, eilunddelwau, a phalasau yr hen Fabiloniaid ac Assyriaid. Yn nwyllaw Rawlinson, Botta, Layard, a'r cyffelyb, hysbysant i ni gredöau, defodau, a dyfeisiau yr hynafiaid, ymhell uwchlaw hanner y ffordd o'n hamser ni hyd gryd dynolryw. Hymnau Callimachus a Pindar, Theogony Hesiod, Mythoi Homer a'r beirdd, ac ystorïau Hecateus ac eraill, a dywysant yr ymchwiliwr yn hynafiaethau Groeg. Y mân ddarnau a achubwyd o gyfansoddiadau Sanchionatho, Manetho, a Berossus, a drosglwyddant i ni ychydig o hanes eu gwahanol wledydd. Ysgrifeniadau yr Iuddewon hynafol ydynt drysorfa anhysbyddadwy o hynafiaethau. Eithr yn hynafiaethau yr Hindw, y mae agos yn anmhosibl gwybod pa beth sydd hanes, a pha beth sydd ddyfeisiau. Y mae yn ddigon hawdd dyfalu dyben y Brahminiaid wrth anurddo a dadoliaw eu hanesyddiaeth. Trwy wneuthur felly, llwyddasant mewn twyllo y werin ynghylch dechreuad eu hurdd a ffynnonell eu crefydd. Eu llwyddiant hwn a wahanodd yr Hindwaid yn gwbl oddiwrth genedloedd eraill y byd.

Nid hawdd ydyw penderfynu pa gyfran o India a breswylid gan Hindwaid pan gasglwyd y Veda, ac yr ymladdwyd brwydrau gwaedlyd Kooroo Kshetrya. Y mae lle cryf i feddwl na feddai dysgyblion y Brahmin ond rhan fechan iawn o wastadedd Hindusthan yn yr oesoedd boreuol. Daearyddiaeth Menu, yr hen ddeddfroddwr Hindwaidd—pa un, yn ol Syr W. Jones, a oesodd cyn Crist 1100 o flynyddoedd—ydoedd gyfyng iawn mewn cymhariaeth i ymherodraeth äang y "*Company*." Yn ei ddyddiau ef, tiriogaeth fechan y sect Frahminiaid ydoedd y "*Saraswati* gysegredig"—cartrefe y "*teilwng*, y duwiol, a'r pur"—rhwng y Jumna a'r Ganges, yn bresennol Rohilcund, ynghyd ag Oude ar y tu dwyrain i'r Ganges. Rhwng y Saraswati a chlogwyni creigiog Drichadvati y gorweddai Brahma Verta, neu wlad y Brahminiaid—anneddle y duwiau. Holl ogledd-dir Hindusthan rhwng yr Himalaya a'r Vindhya a elwir gan Menu *Ayria Verta*, sef gwlad Ayria, Ur, neu yr Haul, y rhan ddeheuol o ba un a elwid *Madhye Des*, neu y wlad ganol. Benthyciwyd yr enwau oddiwrth eu cartrefe cyntefig yn ucheldiroedd Balkh. Gwibdaith suddugol Alexander ni chyrrhaeddodd can belled a chyffiniau Saraswati. Gorfodwyd ef i droi yn ö, o

wlad y Pooroo—Porus y Groegiaid—sef llwythau “difrenin ac amhur” y gorllewin-ogledd.

Nid oes un gyfrol o hanesyddiaeth ymysg holl gyfrolau yr Hindwaid. Gelwir y deunaw Purana yn “*Itihas Purana*,” neu hanes henafol; eithr ni chynnwysir un math o hanes yn y rhan fwyaf o honynt. Rhoddir rhifres o hen freninoedd India henafol, a rhyw fath o ddesgrifiadau o'u gwa-hanol wledydd, yn y Bhagavat, y Vishnu, y Brahmanda, ac ychydig yn y Skanda Puran. Y Puranau eraill a wneir i fyny o'r *mythoi*, y chwedlau henafol, a ffolineb. Yn y pedair Puran a enwyd, rhoddir yr un hanes, ac agos yn yr un geiriau. Y maent yn hollol amddifad o amseryddiaeth.

Oddiwrthynt dysgwn y cynnwysai hen freninoedd Bhârat Varsa ddwy linell elyniaethol i'w gilydd—y Sur a'r Asur. Y flaenaf, oddiwrth *Surja*, neu yr haul, a ddesgrifir bob amser yn “rhinweddol, heddychol, a dwyfol.” Yr olaf, oddiwrth y lleuad, yn “ddewiniaid a thânaddolwyr, cenfigenus a drygonus.” Addolwyr elfenau y Veda oeddynt *Surs*, pa rai a erlidid gan yr *Asurs*.

Y *Sur*, neu y llinell heulaidd, a ddechreu gydag Ikwaku ab Surja, ac a gynnwys 119 o dywysygion, yn ol y Purana. Yr 62ain yn y rhestr ydoedd Ram Chandra, gwron cywydd y Ramayan. Ei freiniol dref ef a'i deulu ydoedd Ayodhyo neu Oude. Enw gwron arall yn y llinell heulaidd ydyw Nala mab Nishadha, y 66ain tywysog. Enwogir ef mewn prydest brydferth o'r enw *Nalodaya*, gan Rali Dâs, y dysgleiriaf o'r *nava ratna*, neu y naw perl, yn llys Vikramaditya. Y tywysog olaf yn y llinell heulaidd ydoedd Sumitra. Nis gwyddom pa bryd y dechreuodd nac y diweddodd y rhifres. Ni chyfrifir amser yn hanesion yr Ysgrhythrau Hindwaid mewn dull dealladwy i ni.

Y llinell loeraidd, ar ol y pedwar tywysog cyntaf—pa rai a elwid Pururava, Ayu, Nahusha, a Jayati—a wahenir yn dair cainc—y Pandu, y Puru, a'r Yadu. Yn llinell Pandu rhoddir naw ar hugain o enwau; yn eu mysg cynnwysir Judisthir a'r tywysogion a'u pleidient yn “rhyfel mawr” y Kuru Kshetra. Ymysg y pedwar ar bymtheg ar hugain enwau yn nghanen Puru, cyfarfyddir â'r eiddo Dhritarâstra a'i fab Durjodhan—gwrthwynebwy'r Pandavas yn y “rhyfel mawr,” pa un a enwogir yn ddigonol yn y Mahâbhârat. Enwir naw a deugain o dywysogion yn llinell Yadu. Yn eu mysg y mae llawer o enwogion, y mwyaf ysplenydd o ba rai ydoedd yr olaf, sef Krishna fab Vasha Deb, yr hwn yn y diwedd a wnaed yn dduw, ac yn awr a addolir gan uwchlaw cân miliwn o ddynion.

A gynnwys rhifrestrau y Purana enwau yr holl dywysogion genedigol yn y teuluoedd breninol, neu ynte yn unig y rhai a deyrnasent? A gyfeiria y rhestrau hyn at un deyrnas, neu ynte at amryw sân deyrnasodd cyfoesol? A gyfeiriant at freninoedd gwirioneddol, neu ynte a ydynt mewn rhan yn ddychymygod? Tybir y gellid profi na fodolai yr un o'r Purana presennol cyn tymmor genedigaeth Crist; o ba le gan hyny y cafodd eu hysgrifenwyr hyd i'r rhifrestrau henafol hyn? Os bodolai croniciâu breninoedd, pa beth a ddaeth o honynt? Paham na chyfarfyddir âg un cyfeiriad atynt mewn traddodiad nac ysgrifen? Profa *Professor Wilson* yn ddigon eglur oddiwrth ffieithiau mewnol nas gallasai y Vishnu Puran gael ei gyfansoddi yn foreuach na'r 9fed ganrif o oedran ein Harglwydd. Pa beth gan hyny a allai fod dyben y Brahminiaid wrth geisio darbwyllo dynion i grêdu yr ysgrifeniad ef *gan Suta*, dysgybl Veda Vyasa, yn amser casgliad y Pedair Veda? Ni

fêdd yr ysgrifeniadau Hindwaidd ddim er ein galluogi i ateb y fath holiadau. Pan y gwneir un ran i fyny o chwedlau hollol anghredadwy, teimlwn anhawsdra i dderbyn y rhan arall fel ffeithiau hanesyddol heb brofion eglurach o'u gwirionedd.

Mewn amseryddiaeth ni adawodd y dysgedigion Hindwaidd i ni ddim y gellir ymddiried ynddo. Ac ni feddwn nemawr ddim hyd heddyw i'n galluogi i esgyn uwchlaw tair canrif cyn Crist. Ni fêdd y byd ddaearyddiaeth fwy gwrthun ac afresymol, seryddiaeth fwy ansicr, a hanesyddiaeth fwy fngiol a disail na'r eiddynt hwy. Dyma gyfanswm cyfrifon amseryddol eu hamseryddwyr goreu:—"Yr amser a benodwyd gan y Vishnu Mawr i'r byd hwn barhâu o'r ymddattodiad mawr (Maha Pralaya) diweddaf, hyd yr ymddattodiad mawr nesaf, ydyw pedair miliwn (4,000,000) o flynyddoedd. Rhenir y tymmor hwn i bedair *Joga* neu gysylltiad, pa rai a elwir Satya, Treta, Dwapar, a Kali. Y flaenaf a gynnwysai 1,728,000 o flynyddoedd; yr ail, 1,296,000; y drydedd, 864,000; a'r bedwaredd, neu y bresennol, 432,000." Tybir i'r Kali Jôg ddechreu 3101 cyn Crist. Nid ydyw eu hamseryddiaeth yn unffurf; yr uchod a gyfrifir y goreu.

Amseryddiaeth y Purana sydd yn llawer mwy afreolaidd a disynwyr. Dyma yr eiddo y Bhagavat, a'r Vishnu Puran:—"Y Satya, Treta, Dwapara, Kali Jôg, ynghyd a'u boreu (Sandhya) a'u hwyr (Sandhyângsa), a gynnwysant ddeuddeng mil o flynyddoedd. Cyfrifir hwynt yn y drefn ganlynol: rhoddir i'r Pedair Jôg, yn ol graddfa reolaidd, bedair, tair, dwy, ac un fil o flynyddoedd, ynghyd a dwbl deucant o flynyddoedd ddwywaith. Hyny yw, cynnwys y Satya Jôg 4000, ei Sandhya 400, a'i Sandhyângsa 400 o flynyddoedd. Cynnwys y Treta Jôg 3000, ei Sandhya 300, a'i Sandhyângsa 300. I'r Dwapar cyfrifir 2000, ei Sandhya 200, a'i Sandhyângsa 200. Cynnwys y Kali 1000, ei Sandhya 100, a'i Sandhyângsa 100. Y Sandhya yn nechreu, a'r Sandhyângsa yn niwedd, pob Jôg, ynghyd, a gynnwysant 2000 o flynyddoedd. Y tymmor rhwng y Sandhya a'r Sandhyângsa a elwir Jôgâgya gan y Pandits. Yn y tymmor hwn yr arferir y gwahanol ffurfiau a defodau crefyddol. Oes marwolion ac eraill, pa rai a breswylant i tu allan i'r Tribydysawd (*Tribhuvona*), yn ymestyn càn belled a nefeodd Brahma (*Brahmaloka*) a gynnwys y Pedair Jôg fil o weithiau. Cyfateb y tymmor hwn i un dydd i Brahma. Ei nos ef a gynnwys holl amser mesuradwy. Yn yspaid y nos hon cysga Brahma."*

Drachefn:—"Y Pedair Jôg a gynnwysant 12,000 o flynyddoedd, yn y cyfartaledd o bedair, tair, dwy, ac un fil o flynyddoedd. Perthyna i bob Jôg Sandhya (boreu) a Sandhyângsa (hwyr), a chynifer o gannoedd ar gyfer pob bore a hwyr ag a gynnwysir o filoedd yn y gwahanol Jôgau. Y Sandhya sydd yn y dechreu, a'r Sandhyângsa yn y terfyn. Y tymmor rhwng y Sandhya a'r Sandhyângsa a elwir Jôg. Y Pedair Jôg hyn wedi eu lliosogi fil o weithiau ydyw dydd Brahma. Cynnwysir 14 Manu yn nydd Brahma. Eu trefn sydd fel y canlyn:—Y saith-doethwyr; y duwiau; India; Manu; hil Manu; a'r breninoedd. Y rhai hyn ydynt un tymmor yn etifeddion, dymmor arall yn ddi-etifeddiaeth. Y bedwaredd ran ar ddeg o chwe' gwaith y Pedair Jôg a elwir Manwantara, neu dymmor Manu a'r duwiau, cyfrif pa un ydyw 852,000. Tymmor dyn ydyw tair Koti a 67 Lakhya. (Koti sydd ddeng miliwn, a Lakhya yn gan mil; felly

* *Suimad Bhagavat. Skanda III., pen. 11, 18-21.*

tymmor dyn ydyw 36,700,000.) Heblaw y tymmor hirfaith a nodwyd, bydd oes dyn yn y Manwantara yn 20,000 o flynyddoedd. Y tymmor hwn wedi ei liosogi bedair gwaith ar ddeg ydyw dydd Brahma. Ei nos ef ydyw ymddattodiad cyffredin natur. Yn yr ymddattodiad hwnw llosgir trigolion y ddaear, a chan rym y gwres encilia marwolion i'r dyfroedd. Ar ol hyn, pan fyddo yr holl fydsawd yn un cesafor (Ekárnaba), yr Ysbryd Dwylf Brahma a lynca i fyny y bydysawd; a chan y bydd wedi hyny yn dew o gorfoloeth, eiff i gysgu yn nghyffelybrwydd sarff.*

Dywed y dysgedigion Hindwaidd fod y cyfrifon uchod yn gyfriniol. Y Jóg, meddynt, ydyw y dydd, yn wahanedig oddiwrth y boreu a'r hwyr. Cyfrifant i fyny nifer y dyddiau, y boreuau, a'r hwyr, ar wahân, a dywedant y gwnai nifer y dyddiau yn y Satya Jóg, neu y tymmor y teyrnasai Gwirionedd (Satya) ymysg dynion, 4000 o flynyddoedd. Boreuau y Jóg hono, wedi eu cyfrif i fyny, a wnaent 400 o flynyddoedd. Ac felly am yr hwyr, a'r Jógau eraill. Nis gwyddom pa un ai trwy gyfrif yr oriau, neu ryw fodd arall, y gwneid i fyny y dyddiau hyny. Ni ddygir y nos i'r cyfrifiadau hyn. Gwelir fod llawer o anghysonderau yn y cyfrifon fel y safant uchod, ac y mae y cyfieithiad yn ffyddlawn yn ol y copiau yn ein dwylaw. Methasom gyfarfod ág un Pandit yn alluog i wneyd dim namyn gwneuthur tywyllwch yn dywyllach, a ffoledd yn ffolach. Canfyddir fod y blynyddoedd yn y Dwapar Jóg yn ddwbl y Kali Jóg; y Treta Jóg yn gyfartal â'r ddwy a enwyd ynghyd; a'r Satya Jóg a gyfateb i'r Kali a'r Treta ynghyd.†

Dywed Syr W. Jones, yn ei "*Chronology of the Hindus*," fod y tair Jóg flaenaf yn hollol ffigiol, a'r Kali Jóg yn unig yn hanesyddol. Ni ddywed pa un ai o gyfrinwersi y seryddwyr neu o ffigddyfeisiau y beirdd, yn ol ei farn ef, y tarddodd y ffigchwedlau. Tybiai ef nad oes dim yn meddiant yr Hindwaid i'n galluogi i esgyn uwchlaw deuddeg canrif cyn Crist. Mewn cyffelyb fodd, La Place a De Lambre a gyfrifent y tair Jóg flaenaf yn ffigiol. "Cynnwys y Purana," medd Syr W. Jones, "lawer o fân ddarnau o hanes henafol yr Hindwaid, a llawer o ddarluniadau gwerthfawr, er mor anurddedig, o lywodraethau ac arferion yr Hindwaid henafol." Cyfeiria y gŵr dysgedig hwnw at gathl o gyfansoddiad un Samádeva, ymha un y desgrifir llofruddiad Nanda Frenin gyda'i wyth mab, a thrawsfeddiant ei orsedd gan Chandra Gupta—Sandrococtus y Groegiaid. Sonia hefyd am ddienchwareu (*tragedy*) a elwir "Coroniad Chandra." Y cyfansoddiadau hyn, medd ef, "a dafiant lawer o oleuni ar hanes ac arferion boreuol yr Hindwaid, yn enwedig pan y cymherir yr ystoriau, a'r cyfeiriadau a gynnwysant mewn cysylltiad â'r profion seryddol a ellid roddi ynghylch priodleoedd y *Colures*." Nis gwelsom gathl Samádera, na dienchwareu "Coroniad Chandra;" gan hyny nis gwyddom pa fath ystoriau a gynnwysant; eithr os rhoddwn goel i'r rheswm sylfaenedig ar gyffelybiad (*analogy*), tueddri ni i feddwl fod y cyfansoddiadau hyny yn gyffelyb i gyfansoddiadau eraill o'r un natur yn Sanscrit; ac, os felly, yn annheilwng o gredimiaeth. Heblaw hyny, *Professor Wilson*—un o'r ysgoleigion goreu mewn materion o'r fath—a ddywed, ar ol darllen y cyfansoddiadau a

* *Vishnu Purana*. Rhan I., pen. 3.

† Y Kali Jóg, 432,000 × 2 = 864,000 = Dwapar Jóg; yna 864,000 + 432,000 = 1,296,000 = Treta Jóg; yna y Kali Jóg, neu 432,000 + 1,296,000 = 1,728,000, sef y Satya Jóg. Eithr cyfanswm y cyfrifon hyn sydd 4,320,000, ac nid 4,000,000, yn ol y Purana.

enwyd, "na chynnwys llênnyddiaeth yr Hindwaid ddim yn deilwng o gred mewn hanesyddiaeth yn forenach nag oes Chandra Gupta, cyn Crist 325."* Y gwirionedd ydyw, ni fédd yr Hindwaid unrhyw elfenau amseryddol credadwy, cyn i Roegiaid Alexander a'i ganlynwyr symud y guddlen a'i gorchuddiai. Y doethwyr Brahminaidd pa rai a adawsant eu gwlad yn nghwmpeni Alexander, ac a aberthasant eu bywydau yn wirfoddol i'r danllwyth yn Susa ac Athens, ni adawsant un frawddeg, hyd a wyddom ni, er ein gallnogi i wybod hanes henafol eu cyndadau.

Megasthenes a dreuliodd rai blynyddau yn llys Chandra Gupta yn Maghada. Rhai darnau o'i sylwadau hanesyddol ef a drosglwyddwyd i ni gan Strabo, Pliny, Ptolemy, a Quintus Curtius, oddiwrth ba rai y deallir mai canlynwyr Buddha yn hytrach na'r eiddo Brahmá a lywodraethent yn India y pryd hyny; a bod defodau cymdeithasol, a gwareiddiad y bobl gyffredin, yn dra thebyg i'r hyn ydynt yn bresennol yn mhentrefi India. Cyfeiria y sylwadau hyny at sefyllfa Hindusthan cyn Crist ynghylch 300 o flynyddoedd. Breninoedd a sefydliadau Groeg-Indaidd Bactriá a gadwasant i fyny y cysylltiad rhwng Ewrop ac India. Eithr nid oes dim a ddarganfyddwyd hyd yn hyn yn ngherffdelwau ac ogofau Ellora ac Elephanta, yn nelwau a maengerfiadau Guyarat ac Orissa, yn ngholofnau a bathfeloedd gogledd-dir Hindusthan, nac yn nghyrolau aneirif y Sanscrit a'r Pracrit, yn rhoddi i ni allwedd i ddirgelwch amseryddiaeth henafol yr Hindwaid, uwchlaw tair neu bedair canrif cyn Crist. Yr ydym yn hollol yn y tywyllwch yn ynghylch eu sefyllfa pan aeth Jonah i Ninifeh, pan ddadymchwelai Nebuchodonozor holl fân deyrnasodd gorllewin Asia, a phan ysgrifennai y llaw gyfriniol ar bared palas Belsassar.

Nid annhebyg ydyw yr Hindw i'r Brython yn hyn eto. Gwahenir y Brython a wrthwynebai diriad Julius Cæsar oddiwrth Frython y *Celts*, yr alcam, a'r pres, yr hwn a drigianai y Tarshish neu y Cassiterides cyntefig, gan gyfwng annhramwyol. Ni feddwn yr elfenau anghenrheidiol er cysylltu Brythoniaid y ddau dymmor. Pe gellid adferu i ni deithlyfr daearyddol a hanesyddol Hauno a Hamilco, fe allai y ceid ychydig o oleuni ar y chwech canrif hyny. Neu pe ceid sylfaen i greu y cyfeiria Geoffrey o Fynwy at freninoedd Prydeinaidd, gwirioneddol ac nid dychymygol, o dan yr enwau Bran, Belin, a Gwrgant Farfdrwch, tefid llawer o oleuni ar hanes Brydain yn y tymmor rhwng 600 neu 700 a 56 cyn Crist. Pa fodd bynag, y mae yn ddigon eglur oddiwrth ysgrifeniadau y Rhufeiniaid fod poblogaeth liosog yn Brydain yn nghydol y canrifoedd hyny.

Mewn cyffelyb fodd, gwahenir oes y Pedair Veda, ac addolwyr yr elfenau, oddiwrth oes y Purana, ac addolwyr delwau yn India, gau gyfwng nas gellir ei groesi. Rhydd Mr. Colebrooke ddyfyniad o Jolish un o'r Vedau—pa un nis gwelsom ni—ymha un y dywedir fod gorsaf (*solstice*) ogleddol yr haul tua chanol Aslesha, a'i gorsaf ddeheuol yn nechreu Sravishtha neu Dhanistha; yr hyn a ddygwyddodd, medd yr awdwr dysgedig a enwyd, yn y 14eg canrif cyn Crist. Os ydyw y dyb hon yn gywir, y mae yn ddiagon tebyg fod yr Hindwaid Vedaidd yn India pan orthrymid hil Jacob gan yr Aiphthiaid, a bod y pedair Veda agos càn hyned a'r "Pum Llyfr." Eithr a ydyw y dyb hon yn gywir? Er ateb yr holiad, dylid cadarnháu

* Gwel ei brofiôn yn ei "*Introduction to the Vishnu Purana*"—y traethawd goreu at Amseryddiaeth Hindwaid ag a ymddangosodd mewn unrhyw iaith, hyd y gwyddom ni.

y pethau canlynol:—A ydoedd sylwadau seryddol ysgrifenuwyr y Vedau yn gywir a manwl? A oes sicrwydd na chyfrifai seryddwyr Hindwaidd amser yn *ôl* yn gystal ag *ymlaen*, fel y mae yn eglur i rai o'r cenedloedd henafof wneuthur? A ydyw cyfrifon Mr. Colebrooke yn gywir a manwl? Os gellir ateb yr holiadau hyn oll yn gadarnhäol, y mae y pwnc wedi ei benderfynu. Ac y mae yn ammhëus pa un ai y Rig Veda neu Genesis a Job a osodwyd mewn ysgrifen gyntaf. Y mae yn ddiaddadl fod y pedair Veda gwedi eu hysgrifenu er yn foreu iawn; oblegid tystia eu hiaith a'u cyfansoddiad—eu hegwyddorion a'u defodau—fod cryn dymmor rhyngddynt â thymmor y Ramayan a'r Mahâbharata; a gellir profi y cyfrifid y rhai hyny allan o ddyddiad yn hir cyn amser Vikramaditya a'r Purana. Ar y cwbl, y mae yn dra thebygol;—Yn gyntaf, Mai addoliad yr elfenau, fel y desgrifia y Vedau, ydoedd y ffurfaddoliad cyntaf ymysg Hindwaidd gogledd-dir India, ac ucheldiroedd Cashmere a Bamean, ac nad ysgrifenuwyd yr un o'r pedair Veda yn ddiweddarach nag amser Dafydd frenin. Cawn gyfleusdra i gynnyg profi y mater hwn ryw dro eto. Yn ail, mai canlynwyr Buddha, ac nid Hindwaidd, a lywodraethent yn India, am agos i fil o flynyddoedd yn y cyfswng rhwng tymmor y Vedau âg amser y Purana a'r eilunaddoliaeth gwrthun presennol. Yn drydydd, nad ysgrifenuwyd yr un o'r Purana cyn Crist, ac yr ysgrifenuwyd rhai o honynt mor ddiweddar ag amser William y Gorchfygwr a'i feibion, ynghylch 700 neu 800 o flynyddoedd yn ol. Yn bedwaredd, tebygol mai Menu, awdwr y Dharma Shastra, neu Ddeddflyfr yr Hindwaidd, ydoedd sylfaenwr Brahminiaeth yn ei ffurf bresennol. Pa bryd y casglodd Menu ddefnyddiau ei Dharma Shastra, anhawdd penderfynu. Enwa Syr W. Jones yr unfed canrif ar ddeg cyn Crist, fel y nodwyd uchod; ar ba sail, nis gwyddom. Dysgedigion yn gyffredin a'u gosodant amryw ganrifodd y ddiweddarach. Meddwl rhai y deillia gair Sanscrit am *ddyn* (Manu Sha) oddiwrth enw Manu.

Y mae yn deilwng o sylw y professa dysgedigion India yn gyffredin eu hanwybodaeth o wraidd a tharddiad y geiriau Brahma, Brahman, Brahman. Tybia amryw o dysgedigion Ewrop y deilliant oddiwrth enw Abraham, neu oddiwrth yr hen wreiddair Caldeaid, o ba un y tarddodd yr enw hwnw. Eraill a'u holrheiniant i'r gwraidd Sanscrit *Brih*. Eiithr nid yw yn debyg fod y dyb olaf yn gywir. Dywed Mr. Pococke yn ei "*India in Greece*"* y gelwir Abraham "*Brahm*" yn yr ieithoedd Indaid; nis gwyddom ar ba sylfaen.

Fe allai nad cyfiawn a fyddai wrth ymdrin â mater fel yr un mewn llaw, peidio cynnyg rhai sylwadau ar y golygiadau a amddiffynir yn llyfr Mr. Pococke. Ceisir profi ynddo mai y Sanscrit ydoedd mamiaith y byd, ac mai gogledd Hindusthan a'r ucheldiroedd cylchynol oeddynt gryd holl genedloedd a llwythau Ewrop a gorllewin Asia. Sylfaena y gŵr dysgedig hwnw ei olygiadau ar gyfflybrwydd geiryddol a chrefyddol, ac ar debygolrwydd enwau lleoedd, mynyddoedd, afonydd, a llwythau. Y mae yn ddi-ammheu y dylid rhoddi eu lle priodol i ddaearddysg, llwythddysg (*ethnology*), a *mythoi* y gwahanol genedloedd mewn ymchwiliadau o'r natur hon, ac na ddyliid meddwl bod yr un *myth* mewn unrhyw grefydd heb fod wedi ei sylfaenu ar ryw fath o ffaith yn ei ddechreuad. Pa un a gafodd Mr. Pococke hyd i'r allwedd, fel yr haera efe,† ai peidio, sydd ymfyniad arall.

* Tu dal. 221. † Tu dal. 70.

Y mae rhesymau cedyrn dros gredu mai yr ucheldiroedd o gwmpas dyffryn paradwysaidd a phrydferth Cashmere—Chasya yr hen Rishi Hindw-aidd—ydoedd cartrefle “Noah, a Heber, a Shem dduwiolfrydig,” ac mai yn nyddiau Peleg yr ymwahanodd y teulu Noachaid, ac yr ymadawodd ein cyndadau Japheth a Gomer, a'r Shami neu y Bami pa rai a sefydlent gyda'r hen batriarch olddylifawl yn nhiriogaethau paradwysaidd Eden neu Airan, cyndad cyntefig yr hil. Eithr nid oes a fynom ni yn bresennol ág ymchwiliadau Mr. Pococke ynghylch sefydliadau a ffurfgrefyddau cyntefig Groeg. Cyfyngwn ein sylwadau at ei olygiadau ynghylch yr Hindw a'r Brython. Ei amcaniaeth ynghylch tarddiad Groeg o Graika, Pelasgi o Pelasa, Macedonia o Maghada, Ilion o Ila, Crissæus o Krishna, Apollo o A'Balânaj, &c., nid ymddengys i ni fymryn yn fwy rhesymol a phroffadwy na'r siddo awdwr “Drych y Prif Oesoedd,” yr hwn a wna dduwiau a duwiesau Groeg oll yn Gymry. Yn ol ei amcaniaeth ef, Sadwrn ydoedd Gymro o'r enw Sawd-dwrn; Rhea ydoedd Rhian; Jupiter ydoedd Ifan; Juno, Joan neu Suan; Mars, Mawr-rwysg; Mercury, Marchwr; Apollo ydoedd Ap Pwyll neu Ap Poell; Diana ydoedd Dianaf; a Venus, Gwen. Y mae rhywbeth digrif yn rhai o egluriadau geiryddol a tharddiadol Mr. Pococke. Nis gwyddom wrth ba reolau geiryddol y deillia y gair Brahma o Vena neu Selli; Chaldea—neu yn ieithoedd Asia, Chasya, Chasya Des, Chasya Pes, Chasdim—o Kool a Desa; Sperchius o Swaarga; Bardd o Bhat neu Bhaut; Hyperboreoi o Khyberpoor, &c. A ddywedir i ni y deillia Boreas o Poor, a *ίπερ* o Khyber? Pa beth a allai fod tarddiad Khyber? Y mae cryn gymysgedd yn amseryddiaeth awdwr “*India in Greece*.” Trosedrychir tymmor y grefydd Vedaidd i raddau mawr. Sonir am y Veda ychydig weithiau, eithr gochelir yr ymchwiliad ynghylch eu tymmor, ac ynghylch Rhyfel Ram a Ravana a'r Ramayan. Yn tu dal. 44 dywed, mewn dyfyniad o Col. Tod, y gorchuddiai llyngesau Hiram a Solomon y Môr Coch yn amser rhyfel Ram, cyn Crist 1000; ac eto mewn nodyn gwaelod-ddalenol dywed fod Cywydd y Ramayan yn rhoddi hanes y rhyfel hwnw, wedi ei chyfansoddi 1300 cyn Crist—hyn yw, 300 o flynyddoedd cyn i'r rhyfel a ddesgrifia gymeryd lle. Yr oedd “Rhyfel Ram” yn hen chwedl yn nhymor y “Rhyfel Mawr” a'r Mahabhârat, oblegid fel y cyfryw y cyfeirir ato yn yr olaf; ac eto yn ol Mr. Pococke y “Rhyfel Mawr” a fu yr achlysur i yru canlynwyr Buddha o India i Groeg. Dyddia y Profeswr Wilson y “Rhyfel Mawr” cyn Crist 1430, a Mr. Wilford 1370; y ddau gyfrif, fe allai, rai canrifoedd yn rhy foreu.

Tarddiad ein cyndadau Derwyddol a olrheindir gan y gŵr dysgedig fel hyn: *—Yn Ladakh, rhwng clogwyni yr Himalaya, y mae afon o'r enw Dras, Draus, neu Duras; ar lân yr afon hono y mae tref o'r un enw: lled. gog. 34° 22', hyd. dwyr. 75° 30'. Preswylwyr glênnydd yr afon hono a elwid Druopes; hyn yw, penaethiaid y Druas. Gelwid y wlad Dru-i-des, sef gwlad y Druas. Trigolion y wlad hono, neu ran o honynt, a ymfudasant i orllewin Ewrop a Brydain. Ac oddiwrthynt hwy y deilliodd y geiriau Druids, Derwyddon. Yr ymfudwyr hyn y oeddynt ganlynwyr Buddha, ac o'r llinell loeraidd. Yr enw Mon neu Mona a ddeillia o Mooni, sef doethwr neu sant, ac arwydda yr enw *Ynys y Saint*. Dywed yr awdwr dysgedig mewn nodyn, †

* Tu dal. 101—104. † Tu dal. 102.

y medda brofion eglur ynghylch yr ymfudwyr a ymsefydlasant yn Ynys Brydain.

Fe allai y goddefid i ni wrthod ein cydsyniad i'r golygiad hwn hyd nes y profir ef. Gallen enwi rhai rhesymau dros ein gwrthodiad. Yn gyntaf, Nis gwyddom paham y gelwid yr afon hono Draus neu Draus; eithr gwyddom arwyddocâd cyffredin y geiriau Derw, Dar, *δρος*, &c. Yn ail, Y mae genym fân ddarnau o draddodiadau er ein galluogi i ddyfalu pa lwybrau a allasai y Pelasgi gymeryd wrth grwydro o Roeg i Frydain; gadawsant ychydig o'u holion yn y ffordd y teithient. Eithr nis gwyddom am ddim o olion y Draus, mewn un man o Ladakh i Frydain. Yn drydydd, Traddodiadau holl lwythau Celtaidd Ewrop a gyfeiriant at Gomer, Cimmer, Camber, neu ryw enw o'r fath, fel cyndad y Celt a'r Gomeriaid; eithr ni soniant am genedl y Draus. Yn bedwerydd, Y gair Derwydd, Druid, &c., a gyfeiria bob amser at ddothbarth o ddysgawdwyr crefyddol, ac nid un amser at lwyth neu genedl, fel y dylasai gyfeirio os hanent o genedl y Draus. Yn bummed, Un o hynodion y grefydd Dderwyddol ydoedd allorau *Megalithic*, ac aberthau gwaedlyd—priodoliaethau na pherthynent i grefydd Buddha, hyd a wyddom ni, yn gynnar na diweddar. Prif nodweddiad crefydd Buddha bob amser ydyw tynerwch at fywyd fel y cyfryw, a'r pechod o'i ddinystrio. Yn chweched, Ymddengys bod rhyw gysylltiad rhwng yr enw "Derwydd," â'r *deru*, gan ei fod yn erthygl sylfaenol yn y grefydd hono y dylid eu cyfrif yn gysegredig. Ac os felly, nid rhaid myned cân belled â Ladakh i chwilio am darddiad yr enw "Derwydd," oddieithr y dywedir hefyd fod enw y pren yn deillio oddiwrth enw yr afon Thibetaidd hono, neu y trigolion pa rai a breswylient ar ei glênnydd. Ni wnelai caniatáu golygiad Mr. Pococke ond symud yr anhawsdra un ris ymhellach. Tardd y gair Druid o Druas; eithr o ba beth y tardd yr enw Druas, neu Draus?

Dysgedigion Germany a roddasant fodolaeth i olygiad, pa un sydd wedi cyrhaedd cryn boblogrwydd, ynghylch yr "Ariaidd dwyreiniol a gorllewinol." Wrth y cyntaf y deallant yr Indiaid Brahminiaid, ac wrth yr olaf y Persiaid a chenedloedd gogledd Ewrop,—yn cynnwys, wrth gwrs, yr eiddo Germany. Clywsom fod Dr. Wilson, Bombay, gwedi cyhoeddi yn ddiweddar lyfryn bychan er ceisio profi cywirdeb y golygiad Germaniaid. Nis gwelsom y llyfryn, ac nis gwelsom unrhyw resymau yn ysgrifeniadau Humbolt, Schlegel, Malte Brun, ac eraill, i'n tueddu i greu nad ymwanodd Shem a Japheth oddiwrth eu gilydd yn amser, ac yn unol â threfniant, yr hen batriarch,—ac na ddisgynodd cenedloedd Ewrop yn gyffredin o'r olaf, a'r eiddo Asia ddeheuol o'r blaenaf, fel y soniwyd uchod. I'n tyb ni, *Professor* Wilson, Rhydychain; Dr. Ballyntyne, Benares; a Dr. Wilson, Bombay, ydynt y tri dyn mwyaf cymhwys a galluog ar y ddaear i ymchwilio i'r mater hwn a'i benderfynu. Nid oes genym fawr ffydd yn ngolygiadau Germany. Rhaid teithio y byd i weled lleoedd, clywed traddodiadau, a sylwi ar ddefodau dynion, yn gystal â darllen nifer o hên gyfrolau, er ffurfio golygiadau eglur a phrofiadwy ar fater o fath hwn.

Y mae llawer o resymau er dangos defnyddioldeb ymchwiliadau dyfal a manwl i henafiaethau yr hen genedloedd hyny a feddant henafiaethau, megys yr Iuddew, Armeniaid, Arab, Hindw, Brython, &c. Llawer o'r hen *genedloedd* ni fodolant ond mewn enw. Ysgubwyd hwynt ymaith yn llwyr,

naill ai gan ddynstr neu trwy ymgymysgiad cenedlaethol. Pa le y ceir hyd i un gangen o'r boncyff Syriaidd cydoesol â Benhadad neu â Laban? neu o'r Aiphtiaid, pa rai a wrandawent ar Abraham a Moses, neu a ganlynent Sesostris o India hyd Ethiopia? neu o Assyriaid, Pheniciaid, a Charthaginaid yr hen oesoedd? Hyd yn nôd y Rhufeiniaid, pa rai a wrandawent ar Numa, ac a ganlynent Julius Cæsar, ni feddant gynnrchiolwyr.

Un rheswm dros chwilio gyda diwydrwydd i'r henafiaethau hyny ydyw: Mai ymysg eu *mythoi* y ceir hyd i ddirgelwch a tharddiad defodau cymdeithasol y byd; a pho fwyaf digymysg y trosglwyddwyd unrhyw genedl i lawr gan amser, mwyaf hawdd ydyw cael hyd i gynffurf a ffynnonell ei defodau. Rheswm arall ydyw, Fod rhyw ddyben gan Benllywydd y byd mewn peri i un genedl ddifanu o fodolaeth fel y cyfryw, tra y ceidw yn arall i dyfu yu ddigymysg ar ei boncyff ei hun. Y mae mor dddiddadl bod Iuddew yn hâd Abraham heddyw âg ydoedd yn nyddiau Moses neu Solomon, a'i fod yn ddeiliad yr hen gyfammod a roddwyd i Abraham yn Mamre, ac i Moses yn Arabia. Os methodd gyrhaedd y bendithion, cyrhaeddodd y melldithion a gynnwysid yn y cyfammod hwnw (Deut. xxiii., xxix.); ac y mae y naill yn gystal a'r llall yn brawf diymwad o darddiad yr Iuddew. Y trydydd rheswm a ellid enwi ydyw, Yr ymddengys y gwna Rhagluniaeth ddefnydd o nodweddau neillduol gwahanol genedloedd er dwyn i ben ei bwriadau ei hun. Hanes hen a diweddar a rydd ddigon o brofion o hyn. Y rheswm olaf a gawn nodi yn bresennol, Gellir olrhain cyfaredd yn gystal â gwenwyn crefyddol a moesol yr hil i'w henafiaethau. Os yno ceir hyd i ffynnonell holl ffurfgrefyddau cyfeiliornus y byd, yno hesyd y ceir ffurf fwyafsyml crefydd natur. Os chwilia yr anffyddiwr yno am resymau er dadymchwelyd y ffaith o Grefydd Ddadguddiedig, chwilia y crediniwr, gyda llawer mwy o lwyddiant, am ffeithiau er profi ffrwd annhoredig a bythgynyddol Dwyfol Ddadguddiad yn cydredeg â'r hil a'i chyfeiliornadau. Os ceir yno brofion o henafiaeth cyfeiliornad, ceir eglurach profion o ragorach henafiaeth gwirionedd; os rhydd henafiaethau brawf yr ymadawai dyn â'i Grëwr er yn foreu, rhoddant gadarnach prawf o'u hundeb âg ef yn foreuach. Os ydyw y byd henafol yn arfdy i neb, y mae yn arbenigol felly i'r crediniwr mewn dadguddiad a chymmod drwy aberth a gwaed. Edrych yr Hindw yn ôl ar ei henafiaethau fel ffynnonell ei ogoniant boreuol, a'i gywilydd presennol—fel *chaos* diderfyn a dilân o ddoethineb ac ynyfdrwydd, goleuni a thywyllwch, gwirionedd a chyfeiliornad—a chysga ei fywyd i ben mewn breuddwydion am sawredd ei gyndadau. Edrych y Cymro ar ei henafiaethau fel "amseroedd yr anwybodaeth," pa rai a drosedrychai Duw; a chan ddyfal fyfyrion ar y graig o ba un y naddwyd ef, a cheudod y ffos o ba un y cloddiwyd ef, ymhythâ i afaelw yn llaw ei frawd Hindwaidd er ei dynu i fyny i awyrgylch yr addewidion, a goleuni geiriau y bywyd tragwyddol.

LLYFRGELLOEDD.

WEDI cymeryd brasolwg mewn ysgrif flaenorol* ar gyfodiad a sefydliad Llyfrgelloedd, ynghyda gwneyd byr nodiad ar y prif Lyfrgelloedd yn yr oesoedd hynafol, y mae yn eithaf naturiol yma i wneyd sylw byr eto, ar

LYFRGELLOEDD Y CANOL OESAU.

Mae y "canol oesau" hyn, y rhai yn gyffredin a ystyrir yn cyrhaedd o amser JUSTINIAN II., yr amherawdwr, yn nechreu yr wythfed canrif (A.D. 704—711,) hyd gwmp Caercystenyn (yn 1453 A.D.), ac adfywiad llên-yddiaeth yn y 15fed canrif, yn cael eu galw "yr oesoedd tywyll;"—"cyfnod y nos ddeallol;"—a "thymmor gauaf yn hanes dyn," &c. Ac y mae tuedd yn yr arferiad o fath enwau ac ymadroddion rheithorol i gamarwain yr anghyfarwydd, nes peri iddynt gasglu fod y meddwl dynol wedi syrthio i gwsag hollol, a phob achos dysg a gwybodaeth wedi llwyr ddfianu yn y cyfamser. Ond y mae hyny yn gamgasgliad cyfeiliornus; canys os oedd y meddwl dynol yn cael ei gamarwain, nid oedd yn cysgu; wedi ymddrysu yn hytrach nag wedi ymollwng yr oedd athroniaeth; ac o'r golwg yn hytrach nag wedi myned ar ddfancoll yr oedd dysgeidiaeth. Canys nid ydys wedi llwyr golli ôlion yr hen awduron clasurol, llawer llai ysgrifeniadau y duwinyddion, yn ystod un rhan o'r "canol oesau;" oblegid yr oedd trwy bob rhan o Ewrop, trwy yr holl oesoedd hyny, rai ysgrifenwyr, y rhai y mae eu gweithiau eto yn aros, ag sydd yn brawf digonol o'u hadnabyddiaeth dryllawn â gweithiau prif ysgrifenwyr yr hen oesoedd blaenorol.† Pan suddodd ymherodraeth y gorllewin dan bwys dinystriol y goresgyniad barbaraid, y mae yn ddiammheul i'r sefydliadau hyny ag oeddynt wedi cael eu sefydlu a'u meithrin yn nghanol gwareiddiaeth gael eu hysgubo ymaith gan y gefnllif yr hon a ddinystriodd yr Ital, ac a ledanodd ei difrod dros holl ranau yr Ital.

Ond er i ddysgeidiaeth gael ei tharfu ymaith allan o'i hen sefydliadau, eto cafodd noddfa achlysurol yn y mynachdai, y rhai a adewid heb eu niweidio gan y barbariaid yn nghanol eu holl rysesd, pan yn dymchwelyd yr amherodraeth. Rhaid addef mai ychydig a sonir mewn cymhariaeth am *Lyfrgelloedd* yr oesoedd hyny—rhwng cwmp ymherodraeth Rhufain ac adfywiad llên-yddiaeth yn Ewrop yn nghanol y pymthegfed canrif; ond cynyrechodd pob oes ei dynion dysgedig ac ymofyngar, gan y rhai y mawbrisd llyfrau, ac eu cesglid ynghyd. Ymneillduodd Cassiodorus gweinidog Theodore, brenin y Gothiaid, i fynachdŷ yr hwn a adeiladasai efe, ac a sefydlodd lyfrgell ynddo at wasanaeth y mynachod, tua chanol y chweched canrif. Ac yn ddiweddarach na hyny, Charlemagne, yr hwn oedd nodedig fel noddwr dysgeidiaeth, a sefydlodd lyfrgell gyhoeddus yn agos i Lyons, yr hon yn ol tystiolaeth haneswyr a gynnwysai liaws o lyfrau, y rhai oedd wedi eu rhwymo yn y modd mwyaf rhagorwych. Rhaid addef mai pwnc

* Y TRAEATHODYDD am 1858, tu dal. 476. † Taylor, "History of the Transmission of Ancient Books to Modern Times," pp. 86, 87.

y dadleuwyd llawer yn ei gylch ydyw pa un ai lles ai afes i llényddiaeth a dysgeidiaeth oedd sefydlu mynachdai. Tra yr haera rhai, pe na buasai y mynachod y darfuasai yn llwyr am ddysgeidiaeth hynafol, y mae eraill yn myned mor bellod a haeru mai gelymion gwaethaf llényddiaeth oedd y mynachod; ond os gellir cyrhaedd i ryw benderfyniad teg a chywir ar y mater, rhaid sylwi na fu llényddiaeth erioed yn un o'i ffurfiau, mewn un wlad, yn brif bwnc mewn golwg mewn cysylltiad â mynachaeth. Yn yr oesoedd boreuol, pan oedd gweddillion Paganiaeth yn hollol newydd, fe fuasai yn orchwyl tra chwith a rhyfedd gweled confeswyr a chenadon Cristionogaeth yn coleddu, meithrin, a chadw i fyny farddoniaeth Baganaid. Ond pan ddaeth y mynach yn llai o'r meudwy, ac yn fwy o ddinesydd, efe a ddaeth o anghenheidrwydd i fod yn gasglydd llyfrau, ac yna i fod yn awdwr neu adysgrifenydd o honynt. Ond am amser maith, llyfrau duwinyddol a moesol oedd y rhai a gasglai neu a gyfansoddai y mynach; eithr o dipyn i beth daeth amryw o'r urdd i goleddu llényddiaeth yn ei holl ranau, ac, mewn canlyniad, i gasglu a chyfansoddi gweithiau ar wahanol ranau dysg. Ac o'r gwahanol urddau o fynachod, ystyrir mai y *Benedictiaid* sydd wedi rhagori yn benaf ar faesydd llényddiaeth. Gelwid *Monte Cassino* (mynachlog berthynol i'r Benedictiaid yn Naples) yn Sinai y canol oesoedd. Ac yn ddiammheuol y mae wedi bod yn gryd i amryw o sefydliadau mynachaidd eraill, y rhai a wasgerid dros holl Ewrop, ac yn eu plith nid y rhai lleiaf enwog oedd ein Mynachdai Brytanaidd, megys Mynachdai Yarrow, Wearmouth, Bury St. Edmunds, Croyland, Reading, a St. Albans, y rhai oeddynt oll yn nodedig am y llafur a gymerent i adysgrifenu a chasglu llyfrau ynghyd.

Yr oedd y gyfundrefn o adysgrifenu, i'r hon yn unig yr ydym yn ddyledus am yr holl weddillion o ddysgeidiaeth henafol ag sydd genym, yn cael ei ddwyn ymlaen i'r fath raddau, fel nas gall neb ond rhai cyfarwydd â hanesiaeth y canol oesau ffurfio meddylddrych cywir am y peth. Y mynachod ag oeddynt yn preswyllo mynachlogydd mynydd Athos, yn nhir Groeg, ydynt yn enwog ar gyfrif y rhifedi dirfawr o ysgriflyfrau y rhai a anfonent allan ar wahanol amserau o'r sefydliadau uchod. Mae llawer o lyfrau mewn llawysgrifen hefyd ar gael eto, y rhai sydd yn dangos fod adysgrifenu yn cael ei ddwyn ymlaen ar fesur mawr yn Mynachdai Morea, Eubœa (Negropont), a Crete (Candia). Ymddengys fod Ynys Crete wedi bod yn nawddle i ddynion dysgedig yn ystod yr amser anffodus ag oedd yn rhagflaenu cwmp yr Ymherodraeth Ddwyreiniol, ac yn ei mynachlogydd yr oeddynt yn cael nawdd a moddion eu cynnalïaeth. Crybwyllir am hanner cant o sefydliadau crefyddol yn Calabria a theyrnas Naples, o'r rhai y daeth allan liaws mawr o'r llyfrau, y rhai gwedi hyny a gasglwyd i Rufain, Florence, Venice, a Milan.*

Er prawf o'r tystiolaethau uchod o barthed i liosogrwydd neu rifedi y llyfrau, nis gall fod dim yn fwy argyhoeddiadol na chymeryd golwg ar y gwahanol restrebau (*catalogues*) o honynt, fel y maent wedi eu cyhoeddi; —megys rhestr eb o lyfrau Mynachlog Corbey, yr hwn a argraffwyd gyntaf gan Syr Thomas Phillips, ac a ail argraffwyd yn 1841 yn y *Serapeum*, (cylchgrawn o *Leipsic*); ac mewn cyfrolau diweddarach o'r un cyhoeddiad, ceir rhestr ebau o lyfrgelloedd Mynachlogydd St. Vaast o Arras, Kloster-

* Taylor, "History of the Transmission of Ancient Books," p. 83.

neuburg, ac amryw fynachlogydd llai eraill, ynghyd a sylwadau ar amryw lyfrgelloedd mynachlogaidd, y rhai nas gellir cael rhestreb o'u cynnwysiad yn bresennol, gan E. G. Vogel, o Dresden. Cyhoeddwyd rhestreb o lyfrau mynachlog fawr Durham yn 1838, dan olygiad Mr. Beriah Botfield. Ceir hefyd restreb o lyfrgell mynachlog Whitby, yn yr ad-ddodiad i hanes Mr. Young o'r dref uchod; ac o lyfrau Mynachlog Peterborough, yn hanes y ddinas gan Gunton; a cheir rhestreb hefyd o hen lyfrgell Glastonbury yn *Hearne's Appendix to the Chronicle of John of Glastonbury*.

Yn y pymthegfed canrif y cyfrifir yn gyffredin ddechreuad adfywiad llên-yddiaeth yn Ewrop; ond yr oedd mewn gwirionedd gynnydd amlwg wedi dechreu ar braidd bob rhan o lënyddiaeth yn y pedwerydd canrif ar ddeg. Yr oedd yr anwybodaeth gaddugol ag oedd wedi darostwng y wlad, yn awr yn cael ei chwalu ymaith yn amrywiol ranau o Ewrop; yr oedd y dosbarth addysgedig o'r bobl yn coleddu chwaeth mwy coeth, a golygiadau mwy èang ar bethau; a deffrôad cyffredinol ar alluoedd y meddwl dynol i'w ganfod yn fwy amlwg. Mae gweithiau Dante, Petrarch, Boccacio, Chaucer, &c., y rhai a gynnyrchid ac a ddarllenid yn helaeth yn y cyfnod hwn, yn ddigon o brawf.

Er ys rhagor na hanner canrif cyn i'r Tyrciaid gymeryd Caercysteny, yr oedd dysgedigion y ddinas ymherodrol, oddi ar bod yn rhagweled dymchweliad yr ymherodraeth, yn dechreu ymfudo i'r Ital, lle y sefydlasant ysgolion, yn y rhai y cawsant yr anrhydedd o fod yn athrawon i dywysogion, yn gystal ag yn arweinwyr chwaeth y cyhoedd, yr hwn a dynasant i efrynu ysgrifeniadau clasurol hen ysgrifenywyr Groeg a Rhufain. A chwymp Caercysteny yn y flwyddyn 1453, a lanwodd ddinasoedd yr Ital â'r dy-eithriaid dysgedig hyn. Ac yr oedd amgylchiadau yr Ital yn y cyfamser o'r fath ddedwyddaf, fel ag i beri iddi wneyd y dyben goreu o'r fantais hon ag oedd wedi dygwydd i'w rhan. Mewn canlyniad, cynnyddodd dysgeidiaeth yn eu plith, a daeth eu hawydd yn gryf ac angerddol, fel nad oedd- ynt yn arbed na thraul na thrafferth mewn trefn i'w casglu ynghyd. Anfonid gwyr dysgedig ymhob cyfeiriad trwy Ewrop, Asia Orllewinol, ac Affrica, i gasglu llawysgrifeniadau; ac yn yr yspaid o ychydig o flynyddoedd, fel yma, y casglwyd ynghyd i lyfrgelloedd Rhufain, Naples, Florence, Vienna, a Paris, weithiau y rhan fwyaf o'r hen ysgrifenywyr ag sydd yn awr yn adnabyddus. A thrwy gael eu cynnorthwyo a'u cefnogi gan y Tywysogion a'r Pabau, ymroddodd ysgoleigion y pymthegfed canrif â'u holl egni i chwilio allan, adferu, a chyhoeddi y gweddillion ag oedd ar gael o hen lënyddiaeth Groeg a Rhufain; ac yn ystod rhyw driugain neu bedwar ngain mlynedd, yn y cyfnod hwn, y cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r hen weithiau clasurol ag sydd yn adnabyddus hyd heddyw.*

Tua'r cyfnod pwysig hwn, daeth y gelfyddyd o argraffu i arferiad, yr hon a roddodd y fantais fwyaf at liosogi a chasglu llyfrau ynghyd. Mae amrywiol o lyfrgelloedd mawrion Ewrop yn dyddio eu dechreuad cyntaf yn ystod y can' mlynedd, rhwng 1365—pan oedd Siarls V. o Ffrainc wedi ennill iddo ei hun ei enwogrwydd fel casglydd llawysgrifeniadau gwerthfawr—a 1465 pan oedd y gelfyddyd o argraffu wedi ymsefydlu, er nad oedd hyd yma wedi gwneyd ymaith yn llwyr â gwaith yr adysgrifenywyr. O fewn y cyfnod hwn y sylfaenwyd y Llyfrgelloedd Ymherodrol yn Paris a Vienna, y

* Taylor's "History of the Transmission of Ancient Books," p. 106.

Lyfrgell Laurentaidd yn Fflorence, a Llyfrgell y Vatican yn Rhufain. Yn ystod yr un cyfnod hefyd y gwnaed y rhoddion ardderchog a rhyddfrydig o lyfrau, gan Syr Richard Whittington i'r Ffranciaid yn Llundain; gan Humphrey, Duc Caerloyw, i Brifysgol Rhydychain; gan y brenin Henry VI. i Goleg *All Souls*; a chan Niccolo Niccoli i'w gyd-ddinaswyr yn Fflorence. Ac yn y cyfnod yma hefyd y cychwynwyd y casgliadau gorardderchog hyny o lyfrau gan Frederic, Duc o Urbino, a Matthias Corvinus, brenin Hungary, y rhai a dafasant yr holl lyfrgelloedd blaenorol yn llwyr i'r cysgod. Ac o fewn yr un cyfnod hefyd y cychwynwyd y rhai hynaf o Brifysgolion yr Almaen. Mor foreu â 1413, sefydlodd Andreas Von Slomow lyfrgell yn Dantzic, mewn cysylltiad âg Eglwys St. Mair.* Dilynydwyd ei esiampl ef gan Conard Von Hildesheim, yn Ratisbon, yn 1430;† gan Heinrich Neidhart, yn Ulm, yn 1440.‡ Ac nid oedd Ffrainc yn ôl yn hollol yn y peth hwn, ond nad oedd yn gwneyd â'r un egni a phenderfyniad â'r Almaen,

Nis gall Brydain Fawr ymfrostio mewn un "Lyfrgell Freninol" deilwng o'r enw, hyd yn nheyrnasiad Iago I. Yn 1570 yr oedd Syr Humphrey Gilbert wedi bod yn gosod o flaen y Frenines Elizabeth y manteision neillduol ag oedd llênnyddwyr mewn gwledydd eraill yn fwynhâu oddiwrth lyfrgell gyhoeddus neu freninol—gan ddangos y fantais a'r gogoniant cenedlaethol a fuasai yn deillio oddiwrth sefydlu y cyfryw yn y deyrnas hon; ond ni lwyddodd yn ei amcan. Yn 1588, gosododd Clemen Littill gonglfaen Llyfrgell Prifysgol Edinburgh i lawr. Yn 1580, dechreuodd Syr Robert Cotton ei gasgliad ardderchog o ysgriflyfrau. Yn 1597 y sylfaenodd Syr Thomas Bodley ei Lyfrgell yn Rhydychain. Ac yn 1601 y sefydlwyd Llyfrgell Prifysgol Dublin.

LLYFRGELLOEDD BRYTANAIDD.

Yn y dosbarth hwn o lyfrgelloedd, y mae y lle cyntaf yn deilwng i *Lyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd*, yr hon yw LLYFRGELL FRENINOL y deyrnas, neu drysorfa genedlaethol Gwyddor, Llênnyddiaeth, Celfyddiaeth, a Hynafiaethau perthynol i Brydain Fawr.

I gymynrodd Syr Hans Sloane, casgliad llyfrau, &c., yr hwn a bwrcaswyd yn ol y telerau ag oedd wedi eu cynnyg, yn enw ymddiriedolwyr, at wasanaeth y cyhoedd, y mae tarddiad uniongyrchol y sefydliad hwn i'w briodoli. Ar y cyntaf, y llyfrau argraffedig ag oedd yn perthyn i Lyfrgell Hans Sloane oedd yn gwneyd i fyny y rhan hono o Lyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd; ond yn 1757, ychwanegodd Sior II., trwy Weithred Seneddol, atynt Lyfrgell Breninoedd Lloegr, llyfrau argraffedig yr hon oedd wedi cael eu casglu ynghyd yn arafaid trwy yr amseroedd, o deyrnasiad Harri VII. i fyny, ynghyd â'r ysgriflyfrau, y rhai oeddynt o ddyddiad llawer uwch, fel y ceir crybwyll eto. Yr oedd y casgliad hwn yn gyfoethog neillduol yn llênnyddiaeth ffyniannol y gwahanol gyfnodau. Yr oedd yn cymeryd i fyny, ymhlith pethau eraill, Lyfrgelloedd Archesgob Cranmer, Henry Tywysog Cymry, ac Isaac Cassaubon. Ychwanegodd ei Fawrhidi at ei rodd yr hawl ag oedd yn perthyn i'r Llyfrgell Freninol er ys talm maith, sef cael *copy* o bob llyfr neu gyhoeddiad a gofrestrid yn Neuadd y Llyfrwerthwyr.

* Petzholdt, "*Handbuch deutscher Bibliotheken*," pp. 78, 79. † *Ibid.*, pp. 314. ‡ *Serapewm*, (Leipzig, 1844, 8vo.) Vol. V., pp. 198—202.

Cyfoethogid yr un dosbarth o'r llyfrgell hon ymhellach trwy rodd gan Sior III. yn 1763, yr hon oedd yn gynnwysedig o gasgliad anarferol o draethodau (*pamphlets*) a phapyrâu cyfnodol (cyhoeddedig yn Lloegr rhwng 1640 a 1660, ac yn benaf mewn cysylltiad â'r Rhyfel Cartrefol yn amser Siarls I.), y rhai oedd wedi eu trefnu gan Geo. Thomason, Llyfrwerthwr o'r blaidd freninol, yn Llundain. Yr oedd y rhodd hon yn gwneyd i fyny 2,220 o gyfrolau, ac yn cynnwys tua 34,000 o wahanol draethodau o wahanol faintioli, ac ar lawer o bynciau o'r dyddordeb uchaf i'r gwladdeidiwr a'r hanesydd.

Amser a ballai i grybwyll am yr holl ychwanegiadau a wnaed wedi hyny at y llyfrgell hon trwy wahanol roddion a phryniadau. Ymhlith adchwanegiadau llai, gellir crybwyll Llyfrgell Dr. Thomas Birch; dau gasgliad o lyfrau ar gerddoriaeth—y naill oddiwrth Syr John Hawkins, a'r llall oddiwrth Dr. Charles Burney; casgliad Garrick o hen chwareuganau (*plays*) Seisonig; lliaws o weithiau clasurol o lyfrgell Thomas Tyrwhitt, gyda nodau mewn llawysgrifen; casgliad Syr William Musgrave o weithiau bywgraffyddol; casgliad o weithiau clasurol, gyda nodau mewn llawysgrifen, gan Dr. Bentley, &c. Ymhlith yr adchwanegiadau mwy a phwysicach, gellir nodi y Llyfrgell Gyffredinol, gasgledig gan y Parch. Clayton Mordaunt Cracherode, yn gynnwysedig o lyfrau tra hynod, anhawdd eu caffael, ac yn y rhwymiad rhagoraf; Llyfrgell Gyfreithiol Mr. Francis Hargrave; Llyfrgell o Lyfrau ar Wyddoreg, a berthynai i'r Barwn Von Moll, o Munich; Llyfrgell M. Ginguene, eiddo Dr. Charles Burney a Syr Joseph Banks; pedair o gasgliadau gwahanol mewn perthynas i chwyldrôadau Ffrainc; casgliad o'r holl Newyddiaduron o'u hymddangosiad cyntaf, yn gymnar yn yr 17eg canrif. Yn 1823, anrhegwyd y Llyfrgell Freninol, yr hon a gesglid gan Sior III., at Lyfrgell yr Amgueddfa Frytanaid, gan Sior IV., trwy awdurdod y Senedd; ond ar yr un pryd penodwyd ar fod i'r llyfrgell hon gael ei chadw wrthi ei hun, ar wahan oddiwrth bob llyfrau eraill yn y sefydliad. Eithr gweddus yw sylwi yma i Sior IV. gadw rhai o'r cyfrolau mwyaf nodedig ag oedd yn perthyn i lyfrgell ei dad at wasanaeth ei lyfrgell ei hun, y rhai sydd yn awr yn nghadw yn y Llyfrgell Freninol yn Nghastell Windsor. Yr oedd llyfrgell Sior III. yn cynnwys tua 65,250 o gyfrolau, heblaw casgliad o draethodau—tua 19,000 o rifedi. Cyfrifir fod y llyfrgell hon ei hun yn werth tua £130,000. Ychwanegiad tra phwysig arall at Lyfrgell yr Amgueddfa yw cymynrodd y Gwir Anrhydeddus Thomas Grenville, yn 1846. Y mae yn cynnwys 20,240 o gyfrolau, ac wedi costio uwchlaw £54,000. Ymhlith ychwanegiadau diweddar eraill, gellir nodi dau:—un yw casgliad o lyfrau perthynol i lënyddiaeth Hebreig, yr hon a ffurfid gan Dr. Michael o Hamburg (yr hwn a fu farw yn 1846), ac sydd yn cynnwys 3970 o wahanol weithiau, mewn 4420 o gyfrolau. Yr ychwanegiad diweddar arall ydyw detholiad éang a threfnus o lyfrau yn holl rauau llënyddiaeth, ac mewn gwahanol ieithoedd, wedi eu dewis yn bwrsapol at wneyd i fyny y diffygiadau a ystyrid oedd yn perthyn i Lyfrgell yr Amgueddfa yn flaenorol i hyn. Gwnaed y pwrnasiad hwn yn ddilynol i adroddiad llafurfawr Mr. Panizzi (y Prif Lyfrgellydd) yr hyn a wnaed ganddo Ion. 1, 1845.

Y mae cyfanswm yr holl gasgliadau ag sydd wedi cael eu gwneyd ymhob modd at drysorau y llyfrgell hon, wedi gosod ei chasgliad o lyfrau argraffedig, o ran rhifedi a bri, yn ail ymhlith Llyfregelloedd Ewrop a'r byd. Nid oes

ond y Llyfrgell Ymherodrol yn Paris o'i blaen. Cyfrifir fod ei chynnydd blynyddol tua 13,000 o gyfrolau, a rhif yr holl gyfrolau ynddi (yn 1857) oedd 562,000 o gyfrolau.

Yn 1837, pan y daeth Mr. Panizzi (y Prif Lyfrgellydd yn awr) i fod yn geidwad y llyfrau argraffedig yn y sefydliad, nid oedd rhif y cyfrolau y pryd hwnw ond 240,000. Mor ddirfawr y cynnydd sydd wedi bod arnynt yn ystod ugain mlynedd o amser! Ac nid hyn yn unig, ond y mae yr holl lyfrgell wedi ei had-drefnu a'i diwygio ymhob ystyr.

Rhan bwysig iawn eto o Lyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd ydyw yr *Ysgriflyfrau*, neu y llyfrau sydd yno mewn llawysgrifen. Mae y rhan hon o honi yn cael ei wneyd i fyny o wahanol gasgliadau penodol, megys:—

(1). Y Casgliad *Breninol*. Mae hwn yn cynnwys 1950 o gyfrolau, ac yn gwneyd i fyny ran o Lyfrgell Freninol Lloegr, yr hon a anrhegwyd i'r genedl gan Sior II. yn 1757. Mae y llawysgrifau hyn yn dyddio o deyrnasiad Richard III. hyd deyrnasiad Siarls II. Mae rhestreb o'r casgliad hwn gan un David Casley, wedi ei argraffu yn 1734. Ymhlith yr ysgriflyfrau gwerthfawr hyn, un o'r rhai hynotaf yw *Codex Alexandrinus*, anrheg oddiwrth Cyril, Patriarch Caercystenyn, i Siarls I. Y mae yn gynnwysedig mewn pedair cyfrol 4to, ac wedi ei ysgrifenu ar femrwn llyfn, mewn hen lythrenau penigol (*uncial letters*), a hyn y mae yn debygol rhwng y pedwerydd a'r chweched canrif; a chredir mai dyma y *copy* hynaf mewn llawysgrifen o'r Bibl Groeg ag sydd i'w gael. Mae y casgliad hwn hefyd yn gyfoethog o dduwinyddiaeth ysgoleigaidd, ac amryw o hen groniciâu.

(2). Casgliad *Syr R. Cotton*. Prynwyd hwn at wasanaeth y cyhoedd yn 1700, ac a gysylltwyd trwy Ddeddf Seneddol â'r Amgueddfa Frytanaidd yn 1753. Mae y casgliad hwn yn gyfoethog nodedig mewn ysgrifau hanesiol, o amser y Saxoniaid i lawr hyd amser Iago I. Yr oedd yr ysgriflyfrau hyn—958 o gyfrolau—wedi eu casglu gan Syr Robert Cotton, yr hwn a anwyd yn 1570, ac a fu farw yn 1634; ond wedi iddynt ddyfod drosodd i fod yn feddiant cenedlaethol, torodd tân allan yn yr *Ashburnham House*, lle yr oeddynt yn nghadw, a llosgwyd rhai, a niweidiwyd eraill o honynt, fel nad yw eu rhif yn bresennol ond 746 o gyfrolau cyfain, a 98 o rai wedi eu niweidio gan y tân. Mae y casgliad hwn yn cynnwys lliaws o gofrestrau y Mynachlogydd Seisonig; breinleni (*charters*) Edgar a Harri I. i Fynachlog Hyde ger Winchester, wedi eu hysgrifenu mewn llythrenau o aur; a'r ysgrif a elwir *Llyfr Durham*, sef cyfysgrif Lladin o'r Efenyglau, ac esboniad rhwng-linellol Saxonaidd arnynt, wedi ei ysgrifenu cyn y fl. 800, a'r hwn, meddir, a fu unwaith yn meddiant yr hybarch Beda.

(3). Y casgliad *Harleiaidd*, yr hwn a ffurfiwyd gan Robert Harley, Iarll Rhydychain (1661—1724), a brynwyd yn 1753 am £10,000. Y mae yn cynnwys 7639 o gyfrolau, yn annibynol ar 14,236 o goflyfrau, breinleni, a gweithredoedd eraill. Er fod y casgliad hwn rywbeth yn amrywiol o ran ei natur, eto rhaid addef mai llênnyddiaeth hanesiol yw ei brif nodwedd. Cynnwysa gyfoeth mawr o goflyfrau mynachlogydd, ysgriflyfrau o'r clasuron, llyfrau gwasanaeth yr Eglwys Babaid, a hen farddoniaeth Seisonig. Ymhlith ysgriflyfrau o'r clasuron, y mae yno un o'r cyfysgrifau hynaf ag sydd yn adnabyddus o *Odyssey* Homer. Y mae yn cynnwys hefyd tua 300 o Fiblau, a gweithiau Biblaidd, yn Hebraeg, Caldeaeag, Groeg, Arabaeag, a'r Lladin; a thua 200 cyfrol o ysgrifeniadau Tadau yr Eglwys.

(4). Casgliad *Sloane*. Mae y casgliad hwn yn cynnwys 4,100 o gyfrolau, yr rhai ydynt yn benaf ar hanesiaeth naturiol, teithiau, môrdeithiau, y celfau, ac yn enwedig meddygiaeth.

(5). Casgliad *Lansdowne*. O'r casgliad hwn y mae 121 cyfrol o baprau pwysig perthynol i'r llywodraeth, a gohebiaeth Arglwydd William Burghley yn ystod teyrnasiad y Frenines Elizabeth.

(6). Casgliad o tua 500 cyfrol o ysgrifyfrau yn perthyn yn hollol i'r gyfraith, yr hwn a bwrcaswyd yn 1813 gan gynnyrcholwyr Francis Hargrave, am y swm o £8,000.

(7). Casgliad o ysgrifyfrau—tua 520 o gyfrolau—yn benaf o'r clasuron Groegaidd a Lladinaidd, y rhai a gesglid ynghyd gyda thraul ddirfawr gan y Parch. Dr. Charles Burney. Ymhlith y rhai hyn y mae cyfysgrif o *Iliad* Homer, am yr hwn y talodd y pwrcasydd y swm o £630.

(8). Dau o gasgliadau o ysgrifyfrau yn yr ieithoedd dwyreiniol, y rhai a gasglwyd gan Mr. C. J. Rich pan yn Alfaer (*Consul*) Prydeinig yn Bagdad, ac a bwrcaswyd gan y Senedd yn 1825. A'r llall sydd gasgliad o ysgrifeniadau Arabaidd a Phersiaidd, y rhai a anrhegwyd i'r Amgueddfa Frytanaidd yn 1827, gan y casglydd, Mr. J. F. Hull.

(9). Casgliad bychan, ond tra gwerthfawr, o ysgrifyfrau, yn perthyn mewn rhan i hanesiaeth Ffrainc, yr hwn a anrhegwyd i'r Amgueddfa Frytanaidd gan Iarll Bridgewater.

(10). Y casgliad penodol diweddaraf ydyw yr ysgrifyfrau *Howard-Arundel*, y rhai a gafwyd o'r Gymdeithas Freninol yn 1831, mewn rhan trwy gyfnewid, ac mewn rhan trwy bwrcasiad, y rhai a ystyrid yn werth £3,560. Y maent uwchlaw 600 o gyfrolau, ac yn cynnwys ysgrifyfrau ar braidd bob cangen o ddysgeidiaeth, ac yn gyfoethog iawn o ddefnyddiau hanes ein gwlad ni a'n hiaith. Heblaw y prif gasgliadau uchod o ysgrifyfrau, y mae lliaws mawr eraill o gasgliadau llai, y pallai amser eu henwi, wedi eu hychwanegu at y llyfrgell, naill ai trwy bryniad neu roddiad. Ond o'r ychwanegiadau diweddar at ysgrifyfrau y llyfrgell hon, y rhai a gafwyd trwy ymchwiliadau yr Archddiacon Tattam yn anialwch Nigritia yn yr Aipht, ar lân Môr y Canoldir, yw y mwyaf pwysig. Mae tri throsglwyddiad gwahanol o ysgrifyfrau wedi cyrhaedd yr Amgueddfa o Nigritia er dechreu y flwyddyn 1843, y rhai oll ynghyd ydynt tua 600 o gyfrolau. Rhwng gweithiau cyfain, a rhanau, nid yw rhif yr ysgrifeniadau islaw 1,200, ac o honynt y mae rhai mor hen a dechreu y pummed canrif, a'r rhai diweddaraf o honynt o ddechreu y pedwerydd canrif ar ddeg. Yn eu plith y mae copi o Bwm Llyfr Moses, dyddiedig 464. Y mae yn agos i 30 o gyfrolau yn cynnwys gwahanol lyfrau o'r Hen Destament yn y cyfieithiad Peshitaidd, a mwy na 40 yn cynnwys rhanau o'r Testament Newydd yn yr un cyfieithiad. Mae rhif yr ysgrifyfrau yn bresennol yn Llyfrgell yr Amgueddfa Frytanaidd tua 40,000.

Llyfrgell y Gymdeithas Freninol.—Mae y llyfrgell hon yn gynnwysedig yn benaf o lyfrau ar Wyddoriaeth a Llênnyddiaeth Gyffredinol, y rhai sydd at wasanaeth holl aelodau y Gymdeithas. Rhoddir benthg llyfrau hefyd allan o'r llyfrgell hon yn ol y rheolau penodedig at hyny, ac y mae y gymdeithas hefyd yn nodedig am ei pharodrydd ar bob achlysur i roddi benthg llyfrau argraffedig neu ysgrifyfrau i'r rhai a'u gofyno ar achosion o awduriaeth neu ryw achlysur teilwng arall. Sylfaenwyd y llyfrgell hon yn 1667, trwy rodd Henry Howard, wedi hyny Duc o Norfolk, o'i lyfrgell ei

hun i'r gymdeithas, ar yr ammod "os byddai i'r gymdeithas fethu, i'r llyfrau gael eu dychwelyd i *Arundel House*, ac fod yr arysgrifen hon, *Ex dono Henrici Howard Norfolciensis*," i fod ar bob un o'r llyfrau. Trwy ddylanwad John Evelyn, y tueddwyd y pendeifig urddasol i wneyd y fath rodd dywysogaidd o lyfrau i'r Gymdeithas Freninol; a'r hyn a dueddodd Evelyn i arfer ei ddylanwad yn y modd hwnw ar y Duc, oedd ei weled mor ddiotal yn achos ei lyfrgell, gan oddef i'r offeiriad ac eraill gludo y pethau mwyaf gwerthfawr o honi, heb byth eu dychwelyd.* Yr oedd "Llyfrgell Arundel" (eiddo y Duc o Norfolk), yr hon a wnaed drosodd i'r Gymdeithas Freninol, yn cynnwys rhifedi mawr o lyfrau ag oedd gynt yn ffurfio rhan o gasgliad mawreddig Mathias Corvinus, y crybwyllwyd am dano yn barod. Mae Maitland, hanesydd Llundain, pan yn ysgrifenu tua'r flwyddyn 1755, yn dywedyd fod llyfrgell y Gymdeithas Freninol, trwy roddiad Mr. Francis Aston ati, yr hyn a wnaed yn 1715, yn gystal ag ychwanegiadau eraill, yn "rhagori ar yr holl lyfrgelloedd cyhoeddus yn y ddinas, o ran purdeb a gwerth."† Rhifedi y cyfrolau yn y llyfrgell, pan oedd yr hanesydd uchod yn ysgrifenu, oedd 3625; ond y maent yn bresennol tua 41,000; ac y mae y casgliad, fel y dylai fod, yn nodedig gyfoethog mewn gweithiau ar lënyddiaeth, y gwyddorion, ac yn enwedig y rhai meintanol ac anianyddol.

Llyfrgell y Sefydliad Breninol (Royal Institution).—Sefydlwyd y llyfrgell hon yn 1803, gan ychydig o foneddigion, at wasanaeth uniongyrchol y tanagritwyr at y sefydliad; ond gall unrhyw berson gael mynedfa iddi trwy ffafir un o'r noddwyr. Mae y casgliad hwn yn cyfrif tua 27,000 o gyfrolau, ac yn cynnwys yr argraffiad goreu a mwyaf defnyddiol o bob gwaith clasurol yn y Groeg a'r Lladin, ynghyda chyfieithiad o honnynt i'r Saesoneg ac ieithoedd diweddar eraill. Y mae dosbarth y gwyddorion meintanol hefyd yn ei holl ranau yn llawn—yn cynnwys y gweithiau rhagoraf ar bob cangen o honnynt,—ynghyd â'r cylchgronau gwyddonol goreu, a gweithrediadau y gwahanol gymdeithasau. Mae y dosbarth hanesiol hefyd, sylfaenedig ar gasgliad Mr. Astle, yr hwn a bwrwaswyd gan yr aelodau ar ffurfiad y gymdeithas, yn llawn, cyfoethog, a dyddorol neillduol yn ei holl ranau.

Llyfrgell Sefydliad Llundain (London Institution).—Cychwynwyd y llyfrgell hon yn 1805, dan lywyddiaeth y dysgedig Arathraw Porson, yr hon wedi hyny sydd wedi bod dan lywyddiaeth alluog Mr. Maltby, Mr. Upcott, a Mr. Richard Thomson, y naill ar ol y llall. Yn nesaf at weithiau ar Barthddarluniaeth (*Topography*), y mae y llyfrgell hon yn nodedig gyfoethog mewn gweithiau clasurol, meintanol, a hanesiol. Y mae yn gyfoethog nodedig hefyd mewn gweithiau ar Lyfroniaeth (*Bibliography*), yn ei holl ranau; nid yn synych y gall un llyfronydd dymuno un gwaith nad ydyw yma i'w gael at ei wasanaeth. Mae y casgliad hwn yn cynnwys tua 60,000 o gyfrolau, ac o ran trefn a harddwch ei ymddangosiad, yn wir ddilynwiw. Cyhoeddwyd rhestreb o'r holl weithiau mewn 4 cyf. Splyg, wedi ei chasglu yn benaf gan Mr. Thomson, rhwng y blynyddau 1836 ac 1862.

Y mae llawer o lyfrgelloedd eraill yn Llundain teilwng o sylw,—yn enw-

* *Diary and Correspondence of J. Evelyn, Vol. I., p. 471.* † *History of London, 2nd Edition, by Entick, pp. 1236—1238.*

edig Llyfrgell (dansgrifiol) Llundain, yn *St. James's Square*, yr hon a sefydlwyd yn 1841, ag sydd yn cynnwys uwchlaw 65,000 o gyfrolau. Y mae Llyfrgelloedd Cyfreithiol tra gwerthfawr yn *Lincoln's Inn*, yr *Inner Temple*, a'r *Middle Temple*—y flaenaf yn cynnwys 28,000 o lyfrau argraffedig, a 900 o ysgrifyfrau. Mae y llyfrgell hon wedi ei sylfaenu yn 1522. Yr ail yn cynnwys tua 16,000 o lyfrau argraffedig, a thua 500 o ysgrifyfrau. Yr olaf sydd yn cynnwys tua 21,000 o gyfrolau argraffedig, ac a sylfaenwyd yn 1641, trwy roddiad Robert Ashley, Ysw. Y mae rhestrebau argraffedig yn perthyn i'r tair llyfrgell uchod. Llyfrgell *Zion College*, *London Wall*, sydd yn dyddio ei sylfaeniad yn 1630, ac y mae yn cynnwys uwchlaw 40,000 o gyfrolau. Mae y casgliad hwn yn gyfoethog nodedig o hen dduwinyddiaeth. Llyfrgell Dr. Williams, yn *Red Cross Street*, a sylfaenwyd yn 1716, ac a agorwyd yn 1729. Mae y casgliad hwn hefyd yn enwog am ei hen dduwinyddiaeth, ac yn cynnwys tuag 21,000 o gyfrolau argraffedig, a thua 200 o ysgrifyfrau. Mae y ddwy lyfrgell hyn yn agored i'r cyhoedd, yn neillduol llyfrgell Dr. Williams. Ond i'r Cymro talentog, dysgedig, John Williams, D.D., Esgob Lincoln, ac wedi hyny Archesgob York, y mae yr anrhydedd o sylfaenu y llyfrgell gyhoeddus gyntaf yn Llundain. Ganwyd y gŵr enwog uchod yn Aberconwy yn 1582, a bu farw yn Gloddaeth, ger Conwy, yn 1650; a chladdwyd ef yn eglwys Llandegai, ger Bangor. Y llyfrgell hon a sylfaenodd yr Archesgob Williams yw Llyfrgell y Fonachlog Orllewinol. Trwy roddiad lliaws o lyfrau ac ysgrifyfrau o'i eiddo ei hun—a thrwy ei bryniad (ar ei draul ei hun) o lyfrgell werthfawr un Mr. Baker o Highgate, sylfaenwyd y llyfrgell hon tua'r flwyddyn 1620. Mae y casgliad gwerthfawr hwn yn bresennol yn cynnwys tuag 11,000 o gyfrolau; ond fel y mae y trueni, nid yw yn agored i neb ond i athrawon Ysgol Westminster eu hunain, a'r "*Minor Canons*."*

Mae yn perthyn i'r Eglwysi Cadeiriol trwy Loegr a Chymru, braidd yn ddiethriad, eu llyfrgelloedd, a rhai o honynt yn rhydd at wasanaeth y cyhoedd, a llawer o honynt heb fod.

Llyfrgell Eglwys St. Paul—agored yn unig i'r offeiriadgor (*chapter*). Sylfaenwyd y llyfrgell hon yn 1713, gan Henry Compton, esgob Llundain. Yr oedd hen lyfrgell yr offeiriadgor wedi cael ei chwalu oddiwrth ei gilydd er ys tua 60 mlynedd yn flaenorol, a rhan o honi wedi myned i *Zion College*. Rhif y cyfrolau yn y llyfrgell yn bresennol yw tuag 8,000. Mae Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Durham yn dra chyfoethog, ag ynddi tuag 11,000 o gyfrolau argraffedig, heblaw tua 520 o ysgrifyfrau tra gwerthfawr. Y mae yn gynnwysedig mewn rhan o'r hen lyfrgell fynachaid; rhodd haelionus Deon Sudbury, yn yr unfed canrif ar bymtheg; a rhodd dywysogaidd Esgob Cosin yn yr eilfed canrif ar bymtheg. Ac y mae y llyfrgell hon dan y cadwraeth goreu, ac yn myned ar gynnydd yn barhaus. Yn 1848, nid oedd rhifedi y cyfrolau argraffedig ynddi ond 7,259, † ond erbyn 1854, yr oedd tua 4,000 yn ychwanegol yn perthyn iddi. Ac y mae y llyfrgell ar egwyddor mor ryddfrydol, "fel y mae mynedfa iddi i bawb heb wahaniaeth, crefyddol neu anghrefyddol—a llyfrau i'w cael allan o honi i'w darllen i bawb ag y gellir edrych arnynt mewn sefyllfa i fod dan rywml-

* "*First Report of the Commissioners on Cathedral and Collegiate Churches* (1854), p. 37. † Bodfield's "*Notices of Cathedral Libraries*" (1849), p. 91.

edigaeth i'w dychwelyd." Llyfrgell Prif Eglwys York hefyd sydd yn gynwysedig mewn rhan o hen lyfrgell flaenorol, ynghyd â rhoddion gweddwr yr Archesgob Matthew (1629),—Dr. Fothergill, a Dr. Burgh. Mae y casgliad yn un gwerthfawr iawn, yn cynnwys tuag wyth mil o gyfrolau—a'r cyfan at wasanaeth y cyhoedd am bum' niwrnod yn yr wythnos. Mae yn Exeter a Chaergaint llyfrgelloedd o tua 5000 o gyfrolau, ac y mae yn y ddwy lawer o lyfrau o'r bri llênnyddol a hynafiaethol uchaf. Mewn perthynas i Lyfrgell Prif Eglwys Caergaint, y mae cryn anghyd-darawiad rhwng y dystiolaeth ain dani yn rhestreb 1802 o honi, a'r rhestreb a wnaed o honi ymhen deng mlynedd ar hugain ar ol hyny:—"Mae y llyfrgell hon * * yn gyfoethog mewn defnyddiau llawysgrifenol, mewn perthynas i hanes y wladwriaeth yn wladol ac eglwysig," medd y naill.* "Ni chredir fod dim yn y casgliad hwn ag sydd yn debyg yn y mesur lleiaf o fod o ddim dyddordeb i'r cyhoedd," medd y llall.†

Mae yn Llyfrgelloedd Eglwysi Cadeiriol Lincoln a Llandaf tua 4,500 o gyfrolau bob un; Norwich 4,350; Ely 4,000; Caerwrangon 3,600; Winchester 3,600; Carlisle 3174; ac y mae y rhan fwyaf o'r lleill o'r llyfrgelloedd perthynol i'r eglwysi Cadeiriol eraill yn y deyrnas hon yn cynnwys o 2,000 i 3,000 o gyfrolau yr un. Ac y mae mewn lawer o'r llyfrgelloedd llai hyn weithiau i'w cael mewn argraff ac ysgrifen, o'r bri cyntaf o ran teilyngdod. Y llyfrgell o lyfrau argraffedig, yr hon a sylfaenwyd gan yr Archesgob Bancroft, yn nheyrnasiad y brenin Iago I., a'r hon hyd yn ddiweddar oedd yn llenwi pedair oriel uwchclwysdai (*cloisters*) Palas Lambeth, sydd yn awr wedi ei gosod mewn modd mwy teilwng yn y neuadd ardderchog, yr hon a adeiladwyd gan yr Archesgob Juxon, ac a adgyweiriwyd gwedi hyny dan arolygiad Mr. Blore. Cyfrifir fod y llyfrau yn y llyfrgell hon tua 25,000 o rifedi, a'r ysgrifyfrau tua 1,200. Nid oes un casgliad cyhoeddus o lyfrau yn cynnwys cymaint mewn cymhariaeth o weithiau ar Hanesiaeth Eglwysig, a Llênnyddiaeth Fibleidd, ág sydd yn hwn. Mae'n gyfoethog hynod mewn gweithiau o hanes parthau penodol o'r deyrnas hon. Mae yr ysgrifyfrau sydd yn y llyfrgell hon, ac o'r rhai y mae lliaws yn dra gwerthfawr, wedi eu rhanu yn saith dosbarth, dan yr enwau *Codices Lambethiani, Whartoniani, Carewani, Tenisoniani, Gibsoniani, Miscellanei, a Suttoniani*. Mae y rhan hon o'r llyfrgell yn dra chyfoethog o gopiau o'r Ysgrythyrau sanctaidd; esboniadau Tadau yr Eglwys; lithlyfrau (*missals*); pabarchiadau (*bulls*); gwahanol draethodau gan Wycliffe; ysgrifyfrau perthynol i hanes Ffrainc, yr Hispaen, Poland, yr Almaen, &c., llythyrau at, ac oddiwrth, Siarls II., &c.

Mae llyfrgelloedd o wahanol faintioli a theilyngdod yn perthyn yn bennodol i wahanol golegau Rhydychain a Chaergrawnt; ond y mae ymhob un o'r prifysgolion hyn heblaw hyny, un neu ragor o *brif llyfrgelloedd*, megys y Llyfrgell Fodleyaidd yn Rhydychain; Llyfrgell Coleg y Drindod, a Llyfrgell y Brifysgol, neu y Llyfrgell Gyhoeddus yn Nghaergrawnt.

Y *Llyfrgell Fodleyaidd, Rhydychain*.—Mae y llyfrgell hon yn derbyn ei henw oddiwrth enw ei sylfaenydd, Syr Thomas Bodley, yr hwn a'i sefydlodd tua diwedd teyrnasiad y Freniues Elizabeth. Ymddengys i Syr

* Todd, "Catalogue of the Books, &c., of Christ Church, Canterbury" (1802)—Preface.
† "Appendix to the Report of the Commissioners on the Public Records" (1822).

Thomas roddi i fyny ei holl orchwyllion cyhoeddus yn 1697, ac yn union-gyrehol gwedi, iddo ymgymeryd â'r gorchwyl haelionus o adferu y Llyfrgell Gyhoeddus yn Rhydychain, yr hon oedd wedi cael ei hyapeilio o'i chynnwysiad yn amser teyrnasiad Edward VI. A chyda'r amcan hwn yn ei olwg, anfonodd lythyr o Lundain at Is-ganghellydd y Brifysgol, gan gynnwys nid yn unig adferu yr adeilad, ond hefyd darparu cyllidfa at bwrcasu llyfrau, a chadw swyddogion priodol i drafod achosion y llyfrgell. Derbyniwyd y cynnygiad yn ddiolchgar; a dechreuodd yntau yn ddiodes ar ei anturiaeth trwy anrhegu y sefydliad â chasgliad mawr o lyfrau, y rhai a bwrcasoid ar y Cyfandir, ac a ystyrir yn werth tua £10,000. A thrwy ei esiampl ef a'i ddylanwad, anfonid rhoddion gwerthfawr o lyfrau at y sefydliad o wahanol fanau eraill. Y fwyaf o honynt, fe allai, oedd rhan werthfawr o lyfrgell ag a fuasai yn perthyn i Jerome Osorius (yr hwn a elwid Cicero Portugal), Esgob Sylvas, ac wedi hyny Esgob Algave, lle y buasai farw yn 1680. Yr oedd y llyfrgell hon wedi cael ei chymeryd gan Iarll Essex, yn ei ymosodiad ar Faro, yn 1596, yn fuan ar ol y rhyfelgyrch yn erbyn Cadiz, a rhan o honi a roddid yn anrheg ganddo i Syr Thomas Bodley, mewn trefn i gyfoethogi ei gasgliad, yr hwn oedd efe ar y pryd yn ei ffurfio. Ac fe barodd yr anrhegion o lyfrau a anfonid fel hyn at ffurfio y llyfrgell, i'r hen adeilad fyned yn rhy gyfyng i'w cynnal. Mewn canlyniad helaethwyd yr adeilad; ac yn awr, pan oedd Bodley wedi llwyddo ymhell uwchlaw ei ddysgwyliad ar y cyntaf i gasglu llyfrau ynghyd, efe a ffurfiodd gerff o reolau er trefnu ei lyfrgell, y rhai wedi hyny sydd wedi cael eu hadgorffori mewn cysylltiad â rheolau y brifysgol. Y llyfrgell Fodleyaidd a agorwyd gyntaf at wasanaeth y cyhoedd, Tach. 8fed, 1602; ac er yr amser hwnw hyd yn awr, y mae lliaws o gyfnoddwyr wedi ei chyfoethogi yn fawr, yn neillduol Syr Robert Cotton, Syr Henry Saville, Archesgob Laud, John Selden, Syr Kenelm Digby, Thomas Arglwydd Fairfax, Dr. Thomas Barlow, Esgob Lincoln; Richard Gough, Francis Douce. Yn ystod y blynyddoedd 1826—42; yr oedd traul pwrceasiad llyfrau argraffedig at y llyfrgell hon yn £24,868. 2s.; a thraul pwrceasiad yr ysgriflyfrau ati yn £1,839. 8s.; neu, a chymeryd y naill fwyddyn at y llall, yr oedd traul pwrceasiad llyfrau argraffedig a llyfrau ysgrifenedig ynghyd tua £1,500 yn flynyddol. A'r holl draul yn yr un amser yn £61,696, neu, tua £3600 yn flynyddol.* Ond yn ddilynol i'r fl. 1842, y mae y sefydliad hwn wedi derbyn y gymynrodd dywysogaidd o £40,000 at ei gwaddoliadau blaenorol, ac wedi ychwanegu yn fawr at ei chyllid blynyddol. Cyfrifir fod y llyfrgell hon yn cynnwys tua 256,000 o gyfrolau o lyfrau argraffedig, a thua 22,000 o ysgriflyfrau. Ystyrir fod yr ysgriflyfrau yn yr ieithoedd dwyreiniol yn y llyfrgell hon y rhai harddaf ac anhawsaf eu cael ag sydd yn perthyn i un casgliad yn Ewrop; a bod yr argraffiadau cyntaf o'r ysgrifeniadau clasurol, y rhai a bwrcaswyd o lyfrgelloedd *Pinelli* a *Crevenna*, braidd yn gyfwerth â'r rhai sydd yn Vienna. Mewn gair, y mae yn neillduol gyfoethog, a hyny mewn gwahanol ddsbarthau ag y mae braidd bob llyfrgell arall yn ddiffygiol o honynt; ac ond cymeryd pob peth gyda'u gilydd, mae'n debygol mai dyma y llyfrgell benaf ag y gall un brifysgol yn y byd ymfrostio o honi. Ond gellid ei gwneyd eto yn llawer mwy gylus, ymarferol, ac effeithiol, pe byddai ei chynnwysiad wedi ei restrbu yn well.

* *Account of the income and expenditure of the Bodleian Library, 1827—43.*

Un o'r prif gasgliadau eraill yn Rhydychain yw *Llyfrgell Radcliffe*, yr hon a sefydlwyd yn y fl. 1737, ac yn cynnwys tua 24,000 o gyfrolau o lyfrau argraffedig. Hen gasgliad arall yn Rhydychain yw yr *Ashmolean Museum*, ond nid yw yn hawdd cael allan rifedi y llyfrau a gynnwysa. Llyfrgell ddiweddar arall sydd wedi ei sefydlu yn y ddinas hon yw y casgliad gwerthfawr o lyfrau mewn cysylltiad â llênnyddiaeth Almaenaidd, Ffrancaidd, ac Italaidd, yr hon a ddechreuwyd yn 1847, fel rhan o'r "sefydliad at addysgu yr ieithoedd Ewropeaidd," gan Syr Robert Taylor, yr hon sydd yn cynnwys tua 10,000 o gyfrolau, o'r rhai y mae tua 4,000 wedi eu rhoddi mewn cymynrodd gan y diweddar Barch. Robert Finch; a'r gweddill sydd wedi eu pwrcau gan y brifysgol; ac y mae mynedfa i'r llyfrgell yn perthyn i'w holl aelodau. Heblaw y llyfrgelloedd cyhoeddus uchod perthynol i brifysgol Rhydychain, y mae llyfrgelloedd yn perthyn i'r gwahanol golegau, bob un ar ei ben ei hun; ac y mae llawer o honynt hefyd yn eang a chyfoethog iawn; un yn rhagori yn y naill beth, a'r llall yn rhagori yn y peth arall. Ond beth yw rhifedi y cyfrolau yn y llyfrgelloedd colegol hyn, y mae yn dra anhawdd cael allan, canys fe ddywedir, "mewn perthynas i'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd Rhydychain, i Brwyaduron (*Commissioners*) ei Mhawrhydi, fethu a chael gwybodaeth gywir o barthed eu helaethder a'u hagogredusrwydd—er iddynt ymdrechu hyny lawer gwaith." Ond y mae rhestreb y Parch. Mr. Coxe, 1862, o'r gwahanol weithiau mewn llawysgrifen yn y colegau uchod, yn eu gosod allan yn 3,237 o rifedi.

PRIFYSGOL CAERGRAWNT.—Mae *llyfrgell Coleg y Drindod, Caergrawnt*, yn dra eang, yn cael ei chynnal mewn adail sawreddig o adeiladaeth Syr Christopher Wren, yr hon sydd yn 190 o droedfeddi o hyd, 40 o led, a 38 o uchder; ac y mae y casgliad llyfrau tua 43,000 o gyfrolau. Ac ymhlith hynodion llênnyddol eraill, y mae yma amryw o weithiau Milton yn ei lawysgrifen ef ei hun. Mae copi Syr Isaac Newton o'i *Principia* ef ei hun yma hefyd; ac amryw o nodau yn ei lawysgrifen ef ei hun ar ynylau y dail, ynghyd a'i lythyrau at Roger Coates. Amryw ysgrifyfrau Arabaidd sydd wedi eu gadael gan Dr. Gale; a'r casgliad perthynol i hynafiaethau Saesonig gan ei fab ef, Dr. Roger Gale, &c. Mae y llyfrgell hon wedi derbyn ychwanegiad gwerthfawr ati trwy gymynrodd yr Archddiacon Julius Charles Hare. Yr oedd y gymynrodd yn cynnwys 4,300 o gyfrolau, y rhai sydd yn gyfoethog ymhob caugen o llênnyddiaeth, yn enwedig llênnyddiaeth Almaenaidd. Mae llyfrgell y coleg hwn yn rhydd at wasanaeth yr holl aelodau.

Llyfrgell y Brifysgol, neu Llyfrgell Gyhoeddus Caergrawnt, sydd yn fawr, ac yn cynnwys llawer ag sydd yn werthfawr a bynod—ymhlith y llyfrau argraffedig, ac ymhlith yr ysgrifyfrau. Prif sylfaenydd y llyfrgell hon oedd Thomas Scott (neu Rotheram, fel ei gelwid ef yn fwyaf cyffredin, oddiwrth enw ei le genedigol), Archesgob York. Ei roddion cyntaf oedd-ynt tua'r fl. 1475, ac er fod llawer o honynt wedi myned ar ddifancoll yn ystod yr oesoedd er yr amser hwnw, eto y mae yno liaws o honynt yn aros. Er fod maer y ddinas, o'r enw John Harris, ac Archesgob Parker, wedi bod yn gyfrodwy, ac er fod casgliad Lambeth wedi bod ynddi dros dro, eto tlawd mewn cymbariaeth oedd y llyfrgell hon hyd yn y fl. 1666, pan y rhoddodd un Tobias Rustat £1,000 "i'w gosod allan ar y llyfrau mwyaf dewisol a defnyddiol at wasanaeth y llyfrgell gyhoeddus." Ymhen pedair blynedd

ar ol hyn, rhoddodd Esgob Hacket trwy gymynrodd 1,092 o gyfrolau i'r llyfrgell hon. Yn 1715, Siôr I. a brynodd llyfrgell Dr. Moore, Esgob Ely, yr hon oedd yn cynnwys 30,000 o gyfrolau, am £6,300, gan anrhegu y llyfrgell â hwynt, heblaw rhoddi £2,000 arall at wneyd lle cyfaddas i'w cadw. Yr oedd rhoddion Siôr I. a Siôr II. ynghyd at gyfoethogi y llyfrgell hon, uwchlaw £16,000 yr amser hwnw. Cynnyddodd rhif y cyfrolau yn y llyfrgell trwy roddion y ddau Siôr, tua 44,000. Trwy y rhoddion uchod, a rhoddion y Parch. W. Worts a J. Manistre, yr hyn sydd tua £850 yn y flwyddyn, ynghyda gwahanol freintiau perthynol iddi, y mae y llyfrgell hon wedi cyrhaedd y rhif o 197,000 o gyfrolau argraffedig, a thua 3,163 o ysgriflyfrau. Rhai o'r pethau hynotaf ymhlith yr ysgriflyfrau ydynt yr *Efengylau a'r Actau*, y rhai a adwaenir wrth yr enw *Codex Bezae*, y rhai a roddwyd yn anrheg i'r llyfrgell gan y diwygiwr ei hun; *Magna Charta* wedi ei hysgrifenu ar femrwn; amrywiol ysgriflyfrau Syriaidd o roddiad Dr. Buchanan; yr ysgriflyfrau ardderchog mewn perthynas i'r Waldensiaid, &c.

Mae amrywiol o lyfrgelloedd eraill tra rhagorol i'w cael yn Nghaergrawnt mewn cysylltiad â'r gwahanol golegau yno. Mae Llyfrgell Coleg *Corpus Christi* yn cynnwys 482 o gyfrolau o ysgriflyfrau; ac y mae y rhan fwyaf o honynt wedi eu casglu ar ol dadgorfforiad y mynachlogydd. Y maent yn cynnwys gweithiau y Tadau a'r Ysgolwyr; llawer o ysgrifau hanesiol yn taflu llawer o oleuni ar Hanes y Diwygiad, yn ei gysylltiad gwladol ac eglwysig. Gan yr Archesgob Parker y rhoddwyd hwynt i'r coleg. Mae Llyfrgell Coleg St. John yn cynnwys un o'r casgliadau helaethaf a gwerthfawrocaf o lyfrau yn y brifysgol, yn enwedig mewn llênnyddiaeth Fblaidd a chlasurol; a rhif y cyfrolau tua 26,000; Coleg y Frenines, 25,000; Coleg Conville & Gaius, 14,000; Coleg Emmanuel, 17,000; Coleg Magdalen, ynglŷn â'r hwn y mae y Llyfrgell *Pepysiaidd*, yr hon a elwid felly oddiwrth ei sylfaenydd, Samuel Pepys, Ysgrifenydd y Môrllys yn amseroedd Siôr II. ac Iago II. Mae y Llyfrgell hon yn hynod am y casgliad o hen *faladau* neu ganeuon Seisonig sydd ynddi, mewn 5 cyfrol unplyg, y rhai y dechreuwyd eu casglu gan Selden, ac yn cael eu parháu hyd 1700; hefyd am y casgliad nodedig o lênnyddiaeth boblogaidd y dydd ag a gynnwysa; ac hefyd am ddwy gyfrol o ganeuon Albanaidd sydd ynddi, y rhai a gasglwyd gan Syr Richard Maitland, o Lethington, y rhai a adwaenir dan yr enw llawysgrifau Maitland. Coleg Pembroke, 10,000; Peterhouse, 6,300. Nid yw hysbys y nifer yn Llyfrgell Coleg y Brenin.*

LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS YR ALBAN.—Yt oedd yn yr hen oesoedd tra boreuol yn yr Alban, gasgliadau o ysgriflyfrau yn perthyn i'r rhan fwyaf o'r crefydd-dai neu y mynachdai, ac y mae rhestrebau byrion o'r llyfrau ag a berthynai i rai o'r prifeglwysi eto ar gael.† Y mae hefyd ar gôf hanes am gasgliadau anghyhoedd o lyfrau mor gynnar â diwedd y 14eg canrif, a dechreuad y 15fed. Y llyfrgell gyhoeddus fwyaf, se allai, yn yr holl Alban, yw eiddo Prifysgol St. Andrews. Mewn *Prognostication*, gan Jasper de Laet, yr hwn a argraffwyd ar led (*abroad*) yn 1491, ac wedi ei gyfeirio at William Schevez, Archesgob St. Andrews, yr hwn a lanwai yr Esgobaeth

* Am wybodaeth lawn a manwl am Lyfrgelloedd Caergrawnt, Gwel "*The Book Rarities of the University of Cambridge*, gan y Parch. C. H. Hartshorne, 1829, 8vo.

† *Registrum Episcopatus Glasguensis*, Vol. I. p. xliii.; Vol. II. p. 344. *Registrum Episcopatus Aberdonensis*, -Vol. II., p. 127-137, 164-159.

o 1478 i 1497, y mae yr ysgrifenydd yn moli yr Archesgob am ei hoffder o'r gwyddonau, ac am gyfoethogi y llyfrgell â llawer o lyfrau gwerthfawr, a llawysgrifeniadau o bob math.* Mae y llyfrgell hon eto mewn bodolaeth. Dywedir fod Llyfrgell Iago IV. wedi ei chymeryd gan y Saeson o Holyrood yn 1547.† Yr oedd Mary, Brenines y Scotiaid, hefyd, yn arfer casglu llyfrau, ac y mae rhestrebau o rai o honynt yn argraffedig.

Llyfrgell y Cyfreithwyr yn Edinburgh (Advocates' Library.)—Yr oedd y bwriad o sefydlu llyfrgell gyhoeddus ymhlith y cyfreithwyr yn Edinburgh wedi ei fabwysiadu mor foreu â'r fl. 1680. Awdwr a phrif gynhyrfydd y cynllun oedd Syr George Mackenzie o Rosehaugh. Ni fwriedid i'r llyfrgell hon ar y cyntaf ond llyfrau perthynol i'r gyfraith yn unig, ynghyda gweithiau ar gangenau eraill o wybodaeth ag a fyddai yn dal cysylltiad uniongyrchol â rheithwyddiaeth (*jurisprudence*). Ac ar ei chychwyniad, nid oedd gan y llyfrgell hon yr un cyllid at ei chynnalïaeth heblaw ewyllys da y cyhoedd. Fel y gallasid dysgwyl, y mae y casgliad o lyfrau perthynol i'r gyfraith yn dra eang yn y llyfrgell hon; y casgliad o weithiau hanesiol hefyd sydd yn helaeth iawn. Am y gweithiau yn yr ieithoedd Groeg a Lladin, os nad yw mor gyfoethog a rhai llyfrgelloedd, eto y mae yn dra chyfoethog. Yr hyn y mae y llyfrgell hon yn cael ei hystyried yn fwyaf diffygiol ydyw gweithiau ar y gwyddonau Mesuronol ac Anianyddol; Hynafiaethau; llênnyddiaeth Italaidd hen a diweddar, a llênnyddiaeth dramor ddiweddar. Cyfrifir fod rhif y cyfrolau argraffedig yn y llyfrgell hon tua 172,000, a'r ysgriflyfrau tua 2000, o'r rhai, y rhan werthfawrocaf sydd mewn perthynas i sefyllfa eglwysig yr Alban yn yr oes uniongyrchol ag oedd yn blaenori y Diwygiad Protestanaidd. Heblaw hanes wladol ac eglwysig yr Alban, y mae yr ysgriflyfrau hyn yn cynnwys amryw weithiau ar Herodraeth, Achyddiaeth, cyfraith yr Alban, a'r hen ysgrifeniadau clasurol Groeg a Lladin. Mae y llyfrgell yn cael ei llywodraethu gan bump o ucholygwyr (*curators*) un o'r rhai fydd yn myned allan o'i swydd bob blwyddyn, ac un arall yn cael ei ethol yn ei le. Tan yr ucholygwyr hyn, y mae un prif lyfrgellydd ynghyd ag amrywiol gynnorthwywyr dano. Mae y llyfrgell hon yn agored i'r cyhoedd, ac y mae rhai o brif ysgrifenywyr yr Alban wedi bod yn llanw y swydd o Ucholygwyr, megys Thomas Ruddiman, David Hume, Adam Ferguson, Dr. Irving, &c.

Llyfrgell Ysgrifenywyr yr Insel, sydd yn gasgliad ardderchog o lyfrau (yn Edinburgh) ar y Gwyddonau, y Gyfraith, Hanesiaeth, Daearyddiaeth, Ystadegiaeth, Hynafiaethau, Llênnyddiaeth, a'r Celfau. Mae y llyfrau wedi eu gosod yn ddosbarthau, er bod yn haws eu cael. Mae y casgliad hefyd o ran dewisiad a chyflwr y llyfrau, yn deilwng o'u cymharu âg un casgliad o gyffelyb faintioli. Mewn gwirionedd, er fod y llyfrgell hon yn cael ei chynnal yn hollol ar bwys cyllid y gymdeithas i'r hon y mae yn perthyn, eto mae yn perthyn iddi rai o'r gweithiau mwyaf mawreddig a chostfawr a gyhoeddwyd erioed yn y wlad hon nac un wlad arall. Mae rhif y cyfrolau yn y llyfrgell tua 45,000. Mae llywodraeth y llyfrgell hon yn cael ei ymddiried i ofal corff o ucholygwyr (*curators*), y rhai a etholir gan y gymdeithas. Mae y llyfrgell hon, yn gystal â Llyfrgell y Cyfreithwyr, yn rhyddagored i ddeieithriaid a llênnyddwyr yn gyffredinol.

* *Dunbar's Poems, by Laing, Vol II., p. 348.* † *Archæologia Scotica, Vol. IV., p. 1-13.*

Llyfrgell Prifysgol Edinburgh. Fel y rhan fwyaf o lyfrgelloedd colegau, felly y mae llyfrgell y Brifysgol hon wedi cael ei sylfaenu mewn rhodd o lyfrau, a thros hir dymmor nid oedd ond rhoddion ewyllys-wyr da i edrych atynt am ei chynnaluaeth a'i chynnydd. Un Clement Littil, rhaglaw (*commissary*) yn Edinburgh, yn 1580, a adawodd ei lyfrgell, yr hon oedd yn cynnwys tua 300 o lyfrau—duwinyddol yn benaf—fel cymynrodd “i Edinburgh ac Eglwys Dduw;” a throsglwyddwyd y casgliad bychan hwn ar ol hyny gan gynghorfa y dref (*town council*) i'r Coleg, yr hwn oeddynt y pryd hwnw yn sefydlu. Ae yn y modd yma daeth cymynrodd Littil i fod yn sail a chychwyniad i Lyfrgell y Brifysgol. Ar ol hyny, o bryd i bryd, yn y naill ffordd a'r llall, rhy faith i'w nodi yma, y mae y llyfrgell hon wedi chwyddo, nes ydyw rhif y cyfrolau argraffedig ynddi tua 100,000, a rhif yr ysgriflyfrau tua 400.

Mae llywyddiaeth y llyfrgell yn llaw naw o ucholygwyr, y rhai a benodir yn flynyddol gan Senedd y Brifysgol. Heblaw y llyfrgell gyhoeddus, y mae llyfrgell dduwinyddol mewn cysylltiad â'r Brifysgol, yr hon sydd yn cynnwys tua 5000 o gyfrolau. Heblaw y llyfrgelloedd uchod a nodwyd yn Edinburgh, y mae yno amrywol eraill tra theilwng o sylw:—megys Llyfrgell y Coleg Newydd, mewn cysylltiad â'r Eglwys Rydd, yr hon sydd yn cynnwys tua 25,000 o gyfrolau; Llyfrgell y *Royal College of Physicians*, yr hon a sefydlwyd yn 1682, ac sydd yn cynnwys tua 9,000 o gyfrolau; Llyfrgell y *Royal Medical Society* a sefydlwyd yn 1737, ac sydd yn cynnwys tua 16,000 o gyfrolau. Ac at y rhai hyn gellid crybwyll lliaws o lyfrgelloedd rhagorol eraill, mewn cysylltiad â gwahanol sefydliadau yn y ddinas hon.

Llyfrgell Prifysgol Glasgow.—Mae hanes y llyfrgell hon yn ddifyrus a dyddogar ar lawer ystyr; eithr fel llyfrgelloedd eraill, trwy y naill rodd ar ol y llall, y cyfododd i fod y peth ydyw. Ymhlith y cyfrodwyr blaenaf, ceir enw George Buchanan, yr hwn, fel yr ymddengys, a anrhegodd y Brifysgol ág 20 cyfrol, yn gynnwysedig yn hollol o lyfrau Groeg, ac ymhlith pethau eraill, gweithiau Plutarch, Plato, Demosthenes, Apollonius, Aristophanes, Strabo, ac Euclid. Heblaw y rhoddion uchod, fe dderbyniodd y llyfrgell hon lawer o gymwynasau oddiar law yr un gŵr nas gwyddys yn sicr yn awr pa faint. Yn ol y dychweliad swyddol am 1849, yr oedd rhif y cyfrolau argraffedig yn y llyfrgell hon yn 58,096, a'r ysgriflyfrau yn 242. Ond trwy ei bod yn derbyn £707 yn flynyddol o gyllid y llywodraeth, gyda golwg ar ychwanegu ati, y mae yn rhaid ei bod bellach (1859) yn cynnwys uwchlaw 75,000 o leiaf. Mae y soddion (*funds*) eraill er ei chynnaluaeth yn tarddu oddiwrth lógau gwahanol symiau o arian ag sydd wedi eu gadael at hyny gan wahanol bersonau; oddiwrth dâl-wobrwon graddiaeth yr efryd-wyr—talion yr efryd-wyr am docynau er eu trwyddedu i gael llyfrau allan o honi, &c. Ymhlith yr ysgriflyfrau yn y llyfrgell hon, y mae ynddi amryw gyfrolau gan Woodrow, yn benaf ar fywgraffiaeth.

Llyfrgell Prifysgol St. Andrews. Yn yr hen amseroedd, yr oedd llyfrgelloedd gwahanol yn perthyn i'r colegau, y rhai y mae y Brifysgol yn gynnwys; a gwnaed cyfeiriad yn barod at un o'r llyfrgelloedd hyn, fel un o'r rhai hynaf ymhlith llyfrgelloedd yr Alban; ond nid oes un crybwylliad am Lyfrgell Prifysgol yn y lle hwn hyd tua dechreu y 17eg canrif. Tua'r amser uchod y mae crybwylliad am y cyfryw lyfrgell, ac y mae rhestr o'r *shynnwysiad* a wnaed ar y pryd ar gael eto. Rhoddion gan Iago VI. a

gwahanol aelodau o'i deulu, oeddynt y llyfrau braidd oll ar y pryd ynddi. Mewn cysylltiad â Llyfrgell gyhoeddus y Brifysgol, fe unwyd Llyfrgelloedd Colegau St. Salvator, a St. Mary; a thua'r flwyddyn 1780 wedi hyny, unwyd Llyfrgell Coleg St. Leonard â hi. Fel y mae yn awr yn gyfansoddedig, y mae y llyfrgell hon yn cael ei chynnal ar lôgau y soddion perthynol iddi, tâlwofrau penodol yr esfydwyr a fyddo yn cymeryd eu graddau ynddi, ynghyda £630 yn flunyddol allan o gyllid y deyrnas. Y mae yn cynnwys yn bresennol tua 61,500 o gyfrolau argraffedig, a 63 o ysgriflyfrau; ac ystyrir hi ar y cyfan yn gasgliad rhagorol o lyfrau. Mae gan yr holl esfydwyr a fyddo yn perthyn i'r Brifysgol hawl i ddefnyddio y llyfrgell hon yn ddiidâl, i gael darllen ynddi, a chymeryd benthg llyfrau allan o honi. Ac y mae pob rhwyddineb i eraill o drigiannwyr y lle hefyd i ddefnyddio y llyfrgell, yn gystal a dyeithriaid a ddygwyddo ddyfod ar achosion llênnyddol, yn ol y rheolau penodol at hyny.

Llyfrgell Prifysgol Aberdeen.—Credir fod casgliad o lyfrau yn perthyn i Goleg y Brenin, Aberdeen, er sylfaeniad cyntaf y Brifysgol; ond ni feddir yn bresennol un hapen benodol am dani—yn flaenorol i'r flwyddyn 1634. Y mae y casgliad yn cynnwys tua 37,000 o gyfrolau argraffedig, a 74 o ysgriflyfrau. Mae y llyfrgell yn agored at wasanaeth yr arathrawon a'r darlithwyr yn Ngholeg y Brenin;—yr esfydwyr, a'r athrawon perthynol i Goleg Marischal. Mae llyfrgell wahanol yn perthyn i Goleg Marischal ei hun, yr hon sydd yn cynnwys tua 12,000 o gyfrolau argraffedig, a 100 o ysgriflyfrau.

LLYFRGELL PRIFYSGOL, NEU GOLEG Y DRINDOD, DUBLIN.—Ffiodolir dechreuad y llyfrgell hon i ddygwyddiad lled hynod. Yn y flwyddyn 1601, gorchfygid yr Ysperiaid gan y Saeson yn unrwydr Kinsale. Ac mewn trefn i gadw rhyw arwydd cofadwriaethol parhâus o'r amgylchiad, penderfynodd y milwyr gasglu yn eu plith eu hunain y swm o £18,000, a chyttunasant â'u gilydd i ddefnyddio yr arian i brynu casgliad o lyfrau i'r rhoddi yn arhrog fel sylfaen llyfrgell gyhoeddus, i gael ei sefydlu yn Ngholeg y Drindod, Dublin, yr hwn, y pryd hwnw, oedd ond newydd gael ei sefydlu.* Rhoddwyd y swm uchod yn llaw yr enwog Usher, yr hwn a oeth i Lundain, ac yno, mewn cysylltiad â'i gyfaill Dr. Challoner, a brynodd y llyfrau anghenrheidiol at yr amgylchiad. Peth digon hynod a tharawiadol hefyd ynglŷn â hyn oedd, i Dr. Usher, pan yn casglu llyfrau at gychwyn Llyfrgell Coleg y Drindod, y tro hwn yn Llundain, gyfarfod â Syr Thomas Bodley,—yr hwn oedd yntau yno ar yr un pryd yn casglu llyfrau at y Llyfrgell Fodleyaidd, yn Rhydychain. Ar ol y dechreuad uchod, fe gynnyddodd Llyfrgell Coleg y Drindod, trwy wahanol toddion, gadawadau, a phryniadau o bryd i bryd, nes y mae wedi cyrhaedd i nod o gryn enwogrwydd ymblith y Llyfrgelloedd Brytanaidd, ac yn cael ei threfnu dan y rheolau goreu. Cyfrifir rhif y cyfrolau argraffedig ynddi tua 126,000, a'r ysgriflyfrau tua 16,000 o gyfrolau. Mae Darllensfa Newydd wedi ei sefydlu ynglŷn â'r llyfrgell hon yn 1848.

Llyfrgell Archesgob Marsh, Dublin.—Mae hon o ran ei sefydliad a'i hamean yn hollol gyhoeddus, ac er ei sefydliad wedi gwneyd gwasanaeth tra gwerthfawr i ddyseidiaeth, er nad yw yn fang iawn ei chyleb, nac yn gyfoethog o ran ei gwaddoliad. Sylfaenwyd y llyfrgell hon gan Arch-

* Parr, "Life of Usher (1686)," p. 10.

esgob Marsh tua'r flwyddyn 1694, ac ymgorffolwyd hi wrth Weithred Seneddol yn 1707, a gwaddolwyd hi trwy ewyllys diweddf ei sylfaenydd yn 1713. Ond y mae treigladau amser, yn y gwrthwyneb i'r drefn gyffredin, wedi gwneyd gwaddoliadau y sefydliad hwn yn llai gwerth nag oedd ynt ar y cyntaf, a thrwy hyny y mae cyllid ei chynnalïaeth wedi lleihâu wrth y peth a fu. Mae casgliadau yr Esgobion Stillingfleet a Stearne,* wedi cyfoethogi y llyfrgell hon yn fawr, a rhwng y casgliadau hyny a gwahanol roddion llai, &c., mae rhif y cyfrolau argraffedig yn y llyfrgell hon tua 18,000, a rhif yr ysgrifysfrau tua 193.

Llyfrgell y King's Inns, Dublin.—Er fod y llyfrgell hon wedi derbyn o'r cyllid cyhoeddus gymaint â £8,780, ac wedi derbyn oddiwrth awdwyr a chyhoeddwy'r werth tua £10,000, eto y mae yn nodedig am yr anhawsder sydd i'r cyhoedd i dderbyn un budd oddiwrthi.† Mae y llyfrgell hon yn cynnwys yn bresennol 30,938 o gyfrolau argraffedig, a thua 150 o ysgrifysfrau.

Llyfrgell Cymdeithas Freninol Dublin.—Mae y llyfrgell hon wedi ei sylfaenu yn 1730, ac yn cynnwys tua 24,000 o gyfrolau argraffedig, ac yn nodedig gyfoethog o weithiau ar hanesiaeth naturiol; ac y mae yn perthyn iddi hefyd amryw o weithiau mewn llawysgrifen, ymhlith y rhai y gellir nodi ysgrifeniadau gwerthfawr ag oedd yn nghanoliad Harris, hanesydd yr Iwerddon, y rhai a brynwyd gan y Senedd, oddiar ei weddw, am y swm o £500, ac a roddwyd i'w cadw yn y llyfrgell hon.

Llyfrgell yr Athrofa Freninol Wyddelig.—Sylfaenydd yr athrofa hon yn 1782, ac y mae iddi lyfrgell o 10,500 o gyfrolau argraffedig, a thua 500 o gyfrolau mewn llawysgrifen, yn annibynol ar gasgliad Betham ar hynafiaethau Gwyddelig, y rhai a bwrcaswyd yn 1851, mewn rhan trwy gydoddion cyhoeddus; ac mewn rhan o gyllid yr athrofa ei hun.

RHYDDLFRGELLOEDD YN Y DEYRNAS GYFUNOL, Y RHAI A SEFYDLWYD DAN Y DEDDFAU SENEDDOL 1850—55.—Mae amrywiol o ryddlyfrgelloedd dan "weithred y rhyddlyfrgelloedd" 1850, neu y "gweithredoedd ychwanegol," y rhai a basiwyd wedi hyny yn y Senedd, i'r un dyben, wedi cael eu sefydlu eisoes yn ngwahanol gyrau y deyrnas. Ond y lle blaenaf a ymgymerodd i sefydlu rhyddlyfrgell gyhoeddus dan nawdd y weithred seneddol uchod, oedd dinas Manchester. Yn 1850 y pasiwyd y "ddeddf seneddol" gyntaf i gyfodi treth (lle byddo mwyafrif y trethdalwyr dros hyny), yn broffesedig at gynnal llyfrgell gyhoeddus yn y deyrnas hon. Ac yn y flwyddyn hono cychwynwyd y cynhyrriad at sefydlu y cyfryw lyfrgell yn Manchester, trwy ymdrech y diweddar Syr John Potter (yr hwn oedd Maer y ddinas ar y pryd), yn benaf. Ymlaenaf cyfodwyd trwy danysgrifiad y swm o £12,823; ac allan o'r swm uchod bwrcaswyd a chyfaddaswyd adeilad cymhwys at yr amcan; a rhoddwyd y swm o £4,156 allan ar lyfrau. Yr oedd y rhif y cyfrolau a bwrcaswyd telly yn 18,028; at hyn y cafwyd 3,292 o gyfrolau yn rhoddion oddiwrth wahanol bersonau. Cymerodd pleidlais y bwrdeisdrefwyr, Awst 20, 1852, gyda golwg ar sefydlu y llyfrgell trwy dreth—yn ol y weithred seneddol a nodwyd, neu beidio, a rhoddodd 3962 eu pleidlais dros hyny, a 40 yn erbyn. Ac ar Medi 2, 1853, trosglwyddwyd y llyfrgell i fod yn feddiant y Fwrdeisdref,

* Whittlaw and Walsh, "History of Dublin," p. 940.

† Dubig, "History of the King's Inns (Dublin 1806), p. 528.

yr hon a agorwyd ar y pryd fel llyfrgell ymofynol (*consulting library*) i bawb a ddelai iddi, heb eisieu un arganmoliad, nac unrhyw ragarweiniad arall. A hefyd y mae hon yn llyfrgell fenthyciol (*lending library*) i bawb a allo roddi rhyw sicrwydd rhesymol y dychwel yr hyn a fenthycy o'r llyfrgell yn ol. Dyma y llyfrgell gyntaf yn y deyrnas a roddodd y fath gyfleusderau; ac yn ystod y pedair blynedd cyntaf o'i gweithrediadau, y mae wedi rhoddi rhwng darllenwyr a benthycwyr wasanaeth y swm dirfawr o 584,792 o gyfrolau. Yn ystod yr un amser y mae 11,255 o gyfrolau wedi eu hychwanegu at y llyfrgell. Rhoddwyd benthyc 322,103 o gyfrolau allan; a dywedir fod y fath ofal yn eu cylch, a'r fath ffyddlondeb i'w dychwelyd gan y benthycwyr, yn ystod yr amser a nodid, fel heblaw y treulid neu'r gwaethygiad naturiol sydd ar lyfrau wrth eu cludo a'u darllen, y byddai 25s. yn fwy na digon i wneyd i fyny y golled sydd wedi bod arnynt. Holl gynnwysiad y llyfrgell yn Hyd., 1856, oedd 32,573 o gyfrolau, dosbarthiad y rhai sydd fel canlyn:—i. Duwinyddiaeth, 1062; ii. Athroniaeth, 421; iii. Hanesiaeth, 11,371; iv. Gwladyddeg, 6,830; v. y Gwyddonau a'r Celfau, 2885; vi. Llênnyddiaeth Gyffredinol, 10,004. Mynychir y llyfrgell gan bob dosbarth o'r bobl, o'r isaf hyd yr uchaf ei addysgiaeth. Gellir gweld y marsiandwr, y creffwr, y clerigwr, a'r boneddwr, yn cydeistedd i ddarllen wrth yr un bwrdd yn y llyfrgell, yr hyn sydd olygfa led newydd a dyeithr yn y deyrnas hon.

Rhyddlyfrgell Liverpool.—Mae y llyfrgell hon wedi ei sefydlu trwy awdurdod Deddf Seneddol benodol iddi ei hun,* yr hon sydd yn darparu am y llyfrgell, yr amgueddfa ardderchog mewn Hanesiaeth Naturiol, yr hon a adawodd y diweddar Iarll Derby yn ei ewyllys i'r dref, ac am y gerddi llysieuol cysylltiedig â hi. Tansgrifwyd y swm o £1,400 at brynu llyfrau; a phleidleisiwyd ymhellach y swm o £21,846 gan gynghorlys y dref. Agorwyd y llyfrgell hon yn gyhoeddus Hydref 18, 1852, gyda chasgliad o lyfrau i'w defnyddio o fewn yr adeilad, yn cynnwys 11,877 o gyfrolau; ac ar Hydref 18, 1853, agorwyd dwy gangen ychwanegol i'r llyfrgell, yn cynnwys casgliad o tua 2000 o gyfrolau yn y cŵr gogleddol, a'r llall yn y cŵr deheuol i'r dref, gyda golwg ar fod yn fenthyciol. Ond erbyn tuag 1856, yr oedd y rhan ymofyniadol o'r llyfrgell wedi cyrhaedd y rhif o 21,020 o gyfrolau, a'r rhan fenthyciadol 13,254; gan wneyd i fyny rhyngddynt y swm dirfawr o 34,274. Yr oedd y cynnydd dirfawr hwn ar y llyfrgell hon yn ei gwneyd yn achos o anghenrheidrwydd i gael adeilad newydd èangach i'w chynnwys. Yn gynnar yn 1856, rhoddodd Cynghorlys y Dref hysbysiad allan am gynllun priodol o'r cyfryw adeilad, ac anfonodd 115 o wahanol adeiladwyr eu cynlluniau i mewn. Bu yngais ar ol hyny ymblith 16 o adeiladwyr dewisedig am gynllun o'r adeilad; ond trwy fcd cryn amrywiaeth barn ymblith y cynghor am yr ail swp o gynlluniau, a phan oeddynt ar osod allan y drydedd waith am gyulluniau, daeth W. Brown, Ysw., A.S. ymlaen, a chynnygiodd gymeryd y gwaith arno o fynu cynllun, a'i weithio allan ar ei draul ei hun. Rhoddwyd y gareg gyntaf o'r adeilad i lawr Ebrill, 1857, a meddylid ar y pryd y costiai ei orphen o leiaf £25,000 i'r boneddwr haelfrydig.

Rhyddlyfrgell Salford.—Agorwyd y llyfrgell hon yn Mai, 1854, ac erbyn Tachwedd, 1856, yr oedd rhif y cyfrolau perthynol iddi yn 12,603 yn

* *Liverpool Library and Museum Act, 1852.*

y dosbarth ymofyniadol o honi (*consulting part*), a rhif y cyfrolau yn y bosbarth benthyciol o honi yn 5,952.

Rhyddlyfrgell Bolton.—Casglwyd y swm o £3,195 trwy gydroddion at y llyfrgell uchod yn y dref hon, a chodwyd ymhellach y swm o £1,500 trwy dreth; ac y mae llyfrgell o 15,000 o gyfrolau wedi eu sefydlu ynddi, i fod mewn rhan yn ymofyniadol, ac mewn rhan yn fenthyciadol. Ymddengys fod rhyddlyfrgelloedd ar yr egwyddor uchod, naill ai wedi neu ar gael eu sefydlu mewn amrywiol drefi a dinasoedd eraill; ac mewn manau eraill hefyd ymddengys fod darpariadau y Weithred Seneddol uchod, ac egwyddor y dreth at sefydlu a chynnal llyfrgelloedd, yn cael eu gwrthod.

Llyfrgelloedd trefol a phlwyfol.—Y mae yr hen lyfrgelloedd hyn, oddigerth ychydig iawn o eithriadau, wedi syrthio i fod yn dra difudd i'r cyhoedd, ac heb gael ond eu hesgeuluso yn fawr. Y mae casgliad bychan yn Ipswich, yr hwn sydd yn dyddio o'r fl. 1580. A sefydlwyd llyfrgell gyhoeddus yn Norwich yn 1698, ac ychwanegwyd llawer ati mewn rhoddion o bryd i bryd.* Sylfaenwyd yn arall yn Bristol yn 1615, gan Robert Redwood.† Humphrey Chetham, brethynydd (*clothier*) cyfoethog a sefydlodd llyfrgell yn Manchester yn 1653, ac â'i gwaddolodd trwy ei ewyllys diweddar â chyfoeth mawr. Ac ymhen tua chanrif ar ol hyny, sefydlodd un Dr. Shepherd llyfrgell yn nhref Preston. Mae lliaws eraill o fân lyfrgelloedd trefol y gellid eu henwi. Ac am y llyfrgelloedd plwyfol, gellid enwi lliaws mawr o honynt; ond y maent braidd oll yn ddi-ddenydd i'r cyhoedd yn awr. Am y llyfrgelloedd trefol, y mae awryw o honynt yn cael eu cam-dddefnyddio. Yn Bristol a Norwich, nid yw amcan y sefydliad yn cael ei ateb, oblegid y mae y llyfrgelloedd hyn wedi eu trawsfeddiannu gan gymdeithasau anghyhoedd, yn cael eu gwneyd i fyny o ran-ddalwyr a thanysgrifwyr. Ond y mae gan Gynghor y Fwrdeisdref yn y naill fan a'r llall hawl i fynu cael eu hadferu i'w hamcan dechreuol; ac ymddengys fod Bwrdeisdref Preston yn penderfynu dwyn hyny o amgylch. Ond y mae llyfrgell Chetham, yn Manchester, yn parháu fel-yr amcanwyd iddi fod gan ei sylfaenydd, ac fê allai y gellir dywedyd mai dyna yr unig llyfrgell drefol yn y deyrnas a sefydlwyd yn yr 17eg canrif âg sydd yn awr yn cyflawni amcan eu sylfaenwyr. Mae llyfrgell Chetham yn hen gasgliad gwerthfawr o lyfrau, yn cynnwys 18,200 o gyfrolau argraffedig, a 137 o ysgriflyfrau. Ond y mae yn llawer o resyn fod casgliad mor werthfawr o hen lyfrau â chân lleied o lyfrau newyddion a diweddar yn eu plith. Mae rhydd fynedfa i'r hen lyfrgell urddasol hon.

Llyfrgelloedd personau anghyhoedd.—Tua dau ganrif yn ol, cwynai John Evelyn o herwydd y gwasgar a'r dystryw aethus a wneid yn fynych ar lyfrgelloedd anghyhoedd ardderchog. "Gwasgaru mewn un dydd yr hyn a gymerodd lawer o flynyddau i'w casglu ynghyd. Mewn canlyniad," medd ef, "yr ydym ni yn Lloegr mor amddfaid o lyfrgelloedd da ymhlith y boneddigion, âg yn ein trefi mawrion." Yna y mae efe yn bwrw golwg dros amrywiol gasgliadau o lyfrau o sylw mawr, y rhai yr oedd ef yn adnabyddus o honynt, "ond oeddynt yn awr wedi eu gwasgaru.‡ Ac o'r casgliadau anghyhoedd a grybwyllid ganddo ef, ag oedd y pryd hwn heb gyfarfod

* Blomefield, "*Essay towards a Topographical History of Norfolk*," Vol. IV., p. 345.
 † Tovey, "*The Bristol City Library—its Founders and Benefactors*," p. 4. Barret's *History of Bristol*, p. 507. ‡ Evelyn, "*Diary and Correspondence*," Vol. III., pp. 302—309.

â'r un ddamwain ag eraill, y mae casgliad Pepys, eiddo Esagob Moore, ac Arglwydd Berkeley, wedi eu diogelu at wasanaeth y cyhoedd; ond y mae y lleill oll, y rhai a adawyd yn llaw, ac yn meddiant, personau anghyhoedd wedi eu hollol wasgaru. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, y mae John Bagford yn crybwyll am 21 o gasgliadau neu lyfrgelloedd anghyhoedd o bwys a gwerth mawr, heblaw amryw eraill o lai pwys, ac o'r rhai erbyn hyn, nid oes ond un wedi ei gadael yn gyfan.* Eto yn 1810, yr ydys yn cael rhestr o naw llyfrgell, y rhai a osodir allan "fel ychydig o brif lyfrgelloedd anghyhoedd y deyrnas."† Ond o'r rhai hyn y mae chwech wedi eu gwerthu allan; un o honynt (eiddo Mr. Grenville), wedi dyfod yn feddiant i'r cyhoedd; un arall nas gwyddys yn sicr beth ddaeth o honi; a'r llall, sef eiddo Arglwydd Spencer, sydd yn aros, yr hon hefyd, fel y bernir, yw y llyfrgell anghyhoedd ragoraf yn Mrydain, os nad yn yr holl fyd. Mae y llyfrgell hon (o'r hon y mae y rhan fwyaf yn Althorp, Swydd Northampton) yn teilyngu sylw, nid yn unig ar gyfrif ei maint, ond yn neillduol ar gyfrif cyfoethogrwydd ei chynnwysiad—yn ngwahanol ddosbarthiadau llényddiaeth grefyddol a chyffredin. Mae y llyfrgell hon yn cynnwys uwchlaw 50,000 o gyfrolau, yn annibynol ar y casgliad Casano, yr hwn a bwrcaswyd yn 1820, ac a surffasid yn benaf gan George John, ail Iarll Spencer.‡

Mae lliaws mawr o lyfrgelloedd anghyhoedd nodedig, helaeth, a gwerthfawr, wedi cael eu chwalu trwy arwerthiadau cyhoeddus, o fewn ychydig iawn o flynyddau yn ol,—megys eiddo Heber, Bindley, Syr Mark Sykes, Hibbert, George Chalmers, Duc o Sussex, ac Ardalydd Blandford. Ac y mae eto liaws i'w cael tra theilwng o sylw o ran eangder a gwerthfawrog-rwydd; megys eiddo Duc o Marlborough, yn Blenheim; eiddo Duc o Devonshire, yn Chatsworth; eiddo Iarll Ellesmere, yn Bridgewater House, &c., &c.; ac yn enwedig eiddo Syr Thomas Phillips, Bart., yn Middlehill, Swydd Caerwrangon. Mae y llyfrgell hon yn dra helaeth, tua 50,000 o gyfrolau; ond dyna sydd yn nodedig ynddi—fod rhif y cyfrolau mewn llawysgrifen yn fwy na'r rhai argraffedig, yr hyn sydd yn ei gwneyd yn anhraethol werthfawr. Mae cyfoeth yr ysgriflyfran hyn, yn gystal a char-edigrwydd y pendefig urddasol i adael i ysgrifenywyr ac awdwyr ei chwilio, yn adnabyddus nid yn unig yn y deyrnas hon, ond hefyd ymysg dysgedigion Cyfandir Ewrop, fel y dengys yn amlwg wrth y *Monumenta Germanicæ Historica*, Dr. Pertz, neu yr *Archives des Missions Scientifiques*, cyhoeddedig gan lywodraeth Ffrainc. Er fod bras-grybwylliad o liaws mawr o brif lyfrgelloedd ein teyrnas yn yr ysgrif hon, eto gwyddys fod amryw o werth sylw heb le i'w crybwyll.

* Bagford, "Account of Libraries," (MSS., Harl.). † *Monthly Review* (1810), Vol. LXIII., p. 4. ‡ Am ddegrifiad teilwng o gynnwysiad y casgliad hwn, ofer dechreu mewn cylch erthygl mor fyr a hwn; ond y darlennydd a ddewisio gael hyn, darlenned Dibdin's *Bibliotheca Spenceriana* (London, 1814—23) 4 Vols. *Royal Soc., with three supplementary volumes*; a Dibdin's *Edes Althorpiana*, Vol. I., p. 57.

Golygfa Ystadegol o'r Prif Lyfrgelloedd crybwylledig yn yr Ysgrif hon.

Brydain Fawr a'r Iwerddon.	Enw y Llyfrgell, a dyddiad ei sefydliad.	Rhif y Cyfrolau—		
		Argraffedig.	Ysgrifffrau.	
Aberdeen	{ Y Brifysgol (neu) }	1634	37,000	74
	{ Coleg y Brenin
Bolton	{ Coleg Marischal		12,000	100
	Rhydd-Lyfrgell.....	1853	15,000
Bristol	Llyfrgell Ddinasol
	{ Y Brifysgol	1475	197,000	3,163
Caergrawnt	{ Coleg y Drindod		43,000
	{ Coleg St. John	1530	26,000
	{ Coleg y Frenines		25,000
	{ Coleg Gonville a Caius.....		14,000	700
	{ Coleg Emmanuel		17,000
	{ Pepsian (Coleg Magdalen)	1703	
	{ Coleg Pembroke		10,000
	{ Peterhouse.....		6,300
Caergaint	{ Coleg y Brenin	1577 (?)	
	Y Brifeglwys		5,000
Carlisle	Y Brifeglwys		3,174
	{ Coleg y Drindod	1692	126,000	1,600
Dublin	{ King's Inns	1787	30,938	150
	{ Cymdeithas Dublin	1731	24,000
	{ Archesgob Marsh	1697	18,000	193
	{ Yr Athrofa Wyddelig	1787	10,000	500
Durham	Y Brifeglwys.....		11,000	520
	{ Llyfrgell y Cyfreithwyr.....	1680	172,000	2,000
Edinburgh.....	{ Y Brifysgol	1580	100,000	400
	{ Y Signet.....		45,000
	{ Y Gymdeithas Feddygol	1737	18,000
	{ Y Meddygwyr	1682	9,000
Ely.....	Y Brifeglwys.....		4,000
Exeter	Y Brifeglwys		5,000
	{ Y Brifysgol	1473	75,000	242
Glasgow.....	{ Stirling	1791	13,000 (?)
	{ Yr Amgueddfa Huneraidd	1781	12,500 (?)
Lincoln	Y Brifeglwys		4,500
Liverpool	Y Rhydd-Lyfrgell.....	1852	34,274
	{ Yr Amgueddfa Frytanaid	1753	562,000	40,000
	{ Sefydliad Llundain	1805	60,000
	{ Sefydliad Tansgrifol Llundain	1841	65,000
	{ Y Gymdeithas Freninol	1667	41,000
	{ Coleg Sion.....	1631	41,000
	{ Lincoln's Inn	1522	28,000	900
	{ Sefydliad Breninol	1803	27,000
	{ Palas Lambeth	1610	25,000	1,200
	{ Y Middle Temple.....	1641	21,000
	{ Dr. D. Williams	1716	21,000	200
	{ Y Llyfrgell Gynulleidfâol	1830	20,000
	{ Inner Temple	1707	16,000	500
	{ St. Paul	1718	8,000
Llundain a Westminster	{ Archesgob Tenison	1684	3,000
	{ Westminster Abbey	1620	11,000
	{ Y Rhydd-Lyfrgell	1852	32,573
	{ Chetham	1653	18,200	137
	{ Salford	1850	18,553
	{ Y Brifeglwys		4,350
Manchester a Salford	{ Y Ddinasol.....	
	{ Y Ddinasol.....	
Norwich	{ Y Ddinasol.....	

Brydain Fawr a'r Iwerddon.	Enw y Llyfrgell, a dyddiad ei sefydlid.	Rhif y Cyfrolau—	
		Argraffedig.	Fagriflyfrau.
	Y Fodleyaidd..... 1597	256,000	22,000
	Y Radcliffe..... 1737	24,000 (?)
	Sefydliad Taylor 1847	10,000
	Yr Amgueddfa Ashmolaidd
Rhydychain	Coleg y Frenines	Anwybod.	3,237
	Coleg Eglwys Crist		
	Coleg All Souls		
	Coleg St. John		
	Coleg y Brifysgol		
	Coleg Merton		
	Coleg Baliol		
	Coleg Worcester		
St. Andrews	Y Brifysgol 1600	61,500	63
Winchester	Y Brifeglwys	3,500
Worcester	Y Brifeglwys	3,600
York	Y Brifeglwys	8,000

GWYR IEUAINC LLANLLENORION.

Y DRYDEDD BENNOD.

ARWEINIWYD ni yn fynych gan amgylchiadau i rai o brif drefydd Lloegr, a hyny ar achlysuron a roddent i ni gyfleusdra i weled lliaws mawr o'n cydgenedl yn gynnulledig; ac ar y cyfryw adegau nid oedd dim a'n tarawai yn fwy na chyfarfod â'r fath niferi o'n hen gyd-drefwyr a'n cydnabod yn wasgaredig trwy wahanol barthau y deyrnas. Buom bron a ffurfio y farn fod trigolion ein hen gartref ni yn fwy gwasgaredig na'r eiddo unrhyw le arall yn y Dywysogaeth; a buasem yn barod i ddadleu yn gadarn dros y gosodiad, oni bae i ni, ar ol mynegi ein teimlad ar y pwnc, glywed cyfeillion genedigol o leoedd eraill yn tystio eu bod hwythau wedi teimlo yn gwbl yr un fath. Ar yr un pryd rhaid addef fod rhai trefydd yn Nghymru nas gallant gynnwys o'u mewn ond nifer fechan iawn o'r plant a fagant, am nad oes ynddynt na masnach na gweithfeydd i'w cadw yno; ac felly y mae trigolion y cyfryw leoedd yn fwy gwasgaredig ar hyd y byd na lleoedd eraill sydd yn llawn o bob math o gyfleusderau er ennill bywioliaeth, oblegid am fywioliaeth yr ymofyna y werin ymhob gwlad, a dyna eu hamcan yn eu holl wasgariadau.

Onid yr hyn a'n tarawai gyda mwy o syndod fyth ydoedd y difawr wahaniaeth a welom rhwng ein hen gydnabod—y gwahaniaeth rhyngddynt â'u gilydd, a'r gwahaniaeth rhyngddynt yn Lloegr wrth eu cymharu â'r hyn oeddynt yn eu lle genedigol. Weithiau cyferchid ni mewn llais a thôn a gŵen gydnabyddus iawn—yn Saesneg, bid siwr—gan ddyn trwsiadus a

boneddigaidd, yn yr hwn y buom am gryn amser cyn gallu canfod rhyw hogyn tlawd a charpiog a adwaenem yn dda yn Llanlleenorion bymtheg neu ugain mlynedd yn ol, ond yr hwn trwy gyfres o amgylchiadau sfortunus, yn gysylltiedig â gosal am dano ei hun, a ddaethai rhagddo yn rhagorol yn ngyrfa bywyd; ac yr oedd cyfarfod â'r fath un yn y fath amgylchiadau yn wir ddywenydd i ni. Dro arall gwelsom yn araf droi atom gyda chamrau tra amhenderfynol, a gwedd a ddygai amlygiad nas gellid ei gamgymeryd o gywilydd a diraddiad, mewn gwisg a welsai well dyddiau, rywun a welsem gynt mewn amgylchiadau blodeuog, ond wedi myned oddidan nawdd ei rieni i ymladd â'r byd drosto ei hun, yn methu ei feistroli, ac yn teimlo gormod o falchder i ddychwelyd i'r hen gartref wedi gwneuthur methiant o honi. A gwelsom cyn hyn ferch ieuanc brydweddol o Gymru, a anesid o rieni tlodion ond parchus, ac a gawsai addysg gyffredin dda, a gwell na'r cyfan esiampiau a gweddïau rhieni duwiol, a ddaeth rhagddi mor dda fel gwasanaethyddes barchus ac ymddiriedol, nes dyfod ei hunan yn feistres, ie, ac yn fam i foneddigion a boneddigesau. A buom cyn hyn yn gorfod gwybod am ryw ferch ieuanc ag yr oedd ei thegwch yn ddigon i swyno yr edrychydd, yn cychwyn oddicartref gyda chalon lawen, yr hon mewn gwlad estronol a dynodol yn anfwriadol sylw y dinystrydd; gwrandawodd ei eiriau mwynion, derbyniodd ei anrhegion drudfawr, credodd a charodd ef, nes y cafodd ei hunan un diwrnod yn grëadures euog ac anffortunus—gwrth-ddrych ei serch wedi cefnu arni—pob drws wedi ei gau yn ei herbyn ond drws y bedd oer. Eithr yr oedd ei chyfansoddiad yn ddigon cryf i ddal yr ergyd, a'i hysbryd yn rhy uchel i edifarhâu; ymollyngodd i'r trosedd a fu yn ddinystr iddi—gwelwyd hi eilwaith yn rhodio yn ben uchel yn mhrif heolydd y ddinas ymysg y cymeriadau hyny ag sydd wedi marw i gywilydd. Ond nid hir y parhâodd ei harddwch; buan y gwywodd; collwyd hi oddiar yr heol, ac ni chwasai neb wybod pa fodd y terfynodd ei hoës oni buasai iddi hi ei hun adrodd hanes trist ei bywyd wrth foneddiges elusengar yr hon a'i cafodd mewn meddygdŷ, yn pydru cyn myned i'w bedd! Y mae ei thwyllwr eto yn fyw, ac yn barchus gan yr ystleu yr hon a dwyllodd ac a ddarostyngodd yn mherson yr un a nodwyd! ond, y mae yn ei aros daranfolltau dialedd Cyfiawnder Hollalluog! Bychan y gwyr rhieni wrth sagn eu plant yn dyner ac yn anwyl beth fydd eu hanes ymhen ychydig flynyddau!

Yr ydym yn cofio unwaith, pan oeddem yn y brifddinas, i ni un diwrnod yn eia crwydriadau i syllu ar y rhyfeddol, gael ein hunain tuag amser ciniaw yn lled bell o'n lletty, ar yr oedd ein "dyn oddimewn" yn rhoddi awgrymiadau nas gellid eu camddeall fod adgyflenwad o sylweddan a hylifau yn anghenrheidiol. Felly troisom i westdŷ tra pharchus a safai gerllaw, er mwyn gwneuthur i fyny y diffyg a deimlai ein natur frau ar ol oriau o grwydro. Wedi myned i mewn, a chael ein "dangos" i ystafell orwych gan was mewn lifrau, gofynasom am y *bill of fare*; ac wrth edrych hwnw, deallasom ein bod wedi myned i mewn i le mwy drudfawr nag y tybiasom ar y cyntaf. Ond gan nad oeddem yn dewis bod mor anfoneddigaidd a myned allan heb alw am rywbeth, archasom y ciniaw lleiaf costus a welem ar yr ysgriflen grybwylliedig. Ar hyny aeth y gŵr mewn lifrau â'n harchiad ymaith, gan ymgrymu yn foneddigaidd. Wedi eistedd am beth amser, yn ystod yr hwn y ceisïem ddofi ein hamynedd trwy ddarllen y *Times* am y bore hwnw, clywem sŵn troed ysgafu yn agosáu, a daeth geneth dra

phrydweddol i mewn gan ddodi y ciniau a archasom ar y bwrdd yn ein hymyl. Cododd ei llygad yn wylaidd tuag atom, ac yn ddiwed gwelem ei phryd yn cyfnawid, a thorodd allan i'n cyfarch, "O Mr. — bach anwyl, y chwi sydd yma?" Yr oedd dagrau o lawenydd erbyn hyn yn llithro dros ei gruddiau, ac adwaenasom hi ar unwaith. Yr oedd yn ferch i rieni duwiol a adwaenem yn dda yn Nghymru, ac yr oeddem, ar ddymuniad ei rhieni, wedi bod yn ceisio argraffu ar ei meddwl y pwys o fyw yn ofn Duw i ba le bynag yr elai, cyn iddi gychwyn o'i chartref genedigol; ac nid oedd hithau wedi anghofio hyn; ond yr oedd yr adgof yn cyfodi i'w meddwl y foment y gwelodd ni am yr hen amser gynt, am gartref ei mebyd, ac am gynghorion ac esiamplau ei rhieni. Cawsom gyffe i ddeall cyn gadael y gwastdŷ hwnw ei bod hi yn gyfryw o ran ei hymddygiad, hyd yn nôd yn y fath le profedigaethus, fel ag i deilyngu ac i gael parch ac ymddiriedaeth y rhai a wasanaethai, yr hyn a fu yn destun llawenydd i ni; ac yr oeddem yn ddiolchgar am yr amgylchiad a achlysurowdd gyfarfod mor effeithiol.

Wrth roddi hanes am Wŷr Ieuainc Llanllenorion, rhaid i'r darlennydd ddysgwyl cryn lawer o wasgariad; oblegid er fod rhyw fath o fasnach yn y lle, nid ydyw mer flodeuog nac mor ennillfawr fel ag i beri i feddwl bywiog ac nehelgeisiol fod yn dawel i aros yno yn hir. Un o'r penderfyniadau cyntaf a ffurfia meddwl ieuanc o'r fath ydyw, bod yn rhywbeth mwy nag ydyw; ac es bydd talentau, a phenderfynolrwydd, ac egwyddorion da yn cydgyfarfod, y mae yn lled sicr y gwelir y cyfryw un cyn hir yn ymddyrchafu o'r dinodedd yn yr hwn, fe allai, y ganwyd ef, ac yn dychwelyd ryw dro i'w dref enedigol mewn diwyg a bŵr syndod i'r rhai a'i hadwaenent gynt. Ar yr un pryd, gwyddom am rai a feddent dalentau a fuasant gydag ymroddiad yn eu dyrchafu uwchlaw y canolradd, oni buasai iddynt yn dra ieuanc ynglymu yn annattodadwy âg amgylchiadau anffafriol, ac felly eu gorfodi eu hunain i dreulio eu hoes mewn tlodi a dinodedd yn yr un cylch ag y trôdd eu tadau ynddo o'u blaen, yn rhieni helbulus, yn gylchynedig gan liaws o blant, yn ymladd â'r byd, ac heb byth allu ei feistrolï.

Y cyntaf o Wŷr Ieuainc Llanllenorion a grybwyllasom yn nechreu yr hanes hwn ydoedd Walter Wyn; ac yr ydym yn tybied fod yr hyn a ddywedasom am dano yn barod, yn ddigon i godi dysgwyliad yn y darlennydd y buasai Walter yn troi allan yn wrthddrych sylw os nid parch yn y cylch y trefnid iddo droi ynddo. Ac un felly ydoedd Walter. Yr oedd yn amhosibl cyfarfod âg ef ar yr heol heb deimlo tuedd i edrych arno drachefu, ac i holi bachgen pwy ydoedd; ac ymysg cynulleidfa o blant, yr oedd ei wynebpryd dyddorol, ei lygaid treiddiol, uchder a llêd ei dalcen gwŷn, a gweddeidd-dra naturiol ei ymagweddiad a'i holl ysgogiadau, yn gyfryw ag a barai i'r sylwedydd ffurfio am dano feddyliau uchel lawn, a gobeithion am enwogrwydd a defnyddioldeb mewn amser dyfodol. Tybiwn fod y ffaith o'i fod wedi ei eni, neu o leiaf ei fagu, mewn amgylchiadau isel yn dra ffafriol i gyflawniad y cyfryw obeithion. Mynych y syna y byd wrth weled bechgyn tlodion yn dyfod rhagddynt mewn enwogrwydd, gan eu bod heb gael y manteision hyny i gyrhaedd mawredd ag sydd yn meddiant y cyfoethog; ond y mae y dirgelwch yn dra hawdd ei esbonio. Y mae rhywbeth mewn tlodi ac anghen sydd yn fynych yn bywiogi y meddwl, ac yn ei barotî i gyfarfod âg anhawderau, ac i weithio ei ffordd drwyddynt. Gwir yw fod rhai dynion o fonedd ac achau urddasol, y rhai a ddygwyd i ffyni yn nghanol moethau a manteision sefyllfa uchel yn y byd, wedi cyrhaedd

gwir enwogrwydd; eithr y mae bywgraffiaeth enwogion yn eglur ddangós fod y rhan fwyaf o'r rhai a gerfiasant eu henwau yn annilëadwy ar lechau hanesyddiaeth yr oesau, ac a ennillasant iddynt eu hunain le uchel yn nheml gogoniant, yn ddynion a weithiasant eu ffordd i'r fath fri trwy alpiau o anhawserau, ac er gwaethaf yr anfanteision a'i gwrthwynebiadau mwyaf, ond a "nerthwyd o wendid, a wnaethpwyd yn gryfion mewn rhyfel, ac a yrasant fyddinoedd o wrthwynebwyr i gilio."

Yr oedd Walter Wyn yn fachgen tra gobeithiol, er fod yr amgylchiadau allanol ymha rai y dygwyd ef i fyny yn nghyfrif y byd yn isel. Yr oedd ei areithiau yn Nghymdeithas y Gwyr Ieuainc yn nodedig am y medrusrwydd a amlygid yn y cyfansoddiad, a'r hyawdiedd a ddynodai y traddodiad o honnynt. Wrth sylwi ar ei alluogrwydd fel bachgen ieuanc, ac wrth feddwl am yr hyn y gallai galluoedd o'r fath ddyfod trwy ddiwylliant ac ymarferiad, buasai un yn barod i ddefnyddio iaith yr enwog John Elias pan ddarllenai waith un awdwr galluog, yr hwn oedd o foesoldeb ammheus, ac o dduwioldeb mwy ammheus fyth, "O" ebe y defosiynol Elias, "O na bae talent y dyn hwn wedi ei *sancteiddio!*" Y mae dynion ieuainc o dalentau uwchlaw y cyffredin, ac o fywiogrwydd ysbryd, ac o dymher siriol a chyfeillgar, yn dyfod yn wrthddrychau o sylw dyddorol, ac o serch cynhes pawb a'u hadnebydd. Ond i'r sylwedydd craff y mae pob meddwl am dlyn ieuanc o'r fath yn gymysgedig âg ofn; oblegid gŵyr y cyfryw yn dda os oes yn y dyn ieuanc ddefnyddiau gwir fawredd a defnyddioldeb, fod hefyd yn y meddwl bywiog, yr ysbryd nwyfus, barddonol, a chynhyrfadwy, sydd ynddo, ddefnyddiau,—os câ y "gelyn ddyn" afael ynddynt i'w trin fel y gwelo ef yn dda—i wneuthur un hynod mewn drygioni a thrueni. Y mae dyn y byddo defnyddiau mawredd ynddo yn sicr o fyned yn fawr mewn rhyw ffordd neu gilydd. Os na bydd yn fawr mewn daioni, y mae yn sicr o fod yn fawr mewn drygioni; ac fe fydd ei ruddfanau o ofid ar ddiwedd ei yrfa yn daranau ymysg ocheneidiau y damnedigion. Fe wna bob peth yn fawr. Os gwna ddaioni fe wna ddaioni mawr—os pecha fe becha yn fawr,—os dyoddefa gosb mewn canlyniad i'w bechod, bydd ei ddyoddefaint yn fawr; ac os gwelir y cyfryw un yn y byd hwn—fel, trwy drugaredd, yn fynych y gwelwyd—yn troi o gyfeiliorni ei ffordd, ac yn dychwelyd i'r llywbrau yr addysgwyd ef i'w rhodio yn more ei oes, y mae ei edifeirwch yn ddyfnach ac yn ddwysach na'r eiddo dynion yn gyffredin, yr hwn a ddilynir ond odid gan ryw ymdrechion gorchestol a hunanaberthol, yn ngwasanaeth yr Hwn y bu yn milwrio yn ei erbyn.

Yr oedd yn Walter Wyn, er ei alluoedd, ac er ei serchogrwydd, ryw-beth a barai i'r rhai a'i hadwaenent oreu ofni am dano. Nid oedd ei fwynach dan haul, ac yr oedd yn anhosibl bod yn ei gyfeillach heb deimlo rhyw serchymgylmydiad âg ef. Yr oedd yn anhosibl ymddyddan âg ef yn hir heb wybod ei fod wedi gallu meistroli rhai cangenau o wybodaeth, a gallai ateb cwestiynau, a gwneuthur cyfeiriadau at bethau, y buasai dynion o ddysg yn rhyfeddu ei glywed. Gau fod ei gysylltiad boreuol â chrefydd yn ei ddwyn yn fynych i gyffyrddiad âg athrawiaethau Cristionogaeth, a chan fod arholiadau cyhoeddus yr Ysgolion Sabbothol yn annogaethol iawn i gyrhaeddiad gwybodaeth dduwinyddol, trwy fod y gofynion a holid ar y cyfryw achlysuron yn myned yn ddyfnach na'r crystyn arwynebol—i mewn i galon y pwnc, yr oedd Walter, er mwyn ymbarotôï gogyfer â'r cyfryw achlysuron o bryd i bryd, wedi rhoddi llawer iawn o'i fryd a'i feddwl ar y

gangen oruchel hono o wybodaeth. Yr oedd yn gydnabyddus â'r holl resymau, *pro and con*, a ddygid gan brif dduwinyddion yr oesau ar wahanol bynciau. Gwyddom y caem wŷg miloedd pe dywedem fod dysgu yr oes sydd yn cyfodi yn mhethau athrawiaethol crefydd yn waith niweidiol; ond gŵged y neb a wŷgo, rhaid i ni gael dywedyd fod perygl hyd yn nôd yn hyn. Yr oedd perygl gynt gŵneuthur y cysegr sancteiddiolaf,—lle nid oedd yn gyfreithlawn i neb fyned ond yr archoffeiriad, nac iddo yntau heb waed,—yn lle rhy gyffredin. Nid oedd wedi ei fwriadu i fod yn sathrfa i'r gynulleidfa. Y mae llenwi dynion â gwybodaeth o bethau mawrion Cristionogaeth—testunau efrydiaeth angelion, ac i ba rai nad ydyw y nefolion mawrion hyny wedi treiddio ymbellach, wedi miloedd o oesau o astudiaeth, na “chwennyachu edrych” iddynt gyda gwyleidd-dra ystyriol o'u goruchel-edd—y mae, meddwn, ddysgu hogiau a'u harfer yn barhâus i siarad am y pethau “rhyfedd ac ofnadwy” hyn, uwchben pa rai y cryna deallwriaethau dynol ac angelaid, heb fod defosiwn cyfatebol i sawredd y pethau yn cael ei feithrin yn eu calonau,—yn tueddu i galedu; a chaledwch o'r fath fwyaf anrhyliadwy ydyw y caledwch hwnw a gyunyrchir gan gyn-efindra diaddoliad âg athrawiaethau gogoneddus Cristionogaeth. Gwell a diogelach ar bob ystyriaeth fyddai fod y galon yn llawnach o deimladau priodol nag ydyw y pen o wybodaeth, na bod y pen fel llusern oleu yn llewyrchu uwchben calon rewlyd. Gwyddom fod dynion anffyddaid yn gallu siarad am grefydd, a rhoddi ergydion i grefydd, mewn iaith na fasant byth yn gallu ei defnyddio, oni buasai iddynt fod unwaith yn efryd-wyr duwinyddiaeth. Gwareder ni byth rhag tynu llên dros wybodaeth ysgrythyrol, fel y gwna y Pabyddion; ond gwareder ni hefyd rhag gwneuthur pethau cysegredig y nefoedd yn sathrfa i ryfyg ac anystyriaeth! Nid oes dim yn fwy prydfferth na gweled yr hwn sydd mewn agwedd meddwl ymostyngol i Dduw yn hyddysg yn y gwirioneddau Dwyfol; ond nid oes dim yn fwy gwrthun dan y nef na duwinydd annuwiol—ysgolaig ysgrythyrol gwrth-Gristaidd—cythraul dysgedig yn egwyddorion teyrnas nefoedd!

Nis gallwn ddywedyd fod Walter Wyn wedi cyrhaedd yr eithafion yna mewn dirywiad tra yr arosai yn Llanllenorion; ond yr oedd yn amlwg iawn i'r neb oedd fwyaf cydnabyddus âg ef ei fod mewn perygl o fyned i'r tir hwnw. Un peth a'i cadwai i lawr i raddau, ac a barai iddo fod yn fwy gofalus nag y buasai heb hyn, ydoedd ei fod, mewn rhan o hono ei hun, ac mewn rhan trwy awgrymiadau rhai o'i brif gyfeillion, wedi meddwl am y weinidogaeth efengyladd fel y swydd i'r hon y bwriadai ymgysgru. Ac yr oedd yn naturiol iddo, gan fod ei olwg ar swydd mor gysegredig, ymddwyn yn y fath fodd ag i rwyddhâu ei ffordd iddi mewn amser dyfodol, oblegid gwyddai yn dda am zel y rhai a flaenorent gyda'r achos crefyddol yn Llanllenorion dros barchusrwydd a sancteiddrwydd y swydd hono. Ni buasai unrhyw beth yn iselhâu ymgeisydd am y weinidogaeth yn fwy yn meddyliau y bobl dda hyny, na bod y cyfryw un yn siarad yn ysgafu am bethau mawrion crefydd. Rhyfedd iawn fel y mae talent Cymru yn troi i'r pulpud! Tra y mae prif dalentau y Saeson yn y senedd, y llys barnol, neu yn y chwaredud, ac nad oes ond ychydig iawn o'u talentau fel cenedl yn yr areithfa, gwelir braidd yn ddiethiriad fechgyn Cymru, os bydd ynddynt ryw faint o alluoedd i ennill sylw, yn cael eu codi i'r pulpud. Yn Nghymru dlawd nid oes un llwybr arall i enwogrwydd a defnyddioldeb cyhoeddus yn ymagor o flaen ei wreibion athrylithgar, tra y mae y Saeson

cyfoethog yn dewis gweled eu plant yn enwogi eu hunain yn y byd, yn hytrach nag yn yr eglwys.

Meddyliau am y weinidogaeth oeddynt yn tanio enaid ac athrylith Walter Wyn pan ydoedd oddeutu dwy ar bymtheg a deunaw mlwydd oed. Yr ydym yn ei gofio yn darllen Duwinyddiaeth, ac yn efrdy Araethyddiaeth, gyda'r bwriad o ymddysgleirio ymysg pregethwyr enwocaf Cymru. Yr oedd hyn yn dangos uchelgais ynddo, oblegid nid peth bach ydyw *dysgleirio* yn *Nghymru* fel *pregethwr*. Clywsom Spurgeon, a gwranda-wsom ef yn astud, fel llawer eraill, i'r dyben o gael allan ddirgelwch ei boblogrwydd; a chyda phob dyledus barch i'r pregethwr poblogaidd hwnw, yr ydym yn teimlo yn drwyadl argyhoeddedig fod yn annhraethol haws iddo fod yr hyn ydyw gyda'r Saeson na phe buasai gyda'r Cymry. Ni buasai yn tori ond ffugl canolraddol iawn yn Nghymanfaoedd Cymru yn nyddiau Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern; ac ni byddai yn awr ond israddol, hyd yn nòd yn y pethau y rhagora ynddynt, pe safai yn ymyl rhai o brif enwogion Cymreig y dydd presennol. Ond pa beth a w'yr y Saeson am bregethu gwir hyawdl wedi dyddiau Whitfield?

Ond, fodd bynag, yr oedd Walter Wyn, unwaith, wedi bwriadu bod yn un o brif bregethwyr Cymru; ac yr ydym yn credu y gallasai, mor bell ag y mae galluoedd naturiol yn myned, gyrhaedd gradd barchus yn y swydd hono. Yr ydym yn cofio un hen wraig gall, yr hon nid yw mwyaeh, yn gwneuthur y sylw canlynol,—“ I wneuthur pregethwr enwog yn Nghymru y mae eisieu *dawn* a *synwyr*—a gras, *os bydd o'n dygwyydd bod*, da iawn os bydd—ond *rhaid* cael y ddau gyntaf a enwyd.” Er ein bod ymhell iawn o feddwl nad gras ydyw y peth blaenaf a phenaf sydd yn ofynol mewn pregethwr yr efengyl, eto y mae cryn lawer o synwyr yn sylw yr hen wraig, yr hon oedd yn dra adnabyddus o bregethwyr ei hoes. Y mae llawer dyn doniol wedi ffaelu o ddiffyg pwyll a synwyr cyffredin, ac y mae llawer dyn synwyr-gall wedi methu o ddiffyg dawn, tra y mae llawer yn ddiau o bob un o'r dosbarthiadau yna wedi syrthio o ddiffyg gras. Yr oedd gan Walter Wyn alluoedd naturiol a allasent yn ddiau gyrhaedd enwogrwydd; eto yr oedd rhyw bethau bychain yn ymddangos ynddo a ddangosent nad oedd ei deimlad o bwysigrwydd pethau crefydd yn cyfateb o fewn llawer i'w gyd-nabyddiaeth ddealltwriaethol â hwy; ac nid oedd ynddo ar bob achlysur ddi-gon o wyladwriaeth ar ei dafod i gadw gwir agwedd ei feddwl yn guddiedig oddiwrth eraill. Tynodd hyn arno fwy nag unwaith geryddon lled lymion oddiwrth rai a safent yn uchel yn yr eglwys hono i ba un y perthynai, ac i'r hon yr oedd wedi bwriadu bod yn addurn ryw ddydd. Yr oedd y cer-yddon hyn yn cael eu gweinyddu oddiar yr egwyddorion puraf, ac yn ddiau i'r dybenion goreu, pa un bynag a oeddynt yn y dull doethaf a thebycaf o ateb y dyben ai peidio. Ar Walter, pa fodd bynag, ni chwasant yr effaith a ddymunasid; clwyfwyd ei falchder heb ychwanegu dim at ei ostyngieidd-rwydd; a bu yn coleddu meddyliau cryfion am fyned at enwad arall o gref-yddwyr, lle yr oedd, fel y tybiai ef, lai o rwystrau ar y ffordd i ddyrchafiad. Ond ymchwerwi a wnaeth, gan esgeuluso moddion gras yn lled fynych; a phan ddaeth hen frawd duwiol i ymddyddan âg ef, rhoddodd iddo atebiad a'i clwyfodd yn fawr. Yn awr penderfynodd Walter arfer pob moddion er diddymu ei feddwl oddiwrth y swydd hono i'r hon ar y cyntaf y bwriadai ymroddi, ac ar y ffordd i'r hon y gwelai ei fod ef ei hun wedi adeiladu rhywstrau. Yr oedd yn wir ddrwg genym dros Walter, oblegid fel bach-

gen hoffem ef yn fawr, er fod pethau lled annymunol yn ei ymddygiad ar y pryd; a phwy nad yw yn anynad ac yn anghysurus iddo ei hun ac eraill pan ei tefir oddiar ei echel?

Yr oedd yn anghenrheidiol i fodolaeth Walter, wedi rhoddi i fyny y meddwl am y weinidogaeth, gael rhywbeth yn nôd i gyrchu ato; oblegid nis gallai meddwl uchelgeisiol fel yr eiddo ef orwedd yn dawel mewn anenwogrwydd. Trôdd yntau at llênnyddiaeth; ysgrifennodd i fisolion, ymgystadleuodd mewn eisteddfodau, ac ennillodd iddo ei hun gryn aurhydedd ymysg llênorion ei wlad. Gan nad oedd yn gysurus ei feddwl yn Llanllenorion, penderfynodd adael y lle; ac felly y gwnaeth. Cyfeiriodd tua'r brifddinas i geisio rhyw sefyllfa yn yr hon y gallai ennill ei fywioliaeth; a thrwy ddylanwad cyfeillion a'i hadnabyddent, cafodd un; ac yn dra buan, trwy ei dalentau a'i fedrusrwydd fel ysgrifenydd a chyfrifydd, daeth rhagddo nes dyfod i dderbyn cyflog lled uchel. Fel llênor Cymreig daeth yn gydnabyddus â chylch o gyfeillion yn y brifddinas, y rhai yn fynych a'i gwahoddent i uno â hwy yn eu cyfeillachau nosol, lle yr areithient (yn Saesonaeg) ar ragoriaethau y Gymraeg, ac y treulient eu hamser gyda'r difyrion hyny ag oeddynt yn fwyaf cydunol â'u harchwaeth. Yr oedd rhywfaint o anesmwythder crefyddol yn Walter Wyn ar ddechreuad y cyfarfodydd a'r cyfeddachau hyn; ond buan y colodd hyny, ac aeth i'r radd hono o bellder oddiwrth ei argraffiadau boreuol, fel yr amhieuai wirionedd Cristionogaeth; ac o radd i radd yr aeth nes y gallai roddi ergydion i grefydd a chrefyddwyr mewn cwmni; ac yr oedd yr ergydion a roddai ef iddynt yn dyfod oddiwrth un a wyddai ymha le i glwyfo crefyddwyr; a derbynid ei sylwadau anffyddol mewn cyfeddach gyda chrechwen o lawenydd.

Yr oedd hwn yn dir dychrynlyd i fod arno; ond, chwychwi Athrawon Cymru, clustymwrandewch! y mae yn dir i'r hwn mae ugeiniau a channoedd o'ch hen ysgolorion yn myned ar ol symud o'u gwlad enedigol i awyr heintus trefydd mawrion Lloegr. Y maent wedi myned yno yn dechreu ymseisnigo yn rhyfeddol, ac yn colli archwaeth at grefydd yn y wisg ddi-addurn yn yr hon y gwelsant hi yn ngwlad eu genedigaeth; ac nid oes yn mhregethau anmrwd y Saeson ddim i ennill calon gynhes y Cymro. Yn fuan bydd yr argraffiadau crefyddol wedi eu gwisgo ymaith yn hollol; tramwyr i leoedd anghyfreithlawn i chwilio am ryw gynhyrriad; ac o dan ddylanwad y swynion hyny y maent yn cael eu sugno wrth y cannoedd i drobwll y llynclyn, yn yr hwn y derfydd pennod olaf hanes bywyd yr hwn a aeth yn ysglyfaeth i'r dinystrydd.

Y mae Walter Wyn eto yn y brifddinas, ac i'w weled, nid yn addoldy Jewin Crescent, na'r Borough, na chapel y Bedyddwyr yn Moorfields, nac yn wir mewn unrhyw addoldy arall. Y mae yn byw dan ddylanwad y dyb fod ei alluoedd wedi eu claddu—y gallasai fod yn rhywbeth mawr yn gyhoeddus yn y byd—ond yn ei gysuro ei hun oreu y gallo trwy gadw ymhell oddiwrth bob moddion crefyddol a dueddant i ddeffro ei gydwybod, a thrwy fynychu cyfeillachau, a darllen llênnyddiaeth sydd yn ei adael yn dawel yn y dyb humanfoddhäol ei fod yn "byw, yn symud, ac yn bod," yn ngoleuni rheswm. Am ffydd, nid ydyw yn ei hystyried yn anghenrheidiol o gwbl er hyrwyddo dyu yn ei daith trwy y byd hwn, nac er ei oleu wrth fyned o hono. Y mae yn dda genym fod ganddo gymaint o barch iddo ei hun fel ag i gadw ei le gyda'i feistriaid; a gobeithiwn yn hyderus y cyrhaedda pelydryn o oleuni Dwyfol i'w fynwes, fel ag i adferu i'w lle y galluoedd a'r

serchiadau hyny ag ydynt yn awr mor bell ar gyfeiliorn. Y mae ganddo feddwl bywiog, a gwyddom fod ganddo galon gynhes, a phwy a wyr na welir ef ryw ddiwrnod—oblegid nid ydyw eto yn hen—yn amddiffynydd galluog i'r grefydd, yn egwyddorion yr hon y magwyd ef. Gwyddom y bydd rhywrai yn holi, pwy all Walter Wyn fod? Ni ddymunem iddynt gael allan y person i fanylwydd; ond gwyddom yn dda, os cyferfydd Walter ei hun â'r llinellau hyn, nas gall gamgymeryd cyfeiriad yr hanes. Ac y mae Walter yn cynnrychioli dosbarth lliosog y gwyddom yn dda am danynt mewn mwy nag un o brif drefydd ein teyrnas, y rhai yn more eu hoes a wyrsant oddiar lwybr eu tadau; ond gadawer i ni obeithio yr adchwiliant seiliau Cristionogaeth gyda mwy o bwyll a didueddgarwch, mewn ysbryd ymostyngol i Ddwylol ddoethineb; ac os felly, nid ofnwn am y canlyniad

YR INDIA DDWYREINIOL.

[INDIA. AN HISTORICAL SKETCH. *By the Rev. GEORGE TREVOR, M.A., Canon of York; late Chaplain on the Madras Establishment.* London: The Religious Tract Society.

BRITISH RULE IN INDIA. A HISTORICAL SKETCH. *By HARRIET MARTINEAU.* London: Smith, Elder, and Co.]

Y MAE helyntion gwlad yn foddion i ddwyn y wlad hono i sylw gwledydd eraill y ddaear. Fel y mae helyntion teulu neu gymydogaeath yn eu dyrchafu o'u dinodedd blaenorol i fod yn wrthddrychau sylw a chwilgarwch y cyhoedd, felly y mae adfyd neu drychineb gwlad yn ei gosod yn ddrych i genedloedd eraill, ac yn gafaelu yn sylw y cywrair a'r meddylgar yn mharthau eraill y ddaear. Prin ac aumherfaith iawn yw ein gwybodaeth am y byd yr ydym yn byw ynddo; ac y mae ein gwybodaeth am wledydd a chenedloedd y ddaear, yn gyffredin, yn lleihâu, ac yn myned yn fwy amherfaith, yn ol graddau eu pellder oddiwrthym. Fel y mae hanesiaeth yr oesoedd a aethant heibio yn myned yn fwy niwliog a thywyll yn ol pellder *amser* oddiwrthym, felly, yn y cyffredin, y mae ein gwybodaeth am ein cydoeswyr mewn gwledydd eraill yn myned yn fwy cyfyng ac annilyys yn ol pellder *lle*. Ond y mae amgylchiadau yn dygwydd weithiau sydd yn gosod anghenrheidrwydd arnom i wneyd ein hunain yn gydnabyddus â gwledydd pellenig, ac â chenedloedd dyeithriol; ac y mae y neb a egeulusa hyn yn debyg o gael ei gyfrif yn llercyn yn myntai y doethion. Anwybodaeth o feithiau hynod perthynol i wlad, cyn i ddygwyddiadau neillduol gymeryd lle, a ystyrid yn ddiffyg digon dibwys; ond wedi i'r dygwyddiadau hyny dori allan, a gyfrifir yn fyrdra anfadduol. Y ddau brif amgylchiad a dynodd sylw y byd y blynyddoedd diweddar hyn oeddynt, y dargan-

fyddiadau a wnawd mewn amryw wledydd ar aur, ynghyd a'r rhyfeloedd gwaedlyd a gymerasant le. Gwasanaethodd y ddau ddygwyddiad yma i roddi symbyliad effeithiol i filiynau heblaw y rhai hyny a adawsant eu gwlad am feusydd yr ymdrechfa. Bu galwad mawr am barthleni (*maps*); pwrceaswyd *atlases* a *charts* yn helaeth; olrheiniwyd hanesiaeth a daear-yddiaeth y gwahanol wledydd yn fanwl, fel am bob un oedd yn meddu gwybodaeth dëg wyth mlynedd yn ôl am Australia, California, Columbia Newydd, a'r Crimea, &c., gellir dyweyd fod mil yn bresennol. Un o fendithion gwareiddiad yw fod y genedl wareiddiedig yn cael ei chynnysgaethu, i fesur mwy neu lai, â gallu ac â chymhwysder i edrych yn briodol ar y dygwyddiadau a gymerant le yn y byd, ac i ddeffro y gallu ychwanegol sydd ganddi, a'i droi i wasanaethu amcanion rhinweddol. Gwelir hyn yn wastad pan y mae rhyfel yn tori allan. Y mae y trychineb hwnw yn cael ei ddilyn â gallu arall—heblaw gallu dyfeisiol i ladd, a grym anianyddol i ddinystrio. Rhoddir gallu meddyliol ar waith i olrhain yr achosion—gallu adfyfyriol i ddosbarthu yr achlysuron—gallu i dafu goleuni ar yr hyn a arweiniodd i'r gyffafan erchyll. Gyda bod y cleddyf o'i wain, y mae yr hanesydd yn ymaflyd yn ei ysgrifell; mae "*our special reporter*" yn coginio ei arlwy; mae y llënor yn gwregysu ei hun i ddwyn allan ei gyfrol; mae yr athronydd hefyd yn ddiwyd yn ðlfenu y dygwyddiadau, a'r cwbl yn dwyn i'r amlwg ffeithiau mewn daearyddiaeth, gwladyddiaeth, trafnidiaeth, arferion, &c., na ddarfu y byd freuddwydio nemawr am eu bodolaeth.

Y wlad a ddyrchafwyd yn ddiweddar yn uchel ar drostan gwrthryfel, yw yr "**INDIA DDWYREINIOL.**" Cyflwynodd y wlad hon olygfa arswydus i'r byd yn ystod y deunaw mis diweddaf. Dan gystudd y gwelwyd gwersyllau Bengal; crynodd lleni tir yr India. Cymaint fu y trueni a deimlwyd yno, fel mai galar, gruddfan, a gwae, oedd yn cael ei ddolefain trwy yr holl wlad. Ni a allwn fenthyca yr hyn a ysgrifenyd gyda golwg ar famau Bethlehem, a'u cyfeirio at breswylwyr Hindostan:—"Lief a glybuwyd yn Rama, galar, ac wylofain, ac ochain mawr, Rahel yn wylo am ei phlant, ac ni fynai ei chysuro am nad oeddynt." Y mae enwau Cawnpore, Lucknow, Delhi, Agra, &c., wedi eu dwfn argraffu ar gannoedd o galonau sydd heddyw yn y bedd. Gwlad yw yr India a welodd aml a blin gystuddiau cyn y galan-*astra* presennol. Yfodd gwpaneidiau chwerwon yn ystod y pum can' mlynedd diweddaf. Cafodd ei daear ei meddwi laweroedd o weithiau â gwaed ei phreswylwyr; ac y mae y dygwyddiadau hen a diweddar a gymerasant le yn y parth hwn o'r byd, yn gwneyd y wlad hon yn faes dyddorol i'r hanesydd. Y mae yn dra chyfoethog o ddefnyddiau efrydiaeth; a'r tebygrwydd yw y tefir mwy o oleuni i'r wlad, ac am y wlad, yn y blynyddoedd dyfodol nag erioed o'r blaen. Ein hamcan yn bresennol fydd cyflwyno i'n darllenwyr rai o brif linellau yr India, pa rai a gasglwyd yn benaf o'r cyfrolau gwerthfawr sydd â'u henwau yn nechreu ein herthygl, lle y ceir ffeithiau hynod perthynol i'w daearyddiaeth, henafiaeth, hanesiaeth, cynnyrchion y wlad, rhyfeloedd, trafnidiaeth, crefydd, &c., y rhai nad allant lai na bod yn dra dyddorol unrhyw amser, ond yn enwedig yn yr adeg bresennol.

Hwyrach, er mwyn maintais, na fydd gan y darlennydd un gwrthwynebiad i ymfudo o ran ei ddychymyg i'r dwyrain; a rhag llwyr dreulio ei amynedd, dewiswn yr *Overland Route*. Ar ol teithio rhyw 350 o filldroedd o Lundain, dyma ni yn Paris, prifddinas Ffrainc. Oddyma symudwn tua'r

dehau; ac ar ol cael ein llusgo eilwaith yn y gludres am 550 o filldироedd, cawn ein hunain yn Marseilles—prif borthladd Môr y Canoldir. Heb ymdroi dim gyda henafiaeth y ddinas hon, parotôwn ein hunain ar gyfer wyth niwrnod o fôrdaith ar wyneb y “Môr Mawr,” yr hyn a'n dŵg i Alexandria yn yr Aipt. Taith o dridiau eto ar y *terra firma*, ar draws y Lleindir Suez, a dyna ni wrth draeth y Môr Coch—yr hwn sydd yn rhedeg i'r dehau am 1400 o filldироedd. Yn lle hwylio fel arferol i Bombay, awn yn uniongyrchol gyda'r llythyrllong tua Calcutta. Ar ol cefnu ar y môr fu yn feddrod i lawer heblaw yr Aiphtiaid, dyma ni ar gyfer Aden, lle yr arferir galw am lô at wasanaeth yr agerddlongau wrth forio yn ôl a blaen i'r dwyrain. Parotôwn ein hunain yn bresennol at fôrdaith enbyd, sef croesi Môr yr India, lle y mae y *monsoons** yn teyrnasu gyda gerwinder anwrthwynebol, ac yn benderfynol na chaiff neb o fechgyn y môr hwylio yn eu tiriogaethau hwy heb deimlo curfeydd eu dynau. Wedi croesi Môr yr India, dyma ni yn troi i Gulffôr Bengal, yr hwn sydd, fel y mae agos bob culffôr arall, yn ymwithio i'r gogledd. Bron yn ei gŵr uchaf y mae yr afon Hoogly—un o safnau y Ganges; ac ar ol hwylio am gan' milldir i fyny yr Hoogly, ni a gawn ein hunain yn Calcutta—prifddinas Bengal; ac os yw hi yn hauner dydd yn awr yn Llundain, y mae hi tua chwech o'r gloch prydnawn yn ninas esgobol Hindostan. Rhyfedd yw crwydriadau y meddwl, onidê? Y fath allu sydd ganddo i symud yn ôl ac ymlaen, trwy gannoedd o flynyddoedd o amser, a thrwy filoedd o filldироedd o le, a chyflawna orchwylion anferth, mewn dychymyg, yn yr yspaid lleiaf; ond y rhai i'w cwblhâu yn weithredol a gymerent ugeiniau o flynyddau. Dyma ni mewn ychydig eiliadau wedi camu afonydd mawrion, a chroesi moroedd llydain, a llau dros gyfyngdir a chyfandir, a theithio miloedd lawer o filldироedd, a'r cwbl oll heb i ni symud modfedd o'n hunman. Profa hyn eto, fel lliaws o bethau eraill, gywirdeb y dywediad synwyrllawn hwnw,—“*The mind is the man.*”

Wrth roddi bras linelliad o'r wlad, naturiol yw i ni ddechreu gyda'i DAEARYDDIAETH. Cafodd y rhan hon o'r byd ei galw India oddiwrth yr afon Indus—enw, medd Mr. Elphinstone, yn tarddu o'r gair Sanscrit *Hindh*, yn arwyddo glâs, ac yn dynodi lliw yr afon hono. Terfynir y wlad tua'r dwyrain gan yr afon Brahmapootra a Chulffôr Bengal; yn y gogledd gan fynyddoedd yr Himalaya; † o du y gorllewin gan fryniau y Sulciman a Môr Arabia; a thua'r dehau gan Fôr yr India. Hyd y wlad o fynyddoedd yr Himalaya yn y gogledd at Benrhyn Comorin yn y dehau yw 1,900 o filldироedd; a'i llêd o'r afon Brahmapootra yn y dwyrain at fynyddoedd y Sulciman yn y gorllewin yw 1,600 o filldироedd. Y mae arwynebydd y wlad yn ângaiawn, a'i thrigolion yn dra lliosog. Ymleda dros 1,467,183 o filldироedd ysgwâr, a chynnwysa 180,853,017 o drigolion. O'i chymharu âg Ewrop—os gadewir Rwsia allan o'r cyfrif—mesura fwy o 144,150 o filldироedd ysgwâr na'r cyfan; a'i thrigolion o fewn 19,000,000 yn gyfartal i boblogaeth holl Ewrop,—poblogaeth Rwsia hefyd, wrth gwrs, yn cael eu gadael allan o'r cyfrif. Ffurf y wlad yw triongl—un ochr yn gwynebu tua'r gogledd,

* *Monsoon*, oddiwrth *moosen*, tymmor. Gelwir hwy wrth yr enw hwn am eu bod yn chwythu yn yr un cyfeiriad—naill ai i'r de-orllewin, neu ynte i'r gogledd-ddwyrain—am yspaid o amryw fisoedd.

† Himalaya sydd air o'r hen iaith Sanscrit yn arwyddo *eira*, ac fel enw ar y mynyddoedd hyn dynoda “*cartrefe yr eira.*”

a'r ongl gyferbyniol yn ymestyn i'r dehau. Ffaith léd hynod mewn daear-yddiaeth yw fod lliaws o wledydd yn debyg yr un ffurf, sef Gogledd a Deheudir America, Affrica, Arabia, &c.; a diammheu mai nid damwain yw unfurfiaeth y gwledydd hyn, ond ffirwyth gweithrediad deddfau sydd mor fanwl a sicr â deddfau Euclid.

Y mae gwlad yr India yn meddu cyflawnder o'r gwrthddrychau a'r golygfeydd mwyaf amrywiaethog. Gellir edrych arni fel cyfangorff o'r hyn sydd yn dæg, yn dyner, yn brydferth, yn ardderchog, yn fawreddog, yn arddunol, ac yn aruthrol, a'r cwbl yn gwasanaethu i anghenrheidiau dyn, ac yn adlewyrchu mawredd a doethineb y Crëawdwr. Nid anmbriodol fyddai cymharu yr India i ddinas éangfawr a chyfoethog, wedi ei hadeiladu yn gelfydd gan y Pensaer Unig Ddoeth. Caerau y ddinas hon yw y mynyddoedd tragywyddol sydd yn derfynau iddi, a'r dyffyrnoedd éang yw ei bwrdeisdrefi. Gellir edrych ar y dolydd teg fel cynifer o ysgwarau gwych, a'i ffyrdd a'i hafonydd fel lliaws o heolydd prydfferth, a'r porthladdoedd hefyd fel cynifer o fueddai a nwyddfeydd, lle y cyferfydd gwahanol genedloedd a llwythau afrifed i ymuno mewn bywyd, masnach, a llwyddiant.

Dechreuwn gyda'r mynyddoedd mawreddog, pinaclau pa rai sydd yn ym-sæthu i uchelderau y nefoedd, ac yn colli o'n golwg fry yn nhiriogaethau y cymylau. O'r dwyrain i'r gogledd-orllewin, am tua 2,000 o filldroedd, y mae yr Himalayas yn sefyll,—ie *sefyll*, ddarllenydd, canys y mae eu tyrau dyrchafedig o'u hysgwyddau i fyny yn uwch na holl fynyddoedd eraill y byd. Gellir edrych arnynt fel gobenydd anferth yn nghŵr uchaf y wlad, a'r eira oesol fel clustoghul (*pillow-case*) gwyn, a byrdd-dir Bengal fel gwely o berlysiau, wedi ei drwsio â lleni melynwyrdd, yn ymestyn yn éang ar bob llaw, ac yn cael ei derfynu gan erchwynion nerthol y cefnfor. Ar benau y mynyddoedd hyn, ymhell uwchlaw y cymylau, y mae y *duw* yn trigfau, yr hwn, medd yr Indiaid, sydd wedi bod yno yn preswyllo mewn tawelwch am filiynau o flynyddoedd, gan wyllo yn bryderus ei deulu lliosog, sef yr afonydd gwylltion sydd yn tyrfu ar eu taith trwy holltau y creigiau. Efe, sef y duw, yw tad y Ganges, a thad yn nghyfraith i'r Siva! Bu y mynyddoedd hyn am oesoedd dirif, fel y cysegr sancteiddiolaf gynt, nad oedd neb yn meiddio agosáu atynt ond ambell fugail anturiaethus yn ei hynt ar ol ei braidd crwydredig. Nis gallwn ffurfio dirnadaeth am uchder na maintioli y mynyddoedd hyn. Y tŵr uchaf yn y deyrnas hon yw y clochdŷ sydd yn dyrchafu o Eglwys Gadeiriol Lincoln (sef 404 o droedfeddi); ond y mae copâu yr Himalaya yn 70 o weithiau yn uwch! Gwyddom yn dda, a gwyr ein haelodau hefyd, am y llafur a'r caledi a deinlir wrth esgyn pen yr Wyddfa,—y chwysu, y chwythu, y tynu, y cyffio, a'r blinder mawr; ond rhaid fod y mynyddoedd hyn yn *Wyddfanau* mewn gwirionedd, sydd yn dyrchafu wyth o weithiau yn uwch na'r uchaf o fynyddau ein gwlad! Os ydym yn rhyfeddu at faintioli yr Aran, a Chader Idris, a'r Wyddfa, nid ydynt o'u cymharu â chewri yr Himalaya ond fel ceiliogod rhedyn! Rhestrir mynyddoedd y byd yn ol eu uchder a'u maintioli yn wahanol ddosbarthiadau; ond y mae y dosbarth cyntaf oll—sef y rhai hyny sydd o 25,000 i 30,000 o droedfeddi uwchlaw gwyneb y môr—y mae y rhai hyny oll yn nghyfundrefn yr Himalaya; ac y mae yr ail ddosbarth—sef y rhai hyny sydd o 20,000 i 25,000 o droedfeddi o uchder—y mae y rhai hyn oll yn trigo yno hefyd, oddigerth dau neu dri o eithriadau sydd yn nghyfundrefn yr Andes. Yma y mae y Chamalari,

a'r Dhawalagiri, a'r Kunchinginga—yr olaf yn 28,178 o droedfeddi yn uwch na gwyneb y môr. Pinaclau uchelfrydig iawn yw y rhai hyn; y maent nid yn unig wedi penderfynu cael y blaen ar fynyddoedd eraill y byd, ond cydymgeisiant am yr uchafiaeth yn eu plith eu hunain, fel pe baent yn ymwybodol o anrhydedd yr orsedd, a gogoniant y goron freninol, ac yn llawn o ysbryd y siaradwr hwnw yn Ngholl Gwýnfa,—

“Here we may reign secure, and in my choice,
To reign is worth ambition though in hell;
Better to reign in hell than serve in heaven.”

Ychydig sydd o gefnau yn yr India ag y gellir eu galw yn fynyddoedd heblaw yr Himalayas. Ymddengys fel pe byddai i ryw allu mawr fod ar waith rywbyrd yn dadsylfaenu y cadwyni eraill, ac yn eu casglu at eu gilydd i wneuthur un Himalaya anferth; yr hwn sydd yn gwasanaethu fel caerwaith grymus i amddiffyn Hindostan rhag cael ei deifio gan ruthrwyntoedd y gogledd, y rhai sydd yn teyrnasu gyda gerwindra maliannus yn ngwlad Thibet. Ond y mae er hynny rai mynyddoedd eraill yn y wlad ag sydd yn deilwng o sylw. Mynyddoedd y Vindhya yw y rhai mwyaf pwysig yn nosbarth y rhai ailraddol yn yr India. Y mae y rhai hyn yn ymestyn ar draws y wlad—o'r afon Ganges yn y dwyrain hyd Gulfor Cambay yn y gorllewin. Gwahana y rhai hyn Hindostan Briodol oddiwrth y *Deccan*; * ac er nad ydynt ond oddeutu 3000 o droedfeddi o uchder, eto y mae eu hisder cymharthaethol yn cael ei wneyd i fyny gan eu hydedd, yr hyn sydd yn amryw gan noedd o filldiroedd. Bu y bryniau hyn yn gilsfach i ryfelwyr, ac yn lloches i ladron, am oesoedd lawer. Mynych y byddai y llwythau oedd yn byw un ochr i'r bryniau, yn croesi i yspeilio ac i ornesu ar y rhai oedd yn preswyllo yr ochr arall; ac yn y ceunentydd hyny y byddai y brwydrau mwyaf ofnadwy. Dywedir am un arwres o'r enw Chand Bibi—Buddug Indiaidd—iddi mewn arfogaeth fod yn ymladd yn ddewr yn un o adwyau y mynyddoedd hyn. Llwythodd ei gynau yn gyntaf â bathion efydd (*copper coins*); wedi hyny ág arian; yna â'i haur; ac yn olaf a'i pherlau; a llwyddodd yn y dull di-ildio yma i orchfygu ei gelynion! Y mae dwy gadwen eraill o fynyddoedd yn y parth deheuol o'r wlad, a elwir Ghâts, y rhai sydd o 2000 i 4000 o droedfeddi o uchder. Rhedant tua'r dehau at Benrhyn Comorin, bron yn gyfochrog â'r môr, mewn pellder o hanner can' milldir. Gelwir yr arfordir o du y dwyrain yn Coromandel, ac o du y gorllewin Malabar. Gan mai credo yr Indiaidd ydyw fod afonydd y wlad yn hiliogaeth duwiau y mynyddoedd, ni a drown yn bresennol oddiwrth y tatau at y plant; ond gan nad ystyriwn hi yn anghenrheidiol sylwi yn fanwl ar y rhai lleiaf yn y teulu, megys yr aberoedd a'r frydiau, ni a wnawn fyr nodiadau ar y plant mwyaf.

Rhestrir prif afonydd yr India—sef yr Indus, y Ganges, a'r Brahmapootra—yn y trydydd dosbarth o afonydd y byd, sef y rhai hyny sydd o 2,000 i 1,500 o filldiroedd o hyd. Cyfyd y gyntaf a'r olaf o'r tair a enwyd yn lled agos i'w gilydd, sef yr ochr ogleddol i'r Himalaya. Hyd yr Indus yw 1,700 o filldiroedd; ac ar ol rhedeg am y pellder hwnw—mewn rhan tua'r gorllewin, ac wedi hyny tua'r dehau—ymarllwysa trwy dair ar ddeg o

* *Deccan*, oddiwrth air sydd yn arwyddo *dehan*. Y mae yr enw hwn yn dynodi y wlad fr dehau i Hindostan Briodol.

eueuau i Fôr Arabia. Y mae gyrfa y Brahmapootra, yn y gwrthwyneb, tua'r dwyrain, gan droi am ben yr Himalaya i'r deheu; ac ar ol taith o 1,600 o filldroedd disgyna i'r môr yn Nghulfor Bengal. Ond brenines afonydd yr India, ac ar rai cyfrifon y fwyaf pwysig yn yr holl fyd, yw y Ganges. Cyfyd yn mhen gorllewinol yr Himalaya, yn yr uchder o 14,000 o droedfeddi; ac ar ol derbyn lliaws afrifed o ffrydiau, ymuna â'r Jumna yn Allahabad.* Y mae gan y Jumna, cyn ieno â'r Ganges, yrfa o wyth cant a thriugain o filldroedd i'w rhedeg, ar lánau yr hon y mae rhai o'r dinasoedd fu yn tori ffigiwr cyffrous yn y gwrthryfel presennol yn sefyll, megys Delhi, Agra, &c.; ac ar fin y Ganges, encyd o ffordd cyn cysylltu â'r Jumna, y mae Cawnpore, Bithoor, a Futtehpoor—trefydd a lusgwyd i sylw yr holl fyd yn ddiweddar gan rai o hynodion y terfysg brawychus a gymerodd le. Wedi gadael Allahabad, y mae y Ganges yn golchi lliaws o ddinasoedd enwog eraill ar ei thaith i'r môr, megys Benares, Dinapore, Patna, &c.; ac ar ol rhedeg am 1,650 o filldroedd, arllwysa ei dyfroedd trwy liaws o safnau llydain i Gulfor Bengal. Heblaw lliaws aneirif o ffrydiau cryfion eraill, derbynna y Ganges, yn ei gyrfa fawreddog, un ar ddeg o afonydd mawrion, a phob un o honynt yn fwy nag afon Llundain—megys y *Goomtee*, yr hon sydd yn ffurfio math o ddyffrffos i Lucknow, ac a fu yn attalia am yspaid i'r byddinoedd Prydeinig yn y gwarchae diweddar. Yn is i lawr y mae y *Gogra*, y *Gunduck*, y *Coosey*, a'r *Sone*—pob un o honynt yn gryfach na'r Tafwys—yn ewyllysgar yn dwyn eu teyrnged i'r Ganges, fel erbyn cyrhaedd y môr yr ennilla y fath rym a'r fath lywodraeth, nes bygwith dyfetha yr holl gyfandir. Y mae yr Hindw yn cysylltu rhywbeth dwyfol â'r afon hon, ac yn edrych arni yn dra chysegredig. Boglymir ei glánau â themlau yr eilunod, a gwelir heidiau o addolwyr yma ac acw yn myned trwy orchwyllion o buredigaeth yn ei dyfroedd; a pheth cyffredin yw canfod y llesg a'r oedranus ar lán yr afon yn dysgwyl am farwolaeth trwy orlifiad y dyfroedd. Bendith werthfawr i diriogaethau Hindostan yw y gorlifiad a gymer le trwy ymchwydd y Ganges. Trwy hyn y mae y wlad yn cael ei dyfrháu a'i ffirwythloni, er fod dinystr mawr ar fywydau a meddiannau yn fynych yn cymeryd lle ar yr achlysur. Yn y flwyddyn 1822, boddwyd o 50,000 i 100,000 o bersonau, heblaw llwyr ddinystrio lliaws o drefydd. Ceir afonydd pwysig eraill yn yr India, megys y *Nerbudda* sydd yn rhedeg am gannoedd o filldroedd ar draws y wlad tua'r gorllewin, ac yn ymarllwys ei dyfroedd i Gulfor Cambay; y *Godaveri* hefyd, a'r *Caveri*, ar lánau yr hon y claddwyd yr Esgob Heber, fel y dywed Blackwell yn ei Farwnad benigamp,

“Lle treigla'r *Caveri* yn donau tryloewon,” &c.

Afon arall yw y *Kistna*, sydd yn rhedeg tua'r dwyrain. Y mae hon yn meddu cryn bwysigrwydd yn naearyddiaeth yr India, gan ei bod yn gwahanu y *Deccan* oddiwrth y *Penrhyn Deheuol*. Rhenir y wlad yn dair rhan—Hindostan Briodol, sef o'r Himalayas at fynyddoedd y Vindhayas; a'r Deccan, sef o'r Vindhayas at yr afon Kistna; a'r Penrhyn, sef o'r Kistna at y Comorin yn eithaf y deheu.

Y mae *hinsawdd* y wlad yn gyfnewidiol iawn, ac yn dra gwahanol yn y

* Allahabad (*is Dew*). Y mae lliaws mawr o drefydd yr India yn terfynu gydag abad neu pore: ystyr y naill yw *prewylfa*, ac ystyr y llall yw tref neu ddinas.

naill gŵr rhagor y llall. Fe fydd y teithiwr un diwrnod bron cael ei rostio gan wres yr haul, ond y diwrnod nesaf bydd ei anadl yn ffurfio cymylau yn yr awyr rewlyd. Rhaid i'r Ewropead fod yn ochelgar iawn, onidê caiff deimlo fod hinsawdd yr India yn rhy uchel i'w gyfansoddiad. Nid yw yn ddiogel teithio, na bod allan ryw lawer, pan y bydd yr haul yn taflu ei wres, ac os bydd gorchwylion yn gorfodi rhai, megys y milwyr ac eraill, i fod dan yr awyr agored, daw gwendid a llesgedd cyn hir, fel y rhaid adnewyddu y nerth, naill ai trwy symud i gyffiniau y môr, neu i randir mwy mynyddig. Nid yw y cymylau yn dyhidlo dim ar y wlad am amryw fis-oedd yn olynol, ac yna y mae yr awelon yn cael eu teimlo yn boeth, y ffynnonau yn myned yn hesp, yr aberoedd yn cael eu lleipio i fyny, a'r afonydd mawr yn rhedeg yn llesg trwy ddyfrffosydd culion. Ond yn mis-oedd Mehefin, Gorphenaf, Awst, a Medi, daw y *monsoons* â'r tymmor gwlawog i'r trigolion. Ceir dognau helaeth o ddyfroedd yr adeg yma, a buan y gwelir yr effeithiau o hyny ar yr hen ddaear. Fe grëir pob peth megys o newydd, a daw adnewyddiad ar y wlad i gyd. Bydd agenau y meusydd yn dechreu cau i fyny. Cyfyd yr afonydd; deffroir y gwyrddlesni; dodrefnir y wlad â llyisiau, a ffrwythau; daeth yr amser bellach i'r adar ganu, clywir llais y durtur yn y wlad, ac yna y ffygysbren a fwria allan ei ffygys, a'r gwinnydd eu hegin grawn; gwisgir y gerddi âg eurafalau ac â chocôenau (*cocoa-nuts*); lliosog bellach yw y llanerchi

—“lle chwardd y pomgranad a'r pin
Lle tyfa pêrlysiau yn llwyni teleidion,
Lle distyll eu cangau y neithdar a'r gwin.”

Yr oeddem wedi bwriadu dywedyd llawer o bethau eraill am India yn ein herthygl gyntaf hon; ond y mae awdurdodau ein llywodraeth argraffyddol yn awgrymu y rhaid i ni droi yn ol y tro hwn, er nad aethom ymhellach na'r trothwy. Bydd genym gan hyny lawer yn ychwaneg i'w ddywedyd y tro nesaf.

Grem ar Fyd ac Eglwys.

Ea dechreu y flwyddyn hon, “sôn am ryfeloedd” sydd yn cynhyrfu holl Ewrop. Mae Louis Napoleon a Llywodraeth Awstria yn edrych yn wgs ar eu gilydd, mewn rhan oddiar anghydwelediad ynghylch llywodraethiad y Tywysogaethau Danubiaidd, ond yn benaf ynghylch yr hyn a eilw ein cymydogion y tu arall i Hafren a Dyfrdwy, yr *Italian question*. Heddwch, heddwch! sydd ar dafodau y ddwyblaidd, ac ar yr un pryd y maent â'u holl egni yn parotî i ryfel. Ofnir yn lled gyffredinol y gwelir cyn hir ymrysonau gwaedlyd yn Lombardy ac yn Nhaleithiau y Pab. Mae Sardinia *ŷechan uchelgaisiol yn ymgyfathrachu â Ffrainc ac â Rwsia, gan ddysgwyl*

eu cymhorth i ymlid ymaith yr Awstriaid o Italy, a meddiannu yr yspail. Diau fod Rwsia yn ddigon parod i dalu y pwyth i Awstria am ei hanniolchgarwch a'i hanffyddlondeb iddi yn ystod rhyfel y Crimea. Mae Ymherawdwr y Ffrancod, mewn traethodyn a briodolir i'w awduriaeth ef, neu o'r hyn lleiaf sydd wedi derbyn ei nawdd a'i gymeradwyaeth, yn ymddangos fel un yn cydymdeimlo yn ddwys â'r Italiaid gorthrymedig, ac yn benderfynol am wneyd i Awstria dynu ei hiau oddiar ei bochgernau. Mae y gŵr hynod hwn yn llethu pob rhyddid ymysg ei bobl ei hun yn Ffrainc, ac eto efe a fynai i'r byd edrych arno ef fel amddiffynwr mawr iawnderau dynoliaeth yn Ewrop. Nis gŵyr ar ddaear beth i wneyd â'r Pab; y mae am fod yn fab ffyddlawn, bid sicr, i'r Tad sanctaidd fel Pen yr Eglwys; ond y mae yn methu deall pa beth a fyddai oreu i'w wneuthur â'r hen ŵr fel pen gwladol; canys gŵyr ei fod yn fwy o gyfailli i Ymherawdwr Awstria nag iddo ef ei hun. Mae Napoleon III., fe dybygid, yn gweled y byddai rhyfel ar hyn o bryd âg Awstria yn dra dymunol, os nid yn gwbl anghenrheidiol, er mwyn cryfhâu a sefydlu ei awdurdod yn Ffrainc a'i ddylanwad trwy Ewrop, ac er diwallu gwanc swyddogion ei fyddin am "ogoniant" milwraidd. Yn y cyfamser, y mae Lloegr yn ceisio athrywynu a chyflafareddu rhwng y pleidiau; rhydd gynghor i Awstria esmwythâu beichiau ei deiliaid yn Italy, a pheidio cefnogi gormes llywodraeth y Pab; dywed wrth Sardinia am barhâu yn ei harferion rhyddfrydig gartref, a gochel rhyfel â gwledydd eraill; a chyfeiria ystyriaeth Ffrainc at y pwys o gadw cyttundebau gwladol a chenedlaethol yn ddihalog a diymmod. Ar yr un pryd, ceir hi yn cynnyddu a chryfhâu ei llynges ei hun, modd y gallo, doed a ddel, ddal i fyny ei hanrhydedd fel meistres y moroedd. Ni a weddiwn, ac a hyderwn, pa fodd bynag, am i gleddyf yr Arglydd gael ei gadw eto yn ei wain, canys trychineb ofnadwy yw rhyfel; ac os unwaith y dechreua ar y Cyfandir, nid oes ond yr Hollwybodol a ŵyr ymha le na pha bryd y dybena. Gall y Llywydd mawr agor drysau i'w efengyl, a pheri adferu i blant dynion eu hawliau a'u breiniau naturiol, a dinesig heb dywallt gwaed. Felly y byddo.

Y mae eisteddiad Seneddol ein teyrnas, wedi cryn dipyn o ryw ragymadroddi, yn awr yn dechre gweithio o ddirif. Ceisiodd y Weinyddiaeth addoedi y drafodaeth ynghylch Diwygiad Seneddol hyd nes i'r tymmor fyned ymbell, pan y byddai, fe allai, yn rhy ddiweddar i wneuthur un cyfnewidiad o bwys am y flwyddyn hon. Ond yr oedd teimlad Tŷ y Cyffredin, a llais y wlad, yn rhy gryf ac uchel i'w beiddio; nis goddefid cellwair â'r cwestiwn yn hŵy; ac felly gorfu i Mr. Disraeli addaw y dygid ymlaen drefniant diwygiadol y Llywodraeth ar yr 28ain o Chwefror. Gan fod yr amser yn awr yn ymyl, ofer yw ceisio daroganu pa fath fesur a fydd, na pheth fydd ei dynged. Mae Mr. Bright a'i gyfeillion wedi dangos i'n llywodraethwyr mai nid glasdwr o ddiwygiad seneddol a wna y tro; ac nid rhyfedd yn awr os gwelir y Toryaid, gan eu hawydd i gadw eu uchel swyddau, yn rhoddi eu hunain allan fel Diwygwyr o'r fath fwyaf diwygiadol. Y mae Mr. Walpole, yr Ysgrifenydd Cartrefol, newydd ddwyn rheithsgrif i mewn i ad-drefnu y Dreth Eglwys, ac mewn amser i'w llwyr ddirymu. Mae am i'r Ymneillduwr gael ei ryddhâu rhag talu y dreth os ardstyia i'w herbyn. Ymddengys ei fesur eto yn un lled aneglur a chymhlethedig; ac nid yw yn debyg y bydd Eglwyswyr nac Ymneillduwyr yn gwbl foddlawn iddo.

Mae ei Mawrhydi, ein Brenines deilwng, er nad yw "yn llawn deugain mlwydd oed," wedi myned eisoes yn nain; ac y mae y fam ieuanc a'i mabau

yn Prwssia yn dyfod ymlaen, meddir, yn rhagorol. Mae Tywysog Cymry yn awr yn Rhufain. Talodd yno ymweliad moesgar â'r Pab ar y 7fed o Chwefror; ac yr oedd Pio Nono yn derbyn y tywysog ieuanc yn gynhes iawn. Bydd yn fantais i'r gŵr ieuanc urddasol "weled y byd" yn ddia; ond nid rhy dda gan Brotestaniaid yw meddwl am ei arosiad yn awyrgylch wenwynig mam-ddinas Pabyddiaeth.

Yn nghanol trwst y bobloedd, a chynhyrfaeau teyrnasoedd, hyfryd yw i gristion feddwl fod y deyrnas nad yw o'r byd hwn yn estyn ei therfynau ynddo, ac yn cymeryd mantais tuag at hynny oddiar yr holl ysgogiadau gwladwriaethol. Mae y cyfammodau a wnaed yn ddiweddar rhwng prif lywodraethau y byd gwareiddiedig—Prydain, Ffrainc, Rwssia, a'r Unol Daleithiau America—â China, yn cynnwys darpariaeth sydd yn rhoddi hawl i bawb a ewyllsio wneuthur proffes o Gristionogaeth, a chael pob rhyddid i fod yn ymdrechgar drosti. Y mae Japan hefyd, yn benaf drwy gyfryngiad ein brodyr y tu arall i Fôr y Werydd, wedi cael ei gosod yn agored i ddylanwad efengyl Crist, wedi iddi gael ei chadw yn nghauad i'w herbyn dros ddau can' mlynedd. Mae yr adfywiad crefyddol yn America ymhell o fod wedi diffoddi eto; mae y cyfarfodydd gweddiau undebol yn y trefi mawrion mor lliosog âg erioed, a llaweroedd yn barhâus, meddir, yn cael eu troi at yr Arglwydd. Ac yr ydym yr wythnosau hyn yn derbyn y newyddion cysurus fod y "nesol dân" yn dechre goddeithio Gwylt Walia. Mae un o'r diwygiadau crefyddol grymusaf a welwyd erioed yn y Dywysogaeth, yn myned rhagddo yn awr yn Ngheredigion, lle y mae cannoedd a miloedd mewn ychydig amser wedi eu dwyn i bryder am eu hachos ysbrydol, ac i "ymwasgu â'r dysgyblion." Gobeithiwn yn wir yr ymdaena y dylanwad iachusol trwy holl Gymru. Na adawed cofiaduriaid yr Arglwydd ddystawrwydd iddo hyd oni byddo crefydd bur wedi myned yn oruchaf dros yr holl wlad.

Nodiadau Llenyddol.

Y LLYFR hynotaf adnabyddus i ni a ddaeth allan o'r wasg Seisonig, er cyhoeddiad ein Rhifyn diweddar, ydyw, *A Critical Dictionary of English Literature, and British and American Authors, living and deceased, from the Earliest Accounts to the middle of the Nineteenth Century: containing thirty thousand Biographies and Literary Notices, with forty Indexes of Subjects.* By S. Austin Allibone. Gwaith Americanaidd ydyw hwn, ac y mae, mewn gwirionedd, yn anrhydedd i ysbryd anturiaethus a dyhe-wyd llênnyddol ein brodyr yn y byd gorllewinol. Nid ydym yn gwybod am ddim yn y dosbarth y perthyna iddo teilwng am fynydyn i'w gystadlu âg *et.* Mae yn arddangos o du y casglydd llafurus, firwyth yr ymrôad mwyaf

difin, y darlleniad mwyaf äang, yr ymchwil mwyaf manwl, ac, yn y cyffredin, y farn fwyaf anmbleidgar, gyda golwg ar y miloedd testynau a ddygir ynddo dan sylw. Hwyrach y dichon i ni yn y deyrnas hon dybied ei fod yn rhoddi i awdwyr Americanaidd fwy o sylw, mewn cymhariaeth i'w lle a'u dylanwad mewn llênnyddiaeth, nag sydd mewn gwirionedd yn perthyn iddynt; ond y mae yn hyny yn dra esgusodol, ac yn ddidadl wedi gwyro llawer llai yn mblaid America nag a wnelsai odid neb o'r deyrnas hon mewn llyfr cyffelyb yn ei herbyn. Mae y llyfr wedi ei fwrriadu i wasnaethu yr un amcan gyda golwg ar llênnyddiaeth Seisonig, ag a wneir gan Eiriadur cyffredin gyda golwg ar iaith. Y mae yn ein cyfeirio at bob awdwr braidd sydd wedi ysgrifenu yn Saesoneg, pa un bynag ai enwog ai an-enwog, ac yn rhoddi i ni ryw grybwylliad am dano; ac am tua deng mil ar hugain o honynt yr ydym yn cael crynôad o'u bywgraffiad, rhestr o'u cyfansoddiadau, cyfeiriad at y gwahanol argraffiadau, nodiadau beirniadol arnynt, a detholiad tég o'r gwahanol farnau a gyhoeddwyd mewn adolygiadau neu gan ryw ysgrifenywyr galluog ynghylch eu rhagoriaethau. Y mae y llyfr yn un o'r rhai hyny ag sydd yn peri i un synu wedi ei gael pa fodd erioed y gallasem wneyd hebdo. Nid oes dim amhheuaeth na bydd y derbyniad a roddir iddo yn gyfryw ag i wneyd yr anturiaeth o'i gyhoeddi, er rhated ydyw, ag ystyried ei gynnwys, yn ennillfawr i'r cyhoeddwyr. Nid oes ond un gyfrol eto wedi ei dwyn allan, yr hon sydd yn gorphen gyda diwedd y llythyren J. Daw yr ail allan can gynted ag yr ystrydebir hi, yr hon a gwbleiddia y gwaith. Pris y gyfrol ydyw pedwar swllt ar hugain.

Mae argraffiad newydd, prydferth, cyflawn, a gofalus, newydd ddyfod allan o *The Theological Works of Isaac Barrow, D.D., Master of Trinity College, Cambridge. In nine volumes. Edited for the Syndics of the University Press, by the Rev. Alexander Napier, M.A., Trinity College, Cambridge, Vicar of Halkham, Norfolk.* Rhagoddodir i'r nawfed gyfrol, *A Notice of Barrow and his Academical Times as Illustrated in his Latin Works, gan W. Whewell, D.D., Master of Trinity College, Cambridge.* Y mae enw Barrow yn sefyll ymhlith y rhai cyntaf ar restr uchaf mawrion meddyliol y byd. Fel Mesuronydd a Rhifyddegwr, nid yw yn ail i neb oddieithr Newton ei hunan; esgynodd, yn wir, i ben y bryn oddiar yr hwn y canfu Newton y golyfeydd a'u gwnaethant yn anfarwol; ac oni buasai iddo, gan ymdeimlo, fe allai, â rhagoriaethau uwch ei ddysgybl Newton, a chan y siomedigaeth a'r diflasdod a brofasai pan y clybu, wedi i'w Ddarlithiau galluog ar Fesuroneg fod am ryw ysbaid ger bron y byd, nad oedd ond dau wedi eu darllen yn drwyadl, ac, yn neillduol, gan yr awydd a'i llywodraethai bob amser i ymroddi yn gwbl i Dduwinyddiaeth—oni buasai iddo fel hyn roddi o'r neilldu yr efrydiau hyny, a rhoddi ei gadair i fyny i Newton, y mae yn amhosibl dywedyd pa gymaint o'r gogoniant a berthyn yn awr i'r dysgybl fuasai yn eiddo i'r athraw. Y mae ei ysgrifeniadau Duwinyddol, pa fodd bynag, yn gyfryw ag nad rhaid i ni gwyno dim ei fod wedi aberthu pob peth arall er mwyn ymroddi i'r llafur a'i galluogodd i'w cynnyrchu. Y maent gan mwyaf yn ffurf pregethau. Dywedir i ni gan ei gyfaill a'i fywgraffydd Abraham Hill, "yr arferai droi i ffurf pregethau, er mwyn er-aill, y testynau hyny a ystyrid ganddo y rhai mwyaf pwysig er ei fwyn ei hunan, ac y byddai mor fanwl yn hyny, fel ag i ysgrifenu rhai o honynt drosodd bedair neu bump o weithiau" (Vol. I., page xlviii). Y mae y dystiolaeth

hon yn cael ei chadarnhau gan y golygydd presennol, yr hwn sydd yn eith cyfeirio at wahanol gopïau o'r pregethau sydd eto ar gael yn ei lawysgrifen ei hunan, a'r naill yn cynnwys gwelliadau a diwygiadau ar y lleill. Nid rhyfedd felly iddo gyrhaedd y fath ragoriaeth yn ei bregethau. Ystyrir hwynt yn gyffredin, gan y rhai cymhwysaf i farnu, ymhlith y rhai llawnaf o feddwl o fewn holl gylch llênnyddiaeth y pulpud. Dywedir fod Earl Chatham, yr areithiwr mwyaf o bosibl fu erioed yn Lloegr, er ei gymhwyso ei hunan i fod yn siaradwr cyhoeddus, wedi darllen ei bregethau drosodd a throsgodd drachefn, nes y gallai adrodd llawer o honynt allan air am air. Cynghorai ei fab, yr enwog William Pitt, i'w hastudio yn ddwys ac yn ddyfal. Yr oedd Daniel Webster, areithiwr mwyaf yr America, yn eu hastudio yn fanwl agos ei holl ddyddiau. Nid oes dim dadl nad oedd llawer o allu areithyddol y tri wŷr a enwyd, ac yn neillduol eu meistrolaeth ar iaith, i'w briodoli i'w cydnabyddiaeth fanwl â'r cyfansoddiadau hyn. Rhaid i ni gydnabod nad ydynt mor gyflawn o'r hyn sydd yn briodol yn gwahaniaethu yr efengyl fel trefniant ar gyfer anghen pechadur ag y byddai yn ddymunol ac yn anghenrheidiol i bregethau cyffredin fod. Y mae Barrow yn colli yn ddirfawr yn hyny mewn cymhariaeth, nid yn unig i Dr. Owen a John Howe, a'r Anghydfurfwyr yn gyffredin, ond i Hooker, yr Esgob Hall, yr Archesgob Ussher, Dr. Donne, i.e., Dr. South, a Jeremy Taylor, ymhlith yr Eglwyswyr. Ond mewn amddiffyniad i hawliau y dadguddiad dwyfol, seiliau fydd, ac yn neillduol y rhinweddau anghenrheidiol i'w hymarfer er perffeithiad y cymeriad Cristionogol ac anrhydedd crefydd, nid ydym yn gwybod am ddim i'w cystadlu â'i bregethau. Y mae yn edrych ar bob pwnc a ddelo dan ei sylw yn ei holl gysylltiadau. Teimlai ei hunan heb ddywedyd digon tra y gadewid dim ganddo heb ei ddywedyd; ac y mae hyny yn peri i'w bregethau oll fod yn draethodau manwl a helaeth yn hytrach na phregethau yn ystyr y gair yn gyffredin ymhlith y Saeson. Y neillduolrwydd hwn ynddo a barai i'r Brenin Charles yr II. ddywedyd am dano "ei fod yn bregethwr tra annhêg, yn gymaint a'i fod yn hyspyddu pob pwnc heb adael dim lle i neb a ddelai ar ei ol i ddywedyd dim newydd." Y prif lyfr o'i eiddo, ar wahân oddiwrth ei bregethau, ydyw Traethawd ar Uchafiaeth y Pab. Mae yma yn yr holl arfogaeth. Mae yn dwyn ger ein bron y fath gyfoeth o ddysgeidiaeth Ysgrhythrol ac eglwysig yn gysylltiedig â'r testyn, yn arfer y fath ddeheurwydd yn nghyflêad ei ddadleuon, ac yn gwasgu y casgliad gyda'r fath rym yn erbyn ei wrthwynebwyr, fel y mae yn anhawdd gwybod pa un i'w synu fwyaf yr ysgolaig mawr, yr ymresymydd medrus, ai y dadleuwr hyawdl. Mae wedi penderfynu y cwestiwn am byth ynghylch Uchafiaeth y Pab yn ngwyneb yr Ysgrhythran sanctaidd, tystiolaeth y Tadau Eglwysig, a chymeriad moesol y Pabau eu hunain. Byddai yn dda iawn genym pe byddai i'r cyfeiriad hwn o'r eiddom at yr awdwr hwn fod yn foddion i'w fwneyd yn fwy adnabyddus yn y Dywysogaeth, a thueddu meddyliau gweinidogion yr efengyl yn ein gwlad i ddarllen ac astudio ei ysgrifeniadau. Yr ydym yn gwybod fod rhai o'n gwŷr mwyaf eisoes yn gwneyd defnydd da o hono; ac nid ydym yn fwy sicr o ddim nag ydym o'r dylanwad da a gai cydnabyddiaeth fanwl âg ef ar feddwl gweinidog ieuanc er ei gymhwyso i orchwylion pwysig ei swydd. Mae yr argraffiad presennol o'i ysgrifeniadau yn tra rhagori ar bob un arall a gyhoeddwyd erioed; ac heblaw fod y cwbl agos wedi eu hailgymharu â'r llawysgrifen gwreiddiol sydd yn *Trinity College, Cam-*

bridge, y mae yma rai pregethau o'r newydd wedi eu cyhoeddi na buont yn argraffedig erioed o'r blaen, yn gystal a rhai ychwanegiadau gwerthfawr at y rhai a gyhoeddasant eisoes. Pris y gwaith ydyw £4 14s. 6c.

Bydd yn dda gan liaws o'n darllenwyr glywed am gyhoeddiad *Logic in Theology, and other Essays*, by Isaac Taylor. Y mae yr awdwr hwn yn dra adnabyddus bellach i'r nifer fwyaf o'r rhai sydd yn talu unrhyw sylw i lēnyddiaeth grefyddol ein teyrnas; ac er ei fod yn rhy feddylgar, ac nad ydyw yn meddiannu ar yr yni a'r bywiogrwydd anghenrheidiol i'w wneyd, gyda phwysau ei feddwl, yn boblogaidd gyda'r lliaws, eto y mae iddo ei gylch ei hunan, o fewn yr hwn y mae yn dra dylanwadol, ac i'r rhai a ddelont iddo nas gall iai na bod yn fendithiol. Byddai blas ar ysgrifeniadau Isaac Taylor yn ddigon o brawf i ni am unrhyw ŵr ieuanc ei fod wedi ymddyrchafu gryn lawer uwchlaw y cyffredin yn niwylliad ei feddwl, ac nid pell iawn o'i lle y gallai y galon hono fod a fedrai ymhyfrydu yn ei gyfansoddiadau ef. Y mae y gwaith presennol yn cynnwys saith o draethodau. Nid yw y cyntaf, *Logic in Theology*, ond ailgyhoeddiad, gyda rhai ychwanegiadau a mwy o ommeddiadau, o Ragdraethawd a gyhoeddwyd ganddo flynyddoedd lawer yn ôl i waith Jonathan Edwards ar Ryddid yr Ewyllys. Cyhoeddwyd yr ail draethawd hefyd yn yr *Eclectic Review* am Hydref, 1830, ar sefyllfa Undodiaeth yn Lloegr. Y mae y pump eraill yn newydd, ac oll yn dwyn delw yr awdwr yn bur amlwg—yn llawn meddwl, eto yn hynod ddidrwst, ac mor ddestlus yn eu cyfansoddiad, nes peri i un braidd sino ar eu prydferthwch. Y maent yn ddiffygiol yn y nerth hwnw ag sydd yn hanfodol i unrhyw effaith mawr, parhâus, yn ein byd ni.

Mae yr ail gyfrol wedi ei dwyn allan o *Popular Astronomy: by François Arago, Perpetual Secretary of the Academy of Sciences. Translated from the Original and Edited by Admiral W. H. Smyth, D.C.L., For. Sec. R. S., &c., &c., and Robert Grant, Esq., M.A., F.R.A.S.* Galwasom sylw at y gwaith hwn o'r blaen ar gyhoeddiad y gyfrol gyntaf. Mae y gyfrol bresennol yn cwbleiddio y llyfr. Y mae y llyfr yn gyflawn o'r wybodaeth gywiraf ar rai o'r cwestiynau mwyaf dyddorol tu allan i gylch dadguddiad a ddichon ddyfod dan sylw y meddwl dynol. Yr hyn sydd yn ein synu ni fwyaf ynddo yw fod yr awdwr yn gallu edrych ei hunan ar, a dwyn ei ddarllenydd i olwg, y fath amlygiadau o allu a doethineb a daioni y Crëawdwr mawr heb ymddangos fel pe yn coleddu unrhyw deimlad addolgar. Yr ydym yn ofni nas gwyddai am ddim o'r fath. Ond hwyrach pe buasai yn teimlo rhywbeth felly, yr edrychaisid yn Ffrainc ar ddadgan hyny mewn darlithiau ar Seryddiaeth yn rhywbeth anathronaidd! Rhyfedd cyhyd y mae yr hen lyfr yn parhâu yn wir am ryw bobl—"pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffylliaid!" Pris y gyfrol yw pedwar swllt ar hugain.

Buom yn hir yn dysgwyl am i ryw Gymro ymgymeryd â'r gorchwyl o anrhegu ei genedl, yn gystal a'n cymydogion y Saeson, âg argraffiad newydd o Hymnau Seisonig yr hên Williams. Ond yn ofer hyd yn hyn. Y mae yn awr, pa fodd bynag, ger ein bron *Hosannah to the Son of David; or Hymns of Praise to God for our Glorious Redemption by Christ: and Gloria in Excelsis; or, Hymns of Praise to God and the Lamb. By William Williams, of Pantycelyn, Carmarthenshire. With an Introductory Sketch by the Rev. E. Morgan, A.M., Vicar of Syston, Leicestershire.* Mae y gyfrol hon yn cynnwys, o leiaf amcenid iddi gynnwys, yr oll o

Hymnau Seisonig Pêr Ganiedydd Cymru. Cyhoeddwyd yr *Hosannah* gan Mr. Williams yn y flwyddyn 1759. Y mae er hynny gan' mlynedd. Nid oedd yr awdwr y pryd hwnw wedi cyhoeddi ond un o'i lyfrau Hymnau Cymreig—yr *Alleluia*. Y mae rhai o'r Hymnau Seisonig yn yr *Hosannah* wedi en cyfieithu o'r Hymnau Cymreig yn yr *Alleluia*, ond y mae y nifer fwyaf o lawer yn wreiddiol ar destynau newyddion. Cyfansoddwyd y llyfr arall sydd yn y gyfrol hon, y *Gloria in Excelsis*, ar gais yr Arglwyddes Huntingdon, at wasanaeth yr Amddifad-tŷ a adeiladwyd gan Mr. Whitfield yn Georgia yn yr America. Argraffwyd a chyhoeddwyd hwn yn Nghaerfyrddin yn 1772. Y mae yr argraffiad presennol wedi ei ddwyn allan gan un Sedgwick, Llyfrwerthydd yn Llundain—ac yn gyfargraff cywir o'r Hymnau fel y cyhoeddwyd hwynt gan Mr. Williams ei hunan. Mae Mr. Morgan, Syston, wedi cyflwyno ychydig nodiadau arweiniol iddynt, yn rhoddi brasolygiad byr ar hanes bywyd yr awdwr. Mae rhai o'r Hymnau hyn mor adnabyddus ymhlith Cristionogion ag unrhyw Hymn a gyfansoddwyd gan Watts neu Cowper—ac er fod diofalwch Mr. Williams ynghylch yr iaith, yn gystal, fe allai, ag yn y Saesonaeg ei ddiffyg ymarferiad â hi, yn peri fod ei Hymnau yn llai trwsiadus nag y buasai yn ddymunol er eu derbynriad a'u cymeradwyaeth uchaf ymhlith beirniaid Seisonig; eto nis gall neb profiadol o lygredigaeth ei natur, a chynefin â gweithredu ffydd ar y Gwaredwr mawr, lai na'u darllen gyda hyfrydwch calon, a'u hystyried fel cyfryngau manteisiol iddo i arllwys allan ei deimladau mwyaf tyner, mewn geiriau wedi eu cysegru gan yr hyn nas gall braidd lai nag edrych arno fel ysbrydoliaeth,—geiriau, yr un pryd, mor briodol i'w amgylchiad ef a phe na buasent wedi eu bwriadu i neb arall. Y mae yr anturiaeth i gyhoeddi y llyfr yn gwbl yn eiddo Mr. Sedgwick—nid oes i Mr. Morgan ddim elw i'w ddysgwyl oddiwrtho. Yr ydym yn gobeithio na bydd y cyhoeddwr ar ei golled ynddo, er y buasem yn gallu bod yn fwy hyderus am hynny pe buasai yn ei werthu am ddau swllt yn lle pedwar.

Y TRAETHODYDD.

YR EISTEDDFODAU.

[**POWYSION** : *sef Awllau, Cywyddau, ac Ynglynion, a ddanfonwyd i Eisteddfod y Trallwng, Medi, 1824.* Bala : R. Saunderson. 1826.

CYFRINACH BEIRDD YNYS PRYDAIN : *dan olygiad y diweddar IOLO MORGANWG.* Abertawy : J. Williams. 1829.

Prize Essay on the CHARACTER OF THE WELSH AS A NATION : by the Rev. W. JONES. London : Simpkin & Marshall.

TRANSACTIONS OF THE ABERFFRAW ROYAL EISTEDDFOD, *including the successful Poetical Compositions, and the Essay on the Principles of Welsh and English Syntax.* London & Oxford : J. H. Parker.]

GELLIE ystyried yr Eisteddfodau yn sefydliad cenedlaethol, yn perthyn mewn modd arbenig i genedl y Cymry. Canys os edrychir arnynt yn y dull y dygir hwynt ymlaen, a'r prif ddyben o'u sefydliad, canfyddir eu bod yn dwyn perthynas â materion Cymreig, ac yn meddu ar fath o nod-weddiad cenedlaethol i'w gwahaniaethu oddiwrth gyfarfodydd cyffelyb ymysg cenedloedd eraill. Mae yn wir y gallwn ganfod cyfarfodydd o'r cyffelyb natur ymysg cenedloedd eraill, ond mae y dull o'u dwyn ymlaen yn wahanol. Yn yr hen Gampau Olympaidd ymysg y Groegiaid gynt, yr oedd yn rhoddi gwobrwyon am y cyfansoddiadau goreu mewn rhyddiaith a barddoniaeth, yn gystal â lliaws o bethau eraill o bob math a desgrifiad braidd. A dywedir i ni ddarfod i Herodotus, tad hanesyddiaeth, ddarllen ei waith enwog yn un o'r campau hyn, pryd y derbyniodd y fath gymeradwyaeth, fel ag y rhoddwyd enwau y naw duwies awen i'r llyfrau ag y mae yr hanes yn ei gynnwys. Yr ydym hefyd yn cael bod barddoniaeth yn derbyn bri neillduol ymysg cenedl y Cymry er yr oesoedd boreuaf, ac yr oedd cysylltiad agos rhwng y Beirdd a'r Derwyddon ymysg yr hen Frutaniaid, pan ddaeth y Rhufeiniaid gyntaf i'r ynys hon. Ond nid ydym yn gallu canfod oddiwrth yr hanesion cywiraf a geir am Dderwyddiaeth, mai yr un ydoedd â Barddas, fel ag yr ymdrecha Iolo Morganwg, ac amryw eraill ar ei ol ef, ein dwyn i greu. A phellach fyth ydym oddiwrth greu mai y grefydd Ddadguddiedig a roddes Duw i'r hen Batriarchiaid ydoedd eiddo y Derwyddon. Nid oes ond ychydig o hanes credadwy am y Derwyddon ar gael, a'r ychydig hwnw ymysg ysgrifenywyr Groeg a Rhufain, y rhai oeddynt yn ddyethriaid iddynt, a'r pethau a adroddant yn eu cylch yn dwyn perthynas mwy uniongyrchol â Derwyddon y Cyfandir, nag â'r

rhai a berthynent i Frydain. Felly yr ydym yn y tywyllwch i raddau mawr gyda golwg ar yr urdd nodedig yma ymysg yr hen Frutaniaid. Ond nid oes genym yr un sail i gredu, yn ein tyb ni, bod Barddas, fel ei gosodir allan gan Iolo Morganwg, ac ysgrifenywyr eraill ar ei ol, yn hynach nag amser tywysogion Cymru. Ac yr ydym eto heb gael ein darbwyllo i gredu i'r Cymry erioed gynnal y fath gyfarfod âg Eisteddfod cyn amser Gruffydd ab Cynan yn y ddeuddegfed ganrif. Ac ynghylch yr urddau a'r teitlau barddonol ag y dywedir cymaint yn eu cylch, ein barn ydyw eu bod yn perthyn i'r un amser, yn gystal â'r hyn a elwir gorsedd, neu gyfarfod cyhoeddus yr urdd farddonol. Mae yn wir yr ymdrechir profi mai yr un peth ydyw Gorsedd y Beirdd yn y dyddiau hyn, â'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynnelid gan y Derwyddon oesoedd cyn cred, i benderfynu materion pwysig y deyrnas, ynghyda dadleuon rhwng pleidiau, a chosbedigaethau troseddwy, am yr hyn y crybwylla Cæsar wrth son am Dderwyddon Gaul. Ond nid oes un sail i'r cyfryw honiad.

Pan oedd y Beirdd yn derbyn math o drwydded gan y llywodraeth yn amser tywysogion Cymru, i fyned o dŷ y naill bendeŷg i'r llall i ddfyru y teulu ynghyd a'u cyfeillion, yr hyn a elwid *clera*, yr oedd yn anghenrheidiol bod rhyw reolau penodol i'w cadw ganddynt, a rhyw safon neillduol, er profi pwy oedd yn deilwng o'r anrhydedd yma, a phwy nad oedd. A hyn a wneid trwy ffurfio math o urdd neu gymdeithas yn gynnwysedig o'r beirdd a'r cerddorion, y rhai a roddent brawf o'u medr, ac a gymeradwyid mewn Eisteddfod. Ac yr oeddynt yn derbyn teitlau neu radd yn cyfateb i'w medr, yr hyn a roddai iddynt hawl penodol i gael tâl am eu gwasanaeth yn ol eu teilyngdod ymhob man lle yr äent iddo. Gwelir rhestr o'r cyfryw yn Nghrammadeg Siôn Dafydd Rhys. Ond mae y pethau hyn yn awr wedi myned heibio gyda dull y byd hwn. Ac mae yr urddas yma, oedd yn perthyn i'r bardd a'r telynor yn yr hen amseroedd, wedi difanu gyda y cyfnewidiad a ddaeth yn null cymdeithasol yr uchel a'r isel, o amser tywysogion Cymru hyd yn awr. A ffolineb o'r mwyaf a fyddai ymdrechu adferu peth oedd yn perthyn i'r oesoedd tywyll a hanner barbaraid. Dywedir am y bardd anfarwol Homer, yr arferai fyned oddiamgylch o fan i fan gan adrodd a chanu ei gerddi; a thebyg i hyn oedd beirdd Cymru yn yr hen amseroedd, ac fe allai beirdd pob cenedl arall tra heb gyrhaedd gradd uchel o wareiddiad. Ond mae y cyfnod hwnw wedi myned heibio yn awr ar genedl y Cymry; a'r unig ddyben ag y gellir cynnal Eisteddfod i fod o un math o lês yn y dyddiau presennol ydyw, megys cyfarfod llênnyddol, ac megys moddion i ddiwyllio a choethi chwaeth a gwybodaeth lênnyddol y bobl trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. A'r mater ag y dymunem alw sylw neillduol ato yn yr hyn a ddygir genym ger bron ydyw hyn, sef, pa gân bellid y mae yr Eisteddfodau, fel eu cynnelir yn ein mysg yn bresennol, yn ateb y dyben hwnw.

Er amser adfywiad y cyfarfodydd hyn yn y flwyddyn 1819, mae llawer o honynt wedi cael eu cynnal, a chynnyrchion llênnyddol amryw o honynt wedi cael eu dwyn allan o'r wasg. A phe byddem i ffurfio barn am y llês a'r buddioldeb sydd yn debyg i ddeilliaw oddiwrthyn, yn yr olwg ar yr hyn a effeithiasant yn barod, nid ydym yn meddwl y gellid eu condemnio yn hollol megys cyfarfodydd llwyr ddiles, er, ar yr un pryd, nad ydym yn gweled y gellir talu iddynt ryw gymeradwyaeth uchel. Nid ydyw y nôd *y maent yn ymgyrhaedd* ato yn debyg o arwain at bethau o hir barhâd, ac

o fudd cyffredinol i'r tô presennol. Canys pe yr ysgrifeni bardd Cymreig ganiad gyfartal i Iliad Homer, Eneid Virgil, neu Goll Gwynfa Milton, ni fyddai i'w gyfansoddiad byth gyrhaedd rhyw fri mawr yn y byd llênnyddol, na dwyn llawer o elw oddigerth y wobr yn unig i'r awdwr, am fod cylch yr iaith Gymraeg mor gyfyng, a chàn lleied o ddarllenwyr i gyfansoddiad Cymreig. Yn yr Eisteddfodau cyntaf, awdl, cywydd, ac englyn, oeddynt y prif bethau ag y rhoddid gwobrwyon am danynt. Ac nid oedd yr Awdl faddugol ar farwolaeth Syr Thomas Picton yn Eisteddfod Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1819, ddim ond rhyw gyfansoddiad byr o gant a hanner, neu ddau gant o linellau, yn yr hen ddull Cymreig, digon sychlyd a diaddurn. Ond gallwn ddywedyd yn ddibetrus, nad ydyw naw o bob deg o ddarllenwyr Cymreig yn debyg o gael y budd lleiaf oddiwrth gyfansoddiadau o'r fath, canys nid all ond ychydig iawn o rai a gyfrifir hyd yn nôd yn ysgoleigion Cymreig ddeall awdl yn drwyadl. Ac felly, mae yn anhawdd canfod pa lês a ddichon cenedl y Cymry gael oddiwrth y fath gyfansoddiadau, oddigerth ychydig ÷leser a difyrwch i ambell un ag sydd wedi astudio eu natur. Ond a ydyw y bobl a ddarllenant lyfrau Cymraeg, a'r awdwr a ysgrifenant farddoniaeth Gymreig, yn gyfryw ag y dylent dreulio eu hamser gyda phethau na ddichon iddynt byth fod o lês a buddioldeb iddynt? Mae yn wir nad ydynt.

Dynion wrth eu diwrnod gwaith ydyw y rhan fwyaf o'r rhai a ddeuant yn ymgeiswyr am wobrwyon Eisteddfod, ac mae eu gwaith yn troi at y gorchwyl o fod yn ymgeiswyr yn eu gwneyd yn aml yn ddfater ynghylch eu galwedigaeth, heb ddwyn iddynt y mymryn lleiaf o elw mewn modd yn y byd. Anfonir allan wŷs a gwahodd i feirdd a thelynorion a dadgeiniaid Cymru benbaladr i fod yn bresennol yn y prif Eisteddfod; ac y mae nifer fawr o honynt yn ymgynnull ynghyd ar y fath adeg, a rhai o honynt o bell ffordd. Ond nid all un o bob ugain o honynt gael math yn y byd o wobr, ac felly änt i gôst a thraul a choll amser, heb fe allai dderbyn ceiniog at hyny. Gall peth o'r fath wneyd y tro megys difyrwch a phleser i'r cyfoethog, ond ni wna y tro i ddyn tlawd, fel ag y mae y rhan fwyaf ysywaeth o feirdd Cymru. Yn yr amser a basiodd, byddai y beirdd, y telynorion, a'r datgeiniaid yn cael bwyd a diod yn rhad drwy ystod yr Eisteddfod, a llawer o honynt ychydig o gynnorthwy arianol at dalu traul eu siwrnai. Ond mae hyn wedi darfod yn bresennol, ac yn yr Eisteddfodau diweddar nid oedd neb yn cael dim cynnorthwy o'r fath. Ac nid rhyfedd oedd gweled llawer o'r cyfryw yn cychwyn adref yn debycach i haid o fegeriaid nag i gorrff o lënyddion, pan fyddai yr Eisteddfod drosodd, heb geiniog yn eu llogellau. Nid ydym mewn modd yn y byd yn cymeradwyo y dull hwn o ddwyn pobl dlodion o bell, i wyneb ddysgwyl heb dderbyn dim, a'u gyru ymaith i newynu, os byddant yn dewis, ar eu ffordd adref. Rhaid cael diwygiad yn hyn o beth, onidë dygir yr Eisteddfodau i warth.

Nid ydym ychwaith yn hoffi yr hen ddull a arferid yn yr amser a basiodd, sef agoryd ryw ddwsin neu ragor o dafarnau i dderbyn y beirdd, y telynorion a'r datgeiniaid, lle y caent fath o lys agored yn ystod dyddiau yr Eisteddfod, ac y rhoddid iddynt demtasiwn gref i feddwdol a chyfedd-ach, i'r hyn yr oedd llawer o honynt yn rhy dueddol, ysywaeth, heb gael eu llithio i hyny. Byddai ymddygiad llawer yn warth i'r frawdoliaeth ar y fath achlysuron; a'r datgeiniaid, y rhan amlaf, a fyddent yn ymddywyo

yn y fath fodd, nes peri i'r holl urdd farddonol gael anair oddiwrthynt. Cedwid math o nosweithiau llawen yn y tafarndai, ac ymgynnullai gwëhilion cymdeithas i gyfranogi o'r difyrwch. Byddai effeithiau drwg yn dilyn hyn am fisoedd os nad blynyddoedd, a'r anghenfil anghymedroldeb yn cael goruchafiseth ar lawer mewn canlyniad i'r fath gyfarfodydd. Ond rhaid i bawb addef bod diwygiad mawr er gwell wedi cymeryd lle ymysg beirdd Cymru yn yr oes hon, mewn cymhariaeth i'r hyn oeddynt yn yr amseroedd gynt. Ac anaml y gwelir meddwyn yn eu plith yn bresennol, hyd yn nôd ar adeg Eisteddfod. Mae rhywbeth hynod o gymdeithasol, a hoff o gwmpeini, yn mhlant yr awen, ymysg pob cenedl, ac mae pob gradd o honynt, yn yr hen amseroedd yn enwedig, wedi bod yn ddiarebol am eu hoffder o ddiotta ac arwain bywyd penrhydd. Anacreon a glodforai ffrwyth y winwydden, a Horace a ddywedai nad oedd modd barddoni yn iawn heb gael ei gynhyrfu gan Bacchus yn gystal â'r awenau. Ysgrifennodd Byron lawer o'i ganiadau dan effaith diod gadarn, a Robert Burns a aeth i fedd anamserol o herwydd anghymedroldeb. Ac nid gwell hanes a ellir roddi am liaws o feirdd Cymru yn yr amser a basiodd. Byddai yn dda genym allu dywedyd am Goronwy Owen, Ieuan Brydydd Hir, Dafydd Ddu Eryri, Bardd Nantglyn, a llawer yn ychwaneg, eu bod yn ddirwestwyr yn eu hoes, ond nis gallwn. Mae yr hanes a geir am Hugh Morris, ac Edward Morris y Perthillwydion, yn dangos beth oedd arferiad y beirdd Cymreig yn yr oes a aeth heibio. Nid ydym yn meddwl bod yr un o'r ddau fardd nodedig yma yn ymroddi yn fynych i anghymedroldeb. Ond aeth y ddau gyda'u gilydd unwaith i dreulio peth amser yn Mhlas Newydd Llansilyn, yn unol ag arferiad yr amser hwnw, pan y byddai llys agored i fardd yn nhŷ pob gŵr mawr. Ond ar eu ffordd tuag yno, troisant i Porkington, annedd W. O. Gore, Ysw., M.P. yn bresennol. Cafodd y ddau gymaint ag a ewyllysient o gwrw yno, a throisant allan yn lled hwyr ar feddwl cyrhaedd pen eu siwrnai yn Llansilyn. Ond trwy eu bcd yn cario baich gormodol o ffrwyth yr heidden, a thywyllwch y nos yn dechreu eu hamgylchu, collasant eu ffordd ar y mynydd, a bu ortod i'r ddau orwedd i lawr a chysgu yno hyd y boreu. Un o honynt a gyfarchai ei frawd barddonol yn y boreu fel hyn—

“Y celliog, ffei o'n c'wilydd,
Gyhoedd dôn, sy'n gwaeddi dydd.”

pan yr atebai y llall ef—

“Y celliog ni chân ond celwydd,
Brân a edwyn derfyn dydd.”

O herwydd y duedd sydd yn y rhai hyn, sef perchenogion gwir dalent mewn barddoniaeth a cherddoriaeth, yn rhy fynych, i fod yn hoff o yfed i ormodedd a dilyn cwmpeini llawen yn y tafarndai, cyngorem swyddogion Eisteddfodau, ar un cyfrif, i beidio ag agoryd y cyfryw leoedd i dderbyn y fath bobl mewn un Eisteddfod byth yn rhagor. Os bydd anghen am bresennoldeb yr ymgeiswyr barddonol o gwbl, rhodder iddynt ryw faint o gynorthwy arianol at eu costau, ac anfoner hwynt i leoedd cymhwys i letya yn ystod dyddiau yr Eisteddfod, neu dyweder wrthynt na fydd eu presennoldeb yn anghenrheidiol o gwbl. Am y telynorion a'r datgeiniaid, rhaid eu cael hwynt yn bresennol, a gwnaer yr un modd i ddarparu ar eu cyfer *hwythau*.

Aflwydd arall ag sydd yn dilyn yr Eisteddfodau, yn gyffredin, ydyw bod lliaws o rai a gawsant siomedigaeth, yn uniongyrchol pan elo'r Eisteddfod drosodd, yn barod i ruthro i'r cyhoeddiadau misol a'r newyddiaduron i ymgecreu a chroesymddadleu ynghylch y *cam* a gawsant. Nid ydym yn dywedyd na fydd achos o hyn yn aml, canys gwyddom bod llawer o gam a llawer o anghyfiawnder wedi dygwydd yn fynych mewn Eisteddfodau, trwy waith y swyddogion yn dylanwadu ar y beirniaid, a'r beirniaid eu hunain heb fod yn gymhwys i'w swydd, neu yn cael dylanwadu arnynt gan ysgrifenywyr mewn dull annhêg ac anghyfiawn. Ond mae mwy o gynhwrf yn cael ei wneyd ynghylch cam mewn Eisteddfod yn aml gan y rhai na ddylent ddywedyd dim ar y mater, na chan ysgrifenywyr o wir deilyngdod pan fyddont wedi cael cam ac anghyfiawnder. Nid ydym yn gwybod am un Eisteddfod lle yr oedd Gwallter Mechain yn feirniad, nad ellir dywedyd i gyfiawnder gael ei wneyd â'r ymgeiswyr ganddo ef. Ac er ei amser ef hyd yn bresennol, mae grwgach ac anfoddlonrwydd wedi bod yn beth cyffredin ar ol pob Eisteddfod, yn enwedig ynghylch y prif destunau. Yn Eisteddfod Rhuddlan, rhoddwyd Awdl neu Bryddest yn destun y gadair, ac i'r ymgeiswyr ddewis yr un a fynent. Nid oedd hyn yn deg, yn ein meddwl ni, canys dylasai fod y naill neu y llall. Nid yw yn hawdd barnu rhwng teilyngdod cymhariaethol Awdl a Phryddest, am eu bod mor wahanol i'w gilydd. A bu llawer o ymdaeru ac ymddadleu ar y mater hwn am fisoedd ar ol yr Eisteddfod hono. Yr hen ddull Cymreig o farddoni ydyw yr Awdl, ac nid can hyned ychwaith, canys nid ydyw yn cyrhaedd ymhellach nag amser Dafydd ab Edmund, a gallwn ddywedyd, na chyrrhaeddodd y Cymry erioed i'r fath fedr a chywreinerwydd yn y cyfryw gyfansoddiadau ag yn yr oes bresennol. Nid ydyw yr Awdl ddim yn debyg byth o ddyfod yn boblogaidd, dybygem, am nad all y lliaws ddeall ei hansawdd yn berffaith. Ac nid ydyw yn gymhwys fel mesur i gyfansoddiadau o natur arwrgerdd. Ni fuasai Homer yn alluog i gyfansoddi ei Iliad ar ddull awdlau y Cymry, na Milton ei Goll Gwynfa. Mae, fe allai, ormod o gywreinerwydd celfyddydol mewn Awdl, heb fod yn dwyn perthynas uniongyrchol â gwir farddoniaeth, iddi byth fod yn boblogaidd, ac yn wisg gymhwys i unrhyw gyfansoddiad yn dwyn arno argraff o anfarwoldeb. Y mesurau mwyaf rhwydd ydynt bob amser y mesurau a ddefnyddir yn y cyfansoddiadau a ddaethant yn boblogaidd yn y byd. Y rhwyddaf o'r mesurau Seisonig ydyw yr un a ddefnyddir gan Milton a Shakespeare. Y mwyaf poblogaidd o donau yr Alban ydyw y mesurau a ddefnyddir gan Burns. Y grym meddylol, a'r modd y mae yn gwneyd argraff ar y meddwl a'r teimlad, ydyw y prif beth mewn cyfansoddiad barddonol; ond ni wyddom am fawr o Bryddestau nac Awdlau wedi eu hysgrifenu i'r dyben o ymgeisio am wobrwyon, yn meddu teilyngdod mawr yn hyn.

Ond wedi y cwbl, mae yn ymddangos i ni bod prif ddyben Eisteddfodau yn perthyn i'r hyn a fu yn i'w ymgeiswyr yn oes bresennol. Yr amcan mewn golwg, a'r dull o'u dwyn ymlaen, mewn gair, pob peth sydd yn perthyn iddynt, ydynt yn dwyn arnynt ormod o ôlion yr hen amser gynt iddynt fod yn fuddiol neu yn llesol yn ein dyddiau ni. Pwy sydd yn debyg o ennill fawr heblaw tipyn o glod ac enw ymysg yr isel radd yn Nghymru oddiwrth awdl neu gwydd yn yr iaith Gymraeg, bydded gystal ag y bo? Hyn, dybygem, sydd yn gosod prif ddyben Eisteddfod megys peth wedi myned heibio, ac heb fod yn cydweddu â'r amseroedd hyn. Rhaid i'r Cymro

sydd yn meddwl dyfod yn enwog yn ei oes a'i genedlaeth, osod ei fryd ar rywbeth a ddichon fod o wir les a buddioldeb i'r byd yn gyffredinol. Mae yn burion iddo fod yn ysgolaig Cymreig, yn enwedig os bydd yn preswyllo yn Nghymru; ac mae yn help iddo fod yn gydnabyddus â'r iaith Gymraeg a'i deall i berffeithrwydd, i'r dyben o fedru gwneyd ei hun yn feistr ar ieithoedd eraill. Ond gwaith digon difudd iddo ef ei hunan, ac eraill hefyd, ydyw treulio ei amser i ysgrifenu barddoniaeth, er mwyn ennill rhyw bymtheg neu ugain punt o wobr mewn Eisteddfod, yn enwedig os bydd ganddo dalent a dysg at rywbeth uwch a mwy rhagorol. Edryched o'i amgylch, a chaiff weled fel y mae hen wlad ei dadau yn myned dan gyfnewidiad trwy rym celfyddyd ac egni meddyliol yn cael eu defnyddio er les y trigolion. A gotned iddo ei hun beth a wnaeth yr Eisteddfodau tuag at ddwyn y pethau hyn oddiamgylch? Edryched ar y mynyddoedd oesol yn cael eu cloddio ar bob llaw iddo, a'u trysorau yn cael eu dwyn allan, a'u cludo dros donau y môr i bell fanau y ddaear, er dwyn elw a chynnalïaeth i filoedd o bobl. Sylwed ar y cyfnewidiadau sydd yn ei amgylchu ar bob llaw. Wrth iddo droi ei olygon at Gulfor Menai, caiff weled ôl llafur celfyddyd yn uno cyfandir Arfon ac ynys Fôn ynghyd, er hyrwyddo trafniadiaeth a galluogi miloedd i gyrhaedd o'r naill gw'r i'r deyrnas i'r cwr arall iddi. A chaiff weled ager wedi cael ei droi at wasanaeth dyn, gan gludo trigolion Môn i eithafodd y deyrnas mewn ychydig oriau, pryd ag yr oedd yn ofynol cael wythnosau yn yr amser gynt i fyned cân belled oddicartref. Ac ar y llaw arall, os bydd iddo edrych tua Deheudir Cymru, caiff weled mwy fyth o arwyddion diwydrwydd ac ymdrechïadau dynol yn gwneyd yr elfenau yn wasanaethgar ymhob lle at ateb dybenion masnach a chelfyddyd. Ni freuddwydiodd yr hen drigolion gynt, y rhai a gyfodasant y cromlechau, ac a gynlluniasent waith Emrys a Chaer gawr, am y filfed ran o'r gweithredoedd rhyfeddol a ddichon y meddwl dynol gynllunio, ac sydd wedi cael eu dwyn i berffeithrwydd yn yr oes hon. Mewn canlyniad i ddyfodiad rheilffyrdd trwy y Dywysogaeth, a'r cyfnewidiadau sydd wedi dilyn hyn, gwelir trefydd godidog yn dechreu ymddangos o amgylch y brynïau anhygyrch, a than gysgod y mynyddoedd serth, lle gynt y byddai y bugail yn arwain ei braidd, a'r anifeiliaid yn gorwedd mewn llonyddwch ymhell o gyrhaedd preswylfa dyn. Nid trwy astudio traddodiadau Barddas, na thalu gwarogaeth i gyfrinach y Maen Chwyf, y dygwyd y cyfnewidiadau rhyfeddol hyn oddiamgylch, ond trwy rym ac egni y galluoedd dynol yn cael eu defnyddio i chwilio i mewn i ddeddfau anian.

Myned ymlaen mewn celfyddyd a gwybodaeth, dyna ydyw arwyddair yr oes bresennol; a rhaid i'r Cymry dalu sylw i hyn, onidê cânt eu gadael ar ôl ymysg gwehilion y byd, a byddant yn weision ac yn slafiaid i'w cymydogion mwy deallus. Er dyddïau Gruffydd ab Cynan, a'r oes y sefydlwyd yr Eisteddfodau ynddi, mae pob peth wedi hollol gyfnewid yn y deyrnas hon. Mae Brydain wedi dyfod yn allu enwocaf o dan haul, ac bron yr holl fyd adnabyddus yn talu gwarogaeth iddi, yn lle bod megys llawforwyn i Ffrainc a'r Iseldiroedd. Ei llywodraeth sydd yn ymestyn dros ran èang o'r holl fyd adnabyddus, ac mae yn cario ymlaen ei masnach ymhob parth o'r ddaear lle y mae haul y ffurfafen yn ymddangos a'r gwyntoedd yn lledu ei hwyliâu. Tiriogaethau èang y gorllewin ydynt wedi cael eu darganfod, a'u poblogi i raddau mawr gan rai a hanasant o hiliogaeth Brydeinig; ac *Australia*, ac *Ynysoedd y Môr Deheuol*, wedi cael megys eu huno gyda

ni, er eu bod yn gorphwys ar yr ochr arall i'r ddaear oddiwrthom, a hyny o herwydd y cyfnewidiadau mawrion sydd wedi cymeryd lle mewn morwriaeth. Mae effeithiau oelfyddyd, a gwybodaeth, a dysg, wedi agos gyfnewid holl wyneb y ddaear, a chwaeth trigolion Ewrop yn dra gwahanol yn awr i'r hyn oedd yn y ddeuddegfed ganrif. Nid oes fawr ddim yn Mrydain i'w ganfod yn awr yn debyg i'r hyn oedd y pryd hwnw, canys mae pob peth wedi cyfnewid. Ac mae yr ystyriaethau hyn yn deilwng o sylw y bobl hyny a fynent adferu hen ddefodau y canoloesoedd, a dwyn yn ol i'n mysg hen weddillion difudd amseroedd gynt, pan nad oes anghen am danant yn hwy.

Ond wrth ysgrifenu fel hyn, nid ydym yn meddwl selio tynghed yr Eisteddfodau, na'u tafu o'r neilldu yn hollol megys pethau llwyr ddiwerth. Ond rhaid cael diwygiad trwyadl ynddynt i'w cymhwyso a'u haddasu ar gyfer anghen yr oes, cyn y byddant yn werth eu cadw i fyny a'u cefnogi. Mae yn wir, gyda eu holl faeolddau, bod llawer o'u cynnyrchion yn ystod y deugain mlynedd diwedda, ymysg y pethau goreu o drysorau llênnyddol y Cymry. Ac maent hwy, yr Ysgolion Sabbothol, a'r cylchgronau Cymreig, wedi bod yn foddion i wneyd y bobl gyffredin yn Nghymru yn llenyddion yn eu hiaith eu hunain tu hwnt i'r werin yn Lloegr. Ac wrth i ni gymharu y cyfansoddiadau barddonol, y rhai a ennillasant wobrwon yn yr Eisteddfodau, â'r hyn a ganfyddir ymysg ein cymydogion y Saeson megys cyfansoddiadau barddonol gwobrwyedig, gallwn yn ddibetrus roddi y faenorïaeth i'r rhai Cymreig. Ond dylid cofio ar yr un pryd, nad edrychir ar y fath gyfansoddiadau ymysg y Saeson megys pethau o deilyngdod mawr, am nad ydyw goreuon awdwy'r Lloegr byth yn meddwl ysgrifenu ar y fath destunau. Felly nid ydyw teilyngdod y cyfansoddiadau ymgeisiol hyn yn fynych ond bychan iawn. Bydded i ni gymeryd sylw o'r Awdl fuddugol ar ganmlwyddiant Burns, yr hon a ennillodd y wobr o £50, ac a farnwyd yn oreu o 621 o gyfansoddiadau a anfonwyd i mewn i'r *Crystal Palace* ar yr achlysur a nodwyd. Nid ydyw ei theilyngdod i'w gymharu â'r cyfansoddiadau a geir yn yr Eisteddfodau Cymreig yn fynych wrth ymgeisio am wobr o £10 i £20, neu lai na hyny. Ynfydrwydd fyddai ei gosod wrth ochr un o Awdlau Dewi Wyn, Dinystr Jerusalem Eben Fardd, Drylliad y Rothsay Castle gan Caledfryn, neu Awdl y Grëadigaeth gan Emrys. Mae rhai cyfansoddiadau gwell na'r eiddo Isa Craig, wedi cael eu dadgan yn annheilwng o'r wobr addawedig cyn hyn mewn Eisteddfod, er na fyddai y wobr hono yn ddim ond rhyw £5 neu £6. Rhai o'r traethodau a anfonwyd i ymgystadlu mewn Eisteddfodau ydynt hefyd yn meddu ar gryn lawer o deilyngdod, ac wedi gwneyd lles er egluro llawer o hanesion Cymreig'ag nad oedd ond ychydig wybodaeth yn eu cylch. Ymysg y cyfryw gellir nodi yn neillduol Stephen's *Literature of the Cymru*, Rees' *Welsh Saints*, a Hanes Tywysogion Cymry, gan Carnhuanawc.

Peth arall hefyd ag sydd yn gwneyd yr Eisteddfodau yn deilwng o sylw ydyw, eu bod yn foddion i'r bobl gyffredin i gael cyfneusdra i ymddifyru mewn dull heb fod yn anghymhwys i fodau rhesymol a gwareiddiedig, os cedwir ynddynt tu fewn i derfynau moesoldeb a gweddeidd-dra. Ac mae eu poblogrwydd, yn ein meddwl ni, yn dangos i raddau goethder chwaethi ymysg yr iselradd, a dymuniad am rywbeth uwchlaw pleserau anifeillaidd i'w difyru, pan y gallent, ar y fath achlysuron, ymgasglu ynghyd a chael hyfrydwch ac adeiladaeth wrth glywed darllen cynnyrchion meddykiol at

destunau moesol a chrefyddol; a gwranddo gyda phleser ac awyddfryd ar swynion peroriaeth. Nid rhyw ddifyrwrch hanner barbariaid yn perthyn i'r oesoedd tywyll, megys rhedeg mewn sachau, ymryson dringo i fyny ar hyd pren seimlyd, ac ymlawenhâu mewn rhedegfeydd mulod, ac ymdrechu dal moch gerfydd eu cynffonau, ydynt y pethau a foddiant y Cymry yn yr oes bresennol, yr un modd ag y gwnant yn llawer o barthau gwledig Lloegr. Ond maent yn medru cael pleser a hyfrydwch drwy gyfrwng eu llênnyddiaeth gynwynol, ac yn cael blas ar ddifyrwrch o radd uwch, ac ar bethau mwy cyfaddas i fodau rhesymol. Ac er cyfarfod â'r anghen yma, gellir dywedyd bod yr Eisteddfodau, er eu holl ffaeledau, wedi gwneyd llawer. Ond ni ddylid edrych arnynt megys y cam olaf mewn diwylliad yn chwaeth a moesau y genedl; ac mewn gwir fuddioldeb a lles parhâus, nid ydynt ond moddion hynod o anmherfaith. Gwneleu hwynt yn gyfrwng at gyrhaedd pethau mwy sylweddol, os ydynt i gael eu dwyn ymlaen a'u cefnogi, onidê gadawer iddynt i feirw o heuaint.

Un peth ag y profiesir ei gefnogi yn arbenig yn yr Eisteddfodau ydyw coleddu a meithrin yr iaith Gymraeg, ac ymdrechu ei chefnogi ymhob modd, trwy ledaenu cylch y wybodaeth o honi, a'i dwyn i sylw mwy ymysg ein cymydogion. Mae hyn yn dda ac yn deilwng o gymeradwyaeth; ond mae yn bwnc o bwys nid bychan ag y dylid ei ystyried, a ydyw yr ymdrech byth yn debyg o ateb y dyben mewn golwg. Gall bod prophwyddiaeth Taliesin yn wirionedd gyda golwg ar yr iaith Gymraeg, ac y bydd iddi barhâu yn iaith fyw hyd ddiwedd amser. Mae hyn yn ymddibynu yn hollol ar y llês a'r buddioldeb a ddeilliant oddiwrth ei dal i fyny a'i defnyddio ymysg y bobl gyffredin. Canys mae y gradd uchaf wedi agos hollol ymwadu â hi, hyd yn nôd yn Nghymru. Mae yn ddiddadl bod llawer o faterion o bwys mawr yn gysylltiedig â gwybodaeth o'r Gymraeg, i bob gradd o drigolion y deyrnas hon, am mai hi ydyw iaith gyntefig Brydain, ac un o'r cangenau mwyaf pur a dilwgr o'r hen iaith foreuol a ddefnyddid dros ran helaeth o'r Cyfandir, yn gystal ag yn yr ynys hon, yn yr oesoedd boreuaf. Ond ni fydd hyn yn ddigon i'w chadw yn fyw, yn enwedig pan ddelo holl drigolion Cymru yn gydnabyddus â'r iaith Saesoneg, fel mae yn ddiagramheu y deuant ymhen dwy oes neu dair. Rhaid i'r Gymraeg gael ei meithrin a'i hastudio gan ysgoleigion a'r gradd dysgedig o'r bobl, cyn y gall sefyll ei thir yn yr amser dyfodol yn Nghymru. A ydyw yr Eisteddfodau yn debyg o ddwyn hyn oddiamgylch, ydyw y pwnc ag sydd yn naturiol yn dyfod yn destun ymfyniad. Ofnwn nad ydynt. Mae llês tymmorol y bobl yn galw am iddynt feddu gwybodaeth o'r iaith Saesoneg, ac mae hyn yn ddigon o ernes y bydd iddynt cyn pen llawer o amser ddyfod yn gydnabyddus â hi ymhob llan a chwmd, hyd yn nôd ymysg ein mynyddoedd anhygyrch; tra mae y fath fanteision yn cael eu dwyn i'w hymyl i'w dysgu, trwy fod ysgolion dyddiol yn cael eu sefydlu ymhob man yn y Dywysogaeth. Gall corff y genedl gadw yr hen iaith i fyny am rai oesoedd, ar ol iddynt ddyfod yn gydnabyddus â'r Saesoneg; ond mae bron yn anghredadwy y bydd i'r bobl gyffredin gadw i fyny y ddwy iaith yn hir, oni fydd y peth o ryw elw a mantais iddynt yn eu masnach gyda'r byd o'u cwmpas. A phe deuai y Gymraeg unwaith yn iaith farw, yr ydym yn ofni nad allai ei thrysorau llênnyddol ei chadw mewn bodolaeth yn y cyflwr hwnw, yr un modd â'r Groeg, y Lladin, a'r Sanscrit, yn gystal â rhai ieithoedd eraill o enwogrydd. Yr ydym yn llwyr argyhoeddedig o'r farn fod

y Gymraeg, megys iaith wreiddiol o hynafiaeth mawr, ac yn meddu ar nerth a grymusder yn ei geiriau a'i hymadroddion, yn gyfartal i'r un o'r ieithoedd a nodwyd. Ond ni chafodd erioed ei diwyllio yn gyffelyb i'r Groeg a'r Lladin, ac nid oes ynddi drysorau llênnyddol tebyg i'r eiddynt hwy. Ac wrth ystyried pob peth, nid ydyw yn ddichonadwy bod ynddi ychwaith. Canys bu y cenedloedd, i'r rhai y perthynai yr ieithoedd hyny, y naill ar ol y llall yn eu tro yn feistriaid ar yr holl fyd adnabyddus, ac yn ben dysgedigion y ddaear. Nid ellir dywedyd hyny am y Cymry yn ystod yr un cyfnod o'u hanes. Bu iaith Homer a Sophocles yn cael ei defnyddio gan y philosophyddion a'r doethion enwocaf a fu erioed yn preswyllo'r ddaear, heb fod dan ddylanwad dwyfol ysbrydoliaeth; ac mae ei barddoniaeth wedi bod yn cael ei efelychu gan bob cenedl waraidd er ys dros ddwy fil o flynyddoedd. A'r un peth a ellir ddywedyd am y Lladin, iaith yr ymherodraeth Rufeinig pan ydoedd yn rhwysg a mawredd ei gogoniant, ac iaith y dysgedigion dros y rhan fwyaf o Ewrop hyd y dydd heddyw. Byddai yn ffolineb cymharu y Gymraeg gyda'r ieithoedd hyn, ac mae yn amlwg nad ydyw yn ddichonadwy iddi sefyll ei thir yn debyg iddynt hwy. Ac yr ydym yn ofni nad all yr Eisteddfodau wneyd ond ychydig tuag at ei chadw yn fyw, a'i dwyn i sylw llênnyddion y byd. Y pethau tebycaf i fod yn foddion i hyn ydyw teilyngdod anghymharol yr iaith ei hun, a'i bod yn myned ymhell iawn i gyfansoddiad llawer o elfenau ieithoedd Gorllewin Ewrop.

Cyn dybenu, dymunem alw sylw cefnogwyr yr Eisteddfodau at rai pethau o bwys yn dwyn perthynas â'r cyfarfodydd hyn ag y dylid cael diwygiad ynddynt, er mwyn anrhydedd ac enw da y genedl ag mae y cyfryw gyfarfodydd yn perthyn iddi. Un peth i'w feio yn fawr ydyw, bod y rhai a fyddant yn flaenaf yn cynllunio ac yn sefydlu yr Eisteddfod, yn gyffredin iawn yn ennill y gwobrwyon. Mae hyn yn ymddangos, ar lawer o ystyriaethau, yn debyg i godi y peth i'w fyw o pwrpas gan y cyfryw bobl i'r dyben o roddi arian yn eu llogellau eu hunain. Peth arall ag y dylid talu mwy o sylw iddo ydyw bod y datgeiniad yn arfer canu pethau, gerbron cynulleidfaoedd lliosog, ag fyddai yn warth i unrhyw gyfarfod lle bydd safon moesoldeb yn cael eu cynnal i'w fyw. Mae llawer o'r hen bennillion Cymreig yn rhagorol, ac y mae llawer o honynt yn hollol anghymhwys i un lle oddigorth gloddest y tafarnau a chwmni'r meddwon. Dylid gyru y rhai hyn yn llwyr o'r Eisteddfodau. Nid ydyw yr hen dôn farbaraidd hono—"Hob y deri dando" yn addas i'w dwyn ger bron cyfarfod cyhoeddus o Gymry a Saeson diwylliedig, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ein meddwl ni. Gall wneyd i'r gwrandawyr chwerthin, o herwydd bod ynddi rywbeth mor hynod, ond nid ydyw hyn yn ddigon o gymeradwyaeth iddi.

Dylid hefyd ymdrechu cadw Awdlau a Phrydestau tu fewn i derfynau cymedrol o ran meithder. Mae pryddest gystadleuol o dair mil o linellau, neu awdl o bymtheg cant neu ddwy fil, yn ddigon i dreio amynedd y darllenydd, a phawb eraill. Cyfynger yr Awdlau i 600 neu 700 o linellau, a'r Pryddestau i fil, neu lai na hyny; a bydded i'r meithder presennol gael ei wneyd i'w fyw mewn teilyngdod yn y cyfansoddiadau. Yn olaf, cynnygiwr gwobrwyon am y cyfieithiad goreu i'r Saesoneg o ddarnau teilwng o farddoniaeth Gymreig; a chyhoedder y cyfryw os byddant yn wir werth eu cyhoeddi, onidê gadawer iddynt fyned yr un ffordd â llawer o gynnyrch yr Eisteddfodau, i lwch anghof. Gallai cyfieithiadau da o farddoniaeth Cymru

Er Saesoneg fod yn foddion i wneyd lles dirfawr i'w llênnyddiaeth gynnwynol, trwy ei dwyn i sylw dysgedigion, a pheri iddynt ddysgu y Gymraeg er mwyn dyfod yn adnabyddus â'i chynnyrchion yn yr iaith wreiddiol.

GWYR IEUAINC LLANLLENORION.

Y BEDWAREDD BENNOD.

Ni friadwn aros cyhyd gyda phob un o'r Gwŷr Ieuainc ag yr arosasom gyda Walter Wyn yn y rhifyn diweddaf o'r **TRAETHODYDD**; o herwydd pe gwnaem hyny chwyddai yr hanes i ornod o faintioli; ac yr oedd ein hadnabyddiaeth o Walter mor agos, a'n pryder yn ei gylch ef a'r dosbarth lliosog y perthyna iddo mor fawr, fel nas gallem lai na rhoddi mwy o le iddo ef yn yr hanes hwn nag a roddwn i un o'r lleill. Cymerwn y lleill yn y bennod hon o un i un fel y nodasom hwy yn y bennod gyntaf, ac amcanwn osod allan mor fyr a chynnwysfawr ag y gallwn yr hyn y daethant, yr hyn a wnaethant, ac mewn rhan yr hyn a fedasant, wedi dyfod i oedran addfedach na'r un yr oeddynt ynddo pan furfiwyd Cymdeithas Llenyddol Gwŷr Ieuainc Llanllenorion.

Y nesaf a ddaw dan ein sylw ydyw Goronwy Williams. Ymddangosai ef yn ein pennod gyntaf fel dyn ieuanc a anwyd ac a fagwyd mewn amgylchiadau da iawn—fel plentyn i un o'r mamau goreu a roddes sugn i faban erioed, ac fel cyfaill mynwesol i Walter Wyn. Er fod Goronwy bob amser o duedd lenyddol, ac yn cael cefnogaeth gan ei fam i feithrin y gyfryw duedd, nid oedd ei dad o'r un deimlad ar y pwnc. Yr oedd Mr. Williams yn ddyn bydol iawn, ac yr oedd ei ddyrchafiad wedi bod yn foddion i chwaneu llawer at ei falchder. Ni bu erioed yn ddyn crefyddol; ac er yr elai i'r addoldŷ gyda'i briod a Goronwy yn gyson iawn, yr oedd yn amlyg mai am bethau y byd hwn yr oedd yn "syniaw," ac na chafodd yr hyn a glywai yn y capel erioed effaith mor ddwfn ar ei galon fel ag i'w dueddu i roddi ei "serch ar y pethau sydd uchod." Pan ydoedd Goronwy oddeutu un neu ddwy-ar-bymtheg oed, cafodd y golled anadferadwy o weled ei anwyl fam yn myned i "ffordd yr holl ddaear," yr hyn a effeithiodd yn ddwys iawn ar ei deimladau tyner; ac yn wir yr oedd arwyddion teimlad dwys i'w canfod ar ei dad, oblegid er ei holl fydolrwydd nis gallai lai na gweled a theimlo ei fod wedi cael colled annhraethol yn marwolaeth y santes anwyl a hebryngasai i "dir anghof."

Ond, rywfodd, y mae modd dyddanu dynion yn y trallodau mwyaf, ac ar ddyn fel Mr. Williams, yr hwn a feddai gymaint o orchwyllion bydol ar ei feddwl, nid oedd galar yn debyg o wneuthur argraff annilëadwy. Ar y

dyn diwaith, yr hwn sydd heb un nôd o'i flaen i gyrchu ato, na dim i dynn ei sylw oddiwrth achos ei alar, y mae gofid a thrallod yn gwneuthur hafog ofnadwy. Y peth goreu y gall dyn ei wneuthur mewn amgylchiad trallodus, yn nesaf at gydnabod ac ymostwng dan allnog law Duw, ydyw cymeryd mewn llaw ryw orchwyl newydd buddiol yr hwn a dŷnai allau ei holl alluoedd. Y mae hyn yn feddyginiaeth ragorol i ofid, ac yn attalfa rhag iddo suddo y meddwl i agwedd o iselder ac anobaith a'i hanghymhwysa i ymladd y gweddill o frwydr bywyd. Gwyddom am rai a aethant yn eu trallod i geisio dyddanwch yn y botel, dan ddylanwad cynnwysiad yr hon yr anghofient eu gofid am ychydig, ac yr ymollyngent i ebergofiant cwsig, o'r hwn y deffröent i deimlo holl ddychrynfeydd y "dieifl gleision;" ac er mwyn ymlid ymaith y rhai hyn, dychwelent at y gostrel drachefn a thrachefn, nes o'r diwedd y llwyr ddiorseddwyd eu rheswm, ac y disgynasant i'r trueni hwnw yr hwn ydyw y dinystr mwyaf tu yma i dinystr tragwyddol.

Yr oedd Mr. Williams yn un o'r rhai mwyaf annhebyg o fyned i'r tir crybwylledig, nid am fod crefydd yn ei gynnal ac yn ei wroli, ond am fod y byd hwn yn ei ofalon a'i gyfoeth yn cymeryd i fyny ei holl fyfyrddodau. Ac wedi i eira un gauaf orchuddio bedd Mrs. Williams, daeth i'r golwg arwyddion amlwg fod Mr. Williams yn wrthddrych o ddyddordeb neillduol i'r rhywogaeth dŷg yn y gymydogogaeth. Nid oedd eto ond dyn ieuanc mewn cymhariaeth, ac heblaw hyn yr oedd yn meddu ar helaethrwydd o bethau da y byd hwn, ac edrychai llawer mun gyda llygad o ddymuniad didwyll ar y cartref cysurus a ddiogelai iddi ei hun pe gallai lwyddo i ddyfod yn ganlyniedyddes i'r diweddar Mrs. Williams yn serchiadau ac yn nhŷ ei gŵr gadawedig.

Ond yn ofer yr adeiladai gwryfson, a gweddwon ieuainc, a mamau pryderus Llanllenorion a'r gymydogogaeth, gestyll yn yr awyr gyda golwg ar ddiogelu Mr. Williams iddynt eu hunain. Fel gŵr o gyfoeth, yr oedd amgylchiadau yn ei arwain ar brydiau i'r brifddinas, ac i drefydd mawrion eraill, lle yr oedd yn adnabyddus i lawer fel dyn o feddiannau helaeth. Yn ystod un o'r teithiau hyn, cyfarfyddodd â boneddiges Seasonig, yr hon a lwyddodd i dynu ei sylw ac ennill ei serchiadau, ac i'w argyhoeddi yn drwyadl os oedd rhywun ymysg holl ferched Efa a allai ei ddyddanu ar ol yr hon a gollodd, inai y foneddiges grybwylledig ydoedd hono. Yr oedd o deulu parchus a chyfoethog, yr hyn oedd ymhell iawn o fod yn ddiffyg ynddi yn meddwl Mr. Williams. Sylwyd fod ymweliadau Mr. Williams â Lloegr yn myned yn fynychach, fynychach, yr hyn, ynghyda rhyw gyfnewidiadau mawrion a chostus a wnae er helaethu a gorwychu ei dŷ, a barodd i bobl Llanllenorion dybio fod rhywbeth ar droed ag oedd yn debyg o roddi terfyn bythol ar obeithion pob merch yn y dref a'r gymydogogaeth a anturiasai ddyrchafu ei meddwl i ragolygu bod, ryw ddydd a ddeuai, yn Feistres Williams.

O'r diwedd, daeth y dydd i sylweddoli y tybiau fod Mr. Williams yn myned yr ail waith i'r sefyllfa briodasol. Gwelwyd yn un o newyddiaduron y dydd fod "John Williams, Ysw., o Lanllenorion, wedi arwain at yr allor, Miss Amelia Augusta, &c., &c." Wedi gweled hyn, mawr ydoedd dysgwyliad preswylwyr Llanllenorion am weled y briodferch; ac wedi iddi ymddangos yn eu plith, amrywiol a llŷosog oeddynt y sylwadau a wnaed ar y briodas. Clywyd mamau parchus, ag yr oedd amrywiol ferched priodadwy yn dygwydd sefyll ar eu dwylaw, yn dywedyd gydag ysgogiad pen

prophwydol iawn o ddrwg dyfodol, nad oeddynt yn barnu fod Mr. Williams wedi gwneuthur yn *ddoeth* iawn yn yr amgylchiad, a'u bod yn meddwl y gallasai wneuthur yn llawer gwell yn nês i'w gartref. Pa fodd bynag, wedi priodi y Saeson, gwelwyd cryn gyfnewidiad yn Mr. Williams. Yr hyn a dynodd fwyaf o sylw ydoedd, ei fod ef a'i briod yn cydfyned i'r eglwys blwyfol yn lle i'r capel, fel yr arferasai ef fyned o'r blaen yn wastad. Yr esgus dros hyn ydoedd nad oedd Mrs. Williams yn deall y Gymraeg, a'i bod wedi ei magu yn yr Eglwys Wladol. Wedi hyn, ni welid pregethwr Ymneillduol un amser yn mharlawr Mr. Williams; cilioedd yr athrawon hyny i roddi lle i urddasolion yr Eglwys Sefydledig.

Teimlodd Goronwy yr ysgariad â'r capel yn fwy nag unrhyw beth, oblegid yr oedd wedi bwriadu bod yn oleuad ymhlith dysgawdwy'r enwad, y perthynai iddo. Yn raddol, trwy fod gymaint yn nghyfeillach offeriaid, dilëwyd llawer o'i ragfarnau yn erbyn yr Eglwys; a boddlonodd fyned i Rydychain i yfed o ffynnonau dysg; ac mewn amser derbyniodd gwbl urddau yn ol y drefn esgobyddol. Rhyfedd iawn y cyfnewidiad a wna yr urddau hyny yn rhai o fechgyn Cymru! Dacw fachgen gwledig—mab i ffermwr bychan yn Swydd Aberteifi—yn cael ei drawsnewid o fod yn ddyu ieuanc gostyngedig a dirodres i fod yn greadur sychfoneddig, nas gall ymddyddan â'i hen gyfeillion gynt heb ddangos rhyw ymostyngiad mawr! Dacw un a fedyddiwyd yn ei fabandod yn "y tŷ cwrdd," a ddygwyd i fyny yno yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn y "*society*," ac a gredai unwaith nad oedd neb debyg i'r athrawon y byddai yn gwrandaw arnynt o'i febyd am bregethu o'r galon ac i'r galon,—ar ol cael rywfodd ei dderbyn i "urddau cysegredig" ar un o'r "pedwar amser arbenig penodol i wneuthur Gweinidogion," ys dywedir yn y Gosodedigaethau a'r Canonau, yn anghosffo ei holl deimladau a'i ymarferiadau Ymneillduol gynt, yn gwadu awdurdod pregethwyr y capeli i "finistrio y sacramentau," ac yn ymlusgo i deiau i brynu âg elusenau y boblach a osodant eu hunain ar werth i'r cynnygydd uchaf! Ond ni a wnaem gam mawr â Goronwy pe rhestrem ef ymysg y ~~teulu~~ bychain, gwarstythion, tordynion, gwenwynlyd, a rhithsancteiddiol hyn. Gan iddo ef gael ei ddwyn i fyny yn barchus o'r dechreuad, nid ydyw wedi dangos yr uchder ysbryd, a'r elyniaeth at Ymneillduwyr, a welir yn gyffredin yn hynodi y rhai hyny o'r parchedigion encilledig oddiwrth Ymneillduaeth a fagwyd mewn iselder a thlodi. Ac y mae hynawsedd naturiol ei ysbryd, a'i dueddfryd efengylaidd, ac yn wir ei gofion tyner a serchog am grefydd ei anwyl fam, pe na bae am ddim arall, yn peri iddo fod yn rhydd a charedig tuag at Ymneillduwyr yn gystal ag Eglwyswyr.

Yn y plwyf cyntaf y bu efe yn gurad ynddo, yr oedd y *rector* yn un o bersoniaid wyneb agored a chalou rydd yr hen fflasiwn, yr hwn a adawai i'r curad wneuthur fel y mynai, ac ydoedd yn gwbl foddolawn i'r plwyfollion fyned ar y sabbath yn ddiwarafun i'r man y dewisent; ac felly yn y plwyf hwnw, yr oedd Goronwy yn ymgymysgu yn rhydd a rhwydd mewn cyfeillachau personol â phobl ei hen enwad, y rhai oedd yn gwneyd i fyny fwyaf-rif o drigolion y plwyf, ac yn siriol yn cydweithredu â hwy gyda y Ffibr-gymdeithas, ac achosion daionus eraill. Lletyai yn nhŷ hen faenor neu ddiakon parchus, prif fasnacydd y pentref; a bu ymddyddanion a chyng-horion yr henadur duwiol hwnw yn foddion i wresogi a chynnyddu ei grefydd bersonol, ac i alw ei feddylfryd yn fwy difrifol nag erioed o'r blaen at *bwysigrwydd* a chyfrifoldeb ei swydd sanctaidd. Ond, bu farw hen beriglor

y plwyf, a rhaid oedd i Goronwy hwylio ei gamrau tua rhywle arall. Cafodd guradiaeth yn fuan mewn eglwys newydd, cyfagos i dref lle yr oedd un o'r urddasolion mwyaf dylanwadol yn yr esgobaeth yn "ŵr meddiannol," yr hwn oedd yn ucheleglwyfwr i'r pen, ac yn wrthwynebus iawn i feibion Lefi ymgyfeillachu mewn un modd â Samariaid y capeli. Yr oedd y gŵr mawr hwn yn llygad ac yn ddeheulaw i'r arglwydd esgob; ac felly a fynai a ddyrchefid i bersonoliaeth frâs, ac a fynai a gedwid mewn curadiaeth lom. Yn y lle yma, cafodd Goronwy ei orfodi gan ofn dyn; bu raid iddo ganu yn iach am fyned i Gyfarfod Biblau mwyach; a ffarwel am gydweithredu mewn un gwaith da â neb o "bobl y capel" yn ychwaneg. Pa fodd bynag, ei foneddigeiddrwydd, ei synwyr cyffredin da, a'i dalent tra rhagorach na'r eiddo neb o'i gymydogion ieuainc clerigol, a ennillodd sylw a chanmoliaeth y gŵr urddasol a nodwyd, fel y rhoddodd eirddo iddo yn nghlust yr esgob; a'r canlyniad a fu iddo gael ei sefydlu cyn hir yn ficer plwyf mawr a gwledig yn Ngogledd Cymru, lle mae y fywioliaeth yn werth o dri i bedwar cant o bunnoedd yn y flwyddyn. Ond y mae capelau y pedwar enwad Ymneillduol yn britho y plwyf, a'u cynulleidfaoedd yn lliosog; ac er yr addeir gan bawb a'i hedwyn fod y Parch. Goronwy Williams, Llan—, yn berson duwiol, ac yn bregethwr synwryol a da, nid oes ond rhyw ddyrnid fechan o bobl yn arfer dyfod i'w wrandaw i'r hen gysegradeilad éang, tra y mae capeli y pentref yn orlawn o wrandawyr. Dywed rhai o'r personiaid cymydogiaethol mai diffyg *pluck* yn Mr. Williams yw yr achos fod eglwysyddiaeth yn dal mewn cyflwr mor isel yn ei blwyf,—y dylai efe ber-swadio tîrfeddiannwyr cyfoethog, a'u boneddigesau, i ddylanwadu yn rymusach o blaid yr Ysgol Genedlaethol, a'r sefydliadau eraill mewn cysylltiad â'r Eglwys, ac i anghesnogi mwy ar y Sismaticiaid, gan gynllunio ac ymdrechu yn fwy egniol ei hunan drwy y naill, ac yn erbyn y llall. Eithr ymddengys nad oes ynddo ef ewyllys na gallu i ddilyn dyfeisiau ystrywgar Puseyaid y Dywysogaeth; un o heddychol ffyddloniaid Cymru yw ein hen gyfaill; ac nid oes genym wrth ei adael ond dadgan ein parch uchel i'w enw, a'n clod i'w fuchedd a'i ymddygiad. Ond, wele, aethom yn feithach nag y tybygasem i ddechreu gyda ein hadroddiad am dano ef; a rhaid i ni bellach sŵrwyne ein pen a'n pin wrth gyflêu ger bron helyntion y gweddill o gymdeithion ein hieuenctyd.

Aneurin Edwards ydyw y nesaf ar y rhestr, yr hwn a osodasom allan fel mab i amaethwr yn nghymydogiaeth Llanllenorion, fel bachgen gobeithiol, ac fel un ag oedd yn dra ymofyngar am wybodaeth, yn enwedig mewn gywbodaeth dduwinyddol. [Bachgen o ymddygiad gwastad ydoedd Aneurin, heb fod yn ddarostyngedig i unrhyw gynhyrifiadau mawrion ar unrhyw achlysur. Yr oedd ganddo ddawn i ymadroddi yn lithrig, ac nid hir y bu heb dynu sylw blaenoriaid y blaid y perthynai iddi, fel un a ystyriant yn un cymhwys i gael ei ddyrchafu i blith dysgawdwr y bobl. Cafodd addysg athrofaol, o'r hon y gwnaeth ddefnydd rhagarol. Cynnyddodd yn ddirfawr fel pregethwr, ac y mae wedi ennill iddo ei hun safle ymysg pregethwyr ei wlad yn yr hwn y mae yn dda genym ei weled, ac o'r hwn— gwareded Duw ef rhag syrthio! Y mae yn anrhydedd i'r dref y magwyd ef ynddi, ac y mae ei ymweliadau achlysurol â hi yn peri llawenydd i'w thrigolion, tra y mae ei ddull medrus ac effeithiol o weinyddu ei swydd gysegredig yn atynnu cynulleidfaoedd tra lliosog i wrandaw arno, pryd y bydd cannoedd o'r rhai a'i cofiant yn chwareu ar yr heol yn cael eu toddi

i ddsgrau dan wres ei hyawdledd. Temtir ni i ddyweyd llawer mwy am dano, ond rhaid i ni ei adael gan ddymuno iddo iechyd, hir oes, a defnyddioldeb cynnyddol. Bydded farw yn ei swydd anrhydeddus!

Soniasom am Tudor Owen fel un a roddai ei holl fryd ar fod yn fardd, ac nid ydyw yr awen wedi gadael llonydd i Tudur hyd y dydd hwn; a phe cymerai hi ei hedyn i adael Tudur, nid ydym yn tybied y caffai y dduwies lonydd ganddo ef, ond y lluniai bob peth a fedrai ar lun barddoniaeth er ei denu yn ol. Nid ydyw wedi cyrhaedd y radd uchaf ymysg beirdd ei wlad, ac eto nid ydyw ymysg ei gwehilion. Y mae yn deall y pedwar mesur ar hugain i berffeithrwydd, ac wedi llwyddo i draethu ei syniadau ynddynt oll. Nid ydyw yn Llanllenorion er ys blynyddau lawer. Bu mewn sefyllfa yn Llylleifiad am rai blynyddau, ac oddiyno croesodd Fôr y Werdd, ac yr ydym wedi gweled cynnyrchion Tudur droiau yn addurno tu dalenau cyhoeddiadau Cymreig y Cyfandir Gorllewinol.

Crybwyllasom yn y bennod gyntaf mai prif duedd Erasmus Richards ydoedd areithio. Ni welsom neb erioed yn fwy dan ddylanwad *cacoethes loquendi*, a bu y clefyd hwnw yn foddion i roi cyfeiriad i fywyd Erasmus. Amlygodd ddymuniad yn dra ieuanc am fod yn bregethwr. Ofnai yr hen frodyr duwiol fod y dymuniad yn tarddu yn fwy oddiar gariad at ei glywed ei hun yn siarad ac awydd am gyhoeddusrwydd, nag oddiar gariad at eneidiau, ac awydd am ogoneddu Duw. Nid oedd ganddynt ddim neillduol yn erbyn cymeriad Erasmus; a phe gallasai aros ychydig yn hwy, nid oes dadl na chymerasid sylw ffafriol o'i ddymuniad; ond yr oedd "chwant dyweyd" yn rhy gryf yn Erasmus; a gallai ddywedyd, "Blinais yn ymattal." Yr oedd pwyll ac arafwch yr hen bobl yn annyoddefol i'r Elihu ieuanc hwn. Symudodd i le arall i fyw, ac wedi bod yno am beth amser, newidiodd ei farn ar y pwnc o fedydd; trochwyd ef yn "ddiesgeulus," ac ymhlith y Bedyddwyr daeth rhagddo yn rhagorol. Dêchreuodd bregethu, urddwyd ef yn weinidog, a'r tro diweddaf y gwelsom ef, yr oedd at ei hanner yn afon —, gerllaw —, yn areithio yn hyawdl ar fedydd, ac yr oedd "ufuddhâu,"—"Ioan yn bedyddio yn Aion"—"Philip a' eunuch"—"myned i waered i'r dwfr, a dyfod i fyny o'r dwfr"—"taenellwyr babanod"—"crefydd y Testament newydd," a'r holl ymadroddion eraill arferedig gan weinidogion yr enwad parchus hwnw o Gristionogion, ar y fath achlysuron, i gyd ar benau bysedd Erasmus; ac ni chlywsom fod yr enwad hwnw hyd yma wedi cael un gofid oddiwtho; ac yr ydym yn gobeithio o eigion calon na chlywn byth am Erasmus ond yr hyn a fyddo yn ddymunol.

Y mae hanes y dadlengar a'r cecrus Oliver Rowland yn cynnwys cryn lawer o gyfnewidiadau. Nid oedd dim na chodai Oliver wrthddadl yn ei erbyn. Cyfodai ddadl yn erbyn unrhyw gyfundraeth a gredid gan y neb a fyddai yn ymddyddan âg ef; a phe dygwyddasai iddo fod yn llwyddianus i droi hwnw i'r farn a amdiffynai ef ei hun, ac i hwnw ddadleu dros ei olygiad newydd, y cyntaf i'w wrthwynebu ydoedd y dyn a fu yn foddion i'w ddwyn i'r golygiadau hyn—sef Oliver Rowland. Wedi cyrhaedd dynoed, daeth y duedd hon yn gryfach ynddo, nes yr oedd yn ddraen yn ystlysau pob cymdeithas yr oedd yn dal cysylltiad â hi. Tर्फysgwr ydoedd yn eglwys Dduw,—cyfodai yn erbyn athrawiaeth y pulpud a'r ddygyblaeth o dan y pulpud, ac arferai bob moddion er gwneuthur eglwys Crist yn *faes y gwaed*. Bwriwyd ef allan o'r eglwys y magwyd ef ynddi, ac yr

cedd yn harod i rincian dannedd am ei fod wedi colli y cyfleusdra a roddai seolodaeth eglwysig iddo wneuthur drygioni. Aeth o Lanllenorion i weithfaydd Morganwg. Wedi myned yno dechreuodd ymwithio yn ddichellgar i eglwys Dduw, a llwyddodd i gael derbynïad; ond nid hir y büwyd heb weled y buasai yn well ei gau allan, a gorfüwyd ei fwrw ef allan, am ei fod yn cyfodi cynhenau ac ymladdau yn y frawdoliaeth. Erbyn hyn y mae wedi bod yn aelod gyda phedwar o wahanol enwadau crefyddol, heblaw y *Plymouth Brethren* a "Saint y dyddiau diweddaſ;" a'r peth olaf a glywsom am dano ydoedd ei fod yn ymfrostio yn y "goleuni" a dderbyniasai o'r nef, ac ar gychwyn tua'r Llyn Halen, i fwynhâu perffeithrwydd dedwyddwch dan lywodraeth yr amlwreigiog Brigham Young. Nid ydym yn llawenhâu fod y fath ofergoelion a Mormoniaeth yn cael derbynïad yn Nghymru, ond nis gallwn lai na meddwl fod pethau o'r fath hyn yn cael eu goruwchreoli gan Ben yr eglwys i fod yn is-wasanaethgar i heddwch a llwyddiant ei deyrnas ar y ddaear, trwy eu bod yn yntau allan o honi gy-aifer o gymeriadau ag a fuont yn ofid ac yn warth iddi.

Y mae Enos Thomas, yr hwn a fyddai mor ddiwyd yn arfer ysgrifenu penau pregethau, yn parhâu yr un fath o hyd. Bu yntau yn bwriadu ac yn deisyf cael gwneuthur rhywbeth mwy nag ysgrifenu penau pregethau pobl eraill; ond ni chaniatäwyd iddo hyd yma roddi gwaith i neb arall ysgrifenu penau ei bregethau ef ei hun. Y mae yn dda genym allu ychwanegu nad unrhyw beth yn nghymeriad Enos Thomas a achlysurowd hyny, ond gofal y rhai a flaenorant yn yr eglwys y perthyna iddi am gadw safon y weinidogaeth yn uchel, nid yn unig o ran sancteiddrwydd buchedd, ond hefyd o ran galluogrwydd a dylanwad; a thra yr ydym yn gwerthfawrogi y cyfryw ofal mewn blaenoriaid eglwysig, yr ydym yn dymuno hefyd bob dedwyddwch a llwyddiant i Enos Thomas i fod yn ddyd defnyddiol yn y cylch y mae gymhwysaf i'w lenwi, ac yn yr hwn, gan hyny, yn ddiam-mheu y bwriadodd Rhagluniaeth iddo fod.

Crybwyllasom am Aaron Parry fel llênor tra awyddus am ddyfod i sylw y cyhoedd. Llauer deryn a anfonodd Aaron i amrywiol gyhoeddiadau Cymru; ac yr ydym yn credu y buasai erbyn hyn wedi ennill iddo ei hun safle anrhydeddus ymysg llênorion ei wlad, oni buasai iddo, fel llawer blodeuyn o'i flaen, wywo yn more ei oes, a disgyn i'r ddaear cyn llawn ymagor. Daeth y darfodedigaeth gwelw i ymweled ág ef, ac yn raddol iawn gwelid arwyddion ar wedd y cyfaill diniwed a hawddgar, Aaron Parry, fod y dydd yn yr hwn y "darfyddai ei holl amcanion" yn agosáu. Bu farw cyn bod yn llawn un mlwydd ar hugain oed, gan adael traethawd wedi ei fwriadu i un o gylchgronau Cymru ar hanner ei gyfansoddi.

Y mae Cadwaladr Vaughan yn parhâu mor ffyddlawn oddeutu y capel, a phethau amgylchiadol yr achos, ag ydoedd ugain mlynedd yn ol. A chredwn hefyd am dano mai nid â phethau amgylchiadol crefydd yn unig y mae a wnelo yr hen gyfaill, eithr fod ei galon yn eisteddle crefydd ysbrydol, ond mai y llwybr ar hyd yr hwn y mae ei zel yn tori allan ydyw pethau allanol neu amgylchiadol yr achos. Y mae tó arall o bregethwyr yn y Sir er pan ydoedd Cadwaladr yn fachgen; ond y mae Cadwaladr mor adnabyddus o'r tó presennol o bregethwyr, ac yn wir o'u cefylau, ag ydoedd â'r rhai a fiodsuent ugain mlynedd yn ol. Er nad ydyw Cadwaladr yn llenwi unrhyw gylch pwysig iawn o ddefnyddioldeb gyda chrefydd, eto yr ydym yn credu pan y bydd ei le yn wag y teimlir colled fawr ar ei ol.

oblegid y mae yn cael ei gyfrif fel rhan hanfodol o'r capel, a byddai gweled yr hen adeilad heb ein hen gyfaill yn olygfa a'n tarawai yn dra chwithig. Ac yr ydym yn credu nas gallai yntau fyw heb yr hen gapel; mai goruchwyliaeth lem yn nhrefniadau Rhagluniaeth yr ystyriai symudiad o'r lle. Caffed fyw yn hir i fwynhâu cysuron crefydd, a phan y bydd raid iddo adael yr hyn y mae wedi bod mor ymlyngar wrtho mewn bywyd, caffed drosglwyddiad esmwyth i'r wlad lle y mae lliaws o'i hen gyfeillion anwyllaf wedi myned o'i faen!

Soniasom am ddau gymeriad tra annymunol a berthynai i'r gwŷr ieuainc hyn, sef Arthur Morris Hughes, a Michael Morgan. Yr oedd y blaenaf yn llawn o falchder a thrahâ; dirmygai ei gyfoedion, a gwawdiai eu holl ymdrechion i ragori. Aeth yn more ei oes i fyw i un o brif drefydd y deyrnas, lle y cynnyddodd ei falchder i raddau annyoddefol gan y rhai a'i hadwaenent. Aeth i gyfeillachau lle yr oedd raid iddo wastraffu ei dda er eynnal a gwneuthur ymddangosiad rhwysgfawr, a thrwy hyny suddodd i dlodi, yr hyn oedd yn fwy nag y gallai ei ysbryd uchel ei ddyoddef. Er mwyn anghofio ei ofid arferai yfed i ormoddedd, ac ymollwng i bob math o lygredigaeth; a chyn cyrhaedd pump ar hugain oed, yr oedd wedi llwyr ddinystrio ei gyfansoddiad, ac felly y disgynodd i fedd anamserol a dianrhydeddus.

Parhâodd Michael Morgan i ddilyn llwybrau ei dad, sef enllibio cymeriadau pawb a ddelai o fewn cylch ei adnabyddiaeth. Arferwyd pob moddion tuag ato er ei ddiwygio, ond yn ofer. Pan ydoedd yn aelod eglwysig, lluniodd a thaenodd y celwyddau mwyaf gwarthruddol mewn perthynas i'w weinidog, i'r hwn y parodd ddyddiau a nosweithiau o alar blin, ond yr hwn er hyny a ddaeth allan o'r prawf heb frycheuyn ar ei gymeriad, pryd y gorfu i Michael ddianc am ei einioes i rywle arall, gan faint y lliid a deimlid tuag ato. Clywsom iddo wneuthur ymosodiad cyffelyb ar gymeriad boneddwr parchus mewn man arall, yr hwn a benderfynodd roddi bâch y gyfraith yn ei froenau i'w dynn ger bron llys barn, yr hyn pan ddeallodd Michael a barodd iddo ddianc oddiyno drachefn; a'r peth olaf a glywsom am dano ydoedd ei fod yn rhywle yn yr Unol Daleithiau, ac mewn helbul rhyfeddol am fod rhywun wedi rhoddi cyfraith arno am gabldraeth. Nis gwyddom pa fodd y mae arno erbyn hyn, ond gwyddom, os nad ydyw wedi cael cyfnewidiad mawr, ei fod yn boen i gymdeithas yn gystal ag yn warthnod iddi. Yr oedd ei feddwl bob amser yn disgyn ar ffaeiddau dynion, ac yn ymhyfrydu mewn chwilio i mewn i'w hanes. Gwyddai helyntion pawb o'i amgylch, ac yr oedd yn dra diwyd yn gwneuthur ymofyniadau ac yn ffurfio cyfeillachau â'r rhai tebycaf o allu boddio ei chwilfrydedd eillyllaid. Ni byddai un amser yn ymddangos wrth ei fodd pan glywai rinweddau rhywun yn cael eu hadrodd; ond canfyddasom y wên fwyaf dieffig a welsom erioed yn anurddo gwynebpryd dynol, yn ymddangos ar ei wnebpryd ef pan glywai am feiau ac am ddinystr eraill. Lle bynag y mae, os ydyw heb gyfnewid, y mae yn rhaid ei fod yn druenus; oblegid pa fodd y gall dyn fod yn ddedwydd tra y mae ynddo yr elfen uffernol hono ag sydd yn troi dedwyddweh eraill yn ddefnydd trueni iddo ef ei hun? Peidied neb yn Llanllenorion a chymeryd llawer o drafferth i chwilio pwy ydyw yr hwn y cyfeiriwn ato; ond tröed pob un i'w fynwes ei hun, a chwiliad yn ddiidwyll a oes dim o Michael Morgan yno.

Yr olaf a nodasom ydoedd y tawel Evan Meredydd. Nid oedd dim yn

y cyfaill hwn o elfenau cyhoeddusrwydd ac enwogrwydd, eithr yr oedd yn dawel ac yn ddedwydd mewn dinodedd. Ac eto y mae yn nghymeriad Evan un linell dra theilwng o efelychiad, sef ei barodrwydd i dderbyn a darllen pob cyhoeddiad buddiol a ddaw o fewn ei gyrhaedd. Er nas gellir wrth ymddyddan âg ef wybod ei fod wedi casglu rhyw drysorfa eang o wybodaeth, eto y mae yn gallu mwynhâu llyfrau, ac y mae ganddo gasgliad rhagorol o honynt. Trwy ddiwydrwydd a chynnildeb y mae wedi dyfod i amgylchiadau tra chysurus, ac yn ennill parch ac ymddiried pawb ag y mae a wnelo ef â hwynt; a chredwn am Evan Meredydd, er fod llawer o Wyr Ieuainc Llanllenorion wedi tori uwch ffugyr yn y byd, eto nad oes yr un o honynt yn deilyngach o barch ac ymddiried ei gyd-ddynion nag ydyw ein hen gyfaill ffyddlawn hwn.

Yr oedd un arall ymhlith "Gwyr Ieuainc Llanllenorion," am yr hwn ni chrybwyllasom hyd yma, ac ni fwriadem wrth ddechreu yr hanes yngan gair am dano; ac yn bresennol yr ydym yn bwriadu celu ei enw. Y mae ei oes hyd yma wedi bod yn ddarlun teg o'r hyn ydyw y byd hwn, sef cymysgfa o gysur a gofid, o lawenydd a thralod. Nid ydyw yntau yn un o'r rhai cryfaf i ddal y naill na'r llall; dyrchafa llawenydd ef i'r uchelderau, ac y mae tristwch yn ei suddo i ddyfnderoedd ing a chyfyng-gynghor. Ni bu mynnes bachgenyn erioed yn chwyddo yn fwy gan obeithion dysglaer yn more oes, a chestyll awyrol dirif a adeiladodd ei ddychymyg gwyllt a di-reol. Torodd allan iddo ei hun lwybr trwy y byd, ac yr oedd hwnw yn orchuddiedig â blodau. Profodd lawer o'r daioni a'r hyfrydwch y gob-eithiai am dano, ac ni ddaeth i'w galon am flynyddau na pharhái y mwynhâd dros ei holl yrfa. Gwelodd anfeidrol ddaioni oddiar law Duw, mwynhâodd barch a serchogrwydd gan filoedd o'r dynion goreu a fêdd y ddaear, a chafodd gan eraill—ond gwell teui.

Unwaith pelydrodd haul Rhagluniaeth yn ddysglaer ar ei babelll glyd, lle y trigai yn ddedwydd, a'i anwyliaid yn ei fynwes. Tybiai ei fod yn gweled nefoedd ddigwmwl uwch ei ben. Ond ryw ddiwrnod, duodd y ffurfafen—ymdaenodd cysgod du dros ei annedd—torodd y cwmwl—disgynodd y gawod—ymosodod y dymhestl arno o bob cyfeiriad, a chafodd ei hun yn unig, oblegid yn y dymhestl gyrwyd "câr a chyfaill ymhell oddiwrtho, a'i gydnabod i dywyllwch." Ail gliriodd y nefoedd, ond nid aeth y cwmwl oddiar ei ysbryd ef. Eisteddai yn blymaidd ar ei holl deimladau, a thywyllai ei holl obeithion. Bu yn gauedig mewn anobaith: "melldithiai y dydd ei ganwyd, a'r nos y dywedwyd, 'ynnillwyd gwryw.'" Cadwai ei holl ofid iddo ei hun; ni thywalltai ef i'r cyfaill anwylaf, ac yr oedd ei ddyoddefaint mor fawr fel y bu agos i'w natur fyned yn ddrylliau wrth geisio ei ddal. Symudai o'r naill le i'r llall, ond cyd-deithiai y cwmwl du gydag ef i bob man. Yr oedd y cwmwl mor dew fel y methai dreiddio drwyddo i'r nefoedd, lle y cawsai ddyddanwch gynt. Gwibiodd a chrwydrodd fel gwallgofddyn, ac y mae yn rhyfeddu heddyw ei fod yn fyw. Er mwyn ei gyfeillion ceisiai wenu, a dynwared llawenydd; ond yr oedd ysbryd trist ac archolledig dan yr holl wenau i gyd. Duw yn unig a w'yr yr ingoedd a ddyoddefodd. Y mae y dyddiau duon yna wedi myned heibio arno yn awr. Y mae yn crynu yn fynych wrth feddwl am danynt. Mewn pellafoedd anghysbell allan o'r byd y bu yn byw ynddo gynt, teimlodd esmwythâd i'w ysbryd. Daeth rhyw awel heibio, a dygodd y cwmwl ymaith gyda hi. Y mae yn wir fod ei holl ragolygon dysglaer gyda golwg ar y byd hwn wedi diflannu

am byth, ond y mae ganddo hyder cryf mewn cyflwr o anfarwoldeb. Y mae yn credu er iddo "weled aml a blin gystuddiau, y cyfodir ef, ac y dygir ef drachefn o ôrddyfnder y ddaear." Y mae saethyddion byd, cnawd, ac uffern, yn chwerw wrtho; ond y mae yn dysgwyl "gorchfygu trwy waed yr Oen!"—ac wedi cael ei arwain oddiamgylch a'i brofi, y bydd yn "dda iddo yn ei ddiwedd."

ABERCONWY A'I HENAFIAETHAU.

DARLITH GAN Y PARCH. OWEN JONES, MANCHESTER.*

TEIMLAIS raddau helaeth o bryder er pan addewais ddyfod i'r dref gaerog a henafol hon i draddodi "Darlith ar Olion a Chofion Henafiaethol Conwy a'i hamgylchoedd;" a phroffais raddau o edifeirwch am addaw dyfod atoch ar y fath neges, a hyny yn benaf am fy mod yn gwybod fod yn eich mysg ddynton craffus, wedi treulio llawer o flynyddoedd goren eu bywyd yn y llanerch yma, ac o ganlyniad, yn llawer mwy cyfarwydd yn ei Holion a'i Chofion Henafiaethol nag y gallaf fi fod, yr hwn nid wyf amgen nag alltud i'r fro swynol hon, ac ymwelydd achlysurol â hi yn unig. Eto, ar gymhell- iad taer fy nghyfeillion, penderfynais ymwadu â'm teimladau llwfr, a chyf- lawni fy addewid oreu y gallwn, gan obeithio na bydd yn annifyr gan y rhai ydynt yn gwybod y pethau hyn o'r blaen, dreulio awr neu ddwy i ad- olygu "helyntion yr hen oesoedd;" ac y gall adroddiad cyhoeddus o'r hen gofion dyddorol ydynt yn gysylltiedig â'r dref hon a'i chyffiniau, gyffroi chwilyfrydedd rhai o'r ieuentyd yma, y rhai ni roisant nemawr o sylw i'r pethau hyn o'r blaen, nes peri iddynt ymotyn am fwynhâd o'r difyrwch di- niwed a ddeillia o efrynu hanesyddiaeth ddyddorol eu gwlad a'u cymydog- aeth eu hunain.

Mae y dref bresennol wedi cymeryd ei henw oddiwrth yr afon, ar lán yr hon ei hadeiladwyd, "Conwy," neu "Cynwy," yr afon benaf; neu "Cainwy," yr afon decaf, harddaf; ac y mae hi yr afon benaf o enau y Dyfrdwy hyd ben tir Lleyn; canys nid *afon* yw y Menai yn briodol, ond *culfor*; ac addefa teithwyr craffus ei bod hi yn un o'r afonydd mwyaf cain, teg, neu hardd, o'i hŷd yn Ewrop.

Y mae hanes yr ardal oedd hyn, fel holl lanerchau ein gwlad, yn orch- uddiedig gan y tywyllwch mwyaf dudew, hyd wedi y cyfnod Rhufeinaidd. Cawn ychydig o olion y cyfnod blaenorol i hyny yn amgylchoedd y dref

* Wrth draddodi cynnwys y sylwadau hyn mewn ffurf o Ddarlith yn Nghonwy, ni chan- iatâi amser i draethu yr oll oeddidd wedi ei gasglu a'i ygrifenu ar y testun; fel y mae yma lawer iawn o bethau na chrybwyllwyd ar yr achlysur hwnw; ac nid oedd yr adrodd- iad o'r Ddarlith a ymddangosodd yn y "*Faner*," ond talfyriad byr a thra amherffaiâth o'r hyn a draethwyd ar yr achlysur crybwylledig. Yr ydys yn hyderus, gan hyny, y bydd y traethawd yn ei ffurf bresennol mor werthfawr gan y rhai a wrandawsant y naill *ag a ddarllenasant* y llall, â ohan neb arall; am fod y sylwadau yn eu ffurf bresennol yn *llawer mwy cyflawn* a chywir.

hon; ond, pa le y mae y Daniel a all ddarllen a dehongl eu hysgrifenlaw i ni?

Yn mhlwyf Llansantffraid, nid ymhell o'r Hendrewaelod, y mae hen allor Dderwyddol, neu gromlech, a elwir "*Allor Moloch.*" Desgrifir yr allor grybwylledig yn gynnwysedig o bump o geryg sythion, tua llathen o uchder, ar y rhai y gorphwysa llechfaen anferth, tua deuddeg troedfedd o hŷd, wyth troedfedd o léd, a phedair o drwch; a bernir y pwysai tua dwy dunnell ar hugain; ac o'r tu ôl i'r gromlech, y mae dau faen hir, pob un o honynt tua thair llath o uchder, ac o fewn tua dwy lath y naill i'r llall. Mae yn ddiau fod yr allor a'r meini mawrion a grybwyllwyd, wedi eu cyfodi pan oedd Derwyddiaeth yn ei rwysg, a chyn i Rufeinwr droedio cam o Ynys Prydain; ond, pa ryw wybodaeth beirianyddol a feddai y cynfrodorion i'w galluogi i gysodi a symud y fath bwysau anferth, sydd yn ddirgelwch an-olrheiniadwy i ni.

Ar yr ochr arall i'r dref yma, ar y lle a elwir "Mynydd y Dref," y mae olion tra dyddorol o lafur yr hen Gymry, yn cyfodi annedd amddiffynol iddynt eu hunain, yr hon a elwir "Castell Caer Lleion."* Yr oedd hon yn ddinas gref dros ben, ac yn y sefyllfa fwyaf manteisiol i wyllo gororau y wlad, a'i hamddiffyn rhag ei llwyr anrheithio gan estroniaid. O'r fan yma gellid gwelod cân belled a Chaer Gybi, dros y Penmaen Bach, yr amddiffynfa gadarn yn Môn, a elwid Dinsylwy, neu "Bwrdd Arthur," yn agos i'r Beaumaris, yr amddiffynfa ar y Penmaen Mawr, un arall ar Landudno, a elwid "y Ddinas," yn agos i'r hon y mae y Maen Chwff, a elwir "Cryd Tudno," a'r amddiffynfa fawr a elwir "Pen Caer Elen," oddiar Gaer Rhun.

Fe allai fod yr holl hen amddiffynfeydd Prydeinig mawrion a grybwyllwyd, ac at y rhai y gellid ychwanegu amryw eraill, er gwneyd y rhestr yn fwy cyflawn, megys "Caer Afallwch," yn mhlwyf Llaneurgain; "Moel Arthur," yn agos i Nannerch; Tref Dinhegryn, neu "Gaer Dinhegryn," ger Abergeleu; ac yna, o'r ochr arall i'r Penmaen Mawr, Dinas Dinorwig, a Thre'r Ceiri, yn Arfon, Dinas Garn Fadryn yn Lleyl, &c.,—wedi eu hadeiladu yn y canlyniad i ymosodiad Julius Cæsar ar yr

* "*Castell Caer Lleion.*" Os dyna yr iawn enw, dyna dair Caer Lleion oedd yn yr hen amser, sef Caerlleon ar Wysg, Caer Lleion ar Ddyfrdwy, a hon, yr hon y galleid ei galw Caer Lleion ar Gonwy. Mae amryw henafiaethwyr wedi bod yn dadleu mai "Caer y Lleng" oedd yr enw ar y dechreu, o herwydd gwersylliad un o'r llengau Rhufeinaidd yn y fan; ond, onid "Lleion Hen" y galwai yr hen Gymry y Dylif, neu Dduw y Dyfif i a chan fod pob un o'r lleoedd crybwylledig wedi eu hadeiladu ar lanau afonydd, pa anrhegrydd sydd nad "Caer Lleion" oedd yr enw ar y dechreu. Mae Owen Williams, y Waun Fawr, yn ei Eiriadur, dan y gair "*Lleion*," yn dywedyd mai ei arwyddocâd yw cydgaagriad o lifan. "*Llyn Lleion*," cynnulliad anhysbyddadwy o ddyfroedd, yr hwn, yn ol tyb y werinos, oedd yn y dddear, ac yn ddechreuad y môr, yr afonydd, a'r ffynonau. "*Toriad Llyn Lleion*," oedd yr ymadrodd a ddefnyddiai yr hen feirdd er desgrifio ymdorïad y dylif ar y byd. Ond, nyri a gawn ryw ysgrifenydd yn yr "*Archæologia Cambrensis*," yn haeru yn dra sofn mai camgrymeriad o'r eiddo Pennant oedd galw y lle hwn yn "*Gastell Caer Lleion*," mai "Caer Seion" a ddylasai fod; ac i gadarnhau ei haeriad, cyfeiria at "*Awdl Foliant i Esgob Bangor*," gan Ierwerth Bell, yn yr hon y cyfarfyddwn â'r llinellau canlynol,—

"O gau gwise fleiddiau, tanau tynion,
Pan aeth Maelgwyn Hir o dir mab Don daedd
O wledd Gwalch Gorsedd i Gaer Seion
A dwyn gydag ef gofion dan orchest
Oedd o gerdd arwest ar gerddorion, &c."

Ond, wedi y cyfan, y mae y meddwl yn barod i ymofyn, O ba le y cawsai yr hen Gymry yr enw "Seion" i'w roddi ar un o'u hamddiffynfeydd, flynyddoedd oyn dyfodiad Cristionogaeth.

¹ Vol. I, p. 178.

² "*Myv. Archæology*," Vol. I, p. 476.

ynys yma, 55 C. C. Fe allai na byddai yn annheilwng o sylw, fod y llinell o brif amddiffynfeydd a grybwyllwyd uchod wedi eu cyfodi yn agos i un o'r prif ffyrdd Prydeinaidd a wnellsai Beli fab Dyfnwal Moelmuad, ac a ddechreuasid gan ei dad, sef y ffordd filwraidd a elwid "Sarn ar y Môr," yr hon oedd yn dilyn glân y môr, o amgylch yr ynys, oddeutu 400 C. C.

Ynghylch diwedd yr hanner canrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, cafodd pendefig Rhufeinaidd o'r enw Publius Ostorius ei benodi yn Rhaglaw Prydain; ac esfe a ddygai y Ddegfed Leng o'r fyddin Rufeinaidd drosodd yma, a'r gŵr hwn, gan benderfynu darostwng yr holl ynys dan arglwyddiaeth Rhufain, a ymwithodd mor ddioed ag y gallai i diroedd y Gordofigwys a'r Cangwys; ac fe allai mai esfe a ffurfiodd yr orsaf Rufeinaidd "*Conofum*," ar lân yr afon Conwy, yn y lle a adwaenir yn bresennol dan yr enw Caer Hen, neu Caer Rhun; canys ymysg y gweddillion Rhufeinaidd a ddarganfuwyd yma o bryd i bryd, yr oedd priddfaen, yr hon a gynwysai yr argraff *Leg. X.*, sef "y Ddegfed Leng." Yr oedd yr orsaf filwraidd hon yn gorwedd ar fryncyn bychan, ychydig i'r gogledd o'r eglwys, wedi ei hadeiladu yn betryal, ac yn mesur tua 260 troedfedd o hyd, bob wyneb. Wrth symud y pridd oddiar seiliau yr hen ddinas yma, a fuasai unwaith mor bwysig, darganfuwyd annedd Rufeinaidd, yn y flwyddyn 1801, yn gynnwysedig o bum' ystafell, a chwysdŷ, yn yr hwn, ymysg amryw ddarnau o golofnau drylliedig, y caed swynoglydd (*amulet*) cywrair, wedi ei addurno âg amryw gerfiadau godidog mewn emliwiad hardd; ac yn y flwyddyn 1824, darganfuwyd priddlestrwaith mawr yma, ac amryw o'r llestri wedi eu haddurno yn ysplenydd â lluniau dynion mewn arfogaeth, meirch, ceirw, baeddod, a chŵn, mewn llawn ddelwau, ac wedi eu lliwio yn odidog. Cafwyd teisen o efydd yn pwyso deugain pwys, yn agos i'r eglwys hefyd, â rhyw argraff arni, yr hon sydd yn awr yn meddiant teulu Arglwydd Mostyn. Cafwyd math o darian gron yma hefyd wedi ei haddurno â modrwyau, a math o ryfel-fwyall hynod, y rhai ydynt yn meddiant Mr. Gruffydd o Gaer Rhun, ar dir yr hwn eu caed.

Mewn cyfeiriad at wersylliad Ostorius yn y lle uchod, dybygid, y dywed *Tacitus*, yr hanesydd Rhufeinaidd,—“Yr oedd y môr sydd yn parthu Brydain oddiworth yr Iwerddon, o fewn taith diwrnod fêr, pan dderbynai Ostorius hysbysiad o wrthryfeliad y Brigantwys” (pobl a gyfannedent Swyddi Caersflog, Durham, Cumberland, a Westmoreland). “A'r newydd yma a barodd iddo ddychwelyd ar frys, gan nas beiddiai wthio ei fuddugoliaethau ymlaen un amser, heb sicrhâu pobpeth yn ddiogel o'i ôl.”

Ond tueddir fy meddwl i gasglu nad yw yr holl wir yn cael ei adrodd gan *Tacitus* am yr amgylchiad yma; eithr barnaf fod Ostorius wedi arwain ei fyddin dros Fwlch y Ddeufaen, rhwng Moelwynion a'r Foel Faban, i Fwlch yr Annelu, oddiar Tŷ'n y Maes, lle eu cyfarfuwyd gan y dewrwych Garadog, yr hwn a'u baeddodd ac a'i gyrodd i encilio, ac y mae llanerch yn Nant y Benglog, yn dwyn enw y buddugoliaethwr hyd heddyw, “Maes Caradog.” Mewn canlyniad i hyn, cafodd Arfon a Môn lonydd gan y Rhufeiniaid am flynyddoedd lawer, hyd, pan wedi carchariad Caradog, y rhoddes *Claudius Cæsar* ei ferch yn wraig i Gweirydd, neu yn hytrach i'w fab Meurig, brenin y Cymry, yr hwn a eilw y Lladinwyr *Arviragus*, a chan yr hwn, fe allai, yr oedd llŷs yn agos i'r lle y mae cloddfa y Penrhyn yn bresennol, ac o'r hwn y mae amryw enwau yn goffâd eto, megys Bryn y *Llŷs*, Bryn Meurig, Bod Feurig, Llyn Meurig, &c. Ac felly, pan oedd

bylchau mynyddoedd Eryri yn meddiant un oedd mewn cynghrair â Rhufain, y gallodd Paulinus Suetonius yn gyntaf, a Julius Agricola wedi hyny, dreiddio trwyddynt yn ddiwrthwynebiad i ymosod ar Ynys Fôn, prif orsaf Derwyddiaeth yn yr oes hono.

Fe allai y gallem grybwyll ymhellach rai o olion y cyfnod Prydeinaidd, y rhai a ganfyddir yn y cymydogathau hyn. Wrth fyned heibio i eglwys Llanbedr, tua Bwlch y Ddeufaen, y mae hen amddiffynfa Brydeinaidd gref, a elwir "Pen y Gaer," a chan rai "Pen Caer Elen," am iddi gael ei defnyddio fel gorsaf filwraidd gan y Rhufeiniaid, fe allai, wedi iddynt ymsefydlu yn y wlad yma. Ac nid ymbell o Fwlch y Ddeufaen y mae cylch o feini, tua 70 troedfedd o drawsfesur, i'w weled yn amlwg; ac yn lled agos iddo gylch arall, o'r un mesuriad, ond nad oes dim ond pump o'r ceryg mawrion a'i ffurfient yn aros; eithr o fewn y cylch hwn y mae olion *cut*, neu annedd gròn, bum' troedfedd o dryfesur. Gelwir yr hen adfeilion hyn gan y werin yn bresennol, "Ceryg y Pryfaid."

Wedi dyfod ychydig yn nês i'r "Bwlch," gallwn weled dwy garnedd, oddiwrth y rhai yr enwir y Bwlch; o ran golwg, gellid casglu mai casgliad o gytau crynion ydynt wedi cwmpo yn garnedd ar eu gilydd; ac fe allai mai anneddau gwarchodlu a gadwai y Bwlch mewn rhyw oesoedd boreu oeddynt. Neu ynte, os oedd yma garneddau wedi eu cyfodi i berwylion crefyddol mewn rhyw gyfnod boreu iawn, fe allai bod llawer o'r ceryg wedi eu defnyddio mewn oesoedd diweddarach, i wneyd lluestai milwraidd, fel yr awgrymwyd eisoes. Mae yr hen draddodiad lleol sydd yn gysylltiedig â'r carneddau hyn mor llawn o ffugchwedlaeth crefyddol y cynoesoedd, fel nas gallaf ymattal heb eu hadrodd. Dywedir fod cawr a chawres yn dwyn bob un ei faich o geryg ar fedr adeiladu pont ar Fenai, ac fel yr oeddynt yn dyfod i fyny y bryn yn y fan hon, cyfarfu gŵr â hwy, i'r hwn y gofynent, pa faint o ffordd a allai fod i Fôn. Yntau a ddangosai glocsiau oedd am ei draed iddynt, y rhai oeddynt bron a'u gwisgo yn deilchion, ac a'u hysbysai fod y rhai hyny yn newyddion pan adawsai efe yr ynys, ac nas gwnelsai ddim ond cerdded rhag ei flaen, o'r pryd hyny hyd yn awr. Digalonodd y gawres wrth glywed hyny, gan farnu fod y pellder yn erfawr, a thafodd i lawr gynnwys ei harffedog, trwy yr hyn y ffurfiwyd un o'r carnedd hyn; ac y mae yn debyg i'r cawr dafu ei faich yntau i lawr ar gyfer yr eiddo y gawres, gan nas dewisai ei gadael wrthi ei hunan yn y fath lanerch anghysbell.

Mae y Parch. E. Davies, yn ei "*Mythology and Rites of the British Druids*," yn sylwi fod y nodweddiad o gawr cyfriniol yn fynychaf yn dynodi y meddylirith o *anghrefydd*, neu *gau grefydd*; ac felly y gwelwn fod yr un a ddysgrifir fel "Marchog llednais" un chwedl, yn "Gawr echrydus" un arall yn aml, gan fod y darluniad yn cael ei dynu yn ol tuedd neu olygiad yr adroddwr. Y mae yr un meddylirith yn cael ei gadw yn nhraddodiadau pob cenedl. *Cewri* y gelwir ac y desgrifir seilwyr eu ffurfiau gwladwriaethol, neu athrawon cyntaf eu gwahanol gyfunderaethau crefyddol. Yn neheudir yr Almaen, cawn y drychfeddwl cyfriniol yna wedi ei impio i fewn yn hanes Cristionogaeth y wlad, yr hyn a arddengys â'r fath anhawsder y llwyddai Cristionogaeth i waredu y werin oddiwrth eu hen syniadau paganaidd; fel hyn ei hadroddir:—

"Adeiledid y tri hen gapel Sheffersheim, Oberwittizhausen, a Grunfeldhausen, gan *cewri*, y rhai a *gludent geryg mawrion* yn eu harffedogan i'r perwyl hyny. Pan or-

phenid y capel cyntaf, yr archadeiladydd a dafai ei forthwyl i'r awyr, gan fwriadu adeiladu eglwys arall ar y llanerch lle y disgynai. Disgynodd y morthwyl o fewn dwy filldir i'r gyntaf, ac yno yr adeiladwyd yr ail eglwys; ar orpheniad hon eto, tafodd y cawr ei forthwyl i'r awyr fel cynt, ac ar y llanerch lle y disgynodd, ddwy filldir oddi wrth yr ail, efe a adeiladodd y drydedd eglwys.*

Yr ydwyf yn barnu fod chwedl cawr a chawres Bwlch y Ddeufaen yn dwyn perthynas agos â chwedl hwch Coll ab Collfrewi, a'r cynnyrchion a ddôg hi yn Rhiw Gyferthwch, sef "Tre'r Ceiri," oddiar Lanaelhaiarn, ar ei ffordd o Leyn i Arfon, a'r cyw blaidd a anfonid i dywysog Arllechwedd, yr hwn yr oedd ei ddinas ar ben y Penmaen Mawr; a'r naill fel y llall yn dynodi ymdrech i ddwyn crefydd y Phenisiaid, yn yr hon yr oedd yr Haul a'r Lloer yn brif dduwiau, i'r wlad, yr hon a wrthodid yn anhyblyg gan frodorion Môn dros hir amser.

Y mae Syr William Betham hefyd, yn ei "*Etruscan Literature and Antiquities investigated*," † yn tueddu i farnu fod blaenoriaid enwog ymysg y cenedloedd, a'r rhai a wnaethant ddarganfyddiadau pwysig mewn celfyddydau, neu gyfnewidiadau mawrion mewn masnach, gwladlywiaeth, neu greffydd, yn gewri.

Yn agos i'r carneddau hyn y mae olion hen fagwyr geryg gref, gyffelyb i'r hen fagwrydd milwraidd a wnelai y Prydeiniaid, yn amgylchu ffridd, ac nid yw yn anhebyg fod yma gyfanneddle sefydlog ar ryw adeg, a chyfleusdra i gau yr anifeiliaid mewn diogelwch; ac fe allai fod cyfeiriad at y lle yn y Triad canlynol:—"Tri Buelydd Gosgordd Ynys Prydain: Benwen Fuelydd yn Nghorwennydd, a gedwis Fael Caradawc ab Bran a'i osgordd; ac yn y Fael hono, ugain mil ag un, yn wartheg blithion. Ail, Gwydion fab Don, a gedwis wartheg Gosgordd Gwynedd Uch Conwy, ac yn y Fael hono, ugain mil ag un. Trydydd, Llawfrodedd Farfawc, a fuellis wartheg Nudd Hael, fab Senyllt, ac yn y Fael hono, ugain mil ag un yn wartheg blithion." ‡

Ar ben y Bwlch ei hunan y mae y ddau Faen Hir, y rhai, medd traiddodiad, a ddygai y cawr dan ei geseiliau, gan eu doddi yno. Y mae un o'r ddau wedi cwmpo, a'r llall yn sefyll eto; ac y mae yr un sydd yn sefyll yn 9 troedfedd o uchder goruwch arwyneb y ddaear, a'i amgylchedd yn ei fôn yn 16 troedfedd 6 modfedd, ac yn meinhâu tua'i ben uchaf. Ac oddeutu y ffordd oddiyno tuag Aber, y mae amryw garneddau eraill, rhai o honynt yn lled fawrion; ac wrth agor rhai o honynt cawsid beddgistiau ynddynt, yr hyn a brofai mai carneddau oeddynt a gyfodasid gan rai o hen enwogion y genedl.

Ar y Penmaen Mawr y mae hen amddiffynfa Brydeinaidd fawr a chref iawn, yn cael ei hamgylchynu gan dair neu bedair o fagwrydd, y naill uwchlaw y llall, a phob un o honynt tua dwy lath a hanner o drwch. Cydrhwng y muriau hyn y mae olion adeiladau bychain crynion yn aneirif; eu tryfesur yn gyffredin o ddeuddeg i ddeunaw troedfedd; ac y mae yn hawdd gwledd oddiwrth y pentyrau o geryg cwympedig a amgylchent eu seiliau, eu bod ar y cyntaf yn lled uchel, fel math o dyrau; ac yr oedd amryw dyrau cyffelyb wedi eu hadeiladu ar ben uchaf y graig, rhai olion o ba rai ydynt yn aros eto; a cherllaw iddynt y mae ffynnon wedi ei thori yn y graig, yr hon a geir yn llawn dwfr yn wastadol. Dywedir y gallesid cyfleu ugain mil o wfr yn yr amddiffynfa hon yn hwylus, ac ystyrir y lle yn anorchfygol.

* "*Gentleman's Magazine*" for March, 1850, p. 251. † Vol. II., pp. 67—73. ‡ "*Myr. Arch.*" Vol. II., p. 70. "Triad," 85.

Drachefn, oddiar y "Gwddw Glas," yn mhlwyf Dwygyfylchi, y mae lliaws o olion henafiaethol, y rhai a ddysgrifiai y diweddar Thomas Pennant, Ysw., fel y canlyn:—

"Am gryn yspaid o ffordd, gwelwn gylohoedd ceryg, yn amrywio yn eu tryfesur, a charneddau mawrion. Mae y cylch penaf yn gynnwysedig yn bresennol o ddeg o feini sythion, o bellder anghyfartal oddiwrth eu gilydd, y fwyaf o ba rai sydd yn wyth troedfedd a thair modfedd o uchder, a gorweddai un arall ar lawr yn un droedfedd ar ddeg a dwy fodfedd. Perffeiithir y cylch trwy arglawdd isel o geryg rhyddion wedi eu cyfleu rhwng y rhai mwyaf. Mae tryfesur y cylch hwn yn bedwar ugain troedfedd. Yn agos i'r cylch hwn y mae pedwar o gylohoedd eraill, llawer llai; ac yn nghanol un o honynt yr oedd lleohfaen, gweddillion hen Gromleoh. Fe allai fod y cyffelyb olion Derwyddol yn y cylohoedd eraill gynt, cyn iddynt gael eu symud i wneyd magwrydd, ac adeiladau eraill. Tua chwarter milldir oddiwrth y rhai hyn, y mae carnedd fawr, wedi ei gwneyd i fynu o geryg bychain; a cherllaw iddi, un arall o geryg mawrion; ac yn lled agos at hono eto gylch wedi ei wneyd o geryg bychain. Yn lled agos i'r cylch crybwyllledig y mae maen mawr yn sefyll, a elwir 'Maen y Campau,' a cherllaw i hwnw y mae carnedd a chylch o *ddeuddeg caryg*. Mae yn ddiâu fod y llanerch hon wedi bod unwaith yn dra phoblogaidd; canys o amgylch ogyloch yma, ceir sylfeini adeiladau bychain, wedi eu gwneyd o geryg trwsiedig, cyfaddas i symrlwydd yr oesoedd boreuol. Mae lliaws o saf feini a charneddau bychain yn wasgaredig dros yr holl lanerch; a gellir canfod olion hen ffordd yn cyfeirio oddiyma tua'r Conwy.

"Pa ddefnydd byzag a fwriedid i'r cylohoedd lleiaf, y mae lle cryf i greu am y rhai mwyaf, yn enwedig yr un gerllaw Maen y Campau, mai y *Cemmaes* Frydeinaidd ydoedd, neu y gamplannerch, yn yr hon y cynnelid yr hen Eisteddfodau er penderfynu teilyngdod yr ymdrechwyr yn yr amryfal gampau."*

Ac y mae awdwr dysgedig y "Nodiadau ar Camden," yn rhoddi y dysgrifiad canlynol o'r llannerch dan sylw;—

"Tua milldir o'r amddiffynfa hon" (sef yr un ar y Penmaen Mawr), "y saif un o'r olion hynafiaethol mwyaf hynod yn holl Eryri, a elwir 'y Meini Hirion,' ar wastadedd mynyddig, o fewn plwyf Dwygyfylcheu, oddiar y Gwddw Glas. Math o amglawdd gylchawg ydyw, tua chwe' llath ar hugain o dryfesur; ac oddiallan iddo y mae math o golofnfeini anghelfydd, o ba rai y mae tua deuddeg yn sefyll yn awr; rhai o honynt yn ddwy lath, ac eraill yn bum' troedfedd o uchder. Y mae yn sefyll ar y mynydd gwastad, can gynted ag y deuir i'r ucheldir, a llawer o dir gwastad o'i amgylch; ac heb fod yn nebell oddiwrtho y mae tair o faengolofna mawrion eraill, wedi eu cyfleu megys triongl."†

Y mae y Parch. Edward Davies, awdwr galluog y "*Mythology and Rites of the British Druids*," yn dadleu yn gryf iawn mai hen deml i Ceridwen, duwies llawnder, oedd yma, a bod y deuddeg colofn a amgylchent y cylch, yn dynodi y deuddeg arwydd, neu "*Gaer Sidi*." Ac er cadarnhâu ei dyb, y mae efe yn dyfynu ychydig linellau o waith Hywel ab Owain Gwynedd, yr hwn oddiwrth ei gyfansoddiadau a ymddengys yn fwy cyfarwydd yn yr hen Gofion Derwyddol na neb arall o'r Gogynfeirdd. Fel hyn y dywed y bardd tywysogaidd hwnw:—

"Caraf y Gaer falchwaith o'r Gyfylechi,
Yn y bylchau balch hwn, fy hun ynddi.
Enwawg drafferthag a dreidd iddi,
Anwar don lafar lefawr wrthi,

* Pennant's "*Tours in Wales*," Vol. III., pp. 119, 120. † Gibson's "*Camden*," Col. 806.

Dewiale Lywy* loyw gyd teithi,
 Glaer gloyw y dwyre o du gweilgi
 Ar wreic a lewych ar eleni
 Flwyddyn yn ynyal Arfon yn Eryri
 Ny ddirper pebyll, ny syll pali
 Nep a rwy garwy yn fwy noddi.
 Pei chwaerei y budd yn barddoni
 Nebawd, noswaith y byddwn nesaf iddi."†

Os yw y dyb yna yn gywir, fe allai y gallwn ni gael rhyw reswm am yr enw sydd ar hen amddiffynfa Mynydd y Dref, sef "Castell Caer Sëon," neu y Gwyllion, sef offeiriadesau *Hu*, y rhai a ddesgrifir gan Taliesin yn galaru am farwolaeth eu Duw;—fel

"Pedeir morwyn,
 Wedy eu cwyn,
 Dygnawd eu tra," &c.

Ai tybed nad oedd yma gyfeiriad at y galar a ffynai ymysg swyddogion y grefydd dderwyddol am dranc eu hen gyfundrefn o flaen ffyniant goleuni Cristionogaeth?

Y mae hefyd hen Bryddest ar ddull o ymddyddan rhwng Ugnach fab Mydno o Gaer Sëon, a Thaliesin o Gaer Deganwy, ar gael:—

- Tal.—"Farchawg a gyrch i'r Ddinas
 A'i chw'n gwynion, a'i chyrn bras†
 Ni'th adwaen—ni rythwelas."
 Ugn.—"Farchawg a gyrch i'r Aber,
 Ar farch cadarn cadfer,
 Dyred genyf; na'm gwader."
 Tal.—"Mi nid âf yna yn awr,
 Gochel waith y godrygawr,
 Er mwyn bendith nef a llawr."
 Ugn.—"Y gŵr ni'm gwelaist beunydd,
 Wyt debyg i ŵr dedwydd,
 Pa hyd o dŷ? a phryd delydd?"
 Tal.—"Pan ddelwyf o Gaer Sëon,
 O ymladd ag Iuddewon,
 Deuaf i Gaer Leu a Gwydion."
 Ugn.—"Tyred gyda mi i'r Ddinas,
 A chei o'm môdd pereiddffas,
 Ac aur coeth ar dy wanas."
 Tal.—"Mi nid adwaen y gŵr hŷ,
 Sydd a'i fedd dan ei wely,
 Teg a chweg y dywedi."
 Ugn.—"Tyred i'm hannedd heno
 A chei win yn dysglaenio
 Ugnach yw f'enw,—mab Mydno."
 Tal.—"Ugnach! bendith i'th orsedd,
 Athro rhad ac anrhydedd.
 Taliesin wyf finnau; talaf it' dy wledd."
 Ugn.—"Taliesin, penaf o'r gŵr,
 Blaenaf yngherdd cyirgyr,
 Trig yma hyd ddydd Merchyr."
 Tal.—"Ugnach, mwyaf ei gowaeth
 Boed it' rad y wlad Bennaeth;
 Ni haeddaf dŷ, ni thrigaf noswaith."

* *Prosperins.* † "*Myo. Arch.,*" Vol. I., p. 275. ‡ "Cŵn gwynion," y *Derwyddon yn eu gwisgoedd gwynion*, a'u hychain bannawg.

Bellach, gadawn y cyfnod tywyll yna, yn yr hwn nis gall yr hanesydd goreu wneyd dim ond dyfalu, gan gydnabod ei fod yn senglennydd ansicrwydd bob cam, a chyrchwn ymlaen i lanerchau ar y rhai y teifi y cynfeirdd-ambell i belydryn gwan o oleuni yn eu cyfansoddiadau, fel goleu sêr cyn toriad dydd.

Wedi i'r Rhufeiniaid gyrhaedd arglwyddiaeth lled gyffredin yn y gwledydd hyn, ymroisant i lenwi y bylchau yn eu llangau â blaenion y genedl Gymreig, ac o'r diwedd, pan tua'r bummed ganrif, y bu raid i'r Rhufeiniaid adael Ynys Prydain, er cadw yr Eidal ei hunan rhag syrthio yn ysglyfaeth i gadruthrau Alaric y Gothiad, dygwyd miloedd o wŷr ieuainc Cymru gyda'r Rhufeiniaid i'r rhyfeloedd hyny, ac ni ddychwelodd nemawr o honynt byth yn ol; ac fel hyn gadawyd y Cymry yn noeth a diamddffyn hynod yn nghanol cenedloedd trachwantus a chreulawn. Crybwyllir hyn yn un o'r Trioedd, lle y dywedir, "Nad arhoses yn yr Ynys hon namyn gwragedd a phlant bychain, y dan naw mlwydd oedran, a myned yn Gymry a wnaethant y rhai hyny:" a bu yr adeg yma, dybygid, yn un dra therfysg-lyd yn yr ynys hon, nid yn unig trwy ruthriadau eu cymydogion anwaraidd arnynt, ond hefyd, ac yn waethaf, o herwydd yr ymrysonau cartrefol a ymdorai rhwng yr amryfal flaenoriaid, y rhai a ymrysonent â'u gilydd, am nad oedd yma yr un penteyrn digon galluog i'w cadw hwynt oll mewn uffudd-dod.

Yn y cyfwng yma yr oedd y Gwyddelod wedi trawsfeddiannu rhanau helaeth o Wynedd; ond meibion Cunedda Wledig, tywysog galluog o Ogledd Lloegr, a ddaethant drwodd, ac a gurasant y Gwyddelod o wahanol wledydd Gwynedd, gan feddiannu y cyfryw wledydd, a'u galw ar eu henwau eu hunain: fel hyn, Meirion a gafodd gantref Meirion; Arwystl, a gafodd Arwystli; Ceredig, a gafodd Geredigion; Dunod, a gafodd Dunodig; Edeyrn, a gafodd Edeyrnion; Mael, a gafodd Dinmael; Coel, a gafodd Coeleion; Dogfuei, Dogfeilin; Rhufon, Rhufoniawg; Einion Yrth, Caer Einion; ac Oswal, Groesoswallt.

Ymddengys fod gan Einion Yrth, Arglwydd Caereinion, fab o'r enw Caswallon, yr hwn oedd yn ŵr ieuanc esgyrnog a chryf o gorff, a dewr ddihafal o feddwl. Hwn yn canfod bod y Gwyddelod eto yn parhâu i feddiannu Môn ac Arfou, neu y rhanau gorllewinol o'r Dywysogaeth, a berswadiodd ei dri chefnederwydd, Gynyr, a Meilyr, a Meigyr, meibion Gwron ab Cunedda, i ymuno âg ef yn yr ymdrech i'w gyru o'r wlad; ac wedi amryw frwydrau celyd, a gyru o honynt y Gwyddelod hyd Benrhyn Gorllewinol Ynys Fôn, mewn brwydr ofnadwy yn y fan hono, fe'u llwyr orchfygwyd, a Chaswallawn a laddodd eu tywysog Serigi, â'i law ei hun, yn agos i'r llanerch lle y mae hen eglwys Caergybi wedi ei hadeiladu; canys Caswallon a barodd adeiladu eglwys ar fedd ei elyn, gan ei gwaddoli yn haelionus; a'r eglwys hono ar y cyntaf a elwid oddiwrth yr amgylchiad yma "Llan y Gwyddyl;" ond gan i'r enwog Cybi ymsefydlu yno, a ffurfio Côt, neu Athrofa grefyddol uchelfri yno, cyfnewidiwyd yr enw mewn amser er parch i goffadwriaeth yr Athraw enwog hwn, i Gôr Cybi, neu Gaer Cybi. Mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, daeth Caswallon yn arglwydd ar ran fawr o Wynedd; a chan iddo lywodraethu ei ddeiliaid yn ddoeth dros yr yspaid maith o 74 mlwydd, sef o'r fl. 443 hyd y fl. 517, efe a lwyddodd i sicrhau talaeth Gwynedd i'w feibion ar ei ol.

Yr oedd prif breswylfa Caswallon ar ochr ogleddol Ynys Fôn, ar fryn

lled uchel a elwir "Mynydd Eilian," lle y bum yn tramwy dros ei adfeilion, y rhai a elwir gan bobl yr ardal eto, "Llys Caswallon." Ond, mae yn ymddangos fod ganddo annedd arall yn y gymydogeaeth yma, tua'r lle a adwaenir wrth yr enw "Bodscallan," neu yn fwy priodol, "Bod Caswallon."

Mae bryn yn agos i'w hen lys yn Môn, ar yr hwn y mae Capel Nebo wedi ei adeiladu o fewn yr oes hon; ac ar lethr yr hwn y mae yr hen Dwrillychiad, a elwir, er cof am dad Caswallon, fe allai, "Mynydd Einion."

Cawn grybwylliadau anrhydeddus am Caswallon yn Nhrioedd Ynys Prydain, fel hyn:—

"Tri hualogion deulu Ynys Prydain,—Teulu Caswallawn Lawhir, a ddodasant hualau eu meirch ar eu traed, bob deu o naddynt, wrth ymladd a Serigi Wyddel, yn Ngherrig y Gwyddyl yn Môn; a theulu Rhiwallon mab Urien yn ymladd a'r Seison; a theulu Belyn o Leyn, yn ymladd ag Edwin, yn Mryn Ceneu (neu Fryn Edwin) yn Rhos."*

"Tri Huellogion Teulu Ynys Prydain; Teulu Caswallawn Lawhir; a Theulu Rhiwallon ab Urien; a Theulu Belyn o Leyn; sef eu gelwid felly, am nad oedd na phen na theyrnedd arnynt hyd y cerddai braint eu Teuluoedd a'u Cyfoeth, cyt bei a holid o fewn y terfynau hyny, namyn Rhaith Gwlad a Chenedl."†

Yr oedd gan Caswallon wr duwiol o'r enw Eilian, a gyfenwid "Y Pererin," am iddo fyned yn ei ieuentyd ar bererindod i Rhufain, fe allai, yn athraw teuluaid, neu yr hyn a elwid yn yr oes hon, caplaniad. Hwn a adeiladodd eglwys yn agos i lys y Tywysog yn Môn, yr hwn a roddes amryw diroedd at gynnalïaeth gwasanaeth crefyddol ynddi, ac a gysylltodd ragorfreintiau â hi, gan ei gwneyd yn noddfa neu yn gysegrfa, lle y gallai drwgweithredwyr ffoi, a bod yn ddiogel rhag cosb tra yr arhosit o fewn ei finiau. Y mae yn ymddangos y byddai Eilian yn dilyn ei Dywysog ar ei ymweliadau i'r ardal hon ar amserau; ac ar y cyfryw achlysuron y mae yn ymddangos iddo grynhoi cynulleidfa dan addysg grefyddol, mewn ardal uchel rai milldroedd o Fod Caswallon, lle yr adeiladwyd eglwys i'w goffadwriaeth, sef "Llanelïan yn Rhos."

Mae yn debyg mai yn ystod teyrnasiad Caswallon yr ymsefydlodd Tudno fel athraw crefyddol ar Benrhyn Gogarth, a Thrillo yr un flunud ar yr ochr ddwyreiniol i'r Creuddyn; ac mai yn yr oes hono yr adeiladwyd addolfeydd dysyml yn gyntaf yn y llanerchau crybwylledig; ac oddeutu yr un amser yr adeiladwyd Llanrhos, neu Eglwys Rhos, i wasanaethu fel capel i'r Tywysog a'i deulu. Ond y mae yn ymddangos fod Llangwstenyn wedi ei hadeiladu tua chan' mlynedd yn gynt, gan ei bod yn gysegredig i goffadwriaeth Cystenyn Fendigaid, yr hwn hefyd a elwir Cystenyn o Lydaw. Hwn oedd fab i Cynfor ab Tudwal Mwynfawr, ab Cadfan ab Cynan Meiriadog, a thaid i'r enwog Arthur Frenin. Yr oedd ei henafiaid wedi bod yn cyfanneddu yn Llydaw er amser Cynan Meiriadog; ond anfonid Cystenyn drosodd gan ei frawd Aldor, brenin Llydaw, ynghyda dwy fil o wŷr, i gynnorthwyo y Cymry i wrthsefyll rhuthriadau y Brithwyr; ac wedi gorchfygu y gelyn mewn amryw frwydrau, efe a etholwyd yn Benteyrn y Cymry, a dywedir iddo briodi merch i bendefig Rhufeinaidd. Efe a lofruddiwyd gan un o'r Brithwyr tua'r flwyddyn 442. Ymysg ei feibion, yr oedd Constans, Emrys Wledig, Uthr Bendragon, &c. Barna rhai

* "*Mys. Arch.*," Vol. II., p. 12. † *Id.*, Vol. II., p. 62.

mai Llangwstenyn oedd yr eglwys Gristionogol gyntaf a adeiladwyd yn Nghymru; ac fe weddai i ni goffâu ddarfod i'r Pab ddyfarnu Harri III., brenin Lloegr, i ddwyn ei benyd yn yr eglwys hon; ond efe a esgusodwyd oddiwrt h y penyd trwy dalu dirwy o bum' cant o farciau arian.

Yr oedd "Pabo Post Prydain" yn gydoeswr â Chaswallon, ac y mae yn debyg iddo yntau fod yn cyfanneddu yn y Creuddyn beth amser, ac fe allai yn gwasanaethu eglwys Llangwstenyn, fel y gadewid ei enw ar glawr yn yr ardal hyd heddyw.

Wedi marw Caswallon, dilynwyd ef yn llywodraeth Gwynedd gan ei fab "Maelgwyn," a elwid "Maelgwyn Gwynedd," am fod holl Wynedd, fe allai, wedi cydnabod ei arglwyddiaeth ef. Yr oedd gan Maelgwyn hefyd annedd yn Môn, yn agos i lys ei dad, yr hwn a elwid "Castell Maelgwyn," ar lethr Mynydd Einion, ac oddiar y pentref a elwir "Pen y Sarn," a hyny, am a wn i, am fod Sarn yn cyfeirio o'r fan hon ar draws Traeth Dulas, a'r Traeth Coch, heibio i Dinsylwy, a Phenmon, lle yr oedd Côr Seiriol, ar draws y Lafan hyd Faelgwyn ger Llanrhos, neu Lys Maelgwyn, yn Mryn Euryn. Ai tybed nad yw y Sarn yna yn rhyw brawf o wirionedd y traddodiad cyffredin fod traeth y Lafan yn ddyffryn bras a ffrwythlawn unwaith, ond darfod i'r môr ar ryw gynhyrifiad anghyffredinol ar natur, a gymerodd le rywbryd tua'r cheched ganrif, orlifo llaweroedd o diroedd isel yr ochr hon i'r ynys, cystal a Chantref y Gwaelod; ac fe allai ranau eraill o arfordiroedd Brydain? Dywedir fod afon fechan a elwid Ell, yn gwahanu rhwng Môn ac Arfon, a rhwng Swydd Fôn a Swydd Ffint, gan liferio rhwng y lle a elwir "Ynys Seiriol," yn bresennol, a Phenmon, ac ymarllwys i'r môr ymhell o'r tu allan i ffiniau presennol Ynys Seiriol. Cyfrifir yr ynys grybwylledig eto yn perthyn i Sir Ffint, a'r traddodiad yw fod braich o dir yn ymestyn o gymydogeaeth Rhuddlan hyd at yr ynys hon, ac yn ei hamgylchynu; a bod y gwastadedd eang o Gogarth hyd Fangor Fawr, ac o Lanfair fechan i Ynys y Seiriol, yn ddyffryn bras a ffrwythlawn digyffelyb, ac yn perthyn i hen bendefig annuwiol o'r enw "Helig ab Glanawg;" a'i etifeddiaeth hon a elwid "Tyno Helig." Yr oedd efe yn gâr i Faelgwyn, gan ei fod yn wŷr i Gwgan Gledddyfrhudd, ab Caradawg Freichfras, ab Llyr Merini, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig. Y mae traddodiad yn nodi y llanerch lle y gorweddai ei lys, tua hanner y ffordd o'r Penmaen Mawr i Ben Gogarth, ar gyfer Trwyn yr Wylfa.

Y mae chwedl draddodiadol ar gof a llafar yn y gymydogeaeth, bod y trychineb yma wedi ei ragfynegi bedair cenedlaeth cyn ei ddyfod, fel dial-eidd Dwyfol ar Helig ab Glanawg am ei annuwioldeb ysgeler. Fel y byddai yr hen bendefig yn marchogaeth drwy ei etifeddiaeth fras yn mrig yr hwyr, clywai lais rhyw rybuddiwr anweledig yn ei ddilyn, gan floeddio, "*Dial a ddaw! dial a ddaw!*" A phan ofynai yr hen bendefig annuwiol unwaith, yn lled gyffrous, "*Pa bryd y daw?*" yr ateb oedd, "*Yn amser dy wyrion, dy orwyrion, a dy esgynyddion.*" Dichon fod Helig yn tawelu ei hun â'r meddwl os denai y fath beth, nas cymerai le yn ei oes ef; ond ar ryw achlysur o wledd fawr, a gynuelid yn llys Helig ab Glanawg, fel yr oedd y tylwyth a'r gwahoddedigion ar ganol eu cyfeddach, sylwai un o'r gweinidogion ar ei mynediad i'r fêddgell i ollwng y ddiod; ar y dwfr yn ymdori i fewn, ac ni chafodd gyfle namyn i rybuddio y telynor o'i berygl, pan orchuddiwyd y lleill oll gan y dylif yn nghanol eu brwysgedd. Meddyliir fod "Trwyn yr Wylfa" wedi cael ei enw oddiwrt h y

amgylchiad alaethus yma, am mai yma y diangasai amryw o drigolion y dyffryn am eu bywyd, a'u bod yn arfer ymgylfarfod yma ar amserau drachefn i wylo wrth gofio am y trychineb. Bernir hefyd mai rhywbeth o'r un natur a ddynodir yn enw y traeth, "Traeth y Lafan;" yn hytrach, "Traeth y llefain," neu "Traeth y wylofain."

Y mae yn ymddangos fod Maelgwyn yn filwr dewr, ac yn dywysog hael-frydig; ac ar farwolaeth Gwrthefyr, efe a etholwyd yn Benteyrn y Cymry. Y mae Brut Gruffydd ab Arthur yn rhoddi y disgrifiad canlynol o hono:—

"Ac yn nesaf ar ol Gwrthefyr y daeth Maelgwyn Gwynedd yn frenin ar gwbl o'r Brutaniaid; a gŵr mawr teg fu Faelgwyn, a goresgynwr fu ar lawer o greulonion freninoedd; a chadarn a dewr oedd Faelgwyn mewn arfau. A hael a chwbl oedd ymhob camp dda, pe nad ymroddasai i bechedau Sodoma a Gomorrah; ac am hyny efe a fu gas gan Dduw. Ac er hyny, cyntaf brenin gwedi Arthur a oresgynws chwech ynys wrth Ynys Brydain, fu Maelgwyn, sef oedd y rhai hyny, Iwerddon, ac Ialont (*Iceland*), Ysgotlont, Orc, Llychlyn, a Denmarc."

Maelgwyn a wnaeth Gôr Bangor yn Esgobaeth, gan ei gwaddoli yn haelionus, ac efe a seiliodd Briordŷ Penmon, a Chôr Caergybi. Dywedir hefyd mai efe a adeiladodd gestyll Caer Digoll neu yr Amwythig, Caer Collwyn neu Harlech, a Chaer Cyffin, gerllaw y dref hon. Heblaw hyny, y mae yn ymddangos iddo adeiladu castell cryf at ei wasanaeth ei hunan, ac yn agos i'w lŷs, Bryn Euryn—sef "Castell Dyganwy," neu y lle a elwir yn awr "Y Faerdref." Fe allai bod ganddo gastell coed cyn hyny ar fryn a elwir "Bryn Maelgwyn." Dyna adeg yr oedd cryn rwyg yn ystlysau y Creuddyn; canys fel yr oedd Maelgwyn yn dyfod i fwyrwg o fri, yr oedd mân bendefigion y wlad yn ymgrynhöi o'i ddeutu; ac ar ryw adeg wedi ei ethol yn Benteyrn y Cymry, fe allai, pan oedd lliaws mawr o feirdd yn cael achles oddeutu Bryneurn, ac yn ymorchestu am y goreu i wenieithio i'r Tywysog, ac Elphin ab Gwyddno, yr hwn a gollasai ei dir trwy orllifiad Cantref y Gwaelod yn bresennol, fe allai iddo ddywedyd yn ei frwysgedd, fod ganddo ef fardd a dra ragorai ar holl feirdd Maelgwyn; ac i'r Tywysog, wedi ei daro ar ei wendid, beri carcharu Elphin yn Nghastell Dyganwy, hyd oni ddelai ei fardd, o'r hwn y bostiasai mor öofn yno, a'i ryddhau trwy rym ei awen yn gorchfygu holl feirdd Maelgwyn. Difyr a fuasai clywed a gweled Taliesin yn canu ei gyfansoddiadau gorchestol yn Ngastell Deganwy, yn ngŵydd y Penteyrn Maelgwyn, a holl wŷr ei lŷs; a holl feirdd y Tywysog, 33 mewn nifer, yn gorfod tewi, a chydnabod rhagoriaeth awen Taliesin; a'i noddwr Elphin, yn y canlyniad, yn cael ei ryddhau. Mae yn debyg i Taliesin fod dros ryw dymmor yn brif fardd i Faelgwyn, a bod ei annedd y pryd hyny ar lân Llyn Geirionydd, lle y mae y mурddyn yn weledig eto, a cherllaw iddo frynceyn a elwir "Bryn y Caniadau."

Os cyfansoddodd Taliesin y dernyn a elwir "Bustl y Beirdd," yr hwn a briodolir iddo yn y "*Myvyrian Archaeology*," nid yw ryfedd ei fod wedi rhoddi gosteg ar Feirdd Maelgwyn, ac ennill iddo ei hun yr enw o "Ben Beirdd." Gan fod yr hen gyfansoddiadau a briodolir i Taliesin o gyrhaedd y lliaws o'n cydgenedl, fe allai na byddai yn fiin i mi adrodd y darn yma:—

"Clér o gamarfer a ymarferant,
Cathlau anneddfol fydd eu moliant,

Clod orwas ddfias a ddadganant,
 Celwydd bob amser a ymarferant,
 Goroh'mynau deddfau Duw a dorant,
 Gwragedd priodol wrth eu moliant
 Drwy feddwl drygbwyll a fawr dwyllant;
 Morwynion gwynion Mair a lygrant;
 A goelio iddynt, a gywilyddiant;
 A gwirion ddynion a ddyfalant,
 A'u hoes a'u hamser yn ofer y treuliant,
 Y nos y meddwant, y dydd y cysgant,
 Segur, heb lafur yr ymborthant;
 Yr eglwys a gashant, a'r dafarn a gyrochant,
 A lladron ffleision y cydsyniant;
 Llysoedd a gwleddoedd a 'mofynant;
 Pob parabl dibwyll a grybwyllant,
 Pob pechod marwol a ganmolant,
 Pob pentref, pob tref, pob tir a dreiglant
 Pob salwedd ofer a ymarferant;
 Gorchymynau y Drindod a ddfrodant,
 Gwyliau na Suliau ni's addolant,
 Am ddyddiau angau ni's gofalant,
 A phob glythineb nid arbedant,
 Gormod o fwydydd a diodydd a fynant;
 Degwm ag Ofrrwm teilwng ni's talant;
 Deddfolion ddynion a ddyfalant.
 Adar a hedant, gwenyn a felant,
 Pysgod a nofiant, pryfaid a ymlusgant,
 Pob peth a ymdaith i gynnwyl ei borthiant,
 Ond clêr ag Oedion, a lladron difwyniant.
 Ni chablu i'ch mysg ddysg na cherddwriaeth,
 Can's Duw a'u rhoes, gloes ar gyllaeth,
 Ond sawl sy'n arfer o gamarfaeth,
 Am watwar Iesu a'i wasanaeth.
 Tewch, chwi Bosfeirddion ffleision anhylwydd,
 Ni wyddoch i farnu rhwng gwir a chelwydd;
 Od ydych Brif-feirdd ffydd o waith Dofydd,
 Dywedwch i'ch Brenin beth fydd ei dramgwydd.
 —Myfi sydd Ddewin, a Phrif-Fardd cyffredin,
 A wyr bob gorain yn ngwlad eich Brenin.
 Mi a ryddhaf Elphin o fol twr meinin,
 Ac a dd'wedaf i'ch Brenin gwbl o'i gyfrin
 —Fe ddaw pryf rhyfedd oddiar Forfa Rhianedd,
 I ddial anwiredd ar Faelgwyn Gwynedd,
 A'i flew a'i ddannedd a'i lygaid yn eurwedd,
 A hwnaw wna ddial ar Faelgwyn Gwynedd.”

Nid wyf fi am haeru mai cyfansoddiad Taliesin yw yr un uchod, er ei fod yn cael ei dadogi arno yn yr *Archaiology*; a'r hyn a bar i mi betruso yw diweddarwch ei ddulliaith, a'r defnyddiad o rai geiriau am y rhai yr wyf yn dra amheus a oeddynt hwy mewn arferiad mor foreu a dyddiau Taliesin; megys “Tafarn”—“Morwynion gwynion Mair”—“Degwm ac Ofrrwm,” &c. Ond, er i ni ganiatáu i'r llinellau blaenorol gael eu cyfansoddi yn hytrach gan rai o Fyneich y canoloesoedd, a'u tadogi ar Taliesin, er eu gwneyd yn swy poblogaidd, y maent yn profi fod crediniaeth yn ffynnm ai *Llys tra llygredig oedd yr eiddo Maelgwyn, ac nad oedd y llawys beirdd a'i mynychent yn gwneyd dim tuag at ei buro, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb.*

Y mae yr hanes ganlynol am Taliesin ymysg ysgrifeniadau y diweddar

"Ieuan Brydydd Hir," yn meddiant Barton Panton, Ysw., yr hon a wahan-iaetha ychydig oddiwrth ei hanes yn y "*Myvyrian Archaeology*." Yno dywedir fod Maelgwyn yn cadw Gwyliau y Nadolig yn Negannwy, ac yn cael ei amgylchynu gan ei lyswyr a'i feirdd, &c., y rhai a ymorchestent pwy a wneithiai i'r brenin fywaf. Cyd-dystient ei fod y penadur harddaf, doethaf, a galluocaf yn y byd, a bod ei frenines yn rhagori ar holl ben-defigesau y deyrnas, mewn tegwch, doethineb, diweirdeb, &c. Mewn gair, bod ei filwyr y dewraf, ei feirch a'i gwn y cyflymaf, a'i Feirdd y goreu a'r doethaf yn y byd! Elphin a sylwai yn wylaidd, na ddylai neb ymgystadlu â brenin, oddieithr brenin; pe amgen, y buasai efe yn haeru y gallasai ei dywysoges ef ei hunan ymgystadlu am ei diweirdeb ág un fenyw yn y tir; a bod ganddo Fardd a dra rhagorai ar holl Feirdd ei Fawrhydi, &c. Pan glybu y Brenin hyn, efe a archodd rwyngwyliau Elphin, a'i fwrw yn ngharchar hyd oni cheffid allan wirionedd yr haeriadau hyny a wnelasai efe; ac yna, efe a anfonodd ei fab ei hun Rhun, yr hwn oedd yn llynod fel wtreswr allad, i brofi diweirdeb arglwyddes Elphin! Ond gan ei bod wedi ei rhagrybuddio o'i pherygl gan Taliesin, a'i chynghori pa beth i'w wneyd, hi a wisgodd un o'i morwynion yn ei gwisgoedd pendefigaidd ei hunan, gan ddodi ei modrwyau ei hunan, a'r eiddo ei phriod, ar ei bysedd, &c., tra yr ymgymerai yr arglwyddes ei hunan agwedd a chymeriad y forwyn, gan weini ar swper. Y tywysog, yr hwn a arweiniasid i'r parllwr yn y fan ar ei gyrhaeddiad i lŷs Elphin, a swperai gyda'r forwyn weddnewidiol, gan feddl mai yr arglwyddes ydoedd, gan droi yr ymddyddan yn dra masweddol; ac wedi i bawb arall encilio o'r ystafell, efe a roddes gwsglynn iddi yn ei diod, ac a gyflawnodd ei drachwant gyda hi; yna efe a dorodd ymaith ei bys bach, ar yr hwn yr oedd modrwy a sel Elphin ei hun, yr hon a anfonasai efe yn ddiweddar iawn i'w arglwyddes, fel arwydd o'i serch, &c. Gadawai y tywysog y llances yn cysgu, a phrysurai at ei dad, gan gyflwyno y bys a'r fodrwy iddo, fel prawf o'i lwyddiant. Y brenin a barai gyrchu Elphin o'r carchar, ac edliwiai iddo ei fod mor hygoelus o ddiweirdeb a ffyddlondeb ei wraig; a phan welodd y brenin ei fod ef yn parháu yr un modd, efe a ddangosodd y bys a'r fodrwy iddo, gan chwaneu fod y sawl a'u dygasai yno wedi gorwedd gyda'i wraig ef y nos o'r blaen. Elphin a addefai y fodrwy; ond wedi edrych yn fanwl ar y bys, efe a brofai trwy amryw resymau cedyrn, na buasai erioed yn perthyn i'w wraig ef; yn gyntaf, oddiwrth faint y bŷs, gan sylwi mai prin y gellid gyru y fodrwy dros gymmal canol y bŷs hwn; eithr efe a sicrhái y brenin fod y fodrwy yn rhy fawr o lawer i fawd ei arglwyddes ef. Yn ail, efe a sylwai nad oedd yr ewin wedi ei dori ar y bŷs hwn er ys mis o leiaf; tra nad esgeulusai ei arglwyddes ef dori ei hewinodd bob Sadwrn yn rheolaidd. Yn drydydd, efe a sylwai fod pwy bynag a berchenogai y bŷs hwn wedi ei ddefnyddio yn dra diweddar i bobi bara rhyg; ond efe a sicrhái y brenin na buasai ei arglwyddes ef erioed yn cyflawni y cyfryw orchwyl gwasaid, er pan fuasai yn wraig iddo ef o leiaf. Druan o Elphin! cyfrifid ef erbyn hyn yn anniwygiadwy, ac erchid ei fwrw yn ol i'r carchar am ei hygoledd a'i ystyfnigrwydd, a rhoddwyd gorchymy na ryddheid mo hono hyd oni phrofa'i yn deg (yr hyn a farnent yn anmhosibl iddo ei wneyd), ddiweirdeb ei wraig, a rhagoriaeth ei Fardd. Erbyn hyn rhoddes *Taliesin* ei fryd ar ryddháu ei noddwr, ac er mwyn hyny, efe a aeth i lŷs *Maelgwyn*, lle nad oedd yn adnabyddus; a thrwy ei athrylith ragorach, ac

ychydig ddewiniaeth (fel y credid yn yr oes ofergoelus hono), efe a orchfygodd holl feirdd y llŷs, a arhonai ddiweirdeb ei arglwyddes, gan brofi ei diniweidrwydd, ac a lwyddodd i adferu ei noddwr i'w ryddid, ac i fafr ei dywysog. Yn fuan wedi y pethau hyn, cynghorai Taliesin Elphin i wneyd cyngwystl â'r Brenin fod ganddo farch cyflymach nag un o feirch ei fawrhydi; ar hyn, nodwyd rhedegfa allan ar Forfa Rhianedd, a'r Brenin a ddyg bedwar ar hugain o'i feirch cyflymaf; ond march Elphin a'u gorchfygodd oll. Bernid fod Taliesin wedi arfer dewiniaeth i ryw fesur er sicrhau hyn; a dywedir iddo erchi i'r bachgen a farchogai anifail ei Noddwr, ollwng ei benwisg ar lawr yn y lle y tripiai march y brenin, yr hyn a wnaeth efe. Wedi i'r rhedegfa fyned drosodd, Taliesin a gymarth Elphin i'r lanerch, ac a barodd gloddio yn y ddaear yno, pan ddaethpwyd o hyd i grochan yn llawn o aur. Yna y Bardd a gyfarchai ei Noddwr, gan ddywedyd, "O Elphin! wele dy wobrw y di am fy nghymeryd i o'r gored, ac am fy nwyn i fyny hyd heddyw. Gelwir y llanerch hono hyd heddyw "PYLLBAIR."

Y peth tebycaf oddiwrth y chwedl uchod yw, fod Taliesin wedi peri gwneuthur siglen gelfyddydol mewn rhyw lanerch neillduol ar y rhedegfa, o'r hwn y rhoddid rhybudd neillduol i farchogwr anifail Elphin, i'w ochel; ac odid nad fel hyny ei galluogwyd i orchfygu holl teirch y Brenin, trwy yr hyn yr ennillodd efe swm mawr o arian.

Tua'r flwyddyn 560, bu farw Maelgwyn Gwynedd, o'r Fad Felen, yn Eglwys Llanrhos, ac efe a gladdwyd, medd traddodiad, yn Ynys Seiriol. Mae yr haint angeoul yma yn cael ei chrybwyll yn un o'r TRIOEDD fel y canlyn:—

"Tair haint eohrys Ynys Prydain: Cyntaf, Haint o gelanedd y Gwyddyl a laddwyd yn Manuba, wedi gormesu o honynt ugain mlynedd a naw ar wlad Wynedd. Ail, Haint y Fad felen o Ros, ac achos celaneddau lladdedigion y bu hono; ac od elai neb o fewn eu gwynt, cwmpo 'n farw 'n ddioced a wnelai: a'r Drydydd Haint, y chwys drewllyd achos llygra yr ŷd gan wlybaniaeth yn amser Gormes y Normeinwyr gan William y Bastardd."

Y mae y cyfnod hwn ar hanes ein gwlad a'n cenedl yn un tra thywyll, fel nas gwyddom ddim gyda manylrydd a chywirdeb am brif helyntion ei deyrnasiad ef. Gallem gasglu oddiwrth y crybwylliad uchod yn y Trioedd, fod y Sacsoniaid wedi ymosod arno yn ei gastell, a brwydr ofnadwy wedi cymeryd lle yn y canlyniad, ychydig cyn marwolaeth Maelgwyn; ond nis gwyddom ddim ychwaneg am y gyffafan grybwyllledig na'r hyn a ddywedir uchod. Mae yr henafiaethydd enwog, Wmffrey Llywyd, yn dywedyd fod Cymru yn rhanedig i chwech o daleithiau tua chanol y chweched ganrif, a darfod i gynnrychiolwyr y taleithiau hyny ymgysarfod yn Aberdyfi, ac ethol Maelgwyn i fod yn Benteyrn y genedl, i'w harwain a'u llywyddu yn eu gwrthasafiad i ymosodiadau parhâus y Sacsoniaid; a pha mor anghrefyddol bynag oedd Maelgwyn, y mae yn rhesymol i ni gasglu oddiwrth waith y Cymry yn ei ethol i fod yn benteyrn iddynt ar y fath adeg beryglus, fod ynddo ryw elfenau poblogrwydd anghyffredin.*

Wedi marwolaeth Maelgwyn, efe a ddilynwyd yn y llywodraeth gan ei fab Rhun, yr hwn, fe allai, a adeiladasai lŷs ac amddiffynfa iddo ei hun ar

* Humphrey Lloyd's "Breviary," p. 63. Warrington's "Wales," p. 81.

yr hen orsaf Rufeinaidd *Conovium*, yr hon a alwyd ar ei enw, "Caer Rhun." Yr oedd hwn yn dywysog doeth a dewr; a bu rhyfel maith rhyngddo â thywysogion gogledd Lloegr, y rhai a wnaethent gadgyrchiad i Wynedd, gan ladd a llosgi, ac anrheithio y wlad y ffordd y cerddynt; ac i ddial hyn yr anfonodd Rhun ab Maelgwyn at ei gyfeillion, ac y cynnullodd fyddin gref ynghyd, yr hon a arweiniodd efe i'r Gogledd; ac fel gwobrwy i "Wŷr Arfon," y rhai a fuffrient y flaenyddin yn y cadgyrchiad, caniatâodd Rhun amryw ragorfreintiau, y rhai a grybwyllir ymysg Cyfreithiau Hywel Dda. Fel hyn y mae yr hanes yn adroddedig:—

"Y man y llas Elidyr Mwynfawr, gwr o'r Gogledd; ac wedi ei ladd y daeth gwyr y Gogledd yma i'w ddial. Sef y gwyr a ddaethant yn Dywysogion iddynt, oedd Clydno Eiddun, a Nudd Hael, fab Senyllt; a Mordaf Hael, fab Servan; a Rhydderch Hael, fab Tudawal Tudgylt; a hwy a ddaethant i Arfon. A chan ladd Elidyr yn Aber-Mewedus yn Arfon, y lloegasant Arfon yn eu hymddial. Ac ar hyny y llwyddwys Rhun fab Maelgwyn, a gwyr Gwynedd ganthaw, ac y daethant hyd yn nglan Gweryd yn y Gogledd; ac yno y buont yn hir yn ymryson pwy a ddylai fyned yn y blaen trwy afon Weryd: am hyny yr anfonodd Rhun gennad hyn yn Ngwynedd i wybod pwy bloedd y blaen. Rhai a ddywaid fod y flaenoriaeth yn hanu o Maeldaf Henaf, pendeig Penardd, ac a'i barnasant i Wyr Arfon. Iorwerth fab Madawc, drwy awdurdod y cyfarwyddyd a'i cadarnhâ o Idno Hen i wŷr y pyst pendda: ac yna ydd aethant Gwyr Arfon yn y blaen, ac y buant da yno. Ac y cant Taliessin iddynt:—

'Cigleu wrth wres eu llafnan,
Gan Run yn rhuthr byddinau,
Gwyr Arfon, ruddion, yn ry dyheu.'

Ac yna, gan gyhyd yr arosasant yn y cadgyrchiad, y cysgodd eu gwragedd gyda'u caethwasion; ac am hyny y rhoddes Rhun iddynt bedair braint ar ddeg,—

Cymtaf: Blaenoriaeth ar y wraig; sef blaenoriaeth yn newisiad y meirch, a'i foch, a'i wyddau: a chàr a dau eidion a fyno o'i wartheg, a lloaid y càr o'r dodrefn a fynno.

Yr ail yw, bod yn flaen fyddin Gwynedd yn eu brwydrau.

Trydydd yw, na thal draul ei anifail.

Pedwerydd yw, pennodi ffiniau y rhandiroedd a gyfarfyddant ar Arfon.

Pummed yw, o bydd ymryson rhwng dwy faenol, o'r naw maenol sydd yn Arfon, y saith a derfynant ymryson y ddwy, heb gymhorth neb o le arall.

Chweched yw, na bydd rhingyll ynddi.

Seithfed, bod rhyddid pysgotta ar y tair afon sydd ynddi yn gyffredin.

Wythfed,

Nawfed, na byddont yn rhwym i ddefnyddio y felin nesaf.

Deffed, nad yfont lledcawd, (neu ōan gyfyngiad.)

Unfed ar ddeg, nad oes dal ar eu cyngawsedd cyn y trydydd gair.

Deuddegfed, na chyfoder tal arnynt tuag at feirch gwestayon, na gwyr ar gylch.

Trydydd ar ddeg, na orfoder hwy i fyned i letty arall o'r neuadd.

Pedwerydd ar ddeg, pwy bynnag a ymsefydlo ynddi un dydd a blwyddyn, o bydd gwr anilloeddawe (goludog) ei fod yn un fraint a gwr o'r wlad.

Ac o bydd a amheuo un o'r breinniau hyny, clas Bangor, a rhai Beuno a'u ceidw.*

Crybwyllir enw Rhun yn barchus fwy nag unwaith yn Nhrioedd ynys Prydain:—

"Tri Gwyndeyrn Ynys Prydain; Rhun ab Maelgwyn, Owain ab Urien, a Rhuawn Befr ab Dewrath Wledig."†

Y cyfenw *Gwyndeyrn*, a arwyddai dywysogion gwynfydedig.

"Tri Aurhualogton Ynys Prydain, Rhiwallon wallt Banhadlen, a Rhun mab Maelgwyn, a Chadwaladr Fendigaid; sef y rhodded iddynt wisgo hualau euraidd am et

* "Cambrian Register," Vol. II., pp. 308—311. † "Myv. Arch.," Vol. II., p. 62.

breichiau, ac am eu gliniau, ac am eu gyddfau; ac ar hyny y rhodded braint teyrnedd ymhob gwlad a chyfoeth yn ynys Prydain."*

Ond, ni oddef ffiniau y Ddarlith hon i mi fanylu ar hanes ein cenedl fel hyn, ond yn unig grybwyll rhai o'r prif ddichweiniau a ddygant berthynas arbenig â'r cynydogaethau hyn; ac er fod tywysogion Gwynedd yn cyfanneddu yn Nheganwy yn achlysurol fel un o'u llysoedd breuinol, hyd y flwyddyn 808, neu 810, yn nheyrnasiad Cynan Tindaethwy, pan ddinystriwyd y lle gan fellt, eto nid oes unrhyw gofion cysylltiedig â'r lle ar gael, yn gofyn i ni ymdroi i'w crybwyll.

Rhodri Fawr, fab Merfyn Frych, o Essyllt, unig ferch Cynan Tindaethwy, a orchfygodd fyddin fawr o'r Daniaid, gan ladd eu tywysog, Gormund, yn y flwyddyn 855; ac yn y flwyddyn 872, efe a orchfygodd y Daniaid â lladdfa fawr mewn dwy frwydr, sef yn Bangoleu a Manegid, yn Môn; ond yn y flwyddyn 877, y Saeson a oresgynasant Fôn â byddin gref; a Rhodri, yn ol ei ddewrder arferol, er ei fod erbyn hyn yn hen ŵr, a brysuodd i ymladd â hwy; ac yn y frwydr hono efe a laddwyd, ac amryw o bendefigion Cymru a gwmpasant gydag ef, ymysg eraill; ei frawd Gwriad, a Gweirydd, fab Owain Morganwg.

Gadawodd Rhodri dri o feibion ar ei ol, sef Anarawd, Cadell, a Merfyn, rhwng y rhai y rhanodd efe Gymru yn dair talaeth, sef Gwynedd, Powys, a Deheubarth. Anarawd a gafodd Wynedd, ac efe a breswylia i yn hen brif lys ei dad, yn Aberffraw.

Tua'r pryd yma, yr oedd Cymry Ystrad Clwyd, a Chumberland, yn cael eu blino yn dost gan ruthriadau parhâus y Daniaid, y Sacsoniaid, a'r Ygotiaid, fel yr oedd raid iddynt naill ai rhoddi i fyny eu hannibyniaeth, neu adael eu gwlad enedigol i ymofyn am drigle fwy diogel a heddychol mewn rhyw wlad arall; felly daeth nifer fawr o honynt drosodd i Wynedd, yn nechreu teyrnasiad Anarawd, yr hwn gan dosturio wrthynt, a ganiatâodd yr holl wlad rhwng afon Gonwy ac afon Gaer iddynt, os gallent ymlid ymaith y Sacsoniaid, y rhai a drawsfeddiannasant y wlad hono yn ddiweddar; a hwythau yn falch o'r cynnyg, ni buont yn hir cyn meddiannu y wlad, yr hon hefyd a fwynhasant mewn heddwch am oddeutu tair blynedd. Ond o'r diwedd, Edryd Wallt-hir, Duc y Mersiaid, yr hwn oedd yn chwerau ei ysbryd o herwydd colli y wlad yna, a adwaenir yn ein hoes ni dan yr enw Swyddi Fflint a Dinbych, a ymgynghreiriodd â'r Daniaid i'w gynnorthwyo i'w hail ennill. Yn y cyfamser, y Cymry Gogleddol, y rhai a ymsefydlasant yn y wlad, a yrasant eu hanifeiliaid, eu gwragedd a'u plant, dros Gonwy, fel y byddent yn ddiogel o gyrhaedd y gelyn; ac Anarawd, wedi crynhoi ei luoedd, a'u cyfarfu ar Gymryd, yn agos i'r dref hon; ac wedi brwydr waedlyd, efe a lwyr orthrechodd y Saeson, ac wedi ymlid y ffœdigion hyd Mersia, ac anrheithio eu cyffindiroedd, efe a ddychwelodd adref âg yspail fawr ganddo; ac felly cafodd y Cymry Gogleddol ddychwelyd yn ol i'w tiriogaethau yn fuan, y rhai a fwynhasant mewn heddwch am flynyddoedd lawer yn y canlyniad i'r fuddugoliaeth hon. A rhoddes Anarawd amryw diroedd at wasanaeth eglwysi Bangor, a Chlynnog Fawr yn Arfon, o ddiolchgarwch i Dduw am y fuddugoliaeth, yr hon a alwai "Dial Rhodri."

Mae yn ymddangos fod Maelgwyn Gwynedd wedi adeiladu amddiffynfa

* "*Myv. Arch.*," Vol. II., p. 62.

ar yr ochr hon i'r afon yn y chweched ganrif, yr hon a elwid "Caer Cyffin," ac mae yn debyg mai dyna a fu dechreuad tref Aber Conwy; ac mewn amser y mae yn ymddangos ddarfod i Llewelyn ab Iorwerth, neu Lewelyn Fawr, adeiladu Monachlog yma i'r Bernardiaid, neu y Myneich Gwynion; a thrwy ei freinlen iddi, efe a'i gwaddolodd â llawer o diroedd yn Môn, Arfon, a Dinbych; ac heblaw hyny, caniatëid iddynt amryw ragorfreintiau gwerthfawr. Fe'u rhyddheid yn barhâus oddiwrth y rhwymedigaeth i gadw gwŷr, meirch, cŵn, neu hebogiaid at wasanaeth y tywysog, nac i'w roes-awi ef, nag unrhyw ŵr llëyg arall, ar gyfrif defod; caniatëid iddynt ryddid i ddewis eu Abbadau eu hunain, heb unrhyw ymyriad o eiddo y tywysog nag unrhyw ŵr llëyg arall; yr oedd pob llongddrylliadau a gymerent le ar eu tiroedd i fod yn eiddo iddynt hwy, ac os byddai i rai o'u llongau hwy fyned yn ddrylliau ar diroedd y tywysog, gallent honi eu hadferiad; yr oeddynt hwy a'u gweinidogion, a pha beth bynag a brynid neu a werthid ganddynt, i fod yn rhydd oddiwrth bob tollau; ac yr oeddynt hwy a'r eidd-ynt i gael eu trosglwyddo yn rhad dros afonydd Menai, Conwy, Abermaw, ac Aberdyfi; nid oeddynt i gael eu dwyn i brawf am unrhyw drosedd yn llysoedd y tywysog, ond yn ol eu rheolau eu hunain; nid oeddynt i gael eu blino am dderbyn neb un i'w Mynachlog; ac os byddai i unrhyw fynach fenthyca arian heb gydsyniad yr Abbad, na byddai y Fonachlog yn atebol am danynt.

Y breiniau uchod, ac amryw eraill, a sicrhawyd iddynt mewn breinlen a amserwyd yn Aberconwy, Ionawr, 1198, ac a lawnodwyd gan Iorwerth Gam, Gwyn ab Ednewain y Don, ei gaplan, a Madoc ab Cadur. Adeiladasid y Fonachlog yn y fl. 1185. Nyni a allwn gasglu fod crefydd-dŷ a fwynhâi y fath fanteision, yn cynnwys amryw ddyinion enwog am eu dysgeidiaeth; a pherthynai i'r Fynachlog yma lyfrgell werthfawr; ac yr oedd pob peth pwysig a gymerai le yn Nghymru, wedi amser Howell Dda, yn cael ei gofrestru a'i roddi i gadw yn Mynachlogydd Aber Conwy, ac Ystradfflur yn y Deheudir; a phob trydedd flwyddyn cymherid cofrestrau y ddwy Fynachlog yn ofalus gan y beirdd perthynol i'r dda'u grefydd-dŷ, pan elent ar eu cych- oedd clera; a pharhâodd yr arfer yma hyd oddeutu y fl. 1270, ychydig cyn marw Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf y Cymry, yr hwn a laddwyd yn Muallt.

Anrhydeddwyd y Fynachlog hon trwy ei gwneyd yn gladdfa amryw o urddasolion Cymru, megys Gruffydd ab Cynan ab Owen Gwynedd, yr hwn a fu farw yn y fl. 1200, ac a gladdwyd yma mewn penwisg mynach, yr hyn oedd ddull o gladdu a drosglwyddasid yn ddiweddar o Loegr, ag oedd mewn cryn arferiad ymysg y graddau uchaf, y rhai oeddynt yn ddigon ofergoelus i gredu y buasai y cwccwll mynachaid yn llawer o gymhorth iddynt gyrrhaedd a mwynhâu dedwyddwch mewn byd arall. Yn wir yr oedd defodau coelgrefyddol eglwys Rhufain yn dechreu ennill tir yn brysur yn Nghymru tua diwedd y ddeuddegfed ganrif, gan lygru yr hen Eglwys Gymreig. Yn y flwyddyn 1230, bu farw Llewelyn ab Maelgwyn ab Owain Gwynedd, ac efe a gladdwyd yn Mynachlog Aber Conwy. Dafydd, mab i Lywelyn Fawr, a fu farw yn ei lŷs yn Aber ac a gladdwyd yn myn- achlog Aberconwy, yn y flwyddyn 1246. Yn agos i'r un adeg y bu farw Howel, fab Gruffydd ab Cynan ab Owain Gwynedd, ac yntau a gladdwyd yma. Gruffydd, mab i'r Tywysog Llewelyn o'i wraig gyntaf Tangwystl, a roisid i fyny yn garcharor i Frenin Lloegr, gan ei hanner brawd, Dafydd

mab Llywelyn o Joanna, ferch y Brenin John. Hwn wrth geisio dianc o'r Tŵr Gwyn, a gwmpodd, ac a dorodd ei wddf; ond llwyddodd Abbadau Ystradflur ac Aberconwy i gael gan y brenin roddi ei gorff i fyny iddynt hwy, a hwy a'i dygasant yn barchus i Aberconwy, lle ei claddwyd gyda rhwysg tywysogaidd, yn y flwyddyn 1248. Tuag wyth mlynedd cyn hyny y buasai farw ei dad Llewelyn Fawr, yn llawn o ddyddiau, ac yn fawr ei anrhydedd. Yma hefyd y claddwyd y tywysog Dafydd ab Llywelyn, yr hwn a fu farw o dŵr calcn yn ei lŷs yn Aber, am nas gallai adennill castell Dyganwy oddiar y gwarchodlu cryf a adawsai Brenin Lloegr i'w gadw.

Ailadeiladwyd castell Dyganwy gan Huw, Iarll Caer, tua'r flwyddyn 1096, ar ei gadgyddiad i Ynys Fôn. Fe allai ei fod ef wedi adeiladu castell yn y lle hwn unwaith o'r blaen, a phenodi Robert o Ruddlan yn gwnstabl y castell; ond ar y 3ydd o Orphenaf, 1088, daeth Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, i afon Conwy gyda thair o longau, a chan laniau islaw y castell ar ben gorllanw, efe a adawodd ei longau ar y lân ar enciliad y *tide*, ac a anrheithiodd y Creuddyn, gan yru yspail fawr o ddynion ac anifeiliaid tua'i longau. Robert, wedi ei gyffroi gan y fath eofndra a hynyna, a ddisgynodd o'i amddiffynfa, yn cael ei ddilyn gan un milwr yn unig, yr hwn a elwid *Osbern de Orgar*; ond y Cymry a ruthrasant arno, ac a'i lladdasant, ac wedi tori ei ben, hwy a'i dodasant ar flaen eu hwylybren, ac a hwyliasant ymaith yn orfoleddus. Ymhen yspaid maith ar ol y cyfnod dan sylw, darfu i Llywelyn Fawr lwyr ddystrywio Castell Deganwy, ac yn fuan wedi hyny fe'i hail adeiladwyd gan Randle Blondevil, Iarll Caer; a Llywelyn yn fuan a wnaeth ruthrgyrch i diroedd yr Iarll, gan eu hanrheithio, a dwyn yspail fawr i'w wlad ar ei ddychweliad. O'r diwedd, y Brenin Ioan, wrth gael ei hir gymbhell gan arglwyddi y cyffindiroedd i roddi rhyw gynnorthwy effeithiol iddynt, a gyfododd fyddin fawr, ac a enfonodd i wysio yr holl bendefigion Cymreig oeddynt mewn cynghrair ág ef, sef Howel ab Gruffydd ab Cynan ab Owen Gwynedd; Madog ab Gruffydd Maelor, Arglwydd Bromfield, y Waun, ac Iâl; Meredydd ab Rhotbert, Arglwydd Cedewain; Gwenwynwyn, Arglwydd Powys; a Maelgwn a Rhys, meibion yr Arglwydd Rhys, arglwyddi y Deheubarth, i ddwyn eu holl allu i'r maes yn gynnorthwy iddo.

Daeth y Brenin Ioan, yn blaenori y fyddin anferth hon hyd Gaerlleon, gan lawn fwriadu cosbi eofndra Llywelyn yn llym; ond Llywelyn yn y cyfamser a anfonai orchymyn i'r rhai a llyneit yn eu ffyddlondeb iddo ef, yn Môn, Dinbych, a Ffint, i fudo eu da a'u meddiannau i fylchau yr Eryri. Yna arweiniodd y brenin ei fyddin gyda glân y Môr, i Ruddlan i ddechreu, ac yna hyd y Creuddyn, gan drefnu ei wersyll gerllaw castell Deganwy; ond, gan nas gallai y brenin gael arlywion i'w fyddin oddieithr a ddygid iddo o Loegr, a bod Llywelyn wedi arwain ei fyddin o'r tu ol iddo, ac felly dori y cymundeb rhyngddo â Lloegr, a bod y Cymry yn meddiannu yr holl nentydd o'i amgylch, fel y lladdent yn y fan neb un o wŷr y brenin a grwydrent oddiwrth gorff y fyddin oedd yn y gwersyll, fe'i gwesgid i gyfyngder dirfawr, fel y bu raid i wŷr y brenin ymborthi ar gnawd eu meirch; ac o'r diwedd nid oedd gwaddo ddim i'w wneyd ond dychwelyd i'w wlad ei hun yn warthus gyda'r gweddill o'i fyddin, a gadael y gorchwyl o gladdu y lliaws meirw a adawsai ar ei ol, i'r Tywysog Llywelyn.†

Yn mis Awst canlynol, y brenin wedi cryfhâu ei fyddin, ac yn llawn o

chwerwder am afwyddiant ei gadgyrchiad blaenorol, a ddychwelodd i wneyd ail ymosodiad ar Wynedd. Efe a gynnullai y fyddin hon ynghyd, gan ymbarotōi i'r cadgyrchiad yn nghastell John Fitz Alan, yn Nghroes Oswallt; ac efe a arweiniodd ei fyddin ar draws y wlad tuag afon Gonwy, gan ladd y trigolion, yspeilio eu meddiannau, a llosgi eu hanneddau y ffordd y cerddai; ac y mae yn ymddangos ddarod i'r fyddin hon groesi yr afon yn rhywle tua Chaerhun. Oddiwrth y crybwyllion byrion a gawn ni am y cadgyrchiad yma, gallwn feddwl i'r brenin a'i fyddin groesi y mynydd hyd Aber, lle y gweryllodd; ac oddiyno efe a anfonodd ran o'r fyddin ymlaen, y rhai a losgasant *Fawr*, ac a gymerasant Robert o'r Mwythig, yr hwn oedd yn esgob yno a'r pryd, yn garcharor; ond prynwyd yr esgob wedi hyny am ddau gant o hebogiaid. Mae yn debyg fod Llewelyn a'i wŷr, ynghyd a'r rhan fwyaf o bobl y wlad, a'u meddiannau, yn llechu yn rhai o gymoedd y mynyddoedd y pryd hwn; ac oddiyno, efe a anfonodd ei wraig Joanna, i eiriol ar ei thad dros ei phriod, ac felly yr ymheddychodd y brenin a'r tywysog unwaith eto; a'r tywysog a roddodd tuag wyth ar hugain o bendefigion ieuainc Cymru yn wyslon i'r brenin. Ond gan i'r brenin mewn rhyw lewyg o nwydwylltedd, beri llofruddio y boneddion ieuainc diniwed yn Nottingham, Llywelyn a gyfodai ei fyddin allan i ddial y fath greulondeb annynol; ac o fewn y flwyddyn 1214, efe a gymerth yr holl gestyll oeddynt yn meddiant y brenin rhwng Conwy a'r Dyfrdwy, ac yn eu mysg yr oedd cestyll cryfion Rhuddlan a Dyganwy, ac fel hyn gwaredodd holl Wynedd unwaith eto oddiwrth orthrymder blin y gwarchodluoedd Seisonig.

Yr amgylchiad nesaf a grybwyllwn fydd cadgyrchiad Harri III., a'i wersylliad ger Castell Deganwy, yn y flwyddyn 1245. Ychydig cyn hyn, yr oedd Harri, ar farwolaeth Gruffydd ab Llywelyn, gwir etifedd gorsedd Gwynedd, wedi rhoddi i'w fab henaf, Edward, y teitl o Dywysog Cymru; ar hyn Dafydd ab Llywelyn a apeliodd at ei ddeiliaid i'w gefnogi, gan ddadblygu hen luman y genedl; a Harri wedi penderfynu llwyr ddarostwng Cymru, a gasglodd holl nerth Lloegr, ac a arweiniodd ei fyddin anferth i'r Creuddyn, gan eu gweryllu oddeutu Deganwy; ond, er cryfed oedd ei fyddin, nis meiddiai groesi y Conwy; ac felly bu ei fyddin tua thri mis yn gorwedd yno, gan wersyllu oddiallan i'r castell, am nas gellid eu cynnwys oddifewn, a chan fod y milwyr wedi eu gwisgo yn ysgeifn, ac heb bebyll ond rhai lliain ganddynt, dyoddefent yn ddirfawr oddiwrth erwinder yr hin. Blinid hwy yn ddirfawr hefyd gan ruthriadau diball y Cymry arnynt, trwy yr hyn eu lleiheid beunydd; y Cymry hefyd a gymerasant feddiant o'r wlad o'u hól, fel y torid ymaith bob cymundeb rhyngddynt â Lloegr, ac felly darostyngid byddin y brenin i gyflwr o newyn. Mae Matthew Paris wedi cronicleo llythyr a anfonai pendefig o'r gweryll at gyfaill yn Lloegr, yr hwn a fwria olwg dda ar gyflwr y fyddin freninol ar y pryd:—

“ Mae ein harglwydd, y Brenin, yn oedi ei arosiad yn Negannwy, gan gadarnhau yr amddiffynfa, tra yr ydym ni yn gorwedd o'i hamgylch yn ein pebyll, mewn gwyliadwriaethau, ymprydiau, a gweddiau; mewn anwyd a noethni. Yr ydym yn gwylio rhag y Cymry, y rhai ni'n harbedant, hyd yn nod yn y nos. Yr ydym yn ymprydio am fod arlwyon mor brin, fel y mae torth fyrlling yn costio pum' ceiniog. Yr ydym yn gweddio am i ni gael dychwelyd adref eto yn ddiogel. Y mae braich fechan o fôr, megys porthladd, yn rhedeg i law y castell hwn, i'r hwn y mae llongau o'r *Werddon* yn dyfod yn aml, gan ddwyn ymborth i ni. Y mae yn ygaru rhyngom

A'r Eryri, lle mae y Cymry; a phan y mae y llanw i fewn, y mae tuag ergyd bwa croes ar ei draws. Ar ddydd Llun cyn dydd gwyl Mihangel, dygwyddodd i long o'r Werddon yn dwyn ymborth i ni, ddyfod i'r porthladd hwn, a thrwy esgeulusdra yn ei llywio, aeth ar y traeth ar yr ochr Gymreig, gyferbyn â'n gwersyll, ac yno y gorwedda i dir sych ar y trai. Wrth gwrs, ni bu y Cymry yn esgeulus i ymosod arni; a ninnau yn canfod hyny, a anfonasom mewn badau dri chant o'n Cymry o'r cyffndiroedd, a Sir y Mwythig drosodd, ynghyd a saethyddion a marchogion arfog, i'w hamddiffyn. Ar hyny, y Cymry a ffoisant i'r coedwigoedd a'r mynyddoedd yn ddi-oed, a'n gwŷr ninnau a'u hymldiasant am rai milldroedd, gan glwyfo a lladd llawer; ac wrth ddychwelyd, yn falch o'u llwyddiant, ac yn awyddus i wneyd cymaint o ddrwg ar a allent ar ôl y gelyn, hwy a yspeiliasant Fynachlog Aber Conwy o'i llyfrau a'i chymunadau, ac a losgasant ran o honi. Yn y cyfamser, y Cymry wedi ymgasglu yn lliosog, a'ruthrasant yn ddisymwth ar ein gwŷr ni, fel yr oeddnyt yn dychwelyd tua'r llong yn llwythog gan yspail, gan eu hymlid, ac archolli, a lladd llawer o honnyt; a rhai, yn hytrach na syrthio i'w dwylaw, a ymdafasant i'r porthladd, lle y darfu am danynt; a rhai a gymerwyd yn garharorion ganddynt, y rhai y bwriadent eu cyfnewid am yr eiddynt eu hunain a syrthiasent i'n dwylaw ni; ond, pan ddeallasant ein bod ni wedi rhoddi rhai o'u carharorion penderfigaidd hwy i farwolaeth, hwy a grogasant, ie, ac a ddarniasant rai o'u carharion, gan luchio yr ygerbyddau darnedig i'r afon. Nyni a gollasom amryw o'n gwŷr yn yr ymrysonfa yma, yn benaf o'r rhai oeddnyt dan lywyddiaeth Rhisiart, Larll Cernyw, megys Syr Alan Buscel, Syr Adam de Maio, Syr Geoffry Esturmy, a Gwasgwyniad o'r enw Raimond, a thua chant o wŷr eraill, heblaw y rhai a foddwyd. Yn y cyfamser, amddiffynai Syr Walter Bisset a'i wŷr y llong yn bybyr hyd ganol nos, pan ddaeth y llanw i fewn, ac y bu raid i'r ymosodwyr encilio; a ninnau a anfonasom fadau drosodd i gyrohu ein gwŷr ymaith. Y boreu drannoeth pan dreiodd y dwfr oddian y llong, deuai y Cymry i lawr ar frya, gan feddwl cael ein gwŷr yn y llong; ond er iddynt gael eu siomi yn hyny, hwy a ddygasant ymaith holl lwyth y llong o'r bron, gan gynnwys triugain casgiad o win, ac arlwyon eraill; ac yna, wedi rhoddi y llong ar dân, hwy a ymwasgarasant. Fel hyn yr ydym yn gwersyllu mewn trueni a chyfyngder mawr o eisieu anghenrheidiau natur, gan fod yn agored i beryglon mawrion a mynych, ac mewn ofn gwastadol rhag rhuthriadau disymwth ac annysgwyliadwy ein gelymion. Yr ydym ni yn ymosod ar y Cymry yn aml, ac mewn un ymrysonfa dygasom gant o anifeiliaid oddiwrthynt, y rhai a ddygasom i'r gwersyll yn llawen; canys yr oedd y prinder yn ein plith mor fawr y pryd hwnw, fel nad oedd ond un *hogthead* o win yn yr holl fyddin; a bod bwsiel o yd yn gwerthu am ugain swllt, ych pasgedig am dri neu bedwar marc, ac iâr am wyth ceiniog; a'r canlyniad oedd fod llawer iawn o ddynion a cheffylan yn meirw o ddiffyg ymborth."

Dan yr amgylchiadau hyn, bu raid i'r Brenin Harri ddychwelyd heb lwyddo yn un o'i amcanion, nac ennill unrhyw fantais; a phan gyrhaeddodd efe y brifddinas o'r cadgyrchiad colledus, efe a gyfododd ryfeldreth drom ar ei ddeiliaid, sef deugain swllt y darian, neu *ysgwydog*, trwy Loegr, dan yr enw "Ysgwydawg Deganwy."

Yn y flwyddyn 1262, darfu i Lywelyn ab Gruffydd, yr hwn erbyn hyny oedd wedi meddiannu gorsedd Gwynedd, ymosod ar gastell Deganwy, yr hwn a gymerodd ac a ddystrywiodd efe. Dywed rhai Haneswyr fod Edward, Tywysog Cymry, wedi bod ar ymweliad yno y flwyddyn o'r blaen, ac mai yr hawliad yma o'u gwlad a wnelid gan fab henaf y Brenin Harri, a gythruddodd Llywelyn a'i fonedd, fel y penderfynasant ddystrywio yr holl amddiffinyddol Seisonig oeddynt drwy y berfeddwlad, fel y gelwid Siroedd Ffaint a Dinbych y pryd hyny. Yr oedd Harri yntau yn rhoddi pwys mawr ar gadw meddiant o Ddeganwy, am fod yn hawdd ei gyflenwi â milwyr ac arlwyon o'r môr, a'i fod yn fanteisiol i wlyio ar ysgogiadau y Cymry; ac am hyny efe a anfonodd ei fab Edward, a byddin gref dan ei lywyddiaeth, i ail feddiannu Deganwy, ac i ddial ar Lywelyn; ond erbyn i'r Tywysog Seisonig a'i fyddiu gyrhaedd at adfeilion Deganwy, yr oedd Llywelyn a'i wŷr wedi encilio dros yr afon, i'w gorsafau yn mynyddoedd

Eryri, lle nis beiddiai Edward eu dilyn ar hyn o bryd; a chan gymeryd arno ei fod wedi cael gorchymyn i ddychwelyd at ei dad ar ryw achos o bwys, efe a gyfododd y gwerysill, ac a gefnodd ar Gymru, heb ennill nemawr o anrhydedd trwy y cadgyrchiad.

Yr amgylchiad nesaf a grybwyllwn yw cadgyrchiad y brenin Edward yn y flwyddyn 1282, yr hwn a ddeuai i Wynedd y tro hwn, a byddin o chwech ugain mil o wŷr dan ei dywysiad; ac wedi cymeryd castell Caergwrle ar ei ffordd, efe a gyrchai rhyngddo a Rhuddlan, lle yr oedd Llywelyn yn gwarchae ar y castell; ond pan ddeallodd efe fod byddin y brenin yn nesáu, efe a gyfododd y gwarchae, ac a encilliodd yn araf tua Eryri, a'r fyddin freninol yn dilyn ar ei ol; ond yn rhywle tuag afon Conwy, trôdd Llywelyn a'i ddyrnaid gwroniaid ac a ruthrasant ar aden o'r fyddin freninol, gan gymeryd pedwar ar ddeg o'u lhumanau, ac Arglwyddi Audley, Clifford, mab William de Valence, Richard de Argenton, ac amryw eraill o brif swyddogion y fyddin freninol, a adawyd yn lladdedig ar y maes; a'r brenin ei hunan, yn warthus a brawychus, a farnodd mai doethach oedd iddo ddychwelyd gyda gweddill ei fyddin i ryw orsaf nes i Lloegr; ac felly efe a ddychwelledd i Gastell Caergwrle.

Yn fuan wedi hyn, cyhoeddodd Eglwys Rhufain ei hanathema yn erbyn y Cymry, gan gyhoeddi Llywelyn a'i gefnogwyr yn ysgymunedig; ac Edward, yn fwy penderfynol nag erioed i oresgyn Gwynedd, a gynnallasai fyddin gref o bob cŵr o'i deyrnas, a chan anfon un ran o honi ar hyd y môr i Ynys Fôn, yr hon a oresgynwyd yn rhwydd, efe a dywysai y rhan arall ar hyd y tir, gan groesi yr afon Conwy ar bont o fadau, ac yna anfonai i erchi i'r fyddin oedd yn Môn wneyd pont gyffelyb o fadau i groesi y Menai, fel y gallent wasgu ar wynt Llywelyn o'r ddautu; ond, fel yr oedd y fyddin freninol yn croesi y Menai ar y bont grybwyllledig tua Moel y Don, rhuthrai y Cymry arnynt gyda'r fath bybyrwrch, fel y lladdwyd pymtheg o Farchogion, deuddeg ar hugain o Ysweiniaid, a thros fil o filwyr cyffredin yn y fan; a'r gweddill o'r Saeson a lanwyd â braw gan wrhydri dihafal eu gelynyon, ac yr oedd amryw o honynt yn barod i gredu prophwydoliaethau Myrddin, a barnu bod rhyw nodedd oruwchnaturiol ar y Cymry o fewn Eryri.

Dywedir fod Llewelyn yn treulio prydawn gydag amryw o'i gyfeillion yn Aber, yn fuan ar ol y fuddugoliaeth uchod, ac iddo yn ngrym ei orfoledd gyfansoddi y pennill digrif a ganlyn,—

“Mae 'n Don, llawer bron, llu 'r brenin—heddyw
Er hawdded ein chwerthin,
Llawer Sais leu bais libin,
A'r grô yn dô ar ei din.”

Ond, och! mynydyn o dywyniad haul ar fin ei fachludiad oedd y gorfolodd yma; canys Llywelyn, gan gyfrif fod Gwynedd yn awr yn ddiogel hyd y Gwanwyn canlynol, a adawodd ei frawd Dafydd i lywodraethu yn Eryri, ac a aeth ar frys i'r Deheubarth, i wrthladd y fyddin Seisonig dan Iarll Caerliew a Syr Edmunt Mortimer; ac mewn glyn, yn agos i Bont Orewyn ar Wy, gerllaw Llanfair yn Muallt, trwy frad a fialdsder, llofruddiwyd y gwron a wrthsafasai holl allu Lloegr ar faes gyhyd o flynyddoedd; torwyd ei ben, ac anfonwyd ef, ynghyd a'r holl bapyrâu a gawsid ar ei ber-son, i'r brenin Edward, yr hwn oedd yn dysgwyl am dano yn Mynachlog Conwy, ac a'i hanfonodd yn orfoleddus oddiyno i Lundain, gyda gorchy-

myn i'w ddodi ar bawl ar y rhan uchaf o'r Tŵr Gwyn. Dyma fu diwedd y Tywysog urddasol hwn, yn agos i ddiwedd Rhagfyr, 1282, yn 48 mlwydd oed, ac wedi teyrnasu 36 mlynedd; a thua 576 mlynedd i'r dydd hwn, y cyfiwynid ei ben, a'i gyfrin sêl, i'r brenin Edward ar y llanerch hon. Mae coffadwriaeth Llywelyn yn anrhydeddus, a theilynga ei gystadlu âg un o enwogion penaf Groeg a Rhufain, am fawrfrydigedd meddwl yn cyfarfod peryglon, a doethineb a dewrder i fyned drwyddynt. Efe oedd yr unig dywysog yn ei oes a deyrnasai ar genedl rydd; yr unig faner ar wyneb y ddaear a arddelwai ryddid y bobl, ac a ddaliai allan yr amnaid lleiaf o galonddid i genedlodd gorthrymedig Ewrop i obeithio am waredigaeth oddi tan draed haiarnedd y bendefigaeth oedd y Ddraig Goch yn mynyddoedd Eryri. Achos rhyddid ac annibyniaeth oedd achos y Cymry, ac am hyny yr oedd yn achos dynoliaeth. Dros hyn yr ymladdasant dan amgylchiadau mor anfantesiol dros gynifer o ganrifoedd; a phan gwmpasant, ni ddisgynasant i gyflwr o gaethwasiaeth, ond yn hytrach o ymddibyniad, a'r cyfryw ymddibyniad ag a ymddangosai yn debycach i fod yn effaith uniad na gorchfygiad; ac ymhen tua dau can' mlynedd wedi crogi pen Llywelyn mewn gwawd yn Llundain, y gwisgid coron Prydain mewn rhwysg-fawredd gan un o'â olynwyr Tuduraidd yn yr un ddinas! Cawn y llinellau teimladau a ganlyn yn ei Farwnad gan "Gruffydd ap yr Ynad Coch."

"Llawer deigr hylithr yn hwyliaw ar rudd,
 Llawer ystlys rhudd a rhwyg arnaw,
 Llawer gwaed am draed wedi ymdreiddiaw,
 Llawer gweddw a gwaedd y am danaw,
 Llawer meddwl trwm yn tomrwyaw,
 Llawer mab heb dad gwedi ei adaw,
 Llawer Hendref faith, wedi llwybr goddaith,
 A llawer diffaith drwy anrhaith draw:
 Llawer llef druan fal ban fu'r Gamlan
 * * * Oerfelawg calon dan fron o fraw
 Rewydd fel orinwydd y sy'n orinaw.
 Pam na welch chwi hynt y gwynt a'r gwlaw,
 Pam na welch chwi 'r deri yn ymdaraw?
 Pam na welch chwi 'r mor yn merwinaw 'r tir?
 Pam na welch chwi 'r haul yn hwyliaw 'r awyr?
 Pam na welch chwi 'r sŵr wedi syrthiaw?
 Pam na chredwch chwi Dduw ddyniadon ynfyd?
 Pam na welch chwi 'r byd wedi bydiaw?
 Och! hyd attat Dduw na ddaw—môr dros dir
 Pa beth y'n gedir i ohiriaw?
 Nid oes le y cyroher rhag carohar braw
 Nid oes le y triger, Och o'r trigaw.
 Nid oes na chyngor—na chlo nag egor
 Unffordd i esgor brwyngynghor braw.
 * * * Pob cantref, pob tref y'nt yn treiddiaw,
 Pob tylwyth, pob llwyth y sy'n llithraw,
 Pob gwan, pob cadarn cadwedd o'i law,
 Pob mab yn ei gryd y sy'n udaw.
 Bychan lles oedd i'm am fy nhwyllaw,
 Gadael pen arnaf heb ben arnaw.
 * * * Pen dragon, pen draig oedd arnaw,
 Pen llu; deg dygn o fraw i'r byd
 Bod pawl haiarn drwyddaw."

Wedi marwolaeth y Tywysog Llywelyn, cymerai ei frawd Dafydd y llywodraeth arno ei hunan; ond nid yw yn ymddangos iddo gael cefnogaeth

galonog gan y Cymry; ac fel yr oedd efe yn llechu a nifer o fonedd Gwynedd gydag ef yn mynyddoedd Arfon, heb wybod pa beth i'w wneyd yn eu cyfyngder a'u galar, dygwyd hysbysiad i'r brenin eu bod mewn cwm, rhwng dwy goedwig, yna efe a archodd i'r Iarll Warwick gymeryd myntai o feirchfilwyr, ynghyd â nifer o saethyddion, ac ymdrechu i'w cymeryd yn y nos, yr hwn a fu yn ffyddlawn i gario allan orchymynion ei feistr yn y modd mwyaf effeithiol. Pan ganfu y Cymry eu bod wedi eu cylchynu gan eu gelynion arfog mor annysgwiliadwy, hwy a blanasant eu gwaewffyn yn y ddaear o amgylch y gwersyll, a'u blaenau at y gelyn, gan ymdrechu felly i gadw y meirch draw; ond yr oedd Warwick wedi cyflêu saethydd â bwa croes rhwng dau farch, y rhai â'u hergydion grymus a dorasant adwyau yn rhengau y picellwyr yn fuan, fel y gallai y marchogion ruthro ar y gweddill yn rhwydd, a'u dinystrio â lladdfa fawr, y fath na chawsai y Cymry o'r blaen. Fe allai mai yn Nant Llanberis, yn nghymydogaeith Castell Dolbadarn, y bu yr alanas yma; eithr y Tywysog Dafydd ac ychydig ganlynwyr a ffoisant, a buant dros rai misoedd yn llechu o gwm bwygilydd, gan ddyoddef newyn ac anwyd; ond o'r diwedd, dau o'i gyfeillion, sef Einion ab I for, a wnaed wedi hyny yn Esgob Bangor, a Goronwy ab Dafydd, a'u meibion, a'u bradychasant i ddwyllaw y brenin, "ac a ddaethant arno yn y nos, ar yr 21ain o Fehefin, yn ei ymguddfa mewn cors islaw y mynydd a elwir y Bere, oddiar Abergwyn-gregyn, ac a'i daliasant ef a'i wraig, dau fab, a saith o ferched, ac a'u dygasant yn garcharorion i Gastell Rhuddlan, lle yr oedd y brenin ar y pryd."*

Wedi cael Gwynedd i'w feddiant fel hyn, ymroddodd Edward i adeiladu cestyll o'r fath gryfaf, yn y rhai y gallai gadw byddinoedd o arfogion yn wastadol, er cadw trigolion Môn ac Arfon rhag codi i'w erbyn mwy. Y rhai hyn oeddynt Gestyll Caernarfon, Beaumaris, a Chonwy; ac efe a symudodd y Fonachlog o Aberconwy i Faenan, tua deng milldir i fyny yr afon, gan ei gwaddoli yno, a chaniatáu iddi amryw ragorfreintiau. Ar yr achlysur hwnw, symudwyd arch careg y Tywysog Llywelyn ab Iorwerth gyda'r myneich i Faenan, a thrachefn ar doriad i fyny y Fynachlog yn amser Harri VIII., fe ei symudwyd i Lanrwst, lle y mae i'w gweled hyd heddyw yn yr eglwys.

Mae yn debyg nad oes dim gweddillion o adeilad hen Fonachlog Aberconwy yn aros heddyw. Mae yn yr ochr ogleddol i'r fynwent hen fedd-faen, a'r groes arno, ond heb unrhyw lythyrenau; ac fe gaed un cyffelyb, a chroes ddiaddurn wedi ei thori ynddo, wrth wneyd rhyw gyfnewidiadau yn muarth Gwesty y Castell, yn y fl. 1832; ac ar yr un pryd, deuwyd ar draws sylfeini amryw ranau o'r hen Fonachlog.

Y mae Castell Conwy yn un o'r adfeilion mwyaf ysplenydd a fêdd Ewrop, fe allai. Y mae rhywbeth mawreddog yn ymddangosiad Castell Caernarfon; ond ni ddeil i'w gystadlu am deleidrwydd â Chastell Conwy. Y mae y tri chastell a grybwyllwyd, yn enwedig un Caernarfon ac un Conwy, yn dwyn arnynt llawer o arweddau amddiffynfeydd Syria a Phalestine, ac nid yw yn annhebyg fod Henry de Elreton, archadeiladydd y Brenin Edward, wedi bod gyda ei dywysog yn y gwledydd hyny, pan fu efe yno yn y Croesgadau, a'i fod wedi cael llawer o gymhorth oddiwrth yr hyn a wel-sai yno, i gynllunio yr adeiladau ysplenydd hyn.

* "Prydnawngwaith y Cymry," tudal. 129, 130.—Bu yr ygrifenydd yn chwilio am yr ymguddfa grybwylledig, ac y mae yn meddwl ei fod wedi darganfod olion o honi yn *nghanol tŵr anferth o geryg ar lethr y trwngl*, oddiar y gore grybwylledig.

Adeiladwyd y castell hwn yn y fl. 1284; ac ar gyfrif ei gryfder anianyddol a chelfyddydol, galleid ei ystyried yn ddigon diugel i ddal unrhyw ymosodiad arno dros ystod parhâd y dull o ryfela oedd mewn arferiad pan ei hadeiladwyd; canys nid oeddynt hyd hyny wedi cael allan nerth aruthrol pylor ac arfau tân. Nid allesid gorfodi gwarchodlu flyddlawn a fuasent mewn meddiant o hono drwy ddim ond newyn. Mae ei furiau o ddeg i ddeuddeg troedfedd o drwch, ac yr oedd dyfrffos ddofn a llydan gynt, ar y tu gorllewinol a gogledd-orllewinol iddo, tra yr ymgurair tonau y môr yn erbyn ei furiau ar yr ochrau dwyreiniol a deheuol. Mae y castell yn hirgrwn, ac wedi ei adeiladu ar graig, ar un gongl o'r llanerch drionglawg a gynnwysir o fewn caerau y dref. Y mae wyth o dyrau mawrion, 40 troedfedd o dryfesur, yn ymddyrchafu o'i ddeutu, pedwar bob ochr; ac yr oedd esgynfa ddirwynedig o fewn tŵr llai, a gynnwysid o fewn pob un, a'r rhai yn y pedwar nesaf i'r afon ydynt yn ymgyfodi amryw droedfeddi yn uwch na'r rhai trwchus, ac yn peri fod yr ymddangosiad yn dra hardd. O ben y tyrau hyn, ceir golygfa ardderchog ar y wlad gyfagos. Adeiladwyd y caerau a amgylchynant y dref ar yr un adeg a'r castell, ac y mae un ar hugain o dyrau ar y caerau, heblaw tri phorth i'r dref, ar bob un o ba rai yr oedd dau dŵr cryfach. Yn yr ongl isaf i'r caerau, yn gyfredol â'r afon, yr oedd saith o dyrau, a phorth, a elwir "y Porth Isaf;" a rhwng hwnw a'r castell, yr oedd mynedfa arall, a elwid "y Porth Bach," ond heb dyrau arno. Oddiwrth gongl ogleddol y gaer, yr oedd tramwyfa gadgysgodol, yn ymestyn tua 70 llath i'r afon, ac ar ei phen eithaf yr oedd tŵr mawr, yr hwn sydd wedi ei ddystrywio er ys llawer dydd; yr oedd hwn yn cyfateb i dŵr arall islaw y castell; a'r fynedfa drwy y dramwyfa gadlenawl uchod a elwid "Porth yr Aden." Yr oedd dyfodfa arall i'r dref o'r wlad, bron ar gyfer y Porth Isaf, a hon a elwid "y Porth Uchaf;" a pherthynai crogbont i hwn. Y trydydd porth sydd ar yr ochr ddeheuol, ac a elwir "Porth y Felin." Yr oedd yr holl ranau o'r dref nad oedd yn ynylu ar y môr yn cael eu hamddiffyn â dyfrffos ddofn a llydan. Yr oedd i un o'r tyrau ar yr ochr ddeheuol fur wedi ei adeiladu ar ochr y dref, ac yr oedd ystafelloedd äng ynddo; gelwir hwn "Tŵr Llywelyn."

Yn awr, awn i fewn i'r castell; yr oedd y brif fynedfa iddo o'r dref, ar yr ochr orllewinol, drwy grogbont, dros ddyfrffos ddofn; yna esgynid ar hyd ychydig risiau i uchrodfa äng, yr hon a ddiffynid gan bump o dyrau bychain, a magwrydd o'r naill i'r llall. Oddiyma awn trwy borth a ddiogelid gan borth-gwlas, i'r cyntedd mwyaf. Cynnwysa hwn, ar yr ystlys ddeheuol, y neuadd ardderchog, yr hon sydd yn 130 troedfedd o hŷd, 32 troedfedd o lèd, ac o uchder cyfatebol, sef tua 30 troedfedd. Yn mhen dwyreiniol y neuadd hon yr oedd capel, a ffenestr fawr iddo. Cynnelid y nen gan wyth o fwâu Gothaid ardderchog, pedair o ba rai sydd yn aros eto. Yr oedd i'r neuadd hon dri lle tân; un mawr yn un pen iddi, a dau eraill, llai, un ar bob ystlys iddi; yr oedd iddi chwech o ffenestri tua'r wlad, a thair o rai mwy i'r cyntedd. Odditanodd yr oedd y cromgelloedd äng, yn y rhai yr ystôrid yr arlwyon rhyfel at wasanaeth y gwarchodlu. Yn y pen dwyreiniol i'r cyntedd yma, y mae y dyfrgroufa 15 troedfedd o dryfesur, ac 20 o ddyfn, a dywedir fod y dwfr yn cael ei gludo iddo mewn pibellau o ffynnon uwchlaw y Tŷ Gwyn. Canfuwyd rhanau o'r pibellau, meddir, wrth aredig y maesydd yn y gymydogoeth hono; ac y mae traddodiad i'r gelyn ar un achlysur, trwy ddarganfod y pibellau hyn, ac attal y dŵr i'r

castell, orfodi y gwarchodlu i'w roddi i fyny. Yr oedd y dwfr yn dyfod i fewn i'r gronfa hon drwy ddwy bibell ar yr ochr ddeheuol, ac ar gyfer y rhai hyn, yr oedd pibell arall i gymeryd y dwfr o'r gronfa i'r ddyfrffos, pan fyddai yn codi yn rhy uchel. Mae y fynedfa i'r cyntedd nesaf i fewn, trwy fur cadarn, deg troedfedd a hanner o drwch, oddiallan i ba un yr oedd lluest gwylidydd, yr hwn trwy feindwll, a allai ganfod pawb a ddelent oddiwrth y prif borth. Ar y llaw ddeheuol i'r cyntedd hwn y mae un o'r teyrnystafelloedd, yn 29 troedfedd o hŷd wrth 22 troedfedd o léd, ac y mae un bwa maen hardd, a gynnalai y nen, yn aros yn gyfan eto; ond y mae un arall a wasanaethai i'r un perwyl wedi ei ddystrywio er ys llawer o amser. Goll-yngid y goleuni i'r ystafell freninol hon drwy ffenestri o'r cyntedd. Rhwng yr ystafell hon a "Thŵr y Brenin," yr oedd ystafell y brenin, a thramwyfa o honi i ystafell y frenines ar yr ochr gyferbyniol; a gelwir y tŵr gogleddol, "Tŵr y Frenines;" ac yn yr ystafell ar y llofft gyntaf o hono yr oedd encilfa a gymerasid allan o'r mur, yr hon yw yr unig le o ymddangosiad addurniadol o fewn y castell. Fe'i ffurfir gan saith o fwâu pigfain a gwerdd-yrog, yn ymgyfarfod yn y nen, a bwâu eraill odditanynt, ynghyda seiliad cain o amgylch. Yr ystafell a'r encilfa yma ydoedd Capel y Frenines, yn yr hwn y cynnwysid bwrdd yr allor, ac o bob tu y mae dau dwll drwy y rhai y gellid cynnal cymundeb â'r ystafelloedd oeddynt ar bob ystlys i'r capel. Cadarnhêir y dyb mai dyna oedd dyben y lle hwn drwy y ffaith, mai dyma yr unig ystafell yn un o'r tyrau, oddiar y llawr isaf, sydd heb le tân ynddi. Tryfesur y tyrau oddifewn sydd oddeutu 18 troedfedd, a chynnwysent yn gyffredin ddwy lofft, heblaw y lloriau isaf, y rhai a ddefnyddid yn gyffredin i gadw ystorfeydd. Yr oedd ystafell gref iawn odditan Dŵr y Brenin, i'r hon nid oedd namyn un fynedfa, a hono trwy frad-ddôr; ond yr ail dŵr ar yr ystlys ddeheuol a elwir "Tŵr y Carcharorion," yr hwn sydd yn gydiedig â'r neuadd, ac o'r hon y mae mynedfa trwyddo i ben y muriau. Y mae rhodfa arall ar yr ochr ddwyreiniol, yn cael ei ddiffynu gan dri o dyrau a muriau, lle yr oedd ail ddyfodfa i'r castell, yr hon oedd o'r afon, trwy droell esgynfa, cysgodol gan fur, ynghyd â thŵr crogedig bychan; ac yr oedd tŵr crwn arall ar ei phen eithaf, er attal dynesâd y gelyn ar drai. Mae y rhanau hyn o'r hen adeilad wedi llwyr ddisianu erbyn hyn. Y nesaf i Dŵr y Brenin a elwir "Tŵr Darn," o herwydd fod darn anferth o hono wedi cwmpo mewn canlyniad, meddir, i waith rhyw un yn cloddio y graig odditan ei sylfeini. Un o hen feirdd Cymru, a ganai y "Cowydd" canlynol i'r castell yn y fl. 1480:—

"Fle dan gél bu 'r fâd felen
O Rôe? ymha ffos ei phen?
Na fuasai 'n fyw i osod,
Ar Iorwerth i'w nerth a'i nod,
A chadarn edrych arno,
Er rhoi gloes, drwy dwll rhyw glo,
Cyn lido 'r ei anaddwyn,
A'i fawr fost, yn dost ein dwyn
Dan ei ormes, afles oedd;
Du i'w lid, mal diawl ydoedd;
Cyn yngod cwyno angau,
Llywelyn y mwynddyn mau."

Tua'r flwyddyn 1294, dechreuodd hen wroniaid Gwynedd anesmwytho

dan iau haiarn Edward, yr hwn a'u gorthrymai yn dost â'i drethi cynnyddol i gynnal ei gadgyrchoedd, a chan gyhoeddi Madoc ab Llywelyn yn Dywysog Cymru, ymosodasant ar Gaernarfon, gan ladd lliaws mawr o Saeson a ymgynnullasant yno i'r ffair. Cymerasant feddiant o'r castell, ac wedi yspeilio y dref, hwy a'i rhoisant ar dân; ac mor beryglus y cyfrifai Edward y gwrthryfel yma, fel y prysurodd efe i Wynedd gyda byddin gref oedd ganddo wedi ei pharotô i hwylio ar gadgyrchiad i'r Cyfandir. Yn y cyfamser, Henri Lacey, Iarll Lincoln, ac Arglwydd Dinbych, a brysuroidd gyda'r flaenfyddin hyd at Gastell Dinbych, er mwyn cadw yr amddiffynfa hono rhag cwmpo i ddwylaw y Cymry; ond Madoc a'i wroniaid a ddaethant ar ei warthaf yn ddisymwth, ac a orchfygasant y fyddin freninol dan lywyddiaeth brawd y brenin, sef Edmwnnt, Iarll Lancaster. Yna daeth y brenin ei hunan i Wynedd, â byddin aruthrol, ac wedi croesi afon Conwy gyda rhan o'i fyddin, efe a'u cymerodd i'r castell cadarn yma. Wrth groesi yr afon, efe a gollodd y rhan fwyaf o'i glud; ac yn y fan erbyn iddo gael i fewn i'r castell, dechreuai Madoc a'i wŷr warchae arno, a'r llifeiriant disymwth a gyfodasai yn yr afon a'i gwnelai bron yn anmhosibl i'r ôl-fyddin dan dywysiad Iarll Warwick i groesi dros rai dyddiau er cynnorthwyo y brenin. Yn y cyfamser, yr oedd hi yn galed iawn ar y brenin a'i wŷr yn y castell am ymborth; ond er holl ymdrechion Madoc i gymhell lleiddiad ei dad i'w gyfarfod mewn ymdrech deg ar faes, gommeddai Edward syflyd oddiallan i furiau ei gastell. O'r diwedd, llwyddodd Warwick i tudo ei fyddin dros yr afon, ac yna yr oedd Madoc a'i wŷr rhwng dau lù, pob un o ba rai oedd yn cynnwys mwy na chynifer ddwywaith o arfogion ag a feddai efe; gan hyny nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond encilio fel y gwnaethai ei dad dewr o'i flaen lawer gwaith, i fylchau yr Eryri; a'r brenin a'i wŷr a gadawsant wyliau y Nadolig yn nghastell Conwy; a chyn ymadael oddiyma y tro hwnw, efe a orchymynodd adeiladu castell cadarn y Beaumaris, er mwyn cadw gwŷr glewion Môn dan ei balfau yn llwyrach.

Yr amgylchiad nesaf a grybwyllaf mewn cysylltiad â Chonwy, a fydd ymweliad y Brenin Rhisiart yr II. â'r lle, a'i fradychiad i ddwylaw y Duc o Lancaster. Tra fu y Brenin Rhisiart ar gadgyrchiad yn yr Iwerddon, darfu i'r Duc gasglu ei gyfeillion ynghyd, a ffurfio byddin gref i'r perwyl o ddwyn gorsedd a choron Prydain oddiarno. Pan glywodd y brenin am hyn yn yr Iwerddon, efe a anfonodd Iarll Salisbury drosodd i Gonwy, fel y cyfodai fyddin o'r Cymry yn barod i'w gynnorthwyo i ddarostwng gwrthryfel y Duc; ond efe ei hunan, gan wrando ar gynghorwyr ffeilsion, a esgeulusodd ei ddilyn mewn pryd, yn ol ei addewid; ac er i'r Iarll gasglu tua deugain mil o wŷr (Cymry gan mwyaf) dan arfau i gefnogi y brenin mewn ychydig ddyddiau, eto, pan welsant fod y brenin yn oedi dyfod, ac heb glywed dim oddiwrtho, hwy a ommeddasant fyned allan dan dywysiad yr Iarll yn erbyn y Duc, yr hwn erbyn hyn oedd wedi ennill holl Loegr, rhag, od oedd y brenin wedi marw, ac y byddai i'r Duc gael yr orsedd, eu cyfrifid hwy yn wrthryfelwyr, ac yr ymddygid atynt fel y cyfryw; ac am hyny hwy a ymadawsant bawb i'w fan. O'r diwedd, y brenin wedi hir oedi, a hwyliodd drosodd i Aberdaugleddyf; ac oddiyno, wedi gadael ei fyddin, ac ymddyethrio yn ngwisg un o'r Myneich Llwydion, efe a farchogodd i Gonwy, yn cael ei ddilyn yn unig gan y Duc o Exeter, y Duc o Surrey, ac Iarll Caerloew, ac Esgobion Lincoln, Tŷ Ddewi, a Charthale.

ac Owain Glyndwr, yr hwn oedd y pryd hwny yn ŵr ieuanc. Wedi i Harri Bolingbroke, y Duc o Lancaster, ddeall fod y brenin yn Nghonwy, efe a anfonodd Iarll Northumberland, a nifer o wŷr arfog, i'w ddal ef drwy dwyll neu drais; a'r hen bendefig dichellgar hwnw, wedi cuddio ei wŷr arfog yn nghymydogeaeth Penmaen Rhos, a aeth rhyngddo tua Chonwy, lle y gwenieithiai i'r brenin mai ei unig neges oedd ceisio gwneyd cymmod rhyngddo â'r Duc; ac er cadarnhâu gwirionedd ei dystiolaeth, efe a gymerodd ei lŵ, â'i law ar yr offeren; oud, yr oedd Owain Glyndwr yn ofni fod brâd ar droed, ac am hyny cynghorai y brenin gyda phob taerni i encilio i Ffrainc, hyd oni ddeuai gwell gwawr ar ei achos. Eithr y brenin yn anfodus a wrthododd y cynghor doeth hwn, a chan ymddiried yn y bradwr, a gychwynodd gydag ef i gyfarfod y Duc o Lancaster yn Nghastell Fflint; ond ar y ffordd, y milwyr a gyfléasai Northumberland mewn cynllwynfa, a ruthrasant ar y brenin a'r pendefigion oeddynt gydag ef, ac a'u cymerasant yn garcharion; a'r canlyniad fu i'r anfodus Rhisiart golli ei goron a'i ben, a'r Duc o Lancaster, dan yr enw Harri y IV., a drawsfeddiannodd yr orsedd; ac â hwn y bu Owain Glyndwr yn brwydro am bedair blynedd ar ddeg.

Yn ngwanwyn y flwyddyn 1401, llwyddodd dau o geraint Owain Glyndwr, sef William ab Tudur, a'i frawd Rhys, a gyfenwid "Rhys Ddu yr Arddreiniog," i gymeryd meddiant o gastell Conwy, a'i gadw dros amryw fisoedd, er bod Henry Percy a mab henaf y brenin yn gwarchae arno. Bu llawer o ymrysonau gwaedlyd yn amgylchoedd Castell Conwy, yn ystod y rhyfel gartrefol, rhwng teuluoedd York a Lancaster. Er anghraifft, fe'n hysbysir fod cefnogwyr un blaid wedi ei feddiannu, tra yr oedd teulu dylanwadol Gruffydd Goch, ac amryw deuluoedd galluog eraill o'r gymydogeaeth, dan arfau dros y blaid arall; a dygwyddodd fod Rhys mab Gruffydd Goch yn sefyll ar Dal y Sarn, yr ochr arall i'r afon, wedi myned yno, un ai o chwilfrydedd, neu i arsyllu ar gadernid yr amddiffynfa, pan ei lladdwyd â saeth a ollyngasid oddiar fwa o'r castell, gan Llywelyn o Nannau. Ond, ymhen ychydig nosweithiau ar ol hyny, Robyn ab Gruffydd Goch o'r Graianllyn, a'i frawd Hywel, ynghyda nifer o ganlynwyr dewrion, a groesasant yr afon er dial gwaed eu brawd Rhys; ac wedi ysglodi muriau y castell, hwy a dorasant ben y cadben. "O'r tu uchaf i Gonwy," medd yr yr hanes, "y saethasai Llywelyn o Nannau y bicell hon, a llas Rhys dros Gonwy: a llyma un o'r ergydion pellaf y llas dyn erioed."* Yr oedd y saethyddion Cymreig yn dra enwog er yn foreu, fel y dengys y crybwyllion canlynol;—"Giraldus, wrth grybwyll am wŷr Gwent, hen diriogaeth yr enwog Garadawg, a ddywaid,—Y mae yn deilwng o sylw fod gwŷr Gwent yn fwy ymarferol â rhyfela, yn fwy enwog am eu dewrder, ac yn fwy medrus mewn saethyddiaeth, na thrigolion un parth arall o Gymru. Yr enghreifftiau canlynol a brofant wirionedd yr haeriad hwn. Yn yr ymosodiad olaf ar Gastell Abergafeni, yr hyn a gymerodd le yn ein dyddiau ni, fel yr oedd dau filwr yn myned dros bont at dŵr a adeiladasid ar grugyn o bridd, er cymeryd y Cymry o'r tu ol, eu saethyddion, y rhai a'u canfuant, a yrasant eu saethau drwy ddôr dderw, yr hon oedd yn bedair modfeud o drwch; ac er cof am y fath orchestwaith, cedwir y saethau eto yn y ddôr, a'u blaenau heiyrn yn weledig ar y tu arall. Tystia Gwilym de

* Gwel "Cylohwgrawn," Cyf. I., tu dal. 265.

Breos hefyd, i un o'i farchogion ef, tra yn ymladd â'r Cymry, gael ei archolli â saeth, yr hon gan dreiddio trwy ei lurig, yr hwn oedd yn wisgedig â haiarn o bob tu, a aeth trwy ei forddwyd i gefn y cyfrwy, a thrwy hwnw, a archolodd ei farch yn farwol. Marchog arall, yr hwn oedd yr un ffunud yn ddiffynedig gan lurig ar ei forddwydydd, a drywanwyd gan saeth i'r cyfrwy, a chan droi ei farch o amgylch, a dderbyniodd ergyd gyffelyb ar ei forddwyd arall, drwy yr hyn ei hoelid o bob tu, megys wrth ei gyfrwy!"*

Y mae Syr John Wynne, yn Hanes Teulu Gwydir, yn sylwi fod yr holl wlad oddiamgylch yn cael ei hanrheithio gan gefnogwyr y ddwy blaid grybwylledig, ac i'r Arglwydd Herbert, Iarll Penfro, yn enwedig, beri galanastira mawr yn y cymydogoethau hyn. Yn y flwyddyn 1466, ei Arglwyddiaeth a archodd dori pen Thomas ab Robyn o Gochwillan, yn agos i'r castell hwn, o herwydd ei ymlyniad ffyddlawn wrth y Lancasteriaid; a dywedir i'w wraig, Gwenhwyfar, dderbyn ei ben yn ei harffedog, a'i gymeryd ymaith.

Yn y flwyddyn 1607, bu agos i'r dref hon gael ei gwneyd yn anghyfanedd gan y pla a dorodd allan, a chladdwyd lliaws mawr o'r trigolion dan yr heolydd, ac oddiallan i furiau y dref. Torodd y pla allan yma o fewn tair wythnos i amser ei ymddangosiad yn Llundain, yr hyn a brawf fod cryn drafodaeth rhwng y lle hwn a'r brifddinas, yn nechreu yr ail ganrif ar bymtheg.

Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, yn amser Siarl y I., daeth Conwy yn orsaf ymdrechion gwaedlyd drachefn; ac un o'r nodweddu enwocaf yn yr oes hono, ac a gymernth gryn ran yn ei helyntion blinion, oedd yn anedig o Aberconwy, sef John Williams, Archesgob Caerefrog. Ei dad oedd Edmunt Williams o Aberconwy, yr hwn oedd yn fab i William Williams, Ysw., o Gochwillan, o'i wraig Dorothy, ferch Syr William Gruffydd o'r Penrhyn. Ei fam oedd Mary, ferch i Owain Wynne ab John Owen, o'r Eglwys Fach. Trwy ei athrylith gref, daeth John Williams i gryn fri yn y brifysgol, fel ei hetholwyd i bregethu o flaen y brenin Iago, a'r tywysog Henry, yn Royston, pan nad oedd ond gŵr tra ieuanc; a dywedir iddo roddi boddhad neillduol i'w wrandawyr urddasol ar yr achlysur. Yn fuan ar ol hyny efe a wnaed yn gaplan i'r Arglwydd Ganghellwr Egerton, lle y bu hyd farwolaeth ei noddwr yn y flwyddyn 1616. Wedi hyny, gwnaed ef yn gaplan i'r brenin, yr hwn o hono ei hunan a roddes ddeoniaeth Salisbury iddo yn y flwyddyn 1619; a'r flwyddyn ganlynol, efe a wnaed yn ddeon Westminster gan Ardalydd Buckingham. Yn y flwyddyn 1621, efe a dyngwyd i mewn yn aelod o'r cyfringynghor, ac ymhen ychydig wythnosau gwnaed ef yn Arglwydd-geidwad y Sel Fawr, ac yn esgob Lincoln. Yr oedd efe y pryd hwn yn un o'r gwyr mwyaf, os nid y mwyaf oll, yn ffafr y brenin Iago, yr hwn a werthfawrogai ei ddoethineb fel ei brif gynghorwr; ar yr un pryd yr oedd ei ymddygiadau yn ei swyddau dyrchafedig yn rhoddi boddlonrwydd cyffredinol i'r deiliaid, ac yn ei wneyd yn dra phobl-ogaidd gyda'r wlad; ond, efe a ddefnyddiodd ei ddylanwad gyda'r Brenin i gael dyrchafu Laud i esgobaeth Tŷ Ddewi; a hwnw wedi hyny a fu ei elyn chwerwaf ef. Bu farw Iago yn y flwyddyn 1625, a chydag esgyniad Charles i'r orsedd, dechreuodd trallodau a phroffedigaethau John Williams. Y Duc o Buckingham, yr hwn gynt a fuasai yn gyfaill a noddwr iddo, a'r hwn

* Syr S. R. Meyrick's "Ancient Armour."

a waredasid o gyfyngderau mawrion fwv nag unwaith trwy ei gynghor doeth, a drodd yn elyn iddo; a thrwy ei ddichellion efe a lwyddodd i gael gan y brenin gymeryd y seliau oddi arno, y rhai a roddes efe i fyny yn Hydref, y flwyddyn 1625. Er hyny, yr oedd Williams yn dra phoblogaidd, ac y mae yn dra thebyg pe y gwrandawsai y brenin ar ei gynghor ef yn lle ar yr eiddo Laud, na buasai y rhyfel blin rhwng y brenin a'r Senedd byth yn cymeryd lle.

Wedi marwolaeth Buckingham yn 1628, yr oedd yr Esgob Laud yn arfer pob ystrywiau gyda'r llys i lwyr ddystrywio Williams; a chyn hir, fe'i dygwyd i brawf yn y *Star Chamber*, dan ryw esgus, yr hwn a derfynodd drwy ei ddirwyo i dalu deng mil o bunnau i'r brenin, ei ddiosg o'i holl swyddau a'i urddau, a'i garcharu wrth ewyllys y brenin. Wedi bod yn garcharor yn y Tŵr dros dair blynedd a hanner, efe a ryddhawyd drwy orchymyn y brenin, yr hwn erbyn hyn oedd mewn anghen am wasanaeth ei dalentau ysplenydd i dawelu y terfysgoedd oeddynt yn awr yn dechreu gwisgo arwedd led frawychus drwy y deyrnas: ac er i Siarl wrthod cymeryd ei gynghor i beidio myned i Ysgotland, efe a'i dyrchafodd yn fuan ar ol hyny i archesgobaeth Caerefrog. Ond o'r diwedd cynnyddodd yr ysturm mor fawr, fel y bu raid i John Williams adael ei archesgobaeth, ac encilio i'w dref enedigol, sef Aberconwy, yn 1642; ac yn y fan, efe a ddechreuodd adgyweirio y castell, a chasglu gwŷr o fysg ei gydgenedl a'i gydnabod, i'w gadw dros y brenin, a gwnelai hyn oll heb unrhyw orchymyn, ac ar ei draul ei hun. Pan glybu y brenin am y cyfryw brofion o'i ffyddlondeb i'r goron, er yr holl driniaeth anghyfiawn a gawsai oddiar ei law, efe a ysgrifennodd amryw lythyrau caredig ato, yn diolch iddo am yr hyn a wnelasai, ac yn ei annog i fyned rhagddo yn y gwaith a ddechreuasai, gan addaw ad-dalu iddo unrhyw draul a roddai ar y castell er ei gadarnhâu, eyn y trosglwyddid ei gadwraeth i ddwylaw neb arall; ac yu unol â'r awdurdodiad yna, penodai yr Archesgob ei nai, William Hookes, Ysw., henaduriaid o Aberconwy, i fod yn geidwad y castell hyd oni thalai y brenin yr arian a roddasai efe allan arno; ac os dygwyddai hwnw farw tra yn y swydd, penodai yr Archesgob ei nai Gruffydd Williams, Ysw., i'r awdurdod. Dyddid y weithred yna Ion. 2, 1643.

Ymhen rhyw yspaid ar ol hyn, gwysid yr Archesgob i roddi ei bresenoldeb yn nghynghor y brenin yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd yn Ionawr, 1644; ond wedi canfod nad allasai gael gan y brenin weithredu yn ol ei gynghorion, yr hyn yn unig a allasai dawelu yr ysturm, a diogelu yr orsedd, efe a ddychwelodd i Gonwy yn nechreu y gwanwyn; ac yn fuan ar ol ei ddychweliad yma y pryd hwn, darfu i amryw o fonedd y gymydogogaeth ddymuno caniatâd yr Archesgob i roddi eu llestri aur ac arian, a'u trysorau gwerthfawrocaf, i'w cadw yn y castell, gan farnu y byddent yn fwy diogel yno ar y fath amseroedd terfysglyd.

Ymhen tua blwyddyn ar ol hyny, llwyddodd Syr John Owen o'r Clennau, yr hwn oedd yn filwriad yn myddin y brenin, i gael gan y Tywysog Rupert ei benodi ef i fod yn llywydd y castell, er fod yr esgob yn meddu awdurdodiad dan law y brenin, i gadw meddiant o hono, hyd oni thelid iddo yr arian a dreuliasai efe ar ei adgyweiriad; a'r tywysog ei hunan hefyd a gytunasai â'r trefniad hyny, gan anfon llythyrau at holl swyddogion y brenin ar dir a môr, i erchi iddynt gynnorthwyo yr archesgob i wneuthur y lle mor gryfed ag y gellid. Ond Syr John a wnaeth ymosodiad annys-

gwylidwy ar y castell, ac a aeth i fewn iddo trwy drais; ac ni oddesai i'r archesgob gael ei eiddo ei hunan o'r castell at ei wasanaeth, na'i ryddhâu o'i gyfrifoldeb am drysorau ei gymydogion. Anfonwyd cenad at y brenin i gwyno o herwydd yr ymddygiad hwn; ond ni wnaed nemawr o sylw o gam yr archesgob. Ymhen y pymtheng mis ar ol hyn, a'r archesgob eto heb gael dim ymwared, deuai byddin y Senedd, dan dywysiad y Milwriad Mytton, o Gaerlleon i Gonwy. Gan fod byddin y Senedd yn rhy gref i'w gwrthsefyll gan blaid y brenin, penderfynodd yr archesgob a'r boneddigion oedd a'u heiddo yn y castell, ymdrechu i wneyd yr ammodau goreu a all-ent gyda Mytton, gan ei hysbysu o'r modd yr ymddygasai Syr John Owen tuag atynt, a chyunyng ei gynnorthwyo i gymeryd y lle, ar yr ammod y byddai i bob un gael yr eiddo ei hun, os gallai brofi ei hawl drwy y rhestr ysgrifenedig oedd yn meddiant yr archesgob; ac am yr hyn a fyddai yn ngweddill, bod y Milwriad i gymeryd meddiant o honynt yn enw y Senedd. Yna byddin Mytton, yn cael ei chynnorthwyo gan yr archesgob, ei geraint, a'i gyfeillion, a dorasant y pyrth, ac a gymerasant y dref trwy drais, ar y 16fed o Awst, 1646. Cymerwyd yr holl Wyddelod a gaed yn y lle, trwy orchymyn Mytton, ac wedi eu rhwymo gefn-gefn, fe'u bwriwyd oll i'r afon; ac ar y 10fed o Dachwedd, y gwarchodlu a roisant y castell i fyny, a Mytton a ddychwelodd yr holl eiddo a ymddiriedasai y cymydogion i ofal yr archesgob, yn ffyddlaw'n i'w perchenogion. Cafodd yr archesgob ei hunan ei wân yn ei wddf, yn yr ymosodiad ar y dref. Yn fuan ar ol hyn, dechreuodd iechyd yr archesgob adfeilio, ac efe a fu farw yn Gloddaeth, yn 68 mlwydd oed, Mawrth 25ain, 1650, a'i gorff a gymerwyd i'r Penrhyn, ac a gladdwyd yn eglwys Llandegai, lle y mae cofadail hardd wedi ei chyfodi iddo.

Yn y fl. 1665, darfu i Iarll Conwy, dan y rhith o fod yn ei wneyd er gwasanaeth y brenin, beri dynoethi y castell o'i holl goed, ei haiarn, a'i blwm, a'u hanfon drosodd i'r Iwerddon, ac felly y gwnaed yr adeilad ardderchog hon yn gyfryw adfail llwm ag ei gwelir yn brennoll; ond y mae seiliau i greu mai at ei wasanaeth ei hunan y cludai yr Iarll trachwantus y defnyddiau uchod, ac nid at wasanaeth ei wlad na'i benadur, yr hyn a bair i ni resynu mwy fyth o herwydd anrheithiad yr hen gastell.

Mae yn debyg mai y dernyn o faen-adeilad henaf yn y dref yn awr, yw y lle a elwir "y Coleg," yn yr hwn y mae ffenestr hynod, yn wynebu i heol y castell. Ymysg y cerfiadau ydynt islaw y ffenestr, y mae eryr yn disgyn ar blentyn, a phais arfau perthynol i dylwyth urddasol y Stanleys, ac eraill. Bernir fod hwn wedi ei adeiladu yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth; ond nid oes unrhyw weithredoedd a dafiant oleu ar ei hanes ar gael. Fe allai fod yma le i gyfranu addysg i ieuentyd wedi ei adeiladu yn y llanerch yna mewn cysylltiad â'r Fynachlog gan Llywelyn ab Iorwerth, ac i Edward I. ailadeiladu lle i'r un perwyl yma, pan symudodd efe y Fynachlog i Maenan.

Yr oedd gynt hen dŷ yn gymhwys ar gyfer ffenestr y Coleg, a elwid "Plas Porter," lle y trigai prif borthor y Castell, fe allai. "Y Plas Mawr," a adeiladwyd gan Robert Wynne, mab John Wynne ab Meredydd, o Wydir, ac ewythr i Syr John Wynne, Barwnig, yr hanesydd. Yr oedd y gŵr hwn yn Siryf Swydd Gaernarfon yn y fl. 1591, ac efe a fu farw yn y fl. 1598. Mae yn ymddangos iddo adeiladu yr annedd hon yn y fl. 1586, sef 13 blynedd cyn ei farwolaeth. Hen dŷ arall yw yr un ar gyfer addoldŷ y Trefnyddion Wesleyaidd, lle y ganwyd yr Archesgob Williams; ac y mae

yn debyg iddo ei helaethu pan yr enciliodd i Gonwy yn ei hen ddyddiau, yn gymaint ag y gwelir ei enw yn un o'r ystafelloedd, uwchben y lle tân, neu o leiaf y llythyrenau am ei enw, "J. Y.," a'r allweddau yn groesion, a'r amseriad "1642."

Bu y dref hon yn hollol Seisonig am flynyddoedd lawer, gan fod rhagorfreintiau neillduol wedi eu caniatâu i Saeson a ymsefydlent yn y lle; am hyny yr oedd holl enwau yr hen drigolion yn estronol, megys "Acley, Acton, Aldersley, Barker, Brown, Byrches, Brickdall, Holland, Hookes, Peake, Peicke, Lee, Maderer, Salisbury, Scherman, Robinson, Totte, Mellers, &c. A thrwy y rhagorfreintiau a fwynhäent, hwy a aethant yn dra goludog, fel y dywed Syr John Wynne o Wydir, y byddai trigolion y tair tref gaerog a Seisonig yma yn cael eu galw, hyd yn nôd ychydig mwy na dau can' mlynedd yn ol, "Cyfreithwyr Caerynarfon, Masnachwyr Beaumaris, a Boneddigion Conwy." Bu y brawdlysoedd mawrion am Sir Gaernarfon a Meirionydd hefyd yn cael eu cynnal gynt yn Nghonwy bob yn ail a Chaernarfon.

Yn y dref hon hefyd y ganwyd y Dr. Nicholas Robinson, yr hwn a fu yn Gymrawd o Goleg y Frenines, Caergrawnt, yn gaplan i'r Dr. Parker, Archesgob Caergaint; a wnaed yn Ddeon Bangor, yn 1556; ac yn 1562, rhoddwyd Archddiaconiaeth Meirionydd, a phersonoliaeth Llaneanurgain iddo; ac yn y flwyddyn 1566, efe a ddyrchafwyd i gadair esgobol Bangor, a bu farw yn y flwyddyn 1584. Yr oedd efe yn Gymro hyfedr, ynghyda'i holl ddysgeidiaeth arall, fel y tystia ei waith yn cyfieithu Hanes Gruffydd ab Cynan o'r Cymraeg i'r Lladin.

Y mae pedwar o hen balasau yn y Creiddyn, lle y bu hen deuluoedd pen- defigaidd yn cyfannedu, sef Y Penrhyn, Gloddaith, Bodysgallen, a'r Marl. Bu y *Penrhyn* am gannoedd o flynyddoedd yn annedde teulu o'r enw Pugh, yr olaf o ba rai a briododd aeres y *Coetmor*, a chan mai dwy ferch yn unig a adawodd efe ar ei ol, y mae yr enw wedi ei gollu yn y canlyniad. Yn y flwyddyn 1561, yr oedd Robert Pugh, o'r Penrhyn, Creiddyn, yn Siryf Swydd Gaernarfon. Hanai y tylwyth yma o Ednyfed Fychan, ac y mae ei arfarwyddion wedi eu cerfio mewn maen ar y tŷ; ac yn ol amseriad uwchben y lle tân, mae yn ymddangos fod y rhan ddiweddaraf o'r tŷ wedi ei adeiladu yn y flwyddyn 1590; ond yr oedd y rhan fwyaf o hono wedi ei adeiladu lawer yn gynt na hyny; canys y mae Leland yn son am Blas y Penrhyn fel hen dŷ ceryg da yn ei amser ef. Ychydig oddiwrth y tŷ, y mae y capel teuluaid wedi ei ddarostwng i'r gwasanaeth anghysegredig o fod yn ystabl i'r ceffylau er ys llawer blwyddyn. Yr oedd tua 25 troedfedd o hyd wrth 15 troedfedd o led; ac yr oedd yr allor o gareg yno o fewn oes yn ol. Yr oedd tair rhan o bedair o ddegwm y Penrhyn wedi ei neillduo trwy awdurdod y Pab Nicolas at wasanaeth y capel hwn; a pherthynna y rhan hyny o'r degwm i'r etifeddiaeth eto. Glynai teulu y Penrhyn wrth y grefydd Babaid am gryn yspaid wedi i'r Diwygiad Protestanaidd dori allan yn Mhrydain, a chynnalient offeiriad, yr hwn a weinyddai yn y capel crybwyllledig i'r teulu; a'r ychydig gymydogion iddynt a llynent wrth Babyddiaeth; ac y mae traddodiad dyddorol yn yr ardal mewn cysylltiad â'r ffaith yna. Dywedir fod brâd wedi ei lunio unwaith i lofruddio holl Brotestaniaid y Creiddyn; ac i gwblhâu hyn yr oedd nifer mawr o wŷr i ymgyfarfod yn y Penrhyn ar awr benodol ryw noswaith, a rhagarlwyid yn helaeth ar gyfer eu dyfodiad; ond un o weision Gloddaeth, yr hwn oedd yn *cyfeillachu* âg un o forwynion y Penrhyn, yn ei gwelod yn drafferthus ar

adeg anamserol, a lwyddodd, trwy fod yn daer, i gael ganddi ddadguddio* y fradwriaeth; yntau ar hynny a frysiodd adref, ac a fynegodd y peth i'w feistr, yr hwn yn ddioedi a geisiodd fyntai o wŷr meirch, â'r rhai yr amgylchynodd efe y Penrhyn yn annysgwyliadwy, gan gymeryd amryw yn garcharorion; eithr rhai a ddiangasant, ac yn eu mysg yr offeiriad, yr hwn a fernid oedd cynlluniwr y bradwriaeth. Ond, ymhen ryw yspaid o amser, dygwyddodd i ddynion oedd mewn cwch ar y môr ganfod mwg yn ymddyrschafu o graig Rhiwleden, ac erbyn iddynt fyned i chwilio i'r achos, cawsant yr offeiriad mewn ogof fechan a elwir *Ty'n y Graig*, yr hon sydd tua 90 troedfedd islaw ael y graig, ac i'r hon yr oedd y fynedfa yn dra anhawdd. Y canlyniad fu rhoddi y bradwr i farwolaeth, a'i chwarteru ar faes islaw y tŷ. Enw yr offeiriad hwn, meddir, oedd *Syr William Guy*. Yr oedd twll o'r tu cefn i'r tŷ a elwid "Twll arfau cant o wŷr," lle y tybir fod arfau y cydfradwyr wedi eu cuddio; ac wedi ymadawiad y Pwbiaid i Goetmor, ymysg pethau eraill a adawsant ar eu hol, yr oedd hen goffr, yr hon a agorodd y tenantiaid a rhai o'u cymydogion, ac a gawsant *law dyn* wedi sychu i fyny ynddo, yr hon y tybid ei bod yn un o aelodau yr offeiriad dywededig.

Y mae chwedl ddyddorol arall yn cael ei hadrodd mewn cysylltiad â'r hen drigle yma, a'r hon a gredir yn gyffredinol yn y gymydogogaeth. Mae yn ymddangos fod teulu y Penrhyn yn gynnwysedig o fab a dwy ferch, ar y pryd y cymerodd yr amgylchiad dan sylw le; y mab, yn ol arfer yr oes, a aeth i deithio i wledydd tramor; ond cyn cychwyn, efe a yrodd ddant ôg i bren gerllyg yn y berllan, ac a guddiodd nodwydd mewn man neillduol yn nenfwd y gegin fach. Mae yn ymddangos i ryfel dori allan rhwng Prydain a rhai o wledydd y Cyfandir tra yr oedd y gŵr ieuanc ar ei deithiau, ac felly efe a gymerwyd yn garcharor, ac aeth amryw flynyddoedd drosodd cyn iddo allu dychwelyd adref; a chan nad oedd ei deulu wedi clywed dim o'i hanes, yr oeddynt wedi rhoddi i fyny bob gobaith am ei ddychweliad. Pa fodd bynag, efe a ddychwelodd yn gardotyn; ac erbyn cyrhaedd y Creuddyn, dealodd fod ei dad a'i fam wedi marw, a'i chwirydd wedi meddiannu yr etifeddiaeth. Efe a aeth at y tŷ, ac wedi gofyn am gael gwelod y chwirydd, a'i gwnaeth ei hun yn hysbys iddynt; eithr hwy a haerent mai twyllwr oedd efe, gan ddadleu eu bod hwy wedi cael sicrwydd o farwolaeth eu brawd. Yntau er ceisio eu darbwyllo mai efe oedd eu brawd, a ddywedai, os chwiliant yn y lle a nodai efe yn y gegin, y caent nodwydd yno; ac er prawf ychwanegol mai efe oedd eu brawd, efe a gynnigiai enwi y pren yn y berllan, i'r hwn y gyasai ddant ôg. Cafwyd y nodwydd, fel y dywedasai; a phan aethant gydag ef i'r berllan, efe a ddy-noethodd y rhisgl a dyfasai dros yr haiarn, ac a'i dangosodd i'w chwirydd; ond, ei chwirydd a barasant ei yru oddiar y tir trwy drais, gan beri ei fflangellu (medd traddodiad) â fflangell, yn yr hon y dodasid pinau cryfion, fel cosbedigaeth ychwanegol am ei dwyll tybiedig. Ond, rhai o'r cymydogion, y rhai a'i hadwaenent cyn iddo fyned ar léd, a'i derbyniasant i dŷ, gan fod yn gwbl sicr mai efe oedd mab ac etifedd cyfiawn y Penrhyn. Efe a fu yu aros yn nhŷ un o'r cymydogion felly dros beth amser, gan ymbarotô i gymeryd meddiant o'r Penrhyn trwy gyfraith, oddiar ei chwirydd a'i trawsfeddianasent trwy gelwydd ac anudonedd; ond wedi ei fyned allan un diwrnod, efe a gollwyd, ac ni ddychwelodd byth mwyach. Er na chaed byth un sicrwydd pa beth a ddaesthai o hono, yr oedd pobl yr ardal yn gyffredin-

ol yn barnu iddo gael ei lofruddio gan ei chwiorydd, neu ar eu cais, ac yn credu mai melldith ddwyfol o'r herwydd oedd yr achos o ddiplaniad y teulu, a fuasai unwaith mor gryf a chyfrifol, fel y mae yr etifeddiaeth wedi ei gwerthu er ys talm, a'r teulu yn awr wedi darfod. Gellir barnu i'r amgylch- iad yna gymeryd lle tua dau can' mlynedd yn ol, neu lai; canys fe'n hys- bysir fod gorŵyr y gŵr a dderbyniasai yr etifedd gwrthodedig i dŷ, yn fyw tua 25 mlynedd yn ol. Dylem ychwanegu hefyd ddarfod i un Mr. Hughes, yr hwn oedd yn denant yn y Penrhyn amryw flnyddoedd yn ol, ddargan- fod esgyrnglwm dyn perffaith, mewn agen yn y graig o'r tu ôl i'r tŷ, a'r agen o'i amgylch wedi ei llanw â phridd. Odid fawr nad gweddillion yr etifedd gwrthodedig a ddaeth i'r golwg fel hyn.

Cafodd y rhan fwyaf o hen balas Gloddaeth ei adeiladu gan Thomas Mostyn, yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth; ond meddiannai hen dylwyth Gloddaeth annedde yma er ys llawer can' mlynedd cyn hyn. Yr ydym yn deall i un Gruffydd ab Rhys ab Gruffydd ab Madoc Gloddaith ab Madoc ab Iorwerth Goch o'r Creuddyn, golli saith o blant yn yr un wyth- nos, y rhai a fuant feirw o'r pla; ac ar yr achlysur galarus hwnw, cyfan- soddai Robyn Ddu ab Siencyn, bardd enwog oedd yn ei flodau o'r flwyddyn 1440 i'r flwyddyn 1470, alarnad gyflawn o deimlad, dan yr enw, "*Cowydd Marwnad pum' Mab, a dwy Ferch o Loddaith.*"

Trwy yr adfyd blin yma, gadewid Margaret yn unig aeres; a hono a bri- odd yn y flwyddyn 1460 â Hywel ab Iefan Fychan o Mostyn, a thrwy y briodas hono y cludwyd etifeddiaeth Gloddaith i deulu Mostyn, yn yr hwn y mae yn aros eto. Y mae amryw ranau o'r hen balas wedi ei addurno â cherfiadau o arfebion y Frenines Elizabeth, a'r eiddo ei hoffddyn yr Iarll o Leicester, ynghyd a'r eiddo teulu Mostyn. Uwch ben y lle tân y mae hen arwyddair teuluaid wedi ei gerfio, "Heb Ddaw, heb ddim; Duw a digon." Y mae arfebau breninol y Tuduriaid yno, a'r ddraig goch yn gynnal- ydd (cyn dwyn yr unicorn i'r arfebau breninol), a'r arwyddair canlynol yn gy- syltiedig âg ef, "Duw a gadwo ein brenines ardderchog, Elizabeth, gan roddi iddi deyrnasiad maith, 1584."

Yr oedd Gloddaith yn enwog gynt am y casgliad godidog a gynnwysai o lyfrau prinion, ac o hen ysgriflyfrau Cymreig; ond y maent wedi cael eu symud i Fostyn, lle y mae llyfrgell ddigyffelyb o werthfawr at wasanaeth y llenor a'r hanesydd Cymreig.

Bodyscallen, fel y crybwyllwyd eisoes, sydd yn llygriad o Bod Caswall- on, gan fod llys gan "Caswallon Law Hir" yn agos i'r fan lle y gorwedd yr hen balas presennol. Ennillodd Caswallon benaduriaeth Gwynedd yn y flwyddyn 443, ac esth a fu farw yn y flwyddyn 517, wedi teyrnasu dros yr yspaid maith o 74 mlynedd. Y mae olion hen adeilad eto ar ben bryn bychan, yn y coed gerllaw, wedi eu llwyr orchuddio â drain yn bresennol. Adeiladwyd y tŷ presen o ol, er ys llawer o amser, a gwnaed amryw ychwan- egiadau ato o bryd i bryd. Gallen farnu mai yr adeilad gyntefig oedd y tŷr petryal, yr hwn sydd dra henafol. Yr oedd y lle a elwir "*Y Tŷr,*" gerllaw y Wyddgrug, o gyffelyb adeiladaeth â hwn; ac yr oedd un arall cyffelyb yn Mostyn gynt.

Yn amser Harri yr VIII., yr oedd Bodyscallen yn meddiant Rhisiart Mostyn, ail fab Thomas ab Rhisiart ab Hywel, o Fostyn, a deallwn ei fod ef yn Siryf Swydd Gaernarfon yn y flwyddyn 1572. Un ferch oedd gan- ddo, o'r enw Margaret, yr hon a briododd â Huw, mab Gruffydd Wynne

o'r Berth ddu, ail fab i John Wynne ab Meredydd o Wydir. Eu hetifedd, Robert, oedd dad i'r milwriad Huw Wynne, yr hwn a amlygodd y fath fyddlondeb dihafal i'r goron yn amser Siarl y I. Robert, mab ac etifedd y milwriad Huw Wynne, a briododd Ellen, unig ferch ac aeres i Robert Wynne, o'r Plas Mawr, yn Aberconwy, yn y flwyddyn 1683; ac ar farwolaeth eu mab hwy, Robert Wynne, yr hwn ni fuasai erioed yn briod, yn y flwyddyn 1762, aeth yr etifeddiaeth i'w nith Margaret, merch y Dr. Hugh Wynne; yr hon hefyd yn hawl ei mam, oedd yn aeres y Plashen, Cors y gedol, a Bodidris; a thrwy ei phriodas â Syr Roger Mostyn, Bar., o Gloddaith, trosglwyddwyd yr etifeddiaethau crybwyllledig i'r teulu hwnw.

Hen balas y Marl a adeiladwyd yn y flwyddyn 1661, fel y gwelir yr amseriad ar drawst yn y neuadd. Yr oedd hwn yn balas godidog, a'i sefyllfa yn un o'r rhai mwyaf prydfferth, iachus, a difyr; ond drwy ryw esgeulusdra, aeth ar dân tua chan' mlynedd yn ol. Perthynai y lle hwn i'r Hollandiaid ar y dechreu; ond daeth wedi hyny i feddiant teulu y Penrhyn. Bu i Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn, yr hwn a wnaed yn farwniad yn y flwyddyn 1661, bedwar ar bymtheg o blant; a bu deuddeg o honynt fyw i ddyfod i oedran gwyr a gwragedd. Yr oedd gan y gŵr hwn diroedd lawer, fel y dywedid fod yn agos i'r drydedd ran o Swydd Gaernarfon yn ei feddiant; ac yn y flwyddyn 1663, efe a ranodd yr etifeddiaethau eang hyn yn ei ewyllys, rhwng ei chwe' mab, gan adael y Marl, porthfa Conwy, a meddiannau eraill, i'w ail fab Huw, yr hwn ar farwolaeth ei nai, Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn, yn ddiblant, a etifeddodd ei deitl, ac a ddilynwyd gan ei fab, Syr Gruffydd Williams o'r Marl, yr hwn a fu yn Sirydd Swydd Gaernarfon yn y flwyddyn 1708. Efe a briododd Catherine, merch henaf ac etifeddes Owain Anwyl, Ysw., o'r Penrhyn Deudraeth, yn Meirionydd, o'r hon y bu iddo amryw blant, y rhai a fuant feirw yn ieuainc oll, oddieithr un mab o'r enw Robert, a merch o'r enw Anne. Syr Robert Williams o'r Marl, y Pant Glas, y Parc, a'r Llwyn, oedd yr olaf o'r ganghen yma a fwynhodd y teitl o Farwniad; canys yn gymaint ag iddo ef farw yn ddiblant, disgynodd y Farwniaeth i Syr Huw Williams, ŵyr i Edmund Williams, Ysw., o'r Arianws (trydydd mab Syr Gruffydd Williams o'r Penrhyn); ac fe'i mwynhëir yn awr gan ei ŵyr yntau, Syr Richard Bulkeley Williams o'r Baronhill. Aeth yr etifeddiaeth i'r chwaer Anne, yr hon a ymbriodasai â Syr Thomas Prendergast, Barwniad o'r Iwerddon. Y boneddwr hwnw a werthodd y Llwyn i Lewis Nanney, Ysw., a'r Parc i William Wynne, Ysw., o'r Wern. Wedi ei farw ef, ei weddw a briododd â'r Cadben Tearence Prendergast, gan etifeddion yr hwn y gwerthwyd yr etifeddiaeth i Thomas Williams, Ysw., o Lanidan, ac y mae yn awr yn meddiant Thomas Pyers Williams, Ysw., o Graig y don.

Gan fod y sylwadau hyn wedi myned eisoes yn faith, nid ychwanegwn, namyn i alw sylw ein gilydd at ddau neu dri o gasgliadau sydd yn ein taro yn naturiol.

Wrth adolygu o honom olion hen demlau paganaid ein cyndadau yn y cymydogathau hyn, ôl traed dynion wedi dyrysu yn ymbalfalu am adnabyddiaeth o Duw, ac yn methu ei gael, gwelwn ein dyled ni i gydnabod Duw am ei ddaioni yn ein donio â'i air sanctaidd, ac â chyflawnder o fanteision i adnabod y gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol: ac o gymaint ag y mae ein rhagorfreintiau crefyddol yn rhagori, y mae ein rhwymedigathau i'w gwerthfawrogi, ac i ymddwyn yn deilwng o honynt, yn fwy.

Wrth gofio y rhyfeloedd blinion, yr ymrysonau dinystriol, a'r gorthrynderau trymion a fu yn gwasgu ar ein henafiaid dros gynifer o oesoedd yn yr ardaloedd yma, cymheller ni i fawrhau yr Hwn sydd yn llywodraethu yn mreniniaethau dynion, am drefnu i ni y fath heddych a rhyddid yn ein hoes.

Ar wrth ystyried fel y mae un genedlaeth yn myned ymaith, a chenedlaeth arall yn dyfod, ac mor ansafadwy ydyw pob mawredd dynol, bydded i ni gael ein cymhell i roddi ein serch ar bethau sydd uchod, ac i ymofyn yn ddifrifol am hawl i etifeddiaeth anllygredig a diddifanedig, yn nghadw yn y nesoedd.

CYFRYNGAU ADDYSG LENYDDOL A MOESOL CENEDL Y CYMRY.

LLYTHYR II.

GWEDI enwi yr Eisteddfod a'r Pulpud, dyma ni yn dyfod at y trydydd gallu ag sydd ar gaer llënyddiaeth Cymru—sef, y Wasg. Dyma y gallu—y *propellum power*—mwyaf aruthrol a fëdd y byd. Rhydd hon i grebwyll a gweithredoedd meddyliol hollbresennoledb ac anfarwoldeb. Dyfais i drosglwyddo gwybodaeth trwy gyfrwng arwyddnodau ydyw y Wasg. “Iaith a bair ddangaws, dangaws a bair ystyr.” Iaith ydyw yr offeryn trwy ba un y trosglwyddir ac y cyfnewidir meddyliau; a bu yr offeryn yma am oesoedd yn ngwasanaeth llais yn unig. Dyna, ni a ddywedwn, ddyn wedi ei gynnysgaethu â llafar i fod yn gyfrwng iddo i drosglwyddo ei syniadau; y peth rheidiol nesaf ydoedd geiriau,—hyny yw, rhyw swm neu oslefau penodol a gwahanredol i sefyll am y syniad hwn, yn wahanol i ryw syniad arall. Cymdeithas a chymhlethiad o seiniau ac ebychiadau ydyw iaith, yn cael ei thori yn dipiau gan frawddegau a geiriau a sillau. Natur yw llais, ond celfyddyd yw iaith; a'r cam cyntaf mewn gwybodaeth ieithyddol ydoedd cyttuno ar oslef neillduol i ddangos syniadau, sef oedd hyny, geiriau. Ond cam ymhellach, a cham mawr arswydus o bwysig ydoedd y cam nesaf hefyd, sef dyfeisio a chyttuno ar arwyddnodau—ar feddylirithiau a wnai ddangos y geiriau i'r llyged, yr un fath ag y gwnai swm eu dangos i'r glust; canys yr ydoedd y fath anfaiteision ynglŷn â'r swm; ni wnai gyrhaedd ymhell o ran lle nac amser; diflanai oddiar wefus yr areithiwr. Yr ydoedd eisieu darpariaeth a wnai ledw y syniadau, a'u dal o flaen y meddwl a'r oesoedd. Ac i gyfarfod â'r diffyg hwn, dyma lythyrenau yn ymwyddfodoli; cymerant i fyny syniadau yr areithiwr ar derfyngylch y swm, a thasiant hwynt hyd derfynau y ddaear a'r oesoedd, gan drechu angen a'r bedd, canys bydd y *marw trwy y llythyrenau* wrthi fyth yn siarad a dylanwadu a delweddu

Tip yn sefyll am sain yw llythyren—canwyll yr ydyw yr un fach, a ddeil athrylith yn nghynneu fyth.

Y Wasg ydyw y peiriant ag sydd yn ngwasanaeth llythyrenau. Llên-yddiaeth trwy gyfrwng llythyrenau ydyw cyrchnod y wasg, fel y mae dysgeidiaeth trwy gyfrwng llais yn nôd yr areithiwr. Gweriniaeth feddyliol (*mental democracy*) ydyw y wasg; canys daw hi â chynnyrchion meddwl y mawr a'r bach, yr hen a'r diweddar, i bawb fel eu gilydd. Yn banes bywyd Luther yr ydys yn darllen y gwnelai y gŵr drwg dalu ymweliadau personol yn fynych â'r hen fynach duwiol hwnw, er peri aflonyddwch a rhwystr iddo. Pan y byddai y mynach wrthi yn ysgrifenu ei bregethau, byddai y gŵr drwg yn doddi ei ben i mewn trwy ffenestr ei lyfrgell, gan wneyd ocheneidiau a gwep fel petasai bechadur dan yr argyhoedd-iad. Methodd Luther ddal dan y fath wawd ffugsanctaid, a tharawodd ben y gŵr drwg â'r incgorn; ac ä yr banes rhagddo i ddywedyd ddarfod i Lucifer ymddiflanu gydag oernad annaeorol, ac na ddychwelodd mwy, a hyny yn fwy oblegid dylanwad y *presentiment*—y rhagddaroganiad—na dylanwad yr ergyd ar ei ben. Y wasg ydyw y gallu mwyaf pwysig a feddwn ymblaid gwybodaeth a rhyddid. *Levellers* ydyw y wasg; gwna bob dyfais, a gwelliant, ac athrylith, a meddylddrych, yn feddiant i'r byd. Oes yw hon y mae dylanwad aruthrol gan yr incgorn—y mae yn meddu ar fath o hollbresennoliaeth; bydd pob dyn cyhoedd yn ymdeimlo ei fod yn siarad ac yn gweithredu, a'r byd yn edrych arno, trwy gyfrwng yr incgorn. Llawer crachswyddog a heddynad sioldew a swagrog mânlysoedd cilfachau gwledig Cymru a chwareuent y gŵr drwg â phobl anllythyrenog ein mynyddoedd, pe na byddai yr incgorn yno, mal corff y farwolaeth, â'i lygad du arnynt. Clust y byd, tafod y grëadigaeth, udgorn yr adgyfodiad, ydyw y wasg.

Ond er cystal gallu ydyw y wasg, yr ydys yn gwybod y gall wasanaethu amcanion drygionus ac iselgyrch yn gystal a rhai daionus ac uchelgyrch. Clywsom ryw areithiwr yn dywedyd ddarfod i'r gŵr drwg, pan welodd yr argraffwasg cyntaf, sefyll yn syn â'i law dan ei ben, ac iddo wysio cynghor o'r cyduffernolion mwyaf eu pwyll a'u diawledigrwydd; ac mai cynghor y cyffafaredd ydoedd yn gyntaf mogi y wasg; yn ail, ei llyfetheirio; yn drydydd, ei gwenwyno; ac yn olaf, a phan fethid efo y cynlluniau cyntaf, efnycheiddio y wasg, gan ei gwneyd i siarad dwb, baldorrd, glasdwr a briwsion—"gwneyd *Jack o Lantern* o'r wasg—*phosphoric light*—magien mewn meipen—a *slipslop era*," a grochlefaï rhyw gythraul gwargam yn y cyffafaredd; a bernir mai athrawiaeth y cythraul gwargam sydd wedi bod yn fwyaf llwyddiannus yn Nghymru i grebachu ac anurddo llwyddiant a dylanwad y wasg. Beth bynag, y mae pethau yn gwella—mae awduriaeth Bon y gler yn syrthio i anfri ac anfarchnadyddiaeth; ac y mae ein gwŵr llên, athrylithgar, a chlasurol, a chenedlaethol, fel pe byddent yn dyfod allan yn fwy nag oeddent fel awdwr Cymreig.

Mae y wasg Gymreig erbyn hyn bron yn allu cyfochrog â'r pulpud. Mae Cymru ar y ffordd i ddyfod yn genedl o ddarllenwyr; a bu llaw gref gan yr Ysgol Sabbothol mewn gwneyd y werin Gymreig yn genedl o ddarllenwyr. Dosbarthwn gynnyrchion y wasg Gymreig fel y canlyn,—

I. LLYFRAU Y DOSBARTH HENAFIAETHOL. Cysyngid y dosbarth hwn i'r cylch gwŵr llên. Beth bynag y mae y cylch hwn yn éaugu yn ddiweddar, a'r cynnyrchion henafiaethol yn dyfod yn fwy poblogaidd. Mae ein

hawdwyr henafiaethol gwedi gwneyd gwasanaeth mawr i'r Cymry ac i llenyddiaeth yn gyffredin. Dygasant trwy y wasg swrn mawr o hen lawys-grifau; casglasant ynghyd lawer o weddillion henafiaethol a mân-goffion llenyddol ag ydoedd yn aros ar gof a llais gwlad, a llawer o honynt rhwng dannedd anghof. Mae yn fwy nas gallwn ddirnad pa mor ddyledus ydym i'r ychydig fodau meudwyaidd hyny ag ydoedd â'r cnwc henafiaethol yn gorbwysu yn y siol; rhyw "*few and far between*" oeddent; ond diammheu fod y cnwc hwn yn ddarpariaeth rhagluniaethol, ac fod iddo ei genadwriaeth. Y mae amryw gyfnodau gwedi bod ar gasglu a dwyn allan weddillion henafol. Nid ydoedd yr haint henafol, yn fwy na heintiau eraill, yn gweithredu bob amser mor rymus. Tua dechreu y deunawfed canrif, ceir cylch o wladgarwyr wrthi dan arweiniad Edward Llwyd. "In 1693, Edward Llwyd was appointed by a committee of antiquarians in collecting materials relative to Wales, and in 1699, he published his '*Lithophylacæii Britannici Iconographia*.' He had formed a very comprehensive project for illustrating the ancient languages and History of Britain, and for this purpose he visited Ireland, Scotland, Cornwall, and Brittany. His travels occupied a space of five years, during which he obtained much important information from manuscripts and other memorials. In 1707 his *Archæologia Britannica* appeared. His early decease frustrated his design of publishing another volume of this *Lexicon*."* Gadawodd yr henafiaethwr hwn ar ei ol o lawys-grifau henafiaethol, gasgliad yn cynnwys deugain cyfrol unplyg, deg cyfrol pedwarplyg, a thua chant o fân gyfrolau llai. Tua diwedd yr un ganrif, a thua dechreu y ganrif bresennol, yr ydys yn cael cyffrôad arall henafiaethol. Yn y flwyddyn 1751, flurfiwyd y *Cymmrodorion Society*, enw pa un a newidiwyd wedi hyny yn *Gymdeithas y Gwyneddigion*; ac mewn cysylltiad â'r gymdeithas hon yr ydys yn cael y cyfser mwyaf trylachar yn hanes llenyddiaeth y Cymry. Yn eu mysg yr ydym yn cael enwau Richard Morris; Owen Jones (Myfyr); Sion Ceiriog; Rhobin Ddu; Dr. Llewelyn; John Jones, Glan y Gors; Twm o'r Nant; Shôn Edwards (*an easy good natured man as fond of Barddoniaeth as of curw da, and vice versa*, ebe yr hanesydd). Gwedi hyny y mae enwau y Dr. Pugh a Iolo Morganwg yn dyfod i'r chwareufwrdd. Pobl ydoedd y rhai hyn a wnaethant wasanaeth anfarwol yn y cylchoedd ieithyddol a henafiaethol. Dan nawdd y gymdeithas hon y cyhoeddwyd y "*Myfyrian Archæology*" yn dair cyfrol; Gwaith Dafydd ab Gwilym, 1789; ("Hyd 7, 1787, sefydlwyd cyhoeddi gwaith Dafydd ab Gwilym, dan nawdd a henw y gymdeithas," medd coflyfr y gymdeithas). Yn y fl. 1796, cyhoeddwyd ganddi y gyfrol gyntaf o'r "*Cambrian Register*." Yn y flwyddyn hon hefyd y bu farw y Parch. John Walters, offeiriad Llandochan, ac aelod brwd o'r gymdeithas hon. Cyhoeddodd ef yn y flwyddyn 1794 ei Eiriadur gwerthfawr—"which turned out an unfortunate speculation, owing that by a shipwreck the whole of the first impression was lost." Rhys Jones, o'r Blaenau, Swydd Feirionydd, ydoedd aelod o'r gymdeithas hon, ac a ddygodd allan "*Orchestion Beirdd Cymru*" (1770), llyfr henafiaethol arall. Yn y flwyddyn 1819, cyhoeddwyd "*Coll Gwynfa*;" yr "*Horæ Britannicæ*;" hefyd y rhifyn cyntaf o'r "*Cambro Britain*," oll dan nawdd a chan aelodau o'r gymdeithas hon. Prif olygydd y *Cambro Britain* ydoedd John Humfreys Parry, tad y *Sergeant Parry* presennol,

* Vid. "*Em. Welshmen*."

a'r hwn hefyd ydoedd awdwr y *Cambrian Plutarch* (1824). Yn y flwyddyn 1803, cyhoeddodd y Dr. Owen Pugh ei Eiriadur, yr hwn orchestwaith llênnyddol, yn ngeiriau awdwr yr *Eminent Welshmen*, sydd "annhydradd yn hanesyddiaeth Geiriaduron." Pan nad yw Geiriadur Saesoneg Dr. Johnson, wedi ei helaethu gan Todd, yn cynnwys ond 58,000 o eiriau, a phan nad yw Geiriadur mawr Webster yn cynnwys ond 70,000, yr ydoedd yr argraffiad cyntaf o Eiriadur y Dr. Pugh yn cynnwys 100,000 o eiriau, gyda 12,000 o ddyfyniadau, wedi eu codi gan mwyaf o lawysgrifau ag ydoedd y pryd hyny, ac eto, yn aros heb eu cyhoeddi! Yn ei argraffiad nesaf, 1832, chwanegodd amryw filoedd o eiriau yn rhagor. Yr ydys yn dywedyd gair fel yna wrth fyned heibio am Eiriadur anghymharol y Dr. Pugh, am y crachgeblir ef gan feibion anghof, canys un ffordd i ddyfod yn fawr ac i sylw yw adolygu a gosod enwogion yn eu lle. Mae yr ysfâ annaturiol ag sydd mewn rhai dynion i sarnu ein henwogion ymadawedig yn beth ag y dylid rhoddi ein gwyneb yn ei erbyn. Nid trwy rwncean a chrachboeri y mae cenedloedd eraill yn dangos eu coffadwriaeth o'u *mighty dead*. Mae yn wir mai dan y gair mânion y ceir gafael yn yr adolygyddion sarnlyd yma; coegfeirniaid pigfain, anhybwyll, ac iselfoes—clerfeirdd a chlergwn yr hen Iolo ydynt, gwedi bod yn astudio yn yr ysgol un-nos. Poed iddynt amgen gwaith na difrio enwogion ein cenedl ag ydynt yn gorphwysu yn nhawelwch y bedd, wedi gadael ar eu hol weithiau llênnyddol a berchir tra y perchir dawn ac athrylith.

"Pob gair oras diras—pob dyri—goegiaith,
Pob gogan a brynti,
Pob drawdod, pob direidi,
Ei gludo a wnaed i'n gwlad ni."

Beth bynag, pell ydym o feddwl fod i'r englyn hwn gyfeiriad cyffredinol—dim ond at y mânion; a poed iddynt, eiddilion llymion y llaid, yr iselfrydedd hono a'u gwna i siarad yn llai brych a llydan, pan yn siarad am enwogion y Gwyneddigion, y rhai a dreuliasant hanner canrif i chwilio a dyhyspyddu pob gwybodaeth lawysgrifol o eiddo ein cynfeirdd uchelddysg, ac a wariasant filoedd o bunnoedd yn mhlaid llênnyddiaeth eu gwlad.

Dan nawdd Cymdeithas y Gwyneddigion y cyhoeddwyd hefyd "Weithiau Llywarch Hen," ynghydag amryw weithiau eraill, rhy aml i'w henwi. Adgyfodwyd trwyddi hefyd yr hen Eisteddfodau Cymreig. Gadawodd Owen Myfyr, llywydd cyntaf y gymdeithas hon, gan' cyfrol o lawysgrifau ar ei ol, yn cynnwys 35,500 o dudalenau! gwedi eu bwriadu i ganlyn y "*Myfyriau Archaeology*," ond sydd yn aros eto heb eu cyhoeddi.

Fe fyddai traethawd neu ddau ar hanes Cymdeithas y Gwyneddigion yn beth tra difyr a dyddorol. Ceffid llawer o oleu ar lafur a hynodion cylch o wŷr llên a wnaethant fwy yn mhlaid ein llênnyddiaeth henafiaethol na neb eraill. Un o'r pethau cyntaf ydym yn gael yn nghofnodau y gymdeithas hon ydyw ddarfod i Goronwy Owen, yn 1758, dderbyn elusen ganddi i'w gynnorthwyo i ymfudo i'r Amerig. Yn y flwyddyn 1803, rhoddodd y pwyllgor fywgraffiad Goronwy yn destun cystadleuol, a danfodd drosodd i'r America at fab Goronwy i ofyn hanes helyntion diwedd oes ei dad uchelddawn; ac efe anfonodd ateb yn gofynu yn gyntaf pwy ydoedd yn myned i'w dalu! A dyna i chwi fab brych!

Ond i ddychwelyd at y Dosbarth Henafiaethol. Yn y blynyddoedd diweddar, mae y *Welsh MSS. Society* wedi cyhoeddi amryw gyfrolau gwerth-

fawr, megys y *Liber Landavensis*; *Dwnn Heraldic Visitations*; *Iolo's MSS.*; *British Saints*, &c. Mae Meddygon Myddfai yn y wasg, a Llyfr Coch Llanelwy, Llyfr Coch o Hergest, ac amryw eraill, yn cael eu haddaw pan dderbynir cefnogaeth. Ac ow! y mae yn golled enbyd nad allem frysio yr hen weithiau anwyl hyn trwy y wasg. Pe dodid cynllun ar droed i gasglu enwau, diammheu y cefid digon er gwaethaf y cloddiau ffin enwadol ag sydd wedi rhanu a gwanychu ein nerth i bob ysgogiad gwladwriaethol. Yr enwad, ac nid y genedl, sydd wedi myned yn *centre of gravity*. Cyhoeddwyd hefyd dau y pen hwn "Edeyrn Dafod Aur," gan Ab Ithel, llyfr drud a thrwm. Hefyd, Mari Lwyd, gan W. Roberts—llyfr rhad, llwyr, a difyr.

Ymddengys fod y chwaeth henafiaethol yn myned ar gynydd yn fwy na pheidio. Y mae un neu ddau o gylchgronau henafiaethol Saesonig yn cael eu derbyn yn helaeth gan y Cymry; ac y mae y "Brython" yn cynnyg yn llywyddiannus at yr un gwasananaeth yn Gymraeg. A phoed iddo lwyddo.

II. Y DOSBARTH HANESYDDOL ydyw y nesaf. Nid oes raid dywedyd mai gwybodaeth anghenrheidiol iawn ydyw hanesyddiaeth. Nid oes un wybodaeth yn debycach o gymedroli ac addfedu dyn na hanesyddiaeth. Heb hanesyddiaeth byddai pob dyn a phob oes yn dechreu yn barhâus wrth droed yr ysgol; ond bydd hanesyddiaeth yn trosglwyddo i ni ffrwyth crebwyll, a barn, a phrofiad yr oesoedd, gan roddi cyfle felly i'r naill oes a dyn i elwa ar gefn y llall, gan gychwyn yn ei gyrfa i fyny tua Chaerwydion oddiar ysgwydd y llall. Ni welsom erioed hanesydd da yn ddyd chwilboeth, penfeddw, ac eithafol. Mae hanesyddiaeth yn sobri. *Lighthouse* ydyw hanesyddiaeth; crynodeb o brofion—o *experiments* ydyw. Yma y gwelir yr holl ffurfiau o fympwyon—o "*human follies*"—o *theories*—o gronfachyddiaeth—o hud a lledrith y crachgrefyddau; pob gwylltedd a phenboethni, pob breuddwyd gwladol a chrefyddol. Yn ngoleu hanesyddiaeth canfyddir fod yr holl ffurfiau hyn o ddyluni wedi bod drosodd a throesodd ar chwareufwrdd amser—yn myned trwy eu tipu sefyllfa prawf, ac eu bod wedi eu cael yn brin. Darllenir wrth luyrn hanes yr achos trwy ac yn ngoleu yr efaith; canfyddir gausystemau fel cynifer o sêr cynffonog; dyfod—ffaglu—myned; yr egwyddorion rhinweddol fel sêr sefydlog trylachar; y syniadau gwylltion yn fath o gynron mewn abwy yn ymddiflanu fel cilion mewn golchon; y gwir—

"Though baffled oft,
Most sure to win at last."

Nid ydym fel cenedl yn llymach mewn un gangen lênyddol nag ydym mewn lyfrau hanesyddol. Nid oes genym gysgod rhith o lyfr ar *General History*; a Charnhuanawc ydyw yr unig Hanes Cymru ag sydd genym yn ein helw, wedi ei ysgrifenu yn feirniadol, difympwy, a chlasurol. Mae yr ysgol un-nos—sef yr ysgol ag sydd wedi bod yn darllen tua deuddeng awr cyn myned yn awdwr—o lyfrau tair ceiniog, ac ambell i lyfr grôt—mae yr ysgol hon, meddwn, wedi anfon allan swrn o lyfrau breuddwydion, mewn ffordd o hanesyddiaeth, gan siarad mor frais a phendant am "*Gomeric a Trojan Eras*," a rhyw wmbredoedd o ryfeddodau breuddwydiol eraill, â phe byddent yn cyfnodi hanes cwrdd chwarter neu Eisteddfod yr wythnos o'r blaen; canys, yn nghyffes ffydd y dyn byr, mae pob peth, bob amser, yn *pendant a diammheuol*; oblegid annheilwug o'i enwogrwydd ef fyddai bod *doubt*.

Mae yr awduriaeth un-nos yma wedi dylanwadu yn swrddanllyd a chrebachlyd ar ein cenedl ni—twmpathau gwadd yn anurddo y maes, ac yn tripio y byr ei gam.

Mae "Drych y Prif-oesoedd" yn gyfansoddiad clasurol, a'r ieithwedd yn bur a phoblog.

Y mae genym amrywiol Hanesyddiaethau Eglwysig; ond dim un genedlaethol a chyffredinol, eithr pob hanesydd am ei simne, yn ngolwg ei simne, a than ddylanwad mwg simne ei enwad ei hun. "Hanes Crefydd yn Nghymru," gan Dafydd Peters, ydyw y mwyaf cyffredinol a mwyaf rhydd. Yn wir, ein barn ostyngedig yw mai y llyfr hwn ydyw un o'r llyfrau goreu yn yr Iaith Gymraeg. Yr ydoedd yr awdwr yn wr llên, yn byw cyn i'r cyfnod mân, a chul, a gelyniaethol i'r Eglwys Sefydledig ddyfod i mewn, yn gystal a dallbleidiol tuag at hawliau hanesyddol enwadau eraill, heblaw eiddo yr ysgrifenydd ei hunan. Cymerai efe ei drem a'i ddammeg oddiar ben yr Alp, a'r niwloedd, a'r tawch, a'r mwg, a'r dymhestl oeddent odditanodd iddo. Gellir dywedyd yr un peth am "Hanes y Bedyddwyr," gan Joshua Thomas; rhagor nag fod hwn yn hanes enwadol, y mae yn llyfr tra gwerthfawr allan o'r cylch enwadol. Y mae "Hanes Methodistiaeth Cymru," yn perthyn hefyd i'r hanesyddiaeth enwadol. Llyfr ag ydoedd eisieu ei ysgrifenu ydoedd hwn, a syrthiodd y gwaith, fel yr ymddengys, i gystal dwylaw ag a ellid gael. Yr ydoedd yr awdwr yn feistr ar hanes Anghydfurfiaeth, a tharddiad a chynnydd yr enwad. Mae yr ieithwedd yn lithrig a grymus, a'r ysbryd yn weddol hynaws; a siaredir yn lled amhleiddgar am y bydoedd tu allan i'r orbid. Beth bynag, goddefer i ni ddywedyd yn y man hwn fod dwy ochr i'r ddalen parth hanes yr "Adfywiad Mawr," a dorodd allan dan weinidogaeth ac arweiniad Griffith Jones; Jones, Llangan; Griffiths, Nefern; Rowlands, Llangeitho; ynghyd âg offeiriaid eraill yn nghanol y ganrif ddiweddar. Nid ydoedd amcan awdwr y llyfr hwn yn ei arwain ond at un ochr y ddalen; cymeryd ei ddammeg a wnaeth ef o ddrws y capel; a phe cymerai rhywun cymhwys arall ei ddammeg o ddrws y clochdy,* buasem ni, pobl yr oes hon, yn gallu barnu yn well pa un ai ystyfnigrwydd yr offeiriaid, ai penrhyddid y gatrawd gynnorthwyol (cynghorwyr), a'u syched am urddau a chyd-raddoldeb, oedd yn fwyaf beiadwy. Byddai yn dda casglu pob mângofion gan yr ychydig hen bobl sydd wedi aros, ag oeddent bresennol yn rhai o'r cynnadleddau cyffrous a gymerodd le ar y pryd, ac a ddybenwyd mewn ymranïad a surni, a sigfa i'r adfywiad mawr. Nid ydym yn meddwl ddartod i goffadwriaeth offeiriaid y cyfnod pwysig hwn dderbyn y sylw a ddylasant oddiar law eu heglwys eu hunain. Gadewir i'w gwrhydri a'u tanbeidrwydd syrthio i ebargofiant; a byddai yn gyfnod newydd ar hanesyddiaeth eglwysig Cymreig pe yr ysgrifened hanes amhleiddgar a difympwy yr hen Eglwys Frytanaidd o ddyfodiad yr efengyl yma hyd yn bresennol, a'r hanesydd hwnw yn cael mynedfa at bob coflyfr eglwysig plwyfol ac esgobol, ac yn gallu hedfan fry fry uwchlaw pob simne.

III. DOSBARTH Y CYFNODOLION CYMREIG. Dyma ni yn awr yn dyfod at ddolen bwysig arall yn hanesyddiaeth Llênnyddiaeth Cymru,—"Y Cyhoeddiadau Misol." Y meddwl bachgenaid a ddychlamai

* Nid yw y darlennydd, ysgatfydd, wedi anghofio y nodiad byr mewn cysylltiad a'r Llythyr I., tu dal. 60.

yn mheroriaeth yr enw; mae cyhoeddiad misol wedi rhoi gosgedd a del-weddiad i genedl y Cymry. Ymladdwyd yma frwydrau rif y sêr—“Gallu ac Anallu Moesol,” “Pechod Gwreiddiol,” “Pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, y “Ddewines o Endor,” “Bedydd,” “Cymundeb Cymysg,” “Athrofa y Fenni,” “y Llythyren H,”—dyna nhwy rai o'r heu erthyglau anwyl a fuont gannoedd o weithiau ar boethfanoedd y gâd. Yfai y Cymro o drwyth y cyhoeddiad misol, pa un ai clauer ai mwlyd fyddai, mor naturiol ac awchlym ag yr yf yr ŷch o'r afon ganoldydd Gorphenaf. A dyna adegau prysur a chyffrous ydoedd hi pan ydoedd “Zelah,” “Nôd Cain,” “Melchizedec,”—wedi cael eu gosod yn ngwagar nithio Thomas y crydd, a Jack yr hatwr. O'r diwedd, dyna Shôn Philip Dafydd, Ty'r sgubor, yn esgyn y poethfanoedd, ac yn dyfod allan i settlo y mater. Oracl y pentref ydoedd Shôn, yn meddu ar arabedd trwm, pletog ei dymher; gelyn mawr “*academies*,” ac yn ddienuog hollol o ddarllen unrhyw lyfrau tu faes i gylch ei enwad, ac uwch na rhai tair ceiniog, a chan mwyaf ar fedydd; ond dyna ef maes ar y gair “Zelah;” ac a glywsoch chwi ddim o'r *shock* yna trwy anian fawr yn ei holl ranau ângfaith? Ymorphwysodd yr elfenau fel y caffai natur lonydd i ymddyhen ac i ail dynu ei hanadl ati. Yr ydoedd yn gyffro trwy y pentref ar y dydd cyntaf o'r mis; yr ydoedd Nod Shôn y Shop fach yn darllen y traethawd yn yr efail,—“Deishyfon i, dyna *hit*.” Croesodd Shôn Dafydd y pentref siwrneu neu ddwy, yn lletach a mwy unionsyth nag arfer, gan geisio rhithio anwybodolrwydd fod dim mwy nag arfer wedi cymeryd lle yn y grëadigaeth. Fe fyddai hanes a mângoſion am y mânion llênorol yma yn y cyfnod *slip-stop* llênnyddol yn beth digon dyddorol. Ffuriant ran o'n hanesyddiaeth; a gellid dangos mai i'r Eisteddfod ac i sectyddiaeth yr ydys yn ddyledus am yr “awduriaeth gwerinol.” Ond âwn rhagom i sylwi ar

I. CYFNOD YR ALMANACIAU.

Dan y pen cyfnodolion, cyfnod yr Almanaciau a ddylai ddyfod dan sylw gyntaf. Dan y pen cyfnodolion y dylem grybwyll am danynt hwy, canys Almanaciau ydoedd yr unig beth ag oedd yn dwyn nodweddau y cylchgrawn yn y ddwy ganrif ddiweddar. Yr Almanac a agorodd y ffordd i'r misolion—hwynt-hwy a dorasant y *caste*, a darfu iddynt fod yn wasanaethgar i fagu yn y werin awydd am ddarllen. Cynnwysent Draethodau, Caneuon, Englynion, Gofyniadau, Cofianau, Manion, gan fod yn fath o gyfrwng gwybodaeth a gohebiaeth i'r genedl; ac er mwyn cael gafael mewn mân-gofion llênnyddol, a mân-ddarnau, ffrwyth athrylith mânfeirdd a mânysgrifenwyr y canrif diweddar, rhaid i ni droi i'r hen Almanaciau. Yr ydys yn cael yma hefyd ryw flaendarddiad o'r “Awduriaeth Werinol” ag a ddarfu wedi hyny ddyfod yn frydweddiad neillduol o eiddo pobl gyffredin Cymru, gan roddi bod a phorthiant i gyfres neillduol o gylchgronau a adwaenir mewn hanesyddiaeth wrth “Gyfras y Talcen Slip.” Pwy all ddirnad anhawserau y cyfnod Almanacawl, pan ydoedd raid nid yn unig magu chwaeth i ddarllen ond dysgu darllen? Mae yn bryd dyfod âg enwau yr hen Almanacwyr yma i fri—eu dadgladdu odditan sarn ceir llusg yr enwadau, a than grugiau o bampuletaw cyfnod y cwffio crefyddol. Noddasant ein hiaith mewn cyfnod tywyll, a gosodasant i lawr sylfaen llwyddiant ein llênnyddiaeth gyfnodol. Achubasant lawer darn tiws henafol rhag safnrwth anghof, a *throsglwyddasant i ni fân enwau a mân gynnyrchion athrylith eu hamser,*

ag na chlywsid am danynt fyth pe na buasai "Almanac." Nid oes gopi cyflawn o'r "Almanaciau" ar glawr y dydd heddyw; a pheth gwladgar iawn fyddai pe crynhöid y darnau llényddol sydd yn y rhan sydd ar gael, a'u cyhoeddi ar ben eu hunain. Byddai hyny, gellid meddwl, yn llawer gwell na phastylu yn dragywyddol, a chyhoeddi mân lyfrynach edlychaid a bustlog ar bynciau dadleugar crefyddol.

Nid ellir yma ond rhoddi rhestr anmherffaith o rai o'r cyfresau "Almanacawl" a fu yn gyfryngau addysg y Cymry gynt.

(a) Almanaciau T. Jones, o'r flwyddyn 1680 hyd 1715—oll 36.

(b) Almanaciau J. Jones, o'r fl. 1710 hyd 1750—oll 40.

(c) Almanaciau Sion Rhydderch, o'r fl. 1716 hyd 1747—oll 25.

(d) Almanaciau Siôn Prys o Iâl, 1738 hyd 1785—oll 47.

(e) Almanaciau Gwilym Howel o Lanidloes, 1766 hyd 1776—oll 10.

(f) Almanaciau Cain Jones, 1776 hyd 1795—oll 31.

(g) Almanaciau J. Harris, Kidwelli, 1791.

(h) Almanaciau Matthew Williams, 1777.

(i) Eiddo John Roberts, Caergybi, 1750 ymlaen i'r ganrif bresennol.

Tywysog yr Almanacwyr y gelwir ef. Bu wrthi bron am hanner canrif.

Dyna wyth cyfres o Almanaciau, a dygant ni i lawr hyd oes y cylchgronau misol; canys dechreuodd y "Cylchgrawn," fel y ceir sylwi eto, yn y flwyddyn 1770. Gwnaeth awdwr y gohebwyr gwladgar yr Almanaciau gymaint; os nad mwy, yn mhlaid cadwraeth a choethiad yr iaith Gymraeg, a thros llynyddiaeth y Cymry, na neb eraill a fu cyn neu gwedi hyny. Mae rhai o'r enwau uchod yn sêr dysglær yn ffurfafen llynyddol Gwylt Walia; yn neillduol felly T. Jones, Shon Prys, Shon Rhydderch. Teidiau ein cyfnodolion oeddent; ond pwy a ysgrifenedd eu cofiantau? Neb. A phaham na byddai ein darlithwyr a'n Heisteddfodau yn gweled teilyngdod dynion fel hyn i ymgytadlu ac ymddarlithio arnynt? Nis gwyddom pam amgen nad oeddent arwyr y sect. Pe buasent yn *heroes of the Enwad*, cawsent gofiannau a gwyngalchiad, os nid santoliaeth; ond pan ymsobra ein cenedl, ac y bydd yn fwy gwladgarol nag enwadol, daw yr hen enwau hyn eto i fyny, ag a fuont wrthi yn gweithio mewn drysgoed, i fri ac anfarwoldeb.

Cyhoeddodd yr uchodion amryw o lyfrau heblaw yr Almanaciau. Teiliwr ydoedd T. Jones yn wreiddiol; ganwyd ef yn Nhreddol, Corwen, 1647, ac aeth i Lundain pan yn ddeuddeg oed. Efe ydoedd yr Almanaciwr cyntaf. Yn y flwyddyn 1696, dychwelodd i Gymru, a sefydlodd argraffwasg yn y Mwythig. Yn y flwyddyn 1687, cyhoeddodd ei Eiriadur Cymraeg a Saesneg, "O'm Ty wrth lun y Carfil yn Maes-isa-y-fawnog, Caerlydd."*

* Ymddengys y caffai ein Halmanacwyr cyntaf wrthwynebiad cryf i'w hymdrechion olod-wiw oddiwrth ryw blaidd gref yn eu gwlad eu hunain. Fel y canlyn y dywed T. Jones yn ei ail Almanac (1681)—"Yr ydwyf yn ewyllysagar i dreulio holl ddyddiau fy oes yn y gwasanaeth goreu ag allwif i fawrygu yr hen iaith haeddbarch hon, er fy mod yn ofni y bydd yn wrthwynebus i rai. Hysbyswyd fi fod rhai o'm cydwladwyr yn ohwyddo o lid a ohenfigen wrthyf fi. Ni wn pam oddigerth am i mi y wneuthur y peth na fedrent hwy, neu fod yn wrthwynebus ganddynt weled gwneuthyr daioni i'w gwlad eu hun."

Mae pennillion a anfonwyd gan rhyw "Lewis Cynllwyd" at y T. Jones yma i ofyn par o ddillad ganddo, pan yn Lundain, ar gael eto, yn dechreu fel hyn,—

"Rw'i danfon trwy draserch deg annerch digudd
I ddinas fawr enwog a elwir Caerludd,
At Thomas Jones * * *

II. CYFNOD Y CYLCHGRONAU MISOL.

Cyfnod y Grealon Misol sydd yn canlyn wrth sawdl yr Almanaciau. Rhoddir yn flaenaf enwau yr hen realon. Gellid gwahaniaethu y rhestreb hon oddiwrth "Gyfras y Talcen Slip." Gelwir hon, os mynchwch, yn gyfras glas-uro, canys golygid a dygid allan realon y cyfnod hwn gan lënorion yn meddu nodweddiad fel Cymreigwyr a beirdd.

1. Yn flaenaf ac ar ben y rhes saif "*Yr Eurgrawn Cymraeg*,"—cyhoeddiad bythefnosol, 33 tu dal., Caerfyrddin, o Fawrth 8 hyd Medi 15—oll yn 16. rhifyn. A. D. 1770. Cynlluniwyd a dygwyd ymlaen y cyhoeddiad hwn gan y Parch. Josiah Rees, Gelligron, Swydd Forganwg. Tebygol mai y Josiah Rees hwn ydoedd hefyd awdwr y llyfr hymnau da a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1796. Pan ddygir allan argraffiad arall o'r "*Eminent Welshmen*," gobeithir na ddianga y Josiah Rees hwn, golygydd ein cylchgrawn cyntaf, yn gystal a T. Jones, yr Almanaciwr cyntaf, rhag cael eu cofnodi ymysg ein henwogion. Gobeithiasom y buasai "Allibone," efo ei "30,000 *Authors*," yn cofio am Gymru; ond ychydig a byr ydyw ei grybwyllion ef am Gymry. Mae yn syndod fod yr *Eminent Welshmen* mor gyflawn ag ydyw; ond bydd yn dda genym glywed am ailargraffiad cyflawnach.

2. "*Y Cylchgrawn Cymraeg*,"— misol, Trefecca, Chwef., 1793 hyd 1794—oll pum rhifyn. Golygydd, y Parch. Morgan Rhys.

3. "*Y Geirgrawn*," neu Drysorfa Gwybodaeth am y flwyddyn 1796, a argraffwyd yn Nghaerlleon. Golygydd, D. Davies. Y D. Davies yma ydoedd weinidog gyda yr Annibynwyr yn Nhrefynnon. Ymddangosodd yn ei *Eirgrawn* ysgrifau a dybid eu bod yn sawri yn mhlaid chwyldröad Ffrainc, ag ydoedd yn chwilboeth yn fflagu Ewrop ar y pryd. Tynodd arno

Rwyi 'n gofyn yr hugan yn llydan a laes,
I gael i mi fyned ar merched ir maes
Clos cruch wrth y fflasiwn dymunwn i fod,
Fo dybiau fod landie yn nghyrie fy nghod.

A chwedi iddo nhrwsio am taclu mewn trefn
A rhoddi gwieg addas i guddio fy nghofn
Mi fyddaf mewn gwynfyd bob mynd om hoer
Yn plethu cerdd gyson ir haelion au rhoes."

Yr ydoedd T. Jones yn egtwyswr zelog, fel yr ydoedd y rhan fwyaf y pryd hyn; a'r llyfr cyntaf a argraffodd yn yr Amwythig (1696), ydoedd "Llyfr Carolau a Dyriau Duw-ïol;" a bu ei wasg yma yn dra epiliog o lyfrau Cymraeg gwerthfawr. (Gwel ymhellach ar hyn, W. R., Blaenau. Seren Gomer, 1852.)

Yn ystod y cyfnod almanacawl hwn yr ydym yn cwrdd yn fynych a'r enw "*Crispianus John*," fel llyfrwerthwr o sylw, yn trigo yn benaf yn Nghaerfyrddin. Y mae ger ein bron yn awr llyfr llawysgrifol yn 258 o du dalenau, gan mwyaf o hono yn llawysgrifen yr hen "*Crispianus John*" (1717), a llawer o'r darnau barddonol ynddo wedi eu cyfansoddi ganddo ef ei hun. Yr ydym hefyd trwy garedigrwydd Mr. B. Davies, Athraw Ysgol Madam Bevan, wedi cael at ein gwasanaeth amryw gyfrolau llawysgrifol eraill o'r cyfnod hwn. Taffant lawer o oleu ar yr adeg dywell hono, a chofnodir ynddynt fân enwau a fuasant wedi myned i gollu pe na cheffid hwy yma. Mae Mr. Davies wedi bod yn dra llwyddiannus mewn casglu ynghyd swrn fawr o lawysgrifau; a dichon y bydd i ni rhyngddom, rywro, roddi eu teithi, a phigion o honynt, trwy y wasg. Yr ydym yn meddwl fod rhes o hen argraffwyr Cymreig, ynghyda rhes o hen glochyddion, a rhes o ysgolfeistriaid, wedi bod yn Nghymru o nodweddiad llënyddol, a da iawn fyddai pe cymerai rhywrai i fyny y gwahanol gyfresau hyn, a chasglu dim a ellid wybod am danynt. Pa un ai mân ai bras rigymwyr a chyfansoddwyr a allent fod, ni fyddai hyn o wahaniaeth. Byddai eu henwau a'u cynnyrchion o werth hanesyddol, fel yn tafu goleu ar sefyllfa eu hamseroedd. Mae amryw gynnyrchion o'r fath yn y swrn llawysgrifol presennol.

ŵg yr awdurdodau, a bu mewn enbydrwydd ac ar ffo am ryw amser: Ychydig o rifynau a ymddangosodd o'r Geirgrawn.

4. "Y *Drysorfa Ysbrydol*." Golygwyr, T. Charles a T. Jones. Y gyfrol gyntaf yn 1801, a'r ail yn 1811.

5. "Y *Greal*." Llundain, dan nawdd y Gwyneddigion a'r Cymreigyddion; o Alban Hefin 1805 hyd Alban Eilir 1807—oll 9 rhifyn. Creirfa o gofion henafiaethol ydyw y gyfrol dlos hon, y goreu fel y cyfryw a feddwn. Ie yn sicr ddiammheuol.

A dyma i'r darlennydd restr o'r hen gyfnodolion, a theilwng ydynt o'r enw clasurol, ac yr ydym dan ddyled mawr iddynt. Dodwyd ganddynt ar gael a chadw weddillion doethineb a chrebwyll yr hen oesoedd. Cymhellwyd ar y werin rinweddau yr aelwyd, cenedlgarwch, diwydrwydd, a'r cynneddfau a addurnant gymdeithas a chrefydd. Nid ydoedd yr elyll rhagfarn, y gecraeth, y crachesbonio, a rhaib y cyndyn-ddadlu crefyddol wedi cymeryd meddiant eto o'r wlad; ac nid ydoedd eto gwedi ymddangos y gyfres hono o realon a wnai wasanaethu y cyfryw nwydau anhybwyll ac iselgyrch. Mae y cylchgronau hyn oll gwedi difannu; a'r cylcholygwyr a'r cylchohebwy'r gwladgar hyn a fuont wrthi mewn anhunedd yn lluniaru y meddwl Cymreig—y maent hwythau gwedi gadael cylch Gwalia—am, ni a obeithiwn, gylch gwynfyd. Yr Eurgrawn Wesleyaidd ydyw y cyhoeddiad henaf yn fyw. Cychwynwyd ef yn 1809. Y nesaf at hyn ydyw *Seren Gomer*—bl. 1814.

Ac ow! fel y mae yr oesoedd yn ymddirwyn heibio—cylch ar ol cylch o *actors* yn dyfod i'r *stage*—yn Olygwyr, Beirdd, Englynwyr, Dychymygwyr, Tônwyr, Adolygwyr, Beirniaid—gan chwareu eu tipyn *parts*—oll â'u ciwdodau bychain neu fawr o *admirers*—hongiedyddion—ac ar ol bod yma am ychydig yn ymddadbygu yn mhresennoldeb yr oesoedd, dyna hwy yn ymddifannu yn ochr orllewinol y *stage* i roddi lle i gatrawd arall o *actors*. Y mae rhyw-brudd-der annae'rol, yn gymysg â rhyw lesmeirion swyngyfar-eddol, yn ymaflwyd ynom wrth gymeryd trem fel hyn, wrth edrych fel oddiar warglawdd y bedd trwy Gaer-sid y cylchgronau misol, gweled ser—comedau goruchion, yn dyfod i fewn gan dafu eu gwawl claer neu bwl arnom i lawr, ac yna bant â hwy i droi fyth yn rhyw fuffafanau eraill, mwy clir,—

"I droi 'n drylachar mewn difaehlad gylch!"

Ac fel y maent hwy yma odd ein blaen—rhes ar ol rhes—ysbrydion gwyr a gwladoldeb, y cadfeydd, a'r chwyldroadau, a'r tymhestloedd bloeddgar—yma y maent yn ymhofran fel cysgodion, os nid yn sylweddol, yn nghylch ein dychymyg.

Yr ydym yn cofio i ni er ys rhyw bum' mlynedd yn ol wneyd sylw fod cylch hen ohebwy'r y "Seren" dan Harris fawr wedi myned i gyd i'r bedd. Eithr dyna "Cymro Bach," a rhyw un neu ddau arall, yn codi i fyny i wrth-dystio yn erbyn cael eu claddu yn fyw. Ond, "*tempus fugit*," dyna y rhai yna erbyn heddyw wedi croesi y wal ddiadlam. Ac y mae rhywbeth yn llesmeiriol edrych yn ol ar yr hen ohebwy'r yma yn ymddringo i fyny i'r *stage*, o gam i gam—fe allai ddim mor bell â'r amlen am dro neu ddau—wedi hyny yr amlen, ac wedi hyny hola y prentisiaeth allan yn *orbit* y gofyniadau. Gwel yna arnynt yn tyfu—yr oruchionen wan yn esgyn i entrych awyr, yn seren y dydd. Dyna yr athrylith yn ei chynrith a'i blaendarddiant yn ennill nerth a sylw. Dyna, dywedwn, "Ddewi Glen Syr-

lywi," yn Seren Gomer 1825,—dyna ddechreu hwnw yn rhidis fach fel llygeidyn wrth fôn craig yn tori maes a dechreu sibrydu. Cadw dy lygad arni; nid yw ei môr ymhell—â y rhidis rhagddi yn ddyfroedd nofiadwy, rhyferthwyol, gan ymgolli yn Atlantic tragywyddoldeb, ar ganolddydd niwlog. Yn yr adolrheiniadau yma o eiddo y côf, yr ydym yn ailymgyfmanogi yn anfarwoldeb y mawrion a'r daionusion a fuont wrthi ar gylchoedd ein gwlad neu ein heglwys; yr ydym fel yn eu tynu atom drachefn—ymhofranant ac ymrithiant o flaen ein llygaid. A poed i ni eu hollynolion eiddil ddilyn ôl eu traed, mewn defnyddioldeb a gwladgarwch.

Cyn crybwyll gair am ein cylchgronau presennol, byddai yn iawn enwi "Y Cylchgrawn," "Y Gwladgarwr," a'r "Gwyllyedydd," y rhai a ddygid allan dan aden yr Eglwys Sefydledig; ond y ddau gyntaf yn ymgynnyg ar fod yn genedlaethol yn fwy nag enwadol. A chyda golwg ar y ddau gyntaf hyn, yr ydys yn cydnabod yn gyffredin na chynnygiwyd dim gwell cynlluniau o fisolion i'n cenedl ni—beth bynag yn y cyfnod hwnw; ond er mor athrylithgar, ac yn wir, clasurol, methasant dalu eu ffordd, yn fwy fe allai am nad oedd gan yr Eglwys Sefydledig gynllun mor bwrpasol â'r enwadau yn gyffredin er casglu enwau a marchnata eu nwyfau llenyddol. Gyda golwg ar y "Cylchgrawn," y mae J. Roberts, offeiriad Tremeirchion, mewn llythyr at Eliezer Williams, Llanbedr, Awst 2, 1814, yn dywedyd, "Only Mr. Evans (Llanbadarnfawr), and myself are embarked in this concern as proprietors. The first numbers will be attended with some pecuniary loss; but the subsequent numbers shall not fail to indemnify the expences, &c." Yna daw sylw fod yr orgraff yn hwdwch mawr yn gwneyd cyfro rhyfedd yn y cyfnod hwnw, ac mai un o amcanion sefydliad y Cylchgrawn ydoedd, "to support the orthodox orthography!" Braidn na feiddiem ni feddwl, wrth fyned heibio, fod gormod o drybestawdd wedi bod ac yn bod parth yr orgraff Gymreig. Mae y Gymraeg yn iaith unig a gwahanredol, a'i saerniaeth yn wahanol i bob iaith arall, ac annheg fyddai er darostwng i ddeddfau ieithoedd eraill; ac y mae unrhywiaeth orgraff i'r Gymraeg yn beth anhosibl anianyddol, heb i chwi fyned i ddystrywio cyntefigion ac elfenau; ac hyd y gwyddom ni, mae amrywiaeth orgraff yn un o ragor-gampau y Gymraeg. Beth bynag, nid ydys yma ond gwneyd awgrym wrth fyned heibio.

Cychwynwyd ail gyfres o'r "Cylchgrawn" dan olygyddiaeth Blackwell, 1834. Mae y gyfres hon hefyd, yn ein tyb ni, yn gynllun o beth ddylai cylchgrawn fod—yn genedlaethol—dim ysgarmesau crefyddol; creirfa o dlyision henafiaethol; ciwdawd o wŷr llên yn ohebwy; celfyddydau, a rhinweddau cymdeithasol, a theleidion yr aelwyd, yn brif destunau y gyfres.

Yr ydoedd y "Gwladgarwr," dan olygiaeth Glan Geirionydd, yn dyfod allan yn yr un blynyddoedd, ac yn meddu agos yr un teithi â'r Cylchgrawn. Fel y cael yn dywedai "Dewi Wyn" ar ansawdd y "Gwladgarwr," ac ni ellid dywedyd mwy, na chan un mwy,—“Ni fedrais i erioed ystyried Ieuan Glan Geirionydd yn Oronwy o Fôn o fardd; ond wele ei 'Wladgarwr' yn ei arddangos yn ddyn fel pe bae yn grynôad o gymhwysderau Greal-wyr y bydysawd.” (Cofiant, tu dal. xxxi).

Cychwynwyd y "Gwyllyedydd" gan offeiriad Eglwys Loegr, yn y flwyddyn 1822, yn cael ei argraffu yn y Bala. Bu ei noddwyr wrthi yn egniol a diymollwng yn ngwyneb llawer o ddigalondid; ond enciliodd yu-tau o'r maes o ddiffyg cefnogaeth.

Nid ydyw yr Eglwys yn Nghymru wedi bod mor llwyddiannus yn ei hanturiaeth cylchgronol ag ydyw yr Enwadau yn gyffredin. A phabam hyny? Os gwir, neu os ydyw yn hamner gwir, fod yr hwn a feddianno weisg y wlad yn meddiannu hefyd ddaliadau ei thrigolion, mae dibriadod cyffredin gwyr llên yr Eglwys yn mhlaidd y wasg Gymraeg yn dra pheryglus a bradychlyd i'w hegwyddorion. Yn y ddwyfed a'r drydedd ganrif ar bymtheg, gwnaeth yr offeiriaid a gwyr eglwysig fwy na phawb eraill ynghyd, yn mhlaidd y wasg; ond yn y ganrif hon, mae yr offeiriaid fel corff wedi gadael y maes, a'r wasg Gymraeg wedi myned, gydag ychydig eithriad, yn beiriant Ymneillduol. Cymerer i fyny restreb o'r offeiriaid a godwyd yn Ystradmeurig, ac wedi hyny yn Ngholeg Dewi Sant, a chyda hyny restreb o'r pregethwyr a godwyd yn ngwahanol athrofeydd Ymneillduol, a chymbarer y *per centage* o honynt a ymenwogasant fel ysgrifenyddwr ac awdwyr Cymreig, a gwelir nad ydyw Cymru mewn llawer o ddyled i'r eglwys am ei llyfrau diweddar; a byddai y cyhoeddiadau misol yn dra hesp o ran y mwyaf i'r o honynt hwy a enwyd. Un o'r rhwystrau mwyaf ar ffordd llwyddiant llyfrau yr Eglwys ydyw diffyg cynllun i'w taenu. Mae y Cymry wedi arfer cael eu cylchgronau wrth eu drysau, ac y mae pob capel yn llyfrdy; ac yn Nghymru nid oes un Llundain yn ganolbwynt llyfrau Cymreig. Peth o'r goreu fyddai *colporteurs* teithiol i werthu llyfrau a chasglu enwan.

Nid oes raid enwi y cylchgronau a'r newyddiaduron Cymreig presennol. Mae y gornant fach gyfnodol a dorodd allan yn Almanac T. Jones, 1680, erbyn hyn yn Hafren gylchgronol. Y maent yn tynu ar bymtheg ar hugain mewn rhif, a'u cylchrediad unedig tua thri chan mil y flwyddyn. Mae y fath gylchrediad mewn gwlad cân lleied yn ei phoblogaeth â Chymru, yn beth digon anrhydeddus; a phe buasai eu teilyngdod llênnyddol yn cyfateb i'w rhif, buasai genym achos i ymfrostio. Ond y mae hi yn flaith na ddylid ei chuddio nad ydyw y *quality* mor anrhydeddus â'r *quantity*—fod mater y pwys yn fwy yn ein herbyn na mater y rhif. Mae diflasod cyffredin y werin o achwynion trwmfrydig y cyhoeddwyd yn dangos fod cyfnod y "talcen slip" yn tynu tua bol y clawdd. Mae cyfres gylchgronol yr "hen ffasiwn," fel ei gelwir—er nid mor hen—sef cylchgronau y cyndyn-ddadlu a'r clewtian di-dor-derfyn crefyddol,—mae y gyfres hon yn tynu tuag at ryw nod. Rhaid cael cyfres newydd, "ym mhobl i," neu fe fydd câr llusg yr enwad—y cyhoeddiad misol—â'i heglau i fyny yn rhyw bwl tywarch. Mae hi wedi myned yn ormod o'r dydd—neu yn hytrach, dylasid dywedyd—*o'r nos* (hym!)—i giwdodau y "British" a'r "National Schools" ag sydd â phob gwyddon a chelf a hanes ar benau eu bysedd,—i wrandaw ar "Eryr Glan Rhondda;" yr "Iagoaid ap Dewiau;" yr "Iotas ap Pi;" y "Morganiaid Morganwg;" "Gwilymiaid Mehefin;" y "Maciaid Gorphenaf;" y "Sylwedyddion," a'r "Gomeryddion," a'r "Camberiaid," yr "Aphiaid," a'r "Ioliaid," &c., &c. Ni wnaiff ciwdodau yr ysgolion hyn, meddwn, wrando ar yr enwogion yma yn cymeryd eu dammegion ac yn traethu eu llên. Yr ydym yn darllen fod rhai yn myned mor bell a meddwl fod cylchgronau y gyfres ddiweddar yn gwneyd mwy i grebachu y chwaeth Cymreig na'i choethi, fod gofal golygyddol rhes o honynt yn nwyllaw dynion hollol ymddisad o nodweddiad llênnyddol, a chydag eithriad o ryw ddau neu dri neu bedwar, nad oes gan ein cyfnodolion unrhyw *staff* neu gysawd o ohebwyd—fod ein gwyr llên, yn feirdd a duwinyddion, wedi encilio o'r maes, ac mai y canlyniad yw, a

pha fodd y gellid dysgwyl yn amgen, fod llawer iawn o goegddysgeidiaeth a chyndynddadlu anffaeledig a rhodresgar; rhyw ddyinion dwy fodfedd, ys dywedai Christmas Evans, yn ymledu, yn ymgecu, ac yn ymchllti uwch ben y tipyn mintys a'r anis. Trafodir y pynciau dyfnaf yn fynych gyda yr eofndra a'r anffaeledigrwydd ag sydd yn ddolurus i'r ysbryd lled-nais ac adfed. Pan yn dywedyd fel hyn, peidier meddwl ein bod yn siarad yn anmharchus am fân ysgrifenwyr. Nid ellir dysgwyl yn amgen oddi-wrth y rhai na fyddont wedi cael blynyddoedd o ddysg, a blynyddoedd o ddarllen. Ond traethu ein drwgdybiaeth ydym parth y priodoldeb o ddodi dynion fel hyn yn ddysgawdwr. Ymfrostir fod y werin Gymreig yn genedl o awdwyr; ond mae eraill o'r farn nad oes yma ddim i ymfrostio ynddo. Mae fod dynion yn rhuthro i'r wasg cyn gwybod un gramadeg yn y byd, cyn medru sillebu un frawddeg yu gwir, ac heb ddarllen unrhyw lyfrau yn y byd yn gynnil a beirniadol—mae y fath ruthro yn dynodi llawer o ryfgy ac o anwybodaeth. Ac y mae yn debyg o fod yn ddystryw ar y dyn ei hunan; ymbrancia yn ei edlycheidd-dra; bydd y dall yn myned i arwain y dall; dygir i fewn goegddysgeidiaeth. Dyma beth yw oes y *pedantry*. Dysgu eu hunain, ac nid bod yn athrawon, sydd i fod yn gyrchnod gwerin o bobl; ychydig sydd i fod yn athrawon; ac y mae bod yn athraw, a bod yn awdwr, a bod hyd yn nôd ar ffôn isaf ysgol dysgeidiaeth, yn gofyn blynyddoedd o ddarllen cynnil, caled, beirniadol, a chrafangol. Dynion llênnyddol, i.e. a chlasurol, ydoedd yr hen awdwyr Cymreig; ac un o'r rhwystrau penaf y dydd heddyw ar ffordd codi safon ein llênnyddiaeth, ac ar ffordd derchafiad y werin, ydyw y rhaib ddol, croes i bob athroniaeth a phrosiad, ag sydd yn ein hieuenctyd am fod yn awdwyr. Beth! ymfrostio fod y werin Gymreig yn werin o awdwyr—neu y *peasant literature*, ys dywed "Ysgol y Bendro"—gwarchod pawb! ymfrostio fod ein hieuenctyd anwyl, prin eu hamser a phrin eu llyfrau, yn lle coethi eu hunain ac ymberffeithio, gan feistrolï hanesyddiaeth a gwahanol gelfau, yn lle hyny yn myned i ymbendroni mewn rhigymu ac i ymfaldodi uwch ben crach-gwestiynau diorphen, gan *settle* i lawr yn bertynod pwl, hyf, crachddysgedig, teneu, a chroenlwm, heb godi byth yn uwch na'r gaib a'r rhaw! Cymered ein darllenwyr ieuainc ein cyngor—sef glyner wrth ddarllen. Nid oes dim gwyrrth yn bod, fechgyn anwyl. Rhaid blynyddoedd o ddarllen cyn cyrhaedd gwybodaeth ac addfedrwydd meddwl. Yr ydys trwy yr ysta awdurol ddall a delff a chynfarf yma, yn cadw i fyny un o'r prydweddu mwyaf anffortunos oeiddo y tipyn Cymry. Yr ydys yn nychu ein hunain—yn dwyn anfri ar lênnyddiaeth Gymreig—yn bol-lwytho a syrffadu a diflasu y darllenwyr, gan eu gyru at lyfrau Seasonig. Yr ydych yn gyru, os nid wedi gyru, y swch i swmbwl—y ceir i'r gors. Yr ydych hefyd yn rhoddi beuthyg eich llafur yn rhad i gynnal yn fyw anturiaethau masnachol annheg ac anghlodwiw; annheg am y dylid talu am gynnyrchion llênnyddol, ac anghlodwiw am fod y mângyhoeddiadau a'r mânlyfrînau yma, yn lle goddef iddynt weithio eu ffordd yn deg ar eu gwaelod eu hunain—trwy rym teilyngdod—yn cael eu gwthio ar y wlad ac ar bobl wirion a zelog, trwy rym ceg, a phastwn, ac ar sect a phasbwrdd Cymanfa a Chwrdd Chwarter. Yr awduriaeth wennol sydd wedi rhoi, ac sydd yn cynnal, bod-oldeb y Cylchgroniaeth *slip-slop*. Dyna y masnachwr dinod yn treio ei law ar gyhoeddiad misol, gan olygu yn flaenaf ogoniant yr achos. Nid *all y masnachwr fforddio* talu am olygydd â chanddo nodweddiad llênnydd-

ol; yna gwyngalchir rhyw Barch., a rhoddir anrhydedd y swydd—y bettwm plwm—Mr. Gol.—yn atdaliad am eistedd yn y gadair; a dyna ef, Mr. Gol., yn y gadair ac ystên Sioned yn ei law chwith, yn dysgwyl yn gylchdremol—pa ryw slwtri—pa ryw friwsion—pa ryw fasneidiau o enwyn a phadell- eidiau y llymru a fwirir i'r ystên,—yn ol fel byddo dylanwad y lleuad wedi bod yn chwarae ar yr "Aphiaid," a'r "Eryrod," a'r "Eleirch," a'r "Eos- iaid y "Taliesynod," a'r "Llywarchiaid," &c.; canys ni all y cyhoeddiad misol dalu ffyrlling goch am ddefnyddiau llênnyddol. A dyna ef "Mr. Gol." ar y deuddegfed o'r mis, yn dosbarthu cynnwysiad uchelddysg yr ystên,— agwedd stiff, ysgwâr, unionsyth, trylydan,—llygad golygyddol, ac yn chwilio am le i orphwys ar y tryblith,—dyna ei lygad yn ymfolwynu,— rhyw *ideas* lluchedenog sydd wedi cyfodi o'r ystwc;—dyna yn awr gwmwl yn dyfod dros ei dalcen, a chynhyrfodd gewynion ei wyneb. Y mae rhyw- un wedi bod yn gwneyd cadgyrch ar gyffes ffydd grefyddol neu wladol y cyhoeddiad,—ac egwyddor ddyfnaf, a lletaf, a phwysicaf a chryfaf bywyd y cyhoeddiad yw y "*principles*" a chydwybodoldeb. Nid oes raid myned ymhellach i adgofio pob aelod capel ugain mlwydd oed y dygir i fewn ager yr enwad i droi y maen llif.

Yr ydym yn meddwl ei bod yn bryd i gael rhyw gyfnewidiad. Os nad all cyhoeddiad fforddio i sicrhau gwasanaeth rhyw gatrawd o wŷr llên, boed iddo beidio â bod; canys y gwir ag ef, y mae gormod o'r hanner o Gylch- gronau yn Nghymru i allu byw ac ymgynnal. Mae Cymru oll yn faes digon cyfyng, ac y mae yr ymraniadau crefyddol gwedi ei thori yn fanach fyth;—a bydd hollt mewn hollt, a rhaid wrth Gylchgrawn i *representio* pob hollt; canys mae yr ellyll ymbleidio yn rhaib dynghedfenol y Celtiaid;— ac yr ydym yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf gwedi sylwi—mai cynted ag y bydd cyhoeddiad gwedi gweithio ei ffordd i fod yn anrhydeddus, ac i dalu ei ffordd—dyna y gaib dano.

Anffawd arall ein Cylchgronau, mai sectarol bron oll ydynt, ac nid cen- edlaethol, a bydd eu llwyddiant yn ymddibynu ar rym yr aspri enwadol. Eu gweinidogaeth yw gwasanaethu ymraniadaeth ac nid undeb; ac yn lle bod yn gyfryngau i ddiwylliaw cenedl y Cymry, a dabblygu adnoddau ein gwlad, wrthi y byddir yn ormodol, ac o fis i fis, yn nyddu rholau ein gwahanol systemau; a thuedda y fath ddysgeidiaeth i fagu culni a surni rhwng yr hen Gymry anwyl. Yr ydym ni yn cydnabod yma ein bod yn cymeryd i fyny frydweddau mwyaf anffafriol y gyfres waethaf o Gylchgronau, a dichon ein bod yn cymysgu ein lliwiau yn rhy ddwfn. Wel, poed felly y bo—ni fyddai niwed goleddu i'r eithafion hyny weithiau; a poed y cyfrifoldeb o hyn yma ar y tipyn ysgrifenydd llwyd, ac nid ar y TRÆTH- ODYDD trylachar. Ond caniatâer i ni yr hawl o'n llafar—ac ein bod yn ddifrifol, ac mai nôd a breuddwyd ein bywyd ydyw, gan nad pa un ai o ddrws capel, neu o ddrws clochdy yr ydym yn ceisio siarad, sef derchafiad ein cenedl anwyl. Mae clywed goslefau ac ysgrechau y crach Seision yn llysenwi yr hen enwau Cymreig ymhob *station*, ac uwchben pob pwll glô, trwy bob cleddrffordd a chilfach o'n tipyn gwlad fynyddig ag sydd wedi aros yn meddiant yr hen Geltiaid, yn ddigon a pheri i ni fyned i natur ddrwg a thros y llestri; tra maent hwythau y Cymry a'u penelinod trwy eu cotiau yn gwneyd penau mawr, ac ymddanneddu ar Fedydd, y Pum Pwnc,—ar "Weinidogaeth Moddion," ar y Gynghanedd Grwca, a'r Crachfantach. Mae y poblogrwydd a'r dylanwad ag y mae cyfres uwch o gylchgronau dan or-

ganiad y **TRAEHODYDD**—heb ddim yn ei godi i nawdd y wlad, ond teil-yngdod, yn dangos fod y werin yn gallu gwerthfawrogi llên-yddiaeth goeth a syniadau addfed.

Mae yn anmhosibl i ddyd fyaed yn athraw heb ddarllen llawer a myfyr-to am flnyddoedd yn llafurus, ac mewn anhunedd; ac etyb cynnyrchion dynion fel hyn amcanion masnachol hefyd. Mae dylanwad y llên-yddiaeth frwsionllyd yn gwneyd niwed anghyfrifadwy; ac os yn hesp y gyrwn yr hen afr Gymreig, rhaid peidio synu a chrintachu os bydd ieuentyd ysgol-ion dyddiol presennol Cymru yn myned i sugno bronau Seisonig.

Yr oeddem yn meddwl myned trwy gynnyrchion eraill y wasg; ond rhaid ymgwtogi. Nid ydym yn meddwl ddarfod i'r wasg Gymreig erioed fod twor epillog ag ydyw yn bresennol, a gallem enwi amryw argraffwyr ag yr ydym fel cenedl dan rwymau iddynt am y llyfrau da ág ydynt wedi eu dwyn allan, ac am eu hanturiaethau yn dwyn allan lyfrau cenedlaethol, llyfrau ieithyddol a chelfyddydol, ac nid yr holl ddifeinyddiaeth didorder-fyn yma, yr hyn sydd wedi magu diflasdod, ysgafndra, ac anghysegregated-igrwydd yn y bobl at grefydd. Yr ydoedd pobpeth yn Nghymru wedi myned yn enwadol. Os llyfrgell, llyfrgell enwadol, argraffu enwadol, ac awdwyr yn fath o arglwyddi y cyffindiroedd; ond y mae cyfnod newydd yn brysio i fewn; a byddai cyhoeddi cyfres o'r llyfrau a gyhoeddwyd yn ystod y pum' mlynedd diweddar yn ddigon i dangos beth ydyw hi o'r gloch ar ddeial Hên-yddol Cymru. Mae hi tua deg y bore; y nen yn clirio; y cymylau cochlog, cystoglyd, brwmstanllyd, yn encilio, a goleuni y ddau dant—natur a dadgaddiad—yn chwareu yn gymhleth ar ddeial hen Walia. Awn yn nesaf at yr Ysgol Ddyddiol a Sabbothel fel cyfrwng addysg.

YR ESBONIADAU.

MEISTR I GOLYGWYB.—Derbynais lythyr yn ddiweddar oddiwrth gyfall, mewn atebiad i gais am ei farn am yr esboniad goreu ar y Bibl; ac yr wyf yn meddwl y gwnech gared-igrwydd â'r rhan fwyaf o ddarllenwyr y **TRAEHODYDD** wrth gyhoeddi darn o hono. Gan fod cynifer o gyfariadau personol yn ei ddechreu a'i ddiwedd, toraf y ddau ben ymaith, a chewch ohithau y canol. Bydd hyn yn rhoddi cyfrif am ei ddechreuad a'i derfyniad swta.—Yr eiddoch yn gywir,

T.

NID wyf yn gwybod am un Esboniad ar yr holl Fibl ag y gellid cyfeirio ato fel ymhob modd yn ddigonol i'r Efrwydd Ysgrythyrol, ac nid hawdd penderfynu, o'r rhai sydd genym, pe cyfyngid ein dewisiad i un, pa un fyddai hwnw. Yr wyf yn cofio clywed y Parch. John Elias yn dywedyd ei fod yn ystyried Poole yn rhagori ar bob un arall am ystyr naturiol y testyn. Yr wyf fi, y mae yn ddrwg genyf ddywedyd, yn gwbl ddyeithr i Poole, ac felly yn analluog i roddi unrhyw farn arno. Cyfeirir ato gan Henry, yn ei ragymadrodd

i'w esboniad ei hunan, gyda pharchedigaeth mawr, ac ystyr id ef ganddo ef fel yn anghenrheidiol er cyflenwad ei waith ei hun.

Bu Esboniad Scott genyf fynyddau yn ol, a darllenais gryn lawer arno. Y mae ei nodiadau cyfeiriol, y rhai a roddir yn gyflawn yn Esboniad Cymreig Mr. James Hughes, yn dra rhagorol, a dyna y peth goreu o lawer a berthyn i'r eiddo Scott. Y mae ei nodiadau, er aml sylw call, ac amcan teg, dybygid, i osod allan y meddwl Dwyfol, eto yn y cyffredin yn hynod o amddifad o'r treiddgarwch, a'r yni, a'r deheurwydd anghenrheidiol i'w gwneyd yn gyfryw ag y gallai un nid yn unig ymddifyru yn eu darllen, ond myned atynt oll os gallai gael rhyw le arall i fyned.

Yr oedd Esboniad Adam Clarke hefyd yn fy meddiant hyd yn dra diw-eddar. Y mae yn arddangos cryn lawer o ryw ddysgeidiaeth led-bannerog, ac y mae rhai o'r nodiadau daearyddol a hanesyddol, wedi eu cymeryd yn gyffredin o Calmet, yn lled dda; ond, ar y cyfan, yr oedd yn hynod o amddifad o'r craffder a'r sylw a'r farn anghenrheidiol i sefyll uwch ben y dadguddiad Dwyfol er gwneyd ei ystyr yn eglur i'r byd. Prin braidd y gellid meddwl fod ganddo ddim o'r athrylith ddeongliadol. Nis gwyddai amcan pa bryd y byddai wedi dywedyd digon ar unrhyw beth; ac nid oedd ganddo ddim dirnadaeth, fe ellid meddwl, o berthynas neu ddiffyg perthynas yr hyn a ddywedid ganddo, â'r hyn a fyddai yn uniongyrchol dan sylw. Y mae ei esboniad, yn fy mryd i, yn un o'r rhai lleiaf teilwng o ymddiried o'r holl rai adnabyddus i mi. Y mae yn anhawdd cyfrif am y cymeriad uchel a roddir iddo gan rai oddieithr trwy ei gysylltiad â'r enwad parchus y perthynai iddo. Yr un pryd nid oedd dim cymhariaeth rhwng ei feddwl ef â Richard Watson neu Jabez Bunting; ac nis gallaf lai na'i golygu fel ansfawd dirfawr i'n brodyr y Wesleyaid, ac yn golled i Gristionogion y byd yn gyffredinol, fod Adam Clarke wedi ymafelyd yn y gorchwyl o esbonio y Bibl; oblegid, oni buasai hyny, y mae yn dra thebygol y cawsem esboniad o'r fath werthfawrocaf oddiwrth Richard Watson.

I un a fyddai cydnabyddus âg ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyrau, ac a gyfyngid i un esboniad, yr wyf braidd yn meddwl mai y *Pictorial Bible* gan John Kitto fyddai y goreu o'r cwbl. Yn wir, gan nad pa nifer o esboniadau eraill fyddai gan un, nis gallwn ei ystyried wedi ei gyflenwi â moddion myned i mewn i holl ystyr y dadguddiad Ysgrythyrol tra yn amddifad o hwn. Yr argraffiad goreu o hono ydyw yr un mewn pedair cyfrol a gyhoeddwyd ychydig amser yn ol gan W. & R. Chambers, lle y mae nodiadau wedi eu hychwanegu yn cymeryd i mewn ddarganfyddiadau diweddar Layard ac eraill. Y mae defnydd helaeth o Kitto, yn gystal ag o awdwyr diweddar eraill, yn cael ei wneuthur yn y nodiadau chwanelog sydd yn yr argraffiad newydd a ddygir allan yn bresennol o Esboniad James Hughes ar yr Hen Destament.

Esboniad arall ar yr holl Fibl, ag na fynwn erdim fod hebddo, ydyw yr eiddo Patrick, Lowth, Arnauld, Whitby, a Lowman. Y mae amrywiol argraffiadau o hono, a rhai o honynt yn gwerthu mewn cymhariaeth yn lled rad, a gellir yn fynych ei gael yn ail-law am bris isel iawn. Yr argraffiad goreu o lawer ydyw un Pitman, mewn 6 cyfrol pedwarplyg mawr, 1822. Y mae y gwaith hwn, fel y gwelir, gan amrywiol awdwyr; a dyfais y cyhoeddwy'r oedd eu doddi wrth eu gilydd i wneyd esboniad cyfan. Yr oedd yr awdwyr oll o duedd Arminaid yn eu syniadau athrawiaethol, ond, yn meddu

llawer iawn o synwyr da ynghylch amcan esboniad, a mesur llawer hel-aethach nag oedd gyffredin yn eu dyddiau o'r gwir ysbryd beirniadol. Anfynych yr ymgynghora un â'r gwaith hwn heb gael, os na chaiff yr hyn yr ymfynai am dano, ryw awgrymiad manteisiol iddo.

Eithr y goreu yn ddiddadl o'r esbonwyr poblogaidd ar yr holl Feibl ydyw Henry. Mae yn wir nad ydyw yn amcanu ond ychydig at feirniadaeth y testyn, a'i fod, weithiau, yn tynu addysgiadau oddiwrtho, na buasem yn dysgwyl am danynt oddiwrth ei ystyr naturiol, a'i fod yn ddiffygiol iawn gyda golwg ar ddaearyddiaeth a hanesyddiaeth yr Ysgrythyrau, a'r cyfeiriadau sydd ynddynt at arferion a defodau dwyrsiniol; eto y mae, yn gyffredin, yn dwyn allan, megys heb geisio, ac yn gwbl ddiroddres, gynnrych yr ymchwiliadau beirniadol manylaf adnabyddus yn ei ddyddiau—ac mewn codymdeimlad âg ysbryd y Dadguddiad Dwyfol, craffder i ganfod yr egwyddorion mawr sydd yn gorwedd yn ei holl hanes, gallu a gofal i ddwyn y cwbl i gyfarfyddiad â chydwybod a chalon y darlennydd, a rhyw "eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnw," sydd yn peri iddo barhau a chynnyddu yn ei flas cân nad faint a ddefnyddier arno, y mae heb ei gyffelyb, wedi ennill ei le ei hunan ymhlith esboniadau y byd, ac yn debyg o'i gadw am oesoedd lawer. Mi dybygwn y byddai y crïstion cyffredin a feddiannai Henry, Patrick, Lowth, &c., a'r *Pictorial Bible*, wedi ei ddiwallu i raddau digonol o ran esboniadau.

Ond y mae y myfyriwr manwl, ac yn enwedig y gweinidog Crïstionogol a fyno ei gymhwyso ei hunan i orchwylion pwsig ei swydd, yn neillduol mewn dyddiau fel yr eiddom ni, yn gofyn rhywbeth ychwanegol; ac yma y mae yr anhawsder mwyaf i gael mewn un awdwr yr hyn a ateba y dyben. Calvin, y mae yn ddiammheu, sydd ar y cwbl yn teilyngu y lle uchaf. Yr wyf yn dywedyd hyn, nid oddiar unrhyw deimlad duwinyddol, ond yn unig oddiar safon esboniadol. Mae yn wir nad oedd ei gydnabyddiaeth â'r testynau gwreiddiol yn gyfryw ag sydd yn ateb i feirniadaeth uchaf y dyddiau presennol, a'i fod yn fynych yn siomi ein dysgwyliadau gyda golwg ar ystyr geiriau neillduol. Ond mewn gallu i ganfod cysylltiadau y Dadguddiad Dwyfol, amcan y gwahanol ranau o hono, perthynas yr oll â'r amcan hwnw, a'r is-ddybenion yn meddyliau yr ysgrifenywyr sydd yn achlysurol yn rhedeg yn gyfochrog â'r amcan arbenig, y mae, yn neillduol ar y Testament Newydd, uwchlaw pob canmoliaeth,—yn un ag y gellir odid uwchlaw neb ddibynu arno, pe gweddus fyddai hynny gyda golwg ar neb ffaeledig, ac yn un nas gall y mwyaf cydnabyddus âg ef lai na theimlo braidd yn betrusgar ynghylch cywirdeb ei olygiad ei hun ar ystyr unrhyw adnod pan y caiff ei hunan yn gwahaniaethu oddiwrtho. Yr wyf braidd a meddwl ei fod yn llawer mwy fel esboniwr, nag ydoedd hyd yn nôd fel duwinydd; ac nid wyf yn bur sicr na buasai ei Gorff Duwinyddiaeth gryn lawer yn wahanol ar rai pynciau i'r hyn ydyw pe buasai yn ymaflyd ynddo am y tro cyntaf tua diwedd ei oes yn hytrach nag yn agos tua ei dechreu.

Os ydych yn darllen Lladin, chwi a gewch gasgliad o sylwadau ardderchog nifer dirfawr o feirniaid galluog yn y *Critici Sacri: sive Annotata Doctissimorum Virorum in Vetus ac Novum Testamentum*. Bwriadwyd y gwaith hwn fel math o attodiad i Walton's Polyglott; a chyhoeddwyd ef gyntaf yn Llundain, 1660, dan olygiad Pearson, Archddiacon Surrey, yr hwn wedi hynny a ddaeth yn esgob Caerlleon, ac eraill. Daeth dau argraffiad o hono allan yn Frankfort. Ond yr argraffiad goreu o lawer ydyw un *Amsterdam, 1698*, naw cyfrol unplyg. Perthyna i'r argraffiad hwn

bedair o gyfrolau o draethodau dysgedig ar wahanol ranau o'r Ysgrythyrau, ac ar rai ymfyniadau dyrys sydd yn dyfod i feddwl yr efrydydd ymchwilar. Y mae yr holl waith mewn tair cyfrol ar ddeg, ac yn cynnwys trysorau anhysbyddadwy o wybodaeth Fibrilaidd. Er ei fod ei hunan agos yn ddigon o lyfrgell, y mae fel y llyfrau Lladin yn gyffredin yn gwerthu yn hynod o isel. Y mae sylwadau Grotius, a roddir yma yn gyflawn, ymblith y rhai rhagoraf adnabyddus i mi. Anaml iawn y mae yn gadael anhawdder heb ei ganfod, ac oni bydd ei hunan yn llwyddiannus i'w ddadrys, odid fawr na rydd i chwi ryw awgrymiad a'ch galluoga chwi eich hun i gyrrhaedd rhyw oleuni arno. Talfyriad o'r *Critici Sacri* ydyw *Synopsis Criticorum* Poole, yr hwn sydd yn waith tra rhagorol; ond er ei fod yn llawer mwy hylaw i'w ddefnyddio na'r *Critici Sacri*, eto mi feddyliwn nad oes neb cydnabyddus i fesur a'r ddau a betrusai am fynydyn pa un i'w ddewis.

Am yr esboniadau ar lyfrau neillduol, y maent yn lliosog iawn. Cychwynwyd, flynnydoedd yn ol, dwyn allan gan Bagster, waith yn cynnwys testyn gwreiddiol yr Hen Destament, gyda chyfieithiad newydd, a nodiad-an eglurhâol, gan dri Iuddew,—De Sola, Lindenthal, a Raphall. Ni ddaeth hyd yr wyf fi yn gwybod ond un gyfrol, yr un ar Genesis, allan. Y mae Iuddew arall, un Kalisch, wedi cychwyn cyhoeddi gwaith ar yr holl Fibr Hebraeg—y testyn gwreiddiol—cyfieithiad newydd—rhagdraethodau mawrion a dysgedig, a sylwadau helaeth ar yr holl destyn gwreiddiol. Y cyfrolau ar Genesis ac Exodus sydd eto wedi eu cyhoeddi ganddo. Y mae yr awdwr, y mae yn amlwg, yn un sydd wedi meddwl a darllen llawer ar Ysgrythyrau yr Hen Destament, ac yn llwyddo yn fynych i roddi goleuni newydd ar y rhanau a ddygir ganddo dan sylw. Ond y mae ei safle fel Iuddew dan anghenrheidrwydd o'i wneyd yn ddiffygiol i fesur mawr i ateb i anghenrheidiau efrydydd cristionogol; ac y mae ei feirniadaeth, yn wir hyd yn nôd ar dir Iuddewiaeth, yn aml iawn yn dra unllgyddiog.

Y mae Keil ar Josua, a Keil a Bertheau ar y Breninoedd a'r Cronici, y rhai a gyfieithwyd o'r German, ac a gyhoeddwyd yn *Clark's Library*, yn llyfrau da ragorol, ac yn gyfryw ag nas gall neb fod ar ei golled trwy ymgynghori â hwynt. Y maent yn fwy gwerthfawr yn gymaint a'u bod yn myned dros ranau o'r Ysgrythyrau nad oedd genym o'r blaen ddim neillduol iawn arnynt.

Y mae Umbreit ar lyfr Job yn cynnwys cyfieithiad newydd, rhagdraethawd ar ysbryd, cyfansoddiad, ac awdwr y llyfr, a sylwadau eglurhâol ar y gwahanol adnodau. Y mae yn waith gŵr dysgedig, cydnabyddus hollol a'r Hebraeg a'i chwaer-ieithoedd,—ac un â mwy na chyffredin o farddoniaeth yn ei natur, fel ag i'w alluogi i ymdeimlo i raddau helaeth â phrydferthwch a godidogrwydd llênnyddol y llyfr, ond yn ddiffygiol o ysbryd i dreiddio i mewn i'r egwyddorion mawr ysbrydol a'r cwestiynau pwysig cysylltiedig âg amgylchiadau presennol a golygfeydd dyfodol meibion dynion a ddygir ger ein bron ynddo.

Cyhoeddwyd gwaith mawr dysgedig arall yn ddiweddar ar Job gan un Carey, o Ynys Guernsey. Nid yw yr awdwr wedi arbed unrhyw drafferth na thraul i wneyd ei lyfr y goreu a allai i'w amcan; ond nid wyf mor hyderus ag y mae efe yn ymddangos ei hunan ei fod wedi llwyddo i ateb y cwestiynau lawer sydd yn cyfodi yn ein meddyliau ynghylch y llyfr hynod hwn. Y mae esboniad da ar lyfr Job yn ateb i feirniadaeth oreu y dyddiau presennol, ac yn myned i mewn i ysbryd ac amcan y llyfr, yn un o'r pethau

mwyaf anghenrheidiol arnom yn awr mewn cysylltiad â llênnyddiaeth yr Ysgrythyrau.

Y mae genym ar y Psalmiau amryw esboniadau gwerthfawr. Y rhagoraf, dybygaf fi, ydyw Hengstenberg, a gyfieithwyd o'r German, ac a gyhoeddwyd yn nghyfres Clark, Edinburgh. Y mae rhywbeth hynod o anhapus yn ei dymber—sydd yn ei arwain i drahausder a chwerwder cwbl annheilwng i'r Ysgrythyrau tuag at ei wrthwynebwyd; ond oddieithr hyny, ac er hyny, y mae ei waith ar y Psalmiau yn cyfuno holl ragoriaethau esboniad i raddau anghyffredin.

Go dlawd ydyw Tholuck ar y Psalmiau. Y mae y Rhagdraethawd sydd ganddo i'r llyfr yn dda rhagorol; ac y mae ei grynôad o gynnwys ac amcan pob Psalm felly; eithr nid yw ei nodiadau ar adnodau neillduol ond tra chyffredin, oddieithr yn y teinlad crefyddol sydd yn rhedeg drwyddynt oll.

Y mae Horsley, a Walford, a Weiss, a Mason Good, ar y Psalmiau, yn rhoddi i ni gyfieithiadau newyddion, ac aml sylw gwerthfawr, ond yn rhy arwynebol i foddioni yr ymchwilar.

Y mae Rosenmuller on the *Messianic Psalms* a gyhoeddwyd yn y Biblical Cabinet yn allnog; ond y mae tuedd *rationalistic* yr awdwr yn rhy fynych i'w ganfod ynddynt.

Ar y Diarebion, ac ar lyfr y Pregethwr, y mae Moses Stuart yn dda rhagorol. Cawn ganddo gyfieithiad newydd, manwl, yn dwyn yr ystyr, yn y cyffredin, yn llawer nês at y testyn gwreiddiol nag y gwneir yn y cyfieithiad awdurdodedig, er ei fod, weithiau, dybygid, braidd yn cyfnewid, nid yn unig heb achos, ond er gwaeth. Ond, ar y cyfan, rhwng y cyfieithiad, y rhagdraethodau, a'r sylwadau beirniadol, tueddir fi i feddwl nas gall yr efrwydd yn hawdd gyfarfod â'r fath gynnorthwyon â'r rhai hyn yn ei ymchwil i ystyr y testyn gwreiddiol.

Y mae Darlithiau ar lyfr y Pregethwr gan Dr. Wardlaw yn gyfryw ag y byddai yn werth i bob un a ymgymera i'w esbonio unrhyw ran o'r llyfr hwn ymgynghori â hwynt.

Y gwaith diweddar, adnabyddus i mi, ar Ganiad Solomon, ydyw yr eiddo Christian D. Gingsburg. Pa beth bynag a ddywedir am y golygiad a roddir ganddo ar amcan y gân, y mae ei Rhagdraeth, ei gyfieithiad, a'i sylwadau beirniadol, y fath ag sydd yn profi cydnabyddiaeth helaeth â'r testyn gwreiddiol, ac â pha beth bynag braidd a ysgrifenyd mewn unrhyw wlad neu oes arno.

Y prif waith ar Esaiah ydyw yr eiddo Vitringa. Yn y Lladin y mae. Y mae yn syn na buasai rhyw un cyn hyn wedi ymgymeryd â'r gorchwyl o'i gyfieithu i'r Saesonaeg. Y rheswm am hyny o bosibl ydyw ei fod morfaith. Y mae yn gwneyd i fyny ddwy o gyfrolau unplyg mawrion. Yr wyf yn meddwl fod y copi sydd genyf fi o hono yn un o'r rhai gwychaf sydd mewn bod. Deuddeg o'r fath a argraffwyd; a daeth un o honyt yn dra damweiniol i'm rhan i. Yr wyf mewn gwirionedd yn falch o hono.

Y mae Alexander ar Esaiah yn waith o'r radd uchaf. Y mae holl ragoriaethau esboniad yn cydgyfarfod ynddo i raddau anghyffredinol, heb odid dim i dynu oddiwrthynt.

Henderson ar Esaiah, Jeremiah, Ezeciel, a'r Prophwydi Lleiaf, sydd yn deilwng o ddarlleniad a sylw. Yr oedd yr awdwr parchus yn ysgolaig da, ac y mae yn ei gyfieithiad a'i sylwadau yn arfer synwyr cyfatebol uwchben y *Dadguddiad Dwyfol*.

Erbyn i ni ddyfod i'r Testament Newydd, y mae awdwr yn ffiosegi yn ddirfawr. Nid wyf yn gwybod dim am Guise, nac ond ychydig iawn am Doddridge. Y mae y naill a'r llall yn cael eu cymeradwy yn fawr gan y rhai sydd yn gydnabyddus â hwynt. Yr oedd Dr. Doddridge, mi dybygwn, yn enwedig, yn meddiannu llawer o'r cymhwysderau goreu mewn esboniwr. Dyna yr argraff sydd ar fy meddwl oddiwrth yr ychydig a ddefnyddiais arno, er nas gallaf alw i'm cof yn awr unrhyw esiampl neillduol o hyny.

Am Campbell a Macknight, gallaf lefaru yn fwy penderfynol. Y mae gwaith y blaenaf ar yr Efengylau, yn enwedig y rhagdraethodau, yn fy mryd i, ymhlith y pethau goreu a gyhoeddwyd erioed yn ngwasanaeth llenyddiaeth Ysgrhythrol. Yr oedd ei syniadau ar ddëonglyddiaeth o'r fath gywiraf; ac anaml iawn y gwelwyd neb yn ymddangos yn ymryddhau yn fwy llwyr oddiwrth bob awdurdod ddynol a phob rhagfarn meddyliol, gan ymostwng yn gwbl i arweiniad yr hyn a ymddangosai iddo ef yn wirionedd. Yr wyf yn cofio yn dda y byddai argraff ar fy meddwl i bob amser y clywn Dr. Chalmers yn ei ddo-sbarth yn cyfeirio at Campbell, fel pe buasai yn teimlo nad oedd neb arall yn holl hanes eglwys Scotland; ag yr oedd dan fath o anghenrheidrwydd meddyliol i dalu gwarogaeth i'w ddysgeidiaeth Ysgrhythrol. Gresyn dirfawr na buasai Campbell wedi ei drwytho yn fwy yn ysbryd yr efengyl. Nid yw Macknight ar yr Epistolau yn deilwng o'i restru yn yr un dosbarth a Campbell. Nid oedd, fe allai, ond ychydig islaw iddo yn ei gydnabyddiaeth â *geiriau* ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrhythrau, yn neillduol y Groeg; ond mewn gallu i dreiddio trwy y geiriau i ystyr y cyfansoddiad, a dirnadaeth o ystyr neillduol y geiriau yn ngoleuni yr ysbryd a'i galluogai i dreiddio felly, nid oedd dim cymhariaeth rhyngddynt. Yr un pryd nis gall neb cydnabyddus â Macknight lai na gosod cryn werth arno. Y mae ei gyfieithiad yn fynych iawn ymhell o fod yn hapus, ac yn aml yn gwahaniaethu oddiwrth yr un awdurdodedig braidd fe ellid meddwl er mwyn gwahaniaethu, eto ceir ynddo yn fynych olygiad gwell ar yr ystyr. Ac y mae ei ragymadrodd cyffredinol, ei ragdraethodau i'r gwahanol epistolau, ac yn neillduol ei olygiad ar gynnwys y gwahanol bennodau, yn ei wneyd yn nodedig o werthfawr, yn enwedig i bregethwr. Mae ei wall mwyaf yn cyfodi oddiar ddyeithrwech yr awdwr i'r hyn sydd yn briodol yn cyfansoddi hanfod yr efengyl ac elfenau mawr y bywyd ysbrydol. Fel y sylwai Robert Hall am dano, "nid yw byth yn gosod ei droed yn y byd arall os gall gael lle i gamu iddo yn hwn, na byth yn rhoddi ystyr i air a'i gwna yn gymhwys ac yn fuddiol i bob oes, os gall gael ynddo unrhyw gyfeiriad lleol neu achlysurol."

Fe fu cymeriad Bloomfield ar y Testament Newydd unwaith yn uchel iawn. Efe y pryd hyny oedd braidd yr unig un a gyhoeddasai yr oll o hono yn y testyn gwreiddiol, gyda nodiadau Seisonig. Y mae y gwaith yn awr yn y nawfed argraffiad. Yn yr holl elfenau anghenrheidliol i esboniad o'r radd uchaf y mae yn dra diffygiol. Y mae yr awdwr yn ddiammheu wedi cymeryd llafur mawr gyda'r gwaith, ac wedi caeglu ynghyd llawer o sylwadau tra gwerthfawr; ond y mae yn wastadol yn bradychu ei hunan gydag amcan i ymddangos yn fwy llafurus a gofalus nag y mae wedi bod; ac y mae yn berffaith ddiffygiol yn yr annibyniaeth meddwl hwnw sydd yn anghenrheidliol, uwchlaw pob peth, yn yr hwn a fynai ffynu fel esboniwr. Pan y byddaf yn awr o ryw gydwybed yn ymaffyd ynddo, byddaf yn gorfod synu ataf fy hunan fy mod erioed wedi meddwl fod dim ardderchog-

rwydd ynddo. Yn sicr yr wyf yn meddwl fod yr argraffiadau diweddaraf gyda'r gyfrol adgyfenwol yn llawer iawn gwell na'r argraffiad diweddaraf, yn yr hwn y profesa ei fod wedi cydgorffori yr adgyfenwad â'r gwaith gwreiddiol, ac ychwanegu ffrwyth ymchwiliadau blynyddoedd atynt. Y mae amser Bloomfield wedi myned heibio. Bydd ymhen ychydig flynyddoedd yn hawdd i'w gael yn ail-law am saith swilt neu ddeg.

Alford ar y Testament Newydd sydd o nodwedd tra gwahanol. Tair cyfrol o'i waith ef sydd eto wedi eu cyhoeddi, yn y rhai y mae wedi cyrhaedd hyd ddiwedd llythyr Paul at Philemon. Y mae y bedwaredd yn awr yn y wasg. Dechreuodd Alford gyhoeddi ei waith cyn i'w gynllun berffeithio yn ei ei feddwl; ac felly y mae yr ail argraffiad o'r gyfrol gyntaf yn dra gwahanol i'r hyn ydoedd ar ei hymddangosiad cyntaf. Ond erbyn hyn y mae wedi dyfod i ddeall da am ei gynllun, ac yn ei weithio allan yn ddiwyd. Y mae yn ceisio penderfynu trwy gymhariaeth fanwl y testyn cywiraf; yn rhoddi i ni restr gyflawn agos o'r holl amrywiol ddarlenniadau; yn doddi ger ein bron ragdraethodau manwl a dysgedig ar ddilysedd, awduriaeth, amseriad, iaith, amcanion, a chynnwys y gwahanol lyfrau; casgliad helaeth o gyfeiriadau ysgrhythrol o'r fath oreu; a sylwadau beirniadol a deonglyddol ar bob adnod, ac ar bob gair o ddim pwys ac anhawsder ynddynt. Er nad yw heb ei wallau a'i ddiffygion, y rhai y mae yr awdwr yn arddangos ymhob argraffiad olynol barodrwydd i'w cywiro a'u cyflenwi, eto y mae yn ei gyflwr presennol yn tra rhagori ar bob peth ar yr oll o'r Testament Newydd a gyhoeddwyd eto yn wreiddiol yn yr iaith Seisonig.

Y mae y gyfrol gyntaf wedi ei dwyn allan er ys cryn amser bellach o'r Testament Groeg, gyda nodiadau Seisonig, gan ddau ŵr parchedig,—Webster a Wilkinson. Y mae hwn yn waith tra rhagorol. Y mae rhywbeth llawer mwy dymunol yn ysbyrd y gwaith nag sydd yn ymddangos yn fynych yn Alford, ac y mae yr eglurhâd ar rai adnodau yn llawer mwy boddlonol. Y mae trwyddo yn arddangos gofal am gyfarfod gwir anghenion yr efrdydd, gan ymgadw yn benaf at yr hyn a olygir yn wir anhawsderau.

Esboniad ardderchog ydyw un Olshausen, wedi ei gyfieithu o'r German a'i gyhoeddi yn *Clark's Library*. Ni bu efe byw i'w orphen, ond fe'i cwbleiddiwyd hyd ddiwedd yr Epistol at yr Hebrëaid gan Weisinger ac Ebrard. Nid yw mor fanwl âg Alford ar eiriau neillduol; ac y mae weithiau fel pe yn amcanu at wreiddiolder er mwyn newydd-deb, ac ambell dro yn gwisgo syniad cwbl gyffredin a lled arwynebol mewn ffurf ddy-eithrol, athronyddol,—ond, a'i gymeryd gyda'i gilydd, y mae yn teilyngu ei osod yn agos iawn i ben y rhestr mewn cyfansoddiadau o'r fath. Mewn ymdeimlad âg ystyr ac ysbyrd y Dadguddiad Dwyfol—oddiar fath o ym-dreiddiad (dyna i chwi air da), i ansawdd meddwl yr ysgrifenywyr sanctaidd, pan dan y dylanwad a'u hysbrydolent, y mae heb ei gyffelyb.

Y mae gwaith Stier ar Eiriau yr Arglwydd Iesu a ddygwyd hefyd allan gan Clark, yn un sydd ar ryw ystyr arno ei hunan yn nghanol yr holl esboniadau adnabyddus i mi. Y mae yn talu sylw manwl i ystyr naturiol y geiriau yn gystal a'u ffurfiau a'u cysylltiadau grammadegol; ond y mae yn wastadol yn edrych i mewn islaw y gwyneb, yn treiddio i galon yr ymddyddanion a'r pregethau dwyfol, ac yn tynu allan o honnynt yr egwyddorion mawrion ysbyrdol a thragywyddol sydd yn gorwedd ynddynt. Y mae yn anhawdd iawn cael llyfr â chymhwysder ynddo i adael argyhoeddiad *llwyrach* yn meddwl y darlennydd o gyfoeth anhysbyddadwy y Dadguddiad

Dwyfol. Y mae ei wallau yn cyfodi oddiar ei ragoriaethau. Yn ei ffydd yn nghynnwys yr ysgrythyrau, y mae yn fynych yn cael ei arwain i geisio canfod ynddynt fwy nag a amcenid, ac i wrthod yr ystyr naturiol ac amlwg a diammheuol oblegid nad ymddangosa iddo ef yn ddiagon dwfn. Nid yw ei dymher, ychwaith, tuag at y rhai yr amrywia oddiwrthyn, mewn un modd yn gweddu i'r parch a broffesa, ac yn ddiammheu a deimla, i'r efengyl, nac yn debyg o effeithio yn dda ar feddyliau y lliaws yn ei wlad ei hunan sydd eto "yn troi oddiwrth yr Hwn sydd yn llefaru o'r nef."

Y mae gwaith y Dr. John Brown, Edinburgh, ar Bregethau a Geiriau ein Harglwydd, fel pob peth oddiwrth y gŵr dysgedig a duwiol hwnw, yn teilyngu bob amser ymgynghori âg ef, ac nid ellir gwneyd hyny byth heb ennill rhywbeth.

Gnomon Bengel ar y Testament Newydd sydd wedi ennill iddo ei hunan, er ei gyhoeddiad cyntaf, le anrhydeddus, os nad y lle anrhydeddusaf, ymhlith y dosbarth cyntaf o esboniadau. Y mae yn ddiweddar wedi ei gyfieithu i'r Saesonaeg gydag amryw ychwanegiadau gwerthfawr. Nid wyf yn gydnabyddus â'r cyfieithiad, ond fe ddywedir ei fod wedi ei wneyd yn rhagorol. Nid llawer yr wyf yn meddwl o'r rhai a allant, er trwy gryn boen, wneyd allan ystyr y Lladin gwreiddiol, a fyddant barod i golli y pleser o'r ymgais am unrhyw gyfieithiad. Un o'r llyfrau anghenrheidiol ydyw.

Ar Efenigyl Ioan, y prif waith hyd yn hyn ydyw Lampe. Yn y Lladin y mae, mewn tair o gyfrolau pedwarplyg. Mi a glywais, flynyddau yn ôl, fod rhyw un yn ym America yn bwriadu dwyn allan gyfieithiad o hono yn y Saesonaeg. Nid yw ei feirniadaeth yn ateb i'n dyddiau ni, ac y mae ymbell ar ol Olshausen a Stier mewn gallu i dreiddio i ysbryd y geiriau dwyfol; eto, nid yw yn hollol ddiffygiol yn y naill na'r llall o'r elfenau hyn; ac y mae bob amser uwchben y testyn gyda sobrwydd a gwylder, ymroad a phwyll, nag sydd yn ei wneuthur yn gyfryw âg nas gellir braidd byth ymgynghori âg ef yn gwbl ddiffudd. Y mae yn un o'r ychydig lyfrau Lladin ag sydd yn cadw i fyny bris uchel.

Y mae Tittmann ar Efenigyl Ioan a gyhoeddwyd yn y *Biblical Cabinet*, mewn dwy gyfrol, yn waith gwerthfawr iawn. Y mae yn rhagori llawer yn y Saesonaeg i'r hyn ydyw yn y Lladin gwreiddiol, am fod nodiadau ychwanegol beirniadol ar y rhanau mwyaf dyrys, wedi eu doddi ato o esboniadau Kuinoel, Tholuck, a Lucke. Y mae yn awr, megys cyfrolau eraill y *Biblical Cabinet*, yn gwerthu yn ail law yn hynod o isel.

Y mae gwaith Tholuck ar y Bregeth ar y Mynydd yn dra dysgedig, ac yn arddangos, dybygaf fi, allu deongliadol uwch na dim arall a gyhoeddwyd gan yr awdwr. Y mae cyfieithiad newydd o'r gwaith hwn, fel yr ymddangosodd yn yr argraffiad diweddaf, i'w gyhoeddi yn ddioed yn Edinburgh.

Baumgarten ar yr Actau, a gyhoeddwyd gan Clark, sydd yn llyfr o'r iawn ryw. Y mae yn tynu allan ystyr naturiol y geiriau, ac yn olrhain yn fanwl y gwahanol ddygwyddiadau a gofnodir yn eu perthynas âg eglwys Crist fel cymundeb dan ofal uniongyrchol ei Phen mawr yn ei sefyllfa dderchafedig. Y mae felly yn gwneuthur hanesyddiaeth eglwysig yn barhâd hanes Iesu Crist ei hunan gan yr efengylau. Cawn ganddynt hwy yr hyn a wnaed ganddo ar y ddaear; a chawn yn yr Actau ddechreuad yr hyn a wnaed ganddo wedi ei gymeryd efi fyny. Y mae y lle a roddir gan Baumgarten i'r syniad hwn, a dynwyd allan gyntaf gan Olshausen, os wyf yn cofio yn iawn, yn gosod gwerth neillduol ar ei waith ar yr Actau.

Llyfr arall tra rhagorol ar yr Actau, ac fel esboniad yn rhagori braidd ar yr eiddo Baumgarten, ydyw yr eiddo Hackett. Americanaid yw yr awdwr, ac Athraw yn un o Athrofeydd y Bedyddwyr yn America. Y mae yn arwyddo dysgeidiaeth helaeth a manwl, darlleniad eang, craffder nod-edig fel beirniad, ac ymddarostyngiad hollol i awdurdod y gwirionedd. Y mae yr awdwr, ar ol cyhoeddiad yr argraffiad cyntaf, wedi bod ei hunan yn ymweled â'r gwledydd yr arweinir ni ynddynt yn yr hanes, ac yn gwneyd defnydd da o'i deithiau yn yr ail argraffiad er eglurháu y testyn ysgrythyrol.

Ar Epistolau y Testament Newydd, y mae un gwaith nodedig o dda yn y Lladin o eiddo Pabydd,—Estius. Y mae yr argraffiad diweddfaf o hono mewn saith o gyfrolau wythplyg yn gwerthu yn bur uchel. Yn wir y mae yn awr yn anhosibl ei gael oddieithr yn ail law. Y mae yr hen argraffiad unplyg i'w gael yn amlach ac am bris llawer is. Yr wyf yn ystyried yr esboniad hwn ymhlith y rhai rhagorol mewn unrhyw oes neu wlad ar y rhanau hyn o'r Ysgrythyrau. Fe dybiai ambell un hwyrach fod esboniad da oddiwrth Babydd yn anhosibl. Tröed y cyfryw at Estius. Nid hir, dybygaf fi, ond bod yn ddiragfarn, y bydd heb newid ei feddwl.

Y mae Ellicott wedi dwyn allan bump o gyfrolau ar yr Epistolau sydd, ya y ffurf a gymerwyd ganddo ef, yn debyg o dasu pob un arall i'r cysgod. Beirniadol a grammadegol ydyw gan mwyaf, er ei fod yn y cyfrolau a gyhoeddwyd ddiweddfaf yn dwyn elfenau athrawiaethol yr epistolau yn fwy i sylw. Felly hefyd y mae yn gwneyd yn yr ail argraffiad sydd newydd ddyfod allan o'r gyfrol ar yr Epistol at y Galatiaid. Y mae y cyfrolau hyn wedi cyfodi cymeriad Lloegr i raddau uwch yn meddyliau dysgedigion y Cyfandir na dim a gyhoeddwyd er ys blynyddoedd yn y deyrnas.

Y mae Jowett ar y Rhufeiniaid, y Galatiaid, a'r Thessaloniaid, wedi ennill sylw mawr, nid yn gymaint oblegid y gallu meddyliol mawr a ddangosir ynddynt, ag oblegid y syniadau cyfeiliornus a niweidiol a ddysgir ynddynt. Nis gall neb cymhwys i farnu wadu fod yn perthyn iddynt rai rhagoriaethau, ac mewn graddau helaethach nag, fe allai, mewn unrhyw lyfr ar unrhyw gyfran o'r ysgrythyrau a gyhoeddwyd yn ein dyddiau. Nid yw yn talu ond ychydig sylw i feirniadaeth geiriau. Nid yw ei olygiadau ar natur ysbrydoliaeth yn ei arwain i roddi ond ychydig bwys arnynt. Ond ei wall mawr yw y dylanwad anathronaidd a ganiata i'w athroniaeth a'i sddan-soddiaeth ar ei Dduwinyddiaeth. Safon uchaf ei ffydd ydyw cyfarwyddiadau ei reswm ei hunan. Prin y caniata i'r Apostol unrhyw fantais er deall yr efengyl ragor sydd ganddo ei hun. Y canlyniad yw, nad ydyw ond peth bychan, mewn cymhariaeth, fel sylfaen ffydd, pa beth a ddysgir gan yr Apostol, er y gallai fod yn ddymunol deall hyn fel ffaith hanesyddol. Nid yw yr awdwr heb deimladau crefyddol cryfion o rywffath; ond y mae yn gwrthio o'r efengyl agos yr oll o'r hyn sydd yn briodol iddi fel Dadgaddiad Dwyfol, ac yn cyfansoddi ei gwerth i'w euog. Ofnir fod ei olygiadau yn cynnyddu yn gyflym ymhlith lliaws o weinidogion yr Eglwys Sefydledig, yn gystal ag ymhlith rhai enwadau o Ymneillduwyr. Dywedir fod amryw o'r gwŷr ieuainc mwyaf meddylgar yn Rhydychain, gan gael eu difasu gan ffoleddau y Puseyaid ar y naill law, a dygn auwybodaeth a rhagfarn lliaws o'r rhai a elwir yn efengylaidd ar y llaw arall, mewn perygl mawr i gofseidio syniadau Jowett ac eraill, a syrthio yn raddol i anffyddiaeth hollol. Nid oes genym ond gobeithio y bydd i ddylanwad iachusol Mansel ac eraill effeithio er attal canlyniadau mor ddinystriol ac alaethus.

Yr awdwyr eraill, hen a diweddar, ar y Rhufeiniaid, ydynt yn llosgog iawn. Y prif rai, adnabyddus i mi, ydyw Tholuck, Stuart, Haldane, Hodge, Knight, Walford, a'r diweddar John Brown o Edinburgh. Y mae rhyw ragoriaethau yn perthyn i'r naill a'r llall o'r rhai hyn oll. Mewn nodiadau beirmiadol a grammadegol, y mae Tholuck, a Stuart, a Knight, yn rhagori; mewn ymdeimlad a phwysigrwydd a dirnadaeth o ystyr y gwirioneddau yr ymdrinir â hwynt yn yr epistol, y mae Hodge a Haldane yn rhagori; tra y rhaid i'r naill a'r llall, dybygaf fi, adael y flaenoriaeth i Dr. Brown gyda golwg ar ddeall clir am berthynas gwahanol ranau y llythyr âg amcawion neillduol ac arbenig yr ysgrifenydd sanctaidd ynddo. Ond wedi y cwbl y mae esboniad teillwng ar yr epistol hwn yn beth y mae yr eglwys gristionogol eto hebddo. Cawn un da, y mae yn ddiammhen, gan Ellicott rywbryd; ond gan fy nghyfaill o'r Bala yr wyf fi yn dysgwyl y llyfr, cyn hir, a grëa gyfnod newydd yn hanes deonglyddiaeth yr Epistol at y Rhufeiniaid.

Ar yr Epistolau at y Corinthiaid, y mae genym Billroth a gyhoeddwyd yn y *Biblical Cabinet*, wedi ei gyfieithu o'r German gan Dr. Alexander o Edinburgh. Y mae y cyfieithydd wedi ychwanegu ambell nodiad gwerthfawr o'i eiddo ei hunan. Y mae y gwaith yn un o gynnyrhion goreu y wasg yn Germany.

Cyhoeddwyd gwaith tra galluog ychydig amser yn ol ar yr Epistolau hyn gan Arthur Penrhyn Stanley, awdwr hanes bywyd Dr. Arnold. Y mae Stanley, er ei ddysgeidiaeth eang, yn hytrach yn ddiffygiol fel beirniad; ond fel hanesydd y mae bron yn ddihafal. Anhawdd iawn cael ei gyffelyb am allu i ymafud yn ysbryd cyfansoddiad, a phortreadu ger bron llygad y darllenydd ddarluniad cywir, prydferth, a byw, o'r amgylchiadau y bwriadwyd y cyfansoddiad ar eu cyfer, yn gystal ag o'i gyfaddasrwydd yntau o ran ei gynnwys a'i ysbryd i gyfarfod yr amgylchiadau hyny. Y mae y nodwedd hwn a berthyn i'w holl ysgrifeniadau yn eu gwneuthur, ac felly yn neillduol y gwaith hwn, yn enwedig yn yr ailargraffiad, o werth mawr i'r efrdydd ysgrythyrol.

Y mae genym ar y Llythyr at y Galatiaid, heblaw Ellicott, un wedi ei gyhoeddi yn hed ddiweddar gan un Henry T. J. Bagge, B.A. Y mae yn firwyth ymchwil mawr y mae yn amlwg, ac yn arddangos trwyddo ymstyngiad llwyr i awdurdod y gwirionedd ysgrythyrol. Mae yn uno i raddau helaeth y beirmiadol a'r esboniadol.

Y mae genym hefyd waith tra galluog ar y Galatiaid gan Dr. Brown. Y mae yn myned trwy ymresymiad yr Apostol, ac yn elfenu ei gynnwys gyda manylder mawr.

Y mae cyfrolau Dr. Eadie ar yr Ephesiaid, y Colossiaid, a'r Philipppiaid, yn cael eu cydnabod yn gyffredin gan y rhai sydd adnabyddus o honynt fel yn perthynu i'r dosbarth uchaf o esboniadau. Y mae wedi cymeryd y gosol mwyaf i ymglydnabyddu braidd â phob awdwr o bob oes a gwlad sydd wedi ysgrifenu ar y llyfrau sydd ganddo dan sylw. Y mae yn fynych iawn yn dyfynu gormod o lawer o honynt. Eto nid yw yn ymddangos, yn aghanol y cwbl, yn colli, yn y gradd lleiaf, ei annibyniaeth ei hunan, ac y mae yn arddangos ymdeimlad cryfach a dyfnach âg ysbryd yr Epistolau nag y cyf arfyddir âg ef ond yn dra anfynych. Y mae yn awr yn paratoi cyfrol ar y llythyr at y Galatiaid.

Y mae yr esboniadau ar y llythyr at yr Hebreaid yn dra llosgog. Yr

eiddo y Dr. Owen, yn ddiammheu, wedi y cwbl a wnaed arno, ydyw y prif waith. Er cynifer a ddaethant ar ei ol, rhaid cydnabod ei fod yn ddigon ar y blaen iddynt oll; ac y mae yr esgeulusdra hollol o hono a ddangosir gan rai esbonwyr diweddar yn anoddefadwy. Nid oedd, y mae yn wir, yn meddiannu y manylrydd grammadegol a'r craffder beirniadol sydd yn hynodi y rhai goreu o awdwyr y dyddiau presennol; eithr mewn dwysder ymdeimlad âg ysbryd yr epistol, a dirnadaeth glir o ystyr y gwirioneddau tragwyddol yr ymdrinir â hwynt ynddo yn eu cysylltiad â gwirioneddau eraill y Dadguddiad Dwyfol, y mae yn rhagori arnynt oll. Y mae yr argraffiad diweddaf o'r esboniad a gyhoeddwyd yn Edinburgh, dan olygiad y Dr. Goold, yn cynnwys ychwanegiadau gwerthfawr o'r prif feirniadaethau a wnaed er dyddiau Dr. Owen i egluro y testyn.

Nid yw esboniad Maclean braidd yn ddim amgen na thalfyriad o eiddo y Dr. Owen, ond ei fod wedi ei wneyd gan ŵr o feddwl tra annibynol.

Y mae Tholuck a Stuart ar yr Epistol hwn yn weithiau tra galluog, ac yn hanfodol braidd i'r efrydydd yn ei ymchwil i ystyr fanwl y testyn gwreiddiol.

Ond galluocach na'r ddau ydyw Ebrard yn ei barbâd i esboniad Olshausen. Y mae holl elfenau uchaf esboniwr yn cydgyfarfod yn y gŵr hwn. Nid yw yn osgoi unrhyw anhawsder, ac yn gyffredin yr ydych yn teimlo ei fod yn eu goresgyn oll. Un da odiaeth ydyw.

Y mae genym ar Epistol cyntaf Pedr—eiddo y meddyliwr dwfn, y cristion duwiolfrydig, a'r gweinidog ffyddlawn, yr Archesgob Leighton. Llyfr yw hwn nas gall neb ei ddarllen heb gael ei wneyd yn well.

Y mae genym hefyd Steiger ar yr un Epistol a gyhoeddwyd yn y *Biblical Cabinet*. Y mae dywedyd ddarvoud i Dr. Fairbairn fyned i'r drafferth i'w gyfieithu yn ddigon o ganmoliaeth iddo.

Ond y prif waith yn ddiammheu ar yr Epistol hwn yw yr eiddo Dr. Brown, Edinburgh. Hwn oedd y cyntaf a gyhoeddwyd gan Dr. Brown, pan yn tynu at ddiwedd ei oes, o'r cyfrolau sydd wedi gwneyd ei enw mor glodfawr fel deonglydd ysgrythyrol; ac ond odid nad yw yn rhagori ar ddim a gyhoeddwyd ganddo yn ganlynol. Anhawdd dychymygu am gyfuniad prydfferthach na chynllun rhagorach o'r cyfuniad sydd mor ddymunol yn y pulpud o'r esboniwr a'r pregethwr.

Ar Epistolau Ioan y mae cyfrol fechan werthfawr iawn o eiddo Lucke wedi ei dwyn allan yn y *Biblical Cabinet*.

Ar y Dadguddiad y mae yr awdwyr yn lliosog. Moses Stuart, Hengstenberg, ac Elliott, yw y prif rai diweddar adnabyddus i mi. Pa beth bynag a ddywedir am olygiadau yr awdwyr ar amseriad, amcan, ac ystyr y llyfr, a meddwl neillduol y gwahanol ranau o hono, y mae yn anhosiibl eu darllen heb gydnabod ymchwil, a gallu mawr, ac ymddangosiad o leiaf o ymddarostyngiad llwyr i'r gwirionedd. Y mae gwaith Elliott yn neillduol, yn euwedig yn y pedwerydd argraffiad, yn arwain y darlennydd i'r fath gylchoedd, ac yn cyflwyno ger ein bron y fath ystor o wybodaeth ynghylch ansawdd ac amgylchiadau yr eglwys ar wahanol adegau ac mewn gwahanol wledydd, ag sydd yn ei wneyd yn werth ei ddarllen hyd yn nôd ped anghyttunid yn gwbl â'i ddeongliadau.

Gwaith arall ardderchog iawn ar y llyfr hwn, er nad yw yn esboniad arno, ydyw Fairbairn *on Prophecy*. Mi a anghofiais hefydnod i Fairbairn ar *Esaie* fel y gwaith goreu yn ddiammheu a feddwn ar y llyfr hwnw, a

Moses Stuart ar Daniel fel gwaith o radd uchel iawn. Y mae Auberlein hefyd ar brophwydoliaethau Daniel a'r Dadguddiad, yn eu perthynas â'u gilydd, yn waith tra galluog, yn uno i raddau helaeth yr ymchwil a'r craffder anghurheidiol er deall yr hyn sydd mor ddyrys, gyda'r sobrwydd sydd yn gweddu i grëadur ffaeledig uwchben dirgeledigaethau Duw.

Dyna fi wedi brasredeg dros y prif esboniadau. Esgeulusais wneyd un sylw ar hen dadau yr eglwys—yn gwbl o anghof. Y mae Chrysostom yn un nas gellir ei ddarllen heb deimlo, yn enwedig ar Epistolau Paul, eich bod yn dyfod i gyfarfyddiad âg un â llawer o'r gwir allu esboniadol yn eiddo iddo. Nid yw Augustine yn un y gellir dibynu ond ychydig iawn arno. O ran gallu meddyliol yr oedd y mwyaf o'r tadau o ddiagon, ac y mae amryw o'i sylwadau yn profi, ped ymddiriedasai i'w synwyr da ei hunan, y buasai ei enw mor uchel fel esboniwr ag ydyw fel duwinydd. Ond yr oedd ei *system* ddeongliadol yn un gyfeiliornus, a chan hono y mae yn cael ei arwain yn fynych i ddywedyd y pethau ffolaf.

Y mae lliaws o lyfrau eraill ag y golygwn hwynt ar ryw ystyr yn fwy anghenrheidiol i'r efrdydd nag unrhyw esboniad, ac y gwelai meistrolaeth hollol arnynt ef yn dra annibynol ar bob peth arall. Ymhlith y cyfryw y mae *Jahn's History of the Hebrew Commonwealth*; *Jahn's Biblical Archaeology*; *Horne's Introduction*, yr argraffiad diweddaf o'r hwn, er ei holl wallau, yw y goreu a'r goreu o lawer; *Davidson's Biblical Criticism*; *Davidson's Sacred Hermeneutics*; ac, yn neillduol, *Davidson's Introduction to the New Testament*; *Robinson's Biblical Researches in Palestine*; *Stanley's Sinai and Palestine*; *Porter's Five Years in Damascus*; *Neander's Life of Christ*; *Neander's History of the Planting of Christianity*; *Fairbairn's Typology of Scripture*; *Westcott on the Canon of the New Testament*, ac yn enwedig *Conybeare & Howson's Life and Epistles of St. Paul*.

Bydd yn anghenrheidiol arnoch er esgyn yn uwch i efrydiaeth yr Ysgrythyrau, wrth gynnorthwyon eraill. Rhaid i chwi gael Geiriadur a Gramadeg Hebreig Gesenius, a'r *Englishman's Hebrew Concordance*, neu ynte Fynegeir mawr Fürst. Bydd Gramadeg Nordheimer hefyd yn wasanaethgar dros ben. Er eich galluogi i gael allan bob gair yn y Bibl Hebraeg, a deall ei gyfwr gramadegol, cewch gymhorth anffaeledig yn *Bagster's Analytical Lexicon*. Y mae wedi ei fwriadu i ateb yr un dyben i'r efrdydd unig ag a wnelai athraw.

Am y Testament Newydd, y Gramadeg goreu i ddechreu ydyw un da ar yr iaith yn gyffredin; a'r goreu ydyw *Donaldson's Complete Greek Grammar*—ac yna am bethau neillduol y Testament Newydd, *Winer's Grammar of the New Testament Diction*; *Robinson's Greek Lexicon to the New Testament*; *the Englishman's Greek Concordance*, neu un mawr Brüder; a'r argraffiadau beirniadol gan Mill, Wetstein, Griesbach, Scholz, Lachmann, Tischendorf, a Tregelles, yr hwn sydd yn awr yn cael ei gyhoeddi. Amcana y golygydd llafurus i'w argraffiad ef o'r testyn gwreiddiol ei ddwyn yn agos iawn fel yr ydoedd pan y daeth odditan law yr ysgrifenywyr ysbrydoledig.

Y mae rhai cylchgronau yn cael eu cyhoeddi gyda golwg ar gynnorthwyo a chefnogi llênnyddiaeth Ysgrythyrol. Mae y *Journal of Sacred Literature* yn neillduol felly. Bu dan olygiad Dr. Kitto, ac yr oedd efe yn ddygwyl pethau mawr oddiwrtho. Y mae yn awr mewn dwylaw tra anghy-

anhwys, ac nid oes ond ychydig ddaioni yn cael ei wneyd ganddo. Y mae y *Bibliotheca Sacra*, cyhoeddiad Americanaidd, wedi bod unwaith, ac am hwyddoedd lawer, yn dra galluog. Y mae rywfodd wedi syrthio llawer yn ddiweddar. Mae cyhoeddiad yn dyfod allan, ond yn dra afreolaidd, yn Cambridge, *The Journal of Classical & Sacred Philology*, sydd yn wir ddysgedig; ac er nad yw yn gyfyngedig hollol i'r Ysgrhythrau sanctaidd, eto nid oes odid rifyn o hono heb erthygl neu erthyglau ynddo yn perthyn i'r dosbarth uchaf mewn cysylltiad â beirniadaeth gysegredig.

Yr ydych yn ymofyn ynghylch *Gresswell on the Parables*. Y mae ei waith ef ar y Dammegion yn dra dysgedig, ac yn firwyth llafur dirfawr. Ond y mae yn faith hyd at fod yn feichus, ac uid yw yr awdwr yn ymddangos yn un yn gallu meistroli yr hyn a gasglwyd ganddo fel ag i'w trefnu yn y modd mwyaf manteisiol i ddeall a chof ei ddarllenwyr. Yr un prydd, er llawer o syniadau tra phlentynaidd, ac er ei fod yn ynfydu agos gyda'r milfwyddiant, nis gall lai na bod o gryn wasanaeth i'r sawl allo wneyd defnydd da o hono yn neongliad y dammegion.

Y mae gwaith bychan da dros ben ar y Dammegion gan Lisco a ddaeth allan yn y *Biblical Cabinet* wedi ei gyfieithu gan Fairbairn. Y mae y gwaith hwn, yn fy marn i, yn rhagori i bregethwr hyd yn nôd ar un Trench. Y mae yn cyfeirio y meddwl at yr egwyddor neu y gwirionedd neillduol a nodir allan ymhob dammeg, ac yn dangos ystyr yr oll o honi yn gysylltiedig â'r egwyddor hono. Bwriadwyd y gwaith yn benaf i weinidogion, er eu cynnorthwyo yn eu parotodau ar gyfer y pulpud, ac yn ddiaddl y mae yn ardderchog i'r amcan hwnw.

Y mae Trench ar y Dammegion yn rhagori o'r ddau ar ei waith ar y Gwyrthiau; ond y mae y naill a'r llall yn awr i'w golygu ymhlith y llyfrau hynny ag sydd yn anhebgorol i'r efrwydd ysgrythyrol. Gwell na'r ddau yr un prydd fyddai traethawd cyflawn o'i eiddo ar eiriau cyfystyr, neu rai agos felly, y Testament Newydd—yn ol y cynllun ardderchog a roddodd i ni yn ei *New Testament Synonyms*.

Y mae y gwaith a ddygwyd ganddo allan yn ddiweddar *On the Authorised Version of the New Testament*, yn arddangos yn helaeth yr un rhagoriaethau, ac yn cynnwys llawer o sylwadau beirniadol tra gwerthfawr.

Ni fynwn er dim i chwi feddwl fy mod yn golygu ar i'r naill na'r llall o'r awdwyr y cyfeiriais atynt, nac, yn wir, y cwbl gyda'u gilydd, fod yn ddim angen na chynnorthwyo. Rhaid i'r pregethwr yn enwedig, cyn y byddo yn werth dim, deimlo annibyniaeth hollol ar bob awdurdod ddynol, a chryn ymddiried yn ei feddwl ei hun. O'm rhan fy hunan, y mae genyf y fath ymddiried yn eglurder y Dadguddiad Dwyfol, a chydnawsedd ei ddysgeidiaeth â chyfarwyddiadau synwyr cyffredin, fel nad oes eisieu, wedi i un gael y testyn cywir ger ei fron, a deall da am ystyr naturiol y geiriau ynddo, ond rhoddi y synwyr hwnw ar waith, tuag at esgyn i ddirnadaeth o'i wir ystyr. Ond y mae yn gwbl anghenrheidiol meddiannu ymdeimlad dwys â'i ysbryd. Nis gellir myned i mewn i gyfoeth ei gynnwys er pob peth arall yn niffyg hynny; ac ond meddiannu hynny fe wna i fyny am lawer o ddiffygion eraill. Tuag at gael hynny, rhaid gofalu am feithrin yn wastad y teimladau crefyddol, a chadw cymundeb cyson â'r Ysbryd a roddodd y gair.

Y prif lyfrau, adnabyddus i mi, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ydyw *Manuel's Limits of Religious Thought*, a Darlithiau Syr William Hamilton. Dwy gyfrol o'r Darlithiau sydd eto wedi eu cyhoeddi, sef y rhai ar *Metaphysics*.

Daw y ddwy eraill ar *Logic* allan yn fuan. Athroniaeth Syr William a dderbynir gan Mr. Mansel, ac y mae yn gwneyd defnydd rhagorol o honi er amddiffyniad i athrawiaethau y Dadguddiad Dwyfol. Yr wyf yn ystyried ei lyfr ef ymhlith y rhai galluocaf a gyhoeddwyd erioed yn rhaiaid yr efengyl. Ac y mae yn llawenydd mawr i'm calon fod yr Arglwydd wedi codi y fath amddiffynydd iddi mewn man y mae cynifer o wŷr ieuainc ein teyrnas, ar yr adeg bwysicaf yn eu bywyd, yn y fath berygl oddiwrth ddylanwadau pur wahanol, ar y naill law a'r llall, i gofseidio yr hyn a derfyna mewn ymadawiad oddiwrth y fydd.

GEORGE HEYCOCK A'I AMSERAU.

PENNOD III.

Y MAE yn debyg, yn yr oes hon megys yn oesau cyntaf Cristionogaeth, mai "trwy lawer o orthrynderau y mae yn rhaid myned i mewn i deyrnas Dduw." Gadawsom ein harwr yn ein herthygl faenorol yn nghanol profedigaethau a helbulon mawrion, ac hefyd mewn cryn dywyllwch am drefn yr efengyl er achub pechadar colledig i fywyd tragwyddol. Yr oedd y pedwar gwynt fel yn curo arno, ac y mae yn syndod na fuasai yr holl adeilad yn syrthio yn bendramwrwgl i'r llawr. Fel yr apostol Paul, yr oedd ei beryglon yn codi ymhob man; i.e., ac o'r manau hyn y gallasai ddysgwyl llawer o gysuron. Felly y mae wedi bod, ac felly y mae eto, ac wrth bob tebyg fel hyn y bydd hyd y diwedd. Nid oes dim i'w wneyd gan hyn ond ceisio ymwithio i mewn i'r bywyd, goreu y gellir, drwyddynt oll. Braidd yr oedd yr apostol Paul yn myned i un man nad oedd peryglon annysgwyladwy yn codi o'i gwmpas, nes y byddai yn amheu cael byw yn eu canol. Yr oedd bob awr wrth deithio, mewn perygl oddiwrth y dyfroedd, mewn perygl oddiwrth ladron, mewn perygl oddiwrth ei genedl ei hun, mewn perygl oddiwrth drigolion y ddinas, mewn perygl yn yr anialwch, mewn perygl ar y môr, mewn perygl oddiwrth frodyr gau. Gellid meddwl fod y cwbl yn weddol dawl, hyd nes y byddai Paul yn presennodi ei hun, ac wedi'n yr oeddynt fel yn daffroi, ac yn ymuno, fel yn benderfynol i'w ddinystrio. Yr oedd y "llifddyfroedd" yn llonydd, y "lladron" fel pe buasent yn cysgu, "ei genedl ei hun" yn symud yn araf yn helyntion bywyd, trigolion y "ddinas" fel yn mwynhau eu hunain mewn esmwythder a moethau, "yr anialwch" fel pe bae yn siglo y cawell mewn unigolrwydd, y "môr" fel yn chwaraeu yn ngwyneb y graig gyferbyn, a'r "brodyr gau" fel rhai wedi cael llonyddwch i'w heneidiau, hyd nes y byddai Paul allan yn eu mysg; yna, wele yr ymosod yn dechreu o ddifrif, a'r gwahanol elfenau yn ymuno mewn un cythrwf, i'r dyben o'i ddinystrio oddiar wyneb y ddaear.

Y mae pethau fel hyn yn ddyrys, ond felly y mae yn bod yn aml; ac nid oes dim geanym i'w wneyd ond ceisio credu fod i hyn yna ryw ddyben

anweledig, ac anegluredig hyd yn hyn, yn y llywodraeth Ddwylfol. Pan y cyfyd ein profedigaethau llymaf o'r manau hyny y dysgwylasom ein cysuron penaf, y maent o gwbl, yn ddiau, y mwyaf anhawdd eu dyoddef. Eithr os oes, fel yr awgrymwyd, rhyw ddyben i'r cyfryw bethau yn y llywodraeth Ddwylfol, y mae yn ddiau fod darpariaeth o ras hefyd er nerthu i'w dwyn. Y mae ein gwron a'r apostol Paul yn bur debyg mewn llawer o bethau, yn enwedig yn eu profedigaethau; canys y mae yn ymddangos fod Heycock yntau yn cyfarfod â thywydd garw ymhob man, ac yn fynych iawn o fanau nad oedd yn dysgwyl dim ond cysuron,—

“Dysgwyl pethau gwych i ddyfod,
Yn groes i hyny maent yn d'od.”

Yr oedd gan y brawd Siôr fochyn yn tewychu yn gyfagos i ddrws y tŷ, oddiwrth yr hwn nid oedd yn meddwl cael dim ond y pleser o fwyta cig da yn ei dymmor priodol. Gan ei bod yn awr yn tynu ar Nadolig, yr oedd rhyw sôn wedi bod ynghylch cael yr eisglwyd, neu'r *spare rib*—asen y frân, ys dywed gwŷr y *North*—i giniaw y diwrnod hwnw, ac yna crogi yr ystlysau i fyny i wneyd bacwn, yr hwn fuasai yn gyfleus yn nhyddor y gauaf. Felly, chwi a welch mai dysgwyliad o gysur yn unig oedd oddiwrth y mochyn, ac ni feddyliwyd erioed gyfarfod â'r un brofedigaeth o'r cyfeiriad yna, bid y fyno. Hyd yr ydym yn gofio, cath a mochyn oedd yr unig grëaduriaid a feddiannwyd gan George, ymysg holl amrywiaethau y grëadigaeth anysbyrdol neu ddireswm. Nid ydym yn ddigon sicr a fu ganddo gi rywbyrd, ond yr ydym bron sicr na fu ganddo gi, mochyn, a chath yr un pryd. Ac am bob peth arall, gallwn fod yn benderfynol, heb betruso mewn un modd, nac ofni cyfeiliorni, nad oedd yn feddiannol ar ddim; canys clywsom fod rhyw gyfaill wedi ei godi fyny i'w gerbydan, a'r syndod mwyaf o bob peth gan y cymydogion oedd gweled George yn myned heibio mewn *gig*. Rhedodd yn ynfytytyn allan, heb na het na napcyn, gan waeddi, “Hoi, hoi, hawyr, dewch yma, dyma George Heycock mewn *gig*!” Gyda hyn, fel y gallwch dybio, dyma hanner trigolion y tai ar ganol yr hewl, ac yn edrych fel dynion wedi myned allan i weled rhywbeth; a'r cwbl oedd i'w weled yn y diwedd oedd George Heycock mewn cerbydan. “Myn dyn, George,” ebe rhyw lanc, “yr y'ch chi yn myned allan heddyw fel gŵr boneddig.” “Gŵr boneddig, yr un dwl,” ebe yntau; “beth, a wyt ti yn meddwl mai cael ei lusgo wrth ben ôl hen geffyl sydd yn gwneyd dyn yn ŵr boneddig? Y mae yn gâs genyf fi fy mod wedi fy narostwng i'r fath raddau a gorfod dilyn cynffon ceffyl, drwy gael fy llusgo ar ei ôl ar hyd y ffordd.” Y mae yn eglur oddiwrth syndod y gymydogiaeth, wrth ei weled mewn cysylltiad â cheffyl a cherbydan, mai peth go ddyeithr oedd hyny. Dygwyddodd yn agos yr un peth unwaith yn Llandeilo, lle yr oedd efe wedi myned i aros ychydig er mwyn ei iechyd. Aeth yno, a chafodd letty mewn tŷ cyfrifol, a pherchid ef yn fawr gan y teulu. Yr oedd rhywbeth ynddo o ymddangosiad parchus, canys yr oedd yn hytrach yn dew, ynghyda llawer o bethau eraill mewn cysylltiad â'i berson ag oedd yn lled olygus. Cyferchid ef bob amser gan y teulu, ac yn wir pawb ag oedd yn dyfod i adnabyddiaeth âg ef, yn Mr. Heycock; ac yr oedd yn cael benthyg y merlyn i farchogaeth allan yn dra aml; ac nid yn anfynych, o herwydd ei ymddangosiad parchus ar gefn ceffyl, y gwelid y werin yn tynu eu hetiau iddo wrth fyneb heibio. “Yr oedd y teimlad o ddyrchafiad,” ebe efe, “wedi effeithio yn dda ar fy

nghorff; yr oeddwn yn gwella bob dydd; a phob tro y byddwn yn myned allan ar y ceffyl, a'r dynion yn tynu eu hetiau, ac yn dywedyd, 'Boreu da, Mr. Heycock,' yr oeddwn yn teimlo y dolur fel yn ymado am byth, ac yr oeddwn yn dychwelyd fel pe buaswn yn anfarwol. Yr oeddwn mewn parch a bri, ac nid oedd neb yn meddwl nad oeddwn yn banner gŵr boneddig. Ond ryw ddiwrnod daeth Wil fy mrawd, a llanc arall o'r Taibach, i edrych am danaf. Yr oeddwn wedi myned allan o'r dref i farchogaeth y boreu y daethant yno; a phan yn dychwelyd, a phawb yn fy nghyfarch gyda pharch, gan ddywedyd—'Boreu da, Mr. Heycock; y mae yn foreu teg, Mr. Heycock;' ie, Mr. Heycock oedd hi bob gair—dyma y ddau fwl yn gwaeddi allan, fel pe buasant heb weled dynion erioed o'r blaen, 'Hoi, hoi, dyma George wedi cael gafael ar geffyl yn rhywle; hoi, 'ngwas i, ymha le y buost yn lladrata hwna?' Teimlais," ebe ein gwron, "fel dŵr oer yn rhedeg i lawr dros fy ysgwyddau, yn oeri fy ysbryd, ac fel pe buasai yn fy nhafu yn ol, bron cynddrwg ag erioed. Oni buasai iddynt hwy, gallaswn yn hawdd gael fy nghyfarch fel Mr. Heycock tra fuaswn yn y lle; ac yr oedd hyny yn cael effethiau mwy dymunol ar fy iechyd na'r holl ddoctoriaid yr oeddwn wedi bod yn ymgynghori â hwynt." Fe allai fod digon wedi ei ddyweyd i egluro nad oedd ein harwr yn yr arferiad o feddiannu rhyw amrywiaeth anghyffredin o anifeiliaid. Y mae hyn yn cael ei ddangos, fel y gwelwch, wrth fod y bobl yn synu ac yn cadw cymaint o ystŵr wrth ei weled ar gefn ceffyl. Er hyny, y mae yn ddigon gwir fod ganddo gath a mochyn, bron yn gyson. Darfu i ni awgrymu at y gath yn ein herthygl o'r blaen, ynghyda'r brofedigaeth danllyd a ddygwyddodd; ac yn awr, y mae yn ddyledswydd arnom edrych ar ei brofedigaeth mewn cysylltiad â'r mochyn.

Y mae yn ymddangos fod pob peth ag oedd yn ei feddiant, a'r cwbl ag oedd yn dal cysylltiad âg ef, fel yn cyhoeddi rhyfel yn ei erbyn, ac yn cydweithio er hyrwyddo ei golledigaeth. Galleid meddwl y buasai yn well iddo fod yn hollol heb ddim, hyd yn nôd na chath na mochyn, yn gymaint a bod y rhai hyny wedi troi yn elynion ac yn rhwystrau, yn lle cysuron, fel y dysgwyliwyd. Fel y dywedasom o'r blaen, yr oedd twlc y mochyn yn y baili, heb fod nebpell oddiwrth ddrws y tŷ; ac felly yn bur gyfeus i Sophi ei borthi gyda chysondeb. Yr oedd George erbyn hyn, a chyn hyn hefyd, fel y dywedasom yn ein herthygl o'r blaen, wedi dechreu gweddio yn deuluaidd; ac er fod y rhwystrau i hyn yn hytrach yn fawr, daliodd yn lew ati, yn ngwyneb tew a theneu. Mewn trymder a phrudd der ysbryd un boreu, pan oedd llewygfydd marwolaeth dragywyddol fel yn cydio yn ei holl gyfansoddiad, y mae yn ymddydd yn y Bibl wedi boreufwyd, ac yn myned at y ddyledswydd deuluaidd. Darllenodd ranau o'r gwirionedd, eithr nid oedd dim yn taro ei feddwl yn effeithiol; nid oedd cysur yn llifo i'w enaid adfydus; nid oedd goleu yn tywynu i'w feddwl tywyll; ac nid oedd mewn modd yn y byd "weledigaeth eglur." Beth bynag, nid oedd dim i'w wneyd ond ceisio myned trwyddi goreu y gellid. Nid oedd y weddi yn nemawr gwell am dro hir; tywyll a dilewyrch ydoedd, yn ymbalsalu am y drws, ac yn methu cael gafael arno. Yr oedd y galon drom bron yn tori, a'r ysbryd llesg bron yn llwfrâu, a phob gobaith am fod yn gadwedig bron wedi ymadaw am byth; pryd y mae yn goleuo ychydig, y drws fel pe bai yn agor megys o hono ei hun, ac awel dynyr y wawrddydd hyfryd fel yn chwythu iachawdwriaeth i mewn i'r enaid llesmeiriedig. Y mae y gweddwr

ag oedd ymron rhoi i fyny ysmeityn yn awr yn cael ei anadl; y mae yn cydio o newydd mewn gweddi, ei lais sydd yn cryfhâu, yn dyfod yn fwy soniarus a seinber. Y mae fel pe bae gwawr gobaith yn ymledu, a hyder yn cryfhâu swyfwy, ger bron gorseddffainc y gras, a phob arwyddion fod ein harwr yn ymyl derbyn trugaredd. Y mae yn ailgydio; y mae yn methu rhoi i fyny; y mae yn gwella ei afael; y mae yn ymddangos yn awr fel yn bwrw "angor, yn ddiogel a sicr," y tu fewn i'r llên. Clywch! y mae yn ymgodi yn awr i hwyl anarferol, ac yn ymddangos fel llong marsiandwr yn ei llawn hwyliau o flaen gwynt teg. Y pryd hyn, dyma ryw swm tuchan, a rhochian, yn dyfod o gyfeiriad cymydogaeth y mochyn. Y mae Sophia yn clustfeinin, ac yn ymwrando, ac yn dysgwyl y weddi i ddarfod i gael rhoi ymborth iddo, canys yr oedd yn hen bryd, yn gymaint a bod y weddi wedi para dipyn yn hir. Y mae y mochyn yn myned waeth waeth, ac fel pe buasai rhywbeth arno ag oedd yn waeth na chwant bywd; canys yr oedd yn ymddangos fel yn wyllt, neu allan o'i gôf, yn rhedeg yma a thraw, yn ol ac yn y blaen yn y twlc, yn y modd mwyaf afresymol a welsoch erioed. Wel, dyna hi yn ddystawrwydd eto am fynyd o ran y mochyn, eithr y weddi yn myned yn y blaen yn hwylus.

Ni fu erioed fwy o ddysgwiliad am Amen yr ydym yn sicr; er yr ydym yn gwybod fod cymaint o ddysgwiliad am hyny â nemawr o beth yn lled aml. Dywedwyd wrthym yn ddiweddar am bregethwr yn pregethu mewn man, ac yn ei fyw yn methu dyweyd Amen. Yr oedd yn dyweyd bron bob peth ond hyny, ac am hyny yr oedd y dysgwiliad a'r gweddiau; ond o'r diwedd, cafodd gymborth i ddyweyd Amen, a chydâ hyny yr oedd tafod pob dyn yn cael ei ollwng yn rhydd; fe ddywedodd pawb ag oedd yn y capel Amen yn rhwydd. Wele, ni fu neb erioed yr ydym yn sicr mewn dysgwiliad mwy pryderus na Sophi y tro hwn am Amen; ond hyd yn hyn yn hollol afwyddiannus. Ust! dyma swm eto o gymydogaeth y mochyn. Y mae yr anifail fel pe bae wedi dyrysu o ran ei synwrau; y mae yn neidio yn erbyn drws ei letty gyda ffyrnigrwydd arswydus; y mae yn rhaid fod cynneddfau yr anifail wedi dyrysu. Fe allai y bydd rhai yn barod i'n beio am siarad am synwrau a chynneddfau mochyn, fel pe bae yn fôd rhesymol,—nad yw hyny ddim yn iawn. Nid ydym ni yn dyweyd, deallwch, fod y mochyn yn teddiannol ar synwyr a chynneddfau *dynol*, wrth ddyweyd ei fod yn ymddangos fel pe bae wedi colli ei synwrau. Am synwyr mochyn yr ydym ni yn son; ac felly ei fod wedi colli hyd yn nôd y synwrau ag sydd gan foch yn gyffredin. Ni ddymunem er dim i neb ein camddeall, a myned i ddyweyd ein bod yn ceisio profi nad oedd dim *sense* dyn y bore hwn yn y bwystfil gwrychog rhochus; canys nid hyny sydd gyda ni mewn llaw, eithr profi yn hytrach nad oedd dim *sense* mochyn ynddo; yr oedd wedi myned yn fwy mochynaidd, deallwch, na moch yn gyffredin. Yr oedd wedi tori pob deddf berthynol i'r rhywogaeth fochynaidd; ac wedi myned yn ddireol, fel nad oedd yn gwneyd dim ond rhochian, neidio yn erbyn y drws, a bygwth dinystr buan ar bob peth a safai o'i flaen. Y mae Sophi yn dal yn lew, chwareu teg; ond mewn gobaith clywed Amen bob inynydd.

Dacw George yn arwyddo fel pe byddai yn myned i ddybenu, canys dywedodd, "Cymer ni i dy law." Ond yn lle dybenu, dyma ef yn ailgydio mewn rhywbeth wed'yn, ac yn dechreu o'r newydd. Y mae hyn agos yn *demtasiwn* i Sophi fyned i regu; eto dylem ystyried, a gweddio

am nerth o dan y cyfryw amgylchiadau, i ddal hyd y diwedd; cauks y mae nerth yn ol y dydd i'w gael. Ond y mae yn rhaid dyweyd nad oedd Sophi yn grefyddol; a'i bod wedi dal cystal o dan y fath brofedigaethau, heb gynnorthwy gras, sydd yn fwy i'w ryfeddu na dim arall. Eto unwaith, dyma Siôr yn dyweyd, "Cymer ni yn dy law;" ac er hyny mae yn methu dybenu, ond cydio o'r newydd, a'r mochyn erbyn hyn yn gant gwaeth. Y mae y creâdur yn gynhyrfus dros ben, ac yn myned fwyfwy felly, yn debyg i dymhestl ofnadwy yn ymgodi i gynhwrf aruthrol. Tuchan yn an-naearol yr oedd yr anifail, gan ruddfan, ac ysgrechian, ac ymfrochio yn echrhydus. Yn gymaint nad oedd Sophi yn gallu cydymdeimlo â'r gwedd-iwr, a'r dysgwyliad mor angerddol am yr Amen, y mae ei llestr yn myned o'r diwedd yn rhy lawn; y mae hi yn methu dal yn hwy; y mae pob cadwen yn myned yn rhydd, a phob teimlad o ddynoliaeth yn cael ei golli, —dyma hi i fyny ar ei thraed, fel gwylles wyllt, ie eunnynodd tân ynddi, a hi a lefarodd â'i thafod. Y mae yn debygol ei bod hi yn cydymdeimlo mwy â theimladau y mochyn nag â theimladau crefyddol George. Och fi! erbyn hyn y mae yn anhawdd dyweyd, mewn barn cariad, fel y dywedir, pa un ai y mochyn ai y wraig oedd fwyaf aflywodraethus, canys yr oedd y ddau wedi myned i dymherau drwg dychrynllyd. Fe allai y byddai ein darllenwyr yn ystyried mai gormod o halogedigaeth mewn erthygl fel hyn fyddai dyweyd pa beth a ddarfu iddi lefaru â'i thafod, yn nghanol gweddi yn y teulu. Y mae yn anhawdd gyda ninnau hefyd ddyweyd pob peth ag a wyddom; ond chwi a wyddoch fod yn rhaid myned trwy y tew a'r teneu i gael gafael ar fan caled ambell waith. Y mae yn rhaid cyffesu iddi hi yn yspaid y weddi wneyd peth mor anrasol â thyngu, a hyny lawer gwaith, ond yn ddystaw, gwybyddwch, gan wasgu ei dannedd ynghyd, a chnci ei thafod; eithr yn awr, y mae yn methu dal yn hwy i dyngu yn ddystaw; y mae y tân yn ennyn yn rhy wyllt, ac yn myned yn rhy boeth, a hi a "lefarodd â'i thafod." Beth ddywedodd hi? Yn wir, y mae yn anhawdd dyweyd, ac eto y mae yn rhaid dyweyd rhywbeth. Wel, dyweyd enw y Gŵr Drwg yr ydoedd o'r rhestr, ac yn y diwedd yn dymuno ar iddō ei chipio yn gorfforol i'r fan hono; ond dyna, rhaid ymattal, onidē bydd y papyr a'r inc yn gwaeddi allan, "Halogedigaeth." Yr oedd hwyl ein harwr gymaint fel yr oedd yn anghydwybodol braidd o'r tywydd garw ag oedd yn darllaw uwch ei ben; oblegid er pob ystŵr, gweddiō yn y blaen yr oedd efe hyd yn hyn. Y mae y cynhwrf yn cynnyddu yn y cyntedd oddiallan; y mae'r mochyn yn myned waeth waeth; yn agor ei enau ac yn lledu ei safu yn anferth, gan frochi, crochi, ac oernadu yn annesgrifadwy, neidia yn erbyn drws y twlc gyda nerth dauddyblyg, ac ymafiyd â'i ddannedd yn y coed a'r ceryg, fel pe buasai yr holl gythreuliaid a gawsant orchymyn i fyned i'r genfaint yn ngwlad y Gadereniaid, wedi meddiannu y mochyn hwn ei hun. Yr oedd yno, fel y gwyddoch, "genfaint" yn pori yn ddystaw; ond wedi i'r cythreuliaid fyned iddynt, dyna hwynt yn ddisymwth, fel taro dwylaw ynghyd, yn taro i bant, yn cyuffondorchu, ac yn rhedeg, nid yn rhy agos i'r dibyn ac yn cwmpo drosodd, ond yn "rhuthro," fel gwylliaid gwylltion, dros eu penau i'r dyfnder mawr. Yr oedd rhywbeth yn bur gyffelyb yn hwn hefyd, sef mochyn George; canys cyn dechreu y weddi yr oedd efe fel hwythau yn dawel a llonydd, yn debyg i ryw fochyn arall; eithr cyn myned nemawr yn y blaen, dyma y cynhyrliadau yn dechreu, ac yn myned fwyfwy fyth fel yr oedd y gweddiwr yn codi i hwyl.

Eto y mae y gweddiwr er yr holl fwstwr hyn, yn myned yn y blaen, ac yn ymaffyd mewn addewid ar ol addewid, ac wrth bob argoel, bron yn cael glân arni, a theimlo ei draed ar "Graig yr oesoedd"—pan y mae amynedd Sphi wedi rhedeg i ben, a'i holl ddyoddefgarwch wedi darfod yn llwyr. Weithian y mae yr ysbryd arian fel pe buasai yn cael cenad i fyned o'r mochyn i'r wraig. Yr oedd hyn yn groes hefyd i amgylchiad y Gadarenaid; canys o'r dynion yr aethant i'r môch y tro hwnw; eithr beth bynag, felly y dygwyddodd yn awr, fel pe buasai yr un drwg yn myned o'r mochyn i'r dyn. Y mae yn debyg nad oes unfurfiaeth mewn llawer o orchwyliaethau. Beth bynag am hyn, y mae ysbryd Sphi yn cynhyrfu yn ddychrynlyd, a galleid meddwl fod swn uffern yn gwneyd rhuthr ofnadwy, i'w glywed o fewn y lle. Dyma hi yn neidio ar ei thraed fel arthes wedi colli ei chenawon, yn tafu y gadair yn ysgythion yn erbyn y mur, a chyda hyny yn rhuthro, nid dros y dibyn i'r môr, canys yr oedd gryn hanner milldir o'r fan i ymyl y weilgi, ond yn rhuthro tuag at George, ac yn ymaffyd o'i ôl yn ngwallt ei ben, gan ei dynu i lawr, gadair a chwbl, yn sybyrthol ar asgwrn ei gefn, gan rwygo, a rhegu, a rhuo, yn y fan hono, mor debyg ag oedd yn bosibl fel un yn meddiant y gŵr drwg. Yr oedd ein harwr erbyn hyn, wedi cael y fath ergyd ar ei wegil, ynghyda'r fath gyffroad i'w deimladau, yn agor ei lygaid mawrion fel wedi ei synu, ac nid allai lefaru, canys nid oedd yn teimlo ysbryd mwyach ynddo; tra yr oedd Sphi yn rhuo uwch ei ben, yn ei fygwth â dyrnodiau lawer, ac yn gwaeddi yn groch, "Myn —, fi wna i ti beidio â gweddio eto, yn amser rhoi bwyd i'r mochyn; cwyd ar dy draed, a cherdda at dy waith, y llercyn pwr." Erbyn hyn, fel y gellwch feddwl yn hawdd, yr oedd ysbryd ein gwron yn gryn gymysglyd, ac y mae yn syndod na buasai wedi dal rhai o'r gwreichion uffernol, nes rhoi holl droëll naturiaeth yn fflam. Eto, er fod yr hin yn dra ystormus ar ei feddwl, yn ymylu ar "boethwynt," ni ddywedodd ddim yn ynfyd; "ac yn hyn i gyd ni phechodd"—yn weledig, beth bynag; ac ni chymerodd un drafferth ar y pryd gyda y gorchwyl anobeithiol hwnw o geisio attal tafod yr hon a ymrwymasai wrth yr allor i'w fawrbâu ac uffuddhâu iddo, eithr gadawodd i'w haelod bychan anllywodraethus gael ei gwrs, hyd nes i amser, a blino, roddi taw arno. Tynodd o'r neilldu yn swynaidd, gan ocheneidio yn brudd; meddyliodd fod yr Arglwydd yn ei geryddu, ac na fynai wrando ar ei weddiau.

Unwaith, pan yr oedd George yn adrodd y brofedigaeth hon, gan sicrhâu yn benderfynol mai dylanwad cythreulig oedd yn gyru y mochyn yn wallgof, i rwystro ei weddiau, y mae cyfaill arall yn edrych yn syn yn ei wyneb, ac yn dywedyd, "George, a ydych ddim yn meddwl y gallasai peth fel yna fod, heb fod o dan ddylanwad uniongyrchol y gelyn diafol? Yr wyf fi braidd yn tueddu i feddwl mai dygwyddiad ydoedd wedi ei achosi yn llwyr cyffredin natur, ac nid gweithred uniongyrchol oddiwrth Beelzebub, penaeth y cythreuliaid. Y mae yn wir fod y brofedigaeth yr un peth; ond braidd yr wyf fi yn gallu meddwl fod y cythraul yn ein dyddiau ni yn cymeryd meddiant o grêaduriaid, yn eu gyru yn wallgof, a'u defnyddio i demtio dynion. Y mae yn ymddangos i mi mai drwy ryw weithrediadau dirgelaidd ar y meddwl y mae efe yn cario ei waith yn y blaen yn fwyaf neillduol, oddiar amser adgyfodiad ac esgyniad yr Arglwydd Iesu." "Pw, pw!" ebe George, "ni wyddoch chwi fawr am dan i hi; ni bu hi ddim yn gyfyng iawn arnoch chwi yn mhorth yr argyhoeddiad, onid e buasoch wedi eich dygu i siarad yn

gallach na hyna. Y dyn! yr wyf wedi gweled y cythraul â'r ddau lygad yma lawer gwaith, mewn lliwiau a lluniau gwahanol; a phe baech yn tyngu ganwaith i'r gwrthwyneb, chredwn i ddim o honoch byth, na neb arall ychwaith." "Wel," ebe y cyfaill, "nid oes genyf fi ddim i ddyweyd, ond yr wyf fi yn meddwl y gallasai y fath bethau ddygwydd fel canlyn-iadau i bethau naturiol." "Pethau naturiol!" ebe yntau, "pa bethau naturiol fuasai yn gyru y mochyn yn wallgof a chynddeiriog, yn amser y weddi, ac heb fod dim yn y byd ar y créadur, na chynt na chwed'yn? Peidiwch â siarad *nonsense*." "Wel," ebe y cyfaill, "a ydych ddim yn meddwl y gallasai fod arno rywbeth ar y pryd, fel yr oedd ar yr apostol Pedr, pan ar nen y tŷ—i deimlad o newyn mawr ddyfod arno, ac y chwennychai gael bwyd, a chyn y gallesid parotôï iddo, i ryw fath o lewygfeydd ei gymeryd?" Gyda hyn y mae ysbryd ein harwr i fvny, y mae yn agor ei lygaid mawrion ar y dyn, yn estyn y goes fach allan, yn cau ei ddwrn chwith, ac yn gwasgu ei ddannedd, ac yn dywedyd, "Y dyn dwl, yr wyf yn synu atoch yn siarad y fath bethau! Nid oedd un mochyn yn y plwyf yn cael cymaint o ofal am dano; yr oedd yn cael bwyd bob nos cyn ein bod yn myned i'r gwely, a hyny o gwmpas deg o'r gloch, ac yr oedd wedi ei gael y noson hono, ac nid oedd yn ddiweddarach nag arferol y boreu hwnw; ni bu mochyn erioed yn y fath agwedd o eisieu bwyd, chwaethach un nad oedd dim anghen mawr arno; nis gallasai fod." Gyda hyn, y mae yn adnewyddu ei nerth, yn taflu ei fraich, ac yn dywedyd, "Pw, pw! yr wyf fi yn gwybod yn burion mai'r cythraul oedd yn y mochyn, ac am a wn i leng o honynt fod wedi ymuno i nghael i yn ol i'r fyddin ddu; ond ni chânt fi byth ond hyny."

Gŵr call ddigon oedd ein cyfaill ag oedd yn ymddyddan âg ef ar y materion hyn, eto yr oedd holl ddoethineb hwnw yn pallu yn aml, ac yn methu yn un wedd myned i mewn â'r llong i'r porthladd a ddymunai. Y mae yn rhaid i ni gyffesu, ac nid oes arnom gywilydd ychwaith, fod ryw gwestiynau fel hyn y tu hwnt i'n dealldwriaeth, ac am hyny nas gallwn gynnig unrhyw sylwadau arnynt fel hyn oeu fel arall, ond yn unig adrodd y ffeithiau, a gadael rhwng ein darllenwyr medrus â hwynt. Fe ddichon i hyn ddyfod ger bron rhywrai doethion a deallus mewn cyfrinion a dirgeledigaethau, pa rai a fedrant ddeongl deongliadau, a dattod cylymau; os felly y bydd, bydded iddynt hwy foddloni eu hunain, a bydd y cwbl ar ben. Ond bydded hi fel hyn neu fel arall, y mae yn ddigon amlwg fod y brofedigaeth yn un chwerw i George, ac wedi achosi mwy na mwy o ofidiau.

Y mae yn ddigon tebyg mai o herwydd rhyw aflonyddwch fel hyn yn ei deulu gartref, y daeth i'r arferiad o fyned allan weithiau i lân y môr, weithiau i'r caeau, ac weithiau i'r mynyddau cyfagos, i weddio. Y mae yn eglur ei fod yn yr arferiad o wneyd hyn, nid yn unig yn ei argyhoeddiad a'i gychwyniad gyda chrefydd, ond hefyd drwy ei holl fywyd. Yr oedd yn hawdd gwybod pan y byddai rhywbeth ar ei feddwl yn fwy na'r cyffredin; yr oedd y gymydogoeth yn gwybod; canys gwelid ef yn rhodio wrtho ei hun, yn y caeau, neu lân y môr, neu ben y mynydd gyferbyn; a chlywid ei swn o'r naill gyfeiriad neu y llall yn bur aml. Mae yn ddigon tebyg ei fod yn anghydwytbodol ar amserau ei fod yn siarad allan; ond byddai yn bloeddio allan nes y clywid ef o bell. Yr ydym yn cofio ei glywed ef yn dyweyd, yn amser rhyw brofedigaeth ddychrynlyd, pan y tybiodd fod pob dyn yn troi yn ei erbyn, ac wedi cynllunio ei ddinystr, iddo fyned i lawr i lân y môr yn drwm.

ei galon, gan feddwl y buasai yn well iddo roi crefydd a phob peth i fyny, ond yr ymddyddanai â Duw yn gyntaf cyn penderfynu yn llwyr. Yno yr aeth ac ynguddiodd yn yr hesg sydd ar fin y tywod, a dechreuodd arni; yno y bu am agos i dair awr yn nghanol yr hesg, ac yn swm rhuadau anferthol y môr. "Ond" ebe fe, "yr oedd pob swm yn ddystaw ond swm Duw Hollalluog, yr hwn oedd yn llefaru tangnefedd wrthyf, ac yn rhoi cryfder yn fy mynydd, nes yr oeddwn yn teimlo fy hun cân gryfed âg Abraham. Yr oedd yr Arglwydd yn arllwys yr ysgrythyrau i fy meddwl, y rhai oedd yn ty nerthu fel nad oeddwn yn ofni dim. Clywais fel swm allanol yn dywedyd, nid sibrdw yn y meddwl, ond swa gwirioneddol yn y glust, y geiriau hyn, 'Eto tŷ Israel ni fynant wrando arnat ti; canys ni fynant wrando arnaf fi; oblegid talgryfion, a chaledgalon ydynt hwy, holl dŷ Israel. Wele, gwneuthum dy wyneb yn gryf yn erbyn eu hwynebau hwynt, a'th ddâl yn gryf yn erbyn eu talcenau hwynt. Gwneuthum dy dalcen fel adamant, yn galetach na'r gallestr; nac ofna hwynt, ac na ddychryna rhag eu hwynebau, er mai tŷ gwrthryfelgar ydynt.' A wyddoch chwi beth," ebe efe, "mi ddaethum i fyny o lân y môr y diwrnod hwnw, yn ddigon cryf o tan fy nheimpladau i droi yr holl blwyf wyneb yn waered." Ni a gofiwn byth, yr ydym yn meddwl, am ei agwedd wrth adrodd hyn; buasai cael *photograph* o hono y diwrnod hwnw yn ddigon o werth hanner coron i un dyn byw. Yr oedd yn edrych fel cawr, yn troi y lawffon yn ei law ddeheu, yn caud ei ddwrn chwith, ac yn estyn y goes fach yn y blaen fel pe buasai mewn teimlad, ac am hyny yn ei osod ei hun mewn agwedd barod i dreiglo y plwyf i'r eigion mawr. Beth bynag, y mae yn bosibl y dylem ddyweyd i'r Llywodraethwr mawr gymeryd moddion tuag at ddyfod â phethau i'w lle a'u hagwedd briodol, y tro hwn, heb ddirprwyo y gallu i'n gwron i dreiglo y gymydogaeith dros y dibyn i'r môr. Yr oedd hyn yn well, fel y gwelwch, canys cafodd ef y fendith o fod yn gryf ac yn ddiostf, a hwythau y fendith o gael eu gwella heb eu dinystrio. Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn hoff, o dan ei deimpladau mwyaf arteithiol, o gyrchu yn fynych i ryw fanau dirgel i weddio; ac y mae rhyw fendith byth yn dilyn y cyfryw arferiad. Yr oedd gan George dri o fanau penodol yn yr ardal i fyned i weddio, pan mewn tywydd garw iawn; yr oedd manau eraill hefyd, fe ddichon; ond yr oedd y rhai hyn fel *fixed points*, yn fanau sefydlog, heb fod yn ddarostyngedig i ddeddfau cyfnewidiol. I'r naill neu'r llall o'r lle-oedd hyn yr ymgyrchai yn ei wahanol brofedigaethau, ac y mae wedi eneinio y colofnau hyn â'i ddagrau lawer gwaith. Ond fe allai ein bod yn crwydro yn ormodol; y mae eisien dyfod yn nês, pe bae yn bosibl, at y pwnc, i edrych a allwn ddybenu rywbyrd, a dyfod i fyny o'r anialwch i ben y brynau o'r diwedd.

Pan "yn mwlech yr argyhoeddiad," fel yr arferai ddyweyd, yn gyfyng iawn arno un dydd, ychydig amser wedi profedigaeth y mochyn hwnw, meddyliodd am fyned i un o'r manau hyn i weddio, i edrych a fyddai dim modd cael goleu ar y mater mawr tragywyddol bellach. Penderfynodd y tro hwn fyned i fyny i'r mynydd, i gael ychydig o awyr hwnw, canys bu i lawr wrth y môr *wedi* profedigaeth y mochyn, ond ni chawsai hwyl yn y byd. "Yr oedd rhywbeth," meddai, "yn dyweyd yn fy meddwl, Wel, ar fynydd y croesholiwyd yr Arglwydd Iesu; fe allai ond i mi fyned i'r mynydd i weddio, y câf gwrdd âg ef yno." Pechodau yr ieuencyd, ie, *pechodau mawrion* ac aml yr oes, oedd yn pwyso arno yn drwm yn awr, ac

ymron llethu ei enaid i'r llawr. Hyd yn hyn, nid oedd yn deimladol o heddwach Duw, eithr "euogrwydd fel mynydda'r'n byd," oedd yn difa, fel tân ysol, ei sylwedd. Nid ydoedd wedi cael gwaredigaeth, drwy adnabyddiaeth o drefn yr efengyl, o'r hen duedd naturiol i geisio gwneyd iawn am bechod drwy rywbeth o'i eiddo ei hun. Yr ydoedd yn meddwl fod yn rhaid iddo roi boddlonrwydd am bechod drwy gyflawni ddwyraith rhagor o ddyledswyddau nag a gyflawnodd o bechodau. Bu wrth hyn dro hir, ac y mae yn ddigon tebyg fod rhywbeth felly yn ei feddwl pan yn myned i'r mynydd y tro hwn i weddio. Beth bynag, y mae yn ddigon amlwg nad ydoedd hyd yn hyn yn deall dim yn briodol am aberth Crist, a fydd yn ei waed ef, ond yn ceisio gwneyd rhyw gyflawnder, i'w osod i fyny fel defnydd ei gymeradwyaeth ger bron y Nefoedd. Y mae efe yn chwilio yn wirioneddol am heddwach, ond mewn gwrthddrychau amhrïodol, o herwydd y llên yr hon sydd eto heb ei difa yn llwyr oddiar y meddwl. Yn y teimladau cymysglyd hyn, wele efe yn ymafyd yn ei lawffon, ac yn dechreu ei daith i ben y mynydd. Nid yw yn gwneyd sylw o ddim nac o neb ar y ffordd, ond yn myned yn y fath frys fel pe buasai yn amcanu gweled Llundain cyn nos. Yr oedd yn ofynol fod cryn awydd i weddio, a syched am dawelwch a neillduolrwydd, cyn y buasai neb yn cymeryd taith i ben y mynydd hwnw, chwaethbach dyn bron wrth naill goes; oblegid yr oedd yn fynydd tra uchel, a'r llethr yn serth iawn i ddringo i fyny. Ond, er hyn i gyd, yr oedd digon o ysbryd gweddio yn ein harwr ar y tymmor hwn, er ei holl anfanteision mewn cysylltiad â'i goes, i ddringo i fyny y creigydd serth hyn. Rhwng y pentref y preswyliai â'r mynydd, yr oedd amryw o gaeau llethrog, ar hyd pa rai y dringai yn raddol, hyd nes y deuai at ddanredd y creigiau. Yr oedd yn brydnawn tawel, ychydig cyn nos, a natur oll yn canu o'i gwmpas, i.e., "holl goed y maes yn curo dwylaw," ac yntau yn y canol yn gruddfan yn drwmlythog o dan bwys ei bechodau, ac yn esgyn i'r mynydd i geisio ymbil â Duw y nefoedd am faddeuant a rhyddhad. Dacw ef yn dringo y cae glâs, yn ymddangos yn bur bendrwm, i.e., yn ymlyu ar anobaith tragrwyddol, a llawer ochenaid bruddaidd yn dianc allan o'r galon glwyfus. Tra yn synfyfyrïo fel hyn, yn wynebdrist a than orthrymder y gelyn, ac yn dringo y llethr yn frysïog tua'r mynydd neillduedig, wele, yn ddirybudd, rywbeth fel ergyd o lawddryll yn cael ei ollwng heibio ei glust, ac mor agos ato fel y tybiodd ei fod yn teimlo y tân yn golosgi ei farf. Neidiodd, yn y cynhyrfaid cyntaf, heb wybod dim i ba le; tarawodd ei law ar y foch losgedig, gan feddwl fod ei holl waed yn rhedeg allan; gyda hyny y mae yn rhyw banner llesmeirio, ac yn syrthio dibyn dobyn i lawr i'r llethr, gan geisio ymafyd yn y borfa, neu rywbeth arall y cai afael arno. Ar ychydig o wastad teg, îslaw, y mae yn ymattal rhag ymdreiglo, ac yno y gorphwysodd y corff am encyd, nes dychwelyd yr anfarwol eilwaith; oblegid ymddangosai pethau fel pe buasai yr ysbryd wedi cymeryd ei adenydd, ac ehedeg ymaith yn sŵn yr ergyd, fel aderyn brawychus, am noddfa yn rhywle tu hwnt i gyrhaedd yr adarwr. Bid a fyny, nid oes genym ni ddim i ddyweyd, ond ymddangosai yn hollol "fel pe na byddai ysbryd mwyach yndo." Bu yn gorwedd ar dduill y meirwon am dro hir. Ymhên ychydig, dyma arwyddion bywyd yn dychwelyd dra chefn, y rhai a ddechreusant ymddangos mewn gruddfan ac ochain. Torodd y chwys oer drosto, a chyda hyny y mae yn teimlo awydd bloeddio; a ehan faint ei ddychryn, bloeddiodd yn echrhydus, yn fwy tebyg i ddaer.

gwyllt yn bygylu na dim arall a wyddom ni am dano. Ymhen tipyn, y mae yn edrych o'i gwmpas yn wyllt a synedig, i edrych a welai ei elyn, yr hwn oedd wedi saethu at ei ben, ac wedi amcanu cymeryd ei fywyd ymaith. Eithr nid oedd yno neb dynol gerllaw. Wedi iddo edrych fel hyn o'i gwmpas, dyma fraw eilwaith yn ei gymeryd yn fwy nag erioed, canys yr oedd colofn o dân yn chwareu o flaen ei wyneb, ac yn nesu ato nês nês, fel na wyddai i ba le i fyned na pheth i'w wneyd. Safodd dan grynu, ac yn welwlas, eithr nesu ato yr oedd y golofn, fel y tybiodd ei fod yn cymeryd tân. Y pryd hyn y mae wedi colli holl deimladau y bywyd hwn; y mae ymron dyrysau, y mae yn syrthio ar ei wyneb gan grochfloeddio, "Uffern! uffern! uffern! O! dyma fi yn nghanol uffern! beth a wnaif? O Arglwydd, myn chwareu teg i grëadur tlawd; paid a gadael i'r cythraul fy nghael. O Dduw! cymer drugaredd arnaf, ac arbed yn helaeth!" Yr oedd ei lesau yn gryf y tro hwn, nes yr oedd yr holl gwm yn adsain; ond nid oedd neb o'r trigolion yn rhoi nemawr bwys ar y mwstwr, canys yr oedd erbyn hyn wedi myned yn beth lled gynefin, a'r rhan fwyaf yn meddwl mai effeithiau gwallgofrwydd ydoedd; neu beth bynag, rhyw anhwylder yn yr ymennydd, anadnabyddus iddynt hwy, ond y dylasai ei berthynasau agosaf, neu drigolion y plwyf, edrych ato, rhag ofu canlyniadau anhapus. Y mae yn ymddangos i George fethu cyrhaedd pen y mynydd y noson hon; cafodd lawn digon o waith ar y llethr wrth fyned tuag yno. Er hyn oll, y mae yn debyg na chafodd foddlonrwydd y tro yma fod yr Arglwydd yn ei wrando, oblegid yn "morth yr argyhoeddiad" yr ydym yn ei gael am gryn amser wedi hyn. Y mae yn debyg nad oedd ewyllys yr Arglwydd i ddadguddio ei hun iddo yn fuan; yn gymaint a'i fod wedi bod y fath bechadur mawr, fe allai fod yn anghenrheidiol iddo gael edifeirwch mawr, a phrofedigaethau mawrion er cynnyrchu hyny. Y mae yn rhaid cael offer cryfion i lorio cewri; nid gwiw cadwyno llew wrth gadwen wan; ac y mae yn debyg fod yn rhaid i'n harwr, fel Saul yr erlidiwr, gael ei daro i lawr â dwrn Hollalluog, a chael ei lusgo yn ddall yn y blaen am dro hir.

Wedi y weledigaeth ryfedd hon, yr ydym yn ei gael braidd yn fwy anobeithiol yn ei feddwl am iachawdwriaeth nag erioed; y mae yn digaloni, yn credu ei fod yn ormod o bechadur i gael maddeuant, fod yr Arglwydd wedi digio wrtho yn dragywydd o herwydd ei ryfgy a'i aml anwireddau gynt, ac mai cfer bellach oedd ymdrech, fod y cwbl drosodd, ac nad oedd dim i'w wneyd ond penderfynu ar golledigaeth am dragywyddoldeb. Och! yr oedd hyn yn ofnadwy hefyd. Y mae yn dân poeth yn y gydwylbod. Y mae yn annyoddefol! Mae yn teimlo anmhosibrwydd eistedd i lawr, neu yngyrchu at ei bechodau gynt, i dreulio ei anser allan yn y byd i aros y tân tragywyddol. Y mae eto yn ymysgwyl, yn troi odentu, ac yn ymholi o'r newydd, "Beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" Y mae pob peth yn ddystaw; nid oes swm i'w glywed; nid oes neb yn ateb; y mae unigolrwydd a phrudd-der fel yn teyrnasu yn hollol, a'r ymofynydd tlawd am gadwedigaeth yn cael ei adael iddo ei hun i fyw neu i farw goreu y gallai. Y mae yn methu gweddio; ei nerth sydd wedi darod, a'i obaith fel wedi gwanychu, nes y mae braidd yn dihoeni, ac eto heb anobeithio yn llwyr. Er fod ei feddwl yn rhy gymysglyd i fyned at orsedd gras yn bresennol, eto fe feddylodd am y capel, ac am noson y *society*, yr hyn a adgyfnerthodd ei feddwl ychydig; a gwnaeth benderfyniad er pob ~~part~~ i fyned tuag yno, i edrych a oedd rhyw gyfarwyddyd pellach i'w gael

gan yr hen gyfeillion ynghylch y mater dyrus hwn. Heb ymgynghori ychwaneg â chig a gwaed, dyma ef yn cymeryd calon, yn codi ac yn cychwyn, gan ddysgwyl cyfarwyddiadau o bwys, y rhai, fe allai, a fyddent yn help iddo ddyfod i oleuni dysglaer am drefn gras. Yr oedd efe yn myned ar neges tua'r capel; fe wyddai fod arno eisieu rhywbeth nad oedd i'w gael mewn dim daearol; ac i chwilio am y peth hwnw y mae yn myned i dŷ yr Arglwydd. Dyma yr unig ddyben. Y mae llawer yn myned heb un amcan yn eu golwg, ond yn unig mai felly yw cwrs y byd, a'u bod hwythau i ryw fesur am ddilyn yr arferiad. Eithr nid felly yr oedd Heycock ar hyn o bryd, beth bynag; yr unig nôd o flaen ei feddwl ef oedd cael rhyw gyfarwyddiadau er ei gynnorthwyo i ddyfod i afael cadwedigaeth dragwyddol. Yr ydym yn dychymygu ein bod yn ei weled yn myned i fyny at yr hen capel, â golwg lled bruddaidd yn ei wyneb, yn edrych tua'r llawr; canys nid allai godi ei olynol i fyny; ei het bron yn cuddio ei lygaid, ac eto ei holl agweddiad corfforol yn dangos ei fod mewn brys. Y mae y llawffon a'r goes fach yn chwareu yn ddiwyd, a chyda y fath gysondeb a deheurwydd, fel y mae yn anhawdd gweled un peiriant o'r cyfansoddiad mwyaf diweddar, yn gweithio yn well. Ond dyna, gadewch i ni fyned yn y blaen, a gadael yr holl bethau hyn, oblegid y mae George yn awr wedi myned i mewn i'r capel.

Wedi i frawd ddarllen pennod, canu, a gweddio, yn ol y drefn arferol, y mae Heycock yn gwylied cyfle i ddyweyd ei neges yn un o'r rhai cyntaf. Yr oedd yn ofynol i fod dipyn yn barod yn yr hen Ddyffryn, yr amser hwn yn enwedig; onidê, unwaith y dechreuai rhywun agor y gyfeillach, nid oedd un dyn byw a allai ddyweyd ymha le na pha bryd y byddai yn debyg o ddybenu. Yr oedd yn beth digon posibl, pe unwaith y dechreuai rhywun siarad, y byddai y nesaf yn barod wed'yn, ac felly yn y blaen, bron yn ddi-ddiwedd. Rhyw le gwresog oedd yr hen Ddyffryn, yn dân poeth bron o hyd, yn hen Fethodistiaid gwresog, ac yn cael eu codi yn fynych i'r nef-oedd fry mewn hwyliau hyfryd. Y maent yn parhâu byth, er fod y capel yn newydd, a llawer o bethau yn newydd, yn fwy tanlyd na'r rhan fwyaf o leoedd. A chofiwch, nid tân dyeithr ydyw, na tân gwneyd gan ddychymyg, eithr tân Duw; canys y mae hyny yn cael ei egluro nid yn unig mewn hwyll yn y cwrdd, ond hefyd ymhob rhinwedd. Y maent yn y blaen gyda chynnorthwyo y gweiniaid, ymgeleddu yr achos lle y mae yn wan, ynghyda phob casgliad at wahanol achosion crefydd.

Yr ydym wedi dyrysu peth yn sicr; ymha le yr ydym yn nawr? beth yn y byd sydd wedi ein harwain y ffordd hon? gobeithio nad ydym o dan arweiniad rhyw ysbyrd anghyfarwyld, yr hwn, wedi ein harwain i annybenod, a fydd mor anfoneddigaid a'n gadael yno. Ar yr un pryd nid oes raid i ni ofni hyny, canys dywedir fod teimlad o anrhydedd helaeth mewn ysbyrdion; oblegid pa bryd bynag y maent wedi cyrchu rhywun, a'i gipio ymaith ar wibdaith, i dafu rhyw guddfa i'r amlwg, neu rywbeth arall, eu bod yn dychwelyd âg et adref, a'i roi i lawr yn yr un man. Y mae cryn foneddigeiddrwydd yn hyn. Wel, dyma ni wedi dychwelyd eto; yr ydym yn hen Capel y Dyffryn drachefu, a dacw Heycock yn sefyll ar ganol y parth, a'i bwys ar ben ei sfon yn myned i ddyweyd rhywbeth. Y mae yn achub y blaen mor gynted ag i'r weddi ddarfod, i adrodd ei brofedigaethau, a cheisio cyfarwyddiadau newyddion gan y brodyr. Y mae y brawd Thomas Robert yn ei annog yn y blaen, i adrodd y pethau âg oedd yn gwyso ac ei

feddwl yn y dyddiau hyn. Y mae yntan yn gweiddi allan, "Y mae rhywbeth yn fy lladd, Thomas Robert. Y mae Duw yn pallu maddeu fy rhochodau, ac y mae rhywbeth yn dyweyd ynof mai yn uffern y byddaf byth. Y mae Duw yn dân ysol; gwelais ef pwy nos yma yn ffamiau dychrynllud yn bygwith fy llosgi yn fyw; y mae arnaf arswyd myned yn agos ato i ofvn dim ganddo mwyach. Y mae Duw yn fy lladd; y mae'r cythraul yn fy lladd; y mae pawb am fy lladd; beth gan hyny a wnâf?" Dyma deimlad anhawdd ei ddesgrifio; ac am fynydd y mae dystawrwydd fel y bedd yn teyrnasu yn llwyr; y mae yn gyfyng o'r ddeutu, a thywyllwch yn unig sydd daenedig ar wyneb y dyfnder. Ond, wele y brawd Thomas Robert yn cael anadl newydd, yn tafu ei fraich, ac yn gweiddi allan, "George, os yw Satan am dy ladd, a phawb eraill am dy ladd, nid yw Duw am dy ladd, canys y mae efe wedi derbyn yr aberth, am hyny gobeithia ynddo; y mae efe yn Dduw trugarog a graslawn, hwyrffrydig i ddiog ac aml o drugaredd." "Thomas," ebe'r *bruiser*, "yr y'ch chi yn camsynied; nid yw Duw yn drugarog wrthyf fi; y mae yn fy lladd, ac yn dyweyd yn fy mynwes y lladd efe fi yn oesoesoedd." "George, paid cablu y Goruchaf," ebe Thomas; "Satan sydd yn dyweyd fel yma yn dy galon; gwrthwyneba ef, ac efe a fy oddiwrthyt, ac yna fe ddaw Duw trugarog i siarad â thi." "Wel o'r goreu, Thomas Robert," medd George, "mi dreiaf unwaith eto, beth bynag." "Ië, ië, 'dos eilwaith at y Gŵr,'" ebe rhyw frawd arall. Gyda hyn y mae y brawd William Rees yn codi ar ei draed, ac wedi gwneyd rhai sylwadau rhagarweiniol tra phwrpasol, y mae yn dywedyd, "George, yr unig ffordd i ti ddyfod drwyddi, yw darllen y Bibl yn fanwl, a thrysori cymaint o hono ag sydd yn bosibl yn dy gof, fel y byddot bob amser yn arfog i gyfarfod â'r gelynyion ysbrydol; canys y mae digon yma i gyfarfod â phob rhwystrau ac anhawsderau, a'u gorchfygu hwynt oll." Dyma George yn neidio yn y blaen, fel pe buasai wedi cael bywyd newydd, ac yn dywedyd, "Wele, o'r goreu, William Rees, os gwua hyny y tro fel yr y'ch chwi yn dyweyd, mi ddysgaf gymaint o'r Bibl ag y gallwyf, ac mi ddechreuaf heno cyn myned i'r gwely." Wedi rhyw lawer o ymddyddanion o'r natur hyn, a phethau yn ymddangos fel pe byddent yn gofneuo ychydig, dybenwyd drwy weddi ac ymadawsant. Y mae George hefyd fel pe bae wedi ymgysuro ychydig; nid yw wrth ddychwelyd yn edrych yn hollol mor drymaidd; y mae yn codi ei ben yn uwch, ac nid yw ei het yn hollol mor isel ar ei ben; y mae fel pe bae yn meddwl ei tod bellach wedi cael gafael ar ben y ffordd. Hyd yn hyn, y mae yn eglur, meddwl yr ydoedd foddloni yr Arglwydd a'i heddychu trwy wneyd rhywbeth, ac wedi cael golwg ar beth i wneyd, y mae yn tawelu ychydig ac yn taro at hyny. Y mae yn cerdded gartref heno ar firwst; yn wir, y mae golwg brys arno; y mae yn tafu ei goes fel pe bae heb fod yn berchen arni, ac yn gwneuthur clem ddyeithriol. Mor gynted ag y mae yn cyrhaedd y tŷ, y mae yn ymalfyd yn y Bibl, ac yn dechreu gyda ei orchwyl newydd, gan feddwl yn sicr yn awr ei fod yn dechreu ar ben y llwybr, ac y deuai i ben yn fuan bellach â'r holl *business*.

Daeth i'w feddwl, nid ydym yn gwybod pa fodd, nag o ba le, y byddai yn rhaid iddo ddysgu deugain pennod yn berffaith, a'u hadrodd o flaen craig uchel oedd yn agos, heb gollu un sill o'r dechreu i'r diwedd. Yr oedd yn benderfynol yn awr yn ei feddwl, os gallai ddyfod i ben â hyny yn berffaith, y byddai yn sicr o gael trugaredd, ys dywedai William Rees. Y mae

yn parotôl ati o ddirif, ac yn cychwyn gyda y bennod gyntaf yn Genesis; ac yna un yma a'r llall acw, drwy y Bibl yma a thraw, nes dysgu y deugain pennod yn gyflawn. Byddai Sophi yn tyngu aml lŵ wrth ei weled yn colli amser fel hyn; ond ni waeth beth yn y byd, glynu wrthi yr oedd ein gwron; ac nid rhyfedd, pan ystyriom fod y mater yn ei olwg yn fater bywyd tragywyddol. Yr oedd y graig, o flaen pa un yr oedd yn myned i'w badrodd; yn glogwyn oedd yn hytrach yn uchel, ac yn bur fawreddus, o fewn o gwm-pas hanner milldir i'r lle. Yr oedd yn ymgrynhoi, ac fel yn gogwyddo ychydig i lawr, tua chyfeiriad y môr; fel y gallasech feddwl, yn naturiol ddigon, am ben dyn yn plygu ychydig i ymwrando ar ryw un ag oedd is-law iddo yn y cwm. Pa un a oedd y *bruiser* wedi meddwl am rywbeth felly, nis gwyddom, ond yn rhywfodd neu gilydd yr oedd wedi taro yn ei ben ef adrodd yr holl bennodau ger bron y clogwyn hwn; a chariodd ei benderfyniad allan i berffeithrwydd hefyd. Yr oedd yn ddigon i beri i hen sant wenu wrth ei weled yn myned i fyny, wedi dysgu y bennod gyntaf, i *exercisio*. Y mae yn debyg fod yn rhaid dyweyd pob un ar ol ei dysgu, ger bron y clogwyn; ac wedi'n ddyweyd y cwbl o'r rhestr ynghyd wrth orphen y gwaith. Dacw efe wedi dysgu y bennod gyntaf, yn croesi y caeau, ac yn myned yn hwylus tua chyfeiriad y graig benglogaidd. Y mae yn edrych yn fwy siriol nag y mae wedi bod er ys llawer dydd; gellid meddwl ei fod wedi dyfod i'r goleuni, a bod Haul cyfiawnder wedi codi arno; eithr nid felly y mae yn hollol, ond gobaith sydd yn gryf yn bresennol yn dysgwyl y daw dedwyddwch o'r weithred hon. Beth bynag, dacw ef bron gerllaw troed y mynydd, a dacw y graig fel yn gogwyddo ei chlust i ymwrando, gyda phob parodrwydd. Edrychwch, dacw Siôr yn codi ei ben, ac yn estyn ei wddf, a'r graig hithau yn foneddigaidd yn gostwng ei phen i ymwrando. Y mae Heycock yn tynu ei het oddiar ei ben, ac yn ei thafu i lawr wrth ei draed, yn gosod y llawffon yn sicr yn gyfochrog a'r goes fêr; ac wedi gosod ei berson fel hyn mewn trefn, ac ar dir diogel, y mae yn tafu ei law ddehau fel pe bae yn llongyfarch y creigydd mawreddog, ac yn dechreu adrodd llyfr Genesis yn eu clywedigaeth. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. A'r ddaear oedd afuniatd a gwag," ac felly yn y blaen. Yr oedd y creigydd yn cadarnhau yr hanesyddiaeth a'r athrawiaethau gogoneidus, drwy ailadrodd, gyda llais mil mwy nerthol, ac ad-sain y geiriau i eithafoedd y môr. Yn wir, yr oedd yr olwg yn bert! George yn siarad o flaen y creigydd am eu creadigaeth, a hwythau gyda nerth aruthrol yn ailadrodd y geiriau, gan gydsynio, a dywedyd Haleluia, nes oedd yr ad-sain bron dyrysu pobl y pentrefi oedd yn byw ar eu cyffiniau. Pan y daeth at y geiriau, "A'r môr, a'r hyn oll sydd ynddynt," dyna fel pe buasai ddeng mil o dafodau yn cydio yn y geiriau, ac yn eu haildyweyd uwchben y gweilgi ag oedd yn chwareu odditanodd. Dylasai y *bruiser* droi ei wyneb at y môr, dybygem ni, pan yn dyweyd hyny; ond ni wnaeth; sefyll yn syth yr ydoedd o flaen y graig o hyd, ac adrodd gyda y sobrwydd mwyaf, yn gymaint a bod bywyd tragywyddol, dybygai efe, yn ymddibynu ar hyny. Ond, yr oedd cymwynasgarwch y creigydd yn tafu bob gair i glustiau y môr, fel yr oeddynt yn gorfoleddu ynghyd. Wel, yn wirionedd anwyl, dyna adrodd da iawn, Heycock; dyua y cam agosaf at berffeithrwydd a welsom er ys llawer dydd; y mae agos bob sill yn berffaith. Y mae yntau yn cael ychydig o foddlonrwydd hefyd; y mae tristwch ei ysbryd yn llai, ac y mae yn dychwelyd fel un wedi gwau ychydig o gyfawnder; ac

os gellir myned yn y blaen, a gorphen y deugain pennod, fod yn debyg iawn y perffeithir yn hollol erbyn hyny.

Yn y dull hwn y mae yn myned yn y blaen, gan adrodd pennod ar ol pennod ger bron y graig, nes myned dros yr oll o honynt yn ddfwlch, a bithau yn cydsynio â'r gwirioneddau, ac yn gyru eu sain megys i eithaf-oedd byd. Ond, wedi myned drostynt oll yn y wedd hon, yr oedd yn rhaid ryw ddiwrnod ddechreu o'r newydd, a'u hadrodd hwynt bob un heb golli dim. Hwn oedd y dydd anghyffredin; hwn oedd dydd mawr yr ŵyl, pan y mae ein gwron yn sefyll i fyny i adrodd y cwbl ar unwaith. Dydd pwysig yw hwn; gwaith mawr iawn sydd o'i flaen heddyw; bydd y fantol yn troi yn hollol ar berffeithrwydd y cyflawniad presennol. Y mae y boreu yn gwawrio yn deg, ac y mae yntau yn gwneyd pob darpariaeth anghenrheidiol gogyfer â'r amgylchiadau pwysig. Wele efe yn cychwyn i'w daith, yn hytrach yn wanaidd, eto yn myned rhagddo; wele efe yn dringo yr allt yn araf, gan dafu golwg bruddaidd i fyny i wyneb y creigydd. Ymhen ychydig y mae wedi dyfod i'r ymyl, ac yn gwneyd y darpariadau anghenrheidiol i fyned drwy y gwaith. Wedi tynu ei het fel o'r blaen, a gosod ei berson yn daclus, y mae yn dechreu yn bwylllog ar y bennod gyntaf, ac yn eu hadrodd o un i un nes myned drostynt oll yn hynod o berffaith. Wedi y pethau hyn, teimlodd foddlonrwydd mawr i'w feddwl; cafodd ychydig o dawelwch, a thybiodd fod y gwaethaf wedi myned hebio. Mor ymlynedig yw dyn wrth ei weithredoedd ei hun! y mae yn ymaffyd ymhob peth i geisio gosod i fyny ryw gyfiawnder o'i eiddo ei hun, ac ni fyn ollwng ei afael nes yr argyhoeddir ef yn llwyr, ac y lleddir ef yn farw gan Ysbryd Duw. Y mae ein gwron, wedi iddo wneyd penyd o flaen y clogwyn, ac adrodd yr holl bennodau yn ddigoll, yn ceisio gorphwys yn hyny, ac yn meddwl dianc byth gan ei Farnwr o herwydd cyflawni y fath orchestwaith. Dros ychydig, er hyny, yr oedd y llonyddwch hwn yn debyg i adeg deg o flaen ystorm a dryc-hin aruthrol. Wedi i'r llafur caled fyned drosodd, ac adsain yr hen graig ddystewi, y mae yntau yn cael ei adael mewn unigolrwydd, a'r meddwl fel yn myned i ymborthi arno ei hun, nes y mae golygiadau newyddion yn cael eu cynnyrchu, ac elfenau terfysgelyd yn dechreu ymgrynhoi o newydd yn y fynwes. Y mae fel pe byddai gwmwl yn codi o ryw fôr cythryblus, ac yn ymledu dros holl awyrgylch ei enaid pruddaidd; a chyda hyny, dyma y nefoedd yn duo gan gymylau a gwynt, a phob arwyddion gwlaw mawr yn y man. Yn ngwyneb y golygfeydd hyn, y mae ei enaid bron yn llesmeirio. Yr oedd megys newynog a freuddwydio, ac wele ef yn bwyta; a phan ddeffry, gwag fydd ei enaid; ac megys sychedig a freuddwydio, ac wele ef yn yfed; a phan ddeffrô, wele ef yn ddiffygiol, a'i enaid yn chwennych diod; neu, fel yr ariadlawn, yn chwennychu llenwi ei fol â'r cibau, ond ni roddodd neb iddo. Yn lle heddwch, dyma chwerwder chwerw yn dychwelyd; y mae yr ystorm ddychrynlllyd yn cynnyddu; dy-chrynsfeydd marwolaeth sydd yn ailgydio yn ei enaid, ac yn ei ysgwyd uwch ben y llynclyn tragwyddol, pryd y clywai lais yn dywedyd, "A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew? a roddaf fi fy nghyntafanedig dros fy anwreidd, ffryth fy nghorff dros bechod fy enaid?" "Gwerthfawr yw pryniad yr enaid, a hyny a baid byth." "Oblegid ni chyfiawnhêir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf." Och! dyma bob gobaiith bod yn gadwedig wedi ei ddwyn yn llwyr oddiarno, ac *yntau megys yn ymgrogi ac yn cael ei ysgwyd uwchben y pwll diwaelod.*

O dan yr amgylchiadau hyn, penderfynodd gymeryd rhaff i fyny i'r coed a therfynu y mater yn y fel yna; ond daeth i'w feddwl bod yndafu i eigion y môr yn angeu mwy hapus, ac hefyd yn llai trafferthus; felly penderfynodd ar hyny. Gwnaeth ei hun yn barod, a chymerodd ei lawffon am y tro diweddaf, ac ymaith âg ef tua glân y môr i gael rhoi terfyn ar y cwestiwn pwysig a gofidus hwn, mewn gwely dyfrllyd. Yr ydoedd yn brydnawn, ac agos i bryd cwrdd yn yr hen Ddyffryn; ond yr oedd cwrdd, a phob peth arall, erbyn hyn, wedi diflannu yn llwyr allan o'i feddwl cymysglyd ef. Yn bruddaidd a phendwrwm y mae yn cerdded, fel pe buasai yn ddall ac yn fyddar, heb weled na chlywed neb na dim. Yn nghanol y dystawrwydd hyn, dyma lais yn dywedyd, "Hoi, George, pa le yr wyt ti yn myned? a wyt ti ddim yn dyfod i'r *society* heno?" "Dyn anwyl!" ebe yntau, "nid oeddwn yn cofio mwy na'r marw mai noson y *society* oedd hi; ond nis gwn a âf fi yno ai peidio, oblegid yr wyf yn meddwl ei bod hi *all over* gyda mi, nad oes dim gobaith y câf fi fy nghadw beth bynag a wnelwyf; ac am hyny, yr un peth yw i mi fyned i uffern heno â rhywbryd arall; yr oeddwn wedi penderfynu, fachgen, fyned i lawr i'r môr yna, a dybenu y cwbl yn y fan yna, canys y mae hi wedi myned yn rhy boeth i mi fyw yn hwy." "George anwyl!" ebe y cyfaill, "paid a meddwl am ryw llwybr fel yna; oblegid ni wna hyny ond y drwg yn waeth; y mae gobaith tra fyddom ar dir y byw, ond wedi yr elom at y meirw, dyma hi drosodd; ac os ydyw yn boeth arnat fel yr wyt yn dywedyd, cofia di, hi fydd yn fil poethach os i uffern yr âi di. Dere yn ol, a thyred gyda mi i'r *society*; pwy ŵyr na fydd Duw yno yn bendithio, ac y cei oleuni ar dy fater, ac y gweli ryw lè i ymguddio yn well na thônau y môr, ac na'r creigydd ychwaith; y daw Iesu Grist wedi ei groeshoelio i'r golwg, ac yna ti gei crphwysfa dawel i dy enaid." Wedi rhyw lawer o ymadroddion fel hyn, dyma George yn cyfnewid ei benderfyniad, ac yn lle myned i'r môr, yn troi ei gefn arno, ac yn dechreu gwneyd ei ffordd, gyda'r brawd crybwylledig, tua'r *society* i'r hen Ddyffryn. Yr oedd y cwrdd erbyn hyn wedi dechreu; yr oedd y gŵr o'r Hafod ynghylch darllen y drydedd Salm ar hugain. Wedi canu, a myned trwy bob peth yn y llwybr arferol, y mae George, wrth gwrw, yn dyfod i'r bwrdd, canys yr oedd llawer yn dra hysbys o'i dywydd garw, yn enwedig y blaenoriaid. Y mae George yn eistedd ar y fainc tua chanol y capel, yn pwyso ei ben ar ei lawffon, pan y dynesâ y brawd Thomas Robert tuag ato, gan ofyn yn fwynsidd, "Wel, George bach, pa fodd yr wyt ti yn myned yn y blaen y dyddiau hyn gyda'r grefydd yna?" Dyma efe yn neidio ar ei draed fel ergyd o ddryll, yn taro y sion ar y llawr, ac yn ei gosod fel arfer mewn sefyllfa briodol er cynnorthwyo y goes ser, yn tafu y fraich arall allan, ac yn gweiddi yn ddychrynllyd, "Thomas Robert, nid gwiw siarad rhagor; y mae hi *all over* am dragywyddoldeb arnaf fi; nid oes dim a fyno Duw â fi; y mae wedi fy rhoddi i fyny i gythreuliaid byth." Y mae'r teimlad yn aruthrol, fel y mae papyr ac inc yn cywilyddio, ac yn encilio i'r cysgod, gan wrthod cyunyng ei ddesgrifio. Eithr y mae yn rhaid myned yn y blaen goreu y gellir, serch hyny. Y mae ein hewythr Thomas yn anturio eto yn wylaidd, ac yn dywedyd, "George bach, ymddiried yn yr Arglwydd, a chais faddeuant o dy bechodau, yn enw ein Harglwydd Iesu; nid oes genym hanes ei fod wedi gwrthod neb, hyd yn nôd y pechaduriaid penaf fu yn y byd erioed, megys Manasse a Mair Magdalen, a'r holl greaduriaid annuwiol hyny." "Nid oes genyf fi ddim i'w ddwywedyd."

am danynt hwy, Thomas, ond gwn ei fod wedi fy ngwrthod i. Yr wyf wedi bod yn gweddio arno nos a dydd, yn y coed, ac ar lân y môr, ac ymhob man; ac yr wyf wedi dysgu deugain pennod gyfan, a'u hadrodd bob sill o flaen craig y Groeswen; eithr nid yw efe yn fy ateb, nac yn dywedyd dim wrthyf, er fod rhywbeth yn fy lladd o hyd. Y mae bron yn fy lladd yn awr, bydd wedi fy ngwpla cyn bo hir, a byddaf ymhlith cythreuliaid yn dragywydd." Beth bynag, nid oedd dim gan y cyfeillion i wneyd ond ceisio ei gyfeirio at Iesu Grist am fywyd, yr hyn a wnaethant yn ffyddlaw a difrifol iawn, ac annogwyd yr eglwys hefyd i gymeryd ei fater o dan eu hystyriaeth, a gweddio ar yr Arglwydd drosto; ac felly y terfynwyd y noson hono.

Aeth pawb adref, pob un i'w sffordd ei hun, ac felly wrth gwrs y gwnaeth ein Heycock. Yr oedd cae glâs ganddo i groesi o'r capel adref, ac yr oedd efe tua chanol hwn wrtho ei hun yn bur bendrwm, a phob peth yn ddystaw o'i gwmpas, pan yn sydyn y clywai rywbeth fel dyn yn rhedeg ar ei ol ac yn dyfod i'w ymyl. Safodd, a thrôdd ei wyneb yn ol, ond ni welai ddim. Safai mewn syndod, fel y gellwch feddwl; a chyda hynny dyma lais yn llefaru yn eglur o flaen ei wyneb, ac yn dywedyd, "Ha, ha, y cythraul fydd dy biau di!" Wel, wel, dyma hi wedi darfod; dyma enaid ein hen gyfaill yn llewygu; y mae ei galon yn awr yn rhwygo, ac anobaith am ennyd fel wedi cymeryd meddiant llwyr o'i galon. Fe syrth bellach ar y cleddyf; fe ladd ei hup yn awr, heb oedi mwy. I!st! edrychwch! beth fydd y canlyniad? Y mae yn ei drywanu ei hun? Nac ydyw, o drugaredd, y mae yn troi i'r ochr oreu. "Wele, y mae efe yn gweddio." Edrychwch, dacw ef i lawr yn sydyn; dacw'r llawffon wedi cwmpo wrth ei ochr, a'i het wedi syrthio; dacw hi tua dwylath o'i flaen, ac yntau ar ei liniau ac ar ei ddwyllaw hefyd, canys yr oedd wedi ymdafu ei hun ar ei liniau a'i ddwyllaw, a'i wyneb tua'r ddaear, yn bloeddio yn annaearol, nes oedd ei swm i'w glywed ymhell. Yr oedd yr holl gymydogeath mewn braw, tra yr oedd y *bruiser* yn gwaeddi allan yn groch, drosodd a throsodd drachefn, "O Arglwydd, myn chwareu teg i fy enaid tlawd! O! myn chwareu teg i fy enaid tlawd! Arglwydd, oni thrugarhei wrthyf heno, dyma fi wedi fy ngholli am byth!" Y mae grym ei freichiau yn darfod, y mae yn syrthio ar ei hŷd, ac yn ymdreiglo yn ol ac yn y blaen, gan waeddi yr un peth yn ddiarbed. O'r diwedd y mae yn clywed llais arall yn llefaru yn fwy peraidd, ac yn dywedyd mewn geiriau eglur, "Cymer gysur, ni chaiff y cythraul byth mo honot; cei fyw er gwaethaf holl gythreuliaid y pwll diwaelod." Gyda hyn, y mae yn codi ar ei draed ac yn dechreu bloeddio nerth ei geg, "Concwest, concwest! mi gaf fyw byth!" Yr ydoedd wedi colli ei sion a'i het wrth ymdreiglo ar hyd y cae, ond er hynny y mae yn dychwelyd adref yn gysurus, dan waeddi Concwest! nes yr oedd yr holl le yn adsain. "Dyma'r man," ebe fe, "y dechreuais gael hyder a gobaith yr efengyl gyntaf yn wirioneddol; ac er iddi fyned yn dywyll arnaf lawer gwaith wed'yn, nid aeth byth yr un fath dywyllwch ag yr oedd cyn hyny." Nid oes genym ni ddim i'w ddywedyd am yr holl weledigaethau, y dadguddiedigaethau, a'r llefau hyn; eithr gwyddom fod ein harwr yn benderfynol drwy ei oes eu bod oll yn sylweddol a gwirioneddol—mai nid rhyw ddychymygion, nac ychwaith deimladau y meddwl dan wahanol wasgfeuon, eithr llefau o uffern, ac o'r nefoedd yn wirioneddol. Beth bynag, y mae yn rhaid cyffesu fod rhywbeth allan ymhell o'r llwybr cyffredin mewn cysylltiad a'i dröedigaeth.

F'e'i caed ef fel asyn gwyllt, yn yfed gwynt; neu fel march froenuchel, yn gwaeddi "Ha, ha, yn sw'n y rhyfel," ac yn herio dynion a Duw hefyd. Nid oedd ganddo yr amcan lleiaf ynghylch crefydd, ac yr oedd wedi treulio blynyddoedd goreu bywyd mor ddisfoddwl ac mor ddideimlad ag oedd yn bosibl i grëadur o ddy'n wneyd. Canys pan y daeth ar ei feddwl ymuno â'r eglwys gyntaf, yr oedd yn methu dyfalu beth yr oeddynt yn ei wneuthur mewn lle o'r fath, na pha orchwyliaethau y buasai yn anghenrheidiol iddo ef fyned drwyddynt wrth gael ei dderbyn yn aelod eglwysig. Yr oedd yn hollol benderfynol y noswaith yr oedd yn myned i'r *society* mai y llwybr a arferid ganddynt i brofi a oedd gras mewn dyn ag oedd yn cynnyg ei hun yn aelod, oedd i'r ddau flaenor gymeryd eu ffyn, a churo yr edifeiriol o gylch y tŷ yn ddiarbed ac yn ddirugaredd; ac os goddefai efe hyny, y cai efe dderbyniad fel ymgeisydd gobeithiol. "Yr oeddwn wedi penderfynu yn fy meddwl," meddai, "i oddef yr orchwyliaeth hon, serch iddynt fy nghuro nes y byddwn yn ddu ac yn lās bob tanaid." Y mae y pethau hyn a'r cyffelyb yn dangos yn eglur mai rhyw ebol gwyllt ydoedd, heb erioed ei ddal a'i ddofi, a bod bob peth i'w wneyd er ei ffurfio i ryw gymaint o drefn a syberwyd.

Er na fu yn hollol mor dywyll byth am drefn iachawdwriaeth wedi y noson ddiweddaf y crybwyllasom ar y cae, er hyny yr oedd cryn lawer o dywyllwch yn aros am dro wed'yn. Y mae yn wir na fu byth wedi hyny mor anobeithiol am ei gyflwr a'i dynghed tragwyddol, canys adferwyd cysur iddo y pryd hwnw, yr hwn ni chollwyd yn llwyr byth wedi hyny o dan unrhyw amgylchiadau. Eto ni a welwn nad ydoedd efe yn deall yn agos berffaith yr ymadroddion cyfriniol ag sydd yn dal cysylltiad â'r grefydd Gristionogol. Oblegid wedi y pethau hyn y bu cryn siarad rhyngddo ef a'r hen frawd William Rees, mewn *society*; ac yr oeddynt yn methu deall eu gilydd i'r dim, yn gymaint a bod George yn rhy dueddol i gymeryd y cwbl yn yr olwg gnawdol a daearol, ac nid yr ysbrydol a'r nefol. Hen frawd go apostolaidd oedd William Rees, deallwch, a dyn o gryn fedr i siarad â dynion am bethau crefyddol. Yr oedd yn ddoethwr yn ei ddydd, ac yn cael ei ystyried yn oracl gan lawer ag oedd yn byw o'i gwmpas. Bid a fyno, cododd ein hewythr William ryw noson cyfarfod eglwysig, wedi y weledigaeth fawr ar y cae, a gofynodd i Heycock ddyweyd ychydig o'i hanes a'i helynt presennol. Yr oedd William Rees wedi ei osod ei hun mewn agwedd rasol a theilwng i'r swydd o arholi a gwrandaw, a thyma Heycock yn neidio i fyny ar ei draed gogyfer ag ef, ac yn gosod ei hunan mewn agwedd briodol i ateb unrhyw gwestiynau; felly, chwi a welwch, yr oeddynt yn sefyll wyneb yn wyneb. "Wel, George bach," ebe William, "pa fodd y mae arnat yn awr yn y dyddiau hyn? a wyt ti yn dechreu gwled trefn i dy achub, ac yn teimlo dy faich yn ysgafnhâu?" "Wel, y mae yn rhaid dyweyd y gwir," ebe George; "yr wyf yn meddwl fy mod wedi gwled ffordd iachawdwriaeth yn awr, i ryw fesur, oddiar noson y *society* o'r blaen; yr wyf fi yn meddwl i'r Bôd mawr amlygu ychydig o hono ei hun i mi y noson hono; tybiais fy mod wedi dianc am byth; ond y mae yn ofidus dyweyd nad yw hi mor oleu arnaf heno eto ag y dymunwn; yr wyf yn teimlo rhyw feichiau trymion ar fy meddyliau. Wn i yn y byd beth i wneyd yn iawn eto; a wyddoch chwi, fy ewythr William?" "Wel," ebe William, "ni wn i ddim beth sydd i ddyweyd yn iawn, fachgen; ond y mae cymaint a hyn i'w ddyweyd, nad oes dim nefoedd i gael ar y ddaear; i lawr

ac i'r lân yw hi, drwy y tew a'r teneu, trwy glod ac anghlod, hyd y diwedd. Yn awr, George, gwranddo; nid oes dim genyt i'w wneyd mwyach, ond cario dy bac ar dy gefn, a chofio nad oes unman i'w dasfu i lawr ond yn medd newydd Joseph o Arimathea." Dyma ein harwr yn edrych yn ngwyneb ein hewythr William, ac yn ymddangos fel wedi colli pob presenoldeb meddwl, ac eto yn methu dyweyd un gair. Yr oedd yn amlwg i bawb ar y pryd fod yr ymadroddion yn rhy ddyfnion i'w amgyffredion, er hyny meddyliwyd y deuai i'w cynnwys a'u gwerthfawrogi erbyn ystyried ychydig rhagllaw. Yr oedd efe hyd yn hyn, o herwydd ei anghyneffindra â brawddegau duwinyddol, o duedd i ddaearoli pob peth, ac nid eu hysbrydoli. Aeth adref y noson hono; eithr yr oedd ymadrodd William Rees o dan ei fyfyr-dodau yn gyson, ac eto yr oedd yn methu dyfod i'r goleu yn foddhäol. Byddai weithiau yn tynnu y geiriau oddiwrth eu gilydd, ac yn edrych arnynt bob yn un ac un, ac yna yn eu cysylltu hwynt drachefn yn frawddeg; eithr er pob ymdrech nid oedd y weledigaeth yn eglur. "Pâc!" meddai, "gwn o'r goreu beth yw pâc; *pâc* o rywbeth, nid gwahaniaeth beth. Wel, 'cario y pâc,' wedy'n, nid oes dim dirgelwch yn hyny, sef cario unrhyw beth fel pâc ar ei gefn, megys pâc o dê, fel gwŷr y *lea* yma, neu bâc *Scotsman*, neu unrhyw beth o'r fath." Yr oedd efe, serch hyny, yn methu deall beth oedd y pâc yr oedd yn rhaid iddo ef ei gario.

Bu yn meddwl unwaith am fyned â phâc o esgidiau i Gastellnedd; ond erbyn ystyried y frawddeg drwyddi oll, nid oedd hyny yn ateb i'r disgrifiad—y mae yn rhaid mai rhywbeth arall yw meddwl y frawddeg. Canys y mae y frawddeg yn dywedyd, "Y mae yn rhaid i ti gario dy bâc; ac y mae yn rhaid i ti hefyd beidio ei roi i lawr, nes ei dasfu i fedd newydd Joseph o Arimathea." Dechreuodd wedy'n astudio y rhan olaf o'r frawddeg, gan feddwl fod yr olaf weithiau yn taflu goleu ar y blaenaf. "Bedd newydd Joseph o Arimathea! Ymha le y mae hwn? Beth oedd y Joseph hwn o Arimathea?" Yr oedd yn methu dyfalu. Aeth at Thomas y gôf; y mae Thomas yn getyn o brydydd, ac wedi astudio llawer iawn ar dduwinyddiaeth hefyd. "Yn awr," meddai, "dyma y cwestiwn, Thomas; a elli di ddyweyd wrthyf fi pwy oedd Joseph o Arimathea? a pha le y mae ei fedd? A ydyw y Bibl yn son rhywbeth am hyny, fachgen?" Bu Thomas gryn dipyn cyn gallu galw ei gynneddfau ynghyd at y pwnc, oblegid y mae yn debygol ei fod mewn mysfyrdod dwys ar y pryd uwchben rhyw englyn. Beth bynag, wedi iddo ddyfod adref, gosododd ei hun fel arfer mewn siurf dysgawdwr, ac yna aeth yn y blaen i egluro, gan roddi y cwbl mewn trefn, a chyfeirio ein harwr at yr hanes yn y Testament Newydd. Mor gynted ag iddo gael gwybod ymha le yr oedd yr hanes, dyna ef i bant, ac yn ngafael â'r Testament; a chyn nemawr o amser yr oedd wedi trysori yr holl gwbl yn ei gof. Wedi meddwl trosodd a throsodd ynghylch "bedd newydd Joseph o Arimathea," y mae yn dyfod i'r penderfyniad fod y bedd hwn yn ymyl dinas Jerusalem; a chan ei fod yn ddaearyddwr da, y mae yn gweled fod y ddinas hono yn Asia, ac yn bresennol o dan lywodraeth y Twrc, a pha fodd, ar wyneb daear, y gallai efe gario pâc i'r fan hono o'r byd, heb ei roi i lawr unwaith nes dyfod at fedd Joseph o Arimathea! Y mae hi yn tywyllu yn lle goleuo. Y mae fel y fagddu. Y mae yn methu deall beth yw y pâc, na pha beth yw ei gario, na pha beth yw ei ddodi i lawr yn medd newydd Joseph o Arimathea. Anwyl da, y fath gymysgfa! Pa fodd *bynag*, yn y tywyllwch mawr hwn, boreu Sabbath sydd yn dyfod, a thyma

Sophi a George, ynghyda'r plant, yn taro i'r cwrdd. Ar y ffordd wrth fyned, tra yr oedd George mewn myfyrdod dwys ynghylch y pác, y mae ffræ echrydus yn cymeryd lle rhwng Sophi a'r plant; yr oeddynt yn fychain, a phob un am gael ei gario, y mae yn ddigon tebyg. Ond wrth ei weled ef yn bur ddisylw o'i thrafferth, dyma ei hysbryd i fyny, ac yn cydio yn un o'r plant a'i dafu am draws ei gefn, gan regu, a dywedyd, "Cymer hwna y llercyn powdr, a charia ef, yn lle bod y cwbl ar fy nghefn i." Goreu peth oedd iddo ef ufuddhâu, a hyny cyn bod yn hir hefyd, onidê buasai yn anhawdd gwybod y canlyniad. Rhwng fod ei goes yn hytrach yn anfaenteis-iol at orchwyl felly, oblegid yr oedd yn rhaid iddo wrth y sſon, ac felly nad oedd ganddo ond un law, a'r plentyn yn lled drwm, canys yr oedd yn ddwy neu dair blwydd oed, yr oedd agwedd a ffurf ysmala i'w weled arno. Ond ymlaen yr aeth yn ddidig, heb rwnach na dywedyd gair yn ynyd, y pryd ysyrthiodd rhywbeth yn sydyn ar ei feddwl mai dynaly pác yr oedd William Rees wedi dyweyd y buasai yn rhaid iddo ei gario bellach, a bod yn debyg iawn mai tynghed felly fyddai ei ran o hyn allan. "Mor wired á'r efengyl," meddai, "dyma y pác." Ond yn fuan, dyma y rhan olaf o'r frawddeg yn dyfod i'r golwg, ac yn dinystrio yr holl adeilad. "Ac nid oes le i'w dafu i lawr ond i fedd newydd Joseph o Arimathea." "Pw, pw! nid hwn ydyw eto," ebe efe; "oblegid pa ddynd dan y nefoedd a allai gario y plentyn hwn heb ei roi i lawr unwaith, i rywle yn nghymydoggaeth Jerusalem? Y mae yn rhaid i mi roi hwn i lawr yn y capel; ond am béc ein hewythr William, nid yw hwnw i'w roi i lawr o gwbl, nac yn un man, nes cyrhaedd bedd newydd Joseph o Arimathea." Yr oedd y tywyllwch hwn yn rhy dew i fyned trwyddo; er ymdrech ddydd Sul drwy y dydd, nid oedd ond tywyllwch ar wyneb y dyfnder, heb obaith am ddim i'w ymlid ymaith.

Yn blygeiniol iawn ddydd Llun, pan yn nghanol yr holl ddyrswch hwn ynghylch pác William Rees, y mae yn taro idd ei feddwl yn sydyn am yr hen frawd Thomas Robert, yr hwn oedd yn cael ei ystyried yn enwog yn ei ddydd am ddattod cylymau, a dadrys cwestiynau dyrus, gan eu hagor, eu dadgymalu, a'u dangos yn eglur yn eu gwahanol gysylltiadau, ac hefyd ar wahân oddiwrth eu gilydd. Heb aros fynydd, wele ein harwr yn lled wyllt ei edrychiad yn ymaflyd yn ei lawffon, ac yn taro i bant fel pe buasai yn wir yn benderfynol o gyrhaedd Palestina cyn dyfod adref. Yr oedd coler ei grys yn agored, a'i siaced fach heb ei botymu, a llawer o bethau eraill yn lled anuyben, sydd yn rhy faith ac yn afreidiol hefyd eu henwi yn bresennol. Yr oedd George, fel yr ydych yn deall erbyn hyn, yn ddynd cryn eithafol ymhob peth, felly yn ei wisgiadau hefyd; yr oedd ymhell o fod yn gyfrodedd mewn dim. Nid oedd byth yn gwneyd ei ymddangosiad fel dyn cyffredin; naill ai ymddangosai fel cardotyn yn garpiau i gyd, neu fel gŵr boneddig mewn dillad gwychion, ac yn bur foneddigaidd ei darawiad. Pan y byddai wedi ymdrwsio yn ei ddillad goreu, yr oedd golwg gyfrifol iawn arno, yn gymaint a'i fod yn hytrach yn dew, gwyneb go fawr, a llygad treiddgar dros ben. Pan y byddai yn cerdded mewn lle dyeithr, nid oedd neb brsidd nad oedd yn talu ymostyngiad iddo, ac yn cyffwrdd á'u hetiau yn y fan. Bob amser ar ol taclu yn ei ddillad goreu, a myned dros derfynau ei blwyf ei hun, y cyferchid ef, megys yn Llandeilo fel yr adroddasom, yn "Mr. Heycock." Eithr mor gynted ag y dychwelai i'w blwyf genedigol, dyma yr hen iaith yn dechreu yn y fynydd. "George, shwt yr wyt ti heddyw." Nid ydym yn rhyfeddu un tipyn am hyn, deallwch; adrodd y

ffaith yn unig yr ydym; canys pe gwelsech ef yn ei ddillad bob dydd ar hyd heolydd y Taibach, nis gallech byth feddwl ei fod yn perthyn i genedl y Cymry, ond ei fod yn perthyn i ryw lwyth Arabaidd, wedi ei fagu yn nghanol gwylltflod ac ymlusgaid mewn anialwch diffaith. Beth bynag, rhyw ddydd fel hyn oedd ein harwr; Lord Chesterfield heddyw, a Dic Aberdaron yfory. Ond, dyn anwyl, i ba le yr aethom yn awr? y mae yn ddigon o waith am byth os awn i'w ddilyn drwy yr holl anialwch hyn. Wedi y cwbl, y mae rhywbeth hefyd yn y mater hwn ag sydd yn lled anghyfrifol; anghyfrifol i ni, beth bynag; barned pawb drosto ei hun. Ymha beth yr ydych yn gweled dirgelwch? Wel, gweled y fath *dandy* heddyw, a'r fath yslfryn yfory yn yr un person. Yr ydym wedi meddwl lawer gwaith pe buasid yn cymeryd *photograph* o George Heycock bob dydd ac o George Heycock ar ddydd Sul, neu George Heycock gartref a George Heycock oddicartref, a'u gosod wrth bwys eu gilydd, y byddai gwerthiant annhraethol arnynt yn y gwledydd hyn. Ond dyna, y mae yn rhaid i ni ymattal, rhag ofn i ni fyned i ysgafnder; rhaid cadw golwg ar y pwnc o hyd; y peth a'n harweiniodd yn y ffordd hon oedd gweled George yn cychwyn tua thŷ Thomas Robert ar ffrwst, bron yn hanner noeth, ac o ran ei ymddangosiad yn ymylu gorphwylldra.

Yr oedd Thomas Robert yn ddydd rhagorol iawn yn ei grefydd, eithr gyda golwg ar wisgiadau, nid oedd yn rhyw ragori yn anfesurrol ar ein harwr o gwmpas cartref; gallasai y ddau ysgwyd dwylaw mewn tangnefedd perffaith ar y tir hwn. Hen lanc oedd ein hewythr Thomas, ac eto yr oedd rhywbeth ynddo oedd yn fwy syn na hen lanciau yn gyffredin. Ond dacw George yn myned i'r unig fan y gallasai obeithio am eglurhâd ar y pwnc ag oedd er ys diwrnodau bellach yn poenydio ei feddwl. Yr oedd 'cario y pác,' a'i dafu i fedd newydd Joseph o Arimathea, yn rhywbeth rhy ddwfn i'w feddwl anysbyrdoledig ef, gan hyn y mae yn bryderus iawn ynghylch cael rhywun i'w gyfarwyddo. Yr ydym yn awr fel pe baem yn gweled y ddau yn cyfarfod. Dacw George yn sefyll o flaen Thomas fel rhyw grëadur gwyllt a hyll, fel pe buasai wedi dianc allan o'r anialwch mawr erchyll, lle yr oedd seirph ac ysgorpionau, ynghyda phob gwylltflod eraill. Dacw Thomas Robert yntau yn sefyll o'i flaen, yn edrych mor ddiniwed a syml, yn plygu yn ei arai, yn gwneuthur ei hun yn llai o'r ddau nag y bwriadwyd ef gan ragluniaeth; ac y mae ei holl agweddiad fel pe bae yn ei wneuthur ei hun yn barod i encilio i'r cysgod, o wydd yr holl bethau a welir. Y mae Heycock yn awr yn gosod y llawffion mewn lle diogel er cynnorthwyo y goes fach, ac yn dechreu adrodd ei gŵyn a'i helynt o flaen ein hewythr Thomas. "Yn awr, Thomas Robert," meddai, "dyma fi wedi do'd yma heddyw, gan obeithio y byddwch yn alluog i wneyd ychydig o help i mi, oblegid yr wyf mewn dyryswech mawr iawn er ys tro; ac yr wyf yn methu mewn man yn y byd ddyfod i'r goleu ar y mater; a mi ddaethum atoch chwi gan feddwl y gallech estyn ychydig o gymhorth i mi." "George bach, beth yw y mater yn awr?" ebe Thomas. "Wel," ebe yntau, "y peth a ddywedodd William Rees pwy nos yma yn y *society* yn y Dyffryn. Dywedodd wrthyf y noson hono fod yn rhaid i mi gario y pác bellach, ac nad oedd un man i'w roddi i lawr hyd nes cyrhaedd bedd newydd Joseph o Arimathea; mai dyna yr unig fan y gellid ei dafu i lawr. Yr wyf wedi bod er ys diwrnodau yn methu deall beth yw y pác hwnw; ond wrth fyned i'r cwrdd foreu Sabbath, aeth Sophi i natur ddrwg at y plant, ac ataf finnau

hefyd am hyny, ac ymaffodd yn yr un henaf, a thaffodd ef ar fy nghefn mor sybyrthol yn ei phang, gan regu, a dywedyd, "Dyna, caria hwna y llereyn pwdr." Mi feddyliais ar y pryd mai dyna oedd y pác, ac y buasai ya rhaid i mi gario y plentyn yn ol ac yn y blaen i'r cwrdd; ond gwelais yn fuan nad hyny ydoedd, canys yr oedd y meddwl am fyned â'r plentyn ar fy nghefn, nid yn unig i'r cwrdd, ond i rywle i gymydogeath Jerusalem, heb ei roi i lawr unwaith nes ei dafu i fedd newydd Joseph o Arimathea, yn betk nad allasai un cnawd byth ei wneyd, Thomas." Y mae ein hewythr Thomas bron yn llesmeirio; braidd y mae yn gallu sefyll yn gymhwys; eithr ymhen ychydig y mae yn cael adnewyddiad nerth, ac yn galw holl ymadferthoedd ei enaid i weithrediad o'r newydd, yn cymeryd pwyll, ac yn lledu ei goesau, fel pe buasai am gymeryd mwy o afael ar y blaned yr oedd yn sefyll arni, ac ymsefydlu ei hun yn fwy cadarn nag erioed ar ei harwyneb. Yna mae yn gosod ei law ddeheu ar ei ochr, yn edrych i fyny yn daer i wyneb ein harwr, eithr am fynydd yn troi ei olygon draw oddiwrtho wed'yn, ac yn pesychu deirgwaith, cyn dywedyd un gair. Ar ol y pethau hyn, ac wedi taclu ei hun yn y ffordd oreu y medrai, y mae yn dechreu esbonio, dattod y cylymau dyrus, ysbrydoli y brawddegau, a gosod y cwbl mewn trefn, gyda medrusrwydd a deheurwydd annhraethadwy. "Nid plentyn ar dy gefn naturiol, nac un baich arall," meddai, "yw y pác yr oedd William Rees yn son wrthyt, eithr pwys pechod ar y meddwl, a gwasgfeun mawrion ar yr enaid o herwydd pechu yn erbyn Duw y Nefoedd. Dyma y pác, George bach, ag sydd yn rhaid i ti a minnau ei gario, ac fe fydd mor drwm nes peri i'n heneidiau lewygu aml ddiwrnod, a gwaeddi allan gyda'r Apostol, 'Ys truan o ddyn ydyw, pwy a'm gwared oddiwrth gorff y farwolaeth hon.' Dyma bác, George bach, na chei ei wared byth ond trwy ei 'dafu i fedd newydd Joseph o Arimathea,' ys dywed William Rees." "Wel, ie," ebe ein harwr, "ond pa fodd y gallaf fi fyned yr holl ffordd yna i'w dafu i lawr, Thomas Robert?" "Gwrando, George bach, arnaf yn dyweyd wrthyt," meddai Thomas; "y mae yn rhaid i ti geisio deall ystyr ysbrydol pethau, ac nid cymeryd pob peth yn yr ystyr naturiol ac allanol; canys y mae dwy ystyr i'r rhan fwyaf o bethau, yn enwedig pethau y Bibl. 'Yn ysbrydol y bernir hwynt,' ebe yr apostol Paul, ac felly yn ysbrydol rhaid i ni feddwl am 'fedd newydd Joseph o Arimathea,' ynghyda thafu y pác i mewn yno. Y meddwl yw hyn; ti weli fod pechod yn faich trwm i'r edifeiriol, eithr baich ydyw y bydd yn rhaid iddo ei gario bellach; ond pan y ceir golwg ffydd ar Grist wedi marw dros bechaduriaid colledig, ei weled yn disgyn i 'fedd newydd Joseph o Arimathea,' ac yn codi i fyny y trydydd dydd, yn esgyn i'r uchelder, ac yn byw bob amser i eiriol dros y troseddwy, y pryd hyny y mae y 'pác,' sef pechod, yn syrthio i lawr, a theimlir esmwythâd a seibiant yn y meddwl gorthrymedig." Gyda hyn, y mae ein gwron yn gweled yr ystyr ysbrydol, y mae y goleu yn tywynu, y mae fel dyn wedi cael bywyd newydd, ac fel yn anghywybodol yn gwaeddi allan, "Eureka, I have found it!" Y mae yn debygol mai yr amser hwn y daeth i'r goleu am ei achos tragwyddol, ac i ddeall pethau yn fwy tebyg i ddynion crefyddol eraill; oblegid wedi hyn yr ydym yn ei gael yn dechreu trafaelu yn fwy llyfn, fel dyn yn ei "ddillad, ac yn ei iawn bwyll." Y mae wedi dyfod i ddeall trefn iachawdwriaeth; y mae yn obeithiol am fywyd tragwyddol, ac yn arfer pob moddion o ras gyda diwydrwydd a symrwydd. Y mae yn darllen y Bibl, ac yn ei ddysgu o'r bron, fel y daeth yn fuan

yn un o'r haneswyr manylaf yn hanesyddiaeth y Bibl o fewn yr Ysgol Sabbothol. Yr oedd ei fanlrywydd yn hyn drwy ei oes wed'yn, bron yn syndod, ac fe allai y daw hynny i ryw fesur o dan ein sylw yn ein herthygl nesaf. Eithr rhag rhoi gormod o faich ar eich amynedd ar unwaith, ni a ddybenwn y drydedd lith yn y fan hon.

GWYB IEUAINC CYMREIG YN LLOEGR.

*Dyledswydd Gwŷr Ieuainc Cymreig Lloegr i ymdrechu cyrhaedd sefyllfâ-
oedd o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb; a'r moddion tebycaf
i lwyddo yn hynny.**

Y MAE pawb sydd wedi sylwi yn fanwl ar nodweddion yr oes, wedi sylwi hefyd, o bosibl, ar y ffaith mai amser anhawdd—bron anhosibl—bod yn enwog ynddo yw yr amser presennol; ac un rheswm mawr am hyn yw, fod cynifer yn ymgystadlu am yr un anrhydedd, a bod y safon, o ganlyniad, yn cael ei dyrchafu i gyfateb i gyrhaeddiadau yr ymgeiswyr penaf. Pan fo y safon yn uchel iawn, nid oes ond yr ysbrydion gwir wrhydrus yn meddu ar galon i ymestyn ati. Os bydd gronyn o synwyr mewn bardd, y mae yn ymosod yn wylaidd iawn ar waith a gyflawnwyd mor odidog gan Homer, Shakespere, Dante, a Milton; anhawdd iawn, meddir, oedd i nemawr ddyn bregethu yn dderbiniol, ar yr un diwrnod, ac yn yr un capel, âg Elias neu Williams o'r Wern; ac y mae y traethodwr, druan, yn teimlo mai yn ofer y ceisia ef ragori yn ei waith pan y mae y safon wedi ei dyrchafu i gynnwys y fath enwau â Hallam, Macaulay, a Froude. Felly y mae ymhob cylch mewn bywyd; porth cyfyng yw porth gwir fawredd, a rhagoriaeth parhâus. Y mae yr holl wersyll yn un mewn awydd am y grawnwin, y pomgranadau, a'r ffigys y mae y wlad dda yn eu dwyn; ond y mae y nifer fwyaf, o lawer, yn rhy wangalon i ddywedyd, "Awn a meddiannwn y wlad," pan ddeallont fod dinasoedd caerog, a meibion Anac, rhyngddynt â hi.

Nid yw cymeriad cenedl ond cymeriad y personau unigol; ac y mae yr un rhwystrau ar ffordd rhagoriaeth cenedlaethol ag sydd ar ffordd rhagoriaeth personol. Fel y mae y cawr wyth troedfedd yn rhwystr anorfod ar ffordd y gwŷr chwe' troedfedd i gael ei ystyried yn fawr—fel y mae uchder yr Wyddia yn peri i aml synydd dyrchafedig yn Sir Gaernarfon ymddangos yn ailraddol; felly y mae cenedl fawr a chref mewn masnach a deall, yn achosi fod y genedl fechan, neu ganolig, sydd yn ei hymyl, yn cael ei cholli braidd yn ei chysgodion hi. Cenedl fawr felly—cenedl ag sydd er-

* Y traethawd buddugol yn Nghyfarfod Gwyl Dewi (1859), Manchester.

byn heddyw ymhlith cenedloedd crêd, yr hyn yw y Wyddfa ymhlith bryn-iau Arfon—yw y Saeson; ac yr ydym ni, y Cymry, yn cael ein colli megys yn ei chysgodion; a phan ystyriom fod dylanwad y genedl ryfeddol hon yn cael ei deimlo gan bob cenedl wareiddiedig,—fod yr Albanwr penderfynol, a'r Gwyddel brwdfrydig, wedi eu darostwng ganddi—fod ei thrys-orau yn cael eu cludo o bell, a'i chyfoeth o eithaf y ddaear—a bod ei llongau yn cael eu hwylio ar bob môr, a'i marsiandwyr yn masnachu bron yn holl borthladdoedd crêadigaeth,—nid ydym yn rhyfeddu fod cenedl fechan fel yr eiddom ni yn methu ymddyrchafu i sylw mawr yn ei hymyl.

Yr un pryd, nid ydym heb feddwl fod ein cenedl wedi cael rhyw gymaint o gam, a'n bod, mewn gwirionedd, wedi ennill cryn lawer o anrhydedd na chyflwynir i ni gan ein cymydogion, naill ai oddiar eu hanwybodaeth neu eu hanonestrydd. Nid oes eisieu llygad craff iawn i ganfod y duedd hōno sydd yn y Sais a'i genedl i briodoli pob peth mawr yn yr ynysydd Prydeinig iddynt hwy eu hunain. Yr Albanwr, y Gwyddel, a'r Cymro, druain ddynion, nid ydynt ddim! Sonied y Cymro am ei henafiaid enwog—am yr hen feirdd o Aneurin i waered, ac fe'i gwawdir ef gan y "*Times*;" oblegid, deallwch, nid oes gan y Sais y cyfryw wroniaid i ymfrostio ynddynt. Cadwed yr Albanwr wyl er cof am ei enwog gydwladwr Burns, ac y mae y Sais, drwy y "*Times*" yn gofyn, Ai yr Ysgotyn hwn yw yr unig fardd teilwng o goffadwriaeth? a cheisia ddangos mai drwy y Sais yn unig y mae yn bosibl i'r brawd gogleddol gyrhaedd enwogrwydd. Pell yw yr ysbryd Phariseaidd hwn o fod yn deg. O galon bur yn ehelaeth y cydnabyddwn ni fawredd hil Hengist; ond yr ydym yn teimlo weithiau, pan yn darllen eu hunanfoliant, fod y Cymro, a'r Gwyddel, a'r Albanwr, wedi bod yn gymaint cymhorth iddynt hwy ag a fuont hwy i'r cenedloedd hyny. Ac y mae yr hanesydd diragfarn, Syr James Macintosh, yn cydnabod hyn am Gymru yn benodol.

"Y mae yn sylw cyffredin," ebe ysgrifenydd yn yr '*Eclectic Review*,' er ys blynyddoedd, "na chynnyrchodd Cymru un person o enwogrwydd yn rhestrau blaenaf llênoriaeth, gwyddoniaeth, na chelfyddyd. Dywedir eu bod, felly, yn eithriad i dair rhan arall y deyrnas. Cynnyrchodd Lloegr Shakspeare, Hooker, Bacon, Milton, Hobbes, Butler, Newton, Locke, a Paley; cynnyrchodd yr Alban Maclaurin, Adam Smith, Stewart, Brown, Burns, Campbell, Scott, Jeffrey, a Chalmers; a'r Iwerddon a gynnyrchodd Spencer, Boyle, Burke, Moore, Curran, a Grattan; tra y mae Cymru yn ddisylw yn y llwybrau a hynodir gan yr enwau blaenorol." Hawdd fyddai ateb hynyna drwy fanlyu ar yr anfanteision oedd yn ein gwlad—ac sydd eto i fesur—i ddyrchafiad; eithr y mae y tir yna yn dra chynefin i ddarllenwyr yn gyffredin. Ni a drown ein sylw, gan hyny, at y gofyniad, Ai nid yw Cymru, er yr holl anfanteision, wedi cynnyrchu enwogion?

Er ys pedair blynedd yn ol—sef dydd Gwyl Dewi, 1855—traddodwyd yn New York, a chan Gymro o'r enw Alexander Jones, Ysw., meddyg, ddarlith ar "Gymry America yn y flwyddyn 1776," sef blwyddyn annibyniaeth America. Yn y ddarlith hon dangosir fod dau ar bymtheg o danysgrifwyr y "Declaration of Independence" yn Gymry; fod pump os nad saith o lywyddion America yn Gymry; fod y Prif-ynad Marshall yn Gymro; fod y prif dduwinydd Jonathan Edwards, y prif areithydd Daniel Webster, a'r prif-ynad presennol Roger B. Taney yn Gymry; fod Jefferson, yr hwn a gynnygiodd y penderfyniad o blaid annibyniaeth, awdwyr y

"Declaration," a chadeirydd y pwyllgor a'i ffurfiodd, sef Harrison, yn Gymry; fod y Governor Morris, yr hwn a luniodd yr "American Constitution," gystal a'i brif ddeonglydd Marshall yn Gymry; fod pedwar ar ddeg, o leiaf, o'r *Generals*, saith o'r *Colonels*, pump o'r Cadbeniaid, heblaw amryw o'r swyddogion eraill, ag a fuont o wasauaeth yn y rhyfel rhwng America a Lloegr, yn Gymry; fod Dr. Thomas P. Jones, golygydd Dyddiadur y "Franklin Institute"—Oliver Evans, darganfyddwr yr "High Pressure Steam Engine"—y lliwiedyddion, Powell a Thomas Bucanan Reid—y cerfiedydd, Thomas D. Jones—yr hanesydd, Samuel Jenkins—a'r meddyg, Alexander Jones,—oll yn Gymry.

Y mae Cymry hefyd wedi enwgi eu hunain yn Ffrainc, oblegid Cymry yw y ddau Edwards—un o'r rhai a saif yn uchel fel bywdraethwr, a'r llall fel ieithwr.

Y mae hanes Lloegr, drachefn, yn frith o enwau Cymry enwog. Onid disgynyddion Owen Tudor o Benmon yn ynys Môn, oedd Harri VII., Harri VIII., Edward VI., Mari, ac Elizabeth? y rhai a eisteddasant ar orsedd Prydain o'r fl. 1485 hyd y fl. 1558. Ac fel y sylwa Mr. Stephens, nid yw yn debyg y llwyddasai Harri VII. ar faes Bosworth, oni buasai am gymhorth Syr Rhys Thomas, Cymro o Sir Gaerfyrddin. Y Cymro Harri yr Wythfed a dorodd y cwllwm oedd yn ein dal yn gaeth i Rufain; a'r Cymry Edward y chweched, ac Elizabeth, a fuont y prif offerynau i sefydlu Protestaniaeth yn y wlad hon. Cymro o waed coch cyfan oedd Cromwell—Oliver Cromwell alias Williams o Sir Forganwg,—yr hwn y rhaid i bawb ei gydnabod yn fawr anferthol, nad pa un ai cristion ai diaf y dywedir ei fod. Ac fel yr ydym yn dyddio sefydliad ein Protestaniaeth yn oes y Tudoriaid, felly yr ydym yn dyddio sefydliad ein rhyddid gwladol a chrefyddol presennol yn oes y Cymro Cromwell; ymysg cynorthwyyr yr hwn yr oedd y Milwriad Jones, y Cadfridog Harrison, a Hugh Peters, ill tri yn Gymry. Henry o Huntingdon, un o oreuon yr haneswyr inynachol; Asser o Fynyw, sef Esgob Sherbourne, a chyfaill mynwesol y Brenin Alfred; Dr. Morris, caplan Archesgob Sancerre; Dr. David Dolben, Archesgob Caerefrog; Dr. Lloyd, Esgob Llanelwy; yr Archesgob Williams; yr esgobion Humphreys, Gambold, a Griffith; a'r duwinyddion John Owen a Matthew Henry,—oeddynt oll yn Gymry. Yn amser Iago II., Cymro, Syr George Jefferies, oedd yn ganghellydd; Cymro, Syr Leoline Jenkins, oedd yn brifysgrifenydd; Cymro, Syr Thomas Jones, oedd yn brifynad; Cymro, Syr John Trevor, oedd y *Master of the Rolls*; Cymro, Syr William Williams, oedd llywydd y Tŷ Cyffredin; ac yr oedd Cymro arall, Syr John Powell, yn un o'r barnwyr. Syr Isaac Newton a brofir gan Mr. Stephens i fod yn Gymro; a dywed mai Cymro oedd y diweddar Dug Wellington, o ochr ei fam. Cymry oedd y llyngeswyr Thomas, a Matthews, a Price; a Chymry oedd y Cadfridogion Picton a Nott. Cymro oedd Syr William Jones, dysgeidiaeth yr hwn oedd ddiarebol; Cymry oedd Dr. Davies, Edward Llwyd, a'r Dr. Owen Pugh, y rhai sydd wedi ennill enw mawr gan ddysgedigion Ewrop; Cymry oedd y tri rhifyddwr tra enwog, William Jones, D. S. Davies o Woolwich, a Griffith Davies o Lundain; Cymry oedd yr henafiaethydd a'r anianydd Penant, y fferyllydd enwog Dr. Thomas Henry, a Syr D. Davies, meddyg y diweddar Frenines Adelaide; Cymro oedd Dr. Jenkyn, diweddar athraw Coward College, ac un o'r dynion mwyaf cyflawn a feddai yr Annibynwyr; Cymro oedd fyddlaw'n ferthyr Eromanga; ac nis gwyddom am un enw ag

y mae yn well genym ysgrifenu Cymro ar ei ol nag eiddo y diweddar Archddiacon Williams, yr hwn a adwaenid yn Rhydychain dan yr enw "the Welsh lion," a thrwy y deyrnas a'r cyfandir fel un o'r ysgoleigion penaf, ac am yr hwn yr arferai y beirniaid uchaf y fath eiriau a "massive ability, keen critical acumen, and thorough scholarship."* Cymro oedd yr arlunydd tra enwog Turner, am yr hwn y sonir cymaint yn awr; a Richard Wilson, y *landscape painter*, oedd Gymro. Dr. Vaughan, golygydd y "British Quarterly Review," sydd Gymro; Cymro yw William Williams, Ysw., yr aelod Seneddol dros Lambeth; a Chymro yw Syr G. C. Lewis, diweddar ganghellydd y drysorfa, gystal âg awdwr gweithion o'r radd flaenaf. Pwy na wŷr am Owen Jones, y Cymro, er pan godwyd y Palas Grisial? Y lluniedydd blaenaf yn Rhufain yw Penry Williams, Cymro o Ferthyr Tydfil; John Gibson, o Rufain, yr hwn sydd un o brif gerfwr yr oes, sydd Gymro o Abergele; John Evan Thomas sydd gerfwr o fri yn y brifddinas; ac y mae y ddau Gymro Brinley Richards, ac Ellis Roberts, yn enwog fel cerddorion ymysg y Saeson. Yn ein prif athrofeydd hefyd y mae y Cymry wedi enwogi eu hunain, a cheir fod gweithiau Plato a Bacon yn cael eu cyhoeddi gan Bohn o dan eu dwylaw hwy.† "Onid Cymro o'r enw Roberts a ddyfeisiodd beiriant nyddu yn Manchester tua deng mlynedd ar hugain yn ol, ac a dderbyniodd *patent* am dano, yr hwn a arferir yn awr ymhob melin yn y dref?" Onid Cymro ieuanc o'r enw Baines a ddyfeisiodd y modd i ddal yr *hoist* rhag syrthio i lawr pan fyddo y rhaff yn tori? Ac onid Cymro ieuanc yw y meddyg Roberts, yr hwn oedd er ys ychydig yn ol yn syndod i'w gydefrydwyr, ac sydd yn awr yn cymeryd y fath safle uchel ymhlith ei gymmrodwr? Eithr yr amser a ballai i ni nodi ein brodyr fel hyn bob yn un ac un, oblegid y mae ein trefydd mawrion yn awr yn llawn o Gymry mewn sefyllfaoedd "o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb." Ni a allem enwi degau o Gymry ag sydd yn y brifddinas, yn Manchester, ac yn Lerpwl, yn llanw swyddi uchel; eithr o'r braidd na ddywadem mai gwastraff ar amser fyddai hyny, yn gymaint a bod hyny mor wybuddus. Yr ydym, gan hyny, yn gadael y gyfres i'r darlennydd, fel y gallo ffurfio barn am ei genedl.

Ein casgliad ni oddiwrth y ffeithiau blaenorol ydyw, nad oes dim anhawd-derau anorfod ar ffordd dyrchafiad y Cymro; a bod ganddo ef lawn cystal cynneddfau a'r Sais a'r Albanwr; ac y gellir dysgwyl, gan hyny, iddo *æf* ymgystadlu â hwy ymhob sefyllfa, nad pa mor bwysig.

Nid oes anghen am i ni dreulio amser i esbonio beth a feddylir wrth "sefyllfaoedd o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb." Diau genym na feddyliodd y Pwyllgor mai da fyddai cyffrôi gorawydd ac anesmwythder yn mynwasau dynion ieuainc, a pheri iddynt anfoddloni i drefu rhaglun-iaeth, a cheisio at bethau uchel. Y mae y blynyddoedd diweddar wedi profi yn y modd mwyaf gofidus fod brys i ymgyfoethogi wedi bod yn fagl i liaws o ddynion ag a ystyrir gan y byd yn ddoethion. Y rheol ddwyfol ydyw, "Ai yn was y'th alwyd? na fydded *gwaeth* genyt: eto os gelli gael bod yn *rhydd*, mwynhâ hyny yn hytrach" (1 Cor. vii. 21). Hyny yw, "os gelli gael bod yn rhydd" yn gyson â'r broffes yr wyt dani —nid, os gelli gael bod yn rhydd drwy ddianc oddiwrth dy feistr, neu ryw

* "North British Review," February, 1854, tudal. 250.

† TRANFHODYDD, 1867, tu

dal. 392—397.

ddyfais gyffelyb. Tra y mae Cristionogaeth yn peri i ni chwennychu y pethau goreu, y doniau goreu, a'r sefyllfaoedd goreu, eto, y mae ei llais yn eglur mai dyledswydd, ac nid dymuniad y llygad, sydd i fod yn rheol. Nid ydym yn cofio i ni erioed weled darluniad mor ragorol o'r hyn yw gwir ddyrchafiad y dosbarth llafurus, a'r hwn a roddwyd gan yr hyawdl Dr. Chalmers ar agoriad ysgol ddyddiol mewn rhan o Glasgow; ac er nad yw pob rhan o'r dyfynion yn dwyn perthynas uniongyrchol â'n testun, eto y mae ysbryd y dyfyniad drwyddo draw o'r pwys mwyaf i ddynion ieuainc ein trefydd mawrion. "Y mae yn wir (ebe'r areithydd) y bydd i rai o feibion llafur, yn nghanol chwyldröadau rhagluniaeth, gael eu dyrchafu i binacl enwogrwydd yn y wlad a'r cymundeb yn y rhai y byddant yn troi, ac y bydd eu dysgeidiaeth yn eu hurddasoli ac yn eu harwain yn y sefyllfaoedd hyny. Ond ni fynwn i iddynt gael dysg yn unig er mwyn ymgyrhaedd am setyllfa uchel, eithr er mwyn iddynt ddedwyddu, urddasoli, a dysgleirio yn foesol ac yn llényddol yn y sefyllfa y maent eisoes ynddi. Pe bae pawb yn uchelgeisio, siomid llaweroedd; canys sicr ydyw mai ychydig fydd nifer y cyfoethogion hyd ddiwedd amser, ac mai o feibion llafur y cyfansoddir y gynnulleidfa fawr. Gan hyny, fy nghyfeillion, fy amcan wrth ddadlu dros i oleuni dysg gael ei dywallt yn eich mysg ydyw, nid meithrin ynoch uchelgais i gyrhaedd sefyllfaoedd anrhydeddus cymdeithas. Chwi a ofynwch i mi, gan hyny, Beth yw eich amcan? Nid troi gweithiwr yn feistr; ond gwneyd llafurwr anwybodus yn llafurwr gwybodus—argraffu ar ei feddwl ei fod yn urddasol ac yn gyfrifol hyd yn nôd pe na ddyrchefid ef un fodfedd o'r cylch yn yr hwn y mae yn awr yn symud—ei wneuthur, mewn gair, yn grëadur myfyrgar a chyflawn. Mae meibion llafur wedi eu bwriadu i gyrhaedd lle llawer mwy cysurus ac annibynol yn y wladwriaeth a'r llywodraeth nag y maent wedi ei gyrhaedd hyd yn hyn; ac effeithir hyn, nid drwy unrhyw suddugoliaeth a ennillir ar faes dadleuath pynciau gwladol, ond yn llawer mwy sicr fel canlyniad rhinwedd, dealltwriaeth, a gwerth, y llafurwyr eu hunain. Yr wyf yn hyderus fod yr amser gerllaw pan yr urddasolir bywyd cyffredin gan oriau hamddenol a phleserau llényddol, pan fydd llafur y dydd yn cael ei ddilyn gan ddarllen ac ymddyddanion buddiol yn yr hwyr, pan gyfarfyddir â llawer doethawr dysgedig yn gystal a llawer cristion cywir hyd yn nôd yn rhodfeydd isaf cymdeithas, pan fydd elfenau gwybodaeth, dyngarwch, ac ysgoleigdod uchel wedi lefeinio meddwl yr holl wlad, nes ei godi yn annhraethol uwchlaw ei nodweddiad a'i gyrhaeddiadau presennol. Yr wyf yn dywedyd drachefn, mai nid yr amcan penaf wrth dywallt cyflawnder helaethach o addysg i'w plith ydyw eu cynnorthwyo i ymadael â'u sefyllfa, ond eu cynnorthwyo i ddyrchafu y sefyllfa hono yn foesol ac yn ddeallol. Nid eu dyrchafu ar raddfa arwynebol bywyd, ond eu dyrchafu ar y raddfa ardderchocach hono ag sydd yn dwyn perthynas â rhinweddau meddyliol, a gobeithion anfarw-oldeb—rhoddi urddas mwy gwirioneddol ar bob un na phe bae coron ddae- arol yn cael ei rhoddi iddo—tywallt goludoedd gwybodaeth i'w ddeall, yn enwedig y wybodaeth gysegredig hono, drwy yr hon y dichon ddyfod yn gyfoethog mewn gras, ac yn etifedd y deyrnas a barotôwyd gan Dduw i'r rhai a'i carant ef."

Teimlwn yn dra sicr nad oes un gŵr ieuanc o synwyr cryf na wêl ar un-waith brydferthwch y syniadau blaenorol, ac na chydnebydd eu gwirionedd. *Eithr y mae gwirionedd cyferbyniol yn bod, yr hwn hefyd sydd o bwys;*

sef, mai ffaith fawr yw mai ychydig mewn cymhariaeth yw nifer y dynion sydd yn meddwl am gyrhaedd sefyllfaoedd uwch na'r rhai y maent yn cael eu gosod ynddynt ar y cyntaf. Rhyfedd mor lleied o'n cyd-ddynion sydd yn ymddwyn yn annibynol, ac fel y gweddai i ddeiliaid ewyllys rydd! nid oes ond un o ddeng mil, braidd, ag sydd yn amlygu ei fod yn gyfaddas i fod yn arweinydd iddo ei hun chwaithach i eraill. Ac o'r ffaith yma y cyfyd y ffaith nesaf, fod yr holl rai a ymdrechant yn gyfreithlawn ac egniol am ddyrchafiad yn ei gyrhaedd, os byddant gymhwys i'w dderbyn; ac nis gallwn lai na meddwl fod y bechgyn a'r merched ieuainc sydd yn gadael bryn-iau a bröydd hoff eu gwlad—yn cefnu ar hen Walia dirion, ac yn ymfoddloni i anadlu awyr dew ac afiach ein trefydd a'n dinasoedd mawrion, yn lle awelon "balmaidd pur" hen wlad ac ardal Gymreig dirion eu mebyd—nis gallwn lai na meddwl eu bod hwy yn perthyn i'r dosbarth sydd yn meddu tuedd at, a chymhwysderau i gyrhaedd, dyrchafiad; o'r hyn lleiaf, y mae y rhan fwyaf o honynt felly. A'n dymuniad mwyaf calonog ni ydyw, Rhwydd hynt i chwi, frodyr a chworydd! gwnewch enw da i chwi eich hunain ac i'ch cenedl ymysg y Saeson a'r cenedloedd eraill sydd wedi ymgymysgu â hwy; dangoswch fod y grym meddyliol, a'r penderfyniad anorfod a nodweddaid eich tadau, yn perthyn i chwithau hefyd; a bod yr un cynneddfau ag sydd wedi dyrchafu ein pulpud i binacl na chyrhaeddwyd erioed gan ein cymydogion, yn alluog hefyd i'n dyrchafu fel masnachwyr a llênorion hyd yn nôd i ben eu pinacl hwy. Y mae hyn wedi cael ei wneuthur eisoes mewn degau rai o achosion yn Lerpwl a Manchester, gystal ag yn y brifddinas; eithr gwneler y prawf yn barhaus, fel y gwelo ein cymydogion nad yw ond rhwyddwaith genym.

Y mae yn rhaid i ni, bellach, ddywedyd gair am y ddyledswydd sydd yn gorhwyys ar w'r ieuainc Cymreig ein trefydd i ymdrechu at hyn; ac er mwyn cadw trefn ar ein llith, gweddus yw i ni ranu y ddyledswydd yn y drefn a ganlyn:—Dyledswydd at Dduw—dyledswydd atynt eu hunain yn berfonol—a dyledswydd at gymdeithas yn gyffredinol, a'u cenedl yn neillduol.

1. Y mae ymdrechu cyrhaedd dylanwad, ymddiried, a defnyddioldeb, yn ddyledswydd at Dduw. Efe sydd wedi rhoddi y dalent, ac y mae ysbrydoliaeth yn ein sicrhau mai nid dieuog o'i flaen y dyn a guddia y dalent. Y mae y dalent wedi ei rhoddi er lles y dyn, ac er dwyn gogoniant i'r Rhoddwr mawr o honi; eithr dwyn y gogoniant hwn sydd anhosibl os na ddefnyddir y dalent. Megys y mae y ffrwd a wnaed i droi melin yn ofer os na fydd yn cyflawni ei gwaith, felly y mae y dalent a'r cynneddfau a roddwyd gan y Crëawdwr yn ofer os na byddant hwy yn ateb eu dyben mawr; megys y mae yn gamwedd yspeilio y neb a wnaeth y ffrwd i'w wasanaeth ei hun, felly y mae yn gamwedd i ddyn ieuanc yspeilio ei Grëawdwr drwy esgeuluso gwneyd defnydd o'r hyn a roddwyd iddo i'w ddefnyddio yn unig. Ystyrir gan baw fod yspeilio gŵr o'i aur a'i arian yn gamwedd i'w gosbi, a bod camarfer amser yn fai i'w geryddu; eithr prin y meddylir fod un bai mewn esgeuluso iawngyfeirio ac iawnarfer y cynneddfau. Ond nid yw ein syniadau gwŷrgam ni yn newid dim ar y ddyledswydd; y mae hi yn aros yr un; bydded, gan hyny, i'n cydwladwyr ieuainc gadw hyn yn eu meddyliau, ac ymddwyn yn gyfatebol, fel y byddo y Barnwr cyfiawn yn gallu dywedyd yn y diwedd, "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth;" a "Da, was da a ffyddlawn."

2. Y mae hyn yn ddyledswydd ar bob dyn ato ei hun hefyd.

Gynifer o'n cydgrëaduriaid sydd heb ddysgu erioed fod arnynt unrhyw ddyled atynt eu hunain, ymhellach na bwyta ac yfed a gwisgo yn drws-iadus! "Yr wyf yn ennill digon," medd ambell un, "i gael bwyd a diod, a dillad; ac nid wyf yn dymuno rhagor." Eithr mi a garwn wybod, fy nghyfaill, Ai ni theimlasoch chwi erioed fod o'ch mewn chwi rywbeth sydd yn haeddu parch uwch na'r corff yna? Ai ni feddylasoch chwi erioed fod yr enaid sydd yn meddu gobeithion anfarwoldeb yn rhyglyddu ar eich llaw y gydnabyddiaeth, o leiaf, eich bod yn ei feddu, ac yn gwneyd a alloch i argraffu ar feddyliau eich cyd-ddynion fod ynnoch chwithau ysbryd yn peri i chwi ddeall? Ceisiwch deimlo eich bod yn DDYN, yna y mae yn anhawdd genym dybied na theimlwch mai dyledswydd fawr nas gallwch fodd yn y byd ei hysgoi, ydyw cyrhaedd dylanwad, defnyddioldeb, ac ymddiried eich cyd-ddynion.

3. Nis gall fod dadl chwaith fod hon yn ddyledswydd gymdeithasol. Rhyw un gadwen fawr yw y grëadigaeth, ac nid oes modd i ddyn geisio yr "eiddo ei hun" heb efeithio rywfodd ar eiddo eraill. Tebyg yw cymdeithas i'r llyn i'r hwn y tefir careg, yr hon a ffurfia gylch ar ol cylch hyd ei derfynau eithaf: felly y mae dylanwad ymddygiadau pob dyn—y mae iddynt hwy eu cylchau, y rhai a gyrhaeddant hyd dragywyddoldeb. Os dylawadau drwg fydd y rhai hyn, gwae y dyn hwnw ei eni i'r byd! ond os da hwy, O ddedwydd ddyn! Eglur yw hefyd fod y dyn sydd wedi cyrhaedd sefyllfa o ymddiried a dylanwad yn alluog i wneuthur mwy na'i gyd-ddyn esgeulus dros gymdeithas. Ganddo ef bydd mantais i amddiffyn y tlawd, i beri i galon y weddw ganu, ac i roddi help llaw i'r brawd ieuanc sydd yn dringo y bryn ar ei ol; ac nid dyledswydd fechan ar ddyn ieuanc yw cyrhaedd y sefyllfa â'i dyd yn fanteisiol i gyfranu y fath gymwynasau mawrion. Diau mai y dyn perffeithiaf yw yr hwn sydd, tra yn meddu dylanwad a mawredd bydol, yn cadw ysbryd crefydd, ac yn arfer ei ddylanwad a'i fawredd er lles ei frodyr. Camsyniad yw tybied mai melldith yw golud a mawredd; gyda chalon uniawn, ac ysbryd cymwynasgar, hwy a allant gyflwyno i ni ddyn fel y dylai fod; canys pwy mor fawr, pwy mor oludog, pwy mor dda, a'r Hwn sydd yn "cynnal pob peth trwy air ei nerth?"

Eithr yr ydym am i'n cydieuenctyd gofio, fod ein cenedl yn cael ei chynrychioli genym yn y trefydd mawrion. Os "cymynwyr coed a gwheynwyr" dwfr Gymry Lloegr—os penbyliaid difedr Gymry Lloegr—os yn y man lle y syrthiant gyntaf yr arosant fyth, beth a synia y Saeson am ein cenedl? Tybia y Saeson mai nid gwheilion y bobl sydd yn dyfod atynt hwy—fod Cymry Lloegr gystal, o leiaf, â'r rhai a arosant yn ngwlad y mnyddoedd—ac os gorfodir hwy i farnu mai diwerth y rhai a ddeuant atynt hwy, rhesymol yw iddynt farnu mai diwerth yr holl genedl. Yr ydym wedi tybied yma yr hyn nid yw yn ffaith, er mwyn dangos yn amlycach bwysigrwydd ein dyledswydd at ein cenedl. Ceir aml un yn dywedyd, Nid yw cymeriad fy nghenedl yn dibynu arnaf fi fodd yn y byd; tra y mae yntau, druan, yn hoff iawn o ymlechu yn nghysgod anrhydedd rhyw gyd-wladwr llwyddiannus, ac o gael ei ystyried yn perthyn i'r un genedl â hwnw. Dylai y cyfryw frawd gofio fod ei genedl yn cael ei hanfrio gymaint drwy ei ymddygiadau gwael ef, ag y mae yn cael ei hanrhydeddu drwy ymddygiadau da y llall; ac, yn wir, fod dyeithriaid yn fwy tebyg o ffurfio eu barnau am danom oddiwrth y dynion gwael nag oddiwrth y rhai rhagorol. Gwir fod hyn yn feisus mewn dyeithriaid; ond y mae yn un o

wendidau y natur ddynol; a dylem ni, o ganlyniad, beidio rhoddi achlysur iddynt dynu y cyfryw gasgliadau—dylai pob un deimlo fod eymeriad y genedl yn dibynu ar ei ymddygiadau ef.

Dyna a ddywedir genym ar y ddyledswydd. Y mae y pwnc mor gyffredin, fel y teimlwn nad anghenrheidiol ond awgrymu yn gyffredinol; oblegid os adwaenom wŷr ieuainc Cymreig Lloegr o gwbl, ni a allwn sicrhâu eu bod yn argyhoeddedig o'r ddyledswydd a argymbellir genym, cyn gadael o hon- ynt eu gwlad, ac na fyddai ceisio ei phrofi iddynt amgen ceisio profi fod yr haul wedi codi yn awr. Yr un pryd, nis gall fod un perygl newn adgoffau iddynt yr hyn a wyddent o'r blaen.

Y gofyniad nesaf yw, Drwy ba foddion y gall ieuencytyd Cymreig Lloegr gyrhaedd sefyllfaoedd o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb? Nid oes dim amlycach na bod y dyn sydd yn llanw swydd o ymddiried mawr, yn meddu dylanwad mawr er da neu er drwg; a bod y dyn sydd feddiannol ar ddylanwad mawr, mewn mantais i fod o ddefnyddioldeb mawr i eraill. Hyn oll sydd berffaith eglur; ond, Pa fodd y cyrhaeddir y swydd o ymddiried? Pwy a etyb y gofyniad? Mewn un ystyr yr ydym dan anfantis i ateb, oblegid nad ydym yn credu fod un reol anffaeledig er cyrhaedd hyn; eithr mewn ystyr arall, y mae ein hanghrediniaeth mewn *specifics* yn fantais, yn gymaint ag y byddwn yn fwy rhydd oddiwrt h ragfarnau i olrhain y pwnc i'w wreiddyn. Gwyddys mai oes frysiog ac anmhwyllus iawn yw hon—ei bod yn gwaeddi yn barhâus am un eli i wella pob clwyf—a bod digon o *quacks* i'w cael yn barod â'u sothach "anffaeledig." Un dosbarth o'r ffugfeddygon a fynant mai eu peleni hwy yn unig a wellhânt bob clwyf a chlyfyd eorfforol; dosbarth arall a fynant mai eu peleni hwy—diwygiadau yn y llywodraeth yn ei pherthynas â'r wlad—sydd i adnewyddu wyneb cymdeithas; ac i osod pob dyn drachefn yn arglwydd y grëadigaeth; dosbarth arall a fynant mai dirwest yw yr hyn a ddwg drefn ar y tryblith presennol; tra y mŷn dosbarth arall mai addysg a wna y gwaith mawr. A phan y meddylion am y darganfyddiadau pwysig sydd wedi eu gwneyd mewn gwyddoniaeth yn yr hanner canrif diweddaf—am yr ager a'i fil hynodion—am wyrthiol weithredodd y trydan, a chyffelyb bethau, nid ydym yn syau fod dynion arwynebol wedi meddwl fod yn ddichonadwy newid a diwygio cyflwr mewnol neu foesol cymdeithas gyda'r un cyflymder. Ond camgymeriad dirfawr yw hyny. Cynllwyn i dwyllo y mae y neb sydd yn dysgu fod *specifics* a *patent medicines* gyferbyn ag anghenion moesol cymdeithas, oblegid y mae yr Ysgrythyr, gystal â'n rheswm a phrofiad, yn tystio yn rhy eglur i'w wadu, mai *llafur*, mai *llafur mawr*, ac mai *llafur personol* mawr, yw yr hyn a adgenedla gymdeithas. Pob parch i'r dynion sydd yn gwyllo dros hawliau gwladol llafurwyr; pob parch i bleidwyr y *Maine Law*; pob parch i noddwyr sefydliadau celfyddydol; a phob parch i gyfeillion ffyddlawn addysg;—eithr yr hyn a ddylai gael ei argraffu yn ddwfn yn nghalon pob Cymro ieuanc ydyw, mai *efe ei hun sydd i fod yn gyfrifol am y safle a ga mewn cymdeithas*. Megys nad oes neb ond chwi, fy nghyfaill, i ffurfio eich caritor moesol rhyngoch chwi â'ch Duw, felly os mynwech gyrhaedd safle o ymddiried yn eich clych eich hunan, yr hwn a rydd i chwi wir ddylanwad, a mantais i fod yn ddefnyddiol yn ystyr Gristionogol y gair, arnoch chwi eich hunan—ar eich hymroddiad diball chwi eich hunan—y dibyna eich llywyddiant. Y mae yn wir y bydd orail yn gallu eich cynnorthwyo mewn llawer o bethau; eithr chwi a geirch allan

yn fuan mai dibwys iawn y cynnorthwyon hyny mewn cymhariaeth a'r hyn raid i chwi wneyd eich hunan. Darllenwch hanesiaeth yn gyffredinol, a sylwch yn fanwl ar hanes dyrchafiad dynion ieuainc o'ch sefyllfa chwi, a chewch mai y gwirionedd yw, fod hunan-ddibyniad yn un o elfenau penaf mawredd; a bod pob dyn a ymddyrfhafodd o sefyllfa gyffredin i sefyllfa o ymddiried, wedi bod yn ddeddf iddo ei hun. Nad pa mor annhebyg yr ymddengys hyny ar y cyntaf, eto ffaith yw mai ychydig iawn yw y cynnorthwy a fedrwn ni ei estyn i'n gilydd—"hwda di, a moes i minnau," yw arwyddair y byd—a dyna yr arwyddair a wna y tro i chwi. "Yn ddiammheuol," ebe y Parch. T. Binney yn ei ddarlith ar Syr T. F. Buxton, "y penaf peth a ellir ei ddywedyd am ddyn yw, 'ei fod heb dad; ei fod wedi tarddu o ddim, ac wedi ei wneuthur ei hun; ei fod wedi cael ei eni yn bridd, ac wedi marw yn fynor.'" Yr ydym wedi traethu yn gryf ar hyn o bwnc, am y gwyddom fod perygl i ddarllenwyr gwobr-draethawd feddwl ei fod i gynnwys, neu yn cynnwys, meddyginiaeth neu gyfarwyddyd pendant i'w hachos hwy. Nid ydym ni yn profesu rhoddi dim ond hen gyfarwyddiadau cyffredinol, canys barnwn nad oes eraill i'w cael; eithr ymdrechwn gadw mewn côf yn barhaus y dylai fod ymarferoldeb yn elfen annheborol ymhob cyfarwyddyd a roddir. Ychydig sylw a ddengys fod dynion yn cyrhaedd sefyllfaoedd o ymddiried mewn tair ffordd:—1af, Rhai a enir ynddynt megys. 2il, Eraill a ddyrchefir iddynt yn ddamweiniol, neu drwy ddylanwad cyfeillion. 3ydd, Eraill a'u hennilliant drwy eu medrusrwydd. Nid oes a fynom ni yn bresennol â'r dynion hyny sydd yn dyfod i'r byd "gyda llwyau arian yn eu geneuau," megys y ddau ddosbarth blaenaf, ond ein hymwneyd sydd gyda'r dosbarth olaf—dosbarth y dynion sydd yn gorfod ennill y sefyllfa neu fod hebddi—dosbarth y dynion anrhydeddus hyny ag sydd yn gosod mwy o urddas ar eu sefyllfa nag a rydd y sefyllfa arnynt hwy. Ein cyfarwyddyd sydd ddyblyg: I. Mynwch wybod ymha le y mae cuddiad eich cryfder. II. Gofalwch am feddu calon bur, pen clir, a llaw ddiwyd.

I. Mynwch wybod tu hwnt i unrhyw ddadl beth yw eich cryfder—ymha beth y gallwch ragori. Na fyddwch efelychwyr gwasaidd o undyn am ei fod ef wedi bod yn llwyddiannus mewn cylch neillduol, os na fyddwch sicr eich bod yn meddu yr un cymhwysderau naturiol ag ef. Sonir yn fynych am athrylith ac am dalent fel pethau gwahanol. Y mae hyn yn gywir; canys athrylith sydd fath o gynneddf arbenig yn y dyn at bwnc pencdol, tra y mae talent yn enw ar allu cyffredin y meddwl i ymwneyd â phethau yn gyffredinol. Felly y mae un dyn yn fardd wrth natur—dyn arall yn areithiwr wrth natur—a'r llall yn gerddor, neu yn arlunydd wrth natur. Yr ydym yn cyfarfod weithiau â masnachwr mor graff a galluog, ac yn deall arwyddion yr amseroedd mor drwyadl, ac yn gallu crynhöi i'w feddwl ar unwaith holl reolaeth masnach ag a ofynai gryn ddwsin o ddynion cyffredin i'w chadw yn drefnus, fel yr ydym sicr fod yr iawn ddyn yn yr iawn le. Yn awr, os ydyw yn wir fod gwahaniaeth naturiol felly rhwng dynion â'u gilydd, onid yw o'r pwys mwyaf fod pob dyn ieuanc yn deall ymha le y gorwedd cuddiad ei gryfder? Yr ydys wedi gweled dynion yn eu hamryfusedd yn gwneuthur camsyniadau pwysig mewn bywyd, drwy ymgais at wneyd yr hyn nad allent. Ambell bregethwr gwych a dybiai ei fod yn fardd, ac o flaen y byd âg ef; ond erbyn i feirniadaeth y gwir fardd nithio ei waith, cafwyd nad oedd yno ond defnydd

tân. Ambell fardd da a synia y gall ysgrifenu traethawd gwych, ac ambell draethodwr rhagorol a dybia ei fod ef yn fardd; ond pobl ddeallus a diragfarn a welant fod y naill a'r llall yn camgymeryd yn fawr. Felly hefyd y mae aml ŵr ieuanc yn ymgymeryd â chyfrifoldeb masnach, tra na fwriadwyd ef gan ragluniaeth i fod yn ddim ond gweinidog fyddlawn; ac y mae aml un yn aros yn wasaidd yn weinidog, tra y mae yn amlwg mai dynion o'i fath ef a ddylent fod yn arweinwyr ac yn feistri; ac y mae yn dygwydd yn fynych fod y cyntaf yn ymddyrsu, a'r olaf yn weinidog canolig. Y cyngor cyntaf a ddylid roddi, gan hyny, i Gymro ieuanc trefydd mawrion Lloegr yw, "Adnebydd dy hun:" mynwch wybod yn ddfifeth ymha beth y gallwch ragori, a throwch eich sylw at y peth hwnw. Na thybier ein bod am i ddynion newid eu sefyllfaoedd, a bwrw o'r neilldu yr alwedigaeth y buont fyddlawn iddi am flynyddoedd; oblegid y mae profiad yn dysgu y bydd lliaws mawr heb allu at ryw un alwedigaeth fwy na'r llall, ond a wnant eu dyledswydd yn wych yn yr hon a gawsant gan eu rhieni—bydd dosbarth arall yn ddynion ieuainc wedi eu cynnysgaethu gan natur â gallu i orlanw eu galwedigaeth—tra y bydd dosbarth arall yn methu rywfodd gyrhaedd eu lle priodol. Tra y dylai y dosbarth arall wneyd a allont i gyrhaedd eu hiawn le, nid oes gan y ddau ddosbarth blaenaf ond dyfalbarhâu yn eu hen swyddi. Na thybied un dyn ieuanc, ychwaith, fod ei ragfarn ef yn erbyn ei swydd bresennol, yn brawf y bydd yn alluog i lanw y swydd a chwennycha, onidê efe a gâ allan, pan fydd wedi myned yn rhy bell i edifeirwch, mai ei fympwy, ac nid ei reswm, oedd yn ei arwain. Y mae y cyfarwyddyd, gan hyny, yn dâl yn dda, "Adnebydd dy hun:" ac os ceuwch fod ynoch gynneddf a ragora fwy mewn cylch arall nag yn eich cylch presennol, gwnewch a fyddo ynoch i roddi cyfle iddi ddadblygu ei hunan.

II. Gofalwch am feddu calon bur, pen clir, a llaw ddiwyd. Calon bur yw yr elfen foesol anheborol i lwyddiant; pen clir yw yr elfen ddeallol anheborol i lwyddiant; a llaw ddiwyd yw yr elfen lafurus anheborol i lwyddiant. Eithr y mae yn ofynol i ni fanylu ar y pethau hyn.

1. *Calon bur.* Wrth yr hyn y golygw, y rhaid i chwi fod yn feistr perffaith arnoch eich hunan mewn ystyr foesol—y rhaid i chwi ofalu na fyddoch yn gaeth gan un nwyd afreolus, neu arfer ddrwg—y rhaid i'ch bywyd amlygu y rhinweddau hyny ag y mae nid yn unig eich Bibl, ond hanes y dynion mwyaf llwyddiannus, yn dangos eu bod yn ofynol er cyrhaedd gwir ddyrchafiad cymdeithasol. Yr hen drefn o gynghori yn Nghymru yw, mai wrth "ymgadw yn ol dy Air Di," y mae yn bosibl i lanc lanhâu ei lwybr; ac y mae rheswm a phrofiad yn cyd-dystio â'r Gair fod perthynas agos iawn rhwng y moesoldeb penaf a'r llwyddiant uchaf.

Eithr cyn enwi yr elfenau pwysig sydd yn cyfansoddi calon bur, y mae yn ofynol i ni roddi rhai gocheliadau mewn perthynas i arferion ag y mae gwŷr ieuainc ar eu mynediad i drefydd mawrion Lloegr yn debyg o syrthio iddynt. (1.) Y dafarn, neu y gwirfŷd, y *supper rooms*, y *saloons*, &c., yn yr oll o'r rhai y mae y demtasiwn i yfed yn gryf. Nid ydym ni yn gallu dywedyd gyda llawer o'n cyfeillion, fod gwydraid o ddiod feddwol—gwydr-aid o gwrw neu borter, yn niweidiol i ddyn ieuanc iach; credwn yn hytrach y bydd yn llesol i rai ar ol cael eu cau i fyny drwy'r dydd yn masnachdai Manchester a Llundain, ac anadlu cymaint o losgnwy ac awyr anmbar. Ond arfer beryglus ydyw, a dylai y dyn ieuanc sydd am ddyrchafu ei hun, ofalu na chyffyrddâ â'r diodydd hyn, os na byddant yn anghenrheidiol i

iechyd. O'r hyn lleiaf, cadwed o'r palasau ardderchog sydd ar gongl pob heol er denu y gwan a'r anwyliadwrus. Cadwed er mwyn ei enaid a'i gorff o'r *supper rooms* a'r *singing saloons*, a'r tai hyny sydd yn agor bob nos er lliethio llafurwr y dydd. Yr ydym wedi ei wneuthur yn bwnc rai troion; pan yn gyfleus, i ymweled â'r rhai a ystyrir yn fwyaf cyfrifol o'r sefylliadau hyn—y rhai a ganmolir yn ein newyddiaduron; ac er na ddywedem fod cwmp y dyn ieuanc a geir ynddynt yn sicr, eto nid oes yr amheuaeth lleiaf yn ein meddwl fod cant o honynt yn syrthio yn ysglyfaeth am bob un sydd yn dianc yn ddianaf. Fel y gwyr pob gwr o synwyr, yr ydym yn cael ein hargyhoeddi weithiau drwy fod argraff ddofn yn cael ei wneyd ar y meddwl, a'n bod, er yn sicr o'r argraff, eto yn methu rhoddi ein bys ar ddim neillduol yn moddion yr argyhoeddiad; felly y teimlem ninnau yn yr achos dan sylw,—er nad allwn osod bys ar un anfoes neillduol oedd yno, eto y mae yr argraff a dderbyniasom yn sicr—nid oes amheuaeth ynom mai i ddinystr yr arwain y ffordd yna. Gan hyny, Gymry ieuainc ein trefydd mawrion, gochelwch y peryglon yna, er mwyn eich lles tymmorol a thragwyddol. (2.) Y Chwareudf. Y mae llawer o gamddarlunio ar y chwareudai. Rhai crefydddyr a siaradant am danynt fel ffauau pob math o anfoesoldeb; tra y mae llawer o lënorion y Saeson, megys Dickens a'i gyf., yn son am danynt fel pe baent yn sefydliadau uchaf y wlad, ac y rhoddent o'r braidd yr efengyl o'r neilldu er mwyn y *drama*. Ynfyrwydd yw y fath siarad. Mae yn wir fod rhai o'r chwareudai yn dra isel, a bod ymadreddion yn cael eu hyngan ar y byrddau, a raid naill ai anfoesoli, neu achosi ffeiddiad i, yr edrychodd ieuainc; ond y mae eraill yn rhydd oddiwrth hyn, o ran ffurf geiriol o leiaf. Ac eto, y mae profiad a hanes y tai hyn yn dangos yn anwadadwy, mai dinystric, ac nid puro, yr edrychwyr y maent. Ac ymhellach, nid ydym yn sicr y ceir un o honynt yn hollol rydd oddiwrth yngan neu gyflawni yn ystod y prydawn yr hyn a bâr i bob dyn o chwaeth gywilyddio, ac a gyfyd y grechwen sawr ymysg y cyffredin. Bydd y sylw olaf hwn yn neillduol gymhwysiadol at hyd yn nôd y chwareudf yn yr hwn y ceir ein Grasesaf Frenines fynychaf. Nid ydym yn petruso, gan hyny, roddi barn yn erbyn y lleoedd hyn, ar dir rheswm yn unig, heb son am y ddadl grefyddol sydd i'w herbyn. Ni a wyddom fod aml ddyn ieuanc yn myned i'r fath fanau er mwyn cael, fel y tybia efe, ychydig o adloniant ar ol llafur y dydd; eithr tra y credwn gydag ef fod adloniant yn gwbl anghenheidiol, ac mai cywilydd dybryd i'n trefydd yw, nad ydyw y llafurwyr yn cael mwy o hamdden i adloniant, yr ydym yn credu hefyd mai adloniant peryglus yw eiddo y chwareudf. (3.) Nid oes anghen un math o esgusawd am enwi y gocheliad nesaf, sef y *puteindy*, oblegid y mae y pla yn cael ei gyd-nabod yn awr gan bawb. Y mae hyn yn ganlyniad, i fesur dirfawr, o'r ddau ocheliad a roddwyd yn flaenorol. O'r datarn a'r chwareudf y mae y *puteindy* yn cael ei ysglyfaeth; ac yn nghymydogaeith y rhai hyn y mae y "dyn ieuanc heb ddeall ganddo" yn cyfarfod y "fenyw â'r ymadrodd gwenieithus;" ac ar ol cael ei ddylanwadu gan y ddiod, a'i orloni gan chwerthiniaid y chwareudf, y mae ei "haml eiriau teg," a "gweniaith ei gwefusau hi" yn ei gymhell. "Yn awr, gan hyny, fy meibion, gwrandêwch arnaf fi, ac ystyriwch eiriau fy ngenau. Na thuedded dy galon at ei ffyrdd hi, ac na chyfeiliorna ar hyd ei llwybrau hi. Cansys llawer a gwmpodd hi yn archolledig; ie, gwyr grymus lawer a laddodd hi. Ffordd i uffern yw ei thŷ hi, yn disgyn i ystafelloedd angau:" *Diar. vii. 24—27.* (4.) Gochelwch

y *gambling table*. Gynifer o esiamplau sydd wedi bod yn y blynyddoedd diweddfaf o ddynion cyfrifol—yn ieuainc ac yn hen—yn dyfod i ddinystro drwy orawydd am ennill arian heblaw trwy lafur teg! “I make more money out of doors by betting, than I do by my employment in the office,” meddai gŵr ieuanc yn un o fasnachdai y briffddinas yn ddiweddar; clybu ei feistri am hyn, a chollodd yntau ei le. Eithr yr ydym yn cael fod yr ysbryd hwn yn gyffredin yn dilyn y tri pherygl a enwasom uchod,—fod y dyn ieuanc sydd yn colli ei ennillion rhwng y dafarn, y chwareudf, a'r puteindf, yn awyddu am gael rhagor rywfodd, nis gwaeth pa fodd; ac fe'i ceir ef o hyn allan yn y tai lle y cyferfydd ei fath. Ac os achubir ef o'r dinystr hwn, bydd hyn megys drwy dân.

Dyna y gocheliadau. Y neb a ŵyr rywbeth am ansawdd cymdeithas yn nhrefydd mawrion Lloegr, a ŵyr gystal â nimau mai nid peryglon dychymyglol yw y pedwar blaenorol; ond fod cannoedd o ieuencyd yn cael eu dinystrio bob blwyddyn drwyddynt. Nid diberygl, gan hyay, yw cellwair gyda hwynt; ac na thybier fod yn bosibl mynwesu un o henynt heb fod mewn perygl o syrthio yn ysglyfaeth i'r lleill hefyd, canys gwirionedd a brofir gan hanes y rhai a ddinystriwyd yn ein dinasoedd yw, fod y pedwar drwg yn arwain eu gwrthddrych o'r naill i'r llall. “Ond beth raid ei wneuthur?” medd yr ymholydd ieuanc, “oblegid gocheliadau yn unig yw y rhai blaenorol.” Gwir mai gocheliadau yn unig a roddwyd; ond nid peiriant yw dyn. Pan fo'r peiriant yn cael ei attal rhag gwneuthur gwaith dinystriol, y mae yn bosibl iddo beidio gwneuthur dim; ond dyn, pan ymgadwo rhag y drwg, a fydd dra thebyg o wneyd rhyw ddaioni; a chan nad oes ond da a drwg yn y byd, sicr yw y bydd i'r hwn a ochelo y drwg wneyd y da. Eithr buddiol fyddai enwi y prif elfenau moesol ag sydd yn annheggorol er ffurfio cymeriad pur, a chyrrhaedd sefyllfaoedd uchel.

(1.) Gofelwch am gadw crefydd Cymru; neu, os yn ddigrefydd y daethoch o'ch gwlad, ystyriwch y pwnc yn ddiifrifol. Y mae yn ffaith ei bod yn “bosibl gwneuthur y goreu o'r ddau fyd.” Gwir nad yw hyn yn cael ei gydnabod gan y mwyafrif o'n masnachwyr mawrion; eithr y maent yn camsyniad yn fawr. Pa filwyr sydd wedi gadael enwau mwy peraroglaidd ar eu hôl, ac wedi ennill cymeradwyaeth byd ac eglwys mor llwyr â Caddben Hedley Vicars a'r Cadfridog Havelock? A pha fasnachwyr sydd wedi llwyddo i'r fath raddau, gan adael i'r byd esiamplau mor ragorol o gyfuniad masnach â chrefydd, â Syr T. F. Buxton, a Budgett? Ac yn maywgraffiad y blaenaf gan Mr. Binney, dywedir, “He was an earnest, evangelical Christian; and one of the great uses of his biography, as it seems to me, is to show the possibility of a man's combining a very laborious outward life—a life of business, trade, politics—with one of deep and eminent spirituality.” Ac yn maywgraffiad Budgett gan y Parch. W. Arthur, dywed un tyst a'i hadwaenai yn dda, “Never have I witnessed such a remarkable instance of a firm of mercantile men being guided by the Saviour's injunction, ‘Seek ye first the kingdom of God and his righteousness, and all these things shall be added unto you.’” Hawdd fyddai i mi ddwyn lliaws o esiamplau cyffelyb; ond y mae y rhai uchod yn adnabyddus i bawb, ac yn gyfryw nas gall neb eu hammheu. Ofawn fod lliaws o'n cydgenedl yn tybied y gallant osod eu crefydd o'r neilldu hyd oni chyrrhaeddant eu nod mewn masnach neu sefyllfa fydol; ond camsyniad truenus yw hwn, canys os bydd dim yn fwy manteisiol i ddyrchafiad na phethau er-

ail, crefydd gyson fydd hyny. Clywsom un o ysgrifenwyr y diweddar Syr Watkin yn adrodd geisio o'r boneddwr ganddo weithio ar y Sabbath unwaith. Atebodd yntau nad allai ufuddhâu iddo yn hyny. Y canlyniad fu, iddo gael rhybudd i adael ei le ar unwaith; eithr nid cynt yr aeth digofaint cyntaf y boneddwr heibio, nag y danfonodd am iddo ddychwelyd a chadw ei sefyllfa; ac o'r dydd hwnw allan, safai y gwas yn uwch o lawer nag o'r blaen yn meddwl y pendefig. Ac nid yw hyn, erbyn yr ystyriom, yn bwnc o syndod; canys y mae syniad cymdeithas am danom yn dibynu ar gysondeb ein hymddygiadau gyda'n profes. Y mae y masnachwr call yn sic o roddi mwy parch yn y pen draw i'r dyn sydd gyson â'i greddo nag i'r dyn sydd anghyson â hi; canys pan ddeler i ymresymu y pwnc, y gofyniad teg yw, Pa fodd y gwn i na wna y dyn a anufuddhâ i'w gydwybod er fy mwyn i, anufuddhâu iddi hi yn fy erbyn i? Os dywed y gydwybod, "Cofia gadw yn sanctaidd y dydd Sabboth," ac os tyr y dyl y gorchymyn er hyny, pa fodd y gwyr y masnachwr nad anufuddhâ y dyn i'w gydwybod pan ddywed, "Na ladrata?" Nid ydym ni yn dywedyd, cofier, mai peth annichon yw i'r dyn digrefydd ennill sefyllfa o ymddried; canys y ffaith yw, fod cannoedd o ddynion digrefydd wedi gwneyd hyny. Eithr nid am eu bod yn ddigrefydd y llwyddasant, ond am eu bod yn meddu llawer o'r rhinweddau hyny ag y mae crefydd yn eu hargymhell. Mantais, gan hyny, i'r gwŵr ieuanc yw meddu a meithrin ysbryd crefydd; ac er esiampl o hyn, yr ydym yn cyfeirio at yr ugeiniau o Gymry crefyddol sydd wedi eu dyrchafu i sefyllfaoedd uchel yn Manchester a'i chylchoedd, cystal ag yn Llynlleifiad a'r briffdinas.

(2). Hunanlywodraeth sydd elfen bwysig iawn yn ffurfiad y cymeriad; esaf "yr ymarferiad o gymedroldeb ac iawn lywodraethiad y blysiâu anifeilaidd. Mae y sobrwydd, yr hwn a gymhellir arnom yn y Testament Newydd, yn cyrhaedd dros yr holl natur,—ysbryd, enaid, a chorff. Arwydda ddyn a chanddo ynddo ei hunan feddiant arno ei hunan: pob gallu, pob teimlad, tymher, a blys, yn ein natur, a'r ffrwyn yn eu gweflâu, ac awenau hono yn nwylaw cydwybod a barn, tra y mae cydwybod a barn eu hunain dan lywodraeth gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd.—'Chwantau ieuencyd, ffô oddiwrthynt.' Mae eu swynion yn fawr, ond eu heffeithiau yn adgas a dinystriol i gorff ac enaid. Diar. v. 5—23. Cofiwch fod pob tro ag y gorchfygwch chwi y demtasiwn, yn gwanychu y tueddiadau llygredig, ac yn chwaneu nerth at eich rhinwedd. Wedi i chwi unwaith ymsefydlu mewn rhyw ymarferiad rhinweddol, bydd yr ymarferiad hwnw drachefn, yn y canlyniad, yn troi yn swcr i chwithau yn erbyn y drwg; fe ä y demtasiwn iddo yn wanach, wanach, yn ei hymosodiadau arnoch, a'r meddwl yn gryfach, gryfach, i'w gwrthwynebu. Yn y gydwybod a'r meddwl, yn ddiâu, y mae llywodraethiad y blysiâu corfforol i ddechreu: ac yn wir, hwynt-hwy trwy ras Duw, fel y dywed un awdwr, sydd i'w cadw yn eu lle o hyd. Ond bydd yn hawdd, mewn cymbariaeth, iddynt wneuthur hyny, wedi i chwi unwaith ymsefydlu mewn ymarferiadau cymedrol. Fe gyll yr archwaeth ei orchwant i ddanteithion, ac fe ddaw y cylla i ymwrthod yn naturiol â phob gormodedd, ac fel hyn yn fuan, ni chaiff dyn cymedrol ond ychydig o drafferth gyda'i flysiâu anifeilaidd."

(3). Penderfyniad moesol. Dichon nad oes dim wedi nodweddu dynion llwyddiannus ymhob oes ac ymhob gwlad yn fwy na phenderfyniad: *cymerant fater* i ystyriaeth, meddyliant arno gyda'r fath ddwysder a phe

na bae un mater arall yn bod, pwysant yn ddiuedd y *pro and con*, cyrhaeddant gasgliad boddhaol i'w meddyliau, a gweithredant yn ei ol. Y dyn amhenderfynol, ar y llaw arall, a greda heddyw ond a amhheua yfory, ac a greda ac a amhheua yn olynol, tra bydd y penderfynol wedi cyrhaedd ei amcan. Ar faes y gwaed, nid oes un bai mwy mewn cadfridog nag amhenderfyniad; ac onid dynion penderfynol—dynion yn meddwl, yna yn credu, yna yn gweithredu,—oedd Wellington, a Napoleon? Ai nid dyn penderfynol oedd yr Hannibal hwnw a edrychai ar groesi yr Alps fel gwegi? Pwy oedd yn fwy penderfynol na Syr T. F. Buxton, a Budgett? a chymerer ein holl fasnachwyr a'n harianwyr mawrion, ac ymhob amgylchiad yn ddiffêth fe geir yr elfen hon yn gref. Pwy na wŷr am benderfyniad moesol Columbus y darganfyddwr, ac Oliver Cromwell, adferwr ein hawliau? Dywedir fod y Rothschilds yn ddiarebol am hyn, ac mai i hyn yn unig y priodolai Coutts yr arianydd ei ddyrchafiad. Yr un pryd, na thybier mai cyndynrwydd yw hyn. Y mae y fath beth a chyndynrwydd yn bod, ysywaeth; eithr tra mai penderfyniad heb reswm—penderfyniad yr asyn—yw cyndynrwydd, penderfyniad rhesymol seiliedig ar ystyriaeth fanol a difrifol yw hwn. Ac ar ol cyrhaedd y cyfryw benderfyniad, iaith y gwron yw, fel y sylwa Foster, "A ydych chiwi yn meddwl na ffeiddiwn i fabwysiadu penderfyniad yr hwn ni wnawn fy ngoreu i'w roddi mewn gweithrediad; neu, ar ol ymroddi felly gyda fy holl egnïon, y bydd i mi eu tynu yn ol drwy ddiogi, gwendid, neu wamalrwydd? neu y bydd i mi roddi fy amcan heibio er mwyn unrhyw ymyriad heblaw goruchwyliaethau anwrthwyneb rhagluniaeth? Na, yr wyf wedi fy nghylmu at fy mhenderfyniad gyda rheffynau o haiarn; fy mhenderfyniad yw fy nhynghed, ac y mae yn rhaid i mi ei gyflawni oni luddir fi gan ddrygfyd neu angeu." Bydded genych hyn, ynte, ac yn helaeth hefyd, gydwladwyr ieuainc, ac ychydig ddadl all fod ynghylch eich llwyddiant; canys y mae rhagluniaeth bob amser wedi gwobrwo yn helaeth y rhinwedd hwnw. Yr ydym yn canfod Budgett o Bristol yn llawn o hono pan nad oedd ond bachgen yn. Yr oedd wedi colli ei le yn masnachdŷ ei frawd, am nad oedd yn ddigon cryf at y gwaith. Efe a glybu fod gŵr yn Mristol ag eisieu llanc arno. Aeth ato yn ebrwydd.

"I fear you are not strong enough for my situation," ebe'r gŵr yma drachefu.

"O do try me, sir," meddai Budgett. "I am sure I can do."

"Will you write your address?"

Y gwron bychan ni wyddai ystyr y gair olaf, ond ebe fe, "I can write an invoice, sir."

"Very well; write 86lbs of bacon at 9½ per lb."

Ond efe a fethodd unwaith a dwywaith, ac yr oedd ar gael ei droi ymaith; eithr nid mor hawdd i'r masnachwr oedd hyny, canys y mae y bachgen yn daer,—*"Do let me try, sir; I am sure I can do it."* Efe a gafodd y *"try"* y crefodd am dano; ac efe a lwyddodd, ac a fu farw er ys ychydig flynyddau yn ol "yn berchen y fasnach fwyaf yn y West of England, yr hon sydd yn troi yn flynyddol agosach i filiynau na miloedd."

Nid yw yr esiampl ond un ymhlith llu; ac er na ddywedem wrth bob dyn ieuanc ymroddgar y gallai ddyfod yn dywysog mewn masnach, sicr ydyw y gallai gyrhaedd sefyllfa o "ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb mawr." Ond damwain fydd os cyfyd i hyny heb y penderfyniad moesol y

soniwn am dano. Myned pob un ddeall y pwnc yn drwyadl, a gweithreded yn gyfatebol; a thug at wneuthur hyn nis gallwn gymhell gwell, na chystal, cyfarwyddyd â thraethawd y dŵfndreiddiol John Foster ar "*Decision of Character*;" ac yn y gobaith y bydd iddo wneyd hyn, y gadawn ni y pwnc, i adael lle i sylwadau gafaelgar yr awdwr enwog hwnw.

(4). Uniondeb mewn gair a gweithred. Yn dra llithrig y dywed llawer un, "*Honesty is the best policy*," tra y mae ei ymddygiadau ef yn hollol anghyson â'i broffes. Ond y mae yr hen air yn wir er hyny; ac nid yw hyny wedi cael ei brofi erioed mor berffaith ag yn y tair blynedd diweddfaf, pan y dymchwelwyd cynifer o fasnachdai a phersonau ag yr oedd eu sail mewn anghyfiawnder. Cam ofnadwy yw'r cam blaenaf i dir twyll ac anghyfiawnder, oblegid os na lwyddir ynddo, dyna ddinystyr yr enw da oedd gan y dyn; ac os llwyddir, na feddyliet mai ennill yw y cyfan, canys y mae y llwyddiant hwnw yn arweiniad sicr i weithredoedd gwaeth, nes o'r diwedd y cyll y meddwl bron yn gwbl, os nad yn gwbl oll, y syniad o uniondeb. Ychydig sydd yn meddwl mai mwy peryglus gwaith o lawer yw twylllo eu hunain na thwylllo eu cyd-ddynion. "Mae'r dyn yna wedi eich twylllo chwi, fy arglwydd, drwy werthu i chwi am ddwy geiniog gyllell nad oedd yn werth un geiniog," ebe un wrth yr hen Esgob Latimer. "Na, na," atebai yr hen dad rhagorol, "ni thwyllodd fi, ond efe a dwyllodd ac a' wnaeth y cam gyda'i gydwybod ei hun." Nid gwaeth beth a ddywed Bartram a'i fath, y mae y nefoedd wedi trefnu nad yw "*humbug*"—darfoder ef fel y myner—i lwyddo yn y *long run*. Solomon a wyddai hyn yn berffaith pan ddywedai, "Mwy dymunol yw enw da na chyfoeth lawer; a gwell yw *ffr* dda nag arian ac nag aur." Mor ofidus yw clywed pobl yn siarad am ambell fasnachwr, "Mae y dyn yn dyweyd yn deg, pe gellid dibynu arto," ac am un arall, "Mae o yn eithaf dyn i fasnachu âg ef; y mae yn cadw eiddo rhagorol; eithr os na fyddwch dra gwylidwrus, efe a'ch twylla chwi o faer eich llygaid." Ond am un arall dywedir, "Mae'n wir ei fod yn gwerthu yn ddruod, ond chwi ellwch ddibynu ar ei air—mae'r moddion yn sicr o fod yn cyfateb i'w ddesgrifiad ef." Felly hefyd y sieryd meistri am eu gweision; os cânt allan eu bod yn berffaith uniawn mewn gair a gweithred, ymddiriedir iddynt a dyrchefir hwynt; ond un trosedd profedig o'r rheol euraidd hon a etyl am byth, yn ol pob tebyg, ddyrchafiad y troseddwr. Da y gwyddai un oedd wedi ei wreiddio mewn twyll werth enw da pan ddywedai wrth ŵr enwog am ei onestrwydd, "Mi a roddwn ddeng mil o bunnau am eich enw da chwi." "Paham?" meddai y llall. I'r hyn yr atebai y twyllwr, "Am y gallwn ennill ugain mil drwyddo." Gwneled pob dyn ieuanc hyn yn rheol. Gwrthoded ddywedyd celwydd, na gwneuthur anghyfiawnder, ar gais ei feistr na neb arall. Nid yw yn debyg y cyll ei le am hyny, canys y ffaith yw mai dyna y dynion a brisir; eithr ar y dybiaeth y cyll ei le, y mae profiad dynolryw yn ein dysgu, yn iaf, Mai un canolig raid fod y meistr a wna anghyfiawnder a thwyll yn ammod bendant ei wasanaeth; ac yn 2il, Fod rhagluniaeth bob amser yn gofalu am yr uniawn; a gallwn ddywedyd, nid yn unig gydag Arglwydd Russell, "May God defend the right," ond ymhellach, "God *does* defend the right." Ac er y gall y llwybr ymddangos yn dywyll yn fynych pan saif gŵr ieuanc dros uniondeb, eto fel y dywed Solomon ar y mater, "Cyfiawnder y perffaith a uniona ei ffordd ef; ond o achos ei ddyrgioni y syrth y *drygionus*." Gwrthod cydsynio âg anghyfiawnder ei feistr oedd y

cam pwysig cyntaf yn nyrchafiad Jean Baptiste Colbert; ac er i'w wrthodiad fod yn werth ei le iddo, eto bu yn foddion uniongyrchol i'w osod ar y ffordd i ddyfod yn un o brif gynghoriaid Louis XIV., breuin Ffrainc. Nis gallwn droi oddiwrth y mater yma heb ddyfynu y sylwadau canlynol o eiddo Elizabeth Fry, "Y mae y rhai hyny sydd yn cyflawni eu dyledswydd gydag uniondeb, yn gwasanaethu eraill gystal a hwy eu hunain, ac yn gwneyd mwy o wir les i achos crefydd, nag wrth dalu sylw mawr i'r hyn a feddylia neu a wna eraill. Yr wyf yn meddwl yr arweinia cydwytbod ni weithiau i feddwl dros eraill, ac i beidio gwneyd dim ag a fydd yn wir niwed i frawd gwan; ond yr wyf yn credu mai anfynych y caem ein bod yn dolurio y rhai hyny ag y byddai eu barn o werth genym, pe cadwem yn gyson â'r tyst sydd yn ein calonau ein hunain. Pe bawn i ar fedr gwnethur peth, mi a ymdrechwn gael allan pa un a oedd yn ymddangos i mi mewn unrhyw fodd yn ddrwg, a pha un a deimlwn i yn rhydd i'w wneuthur; gan edrych yn ddirgel am gymhorth i'r man lle y mae i'w gael, ac yno, mi a gredaf, y gadawn ef; a phe bawn yn cael fy arwain i weithredu yn wahanol i rai, mi a fyddwn, o debyg, yn gwneyd mwy o les i gymdeithas, nag wrth gydymffurfio yn unig er mwyn eraill; canys pe bawn yn cael fy nghadw yn llwybr uniondeb mewn pethau eraill, dangosai hyny, mewn amser, *beth oedd gwreiddyn* y gweithred oedd hyny."

(5). Ffyddlondeb diball. Y mae gan bob gweinidog gyfleusdra parhâus i ddangos ei ffyddlondeb; a diau fod mwy o bwys yn hyn nag y meddyfyr yn gyffredin. Nid yn unig y mae y Gair Dwyfol yn gorchymyn fod pa beth bynag yr ymeisf i llaw ynddo i'w wneuthur, i gael ei wneuthur â'r "hoff egni," fod y diwydrwydd i fod "nid yn ddiog," fod y gwasanaeth i ddynion i fod, nid yn "llygad wasanaeth,"—ond y mae synwyr cyffredin, a phrofiad dynolryw, yn profi mai y dynion ffyddlawn yn unig a ddyrchefir. Camgymeriad yw tybied fod eisieu cyfleusderau mawrion er mwyn dangos ffyddlondeb. Na, y mae y rhinwedd hwn, fel yr oll, yn wir, o rinweddau ein crefydd, yn cael ei amlygu yn llawn mor fanteisiol mewn pethau bychain. Y rheol ddynol, fel y ddwyfol, yw, Buost ffyddlawn mewn ychydig, ac fe'th osodir ar lawer. "Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth;" a'i gweithred, er mor fechan, a gofnodir er esiamp i ni, fel y gwypom mai nid maint y weithred, ond purdeb y dyben, yw y pwnc pwysig. Ac os ydyw ieuencyd Cymreig trefydd Lloegr am gael eu dyrchafu i sefyllfaoedd uchel a dylanwadol, rhaid iddynt gofio mai elfen anheborol yw ffyddlondeb.

(6). Tymher ac ymddygiadau caruaid ac ennillgar. Y mae ein cenedl ni wedi cael y gair—a hyny yn gyfiawn, i fesur mawr—o fod yn ddiffygiol iawn mewn moesgarwch; rheol yr hyn rinwedd ydyw, "Nad oes i un dyn roddi y flaenoriaeth iddo ei hun." Y mae y Ffrancod ac eraill o genedloedd y Cyfandir, yn treulio amser maith yn feunyddiol mewn moesgyfarchiadau, ac y maent, feddylieim ni, yn dilyn hyny yn aml hyd ynfydrwydd. Nid oes genym fydd mewn rhyw swy na mwy o ymgrymu a gwenu, canys llawn o dwyll ydyw llawer gwen deg a geir. Cyflwr afiach iawn ydyw hwn; a dylid ei ochel fel pla; oblegid y mae yn achles i anffyddlondeb a rhagrith. Eithr y mae lle canol rhwng ffurfioldeb gwasaid y Ffrancwr, a dull diystyrlyd ambell Gymro; a thra y mae gwir foneddigrwydd yn aubibynol, y mae hefyd yn garuaid ac yn hawdd ei thrin. "*Perchwech bawb*," ydyw y rheol ddwyfol ar hyn o bwnc; ac felly y sylwa y Parch. Henry Rees o Llynlleifiad yn ei draethawd galluog ar "*Bwysigrwydd ymarferiadau*"

da,"* yr hwn draethawd a wna'i lesdirfawr i aml ŵr ieuanc o Gymro yn ngwlad y Sais,—“Nid talu rhyw addoliad i fawredd y byd, ond parchu dyn fel y cyfryw, y crëadur a fawrhäodd Duw mor rhyfedd—ac felly parchu pob dyn: dyma y *politeness* y mae yr efengyl yn ei ddysgu i blant dynion. Ychydig, mae lle i ofni, ydyw ei hysgoleigion hi. Ond pwy bynag wyt ti, ddarlleneydd, a pha beth bynag yw dy amgylchiadau, cofia fod gan dy gyd-grëadur ymhob sefyllfa—y tlawd yn gystal a'r cyfoethog—dy deulu cystal ag estroniaid—hawl i fwyneidd-dra tymber, ac ymddygiadau parchus, oddiar dy law. Hwyrach y dywedir wrthym fod naws ei dymherau a'i ysbryd yn bethau annibynol ar ewyllys dyn; a bod yr un mor ofer dyweyd wrtho am fod yn llon, hoffus, a charuaid, ag a fyddai dyweyd wrtho am fod yn iach neu yn llwyddiannus. Ond ni a wyddom fod y Bibl yn dysgu yn amgenach. Mae efe yn gorchymyn y pethau hyn i ni, ac yn gwahardd y gwrthwyneb; mae yn siarad â dyn fel crëadur cyfrifol yn yr achos yma—yn un â meddiant ganddo ar ei ysbryd ei hunan—ac un a ddylai, trwy ras Duw, geisio ei adnewyddiad ef.”

Dyna a ddywedir genym ar yr elfenau moesol sydd yn anheborol er cyrhaedd “sefyllfäoedd o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb.” Yr ydym yn drwyadl ffyddiog yn eu heffeithioldeb; ac yr ydym yn credu nas gellir esgeuluso yr un o honynt heb beryglu y sefyllfa oreu. Da fyddai i ddynion ieuainc gofio bob amser mai enaid gwir sawredd ydyw cymeriad; ac mai eithriadau yw y dynion sydd yn cael eu gosod ar binaclau uchaf cymdeithas heb gymeriad. Gofaler, gan hyny, am feithrin y rhinweddau hyn, ac yna bydd ein brodyr nid yn unig yn ennill anrhydedd a dyrchafiad iddynt eu hunain, ond yn adlewyrchu eu clod eu hunain ar “Gymro, Cymro, a Chymraeg.”

2. *Pen clir*, neu ddeall da, yw yr elfen nesaf anheborol i lwyddiant. Y mae yn hawdd iawn i ni fel cenedl fostio ein bod yn ogyfuwch â'r Saeson mewn addysg; ond y mae yr haerriad hwn yn tarddu yn fynych o'r ffaith nad yw y rhai a'i gwnant yn gydnabyddus â'r Saeson. Nid ydym yn dywedyd fod dosbarth isaf y Saeson yn uwch na'r dosbarth isaf yn Nghymru, o ran manteision addysg; ond hyn a wyddom sydd ffaith, fod y dynion ieuainc o Saeson ag y rhaid i'r Cymro ieuanc ymgystadlu â hwy yn masnachdai Lloegr, wedi cael gwell manteision o lawer nag un o bob deg o'r Cymry sydd yn gadael eu gwlad; a thra y mae y Cymro ieuanc yn wylaidd hyd at fod yn ofnus, y mae y Sais, fel effaith ei addysg foreuol, yn meddiannu ei ysbryd, ac yn berffaith ddigyffro. Nid ydym yn dywedyd nad oes llawer o eithriadau ar y naill ochr a'r llall; ond y mae profiad yn ein rhwymo i ddal mai dyna y ffaith yn gyffredinol. Anfantais fawr yw hyn mewn masnach; oblegid y mae pawb, er yn casâu eöfndra, eto yn caru ymwneyd â'r dyn sydd yn gallu ymsymud yn rhydd. Mae yn wir fod yr anystwythder hwn yn colli gydag amser, a bod y Cymro yn gallu ymgystadlu hyd yn nôd yn hyn gyda'r Sais; eithr priodol ydyw i'r Cymro ddeall fod y fath beth yn bod, fel y gallo ei ddwygio.

Y mae dau ddosbarth yn dyfod yn barhäus o Gymru i Loegr. Un dosbarth yw y llanciau ieuainc sydd wedi derbyn manteision boreuol da, ac yn bwriadu dychwelyd i'w gwlad eu hunain ar ol y gwelont arferion masnachol, neu y treuliont ychydig flynyddau yn athrofeydd neu feddygdai y Saeson;

* TRAEHODYDD, 1867.

a'r dosbarth arall yw y llanciau ieuainc sydd, ar ol cael addysg foreuol gan-olig, yn cyrchu i Lundain neu Fanchester i chwilio am fywioliaeth; megys y lliaws siopwyr, er enghraifft. At y dosbarth olaf y rhaid i ni gyfyngu ein hunain yn y sylwadau canlynol.

Gwaith ofer holloll fyddai i ni ddyweyd dim am yr anghenrheidrwydd am ddeall da—am addysg dda—ac am wybodaeth eang, wrth Gymry ieuainc Lloegr, oblegid y maent bob dydd yn cael gwrs fil mwy effeithiol nag a ellir roddi ar bapwr. Dygwyydem fod yn siarad yn ddiweddar gyda Chymro ieuanc o Ddeheubarth Cymru, yr hwn a ddaeth i'r brifddinas i'w berffeithio ei hunan yn ei gelfyddyd, a'r hwn a gyrhaeddodd yn fuan sefyllfa wech yn un o'r masnachdai mwyaf cyfrifol; a'i iaith oedd, na chafodd ef erioed gystal gwrs ar werth addysg ag a gafodd yno—a'i fod yn fynych, wrth weled y cyfseuderau gwyich i ddyrchafiad a gollai ef oblegid diffyg dysg, yn ymddigio o eigion ei galon wrth ei rieni am eu hesgeulusdra. Eithr ni a wyddom fod y dyn ieuanc hwn wedi derbyn gwell manteision boreuol na 6 o bob 7 o'n cydwladwyr sydd yn cyrchu i Loegr. Y fath anfanteision i ddyrchafiad a gafodd y diweddar John Williams, A.S. dros Macclesfield, ac eto efe yn wrol a'u gorchfygodd drwy ymroad; a'r fath anfanteision i ddyrchafiad gafodd yr aelod presennol dros Lambeth, William Williams, Ysw., ac eto efe a'u gorchfygodd, ac a ennillodd iddo ei hun yn ein Senedd enw bron cyffelyb i eiddo y diweddar Joseph Hume. Ond y peth cyntaf yn hanes dyrchafiad y ddau Gymro yma ydyw eu hegri i barotôl i hunain yn feddylol at y sefyllfa y mynent ei chyrhaedd. Canfyddodd yr olaf y byddai gwybodaeth drwyadl o'r Ellmynaeg o wasanaeth iddo, o bosibl; ac nid hir y bu cyn cael drwy hyny sefyllfa ag oedd yn werth £500 yn y flwyddyn. Mae yn y brifddinas yn awr ŵr ieuanc o Sir Drefaldwyn ag a ddysgodd y Ffrengaeg er mwyn gwell sefyllfa; ac efe a lwyddodd; ond ar ol myned ymlaen yn llwyddiannus am dymmor, un o'r meistri a ddywedai wrtho fod yn rhaid iddynt hwy gael dyn yn deall y *German* yn gystal â'r *French*; yntau pan glywodd hyn a lwfrhodd, ac a benderfynodd yr ai i Awstralia; eithr ei feistr a'i hadwaenai yn dda, ac a'i cymbhellodd i ddyngu yr Allmaenaeg; efe a wnaeth hyny; a'i hanes heddyw ydyw, ei fod yn un o'r *firm*. Myned y Cymro ieuanc, gan hyny, gymhwysdara deallol, ac ymroed i wneuthur i fyny am golladau ei febyd.

Eithr y mae un cyfarwyddyd cyffredinol yn anheborol yn y fan yma. Wrth ddarllen hanes yr *evening classes* ag y mae rhai o'r colegau yn eu cynnal yn awr er mwyn gwyr ieuainc sydd drwy'r dydd gyda'u masnach, y mae yn ymddangos i ni fod perygl i'w hamser gwerthfawr gael ei ofera i fesur helaeth, drwy iddynt efrydu gwybodaethau ag a fyddant, mewn cymhariaeth i rai a esgeulusir, yn anfuddiol iddynt. Eithaf peth fydd i'r dyn ieuanc sydd yn bwriadu treulio ei oes gyda'r "maes a'r fasnach" allu darllen y Testament Groeg, os na bydd wrth roddi ei amser at hyny yn esgeuloso rhyw wybodaeth sydd yn bwysicach ac yn dwyn mwy o berthynas â'i sefyllfa ef: eithr na thybier mai llefaru yn erbyn y *Testament* yr ydym, wrth siarad fel yna am efrydiad y *Testament Groeg*, oblegid dau beth tra gwahanol ydynt; efe a all gael y *Testament* yn iaith ei fam, a'i ddarllen i fuddioldeb fil mwy nag yn yr iaith wreiddiol, hyd yn nôd ar ol treulio blynyddoedd meithion o ddygn durio ar ol yr hen wreiddiau Groeg. Myned y pethau anheborol i'w wneyd yn ŵr perffaith a chyflawn yn ei gylch priodol ei hun; ac yna, os mlyn, efe a all ymyrhaedd ar ol addurnu

iadau. Da fyddai i'n cydwladwyr ieuainc gofio mai nid bod yn ddysgedig yw bod yn wybodus; mae llawer dyn dysgedig mewn dwy neu dair o ieithoedd, ac yn gallu gosod urdd-lythyrenau ar ol ei enw, heb fod yn ddyn gwybodus; ac ar y llaw arall, y mae llawer dyn digon annysgedig mewn un iaith heblaw y Gymraeg a'r Saesoneg, yn ystordŷ o wybodaeth. Yr ydym wedi dewis y Testament Groeg fel enghraifft, nid am nad oes eraill lawer, ond fod yr enghraifft yn un eithafol, ac yn gosod allan ein meddwl yn rhagorach nag un arall y gallem feddwl am dani.

Fe allai y dywed rhyw ysbryd barddonol iawn wrthym, ein bod yn diraddio dysgeidiaeth a gwybodaeth wrth eu dwyn yn wasanaethgar, yn y lle blaenaf, i gyrhaedd bywioliaeth; ac y dylent gael eu herlyn a'u caru er eu mwyn eu hunain, ac nid er mwyn budr-elw. Yn awr, yr ydym yn cytuno gyda'r cyfaill tyner hwn yn gwbl yn y syniad fod gwybodaeth yn deilwng ynddi ei hun, yn annibynol ar bob elw a ddeillia oddiwrthi. Eithr yn gymaint a'n bod yn ddynion yn meddu cylla i'w ddiwallu, a chorff i'w wisgo, a lliaws o fân-gostau eraill yn perthyn i ni; ac yn gymaint a bod cyrhaeddiad yr anghenrheidiau hyn yn dibynu yn fawr iawn ar ein gwybodaeth; onid doeth—onid amlygiad o'r synwyr cyffredin goreu—ydyw mynu gwybod y pethau mwyaf anghenrheidiol gyntaf? ac yna, os bydd amser yn caniatáu, mynu gwybod a deall rhywbeth ymbellach wed'yn? Os bydd y llanc mewn sefyllfa ag y bydd *French*, neu *German*, neu *Spanish*, mewn posiblwydd o fod o wasanaeth ynddi, dysged hwy; ond os na bydd mewn sefyllfa felly, nac ymboened gyda hwy, canys y mae pethau eraill ag a fyddent yn fwy buddiol iddo. Nid yw yn ddichonadwy i ddyn ieuanc wybod y "dirgelion oll;" ac ar ol iddo ymboeni mewn "brys oriau hwyr a boreu," bydd aneirif bethau, fel y sylwodd yr hen fardd craffus Shakspeare, yn y nefoedd uwch ei ben, gystal ag yn y ddaear dan ei draed, na freuddwydiodd ei philosophi ef erioed am danynt; ac o ganlyniad, onid doeth ynddo fyddo troi ei sylw at y pethau mwyaf buddiol? Y mae ein hoes fel pe bae yn meddwl fod pawb i fod yn ddysgedig yn ystyr gaeth y gair. *Bosh!* Dynion cyflawn—*well-informed*, ys dywed y Sais—yw y dosbarth ag y mae angen am danynt. Ofnwn y bydd llawer dyn ieuanc yn tybied ein bod yn camsynied yn y sylwadau hyn. Yr ydym ni, fodd bynnag, yn meddwl yn wahanol; a'n cyngor i bob Cymro ieuanc yn nhrefydd Lloegr ydyw,—Dysgwch yn yr *evening classes* y pethau mwyaf defnyddiol i ddechreu; mynwch wybod y rhai hyn yn *drwyadl*; mynwch ddeall y byd yn drwyadl yn ei ddaearyddiaeth, yn ei hanes, ac yn enwedig yn eich eylch eich hunain. Maesydd eang yw y rhai hyn, ac eto nid ydynt ond y pethau anghenrheidiol i chwi; ac ar ol gwneyd hyn oll, os bydd genych amser pellach—chwi fyddwch un o ddeng mil, os bydd—gallwch feddwl am yr addurniadol mewn gwybodaeth. Y mae diwylliad priodol y meddwl at fasnach yn y dyddiau hyn, yn gofyn am lawer iawn o ddarllen; ac yn hyn nis gallwn lai na chanmawl ac argymhell cyfarwyddyd Barnum, "Nac aed diwrnod heibio heb i chwi ddeall hynt pethau yn y newyddiadur."

"Mi wyddwn i am y peth yna oll o'r blaen," medd ambell frawd ieuanc. *Furion*: yr hyn sydd a fynwyf â chwi yw eich cadarnhau yn yr hyn a wyddech—eisiau i chwi gadw mewn côf sydd arnaf mai gwybodaeth ag a fydd o wasanaeth i chwi yw yr un y dylech ei cheisio. Y mae eich manteision i hyn yn fawrion; ac oni bydd i chwi eu defnyddio, yr ydych yn troseddau yn erbyn eich hunain, ac yn erbyn eich cenedl. Fel y gwyddoch, yn

ddiau, tuedd eich hoes yw bod yn *smatterers* mewn gwybodaeth—gwybod ychydig yn arwynebol am ddeg neu ddeuddeg o hethau, tra y byddai yn anhraethol well i'w meddyliau eu hunain wybod tpi o honynt yn drwyadl. Gochelwch hyn, ynte. Ac os bydd yn waith rhy anhawdd i chwi benderfynu eich hunain at beth y dylech roddi eich oriau hamddenol, ewch at yr call ag y bydd genych ymddiried yn ei farn, ac un ag a fyddo yn eich adnabod, a cheisiwch ganddo ef eich cyfarwyddo. Mynwch wybod hanes y dynion hyny sydd wedi cyrhaedd, dan anfanteision mawrion, swyddi o ymddiried a dylanwad. Astudiwch yn fanol gymeriad Fowell Buxton yn narlith Mr. Binney, a chymeriad Budgett yn "*Successful Merchant*" Mr. Arthur, a chraffwch ar y llinell oedd yn rhedeg drwy hanes y ddau. Gwir philosophi y pwnc yn cael ei osod o'ch blaen mewn esiamplau, yw hanes dynion o'r fath. Ac ni raid i chwi gyfyngu eich hunain at y marwolion, canys diau genyf fod dynion byw o'ch cwrpas ag sydd yn hollol deilwng o gael eu hefelychu genych.

Eithr dylid dywedyd gair ynghylch y cymdeithasau llényddol Cymreig sydd yn cael eu sefydlu gan Gymry ein trefydd mawrion. Ai buddiol i'r Cymro ymgadw at y Gymraeg? Ai nid anhraethol well fyddai iddo ei hanghofio yn llwyr—peidio gwrando pregeth Gymraeg—na darllen llyfr Cymraeg mwyach; ond gosod ei fryd ar fod yn Sais da? Y mae llawer o ddynion call yn barnu mai cyfnod marwolaeth yr hen iaith fydd cyfnod ein gwir ddyrchafiad cenedlaethol. Dynion *call* a ddywedasom—ond nid *call* yn hyn o bwnc, er eu bod yn ddifai mewn pethau eraill. Mae genym fel cenedl serch dwfn at ein hen iaith, ac ofer ceisio genym ei hanghofio, a'i throi dros y trothwy yn awr yn ei hen ddyddiau, ar ol iddi ein gwasanaethu cyhyd. Iâ, hen ac anrhydeddus ydyw hi: mae hi yr un yn awr â phau y prophwydodd Myrddin, yr ysgrifennodd Gildas, ac y canodd Golyddan; hyhi, o holl iaithoedd presennol cyfandir Ewrop, yw yr unig un a siaredid yn nechreu y cyfnod Cristionogol; ein beirdd, yn eu tanlyd serch ati, a'i galwent yn "iaith nwyfant, iaith y ufoedd," "iaith Eden," "iaith y duwiau," ac yn eu barn hwy pan seinid udgorn y dydd olaf, yr Archangel a gyhoedda—

" * * Uwch Gymru ei gân—yn Gymraeg.
Ei chu, a'i henaeg wech ei hunan."

Ac eto, y mae rhai mor ffol a cheisio genym ei gosod fel hen ddilledyn difudd o'r neilldu. Yr ydym yn ateb y cais afresymol drwy ddywedyd, yn y lle cyntaf, Nis gallwn ei hanghofio; ac yn ail, Nid yw ei chofio a'i defnyddio yn un rhwystr—ddim yn filiwnfed ran o rwystr—ar flordd dyrchafiad. Eithr y mae yn rhaid dysgu Saesoneg, a hyny yn dda; gofalu am ddigon o'r iaith, a chynaniad priodol o'r geiriau. Dylai ein gwyr ieuainc roddi y sylw manylaf i'r mater hwn. Nid yw yn orchwyl annichon iddynt; canys clywsom iaithwr o brif fri ymysg y Saeson yn dywedyd fod rhai o siaredwyr a chynanwyr goreu y Saesoneg yn Gymry; a chyda llyfrau diweddar y Dr. Trench, y mae y Saesoneg yn gyrhaeddadwy yn hawdd. Rhodder pob egni, gan hyny, i ddygu Saesoneg yn dda; ond coledder y Gymraeg. Dymunem beidio cael ein camddeall wrth ddywedyd fod yr ysbryd cyfansoddi barddoniaeth a rhyddiaith sydd yn awr yn disgyn ar ieuentyd ein gwlad, yn beth peryglus. Lliaws o honynt a esgeulusant eu galwedigaeth er mwyn bod yn feirdd neu yn draethodwyr, ac y maent yn fuan yn cael allan na fwriadodd Rhagluniaeth erioed iddynt fod y naill na'r llall. Ein cyfarwyddyd ar hys.

bwnc yw. Ymgynabyddwch yn dda â'ch iaith a'ch llênnyddiaeth; cyfarfyddwch â'ch gilydd i ymgomio ar y pethau hyn; ond er dim na thybiwch fod yn rhaid i chwi fod yn gyfansoddwyr tuag at fod yn wŷr cyflawn a gwybodus; oblegid y ffaith yw, fod lliaws mawr o'r dynion na chyfansoddasant erioed bennill na thraethodyn yn amgenach dynion o ran gwybodaeth na llawer un sydd yn gallu cyfansoddi yn wych. "Nid bardd ond a enir;" ac os bydd yn och chwi deimlad cyffelyb i'r hwn oedd yn Elihu mab Barachiel y Buziad; os "llawn geiriau" fyddwch, os gallwch ddywedyd, "Y mae yr ysbryd sydd ynof yn fy nghymhell i," a "Dywedaf, fel y cafwyf fy anadl," yna ymröwch ati, a chwi a lwyddwch, canys bydd Rhagluniaeth yn eich cynnal ar lwybr eich dyledswydd. Eithr oni bydd y cymbellion yn gryffon, y tebyg yw y bydd i chwi fethu yn eich amcan i fod yn gyfansoddwr, ac y bydd i'r sylw a roddwch at hyny eich hanghymhwyso at eich galwedigaeth. Yr ydym yn dywedyd drachefn, Mynwch wybod beth a alloch wneuthur oreu, a gwnewch y peth hwn yn dda. Ac os dygwyrdd i chwi fod yn un o'r dosbarth helaeth hwn sydd heb duedd benodol at unpeith fwy na'r llall, yna ymegniwch i lanw y cylch eich gosodwyd ynddo gan rieni neu Ragluniaeth—ei lanw yn dda, cofiwch; ac yna ond odid fe ofala Rhagluniaeth i'ch gwobrwyo am eich fyddlondeb.

Wrth adael y rhan hwn o'r pwnc, nid oes genym ond dywedyd mai ein hamcan oedd rhoddi cyfarwyddiadau ymarferol—cyfarwyddiadau ag y gall pob Cymro eu dilyn, os myn. Gan mai ar y ddaear yr ydym yn byw, anghenrhaid sydd arnom i beidio rhoddi ffrwyn i'n dychymygion yn ormodol, a thybied fod rhyw lwybr breiniol i ddyrchafiad. Y mae yn rhaid llafurio yn ddyfal—ond rhaid llafurio hefyd yn yr iawn gyfeiriad cyn y cyrhaeddir y nôd y dylai pob dyn ieuanc osod iddo ei hun; ond gan fod eraill wedi ei gyrrhaedd drwy ddyfalwch, dilyner ôl eu traed hwy.

3. *Llaw ddiwyd.* Yr ydym hyd yn hyn wedi traethu am y rhinweddau moesol hyny sydd yn anheggorol i lwyddiant, ac am yr addysg oreu i Gymry ieuainc Lloegr; gan ymwneyd felly â'r elfen foesol, a'r elfen ddeallol, sydd yn anheggorol i lwyddiant bydol. Eithr heb lafur—heb ymegniad parhâus gyda'r llaw gystal â'r pen—ofer fydd y cyfan. Ein gorchwyl nesaf, gan hyny, yw dywedyd rhywbeth am yr elfenau raid fod yn perthyn i'r dyn ieuanc yn ei berthynas â'i lafurwaith.

(1.) Byddwch feistr ar eich gwaith eich hunan. "Ni a gynghorem ddyunio ieuainc," medd Mr. Rees yn ei ddarlith, "yn neillduol i berffeithio eu hunain yn eu galwedigaeth. Mynwch ragori yn hono, pa fodd bynag. Mae eich llwyddiant dros eich einioes, eich cysur chwi eich hunain, a chysur eich teuluoedd, yn ymddibynu ar hyny. Mae yn gofus genym glywed am ei gydgrefstwy'r yn gofyn i un dyn rywbryd, 'Pwy a ddywedodd wrthyti ti, hwn a hwn, dy fod yn saer?' Os gofyn neb felly i'r un o honoch chwi, bobl ieuainc, yr ydym yn gobeithio y byddwch chwi yn abl i ateb drwy ofyn yn ol, a hyny gyda dewrder hefyd, 'Pwy a ddywedodd! "Dyn a adwaenir wrth ei waith." Mae y dodrefnyn a wnaethum i yn dyweyd fy mod i yn saer, neu mae yr esgid a wneis i yn dyweyd fy mod yn grydd. Pwy a ddywedodd! Edrychwch ar y wisg a gywreinais i, yr hon sydd megys wedi tyfu ar gefn fy nghwsmer; onid yw hon acw yn dangos fy mod i yn grefstwr a fedr fficio y dilledyn a wnelwyf i'r edefyn?' Mae bod fel hyn yn feistr ar ei waith yn werth mawr i ddyn. Er iddo fod yn was i bawb, *eto fe deimla dyn felly na bydd gofal arno rhag neb; waith mae yn gwybod*

mai digon iddo ef ydyw ei ddoethineb a'i ddiwydrwydd ei hunan, a'i fod, yn ei le, o gymaint o werth i gymdeithas, ag ydyw cymdeithas iddo ef. Ni a gynghorem bobl ieuainc yn neillduol i gymeryd y rheol hon iddynt eu hunain. Na feddyliwch fod eich sefyllfa yn y byd, beth bynag ydyw, yn caniatáu i chwi fod yn anghyfarwydd yn nyledswyddau bywyd. Mae arferiad ynddynt mor anhebgorol i'r neb sydd i'w harolygu ag i'r neb sydd i'w cyflawni." Y mae gwirionedd y sylwadau yna yn gorwedd yn am-lwg i bawb ar eu gwyneb; a diau mai penderfyniad y Cymro ieuanc sydd am gyrhaedd dyrchafiad, ddylai fod, cyflawni ei orchwyl presennol, nad pa mor ddistadl, yn y modd goreu, oblegid nid yn gyffredin y ceir fod y dyn sydd yn wael ac yslyfeinllyd gyda'i orchwyl beunyddiol, yn gwella er cael o hono sefyllfa uwch. Yn masnachdai mawrion Budgett, nid oedd dim yn anhwluso y meistr yn fwy na chansod dyn yn cyflawni ei waith yn anghelfydd, a'i arfer oedd cerdded i fyny at y cyfryw un, cymeryd ei orchwyl o'i law, a'i gyflawni ef ei hun o flaen ei lygaid. Yn awr, afresymol yw tybied mai gweinidog felly a gai y cynnyg cyntaf ar ddyrchafiad; canys y mae pawb yn caru gwneyd cymwynas felly gyda'r dyn sydd yn deilwng, ac wedi llanw ei swydd flaenorol yn dda.

(2.) Gweithgarwch sydd elfen anhebgorol arall. "Llaw ddiwyd a gyfoethoga." Mae yn bosibl i ddyn fod yn alluog i wneyd ei waith yn wych, heb fod yn ddyn gweithgar; eithr yn gyffredin, fe geir y dyn medrus yn ddyn diwyd hefyd. Bai niweidiol iawn i ddyn ieuanc yw segurddod, canys y mae yn riant i gynifer o ddrygau eraill, ac y mae yn cael ei ystyried ymhob masnachdŷ fel rhwystr anorfod i ffyniant y seguryn. Budgett, wrth ganfod un dyn ieuanc yn ei fasnachdŷ yn segura am bum mynyd, a aeth i ffyru ato, ac a ddywedai, "Yn awr, fy nghyfaill, nid yw y pum mynyd a gollir genych chwi fawr o beth; ond y mae y dwylaw yn lliosog; mae eich esiampl chwi yn debyg o ddylanwadu ar eraill; a thwybiwch fod agos i ddau cant o bobl yn colli pum mynyd bob dydd am fwyddyn, byddai y golled yn bwysig iawn i ni fel meistri." Wel, dyna yr olwg a gymerir gan fasnachwyr ar y pwnc hwn, ac y maent oll yn ysgwyd y seguryn ymaith mor fuan ag y gallont.

(3.) Dyfalbarhâd sydd rinwedd arall. Y mae dyfalbarhâd yn perthyn yn agos i weithgarwch ar y naill law, ac i benderfyniad moesol ar y llaw arall; ond nid y naill na'r llall o honynt ydyw ef. Llauer o rwystrau a gyfartyddant â'r dyn sydd am ddyrchafu ei hun; ond er y cwbl, y mae ef yn *dal ati*, fel y dywedir. Aml y cyferfydd âg ef bethau a ddigalonent ddyn cyffredin; ond ei arwyddair ef ydyw, *dal ati!* Yn fynych—fynych, bydd y llwybr o'i flaen yn dra thywyll, a'i galon ar ballu yn yr ymgyrch; ond llais o'i sewn a sibrdw, *dal ati!* Hawdd iawn fyddai i ni lanw tu dalen ar ol tu dalen gyda hanes y rhai a ddyrchafwyd i sefyllfâcedd uchel mewn bywyd drwy eu dyfalbarhâd eu hunain. Gellid dangos fel yr oedd Rothschild, tywysog y goludogion, unwaith yn prynu *prints* yn Manchester;—fel yr oedd Syr Robert Peel y cyntaf, yr hwn a fu farw yn aelod seneddol, ac yn feistr ar 15,000 o ddynion, unwaith yn weithiwr ei hunan;—fel y daeth Budgett mewn deng mlynedd ar hugain, o fod yu was yn siop ei frawd, yn berchen y fasnach fwyaf yn y West of England;—fel y daeth ein Prif-farnwr, Arg. Campbell, o fod yn Ysgrifenydd y Tŷ Cyffredin, i lanw y swydd gyfreithiol uchaf yn y deyrnas;—fel y dyrchafwyd John Williams (Macclesfield), William Williams (Lambeth), o sefyllfâcedd isel iawn i fod yn aelodau seneddol, drwy eu diwydrwydd a'u dyfalbarhâd eu hunain;—fel y dyrchafwyd un o

asglodau diweddar Sir Aberteifi, John Lloyd Davies, o sefyllfa wael ddigon yn Aberystwyth, i gynnyrcholi y bwrdeiswyr yn senedd ei wlad;—fel y dyrchafwyd Enoch Gibbon Salisbury, Ysw., A.S. dros Gaerlleon, o amgylchiadau cyffredin, yn gwbl drwy ei ddyfalbarhâd;—hawdd fyddai enwi lliaws eraill o Gymry Lloegr ag a fuont yn wroniaid cyffelyb; ond nid oes eisieu, ni a gredwn, i ni fanylu ar bwnc ag y mae cynifer o brofion o hono yn dyfod yn barhaus dan sylw pob dyn meddylgar. Yn unig, ni a ddywedwn wrth ein cydwladwr ieuanc, “Dos, a gwna yr un modd.”

(4.) Manylrwydd a threfn, ydynt elfenau ag y rhaid eu meithrin yn ofalus. Mae gwahaniaeth mawr rhwng dynion a'u gilydd yn hyn. Cyt-tunwch gyfarfod âg ambell un ar awr benodol, y mae ef yn sicr o fod ddeng mynyd ar ol yr amser: nid oes dim manyldeb yn ei gyfansoddiad. Cewch ddyn arall drachefn yn annhrefnus ymhob peth a wnel, a rhyw anghaclusrwydd yn nodweddu ei holl weithrediadau. Yn awr, dinystr masnach yw ddiwyg y ddwy elfen yma; ac os gellir ymddyrchafu yn uchel er hyn oll, gallwn benderfynu mai eithriad yw y cyfryw ddyrchafiad. Y rheol yw, fod ffyniant mewn masnach yn beth annichon heb fanyldeb a threfn. Wrth sisrad gyda chyfaill am un o'i wasanaethwyr, meddai Budgett, “He is a truly valuable fellow—always punctual, always correct; call for that man's books at any moment, you wo'nt find a figure unposted; and he is accurate to a stroke of the pen; why you wo'nt find an *i* undotted; what is more, he is a good man—indeed you always find the two things go together.” Y mae y dystiolaeth yna yn bwysig, yn gymaint a'i bod yn dyfod oddiwrth ddyn ag a ellir ystyred yn cynnyrcholi yn deg syniadau ein prif fasnachwyr ar y mater yma; ac os myn dyn ieuanc ragori a chael ei ddyrchafu, y mae yn rhaid iddo gyflawni yr ammodau a ystyrir yn anghenrheidiol gan y rhai a allant ei wthio yn y blaen.

(5.) Callineb mewn trefniadau cymdeithasol sydd bwnc arall teilwng o ystyriaeth pob dyn ieuanc sydd am ymgodi yn y byd. Dylai pob dyn ddeall bryd y gall yn gyfleus gymeryd ar ei ysgwyddau ofal teulu, olegid argyhoeddedig ydym, er cymaint a ysgrifear ar hyn, nad oes un reol yn bôd ag sydd yn cyfateb i bob amgylchiad. Yn unig ni a awgrymem na ddylai y dyn sydd am ymgodi gymeryd arno ei hun *faich*. Eithr yr ydym yn gadael y mater yma, heb ond ei enwi, at sylw a challineb pob person ar ei ben ei hun. Y mae brys annoeth yn hyn yn fynych yn atalfu bwysig i ddyrchafiad.

(6.) Cynnildeb sydd rinwedd arall i'w feithrin, os mynir ymgodi. Y mae gwastraff ar amser ac ar arian yn groes i reswm a chrefydd; ac y mae sylw yn dysgu i bawb fod afwyddiant yn dilyn gwastraff. Rhyw feddwl diofal yw y meddwl gwastraffyd, ac nid yw yn iawnbrisiu dim gymaint ag i ymdrafferthu i'w gyrhaedd. Na feddylier mai gwastraff yw cyfranu i'r rheidus: na, na, “benthg i'r Arglwydd,” perchen pob peth, a rhoddr daioni, yw; a'i iaith ef wrth yr hwn a dosturia wrth y tlawd yw, “Cyfrif hyn arnaf fi.” Y ffaith yw, fod cyfranu, a haelioni doeth, yn un o elfenau pwysicaf cynnildeb. Gwastraff—gwario arian am yr hyn nid yw fara, sef yr hyn sydd ddisfudd—dyna yr hyn sydd yn afwyddo y dyn. Ac yn ein trefydd mawrion, gynifer o demtasiynau sydd yn ffordd y dyn ieuanc i ofera ei arian; ond gwnaed reol iddo ei hun o heidio gwario ond am bethau anghenrheidiol—o gadw cyfrif manwl am ei holl dreulion, fel y gwelo *pe fodd y synis am y pethau ymhon mis ar ol eu pwrcau*. Pe gwnai y

gyfryw reol, buan y deuai i gydymffurfio â hi, canys ei gydwybod a gedwid felly yn fyw i'w gondemnio bob tro y troseddai. Nid oes eisieu i ni ddywedyd dim am sefydliadau cynnildeb, megys *Savings Banks, &c.*, oblegid ein cenedl yn Lloegr a wyddant yn berffaith am y sefydliadau priodol.

Dyna y moddion, yn ein meddwl ni, a ddyrchafant ein cydwladwyr ieuanc yn nhrefydd Lloegr i lanw "sefyllfaoedd o ymddiried, dylanwad, a defnyddioldeb." Ein hamcan parhâus oedd, nid adeiladu cestyll prydfferth a dychymyngol, eithr cyfaddasu y moddion i gyrhaedd yr amcan dymunol. Gwaith—a gwaith dyfal hefyd—yw y llwybr i ddyrchafiad. Bob yn gam y cyrhaeddir y nôd. Y mae yn wir y bydd rhai, yn rhinwedd eu hathrylith, yn llwyddo yn gyflymach nag eraill; ond athrylith, heb y moddion a enwyd, a fetha yn y diwedd. Gall yr hwn sydd heb athrylith—heb rhyw allu naturiol anghyffredin—fod yn seren fechan ddysglauer yn ei gylch ei hunan, ond iddo arfer y moddion blaenorol yn gydwybodol; ond y dyn sydd âg athrylith, ac yn ymgadw yn ofalus at yr awgrymiadau a roddasom, a fydd yn haul yn ei gylch. Gwnaed pob un, ynte, ddefnydd priodol o'r moddion, ac fe ofala rhagluniaeth am y llwyddiant. Ac wrth wneuthur ei oreu i'w ddyrchafu ei hun yn y ffordd gyfreithlaw hon, bydd y Cymro ieuanc nid yn unig yn dwyn gogoniant i enw ei Grâwdwr a'i Gynnaliwr mawr, ac yn dwyn lles iddo ei hun ymhob modd, ond hefyd yn gosod arhwydedd ar ei gydwladwyr sydd rhwng bryniau gwyllt Walia yn gobeithio pob daioni a ffyniant iddo ef. Ymafed, ynte, yn ei waith yn benderfynol, a bydded wr; ac er i amgylchiadau dyrus ei gyfarfod, ac i wyntoedd croesion chwythu i'w erbyn, na ddigaloned, canys y mae yr ysbryd sydd yn y gwir wron yn ystytho amgylchiadau i'w lun a'i ddelf ei hun. Nad pa mor groes i brofiad llawer un y gall hyny ymddangos, eto y gwirionedd yw fod rhagluniaeth ac amgylchiadau yn fanteisiol i'r dyn sydd yn dilyn ar ol ei wrthddrych ar lwybr dyledswydd, ac nid yw y gwrthwynebiad a geir ond fel y gareg sydd yn cronï y nant am eiliad fel y gallo hi dori dros ei phen yn suddugoliaethus. Eich arwyddair parhâus fyddo, ynte, *Excelsior!* Ac yna nis gall fod ammheuaeth y gwnewch i chwi eich hunain enw ag a fydd yn berarogl tragywyddol.

Crem ar Fyd ac Eglwys.

Yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon, yr ydoedd yn ferw gwyllt yr wythnosau diweddaf gan yr Etholiadau. Awgrymem yn ein "Trem" o'r blaen, ei bod wedi myned yn *rhaid* ar Arglwydd Derby a'i gymdeithion ddwyn i mewn ryw fath o reithsgrif Diwygiad Seneddol, tra nad oeddynt hwy eu hunain mewn gwirionedd yn hoffi dim o'r fath beth; ac nid oes daioni byth i'w ddysgwyl oddiwrt yr hyn a wnelo plant dynion yn anewyllysgar. Felly, fel y galleid dysgwyl, yr oedd *Reform Bill* Gweinidogion ein Llywodraeth yn anghymeradwy gan Ryddfrydwyr yn gyffredinol; ac yn wir nid oedd yn boddâu eu pleidwyr hwy eu hunain, er na fyn y Toryaid sefyll allan yn erbyn eu harweiniwyr, canys ymddengys yn awr mai iaith calon y blaidd yw, *Cadwer ein dymuniad*.

ni i mewn, boed eu trefniadau yr hyn y byddont! Wele, pleidleisiodd y mwyafrif yn Nhŷ y Cyffredin yn erbyn ein Llywiauawdwy'r Toryaidd ar bwnc y diwygiad; a dysgwylid yn gyffredinol y buasai Arglwydd Derby, wedi cael ei orchfygu yn deg, yn rhoddi yn anrhydeddus i fyny ei swydd fel prif-weinidog y deyrnas, i edrych a geid rhywun cymhwysach, neu fwy derbynol gan gynrychiolwyr y bobl, i ddal yr awenau yn ei le. Yr oedd y rhyfel ynghylch Italy oedd ar dori allan, heb son am bethau eraill, yn peri mai annoeth ac an-amserol oedd gadael y deyrnas heb Senedd ar y fath adeg bwysig. Eithr yr oedd uwchafiaeth swydd yn saig ry felus gan y Weinyddiaeth Derby-Disraelaidd i'w gadael ar chwarae bach; mynent fod yn bendodau ar y wladwriaeth cyhyd ag yr oedd bosibl; ac os nad oedd obaith am ennill mwyafrif o'u tu hwy eu hunain trwy etholiad newydd, yr oedd raid dattod y Senedd mewn ysbryd *spiteful* ac anwladgarol. Bellach y mae yr *elections* wedi myned heibio; ond hir yr erys eu heffeithian anghysurus ar leoedd ac ar bersonau.

Mae yn ymddangos fod y blaid Doryaidd wedi ymwerthu i bob ystraw a llygredigaeth yn yr etholiadau diweddar. Yr oeddynt fel rhai yn ymwybodol mai yr awr ddiweddaraf ar eu hachos ydoedd—eu hymdrech farwol—eu hymorhest cyn trengu. Dywedwyd yn gyhoeddus fod Arglwydd Derby ei hunan wedi tanysgrifio £20,000 tuag at sicrhau etholiadau ei gefnogwyr; ac yr oedd pendeigion a chyfoethogion y blaid, yn ol esiampl eu penaeth, yn rhoddi eu hair yn ddirin i'r un perwyl. Yr oedd peiriant mammonaidd y *Carlton Club* ar waith ddydd a nos; o herwydd yr oeddid yn gwybod y ceid Balaamiaid ddigon, ymhob str a bwrdeisdref, i garu gwobr anghyfiawnder. Ac, er mwyn cyrhaedd ei amcan yn fwy effeithiol, aeth Derby i ymgyfrinachau ac ymgyfath-rachu â blaenoriaid y Pabyddion yn y deyrnas hon; cyfododd gyflogau y capleniaid Pabaidd yn y fyddin cyn dechreu yr etholiad; ac addawodd, fel yr ymddengys, chwaneigod o freiniau lawer iddynt os oedwid ef yn y Brifweinyddiaeth. Ac y mae efe wedi derbyn ei wob. Daeth y Cardinal Wiseman allan i'w bleidio; ac anfonwyd at yr offeiriadaeth Babaidd yn gyffredinol ar iddynt ddylanwadu ar eu haelodau i arfer eu rhyddfrait etholiadol o blaid yr ymgeiswyr a rwyment eu hunain wrth Arglwydd Derby. O'r blaen, byddai y Pabyddion yn gyffredin yn pleidleisio dros y rhai a ymladdasant yn ddeur a di-ildio am ryddfrefniad gwladol iddynt; eithr yn yr etholiadau diweddar, gwerthasant eu hunain i'w gwrthwynebwyr gynt, ond y rhai oedd yn awr yn rhoddi cynnygion uchel am danynt. Dyma y rheswm am oruchafiaeth y Toryaid yn neheubarth Sir Lancaster, ac mewn manau yn yr Iwerddon, lle yr arferid ethol ymgeiswyr o syniadau rhyddfrydig. Uchel yn wastad fyddai trwf y Toryaid, neu y *Conservatives*, fel y galwant eu hunain er ys blynyddoedd bellach, am eu heiddigedd a'u hegulon dros uchafiaeth Protestaniaeth; a mynent i ni gredu mai hwynt-hwy oedd ein diffynwyr yn erbyn ymosodiadau bwystfil Rhufain; ond yn awr, ysgwaetheroedd, y mae y "fyddloniaid" Pabaidd, ac y mae Protestaniaid cywir, wedi cael gwybod pethau gwahanol. A oddefir i ddynsodion o'r fath yma farchogaeth ar Brydeinwyr am amser eto? Dywed ysbrydoliaeth na bydd i wŷr twyllodrus fyw hanner eu dyddiau; a dysgwyl yr ydym ninnau na chaiff gweinyddiaeth wladol dwyllodrus hir oes.

Ychwanegodd Arglwydd Derby ryw nifer at eibleidleiswyr seneddol—pump ar hugain, medd rhai, dau ar bymtheg, medd eraill—yn yr ymrsonfa etholiadol hon. Ond, druan ŵr, y mae y mwyafrif eto yn ei erbyn; a thebyg ydyw y rhydd ei fudrwaith diweddar yn achlysur i beri i'r pleidiau diwygiadol a rhyddfrydol gynghreirio yn fyddin unol i'w erbyn; ac nid oes eisieu ond eu hundeb a'u cydweithrediad hwy tuag at anfon gweinyddiaeth Doryaidd i'w lle ei hun, sef i aros a gorwedd mewn hanesyddiaeth yn unig. Yr oedd Derby er dechreu ai lywyddiaeth bresennol, yn bygwth dattod y Senedd os gorfyddai ei wrthwynebwyr; ac yr oedd ofn etholiad yn cadw llawer a eisteddant ar y meinciau gwrthweinigogaethol rhag codi i'w erbyn. Ond wele efe wedi gwneyd ei waethaf weithian; ac nid oes dim i'w ofni mwy nag i'w ddysgwyl oddiwrtho. *Y mae rhyfelwyr* galluog yr ymgyrch seneddol o'r blaen, wedi eu dewis dra-

chefn i'r Senedd newydd : Arglwydd John Russell, Arglwydd Palmerston (a'r hwn, meddir, y cynnygia Arglwydd Derby wneuthur ammodau heddwch a chyfeillach), John Bright, Milner Gibson, ac eraill ; ac y mae yn dda genym weled fod Richard Cobden, yr hwn sydd ar hyn o bryd yn yr America, wedi cael ei ethol yn ei absenoldeb ac yn ddiwrthwynebiad.

Y mae cynrychioliad Cymru yn para agos yn ystrydebol o etholiad i etholiad ; canys y mae meddiannwyr tai a thiroedd yn llywodraethu & llaw es-tynedig, a'r deiliaid gan mwyaf yn plygu yn wasaidd iddynt. Dyohwelwyd Syr Richard Bulkeley dros Sir Fôn, a'r Anrhydeddus W. Stanley dros Fwrdeisdrefi Môn, yn ddiwrthwynebiad. Fe fu Mr. Hampton Lewis yn edrych ar y bwrdeisdrefi i'w chwynychu fel meddiant i'r Toryaid, a daeth allan ar bapyr i ddywedyd, Wele fi ! ac yna, yn gall iawn, efe a giliodd yn ol, gan foddloni cadw ei neillduweth yn yr Henllys. Ymddengys fod Mr. Stanley wedi cymeryd dysg oddiwrth y drafodaeth y llynedd o barth i'r "fanaticiaid" oedd yn anhoffi rhedegfa meirch a mulod yn Nghaergybi ; ac nid ydym yn meddwl y gwelir ef yn rhedeg yr yrfa hono drachefn. Yr oedd ei araeth ar adeg ei etholiad yn un synwrol a rhagorol iawn ; ac y mae yn ei bleidleisiau wedi dangos ei hun yn gyfaill gwir ryddid a diwygiad. Ond am Syr Richard Bulkeley, y mae yn rhaid i ni addef fod ei araethiau diweddar wedi ein gorfodi i feddwl yn ts am dano nag erioed. Nid oeddem er ys blynyddoedd bellach yn gallu rhoddi pris uchel ar ei ddoethineb nac ar ei sefydlogrwydd ; ond erbyn hyn, nis gallid ein tueddu ni, pe byddai hyny yn rhywbeth hefyd, i gynnyg pris yn y byd am dano yn yr oll o'i alluoedd. Gallai un feddwl, wrth ddechreu gwrandaw neu ddarllen ei araethiau, ei fod wedi taraw wrth *ŵr clever* dros ben, ac mai da y gwnelai wrth eistedd wrth ei draed i dderbyn gwybodaeth o'i enau ; a cheir yntau yn ei osod ei hun allan yn yr ystum pwysig o ddyg-awdwr y bobl. Ond ymhell cyn i'r gŵr urddasol gyrrhaedd diwedd ei araeth, bydd yn rhaid i ni feddwl am y pictiwr hwnw o waith yr hen Matthew Prior,—

"A squirrel spent his little rage
In jumping round a rolling cage ;
The cage, as either side turn'd up,
Striking a ring of bells a-top ;
Moved in the orb, pleased with the chimes,
The foolish creature thinks he climbs ;
But here and there, turn wood and wire,
He never gets five inches higher."

Yn ei araeth yn Nghaergybi, wedi crwydro môr a thir, terfynai gan gyfeirio at yr Ymneillduwyr, y rhai, meddai, oeddynt agos yn gwneyd i fyny yr oll o'i etholwyr. Canmolodd hwy, oddiar ei wybodaeth bersonol, am eu gonest-rwydd, eu tuedd heddychol a charedig, &c., ac yna neidiodd at y brawdlys diweddar yn y Bala, ac yn berffaith ddiachos a sarhöl rhoes argraffiad newydd i enllib y Barwn Bramwell ar Ymneillduwyr Cymru, er ei fod yn cymeryd arno felo ar y barnydd hwnw, ac a gynghorodd ei wrandawyr Ymneillduol yr oedd newydd eu canmawl, i beidio dangos ffafr i ddrwg-weithredwr hyd yn nód pe byddai o'r un enwad crefyddol & hwy eu hunain ! Yr oedd efe wedi clywed fod y rheithwyr yn y Bala oll yn Ymneillduwyr, a'u bod wedi anghofio rhwymedigaeth llw ! Wedi *clywed* ! gan bwy ? Gallasai glywed yn Nhŷ y Cyffredin, a gweled mewn newyddiaduron, fynegiad hollol wahanol. Ond "ni ohlyw Wilcyn beth nis myn," medd yr hen ddiareb. Ar ddiwedd ei araeth, dyna gynnygiad o hyder yn Syr Richard, ac o ddiolch iddo am ei "*candid speech*," yn cael ei gefnogi gan un o'n cyfeillion dylanwadol sydd yn ŵr cyhoeddus gydag enwad o Ymneillduwyr, ac yn un a allasai yn foneddigaidd roddi gair o gynghor yn ol i'r barwnig ; ond defnyddiwyd y cyfle yn unig i foli y gŵr mawr. Trueni na chyfarfyddai meistriaid tiroedd Cymru ag am-bell i Ficēah a fyddai yn ddigon gonest i ddyweyd y gwir yn eu hwynebau ! Ar ddydd ei etholiad yn Beaumaris, yr oedd Syr Richard yn ei osod ei hun allan fel un o egwyddorion rhyddfrydig, ac yn anghymeradwyo y llywodraeth.

Doryaidd bresennol. Ond yn union ar ol hyny, dyna efe yn Nghaernarfon yn cynnyg y Milwriad Pennant, Tory o'r rhyw Doryeiddiaf, un o bleidwyr gwresodaf Arglwydd Derby, fel person o'r fath gymhwysaf i gynnrychioli Sir Gaernarfon yn y Senedd, a hyny, meddai, ar gyfrif ei sefyllfa, ei dalentau, ei weithgarwch, a'i onestrwydd—pan y traddododd gymysgfa o araeth ddbwynt, weithiau yn hanner cellwair am ben y Toryaid, a phryd arall yn ymosod yn ffyrnig ar gefnogwyr egwyddorion rhyddfrydig, ac er a thrwy y cwbl yn dywedyd fod *politics* y Milwriad Pennant a'i *bolitics* yntau mor debyg, fel yr oedd yn afresymol dywedyd eu bod yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd! Yr oedd Pennant, pa fodd bynag, yn gyson ag ef ei hun, yn areithio yn ddi gél fel Tory, heb geisio chwareu y fion ddwybig fel ei gyfaill Syr Richard.

Bu ymryson brwd am gynnrychiolaeth bwrdeisdrefi Sir Gaernarfon. Ymddengys fod yr hen gynnrychiolydd, Mr. Bulkeley Hughes, wedi anfoddloni rhai o'i hen gyfeillion Toryaid, ac yn enwedig y Milwriad Pennant, drwy ddangos gormod o ogwyddiad at egwyddorion *liberal* mewn rhai o'i bleidleisiau diweddar; ac yr oedd yn rhaid gan hyny ei fwrw allan, a chael Tory o'r rhywogaeth fanylaf, yn newydd o'r *mint*, yn ei le. Pa un a oedd syniadau presennol Mr. B. Hughes yn nés at eiddo yr etholwyr yn gyffredinol, ai peidio,—nid oedd hyny o un pwys; ewyllys y Milwriad Pennant, a rhyw ddau neu dri o foneddigion dylanwadol eraill, oedd i benderfynu pwnc y cynnrychioliad. Yn anfodod iddo ei hun, hysbysodd Mr. Bulkeley Hughes yn y dechreu nad oedd am ddyfod ymlaen fel ymgeisydd y tro hwn; ond cymerodd ailfeddlw, a daeth allan drachefn gan ei gyhoeddi ei hun yn ddiwygiwr mor bell a bod yn bleidiol i'r tugel; o herwydd yr oedd yn awr yn gweled tra-arglwyddiaeth a gorfodaeth ar waith yn ei erbyn. Daeth cyfeillion goreu rhyddid gwladol a chrefyddol allan yn wrol o'i blaid, a safasant yn ddewrion yn nydd y frwydr. Ond yr oedd y *scrow*, fel y dywedir, yn gwasgu yn rhy dyn ar gnawd gwan, ac wele llwgs o Ymneillduwyr ymysg eraill, yn enwedig yn Nghaernarfon, yn ymollwg dan y dirwasgiad; ac felly Mr. Wynne, arwr y Toryaid, a orfuodd trwy fwyafrif o 52 allan o 708 o bleidleisiau.

Ni bu galwad am un ymdrech etholiadol yn Sir Ddinbych. Y mae Syr Watkin Williams Wynn, yn unol â chysylltiadau a thraddodiadau teuluaid, yn glynu yn fyddlawn yn y Senedd wrth y blaid Doryaidd; ond fel gwladwr y mae yn rhaid addef ei fod ar y cyfan yn ei ddangos ei hun yn foneddwr o'r iawn ryw. Byth er yr ymdrech fawr yn etholiad 1852, pan y cafodd glywed oddiwrth llaws o etholwyr y Str wirioneddau na thraddodwyd iddo o'r blaen, ac y triniwyd ef yn dra didderbyn wyneb ar yr areithfwrdd etholiadol yn Ninbych, y mae Syr Watkin wedi troi allan yn ddyd newydd yn ei wlad. Ymroes i lanw ei le fel heddynad, a phrofodd ei hun yn rhyddfrydwr ymarferol yn y cylchoedd cartrefol y mae yn troi ynddnt. Nid oes un tîrfeddiannydd parotach i roi lleoedd i adeiladu capelau ac ysgoldai i bob enwad o Gristionogion; safodd yn erbyn arddodi treth-eglwys ar bobl Rhuabon, ei blwyf ei hun; ac yn wir gwelwyd ef yn llywyddu yn ddirodres mewn cyfarfod perthynol i sect Ymneillduol, ac yn eu capel hefyd. Ei gydgyrnrychiolydd dros y Str, y Milwriad Biddulph, sydd o ran ei olygiadau gwladol yn Whig, os nad yn rhywbeth mwy. Dichon nad ydyw ymhobpeth yn gystal gwladwr â Syr Watkin, er ei fod yn seneddwr gwell. Mae ei bleidleisiau wedi bod y fath nas gellid galw am eu rhagorach. Mr. Mainwaring—nid er anrhydedd i *liberals* tref Dinbych—sydd yn cael eis-tedd yn ddirwyst dros y bwrdeisdrefi. Yn Str a threfi bwrdeisiol Ffaint, fe dybygid fod y dynion iawn yn y lle iawn. Yr ydym yn credu fod Syr John Hanmer y dyn mwyaf galluog ei feddwl a'i ddawn o holl seneddwr Gogledd Cymru. Dygwyd ef i fyny yn Dory, ac fel y cyfryw y bu yn ei ieuencyd yn cynnrychioli yr Amwythig. Bu wedi hyny yn aelod dros dref bwysig Hull yn Lloegr, ac yno y dechreuodd ddirnad a chymeradwyo egwyddorion rhydd a diwygiadol. Ymunodd â chyfeillion y diweddar Syr Robert Peel i bleidleisio y maeur dros ddyddymiant Treth yr Yd; ac ymlaen ymhellach yr aeth, ac y *did* yn myned hyd yn hyn, ar y ffordd unigw, fel erbyn heddyw y cyfrifir ef

yn gyffredin, ac yn gyfiawn, yn un o'r "*advanced liberals*." Yr Anghydeddus Mr. Mostyn sydd foneddwr ieuanc doniol a dymunol ymhob ystyr; a drwg iawn genym glywed am ei afiechyd trwm presennol. Str a bwrdaisdrefn Trebaldwyn a welir yn parhau yn nythlloedd Toryaeth. Pa beth sydd yn dyfod o gyfeillion diwygiad yn y Drefnewydd a Llanidloes?

Peth newydd a dyaethr iawn yn etholiad Sir Feirionydd oedd ymgeisydd o egwyddorion rhyddfrydig. Os yw Cymru wedi ei hynodi am ei Hymneilldu-aeth efengylaidd, y mae Meirionydd yn ddiâu yn enwocach yn y cymeriad hwnw nag un Str arall yn yr holl Dywysogaeth. Eto yr oedd ei phobl ar hyd y blynyddoedd a'r oesoedd yn dyoddef yn ddystaw i Doryaid eu cynnrychioli yn llys deddfwneuthurol y deyrnas. Eithr eleni wele yno dro ar fyd. Gwelid mai anghysondeb i'r eithaf ydoedd i Mr. Wynne, Peniarth, yr hwn yn wastad a roddai ei bleidleisiau i'r Toryaid, heb ofalu am iawnderau dyledus yr Ymneillduwyr fel dosbarth gwladol, ac oedd gyda hyn yn Buseyad cyfangwbl, yn gyfaill personol i'r Parch A. Poole a'r lleill o glerigwyr hanner Pabaidd—a mwy na hanner—St. Barnabas yn Llundain, ac wedi dwyn lliaws o'u harferion Pabyddol ac ofergoelus i'w eglwys ei hun yn Llanegryn,—gael ei adael i gynnrychioli Meirionydd Brotestanaidd ac Ymneillduol; a chafwyd Mr. D. Williams, Castell Deudraeth, i ymgynnyg dros y Str yn mhlaid egwyddorion gwir ryddid a diwygiad. Yr oedd agos yr holl feistriaid tiroedd, yn enwedig y rhai brasaf o honant, yn gwneuthur yr oll a allent, trwy deg a thrwy hagr, i sicrhau etholiad Mr. Wynne; ond yr oedd y teimlad cyffredinol yn wresog o blaid Mr. Williams; ac nid oedd gan Mr. Wynne yn y diwedd ond mwyafrif o 38. Pobl y Bala a weithiasant yn rymus yn yr ymdrech; a phe buasai y trefi eraill o gyffelyb feddwl, buasai gan Mr. Williams gannoedd mwy o bleidleisiau na Mr. Wynne. Fel yr ydoedd, cyfrifir mai anffyddlondeb rhyw ddegau o grefyddwyr Ymneillduol a barodd i'r ymgeisydd rhyddfrydig golli y dydd. Hyderwn, pa fodd bynag, mai dyma y tro olaf i'r o egwyddorion Mr. Wynne fyned i'r Senedd dros Sir Feirionydd. Cafodd y ddiwyblaid rat gwersi o bwys yn holl amgylchiadau yr etholiad a dry yn les iddynt, gobeith-iwn, erbyn amser a ddaw.

Aeth yr etholiadau heibio yn Neheubarth Cymru heb ymdrechfa o bwys; hyd yr ydym yn cofio, oddigerth yn Sir Aberteifi. Yno yr oedd dau Dory yn ymgeisio am gynnrychioliad y Str. Gresyn na chawsid yno ddiwygiwr da i'w ddwyn ger bron yr etholwyr. Nid oes eisieu ond trefn a diwydrwydd i sicrhau y Sir hono, sydd mor enwog am ei chrefyddolder, i achos rhyddfrydedd gwladwriaethol. Ymddengys fod deg rhyddfrydwr a deg *conservative* yn cynnrychioli Deheudir Cymry, os cymerir i fewn Sir Fynwy; onidê bydd y mwyafrif yn perthyn i'r blaidd rhyddfrydig.

Mae y Rhyfel, a ddaroganiad er dechre y flwyddyn hon, yn awr wedi ei ghoeddi, a'r pleidiau gwrthwynebol yn ymbarotol i gyfarfod eu gilydd. Darfu i lywodraeth Awstria, yn y modd mwyafrif annoeth, dori yr heddwch i ddechre, gan roddi beiddiad i Sardinia, ac ynddi hi i Ffrainc ei chynghreirydd, ac anfon ei byddin i groesi afon Ticino i dir Sardinia. Wedi i Awstria roddi allan ei beiddiad rhyfelgar, ceisiodd y Llywodraeth Brydeinig athrywynu rhwng y pleidiau mewn ymrafael, ac yr oedd Awstria erbyn hyn yn foddllawn i'r cynnygiad; ond dywedai Ffrainc ei bod bellach yn rhy ddiweddar i dderbyn unrhyw gyfringiad; ac y mae yr ymherawdwr Napoleon wedi myned allan yn bersonol fel penllywydd ei fyddinoedd. Y mae un frwydr boethlyd wedi ei hymladd eisoes, yn yr hon y bu y Ffrancod yn drechaf; ac nid oes dim i'w ddysgwyl bellach ond ymladdau gwaedlyd hyd nes y byddo un o'r pleidiau wedi ei gorchfygu yn llwyr. Yn awr, y mae Italy a Germany yn ymgylfro drwyddynt; ac nid oes neb ar y ddaear a'wyr pa beth a fydd y diwedd. Os daw y llywodraethau Allmaenaidd allan i gynnorthwyo Awstria, y mae Rwsia yn barod i gefnogi Ffrainc. Ofnir gan lawer fod Arglwydd Derby a'i gydweiniadogion yn tueddu i bleidio Awstria; ond y mae llais y wlad y dyweddyd yn y ddu uwchaf

a'r modd egluraf y dylai y deyrnas hon aros yn *neutral*, heb ochri at yr un blaid. Nid yw llys Awstria, yn ddiâu, yn teilyngu ein cefnogaeth, ac nid yw Ymherawdwr Ffrainc yntau yn addas wrthddrych ein hymddiried; canys gorthrymus y naill, a thwyllodrus y llall.

Y mae Brenin gorthrymus Naples wedi ei wysio i fyd arall—a dywedir fod parotodau eisoes ar droed i adnewyddu cymundeb rhwng llysoedd Lloegr a Ffrainc â'r wlad hono.

Yr oeddem yn llawn fwriadu galw sylw at yr adfywiadau crefyddol yn Nghymru, at gylchwylliau y Cymdeithasau crefyddol yn Llundain yn mis Mai, ac at rai dygwyddiadau eraill; ond y mae ein "trem" wedi ei chyfyngu gan y lle a gymer ein cymdeithion, fel nas cawn ymhelaethu.

Nodiadau Llenyddol.

MAE amgylchiadau terfysgldd Cyfandir Ewrop, a sefyllfa ansicr pleidiau gwladwriaethol yn ein plith ein hunain, yn gysylltiedig â helyntion dadgorfforiad y senedd ac etholiad senedd newydd, ac yn enwedig yr anghenrheidrwydd a osodir arnom gan ansawdd pethau ar y Cyfandir i ymbarotdi ar gyfer yr hyn a all ddygwydd i ni ein hunain, wedi peri i'r misoedd diweddfod fod yn dra digynnyrch mewn ystyr lényddol, mewn cymhariaeth i'r hyn a fuasent mewn amgylchiadau gwahanol. Nid oes, fe allai, yr un fasnach yn teimlo yn gynt oddiwrth y cyfryw gyffrôadau na'r fafnach mewn llyfrau, yn neillduol llyfrau o'r fath oreu—llyfrau pwysig, sylweddol, a chymhwysder ynddynt i ddyrchafu meddylliau eu darllenwyr uwchlaw chwarsuon ac ymrysonau, colledion ac enillion, dysgwylltiau a siomedigaethau, y byd presennol. Mae y terfysgoedd hyn eisoes wedi effeithio er peri oediad ar gyhoeddiad rhai llyfrau o'r fath a addawsid er ys amser bellach, yn gystal ac ar gwbleiddiad rhai eraill ag y mae y cyfrolau cyntaf o honynt wedi eu dwyn allan. Yr ydym yn gobeithio yr ymdreigla pethau yn raddol i'w lle eu hunain. Er nas gallwn, a barnu oddiwrth arwyddion presennol, ddysgwyl gweled diwedd, am amser maith, ar y rhyfel sydd wedi dechreu, na gobeithio yn gryf iawn y cedwir y deyrnas hon rhag ymyraeth â'r ymryson, ac felly ei thynu ei hunan iddo, eto yr ydym yn hyderu y caniatâir i ryw nifer yn ein mysg fyw i fesur uwchlaw y dymhestl, mewn seibiant, yn nghanol y dirgryniadau ofnadwy o'u hamgylch, i ddwyn allan, yn awr ac eilwaith, trwy y wasg, ger bron eu cydoeswyr, ac er budd cenedlaethau dyfodol, hawlian "y pethau nad ysgydwir."

[Mae yn ddrwg gan y Cyhoeddwr ei fod dan anghenrheidrwydd i adael allan y "Nodiadau Llényddol" y tro hwn o ddiffyg lle. Y mae yn gywbot y bydd hyn yn gryn siomedigaeth i rai o'r derbynwyr; ond cânt ymddangos, gydag ychwanegiadau, yn y Rhifyn nesaf.]

Y TRAETHODYDD.

JOHN KNOX A'I AMSERAU.

[LIFE OF JOHN KNOX : *Containing Illustrations of the History of the Reformation in Scotland. With Biographical Notices of the Principal Reformers, and Sketches of the Progress of Literature in Scotland during the Sixteenth Century; and an Appendix, consisting of Original Papers.* By THOMAS M'CRIB, D.D. The Sixth Edition. 1839.]

NID oes neb sydd wedi darllen ond ychydig o hanes Ysgotland yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn wladol neu yn eglwysig, nad yw yn gydnabyddus âg enw John Knox; oblegid yr oedd ef yn un o'r dynion hyny ag y cafodd y wlad a'i magodd deimlo o ben bwygilydd ei fod wedi ei godi gan yr Arglwydd i wneuthur gwaith mawr yn ei oes. Bu yn foddion i gynnyrchu y chwyldrôad hollol yn syniadau a theimladau y genedl, nes peri iddi fwrw ymaith iau y Bwystfil, dan yr hon yr oedd wedi bod yn gruddfan am oesoedd, oddiar ei gwâr, ac ymgyfammodi i wneuthur derbynïad o'r "fydd a roddwyd unwaith i'r saint," a rhoddi ei hun "megys morwyn bur i Grist." Y mae yn debyg na chafwyd goruchafiaeth mwy llwyr ar Anghrist, ac na chadwyd fydd y Diwygiad yn fwy dilwgr o hyny fydd yn awr mewn un wlad, nag yn yr Alban. Cyn pen dau can mlynedd ar ol dyddiau Martin Luther, yr oedd anffyddiaeth yn yr Almaen wedi ymdaenu dros yr holl wlad, ac mewn cysylltiad â hyny daeth Rhesymoliaeth i mewn i'r eglwys fel afon, nes peri nad oedd yn aros ynddi o egwyddorion y Diwygwyr, erbyn dechreu y ganrif bresennol, ond yr enw yn unig. Ac er fod yno nifer mawr o'r dynion enwocaf ymhob ystyr wedi ymladd yn lew, yn nghorff y deng mlynedd ar hugain a aeth heibio, o blaid fydd yr efengyl, a chael yr oruchafiaeth i fesur helaeth, nid yw y rhai goreu o honnynt wedi gallu ymddyosg yn llwyr oddiwrth ddylanwad yr hyn a wrthwyn-ebent. Yn Lloegr, yr oedd y Diwygiad yn cael ei ddwyn ymlaen yn ol ewyllys y brenin Harri VIII., yr hwn oedd o'i galon yn Babydd, ond ei fod yn gweled fod yn fwy cyfleus iddo fwrw ymaith benogaeth ei Sancteiddrwydd o Rufain, a chymeryd yr anrhydedd hwnw iddo ei hun, er mwyn bod yn fwy rhydd i gyrhaedd ei amcanion llygredig. Ac y mae Eglwys Loegr wedi bod o hyny hyd yn awr yn ddarostyngedig i ewyllys y rhai a fyddai yn dygwydd bod ar yr orsedd—weithiau yn fwy neu yn llai Pabaidd, yn ol meddwl y rhai a fyddai mewn awdurdod. Ond yn yr Alban llwyddwyd i fwrw ymaith Babyddiaeth yn llwyr, a Dygwyd y diwygiad ymlaen gan yr eglwys ei hun, heb yn waethaf y llywodraethwyr gwladol, a pharhiodd i

feddu yr awdurdod mewn pethau crefyddol ynnddi ei hunan, heb gydnabod neb yn ben ond Iesu Grist, nac unrhyw gyfraith yn rheol ond Gair Duw.

Ar yr adeg y torodd y Diwygiad allan yn yr Alban, yr oedd y genedl yn parhâu o'r hen amseroedd yn fath o lwythau (*clans*), i fesur helaeth, o dan ddylswad y mawrion, y rhai oedd yn dywysogion arnynt. Yr oedd y barwniaid hyn yn meddu llawn cymaint, os nad mwy, o awdurdod arnynt a'r brenin. Byddent yn barod bob amser ar eu galwad i ymgynnull dan eu baner yn erbyn eu gelynion mewn rhyfel; a phan y dygwyddai anghydfod dori allan rhwng y barwniaid â'u gilydd, ymgasglai y rhai a fyddai o dan wârogaeth iddynt i amddiffyn eu tywysogion; ac nid anfynych y terfynid yr ymryson trwy golli gwaed. Nid oedd yr hawliau a berthynai i'r Goron ond ychydig yma mewn cymhariaeth i rai gwledydd eraill, a cheir y byddai y breninoedd yn gwneuthur ymdrech yn fynych i gyfyngu ar awdurdod yr arglwyddi, a'r arglwyddi o'r ochr arall yn dra eiddigus rhag colli dim o'r rhagorfreintiau a berthynai iddynt hwythau. Er fod y wlad yn un deyrnas o dan lywodraeth y brenin, yr oedd mesur helaeth o annibyniaeth yn perthyn i bob barwn o fewn cylch y llwyth a berthynai iddo. Y mae hyn yn rhoddi cyfrif paham y byddai y Diwygwyr yn cael amddiffyniad mewn rhai parthau o'r wlad lle y byddai y mawrion yn tueddu i dderbyn eu hegwyddorion, tra yr erlidid hwynt yn ddiarbed yn y parthau yr oedd yr arglwyddi yn ddysgyblion ffyddlawn i'r Babaeth.

Rhagflaenwyd y Diwygiad ar y Cyfandir â graddau helaeth o adfywiad mewn dysgeidiaeth, ac yr oedd yr elfen yma wedi dechreu ymweithio hefyd yn yr Alban. Ymddengys fod yr holl ddysgeidiaeth yn yr adegau tywyllaf yn cael ei chyfyngu braidd yn gwbl i'r Mynachdai. Yno yr anfonai y gwŷr mawr eu meibion i dderbyn hyny o addysg a gaent. Yr oedd holl gylch addysg yr athrofydd yn gyfyngedig i Athroniaeth Aristotle, Dwinyddiaeth Ysgolegiol (*scholastic theology*), a Glwysddeddf (*canon law*). Edrychid ar bawb â ddysgai yr iaith Roeg yn dra drwgdybus. Wrth reswm, yr oedd rhyw fesur o wybodaeth o'r Lladin yn anghurheidiol i'r offeiriad. Ond erbyn dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd amryw o ysgolion grammadegol wedi eu sefydlu yn y prif drefydd yn y wlad, a rhai o honynt o gryn enwogrwydd, a gwŷr dysgedig o'r Cyfandir, neu frodorion wedi dderbyn eu dysg mewn gwledydd eraill, yn athrawon arnynt. Yr oedd ambell un yn yr athrofydd yn lled rydd wrth ymdrin â'r pethau a gyfrifid o'r blaen yn gysegredig, ac yn ammheu awdurdod y Pab i'r graddau yr oedd wedi ei hōni a'i arfer hyd yn hyn; a rhai yma a thraw o berchen yr athrylith hono yn gwneyd ambell gân a dueddai i leihâu dylanwad yr offeiriad, o herwydd eu hanfoesoldeb a'u rhaib. Yr oedd y pethau hyn ynghyd yn lefeinio ac yn ymweithio yn meddyliau y genedl er eu parotōi i'r ymdrech oedd gerllaw.

Y mae yn anhawdd ffurfio drychfeddwl, na rhoddi darluniad, o'r eithafion yr oedd yr Eglwys Babaid yn y wlad hon wedi ei gyrhaedd mewn llygr-edigaeth, cyn y Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd yr offeiriad wedi cyrhaedd, trwy eu hystriwiau, y fath raddau mewn gwycheder ac awdurdod, fel yr oedd yn llawn hanner cyfoeth y genedl yn eu meddiant, a hwnw yn nwyllaw yr ychydig oedd yn benaethiaid arnynt. Yr oedd trachwant a rhwysg yr esgobion a'r abadau y tu hwnt i fesur. Yn eu dwylaw hwy yr oedd y swyddau uchaf yn y llywodraeth, ac ni fyment fod yn ol i neb o'r uchelwyr mwyaf mewn mawredd. Nid anfynych yr ymleddid hyd at waed am

esgobaeth. Ni phregethent byth eu hunain, a rhoddid ymaith fywioliaeth-au i'r uchaf ei geiniog, neu cyflwynid hwynt i ddyinion anllythyrenog, meddwon, a basdarddiad yr esgobion. Ymddiriedid yr holl addysg grefyddol, a gamenwid felly, i'r mynachod, y rhai oeddynt fel pla o locustiaid ar y wlad; ac nid oedd yr hyn a alwent hwythau yn bregethau ond pentwr o'r chwedlau mwyaf ynfyd am sylfaenydd rhyw urdd grefyddol, ei wyrthiau, ei ymdrechion a'r diafol, a'i ymprydiau, rhinweddau y dwfr sanctaidd a'r defodau, echryslonrwydd y purdan, a'r lliaws a waredwyd o'i drueni trwy gyfyngiaeth rhyw sant hynod, a'r cyffelyb. Yr oedd yr offeiriaid yn ddiareb am eu haflendid; nid cywilydd fyddai gan yr esgobion addef eu bod yn cadw puteiniaid, ac ni phetrusai meibion y boneddigion mwyaf gymeryd eu merched anghyfreithlawn yn wragedd iddynt, gan mor fawrion y gwaddolion a dderbynient gyda hwynt. Nid oedd degymau gan y byw yn ddigon i foddioni eu trachwant rheibus, ond mynent hefyd daliadau oddiwrth dlawd a chyfoethog pan fyddent feirw. Ac yn nifyg hyny, melldithid hwynt fel rhai annheilwng o drugaredd a bywyd tragywyddol yn y byd a ddaw. Ni thelid ond ychydig o sylw i wasanaeth crefyddol, ac mewn llawer o barthau byddai y llanau yn nghauad oddieithr ar ddyddiau gwylion. Iê, defnyddid hwy yn llochesau o amddiffyn gan ddrwgweithredwyr, neu yn lleoedd i drafof masnach, ac i ymgynnull er mwyn difyrwch. At Mair a'r seintiau y dysgid dynion i gyfeirio eu meddyliau am drugaredd, ac nid at Dduw yn Nghrist; trwy aberth yr offeren y cyhoeddid fod maddeuant pechodau i'w gael, ac nid trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; a'r llwybr y dysgid iddynt roddi prawf o ddiffuantrwydd eu crefydd fyddai bod yn ffyddlawn i dalu eu degymau a'u hoffrymau, i gyfrif eu paderau, i gafaal yr offeren, i ymgadw oddiwrth gigfwdy ar ddyddiau Gwener, i gyffesu i'r offeiriaid, i ddwyn eu penyd, ac i gyflawni eu pererindodau, ac nid gwadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn gyfiawn, yn sobr, ac yn dduwiol, yn ol dysgeidiaeth Crist a'i apostolion. Ac os dygwyddai i neb amlygu yr ammheuaeth lleiaf o awdur-dod yr offeiriaid, neu wneuthur cynnyg ar ddiwygio un camwri a gyflawnid ganddynt yn enw crefydd, cyhuddid ef yn y fan o fod yn heretic; ac os na lwyddai i ddianc mewn pryd, bwrid ef i'r carchar, neu ynte llosgid ef yn fyw yn y ffamau. Yr oedd tywyllwch y gellid ei deimlo wedi ymdaenu dros yr holl wlad. Ond tywyllwch o flaen toriad gwawr ydoedd; tawelwch o flaen tymhestl, a hono mor nerthol fel y dadymchwelodd y Babaeth o'r gwraidd.

Y cyntaf a gafodd yr anrhydedd o alw sylw ei gydwladwyr at y drefn i faddeu trwy yr Hwn a osododd Duw yn iawn, ac i ddyoddef merthyrdod dros ei athrawiaeth, oedd gŵr ieuanc o waedoliaeth breninol, o'r enw Patrick Hamilton. Ganwyd ef yn y fl. 1504, a phan nad oedd eto ond plentyn, gan ei fod yn cael ei fwriadu i'r eglwys gan ei berthynasau, rhoddwyd iddo Abbadaeth Ferne. Ond yn y fl. 1526, pan oedd oddeutu dwy ar hugain oed, yn nghanol y tywyllwch oedd yn ei amgylchynu, ymddengys i oleuni yr efengyl, drwy ryw foddion anhysbys, belydru i'w feddwl i'r fath raddau nes ei wneyd yn anesmwyth i bethau fel yr oeddynt, ac i godi ei lef yn erbyn llygredigaethau yr eglwys. Pa fodd bynag, cyffrôdd yr offeiriaid yn ei erbyn, fel y canfyddodd yn bur suan nad oedd yn ddiogel iddo gymeryd y cyfeiriad hwnw, a rhoddodd ei fryd ar gymeryd taith i'r Cyfandir. Yr oedd y son am Martin Luther erbyn hyn yn myned gyda'r awel i bob man, a phenderfynodd yntau fyned i Wittenberg i gael ei weled. Cafodd dderbyniad croesawus gan Luther a Melancthon, ar gyfrif ei wresogrwydd o blaidd

y gwirionedd; ac nid hir y buont heb ei gyfarwyddo i fyned i Athrofa Marburg, lle yr oedd yr enwog Francis Lambert o Avignon yn brif athraw, yr hwn oedd yntau wedi gorfod ffoi a gadael sefyllfa gysurus o herwydd ei ymlyniad wrth fydd yr efengyl. Yr oedd yma fiasusfwyd o'r fath a garai Hamilton; ac fel yr oedd yn cynnyddu yn ngwybodaeth ein Harglwydd a'n Hiachawdwr Iesu Grist trwy yr Ysgrythyrau, yr oedd ei amynedd yn pallu i aros heb fyned i'w wlad ei hun, i fynegu ffordd yr iachawdwriaeth hon i'w gydgenedl, beth bynag fyddai y canlyniadau. Felly gadawodd Marburg a dychwelodd i'r Alban.

Ychydig o amser a gafodd i ledanu ei syniadau. Hudodd yr offeiriaid ef i St. Andrews, o dan yr esgus eu bod yn dymuno ymddyddan rhydd ag ef ynghylch y ffordd hon. Yn lle hyny talfwyd ef i garchar gan yr Arch-egob Beatoun, a dyoddefodd ferthyrddod trwy gael ei losgi y dydd olaf o Chwefror, 1528, pan yn bedair ar hugain oed, gan alaru o herwydd trueni ei wlad, a chyflwyno ei ysbryd i ofal yr Iesu. Ond nid oedd merthyrddod y fath wr ieuanc, o dan y fath amgylchiadau, a chyda'r fath wroldeb, i fyned heibio yn ddisôn am dano. Onid oedd raid fod y rhai a'i llogasant yn greulawn i'r eithaf? Pa beth oedd y syniadau ag y dyoddefodd o'u herwydd? O ba le y cafodd hwynt? A oes rhyw bwys ynddynt? Pa un ai gwir ai gau ydynt wedi y cwbl? Ymfynion fel hyn oedd yn rhedeg drwy feddyliau, ac yn cael eu bwrw at eu gilydd gan dlawd a chyfoethog, dysgedig ac annysgedig, nes o'r diwedd y daeth llawer yn argyhoeddedig o'u gwirionedd. Ac nid i St. Andrews yn unig yr oedd hyn yn cael ei gyfyngu; ond ymledanodd y goleuni i barthau eraill o'r wlad, heb yn waethaf erlidigaeth ac ymdrech yr offeiriaid i'w ddiffodi. Ac yn nghorff y deg neu ddeuddeg mlynedd dilynol, yr oedd llawer o ddynion diniwed wedi syrthio yn ysglyfaeth i'w cynddaredd yr un modd ag yntau, ac amryw eraill wedi llwyddo i ddianc i Loegr ac i'r Cyfandir. Nid oedd dim yn ormod gan y clerigwyr yru i alltudiaeth y dynion mwyaf enwog a dysgedig yn y wlad, mewn trefn i amddiffyn eu hawdurdod a'u llygredigaethau.

Ond er maint oedd eu gwylidwriaeth, yr oedd y gwirionedd yn ennill tir, a'r awydd am wybodaeth yn cynnyddu. Ac er mor beryglus oedd i neb fod yn meddu unrhyw lyfrau heresiol, yr oedd y syched mor angerddol fel yr oedd yn rhaid cael rhyw lwybr i'w liniaru. Llwyddai rhai oedd yn masnachu rhwng y Cyfandir a phorthladdoedd Leith, Dundee, a Montrose, i ddwyn drosodd yn ddirgel gyfieithiad Tindall o'r Ysgrythyrau, ac amryw o lyfrau Protestanaidd. Yr oedd un Bibl yn gorfod gwasanaethu i amryw o deuluoedd, a mynych yr ymgynnullai y rhai a fyddai wedi profi blas y gwirionedd ynghyd yn nhrymder y nos i dŷ un o'u cyfeillion, pryd y dygid y gyfrol sanctaidd o'i chuddfan, ac y darllenid hi er adeiladaeth y frawdoliaeth. Er nad oedd un dysgawdwr cyhoeddus drwy yr holl wlad y pryd hwn, eto yr oedd Gair yr Arglwydd yn rhedeg mewn modd dirgelaidd, er pob ymdrech i sefyll ar ei ffordd, fel yr oedd yn treiddio i gylchoedd uchaf cymdeithas, ac yn ennill rhai o wŷr uchelaf y wlad i'w dderbyn a'i bleidio. Ond pan oedd yr offeiriaid yn tybied eu bod ar roddi dyrnod marwol i'r Diwygiad—pan yr oedd yntau yn meddwl fod y brenin Iago V. ar gydsynio â'u cais i gollfarnu rhai o uchelwyr y wlad, ynghyda lliaws ag oedd yn meddu cyfoeth lawer, fel hereticaid, a chymeryd meddiant o'u hetiffediaethau, ac y cawsent hwythau ymfeddwi ar waed y saint, bu y brenin annedwydd hwnw *farw, Rhagfyr 13, 1542.* Yn yr un flwyddyn yr oedd gŵr yn athraw yn

athrofa St. Andrews yn nghyflawnder ei faintioli, ei farn wedi dyfod i addfedrwydd, ei galon yn wresog, ac egwyddorion y Diwygiad wedi cymeryd meddiant o honi, wedi ymweithio ynddi nes nad oedd modd ymattal yn hŵy heb iddynt ymrwygo allan—dyma John Knox i'r maes o blaid yr athrawiaeth Brotestanaidd.

Ganwyd John Knox mewn pentref o'r enw Gifford, yn East Lothian, yn y flwyddyn 1505. Er nad oedd ei rieni yn gyfoethog iawn, yr oeddynt yn alluog i roddi iddo addysg dda. Dechreuodd ei yrfa yn Ysgol Ramadegol Haddington, ac wedi hyny anfonwyd ef i Athrofa Glasgow. Yr oedd yno y pryd hwnw ŵr o'r enw John Mair neu Major yn athraw athroniaeth a duwinyddiaeth, yr hwn oedd wedi derbyn y rhan fwyaf o'i addysg yn Ffrainc, ac wedi bod am ryw yspaid yn athraw yn mhrif Athrofa Paris. Yr oedd yr athraw hwn ymhell o gydnabod yr awdurdod anffaeledig a hōnai y Pab iddo ei hun yn oruchaf. Ystyriai a dysgai fod Cynghor Cyffredinol uwchlaw iddo mewn awdurdod, a bod ganddynt hawl i'w farau, ei geryddu, a'i fwrw ymaith; nad oedd ganddo hawl i ddiorseddu breninoedd; nad oedd ei geryddon a'i esgymundod yn anffaeledig; mai peth o benodiad dynol, ac nid o hawl Ddwylf, oedd degymau; dangosai ynfedrwydd llawer o ddefodau oedd yn yr eglwys; ac anfadrwydd cybydd-dod a balchder yr urdd esgobol. Hōnai nad oedd gan freninoedd hawl Ddwylf i lywodraethu, ond fod gan y bobl hawl i'w cadw o fewn terfynau, a'u bwrw ymaith os byddent yn gorthrymu eu deiliaid. Y cyfryw oedd rhai o'r syniadau a ddysgai y gŵr yr eisteddai Knox a'i gyfaill Buchanan wrth ei draed yn yr athrofa. Ac ni buont yn ddieffraith. Gwreiddiasant yn nghalonau y ddau ŵr ieuanc, a buont yn foddion i ddwyn eu meddyliau i fwy o ryddid yn eu hymchwiliad am wybodaeth. Wedi cychwyn y meddwl ar y llwybr hwn, nid oedd modd ei gael yn ol i gaethiwed. Ac er fod tueddffryd Buchanan yn fwyaf at lēnyddiaeth, yr oedd ei olwg ar ryddid a llyuddiant crefydd yn y tir, a bu y ddau yn gyfeillion agos ar hyd eu hoes.

Nid ar unwaith yr ymryddhâodd John Knox, mwy na Martin Luther, o grafangau y Bwystfil. Ar ol iddo gyrhaedd graddau lled helaeth o ddysg ei hunan, ymddengys iddo fod yn gwasanaethu fel is-athraw yn yr un athrofa am ryw yspaid. Tua'r un amser hefyd ordeiniwyd ef yn offeiriad, a hyny cyn cyrhaedd yr oedran gofynedig yn nghanonau yr eglwys. Nid oedd yn ddyledus am y naill ddyrchafiad a'r llall i neb ond i'w deilyngdod ei hun. Fel yr oedd yn myned ymlaen, teimlai syched am gael gafael yn ngweithiau Jerom ac Awstin, y rhai a gyfrifid yn dadau yr eglwys, wrth gyfarfod â darnau o honynt yn ysgrifeniadau duwinyddion y canoloesoedd. Arweiniodd y rhai hyn ef drachefn at yr Ysgrythyrau, ac yn awr dyma fe yn llygad y ffynnon lle y mae dwfr y bywyd yn tarddu allan o honi. A pha mor gryfion bynag oedd ei ragfarnau, ac mor goelgar bynag ei galon, yr oedd wedi dechreu ymgydnabyddu â gwirionedd oedd yn rhwym o fwrw dychmygion i lawr, a chymeryd meddiant o'r orsedd yn gystal a goleuo y meddwl. Yr oedd hyn tua'r flwyddyn 1535, ac yn agos i saith mlynedd cyn iddo broffesu ei hun yn Brotestant.

Rywbryd cyn ei ymwrthodiad â Phabyddiaeth, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1542, yr oedd Knox wedi symud i addysgu i St. Andrews. Erbyn hyn yr oedd llofrudd Patrick Hamilton wedi marw, a'i nai, Cardinal David Beaton, wedi cymeryd meddiant o'i esgobaeth. Yr oedd y gŵr hwn yn meddu ar holl elyniaeth a chreulondeb ei ewythr, ac yn ben-

derfynol i ddiwreiddio yr heresi oedd yn cynnyddu gyda chyflymder mawr yn y wlad. Dywedir ei fod wedi cyflwyno i'r brenin cyn ei farwolaeth enwau dros dri chant o'r rhai a ddrwgdybid, a llawer o honynt y rhai mwyaf eu cyfoeth yn y wlad, gyda bwriad i'w cael yn ysglyfaeth. Yn y cyfamser, bu Iago farw; ond nid oedd ei obaith yn pallu; ffigiodd ewyllys iddo, yn yr hon yr hōnid fod y brenin yn cyflwyno llywodraeth y genedl iddo ef a dau neu dri eraill o bendeigion, cyhyd ag y byddai ei ferch Mari, yr hon a anwyd ychydig o wythnosau cyn i'w thad farw, dan oed. Pa fodd bynag, dyrswyd ei amcanion, a gosodwyd Iarll Arran yn rhaglywydd. Yr oedd Arran wedi dangos ei hun cyn hyn yn bleidiwr i'r Diwygiad. Yr oedd ei gynghorwyr yn nechreu ei raglawiaeth o'r un syniadau, a phasiwyd deddf yn y flwyddyn hon i gyfreithloni i bawb ddarllen yr Ysgrhythrau yn yr iaith a ddeallent. Yn awr yr oedd y Testament Newydd yn nwyllaw y cyffredin, a'r wasg yn dechreu tywallt allan liaws o lyfrau Protestanaidd, ac amryw o bregethwyr erbyn hyn yn dechreu llefaru yn groew yn erbyn llygredigaethau yr eglwys, ac yn lledanu egwyddorion yr efengyl. Ond nid hir y cafwyd yr hamdden yma, gan ddarfod i'r rhaglaw edifarhâu ac ymwrthod â'i syniadau newyddion.

Yr oedd Knox y pryd hwn yn teimlo yn rymus oddiwrth egwyddorion y Diwygiad. Dechreuai arfer mwy o ryddid yn ei ddarlithiau, ac ymosodai ar lygredigaethau yr eglwys nes cyfrōi sylw eiddigus yr offeiriadaeth. Fel y gallesid dysgwyl, nid oedd iddo ddinas barhâus yn agos i'r fath ddyn a Cardinal Beatoun, wedi iddo ddechreu cael ei ddrwgdybio am ei fydd. Yr oedd yr offeiriaid yn bryderus i gael ymward o hono, rhag iddo wneuthur iddynt ddrygau lawer. Collfarnwyd ef fel heretic, diraddiwyd ef o'r offeiriadaeth, ac ni chafodd ond prin ddianc â'i einioes yn ysglyfaeth ganddo. Nid oedd ganddo bellach un gobaith o gael gwasanaethu yn yr offeiriadaeth, ac felly ymgymerodd a bod yn athraw yn nheulu Douglas o Langniddrie, yr hwn a fu yn noddwr iddo. Cyfranai addysg grefyddol iddynt, a rhoddid rhyddid i'r teulu oll a lliaws o'r gymydogiaeth ddyfod ynghyd pan fyddai yn eu hegwyddori, pryd hefyd y darllenai ac y gwnelai sylwadau eglurhâol ar amryw ranau o'r Ysgrhythyr. Yn yr holl amser hwn, trwy ei lafur ei hun a thrwy gyfeillach âg eraill, yn enwedig un George Wishart, yr hwn oedd wedi cael manteision helaethach nag ef, yr oedd ei feddwl yn dyfod i fwy o oleuni a rhyddid. Yr oedd y gŵr hwn o waedoliaeth uchel, ond gorfu arno ffoi i Loegr o herwydd ei fod yn addysgu y Testament Groeg. Wedi bod am ryw yspaid yn Athrofa Caergrawnt, dychwelodd yn y flwyddyn 1544. Daeth Knox yn gydnabyddus âg ef, a chafodd lawer o les trwy ei gymdeithas. Ond nid oedd ei dymmor yntau i fod yn hir; bradychwyd ef i ddwyllaw y Cardinal, a gorfu iddo selio ei athrawiaeth â'i waed.

Fel yr oedd creulonderau y Cardinal yn cynnyddu, a'i fryd ar ddyfetha pawb oedd o'r ffordd hon, lluniwyd bradwriaeth yn ei erbyn, mewn rhan o herwydd dygasedd a niwed personol a dderbyniodd y bradwyr, ac mewn rhan gydag amcan i waredu eu gwlad oddidan awdurdod ei orthrymder. Ceisiodd y Pabyddion o hyny hyd yn awr ddadleu fod gan Knox law yn y bradwriaeth; ond pa mor ddymunol bynag oedd ganddo ei gael o'r ffordd, nid oes un sail i dybied ei fod yn gwybod dim am y bradwriaeth, nes oedd ei lofruddiaeth wedi ei gyflawni. Er cael y gŵr hwn o'i awdurdod, Pabydd oedd ei olynwr, Hamilton, ac nid oedd i Knox ond ychydig o dawelwch. Yr oedd yn gorfod ymguddio a ffoi o'r naill le i'r llall, ac yn y fath enbydrwydd am

ei einioes yn fynych, fel y penderfynodd adael y wlad hyd nes y deuai rhyw adeg fwy manteisiol. Weithiau rhoddai ei fryd ar fyned i Loegr, bryd arall penderfynai fyned i rai o wledydd y Cyfandir. Pa fodd bynag, perswadiwyd ef o'r diwedd gan ei noddwyr i ymneillduo gyda'u meibion i gastell St. Andrews, yr hwn oedd yn meddiant y bradwyr wedi cael ymwared o'r Cardinal, lle yr ymgynnullai llawer o'r rhai oedd yn cael eu herlid oblegid eu crefydd am nodded.

Aeth Knox i gastell St. Andrews yn ngwanwyn 1547, a dygodd ymlaen addysg y rhai oedd dan ei ofal fel o'r blaen. Yn yr adeg yma yr oedd yno lawer wedi ymneillduo, nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddynt â'r rhai a lofruddiasant Beatoun, ac amryw o honynt wedi bod yn dal swyddi uchel. Yr oedd yno un o'r enw John Rough, yr hwn a fuasai unwaith yn gaplan i Arran; ond pan yr ymwrthododd y rhaglaw â'r grefydd ddiwygedig, gorfu arno ffoi; ac ar ol ei ddyfodiad i'r castell, etholwyd ef i fod yn bregethwr i'r gwarchodlu. Wedi i Knox fod yno am ryw yspaid, yr oeddynt yn cael eu boddio yn ei ddull o addysgu mor fawr, fel y dymunasant arno fod yn gydbregethwr â Rough. Ond ni fynai ef ufuddhâu. Pa fodd bynag, daethant i'r penderfyniad, heb yn wybod iddo ef, i roddi galwad cyhoeddus iddo i fod yn un o'u gweinidogion. Penodwyd y diwrnod, a thraddododd Rough bregeth ar etholiad gweinidogion, gan osod allan yr hawl sydd gan yr eglwys yn y neb y mae yn canfod dawn y weinidogaeth, a'r perygl i'r cyfryw un wrthod yr alwad gan y neb a fyddai yn dymuno addysg. Wedi darfod y bregeth, trôdd at John Knox, gan ei gyfarch fel hyn: "Frawd, ni thrangwyddwch er i mi lesaru wrthych yr hyn a orchymynwyd i mi gan y rhai oll sydd yn bresennol. Yn enw Duw, a'i Fab ef, Iesu Grist, ac yn enw pawb sydd yn awr yn eich galw trwy fy ngenau i, yr wyf yn erchi i chwi nad anufuddhâoch i'r alwedigaeth sanctaidd hon, ond fel yr ydych yn dymuno gogoniant Duw, cynnydd teyrnas Crist, adeiladaeth eich brodyr, a'm cysur innau, yr hwn yr ydych yn gwybod yn dda sydd yn cael fy llethu gan faint fy llafur, ar fod i chwi ymgymeryd â'r swydd gyhoeddus o bregethu, fel yr ydych yn synio am ochelyd anofodlonrwydd Duw, ac yn dymuno ar fod iddo ymhelaethu yn ei ras tuag atoch." Yna, gan droi at y gynulleidfa, efe a ddywedodd, "Ai nid hyn oedd eich gorchymyn i mi? ac ai nid ydych chwi yn cymeradwyo yr alwad hon?" Atebasant hwythau oll, "Iê, ac yr ydym yn ei chymeradwyo."

Parodd yr alwad hon iddo bryder meddwl mawr, ac yr oedd yn teimlo graddau o anmharodrwydd i ufuddhâu, wrth ystyried pwysigrwydd y weinidogaeth y galwyd ef iddi. Ond yn y cyfamser, yr oedd yn yr athrofa wr o'r enw John Annand, yr hwn oedd er ys cryn yspaid yn poeni Rough â'i gwestiynau a'i ddadleuon dysgedig yn erbyn ei athrawiaeth, fel y gorfu i Knox ddyfod allan â'i ysgrifell ac yn ei ymddyddanion o blaid ei gydwas. Yr oedd ef yn alluog i gyfarfod ei wrthwynebydd o bob cyfeiriad; ac un diwrnod, pan mewn dadl yn eglwys y plwyf, wedi i Annand gael ei yru o bob lloches a allai y Tadau ganiatáu iddo, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond ffoi at awdurdod anffaeledig yr Eglwys, yr hon oedd i fod yn deryn ar bob ymryson. "Am Eglwys Rhufain," meddai Knox, "fel y mae yn awr wedi llygru, lle y mae gobaith eich buddugoliaeth, nid wyf yn petruso mwy ei bod yn Synagog Satan, ac mai ei phen a elwir y Pab yw y dyn pechod y synia yr apostol am dano, nag wyf yn ei betruso fod Iesu Grist wedi dyoddef trwy ddylanwad yr eglwys weledig yn Jerusalem. Iê, yr wyf yn

barod i brofi trwy air neu ysgrifen, fod Eglwys Rhufain y dydd heddyw wedi ymadaw ymhellach oddiwrth ei phurdeb yn nyddiau yr Apostolion, nag oedd Eglwys yr Iuddewon oddiwrth ordeiniadau Moses, pan y cydsyniasant â marwolaeth ddiachos Iesu Grist." Effeithiodd hyn yn fawr ar y bobl; ac os oedd yn wir, yr oeddynt hwy, meddent, wedi cael eu twyllo yn ddirfawr. Gan hyny galwyd arno i brofi ei bwnc o'r pulpud y Sabbath canlynol, fel y gallai y rhai na fedrent ddarllen gael y fantais i farnu drostynt eu hunain.

Y sabbath a ddaeth, a dacw y pregethwr yn gwneyd ei ymddangosiad, ac yn darllen Dan. vii. 24, 25, yn destun; ac wedi rhagymadroddi, gan ddangos fod y pedwar anifel yn arwyddluniol yn gosod allan bedair ymherodraeth—y Fabilonaidd, y Bersiaidd, y Roegaid, a'r Rhufeinaidd, allan o adfeiliau yr olaf hon y cododd yr un a nodir yn y testun, nas gellid ei gymhwysu at un gallu ond y Pabaidd; nad yw y brenin yn neb ond y Dyn Pechod, yr Anghrist, y buten Fabilonaidd; a bod yr ymadrodd yn cyfeirio, nid at berson unigol, ond at liaws o dan un pen drygionus, yn golygu olyniaeth o bersonau yn yr un lle. Desgrifiodd y gallu Pabaidd o dan dri phen—bywyd, athrawiaeth, a deddfau. Ymosododd ar fywyd drygionus y Pabau fel yr oedd yn cael ei osod allan gan ysgrifenywyr Pabaidd; cyferbyniodd eu hathrawiaethau a'u traddodiadau â'r Ysgrhythyr; a dyfnodd eu canonau i ddangos fod teitlau cableddus y Pab yn profi ei destun. Ac yn ddiweddaf, hysbysodd os oedd neb yn ammheu yr awdurdodau yr oedd wedi dyfynu o honynt, ei fod yn barod ar unrhyw bryd i roddi boddlonrwydd iddynt. Traddododd ei bregeth gyda'r fath hyawdledd nes oedd pawb yn teimlo oddiwrthi, a gwnaeth rwyg nad oedd modd ei gyfanu. Teimlai y Diwygwyr erbyn hyn fod ganddynt amddiffynydd galluog, a theimlai yr offeiriaid eu hunain yn ymgynddeiriogi yn erbyn y fath wrthwynebwyr. Cafodd yr amgylchiad yr effaith ar ei feddwl ef ei hun i beri iddo gredu fod yr Arglwydd wedi ei alw i gyflawni gwaith mawr, a phenderfynodd ymroddi iddo. O'r blaen yr oedd pawb wedi bod yn amyneddgar i ddysgwyl diwygiad yn mucheddau yr offeiriaid, ac i ddymuno rhyddid i ddarllen yr Ysgrhythyrau a'r cyffelyb; ond yn awr dyma y fwyall wedi ei gosod ar wreiddyn y pren,—y rhyfel wedi ei chyhoeddi, nad oedd gobaiith am heddwch ond trwy ddadymchwelyd Pabyddiaeth o'r gwraidd, a dwyn i mewn athrawiaeth, dysgyblaeth, ac offeiriadaeth burach yn ei lle. Y pryd hwn y gellir dyweyd yn briodol fod y Diwygiad Protestanaidd wedi ei gychwyn yn yr Alban.

Ond yr oedd yn rhaid gwneyd rhywbeth i attal yr haint. Anfonodd yr esgob at un Winram, yr hwn oedd yn gofalu am yr esgobaeth yn y cyfwng rhwng marwolaeth Beatoun a dyfodiad ei olynnydd etholedig i gymeryd meddiant o'r gader, gan ei hysbysu fod yn rhyfedd ganddo fod y fath heresiau yn cael eu dysgu yn ddiwrthwynebiad. Nid oedd Winram ymhell oddiwrth deyrnas Dduw, ond yr oedd yn rhaid ufuddhau i'w arglwydd esgob, ac felly penderfynodd alw cyfarfod o wŷr dysgedig yr Abbad-dŷ a'r Athrofa, a chael Rough a Knox i fynegu iddynt pa beth oedd y ddysg newydd hon. Ond nid hir y bu Knox heb eu dadleu allan o wynt, fel nad oedd ganddynt i ffoi iddi ond yr hen noddfa—anffaeledigrwydd yr Eglwys. Er hyny nid oedd o un dyben gwylltio; yr oedd y Diwygwyr mewn rhyw ystyr ar eu tomen eu hunain. Yr oedd y castell yn eu meddiant. Pa beth a wneid, ynte? Rhoddi taw arnynt ar unwaith fuasai yn fwyaf dymunol, pe buasai modd. Ond yn niffyg yr awdurdod hono, gorchymynwyd

ar fod i wŷr dysgedig yr Abbad-dŷ a'r Athrofa bregethu yn eglwys y plwyf yn eu tro ar y Sabbothau, a bod iddynt ymgadw rhag cyffwrdd â'r pynciau oedd mewn dadl, gan obeithio trwy eu llafur felly roddi attalfa ar y Diwygwyr, a heddychu meddyliau y rhai oedd wedi ymddyeithro oddiwrthynt. Yr oedd Knox yn cael pregethu ar ddyddiau yr wythnos, a mawr oedd y llwyddiant a fu ar ei weinidogaeth. Ymhen ychydig fisoedd yr oedd nid yn unig y gwarchodlu, ond lliaws mawr o'r trigolion, wedi ymwrthod â Phabyddiaeth. Yn yr adeg yma y gweinyddwyd Swper yr Arglwydd yn gyhoeddus gyntaf yn yr Alban yn ol trefn y Diwygwyr.

Pa fodd bynag, nid oeddynt i fwynhâu y tawelwch hwn yn hir. Ymddangosodd llynges Ffrengig o flaen y castell yn Mehefin, 1547, i gynnorthwyo y llywydd i ddarostwng y gwrthryfelwyr, a gwarchaewyd y dref o'r tir a'r môr. Ond gan nad oedd un ymwared yn dyfod o Loegr, fel yr oeddynt yn dysgwyl, gorfu iddynt ddyfod i delerau â'r gwarchaewyr. Addawyd arbed eu bywydau oll, ond yr oeddynt i gael eu trosglwyddo i Ffrainc; ac os na byddent yn dewis gwasanaethu brenin Ffrainc, y caniatëid iddynt fyned i unrhyw wlad arall oddieithr yr Alban. Trosglwyddwyd Knox gyda'i frodyr ar fwrdd y llynges, a chludwyd hwynt i gyfminiau Ffrainc, ond ni chadwyd at yr addewid. Tasiwyd rhai o'honynt i garchar mewn amryw fanau. Cadwyd Knox a rhai eraill ar fwrdd y llongau mewn cadwyni, a defnyddiwyd pob llwybr teg a hagr i gael ganddynt wadu eu crefydd, a chymeradwyo yr addoliad Pabaidd. Ond nid yw yn ymddangos ddarfod i un o'honynt ufuddhâu. Adrodda Knox am un dygwyddiad, ac y mae yn fwy na thebyg mai mewn cysylltiad ág ef ei hun y cymerodd le. Dygwyd delw y Forwyn un diwrnod ar fwrdd y llongau, a gorchymynwyd i un o'r caethion roddi cusan o ymostyngiad iddi. Gwrthododd yntau, gan ddyweyd fod eilunod yn felldigidig, ac na chyffyrddai ef â hi. "Ond y mae yn rhaid i chwi," meddai un o'r swyddogion yn egr, gan ei gwthio at ei enau. Ymasfodd yntau yn y ddelw, a thasfodd hi dros y bwrdd, gan ddyweyd, "Lat our Ladie now save hirself; sche is lycht enoughe, lat hir leirne to swyme." Achubodd y swyddogion eu duwies rhag y tonau, a chawsant hwythau lonydd rhagllaw.

Tra y bu Knox ar fwrdd y llynges, cafodd glefyd trwm, fel y bu ei einioes mewn enbydrwydd mawr, ond adferwyd ef yn fuan. Yr oeddynt yn cael cyfleusdra weithiau i ymohebu â'u gilydd ac â'u brodyr gartref. Llwyddodd rhai o'honynt i ddianc o un carchar heb wneuthur niwed i neb na dim. O'r diwedd cafodd Knox ei ryddid, wedi pedwar mis ar bymtheg o gaethiwed. Nid yw yn berffaith hysbys pa beth a'u cymhellodd i'w ollwng o'u gafael. Tybia rhai eu bod wedi cael allan nad oedd un cysylltiad rhyngddo â'r bradwyr yn erbyn y Cardinal; meddylia eraill ei fod yn ddyledus am dano i gyfryngiaeth rhai o'i gyfeillion; ac eraill, nad oedd y llys yn gofalu am eu cadw yn gaeth yn awr, gan eu bod wedi cael cydsyniad Senedd yr Alban i roddi Mary eu brenines mewn priodas i etifedd coron Ffrainc, a'i chael yno i'w haddysgu nes y delai i oedran priodi, ac felly nad oeddynt mwyaach yn dewis dial yr ymrafaelion hyn.

Pa fodd bynag, daeth John Knox a'i gydgaethion yn rhyddion. Yr oedd Lloegr yn bresennol yn fwy dymunol yn ei olwg i droi iddi nag y buasai o'r blaen. Yr oedd Harri VIII. wedi marw, a Cranmer yn fwy rhydd i ddwyn y Diwygiad ymlaen o dan nodded y rhai oedd yn llywodraethu, tra yr oedd Edward VI. dan oed. Yr oedd y rhan fwyaf o'r clerigwyr oedd mewn bywioliaethau bychain yn y wlad yn Babyddion anwybodus a phagan-

llyd, fel nas gallasai y bobl ddysgwyl un addysg ganddynt. Yn wyneb hyn, penododd y Cynghor amryw ag oedd â chymhwysderau ynddynt i fod yn bregethwyr teithiol, a chafodd Knox yn fuan ran yn y weinidogaeth hon. Penodwyd Berwick, ar gyffiniau ei hen wlad, yn faes ei lafur. Nid oedd yn arbed Pabyddiaeth yn y gradd lleiaf; gosodai allan ei gwasanaeth yn eilun-addoliaeth, a'i hathrawiaeth yn ddamniol. Yr oedd ei lwyddiant yn fawr, a'r sôn am dano ymhell ac yn agos. Yr oedd yn ofid dirfawr i Tonstal, esgob Durham, yr hwn oedd yn Babydd mewn gwirionedd, ei weled yn llwyddo, a hyny ar draul darostwng yr hyn a gyfrifai efe yn gysegredig. Dygwyd cwnion yn ei erbyn gan y clerigwr, ond nis gallai yr esgob ei attal, er ei fod o fewn cylch ei esgobaeth, gan ei fod yn meddu nodded y rhaglaw. Gan hyny, galwodd yr esgob gymanfa liosog ynghyd i Newcastle, a daeth ef ei hun a'r dysgedigion oedd yn amgylchynu ei gader, i chwilio i mewn i'r achos. Dygodd y pregethwr ymlaen ei amddiffyniad gyda'r fath wrodeh, heb wadu na chelu dim o'r hyn a ddysgai, fel nas gallasai yr esgob na neb arall na dywedyd yn ei erbyn na'i wrthddywedyd. Erbyn hyn, yr oedd ei glod yn fwy o lawer yn Ngogledd Lloegr nag o'r blaen. Symudodd yn y flwyddyn ganlynol i Newcastle, lle y cafodd gylch ïangach o ddefnyddioldeb. Penodwyd ef yn 1551 i fod yn un o gaplaniaid y Brenin, ac ymgynghorid âg ef ynghylch y diwygiad a fwriedid ei wneyd yn y Llyfr Gweddî Gyffredin.

Y pryd yr oedd yn preswyllo yn Berwick, daeth yn gydnabyddus â boneddiges ieuanc a'r enw Majory Bowes, o deulu uchel, yr hon wedi hyn a fu yn wraig iddo. O herwydd rhyw amgylchiadau, ni pherffeithiwyd yr undeb am gryn yspaid. Dygwyd cyhuddiadau yn ei erbyn i'r Cynghor gan y blaidd Babaidd, a chwasant y Duc o Northumberland, yr hwn oedd unwaith wedi dangos tuedd bleidiol i Brotestaniaeth, o'u plaid, gan nad oedd yn gymeradwy ganddo waith y pregethwr yn codi ei lef yn erbyn pechodau y cyfoethog fel y tlawd. Mynai y Duc ei fod yn tynu ato ei hun liaws mawr o'i gydgonedl, ac y gallasai perygl ddeilliaw oddiwrth hyny. Mewn canlyniad i hyn, galwyd am dano i Lundain, i roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth. Yr oedd ei elynion wedi bod yn ddiwyd iawn i wneuthur pobpeth a allasant i gynnrychu rhagfarn yn ei erbyn; eithr cafodd ei ryddhâu yn anrhydeddus, ac argyhoeddwyd y Cynghor fod y cwbl yn codi oddiar falais. Bu yn pregethu o flaen y brenin a'i lys y pryd hwn, a derbyniodd gymeradwyaeth mawr. Penderfynwyd fod iddo dreulio y flwyddyn ganlynol yn Llundain, a'r parthau deheuol o'r wlad; ond caniatasant iddo fyned am ychydig amser i Newcastle, naill ai i'r dyben o drefnu ei amgylchiadau, neu ynte fel y byddai hyny yn dystiolaeth gyhoeddus na chafwyd ynddo un bai. Tuag Ebrill, 1553, dychwelodd i Lundain; ac ar ei ddyfodiad, cynnygiodd yr Archesgob Cranmer iddo fywioliaeth yn y ddinas, yr hon a wrthododd ar y cyfrif nas gallai ei derbyn yn ystâd bresennol yr eglwys; fod llawer o bethau ynddi âg anghen diwygiad ynddynt, ac oddieithr hyny nas gallai gweinigog gyflawni ei swydd yn gydwybodol, o herwydd fod rhai deddfau ar ei ffordd i weini dysgyblaeth yn ol gair yr Arglwydd. Yn fuan wedi hyny, cynnygiodd Edward iddo esgobaeth; eithr gwrthododd hono hefyd, am nad oedd yn ystyried fod sail i'r swydd, fel yr ydoedd yn Eglwys Lloegr, yn y Testament Newydd. Er ei fod yn yr adeg yma yn mwynhâu tawelwch yn Lloegr i bregethu yr efengyl, yr oedd yn hollol argyhoeddedig fod llawer o bethau yn Eglwys Lloegr yn anghydweddol â'r Ysgrhythrau, ac ni

phetrusai fynegu ei feddwl yn rhydd yn mherthynas iddynt, pan fyddai amgylchiadau yn galw am hyny.

Yn Gorphenaf, 1553, bu farw Edward, ac ymdaenodd cwmwl dros holl obeithion y Diwygwyr ar ddyfodiad Mari i'r orsedd. Yr oedd hi yn Bab-yddes greulawn, a thrwy ei herlidigaethau ennillodd yr enw "Mari Waedlyd." Diddymwyd y deddfau ag oedd yn bleidiol i'r Diwygiad, a chafodd y Pabyddion eu rhwysg eilwaith. Ymneillduodd Knox i Newcastle mor ddirgel ag y gallai; ond buan y canfyddodd ei gyfeillion mai gwell iddo ffoi i gymeryd ei noddfa ar y Cyfandir; a thueddwyd yntau i ufuddhâu i lais ei frodyr, a rhoddi "lle i gynddaredd Satan dros yspaid." Felly aeth drosodd i Ffrainc yn 1554. Ond wedi cyrhaedd yno, teimlai bryder o herwydd ei fod wedi ffoi, a gadael llawer o frodyr yn nghanol yr erlidigaeth, ac yn ngharchar—na buasai yntau yn boddloni i ymladd yr un frwydr, a dyoddef yr un canlyniadau. Yn fuan wedi cyrhaedd tir, aeth i Switzerland, a derbyniwyd ef gyda llawenydd a charedigrwydd mawr gan y Diwygwyr yno. Yr oedd Calfin y pryd hwn yn cael edrych arno fel y blaenaf o'i frodyr, a chafodd Knox lawer o les o'i gymdeithas. Yn ystod y tymmor hwn, dysgodd yr iaith Hebraeg, a bu yn gweinidogaethu i gynulleidfau o ffœdigion Seisonig oedd yn Frankfort ar y Maine, hyd nes y dychwelodd i'r Alban tua diwedd y flwyddyn 1555.

Yn ystod ei absennoldeb, yr oedd yr erlidigaeth Babaidd yn cael ei dwyn ymlaen yn yr Alban gydag yni—amryw o'r mawrion wedi gorfod ffoi a cholli eu hetiffeddiaethau; gweinidogion fyddlawn fel Knox wedi gorfod ymofyn am nodded mewn gwledydd tramor; a'r offeiriaid fel pe buasent yn ymddadebru, yn galw cymanfa ac yn penderfynu diwygio; ond fel rhai wedi cynnesfno â gwneuthur drwg, nid allent wneuthur da. Yr oedd y nodded oeddynt yn ei gael gan y rhaglaw a'i frawd, Archesgob St. Andrews, yn peri iddynt feddwl eu bod wedi rhoddi y dyrnod olaf i'r Protestaniaid. Pa fodd bynag, yr oedd y frenines waddoledig, Mari o Guise, gweddw Iago V., yn fawr ei hawydd am gael y rhaglafiaeth i'w dwylaw ei hun, tra byddai ei merch dan oed, gan gael ei hannog gan ei brodyr, tywysogion Lorrain; a thrwy lawer o ddichellion, llwyddodd yn ei chais. Rhoddodd Arran ei swydd i fyny, a chymerodd hithau y llywodraeth. Yr oedd hi wedi bod am gryn yspaid yn dymuno plaid y Protestaniaid, ac yn addaw ei nodded iddynt mewn trefn i gyrhaedd ei hamcan; a hwythau, gan fod Arran wedi eu bwrw ymaith, a chan eu bod yn tybied ei bod hithau yn ddiwyll, yn barod i'w phleidio. A phan oedd y drws yn cau yn Lloegr ar esgyniad Mari, yr oedd fel pe buasai yn agor yn yr Alban drachefn. Dychwelodd llawer o'r Diwygwyr yn ol, ond yr oeddynt yn gorfod bod yn lled ddystaw. Er hyny, o herwydd y nodded ymddangosiadol oedd hi yn ddirgelaidd yn ei roddi iddynt, a bod yr offeiriaid yn tybied nad oedd unrhyw berygl, yr oeddynt yn cael ychydig o hamdden. Clywodd Knox gyda llawenydd fod gobraith gwawr yn ei hen wlad, a phenderfynodd ymweled â hi. Daeth drosodd i Berwick, ac wedi bod yno am ryw yspaid gyda'i wraig a'i fam yn nghyfraith, a chanfod eu bod wedi parhâu yn gadarn yn y ffydd, aeth ymlaen i Edinburgh. Yr oedd hyn, fel y nodwyd, tua diwedd y flwyddyn 1555.

Yr oedd un Willock, gŵr tra dysgedig a chadarn yn y ffydd, wedi dyfod i'r ddinas hono yn yr haf blaenorol, ac yn cynnal cyfarfodydd dirgelaidd gyda'r Protestaniaid; ac er nad oedd ond ychydig o breswylwyr y ddinas ei hun o'r ffordd hon, yr oedd yno lawer wedi dyfod o amrywiol bartbau y

wlad i'r dyben o fwynhâu addysg Willock, ymhlith y rhai yr oedd John Erskine o Dun, gŵr ag oedd yn bleidiol i'r Diwygiad o'r dechreuad, a William Maitland o Lethington, boneddwr ieuanc tra gobeithiol. Ymroddodd Knox i bregethu iddynt gyda'r fath wresogrwydd a hyawdledd, nad oeddynt wedi clywed ei gyffelyb o'r blaen; a chan ei fod yn pregethu mewn tŷ annedd, a bod y gwrandawyr yn lliosogi, yr oedd dan orfod i bregethu i gynulleidfa arall wedi i'r gyntaf fyned allan. Hyd yn hyn yr oedd y Protestaniaid yn cydffurfio â defodau yr Eglwys Babaid, ac yn myned i'r offeren. Ymosododd Knox o ddirif yn erbyn yr arferiad. Cafwyd cyfarfod i'r dyben o ddadleu y pwnc, a deuwyd i'r penderfyniad i beidio gwneuthur hyny mwy. Yn awr, dyma ymwahaniad oddiwrth Babyddiaeth, a cham pwysig yn y Diwygiad yn cymeryd lle.

Llwyddodd Erskine o Dun i gael gan Knox ymhen ychydig fyned gydag ef adref, lle y pregethai bob dydd am tua mis, ac y gwrandawid ef gan wŷr penaf y gymydogeath. Yna dychwelodd i West Lothian, ac arosodd am dymmor gyda Syr James Sandilands, hen foneddwr o ddylanwad mawr, ac yn gyfaill calon i'r Diwygiad. Yna daeth yn gydnabyddus â thri boneddwr ieuainc, Arglwydd Lorn, wedi hyny Iarll Argyle; Arglwydd Erskine, wedi hyny Iarll Mar; ac Arglwydd James Stewart, mab anghyfreithlawn i Iago V., yr hwn yn ganlynol a grewyd yn Iarll Murray, ac a fu yn rhaglwyd y deyrnas pan oedd Iago VI. dan oed. Gwrandawai y tri wŷr hyn ef yn ewyllysgar, a buont yn noddwyr mawr i'r Diwygiad. Ond nid oedd arosfa y Diwygiwr yn faith yn un man. Elai yn ol ac ymlaen, a phregethai yn mhalasau y mawrion, lle y gallai wneyd hyny yn ddiogel. Ac fel yr oedd y cynulleidfaoedd yn cynnyddu, a'r gwirionedd yn ennill tir, yr oedd yr anhawader i ymgadw mewn dirgelwch yn myned yn fwy. Daeth yr offeiriaid i wybod am ei lafur, a chyrchai y mynachod o bob cŵr at yr esgobion i'w hannog i ddefnyddio mesurau penderfynol i roddi terfyn ar yr afreolaeth. Hysbyswyd y Frenines; ac o'r diwedd llwyddwyd i'w wysio i ymddangos ger bron cymanfa o offeiriaid yn Edinburgh ar y 15fed o Fai. Nid oeddynt erioed wedi breuddwydio y buasai yn ufuddhâu; ond nid gŵr i'w ddychrynu felly oedd John Knox. A fföai gŵr o'i fath ef? Na, yno äg ef, deued a ddelai. Erbyn hyn yr oedd ei elynion wedi eu taro gan ofn, a rhoddasant heibio y cynnulliad o dan yr esgus nad oedd wedi ei alw yn rheolaidd. Ac yn lle ymddangos i gael ei brofi, cafodd gyfleusdra i bregethu yno i gynulleidfa liosog. Arosodd yno am ddeng niwrnod, gan bregethu ddwywaith bob dydd, heb neb yn meiddio ei rwystro. Tua'r amser hwn annogodd dau uchelwr ef i ysgrifenu at y Frenines-Raglwyd, gan obeithio y buasai yn tueddu ei meddwl o blaid y Diwygiad. Gwnaeth hyny, ond ni chafodd un argraff dda ar ei meddwl.

Tra yr oedd yn llafurio fel hyn yn yr Alban, derbyniodd lythyrau oddiwrth gynulleidfa Seisonig yn Geneva, yn hysbysu eu bod wedi ei ethol i fod yn weinidog iddynt, ac yn deisyf yn daer iawn ar fod iddo gydsynio â'u galwad. Penderfynodd yntau ufuddhâu, ac ymadawodd gyda'i deulu yn Gorphenaf, 1556. Mor fuan ag y deallodd yr offeiriaid hyn, rhoddwyd gwys allan iddo ymddangos ger eu bron; a chan nad oedd i'w gael, collfarnasant ef—ei gorff i'r ffiamau, a'i enaid i ddamnedigaeth—a llogasant ei ddelw wrth y groes yn Edinburgh. Bu yr ymweliad hwn â gwlad ei enedigaeath o les mawr i'r Diwygiad. Rhoddodd i lawr sylfaen yr adeilad oedd i gael ei chodi, a pharotodd hwynt i wneyd ymadawiad llwyr â Phab-

ddiaeth, ac ymfurfio yn eglwys ddiwygiedig mor suan ag y byddai amgylchiadau yn fanteisiol i hyny. Cynghorai ei frodyr i aros yn y ffydd, ac i feithrin brawdgarwch; ac os byddai dim a allai wneyd iddynt, yr oedd, meddai, yn barod i'w gyflawni. Y mae yn bur debyg fod ei ymadawiad y tro hwn wedi bod yn foddion i arbed ei fywyd rhag y rhai oedd yn sychedu am dano, ac hefyd i liniaru yr erlidigaeth yn erbyn eraill. Nid oedd y gelynyon yn ystyried fod perygl mawr oddiwrth neb ond oddiwrtho ef. Yn ei absennoldeb, yr oedd yr ystorm yn tawelu, a'r hâd da a hauodd yn cael amser i wreiddio. Yr oedd hyn yn fanteisiol i'r Protestaniaid eu hunain, ac nid oedd amgylchiadau a meddyliau y genedl wedi addfedu i dderbyn y Diwygiad yn gyffredinol. Pa fodd bynag, cadwent eu cyfarfodydd diargelaidd i annog ac i gysuro eu gilydd yn eu gorthymderau.

Treuliodd y Diwygiwr ychydig gyda dwy flynedd fel hyn yn Geneva mewn tawelwch yn mynwes ei deulu. Ganwyd iddo ddau o blant yma. Yr oedd yr eglwys oedd dan ei ofal yn cynnyddu mewn brawdgarwch, ac yr oedd yntau ar y telerau goreu o gariad brawdol gyda'i gydlafurwr, Christopher Goodman, ac yn cael mynych gymdeithas â Calfin, a gweinidogion eraill oedd yno. Ond nis gellid diddyfnu ei feddwl oddiwrth wlad ei enedigaeth. Yr oedd yn bryderus am i ryw wawr dori arni, ac yn llwyr benderfynol i ymweled â hi, ac ymsefydlu ynddi pan y caffai le i feddwl fod ei Feistr yn galw arno. Amlygai hyn mewn llythyr at ei gyfeillion yn Edinburg yn Mawrth, 1557. Yn suan wedi hyny aeth dau o ddinaswyr Edinburg i Geneva â llythyrau oddiwrth Iarll Glencairn, Arglwyddi Lorn, Erskine, a James Stewart, yn ei hysbysu fod y Protestaniaid yn para yn fyddlawn i'r gwirionedd, a bod y gelynyon yn colli tir yn feunyddiol yn meddyliau y genedl, ac yn ei wahodd yn wresog i ddychwelyd, gan sicrhâu iddo dderbyniad croesawus, a'u bod yn barod bawb o honynt i dreulio eu bywydau a'u cyfoeth yn achos y gwirionedd. Penderfynodd yntau, wedi ymgynghori â Calfin a gweinidogion eraill, ufuddhâu, ac ymaith ág ef i Dieppe. Erbyn ei ddyfodiad yno, yr oedd llythyran yn ei aros yn ei hysbysu eu bod wedi ymgynghori eilwaith, ac wedi ofni ddarlod iddynt fod yn rhy fyrbwyll wrth roddi gwahoddiad iddo ddychwelyd. Yr oedd y llythyrau hyn, mewn gwirionedd, oddiwrth bersonau unigol, ac nid oddiwrth y frawdoliaeth Brotestanaidd, fel yr oeddynt yn profesu eu bod. Pa fodd bynag, nid oedd ef yn hysbys o hyny, ac ysgrifennodd llythyrau at amryw o'i gyfeillion yn eu ceryddu am eu hansefydlogrwydd. Wrth ystyried y byddai i'w bresenoldeb gynddeiriogi yr offeiriaid, nad oedd yn dymuno bod yn achlysur i dywallt gwaed, ac nas gellid sefydlu y Diwygiad ond trwy ymdrech galed â'r gelynyon, tybiodd nad doeth oedd iddo ar hyn o bryd fyned yn ei flaen; ac felly dychwelodd yn ol i Geneva, ond nid heb ysgrifenu llythyrau meithion i gynghori ei frodyr i lynu yn eu profes, ac ymroddi i fuchedd sanctaidd. Wedi dychwelyd yn nechreu y flwyddyn 1558, ymroddodd ef, ynghydag eraill o wŷr dysgedig, i gyfieithu y Bibl i'r iaith Seisonig; a gelwir y cyfieithiad hwnw hyd heddyw Bibl Geneva, am mai yno y cyfieithwyd ac yr argraffwyd ef. Yn yr adeg yma, cyhoeddodd ei lythyr a ysgrifennodd at y Frennes-Raglaw, a Chyfarchiad a Chynghor at Brotestaniaid yr Alban. Trosglwyddwyd y rhai hyn i'r Alban, a buont o fendith i lawer. Ond y traethawd mwyaf hynod oedd, "*The first Blast of Trumpet against the Monstrous Regiment of Women*," yn yr hwn y mae yn gwrthwynebu yr arferiad o ganiatáu i fenywod lywodraethu genedloedd. Ymddengys mai creulondeb

Mari o Loegr a'i cyfrödd i gyhoeddi y traethawd hwn. Yr oedd llawer o'i gydffoedigion yn cydsynio â'i olygiadau, a buasai yn dda iawn ganddynt eu gweled yn dyfod i weithrediad. Yr oedd wedi bwriadu cyhoeddi tri "Blast" ar y cyntaf; ond er fod y rhai hyn yn syniadau a ddaliodd hyd ei ddiwedd, barnodd nad doeth iddo gyhoeddi dim ychwaneg ar y pwnc. Cyhoeddwyd atebiad iddo yn y flwyddyn ganlynol gan un o'r alltudion ag oedd yn awyddus am nodded Elizabeth.

Cyfrödd llythyrau Knox y Diwygwyr yn yr Alban, a galwasant gyfarfod i Edinburgh yn Rhagfyr, 1557, yn yr hwn y penderfynasant fod yn ffyddlawn i'r naill i'r llall, ac adnewyddu eu galwad arno yntau o Geneva. Yr oeddnt erbyn hyn wedi ymfurfio yn gynnulleidfaoedd yma a thraw, yn ol y cyfleusdra a gaffent, ac ymadael â'r gwasanaeth Pabaidd. Nid oedd ganddynt weinidogion, ac o ganlyniad, penodid rhyw rai oedd yn alluog i ddarllen yr Ysgrhythrau ac i weddio yn eu cyfarfodydd, ac i roddi gair o gyngor yn ol eu dawn a'u medr. Dewisasant hefyd mewn amser rai i fod yn faenoriaid i ofalu am ddysgyblaeth, a diaconiaid i ofalu am y tlodion. Yn y cyfarfod crybwylledig, amlygwyd dymuniad fod i'r Ysgrhythrau gael eu darllen yn iaith y bobl ymhob plwyf; a phenderfynwyd fod i'r pregethwyr ddysgu mewn tai annedd, hyd oni chaniatëid iddynt ryddid helaethach gan y llywodraeth. Mewn canlyniad i hyn, cymerodd Iarll Argyle un John Douglas dan ei nodded, a chymerodd boneddwy'r eraill yr un modd ryw rai i fod yn gaplaniaid iddynt. Cynddeiriogodd hyn yr offeiriaid yn enbyd, a gosodasant eu bryd ar eu hamddifadu o'r nodded hwn. Ysgrifennodd Archesgob St. Andrews at Iarll Argyle i'r dyben hwn, gan dybied na buasai yn ei ommedd o herwydd y cyfeillgarwch oedd wedi bod rhwng eu teuluoedd â'u gilydd. Ond rhoddodd yr Iarll ateb ag oedd yn cyrhaedd ei galon. Dywedai yr Archesgob ei fod yn rhwym "in honour of conscience" i wneuthur ymchwiliad i'r heresiau y cyhuddid Douglas o honynt. "He preiches against idolatrie," atebai Argyle, "I remit to your lordship's conscience, gif it be heresie or not; he preiches against adultrie and fornicatioun, I referre that to your lordship's conscience; he preiches against hyprocrisie, I referre that to your lordship's conscience; he preiches against all maner of abuses and corruptioun of Christis sincere religioun, I referre that to your lordship's conscience. My lord, I exhort you, in Christis name, to wey all thir affaires in your conscience, and consider if it be your dewtie also not onlie to thole (endure) this, bot in like maner to do the same." Nis gwyddom pa fodd yr oedd cydwybod ei arglwyddiaeth yn dygymmod â'r cyfeiriadau hyn, ond y mae yn hysbys nad oedd yn un o'r rhai dysgleiriaf ei fuchedd, a haelfrydig ei galon.

Wedi cael ei siomi fel hyn, penderfynodd yr Archesgob fwrw ei gynddaredd ar hawb oedd o'r ffordd hon yn ei gyrhaedd. Collfarnwyd offeiriad o'r enw Walter Mill gan ei ragflaenydd, Cardinal Beatoun, ond llwyddodd i ddianc. Erbyn hyn yr oedd wedi dychwelyd, a chafwyd gafael arno. Yr oedd yn hen ŵr pedwar ugain oed, a phawb ond ei arglwyddiaeth a'r offeiriad yn tosturio wrtho, fel o'r braidd y gallasant gael neb i gyhoeddi y ddedfryd arno. Dyoddefodd yn wrol, gan amlygu ei oibaith y byddai cant gwell nag ef yn codi o'i lwch, a gobeithio mai efe fyddai yr olaf a ferthryd yn yr Alban. Cynnyrchodd hyn deimlad anarferol ymhob graddau yn y wlad. Torodd Harlow, Douglas, Paul Methven, a Willock, drwy bob ofn a rheolau a osodwyd iddynt, a phregethent a gweinyddent y sacramentau gyda

mwy o gyhoeddusrwydd nag o'r blaen. Ymgynullodd y mawrion yn Edinburgh i osod eu cwynion eilwaith o flaen y Frenines-Raglaw, a dymuno arni roddi terfyn ar greulonderau yr offeiriaid, a chaniatáu iddynt ryddid i arfer eu crefydd yn ol eu cydwybodau, i'r graddau ag yr oedd wedi ei addaw, hyd nes y ceid ymchwiliad pellach. Amlygodd hithau barodrwydd i gydsynio â'u cais, ac a addawodd amddiffyniad iddynt. Yr oedd John Knox erbyn hyn yn barod i gydsynio i ddyfod drosodd. Yr oedd Mari Waedlyd wedi marw, ac Elizabeth wedi esgyn i orsedd Lloegr, a gobaith cryf y byddai i Brotestaniaeth gael ei adsefydlu yno. Cychwynodd y Diwygiwr yr ail waith o Geneva yn Ionawr, 1559, a daeth i Dieppe tua chanol Mawrth. Ond nid oedd cenad iddo dramwyo drwy Loegr. Yr oedd y "Blast" yn erbyn Elizabeth yn gystal ag yn erbyn Mari. Tra yr oedd yn aros yn Ffrainc, dealodd fod cynllun ar droed i ddarostwng Protestaniaeth. Yr oedd y llŷs Ffrengig yn bwriadu hōni hawl "Mary Queen of Scots" i orsedd Lloegr—nad oedd Elizabeth ond basdardd a heretic, ac o ganlyniad nad oedd ganddi hawl i'r orsedd, ac mai trwy yr Alban y byddent debycaf o lwyddo i ddechreu gweithredu. Gwyddai Knox nad oedd yn ngallu Protestaniaid yr Alban orchfygu Ffrainc heb help; ac oddieithr i Loegr ddyfod allan o'u plaid, y byddent mewn enbydrwydd mawr. Yn y wedd yma yr oedd pethau yn sefyll pan y glaniodd yn Leith ar y 24ain o Fai, 1559.

Nid oedd gan y Frenines-Raglaw un cydymdeimlad â'r Protestaniaid, eto yr oedd yn rhagrithio iddynt, ac fel pe buasai ar rai adegau yn fwy pleidiol iddynt hwy nag i'w gwrthwynebwyr. Yr oedd felly yn gallu eu hudo i fod yn blaid iddi i gyrhaedd ei hamcanion. Un rheswm ei bod yn cymeryd y llwybr hwn oedd, fod teulu Hamilton, y rhai oedd yn Babyddion, ac yn cael eu blaenori gan Archesgob St. Andrews, yn perthyn yn agos i'r orsedd, ac yn coleddu y gobaith o esgyn iddi pe buasai Mari yn marw yn ddiblant; ac felly yr oedd yn dra eiddigus rhag i etifedd coron Ffrainc, â'r hwn yr oedd Mari yn briod, ddyfod i feddiant o unrhyw hawliau a fuasai yn debyg o gau pob gobaith oddiwrthynt hwy. Yr oedd y Frenines-Raglaw o'r ochr arall yn frodor o Ffrainc, a'i brodyr wedi cael llywodraeth y wlad hono braidd yn hollol i'w dwylaw; yn y deyrngadair yn unig yr oedd y brenin yn uwch na hwynt; ac felly, trwy eu dylanwad hwy, yr oedd yn awyddus i ddwyn yr Alban mor bell ag y gellid o dan ddylanwad gorsedd Ffrainc. Nid oedd un gobaith cael y Pabyddion yn blaid iddi, o herwydd eu bod yn cael eu blaenori, fel y nodwyd, gan deulu Hamilton; felly nid oedd un llwybr yn ymddangos ond trwy dwyllo y Protestaniaid i fod yn bleidiol iddi; a llwyddodd i raddau helaeth, gan eu bod hwy mor gymedrol yn eu gofynion, a chan nad oedd yn dychymygu fod ynddi unrhyw ddichellion y tu cefn i'r hyn oedd yn cael ei ddangos.

Yr oedd y Frenines-Raglaw hyd yn hyn wedi ymattal rhag dwyn unrhyw fesurau yn uniongyrchol ar ffordd y Diwygiad, ond yn hytrach mewn rhai amgylchiadau wedi rhoddi lle i'r Protestaniaid obeithio ei bod yn bleidiol i'w hachos; eithr nid oedd y cyfan oll yn amgen na dichellion cyfrwyddrwyg mewn trefn i gyrhaedd yr amcanion oedd ganddi mewn golwg. Wedi marwolaeth Cardinal Beatoun, daeth John Hamilton, brawd anghyfreithlawn i Arran, yr hwn oedd yn rhaglāw o'i blaen hi, i'r archesgobaeth. Yr oedd Hamilton yn un o'r rhai ffyddlonaf o'i urdd i'r Eglwys, yn llawn uchelgais, a'i fryd ar chwaneu cyfoeth ei dŷ, wedi dyfod i'r fath gyfleusdra. A thrwy fod yr ansefydlog Arran wedi gadael y Protestaniaid, a chofleiddio

Pabyddiaeth eilwaith, yr oedd y Frenines yn canfod y byddai yn fanteisiol iddi ddangos tynerwch, a gwneuthur addewidion teg i'r Diwygwyr, y rhai oeddnt yn cynnyddu yn gyflym mewn gallu a rhif, mewn trefn i'w cael yn blaid iddi hi gael y rhaglafiaeth i'w dwylaw ei hun. Ar ol cael hyn, er ei bod yn parhau yn Babyddes ddiledryw, ac nad oedd ynddi y cydymdeimlad lleiaf â'r Protestaniaid nac â'u daliadau, yr oedd eu nerth hwy a'i chyfrwysdra hithau yn peri iddi gymeryd yn araf. Yr oedd ei haddewidion iddynt yn bur gynnil, ac yn lynydd yn cael eu tori. Pa fodd bynag, yr oedd ei phen a'i chalon o dan ddylanwad ei brodyr, Tywysogion Lorrain, y rhai oeddnt yn ysu am ddarostwng yr heresiau oedd yn ffyni yn yr Alban; ac erbyn dechreu y fl. 1569, yr oedd yr amcanion oedd ganddi mewn golwg wrth ragrithio wedi eu cyrhaedd. Yr oedd ei merch, etifedd coron Ysgotland, wedi priodi etifedd coron Ffrainc, ac yr oedd wedi llwyddo i gael iddo y *Crown Matrimonial*;* ac yr oedd hyn oll wedi cael ei ddwyn oddiamgylch yn y fath fodd dirgelaidd rhyngddi hi a'i merch a llys Ffrainc, ag oedd mewn effaith yn trosglwyddo yr Alban yn ddarostyngedig i Ffrainc. Yr oedd y Protestaniaid yn gosod eu hyder yn nidwylledd ei haddewidion, ac yn ei chynorthwyo i gyrrhaedd yr amcanion hyn; eithr nid oeddnt yn hysbys o'r cynghrair oedd rhyngddi hi a llys Ffrainc. Ond nid cynt y cadarnhawyd y ddeddf hon yn Nhachwedd, 1568, nag y sicrhäodd i Archesgob St. Andrews ar ystod ei holl gynnorthwy hi i ddarostwng y Diwygiad. Yn awr dyma hi yn dechreu ymddwyn yn onest, ac wedi bwrw ymaith ei hûg. Mewn canlyniad i hyn, ymhyhäodd yr archesgob; a dyma wÿs oddiwrtho yn niwedd Rhagfyr yn gorchymyn i'r pregethwyr ymddangos ger ei fron yn St. Andrews ar yr ail o Chwefror, i roddi cyfrif o'u goruchwyliaeth yn hau cyfeiliornadau. Penderfynodd y Protestaniaid na adawent eu pregethwyr yn ddiarniddiffyn, ac anfonasant genadau at y Rhaglaw i'w hysbysu y mynent hwy gyfiawnder iddynt; ac os byddai i'r erlyniad gael ei ddwyn ymlaen, y byddai yn St. Andrews gynnulliad lliosocach nag a welwyd ar gyffelyb achos er ys hir amser. Rhag ofn y canlyniadau hyn, ysgrifennodd hithau at yr Archesgob i oedi y prawf, ac ar yr un pryd gorchymynodd i gydgynulliad o'r mawrion gael ei gynnal yn Edinburgh ar y 7fed o Fawrth, i ymgynghori ar y pethau hyn, a rhoddodd awgrym i'r Archesgob alw cynghor o'r clerigwyr i'r un lle ar y cyntaf o'r un mis.

Erbyn hyn yr oedd y Diwygwyr wedi nodi dirprwywyr i osod eu cwynion i lawr, ac i ddeisyf fod y gwasanaeth crefyddol yn cael ei ddwyn ymlaen yn iaith y bobl, fod y rhai anghymhwys yn cael eu symud o'u bywioliaethau, na byddai o hyn allan esgobion yn cael eu derbyn heb gydsyniad y barwniaid yn yr esgobaeth, na byddai i offeriaid plwyfol gael eu gosod heb gydsyniad y plwyfolion, a bod mesurau yn cael eu trefnu i rwystro rhai anwybodus ac anfoesol i swyddau eglwysig. Cyflwynwyd i'r cynghor hefyd gŵyn oddiwrth ryw rai ag oedd yn ffyddlawn i'r Eglwys, yn galw am amryw ddiwygiadau. Ond nid oedd y cynghor yn barod i gydsynio â chais y naill na'r llall. Ac wedi trefnu rhyw bethau gyda chyfeiriad at fuchedd-

* Nid yw yn hawdd penderfynu pa ragorfreintiau a berthynai i'r *Crown Matrimonial*; ond gellid casglu fod gŵr y Frenines yn cael hawl i gymeryd yr enw brenin; bod i'w enw gael ei fathu ar yr arian, a'i fod i arwyddo gweithred a deddf gyhoeddus gyda y Frenines. Mewn canlyniad i hyn, cymerai y daliaid lŵ o ffyddlondeb iddo. Yr oedd ei awdurdod yn dyfod mewn rhyw fôr yn gydradd a'r eiddo y Frenines. Ac heb ei gydsyniad, trwy iddo arwyddo ei enw, nid ymddengys yr ystyrid un weithred yn safadwy. Gwel *Keith, Append. 20; Robertson's History of Scotland.*

au y clerigwyr a'r cyffelyb, gwrthodasant ganiatáu i'r gwasanaeth gael ei ddwyn ymlaen yn iaith y bobl; cadarnhawyd yr holl bynciau a wrthwyn-ebid gan y Protestaniaid, a threfnuwyd fod i ymholiad manwl gael ei wneyd ar ol y rhai a fyddai yn absennol o'r offeren, a bod esgymundod i gael ei gyhoeddi yn erbyn pawb a weinyddent neu a dderbynient y sacrament yn ol dull y Diwygwyr, ac yn erbyn rhieni a meichiafon a roddent eu plant i gael eu bedyddio gan y pregethwyr diwygedig, ac na ddygent hwy i gael eu hail fedyddio gan yr offeiriaid. Yr oedd y cynghor yn hyfach i benderfynu fel hyn ar y cyfrif eu bod wedi addaw i'r rhaglaw swm mawr o ar-ian i'w galluogi i gario yr amcanion allan. Pan wybu y Protestaniaid hyn, aethant allan o'r ddinas yn y fan, ac mor fuan ag yr ymadawsant cyhoeddwyd trwy orchymyn y Frenines, wrth groes y farchnad, fod gwaharddiad i bawb bregethu a gweinyddu y sacramentau heb awdurdod oddiwrth yr esgobion, a bod iddynt gydfurfio â defodau yr Eglwys Gatholig yn y Pasg canlynol. Ond gan fod y pregethwyr wedi anufuddhâu, penderfynodd y rhaglaw fynu ufudd-dod, a gwysiodd amryw o honynt i sefyll yn prawf yn Stirling, ar y 10fed o Fai, i ateb am y pethau hyn. A chan eu bod hwythau yn benderfynol i ymddangos, aeth Iarll Glencairn a Syr Hugh Campbell o Loudon ati â chwynion yn erbyn yr hyn oedd mewn bwriad; ond yr ateb a gawsant oedd y mynai hi "alltudio eu pregethwyr o'r Alban pe buasant yn pregethu cystal a St. Paul;" ac "na ddylai deiliaid feichio eu tywysogion âg addewidion ymhellach nag y gwelent hwy yn dda eu cadw." Er hyny, nid oedd ei dull trahâus yn eu digaloni; a rhoddasant ar ddeall iddi, os oedd yn penderfynu myned ymlaen yn ddiystyr o'u cwynion, yr ystyriant hwy nad oeddynt mwych o dan rwymau i ufuddhâu iddi. Daeth hyn â hi ychydig ati ei hun, a llefarai yn fwy tyner, gan addaw attal y prawf a chymeryd y mater o dan ystyriaeth. Ond cafodd ar ddeall yn fuan fod Ffrainc a Spaen wedi ymgynghreirio i ddiwreiddio yr heresia hyn, a chlybu hefyd fod tref Perth wedi bwrw ymaith yr addoliad Pabaidd a derbyn y dull Protestanaidd yn ei le; ac oblegid fod y naill yn ei chalonogi, a'r llall yn ei chythryblu, penderfynodd fynu y prawf ymlaen ar y dydd penodedig.

Pan oedd y pleidiau gwrthwynebol yn ymbarotî i'r frwydr, a'r wlad yn ferw drwyddi o'r herwydd, dyma John Knox yn glanio yn Leith. Yr oedd yr offeiriaid wedi bod yn ymgynnull am ddyddiau mewn cynghor yn mynachdŷ y Brodyr Llwydion (*Greyfriars*), mewn cynghrair yn erbyn y pregethwyr diniwed; ond ar y 3ydd o Fai, dyma un o'r frawdoliaeth yn dyfod i mewn ar golli ei wynt, ac yn gwaeddi, "John Knox! Y mae John Knox wedi dyfod! y mae wedi dyfod! yr oedd yn cysgu neithiwr yn Edinburgh!" Erbyn hyn yr oedd pawb yn fud gan syndod, heb wybod pa beth i'w wneyd. Dyma eu holl gynlluniau wedi dyrsu; rhaid rhoddi terfyn i'r cynghor ar frys, ac anfon i fynegu i'r Frenines, yr hon oedd ar y pryd yn Glasgow. Ac ymhen ychydig ddyddiau, hysbyswyd fod John Knox yn wrthryfelwr ac allan o nodded y gyfraith, yn ngrym y ddedfryd a gyhoeddwyd o'r blaen gan yr offeiriaid. Er y gwyddai ei fod mewn perygl, nid oedd mewn y petrusder i fyned ar frys i Stirling, i fod yn gyfranog o dynghed ei frodyr. Ymaith âg ef i Dundee, lle y cyfarfu â'r rhai penaf o'r Protestaniaid wedi dyfod ynghyd, gan benderfynu dilyn eu gweinidogion i'r prawf, a chyffesu yr athrawiaeth y cyhuddid hwy o'i herwydd. Nid oedd dyfodiad Knox yn fwy o ddychryn i'r offeiriaid yn Edinburgh nag oedd o lawenydd i'r frawdoliaeth Brotestanaidd yn Dundee. Cydsyniodd y Di-

wygwyr i aros yn Perth, ac anfon Erskine o Dun i hysbysu y Frenines-Raglaw am eu dyfodiad, eu hamcanion a'u dull heddychol, rhag y buasai gweled cynnifer ynghyd yn sydyn yn ei thrangwyddo. Ond rhag ofn y byddai i'w presenoldeb ddyrysu ei hamcanion, cafodd hi gan Erskine ysgrifenu at ei frodyr i ddymuno arnynt ddychwelyd i'w cartrefi, gan ei awdurdodi yn ei henw i addaw na byddai i'r prawf gael ei ddwyn ymlaen. Credasant hwythau yr addewid, ac aeth y rhan fwyaf at yr eiddynt. Ond ar ddydd y prawf, dyma wysiau oddiwrth y Frenines, yn cyhoeddi fod y pregethwyr yn cael eu cau allan o nodded y gyfraith am beidio ymddangos, a bod pawb a'u hamddiffynent yn euog o wrthryfel; a dirwywyd y rhai a ymrwymasai yn feichafion y byddai iddynt ymddangos. Y canlyniad fu meddai Dr. M'Crie,—

"Diagodd Erskine o Stirling, a dŷg y newydd am y drafodaeth waradwyddus hon, yr hyn nad allasai lai na chyffroi y Protestaniaid. Ar y diwrnod y daeth y newydd, dygwyddodd fod Knox, yr hwn a arosodd yn Perth, yn traddodi pregeth, yn yr hon y dangosai fod yr offeren ac ymostwng i'r delwau yn eilunaddoliaeth. Ymwasgarodd y gynulleidfa yn heddychol, ac nid arosodd ond ychydig o bersonau yn yr eglwys, pan y darfu i offeriad annoeth, oddiar ddymuniad i wneuthur prawf ar dueddfryd y bobl, neu i ddangos ei ddirmyg o'r athrawiaeth ag oedd newydd gael ei thraddodi, dynu y llen oddiar yr allor yr hon oedd wedi ei haddurno â delwau, a pharotdi i gyflawni gwasanaeth yr offeren. Dywedodd bachgen oedd yno ryw eiriau ag oedd yn dangos ei anghymeradwyaeth, a tharawyd ef gan yr offeriad. Ad-dalodd yntau trwy dafu cêreg at ei darawydd, yr hon a syrthiodd ar yr allor, ac a dorodd un o'r delwau. Effeithiodd hyn ar y bobl oedd yn bresennol yn cydymdeimlo â'r bachgen, ac ymhen ychydig fynyddau yr oedd yr allor, y delwau, a'r addurniadau oedd yn yr eglwys wedi eu tynu i lawr a'u mathru dan draed. Casglodd y swm fagad o bobl ynghyd, a chan nad oedd iddynt ddim gwaith yn yr eglwys, ymosodasant ar gynhyrriad sydyn ac anwrthwynebol y fynydd ar y mynachlogydd; ac er fod ustusiaid y dref a'r pregethwyr wedi dyfod ynghyd mor fuan ag y clywsant y cynhwrf, nid oedd darbywiliad y naill nac awdurdod y llall yn effeithiol i attal cynddaredd y bobl, nes y gwnaed tai y mynachod llwydion a duon, ynghydag adeilad wych y mynachod Carthusiaidd, yn garneddau. Nid oedd neb o'r boneddigion, neu y rhan ddirifol o'r gynulleidfa, yn gyfranog yn y cynhwrf diragfyr hwn; yr oedd yn cael ei gyfyngu yn hollol i'r rhai iselaf o'r preswylwyr, neu fel y geilw Knox hwynt, 'the rascal multitude.'"

Y mae yn ddiau y rhaid priodoli yr afreolaeth hwn i raddau helaeth i ffalsedd dybryd y Frenines. Nid oedd dim ymhellach oddiwrth feddyliau y Diwygwyr na chynhwrf a dinystr fel hyn, beth bynag a allasai fod eu syniadau am ddefnyddioldeb y mynachdai a'r delwau. Er hyny defnyddiodd hi y cythrwf hwn i gymhell ei phleidwyr—y Pabyddion—i gynnwll eu byddin, ac aethant tua Perth, gan fygwth gwneuthur y dref yn garnedd, a dial i'r eithaf ar y rhai a godasant y cynhwrf. Ysgrifennodd y Protestaniaid ati hi, at gadlywydd y fyddin Ffrengig, ac at y mawrion oedd o'r blaidd Babaidd ac eraill, i dystio nad oedd yn eu bwriad hwy un gwrthryfel, eu bod yn barod i roddi ufudd-dod i'r llywodraeth, eu bod yn gwarhardd i bawb godi terfysg, ac nad oedd arnynt eisieu dim ond rhyddid cydwybod a diwygiad mewn crefydd. Ond gan nad oedd dim yn tycio, penderfynasant na oddefent iddynt eu hunain a'u brodyr gael eu cigyddio gan eu gelynyon, ac ymgasglasant ynghyd i amddiffyn y dref. Tybiodd y Frenines, wrth eu gweled mor gryfion a phenderfynol, mai doeth iddi a fuasai cynnyg dyfod i ryw delerau mewn tawelwch, â'r hyn y cyttunasant hwythau. Penododd y Frenines a'r Iarll Argyle ac Arglwydd James Stewart i ddyfod i ammodau. Yr oedd y ddau foneddwr hyn yn bleidiol i'r Diwygwyr, ond nid oeddynt eto wedi cymeryd yr ochr hono gyda'u brodyr. Cafodd John Knox gyfleusdra y pryd hwn i ddwyn ar gof iddynt

yr addewidion difrifol a wnaethent o'r blaen pan gydag ef yn West Lothian. Atēbent hwythau eu bod wedi cael eu tueddu gan y Frenines a'r offeiriaid i gredu eu bod ar fedr gwrthryfela yn erbyn y llywodraeth; ond yn awr eu bod yn gwbl argyhoeddedig o'u camsyniad; eto yr oeddynt yn awyddus i derfynu yr anghydweliad presennol mewn heddwch, ac addawsant, os na byddai iddi hi gadw at yr ammodau y cyttunid arnynt, y byddai iddynt ei gadael hi ac ymuno â hwy. Felly cyttunwyd fod i'r dref gael ei gadael yn agored i'r Frenines; na elwid neb o'r preswylwyr i gyfrif am yr hyn a gymerodd le; na byddai i'r fyddin Ffrengig ddyfod i'r dref; a phan y byddai i'r Frenines ymadael, na adewid gwarchlu ynddi. Ar yr un pryd, nid oedd y Diwygwyr yn meddu un gradd o hyder na thorai hi y cyttundeb mor fuan ag y gwelai hyny yn fanteisioleiddi ei hun. Pa fodd bynag, cyn ymadael o'r dref, gwnaethant gyfammod â'u gilydd i amddiffyn eu gwlad ac i sefydlu y grefydd Ddiwygedig. Arwyddwyd y cyfammod hwn gan Ieirll Argyle, Glencairn, Monteith, a Rothes; Arglwyddi Ochiltree, Boyd, Ruthven, a James Stewart, ynghyda llawer o'r barwniaid. Y pryd hwn y dechreuwyd galw y Diwygwyr wrth yr enw Y GYNNULLEIDFA. Ond mor fuan ag y cafodd y Frenines feddiant o'r dref, dechreuodd dori y cyttundeb ymhob rhan o hono. Cwynai Argyle a Stewart yn sawr wrthi o herwydd ei hymddygiad, a dywedai hithau, "nad oedd hi yn rhwym i sefyll at addewidion a wnaethai i hereticiaid, ac y byddai ei chydwybod hi yn ddigon tawel i gymeryd eu bywydau a'u meddiannau oddiar y sect hono, pe gallasai ei wneuthur gydag esgus mor onest." Teimlai y ddau foneddwr eu bod hwythau yn cael eu dirmygu, a gadawsant hi gan ymuno â'r Gynulleidfa, a nacáu rhoddi eu hymddiried yn ei haddewidion mwy.

Yr oedd y Diwygwyr wedi meddwl ar y cyntaf, pan nad oedd eu nifer eto ond bychan, y galesid cael gwelliant ar lawer o bethau yn yr Eglwys trwy offerynoldeb yr offeiriaid, ac wedi cyfeirio eu dymuniad atynt am hyny lawer gwaith; ond profodd y cwbl yn ofer. Coleddid gobaieth o dan raglawiaeth Arran y ceid ef yn ddiwygiwr, ond yn lle hyny, ymunodd â'u gwrthwynebwyr. A thrachefn, rhoddasant eu hyder yn y Frenines-Raglaw, gan ymddiried yn ei haddewidion teg, a dysgwyl ei bod rai gweithiau yn cloffi rhwng dau feddwl, ac y byddai iddi hi droi ei dylanwad o'u plaid yn gwbl; eithr ofer fu eu dysgwyliad yma hefyd. Erbyn hyn yr oedd eu hamynedd wedi pallu, ac ni chanfyddent un ymwarded ond trwy gymeryd y gwaith i'w dwylaw eu hunain. Felly, tua dechreu Mehefin, 1559, ymgynullodd arglwyddi y Gynulleidfa ynghyd, a phenderfynasant, yn wyneb fod bucheddau yr offeiriaid mor aflan, bod addysg grefyddol y bobl yn cael ei hollol esgeuluso, a bod y gwasanaeth crefyddol wedi dirywio i eilunaddoliaeth hollol, y byddai iddynt symud ymaith y gwasanaeth Pabaidd, a sefydlu addoliad Protestanaidd ymhob man lle yr oedd eu hawdurdoedd a'u dylanwad yn cyrhaedd, a lle y cafant y rhan fwyaf o'r trigolion yn dymuno hyny. Fe allai fod rhai o'n darllenwyr yn barod i'w beio am gymeryd yr awdurdod yma, ac nad oeddynt hwythau yn ddim gwell wrth sefydlu Protestaniaeth trwy awdurdod na'r rhai oedd yr un modd yn cynnal Pabyddiaeth. Ond, er nad oes genym ni un dymuniad am unrhyw awdurdod o blaid teyrnas y Gwaredwr heblaw yr awdurdod sydd yn hanfodi ynddi hi ei hun, eto y mae yn rhaid i ni gofio pwy oedd y gwyr hyn, a'r adeg yr oeddynt yn byw ynddi; ac ond i'r pethau hyn gael eu hystyried yn ddiuedd, nid ydym i ryfeddu cymaint at eu penderfyniad. Bob yn ychydig y mae dyuon yn

dyfod i'r goleuni gyda chrefydd fel gyda phob diwygiad arall. A'n syndod ni bob amser, wrth ddarllen hanes y Diwygiad Protestanaidd ymhob gwlad, ydyw gweled y Diwygwyr wedi ymddyosg mor llwyr oddiwrth ddylanwad Pabyddiaeth, ac nid fod rhyw bethau amheus yn aros ynddynt. Yr oedd y Protestainiaid erbyn hyn mor lliosog o ran eu rhif, ac mor fawr o ran eu gallu a'u dylanwad, fel ar ryw gyfrifon nad oedd yn beth rhyfedd eu bod yn teimlo yn lled annibynol yn wyneb y gorthrymder yr oeddynt dano, y modd yr ymddygid tuag atynt gan yr offeiriaid, a'r dull trahâus yr ymddygydd tuag atynt gan y Frenines, ac y bradychodd eu hymddiried gy-nifer o weithiau i wasanaethu ei hamcanion ei hunan.

Pa fodd bynag, i'r penderfyniad hwn y daethant, ac mae yn bur debyg fod pethau wedi cael eu dwyn ymlaen yn fwy rheolaidd mewn canlyniad i hyn, na phe buasent wedi goddef yn hŵy, ac i'r lliaws gyfodi mewn dig-ofaint i ymgymeryd â'r gorchwyl; yr hyn y mae yn lled sicr a ddygwyddasai, gan fod rhan mor fawr o'r genedl yn gofyn am gyfnewidiad. Penderfynwyd dechreu ar y gorchwyl yn St. Andrews, a galwyd ar John Knox gan Iarll Argyle ac Arglwydd James Stewart, yr hwn oedd yn ben ar y mynachdŷ yno, i'w cyfarfod yn y dref hono. Clybu yr Archesgob am ei fwriad i bregethu yn yr Eglwys Gadeiriol, a chasglodd fyddin ynghyd, gan ei hysbysu, os byddai iddo ymddangos yn y pulpud, y gorchymynai i'r milwyr danio arno. Erbyn hyn yr oedd ei fywyd yn ymddangos mewn perygl, a thuedd ei wahoddwyr, wrth ystyried nad oedd eu gallu hwy ond bychan, bod y Frenines a'i byddin yn lled agos, ac nad oeddynt yn sicr pa fodd yr oedd y trigolion yn teimlo, i'w ddarbwyllio i beidio anturio ymlaen, rhag y byddai i'w fywyd ef a hwythau syrthio yn aberth i'w gelynyion. Ond na! nid felly chwaith. Yr oedd wedi bod yn gobeithio ac yn gweddio am gael y cyfleusdra ag yr oedd Rhagluniaeth wedi ei osod yn awr o'i flaen. Galwai Dduw yn dyst na ddarfu iddo erioed bregethu oddiar ddirmyg at un dyn, na chyda bwriad o niweidio un creadur ar y ddaear; ond am beidio pregethu drannoeth, nis gallai o gydwybod gydsynio, oddieithr iddo gael ei orfodi i hyny. "A chyda golwg ar y perygl a allai fy nghyfarfod," meddai, "na fydded neb yn bryderus; oblegid y mae fy mywyd i yn ngofal yr Hwn yr wyf yn ceisio ei ogoniant. Nid wyf yn dymuno arf un gŵr i'm hamddiffyn. Nid wyf ond yn deisyf gwrandawriad yn unig, ac os gommeiddir ef i mi y tro hwn, rhaid i mi ymofyn am dano lle y gallaf ei gael." Nid oedd o un dyben ei wrthwynebu; a thrannoeth dyma gynnulleidfa liosog wedi ymgasglu ynghyd, ac yn eu mysg lawer o offeiriaid; a dacw y pregethwr yn y pulpud, heb ofni wynebau nac arfan yr un o honynt. Pwnc y bregeth oedd bwrw y prynwyr a'r gwerthwyr allan o'r deml yn Jerusalem; ac ymosodai yn ddiifoesgni ar y llygredigaethau a ddygwyd i'r Eglwys gan Bab-yddiaeth, gan ddangos ei bod yn ddyledswydd ar bob crïstion, hyd ymae ynddo, eu bwrw ymaith. Pregethodd bob dydd yn yr un lle am y tridiau canlynol, a chafodd y fath ddylanwad ar yr awdurdodau a'r bobl, fel y penderfynasant sefydlu yr addoliad Protestanaidd yn y dref. Tynwyd ymaith y delwau a'r lluniau o'r eglwys, a bwriwyd y mynachlogydd i lawr. Cymerodd hyn le tua chanol Mehefin, 1559. Aethant ymlaen o St. Andrews i Perth, ac oddiyno i Stirling, ac wedi hyny dacw y brifddinas Edinburgh yn eu meddiant. Yr oedd ofn yr offeiriaid yn cilio, yr addoliad Pabaidd yn cael ei frw ymaith mewn llawer o fanau, "a chyn pen ychydig wythnosau yr oedd tai y mynachod wedi eu dadymchwelyd, a holl offer eilunaddoliaeth wedi eu

dinystrio yn Crail, Cupar, Lindores, Stirling, Linlithgow, Edinburgh, a Glasgow."

Wedi iddynt gymeryd meddiant o Edinburgh, pregethodd Knox yn St. Giles. Ar y 7fed o Gorphenaf, dewiswyd ef gan y preswylwyr i fod yn weinidog iddynt. Yn ganlynol, anfonwyd at y Frenines i'w hysbysu nad oedd ynt yn bwriadu ymwrthod â'i hawdurdod, ac y dymument ddyfod i delerau tangnefeddus â hi. Cytunodd hithau i alw yn ol y ddedfryd oedd yn eu cau allan o nodded y gyfraith, a chaniatáu iddynt bregethu i'r neb a ddewisai wrandaw arnynt. Ond mor fuan ag y deallodd fod y rhan fwyaf o'u byddin hwy wedi gadael Edinburgh, gorchymynodd i'w byddin ei hun gyfmyrd meddiant o'r ddinas. Ar yr un pryd, mynodd y trigolion gael addewid ganddi i addoli yn ol eu cydwybodau. Ufuddhâodd Knox i'w gyfeillion i ymadael, a gadawyd Willock, yr hwn nad oedd wedi cynnyrchu cymaint o ddygasedd yr offeiriad, i weinidogaethu yn ei absenoldeb. Ac er fod y Frenines yn dra awyddus i sefydlu yr addoliad Pabaidd, a bod y fyddin Ffrengig yn fynych yn cythryblu y gwasanaeth Protestanaidd, ni roddwyd i fyny. Yr oedd y gwasanaeth Pabaidd yn cael ei gyfyngu yr holl amser hwn i'r capel breninol.

Er fod Knox wedi cyffroi gelyniaeth yr offeiriad mor fawr, fel yr oedd megys â'i fywyd yn ei law bob dydd, yr oedd ei awydd am bregethu, a'i wresogrwydd yn achos ei Feistr mor fawr, fel nad oedd yn gwneuthur cyfrif o ddim, ac nad gwerthfawr ganddo ei einioes ei hun, os gallai gael cyfleusdra i dystiolaethu efengyl gras Duw. Ymhlen tua dau fis wedi gadael Edinburgh, yr oedd wedi teithio dros ran fawr o'r wlad, gan gadarnhau eneidiau y dysgyblion, ac ennill brodyr lawer. Yr oedd meddwl y genedl wedi ei gyffroi, cyfeiliornadau Pabyddiaeth yn dyfod yn fwy adgas yn ei golwg, y syched am air y bywyd yn cynnyddu, ac yr oedd Duw yn aroglï aroglëdd ei wybodaeth trwy ei was ymhob lle. Cafodd y cysur o weled ei deulu wedi cyrhaedd hyd ato yn ddiogel erbyn tua diwedd Medi. Daeth ei gydweinidog yn Geneva, Christopher Goodman, drosodd gyda hwynt.

Tua'r adeg y cymerodd y Diwygwyr feddiant o Edinburgh, bu farw brenin Ffrainc, a daeth Francis II., gŵr *Mary Queen of Scots*, i'r orsedd. Yr oedd gweinyddiad y llywodraeth yno yn awr i fesur helaethach nag o'r blaen, yn syrthio i ddwyllaw y Duc o Guise a Cardinal o Lorraine, ewythredd y Frenines ieuanc Mary, brodyr i'w mam, Brenines-Raglaw yr Alban. Erbyn hyn, yr oedd yr awdurdod yn y ddwy wlad yn nwyllaw yr un teulu, ac yr oedd bryd pob un o honynt ar ddyfetha y Diwygiad hyd eithaf eu gallu. Yr oedd meddwl y Frenines yn adfywio, a'i gobeithion yn cryfhau yn wyneb y pethau hyn. Yr oedd Leith ac Edinburgh yn ei meddiant, a gobaith bellach am ddigon o arian a milwyr o Ffrainc i ddarostwng y wlad rhag blaen. Yn y cyfamser, trwy ryw lwybr, diangodd Iarll Arran, mab i'r hwn a fu yn Rhaglaw o flaen y Frenines Waddolog, ac a elwid wedi rhoddi ei raglawiaeth i fyny, yn Dduc Chatelherault, o Ffrainc i'r Alban, a darbwylodd y Duc ei dad i ymuno gydag ef a'r Diwygwyr. Yr oedd hyn yn gryn ychwanegiad at eu nerth. Yn wyneb hyn, yr oedd y Frenines yn prysur gryfhau ei hamddiffynfa yn Leith. Ac o'r tu arall, yr oedd Arglwyddi y Gynnulleidfa yn nesu at Edinburgh; a chan nad oedd hi wedi derbyn digon o adgyfnerthion o Ffrainc i'w hwynebu, ymneillduodd i Leith, gan ddysgwyl amser mwy cyfaddas, a chymerasant hwythau feddiant o'r brifddinas. Ar yr 21ain o Hydref, 1559, ymgynnulodd yr holl ar-

glwyddi, barwniaid, a chynrychiolwyr rhanau o'r wlad ag oeddynt o blaid y Diwygiad, i gymeryd o dan ystyriaeth pa fesurau pellach i'w defnyddio o dan yr amgylchiadau presennol, i waredu y wlad o'r anghydfod a'r trueni yr oedd ynddo. Gosodwyd o'u blaenau y modd bradwrus yr oedd y Frenines wedi ymddwyn tuag atynt, yr anffyddlondeb oedd wedi ei ddangos i bob telerau a wnaed â hi, ac i bob addewidion o'r eiddi hi iddynt hwy, a'r dull trahâus yr oedd wedi ymddwyn tuag at eu cwynion bob amser; ac ymgyngorwyd ar y priodoldeb o ymwrthod â'i rhaglafiaeth. Galwyd Knox a Willock i'r cynghor, i gael eu barn hwy ar yr achos. Barnai yr olaf fod terfynau i awdurdod llywodraethwyr, yn ol pob rheswm ac Ysgrhythyr; y gellid eu hymddifadu o hono yn wyneb amgylchiadau neillduol; a bod ymddygiadau y Frenines yn ymgaeru Leith, ac yn dwyn byddinoedd tramor drosodd gyda bwriad i orthrymu a dwyn wlad i gaethiwed, yn cyfiawnhâu hyn yn yr adeg bresennol. Cyttunai Knox â'r syniadau yma, gyda hyn o ychwanegiad:—*Yn gyntaf*, Na byddai iddynt oddef i'w chamymddygiad hi ddeieithrio eu meddyliau oddiwrth eu penaduriaid Francis a Mary. *Yn ail*, Na byddai iddynt wneyd hyn oddiar ddygasedd personol at y Frenines Waddolog, ond oddiar ofal am ddiogelwch y wladwriaeth; ac, *yn drydydd*, Na byddai i unrhyw ddedfryd ei chau allan rhag dyfod i'r swydd eilwaith, os amlygai edifeirwch am ei hymddygiad, a thuedd i gydsynio â chynghor cynnrychiolwyr gwahanol ddsbarthiadau y wlad. Traddododd llawer eraill eu syniadau, a phenderfynwyd ymddifadu y Frenines o'i hawdurdod fel rhaglawl, hyd nes y cyfarfyddai y Senedd; ac ar yr un pryd, etholwyd cynghor i lywodraethu yn y cyfwng.

Y mae rhai haneswyr yn beio y ddau weinidog yn fawr am y rhan a gymerasant yn yr ymdrafodaeth hon; ond wrth ystyried yr amgylchiadau yr oeddynt danynt, eu cysylltiad â'r Diwygiad, y modd yr oedd yn cael ei ddwyn ymlaen, a'u hawydd am weled y wlad yn cael ei dwyn i ryddid gwladol a chrefyddol, nid yw yn anhawdd cael rhesymau cryfion i'w hesgusodi; ac yn wir, y mae yn rhaid addef eu bod yn traethu eu barn gyda llawer iawn o gymedroldeb. Pa fodd bynag, fel hyn y phenderfynwyd, a chyhoeddwyd hyn yn holl brif drefydd y deyrnas, gan hysbysu y Frenines ei hunan, a galw arni i anfon ymaith y fyddin Ffrengig o Leith, a rhoddi y dref i fyny. Gwrthododd hithau gydsynio; ac wedi un ymdrechfa neu ddwy, gorfu ar fyddin y Gynulleidfa godi y gwarchae; ymadawsant o Edinburgh hefyd o flaen eu gelynyon, a ffoisant i Stirling mewn cryn lawer o ddigalondid. Yr oedd Knox yn parhâu yn galonog yn nghanol y trychineb; ac wedi cyrhaedd Stirling traddododd bregeth iddynt, yr hon a gafodd effaith anarferol arnynt. Dywedai fod eu gelynyon wedi cael yr oruchafiaeth arnynt y tro hwn; fod y rhai oedd gyda'r Gynulleidfa o'r dechreuad yn ymddiried yn yr Arglwydd pan oedd eu nifer yn ychydig, yn awr ar ol iddynt llosgi, ac i deulu Hamilton, ac eraill, ymuno â hwy, wedi gosod eu hyder mewn braich o gnawd, a chael eu siomi; fod yn rhaid iddynt frw ymaith eu hunanhyder, a throï at yr Arglwydd mewn teimlad o'u hymddibyniad arno ef yn unig am lwyddiant; fod yr achos ag yr oeddynt hwy yn sefyll o'i blaid yn sicr o lwyddo yn yr Alban, er gwaethaf pob gwrthwynebiad. Gwirionedd tragywyddol y Duw tragywyddol yr oeddynt yn ei amddiffyn. Gellid ei attal am dymmor, ond byddai iddo orchfygu o'r diwedd. Cyfrôdd hyn y gwranda-wyr i benderfynu sefyll yn *wrol* yn yr ymdrechfa o blaid eu gwlad a'r grefydd Brotestanaidd.

Yr oeddynt wedi anfon cais i Loegr fwy nag unwaith cyn hyn am help oddiyno. Pe na buasai yr ymdrech ond rhwng y rhai oedd yn Brotestaniaid a'r rhai oedd yn Babyddion o fewn y wlad yn unig, yr oedd y Diwygwyr yn digon cryfion ymhob ystyr i gario yr oruchafiaeth; ond o herwydd fod eu gelynydd yn cael cynnorthwy o Ffrainc, yr oeddynt yn sefyll ar y tu gwanaf. Nid oedd Elizabeth, brenines Lloegr, o'r dechreu yn anffoddlawn i roddi cynnorthwy i'r Diwygwyr yn yr Alban. Yr oedd yn gwybod am ddylanwad Tywysogion Lorrain yn llŷs Ffrainc, ac yn dra drwgdybus o'u hamcanion yn cynnorthwyo eu chwaer, y Frenines-Raglaw. Nid oedd hefyd heb deimlo graddau o bryder, oddiar fod Mary, yr hon oedd yn awr yn frenines Ffrainc, yn nesaf iddi mewn hawl i goron Lloegr, rhag y byddai i Babyddion y wlad hon ymuno â Ffrainc i'w bwrw hi ymaith fel etifedd anghyfreithlawn, a heretic, a gosod Mary yn ei lle. Yr oedd yn gwybod y buasai hyn yn dra dymunol gan y naill a'r llall, ac yr oedd yn dra eiddgeddus dros ei hawliau a'i hanrhydedd ei hun. Nid oedd yn anhysbys ychwaith y gallasai fod bwriad o du Ffrainc i ddarostwng y Diwygiad yn yr Alban, mewn trefn i weithio eu ffordd i Loegr, wedi unwaith sefydlu eu hawdurdod yno. Ar yr un pryd, yr oedd yn dewis peidio rhoddi tramgwydd uniongyrchol i Ffrainc, ac felly yr oedd yn dra chynnil a gochelgar wrth anfon cynnorthwy i Brotestaniaid yr Alban. Pa fodd bynag, wedi iddynt gael eu gyru ymaith o Edinburgh, a ffoi i Stirling, yr oedd Arglwyddi y Gynulleidfa yn gweled eu bod mewn amgylchiadau ag yr oedd eu gobaid am oruchafiaeth yn troi ar fod iddynt gael cynnorthwy effeithiol o Loegr. Ac mewn canlyniad i bregeth Knox (y cyfeiriasom ati), ar eu dyfodiad i Stirling, i.e. yn nghorff y prydawn hwnw, penderfynwyd anfon William Maitland o Lethington i Lundain, i osod yr achos ger bron Elizabeth. Nid oedd ond ychydig ddyddiau er pan oedd y gŵr hwn wedi ymuno â hwy. Yr oedd yn ŵr galluog a medrus, ac wedi bod yn brif ysgrifenydd i'r Frenines; ond o herwydd ei fod yn Protestant o ran ei egwyddorion, ac am ei fod yn ddigél yn collfarnu amryw o'u mesurau creulawn, yr oedd wedi deall fod rhai o'r swyddogion Ffrengig yn cynllwyn am ei einioes—diangodd oddiwrthi at y rhai yr oedd ei galon eisoes gyda hwy. Yr oedd hyn yn golled fawr iddi hi, ond yn ennill mawr iddynt hwy. Yr oedd yr ohebiaeth â Lloegr i fesur helaeth yn nwylaw Knox cyn hyn, ond yn awr y mae yn llawen weled yr achos yn cael ei gyflwyno i Maitland.

Yn y cyfamser, yr oedd byddinoedd y Frenines yn ymdrechu cymeryd meddiant o amryw fanau; ond wedi i Maitland wneuthur yn hysbys yn Lloegr pa fodd yr oedd pethau yn sefyll, canfyddodd Elizabeth a'i chynghoriaid na ddylesid oedi yn hŵy heb anfon cynnorthwy effeithiol i'r Diwygwyr; ac anfonwyd llynges i warchae Leith o'r môr, a byddin i ymosod arni o'r tir. Gwnaeth llŷs Ffrainc ei oreu i ddarbwyllio Elizabeth; ond er ei bod unwaith bron wedi rhoddi gwrandawriad, ymlaen yr aeth, a gwelodd y gelynydd mai y ffordd ddiogelaf oedd ymostwng i ammodau heddwch; a chytunwyd fod i'r naill a'r llall roddi arfau i lawr, a bod i genadon gydyfarfod yn Edinburgh i gydsynio ar, a chadarnhâu, y cyfammod. Yr oedd y Frenines-Raglaw wedi ymadael o Leith, a chymeryd noddod yn y brif ddinas, pan oedd y rhyfel yn cael ei ddwyn ymlaen, a bu farw yno. Erbyn i'r cenadau gyrhaedd Edinburgh ar yr 16eg o Mehefin, 1560, o herwydd fod y prif gynhyrfydd wedi ei symud ymaith gan anghydfod, a Ffrainc heb fod yn yr agwedd fwyaf tangnefeddus, nid oedd yn anhawdd dyfod i delerau boddhaol. Penderfyn-

wyd nad oedd i'r fyddin Ffrengig aros yn yr Alban; fod maddeuant yn cael ei gyhoeddi i bawb oedd wedi dangos gwrthwynebiad i'r Frenines-Raglaw; fod y pethau penaf y cwynid o'u herwydd yn y llywodraeth yn cael eu symud ymaith; fod Senedd rydd i gael ei chynnal yn y mis Awst canlynol, i drefnu amgylchiadau y deyrnas; ac yn absenoldeb y Brenin a'r Frenines fod i ddeuddeg o'r genedl gael eu dewis mewn rhan gan Francis a Mary, ac mewn rhan gan y Senedd, i weinyddu yr awdurdod. Arwyddwyd y penderfyniadau hyn ar y 7fed o Gorphenaf, ac ar yr 16eg ymadawodd byddinoedd Ffrainc a Lloegr o'r wlad. Ac ymhen tridiau wedi hyny, ymgynullodd y gynulleidfa yn Eglwys St. Giles, yn Edinburgh, i dalu diolchgarwch cyhoeddus i Dduw am ei ymwared i'w gwlad, a bod heddwch wedi ei sefydlu.

Ar y 1af o Awst, ymgyfarfu y Senedd; a chan nad oedd un cyfeiriad at grefydd yn y cyttundeb a wnaed ar derfyn y rhyfel, yr oedd yn rhydd i ymddrin â hyny yn ol y doethineb a roddid iddynt. Cyflwynwyd deiseb ger ei bron gan y Protestaniaid, yn dymuno ar y Senedd ddefnyddio yr awdurdod yr oedd Rhagluniaeth wedi ei rhoddi yn eu dwylaw i gyflawni gwaith mawr. Gofynent dri pheth:—"Fod i'r athrawiaeth Anghristionogol a ddelid gan Eglwys Rhufain gael ei bwrw ymaith; fod moddion yn cael eu harfer i buro yr addoliad, ac i gael dysgyblaeth yn ol y Gair; a bod i'r cyllid eglwysig ag oedd wedi bod yn meddiant offeiriadaeth segur a llygredig gael ei gymhwyso i gynnal gweinidogaeth dduwiol a gweithgar, i ledanu addysg, ac i gynnorthwyo y tlodion. Mynegent eu bod yn barod i brofi cyfiawnder yr hyn a ofynent, ac yn neillduol fod y rhai hyny a honent iddynt eu hunain yr enw o glerigwyr, yn amddifaid o bob hawl i gael eu cyfrif yn weinidogion crefydd; ac oddiar y tra-arglwyddiaeth oeddynt wedi ei arfer, a'u gwarogaeth i lys Rhufain, nas gellid yn ddyogel eu goddef, llawer llai eu rhoddi mewn awdurdod, mewn llywodraeth ddiwygiedig."

Fe allai y bydd ambell un yn barod i feio y Diwygywr am fyned yn rhy bell; wedi cael gobaith am yr awdurdod i'w dwylaw, nad oeddynt yn ddim gwell na'r Pabyddion; a'u bod hwy am gyfyngu ar eu gwrthwynebwyr mor galed ag yr oedd eu gwrthwynebwyr arnynt hwythau. Wel, bydded felly. Nid ydym yn myned i'w hamddiffyn, ond yn unig dwyn ar gôf fod llawer o bethau yn amgylchiadau yr amseroedd yn tueddu i'w hesgusodi. Nid oedd neb yn meddwl y pryd hwnw yn amgen nag y dylasai y llywodraeth wladol ymyraeth â chrefydd y deiliaid; fod y cyfoeth a berthynai i'r eglwys i gael ei ddefnyddio at ledanu y gwirionedd; ac yn wir, oddiar y safle yma o edrych ar bethau, yr oedd llawer o gymedroldeb yn eu gofynion, pan nad oeddynt yn gofyn am ddim mwy na'r drydedd ran at gynnal y weinidogaeth. Nid ydym yn berffaith sicr ychwaith eu bod yn myned yn rhy bell wrth gyfyngu ar awdurdod y Pabyddion. Y mae yn rhaid i ni gofio mai nid Pabyddiaeth fel y mae yn awr yn Lloegr oedd Pabyddiaeth yr Alban, ond fel y mae yn Italy. Nid ydym yn meddwl wrth ddyweyd hyn fod Pabyddiaeth Lloegr yn ddim gwell na Phabyddiaeth Italy; ond y mae yma gymaint o oleuni, fel nas meiddia ddangos ei hun yn ei pherffeithrwydd; ac yr ydym yn ofni fod llawer yn cael eu twyllo ar y cyfrif yma. Nid wrth yr hyn ydyw unrhyw grefydd o dan anfanteision yr ydym i'w barnu, ond wrthi yn y fan ag y mae ei hegwyddorion yn cael mantais i wreiddio a ffrwytho yn ddirwystr. Ond hyny yr oeddynt yn myned i'w ddyweyd, wrth gymeryd pobpeth i ystyriaeth, Ai nid fel hyn yr oedd ddoethaf ymddwyn tuag atynt? Wrth reswm, y mae ein

darllenwyr yn gwybod ein bod ni yn berffaith wrthwynebol i gyfyngu ar ryddid Pabydd mewn cysylltiad â'i grefydd, yn gystal a phob dyn arall; ond y mae amcan y grefydd Babaidd am gael yr awdurdod wladol i'w dwylaw, a gwae i bawb a ddysgo ddim yn groes iddi wed'yn; ac yr oedd felly yn arbenig y pryd hwnw yn yr Alban. Mae yn wir fod y Pabyddion yn haeru fod rhai o honynt hwy wedi dyoddef merthyrdod yn achos eu crefydd oddiwrth Protestaniaid, ac nid ydym yn barod i wadu nad oes lliw gwirionedd ar hyn. Ond y pwnc yw, a ddyoddefasant hwy ferthyrdod yn achos eu crefydd yn yr un ystyr ag y dyoddefodd Protestaniaid ferthyrdod gan y Pabyddion? Naddo erioed. Nid o herwydd eu crefydd fel mater cydwybod rhyngddynt hwy â'u Barnwr y dyoddefasant, ond yn y wedd ag yr oedd eu crefydd yn eu gwneuthur yn beryglus i'r llywodraeth a'r deiliaid fel cymdeithas wladol y collfarnwyd hwynt. Nid ydym yn myned i gyfiawnhâu eu merthyrdod, cofier. Yr ydym ymhell oddiwrth hyny; ond dyna oedd trefn y dydd y pryd hwnw, ac athrawiaeth oedd hon ag oedd wedi ei dysgu gan y Pabyddion eu hunain.—Pabyddiaeth ydoedd nad oedd Protestaniaid y pryd hwnw wedi ymryddhâu oddiwrtho. Ond y mae Protestaniaid wedi dyoddef merthyrdod ar gyfrif eu crefydd, am eu bod yn dal egwyddorion, meddid, ag oedd yn ddinystriol i'w heneidiau, ac nid am fod un duedd ynddynt i niweidio cymdeithas yn y byd hwn—nid am eu bod yn dwyn neb i gaethiwed, ond am eu bod yn eu dwyn i oleuni a rhyddid. Ac yr oedd y frwydr wedi bod mor boeth rhwng y Protestaniaid a'r Pabyddion, a'r cyntaf wedi dyoddef cymaint oddiwrth yr olaf, fel nad yw yn beth rhyfedd, wrth gosio mai dynion oeddynt, eu bod yn myned hwyrach yn lled bell; er hyny, ni ddyoddefodd un Pabydd ferthyrdod yn yr Alban o herwydd ei grefydd.

Ond cyn penderfynu dim, galwodd y Senedd am Gyffes Ffydd y Diwygywr, a phenodwyd pedwar, o ba rai yr oedd John Knox yn un, i'w gyfansoddi. Ymhen pedwar diwrnod yr oedd yn barod i'w osod ger bron y Senedd. Yr oedd yn cynnwys crynodeb o brif egwyddorion yr efigyl, ac yn cyttuno â chredôau eglwysi Diwygiedig mewn gwledydd eraill. Darllenwyd pob erthygl o hono ger bron y Senedd, lle yr oedd amryw o weinidogion y Gynulleidfa yn bresennol, i'w amddiffyn ac i egluro rhyw bethau a allasai ymddangos yn ammheus. Ni ddywedodd yr esgobion air yn ei erbyn, a chydsyniodd pawb o'r mawrion âg ef ond dau; a'u rheswm dros ei wrthod oedd, "We will beleve as our forefathers belevit." Anfonwyd y weithred yn llaw gŵr cymhwys i Ffrainc, i ddeisyf am iddi gael ei chadarnhâu gan Francis a Mary; eithr ni chafodd fawr o dderbyniad. Ffordd arall yr oedd eu tuedd hwy; ac y mae yn debyg nad oeddynt yn ddiobaith y gallent gael cyfeusdra i adsefydlu y grefydd Babaidd. Eithr nid oedd eu gwrthodiad yn digaloni dim ar y Diwygywr, ac aethant ymlaen yr un modd â phe na buasai gan eu penaduriaid y gradd lleiaf o wrthwynebiad i'w derbyn.

Erbyn hyn yr oedd gweinidogion wedi eu sefydlu mewn amryw o'r prif drefydd, ac yr oedd Knox wedi dychwelyd o St. Andrews i gymeryd gofal yr eglwys yn Edinburgh. Ond yr oedd y wlad yn dra amddifad, ac yr oedd galwad ar y Diwygywr i ymdrechu cael y Gynulleidfa i ffurf mwy trefnus. Yr oeddynt wedi bwrw ymaith yn hollol bob perthynas âg Eglwys Rhufain, a thrwy hyny yr oedd yn rhaid iddynt chwilio y Testament Newydd am gyfarwyddyd i fyned ymlaen. Penodwyd ar dri gyda Knox at y gorchwyl hwn eto; a chymerasant olwg ar yr Eglwys Ddiwygiedig yn

pherthynas â dysgyblaeth, derbynïad rhai i'r weinidogaeth, addysg y genedl, a threfniad cyllid yr Eglwys i'r dybenion hyn. Yr oedd gweinidogion i gael eu sefydlu yn ol dewisiad a galwad y cynulleidfaoedd; ac mewn cysylltiad â hyny, gan nad oedd ond ychydig o weinidogion yn barod yn y wlad, yr oedd yn eu bwriad ei rhanu yn ddeg o ddsbarthiadau, a phenodi goruchwyliwr i arolygu pob dosbarth, a theithio i bregethu o'r naill ardal i'r llall. Ond nid allwyd cyrhaedd yr amcan hwn mor gyflawn ag y dymnent, o herwydd prinder gwŷr cymhwys i weithredu felly. Yr oedd cryn wrthwynebiad gan rai i ranu cyllid yr Eglwys hefyd rhwng y weinidogaeth, yr athrofeydd, ac addysg gyffredinol; ond yr oedd hyny yn codi oeddiar fod llawer o'r eiddo hwnw yn disgyn i ddwyllaw rhai o'r mawrion ag oedd wedi ymuno â'r Gynulleidfa. Dywed Knox am Arglwydd Erskine, wedi hyny Iarll Mar, yr hwn oedd un o'r gwrthwynebwyr penaf, "He hes a very Jesabell to his wife," ac hefyd, "if the pure, the scullis, and the ministry of the Kirk, had thair awin, his kitcheing wald want twa partes and mair of that quhilk he now unjustly possesses."

Ymfurfiodd y Gynulleidfa yn eglwys yn ol y drefn henaduriaethol, a chynnalwyd Cymanta Gyffredinol gyntaf Eglwys Ysgotland yn Edinburgh, Rhagfyr 20fed, 1660, yn cynnwys deugain o aeolodau, o ba rai nid oedd ond chwech yn weinidogion. Yn wyneb yr ymddifadrwydd o weinidogion yn ngwahanol barthau y wlad, "fel na byddai i'r bobl gael eu gadael yn hollol amddifad o addoliad cyhoeddus ac addysg, penodwyd nifer o ddynion dauwl ag oedd wedi cael dysg cytfredin i ddarllen yr Ysgrhythrau a gweddïau. Gelwid y rhai hyn yn *ddarllenwyr*. Mewn plwyfydd mawrion, cynnorthwyent y gweinidogion mewn rhan o'r gwasanaeth. Os byddent yn meddu ar raddau lled helaeth o wybodaeth, annogid hwy hefyd i roddi ychydig o gynghorion i'r gwrandawyr. Gelwid y rhai hyn yn *gynghorwyr*, a byddai raid iddynt fyned dan arholiad. * * * Ni chaniateid i neb bregethu a gweinyddu y sacramentau ond y rhai a elwid yn rheolaidd. Etholid hwy trwy rydd-ddewisiad y bobl, arholid hwy gan y gweinidogion, a derbynid hwy yn gyhoeddus ger bron y gynulleidfa. Ar ddydd y neillduad, traddodai y gweinidog a fyddai yn llywyddu bregeth ar yr achos, a gofynai nifer o holiadau i'r ymgeisydd, er boddlonrwydd yr Eglwys, am iachusrwydd ei ffydd, ei barodrwydd i'r gwaith, purdeb ei gymhelliadau, a'i benderfyniad i gyflawni dyledswyddau ei alwedigaeth gyda dyfalwch a ffyddlondeb. Wedi derbyn atebion boddhäol, a chael arwydd gan y bobl o'u galwad, neillduid ef trwy weddi, heb arddodiad dwylaw; a thersfynid y gwasanaeth trwy gynghor, canu salm, a chyhoeddiad y fendith."

Yn ffurfiad a dygiad oddiamgylch yr holl drefniadau hyn, yr oedd John Knox ar y blaen. Yr oedd ei ddoethineb a'i benderfyniad y fath, fel na wneid dim o bwys ond o dan ei gyfarwyddyd ef. Erbyn hyn dyma yr Eglwys wedi ei sefydlu, ac yntau yn cael gweled goruchafiaeth y gwirionedd ar draddodiadau ac ofergoelion Pabyddiaeth. Tua diwedd y flwyddyn hon, 1660, daeth anghu i'w deulu. Bu farw ei wraig, ac effeithiodd yr amgylchiad yn ddwys arno; ond yr oedd Duw yn ei ddyddanu â'r dyddanwch â'r hwn yr oedd yntau yn dyddanu eraill ag oedd mewn dim gorthrymder.

Yr oedd y symudiadau ag oedd yn myned ymlaen yn yr Alban yn hynod o groes i feddyliau Francis a Mary yn Ffrainc. Gwrthodasant *gndarnhau* benderfyniad y Senedd i sefydlu Protestaniaeth, ac nid ymddyg-

asant yn y modd mwyaf anrhydeddus at y cenadwr a anfonasid atynt i'r dyben hwnw. Cafwyd arwyddion hefyd fod yno fyddin yn cael ei darparu i roddi cynnyg unwaith drachefn ar ddarostwng y genedl o dan iau y Pab. Nid oedd Knox yn anhysbys o'r perygl, a bu yn llafurus i rybuddio ei gydwladwyr gyda golwg arno. Ond yn Rhagfyr, 1560, bu farw brenin Ffrainc, ac aeth y dymhestl hono heibio. Pa fodd bynag, arweiniodd hyn i amgylchiadau ag oedd yn eu gosod yn agored i ruthr mwy anuniongyrchol ar eu crefydd. Yr oedd y Frenines yn bwriadu dyfod drosodd i'r Alban i gymeryd meddiant o'i gorsedd. Yr oedd wedi ei dwyn i fyny o'i mebyd yn nghanol rhwysg llys Ffrainc, wedi derbyn ei holl addysg yno, a phob ymdrech wedi ei arfer i'w gwneyd yn un o ddysgyblion y ffydd Gatholig, ac i greu rhagfarn yn ei meddwl at ei deiliaid Protestanaidd; a pharhiodd fel hyn hyd ddiwedd ei hoës. Nid oedd y dirprwywr a anfonasid drosodd i roddi gwahoddiad iddi yn gallu addaw dim mwy na pherffaith ryddid iddi i ymarfer â'i chrefydd ei hun; ond mynai ei hewythydd iddi gael awdurdod i orchymyn fod i ddefodau y grefydd Babaid gael ymarfer â hwynt yn gyhoeddus. Ar ei glaniad yn yr Alban, cafodd y Frenines dderbyniad croesawus gyda llawenydd mawr; ond yn nghanol y gorfoledd, tarawyd y Diwygwyr â braw gan orchymyn oddiwrthi fod i wasanaeth yr offeren gael ei gyflawni yn yr eglwys freninol, Holyrood House, y Sabbath cyntaf ar ol ei thiriad. Yr oedd rhai o'r mawrion yn teimlo yn wresog i rwystro hyn trwy rym arfau, ond llwyddodd Knox i'w lliniaru, ac i gael ganddynt beidio codi terfysg a thramgwyddo y Frenines ar ei dyfodiad cyntaf i'w mysg, er ei fod yn cydnabod fod un offeren yn fwy ofnadwy yn ei olwg ef na phe buasai deng mil o filwyr arfog wedi glanio mewn unrhyw barth o'r wlad i ddarostwng crefydd.

Ymhen yehydig ddyddiau wedi dyfodiad y Frenines drosodd, galwodd am Knox i'r palas, lle y bu ymddyddan maith rhyngddynt yn mhresennoldeb ei brawd, Arglwydd James Stewart. Yr oedd yr offeiriad wedi ei chyffroi, yr oedd ei llygad arno ef fel y prif gynhyrfydd, ac yr oedd wedi gwneuthur yn hysbys cyn gadael Ffrainc y mynai ei gosbi. Yr oedd y "*Blast*" a gyhoeddodd yn erbyn llywodraeth menywod yn ddigon o esgus ganddi i'w gyhuddo o geisio dyeithro meddyliau ei deiliaid oddiwrthi. Nid oedd ef yn barod i wadu ei syniadau yn hyn; ar yr un pryd ymwrthodai â'r cyhuddiad o wneyd un cais i ennyn teimlad anufudd yn ei deiliaid iddi; ei fod yn cydnabod ei hawdurdod, ac yn barod i dalu pob gwarogaeth iddi ymhobpeth ond ei grefydd. Addawai hefyd beth bynag oedd ei syniadau am ei dderbyniad i'r orsedd, y cadwai y rhai hyn yn ei fynwes ei hun; ac, os byddai iddi hi beidio âg erlidigaeth, na dderbyniai ei hawdurdod un niwed oddiwrtho ef na'i lyfr; "yr hwn a ysgrifenydd," meddai, "against that wicked Jesabell of England." Cyhuddai ef hefyd o fod yn dysgu i'r bobl grefydd wahanol i'r hyn a ganiatâi eu penaethiaid; nad oes gan y deiliaid hawl i wrthwynebu eu llywodraethwyr trwy rym. "Os bydd penaethiaid yn myned y tu hwnt i'w terfynau," meddai yntau, "y mae yn ddiammheu fod yn gyfreithlawn eu gwrthwynebu trwy allu; oblegid ni ddylid rhoddi mwy o anrhydedd neu ufudd-dod i freninoedd a thywysogion nag y mae Duw wedi ei orchymyn ei roddi i dad a mam." Os byddai tad wedi gwallgofi, ac yn myned i ladd ei blant, beth a ellid ei wneyd yn well na'i rwymo nes yr elai ei wallgofrwydd heibio? Dywedai na wna'i ei hewyllys hi, y buten Rafeinig, byth yn wir a difycheulyd briad

i Iesu Grist. "Na ryfeddwch, *madam*, fy mod yn galw Rhufain yn buten, oblegid y mae yr Eglwys hono wedi hollol ymlygru gyda phob math o buteindra ysbyrdol mewn athrawiaeth a moesau." Wedi ymddyddan maith ac effeithiol â'r Frenines, dywedai nas gallai ddal i tyny âg ef mewn dadl; ond pe buasai y rhai ag oedd hi wedi hod yn eu gwrando yn bresennol, y buasent hwy yn ei ateb ef. "Gwŷn fyd, *madam*," meddai yntau, "na buasai y Pabydd mwyaf dysgedig yn Ewrop, yr hwn y buasech chwi yn fwyaf parod i'w gredu, yn bresennol gyda'ch graslonrwydd i gynnal y ddadl, * * chwi a gawsech glywed mor wâg yw y grefydd Babaid, ac mor ychydig o sail sydd iddi yn ngair Duw."

Yr oedd y Pabyddion braidd yn ofni y buasai yr ymweliad hwn yn siglo ffydd y Frenines, ac yr oedd y Protestaniaid yn gobeithio y buasai yn ei thueddu i ddyfod i'w gwrando hwy, ac y buasai ei gwrthwynebiad iddynt yn cael ei liniaru. Ond nid oedd Knox yn dysgwyl y fath beth. Canfyddodd ei bwriad yn rhy amlwg, ac yr oedd yn penderfynu bod ar ei wyladwriaeth gyda golwg ar ei mesurau, ac i rybuddio ei frodyr rhag cynmeryd eu twyllo ganddi. Ac er fod ei ymadroddion weithiau yn lled anghoethedig, ac nad oeddych bob amser â thuedd ynddynt i ennill ei meddwl, buont yn foddion i gadw y genedl yn effro yn erbyn eu perygl, ac i beri iddi hithau fyned ymlaen yn fwy pwyllog a chymedrol. Dywed y llysgenadwr Seisonig, yr hwn a fyddai yn arferol o'i wrando yn gyson, wrth ysgrifenu at Cecil, "Pan y mae eich anrhydedd yn ein hannog i fod yn gadarn, gallaf eich sicrhau fod llais un dyn mewn awr yn medru rhoddi mwy o fywyd ynom na chwe' chant o udgyrn yn rhoio yn barhâu yn ein clustiau." Nid oedd y Diwygiwr ei hun yn barod i sefyll dros bob ymadrodd a ddefnyddiai; ar yr un pryd yr oedd ei galon mor wresog, a'i bryder mor fawr am lwyddiant crefydd, fel nas gallai ymattal rhag bod ei holl eiriau yn eglur a diamwys. "Men deliting to swym betwix two waters have often compleaned upon my severitie," meddai; ond yr oedd yn ofni y dygai dynion ddinystr arnynt eu hunain trwy eu tynerwch, mwy ofnadwy nag ymadroddion unrhyw bregethwr.

Fel y mae yn dygwydd gyda phob achos ymysg y lliaws, ceir rhai yn llac eu gafael yn eu hegwyddorion; felly yma hefyd. Yr oedd y Frenines yn dra drwgdybus o Gymanfa Gyffredinol yr Eglwys, a buasai yn dda ganddi allu ei hattal; a mynai rhai oedd yn y llys gydsynio â hi. "Cymerwch oddiarnom y rhyddid i ymgynnull, chwi a gymerwch ein crefydd oddiarnom," meddai Knox. "Os bydd rhyddid yr Eglwys yn ymddibynu ar ei bodd neu ei hanfodd hi, fe'n hymddifedir, nid yn unig o'n cynnulliadau, ond hefyd o bregethiad yr efengyl." Yr oedd rhai o honynt yn ewyllysio boddio y Frenines hefyd yn nhrefniad cyllid yr Eglwys. Yr oedd y gweinidogion wedi byw hyd yn hyn ar garedigrwydd eu gwrandawyr; ond yn wyneb y cwynion a osodid ger eu bron, penderfynodd y cyngor ei ranu yn dair rhan: dwy ran i'r offeiriaid Pabaid ag oedd wedi eu bwrw allan, a'r drydydd i'w rhanu rhwng y llys a'r gweinidogion Protestanaidd, ac nid fel yr oeddidd wedi bwriadu o'r blaen, ei ranu rhwng y weinidogaeth, addysg, a'r tlodion. "Weall!" meddai Knox, pan glybu am hyn, "if the end of this ordour, pretendit to be takin for sustentatioun of the ministers, be happie, my judgment failes me. I sie twa partis freely gevin to the devill, and the third mon be devyded betwix God and the devill. Who wald have thocht, that when Joseph reulled in Egypt, his brethren sould have

travellit for victualles, and have returned with emptie sakes unto their families? O happie servands of the devill, and miserabill servands of Jesus Christ; if efter this lyf, thair wer not hell and heavin!" Nis gallai Knox lai nag amlygu ei wrthwynebiad i hyn gyda Maitland, yr hwn oedd erbyn hyn yn y cynghor, nid yn gymaint o'i ran ei hun, oblegid nad oedd swm ei gyflog ef yn ymddibynu arno, ag o ran ei frodyr y rhai oedd yn gorfod ymdaro fel y gallent.

Yr oedd teulu Guise yn greulawn yn erbyn Protestaniaeth, a gwnaethant ruthr ofnadwy ar gynnulleidfa oedd yn addoli yn heddychol mewn parth o Ffrainc, a lladdasant lawer o honynt, yn wŷr, gwragedd, a phlant, gan archolli a thori aelodau eraill. Clybu y Frenines hyn, a gwnaeth ddawnsfa o lawenydd ar yr achlysur i'w gweinidogion tramor. Gwnaed Knox yn hysbys o hyn, a dyma bregeth lem y Sabbath canlynol ganddo ar anrhydedd penaethiaid, yr ufudd-dod dyledus iddynt, a'r camddefnydd oeddynt yn fynych yn ei wneyd o'u huwdurdod; y llygredigaeth oedd yn aml mewn uchelfanau; fod yn well ganddynt bleserau ynfyd na gair Duw; er nad oedd yn collfarnu dawnsio ynddo ei hun, os na byddai y rhai oedd yn ei arfer yn esgeuluso dyledswyddau eu sefyllfa, neu yn dawnsio fel y Philistiaid o lawenydd am afwydd pobl Dduw. Adroddwyd y bregeth i'r Frenines gyda llawer o chwaneigiadau, a galwyd y pregethwr o'i blaen drannoeth, lle y cyhuddwyd ef ger bron lawer o'r llys o arfer ymadroddion sarhâus am ei Mawrhydi ag oedd yn tueddu i'w gwneyd yn ddirmygus yn ngolwg ei deiliaid. Dywedai yntau ei fod yn ofni ei bod wedi ei charmarwain; y busasai yn dda ganddo iddi fod yno ei hun yn gwrando y bregeth; ac os byddai crystal, yr ail adroddai ef yr hyn a ddywedodd. Am unwaith dyma Mary o dan orfod i wrando pregeth Protestant. Wedi darfod, gofnodd oa oedd wedi dweyd rhywbeth yn ychwaneg, am i'w gyhuddwyr ddyfod ymlaen. Ond nid oedd neb yn ateb, a chyfaddefai hithau fod yr adroddiad iddi hi yn wahanol; a bu cryn dipyn o ymddyddan yn ei chylch. Pan oedd yn gadael yr ystafell, clywai rywun o'r Pabyddion yn dyweyd, "He is not afraid!"—"Why should the plesing face of a *gentilwoman* afray me?" meddai yntau; "I have luiked in the faces of mony angry *men*, and yit have not bene affrayed above measour." Hwyrach y bydd rhai yn barod i dybied fod y Diwygiwr yn arfer gormod o hyfdra yn ei bregethau; ond y mae yn rhaid i ni gofio fod mwy o ryddid yn cael ei arfer y pryd hwnw o'r pulpud nag sydd yn awr ger bron gwŷr mawr. Pwy na synai wrth ddarllen pregethau Latimer ac eraill o flaen y llys yn Lloegr, at y rhyddid y maent yn ei arfer wrth lefaru yn erbyn drygau, ac wrth ddangos y llwybr i freninoedd a llywodraethwyr rodio ynddynt? Ar ryw gyfrifon y mae yn syndod pa fodd yr oeddynt yn cael eu goddef gan mor heilltion oeddynt.

Yr oedd llafur Knox yn Edinburgh yn fawr iawn. Nid oedd yn y ddinas y pryd hwnw ond un Eglwys, St. Giles, ac yr oedd yn ymgynnull iddi weithiau dair mil o bobl. Gweinyddai yma hyd y flwyddyn 1562, heb neb i'w gynnorthwyo ond darlennydd. Y pryd hwnw, dewiswyd un John Craig i fod yn gydweinidog ág ef. Pregethai ddwywaith ar y Sabboth, a their-gwaith ar ddyddiau eraill yn yr wythnos. Cyfarfyddai â'i henuriaid a'i ddiaconiaid bob wythnos, i drefnu amgylchiadau a dysgyblaeth yr eglwys, a chyda chynulleidfa y gymydogiaeth i ddarllen ac egluro yr Ysgrhythrau. Byddai bob amser yn nghyfarfodydd y Dalaeth ac yn y Gymanfa Gyffredinol, lle y penodid ef yn fynych i ymweled a phregethu mewn rhyw barch-

su yn y wlad. Ar rai achlysuron, yr ydym yn ei gael yn dadleu ar ryw bynciau â'r offeiriaid Pabaidd. Pan y byddai rhyw anghydfod wedi tori affian, neu gyhuddiad yn cael ei ddwyn yn erbyn rhai o'r gweinidogion, nid oedd gan yr eglwys neb o gyffelyb feddwl ag ef i wneuthur ymchwiliad iddynt.

Yr oedd gwasanaeth yr offeren wedi cael ei wahardd gan y Senedd yn 1560; ond o herwydd fod y Pabyddion yn ystyried fod y Frenines yn bleidiol iddynt, ac yn tybied fod gwresogrwydd llawer oedd yn y llys wedi lliniaru, ymhyfasant i'w gyflawni gyda chyhoeddusrwydd yn y Pasg 1563. Ond wrth weled nad oedd y gyfraith yn cael ei rhoddi mewn grym yn eu herbyn, cymerodd y boneddigion mwyaf brwdfrydig y gorchwyl arnynt eu hunain i'w hattal. Yn wyneb hyn, galwodd y Frenines ar Knox, gan feddwl y buasai yn medru ei dueddu ef i ddarbwylio ei frodyr i ymattal. Eithr ni fynai efe ymyraeth â hwy. Ymddangosai Mary fel pe buasai yn gyfeillgar, ac yn tueddu i ddangos rhyw fesur o dynerwch at y Protestaniaid. Gwysiodd Archesgob St. Andrews ac amryw eraill i roddi cyfrif o herwydd eu trosedd o'r gyfraith. Yr oedd y Diwygwyr erbyn hyn yn tybied ei bod yn barod i sefydlu Protestaniaeth; ond nid oedd y cyfan yn ddim amgen na dichell. Galwodd y Senedd ynghyd ar yr 21ain o Fai. Cymhellai Knox yr Arglwyddi i wneyd cais i sefydlu yr Eglwys Ddiwygiedig. Mynent hwythau ei oedi hyd amser mwy cyfaddas, rhag wrth geisio hyn yn rhy fuan iddynt dramgwyddo y Frenines. Bu cymaint ymeirion rhwng John Knox ac Arglwydd James Stewart, y pryd hwnw Iarll Murray, fel y torodd ar eu cyfeillgarwch am yspaid. Medrodd y Frenines, trwy ei thynnerwch dichellgar, mid yn unig rwystro i hyn gael ei ddwyn ymlaen, ond hefyd gael ganddynt basio gweithred o ddiogeliad i'r rhai oedd wedi cymeryd rhan yn y rhyfel diweddar. Yr oeddynt trwy dderbyn hyn, mewn efaith, yn cydnabod eu bod ar fai, ac yn derbyn ei maddeuant, neu yn derbyn fel rhodd yr hyn yr oeddynt eisoes wedi ei hawlio a'i ennill. Mewn pregeth y sabbath canlynol, adolygai Knox y daioni oedd yr Arglwydd wedi ei ddangos i'w eglwys, a'r perygl rhag i'r rhai a ddylasai fod yn noddwyr iddi i droi allan yn fradwyr; fod eu crefydd yn sefyll ar awdurdod Duw, a bod ei gwirionedd yn annibynol ar ddeddfau dynol; a'i bod eisoes wedi ei sefydlu gan Senedd gyhoeddus mor gyfreithlawn ag a gynnaliwyd erioed o fewn y deyrnas hono. Cyfeiriodd hefyd at y gair oedd ar lêd am briodas ei Mawrhydi, a rhagfynegai y canlyniadau fyddai i'r wlad os cydsyniai y mawrion iddi briodi Pabydd.

Yr oedd hyn yn ysglyfaeth ddymunol gan ryw rai i redeg ar frys i fynegu i'r Frenines fod John Knox yn pregethu yn erbyn ei phriodas. Rhoddwyd rhybudd iddo ymddangos ger ei bron yn ddiwed, a derbyniwyd ef ganddi yn llawn nwydau. Dywedai ei bod wedi goddef y cwbl a ddywedai yn ei herbyn hyd yn hyn, ac wedi cynnyg derbyn ei gynghor bob amser y gwelai anghen am hyny, ac eto nad oedd yn cael llonydd ganddo. "Yr wyf wedi tyngu y mynaf ddial arnoch am unwaith," meddai, a thorodd i wylo yn hidl. Atebai yntau nad oedd yn deall o'r blaen ei fod wedi ei thramgwyddo; ac nad oedd yn gwybod fod gan neb achos i gwyno o'i herwydd, am ddim a ddywedasai allan o'r pulpud; ond yno nad oedd yn feistr arno ei hun; ei fod yn rhwym i ufuddhâu i'r Hwn oedd wedi gorchymyn iddo starad yn eglur heb wenieithio i neb ar wyneb y ddaear. "Ond pa beth sydd a wneloch chiwi â fy mhriodas?" meddai hithau, "neu pa beth ydych

chwi yn y deyrnas hon?" "Deiliad wedi ei eni yn yr unrhyw, *madam*," atebai yntau, gan deimlo oddiwrth ei thôn drabhâs yn gofyn y cwestiwn olaf. "Ac er nad wyf nac iarll nac arglwydd, na barwn, eto y mae Duw wedi fy ngwneuthur yn aelod buddiol o'i mewn, pa mor ddirmygus bynag wyf yn eich golwg chwi. Iè, *madam*, i mi nid yw yn perthynu llai i ragrybuddio o'r hyn a allai ei niweidio, os bydd i mi ei ragweled, nag ydyw i'r mawrion; oblegid y mae fy ngalwedigaeth a'm cydwybod yn gofyn gonestrwydd oddiwrthyf. Ac o ganlyniad, yr wyf yn dyweyd wrthyf chwi yr hyn a ddywedais mewn lle cyhoeddus: pa bryd bynag y bydd i'r mawrion gydsynio i chwi fod yn ddarostyngedig i briod anffyddlaw, gwnânt gymaint ag sydd yn eu gallu hwy i ymwrthod â Christ, i alltudio ei wirionedd oddiwrthynt, i fradychu rhyddid y deyrnas, ac yn y diwedd fe allai na bydd hyny ond ychydig o gysur i chwi eich hun." Torodd Mary i wyllo drachefn; a phan y meddiannodd ei hun, dywedai Knox, "Na byddai un amser yn ymhyfrydu yn ngofid un créadur; mai gydag anhawsder y byddai yn edrych ar ei fechgyn ei hun yn wyllo pan yn eu ceryddu am eu beiau, a llawer llai y gallai lawenhân yn nagrau ei Mawrhydi; ond am nad oedd yn gweled ei fod wedi rhoddi un achos cyfiawn iddi dramgwyddo, ac na wnaeth ond cyflawni ei ddyledswydd, yr oedd yn cael ei orfodi, er yn anewyllysgar, i ddal ei dagrau, yn hytrach nag archolli ei gydwybod, a bradychu y deyrnas trwy ei ddystawrwydd." Cyffrôdd hyn ei nwydau yn fwy fyth, a gorchymynodd iddo ymadael o'i gwylod. Mynai y Frenines fyned ymlaen i'w gosbi, ond darbwyllywyd hi gan ei chynghoriaid i roddi heibio y bwriad, ac felly tawelodd y dymhestl hono.

Pa fodd bynag, ni bu y Frenines yn hir cyn cael cyhuddiad mwy pwysig na'r cwbl yn ei erbyn. Pan oedd yn aros yn Stirling yn mis Awst, gwnaeth ei theulu, y rhai oedd yn aros yn Holyrood House, gais i gyflawni gwasanaeth yr offeren gyda mwy o gyhoeddusrwydd nag arferol. Cyffrôdd hyn rai o'r Protestaniaid, aethant i mewn i'r palas, a bu yno gryn gyffro, er na wnaed unrhyw niwed i neb. Pan glybu y Frenines yr hanes, ymgynndeiriogodd, a gwyswyd dau i sefyll en prawf. Erbyn hyn yr oedd y Protestaniaid mewn pryder rhag y defnyddid y cyfseusdra nid yn unig i gosbi y gwŷr hyn, ond i gyfyngu ar eu rhyddid crefyddol oll rhagllaw; a dymunasant ar Knox ysgrifenu cylchlythyr at y mawrion penaf ag oedd o'u plaid i fod yn bresennol ar ddydd y prawf. Yr oedd ef o dan orchymyn oddiwrth yr eglwys i wneyd hyn ar achlysuron y byddai perygl. Daeth un o'r llythyrâu hyn i law gelyn i Knox, a chyflwynodd ef i'r Frenines. Tybiai hithau a'i chynghor fod cylchlythyr fel hyn i alw ei deiliaid ynghyd ar unrhyw achos, heb ei hawdurdod, yn deyrnfradwriaeth. Galwodd gynghor penodol i gyfarfod yn Edinburgh, yn Rhagfyr, a gwyswyd Knox i ymddangos. Gwnaed cais teg gan rai oedd yn profesu eu hunain yn gyfeillion iddo ac i'r Diwygiad, i gael ganddo gydnabod ei fai, a bwrw ei hun at draed ei Mawrhydi am drugaredd. Dalai yntau yn ddiysgog nad oedd modd iddo edifarhâu am yr hyn nad oedd yn ei ystyried yn gamwedd. Y dydd a ddaeth; ac mor fawr oedd y pryder, fel yr ymgynnullodd lliaws mawr ynghyd at y palas ac o'i amgylch i gael gwybod y canlyniad. Pan y daeth ei Mawrhydi i mewn a gweled y Diwygiwr yn sefyll wrth y bwrdd, torodd i chwerthin, a dywedodd, "Fe wnaeth y dyn yna i mi wyllo, ond ni cholodd ddeigr yn erioed ei hun; câf weled yn awr a allaf fi wneyd iddo wyllo." Agorwyd yr achos gan yr Ysgrifenydd Maitland, a gorchymynwyd i Knox ddarllen y

llythyr. "A glywsoch chwi erioed y fath lythyr sarhâus a bradwrus?" meddai y Frenines. "Mr. Knox," gofynai Maitland, "a ydyw yn ddrwg genych chwi o'ch calon, ac a ydych chwi yn edifarthâu eich bod wedi ysgrifenu y fath lythyr, a'i fod wedi dyfod oddiwrthych chwi i ddwyllaw eraill?" "Fy Arglwydd Ysgrifenydd," atebai Knox, "cyn y gallaf edifarthâu, rhaid i mi gael gwybod pa beth yw fy nghamwedd." "Camwedd! pe na buasai ynddo ddim ond galw ynghyd ddeiliaid y Frenines, nis gellid gwadu y camwedd." "Meddiennwch eich hun, fy arglwydd; y mae gwahaniaeth rhwng cynnulliad cyfreithlawn ac anghyfreithlawn. Os wyf wedi bod yn euog yn hyn, yr wyf wedi troseddu lawer gwaith er pan y daethum ddiweddaf i'r Alban; oblegid pa gynnulliad o'r brodyr sydd wedi ei alw ynghyd o hyny hyd yn awr, na wasanaethodd fy ysgrifell i i'r dyben hwnw?"

Fel yr oedd Knox yn myned ymlaen i ddyweyd mai dichell y diafol oedd hyn i gyflawni o dan fantell cyfiawnder yr hyn nad allasai trwy rym, yr oedd y Frenines yn teimlo yn enbyd o herwydd ei fod yn siarad mor rhydd. "Pa beth yw hyn?" meddai, gan obeithio ei ddwyn yn nês at y pwnc. "Yr wyf yn tybied eich bod yn cellwair âg ef. Pwy a roddodd awdurdod iddo alw fy neiliaid i ynghyd? Ai nid yw hyn yn deyrnfradwriaeth?" "Nac ydyw, *madam*," atebai Arglwydd Ruthven, gyda theimlad, "o herwydd y mae yn galw y bobl ynghyd braidd bob dydd i wrando pregethu a gweddio; a pha beth bynag y mae eich graslonrwydd ac eraill yn ei feddwl o hyny, nid ydym ni yn meddwl ei fod yn deyrnfradwriaeth." Gorchymynodd y Frenines iddo fod yn ddystaw, a gadael i Knox ateb drosto ei hun. Dywedai yntau "nad oedd pob cynnulliad yn anghyfreithlawn, ac yn awr dyma fy Arglwydd Ruthven wedi rhoddi enghraifft." Honai ei Mawrhydi nad oedd yn dyweyd dim yn erbyn ei grefydd na'i bregethau, ond nad oedd ganddo hawl i gynnwll ei deiliaid hi. Atebai yntau, nad oedd erioed wedi galw pedwar ynghyd, ond mewn ufudd-dod i gais ei frodyr; nad oedd un amser yn hoffi cynhwrf; ei fod yn wastad yn pregethu ac yn dysgu y bobl i ufuddhâu i'w penaethiaid; ac os oedd wedi bod yn fwy blaenllaw gyda chynnulliad y Protestaniaid, ei fod wedi bod felly mewn ufudd-dod i gais ei frodyr, ac yr oedd yn barnu nad oedd wedi gwneuthur diun ar fai. "Ni chewch ddianc fel hyn," meddai y Frenines. "Ai nid yw yn deyrnfradwriaeth, fy Arglwyddi, i gyhuddo Penadur o greulondeb? Yr wyf yn tybied fod yma gyfreithiau yn erbyn y cyfryw." Atebodd amryw fod. "Ond mewn pa beth y gellir fy nghyhuddo i o hyn?" gofynai Knox. "Darllenwch eich llythyr eich hun," ebai y Frenines, Wedi darllen y rhan y cyfeiriaid ato, yn yr hwn yr oedd yn galw sylw y mawrion at gosbedigaeth y ddau oedd i gael eu dwyn i brawf fel rhagarweiniad i bethau mwy, gofynai y Frenines. "Pa beth a ddywedwch chi wrth hyn?" Atebai Knox mai amcan y Pabyddion oedd darostwng efengyl Crist, a'u bod yn barhâus yn ceisio am awdurdod y llys i'r dyben hwnw; nad oedd un gyfraith yn erbyn yr hyn a ysgrifennodd ef; ac nad oedd wedi cyhuddo ei Mawrhydi o greulondeb yn ei lythyr. "Ond yr wyf yn dyweyd eto," meddai, "mai plant y diafol yw y Pabyddion drygionus, y rhai a gyffroisiant eich graslonrwydd yn erbyn y dynion truan hyn yn bresennol, ac o ganlyniad rhaid iddynt ufuddhâu i ddymuniadau eu tad, yr hwn oedd yn gelwyddwr a lleiddiad dyn o'r dechreuad." "Yr ydych yn anghofio eich hun! nid ydych yn awr yn y pulpud," meddai y Canghellwr. "Yr wyf mewn lle ag y gofynir i mi o gydwybod lesaru y gwirionedd; gan hyny, y

gwirionedd a lefaraf, beied y neb a feio." A chan droi at y Frenines, dywed-ai fod llawer oedd yn ymddangos yn onest, yn bwyllog, ac yn dyner o natur, wedi cael eu llygru yn fynych gan gynghor drygionus; a bod y Pabyddion, y rhai oedd yn cael gwrandawriad ganddi, yn gynghorwyr peryglus, ac mai felly yr oedd ei mam wedi eu cael. Terfynodd y prawf, a rhoddodd y rhan fwyaf o lawer eu pleidlais o blaid rhyddhau y Diwygiwr, gan roddi canmoliaeth iddo am y dull y dygodd ymlaen ei amddiffyniad.

Parodd y prawf hwn i Murray golli ymddiried y Frenines, o herwydd iddo roddi ei bleidlais i'w ryddhau; ac aeth Maitland yn llawer is yn ei golwg, oblegid iddo fethu ei gael yn euog. Wedi cael eu siomi yn hyn, ymdrechodd ei elynion leihau ei ddylanwad ymysg ei frodyr, trwy ddyweyd ei fod yn arfer awdurdod Babaidd yn eu mysg, drwy anfon llythyrau a gorchymyn ufudd-dod i bob peth a ofynai. Y mae yn wir fod Knox yn sawr ei ddylanwad, ond byddai bob amser yn ofalus rhag rhoddi un achos iddynt dybied ei fod yn hŏni uchafiaeth ar neb o honynt. Yn y Gymanfa Gyffredinol nesaf, dymunai farn ei gyfeillion ar yr hyn oedd wedi ei wneuthur trwy ysgrifenu y llythyrau hyn, a chyhoeddwyd ganddynt ei fod wedi ei awdurdodi gan yr eglwys i hyny, ac nad oedd wedi myned y tu hwnt i'w derfynau.

Yn Mawrth, 1564, ymbriododd eilwaith, wedi bod yn weddw uwchlaw tair blynedd, â Margaret Stewart, merch Arglwydd Ochiltree, yr hwn oedd wedi bod yn gyfaill fyddlawn iddo pan oedd llawer eraill wedi ei adael; a bu yn briod fyddlawn iddo hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd y cysylltiad hwn yn brofedigaeth fawr i'r Pabyddion, a thaenasant y gair ei fod wedi ennill calon y foneddiges ieuanc trwy ddewiniaeth a chymhorth y diafol; bod y briodas hon yn brawf o'i uchelgais, ac mai gobeithio yr ydoedd y byddai i'w hiliogaeth gael eu dyrchafu i orsedd yr Alban, am fod teulu Ochiltree o waedoliaeth breninol.

Yr oedd y Protestaniaid ag oedd yn y llys, ac yn fwyaf uniongyrchol o dan ddylanwad y Frenines, yn dra anfoddlawn i'r rhyddid a ddefnyddiai rhai o'r pregethwyr i'w ceryddu yn gyhoeddus o herwydd y tloidi ag yr oeddych yn cael eu gadael ynddo; ac yr oedd Knox yn un o'r rhai penaf yn y camwedd hwn. Yn mis Mehefin, cynnaliwyd Cynnadledd o'r gwŷr penaf yn yr eglwys a'r wladwriaeth. Dygwyd y ddaol ymlaen rhwng Knox ac amryw o wŷr y llys—Maitland yn benaf. Buasai yn dda ganddynt allu dyfod i'r penderfyniad o wahardd i'r pregethwyr, yn enwedig Knox, y rhyddid a arferent yn y pulpud wrth gyfeirio at ymddygiadau y llywodraeth. Ond yr oedd ef yn ddigon trech na hwy, a gorfu arnynt ymwasgaru, gan adael y pwnc yn y fan lle yr oedd o'r dechreu.

Tua diwedd y flwyddyn 1564, dychwelodd Iarll Lennox, wedi bod yn alltud am ugain mlynedd. Henry, Arglwydd Darnley, ei fab, oedd etifedd nesaf coronau Lloegr a'r Alban, pe buasai y ddwy, Elizabeth a Mary, oedd yn eu gwisgo, yn marw yn ddiblant. Yn fuan wedi ei ddyfodiad drosodd, syrthiodd y Frenines mewn cariad â Darnley. Gan fod y boneddwr hwn yn Babydd, ni chydysyniai y mawrion Protestanaidd i'r briodas, ond yn unig ar yr ammod fod i'r Eglwys Ddiwygiedig gael ei sefydlu yn ol y gyfraith. Mynai y Frenines ymddangos yn gyfeillgar iawn i'r gweinidogion Protestanaidd, ond nid oedd Knox yn cael dyfodia ati. Y pryd hwn, dychwelodd amryw o'r mawrion Pabaidd o'u halltudiaeth. Ond wedi ennill rhyw nifer yn bleid-

iol iddi, priododd Mary ág Arglwydd Darnley yn Gorphenaf, 1566. Mewn canlyniad i hyn, nid oedd nemawr o dderbynaiad i'r Diwygwyr ganddi. Gorfu i amryw adael y llys, a chymerwyd eraill mwy parod i gydsynio â'i hamcanion yn eu lle. Rhoddwyd ar ddeall yn fuan "na wnai ac nas gallai y Frenines adael y grefydd yn yr hon yr oedd wedi cael ei maethu a'i dwyn i fyny." Dyn o feddwl egwan, balch, ymroddgar i bleserau, ac yn sawr iawn o dan lywodraeth ei nwydau, oedd Darnley; nid oedd yn gofala dim ynghylch crefydd, ond yn unig i ateb rhyw ddybenion o'i eiddo ei hun ar y pryd. I'r dyben o foddio y Frenines, elai i wasanaeth yr offeren; ac i foddio y Protestaniaid, elai i wrando Knox. Aeth i Eglwys St. Giles un Sabbath, ac yn y bregeth dyfynodd Knox Esa. iii. 4, "A rhoddaf blant yn dywysogion iddynt, a bechgyn a arglwyddiaetha arnynt;" ac adn. 12, "Fy mhobl sydd â'u treiswyr yn fechgyn, a gwragedd a arglwyddiaetha arnynt." Mewn rhan arall, crybwyllodd fod yr Arglwydd wedi cosbi Ahab am na buasai yn diwygio ei wraig eilunaddolgar Jezebel. Er na wnaeth y pregethwr un cyfeiriad personol, cymhwysodd y Brenin hwyt ato ei hun a'r Frenines. Gwrthododd fwyta tamaid wedi dychwelyd, a chynhyrfwyd ei ddigofaint ef a hithau i'r graddau eithaf. Cymerwyd Knox o'i wely yn y prydawn, a chariwyd ef ger bron y cyfringynghor. Aeth amryw o'i gyfeillion oedd wedi cael gwybod gydag ef i'r palas. Hysbyswyd ef ei fod wedi tramgwyddo y Brenhin, a bod yn rhaid iddo beidio pregethu tra y byddai eu Mawrhydi yn Edinburgh. Atebodd yntau, na ddywedodd ef dim ond yn ol ei destun; ac os gorchymynai yr eglwys iddo lesaru neu beidio, ufuddhái mor bell ag y caniatái gair Duw iddo. Ymadawodd y Brenin a'r Frenines o'r ddinas cyn y Sabbath canlynol, ac nid yw yn ymddangos iddo beidio â phregethu o gwbl. Fe allai wedi iddynt ddychwelyd, eu bod yn barnu mai gadael llonydd iddo yn ddystaw oedd y goren.

Dygydd deiseb i'r Gymanfa Gyffredinol y flwyddyn hon, yn rhoddi galwad i John Knox i St. Andrews i weinidogaethu, ond gwrthodwyd y cais. Rhoddwyd arno yn yr un gymanfa ymweled ág amryw eglwysi yn y wlad, ac ysgrifenu traethawd ar ympryd, ynghyd â llythyrâu eraill. Yr oedd cynghrair wedi ei wneyd rhwng amryw o benaduriaid Ewrop i ddiwreiddio Protestaniaeth o'u terfynau, ac yn wyneb hyn yr oedd yr eglwys yn ystyried mai ei dyledswydd oedd ymostwng mewn edifeirwch ac ympryd, a dymuno noddod yr Hollalluog arnynt. Yr oedd llawer o'r mawrion Protestanaidd erbyn hyn wedi gorfod ffoi yn alltudion, a Mary yn benderfynol o adsefydlu Pabyddiaeth yn y wlad. Yn nechreu y flwyddyn 1566, daeth cenad oddiwrth y Cardinal o Lorrain, drosodd gyda'r cynghrair i ddarostwng Protestaniaeth; ac ni phetrusodd y Frenines ei arwyddo. Yr oedd pob darpariaeth ar droed i'r dyben hwn, a dywedir fod yr allorau yn barod i'w gosod yn St. Giles. Ond pan oedd yr ystorm ar ymdywallt, yr oedd Darnley wedi cyttuno â rhywrai i lofruddio un Rizzio yr hwn oedd yn ysgrifenydd i'r Frenines, ac yn meddu llawer iawn o ddylanwad arni yn y pethau hyn. Ffôdd Mary a Darnley i Dunbar, ac ymhen ychydig dychwelasant i Edinburgh gyda byddin i ddial gwaed yr ysgrifenydd. Nid oes un rheswm i dybied fod Knox yn gwybod dim am y llofruddiaeth cyn iddi gael ei chyflawni; er hyny, barnwyd mai doeth oedd iddo ymadael o'r ddinas, gan nad oedd yn gymeradwy yn ngolwg eu Mawrhydi. Felly cilliodd i Kyle; ac er *gwneuthur ymdrech* o'r preswylwyr i'w gael yn ol, gwrthodwyd eu cais; ië,

mynai y Frenines ei alltudio o'r deyrnas. Ac yn niwedd y flwyddyn, cafodd genad gan y Gymanfa i ymwelod â Lloegr.

Nid hir y bu Mary a Darnley ar delerau da â'u gilydd wedi priodi; ond wedi llofruddiaeth Rizzio, hi a'i casiodd â chas cyflawn, ac nid oedd yn cymeryd unrhyw drafferth i guddio hyny. Ac wedi geni iddi etifedd, ni heddychwyd hwynt, ac ni chaniatwyd iddo fod yn bresennol yn medydd ei fab. Gadawodd y llys gan faint y dirmyg a roddid arno gan y gweinidogion, a ffôd am nodded yn nhŷ ei dad. I'r graddau ag yr oedd meddwl y Frenines yn ymddeithrio oddiwrth ei gŵr, yr oedd un arall, Iarll Bothwell, yn cynnyddu mewn derbynriad. Pentyrid anrhydedd arno; ymddygai tuag ato gyda phob serchogrydd, ac yr oedd rhan fawr o'r llywodraeth yn ei ddwyllaw. Yr oedd y Brenin yn nechreu y flwyddyn 1567, yn afiach, ac yn aros mewn lletty yn nghŵr y ddinas, Edinburgh, a'r Frenines yn cymeryd arni ofalu am dano, ac wedi ei gael yno o dan y broffes hono; ond ar y 10fed o Chwefror, llofruddiwyd ef trwy chwythu y tŷ i fyny â phylor, ac nid oes un ammheuaeth nad Bothwell oedd y cynlluniwr, a bod Mary yn hysbys o'r bwriad. Cyn pen ychydig o amser, priododd Mary Iarll Bothwell yn nghanol y gwaradwydd i gyd. Cymaint fu y cynhwrf mewn canlyniad i hyn, fel erbyn diwedd Awst fod Bothwell wedi ffoi o'r wlad, Mary wedi gorfod rhoddi i fyny y llywodraeth, ei mab, yr hwn nad oedd eto ond plentyn, wedi ei goroni yn frenin o dan yr enw Iago VI., a Murray wedi ei osod yn Rhaglaw ar y wlad. Ymhen ychydig amser, llwyddodd Mary i ddianc i Lochleven, a gwnaeth ei phleidiwyr gais i'w gosod eilwaith ar yr orsedd. Ond gorchfygwyd hwy, a gorfu arni ffoi i Loegr, lle y treuliodd y gweddill o'i hoes yn alltudes.

Yr oedd Knox wedi dychwelyd o Loegr erbyn y Gymanfa Gyffredinol yn Mehefin, a phregethodd ar goroniad y Brenin Iago VI., yn Stirling, ar y 29ain o Gorphenaf, 1567. Wedi i Murray gymeryd y rhaglafiaeth i'w ddwyllaw, galwodd y Senedd i gyfarfod yn Rhagfyr, a phregethodd Knox ar ei hagoriad. Yn y Senedd hon cadarnhawyd y deddfau a gynnygiwyd yn 1560 o blaid y grefydd Brotestanaidd, ac yn erbyn Pabyddiaeth. Penderfynwyd hefyd na chaniatoid i un tywysog ddyfod i awdurdod yn y deyrnas heb gymeryd llŵ i amddiffyn y grefydd Brotestanaidd; na byddai i neb ond Protestaniaid gael eu derbyn i unrhyw swydd, oddieithr y rhai oedd yn drefnadol, neu yn cael eu dal ar hyd oes. Gwnaed amryw ddeddfau eraill yn dwyn cysylltiad â chrefydd. Cyfarfyddodd y Gymanfa Gyffredinol yn niwedd y mis hwn, o dan amgylchiadau tra gwahanol i'r gyntaf saith mlynedd yn ol: y dymhestl wedi myned heibio; Pabyddiaeth wedi ei darostwng; a'r Eglwys Brotestanaidd wedi ei sefydlu yn Genedlaethol. Y pryd hwnw nid oedd mwy na deuddeg o weinidogion Protestanaidd yn yr holl wlad, ond yn awr yr oedd mewn undeb â'r Gymanfa ddau cant a deuddeg a deugain o weinidogion, pedwar cant a thriugain a saith o ddarlennwyr, a chant a phedwar ar ddeg a deugain o gynghorwyr. Yr oedd y cynnydd braidd yn anhygoel mewn mor lleied o amser.

Yn ystod rhaglafiaeth Murray, yr oedd y wlad yn lled dawl, a'r Eglwys yn cael nodded; ond nid oedd hyn i barhau yn hir. Lluniwyd bradwriaeth yn ei erbyn; a chyflawnwyd y bwriad yn Linlithgow, trwy ei saethu, Ionawr 23, 1570. Dygwyd ei gorff i Edinburgh i'w gladdu, a phregethwyd ar yr achlysur gan Knox. Yr oedd y Rhaglaw, medd un hanesydd, yn dda yn gwir dda, ac yn deilwng o gael ei restru ymysg y llywodraethwyr goreu a

fwynhäodd y wlad hon, a chan hyny anrhydeddir ef hyd y dydd hwn á'r enw "Y RHAGLAW DA." Yr oedd y Diwygiwr erbyn hyn yn heneiddio; a chan ei fod wedi bod ar y blaen yn yr holl ymdrechfeydd y daeth trwyddynt, a theimlo llawer o bryder meddwl yn ddiau, wedi i'r cymylau duon wasgaru, a'r eglwys ddyfod i wedd nad oedd ei feddwl wedi dychmygu ei gweled, yr oedd yn teimlo awydd i roddi i fyny ei fugeiliaeth yn Edinburgh, a chilio i neillduedd, i dreulio gweddill ei oes mewn myfyrdod ac ymddarpariaeth gogyfer ág angeu. Yn lle hyny dyma arwyddion tymhestl drachefn. Os oedd ei lawenydd yn fawr wrth weled Murray yn cymeryd gafael yn awenau y llywodraeth, yr oedd ei ofid o gymaint a hyny yn fwy o herwydd ei farwolaeth. Effeithiodd hyn, ynghyda'r cynhwrf a ddilynodd, yn fawr ar ei ysbryd a'i iechyd; a chyn diwedd y flwyddyn hono, tarawyd ef yn ysgafn gan y parlys mud, yr hyn a barodd gryn ball ar ei beiriannau ymadrodd. Yr oedd clywed am ei afiechyd yn llawenydd mawr i'w elynion, a lluniwyd y chwedlau mwyaf anferth yn ei gylch,—fod ei wyneb wedi troi ar ei wegil—na welwyd erioed grëadur wedi ei anffurfio yn fwy, a'i fod eisoes wedi marw. Ond siomwyd hwy oll; fe wellhäodd drachefn i fod yn alluog i bregethu ar y Sabbothau; er hyny gadawodd y dyrnod hwn ei ôl yn fawr arno.

Wedi marwolaeth Murray, syrthiodd y rhaglafiaeth i ddwyllaw Iarll Lennox, taid y Brenin ieuanc. Nid oedd y gŵr hwn o gyffelyb allu i lywodraethu á'i raglaenydd, ac am hyny ymhyfhäodd teulu Hamilton, y rhai oeddnt o'r gwaed breninol, ac yn bleidiol i'r Frenines, a chymerasant feddiant o Edinburgh. Yr oedd sefyllfa y Diwygiwr yn awr yn dra pheryglus; a gwnaed cais am ei fywyd unwaith drwy saethu i'w ystafell; ond dygwyddodd nad oedd yn eistedd yn y cŵr y byddai yn arfer ar y pryd, onidê buasai yn angeu iddo. Mynai ei gyfeillion iddo ymadael o'r ddinas, ond gwrthodai gydsynio á'u cais, hyd nes y dywedasant, os byddai i'w elynion ymosod arno ef, eu bod hwy yn barod i'w amddiffyn hyd at waed; a rhag y canlyniadau hyny, ufuddhäodd, er yn dra anfoddlawn. Gadawodd Edinburgh Mai 5, 1571, ac aeth i St. Andrews, lle yr arosodd hyd fis Awst y flwyddyn ganlynol, pryd y dychwelodd yn ol. Er llygru ei ddyn oddiallan, ac er nad oedd yn alluog i gyfarfod á'i frodyr yn y Gymanfa Gyffredinol yn 1571, yr oedd ei feddwl yn fywiog iawn i'w rhybuddio i wyllo rhag rhuthgrychoedd y gelyn. Yr oedd yn hynod o wanaidd tra y bu yn St. Andrews; er hyny yr oedd yn parhâu i bregethu. Dywed un gŵr ieuanc ag oedd yn gwrando arno y pryd hwn, y byddai yn dyfod i'r eglwys yn araf a phwyllog, a sſon yn un llaw, a'i was yn ei gynnal yr ochr arall, a cherid ef i'r pulpud, ar yr hwn y rhoddai ei bwys am y rhan gyntaf o'i bregeth, "bot, er he haid done with his sermone, he was sa active and vigorous, that he was lyk to ding the pulpit in blads, and flie out of it."

Yn Medi 1571, llofruddiwyd Lennox, a dilynwyd ef yn y rhaglafiaeth gan Iarll Mar. Bu yntau farw cyn diwedd y flwyddyn ganlynol, ac etholwyd Iarll Morton yn ei le. Yr oedd llawer o'r mawrion yn dra anfoddlawn wrth feddwl fod perygl i'r cyfoeth anferth a berthynai i rai esgobaethau gael ei droi oddiwrthynt hwy, a gwnaethant gais i sefydlu math o esgobyddiaeth ag oedd yn gymysg o Babyddiaeth, Preladiaeth, a Henaduriaeth. Nid oedd arnynt eisieu iddynt gael mwy o awdurdod na'u brodyr, na pheidio a bod yn gyfrifol i'r Gymanfa, ond yn unig eu bod yn dal i fyny yr enw, yn ar-

olygwyr ar ranau o'r wlad, ac yn cadw yr hen derfynau. Eu hamcan oedd cael yr awdurdod i gydsynio â phenodiad esgobion, gan obeithio y ceid amryw yn dawel, ond cael yr enw, iddynt hwy gael y cyfoeth. Gelwid y rhai hyn gan y rhai oedd yn wrthwynebol iddynt, yn *esgobion tulchan*, mewn cyfeiriad at arferiad oedd yn yr Ucheldiroedd o lenwi croen llo â gwellt, yr hwn a alwent yn *tulchan*, i'w osod o flaen y fuwch i'r dyben iddi roddi ei llaeth. Felly, medd un, "yr esgob oedd yn cael yr enw, ond fy arglwydd oedd yn cael y llaeth." Cafwyd rhyw fath o gydsyniad mewn un Gymanfa i hyn, ond yr oedd Knox yn dra gwrthwynebol i esgobyddiaeth o'r dechreu, a pharhâodd felly ar hyd ei oes. A phan y dymunodd Morton arno osod un Douglas yn ei swydd fel Archesgob St. Andrews, gwrthododd hyn yn benderfynol. Mynai ei elynion fod hyn yn codi oddiar ei siomedigaeth, am na buasai yn cael ei chynnyg iddo ef; ond dywedai ei fod ef wedi gwrthod esgobaeth fwy na St. Andrews, yr hon a allasai gael gan wŷr mwy anrhydeddus nag a roddodd hono i Douglas. Yn y Gymanfa Gyffredinol nesaf dygodd ymlaen ei wrthdystiad i osod esgobion.

Gwaelodd ei iechyd yn fawr tra fu yn St. Andrews, ac yr oedd yn debyg, yn ol pob ymddangosiad, o orphen ei yrfa yno; ond mewn canlyniad i sefydliad heddwch, symudodd yn Awst 1572 yn ol i Edinburgh. Y pryd hwn yr oedd yr eglwys yno wedi rhoddi galwad i un John Lawson i fod yn gydweinidog ac yn olynydd iddo. Llywyddodd a phregethodd ar yr achlysur o dderbyniad Lawson, ar y 9fed o Dachwedd, ac erioed ni roddodd fwy o foddlonrwydd i'r rhai oedd yn ei wrando. Ymhen deuddydd wedi hyn, cymerwyd ef yn glaf gan beswch caeth. Pan y galwyd y meddygon ato, dywedai nad oedd mewn un modd am esgeuluso moddion cyffredin iechyd, er hyny ei fod yn cwbl credu y byddai i angeu yn fuan roddi terfyn ar ei holl ofidiau. Parhâodd i waelu hyd y 24ain, pryd y bu farw yn gyflawn o dangnefedd yr efengyl a bregethasai. Claddwyd ef ar y 26ain o Dachwedd, 1572, yn mynwent St. Giles. Yr oedd y Rhaglaw, a'r holl uchelwyr oedd yn y dref, yn ei gladdedigaeth; ac yr oedd yno hefyd gynnulliad mawr iawn o bobl y dref a'r wlad yn bresennol. Wedi rhoddi ei gorff yn y bedd, dywedai y rhaglaw Morton, "Yna y gorwedd yr hwn na ddarfu iddo erioed ofni wyneb dyn."

"Bu farw," medd y Dr. M. Crie, "yn y seithfed flwyddyn a thriugain o'i oedran, nid yn gymaint wedi ei lethu gan flynyddoedd, ag wedi ei dreulio allan gan lafur anarferol corff, a phryder meddwl. Ychydig o ddynion a fu mewn mwy o beryglon, ac a aeth drwy gymaint o galedi. O'r amser y cofleidiodd y grefydd Ddiwygedig hyd ei farwolaeth, pur ansynych y caffai fwynhâu hamdden oddiwrth flinder; fel y byddai yn dyfod allan o un cyfyngder a pherygl, byddai yn wynebu un arall mwy wedi hyn. Pan y gorfodwyd ef i ffoi o St. Andrews rhag cynddaredd Cardinal Beatoun, cafodd noddfa yn East-Lothian; yr oedd Archesgob Hamilton yn ei hela oddiyno drachefn. Bu fyw am flynyddoedd heb fod o dan nodded y gyfraith, ac mewn pryder beunyddiol rhag iddo syrthio yn ysglyfaeth i'r rhai oedd yn ceisio ei fywyd. Wedi iddo fwynhâu ychydig nodded yn Nghastell St. Andrews, dilynwyd hyny gan gaethiwed maith a phoenus. Ar ol cael ennyd o orphwysdra yn Lloegr, gyrwyd ef oddiyno drachefn, a threuliodd bum' mlynedd yn crwydro fel alltud ar y Cŷfandir. Pan y dychwelodd i'w wlad enedigol, nid oedd hyny ond i ymladd brwydd

o'r fath fwyaf caled a pheryglus. Wedi i'r Diwygiad gael ei sefydlu, ac iddo yntau breswyllo yn y brifddinas, yr oedd yn barhaus mewn ymdrech â'r llys. Ar ol iddo gael ymwared o'r ymladdfa hon, ac yn tybied y caffai derfynu ei ddyddiau mewn heddwch, galwyd ef i'r maes drachefn; ac er nad oedd prin yn alluog i gerdded, gorfodwyd ef adael ei ddiadell, ac ym-
oatwng i alltudiaeth newydd, i'r dyben o ochelyd cynddaredd ei elynion. Collfarnwyd ef fwy nag unwaith am heresi, a chyhoeddwyd ef allan o nodded y gyfraith; tair gwaith y cyhuddwyd ef o deyrnfradwriaeth, ac ar ddau o'r achlysuron hyn bu gorfod iddo sefyll ei brawf. Rhoddwyd gwobr gyhoeddus ar ei ben; cyffogwyd llofruddwyr i'w ladd; a gwnaed cais am ei fywyd gyda llawdryll a dagr. Eto efe a ddiangodd rhag yr holl beryglon hyn, a gorphenodd ei yrfa mewn heddwch ac anrhydedd. Nid oedd yn rhyfedd ei fod wedi blino ar y byd, ac yn awyddus i ymadael o hono; a chyda phriodoldeb y gellid dyweyd ar ei farwolaeth ei fod wedi 'gorphwys oddiwrth ei lafur.'

Y mae nodweddiad Knox wedi ei ddarlunio yn dra gwahanol gan y rhai a ymgymerasant â'r gorchwyl. Myn y Pabyddion na bu nemawr o ddynion mor anfad ag ef ar wyneb y ddaear. Desgrifant ef yn ddyn o ysbryd cynhyrfus, anesmwyth, ac o egwyddorion gwrthryfelgar; ei fod o'r fath fwyaf arian o ran ei fywyd, o'r fath fwyaf afradlawn, yn ymfrostio mewn llygredigaeth, a'i fod wedi marw o dan farn amlwg yr Hollalluog. Ond nid yw hyn yn profi dim ychwaneg nag mai felly yr ewyllysiasent hwy iddo fod. Dywed un hanesydd, o'r ochr arall, yr hwn nad oedd yn cymeradwyo ei ddull yn cymeryd sylw o ryw bethau o'r pulpud, ei fod "wedi anfarwoli ei hun trwy ei wroldeb yn erbyn Pabyddiaeth, a'i ddiysgogrwydd yn erbyn tra-arglwyddiaeth Mary; ac er ei fod yn wrthwynebwyr tost i'r Pabyddion, eto yr oedd yn dangos hyny bob amser yn anrhydeddus ac âg wyneb agored." Tystia ei ysgrifenydd, Bannatyne, hefyd o flaen y Gymanfa Gyffredinol 1571, "Gwelodd Duw yn dda fy ngwneuthur i yn was i'r dyn hwnw, John Knox, yr hwn yr wyf yn ei wasanaethu, fel y mac Duw yn dyst, nid yn gymaint gyda golwg ar ddim sydd o'r byd hwn, ond o herwydd y didwylledd a'r uniondeb hwnw a welais ynddo bob amser, yn enwedig yn ei weinyddiad ffyddlawn o'i swydd yn dysgu gair Duw; a phe buaswn yn gwybod neu yn tybied ei fod yn dwyllwr, neu yn crêu ymran-
iadau yn eglwys Dduw, fel y dywed ei gyhuddwyr, ni wnaethwn ei wasan-
oethu am holl gyfoeth Edinburgh."

Yr oedd John Knox yn ddyn o alluoedd naturiol cryfion; ac er maint o anfanteseion oedd ynglŷn â Phabyddiaeth i ddyn ieuanc gael ei feddwl i ryddid i ymofyn am wybodaeth, ac hefyd mewn cysylltiad â bywyd llafurus fel yr eiddo ef gyda'r efengyl, eto yr oedd wedi cyrhaedd gybodaeth mor eang â neb o'i gydoeswyr yn yr Ysgrythyrau; ac nid oedd yn ddeieithr ychwaith i gangenau a gyfrifid yn fwy dysgedig. Yr oedd bob amser yn ddihoced yn ymofyn am y gwirionedd, ac ni theimlai y petrusder lleiaf wrth adrodd yr hyn a gredai felly, i'w gydwladwyr. Wrth i ni gymeryd i ystyriaeth amgylchiadau y genedl y pryd hwnw, wedi bod am oesoedd yn cael ei chaethiwo gan Eglwys Rhufain, yn amddifad o'r coethder a'r tyner-
wch hwnw ag y mae gwareiddiad ac addysg yn ei gynnyrchu, nid ydym i ryfæddu cymaint at ryw bethau a ymddangosai i ni yn ddideimladrwydd neu a gyfrifid yn annoethineb. Yr oedd yn ddyn i'w oes mewn modd ar-
benig. Nid oedd esmwythdra, dyrchafiad yn y byd, bod yn anrhydeddus

yn ngolwg dynion yn bwysig ganddo, i.e. nid gwerthfawr oedd ganddo ei einioes ei hun, o'r dydd y cofleidiodd athrawiaeth y Diwygiad hyd ei farwolaeth, os gallai mewn un modd gael gan ei gydwladwyr ymwrthod â'r hyn oedd yn ddinystr, a chofeidio yr hyn oedd yn iachawdwriaeth iddynt. Yr oedd gogoniant Duw a rhyddid ei wlad yn amcan, i.e. yr unig amcan mawr, yn ei olwg ar hyd ei oes. Er iddo gyfarfod â siomedigaethau yn y rhai yr oedd yn dysgwyl mwyaf oddiwrthynt o blaid y Diwygiad, ni phetrusai eu ceryddu yn llym, beth bynag fyddai eu sefyllfa, a pha faint bynag o berygl y gosodai ei hun yn agored iddo drwy hyny, ac ni wnai dim beri iddo ef laesu dwylaw a digaloni. Pan oedd pawb bron o'i gyfeillion wedi cilio draw a'i adael i ymdaro fel y gallai ger bron y Frenines, yr oedd ef yn gadarn a digryn. Yr oedd ei uniondeb uwchlaw cael ei lygru, ac ni wnai taerni ei gyfeillion mwy na bygythion ei elynion, ei syfryd, pan yr ystyriai fod gwirionedd yn gorfod dyoddef o'r herwydd. Ac os byddai ambell un yn petruso gyda golwg ar ei ddoethineb mewn rhai amgylchiadau, nid oedd neb yn ammheu ei gywirdeb.

Ysgrifonodd Hanes y Diwygiad, ac amryw o draethodau o'i blaid, yn mhoethder y frwydr; ond nid yn hyny yr oedd ei ragoriaeth yn benaf, eithr yn hytrach fel pregethwr. Mewn egluro yr Ysgrhythrau, rhybuddio y drygionus i ffoi at Waredwr, a chysuro y gwan ei feddwl, a'r hwn oedd yn cael ei oddiweddyd gan aml a blin gystuddiau, yr oedd ei elfen. Cyflawnai ei waith fel gweinidog gyda dyfalwch a ffyddlondeb. Ni wnai unrhyw alwedigaeth na gwendid ei luddias i ymddangos yn y pulpud. Ac yr oedd y gorthrymder y byddai ef ei hun ynddo, a'r ymwarded a gaffai trwy yr efengyl, yn ei gyfaddasu i "ddyddanu y rhai oedd mewn dim gorthrymder, trwy y dyddanwch â'r hwn y dyddenid ef ei hun gan Dduw." Y mae ei lythyrau a ysgrifonodd at ei gyfeillion mewn amgylchiadau felly yn brawf nodedig o hyn. Ni chlybuwyd erioed am ddim anghydfod rhyngddo a'i frodyr yn y weinidogaeth, ac yr oedd pob serchogrwydd rhyngddo â'r rhai a fu yn cydwasanaethu âg ef yn yr un eglwys. Yr oedd yn ofn i weithredoedd drwg lle bynag y byddai, a'i bregethau mor heilltion nes tynu gwg a chasineb ambell un a fyddai yn gaeth gan ei chwantau; ond yr oedd pawb ag oedd yn meddu y gradd lleiaf o ddifrifwch yn gorfod ei barchu. Byddai weithiau yn ddarostyngedig i raddau o iselder meddwl, yr hyn a barai iddo deimlo i raddau yn anfoddog, a gofidiai o herwydd hyny; ond ni feddyliai neb yn fwy am ei dduwioldeb, ac ni theimlai neb fwy o barch iddo, na'i deulu a'i gyfeillion, y rhai oedd yn cael y fantais oreu i'w adnabod. Ac ni buasai neb yn gwybod pa fodd y byddai yn teimlo ond fel y byddai ef yn cyffesu, ac yn dymuno arnynt ei esgusodi. Mynai rhai a fu yn adrodd ei hanes ei fod yn annynol o ddideimlad, pan oedd yn gallu dal i edrych ar y fenyw ieuanc brydfferth, Mary y Frenines, yn toddi mewn dagrau o'i flaen; ond o herwydd nad oedd ei dagrau hi ddim amgen na nwydau a natur ddrwg yn tori allan yn y ffordd hono, a'i fod yntau yn teimlo fod gwirionedd Duw mewn perygl o gael ei fathru dan draed, a rhyddid ei gydgenedl yn debyg o gael ei attal mewn anghyfiawnder, nid oedd yn gymaint syndod i un ag yr oedd ei wyneb wedi ei wneuthur fel callestr yn achos ei Arglwydd, fod yn ddiysgog. Yr oedd yn arddangos gwroldeb braidd digyfelyb, y mae yn wir; ond ni a gyfarfyddwn yr un gŵr mewn amgylchiadau eraill, fel y mae ei lythyrau yn gogfologfau i ddangos, yn gallu "llawenhâu gyda'r hwn oedd lawen, ac wylo gyda'r rhai oedd yn

wylo;" yr oedd yn feddiannol ar y tynerwch mwyaf, ac yn gallu ei ddangos heb unrhyw drafferth ar achlysuron a fyddai yn galw am ei gydymdeimlad.

Yr ydym eisoes wedi myned tu hwnt i'r gofod a ganiatëid i ni; ond nis gallwn derfynu heb adrodd un hanesyn eto am ferch ieuengaf ein gwron, yr hon oedd yn meddu cryn lawer o ysbryd ei thad, ac a fu gyfranog o lawer o ofidiau fel yntau. Yr oedd iddo bump o blant i gyd, dau fab o'r wraig gyntaf, y rhai a gyrhaeddasant gryn enwogrwydd mewn dysg yn Lloegr, a thair merch o'r wraig olaf. Priododd yr ieuengaf weinidog o'r enw John Welch. Yr oedd yn un o'r gweinidogion a wrthwynebodd fe-surau gorthymus Iago VI. i ddadymchwelyd Eglwys Henaduriaethol yr Alban, o ba herwydd taffwyd hwynt i garchar, a chollfarnwyd hwynt mewn modd gwaradwyddus i ddyoddef marwolaeth. Pa fodd bynag, cyfnewidiwyd y ddedfryd am alltudiaeth, ac aeth Welch i Ffrainc, lle y bu am un mlynedd ar bymtheg. Dysgodd yr iaith Ffrengig, fel yr oedd yn alluog i breg-ethu ynddi ymhen pedair wythnos ar ddeg, a dewiswyd ef yn weinidog i gynnulleidfa Brotestanaidd yn Nerac, ac wedi hyny symudodd i St. Jean d' Angely. Collodd Welch ei iechyd; a'r unig obaith a allai y meddygon roddi iddo o adferiad, oedd iddo ddychwelyd i awyr gwlad ei enedigaeth. Daeth i Lundain; ond yr oedd calon Iago yn rhy ofnus i roddi caniatâd iddo fyned i'r Alban, er ei fod ymhell yn y darfodedigaeth. Trwy rywrai o berthynasau ei mam, medrodd Mrs. Welch gael mynedfa i bresennoldeb ei Fawrhydi i osod ei dymuniad o'i flaen, pryd y gofynodd y Brenin pwy oedd ei thad. "John Knox," atebai hithau. "Knox and Welch," meddai Iago, "the devil never made such a match as that." "It is right like, sir," meddai Mrs. Welch, "for we never speired* his advice." Gofynai y Brenin pa nifer o blant a adawodd ei thad, a pha un ai meibion ai merched. Tair merch, meddai hithau. Yr oedd y meibion wedi meirw erbyn hyn. "God be thanked!" gwaeddai yntau, gan godi i fyny ei ddwylaw; "for an they had been three lads, I had never bruiked† my three kingdoms in peace." Dymunai hithau arno ganiatâu iddi ei deisyfiad i'w gŵr gael myned i awyr ei wlad. "Give him his native air!" atebai y Brenin, "give him the devil!" "Give that to your hungry courtiers," meddai hithau mewn teimlad wrth ei iaith anrasol. Dywedai wrthi o'r diwedd, os medrai ddarbwylllo ei gŵr i ymostwng i'r esgobion, y caniatâi iddo ddy-chwelyd i'r Alban. Cododd hithau ei harffedog o flaen y Brenin, ac atebai yn llawn o ysbryd ei thad, "Please your Majesty, I'd rather kep‡ his head there." Gommeddodd y Brenin ei chais, a bu Mr. Welch farw yn Llundain yn y flwyddyn 1622.

* Asked. † Enjoyed. ‡ Receive.

DEDDFAU NATUR A DEDDFAU Y GAIR.

Un o'r pethau cyntaf sydd yn taro y meddwl wrth fyfyrion ar y grëadigaeth weledig ydyw sefydlogrwydd ei deddfau, a chysondeb didòr eu gweithrediadau. Y mae y wers hon yn cael ei dysgu gan ymchwiliadau dyfnaf athroniaeth, yn gystal a chan brofiad cyffredinol dynolryw trwy yr oesoedd. Y mae hwn yn un o'r gwirioneddau cyntaf sydd yn tywynu i feddwl yr athronydd, pan y mae gyda'i lygad manylgraff yn drechreu treiddio i ddirgeloedd natur. Wrth barhau i syllu arni, y mae yr hyn oedd yn ymddangos iddo ar y cyntaf yn bentwr cymysgedig ac annhrefnus o ffeithiau neu wrthddrychau, yn raddol yn ymrestru yn brydferth o dan egwyddorion cyffredinol; ac y mae yr hyn oedd yn edrych i ddechreu yn eithriad ac yn anghysondeb nas gellid rhoddi cyfrif am dano, o'r diwedd yn ei brofi ei hunan yn ddim amgen na gweithrediad rheol sefydlog a deddf ddigyfnewid; a pha bellaf y treiddia i ddyfnderoedd natur—pa fwyaf caled y cwestiyna efe hi am ei dirgeledigaethau, cryfaf oll y mae yr argyhoeddiad yn cael ei weithio yn ei feddwl, fod unfurfaeth dieithriad yn rhedeg trwy ei holl weithrediadau, a sefydlogrwydd digyfnewid yn argraffedig ar ei holl ddeddfau.

Ond nid yw yn anghenrheidiol wrth gymhorth athroniaeth i ganfod hyn: y mae profiad cyffredinol dynolryw trwy holl oesoedd y byd yn dwyn tystiolaeth i'r un gwirionedd. Nis gall y sylwedydd mwyaf arwynebol ar natur lai na chanfod fod yma ryw ddeddf o sefydlogrwydd ac unfurfaeth yn rhedeg trwy ei holl weithrediadau. Un o'r syniadau cyntaf sydd yn gweithio ei ffordd i feddwl y plentyn, mor fuan ag y mae ei alluoedd yn dechreu ymagor, ydyw fod gan natur ei deddfau, a bod ei ddiogelwch a'i gysur yntau yn ymddibynu i fesur mawr ar ufudd-dod i'r deddfau hyny. Y mae yn dyfod i ddeall am y tân a'r dwfr, a'r holl elfenau sydd yn ei amgylchynu, fod ganddynt eu priodoliaethau penodol eu hunain, at y rhai y maent yn cadw yn ffyddlawn a diwyrni ymhob amgylchiad. Ac wrth deithio ymlaen ar yrfa bywyd, y mae pob dydd o newydd yn cadarnhau ac yn lliosogi y profion o'r un gwirionedd. Edrychwn lle y mynom, y mae y ddeddf hon o gysondeb ac unfurfaeth yn dyfod i'r golwg ar bob llaw. Y mae cylchdroadau rheolaidd y ddaear a'r bydoedd uwchben yn dwyn eu tystiolaeth iddi. Y mae cyson ddilyniant dydd a nos er "pan fu hwyr a phan bu bore y dydd cyntaf" yn ei chadarnhau. Y mae i'w gweled yn olyniad rheolaidd y tymmorau—haf a gauaf, oerni a gwres, trwy yr oesoedd, er pan ddywedodd Duw na byddai i "bryd hân a phryd medi beidio mwy holl ddyddiau y ddaear." Y mae i'w darllen yn eglur yn ngronynau bychain y tywod, y rhai a osododd Duw yn "derfyn i'r môr trwy ddeddf dragywyddol." Y mae i'w gweled eilwaith yn nghylchrediad prydferth yr elfen ddwfr; yr hon sydd ar y cyntaf yn cael ei chyfodi o'r môr trwy gyfrwng y cymylau, ac wedi bod yno yn cael ei phuro a'i chymhwysu at wasanaeth dyn, sydd yn disgyn eilwaith yn gawodydd maethlawn ar y ddaear—yn ymfurfio yn ffrydiau ac afonydd i'w dyfrhau a'i ffwrthloni, nes o'r diwedd y mae yn dychwelyd i'r môr o'r lle y daeth—i fyned trwy yr un treigliadau drachefn; ac felly ymlaen yn gyson a difeth trwy holl oesoedd y byd, er pan "gasglwyd 3

dyfroedd ynghyd i'r un lle, a phan ymddangosodd y sychdir," y trydydd dydd o'r grëadigaeth. Mewn gair, y mae pob peth yr edrychom arno yn cyd-dystio fod deddfau y grëadigaeth, fel eu Hawdwr, yn ddigyfnewid, ac nad yw natur oll amgen na pheiriant ardderchog, olwynion yr hwn, er eu bod yn aneirif, ydynt oll yn ysgogi dan lywodraeth egwyddorion sefydlog a deddfau digyfnewid.

Y mae yn amlwg, ar yr un pryd, fod natur drwyddi yn llawn o gyfnewidiadau. Nis gwyddom ond ychydig am yr egwyddor o fywyd; ond y mae yn ymddangos fod cyfnewidiad yn hanfodol i bob bywyd ar y ddaear. Y mae bywyd ei hunan yn byw ar gyfnewidiadau, ac yn ei amlgu ei hunan trwy gyfnewidiadau. Ac fel hyn y mae pob peth mewn natur yn y deyrnas lysieuol, a'r un anifeilaidd yr un modd, mewn ysgogiad parhâus, ac yn newid y naill ffurf o hanfodi am un arall—y mae pob peth trwy bob dosbarth o'r grëadigaeth yn fyw o gyfnewidiadau. Ond nid yw hyn mewn un modd yn milwrio yn erbyn y gwirionedd am sefydlogrwydd natur, mwy nag y mae yr amrywiaeth diderfyn sydd ynddi yn milwrio yn erbyn y gwirionedd am ei hunoliaeth. Unoliaeth mewn amrywiaeth ydyw unoliaeth natur; ac felly sefydlogrwydd mewn cyfnewidioldeb ydyw sefydlogrwydd natur. I'r gwrthwyneb, yn lle milwrio yn ei erbyn, nid yw hyn ond yn ei gadarnhâu; ie, gellir dyweyd mai dyma sydd yn cyfansoddi defnydd y gwirionedd hwnw, ynghyda'r prawf o hono. Yr aneirif gyfnewidiadau sydd yn myned ymlaen yn parhâus trwy holl deyrnas natur, ydyw yr hyn sydd yn profi fod deddfau natur yn ddigyfnewid. Oblegid y mae yr holl gyfnewidiadau hyn yn parhâu yn yr un drefn, yn cerdded wrth yr un reol, ac yn sefyll yn yr un berthynas â'u gilydd fel achosion ac effeithiau, o ddechreuad y byd hyd yr awr hon; yr hyn sydd yn dangos nad yw pob cyfnewidiad a gymer le mewn natur yn ddim amgen na gweithrediad deddf ddigyfnewid.

Y mae y gwirionedd hwn am sefydlogrwydd ac anghyfnewidioldeb deddfau natur wedi cael ei gamddefnyddio gan lygredigaeth y galon ddynol i fod yn gefnogiad i ddidduwiaeth y meddwl. Wrth sylwi ar brydferthwch a threfn a chysondeb natur, y mae llawer wedi myned i'w dwyfoli, ac i'w gosod i eistedd ar orsedd Duw, Awdwr natur, gan roddi yr addoliad hwnw iddi hi sydd yn deilwng yn unig iddo Ef. Wrth edrych yn unig ar ail-achosion, aethant i wadu yr Achos Mawr Cyntaf. Trwy gyfyngu eu golwg yn ormodol at y cysylltiad prydfferth sydd rhwng aneirif ddolenau cadwen natur â'u gilydd, aethant i golli golwg ar y ddolen fawr sydd yn cysylltu y cyfan â gorsedd Duw. Wrth weled peiriant mawr natur yn gweithio mor brydferth—wrth weled ei aneirif olwynion yn troi, y naill yn y llall, mor gyson a rheolaidd trwy yr oesoedd, aethant i golli golwg ar y Duw hwnw sydd yn eistedd y tu cefn i'r olwynion, yn llywodraethu eu holl ysgogiadau, ac yn cyfranu ar bob moment fywyd a grym trwy yr holl grëadigaeth. Y mae y gwatwarwyr hyn i'w cael ymhob oes, yn barod i waeddi, "Pa le y mae Duw y farn?" a "pha le y mae addewid ei ddyfodiad ef?"—a'r rheawm am hyn ydyw, am eu bod yn gweled "pob peth yn parhâu fel yr oeddnt o ddechreuad y grëadigaeth."

Y cyfryw ydyw yr esboniad gwyrngam y mae llygredigaeth a didduwiaeth y meddwl dynol yn ei roddi ar sefydlogrwydd deddfau y grëadigaeth. Ond gadewch i ni edrych pa beth ydyw y gwir esboniad ar hyn. Pa beth ydyw y wers, a ddysgir i ni gan anghyfnewidioldeb deddfau natur? Pa beth hefyd, ond—fod Duw natur yr un modd yn ddigyfnewid. Y mae y Crë-

awdwr mawr wedi planu ymhob mynawes grediniaeth ddiysgog yn nghadernid y gospdiadau hyny a ordeiniodd efe yn ei grëadigaeth. Y mae dyn, megys oddiar reddf naturiol ei feddwl, yn dysgwyl y bydd i bob peth yn nhrefn natur barhâu rhaglawn yn gymhwys yn yr un wedd ag ei gwelwyd hyd yma. Pan yr ydym yn edrych ar yr haul yn machlud yn y gorllewin, a'r nos yn lledu ei hadenydd pruddaidd dros y ddaear, nid oes yr un cysgod o ammheuaeth yn neb o honom wrth fyned i orwedd, na bydd yr un haul eto, wedi i ychydig oriau dreiglo, yn ymddyrchafu o ystafelloedd y dwyrain, ac yn ymlid y tywyllwch o'i faen. Fel hyn y mae dydd a nos wedi dilyn eu gilydd er pan ddechreuwyd cyfrif dyddiau Amser hyd yr awr hon; ac felly yr ydym yn credu y parhá i fod hyd nes na bydd amser mwyach. Ac felly, gyda phob ordeiniad arall o eiddo Duw mewn natur: y mae Efe wedi planu yn ein mynawes ddiysgwyliad cadarn y bydd i bob deddf a osododd Efe yn ei grëadigaeth barhâu i weithredu rhaglawn megys y gwelsom hi yn gweithredu hyd yn hyn. Yn awr, pe buasai yr hyder yma yn nghadernid a diysgogrwydd deddfau natur yn cael ei siomi, fe fuasai hyny, dybygid, yn tafu cwmwl ar wirionedd a fyddlondeb Awdwr natur. Pe buasai rhyw ddyn yn ein harwain ni i ddiysgwyl unrhyw beth, ac yntau heb fwriadu ei gyflawni, buasem yn cyfrif y dyn hwnw yn dwyllwr. Felly, pe buasai deddfau y grëadigaeth yma yn troi allan yn siomedig a thwyllodrus—y naill ddeddf mewn llawn rym heddyw, ac un arall hollol wahanol neu wrthwynebol iddi yn dyfod i weithrediad yfory, fe fuasai hyny yn rhwym o siglo ein hymddiried yn Nghrëawdwr y deddfau hyny. Buasai trwy hyny yn siomi ac yn gwatwar y dysgwyliad greddfol a blannodd Efe ei hunan yn meddwl ei grëadur. Ond, o'r ochr arall, gan fod y dysgwyliad a blannodd efe yn y fynwes oddifewn yn cyfarfod â'r cadarnhâd mwyaf diysgog yn y grëadigaeth oddiallan, y mae hyny yn dyfod yn ddael gref dros wirionedd ac anghyfnewidioldeb y Crëawdwr. Y mae Efe wedi addaw, nid trwy eiriau y mae yn wir, ond trwy reddf a blannodd Efe yn y meddwl—y bydd i ddeddfau natur barhâu yr un yn eu gweithrediadau trwy holl oesoedd y byd; ac wrth weled y deddfau hyny yn parhâu felly, yr ydym yn gweled Duw yn cyflawni ei addewid. Wrth weled natur yn cadw at ei deddfau, yr ydym yn gweled Awdwr natur yn cadw at ei fyddlondeb. Fe ddiysgwylir i gynnrych pob meddwl ddwyn delw y meddwl a'i cynnyrchodd. Os oes yn y grëadigaeth weledig yma amlygiadau o ddoethineb, nid yw hwnw ond doethineb y Crëawdwr; os oes yma amlygiadau o allu, nid yw hyny ond yn profi gallu y Crëawdwr; os oes yma amlygiadau o ddaioni, yr ydym yn gweled yn hyny ddaioni y Crëawdwr: a'r un modd, yn anghyfnewidioldeb y grëadigaeth, yr ydym yn darllen fod ei Chrëawdwr yn un "nad oes gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth yn perthyn iddo." Ac fel hyn y mae natur, yn lle bod yn llên dywell i fyned rhyngom a gweled Duw, yn dyfod yn ddrych dysglaer, ymha un y mae ei berffeithiau tragwyddol Ef yn cael eu hadlewyrchu.

Fe ymddengys ynte fod anghyfnewidioldeb deddfau natur yn dyfod yn ddael gref ac yn brawf diymwad o anghyfnewidioldeb Duw, awdwr y deddfau hyny. Yn awr, oddiar hyn, ni a allasem gasglu ymlaen llaw, os buasai y Duw hwnw yn gweled yn dda rodli dadguddiad newydd o hono ei hun, heblaw yr un sydd yn gynnwysedig mewn natur,—y buasai y dadguddiad hwnw hefyd yn dwyn arno yr un argraff o wirionedd ac anghyfnewidioldeb. Megys ag y dysgwylir i gynnrych pob meddwl ddwyn delw y

meddwl a'i cynnyrchodd, felly hefyd, fe ddysgwylir i wahanol gynnyrchion yr un meddwl ddwyn arnynt yr un ddelw. Y mae yn wir fod eithriadau mynych i'r rheol hon wrth ei chymhwysio at blant dynion; y mae dyn yn fynych mewn un adeg yn dywedyd ac yn gwneuthur yr hyn sydd yn milwrio yn erbyn, ac yn dadymchwelyd yr hyn a ddywedasai neu a wnaethai mewn adeg arall. Ond y mae hyn yn tarddu o amherfeithrwydd dyn fel créadur; y mae y créadur o anghenrheidrwydd yn amherffaith, ac oblegid hyny yn agored i gyfnewidiad. Ond am y Duw tragwyddol, y mae efe yn Ffynnonell perffeithrwydd, ac o ganlyniad, nis gall fod yn anghyson ág ef ei hun—"nis gall Efe ei wadu ei hun." "Tad y goleuni" ydyw, ac am hyny y mae "heb gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth" yn perthyn iddo. Yn awr, oddiar hyn, ni a allasem gasglu, os buasai Efe yn ymostwng i wneuthur dadguddiad newydd o hono ei hun, y buasai y dadguddiad hwnw hefyd wedi ei wisgo â'r un nodweddiadau, ac yn dwyn arno yr un argraff ddwyfol â'r dadguddiad blaenorol a wnaethai efe o hono ei hun mewn natur.

Ac erbyn i ni edrych, fel hyn yn gymhwys y mae pethau yn bod. Y mae yma ryw gyfatebiaeth yn bod rhwng gweithredoedd Duw â gair Duw—rhwng yr hyn a "gwblháodd Efe á'i law" mewn natur, a'r hyn a "lefarodd Efe á'i enau" yn ei air. Y mae y cyfryw gyfatebiaeth fanol a phrydferth yn rhedeg trwyddynt ag sydd yn rhoddi sail gref i ni gredu mai yr un ydyw awdwr y naill a'r llall; a'r cyfryw gyfatebiaeth hefyd ag sydd yn rhoddi i ni sail i ymresymu oddiwrth y naill at y llall. Y mae yn wir fod dadguddiad y Gair yn llawer uwch a rhagorach na dadguddiad natur. Y mae hwn yn ddadguddiad newydd, ac yn ddadguddiad o bethau newyddion, a'r pethau hyny yn dal y berthynas bwysicaf á dedwyddwch dyn yn y byd a ddaw. Y mae y gair yn llefaru yn eglur ar bethau nad oes yr un amnaid am danynt o fewn holl gylch natur. Y mae hwn yn dadguddio ffordd i gyflawnháu yr euog—i heddychu y gelyn—i olchi yr asfan—ac i wneyd "y pell yn agos trwy waed Crist." Ac heblaw hyny, y mae yr hyn nad yw yn cael ei ddadguddio ond yn gynnul ac yn egwan mewn natur, yn cael ei ddadguddio yn gyflawn ac yn eglur yn y gair. Y mae yr Arglwydd wedi "mawrháu ei air" yn yr ystyr yma, "uwchlaw ei enw oll," sef uwchlaw pob dadguddiad arall a roddes Efe o hono ei hun. Y mae hyny o belydrau daioni Duw sydd yn wasgaredig mewn natur, wedi eu crynhoi ynghyd nes y maent yn tywynu yn un haul mawr o gariad yn ffurfafen y gair. Y mae dalen doethineb Duw yn llyfr natur wedi dyfod yn "amryw blygion" neu yn "fawr amryw ddoethineb Duw" yn y gair. Mae ôl bysedd gallu Duw mewn natur wedi dyfod yn "rhagorol sawredd nerth Duw" ac yn "weithrediad nerth ei gadernid Ef" yn y gair. A'r un modd, os ydyw anghyfnawidoldeb Duw yn cael ei ddadguddio mewn natur, y mae yn cael ei ddadguddio yn llawer cyflawnach yn y gair. Os ydyw deddfau natur yn sefydlog, y mae deddfau y gair yn llawer mwy. Y mae deddfau natur wedi cael eu tori cyn hyn er mwyn gwasanaethu deddfau y gair; y mae deddfau isaf wedi eu dryllio mewn rhyw amgylchiadau neillduol, er mwyn amlygu cadernid deddfau uwch y gair; oblegid "haws i'r nef a'r ddaear fyned heibio nag i un iot nac un tipyn o'r gyfraith ballu;" ie, "nefoedd a daear a ánt heibio, ond fy ngeiriau i nid ánt heibio ddim." Deddflyfr tragwyddol llywodraeth Duw ydyw y gair; fe fydd deddfau hwn yn goroesi deddfau natur, ac yn parháu mewn grym wedi i natur a'i holl ddeddfau ddfianu.

Fel hyn, y mae yn wir fod dadguddiad y gair yn rhagori yn annhraethol

ar ddadguddiad natur; y mae y naill yn ymestyn ymhellach o lawer na'r llall; y mae y naill yn terfynu gydag amser, y mae y llall yn rhedeg ymlaen i dragywyddoldeb. Ond ar yr un pryd, yr ydym yn cael can belled ag y mae y ddau yn dilyn eu gilydd, fod y naill yn gyson â'r llall; y mae y naill linell yn rhedeg yn gyfochrog â'r llall—y mae yr un argraffiadau dwyfol ar y naill a'r llall; ac y mae hyn yn rhoddi sail i ni, dybygid, i ymresymu oddiwrth y naill at y llall. Yn awr, yr ydym yn gweled mai un briodolodd arbenig sydd yn perthyn i natur, ydyw *sefydlogrwydd ei deddfau*. Os oes dim wedi ei argraffu yn fwy amlwg na'i gilydd ar bob peth o fewn holl gylch natur—dyna ydyw hyny—ffyddlondeb y Duw mawr i'w osodiadau ei hunan. Pa ddeddf bynag a sefydlodd efe mewn natur, y mae yn ei chario allan i weithrediad, pa beth bynag fyddo y canlyniadau mewn amgylchiadau neillduol, trwy holl oesoedd y byd. Pa osodiad bynag a ordeiniodd efe yn ei grëadigaeth, y mae yn sefyll at hyny yn gyson a didòr o ddechreuad amser hyd y dydd hwn. Megys, gan hyny, ag y mae deddfau natur yn ddigyfnewid, felly hefyd y mae deddfau y gair yn ddigyfnewid. Os ydym yn ei gael ef mewn natur yn Dduw y gwirionedd, ni a'i cawn ef hefyd yn ei *air* yn Dduw y gwirionedd. Os ydym yn gweled pob deddf a ordeiniodd efe mewn natur yn parhâu mewn grym, ac yn cael ei chario allan i weithrediad trwy holl oesoedd amser; ny ni a allwn benderfynu y bydd pob deddf a eglurodd efe yn ei *air* yr un modd yn parhâu mewn grym ac yn cael ei chario allan i weithrediad trwy holl oesoedd diderfyn tragwyddoldeb.

Dyma egwyddor ymresymiad y Salm ydd yn Salm cxix. 89, 90, 91. Y mae yn ymresymu yno oddiwrth *weithredoedd* Duw at *air* Duw, ac yn defnyddio sefydlogrwydd y naill yn ddadl dros sefydlogrwydd y llall:—“Yn dragywydd, O Arglwydd, y mae dy *air* wedi ei sicrhâu yn y nefoedd: dy wirionedd sydd hyd genedlaeth a chenedlaeth.” Oddiwrth ba beth yr wyt ti yn casglu hyny, Dafydd? Wel, “Seiliaist y ddaear, a hi a saif.” ‘Yr ydwyf yn gweled natur a'i holl ddeddfau yn parhâu yr un yn ddigyfnewid yn ol dy osodiad di,—yr ydwyf yn canfod pob ordeiniad yn y grëadigaeth yma yn parhâu mewn grym, ac yn cael ei chario allan i weithrediad, o ddydd cyntaf amser hyd y dydd hwn,—y mae pob deddf a phob gosodiad mewn natur yn dwyn arni argraff o anghyfnawidioldeb ei Hawdwr. —“*Seiliaist y ddaear, a hi a saif;*” ac oddiwrth hyny, yr ydwyf yn casglu fod “dy *air* hefyd yn dragywydd wedi ei sicrhâu yn y nefoedd; a'th wirionedd hyd genedlaeth a chenedlaeth.” Ac yna, fel i berffeithio y cyffelybrwydd rhyngddynt, fe ddywedir am y naill a'r llall gyda'u gilydd:—“Wrth dy farnedigaethau y safant heddyw, canys dy weision yw pob peth.” —‘Y mae dy holl osodiadau di mewn perthynas i amser a thragywyddoldeb yn sicr o sefyll; oblegid y mae y byd hwn a'r byd a ddaw dan dy lywodraeth.’

Gellir crynhoi deddfau y gair i ryw ddwy ddeddf fawr ac arbenig, y rhai y gellir edrych arnynt fel yn cynnwys ac yn cynrychioli yr oll o'r lleill. Dyna y flaenaf:—*Y cysylltiad anwahanol a ordeiniodd Duw rhwng pechod a chosb*. Nid awn yn bresennol i geisio olrhain gwreiddiau y cysylltiad yma yn natur Duw ac yn egwyddorion ei lywodraeth; y cwbl y mae a wnelom ni âg ef yma ydyw—cadernid y ddeddf a sicrwydd ei chyflawniad. Nid oes yr un gosodiad yn cael ei egluro yn fwy pendant yn y gair sanctaidd, na bod byw mewn pechod yn y byd hwn i gael ei ddilyn â thragywyddol gosbedigaeth yn y byd a ddaw. Dyma y ddeddf: “*Cyfog pechod*

yw marwolaeth"—"Syniad y cnawd, marwolaeth yw"—"Os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch"—"Yr hwn sydd yn hau i'r cnawd o'r cnawd a fêd lygredigaeth." A fydd y ddeddf yna mewn grym yn y byd a ddaw? A gaiff hi ei chario allan i weithrediad yn oes oesoedd? Atebwn y cwestiwn yma trwy ofyn un arall: "A ddywedodd efe, ac oni chyflawna? A lefarodd efe ac oni chywira?" Na—"Nid dyn yw Duw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifarhâu." Y mae ei "air yn dragywydd wedi ei sicrhâu yn y nefoedd, a'i wirionedd hyd genedlaeth a chenedlaeth;" a phwy bynag sydd yn ammheu, trôed ei olwg i edrych ar natur o'i gwmpas—"seiliodd y ddaear a hi a saif." Y mae pob deddf mewn natur yn dwyn arni argraff o'i anghyfnawidoldeb; y mae pob gosodiad a ordeiniodd efe yn ei grêadigaeth yn cael ei gario i weithrediad yn gyson a didôr trwy holl oesoedd amser hyd y dydd hwn: ac y mae yr un gwirionedd, yr un anghyfnawidoldeb, a'r un gallu tragywyddol y tu cefn i bob adnod sydd yn y Bibl, ac yn gwystlo eu cyflawniad bob un!

Pe mynai yr annuwiol ddarllen ei sefyllfa dragywyddol yn y byd a ddaw, ni raid iddo ddim ond troi i edrych ar y grêadigaeth yma o'i amgylch. Y mae natur drwyddi draw yn dyfod yn llyfr du a phruddaidd iddo ef, a sicrwydd ei dynged wedi ei argraffu ar bob dalen o'i fewn. Os edrycha ar y tywod ar fin y môr, y mae pob gronyn bychan megys yn gwaeddi yn ei wyneb, "Gwae di, ddyn, os ydyw gosodiad Duw yn dy erbyn! nid oes dim mor gadarn â hwnw. Gosodiad Duw ydyw ein cadernid ni; fe'n gosododd ni yn deryn i'r môr mawr aflonydd yna trwy ddeddf dragywyddol; ac yr ydym yn attal ymchwydd ei dônau trwy yr oesoedd mor effeithiol â muriau o adamant, oblegid y mae gosodiad Duw o'n plaid ni!" Pan y byddwn yn gweled yr haul yn tywynu ganol dydd yn y ffurffafen, a natur i gyd yn llawenyachu yn ei oleuni, nid oes dim ammheuaeth yn ein meddwl na bydd yr un haul, ymben ychydig oriau, wedi attal ei lewyrch i ni—wedi dianc o'r golwg o dan derfnygylch y gorllewin, a natur yn y canlyniad yn tynu ei gorchudd du dros ei gwyneb. Fel hyn yr ordeiniodd Duw i ddydd a nos ddilyn eu gilydd er pan fu hwyr a boreu y dydd cyntaf; ac y mae efe wedi cadw at ei ordeiniad o genedlaeth i genedlaeth; fel hyn y mae dydd a nos wedi dilyn eu gilydd o ddydd cyntaf y grêadigaeth hyd y dydd hwn; ac nid oes neb yn teimlo yr un gradd o ammheuaeth, nad felly y parhâ hi i fod hyd eto o'r dydd hwn hyd ddiwedd amser. Gall yr annychweledig ddarllen ei dynged tragywyddol ar y ddeddf hon mewn natur. Mor sicr a bod y nos yn dilyn y dydd mewn ystyr naturiol, trwy yr oesoedd—mor sicr a hyn y bydd ei ddydd yntau yn fuan wedi darfod—dydd gras a dydd bywyd. Fe fydd yn taro ei draed wrth fynyddoedd tywyll angu; fe fydd cysgodau hwyr marwolaeth yn ymdaenu drosto; fe fydd ei haul yn machlud yn nghymylau marwolaeth—haul ei ddedwyddwch, haul ei obaith, a haul ei fywyd yn machlud ar unwaith; ac yna fe gaiff ei hunan mewn nos tragywyddol—ni thyr y wawr byth ar ei achos; "tywyllwch eithaf" fydd ei gartref, a "niwl tywyllwch yn nghadw yn dragywydd!" Yr ydym yn gweled y nos naturiol yn dilyn y dydd fel hyn yn ddisfêth drwy y blynyddoedd; a gall yr anedifeiriol fod yr un mor sicr am y nos dragywyddol yna, oblegid y mae ordeiniad Duw y tu cefn i'r ddau! Ni welwyd erioed ar y ddaear haf teg a chynhauaf hyfryd na byddai yn sicr o gael ei ddilyn gan y gauaf *du, oer, a thymhestlog*; fel hyn yr ordeiniodd Duw iddi fod, ac fel hyn y mae yn bod trwy holl oesoedd amser. Gall yr enaid anrasol ddarllen yn sicr-

wydd yr ordeiniad yma, sicrwydd ei golledigaeth ei hun. Mor sicr a bod y ddeddf yna yn cael ei chario allan mewn natur, mor sicr â hyny y bydd y pechadur anufudd yn cwynfan fod ei "haf wedi darfod, y cynauaf wedi myned heibio, ac yntau heb fod yn gadwedig:" haf ei gysuron a'i freintiau crefyddol, haf ei obaith, a haf ei fywyd, wedi darfod; ac yn cael ei ddilyn â gauaf du, tymhestlog digofaint Duw, ac yntau o dan y gawod "o faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus," heb yr un tô uwch ei ben, ac heb yr un lloches i ddianc iddi dros byth! Yn sicrwydd cyflawniad y ddeddf naturiol, darllenwn sicrwydd cyflawniad y ddeddf ysbrydol; oblegid yr un Duw a ordeiniodd y naill a'r llall, ac y mae cyflawniad y naill yn wystl o gyflawniad y llall.

Y mae amser a thragywyddoldeb yn ddwy wlad bell iawn oddiwrth eu gilydd, a gwahanol iawn i'w gilydd; ond er y pellder a'r gwahaniaeth, y maent o dan awdurdod yr un Brenin, ac yn cael eu llywodraethu wrth yr un deddfau. Pob deddf sydd yn cael ei hegluro i ni yn y Bibl ar y ddaear, cawn weled mai hono a fydd mewn grym hefyd yn y byd tragwyddol. Pan y mae un o drigolion Prydain yn ymadael â gwlad ei enedigaeth, ac yn ymfudo i un o'r trefedigaethau Prydeinig, megys New Zealand neu Van Diemen's Land, y mae ganddo daith bell o'i flaen—deuddeng mil o filldroedd a mwy; fe fydd yn pasio golygfeydd newydd a rhyfedd iawn ar y ffordd; ac erbyn y cyrhaedda efe ben ei daith, fe gaiff ei hunan mewn gwlad wahanol iawn i Brydain yn ei hinsawdd, yn ei harferion, ac i fesur yn ei thrigolion. Ond er yr holl bellder a'r gwahaniaeth, fe wel yn fuan ei fod o dan lywodraeth yr un deddfau yn y wlad hono ag yn ngwlad ei enedigaeth; baner Prydain fydd i fyny yno—*uniform* Prydain fydd yn cael ei gwisgo gan y milwyr yno; a phob deddf oedd mewn grym yn Mhrydain, fe wel mai dyna hefyd fydd mewn grym yno. Yr ydym ni wedi cychwyn ar daith i wlad bellach na Zealand Newydd neu Dir Van Diemen; fe fyddwn ninnau yn pasio golygfeydd newydd a dyeithr iawn ar y ffordd: ni a gawn weled afon angen ar y ffordd, a bydd yn rhaid myned trwyddi; ni a gawn weled gorsedd Duw ar y ffordd, a bydd yn rhaid sefyll o'i blaen; ac erbyn cyrhaedd pen y daith, ni a gawn ein hunain mewn gwlad wahanol iawn i'r ddaear—gwahanol yn ei hinsawdd, yn ei harferion, ac yn ei phreswylwyr. Ond ni a ddeallwn yn fuan ein bod yn ddeiliaid o'r un llywodraeth yno âg yma; ni gawn weled baner yr un Brenin yn chwyfio ar fryniau anfarwoldeb; a phob deddf oedd yn cael ei chyhoeddi i ni yn y Bibl ar y ddaear, cawn weled y bydd hono mewn llawn rym yno. Os gwelodd yr annwyl ryw ddeddf felly yn yr Ysgrythyr, "Cyflog pechod yw marwolaeth," fe gaiff brofi er ei wae ei bod hi mewn llawn rym yno, ac mai yno y bydd hi yn cael ei chario allan i weithrediad llawn. Os gwelodd efe ryw ddeddf felly yn cael ei chyhoeddi yn y Bibl ar y ddaear, "Yr hwn sydd yn hau i'r cnawd, o'r cnawd a fed lygredigaeth," caiff weled ei bod hi mewn llawn rym yno, ac mai yno y bydd efe yn dechreu medi y cynauaf mawr. Yr ydym yn gweled gosodiadau Duw yn cael eu cario allan mewn Amser; y maent mor sicr a hyny o gael eu cario allan yn Nhragywyddoldeb; oblegid nid yw y ddau fyd ond dwy dalaeth yn ei lywodraeth annherfynol Ef; y mae pob byd, a'r holl nerthoedd sydd ymhob byd—ysbrydol yn gystal ag amanyddol—dan ei awdurdod, "cansys ei weision yw pob peth!"

Ond y mae deddf sawr arall yn cael ei dadguddio yn y Gair, sydd mor

sicr o gael ei chario allan i weithrediad yn y byd a ddaw ag ydyw yr un o ddeddfau mwyaf sefydlog natur yn y byd hwn—sef, *y cysylltiad anwahanol a ordeiniodd Duw rhwng ffydd ac iachawdwriaeth*. Y mae y ddeddf flaenaf a enwyd yn cyfodi o anghenrheidrwydd natur Duw; ond y mae hon yn cyfodi o Benarglwyddiaeth a threfn trugaredd. Y mae y flaenaf yn hen ddeddf dragywyddol yn ei lywodraeth fawr gyffredinol; ond y mae hon yn ordeiniad neillduol o'i eiddo yn pheyrnas ei ras.

Os mai ofer i'r annuwiol feddwl am ddianc rhag y dymhestl trwy wenieithio iddo ei hunan na ddaw hi ddim, *fe all* ddianc trwy ffoi o'i chyrhaedd i'r noddfa a drefnodd Duw! Y mae Efe wedi ordeinio deddf arall yn ei lywodraeth, ac wedi ei daguddio yn ei Air; a dyna hi mewn gair byr, "Diwedd ffydd yw iachawdwriaeth yr enaid." Os ydyw Duw wedi cysylltu pechod a chosb yn annattodol â'u gilydd, y mae wedi cysylltu dau beth arall yr un mor annattodol, sef ffydd yn ei Fab a gwaredigaeth oddiwrth bechod a'i holl ganlyniadau i dragywyddoldeb. Y mae Duw wedi ordeinio, trwy ddeddf dragywyddol a osododd Efe yn ei lywodraeth, fod i bob un "sydd yn gweled y Mab ac yn credu ynddo, gael bywyd dragywyddol;" —"ni ddaw i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd." Ac y mae Efe yn sicr o sefyll at ei osodiad. "Yn dragywydd y mae ei Air wedi ei sicrhau yn y nefoedd, y mae ei wirionedd o genedlaeth i genedlaeth;" ac fel prawf o hyn, y mae wedi rhoddi argraff o'i anghyfnawidoldeb ar bob deddf mewn natur—"seiliodd y ddaear, a hi a saif;" ac ni raid i ni ond edrych ar y naill i weled sicrwydd cyflawniad y llall. Gall plentyn Duw ymgyuro yn y meddwl fod y briodoledd o anghyfnawidoldeb yn y Duw-dod mawr yn troi ei hochr oleu ato ef, fel y golofn hono gynt i'r Israeliaid, ac yn lle bod yn ddefnydd dychryn yn ddefnydd cysur iddo. Pob arddangosiad a wel efe yn y grëadigaeth o fyddlonddeb Duw i'w osodiadau, y mae hyny yn dyfod yn brawf o'i ddiogelwch ef. Y mae sicrwydd ei gadwedigaeth dragywyddol wedi ei argraffu ar bob deddf mewn natur. Pan y byddwn yn nghanol y nos dywyllaf yn myned i orwedd i'n gwelyau, ni fu yr un amheuaeth yn ein meddyliau erioed na byddai yr haul yna, wedi i ychydig oriau dreiglo, yn ymddyrchafu o ystafelloedd y dwyrain, nes ymlid y tywyllwch o'i flaen: a dyna paham yr ydym yn teimlo mor sicr y cymer hyny le, oblegid mai ordeiniad y Duw digyfnawid ydyw. Wel, pan y bydd y cristion yn nesáu at nos angeu—pan y bydd cysgodau yr hwyr olaf hwnw yn dechreu ymdaenu drosto, ac yntau yn cael ei ddiogelwch o wisgoedd y cnawd i fyned i orwedd i'w wely pridd, gall fod yr un mor benderfynol—wedi i nos y bedd fyned heibio, y bydd ei haul yntau ryw foreu dysglaer yn cyfodi draw ar fryniau anfarwoldeb, byth i fachlud mwy; pan y bydd ei gorff a'i enaid yn cael eu hailuno i'w cydogoneddu byth gyda Christ. A'r un modd, wrth edrych ar gadernid pob deddf arall mewn natur, gall efe weled yn hyny sicrwydd ei gadwedigaeth ei hun; oblegid y mae ordeiniad y Duw digyfnawid yn wystl o gyflawniad y naill fel y llall.

Y mae yr Arglwydd yn fynych yn y Bibl yn defnyddio cadernid ei osodiadau mewn natur fel dadl dros gadernid ei osodiadau yn ei Air. Y mae yn gwneyd hyny trwy y prophwyd Jeremiah, lle y mae yn gwystlo cyflawniad ei addewidion i'w eglwys am ei dychweliad o'r caethiwed, trwy gyfeirio ei golwg at ddianwadalwch a chysonedd "defodau y nefoedd a'r ddaear;" gan roddi gwarant i'r eglwys, pan y gwelai y naill yn cyfnawid, i amheu ac anghredu *y llall*. Y mae yn gwneyd hyny hefyd wrth gysuro yr Eglwys trwy y pro-

phwyd Esaiah: "Mewn ychydig soriant," meddai, "y cuddiais fy wyneb oddiwrthyt megys ennyd awr; ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhâf wrthyt, medd yr Arglwydd dy Waredydd." Yn y fan hon, gellid meddwl fod gwrthdadaid yn cael ei thybied, er nad yw yn cael ei rhoddi mewn geiriau, sydd yn ymgodi yn meddwl yr Eglwys:—"Ië, ond pa wylt sydd o hyn? A oes yna ddim rhyw arwydd yn rhywle, y gellir edrych arno i gadarnhâu fy meddwl y bydd i ti wneuthur hyn?" "Oes," meddai Duw, "os myni di arwydd, dyma arwydd—'Fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi; canys megys y tyngais nad elai dyfroedd Noah mwy dros y ddaear, felly y tyngais na ddigwn wrthyt, ac na'th geryddwn.' 'Pan welir fi wedi tori fy nghyfammod â'r ddaear, yna ammheuer cadernid fy nghyfammod â fy eglwys.'" Ond y mae Duw yn yr adnod nesaf, fel yn troi ac yn dyweyd:—"I ba beth y soniaf am osodiadau natur? nid oes dim mewn natur yn werth ei gymharu am foment â chadernid fy nghyfammod i; y mae pethau cadarnaf natur i gyfnewid! ond fe saif fy nghyfammod pan y bydd deddfau natur wedi myned yn chwilfrw!—"Canys y mynyddoedd a giliau, a'r brynau a symudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddiwrthyt, a chyfammod fy hedd ni syf, medd yr Arglwydd, sydd yn trugarhâu wrthyt!"

Bob tro y byddwn yn edrych ar yr enfys yn y ffurfafen, yr ydym yn barod i waeddi, "Ni ddaw y diluw dwfwr byth mwy i orchuddio y ddaear; y mae y Duw digyfnawid wedi pasio ei air ar y mater; a daew Efe wedi gosod ei fwa yn y ffurfafen i adnewyddu a sicrhâu ei gyfammod." O! y mae Duw yn yr efengyl wedi myned i gyfammod â phechadur am fywyd tragywyddol; ac y mae ei dystiolaeth rasol fel enfys brydferth yn tywynu yn ffurfafen y Bibl,—“Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragywyddol.” Gallwn edrych ar yr adnod yna, a lliaws o adnodau eraill sydd i'r un perwyl, fel lliwiau prydfferth yn yr enfys hono sydd yn amgylchynu gorsedd Duw, ac yn tywynu yn ffurfafen y Bibl; a phob tro y bydd i gredadyn edrych arni trwy fydd, efe a all waeddi allan yn hyderus, “Ni ddaw diluw digofaint byth o hyd i mi; dyna fwa y cyfammod hedd yn y golwg, yn dangos fod ordeiniad y Duw digyfnawid o blaid fy mywyd!” Nid rhaid i'r enaid gwan sydd yn ceisio rhoi ei bwys bob dydd ar Aberth mawr y groes, amheu am fynydd na fydd efe ar gael yn y diwedd, oblegid, “Hwn a osododd Duw yn lawn!” a pha bryd y gwelodd efe osodiad Duw wedi methu erioed? Os bydd efe yn ol yn y diwedd, fe fydd Hollalluogrydd wedi methu, a'r Duw digyfnawid wedi ei wadu ei hun am y tro cyntaf erioed! Os cyfrgollir credadyn, fe fydd cynghor tragywyddol y Jehofah wedi ei droi yn ffolineb! Ond ni fydd hyn byth. Y mae gosodiad Duw o blaid ei fywyd ef. Y mae y Duw mawr wedi ordeinio drwy ddeddf dragywyddol na chollir pwy bynag a gredo yn ei uniganedig Fab, ond caffael o hono fywyd tragywyddol; ac y mae y ddeddf hon yn nheyrnas ei ras mor sicr o gael ei chario allan i weithrediad âg un ddeddf yn nheyrnas natur: ië, fe fydd hon yn parhâu mewn grym draw, draw, yn y tragywyddoldeb pell, wedi i natur a'i holl ddeddfau ddifanu!

Y mae o'r pwys mwyaf i ni ymofyn pa fodd y mae rhyngom âg anghyfnawidoldeb Duw. Pa un ai defnydd cysur ai defnydd dychryn i ni ydyw y meddwl fod Duw yn un digyfnawid? Pa ochr o'r golofn sydd yn cael ei throï atom ni? “Os ydwyf annuwiol, gwae fi!” oblegid y mae yr ystyr-iaeth hon yn selio fy nghynged. Y mae gosodiad Duw yn erbyn fy mywyd; ac y mae Efe yn sicr o sefyll at hwnnw: ac yn nghadernid pob

deddf mewn natur y mae yn rhaid i mi ddarllen sicrwydd fy ngholledigaeth fy hun. Ond os ydwyf yn credu yn Mab Duw, y mae yr ochr oleu o'r golofn yn cael ei throï ataf. Y mae gosodiad Duw o blaid fy mywyd; ac y mae Efe yn sicr o sefyll at hwnw. A phob argraff a welaf o anghyfnewidioldeb Duw mewn natur, y mae hynny yn dyfod yn wystl ac yn ernes o'm tragywyddol gadwedigaeth. Dyger ni i'r cyfryw berthynas â Duw yn Nghrist ac yn nhrefn yr efengyl, ag a roddo ei allu, ei anghyfnewidioldeb, a'i holl briodoliaethau i fod o'n plaid, ac i fod yn amddiffyn tragywyddol ar ein dedwyddwch!

ARDDANSODDIAETH FERRIER.

[*INSTITUTES OF METAPHYSIC, the Theory of Knowing and Being, by J. F. FERRIER, A.B., Oxon. Second Edition. William Blackwood and Sons, Edinburgh. 1856.*]

Y MAE y llyfr hwn yn draethawd ar un o'r pynciau uchaf yn athroniaeth y meddwl. Dau wrthddrych mawr a ddygir ger bron ein sylw: y naill, yw y person sydd yn meddwl—neu y meddwl ei hun, yr hwn sydd yn cael ei alw dan wahanol enwau, megys “mind,” “subject,” “intelligence,” ond yn fwyaf gyffredin, yr “ego”—y “myfi:” y llall, yw yr hyn y mae y meddwl yn gweithredu arno, pa un ai pethau y grëadigaeth, ai teimladau yr enaid ei hun—pob peth y tu allan i'r person—yr hyn a elwir yma y “non-ego,” y “nid-myfi.” Y mae gweithrediadau y meddwl ar yr hyn sydd tu allan iddo, yn cael eu dynodi mewn ymddyddan cyffredin trwy y geiriau canlynol a'u cyffelyb: deall, dirnad, olrhain, dosbarthu, rhesymtu. Y gair éang a ddefnyddir yma i gynnwys o'i fewn ei hun, bob gweithrediad meddwl, neu i fod yn sail gyffredinol i bob gweithrediad, ac felly i ddynodi y cysylltiad mawr sydd rhwng pob meddwl a'r hyn y mae yn gweithredu arno, yw y gair “to know”—gwybod; yn debyg fel y defnyddir yn yr Ysgrhythyr y gair éang ‘adnabod’ i ddynodi y sail gyffredinol i bob teimlad sanctaidd tuag at Dduw.

Megys ag y mae y cysylltiadau rhwng pethau a'u gilydd yn destun mawr y gwyddorion (*sciences*), ac megys ag y mae y cysylltiadau rhwng dynion a Duw yn destun mawr y Bibl, felly y mae y cysylltiadau rhwng y meddwl a'r pethau neu a'r egwyddorion y mae yn gweithredu arnynt yn destun mawr athroniaeth y meddwl. Y mae yr athroniaeth hon yn cynnwys ymchwiliadau i'r cysylltiad sydd rhwng galluoedd y meddwl a'u gilydd—i'r elfenau sydd yn cyfarfod i wneuthur i fyny y gwahanol deimladau; ond testun ei hymchwiliad uchaf a dyfnaf, y pwysicaf, yn gystal a'r anhawddaf ei ddirnad a'i esbonio yw y cysylltiad cyffredinol rhwng pob person a'r *pob peth* sydd tu allan iddo—rhwng y meddwl a'i wrthddrych—yr hwn yw sail pob cysylltiad neillduol, a'r hwn sydd yn hanfod pob meddwl a phob *teimlad* yn ddiwahân. Ond ni raid i'r meddwl ddeall y cysylltiad hwn

tuag at weithredu yn ei ol, mwy nag y mae yn rhaid deall dull treulïad bwyd er mwyn ei dreulïo neu ei dreulïo yn well. Ni fydd y cysylltiad rhwng y meddwl a'r hyn y mae yn gweithredu arno, ronyn llai neu fwy, pe deallai ei natur i'r perffeithrwydd mwyaf. A'r cysylltiad hwn yw prif destun y llyfr sydd dan ein sylw. Y mae Mr. Ferrier, ei awdwr, yn *Professor of Moral Philosophy and Political Economy* yn *University Saint Andrews*, Ysgotland. Yn ei Ragymadrodd y mae yn gosod allan ei farn am waith priodol athroniaeth, ac yn ateb y cwestiynau, paham a pha fodd y mae yn gweithredu. Yna y mae yn enwi gwirionedd sylfaenol ei gyfundrefn—fel ei osodiad cyntaf, ac yn goruwchadeiladu arno 21 o osodiadau eraill. Ar gyfer pob gosodiad, y mae yn rhoi y gwrth-osodiad, fel y credir ac y traethir ef (medd efe) gan y farn gyffredin neu farn athronwyr. Y mae yn dywedyd yn ddibetrus fod y farn gyffredin a barnau athronwyr blaenorol ar y pwnc, yn gyfeiliornus, a'i fod ef wedi cael gafael ar y gwirionedd mawr sydd yn tafu goleu ar holl weithredïadau y meddwl—sydd yn symud yr enaid o dywyllwch i oleuni o barth ei gysylltiad a'r byd oddiam-gylch,—o ddallineb i ddeall pa beth yw gwir wrthddrych gwybodaeth. Y mae yn dilyn ei bwnc trwy gadwen o osodiadau cysylltiedig a'u gilydd—yn gwisgo ei synïadau yn yr iaith fwyaf grymus a mwyaf coeth, ac yn dangos cyfarfyddiad hynod o dlysi y bardd, craffder y rhesymwr, a threiddgarwch yr athronydd. Yr athronydd y mae yn talu mwyaf o barch iddo fel y cyfryw yw Berkeley, am yr hwn y mae yn dadgan ei farn fod ei ddamcanion, pa un bynag a ystyrir ai tlysi neu eglurdeb ei ddullwedd o ysgrifenu, neu ynte ddyfnder ei olygiadau, wedi gwneuthur mwy o wasanaeth i athroniaeth na holl ymdrechion y meddylwyr diweddaraf gyda'u gilydd. Tu dalen 399. Nid yw yn enwi Syr William Hamilton gymaint ag unwaith trwy ei lyfr. Ac y mae yn ystyried fod Dr. Reid wedi cwbl gyfeiliorni yn ei farn, am ei fod wedi camgymeryd gwir amcan athroniaeth. Ni a roddwn yn gyntaf fraslun o gynnwysiad y llyfr, gan deimlo ar yr un pryd yr anhawsdra i wneuthur cyfiawnder a'i synïadau mewn cyfieithiad, ac i roi y meddwl allan mewn iaith hawdd ei deall.

Amcan athroniaeth yw cyrhaedd gwirionedd trwy ymresymiad. Gwirionedd yw yr amcan: rhesymu yw y dull athronyddol o'i gyrhaedd. Y mae egwyddorion athroniaeth fel egwyddorion pob gwyddor a chelfyddyd, yn gyntaf yn nhrefn natur, ond yn olaf yn nhrefn gwybodaeth. Gwirioneddau *anghenrheidiol* rheswm yw y rhai ag y mae y gwrthwyneb iddynt yn anmhosibl—yn anamgyffredadwy. Hon yw y rheol i wybod neu i brofi pa rai yw y gwirioneddau anghenrheidiol. Dyben mawr pob ymchwiliad athronyddol, yw canfod natur y gwirioneddau hyn—y cysylltiad rhyngddynt a'r meddwl sydd yn eu canfod—a'r cysylltiad rhyngddynt a'r gwirioneddau a sylfaenir arnynt trwy resymeg.

Y cwestiwn mawr yw, "Pa beth sydd wirionedd?" Yr ateb o anghenrheidrwydd yw, Gwirionedd yw—yr hyn sydd. Y mae yr ateb yn codi cwestiwn arall, "Pa beth sydd?" Y mae y rhan hon o athroniaeth, sydd a'i hamcan i benderfynu yr hyn sydd, yn cael ei galw ganddo *Ontology* (bodeg). Mewn atebiad i'r cwestiwn, Pa beth sydd, yr ateb yw, Yr hyn sydd—yw—yr hyn a wybyddir—yr hyn sydd yn wrthddrych gwybodaeth. Y mae yr ateb hwn yn dwyn o flaen ein sylw gwestiynau pellach. Pa beth a wybyddir? Pa beth yw gwybod? Pa beth yw gwybodaeth? Y mae y rhan o athroniaeth sydd yn rhoi atebiad i'r cwestiynau hyn, yn myned yn y llyfr hwn dan yr

enw *Epistemology*. Y mae yn amlwg nas gellir dyweyd pa beth sydd, nes y dywedir yn gyntaf pa beth a wybyddir, a pha beth yw ystyr y geiriau gwybod a gwybodaeth. Ond fe ddichon yr hyn sydd, fod yr hyn ag yr ydym yn anwybodus o hono. Am hyny rhaid chwilio i natur a gwrth-ddrychau ein hanwybodaeth. Fe elwir yr ymchwiliad hwn yma yn *Agnoiology*. Fe helaethir arnynt yn y drefn ganlynol:—

1. *Epistemology* neu natur gwybodaeth.
2. *Agnoiology* neu natur anwybodaeth.
3. *Ontology* neu natur bôd.

Y mae i'r cwestiwn, pa beth yw gwybodaeth, un o ddau ystyr—un ai pa wahanol fathau o wybodaeth y sydd, neu pa un yw yr elfen anghyfnawidiol ag sydd yn gyffredin i bob math o wybodaeth, pa mor amrywiol a pha mor wahanol bynag oddiwrth eu gilydd a fyddont. Nid y cyntaf ond yr ail yw y cwestiwn yr ymdrechir ei ateb yn y llyfr hwn.

I. *Epistemology*, neu natur gwybodaeth.

Gosodiad 1. Ynglŷn â'r hyn y mae pob meddwl rhesymol yn gweithredu arno, y mae yn rhaid iddo, fel sail ei wybodaeth, fod yn ymwybyddus o hono ei hun.

Gos. 2. Y gwrthddrych y mae y meddwl yn gweithredu arno bob amser, yw y peth hwnw ynghyd âg ef ei hun. Ymhob *act* o wybodaeth, y mae gwrthddrych y wybodaeth yn cynnwys y peth y gweithredir yn feddylgar arno ynglŷn â'r person sydd yn gweithredu felly.

Gos. 3. Er y gellir gwahaniaethu, nis gellir gwahanu yn y pethau a wybyddir—y person, y myfi, oddiwrth yr hyn y mae y person yn gweithredu arno. Nis gellir gwybod y naill heb y llall. Y ddau, mewn rhwymyn undeb, yw y lleiaf a ellir ei wybod. Am hyny ffol yw ystyried y person, a'r hyn y mae yn gweithredu arno, yn ddau, ar wahân oddiwrth eu gilydd, gan fod y ddau yn gwneuthur i fyny un yn ngwybodaeth y meddwl o hono.

Gos. 4. Nis gall y meddwl weithredu ar unrhyw beth sydd tu allan iddo ei hun, wrtho ei hun.

Gos. 5. Nis gall y meddwl weithredu ar briodoliaethau unrhyw beth wrthynt eu hunain.

Gos. 6. Y mae pob gwrthddrych gwybodaeth yn cynnwys dwy elfen: y naill, yr anghenrheidiol—y cyffredinol—yr anghyfnawidiol ymhob gwybodaeth, a'r llall, y neillduol—y cyfnawidiol—y dianghenrheidiol. Nis gall yr un o'r ddau wrtho ei hun fod yn wrthddrych gwybodaeth: cysylltiad y ddau sydd yn cyfansoddi pob gwybodaeth.

Gos. 7. Y person ei hun yw yr elfen gyffredinol: yr hyn sydd tu allan iddo ei hun yw yr elfen neillduol.

Gos. 8. Nis gall dyn gyrhaedd gwybodaeth o hono ei hun trwy synwrau y corff.

Gos. 9. Nis gall dyn fod yn wybyddus o hono ei hun ar wahân oddiwrth bob peth y tu allan iddo, ac ar wahân oddiwrth ei feddyliau. Fe all fod yn wybyddus o hono ei hun, yn unig, mewn rhyw gyflwr neillduol, neu mewn cysylltiad â rhywbeth tu allan iddo.

Gos. 10. Nis gall y synwrau corfforol yn unig, o honynt eu hunain, drosglwyddo i'r meddwl unrhyw wybodaeth am unrhyw beth.

Gos. 11. Nis gellir meddwl am yr hyn nas gellir ei wybod.

Gos. 12. Am nas gellir gwybod, nis gellir ychwaith feddwl am y greadigaeth wrthi ei hun.

Gos. 13. Yr unig fyd annibynol y geill person feddwl am dano yw y byd ynglŷn â rhyw berson arall.

Ystyr y gair *phenomenon* yw, yr hyn a ellir ei wybod neu feddwl am dano yn unig pan y bydd rhywbeth arall yn wrthddrych gwybodaeth neu feddwl.

Gos. 14. Am hyny nis gellir gwybod y fath beth â *phenomenon*, wrtho ei hun, ond yn unig mewn cysylltiad â'r rhywbeth arall hwnw.

Gos. 15. Defnyddiau o bob natur—pethau allanol—meddyliau—y cyffredinol—y neillduol—ei hun—yw yr hyn nas gall neb ei wybod ar wahân oddiwrth bethau eraill.

Ei esboniad o'r gair *substantial* yw yr hyn a ellir ei wybod, heb i ddim arall gael ei wybod, o anghenrheidrwydd, ynglŷn âg ef.

Gos. 16. Y mae y *substantial* yn wybyddus i ni.

Gos. 17. Y gwrthddrych o flaen y meddwl, ynghyd â'r person sydd yn meddwl, mewn undeb â'u gilydd, yw y *substantial*—gwir wrthddrych gwybodaeth.

Gos. 18. Y mae yn anmhosibl gwybod y *relative*—y perthynasol, ar wahân oddiwrth yr hyn y mae yn berthynasol iddo.

Gos. 19. Pethau gweledig—teimladau—meddyliau—y person ei hun—ydynt y perthynasol.

Gos. 20. Yr *absolute* yw yr hyn a ellir ei wybod allan o bob perthynas â phob peth arall. Fe ellir gwybod hwn.

Gos. 21. Y person sydd yn meddwl, mewn cysylltiad â'r hyn y mae yn meddwl am dano, yw hwnw.

Gos. 22. Nid yw ein synwyrâu yn gyfryngau anghenrheidiol gwybodaeth. Y mae yn bosibl fod bodau eraill yn gwybod trwy gyfryngau gwa-hanol i'r synwyrâu sydd genym ni.

II. *Agniology* neu natur anwybodaeth.

1. Y mae anwybodaeth yn ddiffyg.

2. Am hyny fe ellir ei symud.

3. Yr ydym yn anwybodus yn unig o'r hyn y gellir ei wybod.

4. Nis gellir bod yn anwybodus o wrthddrychau ar wahân oddiwrth berson yn eu gwybod, am nad ellir eu gwybod felly.

5. Nis gellir bod yn anwybodus o wrthddrychau allan o bob perthynas â meddwl yn gweithredu arnynt.

6. Nis gellir bod yn anwybodus o elfen gyffredinol gwybodaeth wrthi ei hun, neu o elfen neillduol gwybodaeth wrthi ei hun.

7. Nis gall person fod yn anwybodus tra nad oes yr un peth o'i flaen yn destun ei feddwl.

8. Yr hyn y mae dyn bob amser yn anwybodus o hono, yw rhyw wrthddrych ynghyd âg ef ei hun.

III. *Ontology*, neu natur bod.

Y gosodiadau mwyaf pwysig dan y pen hwn ydynt y canlynol:—

Nid yw gwrthddrychau yn meddu ar fôd annibynol ar feddwl yn gweithredu arnynt.

Nid yw y meddwl yn meddu ar fod annibynol ar y gwrthddrychau y mae yn gweithredu arnynt.

Nid yw ein gwybodaeth o ddefnyddiau canfyddedig trwy y synwyrâu, corfforol yn tarddu oddiwrth y synwyrâu eu hunain.

Bôd gwirioneddol yw person a phethau mewn cysylltiad â'u gilydd: y

unig fôd annibynol yw meddwl ynglŷn â'r hyn y mae yn gweithredu arno.

Y mae un bôd, ac un ya unig, yn anghenrheidiol; a'r bôd hwnw yw meddwl Goruchaf, anfeidrol, tragywyddol, mewn cysylltiad â phob peth.

Ni a gyferbynwn y golygiadau a amddiffynir yn y llyfr hwn â'r eiddo Dr. Reid o barth i'n cysylltiad â'r byd tu allan i ni. Barn Reid, a'r un yw barn dynion yn gyffredin na fuont erioed yn astudio athroniaeth, oedd fod pethau sylweddol yn sefyll wyneb yn wyneb â'r meddwl, heb fod dim heblaw hyny yn sefyll yno gyda hwynt. Barn a theimlad pob dyn ydyw ei fod ef ei hun mewn cysylltiad â'i synwyrâu corfforol ar un ochr; bod y grëadigaeth ei hun ynghyd â'i phriodoliaethau hithau ar yr ochr arall; a bod y ddwy blaid yn edrych yn llygaid eu gilydd yn ddigyfrwng. Y mae Mr. Ferrier yn barnu fod y syniad cyffredin hwn yn gyfeiliornus—mai etifeddiaeth dyn yw ffaeledd a chyfeiliornad, ac mai amcan mawr athroniaeth yw ei ddysgu i ffurfio barn gywir. Y golygiad y mae ef yn ystyried yn gywir yw, nad yw dyn â'r grëadigaeth yn sefyll ar wahân oddiwrth eu gilydd yn ngwybodaeth y meddwl; ond bod y ddau yu anwahanol gysylltiedig â'u gilydd—nas gellir eu dychymygu ar wahân, a'u bod mewn undeb â'u gilydd yn cyfansoddi gwrthddrych gwybodaeth, sef yr unig fôd gwirioneddol.

Y mae gosodiad cyntaf Mr. Ferrier yn wirionedd mawr, os nad y mwyaf, yn athroniaeth y meddwl, ac yn haeddu, am hyny, sylw arbenig.

Y mae gan bob gwyddor sydd yn teilyngu yr enw, ryw safon, rhyw Fibl anffaeledig—ysbrydoledig ei natur—at yr hwn y mae pob apêl i gael ei wneuthur, ac yn ol yr hwn y dylai pob barn arni gael ei ffurfio. Gwaith y meddyliwr yw chwilio i'r llyfr hwn—casglu y ffeithiau ysgrifenedig ynddo—ymdrechu deall ei egwyddorion trwy ei ffeithiau—cymeryd ei arwain fel plentyn bach, gan ei awgrymiadau at ei ysbryd, a ffurfio barn yn hollol ac yn unig oddiwrth yr hyn a wêl ynddo. Nid yw i dynu o'r llyfr, nac i ychwanegu ato, ond ei gymeryd fel y mae, a chredu yr hyn a ysgrifenydd ar ei ddalenau. Nid yw pob gwyddor yn amgen na dychymyg ofer—adeilad ar dywod, os nad oes ganddi ryw Fibl anffaeledig fel craig yn sail iddi. Natur—y grëadigaeth weledig, yw y llyfr dwyfol ag y mae yr athronydd naturiol yn ei astudio. A phan y crëodd Duw y nefoedd a'r ddaear, fe ysgrifennodd a'i fŷs Fibl, dadguddiad dwyfol, yr athronydd naturiol. Am hyny y mae yn llafurio i gasglu at eu gilydd y ffeithiau ysgrifenedig ynddo—yn craffu arnynt—yn eu gwneuthur yn destun arbëinig ei sylw—yn canfod tebygrwydd neu annhebygrwydd rhyngddynt—yn dafganfod eu trefn, gan alw y drefn yn ddeddf, am mai trefn yw un o ddybenion deddf: ac os dygwydd i ryw un ammheu cywirdeb ei olygiadau, ei leferydd yn union yw, "at y gair ac at y dystiolaeth;" sef yn ol at y grëadigaeth naturiol, "oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt;" a ffeithiau y grëadigaeth sydd yn terfynu y ddadl. Y ddaear—ei mynyddoedd a'i chreigiau yw llyfr dwyfol y daearegwr (*geologist*): y ffurfafen uwchben yw y llyfr dwyfol sydd yn destun efrydiaeth yr astronomydd. Ac er pob ymddangosiad o anghysondeb yn y grëadigaeth, trwy fanwl chwilio ei dirgeloedd, "ei thywyllwch dudew sydd yn oleu gwir, a'i dyrswch mwyaf sydd yn drefn glir" i'r efrydwr llafurus. Ffeithiau canfyddedig yn y grëadigaeth yw y graig ar yr hon y mae yr holl wyddorion, *fel cynifer o balasau*, wedi eu hadeiladu.

Yr Ysgrythyr Lân yw y llyfr dwyfol ag y mae y duwinydd yn ei astudio. Y grëadigaeth yw y llyfr sydd yn cynnwys y gwahanol gysylltiadau rhwng pethau â'u gilydd; yr Ysgrythyr yw y llyfr sydd yn dangos y cysylltiadau rhwng dynion â'u Crëawdwr. Fel y mae y cyntaf yn sail i'r holl wyddorion cywir sydd yn ffynnu, felly y mae yr ail yn sail i bob gwir grefydd sydd yn ffynnu.

"Chwiliwch y grëadigaeth," medd y Crëawdwr,—ac yn y fan dacw ddynion yn llawn zêl a chwilfrydedd yn craffu arni, nes gweled egwyddorion trwy ei ffeithiau. "Chwiliwch yr Ysgrythyr," medd yr un Crëawdwr—dacw ddynion eto yn dechreu troi dalenau eu Bibl newydd nes canfod athrawiaeth yn yr hanes ysgrifenedig ynddo. Y grëadigaeth naturiol yw y gair a'r dystiolaeth sydd i benderfynu dadleuon o barth egwyddorion naturiol: yr Ysgrythyr yw y gair a'r dystiolaeth sydd i benderfynu dadleuon o barth egwyddorion moesol ac ysbrydol.

Onid ymhale y mae athronydd y meddwl yn sefyll? Rhwng y ddau a enwyd. Y ris isaf yw y cysylltiad rhwng pethau â'u gilydd, a'r grëadigaeth naturiol yw y llyfr dwyfol ar y pwnc; y nesaf, yn uwch, yw y cysylltiad rhwng pethau â phersonau, rhwng y grëadigaeth â meddwl dyn; y nesaf eto, a'r uchaf, yw y cysylltiad rhwng dyn â'i Grëawdwr, a'r Ysgrythyr Lân yw y llyfr dwyfol ar y pwnc. Onid oes rhyw lyfr dwyfol i'r ail? Os nad oes, dychymyg yw athroniaeth y meddwl. Yn ngwyneb fod rhyw un, boed ef wir athronydd, neu rywun yn galw ei hun felly, yn dadgan ei olygiadau ar berthynas y meddwl â'r byd o'i amgylch, ymha le y mae'r "gair a'r dystiolaeth" ag y mae yr apêl i gael ei wneuthur ati, tuag at farnu cywirdeb ei olygiadau? Pa un yw y llyfr anffaeledig ar y pwnc, yn ol yr hwn y mae pob un i gyhoeddi dedfryd o gymeradwyaeth neu anghymeradwyaeth arnynt? Y mae y llyfr i'w gael wedi ei ysgrifenu gan fŷs dwyfol yn ymwybodolrwydd (*consciousness*) pob un. Ac os na ddeil yr hyn a elwir yn ddarganfyddiad mewn athroniaeth ei farnu yn ol ymwybodolrwydd pob un, y mae yn rhaid ei gollfarnu fel cam farn. Nid ydym yn dywedyd fod pob un yn meddu ar y gallu i graffu ac i draethu yn eglur yr hyn y mae yn ymwybodol o hono. Ond diffyg craffedd a dawn ymadrodd yw hyny, ac nid diffyg yn yr ymwybodolrwydd. Gan hyny, fel y mae Syr William Hamilton wedi dangos yn ei feirniadaeth ar olygiadau Dr. Reid ar y pwnc, nid cynneddf neillduol yw ymwybodolrwydd, ond elfen anghenrheidiol yn ngweithrediad pob cynneddf—elfen anghenrheidiol yn hanfod yr enaid ei hun pan mewn gweithrediad. Nid yw y gwirionedd o ysbrydolrwydd y Bibl yn sefyll ar yr un tir â'r gwirioneddau a ddadguddir ynddo. Ond ar hwn y mae y gwirioneddau hyny yn sefyll gyda'u gilydd—hwn sydd yn eu cynnal—yn eu cysylltu ac yn sêl ddwyfol arnynt. Felly, nid yw ymwybodolrwydd yn sefyll ar yr un tir â chynneddfau yr enaid; ond y mae yn hanfodol iddynt i gyd, ac yn ei sicrhâu i'r enaid fel ei eiddo.

Yn ngwyneb hyn, fe ofynir, paham ynte, gan mai ymwybodolrwydd yw y llyfr dwyfol, a chan mai gwaith athronwyr yw ei astudio, y maent yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd? Pa fodd y mae dynion craffus, a chydwybodol—yn chwilio am y gwirionedd, yn methu cydweled ar bwnc mor agos at bob un o honynt â'r ysgrifen ar ei fynwes ei hun, a hono yn ysgrifen ag y maent, bob un, yn actio yn ei hól beunydd? Pa fodd yr oedd Dr. Brown yn gwahaniaethu oddiwrth Dr. Reid, a Syr W. Hamilton oddiwrth Dr. Brown, a Ferrier oddiwrth Syr W. Hamilton, ar bwnc mor agos at bob un

o honynt â gweithrediad ei feddwl ar y gwrthddrychau sydd ger ei fron?

Y mae amrywiaeth barn ar bynciau athronyddol yn codi oddiar yr un gwreiddyn âg amrywiaeth barn ymhlith duwinyddion ar bynciau crefyddol. Gan fod duwinyddion cydwybodol yn chwilio yr un Ysgrythyr, paham, a pha fodd y maent, neu y mae yn bosibl iddynt wahaniaethu oddiwrth eu gilydd? Y rheswm yw, fod yr Ysgrythyr yn cynnwys amryw wirioneddau sylfaenol, a bod meddwl y duwinydd yn ymsefydlu ar ryw un o honynt—fel yr unig un sylfaenol—yn cael ei demtio ac yn cael ei orchfygu gan y demtasiwn i ddiridynu neu i gwtogi gwirioneddau eraill, er mwyn eu gwneyd yn gyson â hwn—ac felly yn ffurfio *system* âg un gwirionedd yn sail iddi, ond â gwirioneddau hannerog yn oruwchadeiladaeth. Ac felly pe bae pob duwinydd yn cymeryd rhyw wirionedd fel sail ei *system*, hwy a amrywient yn eu golygiadau, am mai nid *yr un* gwirionedd a fyddai y sail. Am hyny, y mae cyfundraeth sylfaenedig ar y gwirionedd o rwymedigaeth a chyfrifoldeb dyn yn hollol wahanol oddiwrth gyfundraeth sylfaenedig ar y gwirionedd o benarglwyddiaeth gras. Y mae ffurf eglwysig sylfaenedig ar ryddid yn unig yn wahanol oddiwrth ffurf sylfaenedig ar burdeb yn unig, a'r ddwy yn wahanol oddiwrth ffurf sylfaenedig ar undeb yn unig. Nifer y gwirioneddau sylfaenol, a'r anhawsder ar bob amgylchiad i weled eu cysondeb, ac i'w cynnwys gyda'u gilydd, yw un rheswm, os nad y penaf, fod y rhai sydd yn cymeryd yr un Bibl yn unig reol ffydd ac ymarweddian yn amrywio oddiwrth eu gilydd. Felly mewn athroniaeth. Y mae mwy nag un gwirionedd yn y berthynas sydd rhwng y meddwl â'r hyn y mae yn gweithredu arno. Y mae yr hyn y mae y meddwl yn gweithredu arno yn amrywiol. Y mae yn gweithredu ar *bethau* a ellir eu canfod trwy y synwyrâu corfforol—ar ei feddyliau a'i deimladau a'i weithredoedd ei hunan, ac ar egwyddorion cyffredinol. Y mae rhai o'r egwyddorion yn ffrwyth ymchwiliad dysgedigion i berthynas pethau â'u gilydd, ac eraill wedi eu gwreiddio yn eu natur, yn anghenrheidiol, fel nas gellir eu dychymygu yn amgen nag ydynt. Y mae amrywiaeth hefyd yn nghynneddfau yr enaid, ac yn eu dull o weithredu, ac y mae gwahanol elfenau yn gwneuthur i fyny y berthynas rhwng y meddwl a'i wrthddrych. Y mae cyfundrefn wedi ei sylfaenu ar ryw *un* o'r gwirioneddau hyn, o anghenrheidrwydd yn wahanol i gyfundrefn wedi ei sylfaenu ar un arall. Am hyny, er fod athronwyr yn sylfaenu eu cyfundraethau ar ryw ddeddf yn y natur ddynol, am mai ar un, a hono nid yr un ddeddf, y maent yn rhwym o wahaniaethu, ac ambell waith, yn ddirfawr oddiwrth eu gilydd.

Ymhellach, ni a alwn sylw y darlennydd at y gosodiad ar yr hwn y mae Mr. Ferrier yn adeiladu ei *system*. Y mae ei osodiad cyntaf yn un nas gellir ei wadu—yn wirionedd mawr—sef mai ymwybodolrwydd yw sail gwybodaeth y meddwl am bob peth. Wrth edrych ar wrthddrych, fe wyr pob dyn mai efe ei hun sydd yn edrych arno, ac nid arall. Ac wrth edrych yn ol o'r amser dyfodol, nid yw mewn un math o betrusder ar y pwnc pa un ai efe ei hun ai arall oedd yn edrych arno.

Er y geill y meddwl ar adegau golli ei hun (fel y dywedir) yn ei wrthddrych, nes anghofio pob peth arall, eto ar ol hyny, nid yw byth yn ammheu ac yn hunanymholi "Ai myfi, neu rywun arall a fu yn meddwl am y peth." Y rheswm yw y gwirionedd cynnwysedig yn y gosodiad cyntaf, sef fod pob gweithrediad meddwl yn cynnwys ynddo ei hun ymwy-

bodolrwydd. Càn belled â hyn y mae sylwadau ein Hawdwr yn tystio eu gwirionedd i bob meddwl. Y mae efe yn dywedyd fod ei gyfundrefn yn sylfaenedig ar y gosodiad hwn; ond y mae yn ymddangos i ni ei bod yn sylfaenedig ar ei ail osodiad—ac mai y ddolen wan ynddi yw, yr hon sydd yn cysylltu y gosodiad cyntaf a'r ail. Ei ail osodiad yw, fod, ymhob *act* o wybodaeth, gwrthddrych y wybodaeth yn cynnwys y peth y mae y person yn meddwl am dano *ynghyd ag ef ei hun*. Y mae yn amlwg fod y *weithred* o wybod yn cynnwys ymwybodolrwydd fel ei helfen; ond nid yw mor amlwg fod *gwrthddrych* gwybodaeth yn cynnwys y person ynghyd â'r hyn a wybyddir. Ac y mae twyll yr ymresymiad yn ymddangos yn y modd y mae yn trosglwyddo i *wrthddrych* gwybodaeth—i'r hyn a wybyddir—yr hyn sydd yn perthyn yn briodol i'r *weithred* o wybod, ac yn ystyried un o elfenau y weithred, o herwydd hyny, yn un o elfenau y gwrthddrych.

Y mae y twyllymresymiad yn codi oddiar fod ein hawdwr yn defnyddio yr un gair am y weithred a'r gwrthddrych, fel pe na bae gwahaniaeth rhyngddynt. Ni a brofw'n hyn. Mewn nodyn ar waelod tu dalen 156, fe ddywed, "Yma, ac yn gyffredinol trwy y llyfr, y mae y gair 'cognition' yn arwyddo yr hyn a wybyddir. Y mae y sylw hwn yn anghenrheidiol, rhag i'r darlennydd dybied ei fod yn arwyddo y *weithred* yn hytrach na *gwrthddrych* gwybodaeth."

Er ei fod yn y nodyn uchod yn dywedyd yn eglur mai yr ystyr y defnyddir y gair 'cognition' yw y *peth*—y *gwrthddrych*—yr *hyn* sydd yn cael ei wybod, eto y mae yn anmhosibl esbonio y gair fel y defnyddir ef yn gyffredin trwy y llyfr, ond fel yn arwyddo y *weithred* o wybod. Megys yn yr engreiffiau canlynol:—

Tu dalen 289. Y mae yn sôn am "materials of cognition." Rhaid mai y weithred o wybod yw ystyr y gair *cognition* yn y fan yma, gan mai "materials of cognition" yw yr hyn y mae y meddwl yn gweithredu arno.

Yn yr un tu dalen. "Capacity of cognition." Y mae y gair *capacity*, neu allu, yn dangos yn eglur mai gallu i gyflawni y weithred ydyw; ac mai y *weithred*, ac nid y *peth*, y mae y gair *cognition* yma yn ei arwyddo.

Tu dalen 291. "Yn y gosodiad hwn, fe wneir gwahaniaeth rhwng *gwybod a meddwl*—between knowing and thinking—between cognition and conception." Y mae y cyferbyniad yn dangos megys ag y mae y gair 'conception' yn arwyddo y weithred o feddwl, felly fod y gair 'cognition' y narwyddo y weithred o wybod.

Tu dalen 425. "All cognition of material things *per se* is impossible." Yma "material things" yw y pethau, a 'cognition' yw y weithred o wybod.

Tu dalen 479. Y mae yn gosod "our knowledge of material things" yn gyferbyniol i'r geiriau "our perceptive cognitions." Ac y mae y cyferbyniad yn ein gorfodi i ystyried y gair *cognition* fel yn arwyddo y weithred o wybod, tra y mae y gair 'perceptive' yn dangos dull y meddwl o weithredu trwy y synwrau corfforol.

Fel yr engraiſt olaf, ni a gawn yn yr ail osodiad, tu dalen 97, "Self is an integral and essential part of every object of cognition." Os 'cognition' yw yr hyn a wybyddir, beth all yr 'object of cognition' fod? Ond os 'cognition' yw y weithred, y mae ystyr y geiriau 'object of cognition' yn eglur, sef testun y wybodaeth.

Y gair 'cognition' yw y gair pwysicaf yn yr holl lyfr; ac y mae ei ddefnyddio yn barhaus, weithiau am weithred y meddwl, ac weithiau am yr hyn y mae y meddwl yn gweithredu arno, fel pe na bae gwahaniaeth rhwng y ddau, yn peri fod ein hawdwr wedi gosod un elfen anghenrheidiol i'r meddwl tuag at wybod, yn elfen anghenrheidiol ymhob peth ag sydd yn cael ei wybod.

Heblaw hyn, y mae yn defnyddio yr un gair, sef "to know," i ddynodi dwy weithred o eiddo y meddwl hollol wahanol oddiwrth eu gilydd, fel pe na baent yn wahanol.

Yn tu dalen 292, y mae yn rhoi ei ystyr i'r gair 'know.' "The word knowledge or knowing is employed to express the perceptions which we have of things when they are actually before us." 'Fe ddefnyddir y gair gwybod i ddynodi gweithrediad meddwl ar bethau pan y byddant yn wirioneddol ger ein bron.' Yn gyson â'r darluniad hwn, yn tu dalen 73, y mae yn sôn, am wahanol fathau o wybodaeth, megys yr hanesyddol, a'r grammadegol, &c. Wrth enwi y rhai hyn, y mae yn dangos mai ystyr y gair 'know' ganddo yw cysylltiad y meddwl â phethau hanesiol a grammadegol pan y byddont ger ei fron.

Ac y mae hefyd trwy y llyfr yn defnyddio yr un gair, 'gwybod,' i ddynodi ymwybyddiaeth y meddwl o hono ei hun, fel pe byddai cysylltiad y meddwl â'r hyn y mae yn gweithredu arno o'r un natur â'i ymwybyddiaeth mai efe sydd yn gweithredu ac nid arall. Mewn un man, fe ddywed mai gwybod yw gweithred y meddwl ar bethau pan y byddant ger ei fron: mewn man arall, fod y person ei hun yn rhan hanfodol o bob peth sydd yn destun gwybodaeth. Yn ol y golygiad hwn, pan y mae ef ei hun yn wrth-ddrych gwybodaeth y meddwl, y mae y cysylltiad rhyngddo ag ef ei hun o'r un natur a'r cysylltiad sydd rhyngddo â phethau ger ei fron; ac yn cael ei ddynodi gan yr un gair. A'i farn yw mai ymwybyddiaeth yw y cyntaf o'r ddau. Ond y mae yn ymddangos i ni fod y ddwy weithred mor wahanol oddiwrth eu gilydd fel mai anghymhwys ac anhriodol yw defnyddio yr un gair i'w darlunio. Fe all y meddwl weithredu arno ei hun fel y mae yn gweithredu ar wrthdrysychau eraill, ond nid ymwybodolrwydd yw hynny, er fod ymwybodolrwydd yn sylfaen y ddau weithrediad. Fel y gall y meddwl weithredu ar ddefnydd yn ei gysylltiad â'i briodoliaethau, felly fe all weithredu arno ei hun yn ei wahanol deimladau ac agweddan. Y mae y meddwl yn ymwybodol o hono ei hun wrth wneyd y ddau, ond nid ymwybodolrwydd yw y cyntaf mwy na'r ail.

Gwybod yw y cysylltiad rhwng y meddwl â phethau; ond nid yw ymwybodolrwydd yn gysylltiad rhwng dyn ag ef ei hun—nid yw yn gysylltiad mewn un modd, ond elfen wreiddiol, ac hanfodol i holl weithrediaid yr enaid. Ac os yw dyn, ar un llaw, yn ymwybyddol mai *efe* sydd yn meddwl ac nid arall, y mae hefyd mor ymwybyddol mai meddwl y mae ar wrthdrysychau hollol ar wahan oddiwrtho ei hun, pan yn sylwi ar y gwrthdrysychau sydd oddiamgylch iddo. Y mae yn ymwybyddol ei fod yn gweld y pren neu y gareg, ac mor sicr a hynny mai ar y pren neu y gareg y mae ei feddwl yn gweithredu, ac nid arno ei hun. Y mae ein hawdwr yn gofyn y cwestiwn, *Beth yw gwybodaeth?* Y mae yn treulio yn agos i 400 o du dalenau i'w ateb—ond erbyn ei chwilio, a bwrw ei fod yn gywir, ateb i'r cwestiwn, '*Beth yw gwrthdrysych gwybodaeth?*' ydyw—ac nid i'r cwestiwn '*beth yw gwybodaeth,*'—canyis ei ateb yw—y dyn ei hun yn ychwanegol

at y peth y mae yn meddwl am dano yw gwrthddrych gwybodaeth. Y mae yn gofyn, pa beth yw *gwrthddrych gwybodaeth*; ond y mae yn ateb hwn, trwy enwi *ymwybodolrwydd*, yr hwn yw sail pob *gwybodaeth*, ond ar wahân oddiwrth ei *wrthddrych*.

Os cywir ein barn, nid fiol ond anghenrheidiol yw ystyried y person, a'r hyn y mae ei feddwl yn gweithredu arno ar wahân oddiwrth eu gilydd, yn groes i Gos. 3 o'i eiddo—un yw gwrthddrych gwybodaeth, sef y peth y meddylir am dano (tra mai ymwybyddiaeth yw sail y wybodaeth) yn erbyn Gos. 6; ac yn lle y casgliad fod anghenrheidrwydd i bob peth fod mewn cysylltiad â meddwl yn gweithredu arno, ni a ddywedem fod anghenrheidrwydd i bob meddwl ag a fyddo yn gweithredu ar unrhyw beth, fod yn ymwybodol o hyny.

Y mae anhawsdra mawr, yn ein tyb ni, yn ei olygiadau, pan y cymhwysir hwynt at wybodaeth y meddwl am bersonau eraill. Y mae personau eraill, yn gymaint tu allan i mi fy hun â'r grëadigaeth ddireswm. Os gwir, gan hyny, yw ei resymiad gyda golwg ar yr olaf, y mae mor wir gyda golwg ar y cyntaf. Ni a gymhwyswn y rhesymiad yn y dull hwn. Bwriwn mai yr hyn yr wyf yn meddwl am dano yw rhyw berson arall. Yn ol Gos. 2., gwrthddrych fy meddwl yw y person hwnw ynghyda mi fy hun. Anmhosibl yn ol Gos. 11., yw i mi feddwl am yr un person arall heb feddwl hefyd am danaf fy hun mewn cysylltiad âg ef fel gwrthddrych fy ngwybodaeth.

A'r unig fyd annibynol y gallaf feddwl am dano yw, nid y byd ynglŷn â pherson arall, ond y byd (pa un ai mewn undeb neu heb fod mewn undeb â pherson arall) ynglŷn â mi fy hun, yn ol Gos. 13; a'r unig fôd gwirioneddol, annibynol, yw,—nid person a phethau mewn cysylltiad â'u gilydd, ond fy mherson i a phêthau mewn cysylltiad â'u gilydd. Ac os oes bôd, Un anfeidrol, tragywyddol, mewn cysylltiad â phob peth, nis gallaf feddwl am dano fel bôd, ond ynglŷn â mi. Yr wyf fi mor anghenrheidiol i'r grëadigaeth âg yntau; ac yr wyf fi mor anghenrheidiol iddo yntau ag ydyw ef i minnau. Nyni a anturiwn ddyweyd fod hwn yn deimlad hollol ddyeithr i'r ddyndoliaeth, yn beth nad ydym yn ymwybodol o hono, ac os nad yw yn cael ei wirio gan y Bibl dwyfol o ymwybodolrwydd, rhaid credu mai anghywir yw. Ac er nad yw Mr. Ferrier yn dyweyd hyn, nis gallwn lai na gweled fod hwn yn gogledd naturiol ac anghenrheidiol i'w dynu oddiwrth ei osodiadau.

Yn tu dalenau 311—320, y mae Mr. Ferrier yn cyfarfod â'r casgliad hwn, a theg iddo yw dyweyd pa fodd y mae yn ymdrechu gwneyd hyny.

Y mae yn hysbysu i ni mai ei feddwl yn yr ail osodiad yw, fod pob gwrthddrych gwybodaeth yn cynnwys y peth y gweithredir arno, ynglŷn â'r person—â rhyw berson—myfi neu arall a fyddo yn gweithredu arno. Ond nid yw hyn yn cyffwrdd â'r anhawsdra; canys gan fod pob person arall tu allan i mi yn gymaint â'r grëadigaeth, pa fodd y gallaf gymaint a meddwl am berson arall oddieithr yn yr un modd ag yr wyf yn meddwl am y grëadigaeth? Gydag ef ei hun y mae pob dyn yn rhwym o gychwyn, a pha fodd y medr gyrhaedd neb arall? Ond, medd ein hawdwr, "Y mae pob dyn yn gweled ynddo ei hun gynllun neu gysgod o bob dyn arall. Y mae yn ymdeimlo 'fel yr wyf fi yn gysylltiedig â'r grëadigaeth, felly y mae pob meddwl arall.'" Ond yr anhawsdra yw, nid i ddychymygu pa fodd y mae meddwl un arall yn gweithredu—ac ni a gymerwn ei esboniad o byn

fel un cywir—ond, yn ol ei gyfundrefn ef, i wybod bod neb arall—i feddwl am rywun arall, oddieithr mewn cysylltiad â mi fy hun.

Y mae y gyfundrefn hon, yr hon sydd yn fy rhwymo mewn cysylltiad bôd â'r hyn yr wyf yn wybod ac yn meddwl am dano, yn gwneyd hyn â phob person yn gystal ag â phob peth fyddo yn destun fy ngwybodaeth, ac yn fy arwain i'r canlyniad—nid fod Duw yn anghenrheidiol, ond fy mod innau mor anghenrheidiol âg yntau mewn cysylltiad âg ef—casgliad nas gallaf ei ddarllen ar ymwybodolrwydd fy mynwes; ond casgliad sydd yn codi yn anghenrheidiol oddiar yr ail osodiad.

Yn awr ni a orphenwn ein herthygl gan ddadgan ein barn yn ngeiriau Adolygydd ar y llyfr yn y *British and Foreign Evangelical Review*, yn mis Mawrth, 1855. "Yr ydym yn edmygu galluedd mawrion ac amrywiol *Professor Ferrier* fel y dangosir hwynt yn y gwaith o'n blaen; ei allu craffus i resymu, ei feistrolaeth ar iaith, a'i ddychymyg coethedig, yr hwn sydd wedi gwisgo â phrydterthwch barddoniaeth ddiffeithdiroedd mwyaf anial athroniaeth. Ond nis gallwn fod yn ddall i'r ffaith fod y sefyllfa y mae wedi ei chymeryd yn ansafadwy, i.e, i feddwl cawraidd."

LLENYDDIAETH HENAFOL YR HINDWAID.

GAN Y PAROH. W. PRYSE, SYLHET, INDIA.

AWN yn ol i'r cynoesoedd. Y dringraddau a amrywiant, eithr y mae y gwrthddrych yn werth y llafur i'w gyrhaedd. Y pleser, y cywreinerwydd, yr awydd, a'r pryder, pa rai a gymerant feddiant o'r meddwl wrth ymchwilio i henafiaethau y cynfyd, ydynt annesgrifiadwy. Sefyllfan y meddwl wrth geisio treiddio i ddirgelion creadigaeth a bodolaeth, neu i'w natur a'i gynnoddffau ei hun, sydd dra gwahanol oddiwrt h ei sefyllfan pan yn syllu i hanes ffurfiau, defodau, a dygwyddiadau cymdeithas yn mhellfanau henafol cyndeid yr hil. Teithia rhai yn ol i'r cynfyd ar hyd dringraddau meteloedd caboledig yn arfau ac addurniadau y cynoesoedd. Ymchwiliant, ymholant, cloddiant, a chasglant bob arf a phob addurn metelaidd ag y gallant gael hyd iddo; yna eisteddant ymysg y cruglwythau, a mesurant rym meddwl, cylch gwybodaeth, ac eangder dyfeisiau y llunwyr oddiwrt h ddefnyddiau a phriodoledau y gwrthddrychau lluniedig. Eraill a grwydrant ddiffeithdiroedd anial er chwilio allan ddarnau o hen gôfgolofnau, cerfiadau, bâthau, ac adeiladau, oddiwrt h ba rai y gobeithiant olrhain dygwyddiadau, gwybodau, a dyfeisiau hen oesoedd claddedig y cynfyd. Ein llwybr ni yn bresennol sydd ychydig yn wahanol. Ein hymchwiliad ni a fydd yn benaf ymysg ysgrifeniadau, papyrau, traddodiadau, a llyfrau. Ein prif orchwyl a fydd canlyn ffyddliad y meddwl Hindwaidd o'r cynoesoedd boreuol, hyd derfyniad swrt h y ffwrdd ynghylch dau neu drî chanrif yn ol, yn niffeithle sych a diffwrtyh Hindwaeth y dyddiau hyn.

Y mae yn ddiaddl mai allwedd benafiaethau pob cenedl ydyw ei *mythoi*. Eithr pa le y ceir hyd i allwedd y *mythoi*? Annirnadwy i ni ydyw llawer rhan o'r *mythoi* a goleddid gan Cicero neu Cæsar. Yr eiddo cydoeswyr Plato a Herodotus oeddynt agos mor annirnadwy iddynt hwythau. Yr eiddo Homer a'i gydoeswyr oeddynt ddirgelwch iddynt hwythau. Yr eiddo y Pelasgi drachefn oeddynt gyfriniol i fardd yr Iliad. Hyd yn hyn, *mythoi* pob cenedl a gynnwysant lawer o ddirgelion annhreiddiadwy. Amrywiaethau y *mythoi*, fel yr eiddo natur, ydynt ddiderfyn. Eu hathrawiaethau, agos oll, ydynt ddammegol neu gyfriniol; eto nid oes nemawr gyfrin na dammeg yn nghyfundraethau *mythoi* y byd, pa un, yn y dechreuad, na ddeilliodd o ryw ffaith yn natur. Gwysiwyd agos pob deddf, pob cynneddf, pob ymddangosiad, a phob gwrthddrych yn natur, at wasanaeth y *mythoi*. Crefydd natur ydoedd crefydd gyntaf dyn. Cyfaddesid ei gyfansoddiad i wasanaethu ei Grëwr drwy fwyniant gwrthddrychau naturiol. Ei Grëwr ydoedd prif wrthddrych a chanolbwynt pob gweithred, golygiad, a mwyniant. Seryddiaeth, Goruchiondraeth, Mildraeth, a Llysieudraeth, a ddysgent wybodaeth am Dduw. Dadymchweliad y drefn hon a elwir pechod. Dyma achos trueni dyn, ac achlysur dadguddiad Duw. O'r ffaith hon y tardd bythymgais dyn i gyrhaedd dedwyddwch trwy ufudd-dod gweithredol. Dyma wraidd deddfoldeb. Ac o'r ffaith hon y deilliodd holl ddirgelion *mythoi* y byd. Oddiyma y daeth arwyddion y Zodiach i fod yn achosion bendith a mellidith, yn achosion holl ddrygau, ffoleddau, a phleserau yr hil ddynol—yn gystal moesol a naturiol. Y mae yn deilwng o sylw y cyfeiriad *mythoi* yr oesoedd blaenaf, agos oll, at y galon, y dychymyg, a'r teimlad; yr eiddo yr oesoedd canol at y deall a'r rheswm; a'r eiddo yr oesoedd diweddfaf hyn at nwydau dyn llygredig, a phleserau cnawdol, tymmorol, a theimladwy.

Ein gorchwyl presennol ydyw ceisio olrhain hanes llënyddiaeth Hindwaid; a chynyg ychydig sylwadau ar deilyngdod neu annheilyngdod ei gwahanol gangenau. Cyfyngir y llënyddiaeth hon yn gwbl i'r iaith Sanscrit; ac i olygiadau, dadleuon, ac amgylchiadau Hindwaid. Yn hyn y mae yr Hindwaid yn llawn mor gulfeddwl ac anghyfiawn a'r Groegiaid. Edrychai y blaenaf gyda llawn cymaint dirmyg ar eu *Mlechha*, ag yr edrychai yr olaf ar eu *Barbaroi*. Ni chyfrifai y naill na'r llall nemawr ddim ymysg cenedloedd ac mewn ieithoedd eraill yn werth sylw, oddieithr fel esiamplau o wrthuni, annheilyngdod, ac anhuredd.

I'r dyben presennol, gellid rhanu cangenau llënyddiaeth Hindwaid yn y drefn ganlynol.

Yn gyntaf, Y Pedair Veda; sef y Rik-Veda, y Jayish neu Jajar-Veda, y Sâma-Veda, a'r Atharva-Veda.

Yn ail, Y Vedânga; neu y Chwechânga, pa rai ydynt gasgliad o draethodau eglurhâol er cynnorthwyo yr efrdydd i ddeall y Vedau. Gelwir hwy,—(1.) Y Sikhyânga, yn cynnwys rheolau i adrodd y Vedau yn y gwasanaeth cyhoeddus. (2.) Y Kalpânga, yn cynnwys y *ritual* ynghyd â manylion y seremonïau Vedaidd, a defodau y gwasanaeth dyddiol. (3.) Y Vyâkaran, neu reolau Grammadeg. (4.) Y Nirukta, pa un sydd fath o esboniad ar athrawiaethau y Vedau, ac egluriadau ar rai o'u *mythoi*. (5.) Y Chanda, ymha un y rhoddir eglurhâd ar farddoniaeth, a gwahanol fesurau barddonol y Vedau. (6.) Y Jyotishânga, pa un a gynnwys draethodau ar seryddiaeth a serddewiniaeth. Cyfrifir y rhai hyn oll yn ysbryd-

oledig a dwyfol, yn gystal a'r Vedau, eithr mewn ystyr is; ac o ganlyniad, ni thelir iddynt gymaint parch a'r Vedau.

Yn drydydd, Yr Upānga, neu yr Isānga; o dan ba raniad y cynnwysir (1.) Y Mimāṅgā, neu gasgliad o fyfyrdodau ar dduwinyddiaeth. (2.) Y Nyāya, pa un sydd draethawd go dda ar athroniaeth a rhesymeg. (3.) Y Dharma Shastra, neu Ddeddfyfr Menu. (4.) Yr Itihās Purāna, neu hanesyddiaeth henafol, mewn deunaw o gyfrolau barddonol. Dosrenir pob un o'r cangenau hyn eilwaith. Odditan y Mimānga cyfrifir y Vedānta. Cynnwysir y Voisheshak yn y Nyāya. Y Dharma Shastra a gynnwys y Mahābhārat, y Ranayan, y Sāṅkhyā, y Pātānjali, Pashupati, a'r Voishna Shastra. Odditan yr Itihās Purāna, cynnwysir yr Upa Purāna.

Yn bedwerydd, Y Tantra, pa rai a gynnwysant ddadguddiadau y Duw Siva, a'r dduwies Sakti, Prakriti, neu Doorga; ac o ba rai yn gyffredin y cymerir y *Mantra*, neu gyfrineiriau, pa rai a roddir yn ngenau pob Hindŵ ar ddydd ei gyflawn dderbyniad i broffes o'r grefydd Hindŵaidd. Cyfrifir y Tantra yn gyffredin ymysg y llyfrau anffyddol (nastik), o ba rai y mae chwech dosbarth yn y Sanscrit. Daw y rhai hyn o dan sylw eto wrth ym-drin āg athroniaeth Hindŵaidd.

Yn bummed, Yr Ayur Veda, neu draethodau meithion Dhanwantari, Charaka, a Susruta ar physygywriaeth.

Yn chweched, Dhanur Veda; sef Traethawd Bhrigu ar Saethyddiaeth, a defodau milwraidd a rhyfelgar eraill.

Yn seithfed, Y Gandharva Veda, gan y Muni Bharata, ar ddiennchwariu, dynwarediad, cerddoriaeth, dawn, a'r cyffelyb.

Yn wythfed, Yr Artha Shāstra, pa un sydd gasgliad o amryw fān draethodau gan wahanol Rishis. (1.) Ar Foesddydg. (2.) Ar Lawgelfyddydau (Silpa Shāstra). (3.) Ar goginiaeth (Supakār Shāstra). (4.) Ar geffylau (Ashwa Shāstra.)

Daeth i'n dwylaw yn ddiweddar draethawd bychan yn Sanscrit, pa un a elwir "Prastāu Veda," ymha un ein hysbysir y cyfrif yr Hindŵaid y cynnwysir eu llēnyddiaeth mewn deunaw o wahanol gangenau, sef y pedair Veda; y chwech Vedānga; y pedair Upānga; yr Ayur; Dhanur; a'r Gandharva Veda; a'r Artha Shāstra. A hyn cyduna y dosbarthiad uchod mewn sylwedd. Yn y "Prastāu Veda" hysbysir ni hefyd, y cynnwys y Sanscrit chwech cangen o lēnyddiaeth anffyddol, pa rai ni chyfrifir fel rhan o lēnyddiaeth yr Hindŵaid. Elfenau ar egwyddorion y cyfundraethau anffyddol ydynt y rhai canlynol:—

1. Na fodolai ond *Vacuum* (Shunya) cyn creū y bydysawd yn ei ffurf bresennol.*

2. Mai achos dechreuol Crēad ydoedd *gwybodaeth gyfnewidiol* (Kshanik bigyan). Hyny yw, mai cyfnewidiolrwydd, ac nid unfurfiad neu unddullwedd bythbarhōl, ydyw natur a dedwyddwch y Bōd Dwyfol; ac mai dullwedd un o'r cyfnewidiadau hyny ydyw sylwedd yr ymddangosiad a elwir Bydysawd.†

3. Mai sylwedd gwrthddrychau gweledig ydyw argynrith, neu syniad y meddwl. Hyny yw, na fedd y bydysawd fodolaeth sylweddol, yn annibyn-

* *Shūnyabādenoikam prasthānam mādhyanikānam.*

† *Khanik bigyān mātram.*

ol ar syniad y meddwl. *Idealism* y gyfundaeth hon, a ganlyn allan egwyddorion Hume a Berkeley i'w heithafion.*

4. Mai achos *ymddangosiadau* ac nid *sylweddau* gwrthddrychau cread-igol ydyw Argynrith.†

5. Mai yr un sylwedd ydyw ysbryd â defnydd. Hysy yw, na fedd ysbryd fodolaeth annibynol ar ddefnydd.‡

6. Y gwahaniaetha ysbryd a *mater*, mewn sylwedd; ond eu bod o'r un ffurf a mesuriad.||

Bellach cymerir bras olygiad ar gynnwysiad y dosbarthiadau uchod.

Ystyrir y Veda, pa un a elwir y Rik, yn fwy henafol ac urddasol ar ryw gyfrifon na'r tair eraill; a chyfrifir y tair Veda flaenaf yn rhagorach na'r olaf, sef yr Atharfa. Oddiwrth y ffaith hon y cyfododd y rhigwm pobl-ogaidd;

“Rik Jajah Sâmah, troia Vedasya Nâmah,”

gan adael allan yr Atharva. Gelwir cyfanswm y Vedau yn fynych, *Shruti*, neu *Amnáya*. Ystyrir y pedair Veda yn ddiðdechreu, yn *Angsa*, neu ranau o Brahma, yn bodoli o anghenrheidrwydd, ac nid yn gyfansoddedig neu ysgrifenedig gan Dduw na dyn. Hyn ydyw y gred gyffredin. Ni chynnygir byth un prawf o'i dwyfol darddiad, ond traddodiad y werin, ac *ipse dixit* y Brahaman.

Pob un o'r pedair Veda a wneir i fyny o ddwy ran—sef *Dharma* neu addoliad, a *Brahman* neu dduwinyddiaeth. Gelwir y rhan gyntaf Mantrabhâga, neu y rhan addoliadol; a'r olaf, Brahmana, neu eglurhâd ynghylch Duw (Brahma). I'r Mantrabhâga y perthyn y Rik, Sâmā, a Jajuh Veda. Y mesur barddonol a elwir Rik; y rhan gerddorol o'r farddoniaeth a elwir Sâmā; a'r dosbarth o'r Sanghita, pa un nid ydyw yn y mesur barddonol Rik, nac yn gymhwys i gerddoriaeth, a elwir Jajuh. Weithian rhenir y pedair Veda i Karma khânda, neu y rhan ymarferol; a Brahma khânda, neu y rhan fyfyrddigol. I'r flaenaf y perthyn y tair Veda gyntaf, a'r Atharva yn unig i'r olaf. Dedwyddwch ysbrydol a meddyliol yn unig ydyw gwrthddrych yr Atharva.

Rhenir y Brahmāna i dair rhan:—Bidhi, neu berthynol i ddeddf; Arthabâd, neu weddi a mawl; ac Ubhayabilakshan, neu yr hyn ni pherthyn i ddeddf nac addoliad. Bidhi ydynt bedwar math; sef deddf cynnyrchiad neu ddechreuad, deddf hawl a meddiant; deddf dirprwyaeth (Biniyogabidhi); a deddf mwynhâd (Prayogbidhi). Perthyn y flaenaf i *induction* i'r grefydd Vedaidd; yr ail i'r ysbryd addoliadol; y drydedd i ffurf allanol defodau yr addoliad a'r offeiriad; a'r olaf i ddyben neu frwyth y tair eraill.

Un attodiad pwysig a berthyn i'r Brahmāna ydyw y Vedânta, neu yr

* Gyânâkârânumeya Kshânikabhâryârtha bâdenâparam.

† Pratyaksha salakshânakshânikabhâryârtha bâdenâparam.

‡ Dehâtmbâdenoikam prasthânam.

|| Dehâtirikta deha parimânatmbâdena dwitiyam prasthânam.

Daw yr egwyddorion hyn o dan sylw eto wrth ymchwilio i athroniaeth India; ni wneir yma ond eu henwi. Bernid yn deilwng rhoddi y geiriau cyasaf, oblegid y dibyna dadleuon ar bynciau athronol fwy, hwyraeth, ar synwyr a defnyddiad geiriau, nag ar wahaniaeth meddyliol a golygiadau. Gweddus yw sylwi yma, fod cymaint gwahaniaeth rhwng yr *Idealism* a nodir uchod, ag egwyddorion ollduwyaeth y Vedânta, ag sydd rhwng egwyddorion Berkeley a'r siddo Hegel; fe allai fwy.

Upanishada. Traethodau byrion mwysaidd ydyw yr Upanishada. Ym-drinir ynddynt â bôd a phriodoliaethau y Cynfod Dwyfol, sef Brahma. Nid oes ond deg neu ddeuddeg o honynt ar gael; eithr dywed dysgyblion y Vedânta fod llawer o honynt wedi myned ar ddifancoll. Dysgyblion yr ysgol Hindwaidd newydd, pa un a sylfaenwyd gan Ram Mohun Roy yn Calcutta, a gymerant yr Upanishad fel eu testunlyfr. Eithr fel *Eclectics* Alexandria, eu rhagflaenwyr, cymysgant lawer o egwyddorion ac athrawiaethau y Bibl gyda'r eiddo y Vedânta.

Sanhita neu hymnau y Veda ydynt syml, diaddurn, a theimladol. Ynddynt dylifa teimladau yr addolwyr allan mewn dull ac iaith naturiol, gynhes, ond anghelydd. Ni chyfarfyddir yn yr hymnau ág unrhyw gyfundraeth grefyddol neu dduwinyddol. Boddlonid Rishis yr hymnau gydag amneidiau at gyfundraeth *caste*. Gwrthddrychau eu mawl ydynt eifenu natur. Ni soniant am eilundduwiau neu ddelwau. Ymysg eu duwiau elfenol, cyfarfyddir ág uwch ac is duwiau. Yr uchaf oll ydyw Indra neu y furfafen—cartrefe pa un ydoedd yr awyrgylch; ei fesur barddonol y Tristubh; ei ran gysegredig o'r Sama Veda, neu y Veda gerddorol, ydoedd y Vrika Sâma, neu y gerdd fawreddig; ei wragedd a'r isduwiau, pa rai a wasanaethent arno, a breswylent ganolbarth y bydysawd.

Rhoddir yma rydd gyfieithiad o rai o'r hymnau ymha rai y molir Indra.

Hymn i Indra a Vayu (y furfafen a'r gwynt).

1. "Deuwch gyda'r danteithfwyd, O Indra a Vayu;
Parotôwyd y sudd—y diod-offrymau a'ch dyfal ddysgwyliant.
2. Deuwch yn fuan, O Vayu ac Indra;
A chan eistedd yn ymyl yr aberth—derbyniwch y ddiod-offrwm barotôedig.
3. O Indra a Vayu, dyneswch at yr hyn a addurna y neb a'i parotôa,
O ddynion—cysegri'r yn fuan y diod-offrymau trwy dduwiol ddefodau."

Rig Veda Sanhita, Mandal I., Anu. 1, Ast. 1.*

Arall i Indra.

1. Tyred, O Indra ddysgleirwch; y rhai hyn (diod-offrymau) a hiraethant am danst,
Parod ydynt—gwedi eu cysegri yn feunyddiol gan fysedd yr offeiriad.
2. O Indra, dynesa pan gynhyrfir di gan ein gweddïau;
Tydi yr hwn a adwaenir gan y doeth; gwranddo weddïau dy offeiriad yr hwn a ddeil y ddiod-offrwm yn ei ddwyllaw.
3. O Indra, arglwydd y meirch suraidd; brysia i ateb ein gweddïau;
Derbyn ein bwyd a'n diod-offrymau.

Astak. 3. Rich. 2

Arall i Indra yn unig.

1. Ymhob mawl dyrchefir Indra, difesur fel y môr;
Efe ydyw cadben y cerbydryfelwyr cawraidd;
Efe ydyw cyfranydd ymborth, a noddfa y daionus.
2. O Indra, perchen cadernid, pan gynneler ni gan ymborth o'th roddiad di,
Nid ofnwn ein gelynyon. Canmolwn dydi y byth-fuddugol orehfygwr.

* Dyma enghraifft o'r hymnau yn eu gwsg gysefin :—

1. Indra Vayu ime sutâ, upa prayo bhiragatam, Indra Vo Vâmushanti hi.
2. Vayavindra chetathah Sutânâm vajinivasu, Tâvâyatamupadratu.
3. Vayavindrashcha sunvata tyâtamupa nabharitam, Meshtivatha dhiyâ narâ.

3. Er dyddiau ein tadau ni phallodd rhad roddion Indra;
Ni phallant byth tra yr offryma yr offeiriad fwyd, a rhoddion o wartheg.
4. Ganwyd Indra er dinystrio trefydd.* Yr ieuanc, y doeth, o ddiderfyn awdurdod;
Cynaliwr defodau a rheolwr gogoneddus y daran.
5. Tydi, O holltwr creigiau; rhwyga ogof Valu† yr hwn a garcharodd y gwartheg.
Pan ddaeth y duwiau dychrynedig atat ti; eu dychryn a ddfilanodd.
6. O arwr, gan ganmawl y distylliad;‡ deuaſ eto i ofyn dy radau;
O tydi yr hwn a ddyrohefir mewn mawl, cydnebydd ac addola yr offeiriad dydi.
7. Tydi, O Indra, drwy swynion a leddaist Sushna,||
Ymladdai ef drwy swyngyfareddau;
Hyn a wŷr y doeth—cynnydda di eu cyfoeth.
8. Yr hymnau a ddyrohafant Indra,
Llywydda ef mewn rhwyg gogoneddus,
Ei fendithion ef ydynt fil-myrdd mewn amrywiaeth—Is, ydynt aneirif.

Astak XI. Rich. 1—8.

Yn hymn 32ain rhoddir hanes prif orchwyl y prif dduw, Indra neu y Ffurfafen, sef lladd Vritra, penaeth yr Asur; gan hyn rhoddir hi yn gyflawn. Bydd y darlennydd mor garedig a dal mewn côf wrth ddarllen yr awdl, y preswyliai y Sur, pan gyfansoddwyd yr hymnau hyn, yn yr ucheldiroedd rhwng Balkh a Nepâl; y cyfansoddid yr hymnau yn foreu iawn, fe allai mor foreu a dyddiau y Barnwyr neu Eli; yr addolai eu cyfansoddwyr yr haul, lloer, ser, a'r elfenau awyrol a daearol; fod yr holl dduwiau a enwir ynddynt yn bersonoliadau (*personifications*) o wrthddrychau ac elfenau natur; ac y cyfeiria yr holl ddesgrifiadau arallegol yn yr hymnau at ryw anghydfod crefyddol neu genedlaethol rhwng yr addolwyr Vedaidd, a dynion o grefyddau neu lwythau eraill, yn gymysgedig â hwynt neu yn agos atynt.

Hymn 32ain—Awdl ar gwmp Vritra. Rishi Hiranyastupa. Mesur Tristubh.

1. Yn awr cyhoeddaf weithredoedd nerthol Indra arfogedig a'r Follt,
Yn y cynsoedd, lladdodd Ahi;§ yna tywalltodd y dyfroedd;
A gwaagarodd raiadrau y mynyddoedd.
2. Lladdodd Ahi, yr hwn a wnaethai y mynyddoedd ei noddfa,
Tashtri** a barotodd y Follt;
Prysurai†† yr afonydd i'r Môr, fel gwartheg at eu lloi.
3. Elai Indra allan fel tarw (Vriſha) i geisio y ddiodoffrwm.
Yfai y sudd parotoedig yn y tair aberth;‡‡
Maghavan,||| gan afaelu yn ei arf—y Follt—a darawai gyntafanedig y cwmwl.

* "Trefydd" yr Assur; h.y., y nid-sur. Yr Hindwaid, fel y dywedant, ydynt hiliog-aeth yr Haul (Surja, neu Sur-seinier Sôr), pawb erall a gyfrifid yn A-sur neu an-heulaidd. Tybir y bytholir yr enwau hyn yn "Syria" ac "Assyria" yr Ygrythyrau Iuddeg.
† Valu, un o benaethiaid y Pani, llwyth o Asur; yr hwn, yn ol y chwedl, a ladratiodd y gwartheg o'r nefoedd, ac a'u carcharodd mewn cuddfanau tywyll. Indra, trwy wneuthur defnydd o Sarama, un o gwn y nefoedd, a gafodd hyd i'w carchar, ac a'u gwaredodd.

‡ Distylliad yr asclepias aoida (som latâ) sudd pa un ydoedd y diodoffrymau Vedaidd.

|| Y Sychwr (*the evaporating power*).

§ Ahi, sarph. Rahu, fe allai, mân gymylau.

** Tashtri, saer, gwneuthurwr neu luniwr y Follt; un o'r deuddeg Aditiya.

†† Cyfeirir fe allai at ddysychiad dyffryn Cashmir, pa un, meddir, ydoedd gynt yn llyn.

‡‡ Sef y boreuol, prydnewnol, a hwyrol aberthau.

||| Maghavan, cludydd bwa Indra; weithiau Indra ei hun; Brenin y Jains.

4. Tydi, O Indra, pan darewaist gyntafanedig y cwmwl ;
A ddinystriaist dwyll y twyllwyr :*
Pan ddadguddiaist y wawr, y wybren, a'r haul, ni ohanfyddaist elyn mwy
5. Tarawai Indra Vritra, yr hwn a lechai yn y caddug, gyda'i Follt ;
Gydag un ddyrnod, drylliodd ei ysgwyddau ;
Fel y goedwig o flaen bwyll, i lawr i'r ddaear y syrthiai Ahi.
6. Vritra, fel cawr digymhar gyda llawenydd gwawdlyd,
A heriai Indra, yr arwr grymus, dinystriwr gelynyon ;
Ni ddiangodd yntau gael ei rifo gyda'r lladeddig. Gelyn Indra a chwyddodd yr afonydd.†
7. Vritra‡—heb ddwylaw na thraed, a gynhyrfiodd Indra i ryfel ;
Chwyrnadafodd Indra y Follt ar ei wddf.
Yntau, fel dyspaidd|| yn dynwared dyn, gydag aelodau briwedig a ymestynai ar y ddaear.
8. Y dyfroedd, pa rai a lawenychant galon dyn,‡
A ruthrent drosto, fel dros lenydd toredig afonydd ;
[Gorweddai Ahi wrth waelod y dyfroedd, pa rai a gronid gan gorff anferthol Vritra.
9. Mam Vritra a drawsorweddai—ergydai arf awchlym Indra uwch ei phen ;
Y fam oddiarnodd, a'r mab odditanodd ;
Cysgai Dana§ gwsg angyu, fel y gorwedd y fuwch gyda'i llo.
10. Rhuthrai y dyfroedd dros gelain ddi-ben Vritra,
Pa un a deffid yn nghanol byth ferwad y tönau ;
Cysgai gelyn Indra yn nygu dywyllwch angau.
11. Y dyfroedd—arglwydd pa rai ydoedd y gormeswr—
Ao Ahi eu ceidwad, a ddelid yn gaethion fel y gwartheg gan y Pani,
Pan laddodd Vritra ; agorodd Indra yr ogofâu ymha rai y delid y dyfroedd yn gaethion.
12. Tydi, O Indra, oeddit fel cynffon ceffyl,**
Pan ruthrai y duw arfog hwnw arnat. Achubaist y gwartheg.
Derbyn, O wron, y ddiodyffrwm. Rhoddaist ryddid i'r saith†† afon i lifo.
13. Nis gallai y mell, y taranau, na'r gwlaw,
Pa rai a ddefnyddiai Vritra, attal Indra pan ymladdai ag Ahi ;
Maghavan, er maint yr ymosodiadau arno, ydoedd fuddugol.
14. Pe yr afonyddid dy galon gan fraw, gwedi lladd Ahi,
Pwy arall a allesit ganfod fel ei ddinystriwr ?
Fel hebog dychrynedig croesaist, namyn un, gant o afonydd.††

* "Mayinamaminah prota māya." *Māya*,—twyll.

† Hyn yw, a'i gelain. A oes yma gyfeiriad at ddyliif Noah ? Yn hymn 29, 2, taer er fynir Varuna,—“Tydi, O ddinystriwr pechod, na rodna ni i fyny, gyda dirmyg i ddi-nyst.” Dylid cofio, pa fodd bynag, nad yr un yn gwbl ydyw priddoliaethau Varuna y Vedau, a'r eiddo y Mythoi diweddarach. Yn y blaenaf arwyddai “Y ooffeidiwr,” yr un, hwyrach, ag *Oupavos* y Groegiaid ; yn yr olaf, “Y Deifrdduw” neu Neptune. Eithr cymhara pennill llog, lle y gwneir Varuna yn Ddeifrdduw.

‡ Vritra a arwydda “cuddiwr,” “gorchuddiwr,” “tywyllwch,” “cwmwl,” “caddug.” Weithiau Indra ei hun. Cyfeiriad y mythoi, dybygid, sydd at gymylau caddug y *monsoon*. Ymddengys oddiwrth yr *anukramani* i'r Rig Veda (8, 5—7), mai gweision yr *Asur*, *Bel* neu “nerthol,” ydoedd y *Pani*, pa rai a ladradasant wartheg y duwiau oddiwrth yr *Angiras*. Tybia rhai y deallir wrth y “gwartheg,” y man gymylau, ysgafn, goleu || *Dyspaidd*, “Vrishno Vridhri.” Gwelir fod yr arferiad greulawn a melleddigedig o gadw eunychiad yn India mor foreu a'r hymnau Vedaidd.

§ Dana, mam Vritra, a amddiffynai ei mab. Trengai y ddau ynghyd.

** Hyn yw, fel y gwsgar cynffon ceffyl gyllon, felly Indra ei elynion.

†† Nis gwyddom at ba beth y cyfeirir o dan y nifer “saith.”

‡‡ Y mae anhawsdra ynghylch y nifer a synwyr y frawddeg. Dyma eiriau y Veda :—

15. Indra, brenin y symudol, yr ansymudol, a'r gwartheg dofaidd;
 Indra, yr hwn a breswylia yr uchelderau—a ddeil y Follt yn ei law fel brenin
 dynion;
 Cofseidia Indra yr oll, fel y cofseidia yr olwyn ei breichiau.

Nid cyfiawn a fyddai cymharu yr Awdl hon gyda barddoniaeth Ewrop. Athrylith cenedloedd Ewrop a'r eiddo Asia a wahaniaetha bob amser o'r dechreuad. Athrylith Iuddewig a debygola fwy i'r eiddo India. Y ddau sydd Asiaidd. Cymaint ydyw ardderchogrwydd ac ardduniant Awdl Moses ar gwmp Pharaoh (Exod. xv.) fel nas gellir gwneyd unrhyw gymhariaeth rhyngddi â'r un uchod. Holl gyfansoddiadau Deddfroddwr mawr yr Iuddewon a feddant ragoriaethau a phrydferthwch anghyffredin, hyd yn nôd ymysg ysgrifeniadau Iuddewig. Ni chynnyrchodd athrylith Esaiah, neu awduron llyfr Job, a'r Psalmau, ddim yn rhagori ar yr awdl ar gwmp Pharaoh, a Deuteronomium xxxii. Y Penathraw yn "holl ddoethineb yr Aipt" a wnelai i brif ddoethwr Zoan welwi yn ei wÿydd. Ei awdl ef ar draeth y Môr Coch,—pa un, fel ein dysgir, a ddaw i arferiad ryw ddydd gogoneddus eto, (Dad. xv. 3, 4), ni fedd ddim i'w gyferbynu â hi yn nghyfansoddiadau goreu yr Hindwaid. Gan hyny gadawn Moses yn ei gadair.

Gyda mwy o briodoldeb, fe allai, y gellid gwneyd rhyw fath o gymhariaeth rhwng Awdl brydferth y foneddiges Iuddewig—Deborah—ar gwmp Sisera, gyda'r eiddo y Rishi Hindwaid ar gwmp Vritra. Afreidiol sylwi y golygir y cyfansoddiad yn unig yn hollol annibynol ar yr ystiriaeth o ysbrydoliaeth, yn y golygiadau canlynol.

Gwelir fod amryw o gymhariaethau y bardd Hindwaid, yn dra chyffredin; rhai yn wael; rhai yn fawreddig; ac ychydig yn brydferth ac arddunol. Cymerer yr esiamplau canlynol:—

Indra yn nydd y frwydr a arfogid â'r Follt—cyflym rediad ceullif fel yr eiddo gwartheg at eu lloi—dydd y frwydr cuddid yr wybren â'r haul, dydd y fuddugoliaeth dadguddid hwynt—celain y gelyn a rwystrai yr afonydd, ac a dros-lifid gauddynt—ymgreiniad y gelyn cwmpiedig, fel dyspaidd yn dynward dyn—gorweddiad y fam a'r mab trengedig fel yr eiddo y fawch gyda'i llo—croniad y dyfroedd fel caethiwed gwartheg—Indra yn gyru ei elynion a'r ffo, fel y gwna cynffon ceffyl bryfied—Indra yn ddi-ludded gwedi y frwydr, fel hebog dychrynedig yn ehedeg—Indra (y ffurfafan) yn amgylchynu y byd, fel y cofseidia yr olwyn ei breichiau, &c.

Cychwyn Deborah gydag adgoffâd tra phrydferth ac arddunol o fuddugoliaethau henafol, pan o flaen wyneb Jehofah—fel rhyfelwr—yr ymoll-yngai y nefoedd a'r cymylau—y crynai y ddaear—y toddai y mynyddoedd. Yna pentyra ynghyd brofion o drueni ei chenedl mewn dull grymus a bywiog—y prif-ffyrdd heb dramwywyr—y trigolion gorthrymedig yn mynychu cudd-lwybrau anghysbell—y pentrefi yn ddibobl—y gelynyion gormesol yn eöfn anturio hyd byrth y dinasoedd caerog—y bobl, gan ofn, nid ymarfogent—y penaethiaid, gan ofn, a ymdyrent i ymgynghori mewn cudd-fanau wrth y pydewau—yno cyffesent i'w gilydd, gyfiawnder eu cyni—ac yno, o'r diwedd, ymhyfâent i gyfarfod yn y pyrth.

Canlynir hyn gyda disgrifiad hynod o fywiog o gynnulliad y byddin-

"Nava cha jannavatim cha sravantih shye, na bhito uparo rajâmsi." Sankar Acharja, esboniwr mawr y Fedau, a'u heglura fel yn arwyddo fod Indra mor ysgafn a difino wedi ei ymdrech galed, ag a fyddai hebog (*Shyeno*) ieuano dychrynedig. Nis gwyddom y cyfeiriad yn y 99 afonydd.

oedd—mor fywiog, nes braidd y dychymygem glywed trwst eu traed a thwrf eu tabyrddau (adn. 14—18). Yn ddisymwth ac ar unwaith, cawn ein hunain yn nghanol y rhyfel—gwysir “yr hen afon Kishon,” ac hyd yn nôd sêr y nef i'r frwydr—ffy y gelyn—dryllir carnau ei feirch gan ei frys—a thra y cwmp yr arwron gelymol yn ddiplom drwy ddwyllaw gwraig, mewn gwawdiaeth rymus a tharawiadol, dynwaredir ymgomiadau ei wraig a'i deulu o fewn cuddleni ei balas—a therfynir y darluniad gyda gogoniant y cyfiawn fel haul yn codi yn ei ddysgleirder.

Fe allai y byddai yn anghyfiawnder â'r darlennydd i ni beidio enwi rhai o briodoliaethau a chynneddfau Indra, Agni, a Surja—neu, y ffurfafen, y tân, a'r haul—tri phrif dduw y Vedan, cyn ymadael â hwynt, a symud ymlaen at y lluoedd o dduwiau a'u canlynasant yn nghredo India.

Tybia rhai yr arwydda y gair Indra, nefiw neu Asur; eithr ni chyfarfasom â'r gair yn yr ystyr hyn hyd yn hyn yn ysgrifeniadau yr Hindwaid. Digon tebyg y deillia y geiriau *Indra Nila* (sapphire) *Indriya* (y synwyrâu) o'r un gwreiddyn; eithr ni phrawf hyn yr arwydda y gair Indra, glasliw. Enw arall ar y duw hwn ydyw Divas Pati, sef arglwydd y duwiau. Efe ydyw *Jupiter tonans* y mythoi Hindwaid. Efe ydoedd “arglwydd y ceffylau auraidd” *—efe ydoedd “yn ddysglaer ac anorchfygol” †—“yn anedig gyda'r wawr” ‡—yn “hollbresennol” §—yn rheolwr y daran” ¶—yn “hollalluog” **—yn “llywydd dynolryw” ††—yn “rhoddwr ac amddiffynwr cyfoeth” †††—yn “Sata-krātu,” neu feddiannydd pob doethineb, ||| ac amryw eraill. Ei brif orchwylion oeddynt, lladd Vritra, cynnyddu a diogelu cyfoeth, taenu goleuni yr Haul, ynladd rhyfeloedd y Sur, gwaredu y gwartheg, &c. Addolid ef, yn benaf, gyda mawl, bwyd a diod-offrymau. Sudd y lloer blannigyn (*asclepias acida*) ydoedd y ddiw-offrwm gyffredin. Cedwid y sudd mewn crwyn gwartheg, ac aberthid ef mewn llestri genauagored, ar geryg llydain, yn wyneb yr haul. §§ Gelwid aberthau Indra *Mādhyandina*, neu nawdol; a'i wraig a elwid Indrani. Y duwiau pa rai a gysylltid gydag Indra mewn addoliad a mawl oeddynt Agni (y tân); Soma, neu y lleuad; Varuna, neu Neptune; Pushau, neu y meithrinwr; Vayu, y gwynt; y Marut, neu y tymhestlwynt; Vishnu, neu yr amddiffynwr; Brihaspati, neu Iau, yn arwyddo amddiffynwr gweddiau. Tybia Roth—yn gamsyniol, dybygem—mai oddiwrth *Bri*, gwraidd yr enw olaf, y deillia y geiriau *Brahmā* a *Brahman*.

Y Tân (Agni) ydoedd un o dduwiau boreuaf yr addoliad Vedaidd. Y llinellau blaenaf ar gael a gynnwysant hymn o fawl i Agni. Efe ydoedd y Dyddiwr rhwng y duwiau a'r addolwyr Vedaidd. Ei brif orchwylion oeddynt dwyn dynion a'u haberthau at y duwiau, a dwyn y duwiau a'u bendithion at ddynion. Sancteiddiai ddynion, a llosgai ddiafiaid (*Rakshasa*). *† Ei briodoliaethau ydynt agos yr un a'r eiddo Indra. Yr argraff a adwir ar y meddwl wrth ddarllen yr hymnau ydyw, i bersonoliad ac addoliad y Tân ddechren gyda'r llosg-aberthau, a gwasanaeth yr elfen hono ynddynt. Y fath, dybygid, oeddynt aberthau Noah a'i feibion ar glogwyni yr Ararat. Y duwiau pa rai a addolid gydag ef oeddynt Indra, Varuna, Parjanya, a'r Ritu; ei wraig ydoedd Agnâyi, neu allu llosgadwy y Tân, gydag eraill.

* *Rikv. Sdn.* III. 2, 3, a V. 4., a XVI. 2. † *Eto*, VI. 1. ‡ VI. 3. § *Eto*, VII. 2. § VII. 3. ** VIII. 1, 5. †† VII. 10, a IX. 2, 4. †† IX. 4, 7, a XVII. 5. ||| IV. 8, 9, a X. 1, a XXX. 6, 15. §§ *Rikved. San.* 28, 1, 2. *† *Rikved. San.* 1, oil; XII. oil; XIX. a XXI., mewn cysylltiad ag Indra eto.

Sura, Surja, neu Savitri, sef yr Haul, ydoedd y trydydd mewn mawredd o'r duwiau Vedaidd. "Erfyniaf amddiffyniad auraidd-law Savitri; oblegid dengys y duw hwn le yr aberthwr. Rhoddwch fawl i Savitri er ein hamddiffyniad. Dinystria efe y dyfroedd. Dymunem dalu iddo ein defosiynau. Canmolwn Savitri, yr hwn a rydd oleuni i ddynolryw, ac a gyfrana y bendithion pa rai a wnant gartref yn gysurus."* Eto, "Ymbiliwn â thi am gyfoeth, O ddwyfol Savitri, arglwydd cyfoeth. Tydi ydwyf ein gwas-tadol ddiffynwr."† Y mesur barddonol mwyaf cysegredig, sef y Gâyatri, a berthyn i addoliad yr Haul yn gystal a'r eiddo y Tân. Gelwir yr Haul yn gyffredin Aditya. Agos bob amser cysylltir Ushas,‡ neu y wawr, a'r Ashwin,|| neu y gefeilliaid, gyda'r Haul. Y duwiau eraill, pa rai a addolid gydag ef, oeddynt Mitra, sef pelydrau y canolddydd; Bhâga, neu yr hylwyddawl; Arjaman, neu yr anrhydeddus; ynghyd a lliaws o fân dduwiau.

Nid hawdd ydyw penderfynu pa un ai aml-dduwiaeth ai oll-dduwiaeth ydoedd y grefydd Vedaidd. Dysgedigion Ewrop yn gyffredin a dueddant i'r golygiad blaenaf; a'r dysgedigion brodorol, agos yn ddiethriad, a goloddant yr olaf. Sankar Acharja, yn ei esboniadau ar y Vedan, a wna athrawiaeth yr hymnau a'r eiddo y Vedanta yr un, sef oll-dduwiaeth. Nis gwelsom ddim i'n tueddu i feddwl i unrhyw olygiad arall erioed ymgynnyg i'w feddwl ef. Y golygiad brodorol ydyw fod holl dduwiau elfenol y Vedau yn rhanau o un *atma* (ysbryd) cyffredinol; y golygai y Rishis y meddai rhai gwrthddrychau yn y grêadigaeth helaethach cyfran o'r *atma* nag eraill. Gan hyny addolent a molent y cyfryw. Eithr gan y daw y mater hwn o dan sylw eto wrth ymdrin âg athroniaeth a chrefydd yr Hindwaid, ni ddywedir ychwaneg yn ei gylich yn bresennol.

Y pedair Veda ydynt gyffelyb o ran ffurf eu cyfansoddiad. Cynnwys pob un ddwy ran; sef *Sanhita* neu Salmau o fawl; a *Brahmana* neu draethawd duwinyddol. Y Rik ydyw yr hynaf, y gyflawnaf, a'r fwyaf cyfrifol. Cynnwys ynghylch 10,000 o hymnau byrion, ar wahanol fesurau. Ei *Brahmana* sydd draethawd tra chelfyddydol, ond mwysaidd. Gellid dystyried yr hymnau yn ddarluniadol o grefydd *subjective*, neu iaith dychymyg a theimlad y bobl a breswylient ucheldiroedd yr Hindw Koosh a'r Himalaya, yn y dyddiau pan waredid Israel gan farnwyr, ac fe allai pan "aeth Israel o'r Aipt." Y mae yn ddiddadl y bodolai cyfansoddwyr yr hymnau rai oesoedd yn foreuach na'r eiddo y traethodau; gellid profi hyn oddiwrth eu cynnwysiad, eu cyfansoddiad, a'u biaith. Prif fesurau barddonol yr hymnau oeddynt y Tristubb, Anustubb, y Gaytri, y Puru Ushuik, &c. Y blaenaf yn cynnwys 24 sill i'r pennill, yr ail 32, y trydydd 16, a'r olaf 18. Ysgrifened weithiau mewn dwy; weithiau mewn pedair llinell i'r pennill; eithr nifer y *Pada* neu y sillau nid amrywient.

Mewn cysylltiad â phob hymn, rhoddir yn gyffredin enw y Rishi a'i cyfansoddodd, ynghyd a'r eiddo ei dad. Yn hyn y maent yn debyg i Mashkil le Dand; Mitzmur le Asaph; Al-tascheth le Daud Miktam, &c., yn llyfr y Salmau. Er enghraifft, "Rishi Madhuchanda ab Vishwamitra, mesur Gaytri;" "Rishi Jetru ab Madhuchanda, mesur Anustubb;" "Rishi

* *Rikved. San.* 22, 5—7. † Eto 24, 3.

‡ Ushas.—*Hœs Aûos Aurora*,—Aurora, y wawr.

|| Ashwin, gefeilliaid, meibion Ashwini, y marchogwyr, pelydrau pa rai a ragflaenat y wawr.

Medhatithi ab Kanwa, mesur Tristubh" &c. Tybiem na byddai holl hymnau y Veda yn fwy mewn nifer na'r eiddo Williams, Pantycelyn, er yn llawer is yn eu rhagoriaethau. Nid oes fawr o le i amhheu na fodolodd yr hymnau Vedaidd fel rhigymau neu gathlau cofiadwy ac adroddedig, cyn eu casglu a'u hysgrifenu. Yr argraff a adewir ar y meddwl wrth en darllen ydyw, y cyfansoddid ac y cenid hwy gan wahanol bersonau, ac ar wahanol amserau, i ddybenion lleol, ac na fwriedid iddynt gael eu casglu, eu hysgrifenu, a'u darllen gan drigolion y byd, dair neu bedair mil o flynyddoedd gwedi i'w hysgrifenywyr farw.

Veda Vyas, awdwr y Mahabhurat, ydoedd casglydd y pedair Veda. Vyas a gydoesai â Judisthir, ac ydoedd yn bresennol yn "Rhyfel mawr y Kuru Kshetra." Dywedir i Vyas sefydlu pedair ysgol neu blaidd, a gosod pob un o honynt o dan ofal Muni neu ddysgawdwr, oddiwrth ba rai y cyfododd y pedair Veda. (1.) Y Rishi Paila a ddysgodd y Rig Veda. (2.) Jaimani y Sâma Veda. (3.) Vaisampâyana y Yajur. (4.) Sumanta yr Atharva Veda. Tarddodd aneirif Shâkas neu gangenau o bob un o'r ysgolion hyn.

Papyrus glenydd y Nile ni thyf ar lenydd y Ganga. Ysgrifeniwyd y Rishis yn yr oesoedd boreuol ar yr "âgur chhal" neu risgl yr Agallocha (*genus Amyris*) wedi ei liwio yn wyrdd neu lwyd-ddu (*brown*), a'i ranau yn ddalenau hirion, ynghylch 15 neu 18 modfedd wrth 4 neu 6 o léd. Tŷf y pren hwnw mewn mynydd-diroedd. Ceir digonedd o hono yn yr Himalaya. "Tâl Patra," neu ddail y *Borassus Flabelliformis*, ydoedd ddefnydd arall llawer mwy cyffredin ymysg ysgrifenywyr henafol India. Defnyddid dail y pren Tâl, heb unrhyw ragbarotôad ond eu sychu. Y *Ketooki Patra*, neu ddail y *Pandanus Odoratissimus*, a ddefnyddid at ysgrifeniadau mwy cyffredin, a chan y tlodion. Yr ysgrif-bin a wneid o gorsenau, pa rai a ddefnyddir yn gyffredin yn India hyd heddyw. Pa mor foreu yr ydoedd y gelfyddyd o ysgrifenu yn arferedig ymysg yr Hindwaid, nis gwyddom.

Ymgynnyg holiadau yma:—Pa beth ydyw ffynnonell barddoniaeth? Pwy ydoedd y bardd cyntaf? Pa beth ydoedd gwrthdrrych a dyben ei gyfansoddiad? Ai sisial swynol y nwyd o gariad, neu orliffiad crochfloedd o lawenydd ar ol buddugoliaeth? Ai cynnorthwyo y côf, neu agoryd rhedwelliau i nwydau y meddwl, a gynnyrchodd y pennill cyntaf? Neu ynte a gyfododd y gelfyddyd ddeniadol a swynol, fel y golygai Aristotle, o gydweithrediad *οι μετρητικοι* ac *οι μετρικοι*, neu duedd naturiol dyn i ddynwaredu a mydryddu? Pwy a ymgymer â'r gorchwyl o ateb yr holiadau hyn, nis gwyddom. Eithr tybiem y gorfodir ef i gymeryd i mewn y gallu i ddynwaredu, ynghyd â'r hyfrydwch deilliedig o ddynwarediad, yn unol âg eglurhâd y Groegiad athrylithgar. Nis gwyddom pa gymaint o gynnyrch awen foreuol cyndeid yr hil sydd gwedi myned ar ddifancoll. A feddai Noah a'i feibion rai o frwythau athrylith farddonol y byd cynddylifol, er eu difyru yn ystod y flwyddyn a deng niwrnod a dreuliasant yn yr arch? Ai oraclau Pelaisgaid Dodona a Delphi; neu fyrwersi cyfriniol offeriaid yr Aipht; neu yr eiddo seryddwyr Chaldea, a'r Derwyddon Celtaidd; neu ynte Sanhita y Rig Veda, a gwersi prydfferth Genesis a Job, ydyw y farddoniaeth henaf ar gael? Ni chymerwn arnom benderfynu. Y mae traddodiad ymysg yr Hindwaid, yn yr hwn ein dysgir mai tynerwch calon a chariad at fywyd ydoedd tarddiad barddoniaeth, ac mai Valiniki, awdwrŷ

* Postik, pen. 4.

Ramāyan, ydoedd y bardd cyntaf. Y Muni tynergalon a ymneillduai o dwrf y byd i'r goedwig i fyfyrion ar natur a'i Chrëydd; gwelai ddau aran nwyfus yn chwareu. Tra yn dwfn fyfyrion ar ddiniweidrwydd a chariad yr adar, clywai chwibaniad saeth yn yr awyr, yr hon, y foment nesaf, a darawai un o'r adar yn farw. Cynhyrfodd hyn ddigllonedd y Muni—yn fuan gwelai ffurf yr heliwr yn prysuro trwy y goedwig at ei ysglyfaeth. Torai y Muni duwiolfrydig allan mewn melldith :—

“O heliwr dideimlad, na ddeued hyd fythoedd ddedwyddwch i ti;
Y Garan ddiotal drwy gariad, a leddaist—Och alaeth i mi.”

Seiniau geiriau y felldith fel barddoniaeth fesuredig. Dechreuodd Valmiki gyfansoddi ar yr un mesur; a dyna ddechreuad mesur yr Anustubh, ymha un y cyfansoddwyd y 100,000 o bennillion yn y Mahabharat, a'r 24,000 yn y Ramāyan, yn ol y traddodiad Hindwaidd. Eto credant yn drwyadl fod hymnau y Veda yn bodoli oesoedd o flaen Valmiki. Y fath ydyw cysondeb amseryddiaeth yr Hindw. Goddefer i ni yn bresennol gyfyngu ein hymchwiliad at hawliau Moses yr Hebreaid, a Maduchanda yr Hindwaidd. Cymerwn y canlynol fel enghreifftiau o'r cyfansoddiadau barddonol benaf mewn cofiadwriaeth ymysg y ddwy genedl; ac yna ceisiwn gyferbynu eu hawliau mewn henafiaeth. Dyma y cyfansoddiad cyntaf ar gael—hyd a wyddom ni—yn yr ysgrifeniadau Iuddewig. (Gen. iv. 23, 24).

23. “Hadah a Sillah, clywch fy llais,
Chwi wragedd Lamech, gwrandewch fy lleferydd;
A leddais ddyn yn fy ymryson?
Iê, un ganedig ymhlith fy ngharenydd?”

24. Os dielir Cain seithwaith,
Yna (dielir) Lamech saith-deg-a-saith.”

Dyma rydd-gyfieithiad o'r pennillion cyntaf ar gael yn yr ysgrythyrau Sanscrit. Cynnwysir hwy mewn hymn o fawl i Agni.*

1. “Molaf Agni, yr offeiriad teuluaidd; offrymydd dwyfol yr aberthau;
Y gwahoddwr—ceidwad pob cyfoeth.
2. O Agni, ydwyf deilwng o fawl y Rishi henafol,
Teilyngi ein mawl ninnau—dwg yma y duwiau.
3. Trwy Agni mwynheir cyfoeth,
Pa un a gynyddda yn feunyddiol, ac a ddwg anrhydedd;
Amgylchynir (yr aberthwr) gan ddewrion.
4. O Agni, yr aberth pa un a ddiogel gedwi rhag drygau,
Yn ddiau a gyflwynir i'r duwiau.
5. O Agni, y gwahoddwr; cyflawnwr gweithredoedd grasol,
Wyt gywir a gogoneddus. Tyred, O Dduw, gyda'r duwiau.
6. O Agni, y llwydd a roddi i'r addolwr,
A fydd yn llwyddiant i ti, O Angiras.
7. O Agni, nesawn atat ti nos a dydd—yn feunyddiol,
I offrymu i ti ein haddoliad.
8. Tydi warcheidwad gogoneddus aberthau cymhwys,
Ydwyf ysplenydd a ohynnyddol yn dy annedd sanctaidd.

* Rig Ved. San. 1., pennill 1—9.

9. O Agni, gogwydda atom, fel ted at ei blant,
Bydd yn agos atom, er ein llywddo.

Rai blynyddoedd yn ol, pan ddechreuwyd cyhoeddi hynafiaethau Hindŵaidd yn Ewrop, yn benaf drwy ysgrifeniadau Sir W. Jones ac aelodau eraill perthynol i *Asiatic Society* Calcutta, tramgwyddai rhai duwinyddion yn fawr, oblegid y gwnelai ychydig o anffyddwyr yn Ewrop ac America ddefnydd o'r ymchwiliadau hyny, er ceisio profi nad ydoedd llyfrau Moses ond megys er doe mewn henafiaeth wrth eu cymharu â'r Ysgrhythrau Hindŵaidd. Diachos a disail iawn, fel y tybiwn ni, ydoedd y tramgwydd hwnw. Ni sylfaenir ysbrydoliaeth neu wirionedd unrhyw lyfr ar ei henafiaeth. Pe gellid profi uwchlaw pob amheuaeth—yr hyn nas gellir—fod Sanhita y Rig Veda, fel cyfansoddiad, yn fwy henafol na'r "Pum Llyfr," nid effeithiai hyny ddim ar y profion o ddwyfol ysbrydoliaeth yn y naill na'r llall. Eithr teg ydyw chwilio yn bwylllog elfenau eu hamseryddiaeth, cyn cynnyg unrhyw olygiad ar y mater.

Pa brofion sydd genym ynghylch amseriad cyfansoddiad y Pum Llyfr? Rhaid i ni addef nas gwyddom yn sicr pa gynifer o flynyddoedd a gynnwysid yn yr yspaid rhwng y créad a genedigiaeth Abraham. Ymchwiliadau Usher, Hales, a Fynes Clinton a dafiant lawer o oleuni ar yr ymchwiliad. Eto yn y goleuni hwnw nis gallwn benderfynu yn sicr, pa un a anwyd Abraham yn y flwyddyn o oed y byd 1948, yn ol amseryddiaeth yr Hebraid, neu yn A.M. 2249 yn ol y Samariaid, neu yn 3334 A.M. yn ol y LXX; neu ryw flwyddyn arall yn ôl neu ymlaen. Wedi y cyfnod hwnw, ni chyfarfyddir ág ond ychydig o doriadau dibwys yn llinell amseryddol yr Hebraid. Marwolaeth Moses a ddygwyddodd yn ol Usher cyn Crist 1451, yn ol Hales 1608, yn ol Clinton 1585. Canolrif (*average*) y tri chyfrif ydyw, 1548. Nis gallwn fod yn anghywir iawn, fe allai, pe gosodem dymmor ysgrifeniad y Pum Llyfr rhwng 1500 a 1520 cyn Crist. Dylid dyddio amseriad barddoniaeth Lamech o leiaf 2000 o flynyddoedd yn foreuach. Eithr ein hymchwiliad ni yn bresennol ydyw, pa bryd yr ysgrifennodd Moses a Veda Vyas. Pe gellid sicrhâu dyddiad genedigiaeth Abraham, y mae y gadwyn o ddyddiadau agos yn ddifwlch rhwng y tymor hwnw a marwolaeth Moses, yn cynnwys ynghylch 545 o flynyddoedd.

Buasai yn dda genym allu olrhain amseryddiaeth Veda Vyas a'r Vedau gyda chymaint boddlonrwydd a dilysrwydd. Eithr hyn sydd amhosibl. Os cymerwn gyfrifon amseryddol yr Hindŵaidd, cawn y dyddiadau (*dates*) canlynol.

Veda Vyas, cyfansoddydd neu gasglydd y Vedau, ydoedd fab Parásar a Satya Vati. Vyas ydoedd fasdardd. Ei fam ydoedd ferch pysgotwr ar lènydd y Jumna. Cymerodd yr hen Frahman—Parásar—asael yn y llances ar lán yr afon, a Vyas ydoedd firwyth y cysylltiad direol. Cafodd y fam enw oddiwrth enwogrwydd ei mab, a daeth yn frenines, yn wraig Santánu, brenin rhyw dalaeth fechan yn nghymydogaeithau Delhi neu Hustinapora. Dau fab y cwpl hyn a fuont feirw yn ddiieppil; a rhoddwyd eu gweddwon ieuainc i'w hanner brawd Vyas, er cyfodi had i'w frodyr, yn ol yr arferiad Iuddewig. Cafodd eppil oddiwrth y ddwy weddw. Oddiwrth y naill cafodd fab o'r enw Dhritarashtra, oddiwrth y llall Pandu. Bellach, canlynwn y Pandu hwn, yn ol hanes y Purana.

Judisthú mab Pandu a deyrnasodd 36 mlynedd; yna canlyn y ddisgynradd ganlynol:—Parakshit 60 mlynedd; Janamjaya 84; Satanika 82 a

ganlynr gan 54 o enwau, teyrnasiad pa rai ynghyd a gynnwysai, fel y dywedir, 1525 mlynedd, neu 28 a thwnrif i bob un. Rhwng yr olaf o'r rhai hyn a Vikramāditya, cyfarfyddwn ág wyth enw, heb amseriad. Os cyfrifwn 25 mlynedd i bob un, cawn 200 o flynyddoedd yn ychwaneg. Cydoesai Vikramāditya á Julius Cæsar. Felly yn ol yr Hindwaid, casglwyd y Vedau ynghylch 2000 o flynyddoedd cyn Crist. Ac os rhenir y tymmor hwnw rhwng 66 o dywysogion, dengys gyfartaedd o uwchlaw 30 mlynedd i bob un. Nis gellir dywedyd bod y cyfartaedd yn afresymol; er ei fod ar y cwbl yn uchel wrth ei gymharu á'r eiddo breninoedd cyfoesol mewn gwledydd eraill. Er enghraifft, pe cymerem freninoedd Judah o Rehoboam hyd Zedeciah, 19 o dywysogion, C.C. 976 hyd C.C. 587; neu 389 o flynyddoedd. Dengys gyfartaedd o ychydig uwchlaw 20 mlynedd i bob un. Felly 19 o freninoedd Israel rhwng Jeroboam a Hosea; neu os cymerir 18 mlynedd y ddau *interregnum* fel un teyrnasiad, cawn 225 mlynedd i'w rhanu rhwng 20 tywysog, yn dangos ynghylch 12 mlynedd i bob un. Neu fe allai y tybid fod mwy o debygolrwydd rhwng hoedlau tywysogion Assyria a Babylonia á'r eiddo Hindustan. Cawn enwau deuddeg o dywysogion rhwng Pul C.C. 769 a Narbonadius C.C. 555. Ac os rhenir 214 o flynyddoedd yn ddeuddeg rhan, rhydd ychydig islaw 18 mlynedd i bob un. Yn awr, yn ol cyfartaedd tywysogion Juda, teyrnasai Judisthir ynghylch 1350 C.C.; yn ol yr eiddo Israel ynghylch 800; ac yn ol yr eiddo Chaldaea a Babylonia, ynghylch 1180 cyn Crist. Nis gwyddom am un rheswm dros gredu fod breninoedd India yn twy hirhoedlog na'r eiddo y gwledydd a enwyd, pan yn gyfoesol. Ar y llaw arall gwyddom fod amseryddiaeth yr Hindwaid yn gyffredin yn annheilwng o grediniaeth. Ac y mae genym le i gredu fod bradlofruddiadau a rhyfeloedd mor gyffredin yn India henafol, ag mewn unrhyw wlad arall. Yr ystyriaethau hyn a'u cyffelyb a'n tueddant i gredu na flodeuai Vyas yn foreuach na'r 14eg caurif cyn Crist, os can foreued.

Ar y llaw arall, nid oes genym ddim er ein sicrhau pa un ai fflugiol neu wirioneddol oedd y tywysogion a enwir; a oeddynt ddisgynradd o dywysogion mewn un deyrnas, neu rifres o bennaethiaid cyfoesol mewn amryw fân deyrnasóedd; ai dychymyg neu hanes ydyw yr holl ystori. Os derbynir yr ystoriau fel hanes, yna rhaid i ni gredu hefyd yn miliynau epäod Ramchandra; yn 60,000 o feibion Sagar frenin; yn neg pen ac ugain llaw Ravanna; yn Hunamán yn cario y mynydd ar ei ben, yr haul yn ei law, ac yn llamu dros y môr gyda'i fraich. Rhaid i ni dderbyn fel gwirionedd mai y ddaear ydyw canolbwynt y bydysawd; fod y saith byd a elwir Bhurlok, Bhubarlok, Swarlok, Mahorlok, Janalok, Tapolok, a Satyalok uwchlaw y ddaear; a'r saith byd a elwir Atal, Bital, Satal, Talátal, Rasátal, Mahátal, a Pátal islaw i'r ddaear. Yn yr un tu dalenau ag y dysgir ni ynghylch disgynradd tywysogion India, dysgir ni hefyd y parhá y Bhurlok a'r ddau ganlynol mewn bodolaeth un dydd i Brahma—dydd hir iawn, fel ein hysbysir, gan y cynnwys 2160 o filiynau o flynyddoedd marwolion, ac y parhá y Janalok a'r ddau ganlynol un fil o'i flynyddoedd ef. Digon ydyw dywedyd yma, nas gallwn gredu amseryddiaeth yr Hindwaid ar y cyfan, oblegid ei hannebygolrwydd i wirionedd; ac y gallwn gredu yr eiddo yr Hebreaid ar gyfrif ei thebygolrwydd, ac ar amryw gyfrifon eraill. Soniasom uchod am 2000 o flynyddoedd cyn Crist. Gweddus ydyw nodi yma mai ein cyfanswm ni ydyw yr uchod wrth rifo y tywysogion á blynyddoedd teyrnasiad pob un.

Yn ol y cyfanrif Hindŵaidd, teyrnasai Judisthû a blodeuai Vyas cyn Crist 3653 o flynyddoedd.

Ein casgliad oddiwrth y rhesymau uchod ydyw, yr ysgrifenid y Pum Llyfr, ac fe allai, Llyfr Job, yn foreuach na dim a fêdd yr Hindŵaidd, nid llai nag un, na mwy na phum canrif.

Yr ydoedd llawn cymaint gwahaniaeth rhwng y ffurfaddoliad Vedaidd â'r eiddo y Purana, ag ydoedd rhwng ffurfaddoliad Noah ac Abraham a'r eiddo Moses a Dafydd. Y swydd offeiriadol a berthynai i'r cyntafanedig, a'r defodau addoliadol a gyfyngid i gylchoedd teuluauidd o Adda hyd Moses. Nid ydym yn sicr pa un a gedwid at y drefn batriarchaidd hono yn y tymmor Vedaidd yn India ai peidio. Ni welsom ddim hyd yn hyn a'n galluogai i brofi nac i wrthbrofi y pwnc; gan hyny gweddus i ni ei adael yn agored. Y mae yn ddiddadl y cawn amryw gyfeiriadau at ddsbarthiadau cymdeithasol cyffelyb i'r rhai a elwir *caste*. Tybia *Professor* Wilson fod cyfundrefn *caste* yn aneglur ac anherffaith iawn, os ydoedd yn bodoli, pan gyfansoddwyd Sanhita y Rig Veda. Er hyny, nis gwyddom pa beth i'w wneyd o'r mynych gyfeiriadau at y "Brahman," ac o synwyr y fath bennillion a'r canlynol, os gwadwn fodoliaeth *caste*, neu ryw ddsbarthiadau cymdeithasol o'r cyffelyb.

"Efe, yr hwn a lywydda ddynion a chyfoeth, sef Indra,
Eilwaith ydyw llywydd y pum dosbarth (neu lwyth)."*

Pa fodd bynag, gwneir y mater yn eglurach yn Sanhita y Sâma Veda; "Eladd y neb a gasâo y Brahman."† "Na pharcha y rhai a gasânt y Brahmin;"‡ a llawer o'r cyffelyb. Yn y Brahmana hefyd dysgir yr un athrawiaeth a'r eiddo Menu ar y pwnc hwn.

Count Bjornstjerna yn ei "*Theogony of the Hindus*," a'eilw grefydd y Vedau yn "Undduwiaeth wedi ei chymysgu â Sabaeath." Tybiem fod y golygiad hwn yn gyfeiliornus. Pa fodd bynag, caiff y darlennydd farnu drosto ei hun oddiwrth yr esiamplau a roddwyd uchod. Ni chyfarfuasom âg un amnaid at eilun o waith dwylaw dyn yn y Vedau. Elfenau a phriodoleddau natur a addolid. Yn y Traethodau cyfarfyddir â'r golygiad o "Un Brahma, heb lun, priodoledd, nac ysgogiad;" eithr prif dduw yr hymau ydoedd Indra; ac anghenrheidion ei fodolaeth ef a dybient fodolaeth duwiau eraill o gyffelyb natur. Felly ein golygiad penderfynol ni ydyw, nas gellir gwneyd un synwyr o'r hymnau Vedaidd, heb olygu aml-dduwiaeth elfenol.

Gadawn y Veda. Daw y Vedânga o dan sylw yn nesaf. Y ddwy *Anga* neu ran flaenaf ydynt allan o arferiad er ys agos i dair mil o flynyddoedd. Gwelsom amryw ranau o honynt; eithr nid ystyriem hwynt yn werth y drafferth i'w hastudio. Gadawn hwynt i gysgu yn ddiadgyfodiad. Tybir fod y grefydd Vedaidd wedi myned allan o arferiad mor foreu âg anser Ram Chandra, gwron y Ramâyan; ac yr ydoedd dyddiau Ram yn hen ddyddiau pan gyfansoddwyd y Mahabharât gan Vyas. Cyffyrddwyd â rheolau gramadegol Panini mewn ysgrif flaenorol; nid ymhelaethir arnynt yma. Cawn gyfarfod eto â sylwadau y Nirukta wrth ymdrin âg athroniaeth

* "Jatkancharshninâm vasunamirajeyati;
Indra pancha kshitiuam."—Rig Ved. San. I. 7, 8.
† "Ava Brahmawisho jahri."—Sam. Ved. San. I. 3, 6.
‡ "Makim Brahma dwiaham Vanah."—Id. Uttava, San. 1.

y *Shad Darshan*. Cyfyngir ein hymchwiliadau yma at y pummed a'r chweched *Anga* neu gyfran.

Y Chanda sydd draethawd ar farddoniaeth a rheolau cerdd dafod. Ysgrifenydd ef oesoedd ar ol y Vedau; oblegid y mae ei iaith yn gyffelyb, i gryn raddau, i gyfansoddiadau diweddar y Sanscrit. Barddoniaeth y Vedau ni chynnwys ond awdlau, cathlau, a mawlgerddi. Tymmor *tragedy*, *comedy*, a *drama* y Sanscrit, a ddechreuodd yn ddiweddarach. Y bryddest arwraidd gyntaf, hyd a wyddom ni, ydyw y Ramâyan. Nid ydym yn ddiagon cyfarwydd â ffurfiau *prosody*, a rheolau cerdd dafod, y Sanscrit, i allu penderfynu pa un a gynnwys ei barddoniaeth henafol ryw fath o gynghanedd fydryddol ai peidio. I'n clust a'n deall anfydraidd ni, ymddengys y cyfansoddiadau yn gyffredin yn lled anfydraidd a digynghanedd, fel yr eiddo y prophwydi Hebréaidd. Eto y mae yn ddiaddadl fod yr iaith yn fesuradwy, a'r meddyliau, yn synych, yn wir farddonol. Y mae yr Hindwaid yn llawn mor zelog dros ragoriaethau eu barddoniaeth, ag ydyw y Beirdd Cymreig dros eu "pedwar mesur ar hugain." Diammheu bod y ddau yn rhagorol, gan mai felly y barna y beirdd; er y metha meddyliau anfarddonol ganfod unrhyw brydferthwch mewn un math o farddoniaeth ymbhellach nag ardduniant a phrydferthwch y meddyliau, cyfaddasrwydd a symledd y cymhariaethau, a phriodoldeb a thlysi yr iaith a ddefnyddir. Yr ydoedd Milton yn fardd enwog. Casglai ef holl rinweddau barddoniaeth dda i dri ansoddair,—syml, teimladwy, nwydol (*simple, sensuous, passionate*); gan arwyddo, feddyluem, wrth y blaenaf, y dylai natur yn ei gwrthddrychau, dygwyddiadau, neu weithrediadau, ymddangos yn y farddoniaeth yn ei gwisg syml a naturiol ei hun—wrth yr ail, mai natur yn ei diffuantrwydd, ac nid dansoddiad, dychymyg, neu freuddwyd, a ddylai fod—ac wrth y trydydd, y dylai y farddoniaeth fod yn rhedle i'r *passio vera* yn meddwl dyn yn teimlo, ac nid nwydau ffuantus wedi eu ffurfio at yr achlysur. Os hyn a olygai Milton, rhaid addef na fédd yr Hindwaid ond ychydig o wir farddoniaeth. Cynnwys eu desgrifiadau unrhyw beth, yn hytrach na natur yn ei symledd.

Cyfansoddiadau y Sanscrit ydynt, gan mwyaf, oll yn farddonol. Gan hynny byddai hanes ei llênyddiaeth yn amherffaith heb wneuthur rhai sylwadau ar ei barddoniaeth. Nis gwyddom nifer y gwahanol fesurau a ddefnyddir ynddi. Canfyddir yn hawdd oddiwrth yr hyn a ganlyn, fod cryn wahanïaeth rhwng ffurfiau barddonol y dwyrain a'r gorllewin. Os golygwng, gyda Mr. Coleridge, mai *antithesis* barddoniaeth ydyw gwyddoniaeth gelfyddydol, gan adael mydryddiaeth fel *antithesis* rhyddiaith, gallwn gyfarfod â chryn lawer yn y cyfrolau Hindwaidd ag sydd yn wrthgyferbyniol i bob math o wybodaeth, oddieithr y gelwir dychymygion o dan yr enw hwnw.

Y gathl arwraidd (*epic*), y gân gerddorol (*lyric*), y *drama*, y farwnad (*elegy*), a'r rhigymanu gwaelion (*doggerel neu Hudibrastic*), a gynnwysant yr oll o'r ffurfiau barddonol mwyaf poblogaidd. Seliwyd urdd ac ardderchogrwydd y flaenaf gan Homer, Virgil, a Milton; yr ail gan feirdd ysbrydoledig had Abraham, Prudentius, a Williams Pant y celyn; a'r trydydd gan Shakespeare, y cydser Groegaidd, a Kali Dâs. Y mae amryw fesurau arwraidd ymysg yr Arabiaid a'r Persiaid yn ngorllewin Asia;* eithr gwahaniaethant oll oddiwrth y mesurau Hindwaidd. Dywed *Professor*

* Y mesur arwraidd mydryddol, a elwir Buhr-i-muta-garib, ydyw y mwyaf ardderchog a phoblogaidd yn Ngorllewin Asia. Ynddo y cyfansoddwyd y Shah Namah—llied y

Wilson yr "unir peroriaeth ac urddas yn mesur y Megha Duta i raddau anghyffredin; ac y goddef ei gymharu heb aufantais, yn y ddau ragoriaeth a nodwyd, gyda gorsuon barddonol unrhyw iaith hen neu ddiweddar."* Y mae yn ddiaddadl fod y *Professor* yn feirniad da. Addefir yn gyffredin mai y Megha Duta ydyw y bryddest brydferthaf yn yr iaith Sanscrit, yn gystal o ran dyfais, cyfansoddiad, a mesur. Yr ystori ganlynol oedd dyfais neu ddychymyg sylfaenol y bryddest.

Yaksha—porthor gardd Kuvera, Plutus, neu dduw-cyfoeth yr Hindwaid—ydoedd dra esgeulus o'i oruchwyliaeth. Un dydd gadawodd ddrws yr ardd yn agored, aeth elephant Indra i mewn i'r ardd flodau, sathrodd a dinystriodd y gwelyau. Alltudiwyd y Yaksha i goedwigoedd y Vindya am ei esgeulusdod. Gadawodd wraig ieuanc, nwyfus, a chariadlawn ar ei ol. Hiraeth am dani ydoedd dyfuder ei drallod yn ei alltudiaeth. Chwiliodd am genadwr er danfon ei hanes iddi. Ac yn absenoldeb bywiolion, traddododd ei genadwri o gariad i *gwmwl* (megha) a elai heibio. Y *cenadwr* (duta) hwn, a dderbyniodd, a gludodd, ac a draddododd y genadwri gyda ffyddlondeb i'w wraig. Cynnwys y bryddest 116 o *shlokes* neu benillion unfurf, o ddwy neu bedair llinell bob un. Rhoddir isod ychydig o benillion fel esiamplau o'u ffurf gysefin.† Dyma ddyfyniadau o gyfieithiad rhagorol *Professor* Wilson o honi:—

Cydyndeimlad dyn â thrallod eraill yn gysur o dan yr eiddo ei hun ; y Yaksha yn annerch ei wraig :†—

"Let then my firmness save thee from despair ;
Who trust myself ; nor sink beneath my care ;
Trust to futurity—for still we view
The always wretched, always blest are few :
Life like a wheel's revolving orb, turns round ;
Now whirled in air, now dragged along the ground."

Dyma ddesgrifiad Kali Dás o'r Yakshini, neu wraig y Yaksha—gwrth-ddrych cenadwri y cwmwl;—

"There in the fane a beautiful creature stands ;
The first best work of the Creator's hands :‡

y Persiaid—gan Ferdusi ; y Bostan a'r Pandanamah gan Shadi, &c. Dyma esiampl o hono :—

"Bani adam az alum ya bad gamal,
Nah az hashamat wa jah, wa mal wa manal ;
Cho Shamah az pee alum baid gadakhat,
Kahbee alum natavan Khadara Shaa Khat."

Yn arwyddo mewn rhyddiaith :—

Hil Addaf gyrhaeddant berffeithrwydd drwy wybodaeth,
Nid drwy rwyg a gwychedd, meddiannau a chyfoeth ;
Fel llosgiad canwyll boed dy ymdrech am wybodaeth,
Heb yr hon nis gelli wybod Duw.

* *Preface to the Megha Duta*, p. 3.

† *Nauvátmanam bahu viganayannátmaná návolambe*
Tat kalyáni twamapi sutarám ma gamah kataratwam ;
Kasyátyantam sukhamupagatam dukhah mekántato va,
Nichourgachhatyupari oha deshá chakranemi kramena.—*Megh : Dut* : pennill 109.

‡ Yn llythyrenol "Y cyntaf o grëadigaeth Brahmá"—Y "cyntaf" mewn amser, neu ynte mewn rhagoriaeth. Yn gyffelyb Milton :—

"O fairest of creation, last and best,
Of all God's good works ————." (Paradise Lost, B. IX.

galon ar dân; neu a gynhyrfa deimladau dyfnaf calon dyn fel rhai o hymnau beirdd yr oesoedd canol,* a bardd Pantycelyn.

* Er enghraifft, gellir enwi yr Hymn brydferth ganlynol o gyfansoddiad y mynach Thomas de Ceslano, yr hon, yn ngherddoriaeth Mozart, a sylweddola ddydd y farn i'r fath raddau, ag i wneyd y galon yn oddaith :—

- | | |
|---|--|
| <p>1. Dies iræ, dies illa
Solvat sæculum in favilla
Teste David cum sibylla.</p> <p>2. Quantus tremor est futurus,
Quando Judex est venturus
Cuncta stricte discussurus.</p> <p>3. Tuba, mirum spurgens sonum
Per sepulchra regionum
Coget omnes ante thronum.</p> <p>4. Mors stupebit, et natura,
Cum resurget creatura,
Judicanti responsura.</p> <p>5. Liber scriptus proferatur,
In quo totum continetur,
Unde mundus judicetur.</p> <p>6. Judex ergo cum sedebit,
Quidquid latet apparebit,
Nil inultum remanebit.</p> <p>7. Quid sum miser tum dicturus,
Quem patronum rogaturus,
Cum vix justus sit securus?</p> <p>8. Rex tremendæ majestatis,
Qui salvandos salvas gratis,
Salva me, fons pietatis.</p> <p>9. Recordare, Jezu pie,
Quod sum causa tus vis
Ne me perdas illa die.</p> | <p>10. Quærens me sedisti lassus,
Redemisti crucoem passus :
Tantus labor non sit cassus.</p> <p>11. Juste judex ultionis,
Donum fac remissionis
Ante diem rationis.</p> <p>12. Ingemisco tanquam reus,
Culpa rubet vultus meus ;
Supplicanti parce, Deus.</p> <p>13. Qui Mariam absolvisti,
Et latronem exaudisti,
Mihi quoque spem dedisti.</p> <p>14. Preces meæ non sunt dignæ,
Sed tu bonus, fac benigne,
Ne perenni cremer igne.</p> <p>15. Inter oves locum præsta,
Et ab hædis me sequestra,
Statuens in parte dextra.</p> <p>16. Confutatis maledictis,
Flammis acribus addictus,
Voca me cum benedictis.</p> <p>17. Oro supplex et acolinis,
Cor contritum quasi cinis :
Gere curam mei finis</p> <p>18. Lacrymosa dies illa,
Qua resurget ex favilla,
Judicandus homo reus :
Huic ergo parce Deus !</p> |
|---|--|

Er nas gellir cymeradwyo pob golygiad o eiddo y bardd mynachaidd yn y "Dies iræ," eto y mae y farddoniaeth mor syml a naturiol ar y cwbl, fel y tybiem yr egsusodid ni am roddi yr hymn yn gyfan, mewn gobaith y gwna rhai o feirdd a cherddoriaeth Mozart, i'r Gymraeg. Cof genym glywddo rhagorion hymn y mynach, a cherddoriaeth Mozart, i'r Gymraeg. Cof genym glywddo yr hymn hon yn ngherddoriaeth Mozart lawer o flynyddoedd yn ol yn Eglwys Gatholig Bristol gydag effeithiau na ddifanant byth o'n meddwl. Gwrandawem i wyllo; wylem i wrando. Y pennill yn dechreu "Tuba, mirum spurgens sonum," ydoedd ry ddy-chrynydd i ni allu gwrandao nao wyllo. Dydd y farn ei hun ydoedd yn ein gwyllo. Toddid, gorohfygid, llyncid yr enaid. Yr hymn ganlynol o eiddo Jacob de Benedict, yn ngherddoriaeth Haydn, Pergolesi, neu Stunz, a glywsom gyda llawn cymaint effaith; eithr effaith hollol wahanol. Gall rhai o'r golygiadau yn yr hymn fod, yn anysgrhythrol; eithr fe allai yr egsusodid ni am eu rhoddi, gyda yr un gobaith ag a nodwyd uchod.

1. Stabat mater dolorosa; juxta crucoem lacrymosa,
Dum pendeat filius;
Cujus animam gementem, contristatam et dolentem
Pertransivit gladius.
2. O quam tristis et afflicta, fuit illa benedicta
Mater Unigeniti,
Quæ merebat et dolebat, et tremebat, cum videbat,
Nati penas inclyti.
3. Quis est homo qui non fieret, matrem Christi si videret,
In tanto supplicio?
Quis non posset contristari, piam matrem contemplari
Dolentem cum filio.
4. Pro peccatis suæ gentis, vidit Jesum in tormentis,
Et flagellis subditum;
Vidit suum dulcem natum morientem, desolatum,
Dum emisit spiritum.

Fe allai mai dyma y lle mwyaf priodol i ddywedyd rhywbeth ynghylch cerddoriaeth yr Hindwaid. Eithr rhaid i ni addef nas gwyddom ond ychydig am farddoniaeth a rheolau cerdd dafod, a llai ynghylch rheolau cerddoriaeth. Gallwn fwynhâu effeithiau a rhinweddau swynyddol y ddwy gangen hudol hyn, er nas deallwn yr elfenau pa rai a gyfansoddant eu swyn. Meddai yr Hindwaid gerddoriaeth er yn foreu; pa mor foreu nis gwyddom. Y mae ganddynt hen lyfr a elwir Râg Mâlâ, neu egwyddorion cerddoriaeth, ymha un y gwahoddir ni i fysg y duwiau a'r *nymphs* i ddsygu y rheolau, ac i wrando cerddoriaeth. Dywedir fod amryw o lyfrau o gyfansoddiad diweddarach, eithr nis gwelsom hwynt. Lled ddigrif ydyw rheolau cerddorol y Râg Mâlâ. Ofer a fyddai dysgwyl am eglurhâd ar elfenau sylfaenol cerddoriaeth fel yr hanfodant yn natur, ac y profir hwy oddiwrth *acoustics*, a chymmeidraethau rhifydddeg elfenol. Ni chynnorthwya *Muni* y Râg Mâlâ ni i benderfynu y ddadl rhwng Euler, D'Alembert, a Leibnitz, ynghylch pa un a gyfansoddir tôn tawr ad-darawiad mynych cydseinian gwahanedig, neu trwy barhâd anghenrheidiol a didor uniad y seiniau. Ni chafodd ef allau, y mae yn debyg, y cyfyngir gallu y glust ddynol oddifewn cylch yr *octave*; a bod cydsain gynghaneddol yn amhosibl drwy unrhyw ysgogiadau awyrol neu seinyddol yn is nag 16, nac yn uwch na 8192 i'r foment. Ni phrawf cerddoriaeth y Râg Mâlâ y gwyddai ei chyfansoddw'r fod ardderchogrwydd cerddoriaeth yn ymdangos yn undeb yr amrywiaeth, ac amrywiaeth yr undeb seiniol. Pa fodd bynag, gwyddai y *Muni* fod prif effeithiau cerddoriaeth i'w canfod ar y teimladau a'r nwydau. Gan gau allan reswm a deall, cyfynga ei ymdrechadau agos oll i'r ymgais o gynhyrfu nwydau y meddwl.

Nid cyfiawn a fyddai cymharu cerddoriaeth India henafol gyda yr eiddo Ewrop yn bresennol. Mwy priodol a fyddai ei chymharu gyda'r eiddo yr hen Roegiaid. Yn y Râg Mâlâ arweinir ni ar unwaith i grwydro rhwng clogwyni Parnassus, ac i ymddifyru hyd lènnydd yr Helicon. Eithr y mae dychymyg yr Hindw yn fwy flrwythlawn na'r eiddo yr hen Roegiaid. Boddlonai

5. *Eia mater, fons amoris, me sentire vim doloris*
Fac, ut tecum lugeam.
Fac ut ardeat oor meum, in amando Christum Deum,
Ut sibi complaceam.
6. *Sancta mater istud agas, crucifixi fige plagas*
Cordi meo valide.
Tui nati vulnerati tam dignati pro me pati,
Penas mecum divide.
7. *Fac me vere tecum flere, crucifixo condolere*
Donec ego vixero,
Juxta crucem tecum stare, te libenter sociare,
In planctu desidero.
8. *Virgo virginum prœclara, mihi jam non sis amara*
Fac me tecum plangere;
Fac ut portem Christi mortem, passionis ejus sortem,
Et plagas recolere.
9. *Fac me plagis vulnerari, cruce hac inebriari,*
Ob amorem filii,
Inflammatu et accensus, per te, virgo, sim defensus,
In die iudicii.
10. *Fac me cruce custodiri, morte Christi prœmuniri,*
Confoveri gratia,
Quando corpus morietur, fac ut animæ donetur,
Paradisii gloria.

yr olaf gyda naw *mousai* ar eu heithaf; crëodd y blaenaf chwech pentwr, yn cynnwys pump ymhob un. Ni roddai yr olaf ond un *mousagetes* neu arweinydd i'r dosbarth oll; rhydd y blaenaf un arweinydd i bob haid, o gwbl chwech. Rhoddai y diweddfaf dduwiau—duwiau ieuainc a nwyfus; mae yn wir, ond eto duwiau—i arwain eu gwryfion ieuainc; rhydd y cyntaf chwech imp, prif nodweddau pa rai ydynt anlladrwydd a thrythyllwch. Rhoddai y Groegiad y nodweddiad o wylder a lledueisrwydd i'w wryfion cerddorol, o leiaf mewn ymddangosiad a gwisg; yr Hindŵ, ar y llaw arall, a ddihatra ei *Râgini* o bob bretyn a allasai ddynodi gwylder, ac a wna drythyllwch anniwair yn braf nôd ei bersonoliadau. Rhydd y Groegiad amnaid digon eglur o darddiad ei bersonoliadau yn enw y fam, Mnemosyne (côf); ac yn enwau amryw o'r gwryfion, Aëde (cân), Melpomene (canwr), Enterpe (hyfrydwch), Calliope (hyfrydlais), &c. Enwau Râg a Râgini yr Hindŵ a'n harwain i ganol dyrynsi y *mythoi* Hindŵaidd; ac yno gadewir ni heb wawr, pelydryn, na gobaith, er ein galluogi i ddyfod allan o'r fachdrofa ddryysdroiog.

Nid ydyw yr Hindŵaidd hyd heddyw wedi cyrhaedd *solmisation* Guido Arcin, nac unrhyw gyfundraeth arall o nodiadau cerddorol. Tybiai Syr W. Jones a dysgedigion eraill, fod cerddoriaeth y Dwyrain yn fwy naturiol na'r eiddo Ewrop mewn cynghanedd. Y mae yn ddigon tebyg fod yr Hindŵaidd a'r Chineaidd wedi cadw mwy o briodoliaethau cynghanedd a cherddoriaeth y cyfnod; eithr os bernir rhagoriaethau cerddoriaeth oddiwrth gysondeb ei chyfansoddiad, ei melusder i'r glust, a'i heffaith ar y teimladau, tybiem fod y golygiad uchod yn rhy ffafriol.

Gelwir arweinwyr y gerddoriaeth Râg, a'r gwryfion, pa rai a'u cynnorthwyant, Râgini. Cysylltir hefyd wyth o feibion y Râg a'r Râgini â phob un o'r chwech dosbarth. Enwau y chwech Râg ydynt Buron, Malkau, Hindala, Dipuka, Srirâga, a Megha. Y mae i bob Râg ei amser penodol i ganu, ei wisg a'i ymddangosiad priodol ei hun. Er enghraifft, Buron a gân ar doriad y wawr, yn hydref y flwyddyn. Ei ymddangosiad sydd fel yr eiddo Siva, gyda gwynneb wedi ei orchuddio gan ludw, a gwallt hir wedi ei blethu ar y coryn, o ba un y dylifa afon y Gunga. Y gwryfion cysylltiedig ag ef ydynt Bhuravi, Birari, Mudhamadha, Sindhavi, a Bangala. Personola y rhai hyn nwydau anweddaidd i gymaint graddau, fel nas gallwn roddi disgrifiad o wisg ac ymddangosiad un o honynt. Eu meibion ydynt Hurkhu, Tilak, Puria, Mâdha, Suha, Balneh, Mudha, a Phancham. Y pum' Râg eraill, mewn cyffelyb fodd, a feddant eu tymmor, ymddangosiad, a chynnorthwywyr priodol.

Cangen arall yn llënyddiaeth henafol India ydyw y *drama*. Ni feddwn yr elfenau amseryddol anghenrheidiol er profi pa bryd y dechreuodd. Y mae rhai darnau ar gael, pa rai a ysgrifened, fel y tybir, ganrif neu ddwy cyn dyfodiad Alexander a'i Roegiaid i Hindwstan; eithr nid oes sicrwydd ynghylch eu dyddiad. Addef pawb mai oes Kâli Dâs ydoedd oes euraidd y *drama* yn India. Traethawd dysgedig a rhagorol *Professor Wilson* ar yr "*Hindu Drama*," a gynnwys grynodedb o bob gwybodaeth ar gael ynghylch y cangen hon; gan hyny nid olrheindir y mater ymhellach yma.

Pa beth ydyw gwerth a defnyddioldeb llënyddiaeth henafol India? Pa faint a gynnyddir ar gyfanswm gwybodaeth yr hil ddynol drwyddi? Pa gynifer o ddrychfeddyliau newyddion a gynnwys; pa rai ni chyfarfyddir â hwynt yn llënyddiaeth cenedloedd eraill? Neu, yr hyn sydd yn llawer

mwy pwysig, a ddygir i'r amlwg ynddi ryw DDULL (*method*) newydd er olrhain allan WIRIONEDDAU o ryw natur? Ofnwn y rhaid ateb yr holiadau hyn yn nacïol. Mewn ëangder, rhagora llênnyddiaeth henafol India ar yr eiddo Groeg a Rhufain ynghyd; eithr mewn rhagoriaethau a defnyddioldeb, y mae lawer o raddau islaw iddynt. Er y ceir llawer o addysgiadau rhagorol a defnyddiol yn nghyfansoddiadau yr hen Roegiaid a Rhufeiniaid, eto ni throsglwyddwyd ond un gyfrol unigol—Euclid—pa un a barhá yn destun-lyfr a safon cangen werthfawr o wybodaeth hyd heddyw. Ni chynnyrechodd India yr un Euclid, yr un Demosthenes, yr un Thucydides, na'r un Cæsar, Cicero, Livy, na Tacitus. Ni fëdd llênnyddiseth India ddim i'w gyferbynu gydag ysgrifeniadau y doethwyr hyny. Gwybodaeth o hynafiaethau sydd ddefnyddiol i dri dyben,—ein dysgu i efelychu rhinweddau; i ochel cyfeiliornadau; ac i'n haddysgu i ffurfio ein golygiadau, cymeriadau, a bucheddau yn gyffredinol oddiwrth *experience* dynion eraill. Cawn lawer iawn o wersi yn llênnyddiaeth India henafol i ateb y dybenion hyn.

Gwareiddiad henafol Groeg a Rhufain a ysgubwyd ymaith yn llwyr gyda chwymp yr olaf. Cawn brofion o gyfnewidiadau cyffelyb yn India. Eithr nis gwyddom am un *crisis* cymdeithasol er ein galluogi i sicrhau y dyddiad. Anwybodaeth trigolion Ewrop a gorllewin Asia, yn y cynoesoedd; a'u harweiniodd i sôn am bobl India fel un genedl. Yn ol y brodorion, ar y llaw arall, gwahanol genedloedd India oeddynt agos mor lliosog ac mor estronol i'w gilydd â'r eiddo Ewrop. Codiad a goruchafiaeth y grefydd Frahminaidd bresennol ydoedd gyfoesol â Christianogaeth.

Ymddengys tri chyfnod (*epochs*) yn eglur ddigon yn hanes llênnyddiaeth henafol India. Y gair "henafol" a ddefnyddir yma er arwyddo y tymmor cyn genedigaeth Crist.

Y cyntaf ydoedd cyfnod y Vedau, neu gyfnod syml, annelwig, a phatriarchaidd yr addoliad Vedaidd neu elfenol. Trigianai yr addolwyr hyny yn yr ucheldiroedd rhwng Bokhara a Nepal. Nid ymddengys y meddiannent llênnyddiaeth ysgrifenedig. *Rishis* y Vedau, fel *Rhapsodists* y Groegiaid, a adroddent eu cyfansoddiadau syml a diaddurn ymysg y bobl. Yr iaith Sanscrit, a thebygolrwydd eu golygiadau crefyddol, oeddynt elfenau eu hundeb. Pobl o olygiadau a thafodieithoedd eraill a elwid *Asurs*. Profir y golygiadau hyn gan draddodiadau cyffredin yr Hindwaid, yn gystal a chan y ffaith mai Vyas—cydoeswr â Judisthú—ydoedd ysgrifenydd a chasglydd y Vedau.

Yr ail gyfnod a gyrhaeddodd ei uwchafradd trwy lafur Vyas a Valmiki. Dyma dymmor y *mythoi*. Rhwng y 12fed a'r 9fed canrif cyn Crist, trigolion yr ucheldiroedd o amgylch Cashmir a ymdaenent yn raddol tua'r dwyrain a'r dehau, trwy ddyffrnoedd y Ganges a'r Indus, ac a ymsefydlent yn gyntaf yn Brahma Verta; yna yn Oude. Dechreuodd dynion ymchwilio i egwyddorion ac athroniaeth crefydd y Veda. Dygodd hyn i mewn oes athronaidd Vyas a'r *Shad Darshan*. Felly llithrodd trigolion India yn raddol o grefydd syml y Vedau, i grefydd fwysaidd y *mythoi*, fel y llithrai Groegiaid gelltydd cysegredig Dodona a Delphi, o ddefodau syml a phatriarchaidd y Pelasgi, i grefydd athronaidd Zeno, Socrates, a Plato. Anhawdd a fyddai olrhain disgynraddau a dyddiadau y cyfnewidiadau oddiwrth draddodiadau ac ysgrythyrau yr Hindwaid; eithr y cyfnewidiadau fel ffaith ydynt *ddigon dilys* ac eglur.

Y trydydd cyfnod a sylfaenwyd gan ddeddflyfr Menu, ac a gyrhaeddodd ei ogoniant yn amser Kâli Dâs a "naw perl" llys Vikramaditya yn Oujein. Enwau y naw doethwyr hyny oeddynt, Vetâlbhatta, Sanku, Varâruchi, Varahamira, Ghatakarpara, Dhanwantari, Kshapanaka, Amerasinha, a Kalidâs. Y rhai hyn oeddynt gyfoesol ag "*Augustan Age*" y Rhufeiniaid. Amryw o honynt oeddynt ganlynwyr Buddha. Y mae yn amheus pa un ai canlynwyr Buddha neu y grefydd Frahminaidd ydoedd Vikramaditya ei hun. Ynghylch amser genedigaeth Crist y dechreuodd y grefydd Frahminaidd gael y llaw uchaf yn India. Parhâodd ymrafael creulawn a gwaedlyd rhwng crefydd Buddha a Brahminiaeth am ddeg neu ddeuddeg canrif, a therfynodd gyda goruchafiaeth yr olaf.

Yn nghydol y tymmor rhwng Judisthâ a Vikramaditya, yr ydoedd India agos mor doreithiog mewn doethwyr ag ydoedd Groeg rhwng Homer ac Epicurus. Eithr yr olaf a dra ragorent yn ngwerth a rhagoroldeb eu cyfansoddiadau. Dadleuon ysgrifsenwyr athronaidd ac athrylithgar y *Shad Darshan*, neu y chwech arddangosiad, yn ddiammheu a fu y prif achlysur i awchlymu a gwrteithio y meddwl ymysg doethwyr India.

GEORGE HEYCOCK A'I AMSERAU.

Y MAE yn rhaid myned rhagom eto; nid gwiw rhoi i fyny a llesmeirio ar ganol y ffordd, os oes bosibl yn y byd beidio. "Anghenrhaid yw dyfod rhwystrau;" er hyny, gwell yw ymdrechu yn lew i fyned trwyddynt, na digaloni yn eu canol, canys y mae diwedd llawer o bethau yn well na'u dechreu. Iê, yn bur fynych, y diwedd sydd yn esboniad ac yn eglurhâd—iê, yr unig esboniad ac eglurhâd—ar y dechreu a'r canol. Gan hyny, yr ydym yn teimlo adgyfnerthiad a chalondid cryf i fyned rhagom, a dilyn yr hanes hyd y diwedd; ac fe allai, erbyn hyny, y bydd ein darllenwyr yn cydweled yn hollol â ni mai gwell yw diweddiad yr hanes yma hefyd na'r dechreu. Er fod y dechreuad yn ddrwg, er hyny y mae yn bur anghenrheidiol ei wybod, fel y byddai daioni y diwedd yn llewyrchu allan gyda mwy o nerth. Trueni na chaem lonydd i fyned rhagom heb ein cablu, yn gymaint nad ydym ni yn cablu neb; ac nid ydym yn meddwl troi yn gablwyr ychwaith o herwydd bod eraill felly. Y mae ysbryd sydd yn dyfod â dynion i ffurfio penderfyniad fel yna yn go dda hefyd, onid ydyw?

"I once was quick in feeling—that is o'er,
My scars are callous, or I should have dash'd
My brains against these bars,
Sealing the sentence which my foes proclaim."

Pw, pw, yn y blaen â chwi, a gadewch y bardd Seisonig yn llongydd. Iê, y mae y cynghor yn burion; ond deallwch chwi fod yn haws o lawer siared.

na gwneyd rhywbeth, serch hyny. Y mae'r meddwl yn bur aflywodraethus, a'i grwydriadau y tu hwnt i ddysgrifiad; ac O! y fath boen sydd ar ddyn wrth geisio ei ddysgyblu, a'i gadw mewn rhyw gymaint o drefn gweddol. Ond dyna, y mae yn rhaid ceisio gwneyd y goreu o honi bellach, a myned yn y blaen dan ymdrechu ág ef. Wel yn awr, gadewch i ni gael dyweyd wrth bob peth sydd yn ein hafonyddu, fel y mae hen ffermwr, mewn cymydogaeth a adwaenom, yn arfer dyweyd wrth y wraig pan y mae yn dygwydd siarad yn anghymedrol, yn uchel ac yn gyflym:—"Caroline, er mwyn pob daioni, tewch am ychydig, fel y gallwyf grynhoi fy meddyliau." Os llwyddir i gael llonyddwch, y mae yr hen frawd yn cau ei lygaid, yn tafu ei hun yn ôl yn y gadair, ac yn syrthio i fyfyrdod dwys, gan grynhoi ei holl feddyliau crwydredig i ryw un meddwl mawr am rywbeth. Eithr, yn fynych, cyn ei fod wedi llwyddo yn hollol i gael y meddyliau ynghyd, a'u cylymu oll wrth eu gilydd, er yn barod rai gweithiau i daro y cwlwm am y cwbl, dyma sŵn traed Caroline, a gwaeth na sŵn ei thraed, ei thafod fel cloch yn adsain, nes y bydd y llestri ymron cwympo oddiar yr estyll. Gyda hyny, dyma y meddyliau yn dianc eilwaith—un yma a'r llall draw—ar ol yr holl drafferth i'w crynhoi at eu gilydd. Yn wir, yr oedd peth fel hyn dra phrofedigaethus hefyd. Y mae tafod Caroline mor llym, fel ag y mae yn tori yn gatiâu mân yr holl reffynau ar un ergyd; a thyna hi wedi yn draed moch rhyngddynt o'r newydd; i.e. yn wir, ac yn draed pobpeth arall. Pa ryfedd fod dyn yn colli ei dymher ar brydiau o dan amgylchiadau profedigaethus fel hyn? Esboniad difaeddus ar bethau ydyw profiad; canys yr oeddem ninnau bron wedi dyfod i ben â'r gorchwyl o grynhoi ein meddyliau at eu gilydd, ac wedi gwneyd ein hunain yn barod i gychwyn i'n taith, yn ein myfyrdodau, pan y rheddod ci o rywle dan gyfarth, a dangos ei ddannedd, fel pe buasai yn myned i'n llyncu yn fyw, ac felly cawsom ein tafu drachefn oddiwrth y pwnc. Pe buasem, serch hyny, yn cymeryd pwyll ac edrych yn fanylach, nid oedd anghen gwneyd cymaint o fawstr, a chymeryd braw mor fawr, canys corgi gwan ydoedd, ac wrth gadwen fer; nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond dangos ei ddannedd. Eithr peth rhyfedd, fel y gwyddoch, yw profedigaeth sydyn; nid ydyw dyn yn cymeryd amser i edrych o'i gwmpas cyn dychrynu a myned yn derfysglyd. Wel, bellach, Caroline—mewn difrif yr ydym yn dyweyd—y mae yn rhaid i chiwi o hyn allan attal eich tafod fel y gallom gael ychydig o hamdden i grynhoi ein meddyliau; canys nid yw yn bosibl i ni fyned yn y blaen â chwithau yn siarad; ac yn y blaen y mae yn rhaid myned, onide ni byddwn byth ar ddiwedd ein taith.

Dan gofio, yr oeddyn ynghylch gwneyd rhyw sylw, fod diwedd llawer o bethau yn well na'r dechreuad, pan y cyfarthodd y ci hwnw, yr hyn a gollasom ar y pryd; eithr yn gymaint a'n bod yn cofio lle y dechreuasom wyro, y mae siawns dda i ddyfod yn ôl; ac o drugaredd, y mae genym ddigon o amser ar hyn o bryd i ddychwelyd. Wel, ymhlith yr amrywiol bethau y galleid enwi, nid oes diun yn ein taro yn fwy effeithiol na llwybr y cyfiawn, yr hwn sydd "fel y goleuni, yn llewyrchu fwyfwy hyd ganol dydd." Dydd marwolaeth y cyfryw, medd Solomon, sydd yn well na dydd eu genedigaeth. Ac y mae yr Apostol Paul yn dyweyd, er fod y dechreu a'r canol yn gymylog a thywyll, fod y "diwedd yn fywyd tragwyddol." Ar-oswch: yr ydym wedi myned o flaen ein pwnc yn ddarwybod yn rhyfodd; canys ni ddaeth y diwedd eto; yn rhywle tua'r canol yr ydym, os ym yn

cofio yn iawn. Gadewch i ni ystyried. Ymha le y gadawsom ein harwr yn ein herthygl ddiweddaf? Os ydym yn weddol berffaith ein côf, yr ydym yn meddwl i ni ei weled yn dyfod i fyny i fynydd Sïon, ac i ddinas y Duw byw. Beth bynag, yr ydoedd wedi myned heibio i fynydd Sinai, wedi dyfod allan o'r mwg a'r tywyllwch sydd yn gordoi y mynydd hwnw; y sain udgorn a llef geiriau bron yn colli eu swm yn ei glustiau, ac yntau yn dringo yn araf y bryn sydd yn arwain i'r "Jerusalem hono fry, yr hon yw ein mam ni oll." Do, ni a'i gadawsom ef wedi dianc o'r llaid i'r lân, wedi cael ei wddf yn rhydd o'r cebustr, ac wedi dyfod, i ryw fesur, i'w "ryfeddol oleuni Ef." Bellach, bydd yn rhaid i ni edrych arno yn grefyddwr; ac nid yn unig hyny, eithr yn grefyddwr ymchwilgar, ac yn dechreu deall pethau fel y maent. Nid yw bellach yn daearoli yr ysbrydol, eithr wedi dysgu y gelfyddyd i ysbrydoli y daearol. Ysmeityn, nid oedd yn medru gweled yr ysbrydol yn un man, ond yn bresennol y mae yn canfod yr ysbrydol bron ymhob man. Y mae hyn yn gryn gyfnewidiad mewn dull o feddwl. Yn awr, y mae ei lygad craff yn gallu treiddio i mewn i dduwinyddiaeth gyfriniol William Rees a Thomas Robert, fel y mae yn gystal ysbrydolwr â'r un o honynt, os nid gwell. Wele efe yn bresennol, fel y dywedasom, yn dringo mynydd Sïon—yn araf, er hyny yn hyderas, ac yn teimlo gobaith diffuant y cyrhaedda ei ben ryw ddydd, ac y bydd oddiar y clogwyn uchaf arno yn bloeddio Buddugoliaeth ar ei holl elynion. Er hyn oll, y mae yn cyfarfod yma ac acw âg ychydig o rwystrau, ac yn dechreu gweled eisoes fod llawer o ffyrdd troellog ac anhygyrch cyn cyrhaedd y pen uchaf. Eto y mae yn penderfynu ymorchestu ac ymdrechu, nes gorchfygu yr holl anhawsderau; ac er cwympo weithiau, a thrwy hyny golli tir, y mae yn codi eilwaith, ac yn canu yn beraidd,

"Ar fy neulin, ar fy neulin,
Minnau ddof i ben fy nhaith."

Y mae yn debyg fod pethau newyddion i ddyfod i'r golwg, mewn natur a chrefydd hefyd, fel nad oes neb yn gwybod beth fydd nesaf o ddiwrnod i'w gilydd. Tra yr oedd ein harwr yn canu fel hyn, mewn gobaith sicr o gyrhaedd pen y bryn cyn hir, dyma newydd yn dyfod i'w glustiau fod y duwinyddion wedi darganfod rhywbeth newydd mewn crefydd, a bod pethau ynddi yn ychwanegol i'r hyn a arferid gynt; ac felly, wrth bob rheswm, yn cyfansoddi rhwymedigaethau a dyledswyddau newyddion. Yr oedd y newydd wedi dyfod dros yr Atlantic, gyda llong marsiantwr, fod duwinydd enwog yn y wlad hono wedi darganfod trwy lyfrau fod Nazarëaeth efengylaidd yn gorwedd yn egwyddor loew rhwng dau glawr y memrwn, eithr hyd yn hyn heb ei deall a'i harfer gan Gristionogion.

Tra yr oedd George yn esgyn i fyny i fryn Sïon, ac yn gwneyd ymdrech galed i gyrhaedd clogwyn ag oedd newydd wedi dyfod i'r golwg, gan feddwl ar ol cyrhaedd hwnw y delai golygfeydd gogoneddus i'r golwg, y rhai a dalent am yr holl drafferthion, a llawer rhagor,—dyma ddydd ieuanc yn rhedeg i lawr tuag ato, â phastwn mawr yn ei law, ac yn codi y pastwn anferthol uwch ei ben, gan waeddi allan, "Y lleidr, a'r yspeiliwr, dos yn ôl, a dechreu o'r newydd! canys nid ydwynt wedi dringo y sfordd iawn; nid ydwynt wedi ymdrech yn gyfreithlawn; ac ni choronir neb byth o'r cyfryw ar fynydd Sïon." Golwg y dyn ieuanc, ynghyd a'i genadwri benderfynol, a effeithiodd gymaint ar ein cyfaill Siôr, nes y llesmeiriodd ger ei fron; collodd ei

afael ar glogwyn o graig, yn yr hon yr oedd wedi newydd ymafiyd, er mwyn dringo yn uwch, a syrthiodd yn ôl, gan dreiglo i lawr i odre y mynydd. Anwyl bobl, dyna dro diflas eto. Bu dystawrwydd dwfn am dipyn, eithr dadebrodd o'i lesmair, a chlywai lais yn dywedyd, "Os dringo i ben mynydd Sion a wnei, rhaid i ti ddringo nid yn unig yn efengylaidd, eithr yn ddirwestol hefyd." Ah! dyma rywbeth newydd eto i'r clustiau, nid ydyw yn deall yr ystyr, nac yn adwaen agwedd yr hwn sydd yn llefaru. Beth bynag, wedi cael anadl, y mae y dyn ieuanc yn dechreu adrodd am long odidog, yr hon a ddaeth o'r America yr haf diweddaf i Lynlleifiad, yn cynnwys llwyth o bethau tra gwerthfawr, a bod *documents* y darganfyddiad hwn yn rhan o'r llwyth hyny. Y mae yr haes hwn yn dechreu tafu dynion i gryn drafferth, ac yn attal pethau i fyned yn y blaen yn yr hen ffordd. Dyma y duwinyddion, y naill ar ol y llall, yn neidio i fwrdd y llong i gael golwg ar y *documents*, ac wrth gwrs, yn edrych i mewn i'w *authenticity*, ac nid cymeryd pob peth yn ganiatâol heb ymchwiliad priodol. Y maent yn edrych, ac yn siarad yn ddysgedig; eithr yn methu cyttuno, ond yn hytrach yn anghyttuno ac yn ymrafaelio.

"Who can decide when doctors disagree?"

Yr oedd Dr. Davies yn synu na buasent yn gweled y peth hwn yn gynt, ac yntau mor amlwg yn gorwedd yn y gladdfa, heb fod nemawr iawn o bridd arno. Yr oedd y Doctor Goodfellow, a rhai doctoriaid eraill hefyd, yn dadleu nad oedd peth felly o gwbl o fewn y memwrn sanctaidd, ac nad ydoedd yn ddarganfyddiad yn y byd, ond yn gynnyrch ymenydd cymysglyd ar wendid y lleuad. Fel hyn yr oedd pethau yn sefyll; a gellwch feddwl ei bod yn helynt fin, ac yn tafu rhwystrau mawrion ar y ffordd i deithio yn y blaen.

Yn gymaint nad ydym yn ewyllysio cael ein tynu i mewn i blith y duwinyddion, ni wnawn ond adrodd y fleithiau fel y maent yn dal perthynas â'n harwr, ac yn ffurfio torchrwy yn y gadwen hanesyddol. Lle go dwym yn gyffredin yw myned blith draphlith â rhyw ddeg neu bymtheg o *theologians*; y mae yn well i ddyn braidd bob peth na hyny, canys nid oes man ar ein planed ni yn fwy gwresog. Er fod Arglwydd Palmerston wedi bod mewn cymaint o ddyrswch â nemawr ddyn, mewn cysylltiad â'r *Home a Foreign Affairs*, ni bu efe erioed er pan ei ganwyd mewn man mor ddisiawns i ddyfod yn rhydd â phan syrthiodd i blith y duwinyddion. Er ys ychydig flynnydoedd yn ol, fel y gwyddoch, dygwyddodd i'w arglwyddiaeth mewn cyfarfod ar addysg, ddyweyd ychydig eiriau ar bwnc o dduwinyddiaeth, fe allai yn bur ddifyfyr hefyd; ond yr oedd, y mae yn debyg, yn bell iawn o fod yn *orthodox*. Er holl fawredd ei arglwyddiaeth, fe dybygid nad yw yn cael ei ystyried yn dduwinydd o'r dosbarth uchaf; ac am ddim yr ydym yn deall, nid ydyw yn ystyried ei hun felly, ond yn unig iddo feddwl na buasai yn drosedd iddo am unwaith ddyweyd gair wrth fyned heibio ar hyny. Felly y gwnaeth. Ond, os do, dyma efe yn ei chael, o chwith ac o dde hefyd. Gwarchod pawb! nid cynt y daeth y geiriau allan o'i enau braidd, a chyn ei fod wedi cael amser i lynu ei boeryn, nad dyma ddegau, os nid ugeiniau, o binau yn ei ystlysau, nes yr oedd bron yn ammheu cael byw. Yr oedd rhai esgobion yn ei drywanu, lliaws o bersoniaid, ychydig o broffeswyr duwinyddiaeth a hanesiaeth eglwysig, a *mân* dduwinyddion bron heb rifedi. "Megys â chroen ei ddannedd y

diangodd." Fel y gwyddoch, bu ei arglwyddiaeth yn Rhufain, Awstria, Ffrainc, Rwsia—ie, bron dros yr holl fyd—yn ymdrafod â phethau pwysig Ynys Prydain, eithr ni bu ei fywyd erioed mewn lle poethach, os mor boeth, â phan anturiodd yn rhy agos i diriogaethau y *theologians*. Y mae yn ddigon tebyg na fydd i'w arglwyddiaeth roi darlith byth mwy ar y rhan hono o ddysgeidiaeth. Wel yn siŵr, y mae rhywbeth wedi ein per-swadio ninnau yn ddiweddar y byddai yn well i ni syrthio i ddwyllaw *rhyw* Samaritan, nag i ddwyllaw yr offeiriaid a'r Lefiaid. Pa le yr ydym yn awr, dywedwch ? yn sicr ddigon yr ydym wedi crwydro peth. Caroline, eich tafod chwi a wnaeth hyn yn awr ; y mae yn rhaid i chwi ddal eich tafod, Caroline ; er mwyn dyn ceisiwch fod yn ddstaw dipyn bach, i edrych a allwn "grynhöi ein meddyliau" eto. Aroswech, yn Liverpool yr oeddym, onidê ? Iê, iê, yn dyweyd fod dirwest wedi dyfod yno mewn llong Americanaidd, a bod cryn helynt ymhlith y duwinyddion ai o Dduw ai o ddynion yr ydoedd. Wel, nid oes genym ddim gwell i'w wneyd, ar a wyddom ni, na myned rhagom yn y ffordd oreu y gallom, a gadael iddynt hwy benderfynu y pwnc rhyngddynt â'u gilydd ; a pheidiwch rhyfeddu os byddwn ni, er cymaint yr ydym yn ymlusgo, ar ben ein taith o'u blaen hwy eto.

Tua'r amser y daeth y llong Americanaidd i mewn, yn yr hon yr oedd y *documents* ynghylch y darganfyddiad, yr oedd gŵr boneddig yn byw yn yr un ardal â'n harwr, yr hwn oedd yn fasnachwr mawr, ac a arferai fyned yn ol ac yn y blaen i Liverpool yn fynych. Rywdro pan y dygwyddodd fod yno, dyma y cyrddau dirwestol yn cael eu cyhoeddi o gapel i gapel, a chryn fywyd yn ymddangos o blaid ac yn erbyn y mater dan sylw. Aeth y boneddwr iddynt, bid a fyno ; ac yn ngwres yr areithiau, fe dwymnodd yntau, ac ymhlith y lliaws ag oedd yn arwyddo â'u llaw i lwyrymwrthod â diodydd meddwol, yr oedd y boneddwr yn un. Os oedd rhai yn bendithio yr awr y daeth y llong a'r llwyth, yr oedd llawer yn cablu ; ac yn bur gymysg-lyd yr ydoedd yn myned yn y blaen, fel y rhan fwyaf o bethau eraill. Ond yn y blaen yr oedd yn myned. Yr oedd y boneddwr hwn wedi derbyn yn dra helaeth o'r ysbryd dirwestol ; a phan y daeth adref, dechreuodd siarad ac areithio wrth bawb ynghylch y darganfyddiad newydd, fel dyn wedi anghofio y cwbl ond hyny. Hyn oedd gydag ef mewn byd ac eglwys, tref a gwlad, yn y tŷ gartref ac ar ben y ffordd fawr ; nid oedd dim llonydd i'w gael ganddo. Galleid meddwl fod yfed yn helaeth o ysbryd dirwest yn debyg i yfed hen gwrw Llanbedr pont Stephan, yr hwn oedd yn gwneyd i ddyn siarad yn ddiorphwys. Chwi synwch mor ddyeithr yr oedd y peth yn ymddangos ar y cyntaf, nid yn unig i'r byd, ond i'r eglwys hefyd ; yr oedd pawb yn ddiwahân yn synu yn aruthr. Nid oedd dau faddwl ymhlith y saint, na'r pechaduriaid ychwaith, nad oedd y gŵr boneddig wedi dyrysu ar ei daith, ac mai dyledswydd ei berthynasau agosaf oedd edrych ato, a gwneyd darpariaeth briodol ar gyfer y fath amgylchiadau. Yr oedd y bobl dduwiol—ie, y mwyaf duwiol—yn yr arferiad o gymeryd hanner peint, neu lasied, trwy holl derfynau Crêd ; ac nid oedd dim, meddid, yn y memrwn sanctaidd yn gwahardd hyny, eithr bob amser yn ei gefnogi. "Arfer ychydig win," ebe Paul wrth Timothëus, "er mwyn dy gylla a'th fynych wendid." Y gred ddiysgog oedd, yn ddiau, ymhlith offeiriaid â phobl, fod rhyw gymaint o ddioid gadarn yn hanfodol i gynnalïaeth y cyfansoddiad dynol ; a bod ychydig win, ar brydiau, yn enwedig i'r trwm eu calon, yn anheborol. Er fod, fel y gŵyr pawb, gryn wahaniaeth rhwng byd ac

eglwys mewn rhai pethau, yr oeddynt ynghylch y mater hwn mewn cyd-gordiad hynod, os nid mewn heddwch perffaith. Yn hyn yr oeddynt yn cyttuno. Wrth edrych ar bethau fel yr oeddynt yn sefyll y pryd hyn, mewn cysylltiad â'r cwestiwn dan sylw, yr oedd yn bur ddigalon i feddwl gwneyd ymosodiad llwyddiannus. Eto, er hyn oll, ni ddigalonodd y boneddwr, eithr ymwrodd ac ymorchestodd, nes o'r diwedd berswadio ryw gymaint i'r ffydd ddirwestol, yn enwedig rhywrai ag oedd mewn cysylltiad âg ef fel gweithwyr. Wel, gadewch yna, y mae dechreu i bob peth. Hen fechgyn âg asgwrn cefn oedd hen ddiaconiaid y Dyffryn, ynghyda llawer eraill o'r aelodau parchus; nid oeddynt o nifer y dynion gwlanenaidd hyny y gellwch eu plygu y ffordd y mynoch. Yr hen Thomas Robert, William Rees, a llawer eraill, rhy faith i'w henwi, oeddent fechgyn na fuasent yn cymeryd eu troi gyda phob awel dysgeidiaeth. Hen Galfnistiaid anwyl oedd y rhai'n, yn dal parhâd mewn gras, trwy y tew a'r teneu.

Ond, y mae galwad eto i'r gŵr boneddig fyned i Liverpool, y pryd y cafodd gyfleusdra yn Nghymdeithasfa y Methodistiaid Calfniaidd a gynnelir yn y dref hono tua'r Sulgwyn, i geisio cyhoeddiadau yr areithwyr mwyaf campus oedd i'w cael, i ddyfod trwy'r wlad, i geisio dysgu a dychwelyd y rhai gwrthwynabus. Yr oedd yno fachgen o Fethodist, yr hwn a ystyrid yn benigamp fel areithiwr dirwestol yn yr adeg hono, yr hwn yn unfrydol a neillduwyd i ddyfod ar gyhoeddiad trwy y wlad i gynnorthwyo y gwaith i fyned yn y blaen. Ac, i gario y frwydr yn fwy effeithiol byth, ac yn fwy cyffredinol, neillduwyd hefyd Annibynwr galluog, yr hwn hefyd oedd yn ddydd lled daclus, ac o ddoniau difyrus anghyffredin. Y maent yn darpar i'r daith, ac yn cyfarfod â'u gilydd yn Ngogledd Cymru, ac oddi-yno yn cychwyn ill dau gyda'u gilydd, dan wynebu ar Went a Morganwg, i wneyd ymosodiad ar y gelyn cyffredinol. Cyttunasant ar unwaith i adael eu crefydd gartref hyd nes y dychwelent, a pheidio sôn am ddim, ond ymosod â'u holl nerth ar gyfeddach a meddwod. Gadael eu crefydd gartref! pa reswm oedd yn hyny? onid gwell fuasai iddynt fyned â'u crefydd gyda hwy? O, ie; fe allai mai rhyw awerwch ynom ni yn ceisio dyweyd oedd hyny hefyd; aroschw, y mae perygl camddeall peth mor fawr â hyna; gadewch i ni esbonio, os gallwn. Nid eu crefydd beresonol, deallwch—nid eu duwioldeb yr oeddem yn ei feddwl; daethant â hyny gyda hwy, canys dynion da oedd y dynion; yr oeddent yn grefyddol a duwiol ar hyd y ffordd wrth deithio, ac yn y tai lle y llettyent. Y grefydd allanol yr ydym yn feddwl. Pa fodd y dywedwn? Y gwahaniaeth crefyddol oedd rhyngddynt gartref. A ydyw hyny yn ddyweyd digon eglur? Tynodd ein cyfaill ei gôt Fethodistaidd, ac a'i rhoddodd i gadw i wraig yr Annibynwr, ac felly ein cyfaill Annibynol a wnaeth yr un peth, ond yn unig peidio a'u gosod gyda'u gilydd rhag ofn halogedigaeth; a bod yn ofalus o honynt, fel y gallasant eu cael yn ddiogel ar ol dychwelyd. Bu y foneddiges, hyd yr ydym yn clywed, yn ffyddlawn i'r ymddiried a roddwyd iddi, a chadwyd y dillad mewn cistau gwahanol, fel wedi dychwelyd yr oedd y ddau frawd yn ymddangos eilwaith yn eu dillad ac yn eu hiawn bwyll—un yn berffaith Fethodist, a'r llall yn berffaith Annibynwr. Yn awr, chwi a welwch, y mae'r cyrrf wedi cyttuno, ac y maent yn cychwyn gyda'u gilydd; ac os gellir cadw y dillad ar wahân, y mae'r peryglon wedi myned trosodd. Cerddwch chwi yn galonog; fe ofala gwraig y tŷ am hyny. Yr ydym wedi hanner dyrys eto; ymha le yr ydym yn bresennol? Caroline, y chwi yw mam y drwg;

o achos i chwi ollwng eich tafod wrth y drws ysmeityn y bu hyn. Gwyn fyd nad allech dewi, am o gwmpas awr bellach, i edrych a allwn unwaith eto "grynhöl ein meddyliau;" erbyn hyny, ni a obeithiwn beth bynag, y byddwn yn agos o fod y tu hwnt i berygl. Wel, dyna ddystawrwydd eto; eithr dros pa cyhyd y parhâ nid oes neb yn gwybod; ond y peth goreu yw i ni fyned rhagom gymaint ag sydd yn bosibl yn y cyfamser. Dyma yr areithwyr yn dyfod; y maent yn edrych yn galonog, yn ddawnus, ac yn drwsiadus, a'r bobl, wrth yr olwg arnynt, yn methu deall fod yn bosibl iddynt edrych gystal heb gyfranogi o ychydig o ddiod mewn ffordd gymedrol. Eithr hyd yn hyn yr oedd y dynion heb eu goleuo. Yr oedd y bobl yn dyweyd eu bod yn credu fod y ddwy ferlen ar ba rai y marchogai yr areithwyr yn ddirwestol, canys yr oeddynt yn edrych yn bur deneu; nid yn unig yr oeddynt yn druan, ond yr oeddynt, mae yn debyg, yn druenus. Eto dywedir iddynt fyned trwy y daith yn ddibrofedigaeth, a chyrhaedd adref yn gysurus i geulenydd Sir Gaernarfon. Beth bynag, gan adael pethau felly yn llonydd, digon yw dyweyd ar hyn o bryd i'r cyfeillion ddyfod, "gan regu'r cawr, a rhwygo'r coed," a buont yn dra llwyddiannus yn hyn yn yr holl daith. Taith gysurus iawn ar y cwbl ydoedd; ond yn unig, fel y gallesid dysgwyl, fod cryn ddadlu gan y bobl ynghylch yr areithwyr, pa un o honynt oedd y goreu. Byddai y Methodistiaid yn dyweyd nad oedd dim siawns i neb yn ymyl eu bachgen hwy; eithr yr Annibynwyr o'r ochr arall a daerent fod eu dyn hwy yn drech o ddigon. Y mae dynion yn myned ymhell iawn o dan ddylanwad plaid, a hyny yn ddigon diniwed weithiau, fel y gwyddoch. Y mae yn gof genym am ddau bregethwr yn cyd-deithio i Ogledd Cymru, ac yn dyfod i dref go fawr a chyfrifol; ond y mae yn debyg erbyn dyfod yno, fod y ceffylau, wrth deithio yn galed, fel y byddys gynt, wedi treulio, os nid colli, eu pedolau. Yr oeddynt yn holi, wedi dyfod i'r lle, am ôf i'w pedoli, a'r cyfeillion yn dyweyd fod yno ôfion *first rate*, gan enwi hwn a'r nesaf. A ydynt yn profesu? meddent; a ydynt yn perthyn i ni? Nag ydynt ddim, oedd yr ateb. Wel, meddent, a oes dim posibl cael rhyw ôf o Fethodist o fewn y dref yma? Nid oedd dim gwell gôfion na'r Harmans o fewn y Sir, eto nid oedd gan y brodyr ffydd ynddynt, gan nad oeddynt yn Fethodistiaid. Rhyfedd y fath beth, onidê? Pa gymhwysder allai fod mewn Methodistiaeth fel y cyfryw i bedoli ceffyl? Hwyrach y gallai fod, eithr ar yr un pryd nid oes genym ni ddim ond cyffesu ein hanwybodaeth uwchben y pwnc hwn, fel llawer o bethau dyfnion eraill. Y mae yn beth posibl i ddynion gollu barn o dan ddylanwad tuedd at blaid; nid ydym ni, dybygem, o'r cyfryw ag y mae peth felly yn effeithio yn fawr arnynt; ac nid ydym un amser yn caru bod yn gulion; eto, gyda golwg ar y ddau genad o ddirwestwyr, yr oedd pawb bron yn dyweyd mai'r Methodist oedd y goreu. Ond dyna, peidiwch a sôn dim rhagor am hyna, gadewch iddo lle y mae. Y mae rhai pobl nad oes diwedd ar eu siarad, ac wedi y cwbl heb ddim yn hyny eilwaith ond ffolineb.

Daeth y ddau frawd parchus i'r Dyffryn, yn ol y cyhoeddiad a gerddodd o'r blaen, a derbyniwyd hwynt yn serchog. Etholwyd y gŵr boneddig y crybwyllasom am dano o'r blaen yn gadeirydd y cyfarfod, ac felly yr oedd pob peth yn myned ymlaen mewn trefn, a chawd gwell cwrdd, nag yr oeddid yn ddysgwyl. Argyhoeddwyd lliaws, a daethant yn y blaen i ardstyio, a chlwyfwyd amryw eraill na ddaethant yn y blaen y noson hono, eithr wedi hyny a ymunasant, a buont yn sêr dysglaer yn y ffurfafon ddirwestol.

Dywedodd un o'r brodyr dywededig, wrth ddybenu ei araeth, fel y canlyn,—
 “Yn awr, frodyr, yr ydym wedi bod yn gweddio er ys llawer dydd am ddiwygiad: yr ydym wedi bod yn cwyno oblegid bod cân lleied o arwyddion llwyddiant ar grefydd; yn awr, gyfeillion, dyma'r diwygiad wedi dyfod; y mae yn dechreu ymddangos yn bresennol yn y peth bwn; ond fel cynt, y mae'r byd a'r eglwys hefyd yn ei wrthod, am na ddaeth yn ol y dysgwyliad cyffredinol. Fel hyn y gwrthododd yr Iuddewon yr Arglwydd Iesu; nid am nad oeddynt hwy yn dysgwyl y Messiah, eithr am nad oeddynt yn ei ddysgwyl yn y ffordd hono. Ganwyd y plentyn Iesu yn Bethlehem Judah yn dlawd, am hyny gwrthodwyd ef, ac ni fynai yr Iuddewon hwnw i deyrnasu arnynt, am na ddaeth yn eu ffordd eu hunain. Yr ydych chiwithau wedi bod yn gweddio am yr Ysbryd Glân; dyma'r Ysbryd yn cael ei dywallt yn y ffurf hon, trwy egluro ffordd i sobri y meddwon, sychu y tafarndai i fyny, ac felly rhagbarotôï ffordd yr Arglwydd. Ond yr ydych yn gwrthod y plentyn wrth beidio dyfod yn y blaen i ysgrifenu â'ch dwylaw, ac felly ei dderbyn, fel arwydd o ffafr nefol. Derbynwch y plentyn dirwestol!” Wedi hyn, dyma y cadeirydd anrhydeddus yn cyfodi, yn gwnaed araeth fer, ond hynod bwrpasol, ac yn gofyn i'r gynnulleidfa a oeddant yn teimlo yn ewyllysgar i godi eu dwylaw er arwyddo eu diolchgarwch i'r areithwyr medrus, ac hefyd eu hewyllysgarwch i dderbyn y plentyn. Y mae yn wir fod amryw yn cael eu dal trwy ddichell wrth gysylltu y ddau beth â'u gilydd, oblegid yr oedd llawer yn ddigon boddlaw'n i arwyddo diolchgarwch i'r areithwyr am eu hareithiau medrus, nad oeddent ar hyny o bryd yn eithaf addfed i dderbyn y plentyn. Eithr felly y bu, a gwnaed arwydd lled gyffredinol o gydsyniad i gais y cadeirydd. Eto, cyfiawnder yw dywedyd fod yno liaws na ddarfu gydsynio i arwyddo.

Ymha le y mae Heycock yn awr? pa ochr y mae efe yn ei gymeryd? Ah! y mae efe yno, ond yn edrych yn chwerw a chilwgas, yn anmhlgyedig ei ysbryd, a braidd yn edrych ar y cwbl yn fflorege wageddus. A gododd efe ei law? Na ddo. Beth! a wrthododd efe y plentyn? Da. Ni fynai mo hono i deyrnasu arno. Yr oedd efe yn teimlo ei hun yn wir ddigofus fod yr un cristenion yn cael ei wahardd i gymeryd ychydig o ddiol yn gymedrol, yn ngwyneb nychdod a gwendid, a phan y teimlai wir anghen am y cyfryw beth. “Pw! nonsense i gyd,” meddai, “os nad yw crefydd yn ddigon i gadw dyn rhag yfed gormod, ffarwel byth am ddiin arall. A pheth cywilyddus fod anghenrheidrwydd i gristonogion, i.e. a hen gristonogion profedig hefyd, osod cyrn eu gyddfau o dan *drustee*, ys dywed Myfyr. Peth gweddol sâl, onidê, yw gweled dynion duwiol yn gorfod rhoi ymddiriedolwr ar y fynedfa i'r bola, a thrwy hyny egluro i'r byd eu bod yn analluog i lywodraethu eu hunain! Ffei, rhag cywilydd! Chwi a wyddoch mai ar blant o dan oed, a dynion allan o'u synwyrâu, y gosodir ymddiriedolwyr, y rhan fynychaf. Fel y dywed yr Apostol, ‘Dros gymaint o amser ag y mae'r etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo â gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl: eithr y mae efe dan ymgeleddwyr a llyweddreithwyr, hyd yr amser a osodwyd gan y tad.’ Nonsense i gyd yw peth fel hyn,” ebe Siors, rhyngddo âg ef ei hun. “Y mae gosod *trustees* ar blant a dynion maes o'u cof yn beth o'r goreu, y rhai sydd yn analluog i ofalu am danynt eu hunain, a threfnu eu hamgylchiadau; ond myned i osod y cedyrn yn y ffydd, megys Thomas Robert, William Rees, ac eraill, o dan *drustees*, sydd un o'r pethau mwyaf cywilyddus a ddaeth i glastia

dynion erioed. A pha reswm, meddwch chwi, sydd mewn gosod dirwest yn ymddiriedolwr ar dduwioldeb?" Fel hyn yr oedd ein harwr yn ymresymu rhyngddo âg ef ei hun wrth ddychwelyd o'r cwrdd. Yr oedd efe wrtho ei hun, pawb wedi myned o'r blaen, a'i adael yntau fel hyn i fyfyrto mewn unigolrwydd yn y tywyllwch du. Yr oedd yn dywyllwch o fewn ac oddiallan; am hyn y mae yn naturiol i feddwl mai mawr oedd y tywyllwch hwnw. Wedi cerdded yn ôl ac yn y blaen ar hyd y cae am gryn amser, gan astudio yn ddwfn oblegid y plentyn yma byth, dyma ef yn dyfod i'r penderfyniad i wrthwynebu dirwest hyd yr eithaf. Nid ydyw er hyn yn medru bod yn ddigon cryf ar y mater; y mae rhyfel yn ei enaid, ac er ceisio ymysgwyd a ffurfio penderfyniadau, y mae yn syrthio yn ôl yn fuan, ac yn methu eu cario allan i weithrediad. Y mae yn chwilio allan am lwybr dyledswydd, ac eto yn methu gweled yn glir. "Nid oedd gweledigaeth eglur." Y mae yn penderfynu, yn ailbenderfynu, yn dattod y penderfyniadau, yn eu gwneyd eilwaith; ac yn y diwedd yn cael ei hun yn agos yn yr un man, heb wneyd nemawr o symudiad. Eithr yn nghanol y tywydd helbulus hwn, dyma efe yn sefyll yn ochr y berth, yn cyfieu y llawffon yn drefnus ar gyfer y goes fer, ac yn dywedyd, "Yr wyf fi yn gwrthod y plentyn; nid plentyn y nef ydyw." Y mae yn ceisio bod yn gryf yn y penderfyniad hwn, eto rywfodd y mae yn methu; canys y mae yn teimlo awch rhesymau yr areithwyr ar ei feddwl, ac yn ei fyw, er ymdrech ei oreu, y mae yn ffaelu eu hysgwyd ymaith. Wedi cyhoeddi ei benderfyniad fel hyn i wrthod y plentyn, nid ydyw eto yn gallu dianc heb ailystyried y penderfyniad hwnw. Wele efe yn cychwyn yn y blaen, yn dyfod bron i gornel y cae, yn cosi ychydig ar ei ben, yn plygu tipyn yn ei arau, yn cau ei ddwrn, fel pe buasai yn myned i ollwng un o'i hen ergydion at ben rywun, ac yn dywedyd, "Yr wyf bron dyrysu ynghylch y mater hwn." Wel, y mae yn cymeryd cylch eto o gwmpas y cae yn y tywyllwch du, gan ailystyried ei benderfyniad ynghylch gwrthod y plentyn, ac felly yn rhodio yn alarus ac yn bendrymaidd iawn. Y mae llawer o bethau newyddion yn dyfod i'r meddwl wrth ystyried pethau fel hyn yn ddwys, ac felly rhyfel poeth iawn yn cymeryd lle rhwng rhagdybian lles diod gadarn i'r cyfansoddiad dynol yn yr arferiad cymedrol o honi, â'r rhesymau diweddar i'r gwrthwyneb. Eithr y cwestiwn yn ei bwys crefyddol a ddaeth â'r argyhoeddiad adref. "Pe byddai y ddiod yn ychydig o ddaioni," ebe'r areithiwr, "a ydyw ymwadu â'r ychydig ddaioni hwnw yn ormod er mwyn achub hen feddwn sydd yn ymdreiglo mewn budreddi drwy eu hoes, ynghydag attal eraill, ag sydd yn awr yn ddynion sobr, rhag myned yn feddwon?" Effeithiodd y dull hwn o resymu yn ddirfawr. Y mae efe yn dechreu cofio ei hen helynt ei hun gynt, ac yn gwybod yn bresennol am gannoedd sydd yn yr un sefyllfa; ac y mae yn ystyried os oes rhyw foddion i'w hachub y dylid ei arfer, beth bynag yn y byd fyddai yr hunanymwadiad. Yn wyneb y pethau hyn a'r cyffelyb, y mae yn teimlo y meddwl yn myned o dan gyfnewidiadau mawrion, ac yn dechreu gweled pethau mewn goleu arall. Y mae efe eto yn cyfnewid ei benderfyniad blaenorol ynghylch gwrthod y plentyn, ac ar yr un pryd yn methu deall yn iawn pa fodd i wneyd. Yn awr eto y mae yn dechreu gofidio yn dost am iddo sefyll yn gyndyn yn y cyfarfod, a gwrthod codi ei law o blaid derbyn y plentyn yn ngwydd yr holl bobl. "A pheth arall," meddai, "dyma'r cyfle wedi myned heibio i wneyd hyn yn ngwydd y gynulleidfa, fel y buasai pawb yn dystion." Bu dystawrwydd. "Eithr," ebe efe,

"clywais fel pe buasai llais yn fy ngalw wrth fy enw, gan ddywedyd, 'George, os ydyw y bobl wedi dychwelyd adref, nid ydyw yn rhy ddiweddar eto; y mae Duw, yr hwn sydd yn fwy na phawb, yma.'" Gyda hyn y mae yn teimlo adnewyddiad nerth, ac fel un wedi cael bywyd newydd, yn taro blaen ei lawffon yn y ddaear, yn ol ei ddull arferol, yn tynu ei het oddiar ei ben, fel pe buasai yn y capel yn nghanol cynnulleidfa yr Arglwydd, yn ei dal yn ei law ddeheu, ac yn ei chwyfio o gwmpas ei ben dair gwaith, gan edrych yn ddyfal tua'r nef, a chyda hyny yn gwaeddi allan, "O Arglwydd, maddeu ty nghyndynrwydd; wele fi yn awr yn dy wrydd di, ac yn nghwyydd yr angelion sanctaidd, yn codi fy llaw i'r nefoedd, ac yn gwneyd cyfammod â thi ynghylch y plentyn. Arglwydd, mi a dderbynias y plentyn; cynnorthwya dithau finnau i'w fagu, a'i feithrin yn ofalus; a bydded iddo fod yn fendith i'r byd. Amen!" Dyna gyfammod dirwestol George Heycock.

Wel, chwi a welwch ein cyfaill yn awr o dan gyfammod newydd, a bydd yn anghenrheidiol i ni edrych arno bellach, am dipyn beth bynag, fel deiliad y cyfammod hwnw. Y mae bellach wedi cymeryd at y plentyn, ac y mae pob argoel y bydd iddo ei fagu yn anrhydeddus. Y mae yn iawn dywedyd iddo lawarwyddo yn gyhoeddus y cyfle cyntaf, ger bron yr holl bobl, fel y byddai eglurdeb ar hyn fel yr holl bethau eraill. Yn gymaint nad ydoedd rhai o'r hen bobl, a'r rhai cadarnaf ar y maes hefyd, megys Thomas Robert ac eraill, wedi gweled yr anghenrheidrwydd o hyn eto, ac felly yn dra anystwyth, fel y mae yn rhesymol meddwl, yr oedd ein harwr oblegid hyn, ar brydiau, ar dir profedigaethus. Fe ddichon fod y zel yn fynych yn ymestyn dros y terfynau yn mhoethder y cariad cyntaf yn achos y plentyn, ac felly yn tynu allan fwy o wrthwynebiad nag y buasai pe gwnaethid cymedroli pethau yn lle myned i eithafion annyoddefol. Beth bynag, felly yr oedd pethau, a chan hyny nid oes genym ni ddim ond dywedyd gwirioneddau fel yr oeddynt, a gadael i bawb dynu y casgliadau y gwelont hwy yn dda oddiwrth hyny. Bu llawer un â'i bastwn uwch ben y plentyn, fel y gwyr pawb, yn y Dyffryn fel pob lle arall; eithr y *bruiser* pan welai y ffon wedi ei chodi uwch ben y maban, a neidiai ei hun o dan yr ergyd, er mwyn amddiffyn a chadw y bychan yn fyw yn nghanol ergydion marwol y pastynwyr. Daeth yr amgylchiadau hyn a'r cyffelyb â'n harwr yn enwog ac yn amlwg yn fuan; a dechreuid ei ofni bellach, rhag ei fod yn myned yn y blaen yn rhy fuan, ac y byddai yn rhaid wrth ryw orchwyliaethau cryfion i'w ddarostwng, a dyfod ág ef i'w iawn bwyll. Wrth ei weled yn bur gryf yn pleidio y plentyn, ac yntau heb fod yn hen mewn crefydd y pryd hyn, ofnid gan yr hen frodyr ei fod yn iachâu oddiwrth ei argyhoeddiadau mawrion gynt, ac y gwelid ef eto yn ymdreiglo yn y dom. Ya wir, dywedwyd wrtho droion ei fod yn rhy eöfn a phenderfynol, ac yn myned yn rhy rwydd yn y blaen—ei fod am fyned, os oedd bosibl, o flaen y blaenoriaid awdurdodedig, ac felly "yr oen yn myned i ddysgu i'r ddaid bori," ys dywed yr hen ddiareb Gymreig. Ein harwr, fe allai, a ddywedai ryw air yn yr Ysgol Sabbothol ynghylch y plentyn, gan gymeryd ei ddammeg o bell, ac yn tynu llawer un i gymeradwyo y Gymdeithas Ddirwestol heb yn wybod iddo ei hun; canys yn fynych iawn y llefarai efe wrthyt ar ddammegion, ac heb ddammeg braidd y dywedai efe ddim wrthynt. Eithr mor gynted ag y byddai y peth yn ymegluro, O! anwyl bobl! dyma'r ffin yn dechreu chwareu uwchben y brawd Siôr; ac yn fynych iawn ddannodiad

o'i hen gampau, gyda'r hen ofyniad, "Beth, tydi yn myned i'n dysgu ni! mewn pechod y ganwyd di oll, ac mewn pechod y'th fagwyd, a phechadur heb dy fath yr wyt wedi bod. Oni bae dy fod yn ddigwylydd, tydi fyddai y diweddfai i agor dy ben." Eithr efe a dafiai ei law yn ngwyneb yr holl bethau hyn, ac a ddywedai, "Ie, gynt, nid yn awr. Y mae yn wir nad oedd neb ymhlith yr hen Gorinthiaid yn dduach na myfi, eithr fel hwynt-hwy myfi a olchwyd, ac myfi a gefais drugaredd; nid y peth y mae dyn wedi bod, eithr y peth ydyw yw y pwnc." Pe buasech ond gweled ein harwr, yn nghanol poethder y diwygiad hwn yn ei smddiffyn ei hun a'r plentyn a roddes Duw iddo, fel y dywedai, buasai yn ddigon i beri i chwi wenu yn nghanol eich holl ofidiau: ei weled wedi taro ei fion, er cryfhau y goes fer, fel un yn dangos ychwaneg o barch i'r aelod anhardd; a'r het yn ei law ddehau, yr hon oedd yn estynedig allan, a'i ddau lygaid yn dysgleirio fel sêr y boreu, a'i dalcen mawr fel yn arwyddo dealltwriaeth uwchraddol, ac o ran ei berson yn sefyll cân gymhwysed â saeth; ac yn yr agwedd hon y mae yn amddiffyn "y plentyn," chwedl yntau, rhag yr holl bicellau tanllyd oedd yn ehedeg; ac yn siŵr i chwi, nid ychydig oeddynt.

Hyd yn hyn yr oedd yr hen frawd Thomas Robert heb ei oleuo yn nuw-inyddiaeth dirwest. Byddai efe yn meddwl fod ryw rinwedd annhraethol mewn hanner peint, a bod hyny yn nerth ei fywyd yn y byd, os nid wedi bod yn foddion estyniad ei oes hyd yn bresennol. Fe allai hysyd ei fod yn ormod o Galfin, yn enwedig yn ei oriau mwyaf meddylgar, i feddwl fod ychydig o ddiod yn estyn oes; canys yr oedd efe, deallwch, yn eithaf Calfin, mor iach yn y ffydd â nemawr yn yr oes. Beth bynag, y mae hyn yn ddigon amlwg, ei fod hyd yn hyn yn priodoli llawer o gysur a nerth yn y ddiod er cynnorthwyo dyn i ymlwybro trwy fyd anhawdd. Dymunem i'n darllenwyr gofio, serch hyny, nad oedd un dyn mwy duwiol na'r hen frawd hwn yn yr oes, am a wyddom ni; ond fel y gwyddoch, o dan argyhoeddiad felly am grwr yr oedd agos bawb pan ymddangosodd y plentyn hwn yn y wlad. Yn gymaint â bod pethau yn sefyll felly, yr ydym yn cael y cewri cedyrn gyda chrefydd, a'r bobl mwyaf eu dylanwad, ar y cyntaf yn groes i'r symudiad. Gan fod ein harwr yn ieuanc gyda chrefydd ar y pryd, ac weithiau, fe allai, yn myned dros y terfynau yn mhoethder ei awyddfryd, yr oedd yr ymosodiad yn boeth arno ar ddê ac aswy. Byddai un yn cyrhaedd bonclust arno o'r fan hon, a'r llall o'r fan draw, ac weithiau y gwres-fesurydd yn codi cyfuwch, fel y byddai chwech neu saith yn siarad ar un-waith, ac yn tafu eu saethau llymion a thanllyd ar yr un pryd. Y mae yn beth rhyfedd ei fod yn fyw! Er hyn i gyd, dan bwysio yn ddiysgog ar ei lawffon, ac weithiau yn chwyfio ei het fel ped amneidiai am osteg, y mae yn sefyll fel cawr, gan ymresymu allan o'r Ysgrythyrau, y Prophwydi, a'r Apostolion, mai plentyn Duw ydyw Dirwest, a bod yn rhaid i'r eglwys ei dderbyn "hyd amser adferiad pob peth." Galleid meddwl wrth ei weled yn dal y fraich fawr allan, ac yn dal copa yr het tuag at y gwrthwynebwyr, ei fod wedi meddwl mai hono oedd tarian y ffydd, i dderbyn ac i ddiffodd yr holl bicellau tanllyd; ac yn ngwyneb cael tipyn o osteg, dacw ef yn ei chwyfio oddiamgylch ei ben, fel pe buasai yn herio pawb, a'u cymhell allan i dir rheswm ac Ysgrythyr i ymladd y frwydr fawr. Dyoddefodd fel hyn helynt flin lawer gwaith; eithr er y cwbl yn y blaen yr ydoedd yn myned, gan gredu ei fod yn gywir. Diystyrodd waradwydd, fel un yn gweled haf ffirwythlawn o'i flaen y tu draw i ystormydd ysgythrog y gauaf tywyll a du.

Yr oedd efe yn edrych ar y plentyn hwn yn "gwymp ac yn godiad i lawer yn Israel;" ac er ei fod hyd yn hyn fel maban wedi ei dafu i wyneb y maes, yn ymdrybaeddu yn ei waed, yr oedd yn gweled trwy ffydd, neu ryw-beth, ddiwrnod y buasai ei harddwch yn odidog, a'i amser yn amser serch-ogrwydd; felly efe a ledodd ei 'aden drosto, ac aeth i gyfammod sier ág ef.

Gan nad oedd y blaenoriaid, fel y dywedasom, wedi gweled hyd yn hyn hawddgarwch y plentyn, nid oedd neb yn swyddol i gyhoeddi cyfarfodydd dirwestol, fel yr oedd y plentyn mewn perygl o gael ei anghofio. Yr oedd hefyd yn berygl dirfawr i ddyn heb fod mewn swydd anturio at y gwaith. Byddai y cyhoeddwr yn cyhoeddi y cyfarfod gweddi, y bregeth, a'r holl foddion; ond er dim ni chyhoeddai gyfarfodydd o'r natur hyn. Yn ngwynneb hyn, yr oedd ein harwr, gyda rhyw ychydig eraill, yn methu deall yn iawn pa beth i'w wneyd i'r dyben o ddwyn achos y plentyn newydd o dan sylw. Glynu wrth ei broffes yr oedd y cyhoeddwr er pob peth; ni chyhoeddai, ac ni welai yn dda halogi ei dafod trwy ddyweyd fod cyfarfod o'r fath i'w gynnal o fewn y lle sanctaidd. Eithr penderfynwyd, yn gymaint a bod pothau yn sefyll felly, ac nad oedd gobaith mewn modd yn y byd ddwyn y plentyn i sylw y werin, i Heycock floeddio allan, ar ol i'r cyhoeddwr weinyddu ei swydd, fod cyfarfod dirwestol i fod y pryd a'r pryd, a chwed'yn gwneyd y goreu o'i draed, rhag ofn mwstwr. Addawodd yntau ar unwaith weinyddu y swydd oruchel, er ar yr un pryd nad ydoedd yn anghydwibodol o'i pheryglon, a'r profedigaethau yr arweinai hynny ef iddynt o anghenrheidrwydd; canys gwyddai yn burion y byddai ffonodiau lawer yn barod iddo o lawer cyfeiriad. Bid a fyne, y Sabbath a ddaeth; ac wedi i'r cyhoeddwr weinyddu ei swydd—gyda phob dyledus barch y dymunem siarad am swyddau—dyma George ar ei draed, ac er syndod i bawb, yn dechreu ar y gorchwyl o gyhoeddi, heb fod yn awdurdodedig. Cyn ei fod wedi cael amser i agor ei enau yn iawn, ac fe allai, gan ei fod yn anghyfarwydd gyda y fath orchwyl, ei fod yn fwy araf nag y galleid bod, yr oedd y pregethwr wedi dechreu rhoi allan y pennill,—

"Dyma Geidwad i'r colledig,
Meddyg i'r gwywedig rai;"

eithr cyn gallu cael amser i ddywedyd, "Dyma un sy'n caru madden," dyma floedd o rywle yn cyhoeddi cyfarfod dirwestol nos Fercher, a bod amryw o frodyr athrylithgar yn areithio ar yr achos. Gwareder ni! dyma yr holl lygaid ag oedd yn y capel wedi eu sefydlu arno ar unwaith. Edrychwch arnynt o gwmpas y pulpud,—dyma drydaniad! Y mae rhai, fel heb yn wybod iddynt eu hunain, yn codi yn sydyn, ac â gwddf estynedig yn edrych i'r cyfeiriad y daeth y llais allan; y mae eraill yn edrych ar eu gilydd fel pe nas gallasant beidio, a phawb fel pe bae rhyw wylltineb anghyfrifol yn eu gwynebau; a'r hen frawd Thomas Roberts yn gwasgu ei benliniau ynghyd, ac yn plygu ei wâr fel gŵydd pan yn ymostwng i fyned o dan fwa pont. Nid oedd neb yn gydwybodol o'i agwedd ei hun, a phe buasai yr edrychydd yn dyweyd, braidd y credasent. Diflaswyd y cwrdd, aeth y cwbl fel pe tafesid dwf oer ar bobpeth. Y mae y pregethwr yn myned rhagddo â'i bennill,

"Dyma un sy'n caru madden,
I bechaduriaid mawr eu bai.
Diolch iddo, &c."

Eithr er mor felus yr ydoedd, methwyd cael blas da y cyfarfod hwnw, ac anhwylyus iawn y canwyd. George, yn rhagweled ei beryglon, yn amser y canu a dynai yn araf tuag at y drws, i'r dyben o gychwyn adref cyn bod neb yn agor ei lygaid braidd, ac felly dianc o afael y peryglon. Llwyddodd yn hapus yn hyn; a phan oedd ymholi yn eu plith yn ymyl y pulpud am dano, yr oedd efe yn tynu ymhell adref. Efe, y tro hwn, oedd y blaenaf. Yr oedd hyn yn groes i arferiad hefyd, canys yr olaf oedd efe y rhan fynychaf. Yn wir, yr oedd yr olwg arno yn sicr o fod yn ddifyrus dros ben, yn enwedig i feddwl diduedd; ei weled o gwmpas hanner lled cae o flaen pawb, yn ei dywadnu hi, yn tafu y ffon yn y blaen gyda y fath awch, a choes ar ol coes gyda hyny, mewn ffordd mwy hwylus nag arferol. Chwi synech mor gelfydd y byddai yn gweithio y ffon er cynnorthwyo y goes fêr, fel nad oedd y naill na'r llall yn cael eu tafu yn groes nac am draws eu gilydd. Yr ydym yn meddwl y bydd ein darllenwyr yn cydweled â ni pan yn dywedyd, mai arwydd o gryn ysgil, os nad peth talent, oedd gweithio corff fel hyn mor hwylus a hoew ar hyd y ddaear gron, heb dramgyddo a syrthio. Buasai yn hawdd, dybygem ni, i un dyn o feddwl cymedrol weled cywreirwydd go fawr yn nhafiad y goes i gyfeiriad priodol, ynghyd a'r dull deheuig y deliai y ffon i fyny er ei chynnorthwyo. Nid pawb a wnaï hyn, a bod yn siŵr i chwi hefyd. Och fi! dyma ni yn awr eto wedi myned ar ddisperod; yr oeddem yn myned yn y blaen yn weddol dda hefyd, oni buasai i'r wraig yna roddi y fath ysgrech annaeorol wrth y drws ysmeityn; y pryd hyny y darfu i ni golli ryw gymaint ar y llwybr. Caroline, mewn difrifoldeb yr ydym yn dyweyd yn awr, credwch chwi ai peidiwch, os nad allwch chwi fod yn dawel, a rhoi hamdden i ni "grynhoi ein meddyliau," yr ydym ya penderfynu mynu *judicial separation*. Wel, dyna, y mae dystawrwydd am dipyn bach eto; am ba faint, w'ys? Eto y mae ychydig o dangnefedd yn werthfawr iawn, yn lle bod dyn mewn ystorm o hyd, ddydd a nos.

Ond gadewch i ni ddychwelyd. Y mae ein gwron wedi dychwelyd adref yn ddiogel, ac yn llechu yn dawel yn ei dŷ ei hun, gan fyfyrto ar y gawod oedd yn bwgwth disgyn arno; canys gwelodd y cymylau yn duo yn anferthol tua bôn y gwynt, ac yn ymlanw o wlaw. Nid oedd yn meddwl dianc er hyny am byth, er iddo ysgoi yr ystorm hon. Beth bynag, yr oedd yn penderfynu sefyll i ni ddiysgog o blaid y plentyn tyner, trwy y tew a'r teneu, er gorfod peryglu ei fywyd ei hun. Y mae yr anwyl Thomas Robert yn ei gyfarfod ar ol hyn, a gellid darllen yn ei wyneb a'i holl agweddiad ei fod yn ofni siomedigaeth yn nghrefydd ein harwr. Nid ydyw fel cynt; y mae bywiogrwydd ei wyneb wedi syrthio, y mae yn oeraidd yn ei ffordd, yn troi ei olygon draw, ac ar brydian yn edrych mor ddelffaidd â phe buasai ei feddwl wedi ei gipio i ryw blaned arall, tra yr oedd George yn sefyll o'i flaen, ac yn amddiffyn y plentyn yn ngwyneb yr holl Ysgrythyrau. Y mae ein hewythr Thomas weithiau yn bywhâu, ac fel yn cael nerth adnewyddol, gan ymaffyd yn awdurdod ei swydd, a dywedyd, "George, cymer bwyll, yr ydwyf yn myned yn rhy fuan; yr wyt yn marchogaeth yn rhy uchel ar gefn cefyl rhyfyg; ryfeddwn i ddim dy weled eto wedi syrthio dros dy ben i dy hen lwybrau. Nid da gweled dynion yn rhy boeth gyda phethau newyddion." "Da yw dwyn mawr serch dros beth da yn wastadol," meddai yntau; "dinystr y byd yw diod gadarn, Thomas Robert. 'Gwatwarus yw gwin; na feddwer chwîgan win. Deuwch allan o'u canol, ac ymddiolwch.'" Byddai

ein harwr fel hyn yn lluchio yr Ysgrhythrau ar ddê ac ar aswy yn ddiiddiwedd. Er fod hwn a'r llall yn ceryddu, dal yn y blaen yr ydoedd, gan gyhoeddi dirwest ar ol i'r cyhoeddwr fyned dros bobpeth arall, ac yna cilio yn llechwraidd o flaen pawb o'r cwrdd. Eithr, fel y mae yn hawdd deall, yr oedd yn anmhosibl dianc fel hyn yn oes oesoedd; canys yr oedd bwriad a phenderfyniad diysgog ymhlith yr awdurdodau i gael gafael arno, a rhoi iddo gystal golchiad ag a gafodd dyn erioed, os nid ei fwrw yn hollol allan o'r synagog. Mor gynted ag y dangosodd ei wyneb yn y gymdeithas eglwysig, dyma gyfle yn ymgynnyg, ac nid hir y bu y cyfeillion cyn achub y cyfeusdra i gael rhoi maethgen heb ei hail iddo. Yr oedd yntau yn dysgwyl mai felly y byddai cyn y diwedd hefyd; nid oedd wedi meddwl fod yn bosibl dianc yn ddigerydd byth. Ac, y mae yn fwy na thebyg, ei fod wedi gwneyd darpariadau ar gyfer yr ymosodiad.

Galwyd ef yn y blaen, a dechreuwyd ymddyddan, fel pe na buasai dim mewn golwg ond pethau crefydd a phrofiad ysbrydol; eithr yn fuan dyma ddyn go fyr yn gollwng saeth neu ddwy oddiar ei fwa, wedi ei blaenllymu yn lled bigfain, ac yn cael eu cyfeirio o ochr aswy y pulpud; a chyda hyny daew un arall o'r ochr ddeheu yn ehedeg fel mellten, nes o'r diwedd yr oedd y gwaewffyn yn trywanu ar bob ystlys. Y mae yn boeth iawn yn wir; y mae bron yn annyoddefol! Anad! Yn awr y mae y brawd Thomas Robert yn codi, ac yn gwneyd gorchest i arafu, canys yr ydoedd yn ei gwelod hi yn arwyddo ystorm gref; ac wedi sefyll i fyny a phesyachu ychydig, ynghyda chyfadwasu ei berson at anrhydedd y swydd, y mae yn llyfnhau ychydig ar lawer o bethau a ddywedwyd; o leiaf yn caisio eu gosod yn fwy crefyddol a duwiol ger bron. Ar yr un pryd, yr oedd ein hewythr yn ofnadwy o lym, canys nid ydoedd efe hyd yn hyn wedi derbyn y plentyn. Y mae yn gwneyd ymosodiad cryf ar ein harwr, gan ei gondemnio am haerllugrwydd, yn gymaint a'i fod yn grefyddwr ieuanc; ac yn dywedyd fod yr eonder yr oedd wedi ei arfer ar bethau y cysegr yn fai, o drugaredd, nad oedd wedi dygwydd ym aml yn ei gôf ef. A chan droi ei olwg at y bobl, y mae yn dywedyd, "Dyma ddyn wedi anturio i swydd bwysig yn yr eglwys, heb erioed ei awdurdodi ganddi; y mae yn cyhoeddi moddion yn y capel, yr hyn beth nad oes awdurdod gan neb ei wneyd ond yr hwn a osodwyd ganddi hi ei hun i gyflawni hyn o orchwyl. A ydyw hyn yn rhywbeth gwell na chysegrladradd?" Nid rhaid dywedyd, dybyggen, fod cydsyniad lled gyffredinol i'r athrawiaeth hon; a'r bobl o'r newydd yn dechreu danfon saethau llymion i mewn, fel ag i wneyd sefyllfa y cyfaill Siors yn bur beryglus. Eithr, wedi goddef yn hir, gwelir ef yn dechreu gosod y llawffon mewn trefn, yn codi i fyny, ac yn amneidio a'i law am osteg, ac yna yn amddiffyn ei hun yn y modd goreu y gallai. "Yn awr, gyfeillion," ebe efe, "nid chwennych eich swyddau yr ydwyf; ac nid oedd ynof y bwriad lleiaf i derfysgu nac aflonyddu heddwch neb wrth gyhoeddi y cyfarfodydd; ond ei wneyd a ddarfu i mi oblegid eich bod chwi sydd mewn swyddau yn pallu gwneyd; ac yr wyf fi yn barnu, yn gymaint nad oedd neb yn foddol i wneyd hyny, nad oedd yn ddim pechod, eithr yn hytrach yn weithred o grefydd, i mi ei wneyd; oblegid y mae yn rhaid i rywrai, deallwch, gymeryd at y plentyn hwn a'i fagu i'r Arglwydd, canys y mae yn ddiambheu, yn ol fy meddwl i, mai ei blentyn ef ydyw, a bod pawb ag sydd yn ei wrthod yn pechu yn erbyn ei Dad." Yn wir, o'r goreu, George, dyna araeth led dda; da iawn hefyd. Gyda hyn, y mae Thomas Robert yn

neidio fel hydd ar ei draed; yr oedd yn ddyn bach ystywyth a gweisgi iawn, ac yn gwaeddi allan, "George, cymer bwyll; yr wyt yn siarad gormod; yr ydwyf yn arfer gormod o eonder yn nhŷ Dduw; yr wyt yn dwyn rhyw bethau newyddion i'n clustiau; a dyweyd y gwir, y mae llawer o bethau dyeithr a pheryglus yn cael eu dwyn i mewn genyt ti ac eraill i'r Corff yn y dyddiau hyn. Y mae yn rhaid, gan hyny, i ti eistedd i lawr, a bod yn llonydd fel dyn arall, a pheidio dwyn pethau i mewn i dŷ yr Arglwydd ag sydd yn debyg o wneyd drwg a therfysg mawr."

Y mae yn wir fod George yn cynhyrfu peth, nid yn anghrefyddol ychwaith, ond y mae yn codi i wres siarad tipyn; y mae ei ysbryd yn cryfhâu nes ydyw mewn hwyl ymddyddan ar y mater. Tafodd ei law y pryd hwn yn hynod rasol, pan yn ateb drosto ei hun ger bron Thomas Robert; pe buasai Demosthenes yno, braidd y gallasai wneyd awgrym mwy boneddigaidd. "Thomas Robert," ebe efe, "yr ydych yn dyweyd am ddwyn pethau dyeithr a drwg i mewn i'r eglwys; ond pa ddrwg y gall y plentyn hwn wneyd? Nis gall hwn wneyd drwg i neb, ond lles i bawb. Nid wyf fi yn ceisio dyfod â dim arall i mewn ond y plentyn dirwest, ac yn dymuno arnoch chwi a phawb oll ei dderbyn. Yn awr, gyfeillion, yr wyf fi yn ceisio lle i'r plentyn hwn yn y *society*, a chwithau yn pallu ei dderbyn. Derbyn-iwch y plentyn. Gwrandewch, hawyr; ni wna y plentyn hwn niwed i neb o honoch mwy na'u gilydd, eithr lles gwirioneddol i bob dyn byw. Gadewch gan hyny i'r plentyn tyner a gwan ddyfod i mewn; rhowch le yn y tŷ iddo ar brawf, fel y gwneir â phawb eraill, ac os â yn afreolus, trowch ef allan y pryd hwnw." "Ust! George!" ebe rhywun yn lled fursenaidd, "peidiwch a cholli yn eich tymherau; nid oes eisieu eich natur ddrwg chwi yma." "Colli yn fy nhymerau yn wir," meddai yntau; "nid wyf fi yn colli dim yn fy nhymerau, eithr zel yn achos y plentyn sydd yn ennyn fy nghorff a fy ysbryd hefyd. A wyddoch chwi beth? yr ydych chwi wedi derbyn dau o blant y ddraig i'r eglwys hon, ac yn eu meithrin yn dyner iawn gyda'r parch mwyaf hefyd er ar yr un pryd yr ydych yn gwrthod y plentyn hwn fel un peryglus i gymdeithas." Gwarchod pawb, George! mor wired a'ch bod yn fyw yr ydych wedi doddi eich bys yn nhwll y cacwn, yr ydych wedi tynu haid am eich pen. Dacw hwynt yn codi ar unwaith, fel pe baent wedi gwylltio wrth y gair hwn, "Yr ydych wedi derbyn dau o blant y ddraig i'r eglwys hon, ac yr ydych yn eu magu a'u meithrin ynddi." Dyna ddau neu dri ar eu traed wrth yr ochr aswy i'r pulpud; dyna chwech neu saith ar yr ochr dde, ie, rhagor; y mae bagad wedi codi o flaen *seat* yr Hafod, a phob un â'i gleddyf noeth yn ei law. Oni buasai i Thomas Robert fod yn llygeidiog fel arfer, a neidio i'r adwy, gallasai fod yn bur ddiffaeth. Eithr o barch i'r brawd Roberts, y mae pawb yn ufuddhâu i eistedd i lawr am ychydig, tra y mae efe yn gwneyd ymholiad pellach ynghylch y cyhuddiad gwarthus yn erbyn yr eglwys. Ar ol cael ychydig ostep, a'r ysbrydion fel pe byddent wedi eu rhoi i lawr ac ymlonyddu am ryw gymaint, y mae ein hewythr Thomas, yntau, yn ceisio bod yn bwylllog ac araf, i'r dyben o fyned at y gorchwyl mewn agwedd deilwng, ac eistedd yn weddus mewn barn. Er hyn oll, y mae yn amlwg i bawb ei fod yn teimlo yn ddwys; yr oedd yn ormod o beth i'w gelu yn hollol; y mae yn methu gwneyd hyny, canys y mae yn troi ei ben mewn ffordd arwyddocaol iawn, yn tynu ochenaid brudd, megys o ryw ddyfnder anadnabyddus, yn taro ei law ar ei ochr aswy, ac yn pesychu amryw weithiau, cyn dywedyd dim. Eithr

cyn hir y mae yn dechreu siarad gyda phwyll ac arafwch teilwng i'w swydd, gan ddymuno ar George feddiannu ei hun, ac ystyried natur ei ymadroddion; canys gobeithio yr ydoedd mai llefaru â'r tafod a wnaeth yn mhoethder ei ysbryd heb ystyried, ac y byddai yn dda ganddo gael cyffe i wneyd esgusawd ger bron y cyfeillion, a syrthio am ei fai. "Ti weli, George," meddai, "fod y cyhuddiad yr wyt ti wedi ei wneyd yn erbyn eglwys Dduw yn ofnadwy o haerllug; sef ei chyhuddo o dderbyn dau o blant y ddraig, a'u magu o fewn ei magwrydd. Pwy erioed a glywodd y fath beth a hyn o'r blaen? Mi a wn am danaf fy hun, ac yr wyf yn meddwl y gallaf ddyweyd dros yr holl frodyr, nad ydym yn gymaint cyfeillion i'r ddraig ag y cymerem ddau o'i phlant i mewn i'w magu yn ein plith. Gobeithio nad wyt tithau, George bach, yn meddwl mor isel am eglwys Dduw, ond yn unig i ti ddygywydd dyweyd rhywbeth yn nghynhyrfiad y foment; am hynny syrthia i lawr, a chydnebydd hynny ger bron y cyfeillion." "Y fi," meddai ein harwr, "na wnaif byth, Thomas Robert! yr wyf fi yn dyweyd y gwir; yr ydych yn magu dau o blant y ddraig yn yr eglwys hon, ac yn gwrthod y plentyn hwn, ac yn ei dafu dros y drws." "Taw, George," ebe Thomas, yn lled gynhyrfus; y mae ysbryd yr hen ŵr yn twymno; y mae ei benderfyniad i gadw yn bwylllog wedi ei lwyr adael, ac y mae yn herio George i brofi ei gyhuddiad—fod y cyfryw blant yn cael eu magu rhwng muriau yr hen Ddyffryn. Nid llawer o blant, se allai, oedd yn cael eu magu yn yr eglwysi ychwaith yn y dyddiau hynny—llai nag a fuasai yn ddymunol, y mae yn ddiog tebyg, chwaithach plant o'r natur hyn.

I brofi y cyhuddiad, y mae George, wrth gwrs, yn ymbarotôl, ac yn gosod ei berson mewn ryw fuffr wahanol i'r cyffredin. Y mae fel pe bae yn cymeryd mwy o afael ar dir, yn gosod ei hun i sefyll mewn agwedd gwron, yn caud ei ddwrn fel pe buasai rhywun o'i flaen oedd ar gael teimlo ei bwysau; yn gwasgu ei ddannedd ynghyd, fel yn yr amser y byddai yn gollwng ergyd at dalcen ei elyn, gan benderfynu y mater yn y ffordd hono. Yn yr agwedd hon y safai o flaen y blaenor, ac a ddywedodd, "Thomas Robert, gwrandewch; nid gwaith anhawdd, deallwch, yw profi y cyhuddiad yr wyf fi wedi ei wneyd fod dau o blant y ddraig yn cael eu codi yn yr eglwys hon, a gwae neb a ddywedo yn eu herbryn. Plentyn y ddraig yw Cyfeddach, a phlentyn yr hen ddraig yw Meddwdod, a thyma blant sydd yn cael eu magu yn yr eglwys hon, ie, ac yn eglwysi Cymru a Lloegr hefyd. Dyma blant ag sydd yn cael y tynerwch mwyaf, yn enwedig y plentyn Cyfeddach; y mae y plentyn Meddwdod, y mae yn wir, yn cael ychydig o'i geryddu weithiau, ond yn bur dyner. Am y plentyn Cyfeddach, yr ydych yn amddiffyn hwnw nerth braich ac ysgwydd. Y mae eistedd yn eisteddfâ y gwatwarwyr yn y tafarn dai yn bechod, cofiwch, ac yn arwain i ddystryw. Y mae eistedd yn nghyfeddach y gwin yn arweinydd sicr at feddwdod cyhoeddus; a'r rhan amlaf, yno y mae yn terfyuu hefyd. Gwae sydd yn gyhoeddedig yn y Bibl uwch ben y rhai ag sydd yn eistedd wrth y gwin, ac yn yfed diod gadarn. Dyma y plant sydd yn gwneyd drwg i chwi; eithr am hwn, y plentyn Dirwest, ni wna hwn ddrwg i neb. Syr John Barleycorn sydd wedi gwneyd drwg i'r Corff, Thomas Robert, ac nid y plentyn hwn; ac se wna Syr John a'r *family* fwy o ddrwg eto, os gwnawn eu croesawu. Allan â Syr John a'i holl dylwyth, a derbyniwch y plentyn hwn yn eu lle. Ni wna y plentyn Dirwest ddrwg i neb, eithr lles i baw; y mae yn llefain ar eich hôl, a'i leferydd ydyw,

'Deuwch allan o'u canol hwynt, ac ymddidolwch, a mi a'ch derbynias chwi.' Gwrandewch ar ei lais ef, ac nid ar leisiau ac ysgrechfeydd mellidgedig plant yr hen ddraig." Yn awr y mae yn agor ychydig ar ei siaced, ac yn oedrych i mewn i'w fynwes, ac yn dywedyd, "Mi glywaf lais y plentyn o fewn fy mynwes yn awr; y mae yn llefain, ac yn wyllo yn chwerw, fel Moses gwynt yn y cawell lawfrwyn; ac iaith ei ddagrau ydyw, 'Tosturiwch wrthyf.'" Wel, mewn difrif, George, yr ydym yn meddwl, ond i chwi ddal yn y blaen am ychydig, y deuwch yn areithiwr *first rate*; canys yr oedd pob awgrym, a phob symudiad llaw a llygad, yn areithyddol i'r pen draw. Ond dyna, gwell yw peidio rhedeg o flaen rhagluniaeth, oblegid y mae siomedigaethau go fawr wedi dygwydd o herwydd hyny lawer gwaith; gwell yw aros nes y bydd hi yn dadblygu ei dybenion. Yr ydym yn meddwl yn wir, serch hyny, fod defnyddiau areithyddol yn ein harwr, ac y daw i ddysgleirio, os nid i orddysgleirio, ar y *platform* yn y man. Mor dueddol yw dyn i fwyta ffrwyth anaddfed, yn rhywfodd; ac y mae fel pe bae yn anhosibl gwrthsefyll y brofedigaeth. Er hyny, gadewch i ni geisio myned rhagom eto, a gwneyd y goreu o'n ffordd, tra y mae Caroline yn ddystaw. Y mae cael taw ar dasod Caroline yn fwy o help tuag at fyned yn y blaen, nag y mae llawer o bobl yn feddwl. Aroschw, braidd na thriodd ein troed; buom yn awr o fewn ychydig i droi i ryw groesffordd a'i cholli hi; ond chwareu teg! nid oedd dim bai ar Caroline y tro hwn, y mae yn gyfiawn i bawb gael tegwch. Ie, dan gofio, ynghylch y plant yr oedd y siarad, onidè? Plant y ddraig a phlentyn dirwest. Wel, fe fu cryn siarad, yn ôl ac yn y blaen, ynghylch y plant am amser hir, yn nghanol awelon lled ystormus ar brydiau, eithr nid oedd ond gobaith gwan am gilfach a glân iddi. Yr oedd yr hen long yn ysgwyd yn y dyfroedd dyfnion yn nghanol gwyntoedd tra gwrthwynebus; ac yn gymaint nad oedd arwyddion y galleid cyrhaedd y tir, nid oedd dim gwell i'w wneyd na bwrw angor, a "dymuno iddi fyned yn ddydd." Terfynwyd y cytarfod, gan hyny, yn nghanol nos dywell, hyd "oni wawriai y dydd, a chilio o'r cysgodau."

— Y mae yn anhawdd cadw pethau fel hyn yn ddystaw, fel y gwyyddoch; y maent yn myned allan rhwng eich dwylaw yn rhywfodd, ac nid oes dim gwell i'w wneyd am a wyddom ni o dan y fath amgylchiadau, na gadael iddi, fel y dywedir; oblegid nis gwnawn y peth yn well wrth beidio gadael iddi; o ganlyniad, y mae yn well ac yn llai traferthus i *adael iddi*. Aeth y sŵn allan, beth bynag, ac y mae clustiau y tafarnwyr yn derbyn ychydig o hono; ac, y mae yn debygol, yn cael peth braw wrth feddwl nad oedd yn anhosibl i'r holl grefyddwyr fyned yn ddirwestwyr. Pe dygwyddai pethau felly, yr oedd yn anhawdd i un dyn call, bydded yn dafarnwr neu rywbeth arall, lai na gweled y byddai hyny yn debyg o effeithio i raddau ar "obaith yr elw."

Ryw ddiwrnod, y mae tafarnwr cyfrifol yn danfon am yr arwr Siôr, gyda'r dyben yn ddiau o'i rwydo, rhag ofn effeithiau annymunol ar y fasnach. Aeth yntau, heb wybod beth oedd y neges; y mae yn ddigon tebyg fod ein gwron wedi gobeithio ei fod yn myned i gymeryd mesur troed yr *inn-keeper* am bâr o fotasau. Erbyn myned yno, dyma y croesaw mwyaf yn y byd; yr oedd poppeth i'w gael heb arian ac heb werth, yn rhodd ac yn rhad. Yr oedd yn cynnyg *gin*, *rum*, *brandy*, *cwrw*, *portier*, a phob peth o'r natur—rhy faith eu henwi—heb ddim i dalu, ac yfed cymaint a ewyllysid. Ac nid ei gynnyg yn y cwpbwrdd, fel y dywedir, ond dyfod âg ef i ben y ford. Y mae yn ddigon tebyg fod gŵr y tŷ, yr hwn a adwaenai

George yn burion, wedi meddwl fod yn anhosibl iddo wrthsefyll y demtasiwn danlyd hon. Ond efe a gamsyniodd o ddigon, ac y mae yn ddigon tebyg y bydd yn dda genych glywed hyny. "Mi a aethum," ebe efe, "a'r plentyn gyda mi tuag yno, yr hwn, pan welodd y ddarbodaeth ar y ford, a ymaffodd yn fy ngwddf, ac a lefodd nerth ei gég, 'O! gochel! y mae yna ryw beryglon mawrion!' Yr oedd yn troi ymaith; nid edrychasai er dim ar yr *Holland Gin*, y *French Brandy*, y *Dublin Porter*, na'r *Home brewed Ale* ychwaith. Y mae'r plentyn yn myned i wylo yn chwerwach; y mae yn llefain fel pe byddai y gyllell yn ei galon, yn ymaffyd am fy ngwddf ac yn dymuno arnaf ddyfod allan yn union; fod nid yn unig eu hyfed, eithr fod hyd yn nód eu harogl, yn angeuol iddo ef. 'Deuwch allan, George Heycock,' meddai, onidé yr wyf yn mogi, canys nis gallaf gael un anadliad yn nghanol yr ysbrydion drwg hyn.' Edrychodd y tafarnwr yn sarug wrth glywed y llais newydd hwn, a gofnodd yn sarug, Beth yw hwna sydd genyt, fachgen? Beth wyt yn cario bwystfilod fel yna yn dy fynwes? Rhwng edrychiad sarug y tafarnwr, ac awyr afiachus y lle, yr oedd ysgrechfeydd y plentyn yn cynnyddu, a'i ddymuniad am awyr agored a naturiol yn cryfháu. Ebe'r tafarnwr, yn sarug, 'Os na ddeni di yma heb yr ysgerbwdd plentyn yna sydd genyt, aros gartref; dyna ddiwedd ar hyny.' 'Ah, Mr. —,' ebe minnau, 'yr wyf wedi penderfynu nad áf byth i un man bellach ond lle y cáf gyflawn roesaw i'r plentyn hefyd. Eithr cofiwch, syr, nid yw y plentyn hwn yn gallu yfed gwirod, gwin, na diod gadarn, canys Nazaréad ydyw o groth ei fam; ac os na fydd yn ngwlad y dwfr, y laeth, a'r awyr iachus, y mae yn methu anadlu; a pha ryfedd ei fod yn gwaeddi pan y bydd bywyd yn chwareu? Chwi waeddech eich hunan, syr, a bod yn siŵr i chwi, pe bae eich bywyd mewn perygl. Gwlad yn llifeirio o laeth a mêl yw ei wlad enedigol ef, syr; ac nid yw yn iach byth, oddieithr iddo gael anadlu awyr cartref. Y mae yn poeni i farwolaeth os arogl frág neu hopys, ac yn llesmeirio yn union o fewn canllath i arogl *gin*, *brandy*, *rum*, a'r holl ysbrydion arian eraill. Ac am seleri a darllawdai, gyda'u harogl anhyfryd, ar ol pob *slip slop*, nis gall fodoli yn agos iddynt o gwbl.'

Gan gymaint y cyfnewidiad oedd yn ymddangos yn ymarweddiad ein harwr, daeth yn fuan i sylw parchus ymhlith mawrion y gymydogoeth, ac etholwyd ef yn heddegidwad; ac nid bychan oedd ei ddylanwad yn y swydd gyfrifol hon. Yr ydoedd fel brenin mewn llys ymysg rhyw fân gwnstebli. Yr amser a ballai i ni fyned dros ei holl orchestion pan yn gweinyddu y swydd hon o dan y Llywodraeth; eto gellwch feddwl yn hawdd ei fod yn hyn, fel pob peth arall, yn dangos talent a medrusrwydd ymhell y tu hwnt i'r cyffredin. Yr ydym yn cofio ei glywed yn adrodd am ryw ddyd wedi gwneyd *cwrw bach*, fel ei gelwid; neu, fel y mae rhai gwledydd yn dyweyd, *cwrw gwawdd*. Nis gwyddom yn iawn cwrw beth yr ydych chi yn y Gogledd yn dewis ei alw; beth bynag, dyna ydyw, rhywun yn darllaw brŵd o ddiod yn ei dŷ, ac yn ei werthu heb drwydded. Yr oedd llawer o hyn yn myned yn y blaen yn y dyddiau hyny. Byddai yr arferiad hwn nid yn unig yspellio y Llywodraeth, eithr hefyd yn go ddinystriol i foesau y wlad; canys byddai fwy o rialtwech y rhan fynychaf mewn cysylltiad â chwrw bach nag ág un cwrw arall. Bu cryn gynnalïaeth, y mae yn debyg, ynglŷn a'r cwrw bach hwn hefyd, hyd nes i'r hanes ddyfod i glustiau un o'r ynadon ag oedd yn byw gerllaw i'r gymydogoeth. Hwn, wedi clywed, a gymerodd ei geffyl, ac wedi galw yr heddegidwaid at eu gilydd, a aeth tua thŷ y gŵr. Dyma

Siôr, gŵr y tŷ, yn cymeryd y traed, ac yn cilio fel hydd i'r goedwig gyfagos, a Bety, druan, yn syrthio ar ei phenliniau, yn lledu ei dwylaw, ac yn ymbil am drugaredd y waith hon yn unig, gan addaw, ond cael gollyngdod y tro hwn, beidio adnewyddu y trosedd. Yr ynâd parchus a waeddai allan, "Nid oes dim trugaredd i gael, yr ydym wedi dyfod yma i weinyddu cyfiawnder, nid trugaredd. Yr ydych wedi cael digon o drugaredd er ys llawer dydd, y mae eisieu edrych bellach a all ychydig o gyfiawnder wneyd lles i chwi." Wedi chwilio y tŷ am gwrw, a chael casgen yn llawn o hono, y mae yr ynâd yn gorchymyn gymeryd trosol a tharo talcen y gasgen i mewn, yr hyn a wnaethpwyd, fel y rhedodd yr holl gwrw allan ar hyd y parth. Erbyn hyn, yr oedd y cwnstebli cuwch eu syrâu mewn diod frâg. "Yr oedd y plentyn," ebe ein harwr, "gyda mi y pryd hwnw, a phan welodd y cwrw yn rhedeg ar hyd y llawr, y mae yn cydio â'i ddwy fraich am fy ngwddf, ac yn dywedyd yn ddystaw yn fy nghlust, 'O fy nghyfaill George, dyma dro gogoneddus; gwelais chwi lawer gwaith o dan draed Syr John, ond dyma ef o'r diwedd o dan eich traed chwi. Buddugoliaeth! dyma goncwest o'r diwedd.' Mi deimlais fwy o gynhesrwydd at y plentyn nag erioed; cofeidiais ef yn fy mreichiau, cusenais ef eilwaith ac eilwaith, ac aethum adref heb dderbyn y niwed lleiaf, er bod cuwch â fy syrâu mewn cwrw cryf. Y mae yn well bod yn y cwrw na'r cwrw ynof fi. Panderfynais wrando ar lais y plentyn o hyn allan, a gwnaethum ammod i fyned âg ef yn fy mreichiau i bob man. Byddai blys ac yntau yn rhesymu yn fynych, ac yn ymrafaelio yn chwerv weithiau, eithr fy mhlentyn anwyl oedd yn cario'r dydd o hyd; byddai Mr. Blys yn gorfod cnoi ei dafod a thewi y rhan fynychaf, a'r plentyn yntau yn gorfoleddu ac yn gwaeddi, 'Diolch! y mae Syr John i lawr, a'r hen *fruiser* i'r lân.' Yn fuan wedi hyn, aethum i dipyn o daith, a'r plentyn gyda mi o hyd, deallwch; oblegid ni chawn fyned i unman hebdo. Y tafarn cyntaf y daethum ato oedd *Pass by*; dyna'r arwydd oedd ar wyneb y tŷ. Yr oedd yn dygwydd bod yn ddiwrnod gwresog, a chryn syched arnaf, ac o herwydd hyny o dan gryn demtasiwn i droi i mewn i gael dracht. Meddyliais o dan y cyfryw amgylchiadau y buasai dracht o *borter*, a gadael ar hyny, yn sicr o fod o les. Yr oedd Mr. Blys yntau yn dechreu siglo ei gwt, ac yn llawenhâu yn ddirfawr; yn codi ei fys, ac yn cymhell i mewn â'i holl egni. Yr oeddwn ar droi i fyned i mewn, pan yn ddisymwth y gwaeddodd y plentyn yn fy mynwes, '*Father*, cerddwch yn y blaen, y mae rhyw ddrwg yn sicr o fod i mewn; cymerwch gynghor yr arwydd sydd ar y tŷ, *Pass by*. Yn y blaen â chwi, cewch ffynnon loew heb berygl ymhen ychydig.' Yn y blaen yr aethum, ac felly siomwyd Mr. Blys y waith hon. Eithr cyn taro wrth y ffynnon, dyma arwydd arall yn dyfod i'r golwg, ac arni yn ysgrifenedig, mewn llythyrenau mawrion, *Welcome to town*. Wel, gallwn fyned i mewn yma, dyma le tawel a hyfryd, lle y cyfannedda ymgeleddwyr dynoliaeth, y rhai sydd yn cadw tŷ yn agored i'r unig ddyben i ymgeleddu dyeithriaid, a chroesawu y lluddedig i mewn, i weinyddu adfywiad iddynt. Wele, y plentyn eto yn dechreu anesmwytho, ac yn fuan yn rhoi bloedd, gan ddywedyd, 'Gochel, gochel, ar dy fywyd!' 'Bachgen!' meddwn wrtho, 'pa beth sydd arnat? beth yn y byd yr wyt yn ei ofni? a wyt ti ddim yn gweled yr arwydd yma, *Welcome to town*? y mae y bobl hyn yn ymddangos fel â'u breichiau ar led, yn barod i dderbyn ac ymgeleddu y rhai lluddedig ar eu taith; nid oes berygl yn y byd droi i mewn yma i dori ein syched,

a chael ychydig o seibiant.' 'Gochel,' ebe'r plentyn o hyd, gan ymafnyd â'i ddwy fraich am fy ngwddf. 'George Heycock anwyl,' meddai, 'y mae llawer o bethau yn edrych yn deg oddiallan, fel bedd wedi ei wŷngalchu, eithr o fewn yn llawn esgyrn y meirw. Iê, gwelsoch lawer un â gwên ar y wyneb, ac wedi y cwbl, cleddyf yn y galon. *Welcome to town*, yn wir! pe baet yn myned i mewn yn awr, a gwario punt gyfan, cei dy droedio allan fel ci y fynyd darfyddo dy arian. Dyna y fath *welcome* sydd i gael yno. Paid a myned i mewn gan hyny, eithr tyred yn y blaen, canys y mae'r ffynnon loew heb fod ymbell iawn bellach.' Yn y blaen yr aethum; eithr cyn dyfod at y ffynnon, dyma arwydd arall yn dyfod i'r golwg, ac arni yn argraffedig mewn llythyrenau ardderchog, *The Angel*. Wel, dyma'r fan i orphwys; wele ni wedi dyfod at angel o'r diwedd. Yr wyf yn meddwl bod yn nghymdeithas myrddiynau ryw ddydd, eithr cyn myned ymhellach, mi âf i mewn i weled yr hen frawd hwn wrth fyned heibio. Lle hyfryd yw yn ddiau i dreulio awr neu ddwy gydag ef yn ei babell heddychol. Wel, yn awr ni a awn i mewn i gael gwled gwyneb y sant am unwaith, ac fe allai y cawn ryw genadwri rasol a chysurlawn, er ein cynnorthwyo i fyned yn y blaen ar daith ein pererindod. Dyma'r plentyn yn rhoi ysgrêch, ac yn gwaeddi allan, 'Paid, paid, fy nghyfaill anwyl; canys y mae angelion drwg yn gystal â rhai da yn bod; ac os drwg, drwg ofnadwy ydynt hefyd; hwy a'th lusgant i angeu yn gorfforol, ac a'th losgant wed'yn. Dacw'r hen dafarnwr, edrych; y mae ei ben yn edrych trwy y ffenestr, ac yn ymddangos fel pe bae rhyw ellyll wedi ei lusgo nes y mae yn hanner hurt, ac wedi llosgi ei drwyn megys â phocer coch; y diwedd fydd, hwy losgant yr holl gorff yn fuan yn ulw, a thyna derfyn arno. Tyred yn y blaen *eto*, *Heycock*, canys angelion dieflig sydd yma; hen ysbrydion melldigedig moch y Gadareniad; unwaith y gollyngir hwynt i mewn i grëadur, y maent yn ei wneyd yn ffrochwyllt, heb na synwyr na rheswm, ac yn ei yru yn gyn-ddeiriog dros y dipyn i ganol y rhyferthwy berwedig.' 'Wel, rhag ofn syrthio i blith ysbrydion drwg, mi gymeraf dy gynghor *eto* y tro hwn, a myned yn y blaen goreu y gallaf.' Wedi teithio ychydig, daethom i groesffordd, ar yr hon yr oedd tŷ mawr, ac ar ei dalcen lun cadnaw yn rhedeg o flaen chwech neu saith o gŵn hela, yn ymestyn ei oreu; ac o danynt yn ysgrifenedig, *The Fox and Hounds*. Sefais a dychrynais. Er hyn oll, yr oedd y syched wedi cynnyddu gymaint, hyd nes yr oedd bron yn annyoddefol; a Mr. Blys hefyd yn cymhell i mewn â'i holl egni, nes yr oeddwn bron wedi dyfod i'r penderfyniad i droi i mewn, er yr holl beryglon ymddangosiadol. Eithr y mae y plentyn yn dychrynu, ac yn gwaeddi yn fwy nag erioed, 'Fy nhad! fy nhad! gochelwch, cerddwch heibio mor gynted byth ag y medroch, canys y mae peryglon ofnadwy yma. Edrychwch! O arswyd! y cŵn, y cadnaw! pa beth wyt ti ymhlith y crëaduriaid ysglyfaethus yna? tydi, Heycock bach; ddim ond tipyn o *geiliog* y *gwair* ymhlith y cŵn a'r llwynogod; ah! hwy a'th larpiant mewn moment. Edrych, dacw Mr. Fox. O'r filain! y mae wedi lladd yr holl iair a cheiliogod o gwmpas y wlad, iê, y gwyddau, a'r cwningod hefyd; ac y mae wedi gollwng gwaed wŷn diniwed wrth y cannoedd; a pheth yw ceiliog y gwair—y *grasshopper*—bach rhwng dannedd y fath fwystilod rheibus? Tyred yn y blaen ychydig i'r cae glas acw sydd yn awr yn dyfod i'r golwg y tu hwnt i dro yr hewl; y mae ffynnon loew yno, lle y cei dori dy syched mewn llonyddwch perffaith, heb na braw na pherygl. Iê, cei yfed, a neidio

o laswelltyn i laswelltyn, a chanu ambell dôn yn dy drefn dy hun ; cei fod yn frenin ardderchog a grymus ymysg y glaswellt ; ac fe gaiff y blodau peraidd fod yn orseddau i ti eistedd arnynt, fel y byddi yn fwy ardderchog na Solomon yn ei holl ogoniant. Ha ! mor beraidd y byddi yn canu ar dy sedd, ac yn ysgwyd dy wialen yn yr awyr lās, gan ddywedyd,

“ I am monarch of all I survey,
My right there is none to dispute ;
From the centre all round to the sea,
I am lord of the fowls and the brute.”

Rhyfeddol byth, mor aml y mae'r tafarndai yn y wlad hon ! Cyn dyfod at y cae, yr hwn oedd yn awr yn y golwg, dyma dŷ llwyd o'n blaen, ac arno yn ysgrifenedig, *The Trap*. Trap llygod ydoedd, oblegid yr oedd dau neu dri o lygod ynddo ; ond ebe'r plentyn, ‘Er mai llygod sydd ynddo, y mae hwna yn ddigon cryf i ddal llewod ac elephantiaid, chwaithach tipyn o geiliog y rhedyn bach fel tydi. Yn y trap yna y daliwyd Noah a Lot, ie, a channoedd a miloedd o'r cewri cryfaf ; ac y mae y rhan fwyaf o lawer o honynt wedi marw ynddo. Tyred yn y blaen, y ceiliog bach, a chei lamu o laswelltyn i laswelltyn, yn dy elfen iachus dy hun ; a thi fydd y brenin ymhlith y glaswellt ; a chei deyrnasu arnynt oll, o'r brig i'r bôn.’”

Fel hyn yr oedd ein harwr yn myned yn y blaen, dan fagu y plentyn, nes yn fuan yr ymgryfhâodd, ac y daeth yn ddyn galluog, yn gallu cario ei noddwr Siôr yn ddyogel trwy holl beryglon bywyd. Ymgryfhâodd y plentyn o ddydd i ddydd, a daeth ceiliog y rhedyn i ganu yn beraidd, nes yr oedd porfeydd yr anialwch yn adloni, a'r holl goedydd cyfagos yn curo eu dwylaw. Nid rhaid dywedyd, dybygem, iddo fod yn ddirwestwr pur ar ol hyn—yn Nazarëad glân gloew, heb gyffwrdd â gwin na diod gadarn, oddieithr, deallwch, ychydig yn feddyginiaethol, fel y dywed yr ardystiad. Nid hir iawn, fel y mae naturiol i feddwl, y bu cyn ymddangos yn gyhoeddus o flaen y byd yn y cymeriad o areithiwr dirwestol. Yr oedd hyn yn beth i'w ddysgwyl ; oblegid yr oedd yn anmhosibl i ddyng o'i hynodrydd ef lai na bod yn amlwg ymhob man y byddai, a chyda phob peth y gosodai ei law arno. Y mae yn wir fod llawer yn areithio na feddyliodd neb erioed ond hwy eu hunain fod ynddynt gymhwysderau at y fath orchwyl, a llawer eraill yn areithwyr cymedrol yn dyweyd tipyn yn burion, ac fe allai yn llesol ; eithr y mae ein harwr yn rhywun nad ydyw yn troi mewn dosbarthiadau felly. Nid *stump orator* oedd efe ; eithr un yn tori llwybr newydd iddo ei hun ; yn wreiddiol ei syniadau, ac fel efe ei hun mewn doniau ; o ganlyniad yn wrthddrych sylw ymhob man. Yr ydym yn meddwl y gellir ei alw bellach yn areithiwr cadeiriol, canys byddai yn gyffredin yn cael ei ethol yn y cyfarfodydd yn gadeirydd ; a llanwai y gadair gyda y peth mwyaf urddasol a welsoch erioed. Nid pawb o'r rhai sydd yn areithwyr, ac yn areithwyr gweddol dda hefyd, a ddyrchefir i'r gadair ; ac os dygwddai hyny weithiau mewn anghen i ambell un, yr oedd fel ymweliad angel, “*few and far between*.” Eithr yr oedd llwybr y gadair fel yn agored o'i flaen ef ; ac fel pe buasai natur yn estyn ei bys ato, ac yn dyweyd wrth y gynnulleidfa, ‘Dyma eich brenin, etholwch ef, canys eneiniais ef â'm hōlew sanctaidd. Yr wyf wedi gwario mwy o ddoniau arno na dynion yn gyffredin.’ Pwy all wrthsetyll natur ? A pha beth dâl cablu natur o herwydd iddi wneyd un llestr i barch ac arall i anmharch ? gwneyd un at wasanaeth uwch, ac arall at wasanaeth is ? Peidied y troed a chenfigenu am nad ydyw lygad,

eithr gweithied pob un yn y lle y trefnwyd iddynt gan natur. Ond yr oeddym yn dyweyd fod y brawd Siôr nid yn unig yn areithiwr, eithr hefyd yn *areithiwr cadeiriol*; ac y mae yn fwy na thebyg y gwnaem anghyfiawnder âg ef heb ddywedyd ei fod nid yn unig yn gadeirydd rhagorol, eithr, yn anrhydedd hyd yn nôd i'r gadair yr ydoedd yn eistedd arni. Y mae llawer, fel y gŵyr pawb, wedi dygwydd eistedd yn y gadair ar rai achlysuron, yn teimlo eu hunain byth wed'yn yn bur anrhydeddus o herwydd y dygwyddiad hwnw, gan ystyried y gadair yn anrhydedd i'w personau rhagllaw. Eithr pe gwelsech ein harwr yn eistedd yn y gadair, nis gallasech lai na meddwl ar unwaith fod hyd yn nôd y gadair ei hun yn falch o'i sefyllfa; oblegid yr oedd y cadeirydd anrhydeddus fel yn codi y gadair i fri ac anrhydedd. Yr ydym yn cofio eistedd mewn cadair mewn tŷ gweddol gyffredin, ac nid oedd y gadair ychwaith yn ryw anghyffredin yn y byd, oddieithr ei bod yn ymddangos yn dra henafiaethol; eithr cododd i ryw fri rhyfeddol ar unwaith yn ein meddyliau pan y dywedwyd wrthym, "Fe eisteddodd Peter Williams, Charles o'r Bala, ac Evans Llwynffortun, ugeiniau o weithiau yn y gadair yna." Gan fod y cyfryw ddynion anrhydeddus wedi bod yn eistedd ynddi yr oeddem yn teimlo fel pe buasai eistedd arni yn ormod o anrhydedd i ni. Wel, pan eisteddai y gwron George yn y gadair yn un o'r cyfarfodydd, gallwn ddyweyd yn ddibetrus ei bod yn eithaf llawn, ac nad oedd lle i neb arall ynddi. Gallasech feddwl unwaith yr eisteddai efe, fod y gadair yn gwaeddi allan yn ei hiaith, 'Digon bellach!' Yn awr, wedi eistedd i lawr yn y gadair, yr oedd ger eich bron berson go lawn, yn hytrach yn dew; yn hardd a lluniaidd; oblegid wedi eistedd, yr oedd y goes, yr aelod anhardd, megys yn cael ei chuddio o'r golwg. Edrychwch, y mae wedi eistedd; dyna *fodel* o foneddigeiddrwydd a graslondeb; pob awgrym o'i eiddo sydd yn gorchymyn parch oddiwrth y gwyddfodolion, oddieithr, fe allai, ryw ychydig ag oedd wedi cael eu harwain i feddwl mai hwynt-hwy a ddylasai fod yn ei le. Edrychwch unwaith eto i gyfeiriad y gadair; y mae yn anhawdd peidio edrych; dacw gorff gymaint ag sydd yn y golwg yn awr yn nesaf peth at berffeithrwydd; mewn difrif y mae yn dra lluniaidd. Y mae yr ysgwyddau yn llydain, y gwddf o hŷd cymedrol, y pen yn fawr, y talcen yn llydan ac yn uchel, fel y mae yn anhawdd gwybod pa fai y gallai y *phrenologist* mwyafradffus ganfod ynddo. Wele hefyd yn y pen acw ddau lygad mawr, yn dysgleirio fel gwydr gloew, ac yn arwyddo craffder, gwybodaeth, a llon'd calon o garedigrwydd a natur dda. Yr ydym yn meddwl y cyttuna ein darllenwyr â ni mewn meddwl, mai dyma y fath a ddylai fod mewn cadair, ac nid ryw grëadur y byddai y gynulleidfa mewn profedigaeth i'w dafu yn bendramwnwgl i'r llawr.

Yn wir y mae yn rhaid ymdrechu rhag crwydro ymhell oddiwrth y pwnc hefyd; ar yr un pryd, nid ydym yn meddwl ein bod wedi crwydro yn afresymol yn awr ychwaith; canys dywedyd yr oeddym a'n ymddangosiad ein harwr o flaen y byd fel areithiwr, ac nad ydoedd yn seren o faintioli bychain yn y cymeriad hwnw. Y mae rhagor, fel y gwyddoch, rhwng seren a seren mewn gogoniant; er hyn oll, y mae i'r sêr o faintioli bychain eu lle a'u gwasanaeth, fel nad rhaid iddynt fod yn ffordd eu gilydd. Fod ein harwr o syniadau gwreiddiol, ac yn areithiwr hyawdl a thalentog, yr ydym ni ein hunain yn dystion, os caniatêir hefyd ein bod yn deilwng i roddi barn; y mae hyn yn bwnc y dylid ei ystyried hefyd. Beth bynag, gallwn ddyweyd, heb fod hyn yn arogl ymchwydd, ei fod felly yn ein barn ni. Yr

ydyd yn cofio mai wrth ei glywed yn areithio y cawsom ni yr adnabydd-iaeth gyntaf o hono, ac y tynwyd ein sylw i'r fath raddau fel ag i wneuthur ymholiad pwy a pheth ydoedd. Yr oedd llawer yno y noson hono yn areithio, eithr nid ydyd yn cofio yn awr pwy oeddynt, na pha beth a ddywedasant; er y mae yn ddigon tebyg eu bod yn dyweyd yn dda iawn. Eithr yr ydyd y fynydd hon fel pe baem yn gweled arwr ein hysgrifau hyn o flaen ein llygaid, ac yn cofio yn burion lawer iawn o'i eiriau. Y mae peth felly, dybygem ni, yn dyweyd llawer iawn; canys paham y bydd rhyw ddyd ymysg deg neu ragor o areithwyr yn tynu sylw gŵr dyeithr yn fwy na phawb, heb fod rhywbeth ynddo yn wahanol i bawb? Dyna y tro cyntaf y gwelsom ef, ac oddiar hyny fyth y cadwasom ein hadnabyddiaeth o hono. Cododd i fyny yn bur sydyn, ar ganol llawr y capel, a chyn iddo ddyweyd un gair, canfyddem rywbeth ynddo yn wahanol i neb oedd o fewn y lle. Sylwasom hefyd nad ydoedd gogyhyd ei esgeiriau; a chanfyddem ef fel yn gosod ei lawffon gyda gofal mwy na chyffredin er cynnorthwyo ei wendid, ac ymddangosai fel yn pwysu ei gwman ar ei chlof. Yna, wedi amneidio yn brydferth â'i law, yn ol ei arferiad cyffredin, fel y deallasom wedi hyny, efe a ddechreuodd lesaru. Anwyl da, y fath beth rhyfedd! yr oedd pob gair fel yn gwefru'r bobl, er fod pawb eraill, er gwneyd eu goreu, yn methu gwneyd nemawr. Byddai yn afresymol dysgwyl, mewn gwaith o'r natur hwn, am yr araeth yn gyflawn; byddai yn well cyhoeddi yr areithiau ar eu penau eu hunain yn llyfr; yr unig beth ag sydd yn bosibl i ni yma wneyd yw adrodd ychydig eiriau o'r diwedd, pan yr oedd yn dyfod â'i resymeg i glo a therfyniad. Yr oedd llawer o'r araeth, yr ydyd yn cofio, yn myned i egluro fod yr arferiad o ddioddydd yn cynnyrchu blys, a'r blys hwnw, wedi unwaith ei cynnyrchid, yn anniwalledig; ac felly yr oedd y dyn mewn poen, yn fwy oddiwrth ei fagwraeth ei hun, na dim arall ag sydd yn y byd. Fe ddaeth y *tobacco* yn gystal a'r cwrw a'r gwirod o dan ei ddyrnod, fel un o bethau blys, ac nid natur; ac, er pob parch i'r myglis, nid allem lai ar y pryd na theimlo cywilydd fod yr un berthynas rhyngom ni âg ef. Mewn difrif, pan ydoedd o dan ddyrnodion dihafarch y *bruiser*, yr oeddem yn teimlo awydd cryf i wadu nad oedd yn dal yr un berthynas â'n teulu ni. "Y mae pethau yn dyfod yn flys," ebe efe, "trwy arferiad cyson o honynt, er eu bod yn wreiddiol yn hollol groes i'r archwaeth naturiol. Y mae hi yn cael ei threisio yn gyntaf, ac wedi y darostyngir hi y mae yn gaethes i'r arferiadau. Wedi i chwi gynnyrchu blys yn y natur, y mae deddfau anian yn gwanychu, blys yn cryfhau fwy fwy, nes yn fuan y gwelwch y créadur yn rhyw snghefnil, heb fod yn ddyn nac yn gythraul perffaith, eithr yn rhywbeth rhwng y ddau. Y mae y natur ddynol wedi ei gŵyrdroi o'i ffordd ei hun, ac yn cael ei llusgo fel ci wrth y cordyn, trwy holl byllau bryntion blys. Er hyn oll, y mae natur, er yn analluog i sefyll o flaen blys, yn gwrthdystio yn erbyn y cam a'r anghyfiawnder y mae hi yn ei ddyoddef. Pan y mae blys yn cymeryd y cwrw i mewn, chwart ar ol chwart, y mae natur egwan yn gwrthdystio yn erbyn y trais, trwy ei dastu allan, er mewn poen dirfawr; er nad all orchfygu, eto y mae fel y gorthrymedig yn gwaeddi. Edrychwch ar flys yn ei arllwys i mewn nes gorlwytho natur, a hithau yn ol y nerth ag sydd ynddi yn ei chwydu allan. Chwi welwch fod meddwi a chwydu yn cael eu cysylltu yn aml yn yr *Ysgrythyrau*; a phe na bae yr *Ysgrythyrau* yn dyweyd dim ar y mater, ni a wyddom mai felly y mae. Y mae treisio natur yn peri iddi chwydu, fel

plentyn yn llefain pan y mae yn cael ei guro. 'Cyfeiliornasant trwy win, se amryfusasant trwy ddioid gadarn: yr effeiriad a'r prophwyd a gyfeiliornasant trwy ddioid gadarn, amryfusasant mewn gweledigaeth, trangwyddasant mewn barn. Canys y byrddau oll sydd llawn chwydfa a budreddi, heb le glân. Yfwb, meddwch, a chwydwch, a syrthiwch, ac na chyfodwch.' Dyna hi, fechgyn, i'r dim; dyna yr agwedd y buom ninnau lawer gwaith wrth ddilyn dioid gadarn, yr hen freci ddrewllyd. Fel y mae yr Ysgrythrau yn dyweyd, y buom ninnau o herwydd yr arteriad llygreddig o yfed i ormodedd, yn chwydu, yn syrthio, ac yn ymdreiglo mewn tom a llaid, yn warth i ddyndoliaeth, ac yn wawd i gythreuliaid. O! am north i ddial ama ein dau lygad, trwy ein hysgwyddau o dau golofnau hen deml y diafol, ac i lawr â hi yn ganddryll!" Bobl fach! pe buasech yno, a gweled Heycock wedi ei weithio i fyny i'r teimlad uchaf; a'i weled yn plygu ei ysgwyddau, fel pe buasai yn myned i'w gosod o dan y colofnau ar y pryd, a'i glywed ef yn rhoi bloedd yn ngwres y cynhyrfaidau, I lawr â hi yn ganddryll! buasech yn meddwl yn ddiau fod holl deyrnas y tywyllwch yn rhoi i ffordd, ac fel yn clywed ar eich elastiau gynhwrf aruthrol, fel pe buasai maen melin yn syrthio i eigion y môr. Buasai blew eich enawd yn aefyll o dan yr effeithiau, fel pe buasai ysbryd wedi myned heibio o flaen eich llygaid. Yr oeddym yn meddwl erbyn hyn ein bod wedi cael digon, a bod yr areithiwr campus wedi dybenn ei araeth; eithr gwelem ef, wedi i'r cynhwrf ostegu ychydig, yn taflu ei law, fel yn amneidio am osteg, ac yn dywedyd, "A pheth arall, trais hefyd ar natur yw yr ysmocio yma. Edrychwch chwi bob amser ar gloriau y *boxes tobacco*, os bydd lluniau arnynt o gwbl, dygwydd nad llun chwart o gwrw fydd, a'r pibellau yn groes i'w gilydd wrth ei ochr. Y mae yr ysmocio a'r yfed yn dylwyth o'r un gymydogiaeth; y maent yn byw yn agos at eu gilydd ac yn lled gyfrinachol; i.e. y mae y naill yn cadw cwmpeini i'w gilydd ar hyd tir diffaeth y gelyn diafol. Ar yr un pryd, cofiwch, nid wyf yn dywedyd fod ysmocio ychydig yn ddrwg moesol, nid yw yn ddrwg cynddrwg â meddwi. Y mae yn briodol rhosod gwahaniaeth rhwng drwg a drwg, er hyny, pe gellid, goreu fyddai taflu y cwbl gyda'u gilydd y tu ôl i'n cefnau ar unwaith. Y mae natur yn gwaeddi allan—mewn iaith gref hefyd—na fyn hi ddim o'r mwg, eithr y mae blys yn ei threisio ac yn ei darostwng, fel y mae hi yn gorfod cymeryd ychydig o hono. Edrychwch, y mae hi yn *protestio* yn ei erbyn; y mae hi yn ei wrthod, yn ei dafu allan, ac yn cau y drws ar ei ol. Er enghraifft, dacw William yn y cornel yn ysmocio er ys hanner awr; eisteddwch gyferbyn ag ef a gwnewch sylw, a chewch wled ar unwaith fel y mae blys a natur yn rhyfela â'u gilydd. Dacw William yn rhoi y bibell yn y tân—gwnewch sylw yn awr—dacw efe yn rhoi ei choes yn ei enau, a thacw frys yn dechreu ar y gorchwyl o sugno y mwg i mewn gyda'i holl nerth; gwnewch sylw o hyd; cedwch eich llygaid yn agored ac yn sefydlog ar William. Edrychwch, er ei fod yn tyuu ei oren, y mae rhywbeth yn ei yru allan gyda mwy o nerth, i.e. yn ei yru allan yn gynt o lawer nag yr aeth i mewn. Beth sydd yna yn attal y mwg yr hwn sydd yn cael ei dynu mor felus i mewn? Beth sydd yn ei rwystro rhag cael rhyddrediad i'r cyfansoddiad? Natur sydd yn codi ei byddinoedd, ac yn rhuthro i'r porth yn erbyn y gelyn, gan ei yru ar encil, fel y mae byddinoedd yr estroniaid yn gorfod eilio." Gyda hyn, hawyr anwyl, yr oedd yr effeithiau y fath fel y mae yn haws i chwi ddirnad nag yw desgrifio; canys yr oedd yr holl bobl yn fywyd, a'r holl le yn adsain, "Clywch, clywch,

clywch." Pell iawn ydym ni rhag dyweyd dim yn anmharchus am y ffwgws, neu y myglys—beth yw ei enw yn Gymraeg?—nac am ŵyr y *tobacco* ychwaith; ac eto er chwilio am reswm i'w amddiffyn pan yr oedd y rhesymwr mawr hwn yn ei guro i lawr, yr oeddem yn teimlo anhawsdra mawr i roi ein dwylaw arno.

Ar hyn o bryd, yr ydym yn meddwl mai y peth goreu yw peidio myned ymbhellach, rhag rhoi gormod ar eich amynedd ar unwaith; ac ar yr un pryd buasem lawer ymbhellach yn y blaen oni buasai fod Caroline wedi bod yn aflywodraethus ar brydiau. Ond oddiar pan y bygythiasom *judicial separation*, y mae wedi llonyddu peth, ac fel pe bae yn fwy penderfynol i gadw gwell dysgyblaeth ar ei thafod. Wel, os bydd yn parháu i ddiwygio, yr ydym yn gobeithio y cawn deithio yn rhwydd yn y blaen bellach; ac felly ni a grefwn ganiatâd i ddybenu y bedwerydd lith yn y fan hon.

TRIDIAU YN LLANDRINDOD ETO.

(Gwel TRAEATHODYDD, Llyfr L, Rhif 1., 1848.)

"Y PETH A FU O'R BLAEN SYDD YR AWR HON.—Solomon."

FY ANWYL GAR.—Oddentu pymtheng mlynedd i'r tymmor hwn y bum i yn Llandrindod o'r blaen, yr ygrifenais hanes fy arosiad yno i ti, ac y rhoddaist tithau fy llythyr yn y TRAEATHODYDD ieuanc. Gwnaeth y llythyr hwnw y fath gyffro yn y byd llényddol, fel oni bae fod trigolion Llandrindod mor bell ar ol eu hoes yn hyn fel ymhob peth arall, y buasent yn ddian wedi rhoi "*testimonial*" i ti ac i minnau am eu *advertisio*.

Clywais fod yr hen bregethwr twym a gonest Robert Owen, Llanrwst, unwaith wedi myned i ryw Gyfarfod Misol, ac wedi cael hwyl dda iawn ar weddi yn y cynnulliad neu y gynnadledd gyntaf, ac yn union ar ol y cyfarfod hwnw, a chyn y moddion cyhoeddus, i'r hen ŵr sydyn a da droi ei gamrau yn galonog tua chartref. "I ba le yr ewch chwi yn awr," meddai rhywun wrtho, "cyn i'r cyfarfod prin ddechreu?" "O!" meddai yntau, "mi a âf adref â nghoron ar fy mhen." Felly, o ran Llandrindod, gallwn innau aros yn llonydd, a myned i'm medd, am a wn i, "â nghoron ar fy mhen." Ond, fel y gallai dy fod wedi sylwi, fy nghâr, y mae amryw o'r brodyr anwyl yn myd llényddol Cymru, yn enwedig rhai o fodau mwyaf deallol "y *South*" yna, wedi bod yn cerdded yn yr un llywbr ag a gymerais i y pryd hyny. Cawsom "Dridiau yn Abertawe;" "Pŷthefnos yn Llanwrtyd;" "Llythyr o Liverpool;" "Gwibdaith trwy Fôn ac Arfon;" "Llanfair a Llanwrtyd," &c, &c., oll yn bur dda yn wir; ac nid oes arnaf fi ddim cywilydd sicrhâu mai dysgyblion i mi ydynt. Mae nhw yn dyweyd, fel y cei di glywed yn union, fy mod i yn dechreu myned ym hen. Nid wyf fi ddim yn cafiatâu hyny yn hollol; ond gan eu bod yn

dyweyd hyny, mi a gymeraf finnau y rhagorfraint sydd yn perthyn i hen bobl i ymfrostio ychydig, ac a ddywedaf nad oes yr un o honynt wedi dyfod i fyny yn hollol â'r copi a osodais i o'u blaen. O ran hyny, fel y mae y bobl graff yma yn dyweyd, nid oes dwy ddeilen yn hollol yr un fath mewn natur; felly fe allai fod fy arddull innau yn anefelychadwy. Bid a fyfno, yr wyf yn clywed ar fy nghalon, ar ol yfed dyfroedd Llandrindod am dridiau eto, roddi copi arall o flaen fy nysgyblion anwyl ac athrylithfawr.

Gan fy mod wedi manylu cryn lawer ar Landrindod ynddi ei hun yn fy llythyr o'r blaen, y mae arnaf ofn na bydd genyf ryw lawer iawn i'w ddywedyd am y llanerch hono yn benodol. Am hyny yr wyf yn tueddu i wneyd fel y byddaf yn clywed ambell bregethwr yn gwneyd. Os na bydd efe yn siŵr fod ganddo ddigon i'w ddyweyd ar fater y testun, fe ragymadrodda yn helaeth iawn mewn sylwadau ar yr adnodau a'r paragraphau rhagflaenorol i adnod y testun. Fe allai na bydd dim cysylltiad mewn synwyr, ond fe fydd cysylltiad llëol neu argraffyddol rhwng yr holl adnodau, waith y maent oll yn yr un bennod; a chan fod y gŵr yn dyfod at ei destun o'r diwedd, y mae yn rhaid ei fod ar y ffordd at hwnw o hyd, er, hwyrach, nad allai rhywun o synwyr cyffredin weled pa fodd yr oedd wedi ei arwain iddo. Wedi treulio hanner awr fel yna, bydd y llefarwr yn wynebu gyda digon o hyder ar y testun ei hun, oddiar ymdeimlad y gall draethu tipyn arno am yr hanner awr gweddill doed a ddél. Felly finnau, er fy mod wedi myned trwy Sir Fôn a Sir Gaernarfon, a thos ben uchaf y Wyddfa, a thrwy ranau o Siroedd Meirionydd, Trefaldwyn, ac Aberteifi; eto, gan fod y cwbl yn Nghymru, a chan fy mod, cyn dyfod adref yn ôl, wedi cyrhaedd Llandrindod o'r diwedd, yr wyf yn haeru fy mod ar y ffordd yno o hyd; ac y mae genyf cygystal hawl â'r brawd uchod i wneyd ambell nodiad brysiog ar y daith cyn dyfod at bwnc arbenig y testun.

Wel, yn Sir Fôn, mi gyfarfyddais â hen gyfeilles na chawswn prin olwg arni er y "Tridiau" o'r blaen. Yr oedd y foneddiges hon yn nyddiau ei hieuencyd wedi bod yn ferch ieuanc o gryn sylw ymhlith rhyw ddosbarth yn Nghymru. Am a wn i nad allwn i anturio dyweyd mai hi oedd prif "belle" ei dydd yn y cylch y symudai ynddo. Bu mwy nag un na dau na thri na phedwar o rai sydd yn awr yn "ddynion mawr Cymru" yn eistedd wrth ei thraed ac yn ymgeisio am ei ffafr. Ond bellach y mae y Gwanwyn wedi myned heibio, a'r Hâf wedi darfod, a Hydref wedi dechreu arni. Ond fel y mae i bob tymmor mewn natur ei brydferthwch priodol ei hun, felly y mae yn rhaid i mi ddyweyd fy mod yn canfod prydfferthwch priodol i'w thymmor eto yn aros ar wedd ac ar ysbryd ac ar ymddyddanion fy hen gyfeilles. Yr oedd hi wedi bod yn dyoddef yn ddiweddar gan radd o afiechyd; ond er fod y rhan ddaearol o honi braidd yn adfeillidig, yr oedd y rhan ysbrydol mor fywiog ag erioed; ei llygaid yn dysgleirio gan synwyr a theimlad fel cynt, a'i hymadroddion yn bert a chyrhaeddgar; mewn gair, fel y sylwai un cyfaill barddonol am dani, "Y mae y cleddyf braidd yn rhy fwiog i'w wain." Gyda'r cwestiwn cyntaf a ofynai y foneddiges i mi oedd, "Mr. —, yr ydych chiwi heb fy ngweled er ys blynyddau lawer; onid ydych chiwi yn fy ngweled wedi tori llawer?" "O na, Mrs. —," meddwn innau, gan grynhoi fy holl *fanners* ynghyd, "cymerwch galon, yr ydych yn edrych yn well nag y dysgwyliais i eich gweled; mi 'rof i chi ddeng mlynedd ar hugain eto i deyrnasu." Rhoddai hithau ei dwy law yn dŷn ar ei gwyneb, ac ysgydwai ei phen yn y dull mynegiannus y modd M

wneyd, cystal â dywedyd, "Mae mwy o foesgarwch nag o wirionedd yn yr atebiad yna, Mr. —."

‡ Cyrhaeddais Lanberis rhwng wyth a naw o'r gloch ar noswaith deg ddysglaer. Cefais yn y gwestdy yno gwmi o ddynion ieuainc o Loegr yn parotdi i esgyn i ben y Wyddfa. Cydunais ar unwaith â'u gwahoddiad i mi ymuno â hwynt, a chychwynasom am hanner nos union, fel y gallem fod yno yn ddigon buan "i weled yr haul yn codi." Ni welais i yr un gareg filldir ar y ffordd; ond clywais a theimlais fod pum' milldir llawn o droed y mynydd i'w gopa. Y mae y daith i fyny yn ddigon annyddorol am yr awr neu ddwy gyntaf; dim ond rhyw amrywiaeth adnewyddol a dibaid o fryniau. Ni welsom ddim creaduraid byw ond ychydig ddefaid ac wŷn yn pori yma a thraw. Ond wrth basio, cefais gysur wrth sylwi, os oedd gan lawer o ddefaid gwŷnion wŷn duon, fod gan ambell i ddafad ddu oen gwŷn hefyd.

Pan oeddem wedi dringo oddeutu dwy ran o dair o'r ffordd, yr oedd y dynion ieuainc braidd yn ennill tir arnaf. Y mae dringo i fyny i'r Wyddfa yn profi gwynt dyn yn anghyffredin, ac y mae dyfod i lawr oddiyno yn profi, neu yn treio, ei liniau ef llawn cymaint. Nid oedd y llanciau ond ychydig gydag ugain oed, ond yr oeddwn i ryw dipyn bach gyda deugain o flynyddoedd; felly gallesid dysgwyl iddynt gadw ychydig ar y blaen. Nid rhyw lawer iawn ychwaith oeddent yn gallu ei ennill arnaf; ac mi a glywais un o honynt yn sylwi wrth y lleill, "*Really, the old gentleman keeps up well!*" Beth? "*old gentleman!*" Iê yn wirionedd innau. "*Old gentleman!*" Wel, yn wir! "*Old!*"—"old!" Mi glywais er ys llawer dydd fy ngalw yn "*young gentleman;*" ac wedi hyny yn fynych iawn yn "*respectable gentleman;*" "*talented gentleman;*" ac weithiau "*singular gentleman;*" a rhyw ansoddeiriau rhesymol felly. Ond am ryw enw gwan fel "*old gentleman,*" ni chlywais i erioed y fath beth. Ac yr oedd y dynion ieuainc, er nas gwelais i erioed o'r blaen mo honynt, yn ymddangos yn ddynion ieuainc o ddysg hefyd; ond, wyddost, y mae digon o wahaniaeth rhwng dysg a gwybodaeth. Y fi yn "*old gentleman!*" Yr ydwyf fi yn gweled fod y rhai sydd yn myned yn hen un ai yn myned yn benllwyd neu yn benfoel, neu yn tewychu yn y corff; ond am danaf fi, nid wyf fi yn ben llwyd nac yn ben foel, nac yn estyn cortynau y babell bridd, trwy ymëangu tua chanolbarth y corff, neu mewn geiriau sathredig yn "magu bol." Dywed y rhai sydd yn fy adnabod erioed fy mod yr un fath bron er ys ugain mlynedd, ac nad wyf fi yn tori fawr iawn. Mae genyf fwy o achos tori, fel y gwyddost ti, na nemawr o'm cyfoedion; ac y mae rhai yn dywedyd mai yr achos fy mod yn gwisgo mor dda ydyw oblegid fod genyf gyfansoddiad mor haiarn-aidd. Esboniad arall ar hyn, a'r hwn sydd yn fy moddloni i fwyaf, ydyw fod fy meddwl i mor fawr ac mor ddwfn fel nad yw ystormydd a thymhestloedd y byd hwn yn gallu crychu ond ychydig ar fy arwyneb. Ond beth bynag, dyma y rhai hyn na welsant mo honof erioed o'r blaen er creadigaeth y byd, yn fy nynodi yn "*old gentleman!*" Amlwg yw mai dyna yr argraff oedd fy mhresenoldeb yn daraw arnynt. Wel! wel! y mae yn naturiol i'r deg oed feddwl yr ugain oed yn hen; a'r ugain oed y deugain, &c.; ac heblaw hyny, "ni wna un wenol mo'r haf;" ni choelias fi ddim fy mod yn hen nes y clywaf rywun eto yn dywedyd yr un peth. Ond yn wir, fy nghâr, fel y sylwai cyfall i mi ar ol i mi ddyfod i lawr, yr oedd y gair yna yn swnio yn "*rather awkward.*"

Buom ddwy awr a hanner yn esgyn i ben y mynydd, a da iawn oedd genym gael eistedd i lawr enyd i aros "i'r haul godi." Y mae dau westdy "in miniature" ar y gopa, sef y "*Summit Hotel*," a'r "*Snowdon Hotel*." Rhoes ain *caravan* ni i fyny yn yr olaf. Yn nghoagl yr ystafell lle yr eisteddem, yr oedd gwely yn yr hwn yr oedd cwpl o "*guides*" yn chwyrnu *dust soniarus* iawn. Yn yr unig ystafell arall yn y gwestdy, yr oedd tri boneddwr ieuanc yn cysgu, y rhai a ddaethent i fyny y nos o'r blaen i weled yr haul yn myned i lawr, ac a orphwysent yno i fod yn barod i'w weled yn codi drachefu. Yr oedd cyhoeddiad yr haul y bore hwnw, yn ol "*almanac Caergybi*," am ddeng mynyd cyn tri; a chware teg i'r hen haul, fe ddaeth at ei gyhoeddiad i'r fynyd (yn ol ei amser ei hun). Yr oedd y boreu yn glir ysplenydd, a'r olygfa yn wir fawreddog; ond ni fanylaf ar hyn, gan fod amryw o'm dysgyblion wedi gwneuthur hyn yn dra medrus eisoes. Ar y cyfan yr oeddwn i yn barnu y gallai fod yr olwg ar yr haul yn myned i lawr yn fwy ardderchog o ben y Wyddfa na'r olwg arno yn codi. Nid oes i'r dwyrain oddiyno ond maynyddoedd a thir sych iddo esgyn o'r tu ol iddynt. Ond i'r gorllewin yr oedd y môr mawr llydan, a thybiwn y gall fod adlewyrchiadau y *looking glass* mawr hwnw yn gwisgo ei ddisgyniad â gogoniant mwy. Heblaw hyny, os bydd yr awyr yn glir ar ei gychwyniad i fyny, gall yr ymdeithydd fod yn fwy hyderus o gael golwg deg arno nag wrth fyned i fyny erbyn y bore, pryd y gall fod y cymylau tewion wedi ymgasglu ar hyd y nos, a gwneyd ei lafur blin yn ofer. Amanaid arall i'm cyfeillion sydd fel fy hunan yn dechreu myned yn hen: Er mwyn dyn, cyflogwch ferlyn bychan rhyngoch, a marchogwch bob yn ail.

Yr oedd yn aros yn y *Snowdon Hotel* ddyn bach o Sais o ogledd Lloegr, oddeutu pum troedfedd a phedair modfedd o daldra, salw o wedd, a theneu o gorff. Galleid meddwl ar ei wedd nad oedd ganddo ond cylla drwg iawn, ac nad allai fwyta fawr mwy na chyw iar, yn enwedig mor foru â hyny. Ond cawsom brawf newydd yn mherson y gŵr bach hwn, mai peth perygl iawn ydyw barnu doniau dyn wrth yr olwg allanol arno. Dygwyddodd fod yn hongian yn yr ystafell y bore hwnw forddwyd mochyn, neu fechglun, neu ffolen fawr. Cymer di yr un a fynot o'r enwau hyn, neu yn hytrach, dyma i ti y gair arferedig, heb fursenu dim—*ham*; a hon oedd yr *ham* fwyaf a welais i erioed; yn wir yr oedd hi yn Wyddfa o *ham*. Tafai y Sais bach ei lygaid ar yr *ham* fawreddog hon, ac ebe efe wrth ŵr y tŷ, "*I'll take a slice of that ham.*" Gyda'r gair dyna y gyllell allan, a'r badell ffrio ar y tân, a golwyth fawr o'r *ham* yn dechreu sio yn hyfryd arni. Dattododd y Sais yn awr gylymau cadach oedd ganddo ar ei lin, a daeth i'r golwg dorth dda o fara, a darn go sylweddol o "*giâws*," chwedl pobl dda Dolgellau ("mae'r giâth yn bwyta'r ciâws yn y giarrat"), a chyn y gallech chwi ddyweyd "*Jack Robinson*," fe darawodd y "*ciâws*" am bea yr *ham* yn y badell ffrio! Ysbryd Alexis Soyer! dyma goginiaeth newydd! Yr oedd yr *ham* a'r caws yn cydganu yn soniarus yn y badell ffrio, a phawb yn yr ystafell yn edrych ar eu gilydd mewn syndod ac yn gwenu, a'r Sais â'i lygaid yn hollol ddifrif ar y badell, a'i ddannedd yn dechreu rhedeg. Gyda hyn dyma rybudd fod yr haul ar godi, ac allan â ni i edrych ar y weledigaeth fawr; a thra y bu yr haul yn dyfod i'r golwg, fe roddodd y Sais y dorth dair, a'r *ham*, a'r caws, a dwy gwpanaid fawr o dê, o'r golwg yn rhywle nas gwelwyd mwy! Yr wir, yr oedd ef yn fwytiwr doniol; neu, os daeth i fyny i'r mynydd i ymofyn ystumog, fe'i cafodd yn y fan. Da iawn

nad oedd y brawd dyeithr yn deall sylwadau y Cymry oedd o'i ddeutu. "Mae ei groen ef yn wydn iawn," meddai un; "Ymha le y rhôdd o nhw, dwad?" meddai y llall; "Pa sut yr aiff o i lawr o'r mynydd?" meddai y trydydd. I goroni yr anffawd, yr oedd gan y Sais druan chwysigod ar ei draed ar ol dringo y mynydd; a gadawsom ef yn ymgeleddu a phleastro y rhei'ny wrth y tân, i wynebu ar y disgyniad yn ôl. Dyna i ti "*pursuit of pleasures "under difficulties."* Er fy mod wedi cymeryd helyntion y gwr bach yn lled ysgafn, y mae yn dda genyf allu ychwanegu ei fod wedi dyfod i lawr yn ddiangol o ben yr Wyddfa. Mi a'i gwelais ef er fy syndod, canys galleisid dysgwyl iddo aros yn llongydd am dridiau fel *boa constrictor* wedi llyncu llwdn; mi a'i gwelais ef, meddaf, drachefn, ac a edrychais arno yn sawl yn rhodio yn mwllch Llanberis ganol dydd drannoeth.

Aethum ymlaen trwy *pass* rhyfeddol Llanberis, a nant ramantol Gwynant tua Beddgelert, ac yna trwy y llanerch aruthrol a elwir y Gymwynas. Wrth edrych ar yr olwg *helter skelter* sydd ar yr hen greigiau ar y ffordd hon, galleisid meddwl, oni bae ein bod yn gwybod mai Hollalluogrwydd a fu wrth y gwaith, fod prydawn dydd Sadwrn y grëadigaeth wedi dyfod, a'r lleoedd hyn wedi eu gadael heb eu gorphen; ond esboniad cywirach, mae yn ddiaw, ydyw mai effeithiau cyffrôadau mawrion yn nghrystyn y ddaear ydynt. Myned yn hen iawn y mae hithau y ddaear, a dyma y crychau y mae amser yn eu gadael ar ei hwyneb. Gwelais ambell afr yn edrych i lawr yn dawel iawn oddiar ymylon y creigiau serth; ac yr oeddwn yn barod i genfigenu wrth eu penau oer a chllir, a'u hunanfeddiant mawr yn gallu ysgogi yn ddiogel uwchben y fath ddibynau ofnadwy.

Prydnawn dydd Sadwrn cyrhaeddais Llanbedr yn Sir Feirionydd, neu fel y dywedant hwy yno, Llanbedr; a phwy dybygit ti oeddant fy nghyd-lettywyr dros y Sabboth yn y gwesty cysurus iawn sydd yn y pentref hwnw? Neb llai na'r Gwir Barchedig Dr. Campbell, Esgob newydd Bangor, a'i Gaplan Cymreig! Gelli benderfynu fod yr amgylchiad hwn yn *era* yn hanesyddiaeth Llanbedr, canys y mae yn debyg na fu yno yr un Esgob byw yn oes dyn o'r blaen. Yr oedd yn dda gen innau gael cyfle i gael boddlonrwydd i mi fy hun ar y cwstiwn ag y mae cymaint o ddadleu wedi bod yn ei gylch, sef pa faint yw cyrhaeddiadau yr Esgob yn yr Iaith Gymraeg. Gofynais i'r caplan y cyfle cyntaf, a wnai yr Esgob bregethu drannoeth; ac er fy siomedigaeth, atetbai nad allai yr Esgob bregethu am nad oedd ei "*robes*" gydag ef! Aethum i'r eglwys y prydawn drannoeth; darllenodd yr Esgob y gwasanaeth yn Gymraeg, a phregethodd y Caplan bregeth dda iawn, heb un llyfr; gan ei chanu hi tua diwedd pob adran gyda thinc teilwng o'r hen bregethwr Methodist mwyaf trwyadl a glywaist ti erioed. Wel, y mae Esgob newydd Bangor yn olynydd yr Apostol Paul mewn un peth o leiaf; canys ti a gofi y gadawodd Paul "ei gochl" ar ei ol yn Troas. O bosibl y gallai rhywun ddadleu ei fod yntau wedi gwneyd i'w gaplan bregetha i bechaduriaid Rhufain, hyd nes y catodd ef "ei gochl" yn ôl; ond yr wyf yn meddwl fod yr Ysgrythyr yn ddystaw ar hyny. Oddiar yr hyn a welais ac a glywais i, yr wyf yn credu fod yr Esgob newydd yn ddyn da, ac yn dra awyddus i wneyd daioni; ac y mae yn siarad ac yn darllen Cymraeg yn dda iawn "a chonsidro." Ond nid allaf fi ystyried ei apwyntiad, ar y cyfan, ond rhandaliad o gyfiawnder â'r Cymry, waith y mae yr acen dramor yn rhy gref arno i'w wneyd yn ddefnyddiol i'r wria. Tybygwyf pe buasai rhyw un âg acen Wyddelig, neu Gymreig, neu Ysgotaidd,

yn cael ei osod ar Esgobaeth Saesonig, y buasai y fainc Esgobol yn fuan yn anfon y cyfryw un "i Coventry." Ac am yr urddasolion eglwysig Cymreig, y mae penodiad yr Ysgotyn Cymreig hwn i'r swydd yn sarhâd llawer mwy arnynt hwy na phe penodesid Sais trwyadl; oblegid y mae yn cynnwys addefiad gan y llywodraeth fod siarad Cymraeg yn anhebgorol i swydd Esgob yn Nghymru, ac ar yr un pryd yn amlygiad o farn nad oes un Cymro gwreiddiol yn yr Eglwys yn gymhwys i lenwi y swydd. Yr wyf fi yn ystyried fod y *demagogue* "prysur-heb-ddiolch" hwnw—Morgans, Tregynon—wedi troi yn fradwr i'w frodyr, pan yr ysgrifennodd i'r "*Carnarvon Herald*" ei fod yn cymeradwyo yr apwyntiad presennol fel yn cyflawni cymaint ag a haeddai neu a ddymunai Cymru; ac na ddylasai roddi i fyny "*agitatio*," os oedd yn werth "*agitatio*" oll yn ei glych, nes cael "Cymro o waed coch cyfan" i'r swydd.

Heblaw hyn oll, gan ein bod wedi taro ar y pwnc hwn, y mae gwahaniaeth mawr rhwng tafodiaith y Gogledd a'r Dehau; a digrif iawn, onidê, penodi esgob i'r "*North*" wedi ei ddysgu yn ol tafodiaith "y *South*." Rhaid i bawb addef fod Cymraeg y Gogledd ogleddol yn fwy ysgrythrol a chlasurol nag iaith y Dehau. Nid ydyw iaith "y *South*" yna ddim yn "*fit*" i fod yn iaith Esgob. Byddaf yn sylwi, fel y byddaf fi yn agosáu i lawr tua'r Dehau, fod yr hen iaith yn gŵyro ymhellach oddiwrth safon ei ehywirdeb bron bob dydd o'm taith. Yn lle rhoddi sain teg a llawn i bob llythren, fel y gwneir yn y Gogledd ogleddol, ly mae y llafariad yn cael eu gwaagu yn rhyw deneu a mursenaidd iawn pan y deuir tua pharthau deheuol Meirionydd ac i gyffiniau Trefaldwyn. Mae yr *a* yn myned yn *e*; yr *u* yn *i*; a'r *c* yn *ci* neu *k*; megys nêddo yn lle naddo; cit yn lle cut; cieil yn lle cael; ciâth yn lle cath, &c.; ac y maent yn tori eu geiriau yn gyffredin yn gwtâ ac yn bert dros ben. Byddaf fi yn caru clywed llafariad y bobl ffordd hyn hefyd, yn enwedig pan y bydd y geiriau clylion pert yn dyfod dros wefusau siriolgoch "*Morwynion glân Meirionydd*" a Threfaldwyn. Dyma fel y mae hi: y mae yr iaith yn myned yn rhyw fanach fanach o hyd nes cyrhaedd glân yr afon Dyfi; ond unwaith y croesir yr afon hono, gwarchod ni, y mae yr hen iaith "yn gwylltio yn lân fidir."

Y nos Sadwrn canlynol, yr oeddwn yn cerdded yn araf i fyny ryw allt fawr rhwng Machynlleth ac Aberystwyth, gan dywys fy ngheffyl yn fy llaw. Daethum o hyd i ddyn canol oed, tebyg i weithiwr ar fferm neu y cyffelyb. "Nostawch," ebe fi. "Nostawch," ebe yntau. "Beth yw y goleu mawr sydd yn y capel yma (ar fin y ffordd) heno?" "O! *society*," ebe efe. "*Society* ar nos Sadwrn, aie?" "O! iê, y maent yn y capeli o hyd bron ffordd hyn yn awr; y mae yma ddiwygiad mawr ffordd hyn." "Felly y clywais i. A wyddoch chwi ymha le y mae David Morgan yfory; efe yw yr apostol mawr, onidê?" "Iê yn siŵr, David Morgan yw yr apostol mawr, ond Humphrey Jones a'i gwnaeth e," ebe efe. "A oes yma waeddi mawr yn yr oedfaen?" "Gwaeddi, gwaeddi, beth yw hyni?" "Gorfoleddu," meddwn i. "O! molianni i'ch chi'n feddwl; na 'does yma ddim felly; nid oes yma ddim dylanwad gan bregethu y ffordd hyn yn awr; ond y maent yn rhoi rhyw araeth ar ddiwedd yr oedfa, a chyda hono y mae y dylanwad." * * *

Treuliais y Sabbath drannoeth yn —, lle yr oedd y diwygiad yn ei rym, ac amryw gannoedd wedi eu hychwanegu at yr eglwysi o fewn ychydig wythnosau. Yr oedd yno bregethwr da iawn; ond chwedl y dyn, nid oedd

yno ddim dylanwad gweledig gyda'r bregeth; diin "Amen" cynhes na "Diolch" trydanol fel y clywir yn fynych ymhlith bryniau Sir Gaernarfon. Ni buasai neb yn meddwl ar agwedd y gynnulleidfa fod yno ddiwygiad nac adfywiad o fath yn y byd yn yr ardal. Ar ol oedfa y boreu, cynnaliwyd cyfarfod gweddi, yn yr hwn y gweddiodd naw neu ddeg, y rhai oeddynt, gan mwyaf, o ddosbarth y dychweledigion newydd. Cened pennill, yna gweddiari tri, yna pennill, yna tri eto yn gweddi, &c. Ar ol y cyfarfod gweddi, cynnaliwyd cyfarfod eglwysig am ychydig amser. Yr oedd yn y cyfarfod-ydd hyn zel fawr yn ganfyddadwy; ond ni welais i ddim tebyg i'r teimladau anattaliol hyny y clywswn son am danynt, a'r rhai a dybir eu bod yn briodol i amser o ddiwygiad. Yr wyf fi yn ddiagon hen i gofio y diwygiad mawr diweddaf a fu yn Nghymru. Yn wir y peth cyntaf oll sydd yn argraffedig ar daflen fy nghôf ydyw fy mod yn hen gapel — yn amser y diwygiad hwnw. Yr oeddwn i ar y pryd yn blentyn bychan ar fraich gwas i fy nhad, o'r enw William, yr hwn sydd yn y nefoedd er ys llawer bliwyddyn bellach. Ar ol yr oedfa y boreu, yr oedd y bobl yn aros yn y capel yn "gorfoleddu" â'u holl egni. "William," meddwn i, "pa bryd yr eiff y bobl yma i'w ciniaw?" "O! machgen bach i," ebe William, â'r dagrau ar ei ruddiau, "y mae nhw yn cael digon o giniaw yma heddyw." Dyna y peth cyntaf yr wyf fi yn ei gofio yn y byd hwn, canys yr oeddwn wedi synu cymaint fod y bobl yn cael digon o grefydd i fyw heb fwyd. Ond ni welais ddim byd tebyg i hynyna yn —, er fy mod wedi gwrandaw ar weinidog llawn o ysbyrd y diwygiad nos Lun, yr hwn a roddodd i ni "yr araeth" hefyd ar y diwedd; ac ar Mr. David Morgan ei hun nos Fawrth, pryd y cawsom bregeth, ac araeth, a chyfarfod eglwysig, a chyfarfod gweddi wedi'n hyd un ar ddeg o'r gloch y nos. Teg, pa fodd bynag, yw i mi grybwyll fod rhai o'r brodyr yno yn dywedyd wrthyf mai siampl wael o'r diwygiad oedd yr hyn y dygwyddodd i mi ei weled y tro hwnw—na cheffais olwg arno yn ei wisg oreu. Dybenid bron bob cyfarfod gyda y naill neu y llall, os nid y naill a'r llall, o'r pennillion canlynol:—

"Gwaed y groes sy'n codi i fyny
Yr eiddil yn gonowerwr mawr;
Gwaed y groes sydd yn darostwng
Cewri cedyrn fyrdd i'r llawr;
Gad im' deimlo,
Awel o Galfaria fryn."

"Mae yr Oen fu ar Galfaria, wrth fy modd;
Efengyl a'i thrysorau, wrth fy modd;
Mae llwybrau ei orch'mynion,
A grym ei addewidion,
A hyfryd wleddoedd Ston, wrth fy modd,
A chwmmi'r pererinion, wrth fy modd."

Gallwn fanylu llawer ar ffeithiau y diwygiad hwn; eithr rhaid ymattal. Ond gan fod fy nghyfaill wedi dymuno hyny, mi a roddaf iddo mor fyr ag y gallaf fy syniadau, *pro and con*, am y cyfrôad rhyfedd hwn. Ti a wyddost yn dda fy mod yn ddiagon pell oddiwrth ddiystyru un symudiad ag y byddo llawer llai o arwyddion ei fod yn ddiledrith oddiuchod nag sydd yn gygylltiedig â'r diwygiad hwn, sef yn

1. Y mae yr ychwanegiadau at yr eglwysi wrth y miloedd, ac yn amlach o lawer nag a welwyd erioed o'r blaen yn Nghymru yn yr un faint o amser.

2. Yr wyf wedi casglu, oddiar ymholiad, nad oes prin un o bob hanner cant o'r rhai a ymunasant â'r eglwysi er ys^upedwar neu chwe' mis yn ol, wedi cilio ymaith.

3. Y mae yr holl wlad fel wedi ei sobreiddio, a'i dwyn i ystyried pethau crefydd. Gofynais i ŵr yn —, nid ymhell iawn o Fachynlleth, a oedd moesau yr ardal wedi eu newid. Atebai, "O dear, ydynt yn hollol; onid ydynt, ffrî'nd?" meddai, gan apelio at ei wraig. "Ydynt," ebe hi-thau, "Y mae hi yn ddidd Sil bob didd."

4. Y mae ysbryd cenadol wedi meddiannu yr holl eglwysi. Nid oes dim terfyn ar eu hawydd i achub y byd.

5. Y mae gweinidogion a phregethwyr wedi eu heneinio â rhyw zel ac ysbryd newydd, a blaenoriaid ac eglwysi wedi eu llenwi ar unwaith â gwrês eu cariad cyntaf.

6. Y mae rhyw undeb a brawdgarwch mawr wedi ymddangos ymlith y gwahanol enwadau, a chydymröad cyffredin yn erbyn y gelyn cyffredin.

Dyna ychydig o ffeithiau anwadadwy, ac yr wyf yn sicr na chynnyrchwyd hwynt gan Satan, ac yr wyf yn meddwl eu bod yn o anhawdd eu dwyn allan gan ddyn ei hun ychwaith, heb ryw gymhorth anghyffredinol o wlad uwch.

Mae genyf eto sylw neu ddau yr ochr arall :

1. Nid oeddwn yn cara y duedd i ddibrisio llafur gweinidogaethol a gweddïau yr eglwys mewn amseroedd a aethant heibio, oedd yn barhäus yn dyfod i'r golwg. Clywais â'm clustiau fy hun y rhai mwyaf zelcg gyda'r diwygiad, yn sylwi mai doniau bach yr oedd Duw yn eu harddal—fod y pregethau mawr yn nesaf peth i fod yn ofer—na fu gweddïo gwir ddyfal yn yr eglwysi hyd yn awr, &c. Yr oeddwn yn rhyfeddu na buasai y syniad yn ymgynnyg i feddyliau y gwŷr da hyn, y gallai mai myned i mewn i lafur eraill yr oeddent hwy, ac mai effeithiau yr holl bregethau a'r gweddïo a fu yn Nghymru yn y deugain mlynedd a aeth heibio, er y diwygiad mawr o'r blaen, sydd yn awr yn tori allan. Ymddengys i mi mai y gwirionedd yw, fod yma ryw deimlad crefyddol cuddiedig (*latent*), yn ymdrechdu yn nghalonau cannoedd a miloedd o wrandawyr yr efengyl yn Nghymru, a bod difrifoldeb a chyfeirioldeb uniongyrchol apeliadau y diwygwyr, gyda rhyw deimlad *sympathetic*, cynnyrchiedig gan glywed sôn am y diwygiadau yn America a lleoedd eraill, yn rhoi digon o gyffro yn eu cydwybodau a'u serchiadau i dori y ddadl. Yr wyf fi yn sicr pe na buasai ond cyfarchiadau fel ag a glywais i gan flaenoriaid y diwygiad, wedi bod yn mhul-pudau Cymru er ys deugain mlynedd, er eu bod yn eithaf priodol yn y cyfnod presennol, y buasai crefydd wedi myned yn wawd yn Nghymru er ys llawer dydd. Y gwir yw, nid allasai y gwŷr bach hyn, gyda'u *cutlasses* miniog, byth ddyfod afsael yn ngafael â'r gelynon, a byrddio eu llestri, oni bae fod y *cannons* mawr wedi eu dystewi, a thori eu grym yn gyntaf. Y mae newydd-deb "yr araeth," ac uniongyrchedd ei hapeliadau, wedi myned â dylanwad y bregeth am dymmor; ond cyn pen blwyddyn fe fydd yr araeth ei hun wedi colli ei newydd-deb, ac wedi myned yn "ffurf" mor ddi-ddylanwad â'r bregeth, os nid mwy, o ran hyny. Yr wyf wedi meddwl er ys rhai blynyddoedd, mai diffyg mawr y weinidogaeth Gymreig oedd ei bod yn rhy anuniongyrchol yn ei hapeliadau at bechaduriaid, ac yn rhy wylidd yn ei chymhelliadau a'i gwahoddiadau i'r gwrandawyr ymuno âg achos Crist. Ond yr wyf yn credu fod llawer o'r diwygwyr presennol yn myned

ymhell iawn i'r eithafion gwrthwynebol, yn gwneyd yn rhy hyf ar eu gwrandaŵyr, ac yn pwysu gormod ar aelodaeth eglwysig.

2. Yn wir, yr oeddwn i yn tybied fod yn y dull o gario ymlaen ac o lefaru berygl i gamarwain dynion, yn enwedig rhai anwybodus, trwy beri iddynt feddwl fod aelodaeth eglwysig yn sicrhâu iachawdwriaeth. Sonid am y miloedd a chwanegwyd at yr eglwysi fel cynifer wedi eu hachub. Pan arosodd chwech yn y *society* ar ol maith gymhell, clywais David Morgan yn dyweyd, "Dyma chwech wedi eu hachub heno;" ac meddai pregethwr arall oedd yno, "Dyma chwech wedi eu haileni heno." Nid oeddwn i ddim yn hoffi y dull hwn o lefaru.

3. Nid allwn yn fy myw gymeradwyo na hoffi yr arfer o roi y dychwel-edigion ieuainc i weddio yn gyhoeddus yn union ar ol eu derbynïad. Dynion nad oeddent ond wythnos neu bymthengnos oed o broffeswr yn gweddio o faen cannoedd! Prin y gallaf fi feddwl fod teimlad dwys crefyddol yn gyson â dyfod allan i'r amlwg fel yna yn ddioed; mi a ddysgwyl-iwn am dymher fwy gwylaidd a neillduedig. Heblaw hyny, y mae y fath arfer yn beryglus i enw da crefydd, yn gymaint ag mai nid mewn wythnos, nac mewn mis, y gellir adnabod pa un ai cyffrôad tymer ai newidiad egwyddor a ddygodd y profeswr newydd i mewn i'r eglwys.

4. Neillduedd arall yn y diwygiad presennol ydyw y cysylltiad arbenig sydd rhyngddo â rhyw bersonau neillduol, ac yn enwedig â'r Parchedigion David Morgan ac Humphrey Jones. Nid wyf fi yn deall fod yr hen ddiwygiadau er ys talm yn gyfyngedig neu yn briodoledig i lafur rhyw ddau neu dri o weinidogion mwy na'u gilydd, a bod y personau hyny yn cael eu cyrchu yma a thraw i gynnyrchu diwygiadau. Y mae genyf bob parch i'r gwŷr uchod, a phob creð yn eu diffuantwydd a'u defnyddioldeb; ond yn wir, nid wyf yn meddwl fod eu *position* yn un i'w chanmawl na'i dymuno. Braidd na thybiwyf eu bod yn sefyll mewn lle peryglus iddynt eu hunain, ac anghyson â threfn yr efengyl, ac â synwyr cyffredin, ac amheus yn y pen draw o ran ei effeithiau ar wir grefydd. Pe buasent yn ysbrydoledig yn ystyr yr oes apostolaidd, ni buasai berygl, oblegid y mae yn debyg fod yr ysbrydoliaid hwnw yn cynnwys, nid yn unig eneinïad â zel sanctaidd, ond cynnysgaethiad befyd â doethineb diwyro ac â hunan-adnabyddiaeth perffaith. Ond gan nad ydynt felly, ofnaf yn wir eu bod yn ymylu ar ryw beth tebyg i "*false position*." O'r braidd y gallaf gredu fod yn bosibl i'r natur ddynol yn yr ystâd amherffaith hon, fod am fisoedd yn myned o fan i fan *bob dydd* yn ceisio creu diwygiadau, heb fyned weithiau i drin "*tân dyeithr*,"—heb fod yn agored i gamfarnu am danynt eu hunain; heblaw fod y fath newyddbeth yn tueddui arwain dynion i gysylltu â pherson dynol yr hyn a ddylid gysylltu yn unig â Pherson Dwyfol, gan ddsywyl wrth y naill yn fwy nag wrth y llall.

Nis gallaf yma lai na chrybwyll y dygwyddodd i mi fod yn bresennol, cyn dyfod adref o'm taith, mewn "cyfarfod diwygiadol" yn un o brif drefi Gogledd Cymru, lle yr oedd y Parch. — Roberts, o'r Clarach, Sir Aber-teifi, yn brif lywydd, ac yn gynnorthwyedig gan dri o weinidogion eraill o wahanol enwadau. Yr oedd y capel mawr yn orlawn o bobl o bob enwad, yn gystal â llawer oedd yn ddi-enwad. Oni bae i mi fod yn llygad a chlust-dyst, ni choeliaswn y gallasai y fath gyfarfod gael ei gynnal yn Nghymru yn yr oes oleu hon. Gweddiodd Roberts am gryn banner awr ya y dechre, heblaw dwywaith neu dair wedi'n. Erfyniai ar i'r Arglwydd

roddi y tân oedd yn Sir Aberteifi iddynt hwy yno. “Y maent yma yn oer iawn,” meddai; “dyro dân i fflamio eu calonau nhw, Arglwydd. Y mae yr enwadau yn sych iawn: gwna yr Annibynwyr yma yn wlybach, y Wesleyaid yma yn wlybach, a'r Bedyddwyr yma yn wlybach; gwna nhw yn wlyb oddifewn.” Gweddïai dros weinidogion y gwahanol enwadau wrth eu henwau; ac am flaenoriaid y capel lle yr oedd y cyfarfod, hysbysai i'r Brenin Mawr na wyddai efe mo'u henwau, onidê y buasai yn eu henwi hwynt yno ger ei fron. Dywedai yn rhywle, “Cofia am John — o'r —; mae o wedi rhoddi cwrw i Dafydd —, ar ol i Dafydd gael ei argyhoeddi; madd-eu i John — am roi cwrw i Dafydd —, a maddeu i Dafydd am ei gymeryd, &c.” Enwai yn ei weddi ddau gychwr (*ferryman*) penodol, gan ddesgrifio eu gwahanol gymeriadau; a chyfeiriai at Caty Jones o'r Cutiau (os wyf yn iawn gofio); ynghyd a lliaws o bobl eraill oeddent yn byw yn y gymydogæth, da, drwg, a chymysgryw, na fedraf fi, oedd yn hollol ddyeithr iddynt, ailadrodd y degwm o'r enwau. Yr oedd yr anerchiad a ddilynai yn gyfatebol. Taer erfyniai ar i'r gwrandaŵyr ddyfod at grefydd; mynychai ddyweyd ei fod wedi dyfod yn enw ei Dduw i'w galw. “Bendith Dduw i chwi, deuwch!” meddai, fwy nag unwaith. Bygythiai bryd arall, a chrybwyllai am ryw lanc yn — oedd wedi myned allan yn gyntaf yn niwedd y cyfarfod yn lle aros yn y *society*, a'i fod wedi syrthio i lawr y chwarel drannoeth, nes yr oedd ei gorff yn sitrach. Canmolai y diwygiad bryd arall. “Yr oedd y cyfarfod gweddi yn —, yr wythnos ddiweddfaf, yr hynotaf a fu eto medde' nhw; yr oedd hanner cant yn gweddio ar unwaith; yr oedd yno ryw arswyd nefol yn y lle, a, moliant i Dduw! yr oeddwn innau yn eu canol hwynt, &c.” Y peth oedd yn fy synu i fwyaf oedd, fod y gweinidogion eraill yn dilyn yr un llwybr âg ef. “Dowch,” meddai un o honynt wrth weinidog Methodistaidd, yr hwn oedd yn nacâu dywedyd gair, “d'wedwch dipyn yn fywiog, frawd; mae'r nefoedd *just* yn ymyl.” Yr un gŵr a rybuddiai y cyntaf a ai allan heb aros yn y *society* ar y diwedd, y byddai “y brawd Roberts yn siŵr o weddio drosto wrth ei enw!” Yr oedd y llanciau a'r merched yn chwerthin yma ac acw ar hyd y cyfarfod. Ni chanwyd pennill yn y diwedd, ac felly nid oedd un *line* wedi ei gosod i nodi allan y tertyn rhwng y cyfarfod cyffredinol a'r cyfarfod eglwysig; ac yna arosodd pawb i mewn yn synedig, ac mewn awydd i weled y diwedd. Syrthiai Roberts ar ei liniau, a diolchai i Dduw eu bod oll wedi aros. “Nid wyf yn gweddio,” meddai, “am i ti eu haileni mwy, ond am i ti eu cynnal hyd y diwedd!” Nid oes yma ond braslun byr iawn, a chymil hefyd, o ansawdd y cyfarfod. A gellid cael cannoedd o dystion fod yr engreiffitiau uchod yn esiampol teg o'r gweddill. Nid yw y diwygwyr eraill, mi addefaf, yn atebol am eithafion y brawd hwn o'r Clarach, yr hwn sydd yn ddiwygiwr mawr mewn rhyw gyrau o'r wlad draw; ond y mae yma ddangosiad i ba wrthuni y gall symudiad da gael ei wrydroi oni chyfyd blaenoriaid yr eglwysi i'w reoli yn ol doethineb a phwyll. Nid wyf heb gofio fod “gwehilion i'r gwenith,” fel y dywed yr hen ddiareb; ac mai gwell yw zel yn colli a berwi drosodd nag oerfelgarwch annheimpladrydd; ond y mae y cyfryw engraiŵt o ager-beiriant y cynhyrfaid diwygiadol wedi crwydro drosodd mor beryglus allan o'r *rails*, yn galw yn uchel ar ffyddloniaid y diwygiad presennol ymhob man, “Na chabler gan hyny eich daioni chwi.”

Nis gwn i; dichon dy fod di, fy nghâr, yn amhheu a ddylwn i anfon allan adroddiadau fel hyn yn ngoleu haul y TRAEHODYDD; ond fy argy

hoeddiad ydyw, y dylai y ddwy ochr gael eu dangos yn deg, yn ol y cynllan ysbrydoledig yn Llyfr y llyfrau, fel y cryfhâer ac y cefnogwr yr hyn sydd ragorol, ac y gadawer heibio yr hyn sydd teius. Mae y Bibl yn cofnodi gwendidau yn gystal â rhagoriaethau yr hen bobl dda y rhoddir eu hanes ganddo; a chan fod yr argraffwasg yn ein mysg yn rhoddi y fath gyhoedduswydd i enwau brodyr sydd yn flaenllaw gyda'r diwygiad, ac yn gyffredin yn eu dyrchafu yn uchel, ac weithiau yn eu tra-dyrchafu, mi feddylw'n y derbyniant yn ddirwgnach, os nid yn ddiolchgar, bob awgrymiadau oddiwrth yr unrhyw argraffwasg a fyddo yn tueddu i'w dysgu, eu llesâu, a gosod eu llafur ar dir o effeithiolrwydd cyfreithlawn a pharhâus; canys "Od ymdrech neb hefyd, ni choronir ef onid ymdrech yn gyfreithlawn." Cofier, mai "ffydllawn yw archollion y caredig," ac "nid da bwyta llawer o fêl." Yr wyf yn barod i dyngedu "Meistri Golygwyr," od oes eisieu, i gyhoeddi y darnau hyn o'm llythyr fel yr wyf yn eu hysgrifenu; canys nid oes ond *false delicacy* a attalia wirioneddau anghenrheidiol fel y rhai uchod, oddiwrth y rhai y perthyn iddynt. A chan mai y *singular number* "myfi," sydd yma yn llythyru atat ti, fy nghâr, heb lechu o honof o dan fantell y "Nyni" olygyddol bwysig, bydded i'r holl fai, os meiddir beio hefyd, ddisgyn arnaf fi, ac nid ar y Golygwyr parchus.

Bum yn meddwl v buasai cynnadledd o weinidogion a blaenoriaid mwyaf dylanwadol a difrifol y gwahanol sectau, yn suddiol yn y dyddiau hyn, yn bwrpasol i ystyried y symudiad hwn, i wyllo drosto, ac i'geisio llunio trafniadau i'w hyrwyddo yn y blaen, ac i ofalu am y cynnyrch mawr a roddodd i'r eglwysi. Er i Garibaldi wneyd gwyrbiau o ddewrder rhyfelgar yma a thraw, rhaid cynnal *council of war* i sicrhâu y fuddugoliaeth. Pan yw mor amlwg ei bod "yn amser i'r Arglwydd weithio," diammheu ei fod yn amser i'w weision ddeffro. Yr wyf yn credu fod y teimlad dymunol sydd yn y wlad, yn dibynu am ei barhâd gan Dduw, ar ddeffrôad dïoedi blaenoriaid crefyddol y genedl at yr achlysur; ac y mae llaweroedd o eglwysi, yn enwedig ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd, yn y lleoedd y mae ugeiniau o aelodau newyddion wedi ymuno â phob un o honynt, a channoedd at amryw, eto heb un ddarpariaeth gymhwys at eu hymgeleddu a'u hadeiladu.

* * * * *

Y dydd Sadwrn canlynol pasiais trwy Ll—. Gwelais fy hen gyfeilles Mrs. —, yr hon nas gwelswn er ys amser "y Tridiau" o'r blaen. Yr oedd hithau y pryd hyn yn mlodau ei hieuenctyd, ond erbyn hyn y mae yn tynu at "ganol oed," ac yn fam i amryw o blant. Un o'r sylwadau cyntaf a wnaeth ar fy nyfodiad i'r tŷ oedd, "Wel, Mr. —, yr ydych yn union yr ag fath ag yr oedych ugain mlynedd yn ol; ond onid ydych yn fy ngweled i wedi beneiddio yn fawr?" Buasai yn arw i mi fyned i ddyweyd "Ydwyl," a hithau wedi talu y fath *compliment* i mi, pa beth bynag oedd fy meddwl; felly mi a atebais, "O! *ma'm*, yr ydym eill dau yn myned yn hŷn bob dydd, yn ddiau." Ar ol mwynhâu ychydig gymdeithas yma yn y fath fodd ag nad ellir ond gyda hên, hên gyfeillion, ac uwchben hên adgofion, aethum ymlaen tua Llandrindod.

Cyrhaeddais y lle enwog hwnw oddeutu naw o'r gloch yr hwyr, a chyfeiriais am letty, nid i'r gwestŷ fel o'r blaen, ond i T—, un o'r tai ffermydd ar fin y cyttir yno, sydd yn agored ar hyd y tymmor i lettya ymweledyddion y ffynnonau. Cefais fod y tŷ yn llawn iawn, ac oni buasai fod pregethwr

oedd yn aros yno wedi myned i'w daith erbyn y Sabbath, rhy brin y gallaswn gael derbynaiad mewn. Cyfarfyddais ág amryw gyfeillion yn y lle hwn; ond yr oedd hi yn rhy hwyr i "gymeryd stock" o'r cwmni yn gyffredinol y noswaith hono. Aethum i orphwys, neu yn hytrach i geisio gorphwys; canys yr oedd yr hin yn boeth iawn, ac yr oedd ein hystafell yn gyfyng iawn, ac ynnddi ddau wely, a dim ond un ffenestr fechan; a chawsom gryn waith i gael digon o awyr rhyngom ill tri (dau yn y gwely arall a minnau fy hun) i gysgu yn gysurus, er i ni agor y ffenestr fach, a'r drws hefyd led y pen.

Boreu drannoeth, yr oedd oedfa yn nghapel bach Llandrindod. Hysbyswyd fi mai y pregethwr oedd gweinidog y lle, yr hwn hefyd sydd yn cyfranu bara y bywyd hwn, ac anghenrheidiau eraill, i drigolion yr ardal, o fasnachdŷ bychan sydd ganddo gerllaw. Rhagrybuddiwyd fi i beidio dysgwyl rhyw lawer, neu yn hytrach i ddsydwyl pur ychydig, oddiwrth weinidogaeth yr hen frawd hwn. Yr oedd yno gynnulleidfa fach bur barchus yr olwg arni wedi dyfod ynghyd. Darllenai y pregethwr gydag aceniad yn unig fel y gwnai Cymro oedd wedi dysgu siarad Saesoneg ar ol myned yn hen; ond sicrhawyd fi na fedrai efe Gymraeg oll. Erbyn sylwi, yr un fath y mae y Llandrindodiaid brodorol oll yn siarad. Gwelais yn union mai Saeson un oes oeddent; fod eu rhieni yn Gymry wedi dysgu Saesoneg; a bod y plant wedi dysgu Saesoneg yn unig, gan ddilyn aceniad eu rhieni. Gweddiodd wedi hyny yn gynnwysfawr a manwl. Tua diwedd y weddi, erfyniai am fendith i'r gynnulleidfa, a dywedai, fel pe yn ymdeimladwy o'i anghymhwysder i'w llwyr foddioni, "Y maent wedi dyfod yma, Arglwydd, nid cymaint i ddsydwyl wrth y pregethwr, ond i ddal cymundeb â Thi dy hun yn dy deml." Aeth y gair at fy nghalon i. Yr oeddwn yn caru gostyngeddrwydd dirodres y gŵr, a'i syniad cywir am wir addoliad. "Dal cymundeb â Thi dy Hun yn dy deml." Cafodd yr hen Brice y *blind side* i mi yn y fan. Gwrandawais arno gyda blas; ac yn wir fe bregethodd i ni bregeth dda bur, ar ddiysgogrwydd egwyddor Daniel, yn gweddio a'i ffenestri yn agored tua Jerusalem "megys y gwnai efe cyn hyny," er gwaethaf gorchymyn y brenin. Ar derfyn y gwasanaeth, hysbysodd y gynnulleidfa fod "*the grâte* Mr. Jones, Kilsby," wedi bod mor dda ag anfon ei gyhoeddiad i bregethu yno am chwech yr hwyr hwnw.

Yn y prydawn cawsom gyfarfod gweddi undeb (Cymreig) yn yr un lle, dan arweiniad amryw o deulu y diwygiad mawr, y rhai oeddynt wedi cyfarfod yno ar eu tro.

Cychwynasom tua'r capel yn yr hwyr yn gynnarol, a chyda mawr ddsydwyliaid ymhlith y fforddion yn gyffredin. Yr oeddwn i fy hun yn neillduol barod i dderbyn gweinidogaeth ac i ddyrchafu clod y gŵr enwog; oblegid yr oeddwn wedi dygwedd clywed iddo ef draethu barn uchel iawn ar ryw achlysur am fy ngalluoedd mawrion i fel bardd; ac wrth gwrs,

"Cân di bennill mwyn i'th nain,
Fe gân dy nain i tithau."

Cawsom y capel yn orlawn, ac amryw yn sefyll o'r tu allan. Daeth Mr. Jones yn brydlawn i'w gyhoeddiad. Y mae efe o rau ei gorff yn *specimen* gwych o'r natur ddynol. Dyn tâl, cryf, heini; gwallt du fel y fran; llygaid duon treiddgar, tanllyd; barf a *moustache* fawr a fuont unwaith yn dda, ond yn awr yn frithlwyd; ei wisg a'i osgo yn foneddigaidd; ac ar ei ben

yr oedd "*het jim crow*." Edrychai oddiamgylch ar y gynulleidfa gydag eonder uwchafiaeth; yr oedd ei hunanymddried fel yn ymylu ar ddibrisodod; yn wir, ni welais i olwg mor "Nid wyf yn prisio pin o'm llawes am yr un o honoch," chwedl y Cymro gwledig, ar ddyd mewn pulpud erioed. Darllenodd ac esboniodd yn fanwl, yn fywiog, ac mewn dull coethedig iawn, Salm ardderchog y civ. Wele enghreifftiau egwan, nid o'i feddyliau, ond o'i ddull. Adnod 2il,—“Gwisgo goleuni fel dilledyn.”—cyfeiriai at *fabrics* ysgeifn gwisgoedd boneddigesau; ond pa mor ysbrydol, mor bur (*ethereal*), oedd y Bôd hwnw yn gwisgo—yn ymguddio megys yn y goleuni tryloew ! Adn. 4,—“A'i weinidogion yn dân ffamillyd”—cyfeiriai at waith dyn yn gwneyd y mellt yn genad iddo yn y *telegraph*; o bosibl y gallai hwnw ryw ddiwrnod gyrhaedd yno. “*And that will be a new thing at Llandrindod*,” meddai. Adn. 32,—“Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna.” Yr oedd rhywrai, adroddai, yn eistedd ynghyd pan y dygwddodd daeargryn mewn man; ffôdd pawb allan mewn dychryn oddigerth un Negro. Ar ol i'r braw fyned drosodd, dychwelasant i'r tŷ, a gofynasant i'r Negro, “Sambo, paham na buasit tithau yn dychrynu?” “O! mi wyddwn i beth oedd y mater,” ebe yntau. “Pa beth?” meddynt. “*God almighty passed by, and the earth made him a curtsey*,” meddai yntau. Ar ol darllen ac esbonio y Salm yn dra dyddorol, gweddiodd y pregethwr am oddeutu pedwar mynyd a hanner. Cyn cymeryd ei destun, cwynai ei bod yn fwell iawn, ac ofnai nad oedd pobl “yn credu mewn *ventilation*.” Ei destun oedd Ioan xxi. 15—17. Rhagymadroddai fod digon o amrywiaeth yn y Bibl; ac ymhlith pethau eraill dyma hanes *dinner party*,—“Wedi iddynt giniawa.” Dywedai yn helaeth ac yn zelog iawn ar ragoriaeth siarad ar fwyta. Annogai y gwrandawyr, os gwahoddid hwynt i wledd giniaw, i beidio ymfyn yn anifeilaidd pa beth fydd yno i fwyta, ond pa beth fydd y siarad yno. Rhybuddiai hwynt yn ddiifrifol i beidio byth gwahodd neb i giniaw na fedrent wneyd dim ond bwyta; yr oedd gwrandaw ar ambell un yn siarad yn well gwledd na'r ciniaw goreu erioed, &c., &c. Mater y bregeth oedd dangos mai serch a thynnerwch oeddent y cymhwysder mawr i wasanaethu Duw, ac yn enwedig i “borthi yr ŵyn.” Brithai ei sylwadau & chymhariaethau wedi eu cymeryd o fywyd cyffredin; megys fod y fam yn dewis morwyn fyddai yn hoff o blant yn fwy nag un fwy medrus ond llai tyner.

Ymddangosai fel pe yn ymdrechu i ddyfod i lawr at amgyffredion ei wrandawyr; ond yr oedd ei ddarluniadau mor hyned o fywiog (*fervid and graphic*) fel yr oeddent braidd yn *dazzle* llygaid y werin, ac yn tynu eu sylw oddiwrth y peth ei hun yr ymdrechid ei egluro. Ymddangosai Mr. Jones fel pe yn teimlo ffyn, a dywedai, “You may think it comical, but there is something more than that in it.” Ar y cyfan, ymadawsom o'r capel gyda meddyliau uwch am y pregethwr fel gŵr o athrylith mawr nag fel efengylwr. Yr oedd rhian brydweddol ymhlith y cwmni yn T—, yn ngwythienau yr hon hefyd yr oedd gwaed mwyaf athrylithfawr Cymru yn rhedeg. “Buasai yn well gan i weled a chlywed y gŵr yna ar *blatforn* nag mewn pulpud,” ebe hi. “Mae yn debyg na chawsai ef ddim myned i bulpud Talsarn yr ail waith, ar ol rhyw oedfa fel yna,” meddai rhywun. Ac atebai, “Ni chai ef ddim myned i bulpud Talsarn unwaith, yr wyf fi yn meddwl, heb *shavio* y farf fawr yna.”

Yr oedd rhywbeth yn arddull Mr. J— yn peri i mi feddwl am Car-

lyle, ac Emerson, a George Dawson. Fel y mae y gwŷr hyny megys yn dal hēr ar y byd, trwy ddiystyru yr hēn lwybrau sathredig o feddwl ac o eiriau, felly gellid dynodi Mr. J. Rhys Jones fel rhyw *knigh errant* pregethwrol, weithiau yn ymylu ar Quixotiaeth. Yr unig "*fit audience*" i'r fath ŵr fyddai cynnulleidfa o ddynion digon dysgedig a choethedig i grēu tipyn o arswyd arno rhag myned i'w afaeth eithafol, ac hefyd i dynu allan ei holl ymadferthoedd. Ond y mae efe yn gweinidogaethu i gynnulleidfa o anwariaid Sir Faesyfed yn Rhaiadr! Mi wnawn lŵ fod yno fwy "o dafu perlau o flaen moch" mewn mis, nag sydd mewn un lle arall yn Nghymru mewn blwyddyn.

Ar ol dyfod allan o'r addoldŷ, sylwais ar foneddiges barchus iawn yr olwg arni yn dyfod ymlaen i gyfarch y pregethwr. Synai ef yn fawr ei gweled; ymddangosai eu bod wedi bod gynt yn gydnabyddus, ond heb ddygwydd cyfarfod o'r blaen er ys blynyddoedd. "Mae eich gwallt chwithau yn llwydo, Mr. Jones," ebe hi. "O!" meddai yntau, gan osod ei fys yn chwareus ar wallt ei phen hi, "y mae yma ddau o honom ni felly. Yn awr," meddai, "pa sut y mae eich holl feibion; dywedwch i mi hanes pob un yn fyr; *just air* am bob un." "Y maent wedi meirw oll ond un," meddai hithau. "Wel, wel, fy nghyfeilles," ebe yntau, "gadewch iddo; fe gawn ni edrych yn ol ar angeu heb fod yn hir."

Arfer ymweledyddion Llandrindod ydyw cydgyfarfod wrth y ffynnonau i yfed y dwfr am chwech yn y boreu, fel ag i gael yr holl orchwyliaeth droedd cyn boreufwyd. Tua phump o'r gloch boreu dydd Llun, dyma un o'r cyfeillion oedd yn y gwely arall yn fy ystafell (amaethwr ieuanc o Sir Aber-teifi) yn gwaeddi allan, "Mr. —, dowch, deffrowch, y mae hi yn bryd codi." "Nid yw hi ddim yn chwech eto," meddwn innau. "Ni waeth er hyny," meddai yntau, "mae eisieu myned at y dwfr yn gynt ar ddydd Llun y boreu, canys y mae yno rhyw *scum* rhinweddol ar wyneb y dwfr ddydd Llun, oblegid ei fod wedi bod heb ei *ddisturbo* y Sul, a'r cyntaf at y dwfr gaiff y *scum*." "Iē," meddwn innau, gan deimlo yn lled amharod i godi—lle *brdf* ydyw y gwely—"ond y mae yr annuwiolion wedi bod yno ddoe." "Pa un bynag," atebai yntau, "y mae yn llawn bryd i ni godi o'r ystafell fwl yma; y mae yr holl *oxygen* wedi darfod er ys cetyn; nid oes yma ddim byd i'w anadlu ond *carbon* mwy." "Holo!" meddwn ynof fy hun, "athronydd eto o Benllwyn!" Yr oedd ei sylw diweddaf yn anatebadwy.

Ni chesais fawr iawn o gyfnewidiadau yn Llandrindod er "y Tridiau" o'r blaen. Nid yw y Llandrindodiaid ddim wedi rhoddi eu hunain allan o'r ffordd, nac wedi aberthu eu hurddasolrwydd arafaid, i geisio cydreddeg â symudiadau brysiog yr oes. Saif Llandrindod mewn neillduedd llonydd oddiwrth y byd; gadawa i'w breswylwyr prysur wylltio faint a fynont, a gwahodda hwynt yno yn y diwedd i oeri tipyn ar eu penau wrth ei ffynnonau tawel a rhinweddol hi. Cesais yr hen *bump-house* fel o'r blaen; y dwfr mor rinweddol, yr hen *gommon* mor agored, a'r awyr mor bur ag erioed.

Clywais am un rhinwedd mawr sydd yn perthyn i'r llanerch hynod yma o'r ddaear, nad oeddwn i ddim yn gwybod am dano o'r blaen; a'r hwn rinwedd, pan y daw yn fwy hysbys yn y wlad, a fydd yn debyg iawn o dynu llawer mwy o ymweledyddion yma nag erioed, sef yw hyny, fod yma rywbeth, un ai yn y dwfr neu yn yr awyr, neu yn amgylchiadau cymdeithas, neu yn yr oll ynghyd, sydd yn hynod ffafriol i ffurfio yr hyn a eilw y Saeson yn "*matches*," sef dwyn dynion a merched sengl i garu eu gilydd

ac i ymuno mewn glân briodas. Sicrhawyd fi fod yma bymtheg o "*fatches*" wedi eu gwneyd i fynd yn Llandrindod yn y flwyddyn '56; ac yr wyf yn deall fod dwy o leiaf wedi eu gwneyd i fynd o gylch ac yn y dyddiau yr oeddwn i yno. Wrth geisio meddwl ac athroniaethu uwch ben hyn o wirionedd, bron nad allwn i dybied y gall fod y dyfroedd hyn, wrth ysgafnhâu corff a meddwl, a'r awyr bur yma wrth sirioli yr ysbryd, yn tueddu i ddwyn y dyn neu'r ddynes i dymher gymhwys a pharod i dderbyn ac i fwynhâu pob math o drugareddau gyda thalu diolch. Heblaw hyny, yr ydys yma wedi ymneillduo yn hollol o sŵn y byd a'i helynt; ac os dygwydd i ryw wrthddrych cyfaddas i wneyd gŵr neu wraig dda fod yn bresennol, mae y meddwl yn cael hamdden i sefyll yn ystyriol uwch ei ben. Fe allai rhyw ferch ieuanc a ddaeth yma yn wan ei hiechyd ac yn wael ei gwedd i ymofyn meddyginiaeth y dyfroedd, grëu teimlad o dosturi yn mynwes rhyw ŵr ieuanc cymharadwy a chymeradwy, ac i'r teimlad hwnw addfedu yn gariad, waith y mae rhyw gyfathrach agos rhwng y teimladau hyny. Edrycher eto ar ansawdd cymdeithas yma. Yr oedd yn y tŷ lle yr oeddwn i yn lletya rywbeth gydag ugain yn aros, rhai o'r Gogledd a rhai o'r Deheu, ac ambell un o Loegr. Yr oedd yn ein plith wŷr, gwragedd, a phlant; merched a meibion ieuainc; hên ferched a hên lanciau; gyda gweddwon yn wryw a banyw. Oedd yn wir! er nad oedd yma ond oddeutu ugain yn y cwbl. Fe synit cygynted y mae hanes personol pob un a ddaw yma yn dyfod yn hysbys. Mor belled ag y gallwn i ffurfio barn, rhywbeth yn debyg i'r drefn ganlynol y mae yr ymchwiliadau i fywgraffiad pob dyfodiad newydd i Landrindod yn cael ei ddwyn ymlaen.

1. Pa un ai priod ai sengl?
2. I ba sect y mae yn perthyn?
3. A oes ganddo ef neu hi—BRES?
4. Os bu briod o'r blaen, pa faint o blant sydd ganddo neu ganddi?—a chan y merched—Pa faint yw oed y plentyn ieuengaf?
5. A oes ganddo neu ganddi ddarpar-priod? Bellach, wedi gwneuthur yr holl ddarganfyddiadau yna i foddlonrwydd, ti a weli fod y ffordd yn rhydd ac yn ddiberygl i ddwyn ymlaen weithrediadau o natur briodasol.

Gâd i ni yma geisio tynu darluniad, i roddi eglurhâd pellach ar y pwnc dan sylw. Mae y cwmni oll yn cydgyfarfod yn yr un ystafell i fwya pob pryd o fwyd. Dyma hi yn awr yn amser *tea*; dyma wyth neu naw o "setiau" o lestri tē wedi eu gosod ar hyd y byrddau ogylch yr ystafell, un *set* i bob teulu. Ymysg eraill, dyma *barty* o ŵr, a gwraig, a chwaer ddibriod i'r wraig, yn cydyfed tē. Y maent oll yr hyn a elwir yn ganol oed a thipyn mwy. Mae y chwaer ddibriod cân laned a chân galled â'r wraig, os nad yw yn rhagori arni. Byddaf fi yn barod i feddwl weithiau mai y synwryolaf a'r goreu o'r merched sydd yn cael eu gadael. Y maent fel ambell i brogethwr da a defnyddiol, "heb eu gweled" nes y byddo hi yn rhy ddiweddar. Fe allai mai rhyw ry bwylllog ydynt. Mi a glywais un hen ferch gall iawn yn dyweyd unwaith, "Yr oeddwn er ys talm yn ystyried llawer pwy a gymerwn i; ond yn awr yr wyf yn ystyried pwy a'm cymer i." Mae perygl ystyried nes colli yr adeg. Y mae y wraig yn hynod ofalus am ei gŵr, braidd yn fwy felly mewn lle fel Llandrindod nag y bydd hi gartref. A welwch chwi hi yn tywallt ei dē; yn troi y llwy yn ei gwpan, yn ei dywallt i'r "*saucer*;" yna yn edrych yn serchus yn ei wyneb, gan ddyweyd, "O! William fach, beth yw'r parddu yna sydd dan eich llygad?" Dyna hi yn tynu ei chadach llogell gwyn

allan, yn gwlychu hwnw ar flaen ei thafod, ac yn dechreu rhwbio y brycheuyn oddiar wyneb hoff ei hanwylyd. "Dyna fe, 'nghariad i," meddai yntau, a'i amynedd mawr ef ymron darlod oblegid fod yr orchwyliaeth dyner yn rhwystro iddo weled ei bapyr newydd; ac yn wir y mae y wraig dda yn cario y driniaeth ymlaen braidd yn hwy nag sydd eisien, o wir bleser yn y gwaith. Wele, eto : draw ymhen arall yr ystafell, y mae hên lanc, clyd iawn ei amgylchiadau gartref, yn hwylio at yfed ei dê mewn unigedd ymhlith pawb. Mae yn sylwi ar pa beth sydd yn myned ymlaen o'i amgylch, ac wrth weled y fath ddarlun o ddedwyddwck teuluaidd â'r un uchod, mor naturiol i'r syniad basio trwy ei feddwl ef, "Pe cawn innau *beth fel acw* i weini arnaf yn mhrydnawn fy nyddiau, gallwn fod yn gryn hapusach;" ac mor hawdd yw i'w lygaid ddygwydd llithro yn rhaglun-iaethol oddiwrth y wraig at y chwaer sengl sydd yn eistedd yn segur a diniwed yn ei hymyl. Ar yr un pryd, nid oes dim posibl i lygaid y chwaer ddibrid beidio syrthio weithiau ar berson yr hên lanc wrth iddi hi edrych oddiangylch yr ystafell. Ac mor naturiol ydyw i deimlad o dosturi dros ei unigolrwydd digynnorthwy basio trwy ei chalon. "Druan bach," meddylia ynnddi ei hun, "onid yw yn resyn fod y gŵr parchus acw heb rywun i weini arno? A welwch chwi fel y mae ef yn gwlychu y *hiza* bwrdd wrth geisio tywallt ei dê, a darllen ei *DRAETHODYDD* yr un pryd; ac mor afêr ydyw coler ei grŷs ef; nid oes dim hanner digon o *starch* ynnddi; a dyma finnau heb ddim byd i'w wneyd, ac fe fyddai crystal genyf fi ymgeleddu *peth fel acw* â'r un ddoli a fu gen i erioed." Nid wyf fi ddim yn dyweyd fod y meddyliau yna yn ymfurfio yn ddelwau eglur ac yn eiriau toredig yn y meddwl; ond y maent yn ymgodi fel rhyw ddedwyddoledigaethau aneglur draw draw yn nherfyngylch ffurfafen ei chalon. Wedi i arwyneb dwy hên galon gael eu tyneru fel yna, hawdd iawn yw i Cupid gael blaen ei saeth i mewn, ac yna y mae digon o gyfryngwyr mewn lle fel Llandrindod yn barod i'w gyru hyd adref.

Yr oedd yno un hên lanc yn ein plith nad ydyw'f fi ddim yn meddwl fod llawer o berygl iddo ef gael ei ddwyn yn gaeth gan y clefyd tyner (*tender passion*). Dyn canol oed a chanol faint; wynebpryd goleu, gwallt cringoeh, gwisg barchus, â het *jim crow* wên ar ei ben, ydyw hwn. Dyoddefa gan ryw ddrwg mawr yn ei gylla, ac nid oes dim ond dyfroedd Llandrindod yn ei esmwythâu; am hyny y mae yn myned yno bob blwyddyn yn rheolaidd, ac y mae pawb yno bron wedi dyfod i'w adnabod ef, ac y mae efe yn dra phoblogaidd, "*quite an authority*" ymhlith yr ymweledyddion. Nid yw hwn yn debyg i hên lanc "y Tridiau" o'r blaen; ychydig iawn o wendidau mursenaidd hênlaucedigaeth sydd yn perthyn iddo. Rhyw John Bull o hên lanc ydyw; *politician* mawr; *radical* ofnadwy; ymneillduwr egwyddorol; a dehonglwr mawr ar Lyfr y Dd-guddiad. Gŵr pwylllog, synwrlawn ydyw; un tebyg iawn i gymeryd digon o ofal am ei geiniog, a digon o ofal am ei galon. Yr oedd yno ddwy ferch ieuanc led addfed yn cymeryd cryn sylw o hono; ond uchel-eglwysyddesau ydynt, mor uchel fel pan y soniwyd un noson gan rai o honom am gadw dyledswydd denluaidd—heb *Common Prayer*, wrth gwrs—y cerddodd y ddwy mewn braw allan o'r ystafell. Yr oeddwn yn dyfalu na wnaent hwy sawr o Mr. P—, rhwng fod ei ystymog ef mor ddrwg, ei galon mor oer, a'i egwyddorion mor ystyfnig.

Yr oedd yn dda iawn genyf weled fod ysbryd y diwygiad yn dyfod gyda

phobl Sir Aberteifi hyd i Landrindod. Cadwent gyfarfod gweddi undeb bob nos; ac y maent wedi cychwyn Ysgol Sabbothol yno, yr hyn nas bu er ys blynyddau, os bu erioed, canys gellid meddwl wrth gyflwr moesol Llandrindod, pan fyddo yr iaith Gymraeg yn colli, fod breintiau crefyddol yn cilio. Daeth 45 i'r ysgol y Sabboth cyntaf, a 54 yr ail. Yr oeddynt wedi cael allan hefyd fod yno ddiffyg mawr am Fiblau a Thestamentau ymhlith ychydig drigolion yr ardal. Mewn canlyniad, aethant ati, a chasglasant oddeutu tair punt ymhlith yr ymweledyddion, ar hanasant werth hyny o gopïau o Air Duw ymhlith y bobl amddifaid hyn. "*And thereby hangs a tale.*"

Yr oedd yno ryw gurad bach—nid hynod fach ychwaith—yn gwneuthur ei ymddangosiad, ac yn tynu cryn sylw bob boreu wrth yfed y dyfroedd iachusol. Y mae dau neu dri o lwybrau yn cychwyn oddiwrt y sffynnonan, ac yn estyn allan yn syth ar draws y cyttir gerllaw, ar hyd pa rai y bydd yr yfwyr yn cerdded yn frysiog rhwng pob glasiad i gynnorthwyo ac i ddysgwyl am gynhyrfaid y dyfroedd. Ond yr oedd y curedyn hwn yn diystyru rhodio yn yr hên lwybrau, eithr taflai allan ar "*obtuse angle*," a gwnai lwybr newydd iddo ei hun, a cherddai megys am ei fywyd, yn ddigon pell oddiwrt gyffyrddiad â'r "*oi polloi*." Iê, iê! yr oedd y creâdur "*sismatic-aid*" yn gadael yr hên lwybrau "*sefydledig*," ac yn myned yn "*ymneill-duwr*" bob bore o flaen ein llygaid! Wel, ymhlith eraill, gofynwyd i'r curad hwn gyfranu at y casgliad dyngarol uchod. Gofynai yntau, "*A ydyw Person y plwyf yn gwybod am y symudiad?*" a gwrthododd gyfranu os nad ydoedd! Fe ddywed rhai nad oes dim dysgyblaeth yn Eglwys Loegr. Cabledd o'r fath fwyaf! Dyma Esgob Bangor yn hunanymwadu âg ef ei hun, ac yn peidio pregethu i bechaduriaid Llanbedr heb ei wisg newydd esgobol; a dyma gurad bach yn methu rhoi chwechyn tuag at gyfranu Biblau i baganiaid Llandrindod heb genad person y plwyf. Yr wyf fi yn tybied nad oes ymhlith dysgyblion Ignatius Loyola ei hun ddim dysgyblaeth fanylach nag sydd yn "*yr Hen Eglwys*" yn awr, ac yn bendifadden ymhlith mân guradiaid y Dywysogaeth, epil corachaid Llanbedr a St. Bees.

Nid oedd "*ceffyl mawr*" y "*Tridiau*" o'r blaen, wrth bob rheswm, ddim genyf y tro hwn; ond y mae genyf olynnydd teilwng o hono; is o faint ond uwch o "*freed*;" llai o asgwrn ond mwy o waed. Gofynais i wraig y tŷ ddydd Llun a allai rhywun ddim "*ledio*" y ceffyl allan am ychydig yn y prydawn, rhag ei fod yn cyffio yn yr ystabl; ac atebai hithau yn lled gwta, os ceid amser yr anfonai hi y llanc gydag ef. Yr oeddwn yn dyfod adref yn araf yn yr hwyr ar draws y *common*, o'r cyfarfod gweddi, pan y dywedai Mr. P——, "*Holo, daew eich ceffyl chwi allan;*" ac felly yr oedd ef, yr ochr draw i'r *common* â'r hogyn ar ei gefn. Nid oedd y march enwog Bucephalus yn caniatâu i neb ond ei feistr Alexander Fawr fyned ar ei gefn. Ni bu neb ar gefn Charlie (fy ngheffyl innau) er ys blwyddyn ond ei feistr, nac yntau ond unwaith. Ymdaenodd rhyw *nervousness* mawr drosyff. Dysgwylw'n chwyldrôad dioedi, a diorseddiad y Llandrindodyn rhyfygus; os nid rhywbeth gwaeth, yn y fan. Troais fy mhen ymaith mewn braw. "*Mae o i lawr—mae o i lawr,*" meddai dau neu dri o leisiau ar unwaith. Ac i lawr ac o'r golwg yr oedd yr hogyn, a Charlie yn carlamu ymaith, a'i fwng a'i gynffon i fyny fel ebol gwyllt. Y mae y cyttir yn ddwy neu dair milldir o hŷd, ac o léd cyfatebol; ac yr oedd Charlie yn myned gyda mwynhâd mawr, fel rhyw grêdur athrylithfawr wedi bod yn hir mewn caethiwed, ond ar unwaith wedi cael digon o "*scope*" i'w ddoniau. A ddarlennaist ti

Mazepa gan Arglwydd Byron, lle y mae y bardd enwog yn desgrifio y ceffyl gwyllt hwnw mor fawreddog? Pe buasai Byron yn fyw, galleid bron feddwl mai oddiwrth Charlie ni y cafodd ef yr *idea*. Yr oedd wedi dymchwelyd ei farchog yn bur ofalus hefyd, ar dir glas esmwyth; ac yr oedd yn dda iawn genyf weled nad oedd wedi derbyn dim niwed, canys yr oedd yn hela ar ol Charlie, fel malwen ar ol ysgyfarnog. Yr oedd yno amryw o ferliwn y mynydd yn pori yma a thraw ar y *common*; a chan gynted ag y clywodd y rhai hyn sŵn carnau Charlie, ymfurfiasant yn fyntai ar ei ol; gwelsant a chydabyddasant ei uchafiaeth ar unwaith, ac ymrestrasant dan ei faner yn y fan. A oes "*hero-worship*," dywed, ymhlith ceffylau? Ymddangosai Charlie fel yn ymdeimladwy o'r anrhydedd a roddid arno; ymgodai i'r achlysur; dyrchafai ei ffroen yn uchel; ysgydwai ei ben yn brydferth ac arwrol yn y gwynt, ac arweinai ei fyddin ar garlam gwyllt ar hyd y mynydd-dir. Ond y mae un wns o reswm yn gryfach na thunnell o *instinct*; dechreuem ninnau ystyried pa fodd i'w ddwyn yn gaeth eilwaith; cawsom lidiart mewn congl o'r *common* yn agor ar ffordd gul yn arwain i le mwy cauedig; a llwyddasom i gael Charlie a'i holl fyntai i mewn yno. Gelwch y ffordd hono yn wtre; rhewl; ystryd; lôn, neu pa beth bynag a fynoch, minnau a'i galwaf yn Thermopylae, oblegid trwy gymhorth y *pass* cyfyng hwnw, y cymerodd ychydig wŷr traed Charlie a'i holl lu o feirch yn garcharorion, fel na ddiangodd un copa gynffonog y honynt.

Nos Lun, yr oedd yn rhaid i mi roddi i fyny fy ngwely, canys benthg oedd. Yr oedd y tŷ mor llawn fel nad allwn gael ond rhan o wely oddisewn i un o'r ystafelloedd; ond cynnygiwyd i mi wely i mi fy hun os boddlonwn i gysgu yn y *lobby*, yr hon oedd yn dra èang. Aberthais fy urddasolrwydd am noswaith am iechyd, a dewisais y gwely yno; oblegid os cawn lai o drefn a dodrefn, fe gawn fwy o wynt. Wrth fyned i'r gwely, dyma y brodyr yn yr ystafell nesaf yn galw arnaf i wneyd pennill i'm gorweddfan. "Na, nid felly," meddwn i, "ni wna fi ddim pennill i mi fy hun; ond gwnewch chi bennill i mi eich pedwar erbyn y boreu, a mi a roddaf geiniog o wobr i'r goreu, os bydd deilwng." Aethant ati, yr athronydd o Benllwyn, y pregethwr ieuanc, a'u dau gyfaill; dyna hwynt yn yr ymdrechfa â'r awen nes yr aethum i gysgu. Yn y boreu dygent y pennill canlynol i'r bwrdd fel ffirwyth eu galluoedd unedig, a chleimient y geiniog:—

"Yn orhuddiedig gan *screen* werdd,
Mae'r bardd ei hun yn cysgu,
Crëadur blin, wrtho ei hun,
Mewn *hammock* yn y *lobby*."

Nid oeddwn "orchuddiedig," ond yn amgauedig, gan y *screen*; dyna ddiffyg synwyr. Nid yw "cysgu" a "*lobby*" yn cydoddi; dyna ddiffyg odl. "*Screen*," "*hammock*," "*lobby*," ydynt eiriau Saesoneg; diffyg mewn iaith. Nid yw yn teilyngu y wobr. Dyma i chi bennill yn lle'r geiniog:—

"Pedwar Hwntw ar eu hynt,
Mewn 'stafell fach go brin o wynt,
Yn pwnio eu penau ar hyd y nôs,
A methu gwneyd un linell dîa."

Ni buaswn ddim yn rhoddi hanes yr Eisteddfod hon i lawr ychwaith, ond yn unig o foesgarwch pur i'r pedwar brawd dyeithr o'r Deheudir, waith mi

wn y rhydd foddiondeb mawr iawn iddynt hwy gael gweled eu pennill yn gyhoeddedig o flaen y byd yn mhrif gylchgyhoeddiad Cymru; ac nid oes genyf fi un gwrthwynebiad iddynt ddringo i anfarwoldeb wrth fy nghwt, os gallant. Am y gweddill o'r dydd Mawrth, rhaid i mi ddyweyd na ddygwyddodd dim *mor hynod bwysig* y dydd hwn â'r hyn a gofnodwyd uchod; neu ynte fe allai fy mod i yn dechreu blino yn sylwi arnynt a'u cofnodi.

Yn wir, fe allai y bydd rhyw ddynsodion bychain yn synu fod dynion mawr "fel ni" yn ymostwng i gronico pethau a ymddangosant iddynt hwy mor fychain. Ond os byth y daw y dynionach hyny yn ddynion, ac yn ddynion mawr, hwy a ddeuant i weled mai gwaith anghenrheidiol iawn ydyw llacáu tipyn weithiau ar y bwa nerthol; ac os byth y deuant yn athronwyr mawr, fe ddeallant fod cael cymhorth i chwerthin yn iawn weithiau yn iechyd i gorff ac ysbryd; ac os byth y deuant yn ysgrifenyddwyr mawr, fe ddygant mai y gamp uchaf mewn cyfansoddiad ydyw darlunio pethau bychain yn naturiol, a'u gwisgo â phrydferthwch a dyddordeb.

Ffarwel! fy nghâr, fe fyddwn "yn hên" yn wir cyn y cawn "Dridiau yn Llandrindod eto;" o bosibl na cheir byth mwy ond yr adgofion hyn am danynt. Bydd yr ymweliadau difyr hyn ymhlith y pethau "a fu ac a ddarfu." "*Sic transit gloria mundi.*"

Nodiadau Llenyddol.

Y MAE y gyfrol gyntaf a'r ail wedi eu cyhoeddi o "*Lectures on Metaphysics and Logic, by Sir William Hamilton, Bart., Professor of Logic and Metaphysics in the University of Edinburgh. Edited by the Rev. H. L. Mansel, B.D., Oxford, and John Veitch, M.A., Edinburgh. In four volumes.* William Blackwood and Sons, Edinburgh and London. 1859." Yr oedd Sir William Hamilton, trwy ei Erthyglau ar Arddansoddiadaeth a Rhesymeg i'r *Edinburgh Review*, y rhai wedi hyny a gasglwyd ac a gyhoeddwyd ganddo yn un gyfrol, a thrwy ei argraffiad o holl waith Dr. Reid gyda nodiadau manwl ac Attodiadau dysgedig, ac yn neillduol, trwy ei Ddarlithiau yn Mhrif-ysgol Edinburgh, wedi ennill iddo ei hunan, yn ei fywyd, yn meddyliau y rhai cymhwysaf i faru, nid yn unig yn y deyrnas hon, ond ar Gyfandir Ewrop, ac yn Unol Daleithiau yr America, y cymeriad o fod yr Arddansoddydd, y Rhesymegydd, a'r Beirniad, blaenaf yn ei oes. Nid oedd erioed wedi cyhoeddi eglurhâd cyflawn o'i Gyfundraeth Athronyddol; ac yn ganlynol yr oedd dysgwyliad anghyffredin am ymddangosiad y cyfrolau hyn, yn y gobaith y ceid ynddynt olwg fanwl ar ei holl Athroniaeth, yn gystal â goleuni helaethach ar yr hyn a ymddangosai i lawer, oddiwrth y dull rhanol a gymerasai yn flaenorol i gyhoeddi ei syniadau, yn ddyrys ynddynt. Er y rhaid cydnabod nad ydynt y fath ag i gyfarfod yn hollol y cyfryw ddysgwyliadau, eto nis gallant lai na pheri i'r neb a ymglydnabyddo â hwynt, deimlo yn ddiolchgar am y fath arwein-

iad i egwyddorion mawrion Meddyleg a Bodeg, a gresynu fod y fath feddwl dyaglaer a chyfoethog wedi ei gymeryd ymaith cyn cael yr hamdden a ddysgwyliai i ddwyn y gwirioneddau y llafuriasai gymaint ynddynt, ac yr oedd mor gydnabyddus â hwynt, mewn dull mwy ffurfiol a chyflawn ger bron y byd. Y cyfrolau ar Arddansoddiaeth yn unig sydd eto wedi eu cyhoeddi. Bydd y ddwy nesaf ar Resymeg. Mae y cyfrolau hyn yn cynnwys y Darlithiau a draddodid ganddo bob yn ail flwyddyn i'w ddosbarth yn Edinburgh. Etholwyd ef i gadair Rhesymeg ac Arddansoddiaeth yn y flwyddyn 1836, a bu yn ei llanw hyd ei farwolaeth yn 1856. Cyfansoddwyd y Darlithiau yn y cyfrolau presennol ganddo, gan mwyaf, yn y gauaf 1836—7; ac y mae yn brawf anghyffredinol o barodrwydd ei feddwl, ynghydag o fanylder a chyflawnder ei wybodaeth yn y testynau y traethai arnynt, ei fod yn gallu cyfansoddi tair o'r fath Darlithiau bob wythnos. Ni wnaed unrhyw gyfnewidiad o bwys arnynt ganddo o'r pryd hwnw hyd ei farwolaeth. Arferai weithiau yn ei ddosbarth wneuthur ambell nodiad rhydd gyda golwg ar ryw syniadau a gyhoeddaisid wedi yr amser y cyfansoddasai y ddarlith, neu gyda golwg ar ryw wedd ar y pwnc a'i tarawai ar y pryd fel yn teilyngu sylw, y rhai a ysgrifenedid gan ei ddysgyblion,—ac yn achlysurol, gwnai ryw gofion bychain o'r cyfryw ei hunau ar ymylau dail y darlithiau ysgrifenedig;—ac y mae y naill a'r llall o'r rhai hyny wedi eu doddi i mewn gan y golygwyr yn y gwaith argraffedig. Oddieithr hyny, y mae y darlithiau wedi eu hargraffa agos yn hollol fel y cyfansoddwyd hwynt ar y cyntaf. Y mae hyny yn peri nad ydym bob amser yn cael ei olygiadau diweddaf yma,—yn gymaint ag y gallai ei fod wedi newid ychydig yn ei syniadau ar ryw bethau wedi y pryd y cyfansoddasai y Darlithiau—a chyn cyhoeddi yr Attodiadau i waith Dr. Reid, neu ail-gyhoeddiad ei Erthyglau i'r *Edinburgh Review* wrthynt eu hunain, yn 1852 ac 1853. Yn mhob amgylchiad felly, pa fodd bynag, y mae y golygwyr yn ofalus i arwain y darlennydd at yr hyn fyddo yn anghenrheidiol arno rhag gwneuthur camgasgliad, trwy ei gyfeirio at y rhanau eraill o'i ysgrifeniadau, lle y ceir naill ai eglurhâd helaethach, neu agweddiad gwahanol ar y syniad i'r hyn a roddir yn y Darlithiau. Y mae yr holl ddarlithiau hefyd yn tybied y darlennydd yn *Esfrydydd*, heb feddu, ar y dechreu, ond ychydig neu ddim gwybodaeth ynghylch yr hyn a ddygir ynddynt dan sylw. Yn ganlynol, y maent wedi eu cyfaddasu i anghenrheidiau y cyfryw. Ac er nas gellir dywedyd nad oes ynddynt anhawsderau,—y mae natur y pynciau yr ymdrinir â hwynt ynddynt yn gwahardd hyny—eto y mae y darlennydd yma yn cael ei osod ar y tir mwyaf manteisiol i'w goresgyu; ac, ond arfer ymrodd, dyfalwch, a pharhâd, dan dywysiad yr athraw galluog sydd yn ei gyflwyno ei hunan iddo yn y darlithiau hyn, fe deimla ei hunan yn raddol yn ennill y fath feistrolaeth arnynt ag a bâr iddo deimlo yn gryf i fyned rhagddo yn ei ymchwiliadau, heb ddigaloni er cytarfod âg anhawsderau mwy. Ni a gawn dilychweilyd rywbryd at y gwaith hwn. Pris y cyfrolau cyhoeddedig eisoes ydyw pedwar swlt ar hugain.

Llyfr arall tra galluog cysylltiedig â'r un testyn, er fod ei athroniaeth yn dra gwahanol, ydyw "*The Emotions and the Will*. By Alexander Bain, A.M., *Examiner in Logic and Moral Philosophy in the University of London*. London: John W. Parker and Son, 1859." Galwasom sylw rywbryd yn ol, at lyfr arall gan yr un awdwr, "*The Senses and the Intellect*. Y mae y llyfr presennol wedi ei fwriadu yn barhâd ac yn gyflwr-

wad i hwnw, a rhyngddynt y maent yn cyflwyno i ni olygiadau yr awdwr yn gyflawn ar y meddwl dynol. Yr hyn sydd yn hynodi y cyfansoddiadau hyn yw y pwys mawr a roddir gan yr awdwr ar, a'r sylw manwl a delir ganddo i, gysylltiad y meddwl â'r corff, a'r cyd-ddylanwad rhyfedd a grymus sydd gan y naill ar y llall. Y mae yn y llyfr hwn yn olrhain, yn bwyllog ac yn feistrolaidd, serchiadau y galon a gweithrediadau yr ewyllys; ac er yr ymddengys i ni fod rhai diffygion dirfawr, a chamgymeriadau pwysig yn ei athroniaeth, eto nid ydym yn ammheu nad ennilla iddo ei hunan, yn raddol, un o'r lleoedd anrhydeddusaf yn y dosbarth cyntaf perthynol i gyfansoddiadau o'r fath. Pris y llyfr ydyw pymtheg swllt.

O'r America yr ydym wedi cael "*Rational Cosmology: or the Eternal Principles and the necessary Laws of the Universe.* By Laurens Hickok, D.D., *Union College.* New York: D. Appleton & Co. London: 16 Little Britain. 1858." Y mae Dr. Hickok yn adnabyddus fel un o'r meddylwyr galluocaf yn America. Y mae ei *Rational Psychology* yn rhoddi hawl iddo ar unwaith i'r cymeriad hwnw. Prin yr oedd Kant ei hunan yn un a allai ymryddhâu yn fwy llwyr oddiwrth ffurfiau cyffredin a chyfnaw-idiol meddwl, ac ymddyrfhafu yn uwch i diriogaethau gwirionedd ysbrydol, pur, digyfnawid, a thragywyddol. Yn ei *Rational Psychology* y mae yn amcanu esgyn at yr egwyddorion mawr sydd yn anghenrheidiol i, ac yn llywodraethu ar, ein holl ddirnadaethau. Nid digon ganddo gymeryd ffeithiau ymwybodolrwydd fel y rhoddir hwynt i ni trwy brofiad; y mae am esgyn uwchlaw iddynt, at y deddfau-tragywyddol sydd yn penderfynu nodwedd profiad ei hunan,—fel ag i allu dywedyd, nid yn unig, *fel hyn y mae,—ond fel hyn y rhaid iddo fod.* Y mae yn ddiagrammheu yn ddyledus am y prif syniadau i Kant, ond y maent ganddo ef yn gwisgo gwedd hollol an-nibynol, heb ddim i arwyddo yn amgen na phe buasent wedi tyfu yn gwbl yn ei feddwl ef ei hunan. Yn y llyfr presennol y mae yn amcanu esgyn i dir uwch fyth. Yma y mae yn ymgais am fyned tu hwnt i holl ymddangosiadau a deddfau natur, at yr egwyddorion anghenrheidiol, tragywyddol, sydd tu oesfa iddynt, yn penderfynu eu bôd a'u ffurfiau. Y mae ar ol dangos annigonolrwydd pob cyfrwng arall er galluogi dyn i esgyn at yr An-feidrol, yn ei gael trwy ei reswm (yn ystyr Hickok a Kant o'r gair), ac, wedi cyrhaedd y syniad am yr Anfeidrol, y mae yn ymdrechu ymresymu oddiwrtho ddeddfau anghenrheidiol y grëadigaeth elfenol ac ysbrydol. Pa beth bynag a ddyweder am yr athroniaeth, a phrin yr ydym yn credu y gall gael llawer i'w chofseidio, nid oes modd peidio cydnabod gallu dirfawr yr athrodydd; na pheidio llawenhâu fod meddwl mor gawraidd yn arwyddo ymddarostyngiad mor llwyr i awdurdod y dadguddiad dwysol. Pris y llyfr yw deg swllt.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar, *Codex Vaticanus.* Η *καμη Διαθηκη. Novum Testamentum Græce ex antiquissimo Codice Vaticano edidit Angelus Maius, S. R. E. Card. Ad Fidem editionis Romanæ accuratius impressum.* London: Williams and Norgate. D. Nutt. 1859. Mae lliaws o'n darllenwyr, y mae yn ddiagrammheu genym, yn gwybod mai yr un a elwir y *Codex Vaticanus* yw yr un a dybir y llawysgrif henaf o'r Testament Newydd sydd yn yr holl fydd. Y mae Tischendorf a Dr. Tregelles yn barnu iddi gael ei hysgrifenu rywbryd tua chanol y bedwaredd ganrif—ac y mae Tregelles yn ymddangos braidd fel pe byddai yn tybied iddi gael ei hysgrifenu yn gynt: ei eirian ydynt, "pa faint hynach ydyw nid oes genym un

modd i benderfynu." Pa bryd y daeth i lyfrgell eglwys St. Pedr yn Rhufain sydd hefyd yn ansicr: y mae yn hysbys yr edrychid arni trwy holl Ewrop, yn yr unfed canrif ar bymtheg, fel y llawysgrif henaf o'r Testament Newydd. Yr oedd bob amser yn cael ei chadw gan y Pabau a'i Gardinaliaid mewn dirgelwch mawr. Trwy ffafr anghyffredin y ceid edrych arni, ac, yn neillduol, gwneyd dim cymhariaeth rhyngddi â llawysgrifau eraill o'r Testament Newydd. Priodolai rhai y gwrthwynebiad hwnw i ymdeimlad o du Rhufain o wahaniaeth mawr rhwng yr hen gopi hwn a'i chyfieithiad awdurdodedig hi. Ond y peth tebycaf yw, nad oedd y gwrthwynebiad yn ddim amgen na rhan o'r gwrthwynebiad cyffredinol sydd trwy yr oesoedd yn hynodi Eglwys Rhufain i ledaeniad a darlleniad yr Ysgrhythrau. Aeth Dr. Bentley i Rufain er mwyn ei ddarllen, a chafodd wŷr i wneuthur cymhariaeth o'r ysgrif iddo ef gyda golwg ar yr argraffiad a fwriadai gyhoeddi o'r Testament Newydd. Gwnaed cymhariaethau gwerthfawr o bryd i bryd gan amryw o'i ddarlleniadau; ond yr oedd cryn ansicrwydd yn gorphwys trwy y blynyddoedd ynghylch y gwir ddarlleniad oedd ynddo, lle y tybid ei fod yn gwahaniaethu; a Rhufain yn ymddangos yn llai lai awyddus i foddio cywreinrwydd yr ymofyngar. Pa fodd bynag fe ymgymerodd Cardinal Mai ag argraffu y llawysgrif. Gorphenwyd ei hargraffu tuag un mlynedd ar bymtheg yn ol; ond, am ryw achos neu arall, ni chaniatâi y Pab Gregory XIV. iddo gael ei gyhoeddi. Y flwyddyn ddiweddar, pa fodd bynag, fe'i cyhoeddwyd gyda'r Hen Destament, yr oll yn gwneyd pump o gyfrolau mawr pedwar-plyg. Y mae y llyfr yn awr ger ein bron yn gyfargraff diwygiedig o'r hyn o'r gwaith hwnw sydd o bwys neillduol i'r efrdydd ysgrhythrol, sef testyn y Testament Newydd. Gall pob un yn awr, drosto ei hunan, farnu pa beth ydyw darlleniad yr hen ysgrif arhwydeddus yma o unrhyw ran o'r Testament Newydd, a gynnwysir ynddi, y byddo unrhyw ammheuaeth ynghylch cywirdeb y testyn. Y mae yn dda genym ddeall fod yr un cyhoeddwr yn bwriadu dwyn allan, yn ddoedi, gyfargraff gywir o destyn y llawysgrif Alexandriaidd, sydd yn y *British Museum*—y nesaf mewn henafiaeth ac awdurdod i'r *Codex Vaticanus*. Pris y gyfrol hon ydyw deuddeg swllt.

Y mae yn dda iawn genym gael prawf, yn nghyhoeddiad yr ail gyfrol, fod y *Gwyddoniadur Cymreig* yn parhâu ymhob modd i deilyngu y ganmoliaeth a roisom iddo ar gyhoeddiad yr Hanner Cyfrol cyntaf. Yr ydym yn llawenyachu hefyd wrth glywed fod cynifer o'n cydwladwyr yn gwerthfawrogi y fantais a roddir iddynt drwyddo i ymgyfoethogi mewn gwybodaeth ysgrhythrol a chyffredinol, trwy roddi derbyniad mor helaeth iddo, ac felly galluogi y cyhoeddwr anturiaethus i'w gwasanaethu heb ddim colled ond ennill iddo ei hunan. Y mae lliaws o Erthyglau yn y gyfrol hon teilwng o'u cystadlu, a rhai o honynt yn rhagori, ar ddim adnabyddus i ni mewn unrhyw waith o'r fath; ac y mae yr oll yn arddangos gallu anghyffredinol i ymasïd yn ysbryd y testyn dan sylw, a chyflwyno hanfod yr oll anghenrheidiol i'w wybod am dano mewn cylch cryno ger bron y darllenydd. Ni a ddymunem ei argymhell, yn y modd mwyaf diffuant a gwresog, i sylw a derbyniad ein holl ddarllenyddwyr.

Y TRAETHODYDD.

AWDLAU A PHRYDDESTAU HEN A DIWEDDAR.

Nid oes dadl nad ydyw barddoniaeth yn sefyll yn uchel ac yn derbyn sylw neillduol ymysg y rhan fwyaf o genedloedd y ddaear ag sydd wedi cyrhaedd y gradd lleiaf o wareidd-dra. Ac mae yn anhawdd gwybod beth sydd i'w ddeall wrth yr hyn a ddywedir yn y Trioedd canlynol,—“Am dri achos y gelwir y Beirdd yn Feirdd wrth fraint a defod Beirdd Ynys Brydain. Yn gyntaf, am mai yn Ynys Brydain y cafwyd barddoniaeth gyntaf; yn ail, am na chafodd un wlad arall erioed ddeall cyfiawn ar farddoniaeth; yn drydydd, am nas gellir cynnal barddoniaeth, eithr yn mraint defodau a llafar gorsedd Beirdd Ynys Brydain.” Mae ynddo rywbeth tebyg i'r hyn a adroddir am drigolion un o ynysoedd y môr deheuol pan ddarganfyddwyd eu gwlad gyntaf gan rai o forwyr Lloegr, sef eu bod yn meddwl mai hwy oedd yr unig ddyinion mewn bod, a'u gwlad hwy yr unig wlad, a bod y gweddill o'r byd i gyd yn ddwfr.

Nid peth yn perthyn i un wlad yn neillduol ydyw barddoniaeth, ond mae yn perthyn i bob gwlad ac i bob cenedl o dan haul. Ac mae yn debyg fod barddoniaeth y Cymry yn rhagori ar bob cynnyrch llênnyddol arall sydd ganddynt yn eu hiaith; ond nid ydyw yn rhagori ar bob barddoniaeth arall yn y byd; a byddai yn ffolineb i neb ddywedyd hyny. Mae yr iaith Gymraeg, yr un modd â'r rhan fwyaf o'r hen ieithoedd boreuol y byd, yn iaith farddonol ynddi ei hun, ac y mae Cymru yn wlad ag sydd yn gyflawn o wrthdrysychau naturiol, o duedd i gynhyrfu a meithrin meddyl-ddrysychau barddonol yn y meddwl dynol, yr un modd ag y dywedir am wlad Groeg gynt. Ond na ddyweder o herwydd hyn mai barddoniaeth Cymru ydyw yr unig farddoniaeth mewn bod, a beirdd Cymru yr unig feirdd yn y byd. “Ymhob gwlad y megir glew,” sydd hen ddiareb gwerth ei chofio.

Y cyflwr yn yr hwn y canfyddir cenedl pan yn dyfod ymlaen o ystâd farbaraidd i un o ddiwylliant a gradd uchel o wybodaeth yn y gwyddoran a'r celfyddydau, ydyw y cyflwr mwyaf ffafriol i gynnyrchu barddoniaeth o'r radd uchaf. A phan gyrhaeddo cenedl radd uchel o enwogrwydd yn y celfyddydau, y mae barddoniaeth mewn llai o fri yn ei mysg. Golwg megys trwy niwl ar wrthdrysychau sydd yn gweddu oreu i'r bardd; ac y mae llwyd oleuni y boreu yn fwy cydweddol â'r tymher barddonol na goleuni dysglauer y canolddydd. Gyda y golygiad yma yr oedd oes Homer a Hesiod yn fwy ffafriol i farddoniaeth ymysg y Groegiaid nag oes Aristotle a De-
1869.—4.

mosthenes; ac oes Shakspeare a Milton yn Lloegr na'r oes bresennol; ac fe allai yr oes sydd yn awr yn myned heibio yn Nghymru na'r oes sydd yn dyfod i mewn.

Mae babandod llên-yddiaeth a gwybodaeth yn debyg i fabandod dyn. Mae'r dychmyg yn fwy bywiog, ond y deall yn llai grymus, mewn plant, nag mewn pobl wedi tyfu i oedran a synwyr. Felly mae babandod llên-yddiaeth pob cenedl yn fwy barddonol nag ydyw wrth i'w llên-yddiaeth gyrhaedd at y gradd uchaf mewn perffeithrwydd. Yn yr oes a fyddo wedi cyrhaedd diwylliant uchel, ceir helaethrwydd mawr o wybodaeth, bydd y celfyddydau yn uchel eu bri, ac athroniaeth o bob math yn blodeuo; bydd llawer o dalent a llawer o hyawdledd, a llawer o ganiadau da, ond ychydig o farddoniaeth o radd uchel. Barnu pethau, a chymharu pethau â'u gilydd y byddis o dan y cyfryw amgylchiadau â hyn, yn fwy na chreu pethau o newydd. Darllenir barddoniaeth, a bydd llawer yn cael pleser a hyfrydwch wrth ei ddarllen, ond ni fydd yn effeithio ar y darllenwyr yr un modd ag y gwnai mewn oes lai diwylliedig. Dywedir y byddai cerddi Homer wrth gael eu canu ymysg yr hen Roegiaid, yn effeithio arnynt i'r fath raddau nes gwneyd iddynt bron lesmeirio; a chaniadau y beirdd ymysg yr hen Gymry a'r llwythau Celtaidd, a'u cynhyrfent i'r fath raddau nes eu gyru i ganol peryglon rhyfel heb yr ofn a'r arswyd lleiaf.

Yn yr olyn uchod ar bethau, ni phetruswn ddywedyd fod iaith a llên-yddiaeth y Cymry yn fwy ffafriol i farddoniaeth nag yr un math arall o gynnyrch meddyliol; a dyna'r achos fod mwy o farddoniaeth yn yr iaith Gymraeg nag sydd o un cynnyrch llên-yddol arall. Y barddoniaeth hynotaf ag sydd ar gael yn iaith y Cymry sydd yn cael ei briodoli i'r chweched ganrif, ac yn cael ei dadogi ar Taliesin, Aneurin, Llywarch Hen, Myrddin Wyllt, a Golyddan. Nid oes ammheuaeth, dybygem, am henafiaeth mawr y rhan fwyaf o'r cyfansoddiadau a dadogir ar y beirdd uchod, ac mae bron tu hwnt i ammheuaeth bod y rhan fwyaf o honnynt yn gynnyrch yr oes a nodwyd. Ond nid y cwbl o honnynt sydd felly, canys gwelir ar amryw arwyddion oes llawer diweddarach, ac mae rhediad ac ieithwedd rhai o honnynt yn dwyn arnynt argraff y ddegfed a'r ddeuddegfed ganrif. Ac am lawer o'r darnau hynaf o farddoniaeth y gogynfeirdd, fel y gelwir y rhai y chweched ganrif, nid oes neb yn yr oes hon yn medru deall y naill hanner o honnynt i berffeithrwydd. Mae llawer o wallau a llawer o gangymeriadau wedi ymlusgo i mewn iddynt wrth eu hadysgrifenu, heblaw y gwahaniaeth sydd yn yr iaith er ys mwy na deuddeg cant o flynyddoedd. Yr hwyaf, ac fe allai y mwyaf godidog, o holl gyfansoddiadau y cyfnod yna ydyw y Gododin, gwaith Aneurin y Gwawdrydd, yr hwn a elwid yn dywysog y beirdd. Mae y bryddest hon dros naw cant o linellau o hŷd; ond nid ydyw ei diwedd yn fawr heblaw ailadrodd rhanau eraill o honi. Ac mae llawer o ddarnau o honi yn hollol annealladwy i neb yn yr oes hon, er fod tri neu bedwar o awdwyr wedi cyhoeddi cyfieithiadau o honi. Dywedai y Parch. E. Evans (Ieuan Brydydd Hir), nad oedd ef yn deall fawr dros ei hanner; ac ni chyfododd neb ar ei ol ef yn rhagori arno fel ysgolaig Cymreig, ac un yn deall hen ysgrifeniadau y Cymry. Nid ydyw y cyfieithwyr eu hunain yn gallu cyduno â'u gilydd ynghylch beth ydyw testyn y Gododin, ac maent yn rhoddi ystyr mor wahanol i lawer o ddarnau o hono â phe byddent heb fod yn perthyn i'r un bryddest. A ganlyn sydd enghraifft o'r Bryddest,—

"*Caewg Cynghorawg* arfawg yngawr,
Cyno diwygur gurdd yngwyawr,
 Cynran yn rhagwan rhag byddinawr,
 Cuyddai bum pumunt rhag ei lafnawr,
 O wŷr *Deifyr* a *Bryneich* dychiawr,
 Ugein cant eu difant yn unawr,
 Cyn ei gig i fleidd nog yt i neithiawr,
 Cynt e fydd i fran, nog yt i elawr,
 Cynt noc argyfrein e waed i lawr,
 Gwerth mëdd yn nghyntedd gan *Liweddawr*,
Hyfeidd Hir ermygir tra fo cerddawr."

Ystyr yr uchod sydd yn debyg i hyn,—

"*Caewg Cynghorawg* arfawg mewn brwydr, a *Cyno*, yr hwn a roddai brawf o'i wr-oldeb yn nydd yr ymgyroh. Hwyr oeddynt yr ymladdwyr penaf yn wynebu y gel-ynion yn y rhesi blaenaf. Cwypmpai pump o lengoedd gan eu cleddyfau, o wŷr *Deifyr* a *Bryneich*, gan ruddfanu. Dwy fil a gwmpent mewn un awr. Cynt y rhoddwyd eu cnawd yn fwyd i fleiddiaid, nag y gwelsant eu gwleddoedd priodas; cynt yr aethant yn ymborth i frain, nag y cawsant eu cludo ar elorau. Dyma oedd gwerth y mëdd a yfasant yn neuadd *Liweddawr*. E glodforir *Hyfeidd Hir* tra fo cerddor."

Y rhan fwyaf o'r Gododin sydd yn bennillion ar y mesur uchod, heb y cydlythyreniad a welir yn marddoniaeth Cymru mewn oesoedd diweddarach. Rhai o'r pennillion ydynt yn cynnwys llinellau tebyg i Huppynt, byrach na'r uchod. Cymerer a ganlyn fel enghraifft arall;—

"O vreithell Gattræth, pan adroddir,
 Maon dychlorant, eu hoet bu hir;
 Edeyrn diedyrn a mygyn dir,
 A meibion Godebog, gwerin enwir,
 Dyfforthynt gonysfawr gelorawr hir;
 Bu truan dynghedfen, angen gywir,
 A dyngwt i Dudfwlch a Chyfwlch Hir;
 Cyd yfein fêdd gloew wrth leu babir,
 Cyd fai da ei flas, ei gas bu hir."

Yr hyn a ellir ei droi i iaith fwy diweddar yn debyg i hyn,—

"Pan yr adroddir am frwydr Gattræth, y bobl a ochensidant, a galarant am hir absenoldeb eu gwŷr. Mae'r wlad heb frenin, a'r tir wedi ei oddeithio. Meibion Godebog, hiliogaeth bur, a gludasant y rhyfelwr ar ei elor hir. Galarus oedd tyng-hedfen a ddaeth i ran Tydfwlch a Chyfwlch Hir, er mai cyfiawn yr anghenrhaid. Hwyr a gydyfent y mëdd gloew wrth oleu canwyllau, ac er bod ei flas yn hyfryd, bu yr adwydd o'i achos yn hir.

Math o bryddest ar wahanol fesurau ydyw'r Gododin, a'r rhan fwyaf o'r pennillion ydynt ar y mesur uchod. Dywedir ei bod yn llawer iawn hŵy yn ei dull cyntefig, a'i bod yn cynnwys tri chant a thriugain a thri o ben-nillion, yn ol rhifedi y mwysogion aurdorchawg a aethant i frwydr Cat-træth, yr hon frwydr, mae yn debyg, ydyw prif destun y bryddest. Medd-yllem fod llawer o honi wedi myned ar goll, canys nid ydyw yn cynnwys na dechreu na diwedd iawn; ac ni welir fawr o gysylltiad rhwng y naill ran o'r bryddest â'r llall, canys gellid yn hawdd roddi ei chanol yn ei diwedd, neu ei dechreu yn ei chanol, neu newid lle pob darn o honi heb wneyd fawr o wahaniaeth yn y mater a draethir ynddi. Ac o herwydd hyn, mae yn debyg, y bu i'r Parch. E. Davies yn ei gyfieithiad o honi, ei rhanu i wahanol ganiadau. Barnai ef mai testun y gân oedd "Brad y Cyllyll Hirion," ac mae ei gyfieithiad o honi yn myned i brofi hyn, os ydyw yn

profi rhywbeth. "Canfyddais yn eglur," meddai Mr. Davies, "nad ellid ystyried y gwaith hwn megys *un bryddest* wedi ei chyfansoddi ar *un* math o gynllun penodol; ond i'r gwrthwyneb, ei bod yn gynnwysedig o liaws o ganiadau byrion, yn dwyn perthynas yn benaf âg uu testyn arbenig; yr hwn a gymerir i fyny ac a adewir mewn un rhan, ac a gymerir i fyny drachefn."

Mae iaith Taliesin a Llywarch Hen fe allai rywfaint yn fwy dealladwy na'r eiddo Aneurin; ond mae barddoniaeth Taliesin mor llawn o gyfeiriadau at ryw bethau dyeithr ac anhysbys yn y dyddiau hyn, rhyw gymysgfa mae yn debyg o Dderwyddiaeth a Christionogaeth, nes gwneyd ei waith ef ar y cyfan y mwyaf tywyll o holl gynnyrchion y Beirdd Cymreig. A ganlyn sydd ddernyn fe allai yn cyfeirio at drawsfudiad yr enaid yn ol cred y Derwyddon, allan o'i bryddest a elwir "Câd Goddeu," neu "Frwydr y Prenau."

"Hirwyn fy myssawr,
Pell na bum heussawr,
Treiglais y mewn llawr,
Cyn bum llenawr.
Treiglais, cylchynais,
Cysgeis cant ynys;
Cant caer a thrugys.
Derwyddon doethur,
Darogenweh i Arthur,
Yssid y sydd gynt

Neu 'r mi ergenhynt,
A Christ y croccaw,
A dydd brawd rhagllaw;
Ac am un a dderyw,
O ystyr dilyw?
Eurem yn euryll,
Mi hydwyf berthyll,
Ac ydwyf drythyll,
O ormes Fferyll."

Ystyr yr hyn yn ol Davies yw,—

"Hirion a gwynion yw fy mysedd; mae maith amser er pan fum yn fugail. Bum yn ymdreiglo ar hyd y ddaear cyn fy nyfod yn llenor. Treiglais, cylchynais, cysgeis mewn cant o ynysodd, ac ymdrechais drwy gant o gaerau. Dderwyddon doethion, dywedweh i Arthur y cwbl a ragddywedwyd gynt. Oni fu iddynt ganu am danaf fi, ac am Grist croeshoeliedig, ac am ddydd brawd sydd i ddyfod, ac am un a wyddai hanes y diluw? Bum yn awr yn y gem euraidd, yr wyf yn ysblenydd, a llawn pleaser, yn rhydd o ogenes y fferyllydd."

Yr un Bardd tra yn darlunio brwydr *Gwenystrad* a ddywed:—

"Arwyre gwŷr Cattræth gan ddydd
Am wledig, gwaith fuddug, wartheygydd.
Gwelais wŷr gwychion yn lluydd;
Ac wedi boregat briwigig,
Gwelais i dwrf teirfin trancedig,
Gwaed gohoyw gofaran gowlychyd."

"Gwelais wŷr gorsawr
A ddygyrchynt awr;
Gwelais waed ar lawr,
Rhag rhuthr cleddyfawr;
Glesynt esgyll gwawr,
Esgorynt yn waewawr."

Ystyr yr hyn sydd debyg i a ganlyn:—

"Cyfodai gwŷr Cattræth gyda'r dydd, yn achos y brenin brwydr-fuddugawl, eu hamddiffynydd. Gwelais filwyr gwych yn lluoedd, ac wedi brwydr y boreu cnawd archolledig; a gwelais dyrfa fawr luddiedig ar drancedigaeth, a gwaed rhedegog a wlychai yr ymladdwyr yn y rhesi blaenaf.

Gwelais wŷr galluog yn yungasglu yughyd with yr alwad, a gwelais waed yn lliwio

yr ddaear oddiwrth ruthgyrch cleddyfau; a thra yr ehedai eu gwaewffyn o onen, edyn y wawr a ymddangosent yn las."

Gwaith Llywarch Hen sydd yn debycach i'r Hen ddiarebion Cymreig na barddoniaeth ei gydoeswyr, ond mae yn meddu yr un anianawd. Cymerer a ganlyn o Farwnad Geraint ab Erbin fel enghraifft :—

"Pan aned Geraint oedd agored pyrth nef,
Rhoddai Grist a arched;
Pryd mirain Prydain ogoned.

Moled pawb y rhudd Eraint,
Arglwydd, molaf innau Eraint,
Gelyn y Sais, car i saint.

Rhag Geraint gelyn dyhëad,
Gwelais i feirch cymmrudd o gad;
Ac wedi gawr garw bwyllad.

Yn Llongborth gwelais i wythaint,
Ac elorawr mwy na maint,
A gwŷr rhudd rhag rhuthr Geraint.

Yn Llongborth gwelais waedffrau,
Ac elorawr rhag arfau,
A gwŷr rhudd rhag rhuthr angau.

Yn Llongborth gwelais i arfau
Gwŷr, a gwyar yn dineu,
Ac wedi gawr garw adneu.

Yn Llongborth gwelais gymmynad,
Gwŷr yn nghyd, a gwaed ar iad,
Rhag Geraint mawr mab ei dad.

Yn Llongborth gwelais drabludd,
Ar fain brain ar goludd,
Ac ar grân cynran man rudd.

Yn Llongborth y llas Geraint,
Gŵr dewr o goettir Dyfeint,
Wyntwy 'n lladd gyda 'i lleddaint."

Sef,—

"Pan anwyd Geraint yr oedd pyrth y nef yn agored, a rhoddai Crist yr hyn a ofynid; amser hyfryd i Frydain glodfawr. Molianned pawb Geraint ryfelawg y Brenin; minnau a folaf Geraint, gelyn Sais a chyfaill seintiau. O flaen Geraint y gelyn wasgarai, a gwelais feirch cochion gan waed yn dychwelyd ynghyd o'r frwydr, ac wedi bloedd bu gerwin y rhuthriad. Yn Llongborth gwelais ddigofaint, ac elorau uwchlaw rhifedi, a dynion yn goch gan waed oddiwrth ymgyrch Geraint. Yn Llongborth gwelais alanastra, ac elorau o herwydd arfau, a dynion yn goch gan waed o herwydd ymosodiad angen. Yn Llongborth gwelais arfau rhyfelwyr, a gwaed yn rhedeg, ac ar ol gwaedd llefain tost. Yn Llongborth gwelais dori i lawr, a milwyr mewn dychryndod, a gwaed ar eu talcenau, o flaen Geraint enwog fab ei dad. Yn Llongborth gwelais gynhwrf, a'r brain ar y meini yn ymborthi ar ymysgaroedd, a man coch ar ael y blaenor. Yn Llongborth y lladdwyd Geraint, yr hwn oedd ŵr dewr o wlad goediog Defon, hwy yn lladd tra y lleddid hwythau."

Mae yn amlwg nad ellir dywedyd am farddoniaeth y cyfnod hwn ei fod yn meddu ar deilyngdod uchel, er, ar yr un pryd, nad ellir canfod dim yn rhagori arno ymysg yr un o drigolion gorllewin Ewrop yn eu hiaith gynhenid mor foreu a'r chweched ganrif. Mae yn wir bod gan y Saxonïaid ryw fath o

farddoniaeth yn eu hiaith cyn eu dyfodiad i'r ynys hon, ond nid oedd i'w gymharu â gwaith y Beirdd Cymreig. Cyfansoddodd Caedmon ei ganiadau fwy na chan' mlynedd ar ol hyn. Mae'r caniadau hyn agos cyhyd â hanner Coll Gwynia; ond maent fel gwaith llënyddol gan mwyaf yn bur ddiaddurn. Lladin oedd yr iaith ddysgedig dros y rhan fwyaf o Ewrop yr amseroedd hyn, ac am oesoedd wedi hyn; ac yn yr iaith hono yr arferai y dysgedigion gyfansoddi agos bob peth. Mae gwaith Gildas, mae yn debyg, yn perthyn i'r cyfnod hwn, ac wedi ei ysgrifenu yn Lladin, ac mae llawer o awdwy'r yn barnu mai yr un person ydoedd Gildas ag Aneurin; ond am hyn nid oes sicrwydd. Gallai ysgoleigion Cymreig gywiro ac adferu llawer ar waith yr hen Feirdd o'r cyfnod hwn, pe talent sylw dyladwy i'r peth, trwy eu hadnewyddu a'u dwyn yn ol i'w cyflwr cyntefig cyn i adysgrifenywyr eu llurgunio wrth eu copio. Gwelir un peth o bwys nid bychan yn marddoniaeth y cyfnod dan sylw, sef darluniad lled gywir o amgylchiadau yr amseroedd ag yr oedd yr awdwy'r yn byw ynddynt. Rhyfeloedd, terfysgoedd, a thywallt gwaed, ydyw y prif faterion a frithant eu caniadau, fel ag y gellid yn naturiol ddysgwyl oddiwrth amgylchiadau yr amseroedd pwysig a therfysglyd hyny. Canys dyma y pryd yr ymdrechai y Cymry yn erbyn eu gelynion grymus y Saeson a'r barbariaid gogleddol, i gadw meddiant yn llywodraeth Brydain, tra yr oeddynt yn gweled y rhanau mwyaf ffrwythlawn a brasaf o honi, y naill dalaeth ar ol y llall, yn myned allan o'u gafaelion. Dywedir bod Aneurin a Llywarch Hen yn dywysogion yn ngogledd Lloegr, ac i'r naill a'r llall o honynt golli eu tiriogaethau pan y sefydlwyd teyrnas Northumbria gan y llywydd Saxonaidd enwog hwnw Ida. Yr oedd y ddau yn rhyfelwyr, fel mae yn amlwg oddiwrth eu caniadau, ac yr oedd Aneurin yn bresennol yn mrwydr waedlyd Cattraeath, o'r hon fel y gallwn farnu oddiwrth yr hyn a ddwyed ef ei hun, y gallodd ddianc trwy anhawsdra mawr wedi cael ei glwyfo.

Yr ydym yn gadael y cyfnod presennol, ac yn dyfod at y nesaf yn marddoniaeth Cymry, sef o amser dechreuad teyrnasiad tywysogion Cymru, hyd y pryd yr unwyd y Dywysogaeth gyda Lloegr yn nheyrnasiad Iorwerth I., tua'r flwyddyn 1282, yn cynnwys yr yspaid o gylch chwe' chan' mlynedd. Ni cheir fawr o farddoniaeth teilwng am rai cannoedd o flynyddoedd yn y cyfnod hwn, hyd nes y delom at oes Gruffydd ab Cynan, a dyddiau Owen Cyfeiliog, Gwalchmai, a Cynddelw. Mae hyn yn beth tra nodedig, ac yn ein tueddu i feddwl bod rhai o'r Beirdd sydd yn cael eu rhestru yn y cyfnod blaenorol yn perthyn i'r un presennol. Amser tywyll iawn, mae yn wir, ar lënyddiaeth yn gyffredinol trwy y rhan fwyaf o wledydd Ewrop, oedd y cyfwng o'r chweched hyd ddechreu y ddeuddegfed ganrif. Yr oedd y deall dynol fel pe buasai wedi myned dan gwmwl, a nos anwybodaeth yn gorchuddio y gwledydd, a'r fagddu y bobloedd. Dyma oedd cyflwr pethau yn Lloegr a Chymru yn gystal â gwledydd eraill. Ond yn y ddeuddegfed ganrif, yr ydym yn gweled nerth ac yni adnewyddol yn dechreu ymddangos ymhob lle yn nghynnyrchion y meddwl dynol, ac ail fywyd yn ymddyrchafu o fysg trefydd a dinasoedd adfeiliedig, ac yn dechreu chwalu y tyrau llwch a fu yn ymgasglu ar adfeilion oesoedd. Dyma yr amser yr adysgrifenywyd y rhan fwyaf o'r cyfansoddiadau oeddynt ar gael yn yr iaith Gymraeg, heb gael eu hysgubo ymaith gan y cenllif dinystriol a ddaeth dros y deyrnas pan gafodd ei goresgyn gan luoedd barbaraidd y gogledd. Y *Tricoedd* a adysgrifenywyd y pryd hwnw, a chynnyrchion barddonol yr

oesoedd blaenorol; a'r ysgrifau hyn ydynt y rhai sydd wedi eu cadw hyd yr oes bresennol.

Y barddoniaeth mwyaf nodedig o'r cyfnod dan sylw ydyw gwaith Cynddelw, Gwalchmai ab Meilyr, Owain Cyfeiliog, Llywarch Brydydd y Moch, a Dafydd Benfras. Mae yn wir bod lliaws o Feirdd eraill yn ystod yr amser a nodwyd, ac mae yr holl farddoniaeth sydd ar glawr o'u heiddo yn cynnwys gwaith un ar bymtheg neu ragor, er bod llawer heblaw hyn yn ddiammheu â'u gwaith wedi myned ar ddifancoll. Fel enghraifft o farddoniaeth y cyfnod hwn, cymerer yr hyn a ganlyn allan o farwnad Owen Gwynedd gan Cynddelw, yr hwn a elwid y Prydydd Mawr, ac mae yn debyg oedd yr enwocaf o holl Feirdd y cyfnod dan sylw:—

"Gwersyll torfoedd tew llew lladdai,
Gorsaf tarf, taerfalch fal Gwalchmai,
Gorfaran *Gorfau* gorfyddai;
Gwr yn aer yn aros gwaedd fai,
Bryd *Erof* gryd, arf greu a ddodai,
Brwydr ourgrwydr, eurgrawn ni guddiai,
Bradog waith gwynniaith gwynnygai,
Brys briwgad, brig bragad briwiau,
Brwysg lafneu yn nghreu yn nghrai celanedd,
Cyminedd cymmynal."

"Gwyrd heli Teifi tewychai,
Gwaedlan gwyr, a llyr a'i llanwai,
Gwyach rudd gorfudd goralwai,
Ar donniar gwyar gonofai,
Gwyddfeiroh tonn torrynt yn ertrai,
Gwythur naws fal traws a'u treisai,
Gwyddfyd Kingl yn ngladd a'u trychai,
Gwyddgwn coed colled a'u porthai,
Gwyddwal dyfneual dyfnasai fy modd
Fy meddiant a gaffai."

"Collais Arglwydd call ni'm collai
Corf eurdorf, eurdal a'm rhoddai,
Cof cadflawdd a'm cawdd, a'm carai,
Car cerddawr, cerddau a'i cyrohai,
Gryd wasgar, llachar, a'm llochai,
Grym dilludd *Dillus* fab *Erfai*,
Greddf *Greidwyr*, a *Chywyr* a *Chai*,
Glew ddefawd glyw oesdrawd aedrai,
Ystre hynt, wastad, westei gwynfydig
Gwyn ei fyd bieufei."

"Gwyth esgor tra môr, tra Menai,
Gwlydd elfydd elwals o honai,
Tra fu Owain mawr a'i meddai,
Medd a gwin a gwirawd fyddai,
Gwynedd wen, Gwyndud len ledpai,
Gwedi gwawr, cad lawr a'i cadwai,
Pa wladwr, arwr arwyndai,
Pa wledig a wledych arnai!"

Ystyr yr hyn, mor agosed ag y gellir ei wneyd allan, sydd yn debyg i a ganlyn:—

"Tyrfaeodd lliosog a laddai y llew mewn brwydr, yr hwn a wasgarai fyddinoedd y gelyn, yr un modd â Gwalchmai gynt. Gorohfygai luoedd lliosog Gwrfa, a byddai yn dygwyl bloedd yr udgorn, yn nydd y frwydr, yr un modd ag *Erof* rhyfalgar."

arfau yn lliwiedig gan waed. Pan ddychwelai o'r rhyfel yn llwythog o aur, ni chelai ei drysor. Yn erbyn gelynyon bradwrus ymgynndeiriogai; a chladdai ei waewffyn yn nghyrrff y lladdedigion, gan eu tori i lawr â chleddyfau yn yr ymgyroh."

"Dyfroedd gwyrdd y Teifi a dewyohwyd gan waed dynol, a llanw y môr a'i gorlenwai; a'r gwyach wedi eu lliwio gan waed yn nofio y tdnau rhuddgoch, a grochlefaï yn orfoleddus, a cheisg y môr a ruthrent yn erbyn y lan. Y tywysog digllawn a'i treisiai fel gorthrymwr; ond yr hwn a dorai y Saeson i lawr fel dail gwyddfid, sydd wedi ei gladdu; a'r cwn gwylltion a gawsant golled am yr hwn a'u porthai. Yr hwn sydd ar ei wely pren a ennillodd fy mryd, a'r hyn oll a berthynai i mi oedd yn eiddo iddo."

"Collais arglwydd doeth, yr hwn ni'm heugeulusai. Gwisgid ef âg aur, a rhoddi i minnau aur; oofio am dano, arwr brwydrau, i mi sydd boenus; efe a'm carai, carai gerddor, caniadau a'i cyfarchent ef. Yr hwn a wasgarai ei elynion oedd i mi yn nawdd; ei nerth oedd anorchfygol fel *Dillus* mab *Erfai*, a meddai dymher *Greidnyr*, *Cywyr*, a *Cai*. Fel llywydd dewr arferai gludo ei waewffon doredig, ond gartref byddai ei fywyd yn dawel, ac yn awr mae wedi cyrhaedd gwynfyd."

"Yn ei ddigofaint y cludai ei goncwest i wlad ffrwythlawn dros Fenai; o honi ocafais gyfoeth, a thra bu Owen enwog yn ei meddiannu cefais win, medd, a gwirawd. O Wynedd deg, daeth llen ddu dros dy ddaear, wedi gwawr, ar ei ol ef yr hwn a'th amddiffynai mewn brwydr galed! Pa wladwr, pa arwr, pa frenin a'th lywodraetha mor rymus ag ef!"

Mae anianawd prydyddiaeth Cynddelw yn debyg i'r eiddo Aneurin, yn gystal â'r rhan fwyaf o Feirdd y cyfnod hwn. Dywedai y Parch. E. Evans (Ieuan Brydydd Hir) am danynt eu bod yn "anhawdd afrifed eu deongli, o herwydd eu bod yn llawn o eiriau sydd yr awr hon wedi myned ar gyfngoll." Ac mewn man arall dywed—"Nid oedd genyf fi ddim ond ymbalfalu am ystyr a synwyr y Beirdd mewn llawer man, oddiwrth flaen ac ol. Yr wyf yn rhyfeddu yn ddirfawr am rai o'r Cymry sydd yn haeru fod gwaith Taliesin a'i gydoesiaid Aneurin Gwawdrydd, Llywarch Hen, a Myrddin Wylt, yn hawdd eu deall. Yn ddiâu nid wyf fi yn deall mo honynt, ac mae y rhai dysgedicaf yn yr iaith, y tō heddyw, yn addef yr un peth. Y mae y Beirdd, hir oesoedd gwedi hyny, sef ar ol dyfodiad Gwilym Fasdardd, hyd farwolaeth Llewelyn ab Gruffydd, yn dywyll iawn."

Gyda'r cyfaddediad uchod o eiddo yr awdwr dysgedig, gadawn farddoniaeth y cyfnod hwn, a brysiwn ymlaen at y chwe chan' mlynedd nesaf, neu yn agos i hyny, sef o farwolaeth Llewelyn ab Gruffydd a diddymiad Tywysogaeth Cymru hyd yr amser presennol. Ni fydd yn ddichonadwy sylwi ond ar ychydig o waith y rhai mwyaf enwog a ymddysgleiriasant yn furlafafen llênnyddiaeth y Dywysogaeth yn y cyfnod hwn; canys wrth nesu at ein hoes ni, mae y rhifedi yn amhlâu, ac yn y ganrif bresennol gellir dywedyd am danynt eu bod yn lleng. Ond nid ellir dirnad pa sawl un o'r enwau a frithant lechres ein hawdwyr yn yr oes hon, a fyddant ar gael ymhen chwe chan' mlynedd; fe allai na fydd mwy na neu dri, os bydd cymaint â hyny. Rhaid bod dyn yn meddu ar ryw deilyngdod uwchlaw cyffredin, cyn y bydd i'w waith gael ei ddwyn i lawr o oes i oes am gannoedd o flynyddoedd. Mae yr ymdeithydd yn fuan yn colli golwg ar y lampau a'r goleuadau mwyaf dysglauer sydd â'u sefyllfa ar y ddaear; ond rhaid iddo fyned filoedd o filldroedd oddicartref cyn y cyll ei olwg ar yr un o'r ser sydd yn ymddangos yn eu cylchoedd yn yr wybren. Felly mae cynnyrchion gwir dalent, a'r doniau goruchel ag mae rhai dynion wedi eu cynnysgaedu â hwynt, megys rhodd arbenig oddiwrth Dad y goleuni, yn parháu i ddysgleirio am oesoedd, pan fyddo enwau y lliaws a'u hamgylchent wedi cael eu llwyr anghofio.

Oddeutu y fwyddyn 1360 y blodeuodd un o feirdd enwocaf Cymru, sef Dafydd ab Gwilym. Mae llawer o waith yr awdwr enwog hwn ar gael, a chyfrol helaeth o hono wedi cael ei chyhoeddi dan olygiad Owain Myfyr a Dr. Owen Pugh. Yr oedd Dafydd ab Gwilym, mewn ystyr, yn dad yr hen ddull o farddoni ar y *mesurau caethion*; canys yn ei waith ef, dybygem, y ceir yr awdlau a'r cywyddau cyntaf, yn tebygu i'r caniadau a ânt dan yr enwau hyn yn yr oes bresennol. Mae yn wir bod rhai o'r Pedwar Mesur ar Hugain Cerdd Dafod mewn arferiad yn y cyfnod blaenorol, cyn ei amser ef; ond nid oeddynt yn tebygu i'r hyn eu ceir ar ei ol ef. Yr oedd y dyn nodedig hwn yn un o wir blant yr awen, ac mae argraff wedi cael ei gadael ganddo ar farddoniaeth ei wlad sydd heb ei dilëu hyd y dydd heddyw. Bu ei ganiadau, yr un modd â'r eiddo Homer gynt, ar gôf a chadw ymysg ei gydwladyr am amser maith cyn iddynt gael eu casglu ynghyd a'u hysgrifenu, yr hyn a rydd uwch prawf o'u teilyngdod na dim a ellid ddywedyd am danynt. Mae ei farddoniaeth yn wir Gymreig, ac yn meddu ar arddull neillduol yn perthyn iddo ei hun, a'r meddyldrychau a geir ynddo yn wreiddiol, wedi eu cymeryd oddiwrth natur ei hunan. Mae yn wir bod yn ei waith fwy o ysgafnder a diffyg chwaeth ar brydiau nag a fyddai yn ddymunol; ond rhaid i ni ystyried amgylchiadau yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt, a'r cyfnewidiadau pwysig sydd wedi bod ymysg pob gradd o bobl yn y wlad hon o'r pryd hwnw hyd yn awr. Gellid meddwl yn aml oddiwrth ei waith mai dyn gwamal ac anystyriol iawn ydoedd; ond dywedir yn dra gwahanol i hyn am ei ymarweddiad a'i fuchedd gan y rhai oeddynt yn gwybod am dano,—ei fod yn ddyn o ymarweddiad sobr, llonydd, a mwyn iawn; a chyn leied ei siarad, fel mai braidd y ceid gair o'i ben.

Y rhan fwyaf o'i farddoniaeth sydd ar fesur Cywydd, ac mae llawer o feiau gwaharddedig yn y mesur hwnw, i'w canfod yn fynych yn ei waith, pe byddem i gymeryd y rheolau sydd gan y beirdd yn yr oes hon i'w farnu wrthynt. Ei ganiadau ydynt yn fyrion yn gyffredin, heb braidd un amser gyrhaedd cant o linellau, ac mae ei iaith agos mor ddealladwy â barddoniaeth yr oes bresennol. Cymerer a ganlyn fel enghraifft o'i farddoniaeth, allan o'i Gywydd o fawl i Morfudd, i'r hon y canodd saith ugain a saith o Gywyddau,—

"Y fun dawl walltfelen,
Eurwyd y baich ar dy ben;
Gwÿn yw dy gorff ac uniawn,
A lluniaidd oll, llyna ddawn!
Cyd bych, lanwych oleuni,
Deg a mwyn, er dig i mi—
Gwneuthyd brad yn anad neb,
Em y dynion, ma d' wyneb!
Duw a lifodd dy lofyn,
Dy wallt aur i dwyllo dyn.

Fy nwyais, ni henwais hyn,
A guriodd o'th liw gorwyn;
Gwae fi, gwn boeni beunydd,
Weled erioed liw dy rudd.
Aeth dy wedd, Gwynedd a'i gwÿr,
A'm hoed innau, a'm synwyr!
Gwell bedd, a gorwedd gwirion,
Na byw yn hir yn y boen hon."

Drachefn dywed—

"Addoli mun dan ddail Mai,
A dirfaint cariad erfai;
Adwaenwn, gwn yn gynnil,
Ei throedlam brysg yn mysg mil;

Un yw a dyngwn ei nod,
Wych osgedd, wrth ei chysgod;
A'i hadnabod, ddirfod ddadl,
Hoyw eneth, wrth ei hanadl."

Ei gariadau, Morfudd a Dyddgu, ydyw prif destynau ei holl Gywyddau.

At Morfudd mae yn cyfeirio oddiwrth bob testun, yr un modd â Petrarch at ei Laura. Gwelodd hi gyntaf yn Nghôr Eglwys Bangor, a ehyfarfu â hi yn Rhosyr, neu dref Niwbwrch, yn Môn. Ati hi mae yn gyru y gwynt, yr adar, yr ewig, yr ysgyfarnog, ac agos bob peth yn genadon, ac yma mae rhai o'i ddarluniadau mwyaf barddonol. Mae rhyw wreiddioldeb mwy na chyffredin yn ei waith yn darlunio gwahanol wrthdychchau natur, ac mae yn edrych ar bob peth gyda llygad bardd. Am yr *Eira* dywedd—

"Llen oergur, uwch llwyn irgoed,
Llwyth o'r calch yn llethu'r coed.
Cawod rydew, o ewyn,
Cnau mwy na dynnau dyn;
Trwy Wynedd y trywentynt,

Gwenyn o nef, gwynion ynt!
Oes un a wyt, fis Ionawr,
Pa ryw lu sy'n poeri i lawr?
Angylion gwynion, nid gwaeth,
Sy o'r ne' yn saerniaeth."

Y Gwynt.

"Yr wybrwynt helynt hylaw,
Agwrdd drwst a gerdda draw;
Gur oer iâs wyd, garw ei sain,
Drud byd, heb droed heb adain.
Uthyr yw, mor aruthr y'th roed,
O bantri wybr heb untroed,

Noethid dwyn, cydnithid dail,
Ni'th hitia neh ni'th attail,
Na llu rhugl, na llaw rhaglaw,
Na llafn glâs, na llif na gwlaw;
Ni'th boddid, ni'th rybuddiwyd,
Nid ai yn nglyn, diongl wyd."

Y Daran.

"Taro a wnaeth, terwyn oedd,
Trwst taran tros y tiroedd;
A ffrydlaw croewlaw oreulawn,
A phoeri mell't yn ffrom iawn.
Twrff a glyw pob tyrfa glau,

Tarw crug yn tori oreigiau!
Tân almwg, dwr tew'n ymladd,
Tân o lid, dwr tew'n ei ladd!
Clywais fry, ciliais o fraw,
Cawrlais udgorn y curwlaw."

Y Niwl.

"Casul yr awyr ddulwyd,
Carthen anniben iawn wyd,
Mwg elyll-dân o annwn,
Abid tew ar y byd hwn;

Uchel dop, adar-gopwe,
Fel gweilgi yn llenwi pob lle;
Tgw wyt a giwth, tad y gwlaw,
Tyddyn, a mam wyt iddaw."

Yr Haul.

"Teoca planed yn hedeg,
Ar helw Duw, yw'r haul deg;
Sul enw, disalw oleuni,
Ymdaith faith yw dy daith di!
O'r dwyreiniwybr harddlwybr hin,

Goreu lliw, i'r gorllewin.
Od ai dan wybren heno,
Llen fraisg y gorllewin fro,
Ymddangos yno, co certh,
Yn entyroh wybr oyn anterth."

Y Llwyn Banadd.

"Pan ddel Mai, a'i lifrai iâs,
Ar irddail i roi urddas;
Aur a dyf ar edafedd,
Ar y llwyn er mwyn a'i medd.
Teg yw'r pren, a gwyrnig,
Y tyf yr aur tew o'i frig;

Aur gawod ar y gwial
Duw a roes, difai yw'r ail;
Bid llawen gwen, bod llwyn gwydd,
O baradwys i brydydd.
Blodau gorau a garwn,
Barug haf yw brig hwn."

Y Llewad.

"Ni liwiodd dim oleusach
Na'r seren gron, burwen bach.
Canwyll yr uchel Geli

I euro maes, sydd oren i mi.
Ni ddiifan y lân ganwyll,
A'i dwyn nis gellir o dwyll."

Y Gog.

"Dydd da i'r gog serchoglef,
Aderyn wyt o dir nef;

Yn dwyn newyddion yn deg,
A nodau haf iawn adeg."

Y Llwynog.

"Gwr yw ef a garai iâr,
A choeg edn, a chig adar;
Gwr i'w ddilid gyr ddolef,
Garw ei lais, a'i garol ef,

Gwridog yw yn mlaen grodir,
Gwedd âb, yn mhllith y gwydd tr;
Lluman brain, gerllaw min bryn,
Llanwr erw, lliw marworyn."

Y Dylluan.

"Ffraethach yw hon mewn bronallt,
Y nos na'r ôs o'r allt;
Ni thyn y dydd, crefydd craff,
Ei phen o geubren gobraff.
Uda 'n ffraeth, adwaen ei ffrîw,
Edn Gwyn ab Nudd ydiw.

Wyll fladr hi gân i'r lladron,
Anffawd i'w thafawd, a'i thôn!
Er tarfu o'r ddylluan
Oddiwrthyl, mae gennyf gân;—
Rhof, tra fwy 'n aros rhew,
Oddaith yn mhob twyn eiddew."

Y Gauaf.

"Gauaf sy 'n lladd y gwiall,
A dug o goedydd eu dall;
A'i chwithig wynt yn ohwythu,
A'i ruad arth a'i rew du;

Mawr ei sain yn darmain dig—
Ffei arnaw, luddew ffyrnig!
Ni ddaw gwen yn hawdd i goed,
Ni myn nythgell mewn noethgoed."

Gyru yr Haf i annerch Morgannwg.

"Dy hinon yn dirion dwg,
Aur genad, i Forganwg;
Tesog fore, gwna 'r lle 'n llon,
Ac annerch y tai gwynion.
Rho dwf, rho gynnwfw gwanwyn,
A chynnull dy wyll i dwyn;
Tywynna 'n falch ar galoh gaer,

Yn luglawn,* yn oleuglaer.
Dod yno 'n y fro dy frîg,
Yn wyrain bawr, yn irwîg;
Yagwyd lwyth o ber ffirwythydd,
Yn rhad gwrs, ar hyd ei gwydd;
Rho'th gwdd, fel ffrwd ar bob ffrith,
O'r gweunydd, a'r tir gwenith."

Gadawn y dyfyniadau uchod i ateb drostynt eu hunain; dangosant, yn well nag y gallwn ddarlunio, wir natur awen ac athrylith y Bardd. Nid ydyw ei Awdlau yn agos cystal â'i Gywyddau; maent yn llawer mwy annealladwy, ac yn dangos mwy o ymdrech i gael gan y cydseiniaid *glecian* wrth wneyd y gynghanedd, nag i siarad gyda'r teimlad a'r galon, fel ei Gywyddau.

O amser Dafydd ab Gwilym nes delom at Edmund Prys, Archddiacon Meirionydd, awdwr y Salmau ar fesur cerdd—Ficer Llanymddyfri, awdwr poblogaidd "Cauwyll y Cymry,"—a Huw Morris, nid ydym yn canfod fawr o farddoniaeth a fu yn boblogaidd. Dilyn dull a llwybr Dafydd ab Gwilym y mae y rhan fwyaf o'r Beirdd eraill nes delom at oes y rhai uchod, a'i ddylanwad ef sydd wedi effeithio arnynt fel nad ydynt yn tori dim tir newydd iddynt eu hunain. Yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin yn y flwyddyn 1451, mwy na phedwar can' mlynedd yn ol, y bu i Dafydd ab Edmwnd ddwyn ymlaen y rheolau sefydledig presennol ar y Pedwar Mesur ar Hugain Cerdd Dafod; ac ar ol yr amser hwnw, ceir Awdlau yn gyffredin yn fath o gydgasgliad o swm heb sylwedd, ar y mesurau uchod, nes delom at amser Goronwy Owen. Rhys Goch Eryri, Tudur Aled, Dafydd Nanmor, a William Lley, a hynodasant eu hunain yn y dull hwn o farddoni, ynghyda llawer eraill, nas gallwn yn bresennol gyfeirio atynt. Y peth mwyaf nodedig yn ngwaith yr awdwyr uchod ydyw y gynghanedd, swm y cydseiniaid yn ateb y naill y llall. Y meddyldrychau, ar y cyfan, ydynt yn isel a gweiniaid; ond mae ambell i linell *bert* a hapus i'w chael yma ac

* Yn llawn goleuni.

acw, yn nghanol anialwch maith o eiriau heb fawr o sylwedd ynddynt. Ond mae cyfieithiad Edmund Prys o'r Salmau ar fesur cerdd o nodwedd wahanol, ei fesurau yn fwy poblogaidd a rhwydd, a'r cyfansoddiad yn haws ei ddeall, ac o ganlyniad mae wedi ennill lle uchel fel barddoniaeth genedlaethol ymysg y Cymry, er gwaethaf lliaws mawr o ddiffygion a geir ynddo. Gallwn yma sylwi i'r Cadben William Myddleton, tra yr oedd ar y môr gyda'r llynges yn yr India Orllewinol, droi y Salmau ar y Pedwar Mesur ar Hugain, o gylich yr un amser ag y bu i Edmund Prys eu tŷi ar gân; ond ni ddaeth y cyfansoddiad hwn erioed yn adnabyddus i'r lliaws, ac nid oedd yn debyg o ddyfod, o herwydd y wisg yr oedd ynddi. Mae hyn yn brawf amlwg, dybygem, nad ydyw Awdl byth yn debyg o fod er adeiladaeth i neb oddigerth ychydig rifedi a fedrant ddeall ei natur. "Canwyll y Cymry" gan Ficer Llanymddyfri sydd waith prydyddawl arall ar fesurau rhyddion ag a fu yn boblogaidd iawn am oesoedd, ac o fendith a lles i fil-oedd o ddarllenwyr. Casgliad o ganiadau ar destynau Ysgrythyrol ydyw y gwaith; ac addas iawn y gellid ei alw yn "Ganwyll y Cymry," pan ystyriom ei gynnwysiad, ac ansawdd yr amseroedd yn y rhai y gwnaeth ei ymddangosiad. Rhaid bod gwersi Ysgrythyrol yr hen Ficer duwiol wedi dwyn gwirioneddau yr efengyl at y bobl mewn dull nad alleut gael eu darllen yn un man arall, mewn oes dywell ac annuwiol, pan nad oedd y Bibl yn llaw y bobl yn gyffredinol. Rhoddwn yr hyn a ganlyn megys enghraifft o'r gwaith rhagorol hwn:—

Cyngor i ochelyd cumpeni drwg.

"Y neb a fyno fyw yn ddeddfol,
Yn ol ewyllys ei Dad nefol,
Cynta peth sydd raid ei wneuthur,
Tynu o blith y drwg-weithredwyr;

A rhoi i fyny ddrwg gwmniaeth,
Yn dragwyddol, heb ddim hiraeth,
Megys Moesen gwmi 'r Aiphtiaid,
Lot ac Abrah'm y Caldeaid.

Fel y tåg y gwyg* y gwenith,
Fel y sura fineg lefrith,
Fel y 'murdda pyg dy gadach,
Felly 'th 'nafa drwg gyfeillach.

Gochel neidir rhag dy frathu,
Gochel blâg rhag dy ddifethu,
Ac os ceri lechawdwriaeth,
Gochel ddilyni drwg gwmp'niaeth.

Tyn o Sodom, tyred allan,
Rhed o blith y bobol arian,
Gad oferwyr, cadw dy enaid,
Tyn o blith yr anffyddloniaid.

Tra fu Moesen gyda 'r Aiphtiaid,
Tra fu Abra'm gyda 'r Syriaid,
Ni 'mddangosai yr Arglwydd iddynt,
Nes eu tynu 'n mhell oddiwrthynt.

* Chwya.

Rho gwmniaeth plant y fall
Heibio 'n ebrwydd, os wyt gall;
Ni bydd cydfod rhwng Duw 'r heddwch
A chyfeillion plant tywyllwch.

Gwedi 'n dilyn brudd gyfeillach
Pobol dduwiol, ddoeth, ddianach,
Rhai a ddysgant it' adnabod
Y gwir Dduw, a'i ofni 'n wastod.

Tra fu Saul yn nghwmni Samuel,
Fe aeth Saul yn sant o gythrel;
Tra fu 'n dilyn pobol ddiffaith,
Fe aeth y sant yn gythraul eilwaith.

Dilyn brophwyd, fe'th oleus,
Dilyn athro, fe'th gyfrwydda,
Dilyn sant, fe'th wna di 'n santaidd,
Dilyn ffol, ti fyddi ffaidd."



Bwa'r gwlan, neu'r Enfys.

"Pan y gwelych fwa 'r Drindod,
Gofia farn Duw, a'i gyfammod;
A bendithia 'i dduwiol fawredd,
Am ei fwynder a'i drugaredd.

Ystyr amryw liwiau 'r enfys,
Glas a choch yw 'r ddwyfarn gofus,
Glas oedd dwr y diluw cyntaf,
Coch yw tân y farn ddiweddat.

Lle mae 'r bwa yn gyffredin
A'i gyrn i'r ddaer, heb saeth, na llinyn,
Y mae 'n dangos mor heddyohlon
Yw hi yn Nghrist rhwng Duw a dynion."

Ni oddef ein gofod i ni roddi ychwaneg. Ond er mwyn yr anghyfarwydd â'r gwaith, dywedwn ei fod yn llyfr helaeth, agos i chwe' chant o du dalenau, yn llawn o faterion o'r pwys mwyaf, ac yn cynnwys llawer o farddoniaeth dda. Y bai mwyaf arno ydyw nad oedd yr awdwr yn hidio llawer faint o gam a wna'i gyda'r iaith. Mae yn dwyn i mewn lawer iawn o eiriau Seisonig, ac yn eu troi o'u dull cyntefig, nes nad ydynt na Chymraeg na Saesoneg. Mae ynddo lawer o eiriau hefyd a arferid ar lafar gwlad yn y Deheudir, ond heb fod yn fynych yn ddealladwy i bobl y Gogledd. Yr ydym yn barnu y gallai fod o gymaint o les y dyddiau hyn ag y bu erioed, pe gellid rhoddi iddo ledaeniad cyffredinol.

Ychydig yn ddiweddarach na Ficer Llanymddyfri y blodeuodd Huw Morris, bardd enwog arall, mewn ardal fynyddig yn mhlwyf Llansilin, yn Sir Ddinbych. Yr oedd yn byw yn amser y terfysgoedd gwerinlywodraethol a theyrnasiad Olifer Cromwell; ac yr oedd y Bardd yn bleidiol iawn i achos y Brenin Siarl I., ac yn elyn anghymodlawn i'r blaid werinol a'r Puritaniaid. Caniadau ar fesurau rhyddion ydyw y rhan fwyaf o'i farddoniaeth; ond mae yn cadw yn agos iawn at ddull y gynghanedd reolaidd ynddynt. Mae llawer iawn o'i waith ar gael, ac mae dwy gyfrol o bono

wedi eu cyhoeddi dan olygiad y diweddar Barch. Walter Davies, ynghyda bywgraffiad helaeth o'r awdwr. Yr oedd Huw Morris yn ddyn a berchid yn fawr yn ei gymydogaeith, ei fywyd yn ddichlynaidd a diargyhoedd, a'i farddoniaeth yn hynod o boblogaidd.

Ar ol Huw Morris nid ydym yn cyfarfod â'r un awdwr o enwogrwydd mawr nes y delom at amser Goronwy Owen, gwaith yr hwn, ar y mesuran caethion, sydd yn rhagori ar neb a fu o'i flaen er amser Dafydd ab Gwilym. Ac ar ei ol ef daw Dafydd Ionawr, Dafydd Ddu Eryri, a Dewi Wyn o Eifion, fel pe buasai yr awen wedi syrthio mewn cariad â'r enw Dafydd. A chyda yr awdwyr hyn dygir ni at oes adfywiad yr Eisteddfodau, a'r amser presennol.

Ficer Llanyddyfri, Huw Morris, a Dafydd Ionawr, ydynt y rhai a gyfansoddasent fwyaf o holl Feirdd Cymry. Aberthodd Dafydd Ionawr ei oes i ddilyn ei hoff gelfyddyd, a threuliodd ei fywyd fel meudwy, yn brys ar hyd oes faith yn cyfansoddi ei ganiadau. Mae y rhan fwyaf o'i waith ar fesur Cywydd, ac o herwydd hyny ni ddaw byth yn boblogaidd. Rhai o'i ganiadau ydynt yn feithion iawn, yn enwedig ei Gywydd y Drindod, yr hwn sydd yn cynnwys 13,606 o linellau! Math o gynghanedd o hanes y Bibl ydyw Cywydd y Drindod, ar brydiau yn cynnwys darnau o farddoniaeth dda, bryd arall heb fawr ynddo oddigerth aralleiriad cynganeddol o hanes y Bibl. Pe buasai y Bardd llafurus yn rhanu y ganiad faith hon i liaws o rai byrion, ar y gwahanol destynau y mae yn ei gynnwys, buasai yn llawer iawn mwy tebyg o fod yn ddarllenadwy ymysg y cyffredin, a buasai felly yn debycach i waith yr awdwyr a aethant o'i flaen pan yn ysgrifenu ar fesur Cywydd. Ond buasai Pryddest yn llawer mwy cymhwys iddo i ateb y dyben mewn golwg, sef gwneyd caniad genedlaethol faith, neu yn ei iaith ef ei hun—

“Nerthol anfarwol fawrwaith,”

na'r mesur a ddefnyddiodd, sef Cywydd. Mae ganddo ddau o gyfansoddiadau eraill o hyd mawr iawn, heblaw Cywydd y Drindod—“Joseph llyodraethwr yr Aipht,” yr hwn sydd dros 5,000 o linellau, a'i “Farddoniaeth Grist'nogol,” yn 5,840 o linellau. Mewn gair, yr oedd ei holl gyfansoddiadau bron i gyd, o hyd cawraidd. Un cyfansoddiad o'i eiddo yn gyffredin sydd yn hŵy na holl waith y rhan fwyaf o Feirdd eraill; a'i holl gyfansoddiadau ynghyd yn gyfartal i waith oes o Feirdd cyffredin, canys maent yn cyrhaedd i dros 28,000 o linellau! Y cyfansoddiad mwyaf gwreiddiol a mwyaf barddonol yn ei waith, ydyw Cywydd y Diluw. Mae hwn yn dda iawn, ac o hyd cymedrol.

Awdlau a Chwyddau Dewi Wyn ydynt ymysg y gorenion yn yr iaith; ac fe allai na ffoe'u oedd yr un Bardd, na hen na diweddar, yn gymaint meist'r ar y gynghanedd ag oedd ef. Ac nid meist'r ar y gynghaneddion yn unig oedd, yr un fath a'r hen Feirdd, Dafydd Nanmor, a Thudur Aled, a'r gyfryw; ond mae ei feddylddrychau yn rymus ac yn wreiddiol, a chymaint o wir farddoniaeth yn ei waith ag a geir yn ngwaith yr un Bardd Cymreig o amser Aneurin hyd heddyw, os nad mwy. Mae tân yr awen yn gwreiddioni ymhob man trwy ei linellau. Beiwyd arno fwy nag unwaith am ei fod yn ddiffygiol mewn barn, ac yn gosod ei gyfansoddiadau wrth eu gilydd yn annhrefnus ac yn ddireol. Mae y eyhuddiad hwn yn eithaf gwir am dano, a hyny am nad oedd ond ysgolaig bychan, a'i feddwl heb erioed gael ei

ddysgyblu a'i ddiwyllio. Ond dylid cofio ar yr un pryd mai prif nodweddiad Awdl ydyw trin y testyn fel y dygwyddo i'r mater ymgynnyg i sylw yr awdwr, ac mai nid cyfansoddiad wedi ei lunio wrth reolau arbwyllig (*logic*) ydyw. Dylai Pryddest fod yn gyfansoddiad gwahanol, ac ni wna y tro i dafu y defnyddiau ynddi ar draws eu gilydd yr un modd ag mewn Awdl. Gwelir ar unwaith, gan hyny, bod Awdl yn fwy cydweddol â thalent Bardd annysgedig, a'r hwn ag mae ei feddwl heb ei ddiwyllio a'i ddysgyblu, na Phryddest; ac yr ydym yn sicr pe buasai Dewi Wyn yn myned i gyfansoddi Pryddest ar unrhyw destun, o ddwy i dair mil o linellau o hyd, na buasai i'w chymharu mewn teilyngdod â'r un o'i Awdlau. Yn yr hen ddull o gyfansoddi yr oedd ei nerth ef, ac nid rhyfedd ei fod mor zelog dros y "Pedwar Mesur ar Hugain," fel y gwelir oddiwrth ei "Gywydd i Iwan," lle mae yn rhedeg i eithafion, ac yn dangos anwybodaeth nid bychan pan y dywed,—

" Ys oedd neb oesoedd yn ol,
Awdwyr enwog dwyreiniol,
A geir yn mysg eu gwyr mawr
Fyth yn unman fath *Nammaur* ?
A allai Groeg, a holl gred,
Eilydd i Dudur Aled ?

A fu erioed, o fawr rym,
Neb o golofn ab Gwilym ?
Ni fu 'r un o'u nifer hwy
Werth rawnen wrth Oronwy.
Heriaf Homer a Horas,
Ni bu a'i trech neb o'u träs.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol yr ydym yn gweled nad oedd yn marddoniaeth gyntaf y Cymry y fath beth a chynghanedd, ond yn unig o ddamwain. A Dafydd ab Gwilym ydyw y cyntaf sydd yn defnyddio y gynghanedd mewn dull rheolaidd, er nad oedd ef yn cadw tu fewn i'r rheolau a ddygwyd i mewn ar ol hyny gan Dafydd ab Edmwnd. Ymhellach yr ydym yn ddsygu oddiwrth farddoniaeth y chweched ganrif nad oedd y Cymry yn meddu ar lawer o gynnyrch llényddol yn yr amser boreu hwnw, canys y mae anianawd y cyfansoddiadau a ddaethant i lawr atom ni yn profi tu hwnt i ddafl, feddyliem, mai perthyn i foreuddydd llényddiaeth y genedl yr oeddynt. Hefyd yr ydym yn tynu y casgliad a ganlyn, yr hwn a ymddengys yn anocheladwy, sef nad oes y tebygolrwydd lleiaf bod gan drigolion Brydain yr un math o lényddiaeth yn eu mysg cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Gellir son am Tydain tad awen, a Plenydd, Alawn, a Gwron, megys beirdd enwog ymysg cenedl y Cymry oesoedd cyn crêd; ond nid oes yr un mymryn mwy o sicrwydd i'r fath bersonau erioed fodoli, oddigerth yn nychymygion awdwyr y canoloesoedd, nag sydd am drigolion y lleuad. Yr ydym yn meddwl bod cynnyrchion barddonol y Cymry yn y ganrif bresennol yn rhagori ar ddim a fu erioed o'r blaen yn yr iaith, er bod y cynnyrchion blaenorol hyny gyda'u gilydd yn ddigon i wneyd llyfrgell o gryn faint. Yr ydym yn gweled hefyd bod dau o gyfnwyddiadau o bwys wedi cymeryd lle yn anianawd barddoniaeth y Cymry, o'r amser boreuaf hyd yn bresennol; un pan ddygwyd i mewn y Pedwar Mesur ar Hugain, a'r llall yn y ganrif bresennol, pan ddygwyd i mewn y Bryddest. Canys nid ydyw y Pryddestau diweddar ddim yn unol â dull y Cymry o farddoni mewn un oes, er eu bod yn debycach i farddoniaeth y cyfnod cyntaf nag yr un arall. Mae rhai o'r Pryddestau yn ddiold, megys cyfieithiad y Dr. Pugh o Goll Gwynfa, a'r lleill heb ddim cynghanedd, ond yn odli, megys yr Adgyfodiad gan Ieuan Glan Geirionydd. Y cyhydeddau a wnânt i fyny y mesur mewn Pryddest ydynt i'w cael yn marddoniaeth y Cymry er cyn côf; y gwahaniaeth sydd yn yr odl a'r gynghanedd.

Haera llawer bod cynghanedd yn un o anhebgorion Barddoniaeth Gymreig, ac nad ellir galw Pryddest ddiodyl yn farddoniaeth. Ond mae hyn yn gamgymeriad mawr, am nad oes eisieu cynghanedd nac odl i wneyd cyfansoddiad yn farddoniaeth yn yr iaith Gymraeg mwy nag mewn ieithoedd eraill.

Yr ydym yn barod wedi dangos nad oedd cynghanedd yn marddoniaeth y Cymry o'r dechreu, ond yn unig o ddamwain. Wrth cynghanedd yr ydym yn meddwl cydlythyreniad. Mae odl yn gwneyd y llinellau yn fwy soniarus, ac yn haws eu darllen gyda phleser, ond nid ydyw odl na chynghanedd yn gwneyd llinellau yn farddoniaeth o honynt eu hunain. Mae llawer o Bryddestau wedi ymddangos yn y Gymraeg yn ddiweddar, ond nid llawer o honynt sydd yn cynnwys barddoniaeth dda. Llawer o honynt ydynt yn hynod o ddiaddurn, eraill yn llawn o chwyddiaith, y lleill yn dangos chwaeth isel a meddyldrychau amhriodol. Ennillodd un Bryddest y gadair farddonol mewn Eisteddfod, sef yn Eisteddfod Rhuddlan, ac nid oes ond y Bryddest hon yn unig wedi cyrhaedd yr anrhydedd a nodwyd, os ydyw yn anrhydedd hefyd. Testyn y Bryddest oedd yr "Adgyfodiad." Bydd i ni cyn terfynu wneyd ychydig sylwadau ar y Bryddest hon, ac hefyd ar yr Awdl gadeiriol ddiweddar, sef yr un a farnwyd yn fuddugol yn Eisteddfod Llangollen.

Y Bryddest ar yr "Adgyfodiad" sydd yn faith iawn, o gylch tair mil o linellau; a chan na roddwyd ond llai na blwyddyn o amser i'w chyfansoddi, nid ydym i ddysgwyl ei bod yn rhagorol iawn. Yn wir, ni phetruswn ddywedyd bod amryw Bryddestau gwell na hi heb erioed dderbyn yr un wob. Y llinell gyntaf ynddi—

"Adgyfodiad y meirw ! O y fath destyn,"

sydd yn llinell feius, am ei bod yn cynnwys camaceniad. Mae ynddi hefyd rai ugeiniau o linellau eraill cyffelyb. Nid ydyw yn cynnwys barddoniaeth o'r radd uchaf yn unman, ond mae ynddi, er hyny, rai darnau da, ac eraill digon gwaelion. Gwelir llawer o ddarnau yn hynod o draethodaidd, ac mae y geiriau a ddefnyddir yn fynych yn bur amhriodol mewn cyfansoddiad barddonol, fel pe na buasai yr awdwr yn feistr trwyadl ar yr iaith, yr hyn pa fodd bynag nid allai fod. Gwelir y beiau a nodwyd agos ymhob man drwy y cyfansoddiad. Er enghraifft, tu dal. 17 o'r ail argraffiad, darllenwn—

"A allwn ni edrych i safn rwth y gweryd,
A gwel'd ei ddinystriol effeithiau dychrynlyd,
A chanfod gresynol weddillion *dynoliant*,
Ar led ac ar wasgar mewn pydredd a *difant*,
A chredu cánt eto eu dwyn at eu gilydd,
A'u *llwyr* adgyweirio 'n adeilad o'r newydd ?
Pa mor *geuol* yw 'r cawg ! mor *hyll* ac *anhwygar*,
Oedd gynnau yn cynnwys y peiriant *meddylgar* ?
Mor *dynyll* a *hagr* yn awr yw y tyllau,
Lle ddoe 'r oedd y llygaid siriolwyoch yn chwareu ;
Pa le mae y genau oedd gynnau 'n llefaru,
Ac ar ei gyfeillion serchoglon yn gwenu ?
Mae wedi *ymollhng* i'w wneyd yn *gydsylwedd*,
A'r briddell oer fud yn yr hon y mae 'n gorwedd.
Y breichiau oedd nerthol a grymus mewn gweithred,
O mor alaethus yn awr maent i'w gweled,
Yn esgyrn sych grinion a hanner pydredig,
Yn noethion heb fymryn o'u onawd-wieg gyntefig !

Pa le mae 'n bresennol y firain adellad
Oedd gynnau mor brydferth a gwych ei *hedrychiad*
Yn fil myrdd mwy cywraïn ei rhyfedd saerniaeth
Nag un gwaith celfyddyd trwy 'r holl grëadigaeth?
Mae wedi *dadmeru* i'w helfen gynhwynol,
O'r pridd ei cymerwyd, i'r pridd ai 'n naturiol."

Mae y dyfyniad uchod heb fod nã gwell na gwaeth na'r rhan fwyaf o'r Bryddest; a rhaid addef mai pur gyffredin ydyw y farddoniaeth ynddo. Nid yw *dynoliant* yn briodol am dynoliaeth; *ar led* ac *ar wasgar* ydynt yr un peth; *diflant* sydd yn air rhy wan i derfynu llinell; *llwyr* adgyweirio sydd amhriodol. Y llinell nesaf "Pa mor *geuol* yw 'r cawg! mor *hyll* ac *anhygar*," sydd yn dangos ychydig iawn o chwaeth; y peiriant *meddylgar* a ddylasai fod y peiriant *meddyliol*. *Tywyll* a *hagr* ydynt yn dangos diffyg chwaeth, ac mae *tywyll* yn amhriodol. "*Ymollwng* i'w gwneyd yn gydsylwedd," sydd yn ddigon amhriodol am y genau. "O mor alaethus yn awr maent i'w gweled," sydd yn cynnwys tor mesur. "Gwych ei *hedrychiad*," sydd amhriodol am adeilad, a "*dadmeru*" hefyd yr un modd.

Dyma ddernyn pur ddarluniadol, ac ar y cyfan yn rhagori ar y cyfansoddiad yn gyffredinol,—

"Mae rhai wedi huno yn mro yr iã oesol,
Lle chwery y morfil, mewn dyfnder amhlymiol,
Mewn cell o iã didawdd, mor glyd y gorweddant,
Ac amdo ddysgleirwen o eira annifant,
Fel rhai mewn perarogl, rhag gwel'd llygredigaeth,
Amgenach na'r Dwyraïn â'i balmaidd gyffryiaeth;
Mae effaith y dyfyn yn cyrhaedd i'w celloedd,
Er gorwedd dan grugau o rewlyd fynyddoedd,
Gan saethu cynhesrwydd trwy 'u holl gyfansoddiad,
Ac ennyn ail einioes â'i ryfedd ddylanwad."*

A dyma ddernyn arall ar yr un testyn, gan y bardd Seisonig enwog hwnw Pollock; a gall y darlennydd gymharu y ddau,—

"And he, far voyaging from home and friends,
Too curious with a mortal eye to peep,
Into the secrets of the Pole, forbid
By nature, whom fierce winter seized and froze
To death, and wrapped in winding sheet of ice,
And sang the requiem of his shivering ghost
With the loud organ of his mighty winds,
And on his memory threw the snow of ages,—
Felt the long absent warmth of life return,
And shook the frozen mountain from his bed."†

Wrth gymharu y ddau ddyfyniad uchod, gwelir yn amlwg mai mewn nerth a thãn awenyddol y mae y bardd Seisonig yn rhagori. Mae ei llinellau yn fwy grymus na'r eiddo y bardd Cymreig. Ymlusgo yn arafaid drwy ei destun y mae y bardd Cymreig, ac nid ymlwybro ymlaen fel cawr. Cymerer a ganlyn eto y megys enghraifft arall o'r ddau awdwr,—

"Mae 'r haul yn tywyllu, gan attal ei lewyrch,
A'r lloer yn troi 'n welw yn nghanol yr entyrch,

* Tu dal. 35. † *Pollock's Course of Time. Book 7.*

Wele y ddaear ar ei hechel yn sefyll,
 Tra y ceir un adran o honi yn dywyll,¹
 A'r rhai y machludodd yr haul arnynt gynnuau,
 A ofer ddysgwylliant am wawrddydd y borau.
 Mae'r llauw, wrth weithio ei ffordd tua'r glanau,
 Heb attreg yn attal ei ymchwydd a'i donau;
 A'r morwr traethedig sy'n dysgwyl yn ofer
 Ei weled yn dyfod, yn unol â'i amser;
 Ni ddychwel ef byth i gyfodi'i long eto,
 Mae'r holl bethau cyntaf wedi myn'd heibio.
 Fe ddarfu'r tymmorau yn rhedeg eu cylchoedd,
 Mor gyson a dichlyn a dyddiau y nefoedd.
 Byth mwyach ni welir y gauaf afrywiog
 Yn cael ei lon ddilyn gan wanwyn lldenog,
 Na'r gwanwyn gan haf a'i des i addfedu
 Cynnyrchion y ddaear, na'r hydref i'w casglu."*

Sylwer eto ar y bardd Seisonig pan yn trafod y cyffelyb fater:—

"No sign of change appeared; to every man
 That day seemed as the past. From noontide path
 The sun looked gloriously on earth, and all
 Her scenes of giddy folly smiled secure;
 When suddenly, alas, fair Earth! the sun
 Was wrapped in darkness, and his beams returned
 Up to the throne of God, and over all
 The earth came night, moonless and starless night.
 Nature stood still. The seas and rivers stood,
 All the winds, and every living thing.
 The cataract, that, like a giant wroth,
 Rushed down impetuously, as seized, at once,
 By sudden frost with all his hoary locks,
 Stood still; and beasts of every kind stood still,
 A deep and dreadful silence reigned alone."†

Yr un peth a ellir ddywedyd am y ddau ddyfyniad uchod. Mae y ddau yn dda, ond y mae y Bardd Seisonig yn pell ragori mewn grym a nerth meddyliol. Rhoddwn un enghraifft yn rhagor o Bryddest arall ar yr un testun, sef yr "Adgyfodiad," o waith Eben Fardd. Y deryn a gymerwn sydd o'i ddarluniad o'r cyfiawntion yn esgyn i'r gogoniant ar ol yr adgyfodiad.

"Yr Ynad gan wisgo ei dalaith frenhinol,
 A ferehyg ei gerbyd o wawl yn y canol;
 Oddiwrth y gogoniant a ddysglaer belydra
 Adlewyrch ysplynydd a deif y wen dyrfa,
 Fel na raid wrth heulwen na llusern wybrenol;
 Y Dwyfol Benadur rydd wawr mwy tanbeidiol.
 A sylwaf o amgylch fod bydoedd ysplynydd,
 Yn ngoleu'r orymdaith yn colli'u lleuferydd;
 Trybelid a llaohar ledaena y gloewder,
 Yn oleu hydreiddiol trwy'r dirfawr ehangder;
 A gwelir claer heuliau trwy'r cyfrwng arddunol,
 Fel gynt y canfyddid o'r belen ddaearol;
 Y lloer yn llwydwelw yn ngoleu yr heulwen,
 Mewn encil unigol ar lethrau yr wybren;
 Un modd y bydd lampau tanbeidiol eu lluched,
 Ddywelwent yn nhânlliw yr osgordd ogoned."

* Tu dal. 65. † Pollock's Course of Time. Book. 7.

Mae y llinellau uchod yn rhagorol, ac yn dangos cryfach dychymyg awenyddol a medr i'w osod allan na dim a ganfyddir yn y Bryddest fuddugol. Ond nid ydyw Pryddest Eben Fardd drwyddi, yr hyn ag y gellid dysgwyl oddiwrth y llinellau uchod. Mae yr awdwr yn myned yn rhy bell i dir dychymyngol ynddi, ac mae ei gynllun yn feius yn ein meddwl ni o'r dechreu i'r diwedd. Yn hyn mae y Bryddest fuddugol yn haeddu canmoliaeth; mae yn dilyn y testyn ymhob man o'r dechreu i'r diwedd, a hyny mewn dull pur rydd oddiwrth eithafoedd. Y bai mwyaŷ arni yn ni-lyniad y testyn, ydyw bod yr awdwr yn gorweithio ei feddylddrychau, ac yn sefyll yn rhy hir ar yr un peth. Hyn a barodd i'r Bryddest fod mor faith; ond ni wyddom a fu ei meithder yn help iddi ennill y gamp ai peidio. Fel cyfansoddiad barddonol ni fydd iddi byth sefyll yn uchel, am ei bod mor amddifad o dân awenyddol, ac heb gael ei gorphen yn ddigon trwyadl; a phe buasai yr awdwr enwog yn byw yn hŵy, nid ydym yn amheu y buasai yn gwellhâu llawer arni. Mae un peth ag y dymunem sylwi arno cyn gadael y Bryddest dan sylw, sef yr anmbriodoldeb o roddi y fath destyn â'r "Adgyfodiad" yn un cystadleuol mewn Eisteddfod. Nid ydyw yn destyn cymhwys mewn modd yn y byd, yn enwedig i wneyd Awdl arno. "Tywalltiad yr Ysbryd Glan," y "Croeshoeliad," a'r cyffelyb, ydynt hefyd yn llawn mor anghymhwys i fod yn destynau cystadleuol. Ond mae yn debyg bod y rhai a fyddant yn dewis testynau yn teimlo cryn anhawsdra i ddewis rhai cymhwys.

Yr Awdl fuddugol yn Eisteddfod Llangollen ar "Frwydr Maes Bosworth," sydd gan Eben Fardd, enw pur adnabyddus erbyn hyn ymysg llênnyddion a beirdd Cymru. Ennillodd y gadair yn Eisteddfod Powys, bymtheng mlynedd ar hugain yn ol, am yr Awdl oreu ar "Ddinystr Jerusalem." Nid oedd y pryd hwnw ond ieuanc; ac fel mae gwir dalent yn gyffredin yn ymddangos yn debyg i seren gynffonog, neu ryw wrthdrych rhyfedd arall, nes taro'r byd â syndod, felly yr ymddangosodd Eben Fardd y tro hwn. Ymddangosodd ger bron y byd heb ei ddysgwyl, ac heb fod neb yn gwybod dim am dano. Haerai pawb mai ei gymydog Dewi Wyn a wnaethai yr Awdl, ac nad oedd y fath beth a bod Bardd Clynog yn awdwr iddi. Ond mae Eben Fardd wedi dangos i'r byd erbyn hyn mai efe oedd awdwr yr Awdl ragorol hono, trwy ddwyn allan gyfansoddiadau eraill llawn cystal neu uwch mewn teilyngdod. Yr Awdl fuddugol yn Llangollen, fel y darllenwn yn y feirniadaeth, oedd y feraf o'r holl Awdlau a ddaethant i'r gystadleuaeth oddigerth *un*; ond mae'r Awdl hon dros fil o linellau o hŷd. Buasai hen feirdd yr unfed ganrif ar bymtheg, megys Rhys Goch Eryri, Dafydd Nanmor, Tudur Aled, a'u cydoeswyr, yn gweled yr hŷd hwnw yn ddigon i ddeg neu bymtheg o Awdlau! Ond yr ydym yn gweled bod yn nghystadleuaeth Llangollen liaws o Awdlau o ddeuddeg i bymtheg cant o linellau o hŷd, ac un yn ddwy fil a hanner! Mae hyn, dybygem, yn profi fod yr hen ddull Cymreig o gyfansoddi wedi myned heibio, a bod yr Awdl bron â myned heibio hefyd, am fod ei therfynau wedi eu hestyn i'r fath raddau nes mae wedi dyfod yn fwy tebyg i Arwgerdd. Ond yr ydym yn edrych ar Awdl o ddwy fil o linellau ac uchod, yn debyg i lun angeu gan rai o'r hen ddarluniedyddion, y rhai a'i paentient o daldra anferth, ac yn gul o gig a chnawd, mewn gair yn fath o anghenfil wedi gordyfu. Nid ydyw Awdl yn gyfansoddiad a ddylai fod o'r hŷd hwnw, yn ein barn ostyngedig ni, na Phedwar Meesur at

Hugain, Caerfyrddin wedi eu haddasu i'r fath gyfansoddiad maith. Dywedodd un o'r hen feirdd oedd yn wyddfodol yn Eisteddfod Tremadog, fel y gwelom yr hanes, na ddylai Awdl fod dros driugain neu ddeg a thriugain o linellau, ac y dylai fod ar y Pedwar Mesur ar Hugain. Mae yn wir bod y dywediad uchod yn sylfaenedig ar arferion yr hen feirdd yn y bymthegfed a'r unfed ganrif ar bymtheg, ond nid allwn gydsynio âg ef yn hollol. Meddylïen y byddai pump neu chwe' chant o linellau yn ddigon o hŷd i Awdl y Gadair.

Yr Awdl sydd genym yn awr dan sylw sydd wedi ei chyfansoddi yn ofalus, ac mae yr awdwr yn feistr trwyadl ar y cynghaneddion. Wedi iddo grybwyll y testyn yn fyr, mae yn tafu golwg ar helyntion Brydain o'r oesoedd boreuaf, ac yn rhedeg dros yr hanes hyd Frwydr Maes Bosworth, ac adferiad yr Unbenaeth Frutanaidd yn ol i hiliogaeth y Cymry yn mherson Harri y Seithfed. Ond wrth iddo geisio crynhoi cymaint o faterion mewn cylch mor fychan, mae, fel yr ymddengys i ni, yn gwneyd y rhan gyntaf o'r cyfansoddiad yn aneglur, fel pe byddai rhyw niwl yn gorphwys arno. Nid ydys yn gallu ei ddilyn, na gweled ei feddwl, y tro cyntaf y darllenir yr Awdl. Dyfodiad y Rhufeiniaid sydd yn cael cyfeirio ato yn y dull canlynol,—

“Hyd hyn o'n hanes, yn ein tŷ 'n hunain,
Am hir adeg, yr oeddym yn Mrydain,
Ni b'ai ymwelwr o wyneb milain,
Neu Ŵdn niweidiol daenai ei adain,
I ddwyn diowryd o ddé na dwyrain,
Hyd yr awr rhwyfodd dewr Eryr Rhufain,
A'i oslef trwy 'n hynyslain—yn cyraedd,
Yn eres grochwaedd, gan oer ysgrachain !”

Nid ydym yn deall beth a feddylia yr awdwr wrth *ddwyn diowryd*. Yr un peth ydyw *diowryd* a diofryd, a *gwneyd diofryd* ydyw'r ymadrodd a arferir yn gyffredin. Pan oedd y Brutaniaid yn gorwedd dan yr iau Rufeinig, dychymygir bod “hen Dderwydd canmlwydd mewn coed,” yn rhag-ddywedyd helyntion Brydain, o'r pryd hwnw hyd yn awr;—bod y genedl oedd y pryd hwnw yn gorwedd dan iau estronol i ddyfod eto yn enwog, y byddai i'r Eryr Rhufeinig orfod gadael ei diriogaethau yn Mrydain i tyned i amddiffyn dinas Rhufain, pryd y byddai i'r Brutaniaid yn eu gwendid gael ymosod arnynt gan elynion cartrefol a thramor, ond y byddai iddynt yn y diwedd adfywio ac ennill yn ol ei hen uchafiaeth,—ac,

“Yn ngwen nwyfus tangnefedd—cân Prydain
Hynod arwyrain wedi hir orwedd !”

Mae y dysfaliad hwn yn farddonol, ond nid ydyw wedi cael ei weithio allan cystal ag y buasem yn dysgwyl oddiwrth fedr yr awdwr. Ond mae yn myned rhagldo i egluro brud yr hen Dderwydd mewn dull tra meistrolgar hyd nes y delom at ryfel y Rhosynau. Mae yr hyn a adroddir am yr hen Dderwydd yn dwyn i'n côf “Boadicea” Cowper; ond mae digon o wahaniaeth rhwng y ddau, fel na raid cyhuddo Eben Fardd o fenthyca oddiwrth yr awdwr Seisonig. Fel hyn y dywedir am ryfel y *Rhosynau* :—

“Anrhaith resenog yn rhith *Rhosynau*,
Ar fyrdd o bleidwyr, fwrïodd ei blodau,

Yn nhaenfa sawyr y cynnen-fwysiau,
Gwnai eu dylanwad i genedl wyniau
Waedu ein hynys a duo ein henwau;
Gwaed byw raiadrodd, oblegid brwydrau
Hydra galanas â'i neidr-golynau!
Anferth ydoedd eu gwenwyn-frathiadau!
A *Phrydain* yng nghyffroadau—y pryd
Hyderai yn iechyd hen Deyrnachau."

Yr ydym wedi methu a gweled beth ydyw meddwl y darn uchod; mae ynddo gynghanedd dda a grymus, ac fe allai synwyr hefyd, ond yr ydym ni yn analluog i'w ganfod allan. Mae yma ragor ynghylch y *Rhosynau* tebyg i'r uchod, gan hyny awn ymlaen at y frwydr, lle yn ein barn ni mae yr awdwr yn rhagori. Gwelwn y Tywysog Harri, Syr Rhys ab Thomas, a'r Cymry, yn myned ymlaen o Aberdaugleddyf, lle y glâniodd Harri, ac yn ymdeithio rhagddynt tua maes Bosworth yn Sir Leicester.

"Ymweithient tua 'r Mwythig,
A'u hanadl dewr yn dal dig;
A'u llun a'u gwedd, yn llawn gwyr—
Galonog, fywiog feiwyr!
Ac o'u blaen, yn gwbl unol,
Syr Rhys, heb un gwas ar ol,
Siaspar, a'r *Tywysog Harri*,—
Ba ŵr traws wynebai 'r tri?"

Ymlaen âent, gan amlhau 'u nerth,
Ym mhob cwm ceid meib cymmorth;
Yn rhuddin o fyddin ferth,
Hwy bwysent tua *Bosworth*."

Yna y canlyn darluniad o'r frwydr, ac mae ynddo rai darnau yn rhagori ar ddim o'r fath yn yr iaith Gymraeg. Cymerer a ganlyn fel enghraifft:—

"Gerwin wŷs anwar yr udgorn seiniai!
A thwrw arurol uthyr ôr-awriai,
Trwy yr awyr uchod, hir yr hêr-wawchiai,—
A swm, hyd adref, hyson a didrai,
O bwyntiau wybyr, a'i ban atebai,
Hedd-luest anian a ddolysteiniai!
Mal ar wirodydd, y milwr wridai,
Ei ysbryd enwyllt a'i asbri daniai,
A gwŷn arf a gynnyrfai—dechreu wnaeth
Mawr rôch aerwriaeth, a'r march weryrai!"

Gwelwn uchod yr un dalent ysplenydd, a'r un medr i drin yr hen fesurau Cymreig, ag a ganfyddir yn Awdl Dinystyr Jerusalem. Pwy nad ydyw yn teimlo ei hun megys yn nghanol y frwydr yn cael ei amgylchu gan alan-asdra rhyfel wrth ddarllen y llinellau grymus hyn:—

"Pob cadfarch yn tywarchu—
Tori y llawr trwy y llu;
A'r gwayw ffin yn rhywgo 'u ffordd,
Rhyfel-dwrf a mawr faldorrd,
Mewn dewr-stwr trwm, yn darstain,
Rwyfawg lu eu harfau glain;

Gan rincian yn yr encil,
 O ddig cás, eu dannedd cll;
 A'u lluryg, fel croen llawrudd,
 Yn wrîd trwch o orwaed rhudd!
 Neidiai gwaed hyd egwydydd
 Pob cadfarch a rhedfarch rhydd,
 Tra 'n wasarn i'w trwm garniad,
 Gyrrf gwyr, cymmrodyr ym mrad."

Pa un a ennillodd y Cymry yn ol goron Brydain yn mrwydr Bosworth ai peidio, sydd yn ein meddwl ni erbyn hyn yn beth o bwys bychan iawn. Mae y Cymry a'r Saeson erbyn heddyw yn un genedl, ac mae lles y Cymry yn deillio yn fwy o lawer na neb arall oddiwrth gadarnhâu a chyfnerthu yr undeb hwnw. Ni fu cenedl y Cymry byth mewn hollol feddiant o unbenaeth Brydain, er pan gawsant eu gorchfygu gan y Rhufeiniaid; ac yn awr y maent fel cenedl wedi cael eu llyncu i fyny gan y Saeson, yr hon sydd genedl gymysg o hen drigolion Brydain, y Saxoniaid a'r Angles o Germany, y Daniaid a'r Normaniaid, y rhai a fuont i gyd yn eu tro yn llywodraethu y deyrnas. Dyma fel y dywed yr awdwr ar y mater:—

"Er holl alar, arwyl Llewelyn,—trais
 Trwm "arglwyddi 'r terfyn,"
 Aer o waed Cymry wed'yn
 Ranai Naf yn Frenin yn'
 Os prîd galonidid Glyndwr—a ballodd
 Heb wella ein cyflwr,
 Harri gaed o deulu 'r gwr,
 Ac Harri fu 'n gongowerwr.
 Ennillodd ef hen allu
 A llonwyh hawl llinach *Hw*,
 I'n dwylo 'n ol, a dal wnaeth
 Ein hanwyl hen Frenhiniaeth."

Nid ydym am ddadleu y pwnc gyda'r awdwr nad felly y bu, ond yr ydym yn foddolawn i bethau gael bod felly o'n rhan ni.

Yr oedd yn Llangollen destynau eraill, dyben y rhai oedd dyrchafu cenedl y Cymry, yn eu golwg eu hunain o'r hyn lleiaf. "Cymeriad Rhufain gan Brennus a'r Cymry" oedd un, a "Darganfyddiad yr America gan Madoc ab Owen Gwynedd" oedd y llall. Ni welsom erioed yr un hanes ag y gellid ymddibynu arno bod dim a fynai y Cymry â chymeriad Rhufain o dan arweiniad Brennus. Trigolion Gaul, neu Ffrainc, y geilw Livy y rhai a gyflawnasant y difrod echrydus hwnw. Ac am ddarganfyddiad America gan Madoc, dywed Mr. T. Stephens y medr brofi i Madoc gael ei ladd mewn brwydr yn ei wlad ei hun, cyn yr amser ag y dywedir iddo ddarganfod yr America; ac ni wyddom am dystiolaeth neb ar fater o'r fath hwn ag y byddai i ni ei chredu yn gynt na'r eiddo y gw'r uchod. Ni waeth i ni y Cymry beidio ag ymdrechu gwneyd ein hunain yr hyn nad ydym. Bu ein cenedl yn enwog yn ei dydd, ac mae wedi gadael profion nad all neb eu hammheu o'i henwogrwydd, ac nid oes eisieu myned i ychwanegu traddodiadau ffigiol a disail at y rhai hyn. Mae Sais a Chymro yn sefyll heddyw ar yr un tir yn y mwynhâd o freintiau Brydain, yn ymladd rhyfel-oedd eu gwlad ochr yn ochr â'u gilydd, ac yn ystyried eu hunain yn frodyr, yn ddeiliaid yr un goron, ac yn etifeddion yr un breintiau.

ANNOGAETHAU A CHYFARWYDDIADAU I'R DOSBARTH GWEITHIOL GASGLU GWYBODAETH.

Ar ryw gyfrif y mae dysgwyl i'r gweithiwr cyffredin wneyd llawer o ymdrech i gasglu gwybodaeth, yn beth afresymol. Dyna John Jones y saer—y mae yn codi bob boreu tua phump o'r gloch—nid oes ganddo un mynyd i'w gollu, oblegid y mae yn rhaid iddo fod gyda ei waith erbyn chwech, ac y mae ganddo lawer o ffordd i gerdded. Y mae yn parháu gyda'i waith trwy y dydd, hyd chwech yn yr hwyr, ac yn fynych yn gweithio yn hwy na hyny. Wedi iddo ddychwelyd adref, y mae yn llawn lludded—ei gorff yn flinedig, a'i ysbryd yn llwfr. Mae ei blant yn dysgwyl am dano, ac yn galw am ei sylw a'i ystyriaeth; ac y mae mân orchwylion y teulu i'w trin. Os na fydd gwasanaeth crefyddol, neu gyfarfod cyhoeddus yn ei ddenu allan, ac os bydd ynddo dipyn o awydd i goethi ei feddwl, y mae ei lyfrgell ond odid, i'r wraig a'r plant a'r lletywyr ac yntau. Mae yr ymddyddanion, y sŵn, a'r gorchwylion teuluaid, yn aflonyddu ar ei fyfyrddod; ac os llwydda i gael ychydig hamdden rywbryd yn ystod yr hwyr, buan y daw yr amser i fyned i'r gorweddle i ddadludedu, ac i godi drannoeth i fyned trwy yr un cwrs o orchwylion a'r diwrnod blaenorol. Y mae dysgwyl i ddyn gasglu gwybodaeth, meddwn, yn y cyfryw amgylchiadau, i fesur mawr yn beth ofer; ac oni buasai fod modd ffurfio yr arferiad o ddysgu, pan y mae dyn yn ieuanc, a chyn iddo fyned i'r sefyllfa hon, y mae yn ddiâu y buasai agos yn anobeithiol.

Onid er yr holl anhawdserau, y mae o bwys mawr i bob dyn wneyd ymdrech i gasglu gwybodaeth, pa beth bynag fyddo ei sefyllfa, a pha mor anfaiteisiol bynag fyddo ei amgylchiadau i hyny. Po fwyaf fyddo ei wybodaeth, mwyaf oll yw ei allu, i.e. a mwyaf oll fyddo ei gymhwysder i fwynháu gwir hapusrwydd. Nid ydym yn dyweyd y bydd ei gymeriad yn rhagorach os bydd yn ddyn gwybodus, oblegid nid yw gwybodaeth yn effeithio dim, mewn modd uniongyrchol, ar y cymeriad. Y mae yr ysbrydion drwg, yn ddiâu, yn tra rhagori ar ddyn mewn cynneddfau a gwybodaeth, eithr nid yw hyny ond yn rhoddi mantais iddynt i weithredu yn fwy drygionus. Nid yw cryfder eu galluoedd a helaethder eu gwybodaeth yn ychwanegu dim at eu cysur ychwaith, ond yn hytrach yn dyfnháu eu teimlad o annedwyddwch. Ar yr un pryd, na fydded i neb dybied mai gwell yw bod yn ddwl ac anwybodus o herwydd hyny. Y mae galluoedd a deall yr angelion glân yn ychwanegiad at brydferthwch eu cymeriad moesol, ac y mae yn ddiammheu yn eu gwneyd yn llawer mwy cymhwys i fwynháu eu dedwyddwch. Os yw dyn gan hyny am ddyrchafu ei hun yn uchel mewn daioni, os ydyw am fod yn offeryn i wneyd daioni, ac os ydyw am fwynháu a chyfranu dedwyddwch, y mae yn rhaid iddo amaethu ei feddyliau, a gwneyd pob ymdrech i gasglu gwybodaeth. Er y gall fod cyflwr y gweithiwr cyffredin yn ymddangos ar yr olwg gyntaf yn bur anffafriol i amaethiad y meddwl a chasgliad gwybodaeth, cofier mai "yr hyn a wnaed a ellir." Y mae

dynion, lawer iawn is eu hamgylchiadau, a llai eu cyfleusderau, na'r nifer fwyaf o weithwyr cyffredin y dyddiau hyn, wedi codi eu hunain i ben pin-acl uchaf gwybodaeth. Ac, o ran hyny, y mae yn deilwng o sylw mai rhai o darddiad isel oeddynt y rhan fwyaf o'r dynion mawrion sydd wedi gwneyd yr argraff fwyaf ar y byd ymhob oes. Byddai nodi esiamplau yn chwyddo yr ysgrif hon yn ormodol; eithr darllener bywgraffiadau enwogion y ddaear, ac fe geir mai gwirionedd yw yr haeriad fod y nifer fwyaf o honynt yn ddynion o haniad isel, y rhai a ymdrechasant yn ngwynneb rhwystrau lawer, ac a ddyrchafasant eu hunain, trwy rym eu dyfal barhâd, eu diwydrwydd, a'u penderfyniad meddwl.

Heb ymdroi ymbhellach, ni a nodwn rai pethau i nerthu a chalonogi meddwl y gweithiwr cyffredin i wneyd yr ymdrech o gasglu gwybodaeth; wedi hyny ni a enwn ychydig o bethau y mae yn rhaid iddo eu gochelyd, ac yn olaf, rhodddwn rai cyfarwyddiadau ymarferol.

1. Yn y lle cyntaf, dymunem ar fod i bob gweithiwr deimlo nad ydyw llafur corfforol yn un diraddiad arno fel dyn. Yr oedd dyn wedi ei wneyd i weithio hyd yn nôd pan yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, ac y mae pob math o lafur gonest bob amser yn anrhydeddus. Wrth i ni ddyweyd hyn, na thybied neb ein bod am i ddyn ymfoddloni ar sefyllfa o lafur corfforol parhâus, os gall trwy ddiwydrwydd a gwybodaeth gyrhaedd sefyllfa uwch a mwy dylanwadol, sef sefyllfa fydd yn gofyn mwy o lafur meddyliol. Ond yr hyn y dymunem ei argraffu ar feddwl pob gweithiwr ydyw,—nad yw yn un darostyngiad arno lafurio a chyflawni dyledswyddau ei alwedigaeth. Os bydd y dyn yn meistrolï amgylchiadau, ac yn eu darostwng i'w amcanion ei hun—yn myned trwy orchwylion ei alwedigaeth dan deimlo ei fod yn cyflawni ei ran fel aelod cymdeithas, a'i fod wrth wneyd hyny yn briodol yn gogoneddu ei Grêwr, ac yn ufuddhâu i'r Arglwydd Crist, y mae y cyfryw ddyn wrth weithio, boed y gwaith y natur y bo, os yn gyfreithlawn, yn cyflawni yr hyn sydd ddyrchafedig a gogoneddus, a hollol deilwng i'w urddas fel dyn. Yn wir, llafur neu waith sydd yn cyfansoddi prif ogoniant dyn; ac nid yw y gwahaniaeth rhwng llafur corfforol a llafur meddyliol ond dibwys, os bydd y naill a'r llall yn wirfoddol, ac yn cael eu cyflawni i amcanion teilwng. Dyna y dyn sydd yn feddyliwr mawr, dyn sydd yn treulio ei holl amser yn ei fyferygell, ac yn astudio dyfnion bethau crëadigaeth a dad-guddiad—nid yw hwna yn ymddyrchafu i uchder y gwir wron, os nad yw yr holl fyfyrïo yn dybenu mewn gwaith. Gwaith—llafur diorphwys i gyrhaedd amcan clodwiw, meddwn, sydd yn cyfansoddi prif ogoniant dyn; ac y mae llafur y gweithiwr cyffredin, os cyflawnir ef oddiar ddybenion, ac i amcanion teilwng, yn cyfansoddi elfen orbwysig yn hapusrwydd a llwyddiant dynolryw. Beth pe gallasem gymeryd taith trwy y byd hwn tua chwe' mil o flynyddoedd yn ol, a chymharu yr olygfa a allasem ei gael y pryd hwnw â'r olygfa a geir yn bresennol? Y fath gyfnewidiad mawr a ganfyddem! Y trefi mawrion, yr adeiladau gorwych, y meusydd toreithiog, y llongau ysplenydd, a'r myrdd a mwy o wrthddrychau sydd yn gorchuddio y ddaear, ac yn wasanaethgar i gysur a dedwyddwch dyn!—pwy sydd wedi dwyn yr holl gyfnewidiad hwn oddiamgylch?—y gweithiwr. Mae yn wir fod y pethau hyn yn ffrwyth meddwl, ond yr oedd y meddyliwr yn weithiwr, ac nid yn freuddwydiwr—yr oedd holl gynlluniau a dyfeisiau ei feddwl yn cael eu gosod mewn gweithrediad; ac yr oedd yn rhaid cael dwylaw medrus a gewynau cryfion y crefftwr celfydd i gario y cynlluniau hyny allan cyn y

buasent wedi ymgorffori yn wrthddrychau o edmygedd o flaen y byd; a pho fwyaf deallus fyddo'r gweithiwr cyffredin, mwyaf oll y mae meddyliau y cynlluniwr yn troi allan yn fantais a chysur i'r byd. Dichon y dywedir, er hyny, ein bod yn ddyledus i'r gŵr cyfoethog, y boneddwr segur a diog, ond odid, am yr arian a'r moddion i wneyd y fath gyfnewidiad ar wyneb y ddaear. Eithr y mae hyny yn gamgymeriad hollol. Ni chynnyrchodd y boneddwr segur un geiniog erioed. Nid ydyw ond cyfrwng i wasgaru yr hyn y mae y gweithwyr wedi ei gasglu iddo. Nid oes ganddo ddim a'r nas derbyniodd. Y mae pob clod, gan hyny, yn deilwng i'r gweithwyr—y rhai meddyliol yn gyntaf, ac wedi hyny y rhai corfforol.

Ein hamcan yn aros gyda hyn ydyw dyrchafu meddwl y gweithiwr i ganfod urddas ei sefyllfa, ac i beri iddo deimlo na raid iddo ymollwng yn ei ymdrechion i gyrhaedd gwybodaeth ar gyfrif ei fod yn perthyn i'r dosbarth gweithiol, yn gymaint a bod y dosbarth hwn yn un o'r dosbarthiadau pwysicaf ymhlith plant dynion; ac y dylai pob un sydd yn perthyn iddo ymdeimlo â'i urddas ac ymddwyn yn gyfatebol.

2. Wedi i ddyn ymgymodi â'i sefyllfa, neu yn hytrach wedi i'r gweithiwr cyffredin gael ei lwyr argyhoeddi o urddas ei sefyllfa fel gweithiwr, y mae ganddo un gorchwyl i'w gyflawni ar drothwy ei ymdrech am wybodaeth, heb yr hyn nid yw yn debyg y bydd unrhyw lafur o'i eiddo yn effeithiol; a'r gorchwyl hwnw yw, mynu llwyr oruchafiaeth arno ei hun—darostwng ei hunan yn ei holl alluoedd meddyliol a chorfforol o dan awdurdod ei ewyllys. Dichon y bydd rhai yn barod i dybied mai gorchwyl lled hawdd yw hyn, neu os nad yw yn hawdd ei fod o leiaf yn ddibwys. Ond y gwirionedd yw, nad ydyw y naill na'r llall. Y mae yn orchwyl gwir anghenrheidiol; mor anghenrheidiol fel nad ydym yn petruso haeru nad oes un dyn wedi cyrhaedd enwogrwydd, ac wedi cyflawni gwrhydri ar y ddaear, heb ei fod yn gyntaf wedi ennill meistrolaeth hollol arno ei hun.

Gellir dosbarthu dynion fel y dosbartha gramadegwyr berwyddiaid, sef i'r gweithredol a'r goddefol. Cymerer dau ddyn ieuanc mewn cyffelyb amgylchiadau. Y mae y naill fel y llall yn gorfod myned trwy gylch o ddyledswyddau; y mae ganddynt eu gorchwylion beunyddiol i'w cyflawni—a rhaid iddynt gydymffurfio â rheolau gosodedig. Y mae y ddau o ran ymddangosiad allanol yr un mor ddichlynaidd eu rhodiad, a'r un mor hapus eu sefyllfa â'u gilydd. Ond i'r cyfarwydd, y mae gwahaniaeth dirfawr rhyngddynt—yr un gwahaniaeth o ran natur ag sydd rhwng y gwron a'r dyn cyffredin. Y mae ymfoddlonrwydd y naill i'w sefyllfa, a'i gyflawniad o'i dyledswyddau yn oddefol, tra y mae eiddo y llall yn weithredol. Y mae y cyntaf yn myned trwy gylch ei ddyledswyddau am ei fod yn canfod fod hyny yn rhaid iddo; cludir ef ymlaen gan lifeiriant ei dueddiadau, ei gyfansoddiad naturiol, a'r amgylchiadau y mae yn dygwydd bod ynddynt, fel llong ar y cefnfor heb lyw. Tra gwahanol yw y gŵr ieuanc arall, yr hwn sydd yn meddu yr hyn a allwn ei alw yn feddwl gweithredol. Y mae efe yn rheoli ei ysbryd ei hun—y mae ei amgylchiadau, ei gynneddfau, ei dueddiadau, a'i ysgogiadau oll, o dan feistrolaeth. Nid un yn cael ei arwain ydyw, ond un sydd yn gweithredu yn annibynol. Y mae yn ffurfio iddo ei hunan amcan teilwng, a pha beth bynag fyddo ar ffordd ei gyrhaeddiad o'r amcan hwnw y mae yn ei symud ymaith. Os bydd rhywbeth yn ei amgylchiadau ar ffordd llwyddiant yr amcan y mae efe wedi osod o'i flaen i gyrchu ato, nid yw yn eistedd i lawr ac yn digaloni, gan dybied nad oes modd iddo ef ragori.

o herwydd yr amgylchiad hwnw. Nid ydyw rhwystrau ond yn ychwanegu yni a gwroldeb ei feddwl. Os dygwydd fod rhyw duedd feddyliol, ryw ddiffyg corfforol, neu ryw arferiad hanner greddfól ynddo ar ffordd y gwaith y mae efe wedi ei osod iddo ei hun i'w gyflawni, y mae yn ymosod at y gorchwyl o ddifrif i orchfygu yr anhawsderau hyny; teimla fel y milwr pan ar faes y gwaed, fod ei ogoniant fel dyn yn y chwareu, a myn orchfygu neu farw yn yr ymdrechfa. Dyma yn wir sydd yn cyfansoddi gwir fawredd meddyliol. Mae llawer dyn wedi yfed llawer o ddysg yn yr ysgolion, wedi darllen llawer o lyfrau, gan fod hyny yn rhan o'i ddygiad i fyny pan yn ieuanc; ond y mae ei feddwl er hyny yn eiddil a nychlyd; nid yw ond créadur hollol oddefol, sydd yn cymeryd yn ddiiddig yr hyn a ddaw i'w ran. Ond am y dyn gwir fawr a gwir wybodus, efe sydd wedi gwneyd ei hunan yr hyn yw; efe ei hunan yw y crefftwr sydd wedi llunio ei gymeriad; firwyth ei lafur yw ei fod yr hyn y gwelir ef; ac y mae wedi bod mor lafurus yn y gorchwyl fel y mae bellach wedi cael y feistrolaeth ar ei holl gynneddfau a'i allu-oedd, a gall eu troi i'r pwrpas a'r amcan y myno, a'u cadw ar waith (ond yn ddarostyngedig i'w deddfau priodol) cyhyd ag y myno. Wedi ennill y feistrolaeth yma arno ei hun, gynifer o bethau y gall y dyn eu gwneyd! Ié, braidd nad ydym yn barod i ofyn, Pa beth nad all ei wneyd? Os bydd y dyn yn dymuno dysgu rhyw gangen o wybodaeth, y mae yn gallu troi peiriant arderchog ei feddwl ar unwaith at y gorchwyl, a'i gadw i weithio arno nes llwyr gyrhaedd ei amcan. Pa beth bynag yr ymeifi ei law ynddo, y mae yn ei wneyd â'i holl egni, ac felly y mae yn bur debyg o lwyddo. Ac ofer yw i neb ddysgwyl rhagori mewn gwybodaeth, nac yn wir mewn dim arall, hyd nes y byddo wedi ennill yr oruchafiaeth hon.

3. Da iawn fyddai i bob dyn gofio yn barháus, ei fod o dan rwyman i Dduw i amaethu ei feddwl a chasglu gwybodaeth. Y mae bod gallu gan ddyn i gynnyddu mewn gwybodaeth yn brawf mai bwriad ei Gréawdwr pan gyfansoddodd efe feddwl dyn, oedd iddo gynnyddu fwfwy yn barháus. Y mae tyfiant yn ddeddf yn llywodraeth yr Hollalluog. Nid oes dim ymron yn aros yn llongydd. Y mae pob bywyd, anifeilaidd a llysiuol, wedi ei fwr-iadu i ychwanegu a thyfu. Yr un modd y mae meddwl dyn. Yr unig wahaniaeth rhyngddo â phethau tyfol eraill yw, fod terfyn ar gynnydd y rhai hyny, tra mae meddwl dyn, yn ol pob tebyg, i dyfu a thyfu yn ddiddiwedd. Fel hyn y bwriadodd Duw iddo fod pan grëodd feddwl dyn ar y dechreu; ac os nad yw dyn yn defnyddio y moddion priodol i gario y bwriad dwyfol hwn i weithrediad, y mae yn euog o sefyll yn erbyn amcanion ei Luniwr, a bydd yn gyfrifol i Dduw yn y diwedd am hyny.

Prawf amlwg iawn fod Duw wedi bwriadu i ddyn gynnyddu mewn gwybodaeth, yw y ffaith ei fod wedi cysylltu pleser wrth bob llafur meddyliol. Y mae pleser i'w gael, nid yn unig ar ol cyrhaedd yr hyn y chwilir am dano, ond yn yr ymchwiliad ei hun. Y mae pob goleuni newydd a geir, pob egwyddor newydd a ddysgir, pob ffaith newydd a gymerir i mewn—yn ychwanegiad ar ein pleser. Y mae y dyn pan yn dringo y mynydd yn mwynhau pleser ychwanegol bob mynydyn, fel y mae y golygfeydd yn ym-ëangu o'i flaen; ac os yw yn ddyn iach, y mae defnyddiad ei aelodau a churiad twym ei waed yn ei wythienau, pan yn ymestyn at gyrhaedd y top, yn deimlad hyfryd. Y mae yr un teimlad o hyfrydwch ynglŷn âg ysgogiad corfforol pob créadur byw, o'r baban bach sydd yn caru ysgwyd ei aelodau ystwyth ar liniau ei fam, hyd y march bywiog a chyffym sydd yn pranci

ar y ddol. Y mae y Llywydd Dwyfol yr un modd wedi cysylltu pleser wrth lafur meddyliol. Mae teimlad hapus i'w gael, nid yn unig ar ol cyrhaedd y wybodaeth yr oeddid yn chwilio am dani, ond yn y llafur am ei chyrhaedd ei hun; yr hyn sydd yn dangos fod y Duw daionus wedi bwr-iadu i ddyn gadw ei feddwl ar waith ac ymëangu mewn gwybodaeth.

Heblaw hyny, mae Brenin mawr yr holl ddaear wedi gosod dyn yn y byd hwn o bwrpas i fynegu ei glod ac i wneyd lles i'w gyd-ddynion; a pha fodd y gall dyn wneyd hyn yn briodol heb amaethu ei feddwl a chasglu gwybodaeth? Hwyrach y dywed rhywun fod yn burion i'r pregethwr a'r awdwr, a'r dynion hyny sydd wedi ymgysgru i fywyd defnyddiol yn y byd, gasglu gwybodaeth, er mantais i gyrhaedd eu hamcan; ond nas gellir dysgwyl i'r gweithiwr cyffredin, yr hwn sydd ganddo eisoes gynifer o orchwylion ag y gall ddyfod drwyddynt, wrth weithio a dilyn ei alwedigaeth feunyddiol, ymroddi i gasglu gwybodaeth er mwyn defnyddioldeb yn y byd. Ond y mae hyn yn gangymeriad. Y mae cynnyddu mewn gwybodaeth yn ddyledswydd ar bob dyn, ac y mae pawb sydd yn esgeuloso hyny yn euog o adael o'r neilldu un o'u rhwymedigaethau penaf. Pa fodd y gall dyn fod yn wir ddedwydd ei hunan—pa fodd y gall arfer dylanwad priodol ar ei blant, ei deulu, ac ar ei gyd-ddynion—pa fodd y gall efrydu gair Duw i fuddioldeb, a gwahaniaethu rhwng da a drwg, mewn llawer amgylchiad—mewn gair, pa fodd y gall ateb dyben ei grëadigaeth ac ymddwyn yn deilwng o'r enw urddasol dyn, os nad ymdrecha â'i holl egni i amaethu ei feddwl, a'i ystôrio â gwybodaeth fuddiol? Mae pob dyn yn meddu rhyw gymaint o ddylanwad. Mae pob careg a defir i lyn yn effeithio i ryw fesur ar yr holl lyn, a pho fwyaf a thrymaf y bo y gareg, mwyaf oll fydd yr effaith. Y mae pob dyn, yn yr un modd, pan yn cael ei dafu ar wyneb cymdeithas, yn dylanwadu i ryw fesur ar holl gylch y gymdeithas hono, ac y mae gwybodaeth helaeth, ac amaethiad a choethiad meddwl, yn bwysau ychwanegol yn y dyn, ac yn tueddu yn sawr i ddyfnhâu ac estyn cylch ei ddylanwad.

4. Nis gallwn adael y gangen hon o'n mater heb wneyd un sylw pellach er deffro a chefnogi y gweithiwr i ymofyn am wybodaeth; sef bod cysylltiad rhwng y fuchedd hon â'r fuchedd ddyfodol mewn byd arall, a'i fod o'r pwys mwyaf gan hyny i ddyn fod yn ddifrifol ymhob peth. Ped edrychid ar ddyn yn ei gysylltiad â'r fuchedd hon yn unig, y mae ei holl fywyd yn rhyw chwareufa blentynaidd a diamcan. Os edrychir ar nifer o blant yn chwareu, ceir eu gwled bob amser o ddifrif gyda'u gorchwyl. Os chwarddant, y maent yn chwerrthin o'r galon, ac os digiant wrth eu gilydd, y maent yn gwneyd hyny ar y pryd o lwyrfryd meddwl. Dichon y terfynant mewn ymladd â'u dyrnau, pa ymladdfeydd a ddechreuir gyda holl ddifrifoldeb a phwys cyhoeddiad rhyfel rhwng gwlad a gwlad. Ond y mae y gŵr oedranus a ddichon fod yn edrych arnynt, yn gallu gwenu ar yr olwg ar ddifrifoldeb eu chwareuon; nid yw y cwestiwn pa un o'r plant a ennilla y gamp, neu pa un o'honynt a fuddugoliaetha mewn mân-ymladdfa, yn meddu y gronyn lleiaf o bwys yn ei dyb ef. Er hyny, i'r dyn call a sylwgar, y mae un peth yn bwysig iawn hyd yn nôd yn chwareuon plant bychain, sef eu cysylltiad â dysgyblaeth ac amaethiad meddwl; canys y mae gorchwylion y plentyn yn dylanwadu ar orchwylion y dyn; mae yr arferion corfforol a meddyliol a feithrinir gan y plentyn yn cryfhâu, yn dyfnhâu, ac yn foddion i effeithio ar y dyn rhagllaw. Wel, yr un modd y gellir dywedyd am ddyn yn ei gysylltiad â phethau y byd hwn. Ynddynt eu hunain, y maent yn hollol ddi-

bwys—nid yw bod yn dlawd neu gyfoethog yma un mymryn mwy o bwys nag ydoedd i ni feddu mwy neu lai o deganau pan yn blant. Dichon mai yr unig wahaniaeth sydd rhyngom yn awr a phan oeddem yn blant, yw ein bod wedi newid ein teganau; ac y mae y swm, y dwdwr, a'r ymgyrfa barhâus y mae dyn ynddo gyda'i deganau yn rhwym o ymddangos i fodau uwch na ni yn dra phlentynnaidd; y bodau hyny, y rhai yn ol Pope,

“Will shew a Newton, as we shew an ape.”

Ond eto pan edrychom ar y pethau hyn yn eu cysylltiad â phethau uwch eu natur, pan gofion fod yr oll a wnelom yma yn ein cymhwysu neu yn ein hanghymhwysu i ddedwyddwch mewn bywyd ar ol hwn, y mae y dull yr ymddygom tuag atynt yn chwyddo i bwysigrwydd annhraethol. Y mae pwys yn yr amgylchiad distadlaf a'n cyfarfyddo, yn gymaint a'i fod yn dylanwadu ar ysbryd anfarwol. Yn y wedd hon y mae ein bywyd yn y byd hwn yn beth difrifol iawn; a thra chymhwys y canodd Tennyson,

“Life is real! life is earnest!
And the grave is not its goal;
'Dust thou art—to dust returnest,'
Was not spoken of the soul.”

A gawn ni gan hyny argraffu y syniad hwn ar feddyliau ein dosbarthiadau gweithiol? Y mae bywyd yn beth difrifol; byddwn ninnau o ddifrif. Y fath wrhydri y gall y dyn difrifol ei gyflawni! Edrycher ar y deuddeg apostol yn llenwi agos yr holl fyd adnabyddus â'r efengyl. Pa fodd? Yr oeddent o ddifrif. Dyma ddirgelwch nerth pob diwygiwr mewn gwlad ac eglwys. Os bydd un dyn o ddifrif yn ceisio dwyn rhyw gysnewidiad er gwell i'r byd, y mae yn siŵr o lwyddo i'r graddau y gall argraffu ei ddifrifoldeb ar feddyliau eraill.

Y fath gymeriad tra rhagorol ydoedd y Dr. Arnold o Rugby yn yr ystyr yma—dyn ag oedd yn cynnyrchu effaith anhygoel ar y gwŷr ieuainc oeddent o dan ei ofal. “Yr oedd ei afael ar ei ddysgyblion (medd hanes ei fywyd) yn syndod i bawb, ac nid rhyw barch mawr i'w ddysg a'i athrylith yn gymaint oedd yn ei achosi, ond dylanwad dystaw ysbryd ag oedd o ddifrif yn gweithio yn y byd, a'r gwaith hwnw yn iachus, cyson, a difwlch, ac yn cael ei ddwyn ymlaen yn ofn Duw: gwaith yn seiliedig ar deimlad dwfn o ddyledswydd, a hyny ynglŷn â'r fath wir ostyngeddwrwydd a symledd diymhongar, fel nas gallai eraill lai na chael eu cynhyrfu gan yr un teimladau, a chan grediniaeth y gallent hwythau hefyd fyned a gwneuthur yr un modd.” Na thybier mai mewn cylch eang yn unig y gall dyn difrifol fod yn ddefnyddiol. Bydd y gweithiwr cyffredin, os o ddifrif, yn rhwym o dylanwadu ar ei gydweithwyr, ac ar ei deulu, ac ar ei gydnabod—yfir ei ysbryd gan liaws, ac nis gall neb ond Duw ei hunan ddywedyd pa mor bell y bydd dylanwad y cyfryw yn cyrhaedd.

Yn awr, dyma yr ysbryd sydd yn anghenrheidiol ei gael er chwilio am wybodaeth. Ac ond i ni gael ein llwyr feddiannu gan yr ysbryd hwn, nid oes un ammhenaeth na fyddwn yn cloddio yn ddyfal a pharhâus am wybodaeth, ac y bydd y wybodaeth hono yn cael ei defnyddio i ddybenion teilwng.

Mae'n bryd i ni yn awr ddyfod at rai pethau mwy ymarferol. Tybiem nad oes anghenrheidrwydd am i ni ddyweyd wrth ein gweithwyr cyffredin, fod yn rhaid iddynt ymgadw yn llwyr oddiwrth bob cwmni ofer ac arferion

llygredig, oblegid y mae yn ddiammheu nad oes neb sydd yn euog o'r cyfryw bethau yn debyg o dreulio llawer o amser i ddarllen traethawd i chwilio am gyfarwyddiadau i gasglu gwybodaeth. Y mae y cyfryw arferion yn hollol anghydnaws âg awydd am wybodaeth. Rhaid rhoddi heibio fynychu tafarndai, dilyn cymdeithion llygredig, a threulio oriau hamddenol mewn oferedd a segurddod, neu ynte ymfoddloni ar fod yn ddyn gwag, ysgafn, ac anwybodus.

Ond y mae rhai pethau, er hyny, sydd yn cael eu hystyried yn gyfreithlawn, ac yn ddyledswyddau mewn amgylchiadau neillduol, eithr y mae yn rhaid i'r gweithiwr cyffredin ymwadu â hwynt, os yw yn penderfynu cloddio am wybodaeth.

Yn un peth, rhaid iddo ochelyd yr ysbryd anesmwyth hwnw sydd yn peri nas gall deimlo yn gysurus yn ei dŷ ei hun gartref, wedi iddo gadw noswyl. Y mae llawer o Gymry, yn enwedig mewn trefi fel Liverpool a Manchester, i'w cael sydd yn arfer, wedi cadw noswyl, fyned allan i rodiana yn ofer. Dyna eu harferiad bob nos—nis gallant deimlo yn gysurus yn y tŷ—y maent fel pysgodyn ar dir sych, yn ymwingo yn enbyd nes cael myned i ganol berw tônog y byd. Dichon nad yw y dyn ddim yn hollol ddiawydd am ddarllen—dichon yr ymeifl mewn llyfr wedi dychwelyd i'r tŷ tua naw o'r gloch, ac y bydd yn gresynu na fuasai ganddo fwy o amser gydag ef; ac y mae, ond odid, yn penderfynu aros wrth y llyfr y noswaith ganlynol, o'r pryd noswyllo hyd amser gorphwys. Ond pan ddaw y noson hono drachefn, y mae ei hen arferiad yn ei drechu—allan y mae yn myned, gan dreulio dwy awr neu dair yn hollol ofer, os nad yn waeth nag ofer.

Yn awr, os ydys yn bwriadu chwilio am wybodaeth, rhaid meithrin arferiad o aros gartref. Ar ol gorphen gwaith y dydd yn unig y gall y gweithiwr gael amser i amaethu ei feddwl, ac os na ddefnyddia yr amser hwnw o ddirif, fe gyll ei gysfeusdra. Os na fydd y gweithiwr cyffredin yn hoff o'i aelwyd ei hun gartref, ni lwydda byth i gyrhaedd gwybodaeth.

Heblaw hyny, y mae yn rhaid i'r dyn benderfynu aberthu lliaws o gyfarfodydd wythnosol, os ydyw am lafurio am wybodaeth. Gwyddom ein bod yn awr yn sangu ar dir tyner, ond yr ydym mor argyhoeddiadol o'r anghenrheidrwydd am y sylw fel nas gallwn lai na'i wneyd. Cofier nad oes gan y gweithiwr ar y goreu ond dwy awr neu dair yn y dydd, neu yn hytrach yn y nos, i gasglu gwybodaeth. Wel, y mae rhyw gyfarfod iddo fyned iddo bob nos, yn enwedig os yw yn byw mewn tref. A'r canlyniad yw, nas gall y dyn amaethu ei feddwl yn briodol ac o ddirif, a threulio hefyd ei nosweithiau mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Dylai dyn yn ddiau fynychu cyfarfodydd crefyddol yn yr wythnos, hyd y gall wneyd hyny, heb droseddu dyledswyddau eraill. Ond yr ydym yn honi fod y dyn hwnw a edy ei dŷ bob nos i fyned i gyfarfodydd—ie i gyfarfodydd crefyddol—yn rhwym o esgeuluso rhai o'i brif ddyledswyddau tuag at ei deulu a thuo ato ei hun. Caiff ei feddwl yn myned yn anniwylliedig, ac yntau yn myned yn llai cymhwys i dderbyn argraffiadau crefyddol, ac felly yn debyg o wneyd ei hunan yn gwbl anghymhwys i fod yn ddefnyddiol yn y byd.

Rhaid i ddyn gan hyny wneyd yn fater cydwybod i benderfynu pa rai o'r lliaws cyfarfodydd sydd i'w cael, y dylai efe eu mynychu. Meiddiwn yma ddywedyd mai nid y "darlithiau" a'r "cyngherddau" sydd bob amser yn oreu i'w mynychu. Y mae y rhai hyn yn rhy fynych yn gogleis y dymher—yn peri i'r dyn deimlo yn hyfryd, ac hwyrach yn sio ei feddwl i gysgu,

ond anaml yn ei ddeffro ac yn ei lesáu. Ond odid mai cyfarfodydd bychain, lle y mae meddwl a meddwl yn dyfod i gyffyrddiad agos iawn â'u gilydd—yn taro weithiau yn sydyn y naill ar y llall—yn peri fod y tân yn fflachio, a'r meddwl yn goddeithio, a'r dyn yn derbyn ennyniad ysbrydol a effeithia arno tra byddo byw—ond odid, meddwn, mai cyfarfodydd fel hyn y dylai y dyn fynychu amlaf er èangu a llesoli ei feddwl.

Un gocheliad arall a roddwn, a hwnw yw;—Na thybied neb fod amaethiad y meddwl a chynnulliad gwybodaeth yn beth hawdd. "There is no royal road to learning." Nid prif-fyrdd y brenin yw llwybrau gwybodaeth, ond llwybrau culion, geirwon, a serth, yn fynych. Rhaid *cloddio* am wybodaeth. Mae llawer o bethau ysgeifn yn ehedeg i fyny yn rhwydd a naturiol, ond nid oes gloddio heb lafur. Y mae gwirionedd yn gorwedd yn ddwfn; nid ar y wyneb ei ceir. Ac os nad yw y dyn yn foddolawn i gymeryd y drafferth i gloddio yn llafurus, nid oes modd i hwnw ddyfod o hŷd i'r trysorau gwerthfawr sydd yn gorwedd yn ddwfn yn nghrombil pethau. Fe ellir cael pob peth ymron ond talu ei bris am dano. Mae gán wybodaeth hithau ei phris, ac yn wir y mae yn ddrud iawn. "Gwerthfawrocach yw hi na gemau." Nis gellir ei phrynu ág arian, nid etifeddir hi fel tresdadaeth; rhaid i bob un drosto ei hun ymroddi i lafurio yn galed, os ydyw am gael gwybodaeth. Ac y mae hi yn werth y llafur hwn yn ddiau, oblegid "nid oes dim dymunol cyffelyb iddi hi." Gresyn nad ellid darbyllo dynion yn gyffredinol o wirionedd hyn. Mynych y gwelir pobl yn treulio ac yn ymdreulio i gasglu cyfoeth, gan aberthu eu cysuron a'u defnyddioldeb amserol er mwyn ei gael; ond cân lleied sydd yn rhoddi yr un diwydrwydd ar waith i amaethu eu meddyliau! Cofier, os ydys am gasglu gwybodaeth, y rhaid gochelyd segurddod a diymadferthwch, a chwilio am dani fel am drysorau cuddiedig, a'i cheisio fel aur coeth.

Bellach ni a roddwn rai cyfarwyddiadau mwy uniongyrchol i'r gweithiwr cyffredin gasglu gwybodaeth.

1. Penderfyned ddysgu cangen neillduol o wybodaeth, a gwneled bob ymchwiliad yn ddarostyngedig i hyny. Y mae llawer o flynyddoedd bellach er pan ddarllenasom yr hen lyfryn bychan ond adeiladol hwnw, "*Watts on the Mind*;" ac os ydym yn cofio yn dda, un o'r brawddegau cyntaf ynddo yw, nas gellir dysgwyl i ddyn ddysgu pobpeth. Y mae Sidney Smith yn un o'i ysgrifeniadau yn sylwi ar y mater hwn yn y geiriau canlynol:—

"Y mae math o goegfalchedd yn bod y dylid bod yn bur wyliadwrus rhagidd,—sef y coegfalchedd o *gyffredinolrwydd*, o wybod pob egwyddor, a rhagori ymhob celfyddyd,—fferylliaeth, mesuriaeth, alsawdd, hanesyddiaeth, rhesymeg, dawnio, marchogaeth, Germanaeg, athroniaeth naturiol, a digon o Ysopaeneg i siarad am Lopez de Vega; mewn gair, y cynghor cyffredin, mewn addysgiant y dyddiau hyn yw, 'Cymerwch yr *admirable Crichton* yn esiampl,—peidiwch â bod yn anhyddyg mewn dim.' Yn awr fy nghyngor i yw, byddwch yn ddigon *gerol* i fod yn anwybodus am liaws mawr o bethau, rhag i chwi gyfarfod â'r trychineb o fod yn anwybodus o bob peth."

Y mae yn bur hawdd cyrhaedd gwybodaeth arwynebol am bethau; nid oes eisieu ond ychydig o lafur i hyny; ond y mae deall un gangen o wybodaeth yn drwyadl yn gofyn llafur mawr. Gellir rhedeg fel y wenol, yn frysio dros wyneb meusydd gwybodaeth, a meddu syniad cyffredinol am ei natur, ond ni ddeuir o hŷd i'r trysorau sydd yn y meusydd hyny heb *gloddio* yn ddwfn, a hyny yn barhaus. Fel y sylwyd, y mae gwir wybod-

aeth yn gorwedd yn ddwfn, ac os cloddir yn ddwfn mewn *un* maes, nis gellir hebgor amser na moddion i gloddio yn ddwfn mewn llawer o feusydd. Y mae felly yn neillduol gyda'r gweithiwr cyffredin nad oes ganddo ond ychydig o oriau yn yr wythnos i'w cyflwyno i'r dyben o gasglu gwybodaeth. Dymunem gan hyn wasgu arno ef y pwys anhebgorol iddo ddewis rhyw gangen arbenig o wybodaeth, a gwneyd hono yn destun neillduol ei ymchwiliad, hyd nes ei meistrol. Wrth ddyweyd hyn, nid ydym yn golygu i'r dyn fod yn esgeulus hollol o bob cangen arall o wybodaeth ond yr un y mae efe wedi ei gwneyd yn destyn ei ymchwiliad. Yn wir, os chwilia i un gangen yn iawn, y mae yn rhwym o feddu rhyw gymaint o wybodaeth am liaws o gangenau, oblegid y mae yr holl gangenau i ryw fesur yn gysylltiedig â'u gilydd. Ein meddwl yw, y dylai y dyn feddu rhyw hoff fater, rhyw hoff bwnc o ymchwiliad, ac y dylai pob peth a ddarlleno, a glywo, neu a feddylio, feddu rhyw gymaint o gysylltiad â'r pwnc neu'r testyn hwnw. Fel y mae nwyddau a phobl yn cael eu cludo ar hyd y rheilffyrdd o bob man i'r trefydd mawrion, ac yn enwedig i'r brifddinas, felly y dylem ninnau wneyd pob ymchwiliad o'n heiddo yn ddarostyngedig i briif destyn ein hefrydiad.

Y mae Syr James Stephen yn gwneyd sylw mor briodol ar y mater hwn yn ei ddarlith ar "*Systematic and Desultory Reading*," fel nas gallwn ymattal rhag ei gyfieue yn y lle hwn:—

"Gosodwch o flaen unrhyw fachgen deallus glôb Seisnig, Ffrengig, neu Americanidd, o'r blaned yr ydym ni yn byw arni. Fe ofyna i chwi sut y mae fod y llinellau ar y tair glôb, y rhai sydd yn rhedeg yn gyfochrog â'r cyhydedd, yn myned dros yr un manau yn gymhwys, tra y mae y llinellau sydd yn rhedeg o begwn i begwn yn myned dros fanau gwahanol yn y tair glôb. Chwi a hysbyswch iddo, mai y rheswm yw, am fod Lloegr, Ffrainc, a'r Unol Daleithiau, wedi gosod eu Harsyllfeydd Cenedlaethol yn neu yn agos i'w prif ddinasoedd. Chwi a ddywedwch wrtho hefyd, fod pob un o'r cenedloedd hyn wedi tynu ei nawngylch (*meridian line*) ei hun yn y pwynt y mae wedi dewis i ddarsyllu, ac yr ydych yn ei hysbysu, pan y mae daearyddwr perthynol i unrhyw genedl yn edrych ar ei glôb, ei fod yn gweled sefyllfa pob yspotyn ar wyneb y ddaear gyda chyfeiriad at Greenwich, Paris, neu Washington. Nid yw ei arsyllfa ei hun byth allan o'i feddwl, i ba bellder bynag y dichon ei lygad fod wedi crwydro oddiwrthi. Ei nawngylch ei hun sydd o hyd yn sylfaen ei fesuriadau, pa mor bell bynag y dichon iddynt fod o'i brifddinas. Y mae ei *fap* ef o'r byd ymhob rhan o hono, iddo ef yn fath o *fap* cenedlaethol. Gallwn gymeryd yr un wers i ni ein hunain ag y byddwn yn ei rhoddi i'n plant. Cymerwn *fap* o wybodaeth ddynol. Gosodwn ein harsyllfa feddyliol ar unrhyw yspotyn sydd fwyaf cyfneus i ni ein hunain. Yno bydded i ni dynu ein nawngylch. Pa fanau bynag ar y *map* hwnw y bydd raid i ni edrych arnynt neu ymweled â hwynt, bydded y nawngylch hwnw yn linell i ba un y cyfeiriwn hwynt, ac wrth ba un y byddom yn eu mesur. Bydd eich *map* o wybodaeth ddynol, ar ol hyn yn meddu, i chwi, ryw gymaint o undeb a chysondeb, er mor liosog ac amrywiol fydd y parthau cynnwysedig ynddi."

Tybiwn nad oes neb sydd wedi treulio ond ychydig o flynyddoedd yn y byd hwn, ag sydd wedi ymrwbio ychydig â llênnyddiaeth, na phrofodd y niwed mawr sydd mewn ymwibio o fater i fater, o un gangen o wybodaeth i'r llall, a heb aros nemawr gydag un o honynt. Er cymaint y mae y gweithiwr yn ei gwyno o herwydd diffyg amser i lafurio am ddysg, nid ydym yn petruso dyweyd, pe buasai wedi treulio yr amser, a defnyddio y cyfleusderau a golodd i ymwibio dros wyneb pethau, i drin yn deilwng ryw un darn arbenig o faes gwybodaeth, y buasai erbyn heddyw yn medi o'r ffwrth ei lafur.

Y mae amllder y llyfrau sydd yn dyfod o'r wasg y dyddiau hyn, ac yn

neillduol y newyddiaduron a'r cyfnodolion, yn demtasiwn fawr iawn i un wasgaru ei nerth yn ddiamcan. Y mae newyddiadur rhadlawn yn dyfod i'n llaw bob dydd, a rhyw nifer o gyhoeddiadau bob mis os nad bob wythnos, ac y mae dyn fel yn teimlo o dan anghenrheidrwydd i ddarllen y cyhoeddiadau a brynir ganddo, ac felly y mae ei feddwl yn ehedeg dros liaws o faterion hollol wahanol; ac er darllen fel hyn yn barhâus, nid yw yn y diwedd yn gwybod nemawr ddim. Camgymeriad mawr ydyw tybied y cyrhaeddir gwybodaeth yn unig trwy ddarllen llyfrau, a hynny, hwyrach, heb un rheol na threfn. Y mae llawer o'n gweithwyr darllengar yn y trefi, ond odid, yn cael llyfrau o ryw lyfrgell neu gilydd. Gwyddom am rai sydd yn cael llyfrau y naill wythnos ar ol y llall ar bob math o bwnc ymron, ac yn aml iawn yn darllen pob un o honynt yn awchus, ond nad ydynt yn y diwedd yn meddu gwybodaeth gywir am agos ddim. Un diwrnod y maent yn cloddio yn ddwfn i grombil y ddaear gyda'r daearegwr; y diwrnod nesaf y maent yn ceisio dilyn cwrs y planedau yn eu cylchdroadau gyda'r seryddwr. Heddyw y maent yn prysur ddarllen hanes eu gwlad, gan deimlo dyddordeb mawr yn helyntion cynhyrfus Cromwell; yfory y maent yn feirdd uchel, yn prysur astudio Milton, Wordsworth, Eben Fardd, neu Gwilym Hiraethog. Yr wythnos hon y maent yn darllen llyfrau celfyddydol; yr wythnos nesaf y maent dros eu penau mewn ymchwiliadau arddansoddol. Yn awr, y maent yn brysur gydag egluriadaeth a beirniadaeth Ysgrhythrol, y canon, gwahanol ddarlleniadau, henafiaethau Aiphtaid a Ninifeaid, a'r cyffelyb; bryd arall, y maent yn astudio Grammadeg Cymraeg, Saesoneg, neu hwyrach Germanaeg neu Roeg. Fel hyn y maent yn hofran o fater i fater y naill wythnos ar ol y llall, yn darllen pob lyfr a ddaw ar eu traws, ac felly yn meddu ond gwybodaeth hannerog ar bethau, ac yn gwanychu eu meddyliau, ac yn eu gwneyd yn analluog i ymgegniadau gorchestol gydag unrhyw bwnc yn neillduol. Y mae meddu lyfrgell helaeth yn fantais annhraethol, y mae yn ddiammheu, a gwyn fydd na welid ychwaneg o lyfrau yn addurno tŷ pob gweithiwr cyffredin; ond nid eu darllen o'u cwr fel y dygwyddo iddynt fod yn gorwedd ar y sillf yw y llwybr tebycaf i wneyd dyn yn gyfarwydd â'u cynnwysiad. Yn hytrach, dylid penderfynu cymeryd rhyw un pwnc neillduol yn destyn ymchwiliad, a defnyddio y llyfrau yn gynnorthwyon i hynny.

Nid ydym am anturio dyweyd wrth ein cyfaill gweithgar beth ddylai fod yn brif destyn ei efrydiaeth—y mae tueddiadau, talentau, ac amgylchiadau dynion yn amrywio cymaint fel nas gallwn wneyd hynny; ond yr hyn y dymunem ei wasgu ar y dosbeirth gweithiol yw yr anghenrheidrwydd o gadw yn llwyr ymron at ryw un testyn nes ei lwyr ddeall. Na feddylid neb mai *man of one idea* fydd y cyfryw un. I'r gwrthwyneb, y mae y dyn hwnw yn fwy tebyg o feddu gwybodaeth drwyadl am bethau na'r dyn arall sydd yn hofran ar draws ac ar hŷd uwchben maes gwybodaeth. Os bydd y dyn, er enghraifft, yn hoff o seryddiaeth—ac o bob gwybodaeth ddynol, dichon mai hon yw yr ardderchocaf—y mae yn rhwym, os bydd yn penderfynu ymgydnabyddu yn drwyadl â'r wyddor ogoneddus hon, o chwilio yn lled fanwl i liaws mawr o gangenau o wybodaeth—daw rhyfyddiaeth, daearyddiaeth, hanesiaeth, a nifer helaeth o "aethau" eraill yn destynau ei ymchwiliad; ac ond iddo efrynu y rhai hyn yn eu cysylltiad â'i hoff bwnc, ac i'r dyben o gael cymaint o oleuni ag sydd modd ar y pwnc hwnw, y mae yn dra thebyg o'u hefrynu i bwrpas. Pe gwnelai y dyn, drachefn, y Bibl

yn brif bwnc ymchwiliad ei oes, ac yn ddiau, dyma y testyn mwyaf teilwng o efrydiad pob dyn,—buan y canfyddai nad oes un gangen o wybodaeth ddynol nad allai ei astudio i fuddioldeb er hyrwyddo ei efrydiaeth Fïblaidd. Pa lyfr bynag a gymerai mewn llaw, byddai yn ei ddarllen yn ei gysylltiad â'r Bibl, ac er mwyn cael rhyw gymaint o oleuni ar y Llyfr digyffelyb hwnw. Fel hyn, byddai amcan ganddo yn ei holl ymchwiliadau; ac nid yn unig ychwanegid ei ddyddordeb ymhob cangen o wybodaeth, ond byddai yn debyg o'u chwilio yn fwy trylwyr, a pheri iddynt wasanaethu amcan penodol a theilwng.

2. Wedi gwneyd penderfyniad i lafurio mewn rhyw fan neillduol yn maes gwybodaeth, neu, mewn geiriau eraill, i gymeryd rhyw gangen arbenig o wybodaeth yn destyn efrydiaeth, dylai dyn fynu y llyfrau goreu sydd wedi eu hysgrifenu ar y gangen hono. Yr ydym yn gwybod y dywedir fod llyfrau da yn ddrudion, a bod yn anhawdd i'r gweithiwr cyffredin eu cyrhaedd. Mae hyn yn wir; ond dylid cofio er hyn nad oes dim o werth i'w gael yn y byd hwn heb ei fod yn anhawdd. Ond nid oes anghen prynu llawer o llyfrau; y mae ychydig o rai da, wedi eu hefrydu yn drwyadl, yn fil gwell na llawer o lyfrau wedi eu darllen yn arwynebol. Ond os bydd yn anhawdd i'r gweithiwr brynu llyfrau da a chostus, y mae yn bur hawdd iddo yn y trefydd mawrion eu benthyca yn rhad, a'u cadw am amser lledfaith, yr hyn sydd fraint y dylai dynion ieuainc yr oes hon ei phrisio yn fawr.

Ond hwyrach y goddefir i ni wneyd un neu ddau o sylwadau bychain ymarferol mewn cysylltiad â darllen llyfrau.

(1.) Gocheler darllen llyfr yn frysiog ac arwynebol, gan addaw ei ddarllen yn fwy manwl amser a ddaw, canys hwyrach na "ddaw" yr "amser" hwnw byth. Os bydd y llyfr yn *standard work*, yn llyfr sydd wedi ennill iddo ei hun enw fel safon ar y pwnc y traetha arno, ac os ydyw yr efrydydd yn penderfynu deall y pwnc hwnw, dylai eistedd i lawr yn bwylllog i ddarllen y llyfr, gan benderfynu gwneyd ei gynnwysiad yn eiddo iddo ef ei hun—mynu ei ddeall hyd yn nôd os bydd yn rhaid darllen yr un frawddeg drosodd a throsoedd drachefn ddwsin o weithiau—ie, os methir ei ddeall un diwrnod, dylai ail ymafydd yn y llyfr drachefn ddiwrnod arall, a chadw y mater â'r llyfr yn y meddwl, hyd y goddefo amgylchiadau, nes llwyr ennill yr oruchafiaeth. Y mae Coleridge yn sôn am bedwar math o ddarllenwyr,—

"Y mae y cyntaf (meddai) fel yr awrwydr; y mae eu darllenadaeth, fel y tywod, yn rhedeg i mewn ac yn rhedeg allan, ac heb adael dim ar ol. Yr ail fath sydd fel yr ysbwng, yn cymeryd poppeth i fyny, ond yn ei ddychwelyd yn ol drachefn fel y mae yn ei gael, neu hwyrach yn fudrach. Y mae y trydydd fel y *jelly-bag* yn gadael i'r pur fyned allan, ond yn cadw y sothach a'r gwehilion; ac y mae y pedwerydd fel y caethion yn mawngloddiau Golconda yn bwrw heibio bob peth sydd yn ddiwerth, ac yn cadw y gëmau. Edrychwch ati eich bod yn perthyn i'r dosbarth olaf, yn casglu trysorau o bob llyfra ddarllenoch. I'r dyben hwn, peidiwch a darllen heb fod genych nôd a chyfeiriad. Mae y byd yn llawn o lyfrau, ac ni fyddai oes gyfan yn ddiog i'w darllen oll, pe byddent yn rhai da, yr hyn nad ydynt. Detholwch eich llyfrau gan hyn, a byddwch yn wyladwrs yn gwneyd y detholiad. Os yw yn bosibl, na chyffyrddwch âg un gyfrol anhheilwng a diles. Byddwch mor wyladwrs mewn perthynas i'r llyfrau a ddarllenoch, âg o'r cwmni a gadwoch; oblegid bydd eich arferion a'ch nodweddiad yn cael eu dylanwadu yn gymaint gan y blaenaf & chan yr olaf. Edrychwch gan hyn ar fod y naill a'r llall yn dda."

(2.) Nid anfuddiol ychwaith yw sylwi mai manteisiol iawn bob amser,

pan fyddys yn darllen llyfr da, yw mynu taclau ysgrifenu ar y bwrdd, fel y gellir croniclo pob meddwl a ymgyfyd wrth ddarllen, pa un bynag ai cwestiwn dyrus, neu wrthwynebiad, neu eglurhād ychwanegol; ac felly, dal math o gymdeithas āg awdwr y llyfr. Trwy hyny fe deimlir dyddordeb ychwanegol yn y testyn y traethir arno, a gwneir mwy o wir gynnydd mewn gwybodaeth o hono. "*Writing makes a correct man,*" medd Bacon; ac un moddion neillduol i drysori cynnwysiad llyfr da yn y meddwl, yw ysgrifent y meddyldrychau sydd yn gynnwysedig ynddo yn ein geiriau ein hunain, a gwneyd math o dalfvriad o'r llyfr. Mae yn wir y bydd amser lled faith yn cael ei dreulio i fyned dros lyfr yn y dull hwn; ond yr ydym yn cymeryd yn ganiataol fod y llyfr yn un o'r rhai goreu ar y testyn; ac felly, os deallir y llyfr yn drwyadl, bydd y darlennydd yn meddu gwybodaeth gyflawn o'r mater yr ymdrinir āg ef.

(3.) Y mae yn anghenrheidiol wrth ddarllen llyfrau, ochelyd tybied mai y llyfrau hyny yw y rhai goreu, sydd yn meddwl pob peth drosom ni, ac yn gadael ein meddwl ni ein hunain yn oddefol megys, heb wneyd dim ond derbyn y syniadau y mae yr awdwr yn eu cyfleu. Y llyfrau goreu bob amser yw y rhai *suggestive*, y rhai sydd yn ein gosod ni ein hunain i feddwl. A rhaid ymdrechu cadw y meddwl i weithredu yn annibynol uwch ben pob llyfr. Os bydd raid i'r darlennydd godi ei lygaid oddiar y tu dalen a'u cyfeirio i rywle tua nen y tŷ ar ol pob brawddeg, ac yna yn frysiog yn ymasfyd yn yr ysgrifell er mwyn trosglwyddo rhyw feddyldrych o'i eiddo ei hun ar y papyr, y mae yn bur debyg y bydd efe ar ei ennill trwy y cyfryw ddarlleniad.

(4.) Y mae o bwys mawr i ddyn pan yn darllen llyfr, feddu dylanwad trwyadl ar ei feddwl ei hun. Os nad all gadw ei sylw yn ddyfal uwchben un pwnc neillduol am yspaid maith o amser, os nad ydyw wedi dysgu yr hunanlywodraethiad hwnw y crybwyllasom am dano yn nechreu ein hysgrif, ofer iddo ddysgwyl rhagori. Y mae Dr. Olinthus Gregory yn dyweyd y gall dyn ddysgu unrhyw beth ond meddu y llywodraeth hwn ar ei efrydiaeth. "*Gydag ychydig iawn o eithriadau,*" medd efe, "*gall unrhyw un ddysgu y peth a fyno ond iddo osod ei fryd ar hyny. Er mwyn ennill llwyddiant, nid rhaid iddo ond dysgyblu ei feddwl fel ag i ffrwyno ei wibiadau, a'i feddyginiaethu oddiwrth ei duedd barhāus o geisio gwneyd dau neu ychwaneg o bethau ar yr un waith, a'i orfodi i droi ei holl egniadau ar un gwrthddrych, ac felly gwneyd un peth ar unwaith. Yr wyf yn ystyried hyn yn un o'r pethau anhawsaf, ac eto yn un o'r pethau mwyaf anghenrheidiol, i ddyn ieuanc ei ddysgu.*"

3. Ond nid darllen yn unig sydd yn anghenrheidiol er cynnyddu mewn gwybodaeth. Y mae lliaws o foddion eraill y rhai y bydd y dyn gwir awyddus i gasglu gwybodaeth yn sicr o'u canfod; ond nid enwn ni yn awr ond dau, gan eu bod i'n tyb ni, y rhai mwyaf pwysig, sef bod yn sylwgar a meddylgar.

Y mae ambell i ddyn nad yw erioed wedi arfer defnyddio ei lygaid i bwrpas, ac i'r cyfryw y mae un o foddion penaf gwybodaeth yn guddiedig. Y mae llyfr mawr y grādigaeth yn agored o flaen pob dyn, ac ond iddo agor ei lygaid gall ddarllen lliaws o bethau rhyfedd a thra buddiol eu gwybod. Y mae Duw yn gofyn i Job lliaws mawr o gwestiynau dyrus iawn, llawer o ba rai yn awr a ellir i fesur eu hateb. Ac y mae Efe mewn natur yn gofyn cwestiynau mawrion eto i ddyn, ac yn dysgwyl iddo chwilio i mewn iddynt,

a cheisio eu hateb. Rhyfedd mor ddisylw y mae rhai dynion yn troedio y ddaear, tra y mae rhyfeddodau dirif o'u hamgylch. Yr ydym yn byw bob dydd yn nghianol *museum* y Goruchaf, lle mae wedi ystorio pethau gorphynod yn afrifed o'n cwmpas, ac eto y mae llawer nad ydynt yn gwneyd cymaint ag agor eu llygaid i edrych arnynt. Edrycher ar y wybr ar noswaith glaer yn y gauaf, pan y mae y nefoedd yn ymwisgo yn ei dillad prydferthaf: y mae y ser yn pelydru yn ddysglaer yn y ffurfafen—y Lleuad yn edefyn main hannercrwn yn isel yn y gorllewin—Gwener yn tanbeidio yn ei hymyl, s Iau neu Sadwrn yn ymddysgleirio yn ogoneddus tua'r dwyrain—y maent oll fel yn gwenu yn siriol ar ddyn ar y llawr, gan ddysgwyl iddo godi ei olygon tuag atynt a'u hedmygu, a rhyfeddu eu Lluniwr mawr. Ond y mae llawer dyn mor ddichwaeth at y prydferth a'r mawreddog, ac mor amharod i sylwi, fel y mae yn cadw ei olygon tua'r llawr fel twrch daear, heb unwaith gymaint a chodi ei lygad fry i edrych ar ryfeddodau yr Holl-ddoeth. Y maent hwy oll yn ymsymud yn ddystaw, ac i'r hwn sydd yn clustfeinio y maent yn canu peroriaeth swynol. Y mae peirianwaith mawr y nef yn gweithio yn ddiifêth ac yn ardderchog, yn nwyllaw eu Crêwr mawr, a'r dyn yr hwn a ddylai fendigo Duw yn yr olwg arnynt, heb fod yn ddigon sylwgar i ganfod cymaint ag ysgogiadau yr olwynion, chwaethach deall y peiriant! Yr un modd y mae gyda'r gwrthddrychau aneirif sydd yn gorwedd ar wyneb y ddaear—gweithredoedd mawrion, prydferth, a thra gogoneddus y Crêwr, ar wyneb ac yn nghreigiau a haenau lliosog y ddaear—y maent oll yn llawn o addysg, ac yn barod i gyfranu gwybodaeth a thraethu cyfrinach werthfawr i ddyn, ond iddo edrych arnynt a thynu cydnabyddiaeth â hwynt. Os yw dyn am gasglu gwybodaeth, rhaid iddo ddysgu edrych—dysgu sylwi ar bob peth o'i ddeutu—gofyn cwestiynau i'r gwrthddrychau aneirif mewn natur a chelfyddyd sydd yn ei amgylchynu; ac ond iddo wneyd hyny, y mae yn dra thebygol o gael atebion i liaws o'i gwestiynau, a chael ychwanegiad gwerthfawr at ystôr ei wybodaeth.

Y mae y gweithiwr cyffredin mewn mantais gwell nag y mae erioed wedi meddwl yn yr ystyr hwn. Mae yn wir nad oes ganddo ond ychydig o amser i ddarllen, ond y mae gwrthddrychau iddo sylwi a myfyrio arnynt o'i ffaen yn barhâus. Dyma fel y daeth yr enwog Hugh Miller yn un o ddaeargwyr penaf yr oes—trwy *sylwi* ar y cêryg y byddai yn gweithio arnynt; ac mae yr un cyfseuserau gan bob saer maen fel yntau. Y mae gan yr amaethwr a'r llafurwr gyfseuserau dirif i sylwi ar wrthddrychau sydd yn llwythog o wybodaeth fuddiol. Na feddylid neb, pa beth bynag fyddo ei sefyllfa, nad oes wrthddrychau teilwng iddo ef sylwi arnynt, o fewn ei gyrhaedd. Y mae yn anmhosibl bod mewn unrhyw le, ar unrhyw amser, nad oes liaws o bethau yn ymgynnyg i sylw dyn, y rhai ond iddo syllu arnynt, a gyfranant wersi buddiol iddo.

Ond y mae un peth arall heblaw darllen a sylwi, a defnyddio manteision israddol eraill, yr hwn y mae yn rhaid i'r dyn ei arfer cyn y casgla nemawr o wybodaeth, a hyny yw, rhaid iddo ddysgu *meddwl*. Pa bryd y cawn ni ein dynion ieuainc, ein gweithwyr cyffredin, a dynion o bob sefyllfa, i ddysgu meddwl? Mor farwaidd yw meddyliau llawer o'n cynulleidfaoedd! Mor hawdd canfod wrth eu llygaid fod eu heneidiau erioed heb ddeffro o ddirif—y maent yn drymaidd, yn ddiifywyd, yn rhy ddiog hyd yn nôd i geisio deall gwirioneddau pwysig yr efengyl, os na fyddant y rhai mwyaf syml a chynefin. Os ydyw dyn am gynyddu mewn gwybodaeth,

rhaid iddo ddeffro i fyfyrto ar yr hyn a wel ac a ddarlleno, rhaid iddo allu sefyll am amser maith yn ddigyfrwng uwchben mater penodol, eistedd arno nes bydd y mater yn deor ar wybodaeth fyw at ei wasanaeth. Nid ymsymud yn ysgafn uwchben pwnc, ond treiddio i mewn i'w grombil, cloddio i'w ddyfuderoedd, a mynu gafael yn y trysorau gwerthfawr sydd yn guddiedig yn y gwaelodion. Ond iddo wneyd hyn y mae, dan fendith Duw, yn sicr o lwyddo.

Wrth derfynu, goddefer i ni adgofio i'n cyfaill gweithiol fel y mae yn rhaid iddo lafurio yn gorfforol cyn y gallo ennill bywioliaeth, felly fod yn rhaid iddo lafurio yn feddyliol yn ddibaid ac yn galed cyn y gall gyrhaedd gwybodaeth. Ond cofied mai llafur yw hwn sydd yn tala yn dda. I'r graddau y llafuria i ddringo i ben pinacl uchaf gwybodaeth, i'r graddau hyn y caiff olwg ar brydferthion y meusydd sydd o'i flaen, ac i'r graddau hyn y teimla yn ddedwydd ei hunan, ac y gall fod yn ddefnyddiol i eraill yn y byd yma, ac y caiff ei gymhwyso i fwynhâu dedwyddwch mewn byd ar ol hwn. Y mae pob gwybodaeth yn ychwanegiad nerth ac yn ddyrchafiad arnom fel creaduriaid; ac os defnyddiwn ein gwybodaeth i ddybenion priodol, byddwn yn fendith i'n cydgrëaduriaid, ac yn ogoniant i'r Duw yr Hwn a'n gwnaeth.

CYFIEITHIADAU O'R SANSKRIT.

A WNAED AR YR AFON AR ORIAU HAMDDENOL, YN YSTOD TAITH GENADOL 1857—8

GAN Y PARCH. W. PRYSE, SYLHEF.

SYNWYRWERS Y VEDANTA, NEU Y VEDANTA SUTRA.

AWDWR y synwyrwersi hyn ydoedd Bādārāyan, cydoeswr â Veda Vyas. Gelwir hwy weithiau Brahma Sutra; bryd arall Sārīrika Sutra; ond yn fwyaf cyffredin Vedanta Sutra. Y synwyrwersi hyn ydynt 27ain mewn nifer. Eu dyben ydyw symud rhai gwrthddadleuon a rhwystrau, pa rai a gyfodir gan rai dysgedigion ynghylch yr athrawiaethau a ddysgir yn y pedair *Veda* am fôd a phriodoliaethau Duw. Gwrthddadleuon dysgyblion y *Nyaya* a'r *Sankhya* yn benaf a atebir ynddynt. Y maent, fel y dywed Mr. Colebrooke, "as dark as dark can be," gan hyn rhoddir yr *Aphorism* neu Sutra yn y Sanscrit gyda'r cyfieithiad, gan eu bod oll yn hynod o fry.

Sutra 1. Athāto Brahmajijñāsā.—*Cyfieithiad*, Awydd am adnabod Brahma.

Sutra 2. Janmādyaya yatah i—*Cyf.*, O ba le y mae genedigwch, &c., y rhai hyn oll!

Sutra 3. Shastrionitwat.—Oblegid mai efe ydyw cynachos yr Ysgrythrau.

Sutra 4. Tatta Samanvayāt.—Eithr yr Un Hwnw; gan fod cysondeb.

Adran 2il. Gwrthbrofir gwrthddadleuon y Sankhya (Buddhist)

"Gwrthddadleu.—A ydyw yr 'Un Hwnw' (synwyrwers 4) yn Fôd meddylgar, neu ddfeddwl?" "Dywed y Sankhya mewn perthynas i hyn: 'Achos y Crëad, nis gall fod yn Fôd digyfiro;' oblegid gwybodaeth yn gystal â gweithrediad a fyddai yn anmhosibl i'r fath Fôd. Eithr Natur ydyw Cynachos y Crëad, oblegid cynnwys hyn; (h. y., gallu i wybod a gweithredu). Pan ystyrir ei phurdeb cynhwynol, eu gallu i wybod a ganlyn o anghenheidrwydd; a thrwy rinwedd ei thair cynneddf, medda allu i weithredu. Eithr Brahma (fel ei desgrifir ef yn y Vedanta); nis gall weithredu; gan hynny, wrth yr 'Un Hwnw' yn yr Upanishad, y deallir Natur, yr hon sydd yn Hollwybodol a Hollalluog. Er gwrthbrofi y golygiad hwn o eiddo y Sankhya rhoddir y *Sutra* ganlynol:—"

Sutra 5. Ikshatarnâshabdâ.—*Cyfeithiad*, Nid felly; byddai yn anysgrhythrol oblegid y gwelid (Iksh).

Sutra 6. Gounashchenatmashabdât.—*Cyfeithiad*, Os haerir trofeg:—Na, oblegid y gair "Atma" (Enaid).

Sutra 7. Tannistasya Mokshopadeshât. Oddiwrth y gosodiad o Ryddhâd y neb a ddyfal fyfyrio "Hwnw."

Sutra 8. Heyatwâvachanâchoha. Oblegid nid awgrymir y dylid ei adael (h. y. yr "Un Hwnw," *Tat*).

Sutra 9. Swapyâyât. Gan mai iddo *Ef* y mae y dychweliad.

Sutra 10. Gatisâmâyât. Oddiwrth unrhywiaeth yr ystyr.

Sutra 11. Shrutatwâchoha. Ac oblegid mai felly y dadguddir *Ef*.

PENNODD II. ADRAN I.

Ynghylch yr enwau i ddymodi Duw a ddefnyddir yn y Veda.

Sutra 12. Ananda Mayo Yabhyasat. Efe a elwir yn gyffredin "Cyflawnder llawenydd."

Sutra 13. Vikârashabdanneti ohenna prâchuriât. Os gwedir hyn, o herwydd yr arwydda gyfnewidiolrwydd, disylfaen yr wrthddadl, oblegid arwydda y CYFANSWM.

Sutra 14. Tadwetuvyapadeshachha. Gan y gelwir *Ef* yr achos o hono (h. y., o lawenydd).

Sutra 15. Mântravarnikamevacha giyate. Yr emyn (Mantra) a genir, a arwydda yr un peth.

Sutra 16. Netaro Yanupapatteh. Nid yw yn arall, gan y byddai yn anghyson tybied felly.

Sutra 17. Bhedavayapadeshâchha. Llafarir am danynt fel yn wahanol (h. y. Enaid dyn a'r Hwn a elwir "Cyflawnder llawenydd.")

Sutra 18. Kâmâchha nanumânâpegya. Am yr wrthddadl oddiwrth y ffaith o chwennychiad; nid ydyw yn werth sylw.

Sutra 19. Asmiunasyacha tavyagam shasti. Dysg yr Ysgrhythyr ni fod dedwydd-wch y naill (h. y., yr enaid rhesymol, neu Natur), yn tarddu o'r llall (h. y., yr "Un Hwnw," yr Hwn a elwir "Cyflawnder llawenydd.")

Sutra 20. Antasta dwarmopadeshât. (Yr Hwn sydd) oddifewn; oblegid nodir ei nodweddau, (h. y., oddifewn i'r Haul; oddifewn i'r llygad, &c., fel y desgrifir *Ef* mewn amryw fanau yn y Veda a'r Upanishad.)

Sutra 21. Medavyapadeshâchânya. A chan y sonir am wahaniaethiad, (h. y., rhwng yr Enaid a'r "Un Hwnw.")

Sutra 22. Akâshastallingât. Yr awyr (Akas=ether), o herwydd ei nodweddau, (h. y. sydd yn un o enwau Duw; oblegid fod rhai o nodweddau yr awyr yn gyffelyb i'r eiddo yr "Un Hwnw.")

Sutra 23. Ata eva prâna iti. O herwydd yr un rheswm, "Anadl einioes," (sydd yn un o'i enwau).

Sutra 24. Jyotisharanâbhidhânât. Goleuni, oblegid sonir am draed (h. y., gelwir Duw yn Oleuni, oblegid sonir am draed, yr hyn ni pherthyn yn briodol i oleuni).

Sutra 25. Y synwyrwers hon sydd yn faith; dyma ei hystyr:—Os gwrthddadleuir y cyfeiria y gair "traed" at fesur barddonol y Gâytri, y gelwir y Gâytri yn oleuni, a'i mesur yn "draed:—Nid da yr wrthddadl; oblegid gorchymynir sefydlu y meddwl, (nid ar y Gâytri, ond ar Dduw drwyddi.) Yr hyn a orchymynir mewn amryw loeodd eraill yn yr Ysgrhythyrau.

Sutra 26. "Drachefn sonir am yr elfenau, &c. (bhutādi), fel y traed," h. y, Eglur yw mai at Dduw, ac nid y Gāytri, y cyfeirir yn y Veda, gan y sonir am yr elfenau, &c., fel ei draed; yr hyn ni pherthyn i'r Gāytri.

Sutra 27. "Os dywedir nad at Dduw y cyfeirir (o dan yr enwau uchod), oblegid am-rywia y ffurfeiriad, mewn gwahanol destynau. Nid da yr wrthddadl; oblegid nid oes anghysonedd (mewn cyfeirio at Dduw) yn yr oll o'r testynau hyn."

Sutra 28. Prānastathanugamāt. "Yr anadl einioes, (prān=bywyd), (a gyfeiria at Dduw), oblegid mai hyn ydyw y casgliad." Hyn yw: y casgliad eglur oddiwrth y cyd-destynau ydyw, mai Duw a ddeallir wrth yr enw *Prān* neu *Fywyd*.

Sutra 29. "Os gwrthddadleuir, oblegid y sonia y llefarwr am dano ei hun: nid felly, oblegid y mae mynych gyfeiriadau at yr Ysbryd Goruchaf." Hyn yw: os dywedir y sonia y llefarwr yn y testynau y cyfeirir atynt yn y Veda, am dano ei hun, ac nid am Dduw, gwrthbrofir yr wrthddadl gan y mynych gyfeiriadau at Dduw a gyfarfyddir yn y cyd-destynau.

Sutra 30. "Eithr yr hysbysiad a wneid mewn cyfeiriad at yr Ysgrythyr, megys (yn achos) Vāmādeva." Yr ystyr dybygid ydyw; yr hysbysiad a wneid gan Indra am dano ei hun fel yr *Ysbryd Goruchaf* yn y testyn o'r Veda, lle y dywed "A adnabuost ti fi, yr Ysbryd Goruchaf, &c." a wneid mewn cyfeiriad at eiriau yr Ysgrythyr lle y dywed y llefarwr; "Myfi fy hun ydwyf yr Enaid Goruchaf." (Ahamēva Param Brahmonī, mewn cyffelyb fodd ag y dywed Vāmādeva am dano ei hun; "Aham Manurabhavam Surjascha." Myfi oeddwn Manu; myfi oeddwn yr Haul. Gan hyn, wrth gymharu y testyn dan sylw gyda thestynau eraill, y mae yn eglur ddigosa y sonia am Dduw o dan yr enw *Bywyd*.)

Sutra 31. "Os gwedir hyn; oblegid y sonir am nodweddau enaid corfforedig, (h. y. mewn undeb a chorff) wrth ba un yr adwaenir anadl einioes. Na, pe byddai felly, byddai tri math o addoliad; ac eilwaith y nodweddau a enwir yma ydynt y cyfryw ag nas gallant berthynau i neb ond Duw yn unig." Tybir mai yr *idea* yma ydyw; Addef y gwrthddadleuwr y gallai geiriau y Veda gyfeirio at Indra o dan yr enw "Prān," eto dadleu y gallant gynnwys cyfeiriad befyd at yr enaid dynol, ac at anadl einioes (jīvapāsana), gwrthyd Bādārāyan yr wrthddadl; oblegid, pe felly, byddai tri math o addoliad. Un o'r enaid dynol; yr ail o anadl einioes; a'r trydydd o Dduw. Oblegid gorchymyn Indra ni i addoli "Prān"—*Bywyd*—yn y testyn dan sylw; gan hyn, nis gall y "Prān" arwyddo neb na dim ond Duw, gan mai efe ydyw unig wrthddrych addoliad.

Dyma Lyfr cyntaf y *Vedānta Sūtra*. Egwyddor Duwinyddiaeth Bādārāyan ydyw, mai Duw ydyw Pōpeth, ac mai Pōb peth yw Duw. Ei orchwyl yma ydyw profi yn erbyn egwyddorion y Sankhya a'r Nyaya, mai Duw ei hun, a dim arall, a ddeallir wrth y gwahanol wrthddrychau a enwir yn y Veda. Y mae amryw dwyllresymau yn ei ymresymiad. (1.) Cymer yn ganiataol mai iaith Duw ydyw y Veda, heb gynyg yr un prawf. 2. Cymer yn ganiataol fod holl briodoleddau gwrthddrychau naturiol, pa rai nis gellir eu mesur a'u holrhain gan ddeall dyn, o anghenrheidrwydd yn briodoleddau anghreuedig Duwdod; gan hollol anghofio, fel Spinoza a Hegel, y gall y diffyg fod yn y llinyn mesur a'r mesurwr, yn hytrach nag yn natur ac ēangder y cysylltiad rhwng Crēwr a gwrthddrychau y crēad, &c., &c.

Gadawn Bādārāyan hyd ddydd arall.

CYFIEITHIAD O'R PANCĤA RATNAM NEU Y PUM PERL O'R DRISTANTA SHĤATANAM.

1. "Anghenrheidion *Byd*."

"I'r cawrfâl, per ffrydiau.
I'r lili, gwlybaniaeth.
I'r nos, cylch y rhôd.
I'r Fenyw, mwynseidd-dra.
I Farch, buandra.
I Deulu, cyson sirioldeb.
I Ymadrodd, rheolau gramadeg.
I'r hwyad, afonydd.

I gynulleidfa, athraw.
I Dylwyth, doeth fab.
I ogoniant y byd, brenin.
O undeb y rhai hyn oll y deillia prydfethrwech y cyfan: eithr Vishnu (Duw) ydyw anghenrhaid y tri-byd, naf, daear, ac anwfn."

2. "*Anhebgorion er symud anhawsdrau.*"

"Er croesi dyfroedd, bad.	symud pa un ni ddarparodd Penllwy-
Er ymlid tywyllwch, goleuni.	ydd y byd ryw foddion; oddieithr
Er ysgogi awyr ddigyffro, gwyntyll.	i anwybodaeth neu ddrygioni dyn
Er ceryddu cawrfil meddw, swmbwl.	rwystro eu darganfyddiad a'u defn-
Felly nid oes braidd un anhawsdra er	yddiad."

3. "*Gocheliadau.*"

"Meddyg yn hoff o wiroydd.	Brenin a amgylchir gan gynghorwyr
Dawnsiwr difedr.	diddeall.
Brahman anhyddyg yn y Veda.	Gwlad pan orthrymir hi.
Milwr llwfr mewn rhyfel.	Gwraig ieuanc a'i serch ar arall heblaw
Negeswr heb gyfyndra.	ei gŵr.
Cardotyn disynwyr.	Doethwr a ymedy ar frys â'r rhai
	hyn oll."

4. "*Cyferbyniadau.*"

"Pa raid wrth gyfaredd lle byddo maddeuant?
 Pa raid wrth elyn lle byddo llid?
 Pa raid wrth danwydd lle byddo perthynas?
 Pa raid wrth feddyginiaeth lle byddo gwir gyfaill?
 Pa raid wrth sarph lle byddo drwgfwriad?
 Pa raid wrth gyfoeth lle byddo gwir ddoethineb?
 Pa raid wrth addurn lle byddo cywilydd?
 Pa raid wrth lywodraeth lle byddo gwir farddoniaeth?"

5. "*Meddyginiaeth.*"

I'r eirias danllyd, ydyw dwfr.	I'r gwenwyn marwol, swngyfaredd.
I'r cawrfil meddw, ydyw y swmbwl.	I bob rhyw ddamwain y mae rhyw
I afiechyd, ydyw cyffairi y physygwr.	feddyginiaeth; eithr ffolineb y ffol
I'r ŷch a'r asyn cyndyn, y swmbwl.	sydd yn anfeddyginiaethol."

Dyma derfyn y Pum Perl.

Y SHAR RATNA NEU Y CHWEOH PERL

- "Er dyfal chwilio yr Ysgrythyrau, eto y mae anghen mynych fyfyrio.
 Er cael y pleser o wasanaethu brenin da, eto dylid ei ofni.
 Er cael y pleser o fwynhâu gwraig ieuanc yn y fynwes, eto rhaid llafurio er ei
 chynnal.
 Canys pa le y ceir ysgrythyrau, neu frenin, neu wraig, bythbarhäol?"
- "Pa le y ceir dyn cyfoethog difalchder a dibrofedigaeth?
 Pa le y cyfarfyddir â'r dyn nad archollwyd ei feddwl drwy y rhyw fenywaidd?
 Pa le y cyfarfyddir â'r dyn, gwedi ennill ffafr tywysog, a all ei chadw?
 Pa le y ceir y dyn na lyncir i fyny gan amser?
 Pa le y cyfarfyddir â chardotyn yn wrthddrych anrhydedd?
 Pa le y ceir dyn dedwydd, pan wedi syrthio i rwyd y drygonus?"

3. "*Chwech dryglam yn y byd.*"

- | | |
|---------------------------------|------------------------------------|
| "Brahman ynfyd genedigol. | Putain hagr. |
| Penteulu yn cynnyddu yn gyflym. | Brenin annwyr. |
| Dyn tlawd a thrythyll. | Y rhai hyn ydynt chwech dryglam yn |
| Mynach cyfoethog. | y byd." |
- "Rhodd dyn tlawd.
 Maddeuant dyn cyfoethog.
 Penyd dyn ieuanc.
 Dystawrwydd dyn doeth.
 Hunanymwadiad dyn dedwydd. A thynnerwch at bob peth byw. Y pethau hyn oll, a gyflym sierhânt wynfa." |

5. "Pwy na chenfydd ddrygfoes gwraig anynad?"

Pwy a fwyty ymborth afiachus heb gael cystudd oddiwrtho?
 Pwy nad ymfalohia pan wena *Fortune*?
 Pwy all gadw ei fywyd pan ddel awr angu?
 Pwy na cheiff flinder oddiwrth fenywod!"

6. "Nid rhaid wrth unrhyw bechod arall lle byddo trachwant.
 Nid rhaid wrth unrhyw ddrwg-gynneddfau lle byddo creulondeb.
 Nid rhaid wrth glod lle byddo mwyneidd-dra.
 Nid rhaid wrth addurn lle byddo gair da.
 Nid rhaid wrth benyd lle byddo gwirionedd.
 Nid rhaid wrth bererindodau lle byddo meddwl pur
 Nid rhaid wrth olud lle byddo gwir ddoethineb.
 Nid rhaid wrth angu lle byddo gwaradwydd."

NODWEDDAU Y PEDWAR EFENGYLWR.

[THE FOUR WITNESSES: *being a Harmony of the Gospels, on a New Principle.*
 By DR. ISAAC DA COSTA, of Amsterdam. London.]

Y MAE yn ymddangos i ni yn waith anhawdd ffurio barn gywir a chymedrol, heb ei bod yn gogwyddo dim tuag at y naill eithafnod na'r llall, o barth gwir werth y ceisiadau sydd wedi cael eu gwneyd, o'r canrifoedd boreuaf hyd yr amser presennol, i gysoni y Pedair Efengyl, ac i furfio allan o honynt un hanes cyflawn o amgylchiadau bywyd a marwolaeth ein Hiachawdwr. Tra y mae rhai yn edrych ar y gallu i ddystewi y gwrthddadleuon hyny i wirionedd ac ysbrydoliaeth yr efengylau, oddiwrth yr anghysonderau ymddangosiadol a ganfyddir ynddynt, fel cymhwysder anheggorol, ac yn wir, y prif gymhwysder yn y neb a ymaflo yn y gorchwyl o'u hesbonio, y mae eraill, i'r gwrthwyneb, yn ystyried y dehurwydd hwn ymysg cymhwysderau israddol y deonglydd ysgrythyrol: gallent hebgor y medrusrwydd i gysoni adroddiadau fyddo yn ymddangosiadol groes i'w gilydd o flaen lliaws o elfenau erall yr esboniwr. Nid yw y dalent hon, yn eu golwg hwy, ond un o'r rhai lleiaf ysbrydol: a phed ymaflai dyn a fyddo yn feddiannol arni yn y graddau uchaf, ac wedi ei choethi a'i chryfhâu trwy flynyddoedd o lafur uwchben manylion tystiolaeth, yn y Pedair Efengyl, gyda'r bwriad o ddadblygu eu cynnwysiad, os na fyddai yn feddiannol hefyd ar gymhwysderau eraill o rywogaeth uwch, —wedi ei fedyddio â'r ysbryd anghenrheidiol i adnabod geiriau yr Iesu, yn gystal a meddu ar fanylrwydd meddwl i olrhain amseriad a ffeithiau yr hanes, nis gallai wneyd ond ychydig o wasanaeth i ddëonglyddiaeth; o leiaf, nis gallai, â'r agoriad hwnw, fyned i mewn i'r ystafelloedd ag y mae trysorau cyfoethog y meddyliau Dwyfol wedi eu cadw ynddynt. Y cyfryw ydyw golygiadau un dosbarth am ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, fel y meddyllient fod y cyfan yn cael ei golli; fod dinas ein Duw wedi syrthio i ddyllaw y gelynyon; fod y rhanau hyny ag y gellir edrych arnynt fel sancteiddiolaf

templ Dadguddiad yn cael eu llwyr ddigysegru; fod yr ysgrifeniadau sydd yn ganolbwyt yr holl Ysgrythyrau, yn fynnionell eu bywyd, ac yn rhwymyn eu hunoliaeth—y nôd ag yr oedd y gyfraith, a'r prophwydi, a'r Salmau, yn cyrchu ato, a'r sylfaen ag y mae duwinyddiaeth Paul ac Ioan yn gorphwys arni—yn cael eu hyspeilio o'u holl rinweddau, pe y gellid dangos fod y gwir wahaniaeth lleiaf yn hanfodi rhwng tystiolaethau dau o'r efengylwyr am un o'r manylion lleiaf eu pwys;—ac, felly, ystyriant hwy y gallu i gysoni adroddiadau am fanylion fyddo yn ymddangosiadol groes i'w gil-ydd yn un o'r doniau mwyaf anghenrheidiol i achos yr efengyl. Croesawant ryw eglurhâd boddlonol newydd ar anhawsder mewn daearyddiaeth neu mewn amseriad, pe na bae ond yn gysylltiedig â'r peth mwyaf dibwys arno ei hun, fel y darganfyddiad pwysicaf: nid edrychant hwy ar ddim yn y Bibl yn ddibwys, gan fod yr oll yn un cyfanwaith: haerant, pe y gellid profi gwir anghysondeb mewn adroddiad am hyd yn nôd y ffaith leiaf, fod hyn yn cario effaith ar y cwbl,—os ildir rhywfaint, fod yn rhaid ildio y cyfan: fod yr ymadawiad lleiaf oddiwrth y gwirionedd mwyaf manwl yn ddigon i ddinystrio yn hollol ac am byth y gred fod y Bibl yn ysbrydoledig. Felly y mae yn naturiol i'r dosbarth yma o dduwinyddion ddangos yr eiddigedd gwresocaf dros y ceisiadau a wneir tuag at gysoni y rhanau a ymddangosant yn anghyson, a llawenhâu yn llywyddiant y ceisiadau hyny.

Y mae Stier yn enwedigol, ac Alford yn y wlad hon, yn ymddangos i ni wedi myned yn rhy bell i'r tir arall a nodasom. Yr un pryd, addefwn yn rhwydd fod y naill a'r llall yn gwneyd sylwadau ag y byddai yn fuddiol i'r dosbarth mwyaf peiriannyddol o gysonwyr yr Efengylau eu gosod at eu meddyliau. Pe y byddai yn rhaid i ni ddewis un o'r ddau eithafnod, dewisem yn hytrach yr un ag y mae Stier yn gogwyddo tuag ato; oblegid y mae yn amlwg ei fod yn fwy cydnaws â'r golygiadau uchaf a mwyaf ysbrydol am, a pharch ddyfnaf y galon i'r, Pedair Efengyl. Y mae dull oeraidd a gorfeirniadol rhai o'r cysonwyr yn eu hymdriniaeth â hwynt yn annheilwng, ni a feddyliem, o'u tarddiad dwyfol a gwerth eu cynnwysiad; a dyna sydd wedi peri i'r ysgrifenydd crybwylledig ddangos cymaint o wrthnawsedd tuag at gysonwyr a chysondebau. Ni phetrusant gondemnio y gorlafur a gymerir gyda manylion yr hanes, tra yr esgeulusir yn ormodol ei sylwedd mawr: synant am fod rhai mor fyw a llygad-agored i bob cwestiwn a dadl ynghylch manylion amgylchiadau rhyw wyrth neu bregeth o eiddo yr Iachawdwr, tra nad ydyw yr egwyddorion mawrion a ddygir i'r amlwg yn y wyrth, a'r dadguddiadau o wirionedd dwyfol a ddadlenir yn y geiriau, yn gallu galw eu galluoedd deonglyddol i weithrediad. Cwyna Stier am "fod eglurhadaeth hyd yn nôd y blaid uniongred o esbonwyr wedi ei chyfyngu yn ormodol hyd y dydd hwn gyda'r llinynau sydd yn clymu y dynol a'r Dwyfol; gyda chysoni y gwahanol adroddiadau, tra y gadewir i'r o'r neilldu, i raddau beius, y gwaith o dreiddio i mewn i sylwedd yr efengylau—geiriau yr Arglywydd Iesu." Y mae yn rhaid cydnabod gwirionedd hyn; nid yw Stier yn ymliwio â'i gyd-ddëonglwyr yn ddiachos; a phrawf o hyny ydyw nad ydyw geiriau Iesu Grist yn cael eu lle dyladwy mewn eglurhadau ar y Pedair Efengyl. Telir yn gyffredin fwy o sylw i'r llythyren nag i'r ysbryd. Y mae cywreiarwydd yr esboniwr yn dyfod yn fwy i'r golwg uwchben anghysonderau ymddangosiadol, y rhai pe y cysonid hwynt oll i foddlonrwydd, ni chwaneigid nemawr ar ein gwybodaeth o gynnwys y llyfrau—nag y mae ei dreiddgarwch a'i ganfyddiad ysbrydol uwchben egwyddor-

ion y dygwyddiadau, a chyfoeth y geiriau. Nis gall y llafur mwyaf dyfal a mwyaf llwyddiannus yn y llinell hon, wedi y cwbl, wneuthur dim mwy na rhoddi bôd i'r wybodaeth fwyaf arwynebol o'r efengylau. Ymchwiliad i eiriau yr Iesu, ymdreiddiad i ddyfnder yr athrawiaeth a bregethodd, yn unig a ddichon roddi deall da yn yr ysgrifeniadau hyn, y cyfryw syniadau ag a fyddont yn cyfateb i amcan yr ysgrifênwyr sanctaidd wrth eu hysgrifenu; y ddirnadaeth hono am yr Arglwydd Iesu fyddo yn adlewyrchiad ar y meddwl o'r darlun a dynasant hwy o hono. Ei arddangos ef oedd amcan y Pedwar Efengylwr; trosglwyddo i oesoedd y byd, dan arweiniad Ysbryd Duw, yr olwg a gawsant hwy arno; ac yn ei eiriau y canfyddir mwyaf o hono.* At yr ymadroddion a ddaethant o'i enau y mae efe yn cyfeirio ei wrandawyr am adnabyddiaeth o'i berson. Y mae perthynas gyffelyb rhwng ei eiriau â'i berson ag sydd rhwng ei berson â'r natur ddwyfol, oblegid fel mai efe ydyw "gwir lun person" y Tad, felly ei eiriau ef ydyw gwir ddelf ei berson ei hun. Yn ei eiriau y mae Iesu Grist, fel y Gair tragywyddol, yn hysbysu ei hun, a thrwy hysbysu ei hun, yn hysbysu y Duw anweledig. Felly, y mae cysylltiad agosach rhwng Person Crist a'i eiriau nag a ddichon fod rhwng person un athraw arall a'i athrawiaeth; ac am hynny, ei eiriau ydyw cnewyllyn a sylwedd yr efengylau; ynddynt hwy y canfyddir ystyr ac amcan ei weithredoedd. Y mae hynny yn peri nas gall un efrydiaeth o'r efengylau lai na bod yn drwyadl a gwreiddiol ddiffygiol, os na fydd yn cynnwys, uwchlaw pob ymchwiliad arall, ymchwiliad dwys i feddwl ei ymadroddion. Y geiriau sydd yn "ysbryd ac yn fywyd," ydynt ysbryd a bywyd y Pedair Efengyl.

Heblaw fod rhoddi y lle mwyaf i ymchwiliadau manylaidd i gysondeb yr Efengylau, ar draul esgeuluso eu hysbryd a'u sylwedd, yn hannerog, a dyweyd y lleiaf, y mae hefyd yn ddull anathronaidd. Y mae ymgydnabyddu â meddwl geiriau ein Hiachawdwr yn gwbl anghenrheidiol, mewn lliaws o enghreifftiau, er cael allan y cysondeb rhwng y naill hanesydd â'r llall. "Ar wahân oddiwrth yr esboniadaeth mwyaf dŵfn ar eiriau yr Iesu," medd un awdwr, "bydd holl lafur y cysonwyr, o aughenrheidrwydd, yn agored i gyfeiliornadau gwastadol." Y mae yr esbonwyr hyn yn fynych yn ysgaru geiriau yr Iesu: y mae eu tybiau hwy am amseriad neu le traddodiad rhyw ddammeg neu bregeth yn peri iddynt wahanu geiriau a osodir gan un o'r efengylwyr mewn cysylltiad â'u gilydd; pryd, pe y sylwasent yn fwy ar y geiriau eu hunain, y canfyddasent fod undeb hanfodol yn bod rhyngddynt; fod y naill wedi cyfodi, oddiar anghenrheidrwydd y mater, oddiwrth y llall. Er mwyn ffurfio math o gysondeb peiriannyddol, dinystriant yr unoliaeth mewmol sydd yn rhedeg trwy y geiriau; ac aberthant y cyfanrwydd a'r cydluniad perffaith sydd ynddynt, er mwyn eu gwneyd i gyfateb i'w syniadau hwy am yr amser neu y lle y cawsant eu traddodi. Y mae y cysonwyr hyn yn golygu yr efengylwyr fel dynion wedi taflu y ffeithiau a wyddent am yr Iesu i ryw ffurf ddireol: nad oedd ganddynt, ac yn wir, nad oedd gan yr Ysbryd oedd yn eu harwain, ddim i'w wneyd ond cymeryd y defnyddiau oedd yn barod wrth law a'u gosod wrth eu gilydd heb un reol nac egwyddor; eu bod yn cysylltu dygwyddiadau â'u gilydd, y rhai oeddynt heb gymeryd lle yn yr un man, nac ar yr un amser; ac os nad ydyw yr hanes yn ddilynol a rheolaidd gyda golwg ar amseryddiaeth ac amgylch-

* Gwel Rhagdraethawd y Farch. L. Edwards i Gysondeb yr Efengylau.

iadau eraill, y mae y dosbarth yma o ysgrifenydd yn edrych ar yr Efengylau fel y cymysgedd mwyaf didrefn. Y maent yn talu rhy ychydig o sylw i'r ystyriaeth y dichon unoliaeth o natur uwch redeg trwyddynt, a threfn o nodwedd fwy dyrchafedig fod yn perthyn iddynt, ac yn eu gwneyd, y naill a'r llall o honynt, yn un cyfanwaith prydfertach nag a fuasant gyda'r cysylltiad mwy arwynebol ag yr ymfynant hwy mor ddiwyd am dano.

Na farned neb o'n darllenwyr ein bod ni yn anghymeradwyo pob cais at gysoni yr efengylwyr â'u gilydd. Pell ydym oddiwrth hyny. Dywedasom o'r blaen fod eithafion yn perthyn i hyn; a chredu yr ydym fod y ddau esboniwr a enwasom yn gogwyddo at un o'r eithafion hyny. Nid ydynt yn cymeryd arnynt wybod fod dim ond niwed ac anfantaïs yn deillio oddiwrth y llafur hwn. A phan yn condemnio cysondebau yn y cyfanswm, nid ydynt yn dwyn ymlaen, fel enghreifftiau o'u diffwythder a'u niwed, ond rhai o'r dosbarth mwyaf eithafol. Y mae yn anmhosibl i neb, dybygem, gondemnio y ceisiadau a wneir, oddiar egwyddorion beirniadol cywir, taag at symud ymaith yr anhawsderau a ganfyddir wrth gymharu adroddiadau yr Efengylwyr â'u gilydd. Gwnaed ceisiadau at hyn yn fore yn y cyfnod Cristionogol; dygwyd sylw rhai o'r tadau enwocaf at y gorchwyl; ac yh wir, y mae yr ymchwiliad yn un o'r rhai mwyaf naturiol i'r efryddydd Biblaidd. Dyma dri o haneswyr yn adrodd hanes yr un dygwyddiad—y tri yn ysgrifenu yn annibynol ar eu gilydd,—pob un o'r tri yn llygad-dystion, neu yn ysgrifenu dan gyfarwyddyd eraill oeddynt yn llygad-dystion. Yn awr, pa beth sydd yn fwy naturiol i ddarllenydd sylwgar na chymharu yr adroddiadau, edrych ymha bethau y maent yn debyg, ac ymha bethau, yn annhebyg i'w gilydd? Heblaw hyny, fe ddaeth amddiffyn gwirionedd yr adroddiadau yn anghenrheidrwydd ar yr eglwys. Oddiwrth yr anghysonderau ymddangosiadol yn yr haneswyr y cymerid achlysur i amharu a gwadu gwirionedd yr hanes. Ni a dybygem mai y cwrs a gymerasai Stier, ac eraill o'r un ysbryd, yn ngwyneb hyn, fuasai gadael eu gwrthdadauon yn llonydd, a gwahodd y gwrthdadauon oddiwrth y manylion amgylchiadol at y sylwedd, ac at yr ysbryd. Ond yn chwanegol at hyn, nis gallwn ni lai na chredu fod y llwybr arall yn anghenrheidiol hefyd. Gall y meddwl gonest a chywir ymrwystro gyda'r anhawsderau; y rhai a ymfurfiant yn gwmwl digon tew fel ag i guddio gogoniant y Person a'i eiriau o'r golwg.

Y mae yn ffaith ddigon hysbys, fod y ceisiadau at ddangos cysondeb yr Efengylau, fel yr oeddynt yn cael eu gwneyd yn anghenrheidiol gan ymosodiadau ar wirionedd eu hadroddiadau, ac wedi troi allan yn llwyddiannus i dori grym yr ymosodiadau hyny. Tra y mae llafur amddiffynwyr Cristionogaeth yn y llinell hon, y mae yn rhaid addef, wedi rhoddi bôd, mewn lliaws o enghreifftiau, i geisiadau sydd yn hollol anghydweddol âg egwyddorion cywir beirniadaeth, nis gallwn, ar y llaw arall, gau ein llygaid rhag gweled y ffrwythau toreithiog o rawn pur a gynnyrchwyd trwy y llafur hwn i amddiffyniad ein crefydd. Gweled y doraeth chwyn ac efrau sydd wedi tyfu yn wylltion ar y maes y mae Stier, Alford, a lliaws o enwau eraill israddol, yr hyn sydd yn peri iddynt feddwl mai gwell fuasai pe gadewsid y maes heb ei amaethu o gwbl. Ond y mae yr ystyriaeth fod y manteision yn fwy nag yn gorbwysu yr anfanteision, fod y wybodaeth safadwy a gyrhaeddwyd trwy yr ymchwiliad yn llawer mwy gwerthfawr nag ydyw y tybiaethau anaddef o anghymeradwy, yn peri i ni edrych ar y cyscdebau, o'r ail ganrif

hyd yn awr,—o Tatian ac Awstin hyd Robinson a Da Costa, fel rhan bwysig o lēnyddiaeth ein crefydd. Y maent yn wasanaethgar tuag at esbonio yr Efengylau; i.e., y mae gwneyd cymhariaeth ofalus rhwng gwahanol adroddiadau yr efengylwyr o'r un ffaith yn anhebgorol tuag at ddeall y ffaith hono. Y maent hefyd yn fuddiol mewn ffordd o amddiffyn gwirionedd yr adroddiadau. Y mae yr anghywelediad ymddangosiadol rhwng yr efengylwyr yn cael ei ddwyn ymlaen yn ddadl, nid yn unig yn erbyn eu hysbrydoliaeth, ond yn erbyn eu gwirionedd hanesyddol. Yn ngwynneb hyn, y mae y cysonwyr wedi dangos fod lliaws o ffyrdd, a phob un o'r rhai hyn y'n hollol deg, y cyfryw nas gellir eu gwrthsefyll oddiar un reol awdurdodedig mewn beirniadaeth, i ddadrys y cylymau dyrus. Ofer ydyw i'r gwrthdadau ofyn *pa un ydyw yr* esboniad ar yr anhawsder; y mae yn llawn ddigon profi fod yn bosibl eu dwyn i gyttundeb mewn amryw ddulliau. Y mae profi y *possiblwydd* o'u cysoni yn gymaint ag sydd yn eisieu i lwyrr ddifodi dadl y gwrthwynebwyr. "Y mae y dyben pwysig hwn i gysondebau o'r efengylwyr," medd un ysgrifenydd, "wedi ei gyrhaedd. Y mae wedi ei brofi tu hwnt i bob ammheuaeth rhesymol, gan nad pa wahaniaethau a ganfyddir yn yr Efengylau, a pha mor anhawdd yn fyny ydyw eu hesbonio, nad ydynt, mewn un enghraifft, yn gwrthddyweyd eu gilydd. Y mae hyn yn ffwrth ardderchog, yn deilwng o'r llafur a roddwyd arno gan y Tadau, a'r Diwygwyr, a'r Duwinyddion, am ddeunaw cant o flynyddoedd." Tra y mae gelynyion Cristionogaeth wedi ceisio dadymchwel gwirionedd yr hanes gyda'r ddadl o anghydsafiad yr adroddiadau a'u gilydd, y mae ei hamddiffynwyr wedi gallu troi yr wrthdadaid hon i'w wirionedd, yn ddadl chwanegol o blaid ei wirionedd. Dangosasant fod y grediniaeth yn ngwirionedd *cyffredinol* yr Efengylau yn cael, nid ei gwanychu, ond ei chryfhau, gan yr amrywiaeth gwirioneddol, a'r anghysondeb ymddangosiadol, sydd yn hawdd eu canfod yn manylion yr hanes.*

Dyma un o'r egwyddorion a amddiffynir ac a eglurir mor oleu gan Paley. Dengys ef fel y mae gwirionedd tystiolaeth ddynol yn egluro ei hun yn y nifer mwyaf o amgylchiadau, yn ol y byddo amrywiaeth yn manylion y dystiolaeth, os bydd cydweddiad cyffredinol yn rhedeg drwyddi. Y mae ein llysoedd barn yn profi hyn. Credid y byddai cysondeb perffaith yn adroddiadau tystion gwahanol yn ffwrth ryw ragdrefniant o'r eiddynt, tra, i'r gwrthwyneb, y derbynid anghysonderau dibwys yn eu hadroddiadau yn brawf o'u bod, o ran y sylwedd o honynt, yn wir. Ac y mae yn deilwng o sylw, fod cywirdeb y rheol hon yn cael ei chydabod mewn beirniadaeth ar ysgrifeniadau cyffredin. Meddylier am yr hen ysgrifenydd Groegaid a Lladinaidd. Dyma ddau o honynt yn cofrestru yr un dygwyddiad, neu yn cyfansoddi bywgraffiad o'r un person; yr ydym yn syrthio ar draws anghysonderau mwy pwysig, a rhai mwy anhawdd eu cysoni ynddynt, nag a geir yn yr efengylau; ond, er gwaethaf yr anghysonderau, y mae gwirionedd cyffredinol y dygwyddiadau yn cael eu derbyn yn ddiammheuol. Nid yw yr anghywelediad sydd rhyngddynt yn dylanwadu ar y meddyliu mwyaf amheus, i anghredu sylwedd y fleithiau a adroddir. Y mae Polybius a Livy, fel y sylwa Da Costa, yn amrywio yn eu hadroddiadau am fynediad Hannibal dros yr Alpau; ond nid oes neb wedi tynu y casgliadau oddiwrth yr anghywelediad sydd rhyngddynt, na ddarfu i Hannibal erioed

* The Four Witnesses. Tu dal. 3.

groesi yr Alpau, neu nad ydyw Livy na Polybius yn hanesydd credadwy. Ond y mae casgliadau mwy eithafol nag a fuasai y rhai hyn wedi eu cyrhaedd rywfodd yn erbyn gwirioneddolrwydd gweithredoedd yr Iesu, a gwirionedd tystiolaethau yr efengylwyr, a hyny ar bwys anghysonderau ymddangosiadol ag y gellir cael amryw ddulliau teg i brofi nad ydynt ond ymddangosiadol yn unig.

Y mae y darlennydd wedi sylwi, fe allai, ar yr egwyddor, na fuasai gwir anghysonderau mewn manylion yn effeithio dim ar wirionedd sylwedd yr hanes, mwy nag y mae yr un peth yn effeithio ar adroddiadau tystion mewn llys gwladol. Ond y mae yn anghenrheidiol esgyn i dir uwch tuag at fyn-tumio ysbrydoliaeth yr efengylau. Un gwir anghysondeb yn yr ysgrifau gwreiddiol o'r Efengylau a fuasai, dybygem, yn ddigon i ddymchwel ein crediniaeth yn ysbrydoliaeth anffaeledig yr ysgrifenydd. Y mae y camgymeriadau lleiaf yn anghydweddol â'r syniad am ysbrydoliaeth ddwyfol fyddo yn dyrchafu yr ysgrifenydd uwchlaw cyfeiliorni; h. y., yn anghydweddol â'r farn a ystyrir fel yr un unionged am natur ysbrydoliaeth. Yn awr, yr ydym ni yn credu nad oes dim amrywiaethau yn yr efengylau sydd yn anghydweddol â'r farn hon; ac y mae genym ddau beth sydd yn ein darbwyllo o hyn. Yn gyntaf, y mae yr ymchwiliadau dyfal sydd wedi eu gwneuthur wedi dwyn mwy nag un ffordd i'r golwg i gysoni y nifer mwyaf o'r rhanau y gwrthdadau yn eu herbyn. Yn ail, y mae yr ymchwiliadau presennol i nodweddau arddull yr efengylwyr, yr ymchwiliadau a wneir i'r gwahaniaethau sydd rhyngddynt mewn trefn i ganfod eu cyttundeb, a'r egwyddorion newyddion a ddilyniir yn yr ymchwiliadau hyn, wedi gwneuthur mwy yn y ffordd yma na'r ceisiadau mwy direol a wnaed mewn oesoedd blaenorol. Fel y mae gwybodaeth esbonwyr yn ychwanegu, a'r rheolau priodol i'w dilyn yn dyfod fwyfwy i'r amlwg, y mae yr anhawdserau yn diflanu o un i un; ac y mae yr ystyriaeth yma yn peri i ni feddwl y daw yr anhawdser yn llai o hyd. Ond pe y sicrhëid i ni yr erys rhai o'r anhawdserau hyn, er pob ymchwiliad, ni wnai hyny siglo dim ar ein ffydd yn ngwirionedd nac yn ysbrydoliaeth yr Efengylau, yn gymaint a bod y cyfryw anhawdserau yn bethau i'w dysgwyl yn holl ranau llyfr dadguddiad fel yn llyfr natur. Y mae yr egwyddor fawr a gymhwysir gan Butler at ddadguddiad yn gyffredinol yr un mor briodol i'w chymhwyso at brif ysgrifeniadau y dadguddiad hwnw: "Y gall yr hwn sydd yn credu fod yr Ysgrythyrau wedi dyfod oddiwrtho Ef, yr Hwn ydyw Awdwr natur, yn rhesymol ddysgwyl canfod yr un math o anhawdserau ynddynt hwy ag a ganfyddir yn nghyfansoddiad natur."

Cyn myned rhagom at y llyfr y dodasom ei enw uwchben yr ysgrif hon, byddai yn briodol i ni, er mwyn rhoddi eglurder i'r sylwadau cyffredinol a wnaethom eisoes, grybwyll rhai o'r egwyddorion neu y rheolau a ystyrir fel y terfynau y dylai pob ymgais tuag at gysoni yr Efengylau ymgadw o'u mewn.

Yr ydym eisoes wedi nodi rhai pethau; megys, y dylai pob ymgais tuag at ddangos cysondeb yr ysgrifeniadau hyn gael eu blaenori gan astudiaeth ddofn o'u holl gynnwysiad; y dylid ymfyn am ryw unoliaeth ddfwn, mewnol, ymhob un o honynt; fod adnabyddiaeth o amcan neillduol, a phrif nodweddau arddull a meddwl pob efengylwr yn hanfodol; ac felly, fod ymchwiliad i'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt yn ofynol fel rhagbarotôad i ddwyn allan eu gysondeb; fod ymdreiddiad i ystyr geiriau yr Iesu yn

anghenrheidiol mewn trefn i egluro dibyniad y naill ran ar y llall—a'r cyffelyb.

Er fod efrydiaeth o'r Efengylau gyda'u gilydd, fel y sylwyd eisoes, yn dra gwasanaethgar, ac mewn rhai enghreifftiau, yn gwbl anghenrheidiol, i iawn ddeall y dygwyddiadau neu y geiriau a gofnodir, eto y mae yr amrywiaeth a berthynai i amcan a chynllun pob un o honynt yn gwneyd fod yn anmhosibl ffurfio cysondeb perffaith rhyngddynt â'u gilydd. Y mae yr addefiad cyffredinol fod pob un o honynt yn ysgrifenu yn rhydd ac annibynol ar y lleill, yn peri y buasem bron yn dysgwyl i'r cais o ffurfio un hanes oddiwrthyt fod wedi ei roddi i fyny. Gwnaed coisiadau at hyn yn fore iawn. Crybwylla Olshausen* am gysondebau Tatian, Ammonius, ac Eusebius, y rhai a gynnwysent adroddiad dilynol—o leiaf gais at hyny—o amgylchiadau bywyd y Gwardwr. Gwnaed yr un cais yn ddiweddar gan awdwr yn America; ond, fel y gallesid dysgwyl, y maent oll wedi troi allan yn afwyddiannus. Y mae y peth ynddo ei hun yn anmhosibl o herwydd mwy nag un rheswm. Pe buasai pob un o'r efengylwyr yn dilyn trefn amseryddol yn eu hadroddiad o'r amgylchiadau, buasai hyny yn gwneyd yr anhawsder yn llai. Y mae yn hawdd canfod nad ydyw amseriad y dygwyddiadau yn cael ei gynnwys o gwbl yn nghynllun Matthew; y mae yn llithro o'r naill ffaith at y llall, heb roddi dim awgrymiad i'n galluogi i benderfynu yr amser oedd rhyngddynt; weithiau cysyllta y dygwyddiadau â geiriau amnhenodol am yr amser. Fel y sylwa Olshausen,—“Y mae y casgliad mawr o ymadroddion Iesu Grist yn St. Matthew yn dangos mai ei brif amcan ef oedd portreiatu person y Gwardwr, ar wahân oddiwrth amser a lle, a thrwy gydgyfnnull at eu gilydd weithredoedd ac ymadroddion cyfrywiol, ei ddwyn Ef ger bron meddwl y darlennydd yn ngwahanol gylchoedd ei lafur.” Yn Marc, drachefn, y mae yr esgeulusdra hwn o amser a lle yn fwy amlwg nag yn Matthew; y mae y dynodiadau cyffredinol, amnhenodol, yn cael eu gadael allan bron yn hollol o'i efengyl. “Rhydd ef yr hanes, heb wneuthur dim sylwadau; ei unig amcan ef ydyw rhoddi portreiat bywiog o'r ffeithiau, heb eu trefnu yn ol un math o reolau.” Y mae yn amlwg fod Luc, yn fwy, o leiaf na'r ddau efengylwr cyntaf, yn talu gradd o sylw i amseriad y dygwyddiadau. Darfu iddo ef, i'r dyben o gymhwyso ei hun i ysgrifenu ei efengyl, “ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad;” a'i amcan oedd “ysgrifenu mewn trefn,” i roddi “gwybod sicrwydd” i Theophilus am amgylchiadau bywyd Iesu Grist. Y mae, felly, yn naturiol dysgwyl mwy o drefn amseryddol yn Luc nag yn yr efengylwyr eraill; ond pa mor bell y ceir hyn, nid yw yn hawdd penderfynu. Y mae Da Costa yn tueddu i feddwl fod y drydedd efengyl yn hanes dilynol a rheolaidd; ond, fel y sylwa Olshausen, y mae yn anmhosibl i ni lai na gweled fod graddau o ryddid yn cael ei gymeryd gan Luc, fel gan y tri eraill, yn y trefniad o'r dygwyddiadau. Y mae un ffaith yn cael ei chysylltu â'r ffaith arall, y rhan amlaf, heb benodi eu hamseriad, (iv. 16, 31; v. 12, 33; vii. 18, 36; ix. 1, 18). Weithiau y mae yn symud oddiwrth un dygwyddiad at un arall, gyda'r geiriau amnhenodol, “ar ol y pethau hyn,” “ar ryw ddiwrnod,” (v. 27; v. 17; viii. 22); “fel” medd yr awdwr uchod, “y mae yn ansicr pa un a ydyw yr amgylchiadau, hyd yn nôd yn Luc, yn cael eu trefnu yn wastad yn ol olyniad amser.” Y mae, fodd

* Cyf. I., tu dal. 18.

bynag, yn ymddangos i ni yn fwy-tebygol fod corff y ffeithiau, o leiaf y prif ddygwyddiadau yn efengyl Luc, yn cael eu croniclo gyda golwg ar eu dilyniad amseryddol. Ond wedi'r cwbl, y mae, a chaniatáu hyn, yn anhosibl cydwau adroddiadau Matthew a Marc âg eiddo Luc, fel ag i ffurfio un hanes dilynol o honynt oll; am nad oes yn yr olaf amserau wedi eu penodi yn ddigon eglur i gysylltu y lleill â hi. Meddyliodd rhai y gellid cymeryd y Gweddnewidiad yn fan i gychwyn yn ol ac ymlaen o hono; ond y mae eu cysylltiadau â'u gilydd yn cael eu colli yn fuan. Ac os ydyw yn anhawdd cysylltu y dygwyddiadau â'u gilydd, y mae yr anhawder yn llawer mwy gyda'r geiriau a'r pregethau. "Yr ymadroddion a osodir mewn cysylltiad â'u gilydd yn Matthew, y maent yn wasgaredig yn Luc, fel y mae y cais cyntaf a wneir i adferu gwahanol bregethau yr Iesu i'w trefn amseryddol, yn dangos yr un anhosibilrwydd o wneuthur hyny, o leiaf os bydd y casgliad o honynt yn hōni trefn fanol, ac nid yn cael ei wneuthur i ateb amcanion ymarferol."* Yn awr, oddiar y rhagdybiau camsyniol am yr hyn a ddylasai trefn yr Efengylau fod, gyda golwg ar amseriad dilynol y dygwyddiadau, y mae lliaws o geisiadau i'w cysoni wedi troi allan yn fethiadau hollol. Gosodwyd cymaint o bwys ar hyn gan Townsend ac eraill, fel yr oeddynt ar fin meddwl fod holl werth eu hadroddiadau yn dibynu ar gyfiâd y ffeithiau a'r ymadroddion mewn trefn amseryddol. Rheol yr ysgol hono o gysonwyr ag yr eûrychir ar Osiander fel ei sylfaenydd ydyw, Fod yr holl efengylwyr yn croniclo amgylchiadau bywyd yr Iesu yn ol y drefn y cymerasant le; ac oddiar y dybiaeth hon, arweiniwyd hwy gan y ffaith fod yr efengylwyr yn cyfleu yr un dygwyddiadau mewn trefn wahanol i'w gilydd, i hōni eu bod wedi cymeryd lle fwy nag unwaith. Ond buasai ychydig o ystyriaeth yn eu darbwyllo, nad ydyw trefn amseryddol fanol mewn un modd yn hanfodol i wirionedd hanesiaeth.† Paham yr ymofynir am y drefn hon yn yr Efengylau, pan y mae yn amlwg nad yw yn cael ei dilyn yn gaethiwus mewn un rhan o'r Ysgrythyrau? Yn y llyfrau hanesiol eraill, y mae y dygwyddiadau yn cael eu cysylltu â'u gilydd ar gyfrif rhyw undeb arall sydd rhyngddynt, megys eu cydberthynas â rhyw drydydd dygwyddiad, neu eu cydwasanaeth i brif amcan yr awdwr. Ac os ydyw yn rhydd i'r haneswyr Ysgrythyrol eraill, ac i haneswyr cyffredin, gofrestru dygwyddiadau heb ymgadw yn fanwl at eu holyniaeth amseryddol, heb gael eu cyfrif yn anffyddlaw'n i wirionedd hanesyddiaeth, llawer mwy yr oedd yn briodol i'r efengylwyr wneuthur felly â geiriau a ffeithiau bywyd Gwrthddrych mawr eu hanes. Y mae ei ymadroddion ef yn cynnwys egwyddorion ysbrydol tragwyddol; ac yr oedd ei weithredoedd yn llawn o'r fath ystyr, yn ddadleniad o'r cyfryw wirioneddau, nas gall amgylchiadau bychain amser a lle chwaneu dim at, na thynu dim oddiwrth, eu gwerth a'u pwysfawredd. Ac felly, ni fyddai gwybodaeth fanol am amser penodol llefariad y ddammeg hon, a chyflawniad yr wyrth arall, ond y fantais leiaf i gynnorthwyo y myfyriwr i dreiddio i mewn hyd at ystyron dyfnaf y naill, ac at yr egwyddorion a orweddant islaw amgylchiadau allanol y llall. Fel yr oedd y Person ei hun yn feddiannol ar y mawredd hwnw nad oedd yn y mesur lleiaf yn ddyledus i amgylchiadau amseroedd a lleoedd, felly hefyd y mae ei eiriau yn fwy, yn annhraethol fwy, na geiriau un dysgawdwr arall, yn ymddyrchafu uwchlaw dylanwadau yr un amgylchiadau. Gan eu bod yn

* *Kitto's Encycl., Erth. Harmonies.* † *Olshausen's Com., 1 Vol. 20. Clarke's Edition.*

ysbrydol, i.e. " yn ysbryd," y maent yn rhydd oddiwrth y caethiwed i amgylchiadau ag y mae pob peth anianol yn ddarostyngedig iddo. Adefai pawb yn rhwydd yr arosai gwerth yr egwyddorion mawrion a ddadblygwyd ac a gyhoeddwyd gan Plato a Bacon yr un, pe na wyddem y drefn amseryddol yn ol yr hon y cawsant eu traddodi. Pwy, wrth eu darllen, a osodai eu gwerth i ddibynu ar wybodaeth fanol o amgylchiadau awduriaeth yr ysgrifeniadau sydd yn eu cynnwys? Y mae caneuon Homer yn ateb amcanion uchaf barddoniaeth, er na wyddis i sicrwydd pwy oedd y bardd, beth oedd amgylchiadau ei fywyd, nac ymha oes yr oedd yn byw. Ond byddai llawer cryfach rkeswm dros leihâu gwerth ysgrifeniadau Homer, Plato, a Bacon, ar sail rhyw ansicrwydd o barth amgylchiadau eu cyfansoddiad, neu drefn amseryddol gwahanol ranau o honynt, nag y sydd dros leihâu gwiwdeb cynnwysiad yr Efengylau ar gyfrif yr anhawser i olrhain olynol ddilyniad yr amgylchiadau a'r ymadroddion. Y mae yr ysgrifeniadau sanctaidd hyn, yn y ffurf y maent genym, yn effeithiol er ateb amcanion eu cyfansoddiad. Os ydyw y drefn yn anhawdd i'w holrhain mewn lliaws o bethau, y doethineb mwyaf ynom ydyw credu nad ydyw yr arddangosiad a fwriedir roddi o Berson y Gwardwr yn dyoddef dim oblegid hyny. Pe buasai y drefn amseryddol mewn un modd yn anghenrheidiol i amcan yr ysgrifenywyr—neu pe gwelsai yr Ysbryd Glân, swydd yr hwn ydyw "gogoneddu" y Cyfryngwr, fod yn rhaid wrth y drefn hon, er mwyn trosglwyddo i'r oesoedd ddarlun perffaith o'r Person Mawr—mae yn ddiagramheu na fuasai yn ol o'r efengylau; buasai yr holl fanylion yn cael eu gosod yn ddilyniol a threfnus. Ond yn hytrach nag aberthu rhyw unoliaeth arall dyfnach oedd yn ngolwg yr efengylwyr, abertHWYD y drefn a'r unoliaeth yma,—yr hon nid edrychir arni gan neb yn hanfodol i amcanion uchaf hanesyddiaeth. Ac, ymhellach, gallwn sylwi fod prif amserau bywyd yr Iesu, gwahanol gyfnodau ei oes, y rhai y gallai sylwi arnynt fod yn help i ddeall rhai pethau yn well, yn ddigon eglur i olrhainiad yr efrydd ydd gofalus.

Y mae Dr. Da Costa yn gosod i lawr fel egwyddor hanfodol mewn cysylltiad âg ymchwiliad i gysondeb yr efengylwyr,—Fod sylw priodol yn cael ei dalu i'w nodweddu personol, i'w haniad cenedlaethol, i amgylchiadau eu bywyd yn flaenorol i'w galwad i fod yn ddysgyblion i Iesu Grist, ac yn enwedigol, i'r safle oddiar ba un yr edrychent ar Wrthddrych Mawr eu hanes, a'r amcanion neillduol oedd ganddynt mewn golwg wrth draddodi mewn ysgrifen eu tystiolaeth am dano. Mewn geiriau eraill, y mae ymchwiliad i *hynodion* yr Efengylau yn hollol anghenrheidiol er deall eu *cysondeb*. Ac y mae yn amlwg fod y rheol hon yn gyfryw ag y mae yn annichon i ddull rhai cysonwyr o gydau adroddiadau y Pedwar Efengylwr mewn un hanes gydsefyll â hi. Yn gymaint a'u bod yn edrych ar y Gwrthddrych oddiar safleoedd gwahanol; fod neillduolrwydd yn perthyn i amcan pob un, ac fod amrywiaeth yn nodweddu eu dulliau hwy o feddwl a gosod allan y meddwl hwnw, yn gyffelyb i awdwyr eraill,—y mae yn rhaid fod cyd-doddi eu hysgrifeniadau i'w gilydd; yn hytrach, nid eu cyd-doddi, ond eu darnio, a'u gwnio ynghyd—llain o Matthew ar lain o Luc—yn ddull cwbl anathronaidd, ac yn waith ag y buasai parch goleuedig i'r Pedwar Tyst yn cadw dynion rhag cynnyg ei gyflawni. Dealler nad ydym yn golygu gwaith Robinson, a rhai cysonwyr doeth eraill, yn cyfleu adroddiadau yr *haneswyr* yn gyfochrog, pan yr ydym yn llefaru fel hyn; ond y cais a wneir

gan rai i ffurfio un hanes o'r cyfan; ac os bydd rhywbeth yn ddiffygiol ar ol cydgysylltu yr holl adroddiadau, y mae y cysonwyr hyn yn meddu ar ddigon o hyfder i gyflenwi y diffygion hyny â geiriau o'r eiddynt eu hunain.* Ymhellach, y mae ymchwiliad i nodweddau gwahaniaethol yr Efengylau yn symud lliaws o anghysonderau ymddangosiadol ag y teimlid anhawsder mawr ynddynt; oblegid y mae amrywiaeth yn berffaith gyd-weddol â'r unoliaeth a'r cysondeb uchaf. Y mae ymddangosiad o anghysondeb yn yr amrywiaeth hwn; ac y mae hyny yn codi yn anghenrheidiol oddiar wirionedd a chywirdeb y disgrifiad. Os gellir cael allan fod y pedwar hanesydd sanctaidd yn syllu ar y Person Mawr oddiar sefyllfau amrywiol, a'u bod, bob un, yn cyfyngu eu sylw at ryw bethau yn neillduol yn ei hanes, yr oedd amrywiaeth yn anocheladwy. Ac y mae lliaws o anhawsderau yn diflanu yn ol fel y rhoddom arbenigrwydd i hyn. Y mae y ceisiadau a wnaed i gysoni amryw ddygwyddiadau, heb dalu sylw i'r egwyddor grybwylledig, yn sicr o ymddangos i bob meddwl craffus, gydag ychydig o ystyriaeth, fel ceisiadau afwyddiannus. Er pob cywreinrwydd a ddangosir yn y ceisiadau hyny, eto nis gall wneyd i'r gwahanol adroddiadau ymasio yn brydferth. Mae yn hawdd gweled na fwriadwyd iddynt gydymwau yn y dull hwnw; ond wrth roddi arbenigrwydd i'r amrywiaeth, y mae yr anghysondeb yn peidio. Cymerer yr enghraifft hon o Da Costa. Y dull cyffredin o gysoni adroddiadau y tri efengylwr cyntaf am y ddau leidr ar y groes (Matth. xxvii. 44; Marc xv. 32; Luc xxiii. 39), oedd fel hyn: Fod y ddau leidr ar y cyntaf yn cablu; ond fod un o'r ddau wedi edifarhau yn ebrwydd ar ol hyny, ceryddu ei gyd-ddyoddefydd, ac ymbil ar Iesu Grist am faddeuant. Y mae yr esboniad yma yn ymddangos yn dra annaturiol; oblegid pe buasai troedigaeth y lleidr yn cymeryd lle mewn dull mor ddisymwth, buasai yn naturiol i Luc, yr hwn sydd yn adrodd manylion yr hanes, roddi gair i mewn o barth i'r cyfnewidiad sydyn—cyfnewidiad mor fawr wedi ei gwblhau mewn ychydig fynyddau—o'r adgasedd mwyaf arswyd-lawr i'r ymlyniad a'r ymddiried mwyaf parchus. A phe buasai y lleidr edifeiriol y fynydd o'r blaen yn cyttuno â'i gyd-ddyoddefydd i gablu yr Iesu, mae yn sicr mai y peth cyntaf a wnaethai fuasai ffieiddio ei hun yn fwy am ei drosedd anfad olaf nag am holl droseddau ei fywyd, ac nid ceryddu y drwgweithredwr arall am bechod ag yr oedd yntau ei hun yn euog o hono. Ond y mae yr adroddiad a rydd Luc yn dangos fod y lleidr edifeiriol, tra yn rhestru ei hun gyda'r lleidr arall ymysg "pechaduriaid," eto yn gwneyd gwahaniaeth rhyngddo ei hun âg ef gyda golwg ar y pechod o gablu yr Arglwydd Iesu. Y mae ffordd Dr. Da Costa o gysoni yr adroddiadau yn ymddangos yn gwbl syml, rhwydd, a boddlonol. Y mae defnyddio y rhif *liosog* mewn dull amhenodol, yn unol â dullwedd y prophwydi, yn nodwedd amlwg yn arddull Matthew. Os ydym i gymeryd y *liosog* yma yn llythyrenol, yn golygu pob un o'r lladron, nid oes un ffordd deg o gysoni yr amrywiol adroddiadau. Ond y mae Matthew a Marc yn llefaru mewn termau cyffredinol am y *math* o bersonau a gablent yr Iesu ar y groes; ac ymysg eraill, dywedant fod y *lladron* yn ei gablu. Y mae Luc, ar y llaw arall, yn rhoddi adroddiad mwy cyflawn o'r amgylchiad, ac yn priodoli y weithred o gablu i un o'r drwgweithredwyr. Ac nid rhyw ddygwyddiad ydyw hyn: nid anafnylder hanesyddol yn Matthew ydyw nodi y *lladron*

* "British and Foreign Evangelical Review," No. 18.

yn y lliosog, pan nad oedd ond un yn euog o'r ymddygiad; ond y mae defnyddio y lliosog yn nodwedd gwastadol a berthynai i'w arddull; a'r rheswm am hynny ydyw fod Matthew, yn gydweiddol â'i amcan o d dangos yr Iesu fel gwrthdrys mawr prophwydoliaeth, yn ymgymeryd yn anfwriadol â dullwedd Hebraidd y prophwydi o lefaru am ddygwyddiadau mewn ymadroddion cyffredinol.

"Oddiar sylwi yn barhans ar hanesiaeth yn ngoleuni prophwydoliaeth y cyfyd y difyng ymddangosiadol (ond ymddangosiadol yn unig) o fanlyrwydd sydd yn hynodi Matthew. Trwy hyn hefyd y gallwn roddi rheswm pahan y defnyddir y lliosrif mor aml mewn lleoedd ag y mae ei gydhaneawyr yn arfer yr unigol. Yr oedd y prophwydi wedi arfer yn eu hysgrifeniadau y lliosrif a arferir gan yr apostol. Yr oeddynt hwy yn rhagfynegi am yr Iachawdwr yr agorai lygaid y *deillion*, y gollyngai yn rhydd y *rhai* rhwym, yr *isabai* y *cloffion*—llefarent am wrthdrysiau ei Iachawdriaeth yn y rhif lloeg. Ac oni chymerodd hyn le yn y cyflawniad? Ya sicr nid oedd gallu a daioni Crist yn foddolawn ar waredu *us* cloff neu *us* dall. Ond yn hyn y mae nodwedd arbenig Matthew, fod pob gwaredigaeth o'r natur yma o eiddo yr Arglwydd Iesu yn galw ger bron ei feddwl *holl gyflawnder* y brophwydoliaeth; yn arddangos iddo mewn un dyn dall wedi ei Iachau gan yr Iesu y cwbl a fymegwyd yn y brophwydoliaeth. Ac fel hyn y tarddodd, oddiar gydwan prophwydoliaeth a hanesyddiaeth, rhagfynegiad a chyflawniad, yr arferiad o'r lliosrif, yr hwn, wrth ei ddeall yn llythyrenol, sydd yn anghywir, ond wrth edrych arno mewn cysylltiad & chynllun ac amban yr Efenfylwr, sydd yn meddu ar yr arwyddocâd a'r gwired mwyaf dwfn."

Yr oedd yn anghenrheidiol wrth fwy nag un hanesydd i ysgrifenu bywgraffiad perffaith o'r Arglwydd Iesu Crist. Nid dygwyddiad ydoedd hyn. Y mae nodweddau y meddwl dynol yn galw am ysgrifau amrywiol. Yr oeddynt yn anghenrheidiol mewn ffordd o dystiolaeth: y mae y pedwar Efenfylwr i'w golygu fel pedwar *tyst*; ac yn yr olwg yma a gymerir arnynt, y mae y gwahaniaeth oedd yn eu hamgylchiadau, yn eu cysylltiad â'r Iesu, y ffaith eu bod yn cadw eu hannibyniaeth fel haneswyr, gan nad pa berthynas oedd rhwng y naill a'r llall fel y cyfryw, a'u bod yn ysgrifenu ar wahanol amserau, i gyfarfod dosbeirith gwahanol o feddylwyr, ac i ateb amcanion priodol iddynt eu hunain, tra yn cydwasanaethu i'r amcan mawr cyffredinol, i'w cymeryd i ystyriaeth. Y mae nifer y tystion yn lliosogi grym y dystiolaeth; ac y mae y gwahaniaethau hyn a berthynent i'r pedwar *tyst* yn ei chwahanegu yn fwy. Os edrychir ar hanes yr Iachawdwr fel *arlun* o'i berson a'i gymeriad, y mae yn amlwg fod mwy nag un bywgraffydd yn anghenrheidiol. Yr oedd yr amrywiaeth yn hanfodol er sicrhau yr uaoliaeth dynaf. Gallasai cysoudeb arwynebol gael ei sicrhau i raddau uwch gan un hanesydd, ac mewn un ysgrif; ond buasai *yr un* yn cael ei aberthu am y *cysw*; buasem yn amddifad o ddarlun cyflawn o'r Person Mawr. Yr oedd yn anfeidrol ry fawr i un o'i ganlynwyr, a hynny yn ngoleuni yr Ysbryd Glân, i dderbyn i fewn ar ddrych ei feddwl ddarlun cyflawn o hono; ac ni buasai un o'r drychau yn taffu i'r byd adlewyrchiad teilwng o'i ogoniant. Yn unol â'r syniad cyffredin am ysbrydoliaeth, sef nad ydyw y goleuni a'r arweiniad dwyfol yn gwneyd i ffordd â nodweddau meddyliol, a chwaeth a theithi arbenig yr ysgrifenydd, buasai yn amhosibl dyrchafu a donio *us* o apostolion Crist fel ag i'w alluogi i gyflwyno i'r eglwys ddarlun cyfan, perffaith, o'r Duwddyn. Y mae yn anghenrheidiol wrth ryw deithi yn meddwl a chalon, y bywgraffydd a fyddo yn ei gylmu wrth, ac yn ei alluogi i ddeall,

* Tu dal. 20.

a chydymdeimlo â, phob dawn, a rhagoriaeth, gallu, a theimlad, pob gweithred a phob syniad, o eiddo y gwrthddrych. Yn awr, yr oedd "y dyn Crist Iesu" yn ddyn perffaith. Yr oedd y ddynoliaeth yn ei Berson ef, nid yn unig yn y sancteiddrwydd puraf y gall ymestyn ato, ond yn y perffeithrwydd a'r cyfanrwydd naturiol uchaf; ond nid oedd neb o'i ganlynwyr felly; nid oedd yr un o honynt wedi esgyn y gris uchaf y gall dyn ei gyrhaedd; nid oedd y dyn yn neb o honynt wedi tyfu eto hyd at fesur ei faintioli, ymha olwg bynag yr edrychir ar gyfanrwydd a pherffeithrwydd dynoliaeth. Os oedd y naill yn ddyd am waith, wedi ei gymhwyso i waith, ac fel y cyfryw ei galon yn dueddol i gydymdeimlo â'r gweithiwr, ac i ymofyn am y gorchestol, yr oedd yn rhaid myned at un arall i gael y dwfnfeddyliwr, y dyn a ymgollai mewn myfyrdod—a anghofiai y weithred yn y drychfeddwl mawr, ysbrydol—a gollai y gweledig yn yr anweledig. Os ceid un yn edrych yn ôl ar yr hyn a aeth heibio, ceid un arall yn fyw yn hytrach i'r presennol, tra y syllai un arall i'r dyfodol. Yn y gymdeithas hono, fel ymhob cymdeithas arall, yr oedd pob un yn meddu ar ei nodweddau priodol ei hun; a pha bethau bynag a ddisgynent dan eu sylw, yr oedd naws cydymdeimlad a ffurf meddwl y naill yn dwyn ei sylw at un peth, ac eiddo y llall yn caethiwo ei feddwl at beth arall. Felly, i wneyd un bywgraffiad cyflawn a pherffaith o'r Iesu, buasai yn rhaid cael un dyn yn deall, ac yn cydymdeimlo â'r, cwbl yn ei hanes; buasai yn rhaid i'w ddynoliaeth fod yn ymlyu ar y perffeithrwydd a'r cyfanrwydd oedd yn gosod tegwch digymhar ar ei ddynoliaeth Ef; ond ofer yw ymofyn am y *dyn* hwn ymysg y deuddeg; gan hyny yr oedd cael *un* hanes perffaith yn annichonadwy. Ond yn y pedwar y mae genym *un*, a hwnw yn un yn yr ystyr uchaf; y mae yr un yn y lliaws, ac yr oedd y lliaws yn anghenrheidiol er ffurfio yr un. Adnabyddwyd yr unnoliaeth yma gan yr eglwys yn fore; a phrawf o'hyny ydyw fod y *Pedair* Efenfyl yn cael eu galw ganddi yr *Efenfyl*. Tra yr oedd y Tadau Eglwysig yn y canrifoedd cyntaf yn canfod yr amrywiaeth yn yr efenfylau, ac weithiau yn arddangos yr amrywiaeth hwnw mewn ffugyrau rhy ddychymyngol—yn gweled yn yr Efenfylwyr "y dyn," "y llew," "yr fch," a'r "eryr," &c.—eto yr oeddynt yn canfod yn y pedwar ryw undeb, ac yn eu hysgrifeniadau ryw un rhwymyn a'u cysylltent yn un "*Evangeliwm*."

Cnawdoliaeth, Bywyd, ac Angeu Mab Duw ydyw canolbwyt hanesiaeth—bywyd hanes uchaf y byd. Y cyfryw ydyw gallu ac effeithiolrwydd y ffeithiau mawrion hyn fel y maent wedi gosod yr argraff ddyfnaf ar holl oesoedd y byd, yn ôl ac ymlaen. Yr oedd rhai o belydrau "*Haul Cyflawnder*" yn treiddio trwy gaddug dudew y byd Paganaid am yr oesoedd a ragflaenent gyflawnder yr amser. Yr oedd y cenedloedd a orweddent y tu allan i derynau teyrnas Dduw yn dyheu ac yn ymbalfalu am y goleuni hwnw nas gallasai dim ond cnawdoliad y Gair, yr hwn oedd trwy yr holl oesoedd blaenorol yn "*oleuni dynion*," ei wasgar ar y byd a orweddai dan lëni tywyllwch; ac felly, yr oedd y Messiah, pan ddaeth, yn "*ddymuniant yr holl genedloedd*:" yndo ef yn unig yr oedd y pethau hyny i'w cael am y rhai yr oedd y byd yn ymofyn ac yn ymbalfalu yn ofer. Llauer mwy yr oedd cyflawnder yr amser yn taflu ei ddylanwad yn ol ar hanes yr Hebrëaid yn yr oesoedd o'r blaen: hyn oedd yn *ffurfio* eu hanes hwy; yr addewid am y Messiah oedd sylfaen y cyfammod oedd yn rhwymyn eu hundeb cenedlaethol, a'r dysgwyliad am dano oedd y teimlad cryfaf yn meddwl y

genedl. Y mae deall eu hanes yn anhosiabl ar wahân oddiwrth hyn—ie, yn anhosiabl heb roddi yr arbenigrwydd penaf i hyn. A chan fod yr oesoedd blaenorol yn derbyn eu carictor gan y dysgwyliad am y Messiah—ganddo ef fel yr “Un oedd ar ddyfod,” y mae yn naturiol dysgwyl y buasai i’w fywyd ef—i’r *ffeithiau* am dano fel Messiah wedi dyfod—wneuthur yr argraff ddyfnaf ar, ie, trwyadl newid carictor, ei oes ei hun, a’r oesoedd agosaf at y dygwyddiadau,—a chyfranu bywyd newydd i hanes dynolryw am holl oesoedd y byd hyd ddiwedd amser. A chan fod y fath effeithiolrwydd a dylanwad anghymharol gan fywyd a marwolaeth Iesu Grist ar ddynolryw trwy yr holl oesoedd—gan mai y gwirioneddau am dano Ef ydyw y gallu cryfaf yn holl hanes y byd, y mae hyn yn ein harwain i ymofyn am ryw berthynas agos a goruchel rhwng y Person hwnw a’i hanes â Duw, â’r nefoedd, â thragywyddoldeb. Nis gallasai neb ond Person yn sefyll mewn perthynas agosach na pherthynas créadur â Duw, un wedi bod am dragywyddoldeb yn mynwes Duw,—Un oddiuchod,—Person yn meddu adnabyddiaeth berffaith o sylweddau y byd anweledig, a holl nerthoedd a dylanwadau y byd hwnw wedi eu hymddiried iddo i’w gweinyddu a’u trin yn ol ei ewyllys, wneuthur y fath argraff ddofn ar amser a’i holl amgylchiadau. Rhywbeth y tu allan i’r byd, uwch na’r byd, cryfach na’r byd, a ddichon roddi cyfeiriad newydd i’r byd; yn y thragywyddol yn unig y mae gallu digon mawr i newid yr amserol. Y Créawdwr yn unig a all gyfranu natur a charictor gwahanol i’r créedig. Dyma yr hyn a wnaeth y Dyn Crist Iesu. Yr oedd cyflawnder yr amser yn gyfnod créadigaeth mwy pwysig nag oedd dechreuad amser. Dyma gyfnod créad “y nefoedd newydd a’r ddaear newydd,” mewn cymhariaeth i’r rhai ni chofir ac ni feddylir am y rhai cyntaf. Yr oedd bywyd yr Iesu yn fywyd o weithio; ac nid yn fywyd o waith cyffredin, nid gwaith Prophwyd, ac nid gwaith Diwygiwr yn unig, ond gwaith Créawdwr: “Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydyw finnau yn gweithio.” A gwaith créadigaeth oedd gwaith y ddau.

Yn awr, mewn trefn i osod allan ddarluniad cyflawn o fywyd Iesu Grist, gallasem yn naturiol ddysgwyl canfod y perthynasau hyn yn cael eu dwyn ger bron y darlennydd, a gweled y Messiah fel canolbwynt holl amser, fel y Person a gyflawnai ynddo ei hun ddysgwyliadau y mynedol, fel ffynnonell y gallu a newidiai nodwedd y presennol, ac fel cartref y bywyd newydd oedd i adffurfio hanes dynolryw yn y dyfodol. Yn awr, y mae yr esbonwyr goreu ar yr efengylwyr yn barnu fod y cysylltiadau hyn yn hawdd i’w holrhain ynddynt. Yn Matthew, yr ydym yn cael bywyd ein Hiachawdwr yn cael ei gysylltu â’r oesoedd o’r blaen. Dengys ef fel y mae dysgwyliadau a phrophwydoliaethau yr Iuddewon wedi eu cyflawni yn Nghwrth-ddrych mawr ei hanes. Yn ei efengyl ef y mae Deddfwr Mawr y cyfammod newydd, Brenin galluog y gwir Israel, a’r Prophwyd a gysgodid gan Moses, yn cael ei arwain ger ein bron. Perthynas Cristionogaeth âg Iuddewaeth, y naill yn berffeithiad o’r llall, ydyw drychfeddwl mawr Matthew; ac yn y wedd yna y cymerai ef olwg ar holl weithredoedd a geiriau Iesu Grist. Bwriadai ef ei efengyl i’r “Israeliad yn wir,”—cyfaddasai hanes ei Arglwydd at feddwl, awyddfryd, a chwaeth y duwionol a ddysgwyliant am deyrnas Dduw. Ac felly, Mab Abraham, a Mab Dafydd, y mae efe yn weled yn y dyn Crist Iesu. Yn Marc, drachefn, y mae y *presennol* yn cael mwy o arbenigrwydd: *gwaith* yr Iesu ydyw baich yr efengyl hon. Y mae hi wedi ei chyfaddasu at yr oes yma un y cafodd ei hysgrifenu.

Gwaith oedd nodwedd penaf cymeriad y Rhufeiniaid. "Tra yr oedd eraill yn siarad, yr oedd Rhufain yn gweithio;" a chwestiwn cyntaf y Rhufeiniwr am yr Iesu a fuasai, nid, Beth oedd ei athrawiaeth—pa beth a ddysgodd?—dyna a ofynasai y Groegwr meddylgar,—ond, Pa beth a wnaeth? Dangoser i mi wirionedd ei hawliau trwy weithredoedd mawrion. I'r cyfryw genedl y mae efengyl Marc wedi ei chyfaddasu. Gweithredoedd yr Iesu a ddygir i sylw ynddi: y mae yn ferach nag un o'r efengylau eraill; ac fel y cyfryw yn fwy pwrpasol i'r meddwl gweithgar, ymarferol. Ychydig mewn cymbariaeth o ymadroddion yr Iesu, ac nid oes braidd yr un o'i bregethau meithaf yn cael eu croniclo gan Marc. Ei actau, y gallu oedd yn cydfyned â'i weinidogaeth, a arddangosir ganddo. Dechreu a ddiymdroi gyda gweithredoedd ei fywyd. Y mae y gair "yn ebrwydd" (*εὐθέως*), yr hwn sydd yn dynodi amledd gweithredoedd yr Iesu, yn dygwydd mor aml yn efengyl Marc ag yn holl lyfrau y Testament Newydd gyda'u gilydd. "Y mae Marc (Bengel), yn dra hoff o'r rhagferf hwn. Y mae yn ei arfer gyda phrydferthwch mawr i osod allan, yn enwedig yn y ddwy bennod gyntaf, yrfa gyflym yr Iesu, yr hwn oedd yn barhâus yn cyrchu at y nôd, ynghyd a'r cyfleusderau a ymglyfwynent yn wastadol o'i flaen. Nid yn araf yr elai ef rhagddo yn ei weithredoedd."

Y mae y drydedd efengyl, drachefn, yn dwyn perthynas agosach â'r holl fyd, ac felly yn fwy cyfaddas i gyfarfod â'r dyfodol. Y mae mwy o gyffredinolrwydd ac eangder yn perthyn iddi. Y mae cydymaith yr Apostol Paul yn edrych ar yr Arglwydd Iesu o'r safle ag y buasai efe yn edrych arno pe buasai yn llygad-dyst o weithredoedd yr Iesu yn nyddiau ei gnawd. Nid Iesu Grist fel "gweinidog yr enwaediad," fel y cyflwynir efer ein bron gan Matthew, ydyw Crist y trydydd hanesydd; ac nid Crist y gorchfygwr, fel yn Marc; ond Iachawdwr y byd; cymwynaswr pawb: y mae haelfrydedd cyffredinol yr Iesu yn cael mwy o le yn ei efengyl ef; ynddi hi, ym-drinir â'i wyrthiau o iachâd, nid yn gymaint fel arddangosiadau o allu dwyfol, ac o haelfrydedd dwyfol; nid yn gymaint fel profion o Fessiaeth yr Iesu, âg fel tystiolaethau o ras a daioni anfeidrol ei galon. Ac, yn unol â hyn, yr ydym yn cael adroddiadau yn Luc na cheir mo honynt yn yr un o'r efengylau eraill. "Y mae Luc yn ymryddhâu yn llwyrach oddiwrth bob gwahaniaethau culion. Sonia am y deg dysgybl a thriugain i'r byd, tra na sonia Matthew ond am y deuddeg i Israel (Luc x. 1); sonia am y Samaritan, yr hwn yn unig a arddangosodd gymwynasgarwch—ac am yr un o'r deg a ddychwelodd i dalu diolch; ac eiddo Luc, a Luc yn unig, ydyw dammeg y Mab Afradlawn, yr hon sydd arni ei hun yn 'Efengyl mewn Efengyl,' fel y galwyd hi yn dra phriodol." Yn Luc, yr ydym, felly, yn cael darluniad o'r Gwrthddrych Mawr, nid yn ei berthynas â dosbarth, nid yn ei berthynas âg Israel, nac â'r oes yr oedd yn byw ynddi, ond yn ei berthynas â *dyn* ymhob oes a chenedl.*

Ond nid oedd y darluniad o'r Person mawr eto yn gyflawn. Yr oedd eisieu efengyl yn yr hon y caffai dyhead dyfnaf y galon, ac ymchwiliadau uchaf y rheswm, eu llawn ddigoni. Yr oedd eisieu efengyl, fel y sylwa un awdwr, yr hon a ymgysylltai â pha beth bynag a ddygasai sylw meddwl athronaidd y pagan a'r Iudew, yr hon a gywirai yr hyn oedd gyfeiliornus, a gyflenwai yr hyn oedd ddiffygiol, ac a attegai yr hyn oedd wir. Yr oedd ym-

* Gwel "*Westcott's Elements of Gospel Harmony*;" a "*Trench's Hulsean Lectures*."

chwillad dwfn yr ychydig i guddfeydd y galon wedi deffro ynddynt y teimlad dwysaf o anghen, yr hwn deimlad nis gallasai cael neb llai na Duw ei foddhâu. Ymofynent hwy am y Dwyfol a'r Tragwyddol yn mywyd y dyn Crist Iesu. Nid actau yn gymaint a'u boddlonent hwy: nid y gwyrthiau a'r arwyddion a geisid gan y "genedlaeth ddrwg a godinebus," gan y werin gnawdol ac iselfryd, a gyfarfyddent âg awyddfryd dwys y dosbarth uchaf o ddynion. Ymofynent am y dwyfol yn y gweithredoedd, ac am yr ysbrydol yn y geiriau. Yr Iesu yn ei berthynas oruchel â'r Duwdod, fel y tragwyddol Air, yn llanw holl amser a thragywyddoldeb ar unwaith, oedd y Person ag yr oedd eu cyflwr moesol hwy yn galw am dano. Cyfenwir yr anghenion hyn gan Iesu Grist y bedwaredd efengyl. Yn Ioan y mae yr eryr, yr hwn sydd yn ymddyrchafu i'r uchelion. Dechreuaf ef ei efengyl trwy ddangos fod Gair Duw, am yr hwn yr ymbalfalai dynion, ac y siaradent gymaint trwy yr oesoedd, yn Fab Duw hefyd; ei fod nid yn ddeilliad neu ddylanwad oddiwrth Dduw, ond yn Berson gwahaniaethol; a'i fod wedi ei wneuthur yn gnawd, a thrigo yn ein plith ni, yn llawn gras a gwirionedd.*

Y mae y nodweddau hyn a berthynent i'r Pedwar Efengylwr, ynghyd hynodion eraill yn eu hamcan, eu dull o feddwl, a'u harddull, yn cael eu trin yn dra meistrolgar gan Da Costa. Ymysg hynodion eraill yn Efengyl Matthew, y mae yn sylwi ar y rhai canlynol:—Gosodir y Messia'h allan fel y Prophwyd Mawr y rhagfynegwyd am dano—fel Brenin ar Sion;—y mae y bregeth ar y mynydd yn cael ei chroniclo yn fwy cyflawn na chan un efengylwr arall, yn yr hon y mae "cyfraith Crist" yn cael ei chyferbynu, ac ar yr un pryd ei harddangos mewn cysondeb, â chyfraith Moses;—y mae yn cysylltu breniniaeth Crist â holl brophwydoliaethau a hanes Israel.

Am efengyl Marc, sylwa ein hawdwr ddarfod ei hysgrifenu dan arolygiaeth Pedr. Wrth ei chymharu âg efengyl Matthew, y mae yn fwy cryno, ond mewn rhai manau yn fwy manwl;—y mae y dyfyniadau a wna Matthew o'r prophwydi yn cael eu gadael allan; cynnwysiad y ddwy bennod gyntaf yn Matthew a Luc heb fod yn Marc; a'r bregeth ar y mynydd, oddi-eithr rhai ymadroddion cyffelybiaethol; ni chofnodir ychwaith y gwaeau a gyhoeddir uwchben y Phariseaid, Corasin, a Bethsaida, &c. Y prif wahaniaeth rhyngddo â Matthew ydyw ei fod yn rhoddi adroddiad helaethach o fanylion amgylchiadau:—

"Y mae Marc yn cyfleu dygwyddiad neu ddammeg ger ein bron gyda'r fath fanylder a bywiogrwydd ag sydd yn nodweddiadol o hono ef, yn fynych trwy ddodiad rhai geiriau i fewn; weithiau trwy chwaneu un gair, neu ei gryfhâu, neu ei fynychu; ac weithiau trwy gyflêad gwahanol ar eiriau mewn brawddeg a arferwyd yn fisenorol gan Matthew."

Fel enghreifftiau o'r neillduolion hyn, y mae Da Costa yn crybwyll y rhai canlynol;—Y mae yn arferiad gan Marc i roddi *enwau* a *chyfenwau*, a phethau eraill perthynol i bersonau, y rhai a grybwyllir mewn dull mwy cyffredinol gan Matthew. Marc yn unig sydd yn rhoddi enw y dyn dall yr agorwyd ei lygaid yn gyfagos i Jericho (x. 46)—*Bartimeus*, *mab Timeus*; rhydd enw yr archoffeiriad a roddasai y bara gosod i Dafydd—*Abiathar*. Yn Marc cawn am y waith gyntaf enw Iuddewig Matthew y publican, ac enw ei dad (ii. 14), *Lefi*, *mab Alpheus*. Buasai y cyfenw, *Boanerges*, meibion y daran, ar goll oni bai am efengyl Marc. Yr efengylwr hwn yn

* Ar nodweddau Efengyl Ioan, gwel Rhagdrasthawd y Parch. L. Edwards, M.A., Bala

unig sydd yn ein hysbysu fod Simon o Cyrene yn *dad i Alexander a Rufus*, personau tra adnabyddus ymysg y Rhufeiniaid Cristionegol (xv. 21; Rhtf. xvi. 13). Yn Marc y cofnodir y geiriau Aramaeg a lefarwyd gan yr Iesu, *Talitha cwmi* (v. 41); *Ephphatha* (vii. 34); a'r Syriaeg Abba (xiv. 36). Yn hanes y dymhestl ar Fôr Tiberias, yr oll a wna Matthew a Luc ydyw mynegu fod yr Iesu â'i air wedi "ceryddu y gwynt a'r môr;" ond y mae geiriau Crist, y cerydd ei hun, yn cael eu hadrodd gan Marc,—"*Gos-tega, dystawa*." Ychydig grybwyllion, mae yn wir, a rydd yr efengylwr hwn am demtiaid Crist; ond dywed un gair hynod ddeogristiaidol na chrybwyllir gan yr un o'r lleill, "*Ac yr bedd efe gyda'r gwylltfflod*." "Yr ydym ar unwaith yn teimlo yr argraff a wneir gan y chwaneogiad byr yma. Ond yw yn galw ger bron ein meddyliau y dyn cyntaf yn Mbaradwys, yr hwn, trwy ei anufudd-dod, a gollodd ei arglwyddiaeth ar y byd anffeilaidd,—ac yn gyferbyniol ag ef, yr Ail ddyn ymysg gwylltfflod yr anialwch, yn adfeddiannu yr arglwyddiaeth hono trwy ufudd-dod a thrwy air Duw."

Y mae y drydedd efengyl yn hawdd ei hadnabod fel ysgrif o eiddo Luc, am yr hwn y sonir drachefn a thrachefn yn epistolau Paul fel un o'r Cenedloedd, a physygrwr wrth ei alwedigaeth. Adnabyddir hyn yn amlwg yn ei Efengyl ac yn yr Actau. Y mae Luc yn disgrifio y clefydau gyda mwy o fanlyrwydd. Gwel iachâd chwegr Pedr; y wraig oedd wedi cyd-grymmu (Luc xiii. 11); y parlys (xiv. 2). Ac yn gyffelyb yn yr Actau, y mae yn rhoddi disgrifiad manwl o afiechyd Publius (xxviii. 8), "cryd a gwaedlif" (Gr. *δυσεννοια*); ac o afiechyd marwol Herod Agrippa. Luc yn unig sydd yn crybwyll am iachâd Malchus, am gwsg y dysgyblion yn Gethsemane fel yn cyfodi oddiar iselder ysbryd. Y mae efe yn symio i fyny amcanion anfoniad y deuddeg yn y ddau ymadrodd "pregethu teyrnas Dduw, ac *iachdu y cleifon*." Ac fel Meddyg, neu Iachawdwr yr Israel, y mae Luc gydag ymhyfrydiad yn portreiatu y Gwarddwr. Tra mae Luc yn talu gwarogaeth i'r genedl Iuddewig, ac yn cydnabod ei huchafiaeth, y mae hefyd yn ceryddu ei hunangyffawnder a'i balchder. Tra yn caru Jerusalem, eto y mae yn crybwyll y barnau a gyhoeddwyd arni, "hyd oni chyflawnid amser y Cenedloedd." Llefara am y bendithion oedd yn nghadw i'r Cenedloedd (ii. 32; iii. 23—28; iv. 25, 27). Nodweddir ei efengyl gan esiamplau o hynawsedd a chymwynasgarwch Crist: efe sydd yn rhoddi disgrifiad o fywyd yr Iesu yn y gair "a gerddodd oddiamgylch gan wneuthur daioni." Sonia lawer am gyfathrach Iesu Grist â phublicanod a phechaduriaid; llefara am y Samariaid mewn ysbryd rhydd; a'r un modd, coffâ gyda thynnerwch am y tlodion, gweddwon, plant bychain: ac yn yr efengyl ag y rhoddir mwyaf o arbenigrwydd i dynnerwch a haelfrydigrwydd yr Iesu y lleferir mwyaf am *weddi*;—cyflwynir Iesu Grist ger bron fel gweddiwr mawr. Y mae yr elfen hanesyddol yn fwy arbenig yn Luc nag yn yr efengylwyr eraill; y mae yn coffâu oedran yr Iesu, ac yn edrych ar y dygwyyddiadau yn fwy manwl yn eu trefn amseryddol. Cyfeiria yn amlach at bersonau a dygwyyddiadau cyfoesol, megys Herod, Archelaus, Antipas, Philip, Chusa, a Joanna, y gyflafan a gyflawnwyd gan Pilat, y tŵr yn Siloam, &c. Weithiau y mae yn adferu yr amgylchiadau i'w trefn amseryddol, oddiwrth ba un yr ymadawsai Matthew er mwyn cyrhaedd ei amcan neillduol ei hun,—megys yn ei adroddiad o'r bregeth ar y mynydd, gweddi yr Arglydd, dammeg yr hedyn mwstard, a dammeg y surdoes, y rhiagfynegiad am ddinystir Jerusalem. Fel cydynaith Paul, y mae yn fytych;

mewn syniadau ac iaith, yn dwyn cyffelybrwydd i Paul yn ei lythrau. Wrth ei gymharu â Matthew, y mae yn cronicle lliaws o'r un ffeithiau, eto gyda gwahaniaeth—yn dangos ei gydnabyddieth â'r efengyl henaf, ac ar yr un pryd yn cadw ei annibyniaeth ei hun wrth ysgrifenu. Yn ol Da Costa, ymddengys fod Luc yn bentyca y manylion yn fynych o Marc, tra y mae yn dilyn Matthew yn y prif ffeithiau, ac yn cymeryd o'r ddau yr hyn a atebai i'w amcan neillduol ei hun.

Am y bedwaredd Efengyl, gwna ein hawdwr y sylwadau canlynol;—Yr un dystiolaeth sydd gan Ioan a chan y tri eraill; ond y mae fel yr haul, pan welir ef yn wybren Itali neu Groeg, yn fwy dysglar a gogoneddus nag y mae yn ymddangos yn yr un o'i gyd-dystion. Llais o'r nef ydyw efengyl Ioan. Y mae yn fwy *uchel*, ac ar unwaith yn fwy *dwfn*. "It is a gospel from the *height*, and likewise from the *depth*." Nid yw yn dechreu, fel yr eiddo Marc, gyda'r bedydd yn yr Iorddonen; nac fel yr eiddo Matthew, gyda haniad ein Hiachawdwr o Abraham a Dafydd; nac ychwaith fel yr eiddo Luc, gyda'r addewidion cyntaf o barth ein Harglwydd a'i ragredeg-ydd;—ond o gyfnod *cyn bod y byd*. "Yn y dechreuad yr oedd y Gair" ydyw ymadrodd cyntaf ei efengyl; ac yn unol â hyn, Ioan sydd wedi cadw i ni dystiolaethau yr Iesu ei hun am ei gynhanfodiad tragrywyddol; "Cyn bod Abraham yr wyf fi" (viii. 58); "Myfi a'r Tad un ydym" (x. 30); "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad" (xiv. 9). Yn yr efengyl hon y cawn gyffes Thomas, "Fy Arglwydd a'm Duw;" ac yn ysgrifeniadau yr un apostol y ceir tystiolaeth y Cyfryngwr, pan mewn gogoniant, am dano ei hun, "Myfi yw Alpha ac Omega, y cyntaf a'r diweddaf" (Dad. i. 17). Ond tra nad oes neb o'r ysgrifenwyr sanctaidd yn ymgodi mor uchel i gymundeb â'r Cyfryngwr yn ei ogoniant dwyfol a digrëedig, nid oes neb ychwaith yn gallu cloddio mor dâfn ag ef yn ei gymundeb â'r un Person, a'i adnabyddiaeth o hono, yn ei ddarostyngiad. "Ni ddygodd neb dystiolaeth i wirioneddolrwydd ei ymgnawdoliad mewn ymadrodd sydd ar unwaith yn cynnwys cymaint o ddyfnder a symledd, yn ei ystyr, "Y gair a *wnaethpwyd yn gnawd*;" nid oes neb yn cyflwyno y Gair ymgnawdoledd ger ein bron, gyda'r fath gyflawnder, mewn cynifer o agweddau, ag Ioan. * * * Yr ydym yn yr efengyl hon yn gweled yr Iesu yn cael ei amgylchu gan ogoniant annesgrifiadwy yn yr oll a ddyoddefa ac yn y cwbl a lefara. Ymddengys fel pe bae y dysgleirdeb mawr, o'r hwn yr oedd Ioan yn llygad-dyst ar y mynydd sanctaidd, wedi taflu bywyd ac ysplander i'w holl ddarluniadau o'r Cyfryngwr. Ar bob mater y cyffyrdda âg ef, y mae ei ymadroddion yn cael eu nodweddu gan ryw arucheledd nefol." Yr hyn a elwir yn *dröedigaeth* gan ei ragflaenoriaid, a ddynodir ganddo ef yn *eni drachefn* ac yn *eni o Dduw*. *Dyrchafu*, fel dyrchafu aberth, ydyw y *croeshoeliad*; *Oen* y gelwir y *croeshoeliedig*.

Heblaw prif nodweddau Efengyl Ioan, y rhai a gydnabyddir yn gyffredin, y mae Da Costa yn sylwi ar hynodion eraill llai pwysig, megys ei waith yn rhoddi i mewn, rhwng cromfachau, ymadroddion eglurhâol—"Hyn a ddywedodd efe am ei gorff"—"Hyn a ddywedodd efe am yr ysbryd"—"Am ei fod yn gwybod beth sydd mewn dyn"—"Er na fedyddiasai yr Iesu ei hun"—"Hon oedd y Fair"—"Hwn oedd y Nicodemus"—"Hyn a ddywedodd efe gan arwyddo o ba fath angeu y byddai farw;"—ei ddefnyddiad e gysyllteiriau rhesymiadol, megys "Am hyny," &c., yn fwy nag o rai hanesyddol, fel, "yna," "pan," &c., y rhai a arferir fynychaf gan yr efengyl

wyr eraill ei ddewisiad o ddygwyddiadau mawrion;—nid yw gwrthiau Crist yn Ioan ond ychydig, ond yr oeddynt y *prif* wrthiau. Yn yr Efengyl hon yr arferir y geiriau “Tad,” “Y Tad,” “Fy Nhad,” fynychaf. Y mae y geiriau “y goleuni,” “gwirionedd,” “bywyd,” yn hoff eiriau gan Ioan. Efe yn unig a arferir y teitlau “Uniganedig,” ac “Uniganedig Fab,” tra y mae “y Mab” a “Mab Duw,” yn dygwydd yn ei Efengyl yn amlach nag mewn un Efengyl arall. Y mae yn hoff o groniclo ymadroddion rhai eraill heblaw yr Iesu—Ioan Fedyddiwr a Nathanael, y dyn dall a'i rieni, Thomas, Mair Magdalen. Y mae yn talu sylw i bethau bychain—“llawer o laswellt,”—“dyfroedd lawer oedd yno,”—“llongau eraill,”—“torth haidd;”—y mae yn nodi y diwrnod a'r awr; dywed beth oedd nifer y pysgod. Rhaid, medd ein hawdwr, fod Ioan yn gydnabyddus â'r efengylau eraill; a gellir edrych ar ei eiddo ef yn gyfuniad o ragoriaethau y tair arall, ac yn cynnwys ynddi elfenau chwanelgol na pherthynant iddynt hwy. Y mae Matthew, Marc, Luc, Paul a Phedr, yn cydgyfarfod yn Ioan. Y mae yr elfen brophwydol, yr hanesyddol, yr athrawiaethol, a'r ymarferol, yn cael eu cyfuno yn y bedwaredd Efengyl. Sonia am y “deuddeg,” ond nid yw yn rhoddi rhestr o honynt; nid yw wedi rhoddi llinach yr Iesu, na chofnodau o amgylchiadau ei enedigaeth a'i fagwraeth; ond dywed fod dynion yn ei alw “Iesu o Nazareth, mab Joseph;” nid oes ganddo un enghraifft o waith Crist yn bwrw allan gythreuliaid; ond cynnwysa ei holl wrthiau yn yn y llinell hono, a mwy na hyny, yn ngair Crist ei hun, “Bwrir allan dywysog y byd hwn.”

Ar ol gorphen ei ymchwiliad i hynodion y Pedwar Efengylwr, y mae Da Costa yn gosod y lawr yr egwyddorion yr edrycha arnynt fel ffrwyth ei ymchwiliad. Hona fod yr efengylwyr cyntaf yn adnabyddus i'r rhai diweddaraf; y rhai a gymerent eu rhyddid i ddethol allan o honynt, ond yn gwbl anni-bynol er hyny, neu yn hytrach, mewn dibyniad ar arweiniad yr Ysbryd. Fel rheol gyffredin, y mae Matthew yn gyfoethog o faterion, ac yn ymhelaethu mewn geiriau; y mae Marc a Luc yn gwneyd mwy o fanylion; tra y mae Ioan yn gyflawn yn y naill a'r llall, ac eto yn gwahaniaethu oddi-wrthynt oll. Y mae Matthew yn cyflwyno yr Iesu ger ein bron fel Brenin a Phrophwyd, Luc fel Brenin ac Offeiriad: ysgrifena Matthew fel Israeliaid i'r Israeliaid; Marc fel Rhufeinwr (a milwr Rhufeinaidd, fel y tybia ein hawdwr) i'r Rhufeiniaid, Luc fel Groegwr i'r Groegwyr, ac Ioan fel *dyn*, o galon eang a chydymdeimlad cyffredinol, fel y tebycaf i'w Athraw, Mab y dyn, o'i holl ddysgybllion,—i Iuddewon a Chonedloedd, i bob dosbarth mysg pob cenedl, i'r meddyliau mwyaf dwfnfyfyrgar ac ysbrydol, ac ar unwaith i holl aelodau yr eglwys gyffredinol, gan nad beth fyddo graddau nerth a threiddgarwch eu hamgyffred; yr ysgrifenydd mwyaf dwfn ydyw yr ysgrifenydd mwyaf ymarferol; tra mai yn Efengyl Ioan y ceir y mŵngloddiau mwyaf cyfoethog, y mae eto ynddi luniaeth ysbrydol yn ymyl y rhai bychain, ac ar ei hwynob gyfoeth o wirioneddau a phrydferthion sydd yn ei gwneyd y rhan fwyaf cysegredig ac anwyl yn yr holl Ysgrythyr gan wir blant Duw. Yr anwylaf o ddysgybllion yr Iesu ydyw yr anwylaf, fel awdwr, gan ei ganlynwyr.

Er ein bod yn barnu fod gwaith Da Costa yn cynnwys cyfoeth mawr o wybodaeth iachus am y Pedair Efengyl, yn ffrwyth ymchwiliad a myfyrdod dwys, yn arddangos graddau uchel o allu i ganfod gwahaniaethau ac i roddi rheswm am danynt, ac yn ychwanegol at y cymhwysderau hyn, ei

fod yn feddiannol ar barch gwirioneddol i'r ysgrifeniadau sanctaidd, a geyngeddrwydd dyladwy wrth fyned uwch eu pen—sto prin y gallwn edrych ar y gyfrol werthfawr hon yn rhydd oddiwrth feisiau pwysig. Yr oeddydym yn tybied fod yr awdwr yn llawer rhy ddychymyngol pan yn yndrin â lliaws o bethau; ac ymddangosai fel yn tynu casgliadau oddiwrth osodiadau rhy weiniaid, o leiaf oddiwrth nifer rhy fach o ffeithiau. Heflaw hyny, prin y gallwn gydfyned yn hollol âg ef yn ei olygiadau am eiriau yr Iesu fel yr adroddir hwynt gan Ioan. Y mae, dybygem, yn cario y syniad fod Ioan wedi rhoddi lliw ei feddwl ei hun ar ymadroddion Crist yn rhy bell. Haws genym ni gredu mai geiriau a syniadau Iesu Grist ei hun ydynt, ac nid ei eiriau a'i syniadau wedi disgyn i feddwl Ioan, fel hadau meddwl, ac ymddangos yn ei efengyl yn ol y ffurf a gawsant yn ei feddwl ef. Nid yr hyn a wnaeth Plato i addysg Socrates a wnaeth Ioan âg eiddo ei Feistr. Nid Ioan sydd yn llefaru, ond yr Iesu: nid meddwl Ioan sydd genym, ond meddwl Crist; nid derbyn eu ffurf a'u tôn gan feddwl Ioan a ddarfau geiriau Crist; ond ei eiriau ef a roddes ei ffurf i feddwl Ioan. Ond nis gallwn yn bresennol aros yn hŵy gyda'r materion hyn; yn unig cymerwn y cyfeusdra, wrth roddi ein hysgrifell heibio, i argymhell astudiaeth o'r Efengylau—Sancteiddiolaf Teml Dadguddiad—ar ddarllenwyr ieuanc meddylgar; a gallai gwaith Da Costa fod yn gynnorthwy gwerthfawr iddynt.



IWERDDON.

Y MAE cyfnewidiad amgylchiadau yn rhoddi pleser neu boen i ni wrth ddynesu at lawer pwnc, ac yn enwedig wrth fyfyrio ar wledydd a'u preswylwyr. Y fath feddyliau cymysgedig a chwyddent ein mynwesau ychydig iawn o flynyddoedd yn ol wrth y geiriau Rwssia, y Crimea, Môr Asoff, a Thwrci! Mor bryderus y teimlem wedi hyny pan yr agorem newyddiadur rhag ofn fod y newyddion diweddaraf o India yn anffafriol ac adfydus! Yn fwy diweddar fyth, bu rhyw bethau rhwng Prydain a Ffrainc a daeddent i dduo yr awyr, ac i ddaroganu ystorm agosâol; yr oedd ein calonau yn drist wrth feddwl am y canlyniadau a allent gymeryd lle rhwng dau allu mor fawr, ac yn enwedig o herwydd ein perthynas ni ein hunain âg un o'r rhai hyny. Ond y mae amser yn esmwytho yn gystal ag yn esbonio. Y mae meddwl y terfysgwr, y gwladgarwr, a'r cristion, wedi troi fil o weithiau at yr Iwerddon, gyda gobeithion, cynlluniau, bwriadau, ac ofnau. Byddai y naill a'r llall yn bryderus ynghylch pobl yr Ynys Werdd. Ond gyda'r Diwygiad Crefyddol sydd yn awr yn disgyn ar y wlad hono, gallwn ddynesu at y Gwyddelod a'u gwlad gyda gobaith da, a llawenydd nid bychan. Y mae ein gwaith yn fwy fel ymddyrchafiad a chaniad yr uchedydd ar doriad y wawrddydd, nag fel taith hebog yn rhedeg yn dra chyflym tua'r ddaear i gipio ei sglyfaeth. Y mae Duw wedi tramwy lawer gwaith mewn

barn trwy yr ynys hynod hono; y mae Pabyddiaeth yn felldith ac yn bla yno; y mae llawer o weithredoedd gwaethaf y tywyllwch yn cael eu cyflawni liw dydd yno; bu newyn yn y tir; bu poeni lawer gan ddysgyblion Iesu ar hyd nos heb ddal dim yno. Ond yn awr y mae Duw yn ymwelad â'r wlad mewn trugaredd. Y mae hyn yn eli i'n llygaid, yn ysgafnder i'n calon, ac yn nerth i'n traed. Yr efengyl yn rhodio mewn llwyddiant trwy y tir, fydd yr esboniedydd goreu ar bob pwnc gwladol a moesol mewn cysylltiad â'r chwaer ynys, ag sydd wedi dyrysu cymaint ar y *politician*, a phruddhau a digaloni y dyngarol a'r Cristionogol. Y mae llawer o ddynion call a dysgedig yn son am wladeiddiant heb yr efengyl fel moddion effeithiol i dawelu aflonyddwch cenedl, i wella ei moesau, nerthu ac estyn ei dylanwad, a diddymu y drygau mewnol ac allanol sydd yn blino pobl-oedd y ddaear. Ond mor araf, mor ammhëus, mor eiddil, yw symudiad gwladeiddiant heb grefydd y Bibl! Gall yr efengyl wneyd mewn blwyddyn gymaint, a mwy, nag a all ei chanlynyddes, gwladeiddiant, ei gyflawni mewn *mil* o flynyddoedd hebddi hi. Y mae yn lawn bryd bellach i'r efengyl gael ei lle priodol ymysg cenedlaethau y ddaear. Y maent yn druenus hebddi, a hi a fydd eu bywyd os caiff dderbyniad ganddynt. Y mae gwybodaeth gyffredinol, y gwyddonau, a'r celfyddydau, fel pladur yn tori i lawr lawer o'r chwyn aflesol a niweidiol a orchuddiant y maes; ond y mae yr efengyl fel aradr fawr, ac ôg drom, yn agor ac yn chwalu y tir nes codi y gwreiddiau drwg i wyneb y ddaear, i fod yn agored i wywiant hollol trwy weithrediad grymus yr haul a'r hin. Sonier am derfysg, yr efengyl a ddaw â thangnefedd; achwyner am droseddau a lanwant y carcharau, ac a roddant faldod ar gymdeithas, yr efengyl a'u diddyma; dyweder am yr Iwerddon fel dyrysbwnc y Senedd Frydeinig, yr efengyl a ddaw ac a ddettyd y cwlwm. Y mae yn feddyginiaeth wedi ei phrosi, a'i chael yn effeithiol. Y mae masnach, amaethyddiaeth, celfyddydwaith, talent, athrylith, a dyfais, a phob peth arall o natur dda sydd yn perthyn i ddyn, yn cymeryd gwreiddyn dyfnach, yn tyfu yn rhywiog a chysgodfawr, pan y mae dylanwad crefydd yn nawseiddio cenedl. Hynod mor hwyrdrwm yw llywodraethwyr gwladol i gredu hyn, ac i weithredu yn egniol oddiar y cyfryw gred! Y fath nifer o bobl ddylanwadol, dysgedig, a phwylllog, sydd wedi ceisio dangos fod deng mil ar hugain o bunnau yn y fwyddyn at Goleg Pabyddol Maynooth yn ddigon i dawelu, os nad i ddedwyddu, Pabyddion yr ynys! Ond ni a obeithiwn y gwna y diwygiad crefyddol sydd yn awr yn bendithio yr Iwerddon effeithio i wasgaru yr holl freuddwydion am welliant y Gwyddelod ag sydd wedi dallu a charmarwain cynifer, ac y bydd llywodraethwyr a phobl bellach yn gallach ac yn ddoethach o herwydd hyn.

Y mae yr Iwerddon, fel yn ddiau y gŵyr darllenwyr y TRAEHODYDD, yn gorwedd yn orllewinol i Gymru, ac y mae tir y Gwyddel yn weledig o Dy Ddewi a'r ardaloedd cyfagos, ac o amryw fanau yn Ngogledd Cymru. Nid oes ond deuddeng milldir rhwng y *Mull of Kintire* yn Ysgotland a *Fair Head* ar y traeth cyferbyniol yn yr Iwerddon; ond y mae o ugain i ddeugain o filldiroedd gan longau i fyned yno o'r manau agosaf yn Nghymru. Y mae tramwy mawr, fe wyddis, rhwng Aberdaugleddyf â Dublin, Wexford, a Waterford. Y mae Pen Caergybi yn eithaf Gwynedd yn lle arbenig fel mân y croesir o hono i'r Iwerddon. Y mae yr Ynys Werdd yn 300 o filldiroedd wrth 200 o léd, ac y mae yn cynnwys mewn arwyneb

20,808,271 o gyferwau. Mae hi wedi ei dosbarthu er yr hen amseroedd i bedair talaeth fawr,—Ulster yn y gogledd, Leinster yn y dwyrain, Munster yn y de, a Connaught yn y gorllewin. Fel dosbarth o'r hil ddynol, perthyna y Gwyddelod i'r Celtiaid; ac y mae rhai awdwyrr galluog yn meddwl mai Tartariaid neu Scythiaid oeddynt yn wreiddiol, wedi hir grwydro dros Gyfandir Ewrop, cyn ymsefydlu yn yr ynys. Cawn amryw ysgrifenwyr yn ammheu iddynt erioed fod yn wareiddiedig yn yr Iwerddon cyn eu darostwng gan y Saeson; ond gan i Gristionogaeth fyned yno yn fore, digon tebyg iddynt gael eu dofi i fesur, yn ol y graddau y cafodd dderbyniad yn eu mysg. Cawn ddsbarthiad henafol iawn o'r wlad i Sir-oedd, ac y mae yr enwau yn Rhufeinig, fel y dengys y daflen ganlynol:—

	<i>Enw Presennol</i>	<i>Hen Enw</i>
LEINSTER.	1. Louth	1. Volunti.
	2. Meath East	2. } Cauoi.
	3. Meath West	3. } Auteri.
	4. Longford	4. } Blaniil.
	5. Dublin	5. } Coriondi.
	6. Kildare	6. } Blaniil.
	7. King's County	7. } Coriondi.
	8. Queen's County	8. } Blaniil.
	9. Wicklow	9. } Manapii.
	10. Carlow	10. } Coriondi.
	11. Wexford	11. } Vennicniil.
	12. Kilkenny	12. } Robogdii.
	13. Donegal neu Tyroonnel	13. } Erdini.
ULSTER.	14. Londonderry	14. } Voluntii.
	15. Antrim	15. } Cauoi.
	16. Tyrone	16. } Vodias, Iverni.
	17. Fermanagh	17. } Brigantes.
	18. Armagh	18. } Velarbori.
	19. Down	19. } Gaugani.
	20. Managhan	20. } Auteri.
MUNSTER.	21. Cavan	21. } Nagantes.
	22. Cork County	22. } Voluntii.
	23. Waterford	23. } Cauoi.
	24. Tipperary	24. } Vodias, Iverni.
	25. Limerick	25. } Brigantes.
	26. Kerry	26. } Velarbori.
	27. Clare	27. } Gaugani.
	28. Galway	28. } Auteri.
	29. Roscommon	29. } Nagantes.
	30. Mayo	30. } Voluntii.
	31. Sligo	31. } Cauoi.
	32. Leitrim	32. } Vodias, Iverni.

Y mae daearyddiaeth wladyddol yr ynys yn ystod y cyfnod Rhufeinig yn anghysbys. Er darfod i'r Ymherodraeth Rufeinig yn nyddiau ei gogoniant gyrrhaedd o lanau y Werydd i'r Euphrates, ac o'r afonydd Rhine a'r Danube dros yr Aipht i anialwch mawr Affrica, eto nid ymddengys iddi erioed gynwys yr Iwerddon yn ei breichiau eang.

Y mae llawer o wyneb yr ynys yn wastad, yn cynnwys tir porfa da, corsydd, a llynoedd. Y prif afonydd ydynt y Shannon, yr hon sydd for-dwyol am 214 o filldroedd; y Bandon, y Lee, y Blackwater, y Barrow, y Suir, y Slaney, y Liffey, y Boyne, y Laggan, y Bami, a'r Foyle. Y llyn-cedd mwyaf ydynt Lough Neagh, yn 17 o filldroedd wrth 10; Loughs

Erne Uchaf ac Isaf; Loughs Corrib, Mask, a Coun. Y brif gadwen o fynyddoedd yw y Magillycuddy's Reeks, y Galtie Mountains, a mynyddoedd Wicklow a Mourne. Saif copäau rhai o'r prif fynyddoedd fel hyn:—Sleibhbloom, 2,265 o droedfeddi; Donegal, 2,462; Truskmore, 2,113; Twelve Pins, 2,396; Brandon, 3,120; Carn Tual, y mynydd uchaf yn yr ynys, 3,404; Mona Vallagh, 2,598; Lungaquilla, yn agos i Dublin, 3,039 o droedfeddi. Y mae yr Iwerddon yn cynnwys 316 o farwniaethau, a 2,532 o blwyfi. Y prif borthladdoedd ydynt Cork, Donegal Bay, cilfachau Sligo, Clew, Galway, Ballyheigh, Dingle, Kenmore, Bantry, Dunmanus, porthladdoedd Waterford, Wexford, cilfachau Dundalk, Carlingford, Strangford Lough, Dublin Bay, a Belfast Lough. Y mae cysfaddasrwydd naturiol mawr yn perthyn i'r wlad hon i fod yn fasnachol o ran ei chymeriald, am fod ei porthladdoedd a'i chilfachau mor aml a helaeth, a'r tir yn fanteisiol i ddiwylliant, tra y gorwedd yr ynys rhwng Prydain Fawr a'r America, ac felly holl fynedfeydd y moroedd yn gyfeus iddi. Er fod y ddaear lawer iawn yn frasach yma nag yn Ysgotland, y mae trigolion hen Galedonia yn cael cynydau mwy o lawer, yn unig am y llafuriant hwy yno eu tiroedd yn well. Nid oes un parth o'r Deyrnas Gyfunol â chymaint o dir gwyllt ynddo a'r Iwerddon. Y mae parthau äang yn sawnogydd, ac er ys rhai blynyddoedd bellach, y mae ymdrech yn cael ei wneyd i droi y mawn, trwy rym fferylliad, i fod yn fath o lô, ond nid hyd yn hyn gyda nemawr lwyddiant.

Un o hynodion naturiol yr ynys hon yw ei bod yn rhydd oddiwrth nadroedd, madfallod, llyffaint, gwaddod, &c. Dywedir pe y dygid rhai o'r ymlusgiaid uchod yno, y byddent feirw; a phe dygid pridd yr Iwerddon drosodd i'r wlad hon, na wnaent ei groesi pe gosodid ef ar eu ffordd. Nis gwelsom fod neb wedi bod yn alluog i roddi cyfrif am hyn: pa un ai lleithder yr awr sydd yn peri hyn, neu ryw ansawdd neillduol yn y pridd, nis meiddiwn ddywedyd. Ond y mae yn fater dyddorol, teilwng o ymchwiliad yr anianydd craffus. Y mae y Pabyddion, pa fodd bynag, yn deongli y dirgelwch hwn ar unwaith, trwy ddywedyd mai Sant Patrick a alltudiodd bob pryfyn gwenwynig a niweidiol o'r ynys, ac a fendithiodd y tir yn y fath fodd fel nad allai y cyfryw rywogaethau o grëaduriaid fyw mwyach yno! Nid yw llygod mawr ychwaith yn lliosogi yno, er eu dwyn yno i wneuthur y prawf. Dywedir mai Julius Cæsar a ddaeth â'r llygod ffrengig gyntaf i Brydain; ond pe gadawsai hwy yn Gaul neu yr Eidal, ni wnaethai neb yn ein gwlad rwgnach, ni a feddyliem. Beth bynag, nid oes gwaith i'r *rat catchers* yn y chwaer ynys.

Y mae poblogaeth yr Iwerddon, yn ol *census* 1851, yn 6,515,794; a dywedir fod tua dwy filiwn o'r brodorion yn para i siarad eu hen iaith eu hunain, sef y Wyddelaeg, yr hon fel y Gymraeg, yr Ysgotaeg, a'r Mynawaeg, a ystyrir yn gangenau henafol o'r iaith Geltic. Gellid tybied i'r Iwerddon fod yn dra phoblogaidd mewn cynoesoedd oddiwrth y gweddillion o drefi a geir mewn llawer parth o'r wlad. Barna rhai haneswyr manylgraff y buasai y wlad wedi ei llwyr ddiboblogi oni buasai i'r Saeson dan Henry II. ymdrechu gwareiddio y trigolion brodorol. Arferent ymosod ar eu gilydd mewn modd gwaedlyd a diarbed; daethant radd yn well ar ol y pryd a nodwyd.

Y mae amryw o ynysoedd bychain yn perthyn i'r brif ynys. Y rhai penaf ydynt Rathlin yn y gogledd, ac Achil yn y gorllewin, gyda dwy dan yr enw Arran. Dublin yw y brifddinas, ac y mae yr afon Liffey yn myned trwy ei chanol. Y mae ei poblogaeth dros 260,000. Y dinasoedd a'r trefydd

eraill mwyaf pwysig ydynt Belfast, Cork, Waterford, Kilkenny, Limerick, Galway, Sligo, Londonderry, Newry, Armagh, Dundalk, a Drogheda. Y mae cyfaddasrwydd yr ynys yn fawr i gymeryd rhan arbenig yn masnach y byd; a phe teyrnasai llonyddwch yn y tir am oes neu ddwy, byddai agwedd arall ar lawer cilfach brydferth a phorthladd disylw ar ymyloedd y wlad. Nid oes yn awr un lle yn hynod am ei gynnydd ynddi—yr un dref newydd yn cyfodi megys mewn un dydd, fel Pater yn Sir Benfro, a'r miloedd tai sydd yn ystod y pum mlynedd ar hugain diweddfaf wedi eu hadeiladu yn Nghwm Taf; heb i ni son dim am gynnydd dirfawr hen drefi, megys Caerdydd ac Abertawe, a Gweithian Gwent a Morganwg hefyd. Y mae yr arianog am le mwy diogel na'r Iwerddon i roddi allan eu cyfoeth. Ond pan sefydlir heddwch yn lle terfysg a chyflafan yn ngwlad y Gwyddel, creâ hyny hyder, gwaith, a llwyddiant.

Y mae rhai golygfeydd prydfferth a dengar yn ngogledd yr ynys, a llawer yw yr ymwelwyr pell ac agos a arferant gyrchu yn yr haf at Llynoedd Killarney a'r *Giant's Causeway*. Ceir fod y Gwyddelod yn gyffredin o gorffolaeth nerthol, ac yn byw i gryn oed. Pan gymerwyd y ddeiliadeb ddiweddfaf, cafwyd fod mwy o bersonau yn yr Iwerddon yn gant oed a throedd nag oedd yn Ynys Brydain yn ol nifer y trigolion. Dichon y gellir rhoddi cyfrif am hyn oddiwrth ddull dysymll lliaws o'r Gwyddelod tlodion o fwy; bwyânt fara garw a chloron, ac yfant yn gyffredin lefrith a llaeth enwyn, a mwynhânt ddigonedd o awyr agored. Nid oes dim yn hinsawdd y wlad yn fwy ffafriol i iechyd a hirhoedledd nag sydd yma gyda ni, canys y mae yr Iwerddon yn fwy llaith, ei llynoedd naturiol yn fwy aml, a'r tir dan waeth triniaeth na Lloegr a Chymru.

Y mae lliaws o'r Gwyddelod wedi ymenwogi mewn milwriaeth, mewn llênnyddiaeth, mewn araethyddiaeth, ac ymhob cangen o wybodaeth a chelfyddyd, nid yn unig yn y Deyrnas Gyfunol, ond yn Ffrainc, yn America, ac mewn parthau eraill o'r byd. Fel cenedl nid ydynt yn ol mewn dim a wasanaetha fel defnydd cyntefig i fod yn foddion i ddyrchafu y bobl, ond rhoddi cyfeiriad iawn iddynt.

Y mae o gant i ddau o filldroedd yn nghanolbarth yr ynys yn wastadedd, lle y gorwedd y gareg galch; ond y mae llawer o'r gwastadedd hwn yn gorsog. Y mae haenau amlwg o'r gronynfaen, ac o'r tywodfaen coch henafol, a rhai caeau o lô da yno. Y prif weithiau glô ydynt yn Kilkenny, ac yn Siroedd Clare, Limerick, Kerry, a Cork. Ceir sialc a'r gareg lias yn ochr ddwyreiniol yr ynys. Hyd yn hyn ymddengys fod yno brinder o fŵn haiarn a phlwm; ond nid yw meteloedd yr ynys wedi hanner eu chwilio. Nid oes eto un math o law-weithfeydd ond rhai llian yn llwyddo yn dda ymysg y Gwyddelod, er fod yno rai yn gwneyd gwlaneni, sidan, &c. Yn 1850, nid oedd trawgludion (*exports*) yr ynys ond gwerth £276,088; a'r atgludion (*imports*) yn £6,031,569; ac yn yr un flwyddyn nid adeiladwyd yn holl borthladdoedd y tir ond 25 o longau, yr hyn a ddengys gyflwr isel y fasnach gartrefol. Bu rywfodd y fath ddyfethiant ar goed yno, fel na cheir fawr yn awr ond yn mharciau y boneddigion. Yn 1851, yr oedd 614 o filldroedd o reiffyrrd mewn gwaith, a llawer yn ychwaneg ar gael eu gwneuthur. Y mae cryn wellâd yn myned ymlaen gyda golwg ar y tiroedd, fel firwyth uniongyrchol yr *Act for the Sale of Encumbered Estates*, trwy rinwedd yr hon y gellir gwerthu tiroedd llwythedig â dyled, ac felly eu trosglwyddo i afael perchenogion gwell. Mae llawer o lysiau tyner yno yn

tyfu yn yr awyr agored; ond mae yn rhaid yn aml grasu yr yd ar odynau o herwydd lleithder yr hinsawdd.

Wrth edrych i'r cofrestrau barnol, yr ydym yn cael fod y niferi canlynol o gyhuddedigion wedi cael eu profi yn euog yno yn y blynyddoedd a grybwyllir:—yn 1843, 8,620; yn 1846, 8,639; yn 1849, 21,202. Gwelir fod cynnydd arswydus ar droseddau yn y tir yn 1849; a diammheu fod y newyn a ddaeth ar y genedl mewn canlyniad i fethiant y cloron wedi bod yn achlysur i aflonyddu cymdeithas, ac i ollwng yn rhydd y tymherau a'r tueddiadau mwyaf dychrynadwy, nes y trowyd parthau o'r wlad yn garcharau, a'r trigolion yn heidiau o droseddwyr ysgeler. Effeithiodd adfyddau 1846—7 yn fawr ar nifer y boblogaeth fel y gwelir oddiwrth yr ystadegau hyn:—

Poblogaeth yn 1831	7,767,401
————— 1841	8,175,124
————— 1851	6,515,794

Gwelwn fod yma leihâd o dros filiwn a hanner; pan yn ol cynnydd cyffredin a naturiol y dylasai y genedl rifo tua naw miliwn yn 1851. Ond mae yn hysbys fod llawer o filoedd wedi ymfudo i wahanol barthau o'r byd yn y cyfamser.

Am hanes, hen a diweddar, yr Iwerddon, gallwn nodi i ddechreu mai hen enwau yr ynys hon oeddynt Hibernia, Irene, ac Erin; galwai y Cymry hi yn Werddon, neu Iwerddon, oddiwrth liw gwyrdd ei glaswallt. Cariai yr hen genedloedd dwyreiniol masnachol drafodaeth â hi yn fore; cawn fod yr hen Pheniciaid yn dyfod yma â'u llongau o Tyrus a Sidon, a'r hen Aiphtiaid o Alexandria a manau eraill. Yr oedd y trigolion bron yn hollol farbaraidd a gwyllt pan orchfygodd Harri II., brenin Lloegr, yr ynys yn y flwyddyn 1172. Ond digon tebyg i'r trigolion fod mewn cyflwr gwell oesoedd cyn hyny, gan y cawn i Gristionogaeth fyned yno yn fore, a blodeuo yn y tir i raddau. Ond pasiodd oesoedd tywyll dros yr ynys hon, fel dros holl Ewrop, a chleddid yr ynyswyr mewn trueni. Bu ymosodiadau y Daniaid arnynt, yn gystal a'u llygredigaethau en hunain, yn foddion i'w hadsuddo mewn barbariaeth.

Yn y deuddegfed canrif, ceid y deyrnas yn ddosbarthedig i bump o unbenaethau gwahanol, sef Ulster, Leinster, Munster, Meath, a Connaught, ac adrenid hwy i nifer dirfawr o daleithiau dan benaethiaid bychain, o herwydd yr undeb gwan a fodolai rhwng y gwahanol freninoedd. Darfu i Dermot Mac'Morrogh gael ei frwr allan o deyrnas Leinster, am drais ar ferch brenin Meath; crefodd amddiffyniad Harri II., ac addawodd dyfod yn ddarostyngedig iddo os adennillid ei deyrnas trwy gymhorth y Saeson. Cafodd addewid am hyny; a gorchymynodd Harri i'w wŷr ymosod ar yr Iwerddon; a thra yr oedd Strongbow, Iarll Pembroke, a'i ddilynwyr, yn anrheithio y wlad, glaniodd ei hun yn yr ynys yn 1172, a derbyniodd ymostyngiad nifer mawr o'r penaethiaid annibynol.

Llwyddodd Roderic O'Connor, Tywysog Connaught, yr hwn a etholesid gan y Gwyddelod yn benaeth yr holl daleithiau, am dair blynedd i wrthwynebu arfau brenin y Saeson; ond yn y diwedd ymostyngodd, trwy anfon cenadaeth arbenig at y brenin i Windsor. Ammodau yr ymostyngiad oeddynt fod treth flynyddol o hanner cyfer o bob deg erw o'r wlad i fyned i gynnal y llywodraeth, ac fod cydnabyddiaeth i'w rheddi i goron Lloegr; y

cai y Gwyddelod gadw eu meddiannau, a Roderic ei deyrnas, oddigeth talaeth y Pale, neu y parth hwnw a ddarostyngesid gan y Barwniaid Seionig cyn dyfodiad Harri i'r ynys.

Darfu i Harri ddsbarthu yr Iwerddon i Siroedd, ac apwyntiodd Sir-ydd i bob un, a dygodd ddeddfau Lloegr i dalaeth y Pale; ond rheolid parthau eraill o'r deyrnas yn ol hen ddeddfau y trigolion hyd amser Edward I., yr hwn, ar gais y genedl, a estynodd y cyfreithiau Seisionig i'r holl deyrnas; ac yn y Senedd Wyddelig gyntaf, yr hon a gynnalwyd yn nheyrnasiad y brenin hwn, llywyddodd Syr John Wogan fel is-lywydd y brenin. Am rai oesoedd ni bu fawr gyweithas rhwng y ddwy deyrnas, ac nid ystyrid yr Iwerddon wedi ei llwyr ddarostwng hyd amser Elizabeth, a'i holynydd James II.

Pan gyfododd Harri VIII., brenin Lloegr a Chymru, fel llew o'i wâl i ddial ar y Pab a Phabyddiaeth am wrthod ei bleidio i ddiarddel ac ysgaru un o'i wragedd, dygwyd y Diwygiad Protestanaidd i'r Iwerddon; a darfu i'r penaeth fyrnig hwn, fel pen addefedig yr Eglwys Wladol Seisionig, wneyd un George Brown, mynach o urdd Awstin, yn 1536, yn archesgob Dublin. Yna aeth y swyddog newydd hwn i lanháu eglwysi ei dalaeth o'u delwau, eu creiriau, a'u defodau ofergoelus; a'r fath oedd ei ddylanwad fel yr addefwyd i fesur bendawd y Brenin dros yr eglwys yn yr ynys. Yn fuan wedi hyny, darfu i'r Brenin ddiarddel y mynachod o'r Iwerddon, a dinystriodd eu mynachdai. Elai y diwygiad ymlaen dan Edward VI.; ond gan i'w oes gael ei thori yn fer, ac i Mair Waedlyd ddyfod i'r orsedd, attaliwyd cynnydd Protestaniaeth yr Iwerddon, a daeth dyddiau blin ar grefydd efigyllaidd yno yn gystal ag yn Lloegr. Dylid sylwi na chafodd Protestaniaeth erioed dderbynaiad gan gorff mawr y bobl yn y chwaer ynys. Er i Harri ddinystrio y mynachdai, a dwyn ymaith eu gwerth, nid attaliodd hyny Babyddiaeth; llawer llai y diwreiddwyd hi o'r tir; ond cynhyrfodd ei chasineb marwol yn fwy, a gosododd sail i'r ymryson, y gynhen, a'r llid hyny sydd wedi hanfodi rhwng y Gwyddelod fel pobl â thrigolion, ac yn enwedig â Senedd ac â llywodraethwyr Ynys Prydain. Ni chafodd Mair Waedlyd fawr orchest i adsefydlu Pabyddiaeth yn ei holl nerth yno; ond ni lwyddodd y blaid Babaid yn Llundain i gario merthyrdod wrth y gyfraith i'r chwaer ynys, er iddynt gael gwas ufudd yn Dr. Cole i ymdrechu yn hyny o orchwyl. Yr oedd Cole yn genad angeu i'r Iwerddon. Galwodd yn Nghaerlleon Gawr i weled maer y ddinas, yr hwn oedd gyfaill iddo. Gadawodd ei goffr yn agored ar fwrdd yn nhŷ y maer; ond clywodd morwyn ag oedd yn y tŷ gymaint o'r ymddyddan ag oedd rhwng y maer â Cole ag a barodd iddi ddeall beth oedd neges y Doctor yn myned drosodd o Ben Caergybi i'r Iwerddon. Yr oedd hi yn Brotestanes o galon. Cymerodd y cyfte a roddwyd iddi i dynu papyrau awdurdodedig Cole o'i goffr, a phlygodd bapryau cyffelyb iddynt wedi eu llenwi â chardiau. Aeth Cole ymaith mewn amser cyfaddas, heb feddwl fod dim o'i le, a'i goffr ganddo, a chyrrhaeddodd Dublin. Yno galwodd yr awdurdodau gwladol ac eglwysig ynghyd, i agor gyda chymaint rhwysg ag oedd modd ei bapryau cyhoedd-iad i erlid a lladd Protestaniaid yr ynys. Agorwyd y papyrau, a syllai pawb mewn dysgwyliad mawr am glywed eu cynnwysiad; ond wedi eu hagar, ni chynnwysent ddim ond cardiau! Chwareuwch hwy, chwareuwch hwy, ebe y Canghellwr yn ddigrifol. Rhaid oedd i Cole ddychwelyd yn ddioced i Lundain i gyrchu gwir allu: yr oedd y gwynt yn ei erbyn i fyned

i Gaerbybi; ond yn y cyfamser bu y Frenines farw, a syrthiodd y cyfan i'r dim. Mor ddisymwth y byrhäodd Duw y dyddiau, onidë ni fnasai gadwedig un cnawd o'r Protestaniaid yn yr Iwerddon! Wedi i Elizabeth esgyn i'r orsedd ar ol ei chwaer waedlyd, a dyfod i glywad beth a wnaethai morwyn Brotestanaidd maer Caerlleon Gawr, rhoddodd dâl blynyddol iddi, meddir, am ei zel, ei gwroldeb, a'i challineb prydlawn.

Parodd Elizabeth iddi hi ei hun gael ei chyhoeddi yn yr Iwerddon yn ben yr eglwys, ac ymgymerodd â'r gwaith o sefydlu addoliad Protestanaidd ymhob man; eithr heb fawr o lwyddiant. Collodd yr offeiriaid Pabaidd eu bywioliaethau, a dygwyd rhai offeiriaid Protestanaidd i'r wlad. Ond yn gyffredin nid äi y bobl i wasanaeth y grefydd ddiwygiedig; ac nid arddelid y ffurf newydd o grefydd gan neb ond ychydig o swyddogion y llywodraeth, a'r teuluoedd hyny a symudasent o Loegr i fyw ar eu tiroedd eu hunain. Gwaith ffol, drwg, ac annaturiol, yw gorfodi crefydd ar bobl trwy rym cyfraith y tir; amddiffyn a chosbi yw gwaith llywodraeth wladol, nid llunio crefydd a gwneyd i'r deiliaid ei llyncu yn gyfanswm mawr a chrwn. Yr oedd tymher yr amserau yn gaeth a chreulawn, a'r blaidd fyddai mewn awdurdod a fynai gario y dydd. Ond nid anian gwir Brotestaniaeth yw gorfodi.

Yn amser Iago I., ymsefydlodd amryw Bresbyteriaid o Ysgotland yn y gogledd, a chymerodd rhai Puritaniaid Seisonig noddfa yno. Y mae enwau Cymreig yn fynych yn yr Iwerddon: ai tybed mai mewn cysylltiad â'r Puritaniaid, y rhai a gaent noddfa yn fynych yn Nghymru, yr aethant yno gyntaf? Am yr oesoedd ar ol hyn, cawn fod mwyafrif mawr y genedl Wyddelig yn Babyddion, ac yn dal digofaint etifeddol a thrwy draddodiad y tadau, at bawb a broffesent Brotestaniaeth. Casglodd y Pabyddion gryn nerth yn amser Iago I. a Charles I., a sefydlwyd archesgobion, esgobion, deonau, periglwyfyr cyffredinol, abadau, offeiriaid, a mynachod; am ba reswm, yn 1629, y gwaharddwyd i'r grefydd Babaid gael ei harferyd yn gyhoeddus. Ond er hyny adeiladodd y Pabyddion brifysgol newydd yn Dublin. Cytodwyd adeiladau Pabaidd dros y tir, a byddai yr offeiriaid Pabaidd a'r penaethiaid Gwyddelig yn cynnal cyfarfodydd mynych, ac yn dal cyweithas barhäus ä Ffrainc, Hispaen, yr Iseldiroedd, Lorraine, a Rhufain; ac yn y lle olaf y deorwyd y fradwriaeth yn 1641, gan deulu O'Neals a'u canlynwyr. Cyn i'r fradwriaeth arswydus hon dori allan, darfu i'r Pabyddion anfon deiseb at brif lywodraethwyr yr Ynys, yn crefu arnynt ganiatäu iddynt eu rhyddid crefyddol trwy ddileu yr holl ddeddfau yn erbyn hyny; ond atebodd Senedd-dai Lloegr nad allent roddi rhyddid i'r grefydd Babaid yn y tir. Bwriedid cario y cynllun o fradwriaeth i weithrediad Hydref 23, 1641—dydd gwyl Ignatius Loyola, tad y Jesuitiaid, a gwnaethai y prif fradwyr eu parotöadau mewn amryw barthau o'r deyrnas. Addawsai Cardinal Richelieu, prifweinidog Ffrainc, eu cynnorthwyo äg arian ac ä dynion; a chafodd llawer o'r swyddogion milwraidd Gwyddelig bod sicrwydd, y gwnei Ffrainc ddyfod ymlaen can gynted ag y torai y gwrthryfel allan. Ond y dydd cyn i'r drwg mawr dori allan, dynoethwyd y bräd gan un o'r enw Owen O'Connell, Gwyddel; a bu hyny yn foddion i gadw Dublin rhag dinystr. Cafodd O'Connellly ei wobrwyo gan y Senedd Brydeinig ä £500, ac ä £200 yn flynyddol dros ei fywyd, Yn Dublin, daliwyd Arglwydd Mac'Guire, y blaenor yno, gydag amryw o'i gyfrinachwyr, yr un noswaith, a chymerwyd llawer o arfau angeuol o'u

llettyau. Ond yn y wlad aeth y gwaith llofruddiog ymlaen yn ol y bwriad. Yr oedd cynddaredd y Gwyddelod, hyd yn nôd y menywod a'r plant, yn arswydus yn erbyn holl Brotestaniaid y wlad, ac yr oeddynt dan addunedau i'w llwyr ddyfetha. Ar ol cymeryd tref Longford, offeiriad Pabaidd y lle a ddechreuai y gwaith arswydlawn trwy rwygo yn llythyrenol y gweinidog Protestanaidd; yna lladdwyd pawb—rhai a grogwyd, eraill a drywanwyd ac a saethwyd; a tharawyd lliaws ar eu penau â bwyell i'r perwyl. Darfu i O'Connor Slygah ymddwyn yn warthus at warchlu Sligo: wedi addaw eu harwain yn ddiogel dros fynyddoedd Curlew i Roscommon, os ymostyngent, yn lle hyny carcharodd hwy mewn manau ffiائد; ac wedi yn gyntaf eu hanner newynu, llofruddiwyd hwy yn ddiarbed. Yn marwniaeth Terawley, annogodd yr offeiriad Pabaidd y bobl i foddï deugain o Brotestaniaid Saesonig. Yn nghastell Lisgool, llosgwyd dros 150 o bobl ynghyd; ac yn nghastell Moneah, lladdwyd 100 â'r cleddyf. Lladdwyd lliaws yn nghastell Tullah, drwy dwyll a chelwyd M'Guire. Torid hwy yn lluoedd i lawr â'r cleddyf; hyrddid llawer o ben creigiau i lawr; llusgid eraill wrth gynffonau cestylau trwy gorsydd a siglenydd; gwthid eraill i dai, ac yna gosodid y tai a hwythau ar dân; fel hyn y lloddid dynion, menywod, a phlant, yn y modd mwyaf annaturiol a barbariaidd. Crogwyd 100 o Brotestaniaid Ysgotaid yn nhref Lissenskeath. Taswyd 1,000 o ddynion, menywod, a phlant, dros bont Portendown; ac os meiddiai un nofio i'r lân, curid ef i farwolaeth ar ei ben â bwyall. Yn y parth hwnw o'r wlad boddwyd 4,000. Gyrwyd 140 o Saeson yn noethlymyn, ar y tywydd caletaf, i gael eu saethu, eu crogi, eu trywanu, ac i'w claddu yn fyw. Cymaint â 115 o bersonau a hyrddiwyd o bont Portendown trwy orchymyn Syr Phelim O'Neal, a boddasant oll. Un wraig o'r enw Campbell, wrth ymdrechu dianc, a ymaffodd mor egniol mewn penaeth Gwyddelig a'i rhwystrai i ddyfod i'r lân, fel y boddwyd hwy ill dau. Yn Killoman, llofruddiwyd 48 o deuluoedd. Lladdwyd tua 200 yn Killmore—yr oll o'r trigolion. Yn Swydd Antrim, lladdwyd 954 o Brotestaniaid yr un bore; a 1,200 wedi hyny yn y Sir. Dyfethwyd yr holl Brotestaniaid yn Kilkenny. Yn eglwys Powerscourt, llosgwyd y pulpud, y corau, y cistan, a'r Biblau a berthynent iddi. Yn Munster, rhoddwyd llawer o weinidogion i farwolaeth yn y dulliau mwyaf arswydus. Gorfodid plant i lusgo eu rhieni i'r afon i'w boddi; gwragedd i gynnorthwyo i grogi eu gwŷr; a mamau i dori gyddfau eu plant. Yn Mayo lladdwyd 60, ac yr oedd 15 o honynt yn weinidogion. Yn Queen's County, llofruddiwyd nifer mawr. Yn Clownes, claddwyd 17 yn fyw. Cylymid llawer wrth adenydd melin wynt, gan eu gosod felly i angeu creulawn. Yr oedd Dr. Maxwell, offeiriad Tyrone, yn byw y pryd hwn yn agos i Armagh. Dywed y gwŷr hwn ar ei lŵ o flaen dirprwywyr y brenin i'r Pabyddion addef wrtho iddynt ladd 12,000 o Brotestaniaid yn Glynwood, ar eu gwaith yn ffoi o Swydd Armagh. Boddwyd 1,000 yn yr afon Bann. Y mae gwarcheud Drogheda yn ffurfio rhan gyfrous o'r adfyd mawr hwn; ond gorfu i'r ymosodwyr ymadael â'r lle.

Yn y cyfamser anfonwyd 10,000 o filwyr o Ysgotland i gynnorthwyo y gweddill o Brotestaniaid a arosai yn y tir; ac wedi ymwasgaru trwy y wlad, calodd y blaid erlidiedig lonydd am flynyddau. Yn ngwarchaeud Londonderry yn 1689, yr oedd 20,000 o Wyddelod yn yr ymosodiad; eithr darfu i 7361 o wŷr dân Arglwydd Mountjoy eu gorchfygu, ond nid cyn i liaws yn y ddinas farw, ac y gorfodid y dynion i twyta cwn, cathod, a tlygod. Ond yn

eu cyfyngder mawr daeth dwy long ág ymborth iddynt. Wedi i'r dafol ddechreu troi, dyoddefodd y terfysgwyr a'r llofruddion yn ddirfawr; lladdwyd tua 5000 o honynt yn Newton a Butter yn unig.

Wedi i James II. ffoi o Loegr, cariodd ryfel am beth amser yn yr Iwerddon; ond yn 1690, maeddwyd yn hollol y Gwyddelod a gymerasant arfau i'w bleidio. William III. ei hunan a arweinai y blaid fuddugol; ac yn ol adroddiad a wnaethpwyd o gyflwr y wlad yn 1731, ceid fod yr heidiau o offeiriaid Pabaidd cardotawl a finent y tir yn cael eu hystyried yn faich gan y Pabyddion eu hunain. Diffoddwyd y gwrthryfel, ysywaeth, mewn afonydd o waed.

Pan oedd hyn oll yn myned ymlaen, yr oedd Lloegr mewn berw wedi i Iarll Strafford, prifweinidog y Brenin, gael ei ddiennyddio am uchel drosedd, ac i Archesgob Laud gyfarfod â'r un ffawd am erlid a lladd y Puritaniaid, a Thŷ y Cyffredin ar fin dymchwelyd cyfansoddiad gwladol y deyrnas:—adeg o'r fath yna a gymerodd y Gwyddelod i ymdrechu cyrhaedd eu hamcanion uffernol.

Gosodwyd cyfraith wasgedig a gorthrymus ar y Gwyddelod ar ol y chwyldrôad yn 1688. Ond o 1780 hyd 1798 ceir fod y llywodraeth yn ymdrechu gwella sefyllfa yr Iwerddon trwy fesurau tyner, a thrwy helaethu y breintiau gwladol. Ni thalodd y genedl hon dreth y brenin erioed, —treth a deimlid yn fawr yn Mrydain; a rhoddai y llywodraeth o £200,000 i £300,000 yn flynyddol, mewn ffordd o waddolau ac o elusennau i'r tlodion. Nid ellir hyd yn nôd yn awr gynnal y clafidai mewn parthau Pabaidd o'r ynys heb gymhorth y llywodraeth. Yn y flwyddyn 1791 y sefydlwyd Coleg Maynooth, i addysgu offeiriaid Pabaidd ar draul llywodraeth Brydain Fawr! Y mae y gwaddol adgas hwn wedi bod o £12,000 i £30,000 yn flynyddol; ac y mae yn awr yn sefydlog yn ddeng mil ar hugain o bunnau oddiar y flwyddyn 1848, er i 18,000 o ddeisebau gael eu hanfon yn erbyn gwneyd hyny yn gyfraith. Nid yw y gwaddol yn myned bellach wrth bleidlais y Senedd fel traul cyson y llywodraeth, ond y mae wedi ei osod uwchlaw pleidlais aelodau Tŷ y Cyffredin, er fod Mr. Spooner ac eraill yn dyfod â chynnygiad i mewn bob eisteddiad am ddiddymiant y gwaddol. Cyn sefydlu y coleg uchod, yr hwn sydd wedi bod yn nythle bradwriaeth a theyrngasedd, anfonid offeiriaid Pabaidd yr Iwerddon i St. Omar, yn Ffrainc, i gael eu haddysgu; a chan y meithrinid hwy yno yn egwyddorion cynhyrfus a chwyldrôawl y wlad hono, ag oedd mewn berw gwerinol dibaid, tybid gan ein llywodraethwyr pe codasid coleg yn yr Iwerddon, y cadwesid yr efrydwyr Pabaidd hyn yn eu gwlad eu hunain; a thrwy hyny y gallasid tawelu eu hysbrydoedd, os na ddychwelid hwy i fod yn ddeiliaid ufudd a llonydd. Ond fel pob ymgais cyffelyb, ni bu erioed fwy o fethiant.

Pa beth sydd wedi peri fod yr Iwerddon, yn fwy na rhyw Barth arall o'r Deyrnas Gyfunol, mewn afonyddwch a therfysg o bryd i bryd trwy yr oesoedd? Y mae Cymru wedi ei darostwng bron mor fore a hithau i goron Lloegr; y mae Ysgotland wedi plygu i'r un gallu er ys canrifoedd; ac nid yw un o'r gwledydd hyn yn cael eu hysgwyd gan wrthryfel a therfysg, eithr blodeua tangnefedd a theyrngarwch. Tebygol yw fod gan y pethau canlynol gyda eu gilydd law i beri yr afonyddwch a fina wlad y Gwyddel:—gwthio y grefydd ddiwygiedig ar y trigolion; gwerthu yr eiddo a'r meddiannau eglwysig Pabaidd yn amser Harri VIII.; rhannu 8,000,000

a gyferau o'r tir rhwng milwyr a chanlynwyr eraill Cromwell, y rhai a drigent gan mwyaf yn Ynys Brydain; ysbryd dialgar a marwol Pabyddiaeth tuag at Brotestaniaeth; tynerwch anfadduol ein llywodraeth tuag at Pabyddiaeth, yr hyn a rydd fantais i'r cynhyrfus a'r dichellgar ymhyfâd mewn drygioni; y gwŷr canol rhwng y perchenogion tiroedd absennol a'r amaethwyr, canys ceir fod y canolwyr hyn fel gorchhwylwyr yn greulaw a charibddeiliol yn aml; cyflwr llygreddig yr ynadaeth frodorol yn y tir; anian segur a gwyllt Gwyddelod y parthau gwledig o'r ynys; ac yn olaf, ni bu y gallu a erchfygodd yr Iwerddon erioed yn cartrefu yn yr ynys.

Gwyliai y Gwyddelod yrfa y chwyldrôad yn Ffrainc gyda phryder angerddol; ac yn 1798 ffurfiwyd Cymdeithas y Gwyddelod Unol, i fod yn barod ar ddyfodiad y Ffrancod i ddymchwelyd llywodraeth Brydain yn yr ynys. Ymrestrodd dau can' mil a hanner dan y gymdeithas hon i ddwyn arfa'u i ryddhâu eu gwlad. Pabyddion oedd yr *United Irishmen*. Tua'r an pryd, lluniwyd gwrthgymdeithas o Brotestaniaid dan yr enw *Orangemen*. Blinesid rhai parthau o'r wlad yn fawr flynyddau cyn hys gan rai a elwid yn Fecgyn Gwynion (*White Boys*); y rhai hyn y gladdent eu gelynyddion yn fyw ar gyttir anghyfannedd hyd eu gyddfau, a gadawent hwy yno i fyw neu i farw.

Y mae y Cynary yn gyffredin, os byddant heb deithio na darllen llawer, yn cysylltu Pabyddiaeth, budreddi, carpiâu, troednoethedd, twyll, lofruddiaeth, tori tai, yspeilio, fraethineb ymadrodd, gweithio dan bris, cario bagged, tori Sabboth, meddwi, ymladd, ac felly ymlaen, â'r enw Gwyddel. Ac i fesur mawr, y mae yr holl bethau hyn wedi bod yn wir. Dadgawyd yn y Senedd mai "*Anbawder Brydain*," yw yr Iwerddon. Yn amser Cyfiro Ymwahaniad yr Ynys a Diddymiant y Degwm yn 1832, safai nifer y troseddau a ddygwyd dan sylw y gyfraith fel y canlyn:—210 o lofruddiaethau; 1478 o yspeiliadau; 466 o loegi tai; 2296 o ymosodiadau ar dai; 531 o dori tai; 678 o arfa'u wedi eu hyspeilio; ac nid oedd y boblogaeth ond 7,784,000. Cyfanswm y troseddau oeddynt 16,669; tra nad oedd yn Nghymru a Lloegr gyda phoblogaeth o 13,894,000 ond 19,647, a lliaws mawr o'r rhai hyn o natur mwy diniwed na'r rhai a dduent gymeriad y Gwyddelod.

Bu blaenoriaid y terfysg, Arglwydd Edward Fitzgerald, Mr. Arthur O'Connor, ac Wolfe Tone, drosodd yn Ffrainc, yn Mehefin, 1796, a gwaaethant gytundeb â'r llywodraeth ar y pryd ar fod i lynges rymus gael ei hanfon yn Hydref y flwyddyn hono o Ffrainc i anrheithio yr Iwerddon, ac y byddai y werin yn barod i gydweithio â'r Ffrancod i ddymchwelyd y llywodraeth Brydeinig, ac i ffurfio gweriniaeth mewn efelychiad i eiddo eu cynnorthwyyr. Cyrhaeddodd y llynges Ffrengig Bantry Bay, yn Rhagfyr, 1796, ac yr oedd llawer o filwyr goreu Ffrainc ynddi, dan lywyddiaeth Hoche; ond rhyfelodd y gwyntoedd a'r môr gymaint yn erbyn y llongau fel y colwyd rhai o honynt, a da oedd gan y gweddill yn rhyw fodd gyrraedd porthladd Brest, wedi dianc rhag ffawd eu cymdeithion, a gwyliaid wriniaeth y gwiblongan Brydeinig.

Yn Mai, 1798, y torodd y terfysg allan ar un waith mewn llawer parth o'r ynys. Gorchfygwyd llawer o'r terfysgwyr gan Arglwydd Roden wrth Rath a Tallanghill; ond cafodd y terfysgwyr fantais ar fyddin Enniscorthy. Eithr wedi hyn, collai y terfysgwyr yn barhâus. Cyflawnodd y terfysgu lofruddiaethau ofnadwy pan gollent y dydd, mewn ffordd o ddial. Ar y

fath achlysur lladdasant gant o garcharorion yn Wexford. Brwydr *Vinegar Hill* a roddodd ergyd angenul i'r gwrthryfel hwn, lle y darfu i'r marchlu Prydeinig wneyd difrod mawr ar resi anhrefnus y gelysion, a chymeryd eu holl fagnelau a'u celfi rhyfel. Erbyn diwedd Gorphenaf, nid arosai neb o'r lluoedd peryglus dan arfau, ond ychydig gwmnetau gwahanedig ar fynyddoedd Wicklow a Wexford. Trugaredd i Brydain na ddarfu i'r Ffrancod wneyd un ymosodiad llwyddiannus ar yr ynys. Pe glâniasai Bona à deugain mil o'i wroniaid yn yr Iwerddon, y mae yn anhawdd dyfalu beth fuasai y canlyniad; ond yr oedd yr ystorn fawr wedi troi i'r dde,—yr oedd Napoleon yn prysuro tua'r Aipht, i roddi ergyd i Brydain, i gipio Twrci, ac i'n hyspeilio o'n meddiannau eang yn y dwyrain. Ond daliwyd y cadnew yn ei gyfrwysder.

Deffrowyd llywodraeth Ffrainc, pan oedd yn rhy ddiweddar, i weled y pwysigrwydd o gynnorthwyo y gwrthryfelwyr Gwyddelig, ac anfonasant 1,100 o wŷr dan y Cadfridog Humbert, y rhai a lániasant yn Killala; ac yr oedd Napper Tandy, y blaenor Gwyddelig, i lunio llywodraeth, ac i arwain y gâd; ond darfu i'r cartrefu eu maeddu trwy gymeryd eu magnelau, gyda chwe' chant o garcharorion.

Yn y flwyddyn 1800 y dechreuodd Daniel O'Connell, y terfysgwr Gwyddelig enwog, ymosod ar lywod-ddysg Brydain yn ei gysylltiad â'r Iwerddon. Yn y flwyddyn uchod y diddymwyd Senedd yr ynys, ac yr unwyd y ddwy ynys dan un Senedd. Ond yn awr, cychwynodd O'Connell ei yrfa i bleidio y *Catholic Emancipation*—neu y Gwaredred Pabaidd; bwriad dechreuol pa fesur oedd tori yn llwyr a bythol bob cysylltiad gwladol rhwng Prydain a'r Iwerddon. Ganwyd O'Connell Awst 6ed, 1776, a bu farw yn Genoa, ar ei ffordd i Rufain, Mai 16fed, 1847. Addysgwyd ef yn St. Omar, yn Ffrainc, a gogwyddai ar y dechreu at Doriaeth, oddiwrt h y galanasdra a ddilynai y chwyldrôad Ffrengig. Yr oedd ef yn un o'r Pabyddion cyntaf a ddyrchafwyd i lŷs y gyfraith, a dechreuodd ar ei waith fel dadleuwr y gyfraith yn 1798. Yn 1816, ymladdodd ornest â Mr. D'Esterre, ymladdwr mawr Dublin, a lladdodd ef yn yr ymdrech gwaedlyd. Pan yn ieuanc, dywedir y gwnaeth O'Connell ymwystiad y curai efe hyd yn nôd un o wragedd tafodog Billingsgate, Dublin, mewn tafod drwg. Daeth dydd cystadleuaeth y tafod, pan y dygodd allan holl arabedd ei ddawn llifeiriol, nes iddo lwyr gario y dydd ar un o'r dosbarth hyny o fenywod y gellir, ysywaeth, ddywedyd am danynt, "Bedd agored yw eu cêg, a gwenwyn aspiaid sydd dan eu tafodau." Yr oedd O'Connell yn ddyn o gryn ddysg, yn deall y gyfraith yn dda, yn hyawdl, cyfrwys, a chynhyrfus. Gwyddai yn eithaf da pa fodd i lywodraethu tymherau y werin yn yr Iwerddon, ac yr oedd yn gallu eu harwain fel y mynai. Yr oedd ganddo allu corfforol mawr, a llais taranllyd, yr hyn a ddefnyddiodd efe i ennill dylanwad diail ar y dosbarth aflonydd yn ei wlad. Bu yn aelod o'r Senedd am ddeunaw mlynedd. Yn 1841, dechreuodd gadw cyfarfodydd cynhyrfus i'r dyben o gael dattodiad yr Iwerddon oddiwrt h Frydain. Bu treialon arno o'r herwydd, pan y darfu i'r draul agos waghau trysorfa laww Cymdeithas y Dattodiad. Er iddo allu ymryddhâu o'r dyrswch barnol neu gyfreithiol hwnw, lleihâodd ei ddyylanwad yn raddol ar of hyny, nes ei fod yn fychan mewn cymhariaeth yn ei ddiwedd. Er y profesai egwyddorion rhyddfrydig, ymddengys mai Pabydd o'i galon ydoedd. Dywedir iddo fod un noswaith gyfan ar fedd Thomas à Becket yn gwneyd

penyd. Ciliodd yn y diwedd o'r maes ymrysongar, ac aeth i'r Eidal er mwyn ei iechyd, ond bu farw yn Genoa yn y flwyddyn 1847. Peraroglwyd ei galon, ac anfonwyd hi i Rufain; a digon tebyg ei bod wedi cyflawni llawer gwrth wedi hyny. Ni chododd neb ar ol O'Connell fel arweiniwr y terfysglu, er fod y wlad wedi bod ar ol ei farwolaeth yn ddigon aflonydd ar brydiau.

Yn 1846—7 y bu y newyn a'r eisieu mawr yn yr Iwerddon. Bu dyoddefiadau llawer o'r trigolion y pryd hyny yn fawrion ac angeuol. Dibynai y bobl dlodion, y rhai ydynt yno mor liosog, bron yn hollol ar gloron, ac wedi i'r haint ddyfetha y pytatws, torwyd ffon eu bywyd hwy. Dangosodd y llywodraeth haelioni a dyngarwch tuag atynt, trwy roddi miloedd o bunau o'r arian cyffredin i liniaru eu hanghenion. Cyfranodd pob dosbarth yn Mrydain Fawr yn hael tuag at lareiddio yr adfyd. Er hyny llenwid y gweithdai â dyoddefwyr; torai heintiau allan yn eu mysg, a medid hwy wrth y miloedd gan angel marwolaeth. Y rhai a feddent ychydig arian a aethant ymaith yn gannoedd a miloedd i'r America, Australia, a Phrydain Fawr. Bu y fath ysgydwad a chyfnewidiad ar gymdeithas mewn parthau äang o'r wlad, nes yr oedd pentrefi mawrion yn ddibreswylwyr; a daeth dosbarth mwy llonydd a theyrngarol i feddiannu llawer o'r tiroedd segur, nes yr ychwanegodd y Protestaniaid yn ddirfawr mewn rhif, ac y lleihäodd nifer y Pabyddion mewn cyfartalwch mwy fyth. Felly, bu newyn ac ymfudiaeth yn foddion yn llaw Rhagluniaeth i fwrw halen i gymdeithas ag oedd yn braenu mewn llygredd.

Yn awr y mae y tir yn cael ei drin yn well nag erioed; y bobl ar y cyfan yn fwy diwyd; corsydd äang, pa rai ydynt aml yno, yn cael eu sychu; rheilffyrdd yn dechreu gweithio ymlaen trwy yr ynys; y porthladdoedd yn llawnach nag erioed o longau; a chyndeithas fel yn dechreu cael ei hadnewyddu ar ol oesoedd o dywyllwch, o ddrygau, ac o drueni.

Y mae yr Iwerddon yn cael ei llywodraethu gan Arglwydd Raglaw, a rhes o is-swyddogion. Cedwir tua 26,000 o filwyr fynychaf yn y sefydliadau mawr milwraidd yn y wlad, megys Dublin, Cork, &c. Yn Nhÿ yr Arglwyddi y mae 28 o bendefigion, dau archesgob, a dau esgob Gwyddelig, yn eu tro, yn meddu yr hawl o eistedd; ac yn Nhÿ y Cyffredin y mae 41 o aelodau Gwyddelig yn eistedd,—dau dros Brifysgol Dublin, a 39 dros y Siroedd. Rhaid i bob trosedd gael ei brofi yno trwy ddeuddeg o reithwyr, fel yn Nghymru a Lloegr. Y mae rhyddid y wasg mor helaeth yno ag yma. Mae gan yr ynys lawer o ddeddfau perthynol iddi hi ei hun yn unig. Yn y Senedd Brydeinig, fe wyddis fod mesurau yn cael eu gwneyd yn gyfreithiau weithiau i Loegr a Chymru, a phryd arall i'r Iwerddon yn unig, ac weithiau i Ysgotland. Felly y mae llawer o ddeddfau penodol, perthynol i diroedd a threthi, y rhai a gyrhaeddant y chwaer ynys yn unig. Bydd trigolion yr Iwerddon yn euog o flaen Duw a dynion os na chyfyd y wlad bellach mewn crefydd a moesau, mewn amaethyddiaeth a dedwyddwch gwladol, ac ymhob peth sydd yn gwneyd pobl yn fawr a defuyddiol. Dylai cenedl ddysgu wrth fyned trwy adfydau a gwasgfeuon, ac nid bod fel llawer dyn claf ar ei wely yn addaw diwygio os ca wella, ond wedi i Dduw ddyrchafu ei ben o byrth angeu yn anghofio pob adduned, ac yn troi eto at ei hen bechodau. Y mae yn eithaf eglur fod cysylltiad annattodol rhwng moesau a dedwyddwch cenedl: os gwna dda, da fydd iddi; ond os dilyna ddrwg, drwg a'i deil.

Dylem eto gyfeirio yn fwy arbenig at Babyddiaeth yr ynys. Os coel iwn draddodiadau a llawer o hanesion cymysglyd am Patrick a'r Iwerddon y mae Pabyddiaeth yno wedi cael llawer o oesoedd i brofi ei nerth, ac i fendithio a dyrchafu y rhai a'i cofeideasant, os oes nerth ynddi mewn un modd i wneyd lles i ddyinion .Dywed Mosheim mai Celestine, esgob Rhufain, a fu yn foddion i anfon Palladius i'r Iwerddon i droi y trigolion barbaraid at Gristionogaeth, ond na fu ei lafur yn hynod o lwyddiannus. Dywed efe hefyd i'r un esgob, ar ol marwolaeth Palladius, anfon Succathus yno yn y fl. 432. Ysgotwr ydoedd y gŵr hwnw, yr hwn a newidiodd ei enw i Patricius, neu Patrick. Yr oedd yn ddyn o egni, ac ymddangosai fel yn gyfaddas i'r fath anturiaeth. Bu efe yn fwy llwyddiannus, meddir, yn ei lafurwaith; ac wedi dychwelyd lliaws o'r Gwyddelod at Gristionogaeth, efe a sefydlodd archesgobaeth Armagh yn y fl. 472. Er fod rhai Cristionogion yn yr ynys cyn tiriad Patrick, ystyrir ef fel apostol yr Iwerddon, a thad yr eglwys Wyddelig, ac y mae ei enw mewn bri mawr gan Babyddion hyd heddyw. Ymddengys fod tri Patrick, ac anghenrheidiol yw eu nodi er mwyn eglurdeb. 1. Patrick yr henaf, yr hwn a fu farw yn y fl. 449, ac y crybwyllir am dano yn nghronicl Glastonbury. 2. Patrick Fawr, a fu farw yn 493, wedi bod yn llywodraethu yr eglwys Wyddelig am driugain mlynedd. 3. Yr ieuengaf, yr hwn oedd nai i Patrick Fawr, a fu fyw rai blynyddoedd ar ol ei ewythr. Y mae Mosheim, gan ddilyn Archesgob Usher, yn dywedyd mai Ysgotwr, fel y nodwyd, oedd Patrick; ond y mae hanesion mwy diweddar yn dywedyd ei fod yn frodor o hen Lydaw yn Gaul, wedi ei eni yn Boulogne. Dywedir llawer o bethau flugiol am St. Patrick, megys iddo fod ddeng mlynedd ar hugain mewn coleg yn ymbarotoi i'w waith cenadol, ac iddo droi deng mil o drigolion yr ynys trwy un bregeth; ac iddo sefydlu purdan ar yr ynys, lle y gellid cael lwyr lanhâd oddiwrth bechod, &c. Ond diau y bydd ein darllenwyr yn rhestru y pethau uchod gydag Ystori Bel a'r Ddraig.

Ar y dechreu, nid oedd awdurdod esgob Rhufain yn cyrhaedd yr Iwerddon; ond fel y deuyd yn raddol i gydnabod penogaeth yr esgob hwnw, yn y pummed a'r chweched canrif, os credwn haneswyr Pabaid, daeth yr ynys hon hefyd, fel gwledydd eraill, i ymostwng i'r hwn a ymhonai ei fod yn gynnychiolydd Duw ar y ddaear, ac yn wir olynnydd Pedr yr apostol. Ymddengys fod peth dysg yn yr Iwerddon yn yr wythfed canrif, gan y cawn mai ysgoleigion Gwyddelig yn unig a arferent y dull athronyddol i geisio egluro athrawiaethau gras. Yr oedd Gwyddelod yn y canrif crybwyllledig a'r un dilynol, ymhob man bron yn Ffrainc a Germany, yn llanw swyddau athrawon gyda chlod. Codai ambell un mawr a dysgedig yn yr oesoedd tywyll i lewyrchu fel comed yn ysgubo trwy éangder. Yn y nawfed canrif cawn fod John Scotus Erigena wedi codi yn yr Iwerddon. Yr oedd efe yn ysgolaig dwfn, ac yn un o'r rhai cyntaf a gymhwysodd athroniaeth Aristotle er mwyn ceisio esbonio gair Duw. Treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn llys Siarl y Moel yn Ffrainc. Ni ddylid cymeryd hwn yn lle John, mynach Saesonig a wahoddwyd gan Alfred Fawr o Ffrainc i Loegr i fod yn athraw yn Rhydychain, ond a laddwyd gan y mynachod o eiddigedd ato. Ysgrifennodd John y Gwyddel amryw lyfrau, ond y mwyaf hynod oedd traethawd ar Swper yr Arglwydd. Yr oedd o'r un olygiad â Phrotestaniaid ar y pwnc pwysig hwn.

Cyn i Harri II. o Loegr esgyn i'r orsedd, nid oedd yr Iwerddon wedi ymostwng i'r Pab. Y mae hon yn flaith bwysig yn ei pherthynas â'r Pab-

yddion, am y dengys, os mynant weled, pwy a ddaeth â'u gwlad o dan Lloegr; ac y mae yn dangos i eraill hefyd nad i'r Pabyddion y perthyn yn gyfiawn yr holl feddiannau eglwysig a feddant yn awr yn yr ynys. Darfu i Adrian IV. roddi awdurdodiad i Harri II., yn y flwyddyn 1155, orchfygu yr Iwerddon, a dywedodd, "Bydded i bobl y wlad hono dy dderbyn di a'th barchu fel arglwydd." A dywedodd y Pab Alexander III., ei olyn-ydd, fel hyn,—“Gan ddilyn camrau ein Parchedig Bab Adrian, a chan-iatâu ffrwyth eich dymuniad, yr ydym yn cadarnhâu ac yn cryfhâu ei gan-iatâd o berthynas i lywodraeth yr Iwerddon a roddwyd i chwi; gan gadw i St. Petr ac i Eglwys Sanctaidd Rhufain—fel yn Lloegr, felly yn yr Iwerddon—y tâl blynyddol o geiniog o bob tŷ.” Darfu i'r Pab hwn gad-arnhâu yr holl orchwylion, gan wneyd Harri a'i "etifeddion yn *freninoedd* yr ynys dros byth." Yn y flwyddyn 1186, cadarnhâodd y Pab Urban III. y pethau hyn oll. Y mae copiau o'r ysgrifau gwreiddiol i'w gwleled eto. Y mae John Harding, croniclewr rhai o helyntion yr amseroedd, yn dywedyd mewn math o rigwm, fod gan freninoedd Lloegr hawl

“To Ireland also, by King Henry (le fitz),
Of Maude, daughter of first King Henry,
That conquered it for their great heresy.”

Eto—

“The King Henry then conquered all Ireland
By papal doom, there of his loyalty,
The profits and revenues of the land,
The domination and the sovereignty,
For error; which, again, the spirituality,
They held full long, and would not been correct
Of heresies, with which they were infect.”

O ganlyniad, gwelir fod Cristionogaeth wedi bod mewn rhyw flurf ac i ryw fesur, tua saith gant o flynyddoedd cyn i'r ynys gael ei dwyn yn swydd-ol dan iau a melltith y Babaeth. A pha ddaioni y mae Pabyddiaeth wedi ei wneyd yn yr Iwerddon? Gymaint o les ag a wnaeth yn yr Eidal, ac yn Rhufain ei hun—cymaint o les ag a wnaeth yn ngwledydd äang Deheubarth America, lle nad oedd un enwad i wrthwynebu eu llafur, nac i ymgystadlu â hwy—cymaint o ddaioni ag a wnaeth yn China a Japan. Y mae wedi cael saith gan' mlynedd i arfer ei nerth ar drigolion y chwaer ynys, ac eto y mae ei phlant, o ran Pabyddiaeth, heb oleuni gair Duw, heb elfenau hap-usrwydd personol, cymdeithasol, gwladol, moesol, na chrefyddol. Mor gyfaddasol i'r "dyn pechod," yn ei waith yn meddwi y cenedloedd, yw geiriau Paul wrth Elymas y swynwr, yr hwn a geisiai wŷrdroi y rhaglaw oddiwrth y fydd: "O! gyfiawn o bob twyll a phob ysgelelder, tydi mab diafol, a gelyn pob cyfiawder, oni pheidi di â gŵyzo uniawn ffyrdd yr Ar- glwydd?" Pa beth yw effaith Pabyddiaeth ar y Gwyddelod, dywedwn ar fyrder. Y mae prif derfysgoedd a fuont yn yr ynys wedi eu crybwyll yn barod, ac achoswyd hwy gan Babyddiaeth, yr hon a gaed fel arthes o'r goedwig yn cyfodi i aflonyddu, i ddychrynu, ac i ddinystrio. Y mae tyst- iolaethau a roddwyd o bryd i bryd o flaen pwyllgor Tŷ y Cyffredin yn profi tu hwnt i bob ammheuaeth mai Pabyddiaeth sydd yn aflonyddu ac yn dyrysu y Gwyddelod. Edrychwn i newyddiaduron y dydd, ac i ysgrifên- iadau Croly, offeiriad Pabaidd, a chanfyddir fod llefruddiaethau, ymosod-

iadau ar bersonau, cyffröadau gwladyddol, llygredigaethau mewn etholiadau, y *Ribbon Clubs*, a phob cynllun a chynllwyn i ddwyn ymlaen gyfundraeth nerthol ond dirgelaidd o ddrwygan, yn tarddu o honi hi. Dyma llŵ y *Ribbon* a'r *Whitefeet Clubs*:—"Byth i arbed, ond i barhâu, a cherdded hyd ben y glin mewn gwaed Oreinwyr (Protestaniaid); i beidio gwasanaethu y brenin neu y frenines, os na'n gorfodir; a phan ddel y dydd, i ymladd a myned hyd ben y gliniau yn ngwaed ein gorthrymwr; ac na fydded i ruddfanau dynion, nac ymosidiau menywod, ein digaloni, oblegid yr anniolchgarwch a ddangoswyd i'n brodyr o'r Eglwys Babaid." Cymerai llawer y llŵ a'r adduned arnynt i ladd rhyw oruchwyliwr tir y cyfle cyntaf liw dydd neu liw nos; neu i lofruddio unrhyw Brotestant a allai ddygwydd fod yn nôd dygasedd marwol. Caent faddeuant blaenllaw ar ddydd ffair mewn tafarn, gan offeiriad Pabaid! Pa ryfedd fod y wlad wedi ei llanw â thrais a phob anghyfiawnder!

Yr oedd gallu echryslawn gan y Gymdeithasfa Babyddol. Dywed yr *Evening Post* fod ei chyfarfodydd i gael eu cynnal bob dydd Sul ar ol y gwasanaeth Pabaid, ymhob plwyf trwy y wlad; byddai ffurf deiseb yn cael ei hanfon gan y Gymdeithasfa, ac wedi ei gwneyd i fyny i'w hanfon yn ol i'r ysgrifenydd. Ar yr 21ain o Ionawr, 1828, cynnaliwyd cyfarfodydd mewn mwy na phymtheg cant o eglwysi Pabaid, pryd y bernid i bymtheg can' mil o bobl ymgynnull ar yr un oriau i ddybenion cynhyrfus a gwrthryfelgar. Prif ddyben y cyfarfodydd hyn oedd parotô i bobl i ufuddhâu ar fynydd o rybudd i benderfyniadau a gorchymynion y Gymdeithasfa. Nid oedd un anhawsder i gynnull y bobl ar y Sul, a phe gwnaethid hyny yn fynych, galledid eu crynhoi yr un mor hawdd yn yr wythnos. Golygid y byddai yn hawdd i flaenoriaid y cynhwrf alw y bobl ynghyd a'u cyfarwyddo i wneyd y gwaith a fynent; ac ystyriai y Pabyddion y gallent mewn pedair awr ar hugain ddwyn i'r maes ddigon o allu i gyrhaedd unrhyw amcan ag oedd mewn golwg ganddynt. Ond, rywfodd, methwyd cael achlysur digonol i osod y nerthoedd peryglus hyn ar waith. Gallai y Protestaniaid Gwyddelig ddiolch i Dduw am hyny. Ymysg aelodau uniongyrchol y Gymdeithasfa, yr oedd 2,600 o offeiriad Pabaid, 4 archesgob, ac 20 esgob, ar ei hymddattodiad yn 1829.

Mynych, gan yr offeiriad Pabaid, y traddodir dynion a ystyrient eu hunain yn Babyddion, i Satan, i ddinystyr y cnawd a'r ysbryd, os meiddient bleidleisio gyda rhyw ymgeisydd Protestanaidd mewn etholiadau. Y mae yr allor yn yr Eglwys Babaid yn fynydd y feldith, o'r hon yr anfonir pob esgymundod ar ben y neb a fyddo yn ddigon annibynol i wro oddiwrth amcanion yr offeiriad trahäus.

Y mae tlodi yr Iwerddon yn codi i raddau mawr oddiar gribddeiliaeth ac ysbryd trachwantus a gwael yr offeiriad Pabaid. Gwasgant oddiar y tlodion yno £1,500,000 yn y flwyddyn; a thrwy hyny y mae y 3000 offeiriad sydd yno yn cael tua £500 yn y flwyddyn, er nad yw gyfreithlawn iddynt gael gwraig na theulu! Profwyd mewn llys cyfiawnder fod offeiriad Pabaid Ennis yn tynu £1,000 yn y flwyddyn oddiwrth y bobl. Nid yw holl gyllid yr Eglwys Sefydledig, pe ei telid yn llawn, ond £500,000.

Dywedai y Profeswr Edgar, ychydig o flynyddoedd yn ol, fod y Gwyddelod yn treulio £6,000,000 yn y flwyddyn ar ddiodydd poethion. Er fod o ddwy i dair miliwn o'r bobl unwaith wedi troi yn ddirwestwyr trwy ddylanwad mawr Father Mathew, sythiodd y genedl yn ôl i'r un arferion llygr-

edig yn gyffredin. Y mae elw y llythyr dai yn fychan yno; y mae llaw-
weithfaoedd yn isel; y mae cyfraniadau y Pabyddion at bob sefydliad
dyngarol ac elusengar yn salw a thruenus, er mai hwy sydd yn llanw y
tlotdai, y claf dai, a phob man lle y mae pethau i'w cael *am ddim*.

Yn 1833, dywedai Arglwydd Althrop yn Nhŷ y Cyffredin, i 4,805 o
droseddau gael eu cyflawni o fewn y flwyddyn gan ddynion wedi ymrwmo
trwy lŵ mewn un dalaeth yn unig, ac fod 163 o honynt yn llofruddiaethau.
Yn 1847, bu 200 o lofruddiaethau yn Sir Tipperary yn unig, ac ni ddi-
yddiwyd ond un llofrudd! Y mae y werin Babaidd yn cymeradwyo y
troseddau mwyaf arswydus; yn fynych ni cheir neb yn dystion yn erbyn
llofruddion, na neb i gynnorthwyo i ddal y troseddwy'r.

Y mae y teithiwr yn myned o baradwys i anialwch wrth groesi o'r parth-
au Protestanaidd yn yr Iwerddon i'r tiriogaethau Pabaidd. "Yr wyf wedi
nodi gwaethygiant," meddai y Parch. James Gibson, o Ysgotland, "wrth
fyned o Ulster i Connaught; ac ymhob man ar wyneb y ddaear ceir yr un
peth—sef fod Pabyddiaeth, caethiwed, tloedi, truenusrwydd, ac aflendid, yn
cydgerdded â'u gilydd." Darfu i offeiriad Pabaidd enwog, o'r enw M'Hale,
fendithio ffynnon ar dir ei dad, a bu y fath gyrchu yno gan bererinion am
y dŵr sanctaidd, fel y cafodd elw mawr oddiwrth y fasnach hudolus a
rheibus.

Nid peth anghyffredin yw llosgi Biblau a Thēstamentau, dan olygiaeth
rhyw *dad* Pabaidd, yn y chwaer ynys; ond pan geisir cosbi y Bibl-losg-
wyr, y mae ofn dyn, neu anffyddlondeb yr ynadon, neu ryw wall yn y gyf-
raith, fel y mae y troseddwy'r yn dianc yn ddigerydd.

Yn y flwyddyn 1814, yr oedd Cymro a bardd o'r enw John Howells yn
gwasanaethu yn y *militia* yn ngwlad y Gwyddel. Efe a wnaeth gân dar-
awgar a desgrifiadol iawn o Babyddiaeth; ac er fod y pum' mlynedd a
deugain sydd wedi lithro oddiar hyn y wedi newid peth ar agwedd Pabydd-
iaeth yn ein hynys *ni*, nis gallwn lai na dyfynu y gân yn llawn ar gyfrif ei
gwir werth. Dyma hi:—

*Cân o anerech i'r Cymry; a gyfansoddwyd yn Nhref Longford, yn yr Iwerddon,
yn 1814.*

1. Dos, anerech ddwys union, o ganol Iwerddon,
I Gymru fwyn dirion, at ddynion o ddysg;
Mŷn angor, mynega ddrwg drefn y wlad yma,
Creulondra ei thyrfâ, a'i therfysg.
2. Mae 'n ynys dra helaeth, yn llawn o sudduwiseth,
Neu ddelwaddoliaeth, ysywaeth, y sydd
Yn llenwi pob trigfan, trwy barthau 'r wlad lydan,
Yn gyfan o geulan bwygilydd.
3. Pabyddion anrasol, gwŷr gwanus rhyfeddol,
Gweithredoedd direol, annuwiol, a wnânt;
A'u bloedd megys bleiddiaid, a'u dannedd hyll diraid
Ar ol Protestaniaid estynant.
4. Y bobl gyffredin, ymgrymant yn werin,
I lawr ar eu deulin, a'u delwau ger bron;
Ar FATH yr erfyniant, ar seintiau 'r ymbiliant;
Maddenant a geisiant yn gyson.
5. 'R offeiriad yn ddiau a werthant genadau,
I wneuthur pechodau—rhyw chwarau rhy chwith;

Ac eilwaith am arian, eneidiau waredan'
O'r purdan, neu falldan y fellidith.

6. Mae 'r dynion yn dywyll, yn pechu mor drythyll,
Ymdro'nt ynddo 'n erchyll, fel perchyll mewn pant;
Er dyn cyfaddefol, medd 'ffeiriad rhagrithiol,
'Mi roddaf fi dduwiol faddeuant.'
7. Caiff dyn drwg gwallbwyllog, am ddernyn deg ceiniog,
Ei wneyd yn ddihalog a rhywiog wr rhydd;
Maddeuir ei frynti 'n dra dilyt trwy dalu,
Heb achos ymgrafu am grefydd.
8. Rhy faith i mi 'r awrhon, yw gosod yn gyson
Fucheddau 'r Pabyddion, a'u swynion di sail;
Bob un yn byw beunydd dan d'wyllwch dew orohudd,
Mor benrydd, anufudd, a 'nifail.
9. Er wylnos pan elir, mor uchel y olywir
Hwy 'n bloeddio 'n annifyr, 'Ah! hawyr! O! Ho!
Gan ofyn mewn egni, i'r marw, tan waeddi,
'Paham nas dihuni di heno?'
10. 'R un wedd mewn angladdau, tu ôl i'r eloran
Y gwaeddant fel gwyddau, nid gweddus eu cri;
'Anwylid, pam huniaist? pa fodd ein gadewaist?
Paham digalonaist, eleni?'
11. Mae 'r wlad yma 'n gyson yn llawn o lofruddion
Twyllodrus, a lladron—gwyr duon a dig;
O fod yn ufuddol was'naethwyr diafol,
Annuwiol, uffernol, lu ffyrnig.
12. Y oribwyr ysgeler, anafus fawr nifer,
Cychwynant heb bryder yn nyfuder y nos;
Trwy 'r holl gym'dogaethau, a dannedd eu cribau
Braenarant hwy gefnau ar gyfnos.
13. 'R wy 'n teimlo bron beunydd yn fin ac aflonydd,
Gan hiraeth, o herwydd annedwydd iawn yw;
Am ddyfod mae 'm calon i'ch plith, Gymry mwynion,
O'r Werddon, gwlad estron y dystryw.
14. Er amled cynnygion a wnaed gan Babyddion,
I ddyfod a'u swynion annhirion yn hŷ,
A'u pardwn, a'u purdan, i'n teyrnas oleulan,
Attaliwyd eu hanian o hyny.
15. Rhag dod i'n gwlad odiaeth y Pab a'i lywodraeth,
A'i ofer athrawiaeth, dewiniaeth, a'i dan,
O! Gymry, gweddiwch, ar Dduw Tad dyddanwch,
Am gadw 'r tywyllwch tew allan.
16. Mae hynod argoelion cawn degwch a digon
Sef heddwch hyfrydion i ddynion a ddaw;
A llewndid pur ffirwythlon, heb ofni gelynyon,
Bydd pob un a'i ddwyfron yn ddfiraw.
17. O Arglwydd Gorucha', ein brenin cynnalid,
A'i deulu cyf'rwydda, hyfforddia 'n y ffydd;
Dwg ninnau i fyw 'n union, bob rhyw o raddolion,
Yn ffyddlon, un galon a'n gilydd.
18. Un mil ac wyth canmlwydd, oedd oedran ein Harglwydd,
A phedair gyfarwydd yn dygwydd a deg,

Pan genais ar ystyr o anereh i'm brodyr,
A'm cywir ga wladwyr goludeg.

19. Wel, bellach, e ballodd fy nhelyn, anhwyliodd ;
Yr Awen a rewodd, hi dawodd yn deg :
Fch plith pan ddychwelaf, wiw frodyr hyfrydaf,
Ymlonaf, a chanaf ychwaneg.

Trown bellach at Brotestaniaeth yr Iwerddon, ac at addysg a'r Bibl ynddi. Yr ydym eisoes, ynglŷn â hanes wladol yr ynys, wedi dwyn rhyw brif fleithiau ynghylch y grefydd Brotestanaidd ger bron y darllenydd; gan hyny ni a ymgyfyngwn yma yn benaf at yr enwadau crefyddol Ymneillduol sydd yno.

Ymsefydlodd y Presbyteriaid yn Ulster yn nechreu y ddwyfed ganrif ar bymtheg. Yr oeddynt yn ddyfodiaid ffœedig o Ysgotland a Lloegr, ac ymfudent yno fel y gallent gael mwynhâu rhyddid cydwybod i wasanaethu Duw. Yn gyffredin ai eu gweinidogion gyda hwy, y rhai a weinyddent yn yr eglwysi plwyfol, ac a berthynent i'r Eglwys Sefydledig hyd y fl. 1634, pan y darfu i osodiad y namyn un deugain o erthyglau Eglwys Loegr yn lle yr Erthyglau Gwyddelig, yn 1613, trwy ddylanwad Laud ac Iarll Strafford, roddi cyfle i'r esgobion ddiarddel a dystewi y gweinidogion Presbyteriaid. Wedi gwrthryfel 1641, cawsant fwynhâu mwy o ryddid, a surfiwyd eglwysi ganddynt trwy Ulster, ac mewn rhai parthau eraill o'r wlad. Fel corff, darfu i'r Presbyteriaid ochri y Senedd Hir yn ei hymdrech yn erbyn Siarl I.; ond tystiasant yn uchel mewn Dadganiad yn erbyn ei ddi-ennyddiad, yr hyn a dynodd ddawn tostlym Milton ar eu penau.

Oddiar amser Siôr I., y mae Presbyteriaid yr Iwerddon yn derbyn gwaddol; yn awr y mas eu *Regium Donum* yn flynyddol yn £37,000. Fel enwad, y maent yn myned rhagddynt mewn gweinidogion, eglwysi, ac aelodau, ac y maent yn meddu llawer o ddylanwad er daioni yn yr ynys.

O dan nawdd Cromwell, dygwyd Annibyniaeth i'r Iwerddon, a llwyddwyd i lunio amryw eglwysi mewn llawer o'r prif drefydd, a thelid ei gweinidogion, ac ychydig o'r Presbyteriaid a'r offeiriaid perthynol i'r Eglwys Sefydledig, gan y *Commonwealth*. Ar adferiad Siarl II., erlidid yr holl Anghydfurfwryst Protestanaidd yn yr Iwerddon, er nad mor llym ag yn Lloegr ac Ysgotland. Ni bu yr Annibynwyr yn alluog ond i gadw eglwys neu ddwy yn Dublin; ond llwyddodd y Presbyteriaid i gadw eu tir yn Ulster. Y mae yr Annibynwyr Gwyddelig yn gwneyd daioni yno fel cangen o eglwys Crist. Y mae y Bedyddwyr yn meddu cenadaeth gref yn yr ynys.

Yn ngwanwyn 1748, dechreuodd John Wesley ymweled â'r Iwerddon; a bu yn ystod ei oes ddeugain neu hanner cant o weithiau trwy dir y Gwyddel yn pregethu yr efengyl. Darllenai bob gwaith a allai ar y wlad a'i thrigolion, a chanmolai y bobl yn aml am eu hymddygiad llonydd dan y gair. Cafodd ei erlid yn ddychrynlyd yn ninas Cork,—byddai y werinos, y milwyr, yr offeiriaid, a'r maer, yn cydweithredu yn ei erbyn ef a'i ganlynwyr; ond dangodd yn wastad heb dderbyn nemawr niwed personol. Nid gwerthfawr oedd ganddo ei einioes ei hun os gallai fod yn foddion i droi rhai o'r bobl. Gwelodd gryn lwyddiant, a llywyddodd y Gynnadledd Wyddelig am amryw flynyddoedd. Bu cenadon yn perthyn i'r Wesleyaid yn manau tywyllaf y tir pan nad oedd neb arall yn cymeryd y dull hwnw o gario yr efengyl i'r bobl. Yr oedd Gedeon Aukley yn un hynod fel

cenadwr. Elai i bregethu Crist i farchnadoedd, i ffeiriau, i angladdau, i wylmabsantau, ac i bob man a allai, os gwyddai y cai rywrai i'w wrando. Yr oedd yn ŵr o gorrffolaeth cryf, gwyneb siriol, calon ddiolfn, a zel anniffoddadwy, ac fel y Bedyddiwr yn llefain yn y diffeithwch, "Parotowch ffordd yr Arglwydd, gwnewch yn uniawn ei lwybrau ef." A bu yn foddion i droi llawer o bobl Iwerddon at yr Arglwydd eu Duw. Y mae yr enwad hwn yn ffyni yn ngogledd yr ynys, ac y mae yn meddu cenadaeth gref, a'r achos wedi ymwreiddio yn yr holl brif drefydd. Ac y mae llawer o ysgolion dyddiol perthynol i'r cyfundeb hwn yno. Da genym ddywedyd na chafodd Wesleyaeth erioedd ddimai o arian y llywodraeth i helpu ei lledaniad. Ond, ar ammodau a sicrhânt annibyniaeth eu hysgolion, y maent yn debyg o dderbyn peth o arian y llywodraeth i'w cynnorthwyo i ddwyn addysg ymlaen.

Da genym ddeall fod enwadau Protestanaidd yr Iwerddon mewn cyflwr crefyddol mor iach a llwyddiannus. Bu yno lawer o hau, ac o hau mewn dagrau, ond yn awr y mae yno fedd mewn gorfoledd; a'r hwn sydd wedi myned rhagddo yn hir gan wylu, yn dwyn had gwerthfawr, bellach yn dyfod mewn gorfoledd, gan gludo ei ysgubau Trugaredd a thangnefedd fyddo ar holl Israel Duw yn y wlad dan sylw, nes i dir tywyllwch a chysgod angu gael ei oleno â gwybodaeth iachawdriaeth, ac nes y llanwo sancteiddrwydd yr ynys o geulan i geulan!

Sefydlwyd Colegau y Frenines yn yr Iwerddon, fel y gellid cyfluo addysgiaeth dda i Brotestaniaid a Phabyddion ar dir cyffredin, ac ar seiliau éang. Ond yn ddiweddar y mae y Pab o Rufain a'i brif awdurdodau eglwysig yn yr ynys wedi eu cyhoeddi yn "niweidiol." Nid ydynt am ymgynysgu mewn un modd â Phrotestaniaid, nac am gydfurfio â chynllun y llywodraeth mewn un gradd, ond yn unig eu bod am wasgu allan arian a dylanwad, i fod yn gyfoethog ar ei thraul, ac eto i fod yn hollol rydd oddiwrth arolygiaeth y gyfraith wladol, a beirniadaeth y cyhoedd. Y mae dau o'r colegau hyn yn Cork a Galway i gael eu rhoddi i ffyni, meddir, gan y Pabyddion. Y mae gan y Presbyteriaid goleg yn Belfast, y mae y Wesleyaid yn cyfodi un yn awr yn Dublin, ac y mae gan yr Eglwys Sefydledig ei phrifysgol yno.

Nid yw y Pabyddion wedi gwneyd ond y peth nesaf i ddim i addysgu y werin ar eu traul eu hunain. Os bydd ganddynt law mewn hyfforddi y tô ieuanc, arian y llywodraeth a fydd ganddynt; ac oni bae fod pwy bynag a addysgo liaws o blant yn cael gafael foesol a chrefyddol arnynt, nid ymdrafferthent hwy nemawr yn y mater. Y mae llawer wedi ei wneyd yn yr hanner can' mlynedd diweddaf i addysgu y plant Gwyddelig yn eu gwlad eu hunain, ac nid heb lwyddiant. Yn 1816, yr oedd y Gymdeithas i Ledanu Addysg ymysg y Tlodion yno, wedi ymëangu yn ei gweithrediadau nes tynu sylw cyhoeddus. Penderfynodd y llywodraeth ei phleiddio; ac fyth oddiar hyn y mae yr ysgolion yn waddoledig. Yn 1831, darfu i Iarll Derby, yr hwn oedd Arglwydd Stanley y pryd hwnw, ysgrifenu llythyr at y Duc o Leinster, yr hwn a hysbysa fod dros un cant ar bymtheg o ysgolion, a thua chwech ugain a deg o filoedd o ysgolorion, mewn cysylltiad â'r Gymdeithas Addysgol hon. Perchid a darllenid gair Duw yn yr ysgolion, ac ymostyngai y Pabyddion i hyn heb lawer o dwrf. Gan na feddent y pryd hyn gyfunderaeth addysgol eu hunain a allai ymgystadlu â hon, nid oedd dim i'w wneyd ond gwasgu clust, nes y ceid amser cyfaddas i dorri y

cysylltiad, ac ymhyfâu mewn haerllugrwydd. Y Pab Pius VII., ac Iarll Derby, a roddasent derfyn ar y drefn hon o gyfneu addysg. Yn 1819, haerai y Pab mai Trefnyddion oeddynt gyfarwyddwyr yr ysgolion yn gyffredin, a'u bod yn hudo yr ieuentyd Pabaidd oddiwrth y gwirionedd trwy *Fiblau* Saesonig; a darfu i Arglwydd Stanley, ddeuddeng mlynedd wedi hyn, lunio y gyfundraeth genedlaethol, yn yr hon y torid ymaith y posibilrwydd o droi y plant at Brotestaniaeth heb ganiatâd rhieni neu warcheidwaid. Bu y cyfnewidiad gymaint er drwg fel nad ydyw ysgolion y *National Irish Board of Education* mwy yn Brotestanaidd. Pa ddrwg mawr a wnaeth y Bibl yn yr Iwerddon ac yn India Frydeinig, fel y mae yn cael ei hwtio o ysgolion y llywodraeth? Y mae yn bryd i bob gwladgarwr go-leuedig gyfodi ei weddi a'i ddylanwad yn erbyn hyn.

Yn 1806 y flurfiwyd y Gymdeithas Fiblaidd Wyddelig; ac yn 1810, Cymdeithas yr Ysgolion Sabbothol; Cymdeithas Llundain er cynnal yr Ysgolion Sabbothol Gwyddelig; a Chymdeithas Wyddelig Dublin, i ledanu gair Duw yn y Wyddelaeg yn unig. Pan ddechreuwyd ar y gwaith o ledanu yr Ysgrythyrau gan Gymdeithas y Biblau, bernid nad oedd ond deg o ddynion yn Swydd Tipperary yn gallu darllen y Wyddelaeg; ond erbyn heddyw y mae cannoedd o gymdeithasau cangenol yn y tir hwnw; ac er gwaethaf y Pabyddion, y mae dros bedair miliwn o gopiau o air Duw wedi eu lledanu trwy yr ynys; a thybir fod yno oddeutu miliwn o blant yn cael eu haddysgu yn yr Ysgrythyrau.

Terfynwn hyn o ysgrif gyda chyfeiriad byr at y diwygiad mawr presennol yn yr Iwerddon. Yn ngwanwyn y flwyddyn hon y torodd allan y cynhyrriad crefyddol ac efengylaidd, sydd yn awr yn tynu sylw yr holl fyd ato. Dylid crybwyll fod gwahaniaeth mawr er ys cant a hanner o flynyddoedd rhwng deheubarth a gogleddbarth y wlad; y mae cryn nifer o Anghydfurfwr yn y gogledd yn perthyn i wahanol enwadau uniongred, tra y mae y dê a'r gorllewin yn Babyddol iawn. Yn Swydd Antrim, yn y gogledd, y cychwynodd yr adfywiad hynod. Gwyddid fod ychydig bersonau duwiolfrydig yma a thraw yn y Sir hono yn cynnal cyfarfodydd gweddiau neillduol er ys tua dwy flynedd, gyda golwg arbenig ar fywâd "crefydd bur a dihalogedig" trwy y tir. Digon tebyg i'r adfywiad mawr yn yr America dasu dylanwad nerthol i lawer gweddi Wyddelig, am fod cynifer o Wyddelod tu draw i'r Werydd, a chryn frawdoliaeth yn wladol a chrefyddol rhwng y ddwy wlad. Ond y mae yr Ysbryd tragwyddol yn gweithio yr un pethau mewn dynion gwahanol wledydd ar yr un pryd. Yr oedd Luther a Zuingle, oll wedi ymfwrw i'r yrfa ddiwygiadol, cyn iddynt glywed y naill am y llall. Yr oedd Ysbryd Duw yn gwybod am danynt, ac yn eu cymhwyso i'r un gwaith, er mewn gwahanol wledydd. Ymhlith y Presbyteriaid yn yr Iwerddon y torodd y diwygiad Gwyddelig allan yn Ballymena, Connor, Cerrickfergus, Belfast, a manau eraill yn Sir Antrim. Ond gan nad yw Duw dderbyniwr wyneb, ymdaenodd i blith enwadau Protestanaidd eraill; ac yr oedd hyn yn beth i'w ddisgwyl, canys yr oedd llawer ymhlith cyfundebau eraill yn dysgwyl am addewid y Tad i ymdori dros dir eu tadau. Oddiwrth bob tystiolaeth a welsom hyd yn hyn am yr adfywiad, nid ymddengys ei fod wedi cyrhaedd y Pabyddion fel dosbarth o grefyddwyr, er fod llawer Pabydd wedi ei ddychwelyd yn moddion gras yr enwadau efengylaidd. Nid yw yn debyg o gyrhaedd y Pabyddion fel cyfundeb, canys priodolant hwy y cyffro crefyddol gogonedds

hwn i ddylanwad Satanaidd; ac y mae y personau Pabyddol dychweledig yn ymwrthod yn hollol a gwirfoddol â'n hen grefydd, ac yn ymuno yn ddibetrus â'r enwadau sydd yn dal allan gyfoeth rhad ras, a digonolrwydd haeddiant Crist. Dengys hyn nad yw athrawiaeth "y dyn pechod" yn gyfaddas i bechadur edifeiriol, nac i grediniwr goleuedig.

Y mae cyfarfodydd gweddi unol yn cael eu cynnal, gydag ysbryd rhyddfrydig a dylanwad grasol, yn mharthau y diwygiad. Cynnaliwyd un tua chanol yr haf yn Ngerddi Lllysieuol Belfast, pan y daeth pymtheg mil ar hugain o bobl ynghyd. Daeth pymtheg mil y bore hwnw i'r ddinas gyd â'r rheilffyrdd. Canu, cyfarchiadau, a gweddiâu, a wnaent i fyny holl ranau y cyfarfod hynod a gogoneddus hwn. Nifer mor fawr o *Wyddelod* yn dyfod yn wirfoddol ynghyd, nid i wrando ar areithiwr gwladol a ymdrechai droi y werin yn erbyn y llywodraeth, "a mawrygu wynebaw dynion er uwyn budd," ond i ymostwng o flaen Arglwydd pawb a Cheidwad y byd! Gorfoleddai angelion yn ddiau wrth edrych ar y fath gynnulliad. Y mae cryn gyffro a llewygfeydd a dirgryniadan corfforol yn cydfyned â'r adfywiad—pobl yn cwmpo yn nghanol nerth i berffaith wendid am ddiwrnod neu ddau; dynion cryfion a dibris, merched a gwagedd, yn cael eu taraw megys â mellten yn eu tai, neu wrth eu gorchwyl gwaith; gruddfan mawr yn yr ysbryd; ingau edifeirwch; galar, ac wylofain, ac ochain mawr, ac ni fyn y bobl hyn, eu cysuro nes yr amlyga Duw iddynt ei foddlonrwydd maddeuol. Ai o'r nef neu o'r ddaear y mae hyn? Y mae y ffrwyth yn profi ansawdd y pren. Dywed y *Lancet*, papyr meddygol enwog, mai achosion corfforol sydd ar waith, ac y gwnai tafu llestraid o ddwfr ar y llewygiedig ei adferyd yn ddioed i'w synwyr. Felly: eithr onid all y meddwl effeithio ar y corff? a' onid all yr Ysbryd a ennynodd ysbryd mewn dyn gymeryd y ffordd a fynd i gario ei waith o argyhoeddi y byd ymlaen? Nid oes dim mor annhebyg a chrefydd o effeithio yn ddwfn ar ysbryd tywyll dyn os na fydd nerthol weithrediad gallu yr Ysbryd Glân yn cymhwysu y gair. Dywedai Gilfillan, gweinidog Presbyteriaid yn Ysgotland, ond adnabyddus yn fwy fel llenor beirniadol,—mai o ddiadol y mae hyn oll, ac fod llawer o weinidogion y gwahanol enwadau wedi cydymgyngori i lunio y twyll! Druan gŵr! dyweyd fod Satan yn cyfodi yn erbyn Satan! Y mae y ffrwythau addas i'r edifeirwch, a'r trallod mawr sydd yn dal yr annuwiol a'r digred mor ddisymwth yn yr Iwerddon, yn ddigon i ddarbwylllo yr ymofynydd mwyaf ammheugar, os yw yn onest, fod y gwaith o Dduw. Y mae dynion yno yn dywedyd pethau rhyfedd pan yn eu llewygfeydd; dynion hollol anwybodus yn ngair Duw cyn eu taraw i'r llawr, meddir, yn dangos cynefindra a gwybodaeth hynod yn yr Ysgrhythrau; yn siarad yn hollol synwyrol am ddyfnion bethau Duw—y dyn anianol gynt fel wedi ei lynu yn awr yn nadguddiad yr Ysbryd hwnw sydd yn chwilio pob peth. Pan ddychwel nerth corfforol, ac y lliniara y llewygfeydd, y mae yr adferedig yn dangos holl arwyddion diymwad tröedigaeth at Dduw. Gwelir dagrau o ofid am bechod; traethir fod cariad Duw yn llanw y galon; dangosa cariad at ddyn ei hun yn ddioed; cynghorir y cymydog digrefydd i droi at Dduw yn ddiymattal; torir allan ymhob dull i wneyd daioni; hiraethir am gyfeillach dynion da; a darllenir yr Ysgrhythrau yn dra awyddus: y fath ydynt yr arwyddion a ddilynant y rhai a gredant. Gwneir y meddw yn sobr; yr anniwair yn ddiwair; y cablwr yn weddiwr; y gwag yn ddirifol; a'r pechadur rhyfygus yn sant. Y mae y gwaith yn tystiol-

aethu am dano ei hun. Yn Belfast a'r ardaloedd y mae yr ymweliad yn nerthol. Mewn pentref gerllaw dychwelwyd pum' cant mewn un wythnos; ac y mae amryw enghreifftiau diweddar a diammheuol fod tri ugain, pedwar ugain, neu gant, o blant yr un Ysgol Sabbothol wedi eu troi fel gyd â'u gilydd at Dduw. O'r Arglwydd y daeth hyn, er i rai wadu a chablu.

Aml y mae y bobl mewn heolydd cyfain mewn rhai trefi ar eu traed hyd dri neu bedwar yn y bore, yn gweddio o dŷ i dŷ, ac yn ceisio cysuro y rhai sydd yn chwerwder edifeirwch, neu lawenhâu gyda'r rhai sydd newydd ddi-anc o afael eu pechodau i ryddid gogoniant plant Duw. Nis gall gweinidogion yno fyned i'r holl dai y bydd galwad mawr am danynt. "Y cyn- auaf yn wir sydd fawr, a'r gweithwyr yn anaml." Aeth rhai pobl ieuainc i wawdio i gyfarfodydd, a brysient yno rhag ofn na fyddent mewn pryd i gael eu "taraw;" eithr yn lle gwawdio byddent yno hyd hanner nos yn gweddio Duw am faddeuant. Y mae cyfeillion a gelynyon yn gwylied ymddygiad y dychweledigion newydd hyn yn ofalus, ond i ddyben hollol wahanol; eithr ymddengys trwy y cwbl fod y gwaith da yn dyfnhâu, ac fod gweithredoedd diafol yn cael eu dattod yn eu calonau. Y mae cymdeithas yn cael ei halltu â gras yno, a ffynnonau llygredd a dinystr yn sychu yn gyflym. Y mae cannoedd o dafarnwyr wedi rhoddi i fyny eu galwedigaeth, a *distilleries* mawrion yn sefyll, gan fel y mae yr adfywiad wedi dwyn ymaith obaith yr elw hwnw. Mae rhedegfeydd cefylau, &c., a fu gynt yn boblogaidd, yn awr yn troi yn fethiant. Mae yr *Orangeman* wedi colli ei ffyrnigrwydd politicaidd, a'r Gwyddel cwerylgar ei duedd i ymgyfreithio. Ac y mae y diwygiad wedi cyrhaedd hyd at y benywod gwaethaf eu cymeriad. Mewn gair, y mae "nefoedd newydd a daear newydd" i'w canfod yn y parthau lle y mae yn gweithredu. Clod i Dduw! "Marchog Iesu yn llwyddiannus." "Gwregysa dy gleddyf ar dy glun, O Gadarn, a'th ogoniant a'th harddwch. Ac yn dy harddwch marchoga yn llwyddiannus, o herwydd gwirionedd, a lledneisrwydd, a chyfiawnder; a'th ddeheulaw a ddsyg i ti bethau ofnadwy. *Pobl a syrthiant danat*; o herwydd dy saethau llymion yn glynu yn nghalon gelynyon y Brenin." Mor briodol y gall gweinidogion yn ngwlad y llwyddiant ddywedyd am y dychweledigion newydd, "A chwi a aethoch yn ddilynwyr i ni, ac i'r Arglwydd, wedi derbyn y gair mewn gorthrymder mawr, gyda llawenydd yn yr Ysbryd Glân." Hyderwn y gwna y llwyddiant hwn fyned rhagddo fel llifeiriant anorchfygol, gan ymdaenu dros yr holl dir o Antrim trwy ganol yr ynys i Mizen *Head*; ac o Dublin i ben pellaf Mayo a Galway.

Y mae y gweinidogion a'u pobl yn yr Iwerddon yn dangos callineb canmoladwy yn eu dull yn gweithio gyda'r diwygiad; nid ydynt wedi rhoddi heibio ganu a phregethu, ond y mae y ddau beth mawr hyn yn eu bri a'u grym. Camsyniad dirfawr, yn ein barn ni, a wnaed mewn rhai manau yn Sir Aberteifi, pan oedd Duw yn ymweled â'r eglwysi mewn modd anarferol, oedd peidio canu na phregethu am beth amser,—tua thri mis, os ydym yn cofio yn iawn, gyda rhyw enwad yno! Gweddier faint a fyner, ond bydded i bregethu a chanu gadw eu lle. Y mae gweddi yn help i'r bregeth, a'r bregeth yn foddion i ennyn ac i daenu ysbryd gweddi. Y mae y naill i gynnorthwyo y llall. Nid yw gweinidogion y Testament Newydd byth i fod yn sud pan y mae yr Arglwydd yn gweithio. "Yr wyf yn dywedyd i chwi, pe tawai y rhai hyn, y llefai y cerwg yn y fan."

☞ Ni fu y fath ymweliad erioed yn y wlad hon, ac y mae yn amlwg fod Duw yn cyfodi i drugarhâu wrth yr annuwiolion sydd hyd yn hyn wedi peri i'r ddaear ruddfan dan eu drygioni. Nid oes dim yn ormod i ni ddysgwyl oddiwrth Dad y trugareddau, oddiwrth yr Hwn a fu farw dros ddynion, ac oddiwrth yr Ysbryd a argyhoedda y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn.

BEAUMARIS A'I CHYFFINIAU.

Ar foreuddydd hyfryd yn mis Mehefin, 1858, cychwynasom o gartref i ymweled âg ymylau Môn. Ar ol teithio rhyw gymaint ar y rheilffordd, disgynasom yn safle Llanfair Pwll Gwyngyll, neu fel ei gelwir yn gyffredin, Llanfair y Borth. Gyda ein bod wedi cyrhaedd y ffordd fawr, denwyd ein sylw gan y golofn ardderchog a gyfodwyd er anrhydedd i'r diweddar Ardalydd Môn, ac er côf am ei wroldeb milwrol yn yr Yspaan yn 1807, ac ar faes bythgofiadwy Waterloo, ar y 18fed o Fehefin, 1815. Erbyn cyrhaedd godre y golofn, deallasom er ein siomedigaeth nad allem fyned i'w phen; ond dywedwyd wrthym bod grisiau i gael ei rhoddi ynddi cyn hir, a delw efydd ardderchog o'r Ardalydd ar gefyl i'w osod ar ei phen. Gresyn na buasai rhyw un wedi meddwl am hyn o'r blaen; ond bellach fe dybygid nad oes un ammheuaeth na bydd i'r bwriad gael ei gario allan, gan fod amryw gannoedd o bunnau wedi eu casglu eisoes er cwblhâu y gwaith. Anhawdd i'r meddwl allu ffurfio na dychymygu mwy nag a wêl y llygaid oddiar y graig uchel y saif arni, a rhaid y bydd yr olygfa oddiar ei phen yn ysplenydd iawn. Tröer o amgylch ogylch, y mae natur a chelfyddyd wedi gosod prydfertwch ar y llanerch hon nad yw ond ofer i ni geisio ei ddarlunio. Tua'r dehau, dyna fynyddoedd Sir Gaernarfon a'u pinacclau yn estyn tua'r nefoedd, a'u llethrau megys yn araf ostwng nes cyrhaedd afon Menai, dros yr hon braidd yn ein hymyl dyma bont ardderchog Britannia a'i dau lew mawr fel yn gwenu arnom, i'n croesawu i'r hen wlad. Ychydig yn nês i'r gorllewin, dyma y Plas Newydd, preswylfod Ardalydd Môn. Yma mae yr afon yn culhâu; ac yn agos i'r lle hwn y dinstriwyd lluoedd Iorwerth y Cyntaf, Brenin Lloegr, pan yn croesi yr afon yn 1282. Wrth edrych tua y gogledd, gwelir rhan helaeth o wlad Fôn; ac wrth droi ein golwg tua y dwyrain, dyma Bont Menai, yn edrych i'n tyb ni yn llawer harddach na'r Britannia fawreddog.

Wedi ymddifyru fel hyn am beth amser, daethom yn ein blaen tua Phorthaethwy. Ar y ffordd denwyd ein sylw at y lle hynod a elwir Pwll Cerris, sef y rhan hono o'r afon ag sydd yn gorwedd rhwng y ddwy bont. Mae y llanw a'r trai yn afon Menai yn rhedeg yn hynod gyftym a nerthol; a thrwy fod y lle hwn yn greigiog, ac yn attalfa i'r llif, pan y bydd y llanw

yn dyfod i fewn, neu yn myned allan, y mae y lle fel crochan berwedig, â'i swm yn cyrhaedd hyd ymhell. Nid rhyfedd i un o'r beirdd gyfansoddi yr englyn canlynol iddo :—

“Pwll Cerris, pwll dyrus drŷd—pwll yw hwn
 Sy'n gofyn cyfrwyddyd;
 Pwll anfwyn yw, pwll ynfyd,
 Pella o'i go o'r pyllau i gyd.”

Fel yr oeddem yn araf deithio fel hyn tua Phont Menai, daeth i'n meddwl yn lled sydyn fyned i ymweled â Chareg Iago; ac nid hir y buom cyn cyrhaedd yno. Safasom ar y lle mae yn debyg y safai Baldwin, Archesgob Caergaint, arno yn y flwyddyn 1188, i bregethu i drigolion Môn. Daeth y gŵr urddasol hwnw yr holl ffordd tua gwlad Môn, gan gael ei osgorddu mewn mawredd gan braidd yr oll o dywysogion, esgobion, a chlerigwyr Cymru; a thyma fe wedi dewis pulpud campus feddyliem, lle mae o leiaf un rhan o dair o wlad Fôn, a rhan fawr o Arfon, yn y golwg. Beth tybed fydd ei destyn? Beth fydd ei genadwri? Dychymygwn ei weled yn sefyll ar y graig amlwg hon, ei fantell archesgobol am dano, ei feitr am ei ben, a phâc o groesau bychain yn ei law i'w rhoddi i'r neb a ufuddhai i'w genadwri. Ar y graig gyferbyn â ni, a elwir hyd heddyw Maen Rodenic, y safai Rodri ap Owain Gwynedd, ac ar ei llethrau yr eistedda ei feibion, gan wrandaw yn astud ar y gŵr dyeithr. Gresyn na buasai ei genadwri yn fwy cyson â'i swydd! Mor weddaidd fuasai ôl ei draed ar y fan hon pe cawsid clywed efengyl y tangnefedd o'i enau. Yn lle hyny, ei neges ydoedd ceisio gan ein henafiaid gymeryd y croesau bychain o'i law, fel arwydd eu bod yn cydsynio â'r alwad o fyned i gymeryd rhan yn Rhyfaloedd y Groes, fel eu gelwid, er cymeryd y lleoedd a gyfrifid yn sanctaidd yn ngwlad Canaan oddiar y Mahometaniaid. Ond wedi i'r urddaswr parchedig orphen ei araeth, ac i Giraldus Cambrensis ei chyfieithu i'r werin, os gwir yr hanes sydd yn ein meddiant, nid ymrestrodd onid tri i fyned gydag ef. Dywedir i Rodri a'i feibion nacáu mewn un modd gydsynio â'i gais o fyned ymhell oddicartref, ac yn ol pob tebygolrwydd byth i ddychwelyd yn ol. Nid oeddynt mor ffol ag aberthu eu hunain a'u deiliaid i wallgofrwydd a phenboethni Pabyddion yr oes. Erbyn i Baldwin weled nad oedd i'w genadwri nemawr roesawiad, ac na cheid ond ychydig i gymeryd y croesau o'i law, yr oedd efe, mae yn ddiâu, yn teimlo yn lled siomedigaethus. Ond cyn ymadael â'r wlad, efe a safodd drachefn i erfyn am gynnorthwy arianol er myned â'r rhyfel ymlaen; ac oddiwrth yr amgylchiad hwn, medd traddodiad, y gelwir y fan Cil-beg-le hyd heddyw. Wedi y cyfan, lled anffoddog oedd y gŵr ar ei roesawiad yn Môn. Erbyn iddo groesi yr afon a chyrrhaedd dinas Bangor, cawn yr hen farcut yn esgymuno yr enwog Owain Gwynedd, ac yn gorchymyn codi ei gorff o'i fedd, a'i fwrw y tu allan i furiau yr eglwys gadeiriol. Mae yn ddiammheu mai ei aifwyddiant gyda Rodri a'i feibion a fu yr achos o'r dialedd hwn. Pe buasai y cadnaw eglwysig wedi gwneyd hyn wrth ddyfod i Fôn, odid fawr na chawsai yntan fedd yn nhiriogaeth Rodri, ac na buasai raid i neb gŵyno iddo gael ei adael mewn lle rhy gysegredig i'w oddef hyd ddydd brawd.

Wedi ymdroi fel hyn yn synfyfryol am beth amser, daethom tua y dref newydd a elwir yn Bont Menai. Nis gallasem lai na synu at y cyfnewid- ad syddi er ys ychydig fluyddau yn y lle hwn. Wele eglwys blwyfol new-

ydd a hardd, a'i thyllau yn dyrchafu trwy y coed caudfrig a'i cylchynant, a'i chwaer henach yn edrych yn ddigon llwydaidd ar ynys fechan yn y môr. Ond rywffodd, y mae golwg go lew ar yr hen wedi y cyfan, er, am ddim ar a wyddom ni, mai y muriau a gyfodwyd gan Tysilio ap Brochfael Ysgythrawg, yn y seithfed ganrif, yw y muriau yr edrychwn arnynt. Ond gwyn pob newydd. Felly mae yn debyg mai ei gadael i adfeilio a gaiff yr hen wedi gwneyd y newydd. Gobeithiwn ni, pa fodd bynag, na cha yr un bardd byth wneyd gwawdgan i hen eglwys Llandysilio, a dyweyd ei bod fel llawer eraill yn Môn "a'i hasenau allan." Wele hefyd gapel newydd a gwyth y Methodistiaid Calfinaidd. Yr oeddem yn gorfyd synu at y newydd bethau hyn, ac, megys yn ddiarwybod i ni, ymrithiai dyddiau mebyd ac ieuencyd o flaen ein meddwl. Gwelem Afon Menai heb yr un bont, a'r porthweision yn prysur drefnu eu badau a'u hysgreiff er ei chroesi. Cofiem y mawrwr a'r gwaeddi a fyddai yno wrth nofio anifeiliaid drosodd ar amser y ffeiriau. Cofiem hefyd fyned gyda y diweddar Thomas Lewis, Llandegfan, y diweddar Henry Morgan, o Gadnant, a'r henadur teilwng Lewis Williams, i gadw cyfarfodydd gweddi mewn hen lofft, cyn bod yma son am adeiladu capel. Gwelsom bethau grymus lawer gwaith yn yr hen lofft; byddai ei muriau llwydion yn diaspedain gan lais cân a moliant.

"O fewn ei muriau lawer tro,
Ni glywsom orfoleddu, do!"

Byddai yr Arglwydd yno yn amlwg ymhlith ei bobl; ond erbyn hyn dyma gapel ehelaeth a hardd. Mae y fechan wedi myned yn fil, a'r wael yn geneidl gref.

Ond bellach rhaid cychwyn tua Beaumaris. Yr ydoedd y golygfeydd a'i cylchynant ar y sfordd yn peri syndod i ni,—glânau y Menai wedi ei britho â phalasau prydferth; ac wrth syllu ar natur a chelfyddyd fel yn ymryson am oruchafiaeth, braidd heb yn wybod i ni ein hunain y cyrhaeddasom y dref. Ar ol cymeryd hamdden i gael lletty a phob peth yn gysurus, aethom allan i edrych beth oedd yn myned ymlaen yn y lle; a chan nad oedd ein hamser ond byr, yr oeddem yn penderfynu gwneyd y goreu o hono. Yr oedd y brif heol yn edrych yn lled dawel, heb yno nemawr i'w gweled yn tramwy ol a blaen. Ond erbyn i ni ddyfod at y *Green*, yr oedd yno amryw o bob oed, y rhai gan mwyaf, dybygem, oeddynt fel ninnau yn ddy-eithriaid, yn ymddifyru yn edrych ar y golygfeydd oddiamgylch. Erbyn cyrhaedd glân y môr, o'n blaen yr oedd gwastadedd mawr o dywod, sef Traeth y Lafan, a galleid meddwl ein bod yn edrych ar ran o anialwch Arabia, oni buasai ein bod yn gweled amryw fenywod a phlant yn prysur grafu y tywod am y creginbysg hysbys a elwir cocos. Fel yr oeddem yn sylwi arnynt, gwelem hwy yn dechreu casglu eu helfa at eu gilydd, ac ar frys yn eu cario ymaith at gychod oedd gerllaw. Wrth weled nyn, gwyddem na byddai raid aros ond ychydig cyn y byddai yr holl wastadedd yn orchuddiedig gan ddwfr. Yr ydoedd y môr mawr yn dechreu rhedeg yn gyflym dros y tywod, ac yn fuan yr ydoedd yr afon gul a'n gwahanai oddi wrth y tywod, yn fôr llawn pedair milldir o led. Wrth weled cyflymder y dyfroedd yn gorchuddio y lle, deuai y traddodiad am Helig ap Glannawg, a glywsom lawer gwaith pan yn ieuanc, yn adnewyddol i'n meddwl.* Dy-

* Gwel TRAEHBODYDD Mehefin, 1869, tu dal. 169.

wedir fod y gwastadedd maith o afon Gonwy i Bangor cyn hyny yn dir amaethyddol. Gellir meddwl y buasai yn naturiol i'r môr orlifo y fath le pan y gorlifwyd Cantref y Gwaelod. Clywsom amryw a fuont yn edrych uwchben y ceryg peryglus yn y môr, a elwir Llys Ellis, neu Llys Helyg, yn agos i'r Penmaenmawr, yn sicrhâu mai olion hen furiau cedyrn ydynt. Wrth adfyfrio eto, y mae yn dyfod i'n côf hanes dinystr rhan o fyddin Iorwerth y Cyntaf ar lanerch o'r traeth hwn, gan Llywelyn ab Gryffydd yn y flwyddyn 1282. Ar yr achlysur cadwyd gwledd fawr gan Llywelyn yn ei lys yn Aber, pan y dywedir iddo gyfansoddi yr englyn, "Mae'n Don, llawer bron, llu 'r brenin—heddyw, &c." Yn fuan ar ol hyn y bu y fuddugoliaeth yn agos i'r Plas newydd, fel y crybwyllwyd, pan y colodd y Saeson, rhwng lladd a boddi, bymtheg marchog, deuddeg ar flugain o ysweinïaid, ac amryw gannoedd o filwyr cyffredin. Ond ni bu llawenydd Llewelyn druan ond byr, oblegid ni a gawn fod ei ben yn cael ei arddan-gos ar Dŵr Llundain yn niwedd yr un flwyddyn.

Gan fod mantellau y nos yn prysur daenu drosom, dychwelaisom tua ein lletty. Arosasom am yspaid i fyfrio ar yr amrywiol enwau a geir ar y lle hwn mewn ysgrifau hen a diweddar. Enw cyntefig y porthladd ydoedd Porthwygir; ac nid oes genym un hanes bod yma dref cyn adeiladu y castell gan Iorwerth y Cyntaf. Yna cawn yr enwau canlynol:—Bewmaris, Beaumarish, Bimaris, Bellum Aniscum, ac yn ddiweddar Beaumaris. Nis gallwn benderfynn pa un o'r enwau sydd fwyaf priodol, ac nis gwelsom reswm yn cael ei roddi ond am ddau, sef Bimaris (daufôr) oblegid fod deuforgyfarfod yn agos i'r lle y saif y dref, a Beaumarish neu harddwaen. Dywedir i'r enw hwn gael ei roddi gan Iorwerth. Gellid meddwl fod yr enw yn fwy priodol y pryd hwnw nag yw yn awr, oblegid mewn hen lawysgrifen yn amser Iago I. ag sydd yn nodi amryw lanerchi o dir yn agos i'r dref, cawn y geiriau canlynol, "A certain parcel of land on the sea shore, extending from a place called Osmond's Air (y pwynt), towards Cerrig y Gwyddel into the sea." Eto: "a certain pasture upon the sea shore, between the weir called Limekylm, and the house of the fryers of Llanfaes." Yn awr y mae y tir a nodir yma wedi ei lwyr olchi ymaith gan y môr, a gorchuddir y lle y safai gan amryw droedfeddi o ddŵr ar y llanw.

Y dydd canlynol yr oeddem i fyny yn lled fore. Hwylaisom ein camrau eilwaith tua y *Green*; troisom ein golwg at yr hen gastell, pan y deuai llinellau grymus Llwyd yn lled fywiog i'n meddwl,

"Here earth is loaded with a mass of wall,
The proud insulting badge of Cambria's fall,
By haughty Edward raised: and every stone
Records a sigh, a murder, or a groan."

Dyma y castell diweddar o'r tri a adeiladwyd gan Edward I., ar orchfygiad y Cymru. Dywedir iddo gael ei sylfaenu yn y flwyddyn 1295. Dewiswyd y lle y saif arno er mwyn cael ei amgylchu â ffos ddofu, nid yn unig er amddiffyniad, ond hefyd fel y gallai mân longau ddyfod i ddadlwytho at ei byrth. Yr ydoedd rhan o'r hen ffos, a adnabyddid wrth yr enw *Llyn y Green*, yn aros hyd ddechreu y ganrif bresennol. Er bod yr hen gastell yn amddiffynfa o anferth faintioli, y mae ei sefyllfa isel, a thrwch dirfawr ei furiau, yn peri iddo edrych yn lled drymllyd. Y mae yr ysgwâr oddimewn yn gant a phedwar ugain a deg o droedfeddi petryal. Ar y llaw ddeau y mae

y capel o wneuthuriad da, ac heb adfeilio ond ychydig hyd heddyw. Gyferbyn â'r porth deau-ddwyreiniol y mae y neuadd fawr, yn ddeg troedfedd a thriugain o hŷd wrth dair ar hugain o led, ac yn cael ei goleuo gan bump o ffenestri mawrion a hardd. Yn wir, y mae golwg brydferth ar ranau tumewnol yr hen gastell. Pe na buasai y muriau allanol mor adfeiliedig, pwyl allasai feddwl fod mwy na phum cant o flynyddau er pan osodwyd y ceryg hyn ar eu gilydd? Mae hanesyddiaeth yr hen gastell wedi ei amdoi â chryn dywyllwch, ac nis gwyddys ond ychydig gyda dim sicrwydd am y creulonderau a gyflawnwyd o'i fewn. Yma, y mae traddodiad yn ein hysbysu, y llofruddiwyd beirdd Cymru gan y creulawn Iorwerth. Dywedir iddo gyhoeddi math o Eisteddfod neu gyfarfod barddol, a gwahodd yr holl feirdd i fod yn bresennol ynddo i ganu am wobrau; ac wedi eu cael at eu gilydd, adroddir iddo orchymyn i'w swyddogion ruthro arnynt a'u lladd, yr hyn a wnaed yn y modd mwyaf didrugaredd ac anghyfiawn.

Mae yn wir y ceir amryw o ysgrifenywyr yr oes bresennol yn amhheu gwirionedd yr hanes hwn, ac yn barnu mai yr oll a gynnwysir yn y traddodiad am Gyflafan y Beirdd yw y gwaharddiad a roddwyd iddynt gan Iorwerth i segura a chrwydro y wlad am fath o daliad trethol a roddid iddynt a elwid *cymmortha*. Eithr pe bae pleidwyr y syniad yma yn edrych yn fanwl, canfyddent bod Iorwerth yn gorchymyn "na byddai iddynt gael eu *goddef* na'u *porthi* yn y wlad, rhag y byddai iddynt trwy eu celwyddau a'u henllibiau gyffroi y bobl i ddrwg." Wrth fanwl edrych ar gymeriad cyffredinol Iorwerth, nis gallwn edrych ar eiriad yr adran uchod yn fawr lai nag arwyddiad *death warrant* y prydyddion. Yr ydoedd Syr J. Wynne o Wydr, a'r hynafleithydd medrus Richard Llwyd, awdwr clodwiw y *Beaumaris Bay*, yn credu fod y traddodiad yn wir. Ceir amryw hen ysgrifenywyr hefyd yn cyfeirio at lofruddiaeth beirdd Cymru. Dodwn dystiolaeth G. F. Raymond yn ei "*History of England*:"*—

"But the death of David was not the only act of cruelty that took place at this time. The bards, or Welch poets, were also devoted to destruction. Edward well knew that nothing had a more powerful influence to keep alive the idea of military valour, and ancient glory among the people, than the traditional poetry of the bards, more especially when assisted by the power of music, and jollity of festivals. He therefore got together all the Welch poets, and from a policy equally cruel and unjust, ordered them all to be put to death."

Y mae Gray hefyd yn cyfeirio at yr un amgylchiad yn ei gân orchestol "*The Bard*;" ac fe allai nad anhriodol fyddai dyfynu rhai brawddegau o gyfieithiad Iago Trichrug o hŷni.

Ar ysgythredd craig ofnadwy,
Uwch ewynawg ei hen Gonwy,
Safai bardd, mewn tudded galar,
Graid ei lygad oedd, a llachar.
Hir ei farf, a gwallt arianawg,
Llaes, mal seren wib gynffonawg.
Hwn â llaw alawydd medrus,
Ac â theimlad bardd gorddigus,
Taraw cainc a wnai yn sydyn
Brudd ei dolef ar y delyn.
* * *

* Raymond's "*History of England*, 1790." *Book 8*, page 166.

Uwch dy ben! O frenin ffyrnig!
 Holl gangenau hen y goedwig,
 Mal & chryglais, a fygythiant,
 Ar dy goryn ddialeddant.
 Mwy ni leisiant gyda thelyn
 Beraidd Hywel, na Llywelyn;
 Darfu llon accenion canu,
 Gwedi dydd tryohinawl Cymru.
 * * * * *

Gorwedd wnant ar draethydd Arfon,
 Yn eu'gwaed, yn eohrys welwon;
 Goruwch iddynt fry, ehedant
 Y oigfranod, a brawychant;
 Ac yr Eryr hen newynllyd
 Ysgrecha, ac & helbiaw hefyd.
 O! fy anwyl hoff gyfeillion,
 A chelfyddgar gydganorion.
 Anwyl, fal goleuni hinon
 A lonha fy mhrudd olygon;
 Anwyl, fal y dafnau rhuddion
 A gynhesant cylch fy nghalon;
 Chwi drengasoch, do yn nghanol
 Oriau Cymru drancedigol.
 * * * * *

Gweuwn yn ystofiad anferth,
 Gweuwn amdo i lin Iorwerth.
 A gadawn ymylwaith ddigon
 I ddarluniau uffernolion."

Ond i ni edrych ar y cyfreithiau a roddwyd gan Iorwerth i'r Cymry, ni bydd yn anhawdd genym gredu ei fod yn euog a'r "gyflafan." Yr ydym yn ystyried ei bod yn fendith neillduol i'r holl wlad fod yn ddarostyngedig i uu penaeth. Eto pan edrychom ar ddarostyngiad y genedl gan y penadur creulawn hwn, nid yw yn bosibl peidio ffieiddio ei gymeriad. Dyma rai o'r ffafraun a roddwyd ganddo i drigolion Beaumaris:—

"That they shall have a *free* prison in the Castle.—

"That no Jews shall dwell there—

"That if any of the said Burgesses die testate, or intestate, their goods shall not be confiscated to the King, but that their heirs shall have the same."

Dylid cofio fod y dref yn cael ei ffafrio yn neillduol gan Iorwerth, ond nid ffafraun i'r Cymry oeddynt, oblegid Saeson oedd braidd yr oll o'r trigolion. Wrth edrych ar y "*list of Burgesses*" mor ddiweddar a'r flwyddyn 1608, nid ydym yn cael enw onid un Cymro yn eu plith. Os cafodd y dinaswyr garchar rhydd neu råd yn y castell, pa sawl Cymro a gafodd garchar drud a chaeth yno, ac a garcharwyd yn weddol ddiachos hefyd? Os ydoedd plant y dinaswyr i etifeddu meddiannau eu rhieni, eiddo pa blentyn ymddifad o Gymro a drawsfeddiannwyd gan y brenin drygionus? Gellir yn lled hawdd ddyfod i benderfyniad na buasai ond cellwair gan y gŵr a glywai ar ei galon lofruddio 280 o luddewon yn Llundain mewn un dydd, dan yr esgus eu bod yn niweidio yr arian bathol, ond mewn gwirionedd er meddiannu eu harian i gario y rhyfel ymlaen yn erbyn ein cyn-dadau, lofruddio llon'd gwlad o feirdd, os meddyliai y byddent yn rhyw rwystr iddo gyrhaedd ei amcan; ac nis gall na bydd ei goffadwriaeth yn felddigidig gan y Cymry tra parhau hanesiaeth Cymry a Chymraeg.

Wrth chwilio i hanesyddiaeth y castell, nid ydym yn cael ond ychydig

bethau yn werth eu cofnodi. Y llywydd cyntaf a osodwyd gan lorwerth ydoedd Farchog Gasconaid o'r enw William Pickmore; a byddai ceidwadiaeth y castell, a llywyddiaeth y dref, yn cael eu cyflenwi gan yr un person bron bob amser. Ond yn nheyrnasiad Harri VI., yr ydym yn cael un Syr John Boteler yn geidwad y castell, ac un Thomas Norris yn llywydd y dref. Dyma y pryd ar ddiwrnod marchnad y bu y "Ffrau ddu yn y Bewmaris" rhwng pobl y wlad a'r milwyr, pan y lladdwyd Dafydd ap Evan ap Hywel, Yswain, o Lwydiarth, ac amryw eraill. Y mae ar gael amryw ddeisebau wedi eu gyru o dro i dro gan drigolion y wlad, yn erfyn amddiffyniad rhag gormes y milwyr a breswylent y castell; ond nid ymddengys fod fawr sylw wedi cael ei roddi iddynt hyd esgyniad Harri VII. i'r orsedd, yr hwn ydoedd wŷr i "Syr Owen ap Meredydd ap Tudor o Benmynydd yn Môn." Yn ei amser ef cymerwyd y gwarchodlu ymaith, ac ystyrir hyn yn ffafwr oddiar ei law. Ymddengys bod y castell yn prysur adefilio ar ol cymeryd ei breswylwyr ymaith; a chawn Harri VIII. yn y 30 fwyddyn o'i deyrnasiad, yn gorchymyn ei adgyweirio yn drwyadl. Pa un a wnaed ai peidio, nis gallwn gael sicrwydd. Yn amser y Frenines Elizabeth, paratowyd llong ryfel yma, dan olygiad Pyrs Gryffydd, un o hynafiaid teulu y Penrhyn yn Arfon. Ei eiddo ef oedd y llong, a hwyliodd ynddi yn bersonol i gyfarfod Syr Francis Drake, er ymosod ar y "*Spanish Armada*" — y llynges ydoedd wedi ei chasglu ynghyd gan alluoedd y Cyfandir, er bod yn ddinystyr tragwyddol ar allu Prydain a Phrotestaniaeth. Ond llwyr fethodd yr amcan, fel mae yn dra hysbys; a theilwng cofnodi gwroldeb y Cymro teilwng hwn yn gwneyd ei ran tuag at hyn. Nid ydym yn gwybod dim am sefyllfa y castell ar y pryd, nag yn cael nemawr hanes am dano hyd deyrnasiad Charles I.

Yn y fwyddyn 1642, awdurdodwyd Sir Thomas Chedle gan Iarll Dorset, i gyflenwi pob anghenrheidiau, mewn ymborth, offerynau rhyfel, a dynion, i amddiffyn y lle dros y brenin. Yn y fwyddyn ganlynol rhoddwyd llywyddiaeth y castell i Thomas Buckley, wedi hyny Arglwydd Bulkeley. Yn lled fuan wedi hyn, rhoddodd Arglwydd Bulkeley y llywyddiaeth i Colonel Bulkeley ei fab, yr hwn a gadwodd y llywyddiaeth hyd gymeriad y castell gan fyddinoedd y Senedd yn 1648. Yr ydym yn cael mai pleidwyr y Brenin a'i achos ydoedd mawrion y wlad. Gwnaethpwyd cyttundeb gan y boneddigion i gyfodi cymaint ag y allent o filwyr yn y wlad i ymladd o'i blaid. Yr ydoedd y Brenin y pryd hwn yn garcharor yn Carisbrook, yn yr Ynys Wen. Mae y cyttundeb wedi ei ddyddio y 14eg o Orphenaf, 1648, ac wedi ei arwyddo gan 37 o enwau. Yn fuan ar ol hyn cyhoeddwyd cyfarfod i gael ei gynnal ar y Talwrn Mawr, a gwnaed yr ymdrech mwyaf egniol i gael cyfarfod lliosog. Pan ddaeth yr adeg, ymgasglodd y lliaws ynghyd, a safai Robert Morgan, Person Llanddyfnan, i anerch y gynnull-eidfa, gan ddadgan rhagoriaethau y Brenin, a dyledswydd y trigolion i ymladd o'i blaid; a darllenai y cyttundeb yn Gymraeg, er mwyn i'r werin ddeall ei gynnwysiad. Yn y cyfarfod yr oedd amryw ffoaduriaid o wledydd eraill, y rhai oeddynt wedi dyfod am noddfa i Ynys Môn. Trwy wneyd yr arddangosiad mwyaf mawreddog a ellid, canu udgyrn, curo tabyrdau, a bloeddio, a rhanu bwyd a diod, cafwyd gan y rhan fwyaf o ieuencyd y wlad gymeryd arfau o blaid y Brenin. Llywyddid y fyddin hon gan Arglwydd Bulkeley, y Milwriad Bulkeley, a'r Cadben Symkins; ac yr ydoedd adran arall yn y cŵr gogleddol o'r wlad dan lywyddiaeth y Milwriad Robinson.

Wedi clywed am hyn, ni bu y Senedd yn ddiofal am ddarostwng yr ynys. Ymddiriedwyd y gorchwyl i'r dirprwywyr canlynol: Syr Thomas Myddleton, y Cadfridog Mytton, Thomas Myddleton, Ysw., Simon Thelwal, Ysw., a'r Milwriad John Jones. Cyrhaeddodd y gwŷr hyn a'u lluoedd i Gonwy erbyn dechreu Medi, 1648. Wedi cael cychod a phob peth yn barod, a chael arweinydd, sef *Major* Chedle, gwŷr o wlad Môn, hwyliodd y cychod tua Bangor ar y 10fed o Fedi. Yr ydoedd corff y fyddin o wŷr traed a gwŷr meirch yn cerdded dros y Penmaen mawr, fel y byddai iddynt gyfarfod y cychod yn Mangor. Pan y daeth y cychod allan o afon Conwy, fel ag i fod yn weledig yn Môn, dechreuodd milwyr y wlad ymbarotî, a chyda y prysurdeb mwyaf rhybuddiwyd pawb i fod yn barod. Gyrwyd rhan o'r fyddin at lân y môr, ar y *Green* gyferbyni a'r dref, a gollyngasant ergydion at y cychod fel yr oeddynt yn pasio, ac ar yr un amser gollyngwyd ergydion o holl ynau mawrion y castell. Ond ni chymerodd y dirprwywyr un sylw o honynt; aethant heibio a glaniasant yn Mangor heb dderbyn nemawr neu ddim niwed. Arosasant yno hyd y 15fed o Fedi, pan y croesasant afon Menai yn yr hwyr; ac erbyn boreu yr 16eg yr oeddynt oll dan arweiniad un John Wiggins, brodor o Fangor, wedi glânio yn ddiogel yn Cadnant. Trefnwyd eu cynllun mor ddirgelaidd, fel y cawsant groesi yr afon heb i fflwyr y wlad wybod, a glaniasant heb unrhyw wrthwynebiad. Dywedir bod llu o filwyr yn y Borthaethwy wedi eu gosod i'w gwyllo, ond bod eu swyddogion wedi cymeryd eu llwgr-wobrwyo gan y Cadfridog Mytton. Mae hyn yn anhawdd ei gredu, oblegid pe felly, gallasai y Cadfridog groesi yn llawer hawddach a mwy cyfleus yn y Borthaethwy; ac nid yw yn debyg y buasid yn glânio mewn lle mor anghyfleus â Chadnant, lle yr ydoedd yr afon yn lletach, ac ar y pryd hwnw heb ffordd i fyned oddi-yno tua'r dref. Yr oedd manteision glâniad yn y Borthaethwy yn rhagori cymaint, fel os gallasant lânio yn ddiwrthwynebiad, fod braidd yn sicr na buasant yn dewis Cadnant. Yn lled foreu yr 16eg yr ydoedd y rhan liosocaf wedi cyrhaedd i ben y brynau cyfagos i'r lle y glâniwyd, y rhai a elwir Bryniau y Bloeddio hyd heddyw. Yr oedd Syr Hugh Pennant yn gwersyllu yn lled agos i'r fan, ac er ei syndod, pan yn edrych tua yr afon y bore hwnw, gwelai fryniau Cadnant wedi eu gorchuddio gan filwyr. Yn y fan trefnodd ei wŷr i ymladd, ac aeth ymlaen i ymosod ar y gelynyon; ond bu gorfod iddo encilio yn fuan. Yr oedd y fyddin tan lywyddiaeth Mytton yn llawer rhy liosog iddo, a gwnaeth y goreu o'i ffordd i'r Beaumaris, i rybuddio y milwyr yno i fod yn barod, gan bod y Cadfridog yn nesáu yn brysur at y dref. Cychwynodd y gelynyon yn lled fuan ar ol Syr Hugh Pennant, ac erbyn tri o'r gloch y prydawn, yr oeddynt wedi dyfod i olwg y dref, a gwersyllasant mewn lle a elwir Oerfedd Migin, yn agos i'r Allt goch. Yr oedd dyfodiad Syr Hugh Pennant i'r dref yn y bore wedi bod o gryn fantais i'r milwyr. Gwnaed brysgloddiau (*barricades*) ar draws yr heolydd, a threfnwyd y fyddin yn y modd goreu a ellid er cyfarfod y gelynyon. Yr ydoedd y Milwriad Bulkeley a Whitley wedi trefnu eu gwŷr ar y maesydd cyfagos i'r Allt goch, a Cadben Sanders gyda gwarchodlu y dref yn sefyll ychydig o'r tu ol iddynt, er adgyfnerthiad os byddai anghen. Yn agos i Dros yr Afon, yn nghŵr y dref, yr oedd y gwŷr meirch yn cael eu cefnogi gan Syr Hugh Pennant, ar y rhanau isaf o Barc y Baron Hill; ac ar lân y môr, rhwng y dref â'r Pwynt, yr oedd gwersyllfa Syr Arthur Blaney a'i wŷr. Mae yn ymddangos i ni y buasai yn anmhosibl fŷurfio byddin yn fwy rhe-

olaidd; a gwnaed hyn, mae yn amlwg, gyda y bwriad o amgylchu y gelynyon pan yn nesáu at y dref. Yn lled fuan wedi tri y prydawn deuai y gelynyon ymlaen, a rhuthrodd Bulkeley a Whitley i'w cyfarfod; ond dywedir i'r gwŷr traed ydoedd dan lywyddiaeth y Milwriad Whitley ffoi yn waradwyddus ar ddechreu yr ymladd. Modd bynag cynnorthwywyd hwy gan Cadben Sanders; ond bu gorsod iddynt encilio yn lled fuan, a daethant i gŵr y dref, lle yr ydoedd y nifer liosocaf wedi eu gosod yn barod. Pan gyrhaeddodd y gelynyon y fan hon, bu ymdrechfa galed. Dechreuodd y gwŷr meirch ymladd, a rhuthrodd Syr Hugh Pennant o'r Parc ac ymunodd â hwy, a bu agos iddynt gymeryd y Milwriad Lothian yn garcharor. Ar yr un pryd deuai Syr Arthur Blaney o'r tu ol iddynt; ond clwyfwyd ef yn dost bron ar ddechreu yr ymladd, drwy i belen fyned trwy ei benelin gan ei ddryllio yn chwilfrw. Bu hyn yn achos o ddigalondid mawr i'r milwyr oedd tan ei ofal, fel na buont o nemawr wasanaeth y gweddill o'r dydd. Erbyn hyn yr oedd y Milwriad Bulkeley wedi ail drefnu ei wŷr, a phan yn ceisio ymuno â Syr Hugh Pennant, cyfarfyddwyd ef gan Cadben Benbow, a bu orfod iddo encilio tua y dref, wedi colli llawer o'i wŷr, ac amryw wedi eu cymeryd yn garcharorion. Wedi myned i'r dref, cafodd adgyfnerthiad drachefn, a daeth ymlaen y drydedd waith. Ymosododd yn wrol ar y gelynyon; clwyfwyd Cadben Benbow a Vavator Powel (Caplan y fyddin elynol), a lladdwyd un Price, ficer Abergele. Gorchymynwyd i Cadben Llwyd, Penhwnllys, amddiffyn yr eglwys; clódd yntau ei filwyr o'i mewn rhag iddynt ddianc, a gwnaeth y goreu o'i ffordd ei hun, o ba achos galwyd ef yn *Captain Church* hyd ddydd ei farwolaeth. Bu y milwyr hyn yn achos i lawer golli eu bywydau, trwy bod eu sefyllfa uchel yn y clochdŷ yn fanteisiol iddynt bigo allan swyddogion y gelynyon. Clwyfwyd amryw o'r fan hon, a lladdwyd Cadben Hancock. Ond er y cwbl bu gorsod i'r Milwriad Bulkeley ildio, er iddo ymladd yn rhagorol yn erbyn byddin lawer lliosocach, ac wedi eu dysgyblu yn dda, pan nad oedd y rhan fwyaf o'i filwyr ef ond pobl gyffredin y wlad, ac heb weled gwasanaeth milwraidd erioed o'r blaen. Ffódd ef a'i gydsyddogion i'r Castell. Yr oedd yr adran o filwyr y wlad a lywyddid gan y Milwriad Robinson heb gyrhaedd y dref; a phan yr oeddynt ar eu taith yn agos i'r Traeth coch, daeth y newydd am orchfygiad y milwyr yn y Beaumaris i'w clywedigaeth, a dywedir i bawb ffoi i'w cartrefi. Erbyn y nos yr oedd y fyddin Seneddol wedi llwyr orchfygu. Aethant i'r dref, dystyriasant y brysgloddiau, a gyrasant genadwri at y swyddogion i'r Castell, mai gwell oedd iddynt ym-ostwng yn ddioid, er mwyn attal tywallt rhagor o waed; ac felly y bu. Yn yr ymladdfa lladdwyd tua deugain o'r gelynyon, ac oddeutu deg ar hugain o filwyr y wlad, a chymerwyd oddeutu pedwar cant yn garcharorion gan y Cadfridog Mytton. Chymerwyd y Milwriad Bulkeley a'i gydsyddogion yn garcharorion, a chadwyd hwy yn yr Hen Blas hyd nes y telid pridwerth er eu rhyddhâu. Gwnaed cyttundeb rhwng boneddwy'r y wlad â'r Dirprwy'r, ar yr ail o Dachwedd, 1668. Yr ydoedd y wlad i dalu saith mil o bunnau, erbyn y nawfed; yr oedd yr holl foneddwy'r wedi ei arwyddo. Talwyd y pridwerth a rhyddhawyd y carcharorion.

Mae pob hanes a welsom am yr amgylchiadau hyn wedi eu hysgrifenu gan elynion gredffol i'r Senedd. Gelwir hwy yn farbariaid, Roundiaid, &c., oddieithr mewn un ddeiseb oddiwrth drigolion y wlad, "At Anrhydeddus Gynghor y Wladwriaeth yn Derby House," &c., ymha un y gallwn

welod bod y bobl gyffredin yn hollol o blaid y Senedd.* Trwy i'r hen ddeiseb hono welod goleuni dydd, yr ydym yn cael gradd o wybodaeth beth oedd teimlad y cyffredin bobl y wlad at Oliver Cromwell a'i bleidwyr, a dyma yr unig beth a welsom mewn hanesyddiaeth i roddi goleuni gwahanol i syniad y boneddwyr a'r clerigwyr ar y pryd. Beth bynag a ddywedir am Cromwell a'i amserau, rhaid addef mai dyma y pryd y torodd gwawr rhyddid ar Loegr a Chymru; ysigwyd gormes y mawrion, arafwyd tra-arglwyddiaeth yn y tir, meithrinwyd syniad teilwng am ryddid crefyddol, ac er pob ymdrech methwyd ei lwyr lethu mwy; daeth y goleuni yn raddol yn ei flaen hyd ein dyddiau ni, a'n cred yw, mai myned ymlaen a wna nes derfydd pob gormes, dan yr esgus o gynnal crefydd o'r tir yn llwyr.

Yn fuan wedi hyn, ymadawodd y dirprwywyr, a gadawsant warchodlu yn y castell dan lywyddiaeth y Milwriad John Jones, ac nid ydym yn cael hanes pa amser y cymerwyd hwy ymaith, nac yn gwybod am ddim neillduol wedi cymeryd lle ynddo ar ol hyn, oddiethr yr Eisteddfod Genedlaethol a gynnaliwyd o fewn ei furiau yn Awst, 1832, yr hon a hynodwyd trwy bresennoldeb ein Grasuaf Frenines, y pryd hwnw y Dywysoges ieuanc Victoria, a'i mham y Duces o Caint. Wrth edrych ar furiau allanol y castell, y mae golwg bruddaidd arno, yn araf syrthio yn adfeilion. Ar yr un pryd, nis gallwn lai na llawenychu am nad oes anghen am amddiffynfeydd o'r fath erbyn hyn, ac nad ydynt bellach ond côfarwyddion o'r hyn a fu.

Yn agos i borth gorllewinol y castell, y mae Neuadd y dref, a adeiladwyd gan y diweddar Arglwydd Bulkeley, ar y lle y safai yr hen Neuadd, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1563, o dan yr hon yr ydoedd yr ystafell, lle gynt y cedwid offerynau poenydiaeth, megys y cyffion, y rhigod, a'r droch gadair goch er cospi y menywod tafod-ddrwg â throchiad dan y pistyll, i ba un y canai yr hen fardd William Phylip, yr englyn canlynol:—

“ Chwi 'r gwragedd rhyfedd eu rhooh—ysgeler,
Ysgowliwch pan fynoch,
E 'ch bernir, a'ch bai arnoch
Gyda 'r gair i'r gadair goch.”

Mae yn arwydd boddhâol o gynnydd moesoldeb trigolion y dref nad oes erbyn hyn eisieu arddangosiad offerynau o'r fath er cadw yr heddwch yn eu plith. Yn agos i'r un porth hefyd y mae Neuadd y wlad, a adeiladwyd yn 1614; yma y cynnelir brawdlysoedd y Sir. Oddiwirth yr amseriadau hyn, gwelir fod Beaumaris yn hen fwrdeisdref, yr hon a reolir gan faer, cofrestrydd, dau gantrefwr, ac un ar hugain o aelodau cynghorfa gyffredin, gan ba rai, hyd basiad y “*Reform Bill*,” yr oedd yr hawl i ethol a danfon aelod dros y dref i'r Senedd. Yr aelod cyntaf a anfonwyd, ar ol Rowlands, oedd Richard ap Rhydderch, Ysw., o'r Myfyrian, yn y flwyddyn 33ain o deyrnasiad Harri yr Wythfed, O.C. 1542. Mae hanesion eraill yn dywedyd mai o Niwbwrch yr anfonid aelodau i'r Senedd hyd 1552, a'r chweched o deyrnasiad Iorwerth y Chweched, ac mai y cyntaf a anfonwyd dros Beaumaris ydoedd Maurice Gryffydd, Yswain, o'r Plas Newydd, un o hynafiaid Ardalydd Môn.† Wrth ddyfod i lawr Heol y Castell, lle gynt y safai y Cwrt Mawr, preswylfod cyntaf y Bulkeleys yn y wlad hon, yr ydym

* “*Archæologia Cambrensis*.” Vol. 1, page 387. † Rowland's “*Mona Antiqua*.” Page 82L, 2nd Edition.

yn cael adeiladau prydferth, masnachdai heirdd, a gwestdai mawrion; ac hefyd Neuadd Marchnad fechan, ond a all, feddyllem, fod yn ddigon at anghenion y dref. Wrth fyned i fyny Heol yr Eglwys, ar ein llaw chwith, y mae yr Hen Blas, preswylfod diweddarach y Bulkeleys. Y mae yr enw yn ateb yn rhagorol iddo yn awr, oblegid golwg henafol sydd arno. Y mae y teulu wedi ei adael er pan yr adeiladodd Syr Richard Bulkeley y Baron-Hill, yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf, oddentu y flwyddyn 1612. Yr ydoedd y palas wedi ei fwriadu ar y cyntaf i dderbyn y Tywysog Harri, mab y brenin, yr hwn ydoedd wedi ei benodi yn Arglwydd Rhaglaw yr Iwerddon, ac a fwriadai aros pan ar ei daith am ychydig amser gyda Syr Richard. Dyrysodd marwolaeth anamserol y Tywysog yr amcan oedd gan Sir Richard o wneyd palas ardderchog i'w dderbyn; a phan gyrhaeddodd y newydd i'w glywedigaeth, gadawodd y tŷ fel yr oedd y pryd hwnw. Y mae wedi ei éangu a'i harddu lawer gwaith ar ol hyny, fel y mae yn awr yn un o'r palasau mwyaf a harddaf yn Môn. Ei breswilydd presennol yw Syr Richard Bulkeley Williams Bulkeley, yr aelod anrhydeddus dros y Sir. Saif y tŷ ar y llechwedd uwchlaw y dref; ac anhawdd i'r meddwl ddychymygu am le mwy prydferth a dymunol i fyw ynddo yn y byd hwn. Mae y golygfeydd o'r fan hon yn ysplenydd iawn. Odditanom y mae y dref a'r castell, ac Afon Menai yn tawel orwedd rhyngom ag Arfon. Mae y cylch o fynyddau o Bengogarth hyd ddinas Bangor, ynghyd â'r olygfa gylchynol o'r lle hwn, fe ddywedir, mor brydferth ag unrhyw lanerch yn Italy, yr hon wlad sydd ddiarebol am ei llanerchau prydferth.

Wedi cymeryd cipolwg ar yr Ysgol Ramadegol a adeiladwyd ac a waddolwyd gan David Hughes, o Lantrisant, Môn, yn 1603, yr hwn hefyd a adeiladodd elusendŷ yu agos i'r dref, i gynnal wyth o dlodion hyd byth, a chyllidau pa rai sydd yn awr dros chwe' chant o bunnau yn y flwyddyn—ac wedi i ni hefyd gael golwg ar garchar newydd y Sir, ni a aethom i weled "Corgell ein Boneddiges o'r Bewmaris." Ddarllenwyd, a wyddost ti beth yw Corgell? Os na wyddost, dyma yw,—“Cyflog neu dal blynyddol i un neu ychwaneg o offeiriaid am ddyweyd gwasanaeth yr offeren (*mass*) yn ddyddiol dros eneidiau y rhoddwyr a'u perthynasau hyd byth.” Dyma, dybygid, fu yr achos o sylfaeniad St. Mary yn y Beaumaris; ond y mae gwasanaeth yr offeren heb ei ddarllen ynnddi er ys llawer cant o flynyddau. Dyn a helpo y rhoddwyr truain! Gynt nid oedd yma ond capel perthynol i'r fam-eglwys, Llan-degfan; ond yn awr mae St. Mary yn blwyf, sef y dref a'r maesydd cylchynol. Yn yr eglwys y mae amryw gofologfnau heirdd. Yr henaf a'r hynotaf sydd fath o gist mewn alabaster, ac arni gerffuniau o farchog mewn llawn arfogaeth, a'i foneddiges mewn gwisg addurnol wrth ei ochr. Gan fod yr arfarwyddion wedi gwisgo ymaith oddiar y beddrod, mae yn anhosibl erbyn hyn gwybod pwy sydd yn gorwedd danodd; ond y mae traddodiad eu bod yn perthyn i'r Bulkeleys, ac wedi eu symud yma o Fonachlog Llanfaes yn amser Harri yr Wythfed. Ar yr ochr aswy i'r bwrdd gymunedeb, y mae *monument* ardderchog gan Westmacott mewn mynor gwyn, er côf am y diweddar Arglwydd Bulkeley, yr hwn a fu farw Mehefin 3, 1822, ac un arall hardd er côf am Charlotte Mary, merch y diweddar Arglwydd Dinorben, yr hon a gladdwyd yu Llanfairynghornwy, gwraig gyntaf Syr Richard B. W. Bulkeley. Y mae un arall mewn mynor du er côf am Thomas, chweched mab Syr Julius Cæsar, person Llanrhuddlad, 1632; ac amryw eraill rhy faith i ni eu henwi yn bresennol, yn enwedig gan radd

ydant ond er côf am bersonau anadnabyddus i'r cyffredin. Mae yr Eglwys yn adeilad brydfferth. Adgyweiriwyd hi yn drwyadl gan y diweddar Arglwydd Bulkeley, yr hwn hefyd ar yr un pryd a roddes organ ardderchog a chlychau newyddion ar ei draul ei hun.

Oddiyma ni a aethom i gael golwg ar gapelau yr Ymneillduwyr. Maent yn adeiladau cyffêus, ac ar y cyfan yn edrych yn weddol dda; ond rywodd y maent bron o'r golwg, mewn heolydd culion, oddieithr Capel y Methodistiaid Calfnaid, yr hwn sydd yn lled amlwg i'w weled wrth ddyfod at y dref oddiwrth Bont Menai; a dyma yr unig un y cawsom gyfie i'w weled yn dumewnol. Mae yn gapel hardd iawn, hyny yw, yn ol safon harddwch ugain neu ddeng mlynedd ar hugain yn ol, ac hwyrach mai dyna y safon oreu. Wrth fyned i mewn, ar ein llaw chwith, y mae côfadail am y diweddar Barchedig Richard Lloyd, yr hwn a fu farw y 25ain o Fai, 1834, yn 63 mlwydd oed, ac hefyd am ei fab John Lloyd, a fu farw bore Sabbath yr 2il o Hydref, 1831, yn 24 mlwydd oed. Achoswyd gwaeledd diweddaraf y gŵr ieuanc rhagorol hwn trwy yr olygfa ar gyrff y trueiniaid a foddasant yn nrylliad yr agerddlong Rothsay Castle, a'i ymdrechion yntau mewn cysylltiad â'r trychineb. Am y Parch. Richard Lloyd, neu Rhisiart Llwyd o Sir Fôn, fel y gelwid ef gynt gan bobl Dê a Gwynedd, teilwng sylwi mai gŵr hynod yn ei ddydd ydoedd efe. Bu yn gefnogydd cryf i Fethodistiaeth yn y dref; yn wir, ni bu yno fawr gynnydd ar achos crefydd efengylaidd cyn ei ddyfodiad i breswyllo yno yn y flwyddyn 1800. Yr ydoedd Richard Llwyd yn un o feistriaid y gynulleidfa, yn bregethwr rhagorol, ac ar adegau byddai dylanwad anghyffredinol yn cydfyned â'i weinidogaeth, a gellir dyweyd mai "llawer a drôdd efe oddiwrth anwiredd." "Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef, ac anwiredd ni chafwyd yn ei wefusau; mewn bêdd ac uniondeb y rhiodd." Yr ydoedd Mr. Llwyd o dymher hynod o addfwyn a siriol, a rhywbeth ynddo yn tueddu yn fawr at ddigrifwch, yn enwedig gyda phlant, ond nid byth yn anwedus; a byddai bob amser yn arwain meddwl yr ieuanc at ryw ran o'r Gwirionedd Dwyfol. Medrai fod yn hynod agos at bawb, ac eto nis gellid myned yn rhy hŷf arno; byddai bob amser yn siriol, ond nis gellid byth fod yn gellweirus yn ei ŵydd. Yr ydoedd rhywbeth ynddo a barai i bawb ei garu, ac eto ar yr un pryd a'u cadwai yn wylaidd ger ei fron. Yr oedd ei gymwynasau yn aneirif. Ceid gwled y tlawd a'r helbulus yn aml o'i amgylch; cyfrifid ef megys tad gan ddiotion y dref, a byddai calonau amddifaid a gweddwon yn ei fendithio; a mawr fu yr wyllo ar ei ôl. Yr ydoedd crefydd yn ei addurno yn hynod yn ei fasnachdŷ, ac yn ei holl gylchoedd teuluaid, megys ag yr ydoedd yn ei holl gylchoedd cyhoeddus. Byddai ei ddull mwynaid, ei synwyr cryf, a'i garedigrwydd dihafal at bawb, yn ei wneuthur yn hoff gan bawb. Nid rhyfedd i un o'r nodwedd yma fod yn llwyddiannus mewn masnach. Nid oedd yr ammheuaeth lleiaf yn meddwl neb nad gŵr cyfiawn a duwiol oedd Mr. Llwyd. Bu ei breswyliaid yn y Beaumaris yn foddion i gynnyrchu parch at Ymneillduaeth na wyddid am dano o'r blaen; cyfrifid ef yn ŵr da hyd yn nôd gan yr ucheglwyswyr penaf.

Ar ol cael boddioni ein llygaid i edrych ar y *Custom House*, a'r Rhodfa ar y *Pier* newydd, a wnaed er hwylusodod i lanio teithwyr o'r *Steam Packets* yn benaf, ac aros i weled y teithwyr am y diwrnod hwnw yn dyfod i'r lân, ni a gymerasom daith i'r Henllys Lodge, i weled y pethau rhyfedd sydd wedi eu crynhoi at eu gilydd yno. Gan fod cynwysiad y Lodge bellach

yn lled hysbys drwy y mynych grybwylliadau a wneir o honynt, ni finwn y darlennydd gyda hwy; ond os byth, gyfaill, yr äi ar daith i'r Beaumaris, gallwn sicrhau na bydd yn edifar genyt gymeryd y drafferth o fyned yno i'w gweled. Wele yma y diweddodd ein taith yr ail ddiwrnod.

Y bore canlynol, yr oeddem ar ein pedion, chwedl y Cymreigyddion gorddwfn, yn bur gynnar, gan ein bod yn myned i ymweled äg ynys Seiriol. Gan fod llawer blwyddyn er pan y cerddasom y ffordd hon o'r blaen, gwnaethom ein meddwl i fyny i gerdded hyd y Trwyn Du, a chroesi oddi-yno i'r ynys. Wedi pasio yr hen Gastell, a phan yr oeddem yn troi i'r ffordd sydd yn arwain tua Llanfaes, nis gallein lai nag edrych o'n hamgylch i chwilio am gâreg wedi ei cherfio ar lun pen St. Francis, a arferai gynt fod wedi ei gosod yn y fan hon, ac y byddai rhaid i bawb a'i pasiai dalu gwarogaeth iddi, neu ynte dalu dirwy i fonach a fyddai yn arferol o'i gwyllo; ond ni welsom na châreg, mwy na monach, i beri i ni attalfa. Yn lled fuan yr oeddem wedi cyrhaedd y man lle gynt y safai monachlog Llanfaes, a adeiladwyd gan Llewelyn ap Iorwerth, ar fedd ei wraig Joan, merch y brenin John o Loegr. Dywedir i Joan ddymuno cael ei chladdu yn y fan hon, ac mai dyma fu yr achos o gyfodiad a gwaddoliad y fonachlog yn y lle.

Yr ydoedd arch Joan hyd yn ddiweddar yn cael ei defnyddio yn gafn i ddal dwfr yn y fan hon. Y diweddar hynafiaethydd, Mr. Llwyd, wrth weled y cafn, sef cistfaen ardderchog yn y fath le, a benderfynodd na wnaed erioedd y gist hono at y gorchwyl ei defnyddid; a chan mai mewn cistfaen o'r fath y byddai tywysogion Cymreig yn claddu eu meirw, barnodd na fu y cafn dwfr yn ddim llai ei urddas na bod yn arch y Dywysoges Joan. Adroddodd ei resymau dros hyn wrth y diweddar Arglwydd Bulkeley, a'r canlyniad fu peri symudiad y gistfaen i le cysgodfawr yn agos i'w Balas. Yn ddiweddarach, yn agos i'r un lle, cafwyd ei chauad, ä llun benyw wedi ei gerfio yn hardd arno, fel erbyn hyn nad oes un anmheu-aeth nad ydoedd Mr. Llwyd yn ei le. Gellir gweled y gistfaen a'r caudad yn awr yn agos i'r Baron Hill. Cysegrwyd y monachdŷ yn y flwyddyn 1240, gan Howel, Esgob Bangor, a daeth y lle yn fuan yn enwog fel lle claddedigaeth amryw o foneddwy'r Cymru. Yma yr ydoedd hynafiaid teulu Castell Penrhyn yn Arfon, teulu Penmynydd yn Môn, &c. Llosgwyd y tŷ gan Madog ap Llewelyn ap Gryffyth, yn ystod y rhyfeloedd yn erbyn Iorwerth y Cyntaf. Ail adeiladwyd ef gan Iorwerth yr Ail, yr hwn hefyd a faddeuodd y trethi oedd yn ddyledus iddo oddiwrth y Monachod. Cawn wedi hyny i Harri y Pedwerydd anrheithio y lle, a lladd rhai o'r brodyr, a charcharu y gweddill, am iddynt ochri at Owain Glyndwr. Ond yn lled fuan wedi hyny, efe a edifarhâodd am yr hyn a wnaeth; rhyddhâodd y carcharorion a gwnaeth ad-daliad iddynt. Er mwyn attal cyffelyb ymddygiad gwrthryfelgar mewn amserau dyfodol, gwnaeth Harri y Pummed gyfnewidiad yn nhrefniadau y sefydliad. Nid ydoedd o hyn allan ond dau o'r monachod i fod yn Gymry, a chwech yn Saeson. Ar ol y ddau Harri hyn, daeth trydydd Harri i ymyraeth ä Monachdŷ Llanfaes, sef Harri yr Wythfed; ac yn bur ddiseremoni, gwnaeth hwnw ben am dano. Gwerthodd y Monachdŷ, ynghyd a'r tiroedd a roddwyd o oes i oes at ei gynnal, i un o'i Lyswŷr. Wedi hyny daeth yn eiddo i deulu o'r enw Whyte, y rhai a adeiladasant y tŷ presennol ä'r defnyddiau a gymerwyd o'r hen fonachdŷ. Helaethwyd ef wedi hyny gan y diweddar Syr Robert Williams.

Y mae y lle yn awr yn meddiant teulu y Baron Hill. Gwelir oddiwrth hyn a gofnodwyd o hanesyddiaeth y lle, y bu gan freninoedd Lloegr grynlawer o ymdrafodaeth yn ei gylch. Yr oedd hyn mewn rhan fawr yn ddi-ammheu oblegid y gweddillion marwol a orweddent yno. Yma y claddwyd Joan fel y sylwyd, a mab i frenin Denmarc, ac Arglwydd Clifford, a'r swyddogion a gollasant eu bywyd yn ymladdfa Moel y Don, ynghyd ag amryw eraill a gollasant eu bywydau yn y rhyfeloedd yn erbyn y Cymry. Yma hefyd y claddwyd Gryffydd Grug, o'r Aberffraw, yr hwn ydoedd fardd blodeuog yn ei oes, a gwrthwynebydd galluog Dafydd ap Gwilym. Wedi marw Gryffydd Grug, y mae Dafydd ap Gwilym yn gwneyd marwnad iddo, gan ei ganmawl yn fawr, ac yn dyweyd,—

“Tost o chwedl gan ddyd edlaes,
Rhoi nghor llawn fynor Llanfaes,
Cymain (du oer gem eu deunydd)
O gerdd ag a roed i gudd.”

Gellir yn hawdd gredu bod y côr yn llawn cofgolofnau mynor, gan fod cymaint o fawrion wedi eu claddu yno. Pan werthwyd y lle gan Harri yr Wythfed, symudwyd gweddillion y Tudors i Benmynydd. Y mae y beddadail i'w weled yno eto. Ychydig flynyddau yn ol, rhoddwyd hanner cant o bunnau gan y Frenines Victoria er adgyweirio y beddgell. Symudwyd gweddillion teulu y Penrhyn i Landegai yn Arfon. Ond nid oedd neb i edrych ar ol gweddillion hen Dywysoges Cymru. Gwelsom ardeb o Joan a gafwyd gan blastwr wrth adgyweirio hen ysgubor sydd yn perthyn i'r Palas, yr hon yw yr unig ran o'r hen fonachdŷ sydd yn aros heb ei chwalu. Oddiwrth yr ardeb, ymddengys mai benyw hardd a synwrol ydoedd Joan. Mae yr ardeb yn awr yn meddiant ŵyr i'r gŵr a'i cafodd, yr hwn sydd yn bresennol yn byw yn Nghaerlleon.

Wedi gadael y fan hon, daethom yn lled fuan at Eglwys Llanfaes. Wedi myned i'r fonwent, teimlem ein hunain yn cael ein llwyr feddiannu gan bruddglwyfder neillduol. Yr oeddem yn sefyll yn ymyl beddau y diweddar Barch. Richard Llwyd, a'r hyglod John Elias. Tybiem am foment ein bod yn dyfod i gyffyrddiad agos âg “ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd.” Teimlem ein bod yn sefyll ar dir cysegredig. Meddylïem am y cyrff oedd yno yn pydru yn mro llygredigaeth, ac nis gallem lai na meddwl ein bod yn nghymdeithas yr angelion a wylent eu llwch. Adgofïem eu gwedd pan yn fyw; meddylïem am eu pregethau nerthol. Nis gallasem beidio wylo yn hidl, a dywedyd, O! ai dyma y lle y gorwedd John Elias! Adgofïem y gŵg a ymddangosai yn ei wêdd wrth draethu am ddrygedd arferiadau llygredig yr oes. Gwelem y dagrau mawr yn treiglo i lawr ei ruddiau wrth ddangos cyflwr drwg pechadur a'i golledigaeth. Cofïem am ei wên siriol a nefolaidd pan yn traethu am y Gwardwr, nes yr oeddem am yspaid wedi hollol ymgolli mewn adgofion am dano, a cheisïem weddio am ddau parth o'i ysbryd i ddyfod ar weindogion y gair yn y dyddiau hyn. Er yr holl ysgrifenu campus a gyhoeddwyd er darlunio Elias i'r oesau dyfodol, yr ydoedd rhywbeth ynddo nas gellir ei ddesgrifio, rhywbeth yn annarluniadwy. Y goren a welsom ydyw llinellau campus Eben Fardd, ag sydd bellach yn hollol adnabyddus trwy Gymru,—yn dechreu gyda—

“Pan eagnai i'r areithfa,
Tawai myrddiwn ger ei fron, &c.’

Ymddangosodd hefyd erthyglau campus yn "*Maner Cymru*" am dano, a da genym ddeall en bod erbyn hyn wedi eu cyhoeddi yn llyfr.

Dyma hefyd fedd y Parchedig Hugh Wynne Jones, M.A. Un o rai rhagorol y ddaear ydoedd y clerigwr hwn. Perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai; yr ydoedd crefydd yn dysgleirio drwy ei holl fywyd. Anhawdd cyfarfod â gŵr mor gymwynasgar, elusengar, a diragfarn, ag ydoedd efe. Bu farw yn mlodau ei ddyddiau, yn 45 mlwydd oed, ac aeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd.

Yma hefyd y mae yn gorwedd weddillion marwol Mr. John Llwyd, mab y diweddar Barch. Richard Llwyd, yr hwn a enwyd genym o'r blaen. Gŵr ieuanc hynod ydoedd yntau. Nid ydym yn cofio gweled neb mor gymhwys i holi plant yr Ysgolion Sabbothol ar ol y diweddar Barch. Owen Jones o'r Gelli. Ond cymerwyd ef ymaith yn ieuanc, a siomwyd dysgwyliadau ei gyfeillion o'i weled yn golofn gadarn yn nhŷ ei Dduw ar y ddaear. Y nef oedd i fod yn lle ei wasanaeth yn gystal a'i fwyniant. Yn ddiammheu y mae y fonwent yma yn gyfoethog o enwogion a "ddysgleiriant fel y sêr byth yn dragywydd."

"Planer derwen coffadwriaeth,
Tyfed llawryf gwych eu gwedd,
Plethed eu cangenau helaeth
Yn gauedig uwch eu bedd;
Oesol ddafnau gwllith y nefoedd
Fyddo'n disgyn arnynt hwy;
Ac oddiyno trwy'r blynyddoedd,
I eninio eu trigle mwy."

O'r lle cysegredig yma, troisom ein hwyneb tua Threecastell. Erbyn cyrhaedd y tŷ, cawsom y teulu yn hynod garedig. Nid oes yno fawr o olion preswylfod dywysogol Syr Tudur ap Gronwy, am yr hwn y cawn yr hanesyn canlynol yn Hanes y Cymry:—

"Y Brenin Iorwerth y Cyntaf, wedi olywed i Syr Tudur gymeryd yr anrhydedd o Farchog heb ei ganiatâd, a'i galwodd i gyfrif am ei ymddygiad, pan yr atebodd Syr Tudur fod ganddo awdurdod i wneyd felly trwy gyfreithiau y Ford Gron, o herwydd ei fod yn feddiannol ar y cymhwysderau gofynedig: Yn gyntaf, yr oedd yn ŵr boneddig; yn ail, yr oedd ganddo gynnysgaeth o gyfoeth; ac yn drydydd, yr oedd ganddo ddigon o wroldeb a gallu i ymladd â phwy bynag fyddai mor anfoesgar a gwadu hyny. Y Brenin yn hoffi mawredd ei arddull, a gadarnhâodd i Syr Tudur yr anrhydedd."

Mae yn hysbys i bawb fod ein Grususaf Frenines Victoria yn disgyn o'r teulu hwn. Fe allai ar yr un pryd fod rhywrai o'n darllenwyr heb gofio pa fodd y disgynnodd ein penadures oddiwrth yr hen deulu Cymreig yma. Wele, dyma yr achres:—Victoria merch Iorwerth Duc Caint, ap Siôr y Trydydd, ap Frederick Tywysog Cymru, ap Siôr yr Ail, ap Siôr y Cyntaf, breninoedd Brydain, ap Sophia Etholes Hanover, merch Elizabeth brenines Bohemia, merch Iago y Cyntaf brenin Brydain, ap Mari brenines Ysgotland, merch Iago y Pummed brenin Ysgotland, ap Marged, merch Harri y Seithfed brenin Lloegr, ap Edmwnd Iarll Richmond, ap Owain ap Meredydd a Chatrin brenines waddoledig Harri y Pummed, yr hon oedd ferch Charles y Chweched Brenin Ffrainc. Yr Owain yma oedd fab Meredydd ap Tudur ap Gronw ap Tudur ap Gronw." A dyna y Tudur o Drecastell. Ô ganlyniad nid oes un camgymeriad yn ngwaedoliaeth Cymreig ein tironaf

Frenines. Mae y meusydd a gylchynant Drecastell wedi bod yn safie llawer brwydr galed; a dywedir mai dyma fu yr achos o alw y plwyf yn Llanfaes. Cawn yn y "Brut,"—"Wyth gant a deg, y bu waeth Llanfaes yn Môn, ac y tloded breniniaeth Fôn, a breniniaeth Dýfed, oblegid rhyfel a fu rhwng Hywel Fychan a Chynan ei frawd, ac y goresgynodd Hywel ynys Fôn, gan orfod o hir ymladd arni." Ar faes cyfagos yr ymladdwyd y "*Sore Battel of Llanfaes*" yn y flwyddyn wyth gant a deunaw, ac a elwir "Cae Celanedd" hyd heddyw, rhwng Egbert brenin y Saeson gorllewinol, a Myrfyn Frych. Ennillodd Egbert y fuddugoliaeth. Cymerodd feddiant o'r ynys, a newidiodd ei henw yn *Anglorum Insula*. Oddiwrth hyn, galwyd hi byth er hyny gan y Saeson yn Anglesey. Ymddengys bod y frwydr hon yn hynod o waedlyd. Y mae rhan o'r maes yn gorwedd ar lân y môr, ac fel y mae y llanw yn golchi ymaith ei odre, y mae o bryd i bryd yn dadguddio esgyrn dynol, yn gorwedd ar draws eu gilydd ymhob cyfeiriad. Trwy fod y ddaear yn dywodlyd a sych, y mae yr esgyrn wedi cadw yn rhagorol. Cymerasom i fyny asgwrn pen ag ydoedd yn hanner claddedig yn y tywod, ochr aswy yr hwn ydoedd wedi ei hollti yn ol pob tebyg gan arf miniog. Nis gallasem lai na diolch am nas ganwyd ni i'r byd ar yr adegau blinion hyny. Eisteddasom ar y tywod; ac wrth weled olion y frwydr ofnadwy o'n hamgylch, deuai llinellau Ieuan Glan Geirionydd yn lled fywiog i'n meddwl, a dywedem

"Yn hyn o le, amseroedd gynt fe gaed,
Rhyw ymdrech tost, a gwaeddi mawr a gwaed;
Yma y caed ein cenedl ni mewn bri,
Yn ymladd am ein tir a'n rhyddid ni.

"O'r llanerch hon i lawer bron yr aeth
O'r bwa 'n chwim gan sio lawer saeth;
Fan acw rhoes y cledd a'r bicell ddur,
Drwy weli dwfn i'r galon ddirfawr gur.

"Fan yma bu 'n ymdreiglo 'n wael dan draed,
Aml fachgen glân, yn gruddfan yn ei waed;
Fe allai fod eu hesgyrn er eu bri,
O dan fy nhraed yn awr yn sathrfa i mi."

Os "fe allai" oedd i Ieuan ar Fron Aran Geri, nid "fe allai" yw hi gyda ni yma; y mae eu hesgyrn nid yn *unig* dan ein traed, ond ugeiniau o honynt yn ein golwg. O'r lle hwn ni a aethom ymlaen gyda glân y môr hyd hen Gastell Lleiniog, neu Aber-di-enwawg, yr hwn a adeiladwyd yn 1096, gan Hugh Lupus Iarll Caerlleon, a Hugh de Montgomery Iarll Amwythig, neu Hugh Fras o Gaer, a Hugh Goch o'r Amwythig. Gwahoddwyd y ddau Iarll i oresgyn Cymru gan fredwr, sef Owain ap Edwyn. Rhuthrasant fel gwaedgwn dros y rhanau isaf o Wynedd, gan gyflawni y creulonderau mwyaf ar y brodorion; a chan iddynt ddyfod heb neb yn eu dysgwyl, nac yn parotï ar eu cyfer, cawsant am yspaid wneyd fel yr ewyllysient. Wrth weled lliosogrwydd eu byddinoedd, ofnodd Cadwgan ap Bleddyn anturio ymladdfa, a chiliodd ef ynghyd a Gryffyth ap Conan oddiar eu ffordd i synyddoedd Arfon.* Ond wrth weled y wlad yn cael ei hanrheithio mor ddirugaredd ganddynt, penderfynasant wneyd un ymdrech egniol er eu trechu; eithr buont yn afwyddiannus, ac enciliasant i'r

* Wynn's "History of Wales." Page 121.

Iwerddon. Yr ydoedd cyflwr trigolion Môn y pryd hwn yn dorcalonus i'r eithaf, gan fod y ddau Iarll didrugaredd a'u canlynwyr yn gwneyd pob creulondeb y gellir dychymygu am dano. Nid arbedent wragedd na phlant. Mae hanes eu cieidd-dra at un Candred, offeiriad, yn rhy wrthun i'w gofnodi. Pan yr oeddynt fel hyn yn cario ymlaen eu gweithredoedd ysgeler, ac yn bwgwth llwyr ddinystrio gwlad Môn, yn rhagluniaethol daeth Magnus, brenin Norway, gyda llynges fawr, gan gael eu gyru gan wynt croes, ac angorasant gyferbyn ag Aberllynnau. Pan dawelodd yr ystorm, gwnaethant ymdrech i lanió, a chymeryd meddiant o'r castell oddiar y Saeson, a safasant hwythau ar lán y môr i'w gwrthwynebu. Dywedir i Magnus ollwng saeth o'r llong at wyneb Iarll yr Amwythig, yr hon a lynydd yn ei lygad, ac a fu yn angeu iddo. Bu hyn yn achos o ddigalodid i Iarll Caerlleon. Gadawodd wlad Môn, ac aeth i Leyn. Anrheithiodd ranau helaeth o Arfon, ac adeiladodd gastell yn Mangor. Yna gosododd y bradwr Owain ap Edwyn i lywyddu yn ei le, a dychwelodd i Gaerlleon, ac yn lled fuan bu farw. Dychwelodd y Tywysogion o'r Iwerddon. Difeddianwyd Owen ap Edwyn, a bu orfod iddo ffoi am ei einioes o Gymry. Cafodd y wlad lonydd am yspaid dan dywysiad Gryffydd ap Conan, yr hwn a ymheddychodd â'r Normaniaid. Ail drefnodd gyflwr alaethus gwlad Môn, a bu llwyddiant i raddau dan ei dywysiad ef yn y wlad. Gynt yr ydoedd rhodfa gauedig o'r castell at lán y môr; yn awr y mae y cyfan mewn cyflwr adfeiliedig iawn.

O'r fan hon ni a aethom i gael golwg ar adfeilion Priordŷ Penmon a adeiladwyd gan Caswallon oddeutu 430; yn ol hanesion eraill gan Maelgwyn Gwynedd tua 530. Modd bynag am hynny, yr oedd yma fath o ysgol neu athrofa gristionogol yn amser Caswallon, dan olygiad Seiriol ap Owain Danwyn ap Einion Urdd ap Cynedda Wledig. Mae yn anhawdd erbyn hyn wybod beth a allai y Seiriol hwn fod—pa un ai cristion dysym, ai abad, ai math o feudwy; oblegid dywedir mai olion ei gell feudwyol yw yr hen adfeilion ar Ynys Seiriol, yr hon a elwid cyn ei amser ef Ynys Glanach. Wrth ystyried yr oes fore yr ydoedd yn byw ynddi, tueddir ni i gredu mai cristion cywir a zelog, ac athraw da, ydoedd Seiriol. Dywedir y byddai Cybi o Gôr Gybi—yn awr Caergybi—a Seiriol, yn arfer cyfarfod eu gilydd yn fynych mewn man penodol yn mhlwyf Llandyfrydog; a thrwy y byddai Cybi yn dyfod yn y bore â'i wyneb tua y dwyrain, ac yn dychwelyd yn yr hwyr â'i wyneb tua y gorllewin, trwy fod ei wyneb felly yn wastad tua thywyniad haul, dywedir ei fod yn bur felyn, a bod Seiriol trwy fod yn y cyfeiriad arall â'i gefn at yr haul, â'i wyneb yn hynod wyn, ac o ba herwydd y gelwid hwy yn Seiriol wyn a Chybi felyn. Beth bynag ydoedd Seiriol yn ei ddydd, gwnaeth y Monachod Pabyddol fu yn y lle ar ei ol, gryn elw trwy werthu delwau bychain o hono, y rhai a gyfrifid yn effeithiol i symud anhwylderau corfforol a dieppiledd o deuluoedd. I'r dyben hwn carient hwy, ynghyd a delwau hen seintiau eraill, ar hyd y wlad i'w gwerthu. Mae Lewis Glyn Cothi, tua 1460, yn gwawdus ddesgrifio yr arferiad,—

“Curig lwyd dan gŵr ei gól,
Gwas arall a ddwg Seiriol.”

Mae y fan hon yn werth i'r cywreingar gymeryd taith o'r Beaumaris i'w weled. Mae yr eglwys wedi ei hailadeiladu mor agos ag y gellid i'r cynllun cyn-

taf. Yn y Parc, ychydig o'r fan, y mae hen groes o gareg wedi ei chywain naddu. Dywedir i'r Priordŷ gael ei hadgyweirio gan Llewelyn ap Iorwerth, a'i lenwi â Moneich o'r urdd Fenedictaidd. Parhâodd i fod yn lloch-es i'r diogwyr hyn hyd deyrnasiad y Frenines Elizabeth, yr hon a'i rhoddodd, ynghyd a'r tiroedd a berthynai iddo, i un John Moore. O hyny allan adfeiliodd yn brysur. Y mae y lle yn awr yn meddiant y Bulkeleys. Yn agos i'r fan hon y mae y cloddfeydd mawrion, o ba rai y codwyd y ceryg at y pontydd ardderchog ar y Menai, ac o ba le hefyd y cludir ugeiniau o dunnelli i wahanol barthau o'r deyrnas.

Aethom ymlaen o'r fan hon tuag Ynys Seiriol. Ar ol ymdroi i weled y goleudŷ ar y Trwyn Du, a chael cwch i groesi y culfôr, yr oeddem ar ei glânau. Gelwir yr ynys weithiau gan y Saeson, *Priestholm*, sef Ynys yr Offeiriad. Mae traddodiad yn ein hysbysu i'r enw hwn gael ei roddi arni gan Magnus, trwy weled yr ynys yn llawn o offeiriad, y rhai oeddynt wedi ffoi iddi o Briordŷ Penmon, rhag y ddau Hugh fileinig, o Aberllynwawg. Ond yr enw mwyaf cyffredin gan y Saeson yw *Puffin Island*. Math o aderyn môr yw y *puffin*, neu y pâledn, o faintioli colomen, a chanddo gyflin llydan a chryf iawn. Peth arferol gan yr ymwelwyr yn yr haf yw dal rhai o'r adar hyn. Mae yn y lle lawer o gwningod yn gwneyd eu tyllau yn y ddaear, ac i'r tyllau hyn y bydd yr aderyn yn myned i ddodwy. Wedi cael maneg gref, ddarllenydd, gelli anturio dodi dy law atynt; cydiant ynddi yn y fan, a gelli eu tynu allan yn rhwydd; a gallwn sicrhâu i ti y bydd arnat gryn frys i'w thynu hefyd, a rhaid gwasgu eu gwddf cyn ei gollyngant. Cyngorwyd ni i fyned âg un gyda ni adref, a dywedid y byddai yn hollol lonydd yn llogell ein côb uchaf; ac felly fu; eithr gwae y llaw a roddid i mewn ato. Cawsom ddigrifwch nid bychan gyda yr aderyn bach ffyrnig yma.

Wedi difyru ein hunain ar lethrau gorllewinol yr ynys, daethom i ben ei "chraig fawr," ac yn ein hymyl dyma "Draethfan y Dutchman Du," lle yr aeth llawer llong yn ddrylliau er pan y gallwn gofio. Yr hynotaf a'r mwyaf erchyll ydoedd longddrylliad y "*Rothsay Castle*," oddeutu 3 o'r gloch y bore, Awst 18fed, 1831. Nis gallasai ein dychvnyg feddwl am le mwy ofnadwy i gyfarfod â brenin y dychryniadau. Yr ydoedd y *Rothsay Castle* yn daithestr o Liverpool i Borthaethwy. Ar y pryd hwn yr oedd mwy o deithwyr nag arferol ynddi, yn dysgwyl mwynhâu y *regatta* oedd i fod yn Beaumaris y dydd canlynol. Ofer iawn y trôdd y dysgwyliad allan i lawer! Aethant o ganol meddwl am fwynhâu gwagedd y byd presennol i wyddfod y Barnwr mawr, ar ychydig iawn o rybudd. Eisteddasom ar ben y graig i edrych ar y môr yn *rowlio* dros y banc; yr ydoedd yr olwg arno yn ddychrynllyd; ond beth fuasai bod mewn llong yn myned yn ddrylliau yn y fath le! Nis gallem lai na rhyfeddu i gymaint âg un ar hugain gael eu hachub; ond hyrddiwyd dros gant i'r byd tragywyddol. Aethus yw yr hanes am y tro annedwydd hwn! Pwy na ddarllenodd awdl benigamp Caledfryn arno?

"Cenadau angau yn ingol,—a udent
O Ogarth i Seiriol,
Yn y man annymunol,
Nid oedd nawdd na dydd yn ol.

"Meibion Arfon a Môn er eu mwyniant,
Wedi noswyl a gydhunasant,
Yn weddus, so ni wyddent—
Fod llefain—
Ar y Lafan mewn dirfawr llant."

Bu y tro hwn yn alar i lawer teulu; a sicrhêir, ysywaeth, mai meddwdod ac ystyfnigrwydd y cadben fu yr holl achos o hono, gan y taerai yn bengaled hyd y diwedd nad oeddynt mewn perygl—

“Yr aent ymlaen i'w hynt heb
Ychwaneg o drychineb.

Nid gair ei air, nid gwir oedd;
Mantell hud mewn twyll ydoedd;
Arwyddai y môr iddynt,
Arwydd gwir a roddai 'r gwynt,
Nesáu o angau ingawd,
A'i ddyrnawd ebrwydd arnynt.”

Ond bellach rhaid terfynu. Dychwelason yn ol at y cwch; cyttunasom â'r morwyr i'n cludo i Ddinas Bangor; cyrhaeddason y *train* hwyrol mewn pryd, ac erbyn unarddeg y nos yr oeddem wedi cyrhaedd adref, wedi derbyn adfywiad a phleser ar y daith.

YR AMDDIFFYNFA.

NID oes dim sydd amlycach i'r efrdydd ysgrythyrol na bod llawer iawn o'r meddyliau a geir yn y Bibl wedi eu gwisgo, fel y gallesid dysgwyl, yn nullwedd amgylchiadau yr amseroedd yr ysgrifenydd ef. O herwydd hyny yr ydym yn dra mynych yn cael syniadau am wrthddrychau ac ymarferiadau crefydd wedi eu cymeryd, ymysg pethau eraill, oddiwrth arferion a darpariaethau mitwraidd y gwledydd dwyreiniol. Yr oedd y rhan fwyaf o'r cenedloedd oedd yn amgylchynu yr Iuddewon yn y dyddiau gynt, fel yn wir y mae eu holynwyr yn y gwledydd hyny yn awr, yn ymroddi i fywyd yspeilgar; ac ni wyddid pa bryd y deuent yn lluoedd byddinog ar fedr anrheithio dinas, ardal, a thiriogaeth. Ar gyfer hyn, yr oedd dinasoedd cedryn, cestyll, tyrau, amddiffynfeydd, wedi eu hadeiladu drwy holl wlad Israel, ac yn enwedig yr oedd lleoedd o amddiffyn o'r fath oreu yn ac o amgylch y brifddinas. Yr oedd pob mantais wedi ei chymeryd oddiar sefyllfa naturiol Jerusalem, a phob dyfais o'r eiddo celfyddyd wedi ei defnyddio, i wpeyd y ddinas mor gadarn ag yr oedd bosibl. Eto nid ar ei chadernid naturiol na chelfyddydol, nac ar fedrusrwydd a gwroldeb ei milwyr, y byddai ffyddloniaid y dyddiau hyny yn pwysu am ddiogelwch rhag peryglon, eithr ar nawdd y Jehofah fel eu Brenin. “Duw yn ei phalasaau a adweinir yn amddiffynfa.” Tra yr oedd Jerusalem mewn heddwch â Duw, yr oedd yn ddinas anorchfygol. Er i'r gelynyddion ddyfod yn fil o filoedd i'w herbyn, gan fod ei Duw yn ymladd drosti, byddai raid iddynt ffoi vmaith yn frawychus ac ar firwst. Ond wedi i bobl gyfammodol yr

Arglwydd fyned yn anffyddlawn i'w gyfammod ef, yr oeddent yn pechu ymaith eu hamddiffyn, a'u gelynion yn llwyddo i'w gorchfygu a'u hanrheithio. Mynych iawn yn llyfrau y Prophwydi, ac yn enwedig yn llyfr y Salmau, y gosodir Duw allan fel amddiffynfa i'w bobl. "Daionus yw yr Arglwydd, amddiffynfa yn nydd blinder," medd Nahum. "Trowch i'r amddiffynfa, chwi garcharorion gobeithiol," yw galwad efengylaidd Zechariah. Ymorfoleddai Dafydd yn aml yn ei Dduw fel "ei graig a'i amddiffynfa." Adeilad uchel gref oedd amddiffynfa, yn sylfaenedig yn gyffredin ar graig, ac yn cael ei chadw gan fyddin o filwyr detholedig, ac wedi ei chyflenwi âg arfogaeth, ac â phob anghenrheidiau o ran lluniaeth a phethau eraill, tuag at ddal allan yn wyneb ymosodiadau byddin wrthwynebol. Yr ydoedd felly yn dra phriodol i'w defnyddio fel cyffelybiaeth i arddangos nodded hollddigonol y Duw tragywyddol i'r rhai oll a ddysgwylant wrtho yn ol rheol ei air. Edrychwn yn awr arno Ef fel amddiffynfa i bechadur argyhoeddedig, ac i gredadyn cystuddiedig, ac i'w eglwys yn ei chymeriad cyfunol.

Y mae y Bôd Dwyfol yn amddiffynfa yn ngwyneb rhuthriadau euog-rwydd cydwybod pechod. Nid oes dim sydd fwy pwysig na sefyllfa dyn fel troseddwr deddf y nefoedd yn gysylltiedig â'i gyfansoddiad fel crëadur i barhâu byth. Enaid anfarwol a phechadur yn yr un person sydd gydgyfarfyddiad ofnadwy: y mae yn rhaid fod hwnw yn y perygl mwyaf; a pha beth a wna heb nawdd yn rhywle? Ni wnaed mo honom ni i fyw a bod fel yr anifail—i fwyta ac yfed am ennyd, ac yna i suddo i ddiddymdra. Mae pridd y ddaear ac anadl yr Hollalluog—mae marwoldeb ac anfarwoldeb—yn cydgyfarfod yn ein natur; nid yw ein heinioes yma ond mordaith fêr, i'n glânio mewn cyfandir annherfynol. Daw diwedd yn fuan ar drin maes a masnach, ac ar bob helynt fydol; ac y mae yn ofynol i ni gael rhywbeth erbyn y darfyddom â phethau amser. Cawn weled y byd hwn yn myned ar dân; ond bydd raid i ni fyw wedi hyny. Y ddaear a'r nef a welir ryw ddiwrnod yn ffoi o wydd y Barnwr, ond fe orfydd i ni y dwthwn hwnw sefyll o flaen ei orseddfainc. Ac fel troseddwr diesgus o ddeddf sanctaidd Duw, mae ein heuogrwydd yn ein rhwymo i ddiwedd arswydus—i sefyllfa orlawn o dywyllwch a thrueni—i fro lle nad oes obaith byth yn anadlu ynddi, ond yr ail farwolaeth yn teyrnasu yn ddirwystr yn oes oesoedd. Buddiol yw i ni hunanymholi ymha le y byddwn yn arfer llochesu yn ngwyneb rhuthr meddyliau o'r natur hyn. Nid oes odid neb yn y wlad na byddant ar brydiau yn cael ynddynt eu hunain ryw argyhoeddiad o'u drwg a'u perygl fel pechaduriaid, nes peri gofid a phoen iddynt; ac felly yn arbenig y mae y rhai sydd yn ymarfer, yn gyson neu yn achlysurol, âg ordinadau crefyddol. Yn nghanol gormod o ddiofalwch, mae rhyw fynydau sobr yn eu gorddiwes, pan y mŷn cydwybod siarad, nes y bydd raid iddynt deimlo fod arnynt eisieu eu cuddio mewn rhyw amddiffynfa ddiiddos rhag rhyferthwy dialedd yn herwydd pechod. Mae y byd hwn, a chalon dwyllodrus, yn cynnyg i bechadur argyhoeddedig lawer peth fel amddiffynfa. Gâd heibio y meddyliau pruddaidd hyna, meddir, a mwynhâ dy hun. Nid wyt yn waeth na rhywrai eraill, i'e yr wyt yn well na llawer un o'th gymydogion. Os ydwynt yn euog o feiau, beth er hyny? oni wnaethost hefyd aml weithred dda? ymrô ati i wneyd dy oreu eto am yr amser a ddaw; a chofia yn enwedig fod Duw yn drugarog.—Ah! medd yr enaid gwir argyhoeddedig, cysurwyr gofidus ydych chi oll! Pa gysgod a fydd bratiau

budron fy holl gyfiawnderau yn ngwyneb ergydion nerthol magnelau Sinai? Iê, mae y Duw trugarog ei hunan, os cymerir ef ar wahân oddiwrth drefn cyfryngdod, i bechadur yn dân ysol. Yn Sïon, lle y mae allor ac aberth, yno yn unig yr adweinir Duw yn amddiffynfa.

Yn y cymeriad o Dduw yn Nghrist y ceir ef yn amddiffynfa i enaid euog. Nid oes ond un lle o fewn holl derfynau llywodraeth yr Arglwydd Iôr y mae yn ddiogel i bechadur fod ynddo,—yn Nghrist. Nid rhyfedd ynte fod hen weddi Paul yn weddi heddyw gan y meddwl ystyriol a goleuedig, “Ac y'm cair ynddo Ef!”—yn Nghrist fel yr Arglwydd ein cyfiawnder—ynddo ef fel y llofrudd yn y ddinas noddfa. Ymhob man arall, mae yr enaid yn agored i ddigofaint Duw ddisgyn arno a'i ddinystrio; ond yn Nghrist, fe gaiff aros yn ddiogel; canys y mae'r digofaint wedi disgyn eisoes ar Grist ei hunan, a chael ei lyncu i fywyd mewn iawn. Ynddo Ef, yr hwn a osododd Duw yn iawn, nid yw yn un anfri i anrhydedd ei natur, nac yn gam â deddf ei lywodraeth, dderbyn troseddwr i'w heddwch a'i gyfeillach; oblegid yma wrth amddiffyn y pechadur, ni roddir un amddiffyniad i bechod; wrth gyfiawnhâu y naill, fe gondemnir y llall. Derbyn tystiolaeth Duw am Grist—ymarfer ffydd yn ei waed ef—ymddiried yn haeddiant ei aberth,—dyna yw troi i'r amddiffynfa. Ac mor hwylus a chyfaddas i ni yw y drefn hon! Yma nid arddodir ar bechadur yr un penyd, nac un daith o bererindod; nis gofynir am ddafn o'i waed; dim ond rhoddi i Grist ei grêd—dim ond gollwng ei hyder i bwysio ar ei iawn dyhuddol ef, ac ni chollir mohono byth. “Crêd yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig a fyddi.” Mae Duw oll yn oll yn amddiffynfa i'r enaid sydd yn credu yn Nghrist; nid ei drugaredd yn unig, ond ei gyfiawnder hefyd. Yr un cyfiawnder oedd yn gofyn damnedigaeth y pechadur allan o Grist, sydd yn sicrhâu ei gadwedigaeth yn Nghrist. Os buasai unwaith yn gyfiawn i Dduw ei ddamnio, mae yn gyfiawn iddo yn awr ei achub rhag digofaint byth. O! y fath amddiffynfa glyd i enaid argyhoeddedig, yn y teimlad o gurfeydd euogrwydd, yw cymhwysiad ffydd o'r cyfryw wirionedd â hwnw, “Sef, bod Duw yn Nghrist yn cymmmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt y pechodau!” Wedi cael heddwch â Duw, nid anhawdd fydd mwynhâu heddwch cydwybod; o herwydd y mae isfrawle y gydwybod yn rhwym o ddilyn gorsedd fawr y nef. I'r hwn yr wyt ti, Arglwydd, yn maddeu; medd hi, yr wyf finnau yn maddeu.

Golwg effeithiol yw gweled Duw yn Nghrist—gweled y Barnwr gyda Chyfyngwr hefyd; dyma olwg a wna y gelyn yn gyfaill byth mwy. Yr oedd yr enaid o'r blaen yn ffoi oddiwrth yr Arglwydd Dduw; yr oedd arswyd rhagddo yn ei lethu; eithr ato ef yn unig y rhêd efe yn awr am amddiffynfa. Mae yn bwynt gan ddyn annuwiol grafu ymaith bob argraff o Dduw oddiar lêch ei galon; mae am ymwneyd cân lleied ag y byddo bosibl â'r Hwn a'i gwnaeth; mae yn ysgoi y meddwl am dano hyd y gallo; a phan y gorfodir ef i feddwl am Dduw, “gŵr caled” ydyw yn ei olwg. Ond, wele, mor wahanol yw Duw yn nghyfrif credadyn: “Dywedaf am yr Arglwydd, Fy noddfa a'm hamddiffynfa ydyw; fy Nuw, ynddo yr ymddiriedaf.” Fe gafodd olwg ar y Duwdod mawr yn y dyn Crist Iesu; ac ynddo ef, mae yn ei weled, yn ol iaith rymus a phrydferth Esaiah, yn “ŵr sydd megys yn ymgyddfa rhag y gwynt, ac yn lloches rhag y dymhestil.” O! medd yr enaid hwn, yr wyf fi yn wir yn bechadur mawr, ond y mae yr Iesu yn Waredwr mwy; pechais i hyd yr eithaf, ac y mae yntau yn achub hyd yr eithaf; oddiwrth ddryghaeddiant pechod créadur meidrol, mi redaf at

haeddiant cyfiawnhäol Iawn anfeidrol. Iesu mawr, wela fi yn dyfod atat fel yr wyf, i ymguddio yn nghysgod dy aberth :

„I ”

“ Yn dy glwyfau di mae 'mywyd,
Tyllau 'r hoelion yw fy nyth ;
'D ofnaf fyd, na chnawd, na phechod,
Nac euogrwydd yno byth :
Gwaed fy Mhriod wedi ei golli,
Aroholl fawr y waëwffon,
Yw fy nghraig a'm dinas noddfa
Sicr ar y ddaear hon ! ”

Perswadier ni oll i droi i'r amddiffynfa hon yn awr, ac yna ni a fyddwn ddiangol rhag y llid a fydd !

Y mae Duw yn amddiffynfa, hefyd, yn ngwynneb ymosodiadau cystuddiau a gorthymderau yr einioes. “ Dyn a aned i flinder ; ” ac nid yw yr aileni yn rhyddhâu y duwiol oddiwrth ofidiau y byd. “ Aml ddrygau a gaiff y cyfiawn. ” Pan mewn esmwythder, mae yn rhesymol i ni ddysgwyl am flinder. Ac ni ddylem edrych yn chwith a dyeithr ar ddynesiad adfyd ; eithr gofalwn hefyd am wneuthur defnydd cyfamserol o Dduw fel amddiffynfa. Nid amddiffynfa rhag blinder yw yr Arglwydd, ond amddiffynfa ynddo. Enw a roes ef arno ei hun yw, “ Amddiffynfa yn nydd blinder. ” Os cymerasom y gwir Dduw yn Ddaw i ni, yr ydym yn rhwym o'i gymeryd yn amddiffynfa ymhob gorthymder ; ie, ni a allwn yma ddywedyd peth llawer mwy : mae Duw yntau yn rhwym o roddi amddiffyniad ymhob perygl i'r rhai oll a ymddiriedant ynddo. Pwy ymysg dynion na chyfrifant fod siomi hyder a tori ymddiried yn fai cywilyddus ? Mae heu hanes yn adrodd i ddinaswyr Athen unwaith gondemnio dyn i farw yn unig o herwydd iddo, pan y dygwyddodd i aderyn bach ffoi i'w fynwes i ddianc rhag y barcud oedd yn ei ymlid, gymeryd mantais ar yr hyder a roes y créadur bychan crynedig ynddo, i'w ladd yn y fan. Ac a ydym ni yn meddwl y gwna y Duw sydd yn ein gwahodd i ddyfod ato ymhob enbydrwydd, ac i bwysu arno ymhob helbul, gymeryd mantais ar ein hymddiried ynddo, i'n siomi a'n cywilyddio ? Fe fyddai felly yn ei wadu ei hun. Dacw Jael, wedi derbyn Sisera i mewn yn groesawus, yn bradychu ymddiried a roed ynddi gan y truan ffoedig, ac yn ei ladd yn ei gwsg. Ond mae yn amhosibl i Dduw y gwirionedd droi yn siomedig i'r ymddiried a ddiried ynddo. Y rhai oll a'i hanrhydeddant ef trwy ymddiried ynddo, efe a'u hanrhydedda hwythau â'i fafr ac â'i waredigaethau. “ Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr hwn sydd â'i feddylfryd arnat ti, am ei fod yn ymddiried ynot. ” Y rheswm a roddir am oruchafiaeth ryfeddol a gafodd meibion Reuben, a Gad, a banner llwyth Manasseh, ar yr Hagariaid a chenedloedd eraill, pan y darfu i ryw bedair mil a deugain o Israeliaid gymeryd can' mil o'r gelynyon yn garcharorion, ydyw hwn : “ Canys llefasant ar Dduw yn y rhyfel, ac efe a wrandawodd arnynt, o herwydd iddynt obeithio ynddo. ” Mae fy anrhydedd yn fy rhwym, medd Duw, i sefyll yn gefn i feibion Jacob yn erhyn plant Hagar ; o herwydd dyma hwy wedi gosod eu holl ymddiried ynof. Gwyliwn ninnau er dim anymddiried yn Nuw, ac anghredu ei addewid ; se wna hyny ein hyspeilio o'n holl amddiffyn. “ Tarian yw efe ; ” ond i bwy ? “ i'r rhai a ymddiriedant ynddo. ”

Rhagorfraint anmbrisiadwy ydyw i ni, mewn modd personol a phroffiadol, ddefnyddio Duw fel ein hamddiffynfa yn ngwynneb holl flinderau y fuchedd

hon. Y mae arnom ei eisieu yn barhâus fel y cyfryw; o herwydd nis gwyddom o ba gŵr na pha bryd y daw yr ymosodiadau arnom. Mae y byd yn ei ofalou yn boenus, yn ei gyfoeth yn anwadal, ac yn ei barch yn dwyllodrus; mae iechyd yn ansicr, cyfeillion yn siomedig, a pherthynasau hoff yn farwol. A chyda hyny, y mae genym yn myd y meddwl—o fewn awyrgylch ysbrydol yr enaid—elynion llïosog, cedyrn, dichellgar, a chreulawn, y rhai sydd yn wastad yn ein gwyllo, ac am ein cael i'r un trueni â hwythau. Beth a wna y tro i ni yn ngwyneb hyn oll? Dim ond un peth, ac y mae hyny yn ddigon yn wir: Duw yn amddiffynfa. "Am i ti wneuthur yr Arglwydd fy noddfa, sef y Goruchaf yn breswylfa i ti, ni ddygwydd i ti niwed." Dyna ddau air yn gosod allan ddigonolrwydd Duw i enaid crediniol ymhob amgylchiad: noddfa a phreswylfa: noddfa,—lle i ffoi mewn adeg o berygl; a phreswylfa,—lle i fyw yno yn wastadol. Am yr hwn sydd yn gwneuthur defnydd fel hyn o'r Goruchaf, ni ddygwydd iddo ddim gwir niwed oddiwrth unpeth a'i cyferfydd. Oddiwrth ddyinion drwg ac angelion gwaeth, mewn einioes ac yn angen, oddiwrth bethau presennol a phethau i ddyfod,—ni ddygwydd iddo ef niwed; mae y Duw mawr ei hun yn yr oll ag ydyw rhyngddo â phob enbydrwydd. Eesaiab, wrth ddarlunio diogelwch y duwiol mewn amseroedd cynhyrfus, a ddywed eiriau rhyfedd a chryion: "Efe a breswylfa yr uchelderau;" yn uchel, uchel allan o gyrhaedd ei holl elynion. "Cestyll y creigiau yw ei amddiffynfa ef." Rhaid i hwna fod yn ddiogel, gan y bydd wedi ei gastellu â chreigiau o'i amgylch; cyn y gall y gelynion ddyfod ato i'w niweidio, bydd raid iddynt ymlaenaf ddymchwelyd sylfaeni y creigiau oesol. Iâ, ond os nad allant hwy gyrhaedd ato yno, hwyrach y bydd efe eto farw o newyn, gan nad yw craig ond castell llwm a diffwyth. "Na! fe ofelir yn yr amddiffynfa hon am gynnal y bywyd oddifewn yn gystal â'i achub rhag y perygl oddiallan; y gair nesaf yw, "Ei fara a roddir iddo; ei ddwfr a fydd sicr." Mae y cyfryw ymadroddion a darluniadau yn dangos mai peth ymarferol yw ffydd yn Nuw. Nid rhyw *theory* brydferth ydyw; nid syniad barddonol tîws; nid rhywbeth i fod yn unig yn destun myfyrdod difyr; nage! ond ymorphwysiad ar Dduw o agos am help yn wyneb eisieu gwirioneddol a phresennol. "Tŵr cadarn yw enw yr Arglwydd;" erw i'w ddefnyddio yn weithredol yn ddiogelwch a chyfleuwad ar gyfer yr anghenrheid, ac nid i aros yn y deall yn wybodaeth ddefnydd; canys, "ato y rhêd y cyfiawn, ac y mae yn ddiogel."

Yr ydym yn y drydedd Salm yn cael eglurbâd nodedig o ddylanwad y grediniaeth hon yn Nuw yn cadw y meddwl mewn tangnefedd yn nghanol y peryglon mwyaf. Y pryd hwnw yr oedd Dafydd wedi gorfod ffoi o'i freinllys i'r anialwch rhag Absalom ei fab, yr hwn yn ddichellgar oedd wedi denu y bobl ato ef oddiwrth lywodraeth ei hen dad duwiol. "Arglwydd," medd yr hen frenin cystuddiedig, "mor aml yw fy nhrallodwyr! llawer yw y rhai sy'n codi i'm herbyn." Mae yn rhaid dŷ fod yn awr, Dafydd, yn methu mwynhâu gorphwysfa ddydd na nos yn y fath anghysur a pherygl. Na, yr oeddwn i yn gallu dod fy mheu i lawr neithiwyr i gysgu yn esmwyth. "Mi a orweddais ac a gysgais ac a ddeftrôais, canys yr Arglwydd a'm cynnaliodd." Beth! ai nid wyt yn ofni am dy fywyd gan liosoced y gwrthryfelwyr? "Nid ofnaf fyrddiwn o bobl, y rhaf é amgylch a ymosodasant i'm herbyn." Ai oddiar ymddiried yn dy fedd a'w ddewrder fel rhyfelwr profedig yr wyt mor ddiogel yn y fath enbydrwydd?

O na! myned i'm hamddiffynfa ddwyfol a wnaethum. "A'm llef y gelwais ar yr Arglwydd, ac efe a'm clybu o'i fynydd sanctaidd. Tydi, Arglwydd, ydwyf darian i mi." Myuwn ninnau y grefydd a'n dyrchafo i fyw ar Dduw, ac a roddo i ni hyder mabaidd ynddo!

Y mae yr Arglwydd yn amddiffynfa i'w eglwys a'i achos yn ngwyneb pob math o ymgeisiau gwrthwynebus. Rhyw wyrth fawr o flaen llygad y byd o oes i oes yw parhâd eglwys Dduw. Mae haul ffurfafen Sion wedi bod yn fynych dan gymylau tewion iawn; ond nis gwelwyd ef ar un ennyd wedi machludo yn llwyr. Llauer euroclydon sydd wedi curo ar lestr y wir grefydd o'r dechreuad; ond ni bu yn llongdrylliad arni erioed. Dacw yr eglwys gynddylifaidd yn aros yn nheulu Noa yn nghanol lloned byd o gewri annuwioldeb, ac wedi hyny yn nofio y dylif i'r lân. Dacw yr eglwys batriarchaidd yn llettya yn mhebyll Abraham, Isaac, a Jacob, nes iddi ddyfod allan yn hardd a chref yn ngoruchwyliaeth Sinai. Dacw yr hen eglwys Iuddewig, er yn gaethglud wylofus ar lân afonydd Babilon, eto heb anghofio ei theml a'i Duw; a thrwy yr holl ryfeloedd a'r chwyldrôadau hynod a ganlynod, yr oedd hi yn aros heb ei hanrheithio. Dyma yr eglwys Gristionogol, wedi erlidiau mawrion Rhufain baganaidd, ac er gwaethaf llygriadau dinystriol Rhufain babaidd, a gwawdiadau maleisus Anfyddiaeth, heddyw yn fyw ac yn gadarn, ac yn èangu ei therynau yn barhâus. Beth yw y rheswm am barhâd yr eglwys fel hyn ymhob oes? "Duw sydd yn ei chanol, nid ysgog hi;" ymhob ymosodiad arni, "Duw a'i cynnorthwya yn fore iawn." Gan fod ei Harglwydd ardderchog o'i mewn, ni lwydda un offeryn a lunier i'w herbryn. Yr oedd llaweroedd, yn amser rhyfel y Crimea, yn tybied fod amddiffynfeydd Sebastopol yn anorchfygadwy, gan fel yr oeddynt yn sefyll i fyny o fis i fis, er yr holl ruthrgychoedd a'r tânbelenu arswydus a wneid arnynt. Ond ryw ddiwrnod fe welwyd yr hen dŷrau mawrion yn garneddau, y Rwssiaid yn ffoi, a banerau Prydain a Ffrainc yn chwyfio uwchben yr adfeilion. Eithr gallwn ni heddyw yn hyf gyfeirio sylw y byd at gadernid dinas Duw, a gwahodd pawb ymlaen, yn gyfeillion ac yn elynion iddi, gan ddywedyd, "Amgylchwch Sion, ewch o'i hamgylch, rhifwch ei thyrau hi," a chwi a gewch bob un o'i thyrau i fyny yn hardd a chyfan, wedi yr holl ergydio fu arnynt oddiwrth ddaear ac uffern. Mae yr hen wirionedd efengylaidd a fu mor effeithiol yn yr amseroedd gynt ar gael eto yn ddigoll ac yn nerthol; mae yr ordinhadau a'r moddion trwy ba rai y cymhwyswyd saint yr oesoedd i'r nefoedd gyda ninnau yn awr; ac y maent trwy Dduw yn gwneuthur y pethau rhyfeddaf yn niwygiadau crefyddol y dyddiau hyn.

Am y wedd ddoebarthiadol neu sectaidd a welir heddyw ar eglwys Crist, fe all hyny, ni a addefwn, amrywio neu ddarfod; ond am yr eglwys yn ei phethau hanfodol, fel ei cyfansoddiad gan ei Phen mawr, hi a saif yn ddiysgog ymhob cenedlaeth ac oes. Nis gellir rhoddi un sicrhâd am arosiad yr efengyl mewn lleoedd neu wledydd penodol; gellir symud y canwyllbren o'r naill le i'r llall; ond gallwn fod yn sicr na welir un cyfnod o hyn i ddydd y farn ar y byd hwn heb oleuni yr efengyl o'i fewn. Ni bydd haul byth yn rhoddi ei dywyniad gwresog ar ddiwrnod, na lleuad yn tafu ei llewyrch arianaidd ar noswaith, pan y bydd enw y Gŵr a fu farw rhwng dau leidr o'r tu allan i byrth Jerusalem, wedi ei anghofio ar y ddaear hon. Fel hyn y dywed gair sicr y prophwydi am ac wrth y Messiah, "Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant, yn oes oesoedd." Lluchied llywodraethau y

ddae'r yn erbyn eu gilydd nes iddynt falurio fel llestri pridd, eto saif yma deyrnas, wedi ei chyfodi gan Dduw y nefoedd, yr hon ni ddystrywir byth. Pan y bydd hen ymherodraethau enwog yn cael eu chwyldroi a'u dymchwel gan farnau Duw, fe fydd y freniniaeth ar dŷ Jacob yn aros yn deyrnas ddisigl. "Y dydd hwnw," medd y prophwyd, "yr ymwêl yr Arglwydd â'i gleddyf caled, mawr, a chadarn, â lefiathan y sarph hirbraff, ie â lefiathan y sarph dorhog, ac efe a ladd y ddraig sydd yn y môr." Arglwydd mawr! yn y fath ddiwrnod gwaedlyd ac ofnadwy, beth a ddaw o Sion wan? "Yn y dydd hwnw cenweh iddi, Gwinllan y gwin coch. Myfi yr Arglwydd a'i ceidw; ar bob moment y dyfrhâf hi; cadwaf hi nos a dydd rhag i neb ei drygu." Anthem nad â byth o ddyddiad gan feibion Sion a fydd, "Y mae Arglwydd y lluoedd gyda ni; amddiffynfa i ni yw Duw Jacob!"

Nid anghymhwys fydd i ni derfynu y byr-draethawd hwn gyda rhai gosodiadau cymhwysiadol.

Teimlad o berygl yw yr egwyddor gymhellol i lechu mewn amddiffynfa. Darbodaeth olaf y dinasyddion am eu heinioes—eu noddfa ddiweddfaf, wedi gweled o honynt bob ymdrech arall yn annigonol—oedd myned i mewn i'r uchel dŵr. Nid oedd dim ond perygl bywyd a wnaethai iddynt adael eu trigfanau, eu masnachdai, a'u gweithdai—cefnu ar ffynnonell eu helw ac eisteddle eu cysur—a chau eu hunain o fewn wâliau yr hen gastell. Ni ddaeth neb erioed at Dduw yn Nghrist nes iddi fyned yn ddarod am dano ymhob man arall. Myned dan *redeg* a wneir i'r tŵr cadarn; ac ni a wyddom mai yr hwn sydd yn ei weled ei hun mewn perygl yw yr hwn a rêd am ddiangfa. Y mae rhyw nerth cuddiedig wedi ei osod yn natur dyn sydd yn ei alluogi i wneyd ymdrech anarferol i ddianc o afael enbydrwydd. Dyn yn myned trwy fuarth neu faes, ac yn canfod tarw gwyllt ar ruthro arno, fe rêd neu fe neidia, nas gŵyr pa fodd, allan o'i gyrhaedd mewn eiliad. Ah! dyma y pechadur âg arfau angeuol wedi eu parotôï ar ei gyfer, ac nid oes wybod pa fynyd y bydd y saeth oddiar y bŵa yn cael ei gollwng at ei galon: pa fodd y mae efe, sydd yn y fath amgylchiad, heb *redeg* eto i'r amddiffynfa? Dall ydyw, heb weled ei berygl. Bobl dduwiol, ai nid ydych yn defnyddio pob cyffe i weddio dros eich perthynasau a'ch cymydogion diofal, fel yr oedd Eliseus yn gweddio dros ei lanc?—"O Arglwydd, agor, attolwg, ei lygaid ef fel y gwelo!"

Yn unig ar dir sancteiddrwydd, y gellir mwynhâu Duw fel amddiffynfa. Mae y rhai oll sydd yn ei adwaen ef fel amddiffynfa iddynt, yn ei adwaen hefyd fel Arglwydd arnynt. Ofer meddwl am ymddiried yn ei nawdd, heb ufuddhâu i'w orchymynion. "Tarian yw efe," medd y gŵr doeth, "i'r sawl a rodiant yn uniawn;" nid i neb arall. Dyma oedd yn gysur mawr gan Dafydd pan yr oedd Saul yn erlid ei enaid, ac am ei larpio fel llew: "Fy amddiffyn sydd o Dduw, Iachawdwr y rhai uniawn o galon." "Mae fy nghydwybod yn dywedyd wrthyf fod fy ymarweddiad yn unplyg ac eglur, ac nid dan orchudd rhagrith a malais, fel, gan nad pa anmherffethrwydd sydd ynglyn â mi, nad oes dim dichell yn fy ysbyrd; a chan fod yr Arglwydd yn myned bob amser yn Iachawdwr i'r rhai sydd uniawn eu calonau, mi ddysgwyliaf yn hyderus am ei amddiffyniad i minnau yn awr." Am bob un sydd yn aros yn Nuw, dywed y Bibl wrthym fod Duw yn aros ynddo yntau. Os yw amddiffyniad Duw drosom, y mae anian Duw ynom. Yr oedd y llew a'r teigr wedi cael llechu yn yr arch, yn syrthio i mewn mor ystwyth â'r ddafad ddiniwed â rheol yr arch; nid oedd dim lladd a llarpio yn unlle

o'i mewn hi. Mae amddiffyniad llywodraeth yr Hollalluog yn perthyn yn unig i'r deiliaid ufudd; nis gall cyfraith yr Arglwydd estyn nodded i'w throreddwr beiddgar. "Yr hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef," medd Ioan, "sydd yn trigo ynddo ef." Pwy bynag sydd yn byw mewn pechod, mae eisieu i hwnw wybod nad oes dim a fyno cadwraeth y nefoedd âg ef ar y tir yna. Nid oedd y dinasoedd noddfa yn Israel yn arbed neb oedd yn lladd ei gymydog yn fwriadol. O! y daran arswydus sydd yn rhuo yn groch uwchben y pechadur rhyfygus dan yr efengyl: "Os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth y gwirionedd," nid oes amddiffynfa a guddia rai felly rhag digofaint, "nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach." Mae yn rhaid i ni ddewis a charu yr Arglwydd fel Duw sanctaidd yn gystal â Duw y gras. Cymerwn ei gyfraith i'n rheoli, ac ni gawn ei amddiffyn i'n cadw.

Adeg derfynol yw yr auser sydd gan ddyd i sicrhâu Duw yn amddiffynfa iddo. Nid bob amser y gellir ei gael ef—ei gael yn ei hoddwch a'i gymhorth. Am y rhan fwyaf o'r hen gestyll a'r amddiffynfeydd, fe fyddai o'u blaen neu o'u hamgylch ffos neu afon ddofn a llydan, a phont symudol i groesi y dyfnder i'r castell—pont goed i'w hestyn drosodd a'i thynu i fewn, yn ol fel y gwelai y llywydd yn dda. Ar ryw ddiwrnod yn yr hen amserau rhyfelgar, dacw ryw wladwr yn anwyliadwrus wedi myned yn rhy agos i gyffiniau y gelynyon, a hwythau yn ei ganfod ac yn ei ymlid; ac wele yntau yn ffoi tua'r castell am ddiangfa. Mae efe yn rhedeg am ei fywyd, gan ofni fod y gelynyon yn ennill arno bob cam, a chan wybod pe ca'i efe unwaith roi ei droed o fewn muriau y castell, y byddai efe yno yn ddiangol a chlyd o'u cyrhaedd. Wel, dacw efe yn awr wedi llwyddo i fyned i mynl y castell cadarn. Ond ow! nid yw hyny iddo ef o un llesâd; mae y bont ar y pryd wedi ei thynu i mewn; ac nid oes gan y crëadur truan, wedi rhedeg mor egnïol ac mor bell, ddim i wneyd ond syrthio yn nwyllaw y gelynyon, neu fodd y yn y ffos. A oes rhywun yn darllen y sylwadau hyn sydd eto heb ei waredu oddiwrth y digofaint ar ddyfod? Mae yn dda genym allu dywedyd wrth y cyfryw un: Er fod dy einioes mewn perygl, nid rhaid dy ladd. Mae ffordd rydd bob cam i amddiffynfa Sion heddyw. Mae'r bont wedi ei hestyn allan dros y gwagle mawr rhwng meidroldeb ac Anfeidroldeb—rhwng eisieu dynol a graslonrwydd Dwyfol—rhwng troseddwr euog a Barnwr cyfiawn. Mae un Cyfryngwr yn sefyll rhwng Duw a dynion, ac efe yw'r iawn. Rhêd am dy fywyd yn awr, bechadur; rhêd, nac oeda, a diangol a fyddi. Ond nid byth y ceir y ddyfodfa rwydd i'r amddiffynfa. Nis gallwn sicrhâu i'r enaid sydd eto yn nghyrrhaedd y perygl mwyaf, y bydd y bont i'w chael iddo ef y sabbath nesaf. Dyma a ddywed yr Arglwydd daionus ei hun am y rhai hyny sydd yn esgeuluso yr unig amddiffynfa yn eu dydd hwn: "Yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn fore y'm ceisiant, ond ni'm cânt." Ddarllenydd, cyn i'r ddeddf esgor, cyn i'r dialydd dy oddiweddyd, cyn y gofynir dy enaid oddiwrthyt, dianc am dy einioes, ffo i'r noddfa yn ddioedi rhag y llid a fydd. Yna dedwydd fyddi wedi cael y Duw byw yn amddiffynfa. Pwy, beth a all ddrygu yr enaid sydd wedi gwneyd ei ymguddfa gyda Christ yn Nuw? Doed y ddeddf a'i gofynion hyd ato; efe a'i gwyneba heb fraw yn Nuw. Doed cydwybod i'w holi am ei hen weithredoedd; gall ymddyddan â hi yn dawel yn Nuw. Doed cystuddiau i alw gydag ef; gall eu derbyn yn groesawus yn Nuw. Doed angeu a'r farn i'w geisio; efe a all edrych arnynt yn siriol yn Nuw. "Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo Ef."

SATAN A'R DDAEAR.

Y MAE tystiolaethau y Bibl am ffordd iachawdwriaeth, a'r cyfarwyddiadau a ddyry i ni tuag at rodio a boddloni Duw, yn "bethau amlwg," agored, agos atom, heb fod o dan len aneglurdeb a dirgelwch. Yr hyfforddiadau anghurheidiol i'n ffydd a'n hymarweddiad,—yn yr Ysgrythyrau, "y maent hwy oll yn amlwg i'r neb a ddeallo, ac yn uniawn i'r rhai a gafodd wybodaeth." Ond am laweroedd o bethau, y rhai y buasai yn ddfyfr gan ein cywreingarwch ni eu gwybod, eithr nad ydynt o bwys hanfodol yn y fuchedd fer ac ansicr hon, mae y Bibl naill ai yn hollol ddystaw yn eu cylch, neu yn aros yn unig ar awgrymau anmhenodol. Y wers fawr a ddygir i ni yn hyn yw, gosalu yn gyntaf diin am sicrhâu ein dedwyddwch erbyn yr eilfyd digyfuwid sydd o'n blaen, canys y mae prif-ffordd cadwedigaeth yr enaid yn hawdd ei chael a'i theithio, a'i hesgeuluso a dry i ni yn drueni diddiwedd. Byddwn ddyfal i ddeall a chredu y gwirioneddau am fywyd traxwyddol, ac yna ni a gawn oes anfarwol i astudio y pethau eraill a ddewisem yn wrthddrychau myfyrdod. Mae y Bibl, pa fodd bynag, yn ei gynnwysiad dihybydd, yn gymhwys i bob math ar feddwl. Tra y mae yn ymglyfaddasu, yn ei gyhoeddiad o ffordd y bywyd, i'r meddwl gwanaf, mae ynddo uchelderau a gorddyfnderoedd sydd ar unwaith yn trechu y meddwl galluocaf. Megys y dywed naturiaethwyr fod byd o ryfeddodau ynhob deilen neu laswelltyn, felly gellir dywedyd fod moroedd o feddyliau ynhob ymadrodd o Air Duw. Mae yn ddedwydd i ni, yn ddiâu, fod trefn cadw pechadur yn ffordd fawr sathredig, nas gall un ymofynydd cywir-galon ei chamgymeryd; o herwydd, "a rodio y ffordd, pe byddent ynyfdion ni chyfeiliornent;" ac y mae yn hyfryd hefyd i feddwl ymchwilgar fod yn ngwlad dadguddiad dwyfol lawer llwybr troed o ba le y gellir edrych oddi-amgylch ar ei feusydd èang, a mwynhâu yr olwg ar ei afonydd dyfnion. Tra na byddom yn colli ein golwg ar ddyben mawr yr Ysgrythyr,—ein hadferu i heddwch Duw, ac i gadw ei orchymynion—y mae gollwng ein hefyrdiaeth yn awr a phryd arall i fyned ar ol cyeiriadau anuniogyrchol y Bibl ar faterion neillduol, yn ymarferiad iachusol i'n hysbrydoedd. Felly yr ynddengys i ni ar hyn o bryd yr awgrymau a roddir ynddo am gysylltiad dechreuol Satan â'r ddaear hon.

Yr ydym yn gweled na ddyrchafwyd yr angelion, mwy na dyn, ar eu créadigaeth, i gyflwr parhâus o sancteiddrwydd a dedwyddwch. Créuwyd hwy oll ar unwaith, ac felly yr oedd ganddynt hwy o'r dechreuad gymdeithas ac esiampl myrddiynau o'r un naturiaeth, yr hyn nad oedd gan ein rhieni cyntaf. Yr oedd pob un o honynt hwy i weithredu drosto ei hun, ac i sefyll neu syrthio yn ol ei ymddygiad personol. Gosodwyd hwy fel hyn mewn ystâd o brawf, fel y byddai iddynt fel bodau personol mewn cyflwr o ryddid benderfynu naill ai mewn cydsyniad neu ynte mewn gwrthwynebiad i ewyllys Duw yn mberthynas iddynt. Yr oedd raid iddynt arddangos yn ymarferol pa un a geisient hwy eu dedwyddwch mwyaf, eu dedwyddwch penderfynol, yn ngwasanaeth Duw, mewn ymhyfrydiad yn ei ogoniant, ac mewn ufudd-dod perffaith i'w holl orchymynion,—neu pa un a ddewisent yn hytrach geisio eu dedwyddwch, ond yr hyn a fyddai yn wir yn *gaffael*.

trueni, mewn gwrthryfel yn erbyn Duw, a gwrthwynebrwydd i'w fwriadau : pa un a wnaent, ai ymostwng i ewyllys Duw, ac felly sicrhâu ei ffaf, neu ynte ddymunio bod eu hunain megys Duw, a cholli pob cymdeithas âg ef. Ac, wele, dyma ran lawr o'r angelion wedi camddefnyddio eu rhyddid, a chymeryd achlysur oddiwrtho i wrthryfela yn erbyn eu Crëawdwr. Ymddengys fod yr holl ysgogiad didduw yma wedi gwreiddio yn meddwl beiddgar un o honynt, yr hwn oedd wedi ei gynnysgaethu yn naturiol â galluoedd tra rhagorol, ac wedi ei osod yn y dechreuad mewn sefyllfa uchel ac urddasol yn y byd angelaidd; a dyma lawer o angelion eraill yn cymeryd eu harwain ganddo i'r unrhyw wrthryfel rhyfygus a chwymp diobaith. Mae rhagoriaeth naturiol yr arweinydd hwn, yn cyfodi oddiar ei gyfansoddiad, a beiddgarwch ei ewyllys, yn para er ei gwmp, fel y mae yr holl angelion syrthiedig yn gwneuthur i fyny deyrnas reolaidd, yr hon yw teyrnas y tywyllwch dano ef fel eu penaeth. Nid yw y Bibl yn son ond am un Diafol, un Satan, un tywysog ar fyddin y tywyllwch; ond y mae yn son yn fynych am gythreuliaid neu ddemoniaid, y rhai nad ydynt mwyach yn angelion Duw, eithr yn angelion y Diafol (Matth. xxv. 41).

Ond nid oedd y gwrthryfel ymysg yr angelion yn un cyffredinol a hollol; yr oedd llawer, ac fe ddichon, y rhan fwyaf o'r bodau angelaidd, yn aros yn ffyddlawn i'w Duw, ac yn cadw eu dechreuad. Yr oedd yr holl natur ddydol wedi ei rhwymo, mewn rhwymau o olyniaid, wrth y dyn cyntaf; ond nid oedd dim undeb o'r fath yn perthyn i'r natur angelaidd; yr oedd dewisiad yn dosbarth neu un person o honynt hwy, yn annibynol ar ddewisiad yr oll o'r lleill, ac felly nis gallasai cwmp un neu lawer o honynt effeithio yn ddrwg ar yr holl naturiaeth. Er hyny, nid oedd bosibl fod yr amgylchiad a ddybenodd yn nghwmp a dnystr rhai, yn gadael y lleill yn edrychwyd diafol ar y fath ddygwyddiad aruthr. Cauys gan fod ganddynt yr un natur, a'r un ddeddf natur, a'r un nôd wedi eu gosod o'u blaen gan eu Llywiawdwr mawr, yr oedd penderfyniad un neu rai o honynt ynghylch y cwestiwn o'u hufudd-dod neu eu hanufudd-dod i'r Crëawdwr, yn rhoddi math o orfod ar y lleill i ddyfod i benderfyniad hefyd. Yr oedd cwmp Satan yn peri rhywbeth tebyg i ddaeargryn yn yr holl fyd angelaidd, ac yn gwneuthur yn anghenrheidiol i bob angel gymeryd ei le, naill ai o du Dduw neu o du Satan. Syrthiodd y Diafol a'i angelion i drobwl eu hewyllysiau eu hunain, ond safodd yr etholedig angelion yn mherffaith ewyllys Duw. Yr Anfeidrol Fôd yn ei gyfiawnder a adawodd y naill iddynt eu hunain, ac yn rasol a gadarnhâodd y lleill ynddo Ef ei hun.

Ni ddarfu i hunan-benderfyniad annuwiol rhan o'r angelion, ddywn hanes y rhai hyny i derfyniad. Nis gallai yr angelion syrthiedig byth ddychwelyd yn ol at Dduw a dedwyddwch, ond hwy a allent fyned ymlaen ymhellach mewn drygioni a thrueni. Ac felly yr ydym yn cael mai trwy ddylanwad twyllodrus y Diafol y syrthiodd dyn o'r cyflwr sanctaidd a dedwydd y gosodasid ef yn wreiddiol ynddo. Dengys y Bibl fod y temtiwr a ymddangosodd fel, neu yn y, sarph, ac a feldithiwyd fel y cyfryw, yn fôd personol ysbrydol, ac yn neb amgen na thywysog yr angelion syrthiedig. Dywedai ein Hiachawdwr am y Diafol mai "lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad," gan iddo demtio dyn i bechu, a dwyn marwolaeth trwy bechod. Yn Nadguddiad Ioan, cyfeirir at yr "hen sarph, yr hon a elwir Diafol a Satan, yr hwn sydd yn tywlo yr holl fyd." Y mae hyn yn rhoddi i ni beth help tuag at wybod pa bryd y

syrrhiodd tywysog y tywyllwch. Dyma efe yn chwilota oddeutu cryd hanesyddiaeth dynolryw, yn llawn gwrthwynebrwydd maleisddrwg i'r Arglwydd Goruchaf. Dengys hyn fod ei gwmp ef wedi cymeryd lle yn flaenorol i gwmp dyn, ac yn flaenorol, dybygid, i grëadigaeth dyn, gan mai byr oedd arosiad y dyn cyntaf mewn diniweidrwydd. Ac ni a allwn gasglu fod y trychineb hwn ymysg yr angelion wedi dygwydd yn fuan ar ol crëadigaeth yr angelion eu hunain. Megys yr oedd y prawf o ufudd-dod dyn i ewyllys Duw, yn cymeryd lle yn nechreuad hanesyddiaeth dynol, ac yn galw ei allu o ddewisiad i ymarferiad am y tro cyntaf, felly, mae yn debyg, fod hanes yr angelion hefyd yn dechreu mewn prawf cyffelyb.

Ond, a allwn ni eto gael rhyw olwg ar *le*, yn gystal ag ar *amser*, cwmp yr angelion? Fod yr afiwydd hwn wedi dygwydd mewn rhyw le penodol yn nghrëadigaeth Duw, sydd amlwg; canys y mae y meddylddrych sydd genym ni am grëadur yn cynnwys o anghenrheidrwydd y syniadau am amser a lle. Y mae, fel yr ydym ni yn credu, gyda golwg ar bob crëadur, gysylltiad hanfodol rhwng ysbryd a natur, neu rhwng meddwl â mater neu ddefnydd. Nid yw fod yr angelion yn cael eu galw yn gyffredin yn "ysbrydion," yn cau allan y syniad am bob math o gorff mewn cysylltiad â hwy; canys y mae hefyd gyrrif ysbrydol; eithr y mae yn cau allan oddiwrthynt y syniad am gorff cnawdol, yn gyfansoddedig o ddefnyddiau daearol. Mae agos yn gwbl brofedig, fel yr ymresyma Isaac Taylor, yn ei *Physical Theory of Another Life*, nad oes ac nas gall fod yr un ysbryd cwbl ddi-gorff, ac annibynol ar le, ond yr Ysbryd Mawr Anfeidrol ei hun. Wele, ymba le y gallasai yr angelion hyn fod yn preswyllo cyn pechu o honynt? Oddiwrth y cysylltiad anghenrheidiol sydd, yn ol ein tyb ni, rhwng ysbryd crëuedig a naturiaeth, yr ydym yn casglu y rhaid fod cwmp yr angelion wedi gadael ôlion dinystr yn y natur lêol, neu y byd, lle y trigent, ac yr ymarferent eu gallu. Po bwysicaf ydoedd sefyllfa wreiddiol y gwrthryfelwyr, mwyaf echrys y dysgwylir fod canlyniadau eu cwmp, a mwyaf hynod yr ôl dinystr ar y lle yr oeddent ynddo. Oddiwrth a ddywedwyd eisoes, rhaid fod yr anrheithiad neu y diffeithdra llêol, pa le bynag yr oedd, wedi cymeryd lle cyn crëadigaeth dyn.

Gan syllu, gyda y golygiadau hyn, i'r hanes cysegrlân, beth a welwn ni yn nechre y LLYFR, yn union ar ol y mynegiad cyntaf, "Yn y dechreuad y crëodd Duw y nefoedd a'r ddaear," onid y geiriau hynod, "A'r ddaear oedd afuniaiidd a gwag, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder!" Beth? paham! Ai nid allai hwn fod y diffeithdra a'r anghyfanneddiad y cyfeiriasom ato? Anghenrhaid sydd i ni yma am fynyd ymchwilio i ystyr y geiriau a gyfeithir "afuniaiidd a gwag"—*thohu vabohu*. Darllena rhai, "A'r ddaear oedd ddifrodedig ac anrheithiedig." Ceir y geiriau mewn manau eraill yn y Bibl: yn Esa. xxxiv. 11, lle y dywedir am anghyfannedd-dra Edom, yn ol ein cyfieithiad ni, "Efe a estyn arni linyr *annhrefn*, a meini *gwagedd*;" a Jer. iv. 23, lle y rhagfynegir am anrheithiad Palestina, "Mi a edrychais ar y ddaear, ac wele *afuniaiidd a gwag* oedd." Y ddau le yna, mae y *thohu vabohu* yn gosod allan anrheithdra ac anghyfannedd-dra yn dilyn bywiogrwydd a ffrwythlonrwydd blaenorol; ac y mae hyny yn gwneyd yn debygol mai yr un yw y meddwl yn nechre Genesis. Ac yn wir, mae y geiriau "A'r ddaear oedd afuniaiidd" neu ddiffaith, "a gwag, a thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder," fel y maent yn sefyll arnynt eu hunain, yn ein bar-

wain yn naturiol i feddwl yn hytrach am ryw anrheithiad oedd wedi cymeryd lle ar ol y créadwriaeth cyntaf, nag at waith o eiddo Duw oedd eto heb ei orphen, ac yn aunddifad o oleuni a bywyd. Dysgwylir i bob gwaith Dwyfol, er heb ei ddwyn i ystâd o berffeithrwydd, fod yn ol gradd ei gwbl-eiddiad, yn adlewyrchu trefn, harddwch, goleuni, a bywyd Dwyfol. Yn awr, dyma ger ein bron ddaear wedi ei difrodi a'i hanrheithio, a thywyllwch yn gorchuddio y chaos gwyllt; ac ni a welsom o'r blaen demtiwr enfad, brenin ar deyrnas y tywyllwch; ac y mae y naill a'r llall yn ymddangos cyn créadigaeth dyn, a chyn gwaith y chwe' diwrnod. Onid oes yma gydgysfarfyddiad nodedig, sydd ar unwaith yn peri i ni edrych ar *thohu vabohu* Gen. i. 2, fel canlyniad gwrthryfel yr angelion syrthiedig? Addefir yu awr gan yr esbonwyr Biblaidd yn gyffrediuol y gall fod yspaid maith iawn rhwng y gwaith o greu nefoedd a daear yn y dechreuad a fynegir yn yr adnod Iaf, â'r cyfnod anrheithiedig ar y ddaear a ddesgrifir yn adnod yr 2il. "Rhaid i ni edrych ar y ddwy adnod flaenaf o lyfr Genesis," medd Dr. Chalmers, "fel ymadroddion rhagarweiniol, y rhai â'n hysbysant mai Duw a greodd bob peth ar y cyntaf, a bod wedi hyny, ymhen pa faint o amser ni ddywedir, y ddaear wedi myned i anhrefn, o dywyllwch ac aflunieidd-dra yr hon y gwnaed i'r gyfundrefn bresennol ar bethau darddu allan. Rhwng y weithred greadol gyntaf a'r adroddiadau manylaidd yn Genesis am waith y chwe' diwrnod, gallai fod y ddaear hon, am ddim ar a wyddom ni, yn fwrdd chwyldröadau lawer." Wel, dyma ni, dybygem, yn cael crâff ar y chwyldro mawr a gymerodd le ar y ddaear cyn i ddynolaeth sangu arni. Cyn gwaith y chwe' diwrnod, dyma y byd hwn yn bod, ac yn cael ei alw eisoes yn "ddaear;" a dyma amgylchiadau o hanesiaeth, cyn yr eiddo Adde, yn gysylltiedig â'r ddaear. Dyma y ddaear wedi myned yn anhrefnus a gwag. Ond yr oedd y cyflwr hwn wedi ei ragflaenu gan drefn a bywyd, fel yr arddangosir yn holl waith Duw; ac y mae yn cael hefyd ei olynu gan adferiad créadol yn ystod y chwe' diwrnod, pan orchymynwyd i oleuni lewyrchu o dywyllwch, a threfn a bywyd darddu o ddinystr ac anghyffanedd-dra. Yr oedd yr anrheithiad, fel yr ydym wedi casglu, yn ganlyniad i gwmp yr angelion; ac oddiyma yr ydym yn casglu ymhellach fod y ddaear yn y cyfnod cyn-ddynol, yn breswylfa yr angelion ac yn lle eu prawf—sef y dosbarth hwnw o'r angelion a wrthryfelasant yn erbyn Duw, a gollasant eu tywysogaeth, ac a orfodwyd i adael eu trigfa ddechreuol.

Yma, cyn myned ymhellach, naturiol yw gofyn, Os oedd y dosbarth hwnw o'r angelion a elwir genym yn angelion syrthiedig, yn preswyllo y ddaear hon yn y dechreuad, beth am y dosbarthiadau eraill o'r angelion? ynhaf le y gallasai fod eu preswylfeydd hwy? Wele, yr ydym yn tybied fod cyfeiriadau at eu trigeoedd hwythau yn yr Ysgrhythyr Llan, a bod hyn hefyd yn cadarnhâu y golygiad a nodwyd. Paul yn Col. i. 16, wrth osod allan uwchafiaeth Crist fel Cyfryngwr a ddywed, "Canys trwyddo ef y créwyd pob diin a'r sydd yn y nefoedd, ac sydd ar y ddaear, yn weledig ac yn aweledig, pa un bynag ai thronau, a'i arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddiannau; pob dim a grëwyd trwyddo Ef, ac erddo Ef." Y mae y geiriau "nefoedd" a "daear" yna yn arwyddo y bydysawd—yr holl *universe*; ac yn y geiriau gwahanol, thronau, arglwyddiaethau, tywysogaethau a meddiannau, cyfeiria yr Apostol at wahanol ddosbarthiadau ac urddau ymysg y bodau angeliaidd, ac awgryma, dybygid, eu bod yn wahaniaethol yn eu cyfléad cyntaf ar ol eu créu; ond pa fath bynag oeddynt, ac ymha

leoedd bynag eu cyflëwyd, hwynt-hwy oll, a'u holl leoedd, a grëwyd trwy Iesu, ac erddo ef. Ond cawn eiriau mwy penodol eto yn llyfr Job (pen. xxxviii. 4—7). “Pa le yr oeddit ti,” medd yr Arglwydd allan o'r corwynt wrth Job—“pa le yr oeddit ti pan sylfaenais i y ddaear—pan gydganodd sêr y bore, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw?” Ni a welwn yma fod “sêr y bore” a “meibion Duw” mewn bod cyn gosod sylfeini y ddaear, sef cyn gwaith y chwe' diwrnod. Ond beth sydd i ni ddeall wrth *sêr y bore*, ac wrth *feibion Duw*? “Mae rhai,” medd Caryl, yr hen esboniwr hygloed ar lyfr Job, “yn deall wrth *sêr y bore*, ac wrth *feibion Duw*, sêr y nen, neu y cyrff nefol, gan olygu eu bod yn cael eu galw yn feibion Duw mewn cyffelybiaeth. Mae eraill yn esbonio yr holl adnod am yr angelion—eu bod yn *sêr y bore* yn gyffelybiaethol, ac yn feibion Duw yn llythyrenol. Ond y mae trydydd math o esbonwyr yn rhanu yr ystyr, ac yn golygu y *sêr* yn llythyrenol wrth *sêr y bore*, a'r angelion wrth feibion Duw. “Nis gallaf fi,” ychwanega Caryl, “gyttuno â'r math cyntaf o ddeorglwywr sydd yn rhoddi yr holl adnod i'r *sêr*, nac â'r ail sydd yn rhoddi y cwbl i'r angelion; ond gan ddilyn canol y ffordd, cymerwn y rhan gyntaf am *sêr y nefoedd*, a'r rhan ddiweddaff am angelion Duw.” Ac yr ydym yn credu fod yr hen Ddarlithiwr Anghydfurfiol yma yn llygad ei le. Dywedir yma mewn iaith farddonol fod y *sêr* yn cydganu, megys y dywed y Salmydd mewn rhyw fan, “Molwch Ef, haul a lleuad; molwch Ef, yr holl *sêr* goleuni.” Yr oeddent ar y bore y cyfluniwyd ein daear ni fel y mae, yn cydganu yn yr iaith ddystaw ond hyawdl sydd ganddynt eto i ddadgan gogoniant eu Crëwr; o herwydd, “Y nefoedd sydd yn dadgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegi gwaith ei ddwyllaw ef.” “Meibion Duw,” fel mae yn amlgw, yw yr angelion, ei feibion crëuedig henaf ef. Ac oddiwrth y cysylltiad yn y geiriau dan sylw, mae yn naturiol i ni dybied y golygir yma feibion Duw fel preswylwyr *sêr y bore*. Mae yn wir y llefara y Bibl yn gyffredin am y nefoedd fel trigfa yr angelion sanctaidd. Ond rhaid cofio fod y geiriau nef a nefoedd* yn dra chyunwysfawr a chyffredinol yn eu hystyr yn yr Ysgrythyr, ac yn fynych iawn yn golygu y ffurfafen, a'r cyrff nefol a osodwyd ynddi; ac felly nid yw hyn yn milwrio dim yn erbyn ein heboniad ar y geiriau yn Job. Mae y geiriau, “llu y nefoedd,” yn cael eu defnyddio yr un fath am *sêr y nefoedd*, ac am yr angelion nefol (Gwel Esa. xxxiv. 4. I Bren. xxii. 19, &c.), yr hyn sydd yn rhoddi grym ychwanegol i'n rhesymiad crybwylledig.

Y mae naturiaeth ei hun, fel yr ymresymir yn wych gan Chalmers, Brewster, ac eraill, yn ein helpio i feddwl fod bydoedd mawrion y ffurfafen yn cael eu cyfanneddu gan breswylwyr cyfaddas iddynt. Os yw ein daearen ni yn cael ei phoblogi—oddiwrth ddyn sydd yn edrych i fyny tua'r nefoedd, i lawr hyd abwydyn y llwch; os ydyw pob dyferyn o ddwfr, pob gronynyn o dywod, a phob deilen yn y goedwig, yn cynnwys byd o grëaduriaid byw; ac os yw yr holl bentwr mawr hwn o fywdolion sydd mewn aneirif wahanol ffurfiau yn ymsymud ar y ddaear, ac yn cyrhaedd ei gwbl-eiddiad a'i nôd yn unig yn y bôd hwnw sydd wedi ei gynnysgaethu â galluoedd i adnabod ac i gydnabod ei Wneuthurwr—yn y dyn sydd fel math o

* Yn dra anffodus, yn enwedig i Gymro uniaith, arferir y gair nefoedd yn y Bibl Cymraeg yn y rhif unigol yn gystal â'r lliosog; lle y dyleisid arfer y gair *nef* yn unig am yr unigol, a nefoedd am y lliosog. Y ffordd oreu bellach, pe byddai modd, fyddai rhoddi *nefau* ar gyfer y gair Saesneg, *heavens*.

gyfryngwr rhwng yr holl grëaduriaid hyn â'r Crëawdwr er gogoniant yr hwn y crëwyd hwynt,—pa fodd y gall fod y bydoedd serenog, ardderchog, fry, yn amddifaid o grëaduriaid yn meddu hunangydwybodaeth, a rhyddid moesol, a chymhwysder i adnabod ac addoli eu Lluniwr Dwyfol? Nid oes dim yn y Bibl yn gwrthwynebu y golygiad fod y sêr yn cael eu poblogi gan fodau personol; yn ol ein barn ni, fel y gwelir, y mae yn cynnwys cyfeiriadau cadarnhäol i'r gwrthwyneb. Nid ydyw, ac nid yw yn ngallu, y wyddor o seryddiaeth, ddysgu dim i ni ynghylch natur a thynged *trigloton* y sêr; nid yw ond yn rhoddi i ni gipolwg aneglur ac ansicr ynghylch cyfansoddiad anianyddol y bydoedd hyn. Ar y llaw arall, nid yw y Bibl, yr hwn sydd ddadguddiad crefyddol yn gwbl, yn dysgu dim i ni am natur a chyfansoddiad y sêr. Ond y mae efe, fel yr ydym yn nodi, yn rhoddi awgrymau i ni fod y sêr yn breswylfeydd angelion. A'r ymholiad oddiwrth hyn ydyw,—A yw amlygiadau y Bibl ynghylch natur yr angelion, a chasgliadau seryddiaeth ynghylch natur gyfansoddol y sêr, yn gyson â'u gilydd? A oes cymhwysder yn y fath leoedd i fod yn drigfanau i'r fath fodau? Yn ol darganfyddiadau a golygiadau y diweddar Syr John Herschell, ac eraill o brif seryddwyr yr oes hon, y mae y sêr sefydlog, fel eu gelwir, yn fydoedd gogoneddus mewn gwirionedd. Heuliau ydynt yn troi o amgylch heuliau, heb fod yn perthyn iddynt y crynswdd a'r dysgyrchiant gorfodol hyny sydd yn cyfansoddi deddf ein cyfundrefn ni, a lle nid oes nos i roddi rhwystr ar ffordd bywyd a'i ddyledswyddau, na rhew na gauaf i fferu ei ymadferthoedd. Yn ol hyny o wybyddiaeth y mae ein seryddwyr goreu wedi ei gyrhaeddyd, ac yn ei roddi i ni, am y bydoedd hyn, y maent yn ymddangos wedi eu cyfaddasu i fod yn drigfanau priodol i fodau na wyddant am bechod a marwolaeth, ac nad yw eu cyfansoddiad anianyddol yn peri fod yn rhaid iddynt wrth olyniad o oleuni a thywyllwch, dydd a nos, ac nad ymwelir â hwynt gan y cyfnawidiadau anhyfryd o boethder ac oerfel yr ydym ni yn ddarostyngedig iddynt.

Hwyrach y gwrthddadleuir yn erbyn y golygiadau hyn fod y pellder aruthrol, ac anghyfrifadwy genym ni, sydd rhwng y sêr a'r ddaear, yn anghyson âg athrawiaeth y Bibl am wasanaeth ac amddiffyniad yr angelion i blant Duw yn y byd drwg presennol. Ond y mae y cyfryw wrthddadl yn cymeryd caniatâd i briodoli i angelion Duw y cyfyngiadau a brofir genym ni. Y mae, hyd yn nôd o fewn cylch gwybodaeth a phrofiad dynol, gyflymderau sydd yn tra rhagori ar gyflymder goleuni ei hunan. Dyna y gwefr-hysbysai ar waith fel cenadwr y meddwl, yn rhoddi hysbysrwydd gyda buander sydd yn beiddio pob mesuriad. Ac y mae yn rhaid fod y cyflymder â pha un y mae dylanwad dymgyrchiad yn myned a dyfod oddiwrth y naill gorff nefol i'r llall, yn fwy ddeng miliwn o weithiau na chyflymder goleuni. Nid yw yr holl gyflymderau hyn, pa fodd bynag, yn dal un cymhariaeth i gyflymder meddwl. Mae yn wir nas gall ein cyrff marwol ni ddilyn gyrfa y meddwl; ond paham y rhaid i ni dybied nas gall cyrff ysbrydol y bodau sanctaidd a elwir mewn ffordd o ragoriaeth yn "ysbrydion" gydgerdded, neu yn hytrach gydehedeg, â'u meddyliau? Gall yr angel, ysgatfydd; fod y fynyd hon yn nef y nefoedd, yn sefyll ger bron gorsedd-fainc Duw a'r Oen, ac yna wedi derbyn gorchymyn oddiwrtho, gall fod y fynyd nesaf yn gwasanaethu yr Arglwydd gyda ei frodyr mewn byd serenog, neu ynte yn gweini wrth wely gwellt rhyw Lazæus dduwiol yn ein byd ni. A thrachefn, fe allai y dywedir nas gall yr amrywiaeth ffurfiau yn

mydoedd y ffurfafen fod yn gyson â'r unoliaeth natur a chyflwr a briodolir yn yr Ysgrhythyr i'r angelion. Ond y mae yn rhaid i ni ddal yn ein cof, fod y Bibl tra yn gosod allan unoliaeth cyffredinol y tylwythau angeliaidd, yn dangos fod rhyw wahaniaethau neillduol rhwng y gwahanol ddsbarthiadau o honynt.

Dichon y dywedir ein bod yn ein gwibdaith hon ar ol yr angelion nefol, wedi crwydro erbyn hyn ymhell iawn oddiwrth ein nôd yn y dechreu. Eithr goddefer i ni ddywedyd yn ostyngedig, ein bod yn tybied ein hunain yn myned ymlaen o hyd ar ganol y ffordd y cychwynasom ar hyd-ddi. Ein casgliad presennol ydyw, gan fod yr angelion syrthiedig, cyn eu cwmp, yn meddu y cyffelyb fôd, galluoedd, a chyflwr â'r lleill o'r angelion, y rhaid fod ansawdd eu trigle hefyd yn dra chyffelyb. Yr oedd yn rhaid gan hynny fod ein daear ni, yn ei sefyllfa wreiddiol, yn gyffelyb o ran nodweddiad a chyfaddasder i'r bydoedd eraill y rhai a neillduwyd, fel yr ydym wedi gosod allan, yn driglëoedd i'r angelion sanctaidd.

Gallwn ddywedyd yn y fan hon wrth y brawd o dymher oer, arafaidd, sydd yn darllen y sylwadau hyn gyda gwên lèd wawdlyd, gan ddywedyd, Ha! pwnc newydd eto! fod y golygiad yma am 'Ddiafol a'i angelion yn breswylwyr gwreiddiol y ddaear hon, yn un sydd bellach wedi cyrhaedd cryn henafiaeth. Yn y ddegfed ganrif, dywedai Edgar brenin Lloegr, mewn ffordd o gadarnhâd i gyfraith Oswalt, "Megys y gyrodd Duw yr angelion o'r ddaear, ar ol eu cwmp, trwy yr hyn y cyfnewidiwyd hi i fod yn *chaos*, y mae efe yn awr wedi gosod breninoedd ar y ddaear fel y ceid cyfiawnder yno." Yr ydym yn addef nad ydym, ar hyn o bryd, yn cofio fod neb o'r Tadau, fel eu gelwir, yn dal yr athrawiaeth hon. Maent hwy yn gyffredin yn dal fod dynolryw wedi eu creu er mwyn cau i fyny y bwch neu yr adwy a wnaed trwy gwmp yr angelion; ac y mae rhai o honynt wedi dywedyd fod yr hil ddynol i amlhâu hyd nes y byddo nifer y gwaredigion wedi cyrhaedd i nifer yr angelion syrthiedig. Ond nid ydym yn gwybod eu bod hwy yn dal fod y tryblith daearol yn ganlyniad i gwmp yr angelion. Eithr nid yw hyn o nemor bwys i'n mater. Gallem ofyn, Ai nid oes rhywbeth yn gefnogiad i'n golygiad yn nywedai y Diafol ei hun wrth Fab Duw, pan yn dangos iddo holl deyrnasoedd y ddaear, ac yn ei demtio i'w addoli ef, "I mi y rhoddwyd,"—ac yn yr enwau hyny a roddir arno—tywysog y byd hwn, a duw y byd hwn? Digon gwir yw y syniad fod dynion trwy bechod wedi ymwerthu i'r Diafol; ac nid anmhriodol y farn fod ei haeriad crybwyllledig, a'r enwau arno a nodwyd, wedi eu seilio ar hyny. Ond dyger ymlaen ymhellach y syniad yr ydym ni yma yn ei osod ger bron, ac fe ddyry hyn rym a phriodoldeb ychwanegol i'r haeriad ac i'r teitlau.

Yr ydym wedi gwled, yn lled eglur dybygem ni, fod y difrod tryblithol ar yr hen ddaear hon, yn effaith y digofaint dwyfol yn erbyn yr angelion a gwmpasent ynddi. Ond yr oedd adferiad bywyd a threfn i'r ddaear, i'r gwrthwyneb, yn effaith gras a chariad Duw tuag at ddyd; canys yr oedd cyngor ei ewyllys wedi trefnu i'r dinystrydd gael ei alltudio o'r ddaear, ac i ddyd gael ei osod, yn ei le, yn breswilydd ynddi ac arglwydd arni; i.e., ei fod ef ryw ddydd i orchfygu a barnu y lleiddiad a'r prif wrthryfelwr yn ngrêadigaeth Duw. Cafodd dyn fel hyn ei ddodi yn y rhan benodol hono o'r bydysawd lle y byddai llygaid pawb o bob byd yn sefydlu arno, a pha le, oddiwrth ei ansawdd a'i dyngedfen wreiddiol, ac yn enwedig oddiwrth

ymddangosiad Mab Duw i ddattod gweithredoedd y Diafol, sydd i fod—nid mewn ystyr seryddol, ond mewn ystyr foesol—yn ganolbwynt holl grëadigaeth yr Anfeidrol. Yn nghanol holl anialwch y *chaos* tywyll, yr oedd yn aros un pelydryn goleu, yn rhagarwydd ac ernes o haul canolddydd. Yr oedd Ysbryd Duw eto heb lwy'r adael y ddaear; yr oedd Efe eto yn ym-symud ar wyneb y dyfroedd; canys yr oedd Efe yn edrych ymlaen ar y ddaear hon fel gweithfa iddo roddi allan ei nerthoedd grasol i sancteiddio pechadur o ddyn, trwy ogoneddu Duw-ddyn.

Yr oedd adnewyddiad adferiadol y ddaear yn rhoddi nodwedd anghydfurf ág anian a chyflwr syrthiedig y Diafol a'i angelion. Tywyllwch, difrod, ac anesmwythder diorphwys yw eu helfen hwy; ac am hyny pan ddywedodd yr Hollalluog, "Bydded goleuni!" nis gallent aros yn hwy i breswyllo eu hen drigfa. Yr oedd dyn i gymeryd lle tywysog gwreiddiol y byd hwn; eto, nid yn y fath fodd fel ag i fwrw allan Satan trwy unrhyw rym allanol, ond trwy ddylanwadau barn foesol o orsedd Duw, ac egwyddor dduwiol yn nghanol dyn. Gyda y golygiad hwn am y cysylltiad dechreuol rhwng Satan a'r ddaear, gallwn ddeall yn well paham y mae yr ysbrydion arian yn sylwi cymaint ar, ac yn traferthu cymaint ynghylch, ein byd daearol; a phaham y maent mor elynol tuag at ddynion, i ran y rhai y daeth y dalaeth a gymerwyd oddiarnynt hwy. Gallwn weled oddiyma hefyd y pwysigrwydd mawr sydd ynglŷn â'r ddaear, fel canolbwnc hanesyddol yr holl fydoedd—man yr ymdrechfa fawr rhwng da a drwg. Nid yw y cysylltiad agos, a dybir trwy yr holl Ysgrythyrau, rhwng y nefau a'r ddaear, yn aneglur mwyach. Nid o ddamwain, ac nid oddiar ryw benarglwyddiaeth heb reswm, y daeth ein daear ni, ni a welwn, yn dŷ cyfarfod yr holl grëadigaeth resymol, yn swyddfa y dadguddiedigaethau gogonedd-usaf, ac yn faes croeshoeliad Duw mewn cnawd!

Oddiar ein safle presennol, yr ydym yn cael golwg lwyrach a phellach ar gwmp dyn. Ni a dybygem yn awr fod y demtasiwn yn ei ffurf, ei dull, a'i sylwedd, yn dyfod i'r golwg mewn goleuni amlycach; ac yn enwedig y rhan fwyaf dirgeledig o'r hanes, sef pren gwybodaeth a gaed yn foddion, a'r sarph oedd yn oferyn, y demtasiwn. Nid anhawdd yw i ni ddeall fod yn rhaid i ryddid moesol dyn fyned dan brawf, gan fod hunanbenderfyniad iddo yn alluadwy, a hunanddadblygiad iddo yn anghenrheidiol. Eithr nid ydyw mor hawdd i ni weled paham y cymerodd ei brawf ffurf *temptasiwn*—paham yr oedd yr Ewyllys Ddwyfol, yr hyn oedd i roddi yr achlysur i benderfyniad dyn, yn cymeryd ffurf o osodiad nacäol, ac nid cadarnhäol—yn amlygu ei hun mewn gwaharddiad, ac nid mewn gorchymyn. Yr oedd raid, dybygid, fod rhywbeth yn sefyllfa y dyn ei hun oedd yn gwneyd yn anghenrheidiol i'r prawf arno gael ei ddwyn ymlaen mewn cysylltiad â gwaharddiad yn lle â gorchymyn. Mae pob gwaharddiad yn rhagdybio bod drwg yn rhywle—naill ai yn yr hwn a fyddo, yn cael ei wahardd, neu yn yr hyn a fydd yn waharddedig. Yn yr amgylchiad presennol, nis gallai fod y drwg yn y dyn i'r hwn y rhoddid y gwaharddiad, canys yr oedd efe eto yn ei gyflwr gwreiddiol o ddiniweidrwydd, a phe fel arall, buasai ei brawf yn afreidiol ac yn annichonadwy. Yr oedd raid fod y drwg gan hyny yn rhywle o'r tu allan i ddyn. Ond dyma bob peth a wnaethai Duw yn, ac ar y ddaear, yn dda, ac yn "dda iawn." O ba le gan hyny y gallai y drwg ddyfod?

Yr oedd pren gwybodaeth, medd yr adroddiad Ysgrythyrol, yn bren gwybodaeth *da* a *drwg*, ac nid yn unig yn bren gwybodaeth *da neu ddrwg*;

a pha un bynag a wnaethai dyn ai bwyta ai peidio o'i ffrwyth, yr oedd efe yn y naill amgylchiad neu y llall, i gyrhaedd gwybodaeth o dda a drwg. Ond os nad oedd drwg mewn bod eisoes, nis gallasai dyn, wrth wneyd ei benderfyniad mewn cydffurfiad âg ewyllys Duw, ond gwybod am dda yn unig; canys y mae gwybod am beth nad yw yn bod, yn wrthddyweddiad ynddo ei hun. Drachefn, gellir gofyn, a chaniatáu fod drwg eisoes yn hanfodi, paham y byddai raid i ddyn gael gwybodaeth am y drwg hwnw, gan ei fod yn beth oedd yn gorwedd o'r tu hwnt iddo ef, ac oddiallan, dybygid, i gy'ch ei weithrediad? Yr oedd Duw wedi peri i bren gwybodaeth, fel y prenau eraill, dyfu yn ngardd Eden. Paham gan hyny yr oedd Efe yn rhybuddio dyn rhag gwaith ei law ei hunan? Ah! yr oedd y pren hwnw yn bren marwolaeth; oblegid yr oedd dyn i farw os byddai iddo fwyta o hono; ac eto yr oedd yn anghenrheidiol, yn fuddiol, ac yn anhebgorol, fod y fath bren yn yr ardd, a hyny er fod dyn wedi cael ei lunio i fywyd, ac nid i farwolaeth. Yr oedd y pren yn dda, canys Duw a'i creodd; ac eto yr oedd elfen ddrwg ynglyn âg ef, gan y gallai ddwyn marwolaeth ar ddyn. Pa fodd y cydsais y pethau hyn? Nid yw Duw yn tentio neb i bechod, ac eto dyma brawf dyn, yr hyn a osodwyd gan Dduw, yn dyfod yn demtasiwn uniongyrchol i bechod. Nis gallasai Duw, pa fodd bynag, achlysuru drwgystryw y sarph. Yr oedd raid fod y dichell a'r twyll yn dyfod yn gwbl oddiwrth lygredigaeth, y temtiwr ei hun, yr hyn a oddefwyd yn unig gan Dduw yn yr olwg ar yr anghenrheidrwydd am y cyfryw brawf. Ond o ba le y daeth y fath anghenrheidrwydd? Pa nôd neillduol oedd gan y temtiwr mewn gwneuthur dyn yn wrthddrych ei ddichellion? beth a allasai fod yn ei gynhyrfu i hudo dyn i'w ddinystri? A oedd hyn yn unig oddiar awyddfryd cyffredin yr un drwg i ennill ychwaneg o gymdeithion mewn euogrwydd, ac i lusgo eraill i lawr i'r dyfnderoedd trueni y syrthiodd efe iddynt? Ond pe felly yn unig, heb un rheswm yn ychwaneg, nac un berthynas neillduol rhwng y gelyn a dyn, buasai yn beth hollol anamgyffredadwy pa fodd yr oedd Duw nid yn unig yn goddef i Ddiabol demtio dyn, eithr yn agor y ffordd iddo tuag at wneyd hyny. Ond yr ydym yn cael goleuni ar yr holl anhawsderau hyn, ac ar eraill cyffelyb iddynt, wrth ddal mewn côf fod yr angelion syrthiedig unwaith wedi bod yn breswylwyr y ddaear, a bod y ddaear a aeth yn dryblith o anhrefn mewn canlyniad i'w cwmp, wedi ei hadferu gan ddaioni a gallu Duw, a'i rhoddi i ddyn yn gyfanneddle, ac yn fan ei feithriniad ysbrydol, ac yn gy'ch ei oruchwyliaeth arbenig. Yr ydym oddiyma yn cael ein cynnorthwyo i ddeall yn well paham y rhoddai Satan ei holl alluoedd ar waith i ddenu dyn i wrthryfela yn erbyn ei Dduw. Yr oedd yn gwneuthur hyn oddiar elyniaeth naturiol, oddiar gasineb a chenfigen, digofaint ac ysbrydial, tuag at ei olynnydd, yr hwn a osodwyd yn y drigfan, ac a gyfodwyd i'r dywysogaeth, a gollasai efe—yr hwn a wisgwyd â'r gogouiant yr ymddifadwyd ef am byth o hono—ie, a'r hwn hefyd a elwid i gyhoeddi yn swyddol farnedigaeth arno. Gyda y teimladau hyn, ymosododd ar ddyn oddiar obaith twyllodrus cynddeiriogrwydd, neu yn hytrach oddiar ymdrechriad ffyrnig anobaith, i adennill yr etifeddiaeth yr oedd efe wedi ei sfforfedio. Yr ydym yn canfod bellach pa fodd y bu i brawf y dyn cyntaf gymeryd lle dan ffurf temtasiwn, a phaham yr oedd efe i ymgadw mewn diniweidrwydd, nid yn gymaint trwy wneuthur ond trwy beidio gwneuthur—trwy ufuddhâu i'r gwaharddiad penodol a gawsai. Gan fod drwg, neu bechod, yn bôd eis-

oes, a chan nas gallasai dyn aros mewn cyflwr canolog heb fod yn bleidiol nac yn wrthwynebol iddo, yr oedd yn anghenrheidiol, ar gyfrif dyben ei grëadigaeth ac arbenigrwydd ei sefyllfa, iddo yn uniongyrchol ac o'i rydd ddewisiad, osod ei hun yn benderfynuol yn erbyn pechod.

Ymbhellach, yr ydym yma yn cael deongliad ar yr anhawsderau ymddangosiadol ynghylch pren gwybodaeth—pa fodd yr oedd y pren hwnw, er ei greu gan Dduw, yn bren marwolaeth, a pha fodd yr oedd Satan, er iddo gael ei ddiorseddu o'i dywysogaeth ddaearol, yn cael yn y pren hwnw foddion i weithredu, mewn yngais i ddymchwelyd dyn o'r mawredd yr oedd efe newydd ei dderbyn. Yr oedd raid fod rhyw gysylltiad dirgeledig rhwng Satan â'r pren hwnw, er mai Duw a barasai iddo dyfu. Ac nid yw yn anhawdd i ni ganfod pa beth oedd y cysylltiad hwnw. Trwy wrthryfel Satan, dyma orchwyliaeth anianyddol marwolaeth a dinystr wedi dyfod i'r ddaear gyntefig, yr hon a ddaeth yn *thohu vabohu*. Trwy adgyweiriad y ddaear yn ystod gwaith y chwe' diwrnod, rhoes Duw o newydd i'r ddaear alluoedd anianyddol bywyd. Yn awr gosodwyd dyn i sefyll megys rhwng da a drwg, rhwng bywyd a marwolaeth. Dyma hwy yn sefyll ger ei fron, fel y gallai ddewis rhyngddynt. Yr oedd y daioni anianol, daearol, a gyfranasai Duw yn adnewyddiad y byd hwn, wedi ei grynhoi i bren y bywyd, tra yr oedd y drwg anianol, daearol, a ddaethai yn wreiddiol oddiwrth Satan, wedi ei grynhoi i bren gwybodaeth da a drwg, ond nid heb fod y pren hwn wedi ei gau oddiamgylch gan ocheliad Dwyfol. Yn y pren hwn yr oedd rhan gan Satan, canys dyma farwolaeth yn ymlynu wrth y pren, ac yntau o herwydd hyny yn rhoddi ei ddoniau mawrion ar waith i'w ddarlunio yn ddeniadol. Ond yr oedd gan Dduw hefyd ran yn y pren hwnw. Efe a ganiatôdd iddo dyfu, a grynhôdd farwolaeth iddo, ac a gauodd, fel y dywedwyd, o'i amgylch trwy waharddiad a rhybudd. Yr oedd dyn i gael ei gadarnhâu mewn da moesol, neu i syrthio i ddrwg moesol, yn ol fel y gweithredai gyda golwg ar y da a'r drwg anianyddol, tra yr oedd yn cael ei rybuddio rhag y drwg gan Dduw, a'i ddenu i ddrwg gan Ddiafol. Bwyta o bren gwybodaeth, oedd derbyn y drwg anianyddol i'r cyfansoddiad corfforol—dwyn i mewn farwolaeth naturiol—yfed y gwenwyn gwreiddiol mewn natur. A bwyta o bren y bywyd, oedd derbyn y da anianyddol i'r cyfansoddiad—dwyn anfarwoldeb i mewn i'r corff—cyfranogi o'r feddyginiaeth wreiddiol ac effeithiol mewn natur. Ac er cymaint oedd nerth y naill bren i ddinystrio, cryfach oedd rhinwedd bywiol ac iachâol y pren arall, canys, yn ol Gen. iii. 22, buasai dyn, hyd yn nôd ar ol iddo fwyta o ffrwyth marwolaeth, yn byw byth pe cawsai gyfranogi o bren y bywyd. Cymhwys y gelwid y pren peryglus yn bren gwybodaeth da a drwg. Os byddai i ddyn, trwy wrandaw ar Satan, gyfranogi o'i ffrwyth, efe a brofai ynddo ei hun ddrwg anianyddol gyda'i effaith, marwolaeth; ac mewn ffordd o wrthgyferbyniad, byddai yn gwybod am y da trwy deimlad poenus o'r anghen am dano. Ond os byddai i ddyn, trwy ufuddhâu i orchymyn Duw, beidio bwyta o'i ffrwyth, ac yn ei le gyfranogi o ffrwyth pren y bywyd, efe a brofai yn ei gyfansoddiad ddaioni anianyddol, gyda bywyd corfforol parhâus a diwaethgiad, a byddai yn gwybod yn unig am ddrwg anianyddol, fel rhywbeth o'r tu allan iddo, peth yr oedd wedi cael goruchafiaeth arno, a pheth, fel Satan ei awdwr, nad oedd i gael arosiad mwyach ar y ddaear. Ond gan fod drwg anianyddol yn gwreiddio mewn drwg moesol, neu yn *ngwrthryfel* y Diafol, a chan fod hefyd y cysfyngiad o ddrwg anianyddol i

bren gwybodaeth, gyda'r rhybudd rhagddo, yn tarddu o ddaioni moesol, sef o ewyllys sanctaidd Duw,—yr oedd y drwg anianyddol hwn, dan yr amgylchiadau neillduol, yn dyfod yn achlysur i ddyn wneuthur ei benderfyniad o blaid daioni moesol neu ddrwg moesol. Ac, yn awr, pa beth, pa beth, a fydd ei benderfyniad? Ar un llaw, dyma Dduw yn gwahardd: "Na fwyta o hono"—ac yn rhybuddio: "Yn y dydd y bwyta di o hono, gan farw ti a fyddi farw." Ac ar y llaw arall, dyma y sarph yn perswadio: "Yn y dydd y bwytaoch o hono ef, agorir eich llygaid, a byddwch megys duwiau, yn gwybod da a drwg." Rhwng y ddau hyn y safai dyn, yn rhydd i ddewis, ac yn alluog i ddal y prawf oedd wedi dyfod, dan yr amgylchiadau, yn demtasiwn—eithr wedi ei adael hefyd yn rhydd i syrthio. Ond, ond! dyma ddyn yn ildio lle y dylasai orchfygu, ac yn dyfod yn gaethwas lle y dylasai fod yn arglwydd. Penderfynodd er drwg, ac ymddarostyngodd i wasanaeth y Diafol. Trwy y weithred echryds hon, dyma ddrwg anianyddol, neu farwolaeth, yn cymeryd meddiant ar ei natur gorfforol, a drwg moesol, neu bechod, ar ei natur ysbrydol; dyma angeu, oedd o'r blaen wedi ei gaethiwo wrth bren gwybodaeth, yn cael ei ollwng yn rhydd gan bechod, ac yn teyrnasu gydag ef.

Am y pren rhyfeddol arall, pren y bywyd, yr ydym yn cael fod Duw yn gyru dyn, ar ol iddo gwmpo, allan o ardd Eden, "rhag iddo estyn ei law, a chymeryd o bren y bywyd, a bwyta, a byw yn dragwyddol." Fel hyn, hyd yn nôd ar ol dyfodiad pechod a marwolaeth, yr oedd ffrwyth pren y bywyd, megys yr ydym eisoes wedi crybwyll, yn alluog i symud marwolaeth naturiol oddiwrth ddyn. Ond nis gallasai dynu ymaith bechod, achos marwolaeth. Felly pe buasai dyn yn bwyta o bren y bywyd, buasai ei fywyd naturiol, o'r fath ag ydoedd wedi iddo syrthio i bechod, yn cael ei fytholi, tra y buasai ei farwolaeth ysbrydol neu foesol, ei egwyddor a'i ymarferiadau pechadurus, trwy hynny, yn derbyn y cyfryw gryfhâd ag y mae yn rhy ofnadwy dychymygu am dano. Gyda phechod, melldith yn wir a fuasai parhâd didor o fywyd naturiol; ond trwy ras, y fendith fwyaf yw marwolaeth naturiol, canys trwy farwolaeth y corff, fel y dywed hen dda eb dduwinyddol, y ceir rhyddhâd oddiwrth gorff y farwolaeth. Cafodd gweledydd ysbrydoledig Llyfr y Dadguddiad olwg ar bren y bywyd, ar ol ei golli o'r ddaear, yn ffrwytho yn y Baradwys nefol. Ond nid oes i bren angeuol gwybodaeth da a drwg un lle yn y Baradwys hono; o herwydd nid oes i Satan ddim o'i mewn hi, ac nid oedd eisieu mwyach y pren hwn wedi i'r prawf ar ddyn beidio. Mae yn ddigon tebyg fod y pren ei hun wedi gwywo yn Eden; ond y mae yr effeithiolrwydd marwol oedd ynglŷn âg ef, ar ol unwaith gael ei ollwng ar led, wedi lliosogi ac ymwasgaru dros bob gwlad ac oes.

Awgrymasom fod ein mater yn taflu goleufynag hefyd ar hanes y sarph. Mae natur y cysylltiad rhwng dylanwad ysbrydol Satan âg ymddangosiad allanol y sarph, yn aros i ni yn ddyfnder mawr. Ond fe allai y gallem edrych ar Satan fel y sturf bersonol, y sarph fel y sturf anifeilaidd, a phren gwybodaeth fel y sturf lysieuol, ymha rai, mewn dull o ddywedyd, y corfforid y drwg hwnw oedd wedi deillio o gwmp y'r angelion, ac yn cael ei ddal o fewn terfynau gan Dduw, ac a ddylasai gael ei orchfygu a'i gollfarnu gan ddyn. Yr oedd dyn yn nechreuad ei hanes i wneuthur yr hyn y mae Hâd y wraig, yn nghyflawnder yr amser, wedi ei gyflawni,—ysigo pen y sarph. Pe buasai dyn wedi cadw deddf ei Grëawdwr, gan droi oddi-

wrth y temtiwr, a gwrthwynebu ei hudoliaeth, efe a gyflawnasai y gorchest-waith hwn. Y pren a'r sarph oeddent y gweddillion olaf, megys, o'r hyn oedd yn perthyn i Satan ar y ddaear adgyweiriedig yn more ei hamser. Yr oedd Ysbryd Duw eisoes wedi rhoddi diwedd ar rwysg y tryblith du, a'r pren a'r sarph oedd yr unig afaelion bellach gan Satan ar y ddaear. Pe cawsai y rhai hyn, yn yr egwyddor o ddrwg oedd mewn cysylltiad amgylchiadol â hwynt, eu gorchfygu a'u llethu, trwy benderfyniad sanctaidd dyn, buasai raid i Satan hefyd lwyr ymadael â'r ddaear hon, gan y buasai ynddi bob peth yn anghyttunol â'i elfen ef, ac na buasai ganddo yntau fodd i ddylanwadu yn niweidiol arni mwyach. Ond wele y dyn a osododd yr Arglwydd Dduw yn ngardd Eden, nid yn unig i'w llafurio, ond i'w *chadw* hi—ei chadw rhag y gelyn oedd â'i lygaid drwg yn ei gwyllo—yn troi yn anffyddlaw'n i'w ymddiried, ac yn ei cholli yn lle ei chadw.

Trwy gwmp dyn, daeth Satan yn allu eto ar y ddaear y collasai hawl iddi; ac er y newyddiant hyfryd a roed arni trwy waith y chwe' diwrnod, efe a lwyddodd i'w dwyn dan y felldith yr ail waith. Ond er iddo, trwy dwyll o'i du ef, a gwendid beius o du dyn, ennill yr oruchafiaeth yn yr hen Baradwys, mae yn gysurus i ni feddwl nad ydyw achos dyn yn ei gysylltiad â'r Gwrthwynebw'r wedi ei benderfynu yn orphenol yn nghwmp Eden. Daliwyd y doeth yn ei gyfrwysdra; yn y rhwyd a guddiodd y maglwyd ei droed ei hun. Yr oedd efe wedi gwatwar dyn, delw Duw, a dirmygu Duw yn y dyn, trwy ei wawdiaith faleisus, "Chwi a fyddwch megys Duwiau!" Wele, yn nhrefn y prunedigaeth, dyma Dduw yn dyfod yn ddyn fel y gwnelid dyn megys Duw! Os collwyd arglwyddiaeth y ddaear gan y dyn cyntaf, ennillwyd yn ol yr etifeddiaeth a'r uchelfraint, gyda llawer yn hel-aethach, gan Ail Ddyn. Os cwmpodd ein cynnrychiolwr cyntaf o flaen awel temtasiwn yn ngardd Eden, yr Ail a safodd yn ngwyneb corwyntoedd cryfaf temtasiynau yn yr awialwch erchyll, yn ngardd Gethsemane, ac ar groesbren Golgotha. Mae hen dywysog y byd hwn wedi ei farnu, a'r farn hono wedi troi yn dragwyddol yn ei erbyn. Gosod y farn hono mewn gweithrediad, trwy roddi y ddaear i'r Hwn y mae yn gyflawn iddo, yw nôd mawr rhagluniaeth Duw, eiriolaeth Crist, a dylanwadau yr Ysbryd.

Dyma ni bellach wedi dyfod i ben yr yrfa a nodasom allan i ni ein hunain wrth ddechre ysgrifenu hyn o draethawd ar "Satan a'r Ddaear." Os yw ein cyfeillion wedi cael digon o amynedd i'w ddarllen o'r dechre hyd yma, nid annhebyg yw fod llawer un yn eu mysg, heblaw y brawd oer, arafaidd, y buom eisoes yn ymddyddan ychydig âg ef, wedi dywedyd fwy nag unwaith, Beth yw y ddysg newydd hon a gyhoeddir yn y *TRAEHODYDD*? Wel, ni a adroddwn yr holl gyfrinach i'n darllenwyr, oblegid y mae genym dipyn gormod o hunan-barch i gymeryd arnom fod yn fawr trwy ladrata mawredd pobl eraill. Wrth ddarllen sylwadau Dr. Baumgarten ar Act. xxvi. 18, yn Nghyfres Newydd *Clark's Foreign Theological Library*, y daethom gyntaf ar draws y syniad am Ddiafol a'i angelion fel preswlyddion gwreiddiol y ddaear. Er byred oedd yr ymdriniaeth arno yno, yr oeddem yn gorfod meddwl fod rhywbeth yn darawgar yn y golygiad, ac nid oeddem yn gallu ei anghofio. Y flwyddyn hon, derbyniasom gyfrolau Dr. Kurtz yn yr un gyfres,—"*History of the Old Covenant*;" ac fel rhagarweiniad yn y gyfrol gyntaf, yr oedd y cyfieithydd, Dr. Edersheim, wedi rhoddi talfyriad o waith yr un awdwr ar "*The Bible and Astronomy*." Yn hwnw, er ein hyfydwch

annysgwylidwy, dyma yr un golygiad am hen gysylltiad Satan â'r ddaear yn cael ei osod allan yn lled helaeth mewn cymhariaeth, ac mewn modd dyddorol iawn. Tueddid ni ar y pryd wrth ei ddarllen i roddi, pan y caffem hamdden, grynodedb o'i sylwadau ar y mater, fel anrheg i'n cydgenedl trwy gyfrwng y TRAETHODYDD. Ychydig amser yn ol, gwelsom yn ddamweiniol fod gŵr o'r America wedi cyhoeddi cyfieithiad cyflawn o'r "*Bible and Astronomy*," oddigerth yr ychydig sydd ynddo ar Ddaearreg (ond ceir crynodeb o hyny yn argraffiad Clark); a bod y gwaith hwnw wedi cael ei gyhoeddi yn Llundain (gan Sampson Low, a'i Gymdeithion). Cawsom y llyfr hwnw i'n meddiant; ac yr ydym yn gweled fod ynddo amryw benodau nad ydyw Dr. Edersheim wedi rhoddi cymaint â thalfyriad o honynt. Mae Kurtz, fel y gellid dysgwyl oddiwrth deitl y llyfr, yn trin llawer o faterion heblaw pwnc yr ysgrif hon. Llyfr odiaeth i feddylwyr ydyw, er, o bosibl, nas gellir cwbl gymeradwyo llawer syniad sydd ganddo. Gallwn nodi, wrth fyned heibio, ei fod yn rhesymu yn ardderchog a chadarn yn erbyn y dyb a welir nid yn anfynech yn nuwinyddiaeth y dyddiau hyn, fod anghenrheidrwydd am i Dduw ymgnawdoli pe na buasai dyn wedi pechu. I'r gwrthwyneb, profa efe fod yr anghenrheidrwydd am y Cnawdoliad yn gwaelodi "yn mhechod dyn, neu yn hytrach yn arfaeth gras Dwyfol, i gadw a chodi dyn, er ei gwmp a'i bechod." Pa fodd bynag, ni a ddetholasom o'r naill gyfieithiad a'r llall y prif resymau a'r sylwadau ar fater ein hysgrif. Dichon y bydd rhyw feirniadon, wedi gweled ein cyffesiad hwn, yn meddwl yn ysgafn am gyfieithiad o gyfieithiad; eithr nid felly yn gwbl y dylid edrych ar yr hyn a ysgrifenasom. Yr oedd raid i ni gael llawer edefyn o'r eiddom ein hunain i gylymu ein pigion wrth eu gilydd; a rhoddasom i mewn yn ychwanegol ambell adnod ac ambell eglurhâd a farnem yn briodol neu yn anghenrheidiol. Addefwn yma nad oeddem yn cyflwyno y syniadau blaenorol i'n darllenwyr fel "pethau a gredir yn ddi-ammheu" genym ni ein hunain, ond fel awgrymiadau y mae yn werth chwilio iddynt, a meddwl am danynt, ac edrych a yw y pethau hyn felly. Os nad yw y golygiad a gyflwynir yma yn gywir, nid ydyw mewn un modd yn heresi dinstriol; eithr os ydyw yn safadwy, y mae yn rhoddi agoriad gwerthfawr, fel y gwelsom, ar ranau pwysig o'r Gwirionedd Dwyfol. Clywsom fod Williams o'r Wern, pan yn pregethu rywdro ar wynfyd y nef, ac yn dwyn allan ryw bethau oedd yn ymddangos yn lled newydd a dyeithr ynglŷn â'r mater goruchel hwnw, yn dywedyd, "Ond fe ddywed rhywrai o honoch, mae yn debyg, Nis gellwch ddyfod âg un adnod bendant i brofi y gosodiad yna. Wel, mae yn ddigon i mi ateb hyna trwy ddywedyd, Nis gellwch chwithau ddyfod âg un adnod bendant i wrthbrofi fy ngosodiad." Felly os gwrthddadleuir nad yw yr ysgrif hon yn gallu profi ei phwnc—cysylltiad gwreiddiol Satan â'r ddaear—dichon y bydd y gwrthddadleuydd, pan yr elo i geisio, yn analluocach i'w wrthbrofi.

Dywed Kurtz, mewn un nodiad o'i eiddo, fod llawer o'r awduron goreu a diogelaf yn yr Almaen, yn awr yn dal y golygiad hwn. Heblaw Baumgarten, y mae efe yn enwi Reichel, Stier, Fr. von Schlegel, G. H. von Schubert, Kniewel, Drechsler, Rudelbach, Guericke, Libeau, A. Wagner, Michelis, Richers, Rougemont, a Delitzsch. Nid peth bychan a dibwys yw gweled meddylwyr galluocaf Germany yn dal allan fel hyn bersonoliaeth y Diafol yn y modd mwyaf dibetrus. Yn y ganrif ddiweddar, ysgrifenydd llawer yno, ac yn y wlad hon, mewn ffordd o haeru

nad yw y geiriau Diafol neu Satan yn yr Hen Destament a'r Newydd yn golygu dim ond yr egwyddor o ddrwg naturiol neu foesol mewn alegori; a cheir rhai dynsodion hunanddoeth eto yn ceisio dal yr un peth. Ond fe welir fod y syniad a ddygwyd ger bron am Satan a'r ddaear, yn sylweddu bôd a dylanwad yr un drwg yn y modd gwiraf, ac yn gwneyd adroddiadau y Bibl am dano yn ffeithiau bywiol. Pe na byddai ond hyna, nid yw yr ymchwiliadau hyn o eiddo Dr. Kurtz, a'i frodyr Allmaenig, i'w diystyru mewn un modd. Eithr y maent hefyd ynddynt eu hunain o werth mawr, fel cynnyrch ireidd-dra meddwl, ysgoleigddod Biblaidd, ac athroniaeth Gristionogol, na welir eu cyffelyb ond yn brin iawn yn y wlad hon.

Trem ar Fyd ac Eglwys.

Ni chawsom safle i roddi "trem" ar ein gwrthdrysau yn y rhifyn diweddaf o'r TRAEATHODYDD, ac y mae yn rhy debyg na chawn nemawr helaethach lle yn y rhifyn hwn.

Mae y sylwadau a baratôasom ar ddymchweliad Gweinyddiaeth Arglwydd Derby, a dychweliad Arglwydd Palmerston i'r Llywodraeth, wedi myned allan o ddyddiad er ys wythnosau bellach. Ymddengys yn awr fod y Weinyddiaeth bresennol yn debyg o ddal ei ffordd yn lled wych. Mae pwyll a phrofiad Arglwydd John Russell yn ei wneuthur yn llywydd da yn y Swyddfa Dramor, ac y mae efe a Palmerston, dybygid, yn gallu cyd-dynu yn dangnefeddus a chariadus.—Y mae llygaid y byd yn para i ymsefydlu ar Italy, ar ol peidio o'r rhyfel rhwng Ffrainc a Sardinia ar un llaw âg Awstria ar y llaw arall. Yn swta iawn y gwnaeth Ymherawdwr y Ffrancod ac Ymherawdwr Awstria gyfammod heddwch â'u gilydd; ac y mae Sardinia, ac Italy oll, ymhell oddiwrth fod yn foddllawn i'r telerau. Mae yr Italiaid, ar y cyfan, er eu holl brofedigaethau, yn gweithredu yn unol a phwylllog, ac yn ymddangos yn benderfynol o fynu llawn fwynhâd o'u rhyddid a'u hiawnderau. Llwyddiant iddynt.—Er cymaint a ddaroganir yn y wlad hon, ac a ddymuuir gan ryw bleidiau yn Ffrainc, am ryfel rhwng y Ffrancod a ninnau, nid tebyg ydyw y bydd Louis Napoleon mor ddall i'w lesiant ei hun a'i deyrnas âg ymosod yn fuan ar Brydain; eithr y mae ei waith yn ychwanegu a chryfhau ei lynges i raddau mor helaeth yn ddirgelwch nad yw yn hawdd ei ddeongli. Y mae Lloegr a Ffrainc, pa fodd bynag, yn cydfyddino eto i roddi gwersi gorthrechol i'r Chineaid truain, i ddysgu iddynt gadw eu cyfammodau.—Y mae Spaen, yn nghanol ei holl wendid, yn ceisio ymadnewyddu, ac adfeddiannu ei hen enwogrwydd, trwy ymladd â'i hen elyn, Morocco, ac yn cael ei chefnogi, meddir, i ryw bwrpas, gan Ffrainc.

Tra mae y byd mewn cynhwrf, y mae yr eglwys hefyd mewn deffrôad, yn gwisgo ei nerth a'i gogoniant, a'i Harglwydd yn troi ati i'w bywhâu a'i dyddanu. Y mae diwygiad grymus ac éang yr Iwerddon, yn destyn

syndod a sylw cyffredinol; ac y mae Cymru yn para i dderbyn yr ymweliadau graslawn. Megys yn Sir Aberteifi a rhanau o Sir Gaerfyrddin, y mae Siroedd Caernarfon a Môn, a manau lawer yn y Siroedd eraill, yn awr yn profi dylanwad nerthol yr adfywiad. Y mae ysbryd gweddi anghyffredin yn disgyn ar bob dosbarth, cannoedd a miloedd wedi eu hychwanegu at yr eglwysi, sain gorfoledd yn moddion gras, a sobrwydd ac iawn drefn yn teyrnasu ar hyd yr ardaloedd yn lle anfoesoldeb ac oferedd; fel y dywedai un yn ddiweddar am ei gymydogoeth ef, "Y mae hi yma wedi myned yn nefoedd newydd ar y sabbath, ac yn ddaear newydd ar hyd yr wythnos." Fe dybygid fod arwyddion teimlad o'r anghen am Ysbryd Duw, a dysgwiliad wrtho, yn hynodi yr holl eglwysi efengylaidd trwy y Deyrnas Gyfunol y dyddiau hyn; ac y mae pobl yr Arglwydd "trwy holl grêd" yn parotï i neillduo yr ail wythnos o Ionawr nesaf mewn gweddiau am dywalltiad cyffredinol o'r Ysbryd.

Nodiadau Llenyddol.

Mae y seithfed gyfrol o'r argraffiad newydd, hardd, a manwl, a ddygir allan gan Longman o Holl Waith Arglwydd Bacon, wedi ei chyhoeddi. Dyma yr unig argraffiad teilwng o Bacon a gyhoeddwyd erioed, ac y mae hwn yn gyfryw nad oes eisieu byth ei ragorach.

Mae argraffiad newydd o Olshausen ar y Testament Newydd yn cael ei ddwyn allan yn yr America, dan olygiad Dr. Kendrick, Profeswr yr iaith Roeg yn Mhrif-ysgol Rochester, yn Nhalaeth New York. Mae hwn nid yn unig yn llawer mwy golygus ei ymddangosiad na'r argraffiad a gyhoeddwyd gan Clark, Edinburgh, ond ar lawer o ystyriaethau eraill yn rhagori yn ddirfawr. Mae wedi ei wneyd o'r pedwerydd argraffiad gwreiddiol a ddygwyd allan yn Germany, dan olygiad Ebrard, dysgybl, cyfaill, a channlynnydd Olshausen yn y gadair dduwinyddol, yn Mhrif-ysgol Erlangen. Mae y gwaith, yn argraffiad Ebrard, yr hwn nad yw wedi cyhoeddi ond y rhanau ar yr Efengylau, er yn hanfodol yr un, eto wedi cael ei wellâu yn fawr, trwy ddiwygio gwallau amlwg, ac ychwanegu amryw sylwadau buddiol. Mae Dr. Kendrick hefyd wedi ychwanegu, yma ac acw, yn nghorff y gwaith, amryw o nodiadau tra gwerthfawr, er cyflenwi neu gywiro yr hyn a ymddengys iddo ef yn ddiffygiol neu yn wallus yn ngolygiadau Olshausen neu Ebrard. Heblaw hyn, y mae y cyfieithiad Americanaidd yn rhagori yn ddirfawr ar y cyfieithiad Prydeinig. Yn wir fe ellid meddwl fod amryw o'r rhai a ddefnyddiwyd gan Clark i ddwyn y gwaith allan yn y Saesoneg, yn gwbl anghymhwys i'r gorchwyl. Mae Dr. Kendrick yn condemnio yn y modd mwyaf difloesgni yr hyn a gyhoeddwyd gan Clark fel cyfieithiad o Olshausen ar y rhanau o'r Efengylau sydd yn cynnwys hanes prawf, croeshoeliad, ac adgyfodiad ein Gwaredwr, a'r gyfrol sydd yn cynnwys y ddau epistol at y Corinthiaid. Yn wir prin y gall ganmawl un ran o'r cyfieithiad oddieithr y rhan olaf o'r gwaith ar yr Epistol at y Rhufeiniaid, ac yn nesaf at hyn y rhan ar yr Actau. Mae yn resyn dirfawr fod gwaith mor bwysig wedi cael

ei ymddiried i ddynion anghymhwys, a bod ffwrwyth meddwl mor alluog yn cael ei golli yn gwbl yn ei wir ystyr i gynifer o ddarllenwyr. Yr ydym yn ofni fod ansawdd cyfraith y wlad hon y fath gyda golwg ar hawliau cyhoeddwy fel nas gellir gwerthu yr argraffiad Americanaidd yma.

Mae gwaith nodedig o alluog wedi ei ddwyn allau yn ddiweddar yn *America, Nature and the Supernatural, as together constituting the One System of God.* By Horace Bushnell. *Fourth Edition.* New York: Charles Scribner. London: Sampson Low, Son, & Co. 1859. Mae awdwr y llyfr hwn yn adnabyddus fel un o'r meddylwyr dwysaf, a'r ysgrifenywyr mwyaf hyawdl yn yr Unol Daleithiau, yn gystal âg am rai syniadau anghydweddol â'r hyu a olygir yn gyffredin yn unionred. Fe wél y darlennydd manylgraff ryw gymaint o'r diweddar yn y llyfr hwn. Y mae yndd o hefydrai syniadau ynghylch perthynas gwyrthiau â deddfau anian nas gallwn mewn un modd gyttuno â hwynt,—ac un bennod, y bedwar-edd ar ddeg, er profi fod gwyrthiau a doniau ysbrydol eto yn parháu, ag yr ydym yn gresynu ei bod yndd, heb fod mewn un modd yn anghreiddiol i'w ddadl, ac yn tueddu i arwain y parod eisoes i'w gwrthwynebu, i dybied nad oes dim grym ynddi. Ond, wedi y cwbl, y mae yn gyfansoddiad na chyfarfyddir ond anfynych iawn â'i gyffelyb, ac yn un o'r rhai tebycaf yn ein bryd ni i wrthweithio yn effeithiol y syniadau peryglus a daenir gan Parker, a Newman, a Martineau, ac eraill, o'r holl lyfrau a gyhoeddwyd ar y ddadl. Pris y llyfr ydyw pedwar swllt ar ddeg.

Mae y llyfrau ar wlad Canaan yn ei pherthynas â'r Ysgrythyrau yn amlhâu yn ein dyddiau. Mae yr Americanaid yn neillduol yn ymroddi i ddwyn allan rai felly. Y mae tri o'r cyfryw yn awr ger ein bron, ac oll yn amlwg yn ffwrwyth ymchwiliadau a sylwadau personol yr ysgrifenywyr. Un o honynt ydyw, *The Land and the Book; or, Biblical Illustrations drawn from the Manners and Customs, the Scenes and Scenery, of the Holy Land.* By W. M. Thomson, D.D., *Twenty five years a Missionary of the A. B. C. F. M. in Syria and Palestine. Maps, Engravings, &c. In two volumes.* London: Sampson Low & Son. Mae yr awdwr hwn, fe welir, wedi cael manteision anghyffredin i barotoi y fath waith. Y mae wedi bod am bum' mlynedd ar hugain yn preswyllo yn y gwledydd a ddarlunir ganddo, ac nid oes eisieu ond cydnabyddiaeth fechan â'r llyfr i ganfod ei fod wedi gwneyd defnydd da o'i fanteision. Pris y llyfr ydyw un swllt ar hugain. Yr ydym yn clywed fod argraffiadau rhad o hono ar gael eu cyhoeddi yn Mrydain gan ddau dŷ ar unwaith.

Y llyfr arall ydyw *Palestine, Past and Present. With Biblical, Literary, and Scientific Notices.* By Rev. Henry S. Osborn, A.M., *Prof. Natural Science in Roanoke College, Salem, Va., Member of the American Scientific Association, and Hon. Member of Malta (Mediterranean) Scientific Institute. With Original Illustrations, and a New Map of Palestine, by the Author.* London: Trübner & Co. 1859. Mae y gwaith hwn yn hynod o harddwych yn ei ymddangosiad, a'i gynwysiad yn dra addysgiadol. Ei bris yw un swllt ar hugain.

Mae y llyfr arall o'n blaen yn llawer llai rhwysgfawr ei ymddangosiad, ond yn amlwg yn ffwrwyth sylw manwl ar y wlad, a chydnabyddiaeth helaeth â'r Ysgrythyrau, *Illustrations of Scripture; suggested by a Tour through the Holy Land.* By Horatio B. Hackett, *Professor in Newton Theological Institution.* Mae amryw o'n darllenwyr yn gwybod am y gŵr hwn fel

awdwr y gwaith ar Actau yr Apostolion y galwasom sylw ato ryw amser yn ol. Nid oes eisieu dywedyd wrth y rhai cydnabyddus â'r gwaith hwnw yr hyn sydd iddynt i'w ddysgwyl mewn cyfrol fel hon. Nid ydym yn gwybod pris y gyfrol, ac nid oes cyhoeddwr Prydeinig iddi.

Gwaith arall a ddaeth i'n llaw yn ddiweddar o'r America ydyw "*The Knowledge of God, Objectively considered. Being the first part of Theology, considered as a Science of Positive Truth, both Inductive and Deductive.* A thrachefn cyfrol arall, "*The Knowledge of God, Subjectively considered. Being the second part of Theology, &c.* By Robert J. Breckinridge, D.D., LL.D., *Professor of Theology in the Seminary of Danville, Kentucky.* New York: Robert Carter & Brothers, 1858, 1859." Y mae yr awdwr yn perthyn i'r dosbarth o'r eglwys Henaduriaethol yn yr America, a elwir yr hen ysgol. Y mae yn amcanu y gwaith, o'r hwn y mae y cyfrolau presennol yn rhanau, yn gorff o Dduwinyddiaeth cyflawn, mewn ffurf mwy manwl ac ymresymiadol na dim a gyhoeddwyd eto, ac mewn iaith y gellid meddwl fod pob brawddeg, os nad pob gair o honi, wedi costio i'r awdwr lafur mawr er ei gwneyd yn gyfryw ag nas gallai y darlennydd gangwmeryd ei amcan, os cymerir ei dystiolaeth ef ei hunan. Ond nid yn fynych y cawsom ein siomi yn fwy mewn unrhyw gyfansoddiad. Nid oes yma ddim sydd newydd o unrhyw ragoriaeth; ac y mae pa beth bynag sydd werthfawr ynddo wedi ei ladrata yn gwbl o Stapper ac awdwr eraill. Pris y cyfrolau ydyw pedwar swllt ar ddeg yr un.


Fe gyhoeddwyd yn ddiweddar *Eighty Sermons on Various Subjects, Evangelical, Devotional, and Practical.* By Joseph Lathrop, D.D., *Pastor of the First Church in Westspringfield, U. S.* London: Thomas Baker, 9 Goswell Street. 1859. Mae enw Dr. Lathrop yn gwbl adnabyddus fel un o'r pregethwyr mwyaf manwl a gofalus a fu yn America erioed. Y mae ei bregethau yn gwneyd i fyny saith o gyfrolau, ac mor brin fel pan ddygwyddai copi ail-law ddyfod i'r farchnad, y gwerthai am agos dair gwaith y pris y cyhoeddesid ef ar y cyntaf. Yr ydym yn ammheus a oes tri chopi cyflawn o honynt i'w cael yn y deyrnas hon oll. Yr oedd un o honynt gan y diweddar Mr. Jay o Bath, ac nid ychydig oedd y taro rhwng y llyfrwerthwyr â'u gilydd am dano pan y gwerthwyd ei lyfrau. O'r *copi hwnw*, yr ydym yn deall, yr adargraffwyd y pedwar ugain pregeth sydd yn y gyfrol hon. Yr oedd y gŵr a ymgymerrodd â'r anturiaeth wedi bwriadu unwaith ddwyn y cyfrolau oll allan; ond rhag ofn cael colled, y mae wedi rhoddi y meddwl hwnw am ryw hyd o leiaf heibio. Os gwel y bydd y gyfrol hon yn gwerthu yn dda, fe allai yr anturia ddwyn y gweddill allan. Yr ydym yn gwir ddymuno ac yn mawr obeithio mai felly fydd. Mae y pregethau yn gyfryw ag sydd ymhob ystyr yn teilyngu hyny. Telir sylw manwl i ystyr briodol pob testyn; seilir y bregeth yn wastadol ar yr ystyr hwnw; y mae y rhaniadau yn naturiol a chymhwys; yr egluriadau yn syml ac ysgrythrol; a'r amcan yn deg ac yn dra llwyddiannus i wasgu y gwirioneddau mawr dan sylw at galon a chydwybod y darlennydd. Pris y gyfrol ydyw deg swllt a chwe cheiniog.

Y mae argraffiad newydd, wedi ei ddiwygio a'i helaethu, wedi ei ddwyn allan o "*History of the Transmission of Ancient Books to Modern Times: together with the Process of Historical Proof; or a Concise Account of the means by which the Genuineness of Ancient Literature generally, and the Authenticity of Historical Works especially, are ascertained:*

including Incidental Remarks upon the relative strength of the Evidence usually adduced in behalf of the Holy Scriptures. By Isaac Taylor. A new edition, revised and enlarged. London: Jackson & Walford. 1859. Y mae y gyfrol yn cynnwys ailargraffiad, yn gystal a rhyw gy-maint o adffurfiad i un cyfansoddiad, o ddau waith, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf er ys deng mlynedd ar hugain neu ragor bellach, ag oeddent er ys blynyddoedd yn hynod brinion, ac yn gwerthu, pan y ceid gafael arnynt, ymhell uwchlaw y pris y cyhoeddasiid hwynt ar y cyntaf. Nid oes odid un o lyfrau yr awdwr galluog yn fwy teilwng o dderbyniad a darlleniad cyffredinol; ac anhawdd iawn cyfarfod â llyfr o duedd i adael argyhoeddiad llwyrach yn meddwl y darlennydd o ddilyseidd yr hanes sanctaidd, a chadernid allanol y dadguddiad Dwysol fel sylfaen i'n ffydd yn ei holl addysg. Y mae yr awdwr, yn yr argraffiad hwn, wedi tocio rhyw gymaint ar y llyfrau wrth fel yr oeddent yn yr argraffiad cyntaf, tra y mae yr un pryd wedi ychwanegu llawer atynt, a'u gwneuthur ymhob modd yn fwy hylaw i'r efrfydd. Y mae testyn y llyfr yn hynod o ddyddorol, a'r dull yr ym-drinir âg ef yma yn gyfryw ag a allesid ddysgwyl, pan y cofir pwy ydyw yr awdwr. Pris y llyfr ydyw saith swllt a chwe cheiniog.

Gyda mawr hyfrydwch yr ydym yn galw sylw ein darllenwyr at gyfrol fechan, ddestlus, yn ein biaith ein hunain, ar destyn sydd, o bryd i bryd, wedi cael cam dirfawr oddiar ddwyllaw y rhai a gymerant arnynt ddysgu eraill—*Esboniad ar Ddammegion Crist; gan y Parch. E. Evans, Llan-gollen.* Gwrecsam: Argraffwyd gan R. Hughes & Son. 1859. Y mae y gwaith yn cynnwys sylwadau rhagarweiniol ar amryw bethau cyffredinol cysylltiedig â'r Dammegion, megys ystyr y gair dammeg; paham y llesarodd Crist ar Ddammegion; rhagoriaethau Dammegion Crist; cyfarwyddiadau i'w deall; a'r ymadrodd Dirgelion Teyrnas Nefoedd. Mae y sylwadau hyn oll yn arwyddo dirnadaeth glir ar du yr ysgrifenydd o ystyr a phwys ac anhawsderau yr amrywiol gwestiynau a ddygir ganddo dan sylw, meddwl pŵyllog a gofalus i gael allan y gwirionedd, a rhywyddineb mawr i wneyd yr hyn a ymddengys felly iddo ef, yn amlwg i'r darlennydd. Wedi y sylwadau hyn, y mae yn cymeryd y dammegion o un i un—gan roddi i ni; yn gyntaf, olwg ar amcan y ddammeg mewn cysylltiad â'r cyd-destyn, neu yr hyn oedd dan sylw gan ein Hiachawdwr pan yn ei llesaru,—lle hefyd y cawn ei hystyr gyffredinol; yna, mewn cysylltiad â thestyn y ddammeg, yr ydym yn cael eglurhâd mwy manwl ar ei hystyr, mewn rhyw fath o arall-eiriad, lle y cyflenwir gan yr awdwr bob peth a dybid ganddo ef yn anghen-rheidiol er gwneyd ei meddwl yn amlwg; a phan y dygwyddo fod gair neu ymadrodd yn gofyn rhyw sylw eglurhaol, nas galleid yn hawdd ei ddodi yn yr eglurhâd cyffredinol, yr ydym yn cael esboniad arno mewn nodiad yn ngodreu y ddalen. Y mae y cynllun, fe welir, yn un tra naturiol a hylaw, ac y mae yr awdwr wedi ei weithio allan yn y fath fodd, ag nas gall lai na sicrhâu iddo gymeradwyaeth ei holl ddarlennydd, yn neillduol y rhai mwyaf meddylgar o honynt. Ni a ddymunem ei gymhell i sylw holl aelodau yr Ysgolion Sabbothol trwy Gymru, fel un o'r cynnorthwyon goreu a allant gael, yn eu dosbarthiadau, i dreiddio i mewn i ystyr geiriau "yr Hwn na lesarodd dyn erioed yn debyg iddo," ac sydd yn cael eu prisio gan bawb cymhwys i'w gwerthfawrogi fel "geiriau y bywyd tragywyddol."





1. The first part of the document discusses the importance of maintaining accurate records of all transactions and activities. It emphasizes that proper record-keeping is essential for transparency and accountability, particularly in the context of public administration and government operations. The text notes that without reliable records, it becomes difficult to track expenditures, assess performance, and ensure that resources are being used effectively and ethically.

2. The second part of the document addresses the challenges associated with data collection and analysis. It highlights that while modern technology offers powerful tools for gathering and processing information, the quality and integrity of the data are often compromised. Issues such as incomplete reporting, inconsistent formats, and potential biases can significantly undermine the value of the data. The document suggests that implementing standardized protocols and rigorous quality control measures are necessary to overcome these challenges.

3. The third part of the document focuses on the role of leadership in fostering a culture of data-driven decision-making. It argues that leaders must not only champion the use of data but also provide the necessary support and resources for their teams. This includes training, mentorship, and the creation of an environment where data is valued and used to inform strategic decisions. The text also notes that effective communication is key to ensuring that all team members understand the importance of data and their role in maintaining its accuracy.

4. The fourth part of the document discusses the importance of collaboration and information sharing. It points out that data is often siloed within different departments or organizations, which hinders the ability to gain a comprehensive view of the overall situation. By promoting a culture of open communication and sharing information, organizations can break down these barriers and leverage the collective knowledge and expertise of all stakeholders. This collaborative approach is essential for identifying trends, spotting potential risks, and developing more effective solutions.

5. The fifth and final part of the document provides a summary of the key findings and offers recommendations for future action. It reiterates the importance of accurate record-keeping, high-quality data, strong leadership, and effective collaboration. The document concludes by stating that while the challenges are significant, they are not insurmountable. With a commitment to transparency, a focus on data quality, and a collaborative spirit, organizations can harness the power of data to drive positive change and improve their operations.





